



3 1761 07514575 5




From the Library
of
PÁDRAIG Ó BROIN



Digitized by the Internet Archive
in 2010 with funding from
University of Toronto





173
W. Owen Williams
Chapel Street
Dunwich

January 1887.

TRAETHODAU


LLENYDDOL.

GAN

L. EDWARDS, D.D.

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN R. HUGHES A'I FAB, HEOL ESTYN.



CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
Y Feddyginiaeth	9
Ysgolion Ieithyddol i'r Cymry	20
Athroniaeth a Duwinyddiaeth Coleridge	32
Coll Gwynfa	50
William Salesbury	80
Yr Eglwys a'r Wladwriaeth	93
Mr. Johnes, Syr Thomas Phillips, a'r " <i>Quarterly Review</i> "	113
Yr Undeb Eifengylaidd	127
Ysgrifeniadau Morgan Llwyd	133
Barddoniaeth y Cymry	153
Mr. Gladstone	167
Yr Hen Brifysgolion a'r Brifysgol i Gymru	176
Llyfr "Hanes y Ffydd"	190
Cyfnewidwyr Hymnau	198
"Yr Athrawes o Ddifrif"	207
Goethe	217
Athroniaeth Kant—Erthygl I. a II.	240
Thomas Charles	266
David Charles	281
Shedd ar Hanes yr Athrawiaeth	289
Llyfr yr Ymarfer o Dduwioldeb	292
Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun	310
Hanes yr Eglwys yn Geneva	327
Merched Cymru	335

TUDAL.

Yr Eglwys Rydd	340
Y Cyffrawd	345
Chalmers ac Irving	355
Arnold	364
Deddf yr Yd, a'r Weinyddiaeth Wladol	369
Addysg yn Nghymru	374
Adroddiadau y Dirprwywyr	406
Maynooth	422
Pa ham ? a Pha fodd ?	436
Adolygiad Pregethau y Diweddar Barch. David Charles, Caerfyrddin ...	453
Daniel Rowlands	475
Homer	492

CYHOEDDIADAU CYFNODOL Y CYMRŷ :—

Rhan I. a II.—“Yr Eurgrawn Cymraeg”	505
Rhan III. a IV.—“Y Cylchgrawn Cymraeg”	548
Llenyddiaeth a Gwyddiant	586
Y Pusiaid Cymreig	598
Rhesymeg	603
Addysg Cyffredinol	618
Dysgeidiaeth fel Cymhwysder i'r Weinidogaeth	622
Shakspeare a'r Cymry	629
Hamilton a Mill	636
Nodiadau ar Lyfrau	660

RHAGYMADRODD.

MAE yn debyg mai ychydig a geir yn Nghymru y dyddiau hyn o gyffelyb duedd i'r cadfridog Mahometanaidd y dywedir iddo losgi un o'r llyfrgelloedd goreu a chyflawnafl yn yr holl fyd y pryd hwnw, oblegid nas gallasai fod dim da yn y llyfrau oedd ynddi nad oedd eisoes yn y Coran. Er hyny y mae yn rhaid addef fod gradd o ragfarn yn erbyn llenyddiaeth yn ffynu eto yn ein plith; ac nid yw y cyfryw deimlad yn hollol ddiachos, oblegid y mae yn ffaith nas gellir ei gwadu fod llenyddiaeth yn rhy fynych wedi bod yn elyniaethol i grefydd, ac weithiau hyd yn nod i bob moesoldeb. Ond nad yw hyn yn bod o anghenrheidrwydd sydd yn amlwg, oblegid y mae rhai o'r beirdd a'r athronwyr enwocaf wedi bod yn ddynion gwir grefyddol; ac o'r tu arall y mae genym hanes am dduwinyddion nad oes ammheuaeth am eu crefydd yn dra hoff o lenyddiaeth, megis Ioan Aurenau, ac Awstin o Hippo. Y mae ol hyny i'w weled ar eu hysgrifeniadau; ac fel rheol gyffredin gellir cymeryd yn ganiataol am bob duwinydd sydd yn medru ysgrifenu yn dda ac yn ddestlus, ei fod yn lled gyfarwydd â'r prif awduron llenyddol.

Yn mysg yr ymdrechion a wnaed i gymodi crefydd a llenyddiaeth, efallai nad oes un wedi bod yn fwy llwyddiannus yn y blynyddocdd diweddaf na sefydliad cyhoeddiadau cyfnodol i ymdrin â phynciau llenyddol mewn ysbryd cydweddol âg egwyddorion Cristionogaeth. Hyn, dybygid, oedd y bwriad i ryw fesur wrth gychwyn yr hen *Quarterly Review*; ac er fod ei erthyglau yn llai rhyddfrydig nag y galleid dymuno, y mae yn sicr ei fod ar y cyfan yn rhagori ar yr *Edinburgh Review* mewn ansawdd focsol yn gystal ag mewn gallu llenyddol. Yr

un oedd amcan yr *Eclectic Review*, gyda'r gwahaniaeth fod ei duedd yn fwy crefyddol; ac yn y cyhoeddiad hwn yr ymddangosodd rhai o gyfansoddiadau goreu John Foster a Robert Hall. Wedi hyny ymddangosodd cyhoeddiadau eraill o'r un natur, ac yn eu plith y *North British* a'r *British Quarterly*; ac erbyn hyn efallai nad oes un cyhoeddiad cyfnodol yn cynnwys erthyglau mwy derbyniol gan y rhai sydd yn hoff o lenyddiaeth uchel nag a geir yn y *North British*. Yn ddiweddar hefyd y mae ymgais mwy egniol wedi bod i gyfarfod mewn ysbryd crefyddol â chwaeth lenyddol y werin, megis yn y *Good Words*, dan olygiad Dr. Norman Macleod, a'r *Sunday Magazine*, dan olygiad Dr. Guthrie.

Er mwyn gwneuthur rhywbeth yn y cyfeiriad hwn mewn cylch llai y sefydlwyd y *Traethodydd*, yn yr hwn yr ymddangosodd y rhan fwyaf o'r Traethodau sydd yn canlyn. Er nad oedd yr ysgrifenydd yn cyfranogi o'r teimlad hwnw sydd yn cysylltu oes y byd â'r iaith Gymraeg, yr oedd yn methu darbwyllto ei hun i gredu fod llenyddiaeth y Cymry wedi marw eto, ac yr oedd rhyw awydd angerddol yn ei fynwes er yn ieuanc i wneuthur hyny a allai tuag at ei chadw yn fyw a'i hymgeleddu. Dyma un gwahaniaeth sydd rhyngddo â llawer a gyfrifir yn noddwyr i iaith a chenedl y Cymry. Siaradant yn barchus am ein llenyddiaeth, ond y cwbl ar y dybiaeth ei bod yn awr yn llenyddiaeth farw. Dylem fod yn ddiolchgar iddynt am eu teimlad da, a'u parodrwydd i anrhydeddu ein coffadwriaeth fel cenedl; ond dylem ddangos iddynt hefyd nad ydym wedi marw, nac yn bwriadu marw yn fuan, a bod ein llenyddiaeth yn gryfach nag y bu erioed o'r blaen.

Pan ystyrir cyfyngder ein terfynau fel cenedl, nid yw yr arwyddion presennol yn ymddangos mewn un modd yn anobeithiol. Y mae y wlad yn aeddfed i dderbyn llyfrau Cymraeg a fyddont yn meddu y gradd lleiaf o deilyngdod, a phe byddai parodrwydd cyfatebol yn y rhai sydd yn alluog i ysgrifenu, byddai genym yn fuan lenyddiaeth yn yr hon y gallem ymfrostio. Wrth y rhai sydd wedi rhoddi eu hamser i lafurio mewn efrydyddiaethau llenyddol y mae yn rhaid i ni ddysgwyl, gan mai nid mewn mis, nac mewn blwyddyn, y daw neb i fedru ysgrifenu yn dda ar unrhyw bwnc. Gyda chrefftau cyffredin nid

oes neb yn dyfod yn feistr ar ei waith heb hir arferiad, a gellid meddwl gan hyny, yn ol natur pethau, na ddaw neb yn awdwr da heb lawer o lafur a rhagbarotoad.

Efallai mai mewn barddoniaeth y mae y duedd hon i gredu mewn llwyddiant heb ddim llafur yn dyfod i'r golwg yn fwyaf cyffredin. Pe byddai un yn myned i ysgrifenu traethawd, byddai yn rhaid iddo lafurio rhyw gymaint i chwilio i mewn i'r testun y mae yn bwriadu ysgrifenu arno : ond gan fod barddoniaeth yn dwyn perthynas yn fwy arbenig â'r teimlad, y mae yn naturiol i ddyn ieuanc dybied fod yr holl ddefnyddiau anghenrheidiol ynddo ef ei hun, heb ystyried mai y tân yn unig yw y teimlad, ac mai oddiallan y mae yn rhaid iddo gael y tanwydd. Y canlyniad ydyw, fod lluaws o'n pobl ieuaine yn rhoddi eu bryd ar farddoni fel y ffordd fwyaf didrafferth i gyrhaedd enwogrwydd, a bod yr hyn a gynnyrchir ganddynt, gan mwyaf, o ddiffyg tanwydd, yn hollol amddifad o dân barddonol. Mae yn wir nad yw llafur yn ddigon i gynnyrchu barddoniaeth dda ; ond heb lafur y mae yn rhwym o fod yn wael : ac os yw barddoniaeth dda yn un o'r pethau goreu, y mae yn sicr, o bob peth gwael, nad oes dim yn waelach na barddoniaeth wael.

Ond yn ychwanegol at lafur, y mae yn anheggorol anghenrheidiol i bawb a feddylant am wneuthur gwasanaeth i lenyddiaeth yn Nghymru, eu bod yn benderfynol i fyned ymlaen trwy ryw gymaint o wrthwynebiad, a hwnw weithiau o ansawdd led adgas, oblegid nid yw cenfigenau wedi darfod o'r byd eto. Er hyny nid oes un achos iddynt dybied fod y Cymry yn waeth yn yr ystyr yma na chenhedloedd eraill ; a gallant fod yn dawel yn y grediniaeth na fydd eu cydwladwyr at eu gilydd yn annioleghgar am unrhyw wasanaeth a wneir iddynt. O leiaf dyma y dystiolaeth y mae ysgrifenydd y traethodau hyn yn teimlo ci hun dan rywmau i'w rhoddi ar ol hir brofiad. Y mae wedi cyfarfod â rhai gwrthwynebiadau, yn tarddu gan mwyaf o anwybodaeth ; ond ni chafodd erioed le i feddwl eu bod wedi gwneuthur y niwed lleiaf iddo mewn un ystyr ; tra y mae y derbynriad a gafodd ei ymdrechion wedi bod yn mhell tu hwnt i'w ddysgwylid ; ac y mae yn hyfrydwch nid bychan iddo weled fod cymeradwyaeth uwch, a chanmoliaeth wresocach, wedi

eu rhoddi i'w ysgrifeniadau gan rai o enwadau eraill, ac yn arbenig gan un sydd yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrtho mewn barnau duwinyddol, na ehan rai yn perthyn i'r un enwad ag ef ei hun. Er ei fod erbyn hyn mor farw a nemawr i'r hyn a ddywedir am dano, pa un bynag ai da ai drwg, y mae teimlad o ddyledswydd yn peri iddo ddychwelyd diolchgarweh diffuant am bob cefnogaeth a dderbyniodd oddiwrth y beirniaid, ac oddiwrth ei gydwladwyr yn gyffredinol.

Wrth gydsynio i gyhoeddi yr argraffiad hwn, cyfarfyddwyd â pheth anhawsder i benderfynu trefn y traethodau. Pe buasai yr awdwr yn gallu credu eu bod yn ddigon pwysig i'w holrhain yn fanwl, er mwyn gweled pa gynnydd, neu gyfnewidiad a geir yn y syniadau, neu yn y dull o ysgrifenu, mae yn ddiau mai y drefn amseryddol a fuasai yn fwyaf priodol; hyny ydyw, eu hargraffu yma yn yr un drefn ag yr ysgrifenyd hwynt. Ond yn absennoldeb y cyfryw grediniaeth, nid oedd un llwybr gwell yn ymddangos na chyhoeddi y cwbl heb un drefn. Y mae yma lawer o ddiffygion a gwallau, amryw ond odid yn hanfod y meddyliau, o herwydd esgeulusdra neu anallu yn yr awdwr; ac eraill o natur is, yn tarddu o gamargraffiad, megis yn t.d. 132, lle y ceir "ymadroddion anfarwol" yn lle "ymadroddion anfrawdol." Ond hyderir nad oes yma ddim i lygru moes na chwaeth y darlennydd; ac mai anfynech y cyfarfyddir â brawddeg yn tueddu i archolli teimladau, heb fod rhyw ddrwg moesol yn galw am hyny; ac felly fod yr ymadroddion mor bell o fod yn "anfrawdol" ag ydynt o fod yn "anfarwol."

TRAETHODAU LLENYDDOL.

Y FEDDYGINIAETH.*

NID ychydig yw rhifedi y rhai hyny sydd yn teimlo yn y dyddiau hyn fod rhyw afiechyd marwol wedi ymaflyd yn y byd yr ydym yn byw ynddo; ac nid llawer llai yw rhifedi y rhai sydd yn gwneyd a allont, mewn amrywiol ffyrdd, tuag at ei feddyginiaethu. Pe gofynid i ni, pa beth yw yr hynodrwydd goreu sydd yn perthyn i'r oes hon uwchlaw yr oesoedd o'r blaen, nis gwyddom pa fodd i ateb yn fwy cywir na thrwy ddyweyd ei bod mewn modd arbenig yn *oes y gweithrediadau*. Ni fu dyngarwch mewn unrhyw ffurf, pa un bynag ai mewn ymdrech i daenu gwybodaeth a moesoldeb, neu mewn tosturi at gleifion a thlodion, erioed yn rhan o grefyddau paganauidd y byd. O grefydd y Bibl y tarddodd pob sefydliadau a threfniadau at lesáu dynolryw, yn dymmorol yn gystal ag yn ysbrydol. Ond oddieithr yn mysg y Cristionogion boreuaf, mae yn ammhëus a fu yr ysbryd hwn mewn un oes yn fwy gweithgar nag yw yn awr. Yn y dyddiau hyn, y mae gwlad a thref yn llawn berw a bywyd gyda rhyw ymdrechiadau beunyddiol i wneuthur daioni. Y cymdeithasau dyngarol ydynt bron yn ancirif; a phob mis, neu yn amlach na hyny, dygir rhyw gynnygiad newydd dan ein sylw. Mae y byd wedi ei ddadgymalu, ac y mae yn agos i bob dyn a dynes yn ystyried eu bod hwy wedi eu galw a'u haddasu i osod pob cymal yn ei le. Er y dymunem fod llai o swm ac ymfrost yn cydfyned â'r gweithrediadau hyn, eto pell ydym oddiwrth eu diystyru. Oes dda yw'r oes hon wedi'r cwbl. Y mae pethau mawr a rhyfedd yn cael eu gwneuthur ynddi, a phethau llawer mwy a rhyfeddach i gael eu gwneuthur cyn iddi fyned hebio.

Wrth fod arnom gymaint o alwadau, er y gallant fod i gyd o duedd ddaionus, eto gan na fedrwn roddi ein holl egni o blaid y cwbl, y mae yn weddus i ni ymfyn pa rai yw y goreu, a pha rai o ganlyniad sydd yn haeddu mwyaf o gydweithrediad. Er mwyn cael atebiad cywir i'r gofyniad hwn, fe allai mai nid anaddas fyddai rhanu holl ymdrechadau daionus yr oes yn ddau ddsbarth: yn gyntaf, y rhai sydd yn amcanu at wella amgylechiadau dynion; ac yn ail, y rhai sydd yn amcanu at wella y dynion eu hunain. Er fod cysylltiad rhwng y ddau ddsbarth a'u gilydd, oblegid fod yr amgylechiadau yn dylanwadu ar y dynion, y mae yn ymddangos i ni ar yr un pryd mai y rhai olaf sydd yn myned at wraidd y drwg, ac yn debyg o fod yn fwyaf effeithiol. Y mae rhai awdwyr yn sylwi fod pob anlawsder duwinyddol, wrth ei olrhain, yn ein harwain at ddechreuad drwg moesol: pa fodd bynag am hyny, mae yn ddiau mai dyma ffynnonell pob anlawsder ymarferol; ac mai y ffordd fwyaf llwyddiannus i symud trueni dynolryw yw eu gwneyd yn well dynion.

Pe meddylïem, fel anghraifft, am ryw ŵr haelionus yn ceisio gwneyd lles i deulu o blant anwybodus a thlodion yn ei gymydogoeth, pa fodd y byddai yn fwyaf tebyg o gyrhaedd y dyben sydd ganddo mewn golwg? Pa un ai trwy gyfranu swm blynyddol at eu cynnal, neu trwy eu rhoddi hwy ar y ffordd i ennill cynnalïaeth iddynt eu hunain? Y mae pawb yn barod i ateb mai y llwybr olaf yw y goreu—y llwybr iddo ef wneyd daioni i'r nifer fwyaf o bersonau, a'r llwybr i ennill y personau hyny i wneyd mwyaf o ddaioni iddynt eu hunain ac i eraill. Coder y dyn yn gyntaf o ran agwedd ei feddwl, dysger ef i fyw yn ddiwyd, i ymddwyn yn gyfiawn a geirwir, ac i ymddibynu dan fendith Duw ar ei ymdrechïadau ef ei hun, ac yna mae y dyn hwnw yn dra sier o wella ei amgylechiadau. Os dymunem weled yr un egwyddor mewn cylch helaethach, edrychwn am fynydd i'r Iwerddon. O ran cyfleusderau naturiol, mae y wlad hono yn rhagori ar Scotland tuhwnt i bob cymhariaeth. Pa fodd y mae cymaint llai o dlodi a thrueni yn Scotland? Y prif achos yn ddiammheu yw y gwahaniaeth dirfawr rhwng cyflyrau moesol y trigolion: ac nid oes un gobaith rhesymol am weled trueni yr Iwerddon wedi ei symud ymaith hyd nes gwneir y Gwyddelod yn well dynion. Pa bryd y daw pendefïgion a holl fawrion ein teyrnas i gredu mai drwg moesol, fel rheol gyffredin, yw yr achos o bob drwg naturiol?

Os yw ein hymresymiad yn sylfaenedig ar wirionedd, mae yn canlyn mai ychydig iawn sydd gan lywodraethwyr gwladol, fel y cyfryw, i'w wneuthur tuag at ddiwygio y byd; oblegid nid oes a fynont fel llywodraethwyr ond âg amgylchiadau y deiliaid. Moddion moesol yn benaf a fwriadwyd i wrthweithio drygau moesol; ac y mae y moddion hyny y tuallan i gyleh cyfreithiau gwladol. Mae yn canlyn hefyd mai ychydig a ddylem ninnau ddysgwyl oddiwrth seneddwyr, ac mai ychydig mewn cymhariaeth a ddylem ymyryd a materion seneddol. *Mewn cymhariaeth*, meddwn, a gobeithiwn na fydd i neb ein camddesgrifio. Mae yn ddyledswydd ar bawb i arfer pob hawlfraint sydd yn perthyn iddynt o blaid cyfiawnder ac uniondeb, hyd yn nod yn y pethau lleiaf. Yr hyn sydd genym mewn golwg yw, fod y lle blaenaf yn perthyn i grefydd a moesoldeb fel moddion i ddiwygio y byd. Dyma drefn y Nef, ac wrth syrthio i mewn a'r drefn hon y bydd ein llafur ninnau yn llwyddiannus. Os ydwyf, ddarllenwyd hynaws, fel yr ydym yn hyderu dy fod, yn teimlo awydd i fod o ryw les yn dy dymmor byr, defnyddia bob adeg, a gwna bob ymgais i gael dy gyd-ddynion, ac yn enwedig cais yn gyntaf oll am fod dy hun, yn well dyn, fel y byddo dy holl ymddygiad yn effeithio yn ddaionus ar eraill. "Diwygia gartref." Gwna ryw drefn ar dy fynwes a'th fywyd. Ac oni fyddai yn well i ti edrych tipyn ar ol y plant yna sydd genyt yn ymladd a'u gilydd, yn lle myned i'r ysgol, bob dydd, o'r boreu dan nos, ond pan fyddont yn cyduno i boeni rhyw greadur direswm, neu ryw hen wreigan anffodus a fyddo yn dygwydd myned heibio. "Beth! oni chaf fi roddi fy mhleidlais i anfon Syr Robert i'r senedd i wneyd iawn drefn ar y deyrnas?" Cei, anwyl gyfaill, cei; a chroesaw o'n rhan ni. Dyro dy bleidlais ar bob cyfrif. Nid ydym ond crybwyll yn dirion, er mwyn dy rwystro i ddyoddef siomedigaeth rhagllaw, nad yw Syr Robert a'i gyd-seneddwyr, ar ol iddynt unwaith gyfarfod yn Llundain, er dy holl ddybwyd a'th bryder mewn perthynas iddynt, yn meddwl ond ychydig am wneuthur daioni i'r wlad; i.e., am mai ychydig o ddaioni a fedrant wneuthur. Pe caniateid eu bod oll yn amcanu yn ddidwyll at bob diwygiad sydd o fewn eu cyrhaedd, ni fedrant trwy rym cyfreithiau—nid ydym yn son am yr hyn a ddylent ei wneyd trwy foddion eraill—ond trwy rym cyfreithiau ni fedrant wneyd cymaint o les ag a fedri di ei wneyd heb fyned hanner cant o latheni oddiwrth ddrws dy dŷ.

I'r dyben o ddwyn yr ymboliad ymlaen yn fwy manylaidd, ni a gymerwn rai o'r prif gynlluniau y dadleuir drostynt y dyddiau hyn fel moddion i ddiwygio y byd. Ac yn gyntaf, gadewch i ni fwrw golwg ar y cyffrawd o blaid diwygiad seneddol. Fod gan bob dyn mewn oedran a synwyr hawl i bleidleisio yn newisiad y seneddwr, os na fydd wedi colli yr hawl hono trwy droseddu cyfraith y tir, sydd yn ymddangos i ni yn ddywediad lled resymol. Pa un a fyddai yn ddoeth ac yn ddiogel i ganiatáu hyn ar unwaith i bawb sydd bwne arall. Ond diau y dylid estyn y fraint hon yn ddioced i bob pentulu. Yr ydym yn dadleu dros hyn fel mater o gyfiawnder; oblegid nid yw gwaith un dosbarth yn gwneyd cyfreithiau i orfodi y lleill yn ddim amgen na darn o weddillion caethwasanaeth. Gwir, y gall pawb feddiannu yr hawl os llwyddant yn eu hamgylechiadau tymmorol; ond yn yr un modd dichon i gaethweision ennill eu rhyddid trwy ddiwydrwydd yn America. Pan y mae y tlodion fel hyn yn cael eu cau allan fel dosbarth gwasaid, pa ryfedd fod cyfoeth-addoliaeth mor gyffredin yn Mrydain? Er hynny pe byddai yr amcan hwn wedi ei gyrhaedd, nis gallwn ddywedyd y dysgwyl i les mawr ddeillio oddiwrtho. Pan ystyriom anwybodaeth ac anfoesoldeb y rhan fwyaf o drigolion y deyrnas, mae yn anhawdd genym feddwl eu bod yn alluog i ffurfio barn gywir ar unrhyw bwne o bwys, nae yn meddu egwyddor i weithredu yn gydwytodol yn ol y farn sydd ganddynt. Os oes eisieu anghraiff, edrycher i Ffrainc. Mae y senedd bresennol yn y wlad hono, er ei dewis trwy rydd-etholiad cyffredinol, wedi gwneyd mwy yn erbyn rhyddid crefyddol a gwladol nag a wnaeth Louis Philippe yn ystod ei holl deyrnasiad. Mae yn wir fod y bobl yn y wlad hon yn fwy egwyddorol nag yn Ffrainc: ond nid cymaint ag y mae llawer yn dybied. Fel un prawf allan o lawer, meddylier am y newyddiaduron sydd yn fwyaf poblogaidd; y "*Times*" gan y dosbarth arianog, a'r "*Weekly Dispatch*" gan y werin—y ddau newyddiadur mwyaf diegwyddor sydd mewn bod. Rhaid addef fod yr anghraiff yma yn profi ar un llaw nad yw y cyfoethogion yn rhagori ar y werin; ond y mae yn profi ar y llaw arall nad yw y werin yn rhagori ar y cyfoethogion; ac nad oes nemawr o les i ddysgwyl oddiwrth ddiwygiad seneddol heb ddiwygiad moesol. Mae y werin, gyda golwg ar yr achos hwn, yn ymddangos i ni yn debyg i ŵr ieuanc wedi ei gyflwyno i ofal ymddiriedolwr, yr hwn yn lle iawn gyflawni yr ymddiried a roddwyd iddo, sydd wedi ei adael i dyfu i fyny yn anwybodus ac anwaraidd, ac wedi gwastraffu yr holl

feddiannau. Mae y gŵr ieuanc, o herwydd esgerlusdod yr ymddiriedolwr, yn amddifad o bob cymhwysder i iawn ddefnyddio ei feddiannau: ond nid yw hyn yn ddigon o reswm dros eu hattal oddiwrtho. Y mae cyfiawnder yn rhwymo yr ymddiriedolwr i adferu pob ffyrlling. Er hynny ei ddyledswydd benaf a blaenaf yw rhoddi i'r gŵr ieuanc bob hyfforddiant anghenrheidiol i'w gymhwyso i wneyd iawn ddefnydd o'i feddiannau. Yr un modd, y mae pob etholwr yn Mrydain dan rwymau hyd y gallo i fynu yr un hawlfraint i'w holl gydddeiliaid: ond ar yr un pryd, ac ymhell uwchlaw pob peth arall, dylai lafurio i eangu ac unioni eu golygiadau, fel yr arferont eu dylanwad o blaid cyfiawnder. Mor bell ag y mae unrhyw ddiwygiad i'w ddysgwyl yn y llwybr hwn, mae yn rhaid ymgeisio ato trwy ddiwygio y bobl. Ond yn y diwedd, dymunem ddwyn ar gof yr hyn a ddywedwyd yn barod, pe b'ai holl ddeiliaid Prydain yn etholwyr, a'r etholwyr hynny yn pleidio y gwirionedd, a dim ond y gwirionedd, byddai yn rhaid iddynt chwilio am ryw foddion i wneyd trefn ar y byd heblaw trwy gyfrwng cyfreithiau seneddol.

Y mae nifer mawr o ysgrifenwyr yn gosod allan mai lliosogrwydd y boblogaeth yw y prif achos o bob trueni yn y deyrnas hon, ac mai ymfudiad i America neu Australia yw yr unig feddyginiaeth. Y mae rhyw gymaint o wirionedd yn hyn eto. Pan fyddo y gofyn am unrhyw beth yn fwy na'r modd i ateb, yr effaith fydd drudaniaeth. Y mae hyn yn effeithio yn ol drachefn i gynyrehu mwy o'r nwyddau hynny y mae galwad am danynt, nes y bydd y ddwy ochr yn fuan yn gydbwys. Ond nid yw hyn mor alluadwy gyda golwg ar *dir*; a'r canlyniad ydyw, nad oes dim tebyg i gyfartaledd rhwng nifer y tyddynod yn y deyrnas hon a'r galwadau am danynt. Ond y mae fleithiau gwrthwynebol yr ochr arall yn deilwng o ystyriaeth. Y mae Mr. Macauley yn profi fod pob graddau yn Mrydain yn byw yn fwy cysurus o lawer yn awr nag oeddynt oddeutu dau can' mlynedd yn ol. Drachefn, y mae rhai gwledydd yn yr oes hon yn llai poblog nag oeddynt yn yr hen amser, ond yn llawer mwy truenus. Mae hyn yn dangos fod anghen am ryw feddyginiaeth heblaw ymfudiad. Dylid cofio hefyd, er nas gellir helaethu hyd a lled y tir, fod modd ei ddwyn i gynyrehu cy-maint arall yn hawdd; fod gwaith i'w gael hefyd heblaw trin y ddaear; ac y gellir cael ymborth ychwanegol o wledydd pellenig. Yr ydym yn crybwyll hyn, nid yn hollol i wrthwynebu, ond i gymedroli y rhai sydd yn cwyno o herwydd lliosogrwydd poblogaeth: ac yr ydym yn

credu, mor bell ag y mae gwirionedd yn y gosodiad, mai y feddygin-aeth oreu yw crefydd a moesoldeb. Pe b'ai ieuencyd ein gwlad yn teimlo fel y dylent, hwy a ofalent am ddarpariaeth ar gyfer eu teulu-oedd cyn myned i'r cyflwr priodasol; a phe b'ai pawb fel hyn yn ddyinion ystyriol a darbodus, nid ydym yn deall y byddai nemawr o berygl nac achos cwyno o herwydd lliosogrwydd y trigolion.

Nid oes neb wedi ysgrifenu yn fwy grymus ar ansawdd a helynt yr amser presennol na Thomas Carlyle. Cawr o ddyn yw Carlyle; a phan y mae yn cyfeirio ei amcan i wrthwynebu drwg moesol, y mae bron bob amser yn taraw yr hoel ar ei phen. Hyfrydweh gwirion-eddol yw edrych arno, a'i bastynffon anferthol, yn curo i lawr ddelwau twyllodrus yr oes, ac yn eu malurio yn gyrbibion mân. Llwyddiant iddo i ddynoethi pob peth gau, pa un bynag ai gau fawredd ac awdurdod, ai gau dosturi a haelioni, ai gau wybodaeth a dysgeidiaeth, ai gau grefyddolrwydd. Ond pan y mae yn myned i geisio gwella am-gylechiadau allanol y deyrnas, y mae yn siarad fel dyn arall, os nad yn ffolach na'r cyffredin. Ni fu dim erioed yn fwy gau na'r hyn y mae efe ei hun yn ei osod i fyny yn lle y gwrthddrychau gau eraill y bu mor egniol yn ceisio eu dinystrio. Nid oes gobaith am y deyrnas hon, medd efe, nes y codir rhyw arwr, rhyw ail Cromwell, i lywodraethu; yr hwn sydd i gael ei ddewis, nid gan y bobl na chan y senedd, ond gan y frenines; ac i gael pob awdurdod i roddi gwaith i bawb, ac i wneyd i bawb weithio, ac i'w saethu os na wnant. Oni buasai fod y cynllun hwn wedi dyfod oddiwrth y fath ddyn a Carlyle, ni fuasai yn haeddu mynyd o sylw. Nid yw yn ddim amgen na'r hen drefn un-benaethol ddigymysg, yr hon sydd wedi ei phrofi lawer gwaith, ac wedi methu—gyda hyn o wahaniaeth, fod y rhai a weithiant eu ffordd i ddyrechafiad trwy eu galluoedd eu hunain, fel y gwnaeth Cromwell a Napoleon, yn debycaeth o fod yn ddyinion gwir fawr na'r rhai a ddewisid yn ol cynllun Carlyle. Ond pe ceid y cyfryw ddyn, a phe gosodid ef yn ei swydd, y mae hanesiaeth yn dangos fod y daioni a wneir gan y llywodraethwyr goreu, trwy rym cyfraith, yn darfod gyda'r llywodraethwyr hyny. Nid yw ond daioni gau. Nid oes iddo wreiddyn yn hanfod a theimlad y genedl. Yn ebrwydd ar ol marwolaeth Cromwell, aeth y deyrnas hon yn fwy drygionus nag y buasai erioed o'r blaen. Yr oll a ddichon y llywodraethwyr galluocaf ei wneuthur trwy rym cyfreithiau gwladol yw codi argae i rwystro y drwg i dori allan, ac nid dyhysbyddu y tir. Ni welir gwelliant mewn un wlad ond yn

unig i'r graddau y byddo y bobl yn penderfynu gwella eu hunain; ac y mae yn rhaid eu cael i hyny trwy eu hegwyddori, ac nid trwy eu gorfodi.

Gyda phob parch i Carlyle, nis gallwn beidio meddwl fod ei olygiadan am ansawdd gwir fawredd yn dra anmherffaith. Er cymaint a ysgrifenyd ganddo yn erbyn ymddangosiadau, nid oes neb wedi talu mwy o warogaeth i fawredd ymddangosiadol. Y dyn mawr yn ol ei farn ef, yw y dyn a fyddo yn tynu mwyaf o sylw, ac yn ennill mwyaf o ddylanwad ar feddyliau dynion, beth bynag fyddo y moddion a arferir ganddo i gyrhaedd y dylanwad hwnw. Ein cred ninnau ydyw, nad oes dim gwir fawredd heb wirionedd, ac nad oes dim gwirionedd ar wahan oddiwith ddaioni. Y mawredd penaf ar ddyn yw mawredd moesol. Yn yr ystyr yma, y mae lluoedd, a aethant trwy y byd mor ddystaw ag y gallent, yn sefyll yn uwch na'r gwroniaid enwocaf y mae son am danynt ar dudalenau hanesyddiaeth. Edrychwch ar y gwagedd tyner a gwylaidd, y rhai, heb feddwl eu bod yn gwneuthur dim oedd yn werth ei gofnodi, a ddyoddefasant ferthyrddod dros eu crefydd. Dyma olygfa ddigon arddunawl i wneyd i angelion ryfeddu. Mewn cymhariaeth i hyn, beth oedd Napoleon yn St. Helena, yn treulio ei amser i rwnach o eisieu gwell ymgeledd? Sâl yn wir, a salw hefyd i'r eithaf. Yr ydym wedi llwyr fino ar y son am Gigyddion ar eu gorseddfeinciau. Mae yn bryd bellach i ni roddi mwy o barch i'r rhai hyny nad oedd y byd yn deilwng o honynt. Ac hyd yn nod pe cyfyngem ein sylw at fawredd dealldwriaethol, a daioni amserol, cawn fod y dynion a wnaethant fwyaf o les i'r byd yn y ffordd hon wedi bod gan mwyaf yn guddiedig, os nad yn ddirmygedig. Rhoddir canmoliaeth uchel i Syr Robert Peel, ac nid mwy nag a haeddai, am y gwasanaeth a wnaeth i Fasnach Rydd. Ond y cwbl a wnaeth Syr Robert Peel oedd ymollwng i nofio gyda'r ffrwd, yr hon oedd wedi tarddu draw, heb neb bron yn sylwi arni, yn meddwl Adam Smith. Nid neb o lywodraethwyr Prydain a fu yn offeryn i ddwyn oddiamgylch y chwyldroad a achlysurwyd gan yr ager-beiriant, yr hwn sydd wedi rhoddi gwedd arall ar y byd allanol; namyn James Watt, un o'r bobl gyffredin yn Scotland. Y mae ein llywodraethwyr yn awr yn hōni hawl i gryn glod oblegid eu parodrwydd i gyfranu addysg i'r tlodion: ond yr oedd lliaws o bersonau anghyhoedd yn llafurio gyda'r achos hwn, ac wedi cyflwyno eu heneidiau at y gwaith, cyn iddynt hwy agor eu llygaid. Yn raddol, ac nid heb lawer o rwystrau yn gyffredin, y

mae prif gymwynaswyr y byd yn dyfod yn adnabyddus, ac yn cnull eu ffordd i anrhydedd. A phe buasent yn cael eu hadnabod yn gynt, ac yn derbyn dyrechafiad yn fwy prydlawn, ni buasent yn medru llywodraethu teyrnasoedd, mwy nag y mae llywodraethwyr yn alluog i ddiwygio y genedl.

Y mae amryw, drachefn, o'n cydwladwyr yn barnu mai drwg y drygau yn y wlad hon, yw yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, ac mai yr unig feddyginiaeth wrth reswm yw dadgysylltiad. Nid oes genym ryw lawer i'w ddywedyd yn erbyn y farn hon ychwaith. Er nad ydym eto wedi gweled neb o honynt yn rhoddi eglurhad boddlonol ar y berthynas a ddylai fod rhwng gwladwriaeth a chrefydd, nid ydym yn teimlo y duedd leiaf i ammheu nad cyfiawnder â phawb, a bendith i'r Eglwys Esgobaethol ei hun, fyddai gadael teyrnas y Gwardwr i fyned ymlaen yn hollol ar yr egwyddor wirfoddol : a dywedwn hefyd yn ddiŵoesgni, o'r holl ymdrechïadau sydd o duedd wladwriaethol, mai hwn yw y mwyaf teilwng o gefnogaeth. Na thybier gan hyny ein bod am wrthwynebu y rhái sydd yn dadleu dros ddadgysylltu yr eglwys oddiwrth y wladwriaeth. Er hyny dylem ofalu na fyddom yn rhoddi gormod o bwys ar y mater hwn eto. Dichon, pe dattodid yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, na effeithiai hyny ond llai nag y mae llawer yn feddwl tuag at wella ansawdd grefyddol y genedl. Yr oedd crefydd wedi ei llygru cyn ei chysylltu â'r wladwriaeth yn amser Cystenin, onidê ni buasai yr eglwys yn cydsynio i dderbyn cynnalïaeth oddiwrth y llywodraeth. Ac am y gwledydd hyny lle y maent wedi eu dadgysylltu, nid ydym yn cael eu bod yn rhagori llawer ar Loegr.

Nid ydym yn dewis fod un gradd o amwysedd yn ein sylwadau ar y pwnc hwn. Ein syniad yn ddiwyll ydyw, fod y rhai sydd yn llafurio o blaid dadgysylltiad yn debyg o wneuthur lles : ac nid ydym am roddi yr amnaid lleiaf o ddiystyrwech ar eu gweithrediadau. Ond dymunem iddynt hwythau beidio diystyru Ymneillduwyr cydwbybodol sydd yn methu cydfyned a hwy yn eu holl gynlluniau. Y mae eu clywed yn iselu y cyfryw ddynion a Mr. James, o Birmingham, yn annyoddefol : oblegid dynion o'r fath yma wedi'r cwbl sydd yn llafurio yn fwyaf effeithiol, nid yn unig i ddiwygio y byd, ond i daenu Ymneillduaeth. Pe b'ai holl weinidogion yr Ymneillduwyr o bob enwad mor llafurus a Mr. James, buan y darfyddai am yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. Yr ydym ni yn credu fod yr undeb hwn mor

groes i grefydd, fel mai llafurio o blaid gwir grefydd ydyw y llwybr sicraf i'w ddinystrio. Pan lwyddodd egwyddorion efengylaidd yn Scotland nes ennill y mwyafrif, gorfu arnynt droi eu cefnau ar yr Eglwys Wladol, bodd neu anfodd. Y mae bywyd o bob math, pa un ai bywyd efengylaidd ai bywyd Puseyaid, yn gwrthryfela yn erbyn llyffetheirian. Pa fodd bynag, gall yr Eglwyswyr a ninnau ddyfod i gytundeb ar y penderfyniad a ganlyn. Y maent hwy yn barnu mai crefydd mewn cysylltiad a'r wladwriaeth sydd oreu; yr ydym ninnau yn barnu yn wahanol. Ni ddylid dysgwyl i'r naill ochr na'r llall wadu na chuddio eu barn ar hyn, nac ar un mater arall. Ond gadewch i ni ei gymeryd yn *brif* ddyben i lafurio, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, i daenu egwyddorion y Bibl, nes y byddo y cyffredinolrwydd o drigolion ein gwlad yn ddyinion duwiol. Yna, os bydd yr undeb yn hanfodi hyd hynny, ac os *dichon* i'r Eglwys fyned ymlaen wedi hynny mewn cysylltiad a'r wladwriaeth, bydd hynny yn rheswm cryf i brofi fod yr undeb yn ysgrythyrol. Fe allai y gwrthddadleuir, nad ydym yn awr ar dir teg i ymdrechu o blaid gwir grefydd, oblegid fod yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth yn rhwystro y gwirionedd i lwyddo. Beth! ai hyd yna y mae eich hyder yn north eich egwyddorion yn cyrhaedd. Yr oeddem ninnau yn arfer meddwl, ac nis gallwn beidio meddwl eto, fod gwirionedd Duw yn anorehfygol. Beth bynag fyddo cyfreithiau dynol, llwyddo wna gwirionedd heb eu cymorth, a llwyddo wna gwirionedd yr un modd er gwaethaf eu gwrthwynebiad.

Cyn y bydd ein meddwl ar y mater hwn yn berffaith eglur, mae yn anghenrheidiol i ni wneyd un sylw ychwanegol. Gyda golwg ar y dadgysylltiad, a diwygiadau gwladol eraill, cydnabyddwn yn ewylls-gar na welir yr amcanion hyn wedi eu cyflawni, heb i ryw bersonau addas ymgyflwyno yn bur llwyr at y gwaith. Mae yn rhaid i rywrai roddi eu hamser a'u hegni at hyn, fel y mae yn rhaid i ryw ddosbeirth fod yn amaethwyr, yn feddygon, yn gyfreithwyr, ac yn forwyr. Dylai *paub* ymestyn at feddu cymaint o wybodaeth am elfenau amaethyddiaeth, meddygiaeth, y gyfraith, a daearyddiaeth ag a allont gyrhaeddyd heb esgeuluso dyledswyddau eraill. Ond dylai *rhyw nifer* ymroddi i gymeryd y gwybodaethau hyn yn destunau eu hefrydiaeth mewn modd mwy neillduol. Felly dylai *paub* roddi eu llais a'u gwasanaeth, pan fyddo galwad, i bleidio rhyddid ac iawnderau gwladol: ond y mae yn weddus ac yn anghenrheidiol i *rai* eu cymeryd fel eu prif orchwyllion tymmorol. Er hynny, cofier o hyd mai gorchwyllion tymmorol ydynt.

Yn nghanol yr helynt yn eu cych, nac esgeuluser y mater mwyaf. Wrth ddywedyd hyn, nid ydym ond rhoddi yr un gocheliad ar achosion gwladwriaethol ag ydym yn ei roddi ar bob achos daearol arall. Fel y dywedem wrth yr amaethwr am ofalu na fyddo ei fryd yn rhedeg yn ormodol ar ei alwedigaeth fydol, mae yr un cyngor yn addas i'w roddi i'r diwygiwr gwladol. A thrachefn, os yw yn iawn i rai gyflwyno eu hunain i ddwyn oddiamgylch welliant amserol, ni ddylid beio ar craill a fyddo yn dewis cyflwyno eu holl enaid at welliant ysbrydol a thragywyddol eu cyd-ddynion. I'r gwrthwyneb, mewn cymhariaeth i'r dyben hwn, mae pob dyben arall yn diflanu o'r golwg.

Y feddyginiaeth fawr yn nghyfrif eraill yn y dyddiau hyn yw addysg fydol. Yma eto, nid ydym yn dewis darostwng y naill er mwyn dyrchafu y llall. Y mae addysg, i.e., addysg fydol, yn dda dros ben yn ei le ei hun. Yn erbyn ymorphwys arno fel moddion digonol i wella'r byd yr ydym yn siarad. Gellid tybied fod rhai o ysgrifenywyr a seneddwyr Lloegr yn barnu y byddai y milfwyddiant wedi dechreu pe ceid pawb i ddeall ychydig am athroniaeth naturiol. O'r ddau eithafnod, mwy synwryol yn ddiau oedd dywediad yr hèn Cobbet. Yr oedd Arglwydd Brougham unwaith yn ymfrostio fod y werin yn dyfod yn fwy gwy bodus, a'i fod yn gobeithio y byddai pob dyn tlawd, cyn hir, yn alluog i ddarllen Bacon. "Mwy rhesymol o lawer," dywedai Cobbet, "fyddai gobeithio y bydd pob dyn tlawd yn alluog i *fwyta bacon*." O'n rhan ni, byddai yn dda genym i bawb allu ei ddarllen a'i fwyta. Ond y mae yn amlwg, er fod addysg fydol yn fantais annhrisiadwy, na effeithia nemawr pellach o hono ei hun na gwella yr amgylchiadau: ac mae yn anhawdd credu y bydd yn llawer o fendith i'r wlad heb ymdrechion cyfatebol i *wella y dynion*. Nid oedd Bacon ei hunan mewn ystyr foesol ond dyn lled gyffredin. Pa bryd, meddwn eto, y daw doethion a dysgedigion i weled nad oes dim ond crefydd yn alluog i wneyd trefn ar y byd? Nid oes achos i ni ymofyn yn bresennol pa fodd y mae yr addysg grefyddol i gael ei gweinyddu; pa un ai gan yr ysgolfeistr, fel y dywed rhai, neu ynte a ddylid ei chyfyngu i'r aelwyd a'r addoldŷ, fel y dywed eraill. Ond fod gwir grefydd, yn ei hegwyddorion a'i dyledswyddau, yn cael ei dysgu mewn rhyw ddull neu gilydd i'r oes sydd yn codi sydd bwne o annhraethol bwys.

Yn awr, swm yr hyn oll a amcanwyd ei ddangos yn y sylwadau blaenorol yw hyn:—mai crefydd Crist yw yr unig feddyginiaeth ar gyfer trueni dynolryw; ac mai wrth daenu y grefydd hono y mae i ni

lwyddo i ddiwygio y byd. Wrth son am grefydd, yr ydym yn cymeryd i fewn ei holl gangenau, megys haelioni a chynildeb, dirwest a diweirdeb, a phob rhinwedd arall. Heb y rhai hyn nis gall fod mewn agwedd fywiog; a pheryglus yw ceisio ei gwahanu oddiwrthynt. Mae y pren yn derbyn cynaliaeth o'r awyr trwy y cangenau, yn gystal ag o'r ddaear trwy y gwreiddiau. Ond o'r tu arall, mae yn hanfodol anghenrheidiol fod teimlad crefyddol yn wreiddyn i bob rhinwedd. Nid oes dim ond crefydd a ddichon gyrhaedd calon dyn, a meddyginiaethu ffynnonell y dyfroedd. Gan hyny, ymwrolwch weinidogion yr efengyl, ac athrawon yr Ysgol Sabbothol, a phawb sydd yn llafurio i ennill eneidiau o gyfeiliorni eu ffyrdd. Chwi, wedi'r cwbl, yw gwir ddiwygyr y byd. Chwi sydd yn gwneyd mwyaf o ddaioni amserol: a phan fyddo amser a'i holl helyntion wedi myned heibio, ni fyddwch chwi ond dechreu gweled effeithiau eich llafur.

YSGOLION IEITHYDDOL I'R CYMRY.*

DYBEN yr ysgrif hon yw galw sylw at yr anghenrheidrwydd am ychwaneg o ysgolion ieithyddol yn Nghymru, sef ysgolion i gyfranau dysgeidiaeth ieithyddol drwyadl yn yr ieithoedd Lladin a Groeg. Nid ydym yn eu galw yn golegau nac yn athrofeydd, oblegid nid ydym yn hoffi rhoddi enwau mawrion ar bethau bychain. Hwyrach mai yr Ymneillduwyr sydd fwyaf euog yn hyn. Difai swydd gan y dyn mawr hwnw, Dr. Arnold, oedd bod yn ysgolfeistr yn "Ysgol Rugby;" ac nid oes ond *ysgolion* yn Eton a Harrow: ond gyda'r Ymneillduwyr, y mae pob sefydliad bychan yn myned ar unwaith yn goleg. Y mae yn hen bryd i ni godi yn erbyn yr arferiad ffol gwacyddol hon.

Dealler hefyd nad ydym am ymyryd â sefydliad y brifysgol y sonir am dani yn Aberhonddu. Er y buasai yn well pe cawsid rhai o bob sir yn Nghymru at eu gilydd i ymgynghori ar yr achos, ac er nas gallwn lai na meddwl fod ein cyfeillion yn Aberhonddu yn rhy barod i anghofio fod rhyw ychydig o Dywysogaeth Cymru yn hanfodi y tu allan i sir Frycheiniog, ac er y credwn yn ddiammheuol na ddylid cysylltu y brifysgol hon âg un math o Ysgol Athrawon, eto dymunwn na chaffom byth ein gollwng i wrthwynebu unrhyw amcan a fyddo o duedd dda, am nad ydym yn cytuno yn mhob ystyr â'r dull o'i ddwyn ymlaen. Pa le bynag y bydd y sefydliad hwn, gobeithiwn o eigion calon y coronir ef â llwyddiant, os caiff ei sylfaenu ar egwyddorion amhleiddgar; ac nid ydym ychwaith yn anfoddlawn i'w alw yn Goleg, neu Brifysgol, neu ryw enw mwy anrhydeddus fyth, *os bydd y sefydliad yn deilwng o'r enw*. Ond amlwg yw na fydd enw gwyech ddim amgen na gwawdiaith, oni chodir ysgolion ieithyddol i roddi dysgeidiaeth ragbarotoawl i'r ysgolëigion. Dylid cael un o leiaf c'r cyfryw ysgolion yn mhob sir, heb fod yn perthyn i blaid yn y byd, yn grefyddol na gwladol. Gellid cymeryd ysgol Rugby, neu ysgol Llanymddyfri, yr

* O'r "TRAETHODYDD" am 1849.

hon, hyderwn, a ddaw mewn amser yn ogyfuch a'r gyntaf, fel cynllun, nid gyda bwriad i godi rhai cyffelyb i'r ddwy yma mewn maintioli, ond yn unig i'w hefelychu hyd y byddo yn gyrhaeddadwy. Pe na cheid ond rhai tebyg i'r peth oedd Ystradmeurig neu Gastellhywel oddeutu deugain mlynedd yn ol, byddai hyny yn werth amcanu ato : ond os arosir heb wneyd dim, nes y byddwn yn alluog i wneyd fel y dymunem, bydd ein tymmor wedi myned heibio cyn y gwelir y gorchwyl wedi ei ddechreu.

. Ymddengys yr anghen am yr ysgolion hyn yn fwy eglur eto pan ystyriom ansawdd yr athrofeydd sydd yn perthyn i'r gwahanol bleidiau o Ymneillduwyr. Nid oes genym ni un meddylddrych am guddio ein gwaeleddau ein hunain rhag i'n gelynyion gael cyfle i'n gogannu. Na ; pa beth bynag sydd yn rhy wael i ddal goleu'r dydd, ymaith ág ef. Yn awr, na thramgwydder wrthym os gofynwn i athrawon parchus yn Ymneillduwyr, a ydynt hwy yn foddllawn i'r agwedd sydd ar nifer lliosog o'r efrydwy, gyda golwg ar eu cyrhaeddiadau mewn dysgeidiaeth, pan yn gadael yr athrofeydd ? Gwyddom fod dosbarth o efrydwy, ac nid ychydig yw eu nifer, yn troi allan o bob athrofa yn ddynion gwir ddysgedig ; sef y rhai sydd wedi cael cyfle i ymbarotoi yn dda yn mlaenllaw. Ond y mae eraill drachefn, y rhai y byddai yn garedigrwydd dyweyd wrthynt yn niwedd eu hefrydiaeth athrofaol, am ofalu, pa le bynag yr elont, na agoront eu geneuau i lefaru, ac na chymeront ysgrifell mewn llaw i ysgrifenu, ond yn unig yn iaith Gwylt Walia. Pell iawn oddiwrthym yw amcanu dyweyd dim yn anmharchus am y rhai olaf hyn ; oblegid nid arnynt hwy, druain, y mae'r bai. Ac y mae mor wir a hyny nad yw y bai ar yr athrawon. Pa beth sydd gan yr athrawon na'r ysgoleigion i'w wneuthur yn ychwaneg nag y maent yn ei wneuthur ? Os gwrthodir y dynion ieuaine, nid oes un lle i'w parotoi, heb iddynt fyned yn mhell oddicartref i ryw ysgol ddudfawr yn rhai o'r trefydd mawrion. O ganlyniad rhaid eu derbyn fel y maent, i'w dysgu yn elfenau cyntaf gramadeg. A barned pob dyn rhesymol pa beth a ellir ddysgwyl oddiwrth rai fel hyn mewn tair neu bedair blynedd. Dylasant fod am hyny o amser, o leiaf, mewn ysgol ieithyddol, ac yna galleid gwneyd rhywbeth o honynt.

Ofer i'r eithaf yw dysgwyl y cyflenwir y diffyg gan yr ysgolion Prydeinaidd, er fod y rhai hyny yn dda yn eu lle eu hunain. Ein dyledswydd yw rhoddi i *bawb* y graddau hyny o addysg gyffredinol a fyddo yn anghenrheidiol yn y cyflawniad o'u galwedigaethau, ac a

roddo iddynt hefyd gymhwysder i fyned rhagddynt ar ol hyny, os bydd ganddynt ewyllys a modd, nes y cyrhaeddont y tiriogaethau eang a bras lle y preswylia y gwroniaid sydd yn llywio meddyliau yr hil ddydol. Ond creulondeb yw eu harwain at y cyffiniau, a chodi awydd ynddynt i fwynhau y goludoedd annirnadwy sydd o'u blaen, os na alluogir hwynt i gymeryd meddiant o'r wlad: ac y mae hyny yn an-nichonadwy heb ysgolion uwch na'r rhai sydd yn awr yn cael eu sefydlu yn mhob rhan o'r Dywysogoeth. Chware teg i'r dyn â'r un dalent, yw byrdon y dyddiau hyn; a dywedwn ninnau yr un peth: ond dywedwn hefyd, chware teg i'r dyn â'r pum talent, ac i'r dyn â'r deg talent. Nid oes cydraddoldeb i fod mewn gwybodaeth mwy nag mewn cyfoeth. "Yn mhob gwlad y megir glew;" a dylai hwnw, pa le bynag y megir ef, gael cyfle teg i ddangos a defnyddio ei athrylith Y mae un dyn o athrylith yn werth mil o benbyliaid. Yn mha gornel bynag ac yn mha ddiwyg bynag y gwelwch ef, Gymry mwynlan, meithriniwch ef yn ofalus, fel y mae y gwenyn yn meithrin eu brenines. Er mwyn y cyfryw, ac er mwyn y lles a ddaw oddiwrthynt i'ch gwlad, deffröwch i godi ysgolion ieithyddol.

Dichon y bydd rhai yn dadleu fod yr athrofeydd yn ddigonol i'w perffeithio, wedi iddynt gael eu hegwyddori yn gyntaf yn yr ysgolion Prydeinaidd. Ond y mae yn hysbys am y rhan fwyaf o'r athrofeydd, nad ydynt yn agored i neb ond pregethwyr; a phe tybiem eu bod yn derbyn pawb a fyddo yn meddu y cymhwysderau gofynol mewn gwybodaeth a moesoldeb, heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng llwyth Lefi a rhyw lwyth arall, byddai y diffyg yn aros o hyd heb ei ddiwallu; oblegid darostyngiad a gwanychdod i'r athrofeydd yw eu gorfodi i dderbyn efrydwyr heb fod yn meddu ar uwch gwybodaeth nag a ddysgir yn gyffredin yn yr ysgolion Prydeinaidd.

Nid llai yw yr anghen wrth ystyried y *lliaus*. Gellir dysgwyl y bydd y nifer mwyaf o ieuenctyd ein gwlad yn derbyn, neu mewn cyfle i dderbyn, cymaint o addysg ag a wna y tro iddynt hwy yn yr ysgolion cyffredin: ond os na ddygir hwy weithiau i gyffyrddiad â dynion mwy gwybodus na hwy eu hunain, nid yw yn gofyn dirnadaeth gref i ganfod yr ânt yn fuan i dybied eu bod yn gwybod y cwbl. Y maent wedi myned felly yn barod mewn rhai manau; ac os na chodir safon dysgeidiaeth yn uwch yn ngolwg y wlad, ein cred yw, y bydd yr oes nesaf yn genedl o ddyinion mwy hunanol ac arwynebol nag un a welwyd erioed er pan ameanwyd adeiladu tŵr Babel. Nid ydym yn hêni mai

yn mychander yr addysg y mae'r drwg; oblegid rhy brin y medrwn gydweled âg Alexander Pope, fod *yehydig* o ddysg yn beryglus ynddo ei hun; ac na feddylir ein bod mewn un modd yn dymuno cyfyngu ar neb: ond yr hyn y dadleuwn drosto yw yr anghenrheidrwydd o roddi mwy o ddysg i rai; ac nid hyn y unig, ond ein bod hefyd yn rhoddi mantais i *bawb* gyrhaedd mwy os gallant, ac o'r hyn lleiaf fod *paeb* yn cael cyfle i ddeall fod mwy yn gyrhaeddadwy.

Y rhwystr mawr sydd ar y ffordd, yw syniad isel y Cymry am ansawdd a gwerth dysgeidiaeth. Dyma lle mae gwraidd yr afiechyd, a dyma lle mae eisieu cymhwyso y feddyginiaeth. Hawdd fyddai dangos pa fodd i godi rhifedi digonol o ysgolion da yn Ngogledd a Deheudir Cymru: ond, os goddefir i ni fenthyca cymhariaeth o eiddo Sophocles, y mae cynlluniau teg ar bapyr yn fwy disylwedd na "chysgod mwg," hyd nes delo y wlad i deimlo yn deilwng yn yr achos. Ond gwyddom ar yr un pryd fod yn haws cael y wlad i deimlo ac i weithredu, na llawer o bersonau sydd yn cymeryd arnynt ei harwain. Pe argyhoedd- id ein cydwladwyr i weled yn iawn pa beth yw dysgeidiaeth, ynghyd â'r gwerth sydd ynddo, byddai yr alwad yn rhwym o greu moddion digonol yn fuan tuag at ddiwallu yr anghen. Ceid gweled bechgyn doniol yn heidio i'r yehydig ysgylion ieithyddol sydd eisoes wedi eu codi. Adferid yr hen sefydliadau, a'r arian sydd yn perthyn iddynt i'w dyben cyntefig. Byddai yn chwyldroad cyffredinol yn mynd y prif copyn, yr hwn sydd yn awr wedi cymeryd meddiant o lawer hen ysgoldy enwog: ac os dygwyddai i ambell un fod yn ddigon cyfrwys i lechu yn guddiedig yn nghanol y dinystr a oddiweddai ei dy a'i dylwyth, nid bychan yn ddiau fyddai ei syndod wrth glywed iaith ardderchog yr hen Homer yn cael ei pharablu unwaith eto, swm yr hon sydd yn ddigon i swyno creadur direswm. Ac ni fyddai hyn oll ond rhan o ganlyniadau daionus y cyfnewidiad hwn. Ceid gweled y gwyr dysgedicaf yn holl drefydd Cymru, y mae rhai o honynt eisoes, yn ei chyfrif yn fraint ac yn anrhydedd i gael bod yn ysgolfeistri; a meibion y teuluoedd boneddigeiddiaf yn cael eu dwyn i fynu i'r swydd hono. Ac ni ryfeddem pe gwelid rhai o gyfoethogion ein gwlad, hyd yn nod yn y dyddiau hyn, yn efelychu sylfaenydd haelfrydig ysgol Llanymddyfri, ac yn gadael cyfran helaeth o'u meddiannau i wneyd lles cyffredinol; yn lle cadw y cwbl i fod yn felldith i'w plant ac i'w perthynasau, ac i fod yn achlysur iddynt farw cyn eu hamser. Ond cyn y gwelir hyn oll, y mae llawer i'w wneuthur tuag at oleuo y genedl, ac eangu eu golygiadau.

Mewn perthynas i ansawdd dysgeidiaeth, meddylia rhai ei fod yn gynnwysedig mewn llaw-ysgrifen dda. Mae yn wir fod lion yn gelfyddyd ddefnyddiol, fel y mae y gelfyddyd o aredig, neu wneyd esgidiau; ond y mae y tuallan yn llwyr i gyleh dysgeidiaeth. Meddylia eraill nad oes dim yn anghenrheidiol i wneyd dyn yn ddysgedig ond medru rhos o ciriau mawrion, megys *centrifugal*, a *centripetal*. Ac os bydd gan ddyn ryw grap o dair neu bedair o ieithoedd, y mae ei ddysgeidiaeth yn myned yn anfesuradwy, ac edrychir arno fel yn meddu ar alluoedd gwyrthiol. Llawer un a welwyd yn marchog yn ogoneddus ar gefn y syniad twyllodrus hwn. Ond dealler o hyn allan nad oes neb yn meddu hawl i son am ei ddysgeidiaeth, os na fydd yn alluog i gyfeithu unrhyw lyfr Lladin neu Groeg *heb gymhorth gramadeg na geirlyfr*. Dyma y dosbarth isaf: dyma y cyntedd nesaf allan. Cyn y dichon iddo gael derbyniad i'r dosbarth arall, yn yr hwn y mae y dysgedigion penaf yn cartrefu, y mae yn rhaid iddo fedru ysgrifenu Lladin a Groeg yn gywir, *heb gymhorth gramadeg na geirlyfr*, a hyny yn rhwydd ac yn rhydd. Dyma i chwi waith, lanciau Cymru; a gwaith y mae yn rhaid i chwi ymasyd ynddo o ddifrif, os ewyllysiwch fod yn ddynion dysgedig. Ond na ddigalonwch: pe caech ysgol ieithyddol dda am ddwy neu dair blynedd, i'ch gosod ar ben y ffordd; a phe rhoddech awr bob dydd wedi hyny i efrydu, yr hyn sydd lai o amser nag a dreulir gan lawer o honoch yn segur, neu yn waeth na segur, a phe parhaech i fyned ymlaen fel hyn yn ddiwyd ac yn ddiffin am bedair neu bum mlynedd, chwi a ddeuech yn ddiarwybod i chwi eich hunain yn addas i gael eich rhestru yn y dosbarth isaf, yr hwn wedi'r cwbl sydd yn cynnwys y mwyafrif o'r rhai a gyfrifir, a hyny ar dir cyfiawn, yn ddynion dysgedig. Y gwaith caletaf a gyfarfyddwch ag ef fydd deall ystyr ac effaith y *geiriau bach*. Dyma yr anhawsder mwyaf yn mhob iaith. Ond y mae gan y Cymro fantais arbenig ragor y Sais, o herwydd fod mwy o debygohrwydd, gyda golwg ar y mater hwn, yn yr ieithoedd dysgedig i'r Gymraeg, nag sydd ynddynt i'r Saesoneg. Er anghraifft, helbul dirfawr i'r Sais yw cofio y gwahaniaeth rhwng y negyddion *ou a mē*; ond i'r Cymro y mae y pwnc yn eglur ar unwaith, oblegid y mae yr un gwahaniaeth yn ei iaith ef ei hun rhwng *ni a na*. Lle yr arferir *ou* yn y Groeg, arferir *ni* neu *nid* yn y Gymraeg; a lle yr arferir *mē* yn y Groeg, arferir *na* neu *nad* yn y Gymraeg. Byddai yn llawer o gymhorth i'r Cymro pe olrhainid yn fanwl y tebygolrwydd cystrawenol rhwng y ddwy iaith.

Ond y gofyniad a deflir yn wyneb yr ymresyniad hwn ydyw, Pa les a ddeillia oddiwrth yr holl drafferth yma? I ba ddyben y rhoddwn gymaint o'n hamser i ddysgu geiriau? Yn awr, ddarllenydd hynaws, a fuost ti erioed yn ceisio meddwl heb eiriau? Os buost, ti a wyddost yn dda fod y peth yn annichonadwy. Nid gwisgoedd y meddwl yw geiriau, medd Coleridge, ond y corff, heb yr hwn nis gall y meddwl hanfodi yn y fuchedd hon. Ac o ganlyniad, wrth chwilio ystyr geiriau, a'u hansawdd, a'u grym, a'u trefn, yr ydym yn dyfod i gydnybyddiaeth â theithi hanfodol y meddwl. Ond y mae neillduolion yn perthyn i bob iaith, y rhai ydynt yn tarddu o amgylchiadau achlysurol, ac nid o gyflwr anghen y meddwl; o ganlyniad, cyn y canfyddir deddfau tragwyddol y meddwl dynol, fel yr amlygir hwy mewn iaith, y mae yn rhaid cymharu amryw ieithoedd â'u gilydd; fel y mae yr anianydd yn cymharu lliaws o ffeithiau i gael allan ddeddfau anian. Y mae y rheolau sylfaenol yr un yn mhob iaith, oblegid yr un yw hanfod y meddwl yn mhob gwlad.

Ond pan elom i draethu ein meddyliau i eraill, â'r tafod-leferydd neu mewn ysgrifen, a phan ystyriom mai geiriau yw cyfrwng cymdeithas, a moddion gwybodaeth, y mae eu pwysfawrogrwydd yn ymddangos eto yn amlyeach, a'n rhwymau ninnau i ymgyraedd at iawn arferiad o honynt. Ond pa safon a geir o barth y dull o ymadraddi, ac yn enwedig y dull o ysgrifenu? Dywedir fel hyn gan Blair; a dywedir fel arall gan Rollin, yn ei waith ar y *Belles Lettres*, neu fel y gwelsof ef unwaith wedi ei gyfeithu, "Llythyrau Bell, gan Rollin;" ond dywedwn ninnau nad yw rheolau y naill na'r llall yn werth y papyr ar yr hwn y maent yn argraffedig. Bu amser pan y dirmygid Shakspeare a Milton, ac yr edrychid ar Pope, a rhai llawer gwaelach nag ef, yn brif gampwyr mewn barddoniaeth; pan y cyfrifid y dull o ysgrifenu oedd gan Hooker, a Jeremy Taylor, a Baxter, a Howe, yn anfedrus ac afluniaiidd i'r eithaf, ac y meddyliai pawb mai eu dyledswydd oedd ceisio efelychu Dr. Johnson. Y mae dulliau newyddion yn hyn, fel yn mhob peth arall, yn cael eu cynnyg a'u hargannawl yn wresog mewn gwahanol oesau, ac yn ennill derbyniad lled gyffredin am ychydig amser. Ac yn mhob oes y mae dynion anwybodus yn dueddol i gymeryd eu hudo gan yr ymddangosiadau mwyaf tarawiadol. Yr arluniad goreu yn eu tyb hwy yw hwnw a fyddo wedi ei baentio â'r lliwiau mwyaf tanbaid; ac nis medrent weled hanner gymaint o ardderchogrwydd yn un o brif weithiau Raphael ag yn llun y llosglas

uwelben drws y tŷ tafarn. Mewn cerddoriaeth hefyd, nid y tonau mwyaf syml, ond y rhai pellaf oddiwrth hyny, sydd yn boddio y *lliaws*. A phwy a ddichon wadu nad ydynt mor barod i wyro yn eu barn am weithiau llenyddol? Yn awr, os yw syniadau y cyffredin, os yw "llais y wlad," mor anwadal ac annilys yn y mater hwn, pwy ynte sydd i farnu? A pha reol a goir i farnu wrthi? A oes dim un egwyddor ddiysgog yn gyrhaeddadwy yn nghanol yr holl amrywiaeth? Oes y mae un egwyddor anffaeledig. Nid oes eisieu ond cofio fod gwirionedd yn beth a ddeil i'w chwilio; ond mai yr olwg gyntaf ar ffug yw yr olwg oreu. Dyma yr achos fod y werin mor gyfnewidiol: y maent yn rhwym o flino yn fuan ar yr hyn nad yw ond ffugiol. Gallant gael rhyw fath o hyfrydwch wrth edrych arno am dro neu ddau, a dyna y cwbl; y mae defnydd diflasodod yn ei gyfansoddiad: ond y mae pob peth gwir fawr, neu wir brydferth, pa un bynag ai mewn natur, ai mewn celfyddyd a llenyddiaeth, yn dangos mwy o ragoriaethau o hyd wrth ei fynych a'i fanwl ystyried. Yr ydym yn cofio am liaws o lyfrau y cawsom flas mawr wrth eu darllen oddeutu 20 mlynedd yn ol; ond pan ddygwyddo i ni edrych iddynt yn awr, nis gallwn beidio rhyfeddu i ni fod erioed mor ffol; ac yr ydym yn gorfod rhoddi yr ychydig gyfansoddiadau y buom ni ein hunain yn euog o honynt yr un ffordd a hwynt. Ond y mae rhai llyfrau uwchlaw effeithio arnynt gan amser, ac yn myned yn fwy gwerthfawr trwy bob prawf a wneir o honynt. Ac yn eu plith y mae yr hen lyfrau Groegaidd a Lladinaidd y buom yn poeni uwch eu penau yn ein hienuentid. Yr un yw natur, a'r un yw gwir brydferthwch yn mhob oes a gwlad. Y mae yn wir y dichon i ddyn gynefino â natur, ac yr un modd â'r llyfrau goreu, heb ganfod eu rhagoriaethau; ond cynnefino y maent cyn ystyried. Y mae Syr Josua Reynolds yn cyfaddef iddo gael siomedigaeth ddirfawr pan aeth gyntaf i'r Ital: ni fedrai weled y prydfferthwch lleiaf yn ngweithiau dihafal yr hen baentwyr; a rhyfeddai yn ddystaw fod neb yn eu canmawl. Ond yr oedd Syr Josua wedi penderfynu y mynai wybod a oedd rhagoriaeth ynddynt ai peidio. Credodd mai arno ef ei hun yr oedd y bai; a dechreuodd fel dysgybl, cyn cymeryd arno fod yn athraw. Wrth syllu ac efrydu, yr oedd godidogrwydd Angelo a Raphael yn ymddadlenu yn raddol o flaen ei feddwl. Teimlai gynneddf newydd yn tyfu o'i fewn: ac ar ol blynyddau lawer o lafur caled, daeth yntau ei hun yn un o brif arlunwyr Prydain. Felly am danoch chwithau sydd yn methu gweled y llec a ddeillia oddiwrth fod yn gyfarwydd yn

hen ysgrifenydd Groeg a Rhufain, darllenwch hwynt, a darllenwch hwynt drachefn, nes y deuwch yn alluog i ganfod eu rhagoroldeb.

Ond os y mynych ddarlleniad ar unrhyw lyfr yw y ffordd i farnu ei deilyngdod, nid ydym nemawr nes ymlaen nag oeddynt yn y dechreu. A raid i ni ddarllen pob llyfr lawer gwaith drosodd i wybod a ydyw yn werth ei ddarllen? Y mae yn llawen genym dy glywed, anwy' ddarllenydd, yn gwneyd y sylw yna. Y mae yn profi dy fod yn ddynt llygadgraff, ac yn rhoddi cyfle i ninnau ddwyn egwyddor i'r golwg, yr hon sydd yn sylfaen i'r ewbl a ddywedwyd. Gellir cynnwys yr egwyddor hono yn y pedwar gair a ganlyn; *Ffydd yr dechreuad gwybodaeth*. Er mai at wybodaeth ieithyddol y dymunem ei chymhwyso y tro hwn yn benaf, y mae yr un egwyddor yn dwyn perthynas â phob math o wybodaeth arall. Yr oedd Syr Josua Reynolds, yn yr hanes uchod, yn credu, er nad oedd yn dirnad: a'r grediniaeth hono a barodd iddo sylhu ac ystyried, nes y daeth i ddeall rhagoriaeth yr hen baentwyr, ac i wybod hefyd fod ei enaid ei hun yn cael ei drwytho mewn teimlad dwfn o'r hyn sydd yn cyfansoddi gwir brydferthwch ac ardduniant. Felly mewn efyrdiaeth llynyddol, y mae ffydd yn gymhwysder anbegorol; oblegid nid oes modd i ni ddysgu nes y credwn fod eraill yn gwybod yn well na ni. Y peth ffolaaf a ddichon dyn ieuanc ei wneuthur yw treulio ei amser i ddarllen pob rhyw lyfrau yn ddiwahaniaeth. Y mae ganddo hawl i ymddwyn felly os bydd yn dewis; ac nid ydym am gyfyngu yn y mesur lleiaf ar ei ryddid i farnu drosto ei hun. Er hyn, mae cin tosturi, wrth ei weled yn ymdrafferthu cymaint yn ofer, yn ein cymhell i ofyn, oni fyddai yn well iddo ddechreu adeiladu bellach, yn lle treulio ei holl fywyd i chwilio am ddefnyddiau at yr adeilad? Ac nis gwyddom pa le y caiff well sylfaen na thystiolaeth gyffredinol dynolryw mewn gwahanol wledydd ac oesoedd. Nid ydym yn ceisio ganddo rwydo ei gred wrth farn bersonol neb; oblegid gall hono fod yn rhagfarnlyd. Ond pan y mae cyffredinolrwydd y dynion gwybodus, a'r rhai hyny ymhell oddiwrth eu gilydd, mewn amser a lle, yn cyd-dystiolaethu am ryw ysgrifeniadau, eu bod y cynlluniau mwyaf perffaith mewn llenyddiaeth, y mae yn rhaid i ni gredu yn ol natur pethau fod yno wir ardderchogrwydd. Ac yma y mae un fantais neillduol gan awdwyr Groeg a Rhufain, uwchlaw y rhai mwyaf campus mewn oesoedd diweddar, yn gymaint ag y maent wedi myned trwy fwy o brawf. Wrth yr hysbysiadau am y llwythau afrifed o lyfrau sydd yn dyfod o'r wasg bob blwyddyn, ac wrth weled mor wahanol yw barnau adeigywyr am

eu teilyngdod, pwy na ddymunai i ryw lifeiriant ddyfod i gario ym-
aith y sothach, heb adael dim ond yr aur ar ol. Ond y mae amser
wedi gwneyd hyn yn barod gyda chyfrolau yr hen oesoedd. Yr oedd
yr ysfa awdurol yn weithgar y dyddiau hyny, ac y mae yn naturiol i
ni feddwl ei fod yn cynnyrchu cymaint mewn cymhariaeth o lyfrau
gwael a chanolig ag yn ein dyddiau ni. Y mae y rhai hyny, modd
bynag, wedi myned i ffordd yr holl ddaear, yr un modd a'u hawdwyr.
Y mae enwau y rhan fwyaf o honynt wedi eu colli o fod. Ond y mae
pigion o ysgrifeniadau goreu y cenhedloedd mwyaf gwareiddiedig er
creadigaeth y byd wedi eu cadw yn ofalus trwy bob cyfnewidiadau, ac
yn aros hyd heddyw yn brif safon llényddiaeth. Dyma y cynlluniau
yr oedd Ioan Aurenau, ac Awstin o Hippo, Erasmus, a Melancthon, a
Calvin, a Milton, a Taylor, a Howe, yn ei chyfrif yn ddyledswydd ar-
nynt ymdrechu i'w hefelychu: ac oni raid fod hunanoldeb y dyn
hwnw yn anfesuro, sydd yn methu credu er y cwbl eu bod yn werth
eu darllen? Os nad ydym yn tybied ein hunain yn ddoethach na'r
holl ddoethion a fu yn y byd er ys mwy na deunaw cant o flynyddau,
y mae yn rhaid i ni gredu mai yr areithiwr goreu yw y tebycaf i
Demosthenes, neu Cicero; mai y bardd goreu yw y tebycaf i Homer,
neu Sophocles, neu Virgil; mai yr hanesydd goreu yw y tebycaf i
Herodotus, neu Thucydides, neu Livy, neu Tacitus; ac nad oes cyn-
lluniau rhagorach i'w cael o barth y dull goreu o ymresymu na Plato
ac Aristotle.

Nid ffydd afresymol, heb lygaid yn ei phen, yr ydym yn dadleu
drosti; ond ffydd yn sefydlogrwydd deddfau anian, yr un ffydd ag
sydd yn sylfaen i bob gwir athroniaeth. Yn lle cau allan reswm, y
mae yn agor y ffordd i reswm weithredu. O anghenrheidrwydd yr
ydym yn foddllawn i bob dyn i roddi ei reswm ei hun ar waith i farnu;
ond ei gynghori yr ydym i wrandaw a sylwi a chwilio, cyn gosod ei
hun yn farnwr: ac yna, os tueddir ef i roddi y ddedfryd yn ein herbyn,
ni fydd genym ond cyfaddef fod ganddo ef yr un hawl a ninnau i
ddadgan ei feddwl; a cheisio darbwylo ein hunain, naill ai ei fod heb
roddi ystyriaeth ddyladwy i'r pwne, neu ynte fod ei feddwl ef wedi ei
greu yn wahanol i bob meddwl arall. Hyd yn nod yn y canghenau
hyny o wybodaeth sydd yn dyfod yn fwyaf llwyr ac uniongyrchol dan
lywodraeth rheswm, anghenrhaid yw dechreu trwy ffydd. Cyfanwaith
o ymresymiad pur ydyw "Euclid;" ond nid oes neb yn gweled cad-
ernid yr ymresymiad heb lawer o lafur, ac ni cheir neb yn foddllawn i

fyned trwy y llafur hwnw heb ffydd. Y mae yn gofyn ffydd gref i wynebu ar "bont yr asynod," a lliaws o anhawsderau eraill, y rhai y mae dyn ieuanc dan orfod i fyned trwyddynt, neu roddi i fynu bob gobaith am ddeall Mesuryddiaeth. Gan hyny, dywedwn unwaith eto, a gobeithiwn y cofia y rhai hyny sydd mewn ammhueaeth ynghylch y llyfrau mwyaf buddiol i'w darllen er cryfhau a choethi eu meddyliau, mai *Ffydd yw dechreuad gwybodaeth*.

Ac nid yn unig y mae awdwyr Groeg a Rhufain yn gynlluniau perffiaith gyda golwg ar y *dull* o ysgrifenu; ond beiddiwn ddywedyd ymhellach fod *cynnwys* eu hysgrifeniadau yn eu gwneyd yn werth eu darllen yn fanwl yn mhob oes. O ran hyny y mae y naill yn anwahanol oddiwrth y llall; a gwyddent hwy yn dda nad oes modd i'r *dull* fod yn deilwng os bydd *cynnwys* yr ysgrifen yn wael. Nid oeddynt yn amcanu ysgrifenu mewn iaith ardderchog heb feddyliau, yr hyn sydd waith anhawddach na gwneuthur priddfeini heb wellt. Yr oedd pob brawddeg yn cynnwys mwy o feddwl nag a geir mewn llawer tudalen yn ysgrifeniadau y dyddiau hyn. A pha le bynag y ceir meddyliau mawrion, a'r rhai hyny yn sylfaenedig ar ryw wirionedd, y mae y darlennydd effro yn tynu addysgiadau buddiol oddiwrthynt, fel yr had yn y ddaear yn troi y defnyddiau mwyaf annhebyg yn gymmaliaeth iddo ei hun. Y mae yn wir fod rhai ysgrifeniadau doniol yn wenwyn i'r meddwl dynol, ac ni fynem er dim eu cymeradwyo; ond nid yw hyn yn briodol i'w ddywedyd am y cyfansoddiadau yr ydym yn awr yn dadleu drostynt. Os nad ydynt yn ymborth digonol i feddwl wedi ei oleuo am ei gyflwr tragwyddol, atebant y dyben yn rhagorol i wrteithio y tir, a'i wneuthur trwy hyny yn fwy gwasanaethgar at bob achos. Nid trwy farchnata mewn aur a meini gwerthfawr y daeth y nifer mwyaf o farsiantdwyr penaf Lloegr yn feddiannol ar eu cyfoeth; ond trwy eu medrusrwydd yn troi nwyddau cyffredin yn aur: ac y mae dysgu yr arferiad yma i ddyn ieuanc yn llawer mwy o les iddo nag a fyddai ei anrhegu ar unwaith ág ugain mil o bunnau. Felly y pwnc mawr mewn lléenyddiaeth yw dysgyblu y meddwl, a'i gymhwyso i weithredu drosto ei hun: ac nid oes ysgrifeniadau gwell i'w cael i'r perwyl hwn na'r rhai a adawyd i ni gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Os cefaist dy hudo, ddarlennydd hynaws, i gredu na fu dynion mawr yn y byd erioed cyn y dyddiau hyn, ni a'th gynghorem ar bob cyfrif i fwrw y meddwl yna ymhell oddiwrthynt. Os nad wyt yn deall ysgrifeniadau yr hynafiaid, agor dy lygaid i edrych ar y gweithiau ysplenydd a adawsant mewn

meini mynor. Ai yn yr oes hon, attolwg, yr adeiladwyd y Parthenon yn Athen? Ai cynnyrch yr oes hon yw y cerfiadau digyffelyb sydd i'w gwled yn yr Amgueddfa Frutanaid? Gellir dysgwyl mai rhag-ddo yr a' byd yn raddol er gwaethaf y Pab o Rufain ac Esgob Exeter: ond nis dichon iddo symud cam yn nes ymlaen, os yw pob oes i ddechreu o newydd, yn lle gwneyd defnydd o lafur y rhai sydd wedi ei rhagflaenu. Y mae gan bob oes ei gwaith ei hun. Nid oes anghen mwyach am ddarganfod deddf y dysgyrchiant na dyfeisio yr agerdd-beiriant. Y mae yn rhaid i ni ymfoddloni i fod yn ddyledus am danynt hwy i Newton a Watt. Yn yr un modd yr ydym yn ddyledus i'r Groegiaid am y llyfrau goreu i goethi y chwaethi ac i feithrin ein galluoedd rhesymol. Ac yn lle treulio amser i geisio ailwneyd yr hyn a wnaed eisoes ganddynt hwy, ein doethineb yw defnyddio ffrwyth eu llafur i'n paratoi at waith ein hoes. Er nad ydynt yn taflu goleu ar grefydd, y maent y rhai goreu a ellir gael yn eu lle eu hunain; ac nis gallwn ganiatáu fod ynddynt ddim yn niweidiol i deimlad duwiol, nes y profir fod chwaeth a rheswm yn groes i sancteiddrwydd, neu fod medrusrwydd mewn unrhyw gelfyddyd gyffredin yn rhwystro y celfyddydwr i fyw yn grefyddol. Er mor blentynaid oedd eu syniadau a'u harferion crefyddol, dichon y gallem gymeryd rhai addysgiadau oddiwrthynt, hyd yn nod mewn crefydd; fel y maent yn dangos mor dywyll am Dduw a byd arall oedd y meddyliau cryfaf heb oleuni y dadguddiad dwyfol; ac ar yr un pryd, mor "dra chrefyddol"—canys felly y dylid cyfieithu ymadrodd Paul—oedd yr hen baganiaid yn y ffordd oedd ganddynt. O'r hyn lleiaf, yn lle eu diystyru, y mae yn perthyn i ni gywilyddio wrth ystyried fod amryw o honynt yn rhagori mewn moesoldeb, o ran eu hathrawiaethau a'n bucheddau, ar liaws mawr a gyfrifir yn Cristionogion. Y mae mwy o wirioneddau yn eu hathrawiaethau nag mewn llawer truth a elwir y dyddiau hyn yn dduwinyddiaeth: a gwaredigaeth nid bychan yw diane weithiau o ganol dadwrdd rhagrithiol yr oes i gymdeithasu â rhywbeth gwirioneddol, pe na b'ai ond ar faes moesoldeb. Nid oes dim mursendod o gwmpas yr hen Homer. Nid oes dim gweniaith i dwyllwr na gormeswr yn nharanau Demosthenes. Ac y mae moesoldeb Plato yn rhagori cymaint ar gyfundraethau y rhan fwyaf o athronwyr Prydain er dyddiau Hobbes, i.e., er dyddiau Bacon, hyd yn awr, ag ydyw meddwl anfarwol yn rhagori ar y pridd sydd dan ein traed. Darllenwch hefyd yr hanesion a roddant am anghreiffiau o uniondeb a geirwiredd, y rhai sydd yn ddigon

i godi y gwrid yn donau i wynebau y Cymry. Os na wyddent ddim am wir grefydd, gwyddent beth oedd ymddygiad anrhydeddus, yr hyn ni wŷr llawer o'r Cymry. Yr oeddynt yn ddyinion trwyadl; ac y mae y digrefydd, *os bydd yn dlyn*, yn rhagori fil o weithiau ar y crefyddwr mewn enw, *os bydd yn llai na dyn*. Ond gwelwyd cyn hyn, a gwelir eto ar amserau, y ddau yn yr helaethrwydd mwyaf wedi eu cysylltu ynghyd yn yr un dynsawd—holl rinweddau y paganiaid mwyaf moesol, eu huniondeb mwyaf amhlygadwy, eu geirwiredd difrychau, a'u hunanymroddiad diariangar, wedi eu sylfaenu ar egwyddorion cadarnach, a'u bedyddio yn ysbryd yr efengyl, a'u cysegru at wasanaeth y grefydd Gristionogol. Yn y cyfryw amgylchiadau y mae crefydd mor bell oddiwrth gael ei chymylu, fel y mae yn ymddysgleirio yn amlyeach a phrydferthach, yn gyffelyb i "afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig."

Nid ydym ond dechreu ar ein rhesymau o blaid yr Ysgolion Ieithyddol. Nid ydym eto wedi cyffwrdd â'r lles a ddeillia oddiwrth wybodaeth o'r Groeg a'r Lladin, fel y maent yn ein cynnorthwyo i ddeaiaith y Saeson, a'r rhan fwyaf o ieithoedd y Cyfandir. Gallasem sylwhefyd fod y ddysgeidiaeth hon yn anheborol anghenrheidiol cyn y dichon i ni ddefnyddio y Testament Newydd yn yr iaith wreiddiol, na dirnad ystyr y dyfyniadau helaeth a geir o awdwyr Groeg a Rhufain, ynghyd â'r cyfeiriadau lliosog a wneir atynt yn ngweithiau yr ysgrifenywyr penaf mewn oesoedd diweddar. Ond y mae yr ystyriaethau hyn mor amlwg, ac wedi eu hegluro mor fynych, fel nad oes cymaint o anghen aros arnynt; a chlymerasom y cyfle hwn i draethu rhai rhesymau nad ydynt wedi derbyn yslw sydd yn ddyledus iddynt. Gobeithiwn y bydd ein sylwadau yn foddion i ddwyn llawer o ieuencyd Cymru i ochelyd ewacyddiaeth yr oes, ac i ymofyn am ddysgeidiaeth uchel a thrwyadl.

ATHRONIAETH A DUWINYDDIAETH COLERIDGE.*

[Aids to Reflection. BY SAMUEL TAYLOR COLERIDGE.]

UN o dair gormes Cymru yn y dyddiau hyn yw *cwacyddiaeth*. Gadawn y darlennydd i ddyfalu pa rai yw y lleill; ond am fodolaeth yr ormes *gwacyddol*, ac am yr effeithiau niweidiol a ddeilliant oddiwrthi, nis gall fod un ammheuaeth. Mae y dyn ieuanc wedi clywed ar ddamwain, am ryw bwne dyeithr; yr hwn, am ei fod yn newydd, sydd yn ymddangos iddo ef yn ei anwybodaeth plentynaidd yn hardd dros ben. Y mae yn credu yn ei galon ei fod wedi cael gafael ar yr *elixir vitae*, y feddyginiaeth anffaeledig i symud pob anhwydeb o'r byd; ac nid oes dim a wna y tro oni chaiff ei dirgymhell, fel peleni Parr neu Worsdell, ar bawb o'i gymydogion anffodus. Mae un arall yn penderfynu, costied a gostio, y daw efe yn ysgolhaig: mae yn prynu gramadeg Groeg ail law am ddeunaw ceiniog; mae yn dysgu swnio *tupto, tupso, tetupha*; ac yn y fan, teimla ei fod yn ddigon o ddyn i siarad yn ddibryder am yr ieithoedd gwreiddiol. Efallai ei fod wedi dyfod o hyd i un neu ddau o'r cyhoeddiadau rhataf a ddylifant allan o'r wasg Seisonig; ac am ei fod yn deall y rhai hyny yn lled rwydd, tybia nad oes un wybodaeth yn guddiedig oddiwrtho. Yr oedd cyfaill i ni yn ddiweddar mewn ewmpeini lle yr oedd Oliver Cromwell yn destun yr ymddyddan. Un o'r gwyddfodolion a gondemniai Cromwell yn ddirugaredd. Gofynnodd ein cyfaill, a oedd efe wedi darllen gwaith Thomas Carlyle, yn cynnwys holl lythyrau Cromwell. "Nac wyf fi," atebai yntau, "beth all hwnw fod? Ni welais un gair o sôn am dano yn y '*Christian Witness*.'" Mae y "*Christian Witness*" yn burion yn ei le; ond y drwg oedd, fod y gŵr yn meddwl ar ol ei ddarllen ei fod yn gwybod y cwbl. Adwaenem un arall a siaradai yn ddirmygus am "Daith y Pererin," oblegid nad oedd yr iaith yn ddigon diwylliedig. Ychydig a wyddai efe, druan, fod yr ysgrifenywyr goreu yn y deyrnas yn ystyried "Taith

* O'r "TRAETHODYDD" am 1843.

y Pererin yn gynllun mewn iaith yn gystal â mater. Rhai chwamreg iawn i feirniadu yw y dosbarth *cwacyddol*; ac ni ryfedlem un tipyn pe clywem fod rhai o honynt yn ceisio pigo gwallau hyd yn nod yn y "Traethodydd,

Pawb a'i cenfydd o bydd bai
A bawddyn, *lle ni byddai.*

Pwy fedr draethu y camwri a'r creulondeb y mae yr hen iaith Gymraeg wedi eu dyoddef oddiwrth y tylwyth hyn? Nid oes un dull o ymadroddi mewn arferiad cyffredin na raid iddynt hwy ei ddirdynu neu ei dorfynglu yn ol rhyw fymppy gwyrgam o'r eiddynt eu hunain; nes y bydd yr hen Omeraeg ei hun, er maint ei thynnerwech a'i gofal mammaethol, yn gorfod dymuno am ei gladdu o'i golwg. Ac am naw o bob deg o'r cyfnewidiadau hyn, gellid profi heb ddim trafferth mai yr hen ddull cyffredin yw y mwyaf rhëolaidd. Ond nid yw y cwbl ond prin yn werth son am dano mewn cymhariaeth i'r difrod a'r hafog a wneir ganddynt pan y dygant eu meddyliau anadfed, anfedrus, afrywog, afreolaidd, uwch ben y Bibl, ac y neidiant i'r gadair i draethu am grefydd cyn iddynt erioed ddysgu ei hegwyddorion dechreuol. Anghysur ac afles, rhwystrau a rhwygiadau, a achosir gan y bobl hyn pa le bynag y byddont; ac nid drwg genym glywed fod rhai yn sôn am eu casglu o blith pob enwad crefyddol, i ffurfio un cyfundeb *cwacyddol* rhëolaidd, o'r hwn ni ddiarddelir neb ond a fyddo yn fwy gwybodus na'i gymydogion. Ofnwn fod gormod o'r duedd hon yn y dynion ieuane sydd mewn rhai manau yn Nghymru y dyddiau hyn yn cadw cryn sôn ynghylch llyfrau Combe, ac yn cymeryd ymenyddiaeth yn lle efengyl. Yr ydym wedi bod yn ieuane ein hunain, ac yn dymuno cadw hyny bob amser mewn côf; ond yn yr amserau gwanaf a fu ar ein pen—ac yr oedd rhai o honynt yn weiniaid ddigon, y mae yn rhaid addef—ni ddygwyddodd i ni erioed fod mor ffol a hyn. Nid ydym yn barod i ddyweyd, na ddichon fod cyfundraeth Combe yn cynnwys rhyw ddarn bychan o wirionedd. Ond y mae ei chynnyg fel esboniad cyflawn ar weithrediadau meddwl dyn, ac ar holl ddirgeledigaethau ei fod a'i fywyd, yn llawer mwy ynfyd na gwaith y dyn hwnw a geisiai werthu ei dŷ, trwy gymeryd careg o'r mur a'i chario oddi amgylch fel portread o'r adeilad. Gresyn fod y Cymry mor dueddol i redeg ar ol pob hudlewyn. Pa hyd y byddant mor fwhmanllyd? Yr achos o hyn i gyd yw, fod eneidiau y cyfryw heb fod erioed dan ddysgyblaeth drwyadl. Y maent

heb ddysgu meddwl : ac ni ddysgant byth nes y deuant yn ddigon amyneddgar i dlarll'n llyfran ag sydd yn gofyn myfyrdod egniol, i ymdrechgar, a phoenus, am flynyddau, cyn y gellir eu deall. Nid ydym yn sôn yn bresennol am y dynion hyny na feddant ar encidiau ond yn unig cymaint ag a wasanaetha, fel y dywedai un hen awdur, yn lle halen, i gadw eu cyrff rhag pydrn. Ni wna y rhai hyn ddim llawer o dda na drwg. Ond y mae yn ofidus genym na b'ai ieuentyd o berchen meddwl yn cael mantais a chyfle i ddwyn y meddwl hwnw ymarferiad, trwy gymdeithasu mwy âg awduron *grir faur*. Hyn â'u dygai i weled eu hanwybodaeth eu hunain, yr hyn yw dechreuad pob gwybodaeth, ac a roddai derfyn bythol ar bob rhwysg a rhodres *gwac-yddol*. Ac nis gwyddom am ddim ysgrifeniadau a fyddai yn fwy tebyg i ateb y dybenion daionus hyn na'r eiddo Samuel Taylor Coleridge.

Yn mhen rhai blynyddau wedi i ni agor ein llygaid ar y byd lleenyddol, cododd awydd cryf ynom am ddyfod yn gydnabyddus â'r awdur hyglod hwn, trwy weled crybwylliaidau parchus am ei alluoedd mewn rhai cyhoeddiadau cyfnodol, yn enwedig "*Blackwood*" a "*Fraser's Magazine*." Ond yn y fangre lle yr oedd rhagluniaeth wedi trefnu ein preswylfod y pryd hwnw, nid oedd neb a fedrai roddi un math o hysbysiad mewn perthynas iddo. Yr un peth oedd holi am lyfrau o'r fath hyn a phe gofynasid pa weithiau awdurol oeddynt wedi eu cyhoeddi y flwyddyn hono yn y lleuad. Ond rywbryd ar ol hyn, yr oeddym mewn man yr oedd cyfle i gael gweled faint a fynem o lyfrau ar bob cangen o wybodaeth. Am rai wythnosau, nis gwyddem gan lawenydd ar ba un i ddechreu. Ar ol troi pump neu chwech o dudalennau un o honynt, fe'n meddiennid gan duedd anorchfygol i weled beth oedd mewn un arall. Ond ar ol i'r dysbeidiau gwynfydig hyn ymlonyddu i ryw radd, cymerasom mewn llaw yr "*Aids to Reflection*." Nid oedd ei faint ond bychan, a meddylasom nad oedd ond prin gwaith dau ddiwrnod o ddarllen. Agorasom ef, fel y byddwn yn arfer, ond arfer ddrwg ydyw, tua diwedd y llyfr : ond nis gwyddem pa beth i'w wneyd o hono, mwy na phe buasai wedi ei ysgrifenu yn iaith Timbuctoo. Edrychasom yn ol tua'i ddechreu. Yno, ar y cyntaf, nid oedd y dyfroedd ond at y fferau ; ond cynnyddasant yn fuan, nes cyrhaedd at y lwynau ; a chyn myned ymhell iawn, teimlem yr elfen risialaidd yn chwareu oddeutu y gwddf, ac ambell dôn arafaid, fwynaid, yn ym-dôri dros ein pen : ac am nad oeddym y pryd hwnw wedi dysgu nofio yn dda, nid oedd genym ond gwneyd am y lân yn ddiymaros. Nid

aiff y tro byth yn anghof; oblegid ni chafodd ein balehder llëenyddol erioed y fath glwyf. Braidd nad oeddym o'r blaen yn meddwl ein bod yn rhywbeth. Nid oeddym yn arfer cael ein cyfrif gan neb, ac a dyweyd y gwir nid oeddym yn cyfrif ein hunain, yn fwy penylaidd na'r cyffredin o'n cyfoedion. Yr oeddym hefyd wedi darllen Locke, a Reid, a Stewart, a Brown; ac yn tybied ein bod yn dëall pob gair. Ond dyma lyfr bychan dirodres, yr hwn nid oedd yn hōni bod yn ddim mwy na chymhorth i feddwl, wedi ein trechu yn eithaf teg. Ceisiem weniethio i ni ein hunain wethiau nad oedd yr awdur yn dëall pa beth yr oedd yn ei ysgrifenu. Hawdd iawn oedd dywedyd hyn; ond ei brofi oedd bwnc arall. Ac fel y dywed Coleridge ei hun mewn un man, nid oes gan neb hawl i gyhuddo un arall o anwybodaeth, oddi-eithr ei fod ef yn amgyffred ei anwybodaeth. Mae uniondeb y rhëol hon yn ddigon amlwg. Gwelsom a chlywsom rai yn *ceisio* bod yn dywyll, er mwyn ymddangos yn ddyfnion ac yn ddysgedig: ond erbyn i chwi gymeryd eich ffon, a'i tharaw ar ei phen yn y dwfr du, nid oes yno ond corbwl lleidiog, na fyddai arnoch arswyd dirfawr am fywyd eich plentyn pedair blwydd oed pe gwelech ef yn amcanu cerdded trwyddo. Ond nid felly Coleridge. Mor bell ag y gelliwch dreiddio i'w feddwl ef, mae y dyfroedd yn berffiaith dryloew; a phan gollwch yr olwg ar y gwaelod, yr ydych yn gorfod credu fod yno wir ddyfnder. Ond er teimlo hyn, nid oeddym yn llwyr ddigalonï. Yr oedd y crybwylliadau a welsem am yr ynysydd cyfoethog a thêg sydd yn wasgaredig ar hyd ac ar led y môr tawelog hwn yn dilyn ein meddwl ddydd a nos, nes peri i ni benderfynu na orphwysem heb gael gafael arnynt. Ar ol methu amryw droion, sylwasom yn fanylach ar ddywedriad o eiddo Awstin, yr hwn a ddyfynir gan yr awdur yn ei ragymadrodd; sef yw hyny, "Fod yn rhaid i ffydd ragflaenu dëall, fel y byddo dëall yn wobr i ffydd." Gwelsom nad oes modd dëall dim yn *fi* iawn mewn athroniaeth na dwyfyddiaeth heb gredu; ac ymfoddlonasom o'r diwedd i ymddiried ein hunain ar wyneb y dyfnder, trwy gymhorth a than gyfarwyddyd y ffydd hono, yr hon sydd yn gweled yr Anweledig, ac yn gweithredu ar egwyddorion ysbrydol a thragywyddol.

Un achos o'r anhawsder i ddëall y llyfr hwn, ynghyda llyfrau eraill o waith yr un awdur, yw dyeithrwech y meddwl iddo ei hun. Yr ysbryd anfarwol, yr hwn a fwriadwyd gan y Creawdwr i lywodraethu y syniadau corfforol, sydd o hyd yn rhy dueddol, er mwyn porthi ei ddiogi a'i esmwythder, i adael ei awdurdod i gael ei thrawsfeddiannu, nes o'r

diwedd yr alltudir ef yn hollol o'i freniniaeth. Hyd yn nod yn mysg y rhai sydd i ryw raddau yn ymofyngar am wybodaeth ac yn ymchwilio i ansawdd a helynt y byd bach oddiallan, ychydig sydd yn meddwl am y byd mawr oddifewn, yr hwn sydd yn rhan o fyd yr ysbrydoedd, ac o'r hwn y gellir cael golwg yn awr ar sylweddau a gogoniant diderfyn tragywyddoldeb. Ychydig sydd yn ystyried fod pob goleu a geir ar y byd anianyddol yn dyfod o fyd y meddwl. Y mae pob syniad corfforol yn dyweyd mai yr haul sydd yn troi oddeutu y ddaear, a bod y planedau yn crwydro yn y gwagle heb un réol na threfn. Ond trwy ymneillduo iddynt eu hunain y daeth Pythagoras, a Kepler, a Newton, yn alluog i weled trwy ymddangosiadau allanol, ac yno yn myd y meddwl y canfuasant y deddfau oesol sydd yn llywodraethu y grëadigaeth. Llauer o holi sydd wedi bod, pa beth sydd yn cyfansoddi unoliaeth (*identity*) mewn amser a lle. Y gwirionedd yw, nad oes y fath beth yn hanfodi y tu allan i bwynt y meddwl. Nid yr un dwfr sydd yn yr afon ar wahanol amserau, ac nid yr un sylwedd yw y dwfr sydd ynddi ar yr un amser mewn gwahanol fanau, er fod dyn yn ystyried y cwbl, ar wahanol amserau, mewn gwahanol fanau, yn un afon. Yr un modd y gellir dyweyd am goed y maes, am gorff dyn, ac am bob sylwedd teimladwy. Nid oes unoliaeth yn perthyn i ddim ond ysbryd. Ond y mae y meddwl dynol wedi ei alluogi i ddarostwng pob peth mewn amser a lle dan ei awdurdod ei hun. Y mae yn rhoddi ei ddelw a'i ddeddf ei hun arnynt ac iddynt. Ac er mwyn cadw trefn yn eu plith, ac fel y byddont yn gyfleus i ddyfod wrth ei alwad, y mae yn tafu cadwyn ei reswm am danynt, yn eu huno neu eu gwahanu fel y gwelo yn oreu, ac yn rhoddi yr enw hwn ar un dosbarth, a'r enw arall ar ddosbarth arall. Beth yw ein syniad drachefn am achosiad. Yr oll â welir gan y llygad yw y naill ymddangosiad yn dilyn y llall. Ond o ba le yr ydym yn cael y meddylddrych anwahanol ac anhebgorol, fod y cyntaf yn achos a'r ail yn effaith? Ac hefyd, beth yw pob teimlad o drefn, neu addurniant, neu harddwch? Beth yw lliwiau yr enfys? Beth yw tegwch y lili? Beth yw pob dymunoldeb daearol? Y mae y cwbl yn cael eu cynnyrchu gan oleuni y byd tragywyddol, yr hwn sydd yn tywynu trwy feddwl dyn, ac yn gwisgo yr holl grëadigaeth â phrydfertwch. Nid oes un gwrthddrych yn ganfyddadwy ond trwy gyfrwng y pelydrau sydd yn dyfod oddiwrtho, un ai yn wreiddiol neu yn adlewyrchiadol. Y Duw mawr ei hun yw ffynnonell pob goleuni: ond "canwyll yr Arglwydd," medd yr Ysgrhythyr, "yw ysbryd dyn," yr

hon sydd yn taflu ei llewyrch ar y byd allanol, ac yn gwneuthur ei ddeddfau a'i briodoliaethau yn weledig i'r meddwl.

Ond y mae rhyw wrthwynebrwydd rhyfoddol mewn llawer i dderbyn na chredu dim nas gallant ei deimlo, a'i fesur, a'i bwysu. Rhaid iddynt gael sylfaen ddaearol o dan eu holl drefniant, heb ystyried fod y ddaear ei hun wedi ei sylfaenu ar ddeddfau anweledig. Rhoddir cynneddfau yr ysbryd i bwysu ar syniadau corfforol, nes yr eir yn fynych i ystyried yr ysbryd fel rhywbeth cyffelyb o ran ei weithred- iadau i'r corff; oblegid o anghenrheidrwydd nis gall yr hyn a gynnelir fod yn fwy na'r hyn sydd yn ei gynnal. Y mae gormod o'r duedd hon i'w gweled yn y rhan fwyaf o'r athronwyr a ysgrifenasant ar y meddwl dynol. Meddyliem unwaith nad oedd un awdur mor gampus ar athroniaeth y meddwl â Doctor Thomas Brown; ac nid ydym eto yn ammheu nad yw yn un o'r rhai goreu i ddyd ieuanc sydd yn dechreu myfyrio y cyfryw faterion. Ond dymunem i'r efrdydd gofio, ar ol ei ddarllen yn fanwl, nad yw ond yn nghyffiniau y byd tufewnol. Nid oes ganddo eto ond golwg ar yr hyn sydd yn perthyn i ddyd yr un fath a'r anifeiliaid a ddyfethir. Ac yn wir y mae Dr. Payne, yr hwn sydd gan mwyaf yn dilyn Brown, yn cyfaddef nad oes gwahaniaeth rhwng dyn ac anifel, ond mewn graddau yn unig. Y mae ymadroddion lled debyg i'w cael hefyd yn ngwaith esgob Butler. Dyn call yw Payne, a dyn mawr oedd Butler; ond ar y pwnc hwn, hwy a lefarasant fel y llefarai un o'r ynydion. Beth, a oes dim gwahaniaeth rhwng y byd ysbrydol a'r byd anifeilaidd, neu rhwng deddf dyn a deddf yr anifel? Ai gradd uwch o'r gallu anifeilaidd sydd yn dysgu dyn i bwysu y ddaear, i fesur y ffordd i'r haul, ac i olrhain llwybrau y planedau am gannoedd o flynyddau eto i ddyfod: ac wedi gwneyd hyn oll y mae yn teimlo nad yw ond ar drothwy byd y meddwl? Y mae pellder mawr rhwng y llysiuyn a'r anifel sydd yn ymborthi arno; ond y mae pell- der annhraethol fwy rhwng yr anifel uchaf ag ysbryd anfarwol. Dyn yw arglwydd yr holl grëadigaeth ddireswm: ac i'r graddau y mae gwasanaeth Duw yn uwch na gwasanaeth dyn, i'r graddau hyny y mae cynneddfau dyn o natur uwch na dim sydd yn perthyn i'r anifel. Yn awr, os chwennychai y darlennydd gael disgrifiad o ddyd yn yr hyn ydyw, fel y mae yn gwahaniaethu oddiwrth grëaduriaid direswm, ac fel y mae yn bechadur euog a thruenus, yn dwyn perthynas â deddf ei Grëawdwr, ac â threfn iachawdwriaeth trwy ras, darlenedd lawer ar ysgrifeniadau Coleridge. Ond yr ydym yn ei rybuddio mewn pryd

fod ynddynt ryw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn debyg o'u gwyrddroi i'w dinystr eu hunain.

Coleridge yn ddiammheu oedd un o'r meddylwyr mwyaf a ymddangosodd er ys rhai oesoedd. Ac heblaw ei fod yn ddyn mawr, yr oedd hefyd yn ddyn da. Yn more ei oes, dygwyddodd iddo syrthio i blith Sosiniaid, a bu yn pregethu mewn rhai o'u capeli. Ond nid oedd y gyfundraeth hono yn rhoddi gorphwysfa i'w ysbryd ymofyngar. Wedi hyny, aeth trwy lawer o dywydd blin a chyfaewidiadau pwysfawr, yn ei feddwl yn gystal â'i amgylechiadau : ac ar ol chwilio holl ddyfnderoedd gwyboelaeth, a chyrrhaedd enwogrwydd nid bychan ar feusydd lleenyddiaeth, dygwyd ef i gyfrif y cwbl yn golled fel yr ennillai Grist. Cyrhaeddodd enwogrwydd mewn dwy ffordd, y rhai ni cheir ond anfynych yn cydgyfarfod yn yr un person, sef fel bardd ac athronydd. Y mae rhai o'r cyfansoddiadau barddonol â redasant o'i feddwl tanbaid yn dangos ei fod yn alluog, pe buasai yn dewis, i ennill gradd mor uchel fel bardd â'i gyfaill Wordsworth, sef yr un radd â Schiller a Goëthe, a'r nesaf at Shakspeare a Milton. Ond yr hyn y llafuriodd ynddo yn benaf oedd athroniaeth mewn cysylltiad â duwinyddiaeth. Soniai lawer am ysgrifenu llyfr anferthol i gynnwys ei holl olygiadau ; ond dybenodd y cwbl mewn siarad. Dywedir ei fod yn siaradwr digyfelyb. Ei hoff orchwyl oedd ymddyddan, neu yn hytrach tywallt allan ei feddyliau mawrion yn nghlywedigaeth rhyw ychydig gyfeillion, y rhai a gaent ddigon o waith i wrandaw, heb wneyd dim arall. Gofynodd unwaith i'w gyfaill Charles Lamb, "A glywsoch chwi fi, Charles, yn pregethu rywbyrd?" Atebai yntau, "Ni chlywais i chwi erioed yn gwneyd dim ond pregethu." Ond yr oedd bron yn analluadwy ei gael un amser i roddi pin ar bapyr. Gadawai fwy na hanner ei lythyrâu heb fyth eu hateb, a llawer o honynt heb gymaint â'u darllen. Hwyrach y bydd rhai o'n gohebwyr caredig ninnau yn barod i feddwl ein bod yn dwyn hyn i fewn i gyfiawnhau ein hesgeulusdra ein hunain. Wele, os rhaid dywedyd y cwbl, nis gallwn wadu nad oedd yn dda genym weled fod rhyw ddyn mawr yn debyg i ni yn hyn o beth. Ond ar yr un pryd nid ydym yn ei grybwyll fel canmoliaeth iddo ef na ninnau : namyn i ddangos paham y mae cyn lleied o fyfyrddodau Coleridge wedi ymddangos trwy yr argraffwasg. Pa fodd bynag, ni fu ei ysgrifell yn hollol segur ; oblegid gellir gweled llawer o'i olygiadau yn ei "*Biographia Literaria*," "*Friend*," "*Literary Remains*," a rhai cyfrolau eraill ; ond ceir sylwedd ei farnau ar rai o'r pynciau

pwysicaf mewn moesoldeb a chrefydd yn gryno a chynwysfawr yn yr "*Aids to Reflection.*" Ac at y llyfr hwn y tro presennol y dymunem alw sylw neillduol ein darllenwyr.

Fel anghreiffitiau, rhoddwn yma rydd-gyfieithiad o rai o'r dywediadau arweiniol.

"Un ffordd sier i roddi newydd-deb a phwysfawrogrwydd i'r rheolau mwyaf cyffredin yw myfyrio arnynt yn eu perthynas uniongyrchol â ni ein hunain.

"I ddwyn gwirionedd cyffredin yn ol i'w lewyrch cyntefig, ni raid i chwi ond yn unig ei droi i weithrediad.

"Y rhwystr mwyaf i ddyinion droi y meddwl i fewn arnynt eu hunain yw, eu bod yn ofni yr hyn a ganfyddir yno.

"Chwiliwch hanesion ein cenadau fyddlawn, nid yn unig yn mysg yr Hottentotiaid neu yr Esquimaux, ond trigolion gwareiddiedig yr hen India. Mor fynych, mor deimladol, y disgrifiant yr anhawsder i wneyd y meddyliau egluraf yn ddëalladwy i'r brodorion, oblegid fod eu gallu i sylwi yn ditfygio mor ebrwydd. Ac eto, ymhlith y rhai hyn y mae yr arferion fflaidd o hunan-boenedigaeth yn ffynu fwyaf. O! pe na byddai ffolineb yn haws na challineb, mor fuan yr ennillid hwy i dderbyn Cristionogaeth. Ond y mae crogi trwy fachau wrth y cefn, neu gerdded ar hoelion llymion trwy wadnau yr esgidiau, yn llawer llai anhawdd na myfyrio, a thrwy fyfyrrio gyrhaedd gwybodaeth a chysur.

"Y mae galluoedd y byd wedi cael eu bedyddio yn fynych, ond eu cristioneiddio yn anfynych (*often christened, but seldom christianized*). Nid ydynt ond prosielytiaid y porth: neu fel y Saeson gynt, deuant i'r wlad fel cynnorthwywyr, ac arosant ynddi fel gorchfygwyr ac arglwyddi.

"Yn y byd naturiol, yr ydym yn gwahaniaethu yr hyn ni fedrwn ei wahanu; ond yn y byd moesol, yr ydym yn gwahaniaethu er mwyn gwahanu."

Yn ei arweiniad, gesyd yr awdur o'n blaen dri o brif benau, ar y rhai y bwriada draethu. Ac er mwyn dangos perthynas y rhai hyn â'u gilydd, mae yn gwneuthur y sylwadau tra ardderchog a ganlyn:—

"Wedi ei ddeffroi gan ganiad y ceiliog (pregeth, profedigaeth, gwely cystudd, neu waredigaeth rhagluniaethol), mae y pererin Cristionogol yn cychwyn i'w daith gyda gwawr y dydd, tra y mae y gwirionedd eto islaw y terfyngylch. Rhai o ganlyniadau anghenrheidiol ei fywyd blaenorol a'i anturiaeth bresennol â welir trwy wrthdrôad (*refraction*) y goleuni; mwy a ofnir ac a dybir. Yr ymddangosiadau dychymyngol, y rhai a lywodraethent yn oriau y tywyllwch, ydynt o hyd yn ddiwyd. Er nad ydynt mwyach yn dangos eu hunain mewn agweddau penodol, y maent er hyn yn aros yn effeithiol yn enaid y pererin, yr hwn nid yw yn gwybod mai ynddo ef y mae yr achos, ac a feistrolir gan ei waith ei hun. Y mae pethau yn cymeryd arwyddlun y meddwl. Ffuriau ei freuddwyd diweddar a foldiant y gwrthdrysychau yn y pellder, a'r rhai hyn drahefnu a roddant deimlad o wirionedd allanol i ffurfiau y breuddwyd. Y dysgwyliadau a gynyrchid gan hen arfer o

humanoldeb, er eu bod yn awr yn dechreu cael eu puro i'r ofn hwnw, yr hwn yw dechreuad doethineb, a'r hwn fel y cyfryw a drefnwyd i fod yn arweinydd i ni, nes y codo haul cariad, perffaith gyfraith rhyddid—y dysgwyliadau hyn a roddant y dychymyg ar waith, ac efallai am amser a drawsffurfiant niwl a gwybodaeth amherffaith i ryw goelgrefydd benderfynol. Ond pa fodd bynag, pa un a welir hwynt yn eglur neu yn aneglur, pan ystyrir y canlyniadau hyn yn eu perthynas â'r dymuniad am ddedwyddwch a'r casineb at boen, y maent yn dyfod yn ddybenion; a'r dybenion hyn, ynghyda'r gweithredoedd a'r ymwrthodiadau a ddeilliant yn uniongyrchol oddiwrthynt, a ddylent gael eu cyfrif dan y peu o gallineb, fel yn perthyn i'r naill neu y llall o'i rywiogaethau gwahanol.

"I. Gall fod yn gallineb ag sydd yn wrthwynebol i fywyd moesol o natur uwch, ac yn tueddu i'w gau allan, ac i rwystro yr enaid i gyrrhaedd y casineb at bechod am ei fod yn dra pfechadurus (*Rhuf.* vii. 13.): a dyma gallineb drwg.

"II. Neu gall fod yn gallineb nacâol, heb fod yn anghydwedol â chynnydd ysbrydol; ac at hwn y gellir, gyda phriodoldeb neillduol, gymhwyso geiriau ein Harglwydd, 'Y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae.' Y mae gan hyuy yn gallineb diddrwg, ac felly yn addas a chanmoladwy.

"III. Neu gall arwain a bod yn wasanaethgar i egwyddor uwch nag ef ei hun. Y meddwl a'r gydwybod a gymodir ag ef, yn y rhagolwg ar yr egwyddor uwch, a chyda hiraeth am dani sydd yn arwyddo blaenbrawf o ryddid dyfodol. Yr afiach, pan yn dechreu gwella, a gymmodir a'r baglau, ac a'u harferfa yn ddi-olchgar, nid yn unig am eu bod yn anghenrheidiol er ei gynnal yn bresennol, ond hefyd am eu bod yn foddion ymarferiad, a thrwy ymarferiad i sefydlu yn raddol nerth, ac ystwythder, ac ufudd-dod parod y cyhyrau, yr hyn y mae y meddylddrych am iechyd yn ragddangos. Teimla eu gwerth yn yr anghenrheidrwydd presennol am danynt, ac hefyd fel y maent yn offerynau i symud yr anghenrheidrwydd hwnw. Dyma gallineb ffyddlawn a doeth; yr hwn, mae yn wir, sydd a'i enedigaeth yn y byd, ac y mae doethineb y byd hwn yn dad iddo; ond wedi ei naturioleiddio mewn gwlad well, a chanddo y ddoethineb oddiuchod yn feichiail ac yn dad ysbrydol. Os goddefir i mi ladrata pluen o nyth y *phoenix* (sef arabedd hoff y duwinyddion cyfriniol), dyma fab Terah o Ur y Caldëaid, yr hwn sydd yn rhoddi degwm am y cwbl i Frenin Cyfiawnder, heb dad, heb fam, heb achau; ac yn derbyn bendith ar y gweddill.

"IV. Yn olaf, gall fod yn gallineb ag sydd yn cydfyned a moesoldeb, fel y mae moesoldeb yn cydfyned a'r bywyd ysbrydol: callineb ag sydd yn gyfrwng gweithrediad i'r ddau, fel y mae y deall i'r rheswm a'r ewyllys, neu fel y mae yr ysgyfaint i'r galon a'r ymenydd. Dyma gallineb sanctaidd, y goruchwyliwr ffyddlawn a phwyllog, y gwas hynaf yn nheulu ffydd, wedi ei eni yn y ty, yr hwn a esyd ei Arglwydd ar ei deulu.

"Erfyniaf, gan hyny, na chamddealler fy amcan; fel pe bawn, trwy wahaniaethu rhinwedd oddiwrth ffydd, yn dymuno gwahanu y naill oddiwrth y llall. Gwir foesoldeb sydd elyniaethol i'r callineb hwnw yn unig, yr hwn sydd yn cau allan wir foesoldeb. Yr athraw sydd yn gwneyd callineb yn wasanaethgar i rinwedd, nid yw yn hebgor rhinwedd; ac efe yr hwn sydd yn dysgu priodol gysylltiad y naill â'r

llall, nid yw yn darostwng yr isaf mewn un ystyr ; tra wrth ei gwneuthur yn ddolen yn yr un gadwyn a'r uchaf, ac yn derbyn yr un dylanwad, y mae yn ei derchafu.

“ Yn gyffredin, gellir cymharu moesoldeb i'r gydsain ; callineb i'r llafariad. Y gyntaf nis gellir ei swnio (sef ei dwyn i ymarferiad) ond trwy offerynoldeb yr olaf.

“ Pa rai yw dyledswyddau moesoldeb, a ddysgir i'r credadyn yn gyflawn gan yr apostol, yr hwn a'u gesyd allan dan y ddau ben o nacïol a chadarnhäol ; yn nacïol, cadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd ; ac yn gadarnhäol, cariad at ei gyd-ddynion fel efe ei hun.

“ Yn olaf ac yn uchaf, y mae yn dyfod yr ysbrydol, yn cynnwys yr holl wirioneddau, gweithrediadau, a dyledswyddau, sydd yn dwyn perthynas â'r uwch-amserol, y parhaus, y tragwyddol, a chariad diragrith at y gwir fel gwirionedd, at y da fel daioni, ac at Dduw fel y ddau yn un.”

Wedi egluro ychydig fel hyn ar y prif benau, mae yr awdur yn myned ymlaen i sylwi arnynt yn helaethach. Rhoddwn yma y rhanau olaf o'i sylwadau dan y pen, Callineb ; ac os na fydd y darlennydd yn barnu eu bod yn dra goleu a gwerthfawr, y mae efe neu ni yn camsynied yn fawr.

“ Manteision y bywyd a dreulir mewn cydffurfiaid â rheolau rhinwedd a chrefydd, a'r ffyrdd lliosog ac amrywiol y maent yn arganmawl rhinwedd a chrefydd hyd yn nod ar dir callineb, ydynt faterion hyfryd i'r myfyrdod, ac yn ffynnonell meddwl adfywiol i ddyinion da a duwiol. Ac nid yw yn beth dyeithr os bydd y cyfryw bersonau, gan faint y llawenydd yn yr olwg arnynt, yn llefaru weithiau am harddwech lluniau a lliwiau wrth ddyinion y mae eu llygaid eto heb eu hagog ; neu os ymddangosant ar rai achlysuron yn cyfnewid y berthynas rhwng yr achos a'r effaith, ac yn anghofio fod gweithredoedd a phenderfyniadau o eiddo yr ewyllys a'r serchiadau, canlyniadau pa rai a ellir yn eglur eu rhagweld, ac eto ni ellir eu gwneyd yn ddybenion priodol a phenaf i'r cyfryw weithredoedd a phenderfyniadau, heb ddinystrio neu newid yn hollol natur a nodwedd yr olaf. Sophron a wŷr yn dda mai cyfoeth a dylanwad helaeth fydd y canlyniad, os ennilla serch a pharch Constantia. Ond os y rhagwybodaeth o'r canlyniad hwn sydd, ac os ceir allau ei lod, yn brif ddyben Sophron wrth geisio ei serch a'i pharch ; ac os yw Constantia yn wrag sydd yn teilyngu, neu yn alluog i deimlo, y naill neu y llall ; oni chafarfyddai Sophron (a hyny yn gyfiawn) â chasineb a diystyrwch yn eu lle ? Yn mha beth, os nad yn hyn, y mae cyfeillgarwch y bydolddyn yn wahanol i wir gyfeillgarwch ? Heb gyflawniadau serchus, a gwasanaeth buddiol, pa le bynag y byddo gallu a chyffe yn caniatâu, ni fyddai cariad ond rhagrith gwag. Er hyny, pa feddwl anrhydeddus ni theimlai ofid pe tybid ei fod yn gwerthfawrogi y cariad er mwyn y gwasanaeth, ac nid y gwasanaeth er mwyn y cariad.”

Yr ydym heb ddarfod â'r dyfyniad. Ond cyn myned ymhellach, ddarlennydd hynaws, aros i gymeryd dy anadl yn y fan yma am fynydd,

ac edrych dros y geiriau uchod unwaith eto. Yn awr, byddai yn dda genym wybod os gwelais't erioed well cymhariaeth i ddangos annigon-olrwydd pob gweithred heb ddyben cywir oddifewn, ac i ddangos hefyd beth yw natur y dyben hwnw. Os medrir ein cyfeirio at y llyfr a'r bennod lle mae y fath beth i'w gael, ymrwymwn i anrhegu yr ymgeis- ydd a'r cyflyfr am y flwyddyn hon o'r "Traethodydd" wedi ei rwymo yn hardd. "Y Traethodydd" ei hun, o anghenrheidrwydd, sydd i fod yn feirniad; oblegid nis gwyddom am un awdurdod uwch yn y deyrnas læenyddol Gymreig; a rhaid fod y dyn hwnw wedi colli ei synwrau a feddyliai am apelio at un llŷs arall. Ond awn ymlaen gyda'r dyfyniad. Yr hyn a ganlyn sydd ddau *aphorism* gwahanol, ond ar yr un mater.

"Er nad yw callineb ynddo ei hun yn rhinwedd nac yn sancteiddrwydd ysbryd- ol; eto, heb gallineb, neu mewn gwrthwynebiad iddo, nis gall rhinwedd na sanct- eiddrwydd hanfodi."

"A wyt ti dan lywodraeth pechod? yn gaethwas i arferion drwg? yn elyn i Dduw, ac yn ffoadur oddiwrth dy gydwybod dy hun? O! mor ofer yw y ddadl, pa un a yw gwrandaw ar lais callineb, oddiar ddybenion hunan-lesol, yn rhinwedd nen deilyngdod, pan y mae peidio gwrandaw yn euogrwydd, yn drueni, yn ynfyd- rwydd, ac yn anobaith. Y tosturi goreu a mwyaf Cristionogol a clli di ddangos, yw tosturio wrth dy enaid dy hun. Y gwasanaeth goreu a mwyaf derbynol a eili di ei roddi, yw gwneyd cyfiawnder a dangos trugaredd i ti dy hun."

Ar ol gadael y pwnc o gallineb, arweinir ni trwy randiroedd moes- oldeb; ond cedwir ein golwg o hyd ar ben draw y daith, sef crefydd ysbrydol; ymdrinir â phob mater yn ei berthynas â'r amcan hwnw. Hyd yn hyn, hyderwn fod y darlennydd yn deall pob gair yn ddigon didrafferth; ond dichon y bydd ambell un yn teimlo gradd o anhaws- der i weled y meddwl mewn rhai o'r darnau canlynol. Er hyny, na ddigaloned neb. Nid rhaid iddynt ond dwyn eu cynneddfau i weith- redu yn ddyfal ar bob brawddeg; ac y maent yn sicr o lwyddo. Pe na baent yn y diwedd yn alluog i gynnwys y cwbl, canfyddant ddigon i wybrwyo eu holl ymdrech, ac i greu awydd ynddynt i weled ychwaneg. Dyma y prawf goreu o ysgrifenydd gwir fawr. Y mae rhith o fawredd yn taro y meddwl anwybodus am dro. Ond os eir i edrych yn sefydlog, eilwaith ac eilwaith, nid oes yno ond ymddangosiad niwlog, disylwedd. O'r tu arall, po fwyaf a syllir ar y gwir, mwyaf a welir o'i brydferth- wech a'i ogoniant. Gymry hawddgar, ein cyngor ni yw, Darllenwch

rywbeth a ddeil i chwi syllu arno. Ond cyn myned yn rhy bell oddiwrth ein hawdur, dychwelwn i rodli y dyfyniad a ganlyn dan y pen, Moesoldeb.

“Yn y byd, gwelir yn mhob man brofion o undod, yr hwn y mae y rhanau cyfansoddol mor bell oddiwrth ei esbonio, fel y maent o anghenrheidrwydd yn ei ragdybied fel yr achos a'r ammod o'u bodolaeth fel y cyfryw ranau; neu hyd yn nod o'u bodolaeth o gwbl. Yr undod rhagflaenol hwn, neu achos ac egwyddor pob undeb, a elwir yn gyffredin er amser Bacon a Kepl'r yn ddeddf. Gall y darlennydd ddwyn o flaen ei ddechymyg y *crocus* hwn, er anghraifft, neu ryw lysiennyn arall. Fod y gwraidd, y dail, &c., yn glynu wrth un planigyn, sydd effaith rhyw allu neu egwyddor ragflaenol yn yr hedyn, ag oedd yn bod cyn i un gronyn o'r defnyddiau a gyfansoddant faintioli y *crocus* gael ei sugno o'r pridd, yr awyr, neu y gwlybwr amgylchynol. A gawn ni droi at yr hedyn? Yma eto y mae yr un anghenrheidrwydd yn ein cyfarfod. Yma hefyd rhaid i ni dybio undod rhagflaenol—nid wyf yn siarad am yr hen blauigyn, o'r hwn y deilliodd, ond am ddylanwad yn rhagflaenu mewn trefn gweithrediad, eto yn aros yn bresennol fel gallu cadwriaethol ac adgynnyrchiol. Dosbarthweh yr hedyn, a gadewch i'r chwyddwydr heulawg ddyfod i gynnorthwyo eich synwrau—pa beth a welwch? Moddion ac offerynau, trysorfeydd o ymborth, ystordai o amryw fath, pibellau, troiadau, amddiffynfeydd—ty yn cynnwys lliaws o ystafelloedd, a'r perchen a'r preswlydd yn anweledig! Meddyliwch yn mhellach am y miliynau dirifedi o hadau o'r un enw, pob un yn wahanol oddiwrth y llall; ac yn mhellach eto, meddyliwch am gyfaddasiad anheborol pob peth oddiangylch, pob un o ba rai a wna yr un meddwl yn anghenrheidiol, a chysylltiad y cwbl o ba rai â chyfundrefn, a byd, sydd yn gofyn ei undod rhagflaenol digonol ei hun, yr hwn, gan hyny, a raid fod yn bresennol i'r cwbl ac yn y cwbl, eto heb mewn un modd gau allan neu attal y ddeddf neu yr egwyddor unigol o undeb yn mhob un. Yn awr, a wna rheswm, a wna synwyr cyffredin, oddef y dybiaeth, ei bod yn dra rhesymol i greu gallu cyffredinol, fel yr achos a'r rhag-ammod o gyfaddasiad pob un cyfangwbl ar ei ben ei hun, o ba rai y mae pob un yn cynnwys egwyddor weithiol ei undeb ei hun—ei bod yn rhesymol, meddaf, i greu hyn mewn perthynas i'r cyfanswm o wrthddrychau, y rhai, heb weithredydd (hyny yw, bod teimladol a rhesymol), a fyddent yn ddi-ddiben; ac eto yn afresymol, ac hyd yn nod yn goel-grefyddol i gynnwys cred gyffelyb mewn perthynas i'r cyfundrefn o fodau rhesymol ac ymwybodol, i'r byd moesol a phersonol? Ond os yn hwn hefyd, sef yn y cymundeb mawr o bersonau, y mae yn rhesymol i ni gasglu fod un presennoldeb cyffredinol, un yn bresennol i'r cwbl ac yn y cwbl, onid y peth mwyaf afresymol yw tybied fod ewyllys feidrol yn allnog i'w gau allan?

“Pa bryd bynag, gan hyny, y mae dyn yn cael ei dueddu i weithredu mewn cysondeb, oni ddylid priodoli rhywbeth i'r gallu hollbresennol hwn fel yn gweithredu yn yr ewyllys? ac wrth ba enwau addasach y gellir ei alw na *deddf*, fel yn galluogi; y *gair*, fel yn dysgu; ac yr *Ysbryd*, fel yn gweithredu?”

Uwyrach y byddai yn fantais i rai at ddeall y sylwadau uchod pe crynhöid hwynt i dri neu bedwar gosodiad, fel hyn :—

1. Y mae gwahanol ranau pob llysieuyn yn cael eu huno gan ryw ddeddf neu egwyddor ragflaenol ; neu, mewn geiriau eraill, undod yw achos pob undeb.

2. Y mae cyfaddasiad y rhai hyn i gyd i'w gilydd yn rhagdybied rhyw undod sydd yn holl-bresennol.

3. Os yw hyn yn wir gyda golwg ar y byd direswm, nid yw yn afresymol ei gredu gyda golwg ar y byd moesol.

4. Os oddiwrth ryw undod hollbresennol y deillia pob trefn a daioni yn y byd moesol, nis gall ewyllys dyn ei gau allan.

Dyma y sylwedd yn fyr, neu yn hytrach yr esgymedd : ond addefwn yn rhwydd nad yw yn rhoi ond golygiad amherffaith i'r eithaf ar gyflawnder a phrydferthwch yr ymresymiad. Arosasom i roddi hyn o help i'r darlennydd ar ganol y dyfyniad. Y mae yr awdur yn myned rhagddo fel y canlyn—

“Yr wyf yn gwybod nad yw yr hyn a ddywedwyd yma yn cynnwys mwy na meddylldrych nacïol ; ond dyma gymaint ag sydd yn ofynol i'r meddwl yn y cyfnod hwnw o'i gynnydd sydd yn awr yn cael ei dybied, a thra yr ystyrir crefydd dan y ffurf o foesoldeb. Y mae golwg gadarnhaol yn perthyn i gyflwr addfedach : oblegid nis gellir dirnadd gwirioneddau ysbrydol ond yn ysbrydol. Hyn a wyddom trwy ddadguddiad, ac os caniateir bodolaeth gwirioneddau ysbrydol, y mae yn rhaid i athroniaeth dynu yr un casgliad. Ond er nad yw ond nacaol, y mae yn ddigon i wneyd undeb crefydd a moesoldeb yn dybiadwy ; yn ddigon i argyhoeddi ymfynydd diragfarn, nad yw athrawiaethau ysbrydol y grefydd Gristionogol yn rhyfela yn erbyn y gallu rhesymol, ac os nad ydynt yn rhedeg yn yr un linell a'r deall, eto, nad ydynt yn ei groesi. Y mae yn ddigon i brofi fod rhyw ystyr wahaniaethol a chyson i ddywedriad yr apostol, fod 'yr Ysbryd yn cyd-dystiolaethu a'n hysbryd ni,' hyny yw, a'r ewyllys, fel y goruchnaturiol mewn dyn, ac egwyddor ein personoliaeth—wrth y gair olaf hwn yr wyf yn meddwl, y peth hwnw trwy yr hwn yr ydym yn weithredwyr cyfrifol ; yn bersonau, ac nid yn unig pethau byw.

“Y mae yn ddigon i argyhoeddi y meddwl myfyrgar fod, hyd yn nod yn mhorth ac ar drothwy y gwirionedd dadguddiedig, ystyr deilwng i eiriau yr apostol, pan y dywed, nid yn unig fod yr Ysbryd yn cynnorthwyo ein gwendid ni ; hyny yw, gweithredu ar yr ewyllys trwy ddylanwad rhag-dueddol oddiallan, fel pe b'ai, er mai mewn dull ysbrydol, ac heb attal na dystyriwio ei ryddid (yr hyn fel peth dichonadwy a brofir i ni gan effeithiau dysg, a dygwyddiadau rhagluniaethol, ac uwchlaw y cwbl, esiampyl) : ond hefyd y dichon ei fod mewn eneidiau ail-enedig yn gweithredu yn yr ewyllys ; y dichon ei fod, trwy ddyfod yn un a'n hewyllys neu ein hysbryd ni, yn erfyn trosom ; ie, y dichon ei fod yn yr undeb agos hwn,

trwy gymeryd arno ei hun ffurf cin gwendid ni, yn erfyn trosom ag ocheneidiau annhraethadwy. Ac nid oes un perygl o benboethni fel y canlyniad i'r gred hon, os sylwir yn ofalus a difrifol ar y geiriau olaf yn yr ymadrodd; os rhoddir y grym dyledus, a'r arwyddocaol cyflawn i'r gair *annhraethadwy*, fel yr arferir ef gan St. Paul. Yn ol yr arferiad yma, yr hon yw y faulaf a'r fwyaf priodol i'r gair, y mae yn arwyddo, fod y mater, at ba un y cymhwysir ef, yn rhywbeth nas gallaf, yr hwn oddiwrth natur y peth y mae yn analluadwy i mi fedru, ei draethu i'r un meddwl dynol (hyd yn nod o'r eiddo person yn yr un cyflwr a mi fy hun) fel ag i'w wneuthur ynddo ei hun yn wrthddrych ei ymwybodaeth uniongyrchol a digyfrwng ef. Nis gall fod yn wrthldrych fy ymwybodaeth uniongyrchol a digyfrwng i fy hun. Ei gasglu a ellir oddiwrth ei weithrediaidau; ond nis gellir ei ganfod ynddynt. A diolch i Dduw! yn mhob pwnc ag y mae y wybodaeth o hono yn dwyn perthynas uchel ac anghenrheidiol a'n dedwyddwch moesol a chrefyddol, gellir ei gasglu yn ddiogel oddiwrth ei effeithiau, gellir ei wybod yn sicr oddiwrth ei weithrediaidau; ac y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi rheolau eglur ac anffaeledig i gyfarwyddo yr ymchwiliad, ac i dynu y casgliad.

Fel arweiniad i'r sylwadau ar grefydd ysbrydol, y rhai a gymerant i fynu fwy na hanner y llyfr, yr ydym yn cael golygiad byr ar faru Coleridge mewn perthynas i ryddid yr ewyllys, i'r dyben o ddangos pa beth yw dyn fel bod ysbrydol a chyfrifol. Y mae y darlennydd wedi gweled yn barod ei fod yn dal yr anghenrheidrwydd anhegborol am waith tufewnol yr Ysbryd Glân cyn y dichon dyn ewyllysio na gweithredu dim yn sanctaidd. Ei olygiadau ar y pwnc yma ydynt oleu ac eglur. Er hynny, nid yw efe yn barnu fod dyn fel pren neu faen, neu beirianwaith celfyddydol, yn cael ei lywodraethu yn hollol gan achosion allanol. Ac mor bell â hyn, nid oes modd ei wrthwynebu heb wadu cyfrifoldeb, a dyddymu pob crefydd. Ond braidd na feddyluem fod rhywbeth yn perthyn i'r ewyllys nad yw yn gynnwysedig yn ei athroniaeth ef. Y mae yn ymddangos i ni fod rhwymau a rhyddid yn cydgyfarfod i gyfansoddi penderfyniad yr ewyllys. Rhoddwch yr oll sydd yn gadarnhäol yn Coleridge a Jonathan Edwards at eu gilydd, a chwi a gewch drefniant cyflawn ar y mater. Déaller mai sôn yr ydym yn bresennol am ddydd fel creadur. Y mae Coleridge yn addef fod pechod yn caethiwo yr ewyllys, ond dyweda yn mbhellach fod pob peth sydd yn caethiwo yr ewyllys yn bechod. Yr ydym yn cydfyned â hyn eto yn hollol. Nid oes dim caethiwed ond pechod. Ond nid dadleu dros gaethiwed yr ydym wrth ddywedyd fod ewyllys dyn fel creadur yn rhwym o weithredu yn ol deddf y meddwl. Y mae afiechyd yn caethiwo y corff, ac yn rhwystro neu yn dyrysu ei weithrediaidau; ond hyd yn nod pan yn berffaith iach, y mae yn rhwym o

weithredu yn ol deddf ei natur. Felly y mae dyn fel creadur yn rhwym o ewyllysio yr hyn sydd yn ymddangos iddo ef y daioni mwyaf, ac yn gwneuthur hyn yn berffaith rydd; ond trwy bechod, y mae ei rwymau wedi myned yn gaethiwed, a'i ryddid yn afröolaeth.

Yn tudal. 142, 143, y mae Coleridge yn rhoddi crynodeb o'r gwirioneddau neillduol a berthynant i grefydd ysbrydol; ac yna, er mwyn ateb yr wrthddadl eu bod yn rhy uchel i'r deall fedru eu hamgyffred, dangosir y gwahaniaeth hanfodol rhwng deall a rheswm. Yr ydym yn ystyried y gwahaniaethiad hwn o'r pwys mwyaf. Y mae pob athrawrawiaeth sydd yn dyfod i ni trwy ddadguddiad yn rhwym o fod uwchlaw y deall, ond y mae yn berffaith unol â rheswm; ac o'r tu arall, os gwneir cyfandraith yn ddigon isel i'r deall ei chyrhaedd a'i mesur, y mae trwy hyn yn sicr o fod yn groes i reswm. Cymerwn er anghraifft y gwirionedd am ddwyfoldeb person y Cyfryngwr: os dywedir, nad oedd Crist yn ddim mwy na dyn, ac eto ei fod yn gwneyd iawn dros ddynion, y mae hyn yn groes i reswm. Drachefn, os er mwyn bod yn gyson, yr enciliwn o'r tir yma, ac os gwadwn athrawiaeth yr iawn, pa beth yw hyn ond ceisio haeru fod Duw yn newid ei ddeddf foesol er mwyn achub pechaduriaid, a bod y gwahaniaeth hanfodol rhwng drwg a da yn cael ei ddyddymu? Ac onid yw hyn yn groes i reswm? Os meddylw'n eto am waith yr Ysbryd Glân, rhaid addef ei fod uwchlaw y deall; ond y mae dywedyd fod pechadur yn newid ei hun yn groes i reswm. Ceisio darostwng crefydd ysbrydol, a'i gwneyd yn amgyffredadwy i'r deall, yw y llwybr sydd yn arwain yn gyffredin i gyfeiliornad. Hyd yn nod ymblith rhai uniongred, y mae gormod o duedd i ddwyn gwirioneddau yr efengyl i lawr i ryw dir isel, daearol, ac i edrych arnynt yn unig yn eu perthynas â deall dyn; yn lle esgyn i wlad yr anghenrheidrwydd tragywyddol, y gras hunan-gynhyrfiol, a'r priodoliaethau anghyfnewidiol, i weled pob gwirionedd yn ei berthynas â Duw, ar yr hon y mae ei berthynas â dynion wedi ei sylfaenu.

Eglur yw i bob dyn ystyriol mai parodrwydd a medrusrwydd i ganfod ac olrhain deddfau sydd yn cyfansoddi meddwl mawr. Y mae pawb yn gweled y gwrthddrychau, eu lliw a'u llun, eu maint a'u pwysau, ynghyd â'u symudiadau a'u cyfnewidiau. Dyma waith y deall, yr hwn, fel y dynodir ef gan Kant, yw y gallu i farnu yn ol y synwyr corfforol; a digon priodol yw dywedyd ei fod yn perthyn i'r anifel yn gystal â dyn. Ond y mae pellder annhraethol rhwng hwn a'r gallu sydd yn treiddio trwy yr ymddangosiad allanol, y gallu sydd yn gweled trwy

greigiau a phridd y ddaear, trwy foroedd a mynyddoedd, trwy holl bellteroedd lle a holl oesoedd amser, ac yn olrhain y deddfau sydd yn cysylltu y rhanau i gyfansoddi un gwrthddrych ac hefyd y gwahanol wrthddrychau â'u gilydd. Yn awr, y gallu sydd yn gweled egwyddorion pethau, ac yn dwyn dyn i bresennoldeb deddf ei Grëwr, yw rheswm. Dyma gynneddf nad yw yr anifel yn ei meddu mewn un gradd. Ond y mae yn perthyn o anghenrheidrwydd i bob creadur rhesymol: ac yn ol ei grym, a'r defnydd wneir o honi, i'r graddau hyny y mae y naill ddyn yn rhagori ar y llall mewn mawredd meddwl. Y mae yr anifel yn gystal a dyn yn gweled yr ymddangosiadau a bortreuedir ar wyneb y grëadigaeth; ond y mae rheswm yn gweled yr olwynion cywraïn sydd yn troi y tu cefn i'r llen. Y mae y deall, fel yr anifel, yn analluog i esgyn uwchlaw cyfnewidiadau y fuchedd hon; ond y mae rheswm wedi ei gymhwyso i fyw yn ngwlad y gwirioneddau a'r deddfau digyfnewid, ac oddiyno y mae yn gweled pa fodd y dylai fod, a pha fodd y mae yn rhaid iddi fod. Y mae y deall yn edrych ar bob peth yn onglog a hannerog, heb amcan na rheol; ond y mae rheswm yn cario y meddwl i'r canolbwynt, ac oddiyno y mae yn gweled y cwbl mewn trefn a chysondeb. I'r deall dynol, ac hefyd i'r anifel, nid yw cyfnewidiadau yn dangos dim ond olyniad; ond y mae rheswm yn canfod deddf yn rhedeg drwyddynt, yr hon sydd yn achosi pob un o honynt. Fel hyn y mae meddwl dyn yn uno gwrthddrychau mewn gwahanol leoedd, a dygwyddiadau mewn gwahanol amserau, dan un ddeddf, ac yn uno y deddfau hyn drachefn dan ryw ddeddf uwch a mwy cyffredinol, nes o'r diwedd y mae yn uno y cwbl, yn mhob lle a phob oes, yn yr Un anfeidrol, yr "YDWYF" diddechreu a diddiwedd.

Cymerasom ein rhyddid i gynyg cymaint â hyn o'n syniadau ein hunain ar y mater hwn, gan hyderu y byddant yn wasanaethgar i ragbarotol a chynnorthwyo y darlennydd sydd yn bwriadu chwilio drosto ei hun beth yw golygiadau Coleridge. Ond rhoddwn yma y rhanau hyny o'i sylwadau ag sydd yn ymddangos i ni yn fwyaf dyddorol a dealladwy.

"Rheswm yw cynneddf yr argyhoeddiadau cyffredinol ac anghenrheidiol, ffynnonell a sylwedd gwirioneddau uwchlaw synwyr, y rhai a gynnwysant eu prawf ynddynt eu hunain. Ei bresennoldeb a nodir bob amser gan anghenrheidrwydd y gosodiad a gadarnheir: yr hwn anghenrheidrwydd sydd ammodol, pan y mae gwirionedd o eiddo rheswm yn cael ei gymhwyso at ffeithiau profiad, neu at reolau y deall; ond yn ddiammodol, pan y mae y mater ynddo ei hun yn gynyrech rheswm.

“Ar y llaw arall, nid yw barnau y deall yn ein rhwymo ond yn unig gyda golwg ar wrthddrychau ein synwyrâu, y rhai a adlewyrchir g. nym yn ol ffurfiau y deall. Nid afreidiol gan hyny yw ychwanegu y gair dynol; ac yr ydym yn son am ddeall dynol mewn gwahaniaethiad oddiwrth yr eiddo bodau eraill, uwch neu is na dyn. Ond nid oes, ac nis gall fod, ond un rheswm, yr un a'r unrhyw; sef y goleuni sydd yn goleuo deall pob dyn ar ei ben ei hun, ac felly yn ei wneyd yn ddeall rhesymol.

“Os yw hyn felly, ac felly yn ddiau y mae—os gweithredoedd priodol y deall yw cyffredinoli yr hysbysiadau a dderbynir oddiwrth y synwyrâu mewn trefn i ffurfio enwau; a chymhwyso hysbysiadau neillduol (hyny yw, y syniadau corfforol) at eu henwau priodol; ac *vice versa*, yr enwau at eu dosbarth cyfatebol o hysbysiadau—yna y mae yn canlyn o anghenrheidrwydd, fod y deall wedi ei ddesgrifio yn gywir yn ngeiriau Leighton a Kant, yn allu i farnu yn ol y synwyr.

“Yn awr, pa un a ddesgrifiwn reswm fel ffynnonell egwyddorion anghenrheidiol a chyffredinol, yn ol pa un y mae hysbysiadau ein synwyrâu yn cael eu cadarnhau neu eu gwrthbrofi; neu ynte, os desgrifiwn ef fel y gallu trwy yr hwn yr ydym yn medru tynu casgliadau cyffredinol ac anghenrheidiol oddiwrth ymddangosiadau neillduol a dygwyddiadol: y mae yn amlwg fod y ddau ddesgrifiad yn gwahaniaethu yn eu teithi hanfodol ac o ganlyniad fod y pethau yn gwahaniaethu mewn rhyw.”

Ond mae yn bryd i ni adael y mater hwn, rhag blino y darlennydd yn ormodol; ac fel diwedd glo i'r adolygiad presennol, rhoddwn ddau neu dri dyfyniad i ddangos golygiadau Coleridge ar rai o brif egwyddorion y grefydd Gristionogol.

“Beiddiaf ddywedyd nad oes un dyn, pa mor wresog bynag fyddo ei gariad, a pha mor ddwfn bynag fyddo ei ostyngeddwrwydd, yn alluog i ddarllen hanesyddiaeth gydag ysbryd myfyrgar, neu edrych ar y byd o'i amgylch gyda llygad ystyriol, heb deimlo ei fod yn rhwym i gyfaddef, nad yw *pawb* o'i gyd-ddynion ar y ffordd iawn. Nis gall lai na barnu fod, hyd yn nod mewn gwledydd Cristionogol, rifedi dirfawr heb erioed droi eu gwynebau tuag ati. Nid yw hyn, ynte, ond pwnc o ffaith. Yn awr y mae yn dyfod y gofyniad, A gaiff y credadyn briodoli y gwahaniaeth hwn yn hollol i'w benderfyniadau a'i ymdrechadau ei hun? neu, os nid yn hollol, eto yn flaenaf ac yn benaf? A gaiff efe briodoli y symudiadau a'r parotoadau cyntaf i'w ewyllys a'i ddeall ei hun, a sylfaenu ei hawl i'r addewidion ar ei ragoriaeth ei hun? Os na feiddia un dyn gymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, i bwy y priodolir ef ond i'r Bod hwnw o'r hwn y deilliodd yr addewid, ac ar yr hwn y mae ei chyflawniad yn ymddibynu.

“Felly gan hyny y mae athrawiaeth etholedigaeth ynddi ei hun yn gasgliad anghenrheidiol oddiwrth ffaith anwadadwy—anghenrheidiol o leiaf i bawb sydd yn dal, am y goreu o ddynion, eu bod yr hyn ydynt trwy ras Duw. Yn ei pherthynas a'r credadyn, y mae yn obaith, yr hwn, wedi tarddu o egwyddorion Cristionogol, ac wrth gael ei chwilio gan y profion a'i feithrin trwy y moddion a ddysgir yn yr

Ysgrhythyr, a dlaw yn obaith bywiog a sier : ond nis gall yn y byd hwn ddyfod yn wybodaeth, llawer llai yn sierwydd rhagwybodaeth.

“ ‘*Yn gadarn yn y ffydd.*’ Nid yw yr apostol yn dywedyd, yn gadarn trwy eich penderfyniadau eich hunain ; nac ychwaith, yn eich ewyllys eich hunain ; ond yn gadarn yn y ffydd. Nid ydym i edrych ar, ac i aros gyda ni ein hunain, er mwyn cael testun cyhuddiad neu hyder, neu (fel y mae llawer yn cymeryd eu twyllo yn rhy fynych) i gael yr olaf trwy wneyd haeddiant i ni ein hunain o'r cyntaf. Ond yr ydym i edrych at Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Y gyfraith, yr hon sydd yn agos atat, ac yn dy galon ; y gyfraith, yr hon sydd yn condemnio, ac nid oes ganddi un addewid ; yr hon sydd yn dal yr euogrwydd a aeth heibio yn ei redfa gyflym, ac yn peri iddo ymwrthod a'i enw [trwy ei wneyd yn euogrwydd presennol], y gyfraith a'th gyhudda. Nac oeda yn llys cyfiawnder i wrando ar y cyhuddiad—nac aros i ddysgwyl clywed y ddedfryd. Nage, rhagflaena y condemnïad. Apelia at Cesar. Brysia at y Brenin am faddeuant. Ymdrecha i ymlwbro tuag yno, er mai mewn llyftheiriau ; a gwaedda yn uchel, a chasgl holl weddill nerth dy ewyllys yn y llef—‘Yr wyf yn credu ; Arglwydd cymhorth fy anghrediniaeth. Diarddela bob hawl o berchenogneth hyd yn nod yn dy lyftheiriau. Dywed eu bod yn perthyn i'r hen ddyn, ac nad wyt ti ond yn eu cario i'r bedd, i gael eu claddu gyda'u perchen. Sefydla dy feddwl ar yr hyn a wnaeth Crist, yr hyn a ddyoddefodd Crist, yr hyn yw Crist—fel pe bait am lanw gwagder dy enaid a Christ. Os gwaghaodd efe ei hun o'i ogoniant i ddyfod yn bechod er mwyn dy iachawdwriaeth di, oni raid i ti gael dy waghau o'th hunan pechadurus i ddyfod yn gyfiawnder yn a thrwy ei ing ef, a haeddiannau effeithiol ei groes ? Trwy ba foddion eraill, yn mha wedd arall, y mae yn ddichonadwy i ti sefyll yn ngwyddfod yr Un Sanctaidd ? Gyda pha feddwl y dymunit ddyfod ger bon Duw, oddieithr gyda'i feddwl Ef, yn yr hwn yn unig y mae Duw yn caru y byd ? Gyda chyfarwyddyd da, efallai, ac ychydig gynnorthwy, ti a fynit yn hytrach lanhau a thrwsio i fynu feddwl o'r eiddot dy hun, a'i gynnyg fel dy hawl i dderbyniad a'th gymhwysder, iddo Ei, yr hwn sydd yn gosod ynfydrwydd yn erbyn ei angelion ! O ! cymer gynghor gan dy reswm. Efe a ddengys i ti mor ofer yw dychymygu y gallai byd haeddu cariad oddiwrth dloethineb tragwyddol a dedwyddwch holddigonol, mewn un ffordd ond fel y mae yn gynnwysedig yn yr *idea* ollberffaith, yn mha un y mae yr Ysbryd Goruchaf yn gweled ei hun a chyflawnder ei annherfynoldeb—yr Uniganedig cyn yr holl oesoedd—yr anwyl Fab, yn yr hwn y mae y Tad wedi ei lwyf fo'ld o i.”

COLL GWYNFA.*

Yr ydym wedi meddwl fwy nag unwaith am ysgrifenu traethawd ar athrylith Milton; ond nis buom hyd yn hyn, ac nid ydym eto, yn meddu ar ddigon o hyfdra i gymeryd y gwaith mewn llaw. Mor bell ag y mae parch iddo yn gymhwysder i draethu am dano, nid ydym yn foddllawn i roddi y blaen i Dr. Channing na Mr. Macauley, na neb arall. Yr ydym yn ei barchu fel dyn cywir, gwrol, diysgog yn ei ymlyniad wrth egwyddlorion; yr ydym yn ystyried ei ysgrifeniadau rhyddieithol yn mysg y rhai mwyaf campus yn yr iaith Saesoneg; ac yn enwedig pan ddarllenom ei gyfansoddiadau barddonawl, nis gallwn lai na rhyfeddu fod y fath feddyliau mawrion wedi cael lle mewn enaid dynol. Bydd ei eiriau yn ein dilyn am ddiwrnodiau fel swm dyfroedd lawer, "fel llais o dragywyddoldeb." Er cymaint yw ein heiddigedd dros anrhydedd y Cymry, yr ydym yn gorfod teimlo, pe byddai rhagoriaethau yr holl feirdd Cymreig er dyddiau Taliesin wedi eu casglu ynghyd mewn un dyn, na fyddai hwnw yn haeddu ei gystadlu â John Milton. Ond un peth yw teimlo ei fawredd, a pheth arall yw medru dangos yn mha beth y mae y mawredd hwnw yn gynnwysedig. Y gorchwyl olaf hwn nid ydym yn anturio cynnyg arno: a rhaid i ni ddyweyd na welsom neb arall wedi llwyddo i'w gyflawni mewn modd boddlonawl. Er hyny, ni ddylid dibrisio y gallu i deimlo fod Milton yn ddyn mawr. Dyma ddawn nad oedd ond ychydig yn ei oes ef ei hun, ac nad yw pawb eto, yn ei meddu. Yr oedd ganddynt hwy ryw esgus, gan eu bod yn byw yn rhy agos ato i'w ganfod yn gyflawn: ond erbyn hyn, nid oes gan neb hawl i son am lēnyddiaeth os nad yw yn gwerthfawrogi barddoniaeth Milton. Nis gwyddom am well ffordd i ddyn adnabod ei hun na thrwy eistedd i lawr yn bwylllog i ddarllen "Coll Gwynfa." Os bydd yn blino arno yn fun, dyna brawf ar unwaith ei fod yn amddifad o chwaeth. Nid yw eto yn alluog i ddosbarthu rhwng y drwg a'r da. Y mae heb erioed agor ei lygaid i weled anian. Ond drachefn, glyned i'w ddarllen

* O'r "TRAETHODYDD" am 1850,

trwy bob anhawsder, ac os yw yn rhagori o ran ei gynneddfau ar greaduriaid direswm, fe ddaw mewn amser i weled prydfferthwch ac ardderchogrwydd digyffelyb yn yr holl waith: oblegid y mae "Coll Gwynfa" yn un o'r llyfrau sydd yn gwella o hyd wrth ei fynych ddarllen; a dyna y prawf goreu o wir fawredd.

Fel pob dyn gwirioneddol fawr, y mae Milton hefyd, nid yn unig yn traddodi meddyliau mawrion, ond yn gwneyd hyny yn *hawdd*. Dichon dyn cyffredin, trwy ymdrech dirfawr, wneuthur gorchwyl anghyffredin; ond y mae dyn cryfach yn gwneyd yr un peth gyda rhwyddineb. Yn ngwaith beirdd diweddarach, y mae gormod o *geisio* at effaith. Pan ddywedir rhywbeth nerthol, y mae yr *ymdrech* yn rhy amlwg. Yn lle myned ymlaen gyda'u gwaith yn dawel, y maent mewn cyffro parhäus, ac yn dangos rhyw egni annaturiol i dynu sylw yr edrychydd. Y canlyniad ydyw, fod meddwl yr edrychydd yn myned oddiwrth y gwaith at y gweithiwr; nid heb ryw gymaint o ryfeddod efallai ar y cyntaf wrth weled ei fywiogrwydd; ond nid hir y bydd cyn i'r teimlad hwn roddi lle i dosturi yn gymysgedig â graddau o ddirmyg. Y mae Byron yn llawn o'r ymdrech annaturiol hwn: y mae gormod o hono yn Young a Pollock: ac y mae yn rhaid addef nad yw Dewi Wyn yn rhydd oddiwrtho. Ond yn Milton nid oes un gair wedi ei roddi i mewn er mwyn effaith. Y mae yn amlwg nad oedd efe byth yn gofyn, pa fodd y mae hwn yn debyg o *ymddangos* oreu, ond pa fodd y mae yn debyg o *fod* yn oreu. Myned ymlaen gyda'i waith yn dawel y mae ef, heb ofalu am foddio neb ond ei Feistr mawr a'i gydwybod ei hun. Yn nghanol y dygwyddiadau mwyaf arnthrol, y mae yn meddiannu ei hun mewn hamdden a phwyll. Yn gyffelyb i ddesgrifiad Goethe o ddyn mawr, y mae yn myned rhagddo,

Fel gloew seren,
Yn y ffurfafen,
Heb bryuro,
Ac heb orphwyso,
Nes cyflawn orphen
Y gwaith row'd iddo.¹

O ganlyniad nid oes ynddo ef ddim annaturiol, dim o'r hyn a eilw y Saeson yn *spasmodic*. Os yw wedi cyflawni gwaith mawr, y mae wedi

¹ "Wie das Gestirn,
Ohne Hast,
Aber ohne Rast,
Drehe sich jeder
Um die eigne Last."

gwneyd hyny gyda llai o drwst nag a gedwir yn fynych ynghylch rhyw hanner dwsin o englynion difeddwl, difwyd, yn un o Eisteddfodau Cymru. Y mae yn symud y meini mwyaf yn Baalbek gyda'r un tawelweh a rhwyddineb a phe na byddent ond y ceryg llyfnion sydd gan y plant i chwareu â hwynt ar làn yr afon. Nid yw hyn yn cynnwys nad oedd ei waith yn costio llafur a gofal; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Trwy lafur dibaid y cyrhaeddodd y fath berffeithrwydd; ac ar ol ei gyrhaedd, nid yw yn rhoi heibio lafurio: er hyny, yn lle gwylltio yn y gorchwyl, a llethu dan y baich, y mae yn llafurio gyda hyfrydweh iddo ei hun, fel un sydd yn feistr ar ei waith. Un o elfenau hanfodol pob meistrolaeth yw cuddiad cryfder. Pan ddygir yr holl awdurdod i'r golwg, y mae o hyny allan yn colli ei dylanwad. Nid oes dim yn gorchfygu dyn â'i fawredd, ac yn effeithio yn hir ar ei deimladau, os na fydd ynddo ryw ddirgelweh. Y mae meddwl dyn yn hyn yn hawlio ei berthynas âg anfeidroldeb, ac yn ymgyrhaedd yn barhaus trwy y gweledig at yr anweledig. Yr oedd Milton yn deall hyn yn dda; ac am hyny nid yw ar un achlysur yn dangos pen draw ei nerth. Nid yw un amser yn cymeryd y darlennydd hyd derfynau ei ymherodraeth, ac yn peri iddo droi yn ol oddiyno mewn somedigaeth, heb ddim ganddo mwyach ond dywedyd ynddo ei hun, Dyma gymaint a fedd hwn, dyma yr oll a all efe ei wneuthur. Er mor helaeth ac mor gyfoethog yw y golygfeydd a ledir o flaen ein llygaid, y mae yn gadael digon o le i'r dychymyg fyned rhagddo, ac yn ein gorfodi i deimlo fod mwy o'r golwg. O ran dim a allwn ni ei weled y mae ei allu yn annherfynol. Nid ydym yn dywedyd nad yw yn rhoddi ei holl nerth allan yn ei "Goll Gwynfa;" ond y mae yn gwneuthur hyny mewn cysondeb graddol, mewn rheol a threfn, er mwyn cyflawni ei waith, ac nid er mwyn ei weled gan ddynion. Yn lle gollwng yr holl agerdd i ruthro ar unwaith, nes chwalu y cwbl o'i amgylch yn yfflon, a pheri gwrthdarawiad yn ei erbyn ei hun, ymae yn ei gadw o fewn terfynau, a thrwy hyny yn effeithio yn fwy grymus.

Yn y golygiad hwn y mae tebygolrwydd rhyngddo ef a'r holl feirdd goreu, megys Chaucer, Spenser, Shakspeare, Cowper, a Wordsworth. Y maent oll yn ysgrifenu heb ddim gorchest annaturiol: ond yn mawredd y gorchwylion a gyflawnir ganddynt, y mae Shakspeare a Milton yn rhagori ar bawb. Pa un drachefn, ai Shakspeare ai Milton, yw y mwyaf, nid awn i geisio penderfynu. Y mae pob un yn anghymharol yn ei le ei hun; a diammhau nas gallasai y naill wneyd gwaith

y llall. Efallai mai y gwahaniaeth amlycaf rhyngddynt yw yr un a ganfyddir yn fynych rhwng dau ddosbarth o dduwinyddion: y mae un yn fwy tueddol i edrych ar yr ochr ddynol i bob peth, a'r llall ar yr ochr ddwyfol. Mewn dawn i chwareu ar dannau calon dyn, ni fu neb erioed yn gydradd â Shakspeare. Yr oedd holl ddyfnderoedd y natur ddynol yn hysbys iddo, yn ei nwydau a'i serchiadau, ei chariad a'i chas, ei hyfrydwch a'i thristwch, ei dymuniadau a'i hofnau; yn mysg pob graddau, ac yn mhob amgylchiadau. Yma y mae yn frenin heb un cystadleuwr. Y mae yn wir nad yw Milton yn ddisylw o'r rhyfeddodau diderfyn sydd o fewn cylch dynoliaeth. Y mae hyn yn annichionadwy i ddyn cywir. Y mae calon ddynol yn euro yn ei fynwes yntau, a hono yn galon eang, lawn o deimlad, rhy lawn i bawb ei hamgyffred. Wrth weled ei gyd-ddynion yn chwareu o'i amgylch, y mae fel dyn o feddwl difrifol, fel gwir Buritan, yn edrych arnynt gyda gwên serchog; ac nid yw gwên neb mor serchog a gwên dyn difrifol: ond nid oes ganddo duedd nac amser i ymgymysgu ond ychydig â hwynt yn eu llawenydd. Y mae ei fryd ef uwchlaw gwrth-ddrychau daearol; ac hyd yn nod pan y mae yn ymostwng i ddesgrifio bodau dynol, yn lle eu cymeryd yn hollol fel y maent, y mae yn eu codi i ryw fyd uwch na hwn, ac yn eu gwisgo â'r nodweddion hyn y pha rai y mae ei feddwl ef ei hun yn arfer cymdeithasu. Ei ddyben mawr ef oedd "cyfiawnhau i ddynion lwybrau Duw." Ni chanwyd erioed ar destun mwy teilwng; ac ni chenir eto, tu yma i dragywyddoldeb, yn fwy teilwng o'r testun.

Ond fel y dywedwyd o'r blaen, nid ein hamcan y tro hwn yw ysgrifenu am Milton, namyn am y cyfieithiad o "Goll Gwynfa," gan Dr. Pughe. Nid ychydig oedd yr anturiaeth, gan nad oes un gair afreidiol yn Milton, mwy na chwyr afreidiol mewn erwybr; nac un frawddeg ychwaith heb fod yn llawn o fel. Cyfeirir yn fynych at y cyfieithiad hwn fel un o brif orchestion y Cymry, ac awgrymir weithiau nad oedd y cyfieithydd yn llai ei athrylith na'r awdur ei hun. Nid yw yn ddiammheuol ychwaith a fydd pawb yn foddllawn i aros ar hyn; oblegid y mae genym ryw adgof i ni weled mwy nag un ysgrifenydd yn ceisio codi Dr. Pughe yn uwch na Milton. Yn ngolwg pob dyn o synwyr nid yw hyn i gyd ond ffolineb a ffloreog digymysg. Un peth yw creu meddyliau, a pheth arall yw eu trosglwyddo, gyda llwyddiant mwy neu lai, o'r naill iaith i'r llall. Ond pa glod bynag sydd yn deilwng i *gyfieithydd* medrus, yr ydym yn ewyllysgar yn ei roddi i Dr.

Pughe. Nid peth hawdd oedd Cymreigio y fath lyfr a "Choll Gwynfa;" ac nid canmoliaeth gyffredin yw dywedyd ei fod ef wedi cyflawni y gorehwyl, gan mwyaf, heb wneuthur cam â meddyliau mawrion Milton. Gwyddom fod rhai yn barnu y byddai yn dda ei ail-gyfieithu o iaith Dr. Pughe i Gymraeg gyffredin: ac nis gallwn lai nag addef, pe buasai hyn wedi ei wneuthur ganddo ef ei hun, na fuasai genym ni y gwrthwynebiad lleiaf. Ni ddygwyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a fedrai hybysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg. Y mae yn ddilys mai nid gan ei fam anrhydeddus yn sir Feirionydd: ac y mae mor ddilys a hyny mai nid hon oedd iaith Taliesin ac Aneurin, na iaith y "Mabinogion," na iaith y "Barld Cwsg." Dyma yr iaith Gymraeg ddiledryw, medd rhai. Nage, meddwn ninnau: Cymraeg ddiledryw pob oes yw yr iaith a arferid gan y Cymry yn yr oes hono, oddieithr mor bell ag y dygwyd i mewn gyfnewidiadau y rhai y gellir profi eu bod yn anghyson âg egwyddorion hanfodol yr iaith. Ond nid yw yr iaith hon wedi ei harfer mewn unrhyw oes; a phe buasai wedi ei harfer rywbryd cyn hyn, eto nid dyma Gymraeg yr oes hon. Crybwylla Dr. Pughe nad oes dim geiriau yn ei waith nad ydynt yn arferedig mewn rhyw ffurf neu gilydd yn rhyw barth o Gymru. Ond nid yn erbyn geiriau unigol yr ydym yn dadleu. Mae yn wir y dewisem roddi y blaen i'r geiriau a arferir yn *mhob* rhan o Gymru. Er hyny ni chwennychem i hen eiriau eryfion da fyned yn llwyr ar ddifancoll. Ond dadleu yr ydym yn benaf yn erbyn ei ddull ef o ffurfio ymadroddion. Y mae ei gystrawen yn anghymreigaidd. Ond dylem ychwanegu nad yw y gwahaniaeth gymaint mewn gwirionedd ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Na lwfrhaed y Cymro anghyfarwydd; ac fe ddaw cyn hir yn alluog i'w ddarllen gyda rhwyddineb a hyfyrdwch.

Un anhawsder arall ar ffordd y cyfieithydd oedd, fod Milton mewn lliaws o fanau yn gwneyd i'r sain ateb i'r synwyr. Yn yr holl fanau hyny, mae y cyfieithiad mor llwyddiannus ag y gallasai neb ddysgwyl. Er enghraifft, yn Llyfr ii. llin. 879* :—

MILTON.

"On a sudden open fly
With impetuous recoil and jarring sound
The infernal doors, and on their hinges grate
Harsh thunder, that the lowest bottom shook
Of Erebus."

* Yn yr holl ysgrif hon, mae rhif y llinellau yn ateb i'r Saesneg.

PUGHE : tudal. 60.

“Trwy serth chwiu agorynt gan
Chwyrn encil a chan drydar eras y pyrth
Uffernawl, ar eu col o rygnu croch
Daranau, hyd nas cryuai isaf sawdd
O Abred.”

Y mae “o rygnu croch daranau” yn gyfieithiad hapus o “*grate harsh thunder*.” Pe darllenid y naill neu y llall yn nghlyw dyn anghlyfarwydd a’r iaith, gallasai ddeall oddiwirth y swm pa beth oedd yn myned ymlaen. Nid yw y rhan nesaf yn llawn cystal. Y mae Milton yn peri i’r darlennydd deimlo fod y cwbl yn ysgwyd, trwy fod y gair “*shook*” ar ddiwedd y llinell; ond y mae hyn wedi ei golli yn y cyfieithiad.

Drachefn :—

MILTON : llyfr ii. llin. 947.

“So eagerly the Fiend
O’er bog, o’r steep, through strait, rough, dense or rare,
With head, hands, wings, or feet pursues his way,
And swims, or sinks, or wades, or creeps, or flies.”

PUGHE : tudal. 62.

“Cymaint awch y Malt,
Tros gors, tros allt, trwy gul, garw, dwys, neu daen,
Gan ddwyllaw, edyn, traed, canlynai ar
Ei hynt, a nofia, sodda, creinia, neu
Eheda.”

Mae y geiriau unsill yn Milton yn dangos yr anhawsderau yr oedd Satan yn myned drwyddynt ar ei daith o uffern; ac y mae hyn wedi ei gadw yn y cyfieithiad mor berffaith ag yr oedd yr iaith yn caniatáu.

Nodwn un anghraifft arall, yn llyfr ii. llin. 993 :—

“For such a numerous host
Fled not in silence through the frightened deep
With ruin upon ruin, rout on rout,
Confusion worse confounded.”

PUGHE : tudal. 64.

“Canys y fath dorf
Ni thawel ffoai trwy yr ergryn ddwfn
Gan ball ar ball, a ffwyr ar ffwyr ar ffordd
Tra thwrf tarf terfysg.”

Na ddyweder mwy fod yr iaith Gymraeg yn annigonol i osod allan holl syniadau a theimladau y meddwl dynol.

Ymddangosodd cyfieithiad arall o'r llyfr cyntaf o "Goll Gwynfa" yn y seithfed cyflyfr o'r "Gwyliedydd," wedi ei wneyd yn fanwl a medrus. Gan ei fod yn cadw yn nes at yr iaith gyffredin na Dr. Pughe, y mae yn dueddol i ni ei bleidio ef yn hytrach. Ond wrth gymharu y ddau â'u gilydd y mae rhagoriaeth Dr. Pughe yn rhy amwg i'w wadu. Cymernw llyfr i. llin. 44 :—

"Him the Almighty Power
Hurled headlong flaming from th'ethereal sky,
With hideous ruin and combustion, down
To bottomless perdition ; there to dwell
In adamantine chains and penal fire,
Who durst defy the Omnipotent to arms."

PUGHE : tudal. 3.

"Ef lluchiai yr Hollalluawg fel fflam dân
Yn swrth o entyreh nwyfre der, gan ruthr
Dinystriad hyll a llachar losg i lawr
I aphwys coll, i drigaw yno mewn
Cadwynau o faen cellt a thân o gosp,
A feiddiai wrthryn arf trwy hewiad drud
I Ner holl nerthoedd."

" GWYLIEDYDD."

"Ef o'r entyreh fry
Mewn llosc dinystriol, trwy yr eang maith,
A fwriai'r Hollalluog Dduw i lawr
I waelod distryw, yno i drigo byth
Mewn cadwyn anattodol, ac mewn tân
Penydol, am anturio codi arf
Yn erbyn mawredd y Goruchaf Dduw."

Mae cyfieithiad Dr. Pughe yn y fan yma, fel mewn miloedd o fanau eraill, bron yn berffaith. Mae yr un yn y "Gwyliedydd" hefyd yn dda; ond trwy wanhau pob gair wrth ei drosglwyddo i'r Gymraeg, y mae wedi colli llawer o rym y meddylddrych. Y mae "lluchiai" yn well na "bwriai," "o entyreh nwyfre der" yn well na "o'r entyreh fry," a "cadwynau o faen cellt" yn well na "cadwyn anattodol." Y mae "gan ruthr dinystriad hyll a llachar losg" yn rhagorol fel cyfieithiad o "*hideous ruin and combustion*;" ond y mae wedi ei adael allan yn y "Gwyliedydd." Cawn yma hefyd brawf mor anhawdd yw newid sefyllfa un gair yn Milton heb niweidio yr ystyr. Ganddo ef, a chan Dr. Pughe ar ei ol, rhoddir y weithred yn gyntaf, sef lluchio Satan, ac yna yr olwg oedd arno pan yn cael ei luchio, sef yn fflamio. Ond prin y medrwn weled fod "fal fflam dân," gan Dr. Pughe, yn ateb i "*flam-*

ing." Nid fel filam dân yr oedd Satan yn disgyn pan luchiwyd ef gan yr Hollalluog o entyrech nwyfre, ond fel comet neu haul, *yn fflamio* wrth ruthro, ac yn gadael llwybr tanllyd o'i ol.

Ond ar y cyfan, nis gwyddom am un cyfieithiad mwy gorchestol na "Coll Gwynfa," gan Dr. Pughe. Gellid meddwl mai yn lled debyg i hyn, er nad yn hollol yr un fath, y buasai y gwaith yn dyfod o law Milton ei hun pe buasai yn ei ysgrifenu yn yr iaith Gymraeg. Nid yw bywyd a grym y gwaith gwreiddiol wedi eu colli wrth ei drawsblanu. Yn y cyffredin y mae y meddwl wedi ei roddi yn hynod o gywir; ac i fedru gwneyd hyn yr oedd mwy na gwybodaeth drwyadl o'r iaith Saesneg yn anghenrheidiol. Ond y mae yn ymddangos i ni fod y cyfieithydd mewn rhai manau wedi camsynied yr ystyr, a chymerwn genad i roddi ychydig anghreiffitiau ger bron y darlennydd. Dichon mai ni sydd yn camgymeryd; pa fodd bynag, mae y peth yn werth ymchwiliad. Nid ydym yn dwyn yr anghreiffitiau hyn ger bron er mwyn diraddio Dr. Pughe; ond am ei bod o bwys i ni wybod beth yw meddwl Milton yn mhob brawddeg, ac am y dymunem gynhyrfu pawb i farnu trostynt eu hunain, a mynu ei ddeall. Rhoddir y rhanau ammheüus o'r cyfieithiad mewn llythyrenau Italaidd; ac os bydd achos, rhoddir y llinellau rhagflaenol er mwyn gweled y cysylltiad. Cynghorem yr efrydydd ieuanc i wneyd cais ei hun ar y testun gwreiddiol cyn darllen cyfieithiad Dr. Pughe, na'r un rhyddicithol sydd yn ei ganlyn.

Llyfr i. llin. 690.

"Let none admire
That riches grow in hell."

PUGHE: tudal. 26.

"Na *hoffed* neb
Yn uffern dyfu golud."

Arall mewn iaith rydd, yn cael ei gynnyg fel gwelliant:—

"Na ryfedded neb fod golud yn cael ei gynnyrchu yn uffern."

Pa beth oedd Dr. Pughe yn feddwl wrth hoffi fod golud yn tyfu yn uffern nis gwyddom. Troisom i'w Eirlyfr i edrych am oleuni ar y mater; ond yr unig eglurhad a rydd efe ar y gair *hoffi* ydyw, "*To delight in, or to love.*"

Llyfr ii. llin. 220.

“This horror will grow mild, this darkness light,
 Besides what hope the never-ending flight
 Of future days may bring, what chance, what change
 Worth waiting, since our present lot appears
 For happy though but ill, for ill not worst,
 If we procure not to ourselves more woe.”

PUGHE : tudal. 37.

“Yr hylldra hyn

A hyn dywyllwch dudew ysgafnâant,
 Ynghyd â pha ryw obaith deg a ddaw
 O ddyddiau didranc drafn, pa chwaen, pa dro
 A dâl ei araws, *can y tardd i ffawd*
Ein rhan gynwyddawl er mai sal, o sal
 Nid salaf, os na cheisiwn ragor gwae.”

Arall :—

“Gan fod ein rhan bresemmol yn ymddangos, o un ddedwydd er yn sal, eto o un sal nid y salaf.”

Y meddwl ydyw, Er fod ein rhan yn ymddangos mewn cymhariaeth i un ddedwydd yn wael; eto wrth ei golygu fel un wael, nid hi yw y waelaf, oblegid dichon iddi fod yn waeth.

Llyfr ii. llin. 556.

“In discourse more sweet
 (For eloquence the soul, song charms the sense)
 Others apart sat on a hill retired.”

PUGHE : tudal. 48.

“Mwynach mewn pwyllhâd

(*Ffraethineb enaid synwyr yw, ei swyn*
Yw cân) ar gil eisteddent ereill rai.”

Arall :—

“Canys ffraethineb a swyna yr enaid, cân a swyna y synwyr.”

Dyben Milton oedd dangos fod ffraethineb yn rhagori ar gerddoriaeth, gan fod y naill yn effeithio ar yr enaid, a'r llall yn unig ar y synwyr Mae yn amlwg fod y perwyddiad “*charms*” i'w ddeall ar ol y gair “*eloquence*,” ac y dylid cymeryd “*soul*” mewn cyflwr gwrthddrychol; fel pe dywedasid, “*For eloquence charms the soul, song charms the sense.*”

Llyfr ii. llin. 968.

“Ye powers

And spirits of this nethermost abyss,
 Chaos and ancient night, I come no spy,
 With purpose to explore or to disturb

The secrets of your realm, but by constraint
 Wandering this darksome desert, as my way
 Lies through your spacious empire up to light,
 Alone, and without guide, half lost, I seek
 What readiest path leads where your gloomy bounds
 Confine with Heaven ; or if some other place
 From your dominion won, th' ethereal king
 Possesses lately, thither to arrive
 I travel this profound ; direct my course ;
 Directed no mean recompense it brings
 To your behoof, if I that region lost,
 All usurpation thence expelled, reduce
 To her original darkness and your sway
 (Which is my present journey), and once more
 Erect the standard there of ancient night,
 Yours be the advantage all, mine the revenge."

PUGHE : tudal. 63

Chwi

Alluoedd ac Ysbrydion y fan hon
 Yr aphwys isaf, Tryblith a hen Nos,
 Nis doaf i chwilota na chyffroi
 Cyfrinion eich llywodraeth, ond o raid
 Yn crwydraw y diffeithwech cethin hwn,
 Gan fod fy ffordd ar draws eich eang wlad
 I wawl, ar goll, yn unig, heb rwyddhâad
 I chwiliaw rwyddaf llwybr hyd wrth y Nef
 Y minia cudd fargodion hwn eich byd ;
 Neu os rhyw arall fan, oddiwrthych chwi
 O drais y sydd yn meddiant brenin gwawl,
 Er cyrchu yno yr eangder hwn
 A deithiaf ; rhwyddwech ar fy hynt ; ac o
 Gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol
 I chwi, y dalaeth hono *os collais*, pob
 Trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi
 I lawr, idd ei chysefin wyll ac idd eich rhwyseg
Adferwch hi (hyn weithlun yw fy nhaith)
 A *derchwch* eto yno faniar Nos ;
 Y fudd doed oll i chwi, y dial i mi."

Arall :—

" O gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol i chwi, os y dalaeth golledig hono (pob trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi i lawr) a adferaf idd ei chysefin wyll ac idd eich rhwyseg (yr hyn yw fy nhaith yn awr), ac os derchafaf yno unwaith eto faniar Nos."

Mae y rhan flaenaf o'r dyfyniad hwn wedi ei gyfieithu yn ardderehog, mewn iaith ystyryth, *Gymreigaid* : ond tua'r diwedd mae yr ystyr wedi ei newid yn hollol. Satan sydd yn llefaru : ond nid efe oedd wedi colli y dalaeth newydd, oblegid nid cedd erioed eto wedi ei meddiannu,

Oddiar Dryblith a hen Nos yr oedd Brenin gwawl wedi ei chymeryd, fel y dywed Satan wrthlynt yn y llinellau o'r blaen. Ond Satan ei hun oedd yn bwriadu ei hadferu, a dyrchafu yno faniar nos. Yn yr ymadrodd, "*if I that region lost,*" y mae "*I*" yn weithredydd, neu fel y geilw rhai ef, yn enwedigaethydd, i'r perwyddiad "*reduce;*" y mae "*region*" yn wrthddrych i'r un perwyddiad; a "*lost*" yn ansoddair; a'r cwbl i'w ddeall fel hyn, "*If I reduce that lost region, and erect there the standard of ancient night.*"

Llyfr iii. llin. 203.

"Man disobeying,
Disloyal breaks his fealty, and sins
Against the High Supremacy of Heaven,
Affecting Godhead, and so losing all."

PUGHE : tudal. 75.

"O anufuddâu
Y Dyn, y tora yn anfredawl ei
Warogaeth, ac y pecha wrth y Nef
Uchafiaeth, ac y *Duwdawl o gyffroi*
Yn colli oll."

Arall :—

"Yn ymgeisio at Dduwdod, ac felly yn colli y cwbl."

Mae yn hysbys i bawb sydd yn gwybod dim am Saesneg fod y gair "*affect*" yn dra mynyeh yn arwyddo uchelgeisio. Gellid tybied fod Dr. Pughe yn y fan yma wedi ymddiried y gwaith i ofal rhyw un oedd yn *affectio* pethau mawrion, er ei fod mor anghymhwys ag oedd swyddogion Cymdeithas y Biblau mewn un man, y rhai a ddywedent yn eu hadroddiad eu bod wedi anfon swm penodol i "*Gymdeithas y Rhieni,*" sef i'r *Parent Society*.

Llyfr iii. llin. 290.

"His crime makes guilty all his sons ; thy merit
Imputed shall absolve them who renounce
Their own both righteous and unrighteous deeds."

PUGHE : tudal. 78.

"Ei fai a wna
Yn euawg ei holl feibion ; dy haeddâad
Yn *ammodedig* a ryddâa y sawl
A wadant iawn un modd eu haniawn ryw
Weithredoedd."

Nid ydym yn benderfynol yn collfarnu y cyfieithiad hwn fel un anghywir; oblegid nid yw yn iawn cyhuddo neb o anghywirdeb nes deall pa beth oedd efe ei hun yn feddwl wrth y geiriau a ddefnyddid ganddo. Dichon fod Dr. Pughe yn cymeryd "ammodedig" yn yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair "cyfrifedig." Yn ei Eirlyfr y mae yn ei gyfieithu *covenanted*. Ond yr ydym yn galw sylw ato fel geiriad anarferol ac ammheüus.

Llyfr vi. llin. 150.

"Ill for thee, but in wish'd hour
Of my revenge, first sought for thou return'st
From flight."

PUGHE : tudal. 167.

"I ti gwaeth, ond ar awr
Fy nial, *cyntaf ceisid* : canys ti
O ffo dychweli."

Arall :—

"Ti yr hwn a geisid yn gyntaf wyt yn dychwelyd o ffo."

Mae Dr. Pughe wedi gosod yr attalnodau yn wahanol : ond mwy tebyg fod "for" yn perthyn i "sought" nag i "return'st;" gan nas gellir gweled pa fodd yr oedd gwaith Abdiel yn dychwelyd o ffo yn rheswm dros yr hyn a ddywedir o'r blaen.

Llyfr vi. llin. 162.

"This pause between
(Unanswered lest thou boast) to let thee know."

PUGHE : tudal. 168.

"Hyn o osteg rhwng (*na bod*
Atebiad rhag dy ffrost) er dy bwyllau."

Arall :—

"Rhag, os heb atebiad, i ti ymfrostio."

Y mae meddwl y cyfieithydd yn y fan yma eto yn aneglur : ond nid oes un ammheuaeth nad yr ystyr gwreiddiol yw, *Lest thou boast, if un-answered*.

Llyfr x. llin. 999.

"Then both ourselves and seed at once to free
From what we fear for both let us make short,
Let us seek Death, or he not found, supply
With our own hands his office on ourselves."

Why stand we longer shivering under fears,
That show no end but death, and have the power
Of many ways to die the shortest choosing,
Destruction with destruction to destroy."

PUGHE : tudal. 310.

"Ar unwaith yna i ryddâu,
Ein hunain ac ein had rhag ofn oddiwrth
Bob un, gwaith byr a wnawn, am Angeu ni
A chwiliwn, neu nas ceffid, yn ei le
Gwnawn gan ein dwylaw ni ein hnn ei swydd
Ei arnom: py tan ofnau safwn hwy
I grynu, nas dangosant dawl ond marw,
Pan allom farw lawer ffordd y fer
Gan ddewis, methu methiant trwy fwy me'h?

Arall:—

"Pan y mae genym allu trwy ddewis y feraf o lawer ffordd i farw, i ddystrywio ddystryw trwy ddystryw."

Mae yr argraffiadau cyffiredin o Milton yn cytuno â Dr. Pughe, ac yn rhoddi attalnod ar ol y gair "*die*" yn y llinell olaf ond un, ond yn ei adael allan ar ddiwedd y llinell cyn hyny. Tueddir ni, pa fodd bynag, i feddwl mai gwelliant fyddai newid lle yr attalnod; ac yn lle "*and have the power of many ways to die,*" i ddeall yr ymadrodd fel hyn, "*and have the power to destroy destruction with destruction, choosing the shortest of many ways to die.*" Yn yr ail linell hefyd, gellid meddwl fod Dr. Pughe yn darllen "*from both;*" ond gwell yn ddiau yw "*for both,*" sef, *i ni a'n had.*

Llyfr xii. llin. 129.

"He leaves his Gods, his friends, and native soil,
Ur of Chaldea, passing now the ford
To Haran: after him a cumb'rous train
Of herds, and flocks, and num'rous servitude;
Not wandering poor, but trusting all his wealth
With God, who called him, in a land unknown.
Canaan he now attains: I see his tents
Pitched about Sechem, and the neighb'ring plain
Of Moreh: there by promise he receives
Gift to his progeny of all that land,
From Hamath northward to the Desert south
(Things by their names I call, though yet unnamed)
From Hermon east to the great western sea;
Mount Hermon, yonder sea; each place behold
In prospect, as I point them: on the shore

Mount Carmel ; here the double-founted stream
 Jordan, true limit eastward : but his sons
 Shall dwell to Senir, that long ridge of hills.
 This ponder, that all nations of the earth
 Shall in his seed be blessed. By that seed
 Is meant thy great Deliverer, who shall bruise
 The serpent's head ; whereof to thee anon
 Plainlier shall be revealed. This patriach blest,
 Whom faithful Abraham due time shall call,
 A son, and of his son a grand-child leaves,
 Like him in faith, in wisdom, and renown."

PUGHE : tudal. 348.

"Gada efe yn llwyr
 Ei Dduwiau, ceraint, ei gynenid fro
 Ur o Caldea, trwydda weithion ryd
 I Haran, ar ei ol amrosgo gordd
 Da blithion, defaid, a rhifedi mawr
 Gwasanaeth, nid o reidus grwydraw, ond
 Ymddiried ei holl olud gyda Duw,
 Gan hwn y gelwid, mewn diwybod wlad.
 Canaan cyrhaedda bellach ; gwelaf ei
 Bebyllion amgylch Sechem hen, a bro
 Gyfagaws Moreh ; o addewid y
 Derbynia yno odd y tir achlân
 Rodd idd ei hil, o Hamath ogledd i
 Ddiffeithwch dean (galwaf bethau wrth
 Eu henwau, er na enwid eto hwynt)
 O Hermon ddwyrain fan hyd i for mawr
 Gorllewin ; mynydd Hermon, draw y mor,
 Pob man yn amlwg sylwa di, mal y
 Dangoswyf ; mynydd Carmel ar y lan ;
 Ac yma yr Iorddonen ddwyffrwd flaen,
 Iawn fin dwyr ; ond ei blant preswylant hyd
 I Senir, hon hir drum o fryniau draw.
 Hyn synia, y bendithir yn ei had
 Cenedloedd daiar oll ; meddylir wrth
 Yr had hwn dy Waredydd mawr, hwn a
 Ysiga ben y sarff ; o hyn i ti
 Datguddir yn y man amlyeach wedd.
*Hwn gyndad mad, gan Abraham ffyddllawn mewn
 Iawn bryd, a elwir fab, ac odd ei fab
 Gadawa wyr, mal ef mewn ffydd, a bri."*

Arall :—

Y cyndad mad hwn y bydd oesoedd dyfodol yn ei alw Abraham ffyddllawn, a
 adawa fab, ac o'i fab gadawa wyr."

Eglur yw oddiwrth yr holl linellau blaenorol mai wrth y cyndad hwn y mae i ni ddoall Abraham. Braidd na fuddyllem fod y cyfieithydd yn cymeryd "gan" am *sef*, fel yr arferir mewn rhai parthau o Wunedd. Ond pa synwyr yw dywedyd, "Y cyndad hwn a elwir fab" nis gwyddom. Diau fod y perwyddiad "*leaves*" i'w ddeall o flaen "*a son.*"

Ond digon bellach: nid ein hoff waith mewn un modd yw nodi beiau; ac nid wrth chwilio am danynt y daethant i'r golwg, ond wrth ddarllen yn achlysurol. Gallasem hefyd enwi rhai manau y gadawyd allan ddarnau o Milton; megys llyfr x., llin. 899, lle y mae deng linell heb ddim yn ateb iddynt yn y cyfieithiad. Ond gwell genym droi at yr ochr arall i'r ddalen; ac yr ydym yn rhwym o ddyweyd nad yw yr holl ddiffygion ond brychau bychain anaml mewn cymhariaeth i'r rhagoriaethau. Cawn yma ddyfynu rhai o geinion "Coll Gwynfa," am y bydd hyny yn gyfiawnder â'r cyfieithydd, yn gystal ag i wneyd Milton ei hun yn fwy hysbys i'r Cymry. Nis gwyddom yn iawn pa fodd i ddewis; ond y mae ein llygaid yn disgyn ar y disgrifiad o gyflwr Satan yn uffern, yr hwn a geir yn agos i ddechreu y ganiad gyntaf.

Llyf i. llin. 50.

"Nine times the space that measures day and night
To mortal men, he with his horrid crew,
Lay vanquish'd, rolling in the fiery gulf,
Confounded though immortal: But his doom
Reserved him to more wrath; for now the thought
Both of lost happiness and lasting pain
Torments him; round he throws his baleful eyes,
That witness'd huge affliction and dismay,
Mix'd with obdurate pride and steadfast hate:
At once, as far as angels' ken, he views,
The dismal situation waste and wild:
A dungeon horrible on all sides round,
As one great furnace flamed; yet from those flames
No light; but rather darkness visible
Served only to discover sights of woe,
Regions of sorrow, doleful shades, where peace
And rest can never dwell: hope never comes,
That comes to all: but torture without end
Still urges, and a fiery deluge, fed
With ever-burning sulphur unconsumed."

PUGHE: tudal. 3.

"Naw o droion rhoi

A dreigla i ddyniadon ddydd a nos,
Efe ac ei giwed hagr, tan allu trech,
Ymgreinient yn y cau o dan'de certh,

Mewn syndawd er o anfarwoliion naws :
 Ond grym ei dynged pwysai i fwyâu
 Y dig a haeddai efe ; can ymbwyllâa
 Yn awr am wynfyd a gollasid byth
 Ac am y boen a ddelai : tafai wg
 Golygon mall, a welynt ofid blwng
 A braw yn gyfred gan falchineb syth
 A thrylwyr gas : cybelled ag yw trem
 Engylion, sylwa efe ar unwaith ddull
 Y fangre athrist, anial iawn a gwyllt ;
 Ofnadwy ffau yn ffamiaiw amgyleh oedd
 Fal eang ffwrn, ac eto nid oedd gwawl
 Y ffamiaiu hyn, ond amlwg wyll a braidl
 Ddangosai dremion gwae, trigfanau ing,
 A syn gysgodion och, lle mwy ni bydd
 Na thanc na gorphwys, gobaith mwy nis daw
 A ddaw i bawb ; ond nych heb arno daw
 A rwysga, a llifeiriant tandde fflwch,
 O faeth ufeliar hylosg dileiâad.”

Mae y cyfieithiad yma, hyd y medrwn ni weled, yn berffaith ddifai : ac afreidiol yw sylwi fod y disgrifiad yn rymus a chyffrôs ; oblegid y mae pob enaid yn teimlo hyny wrth ei ddarllen. Yn nesaf, edrychwn ar weledigaeth angeu. Llawer ymgais sydd wedi bod i ddangos rhyw ddelwedd o frenin y dychryniadau ; ond y mae pawb bron, oddigerth Milton, yn ei wneyd yn wrthddrych, dirmyg yn fwy na dychryn. Cof yw genym fod Professor Wilson yn sylwi ar y medrusrwydd gyda pha un y mae Milton yn tafu aneglurder brawychus dros yr holl ddisgrifiad. Mor bell oddiwrt h ei bersonoli, nid yw yn son am ddim mwy na llun : ond y mae yn cymedroli hyny drachefn, ac yn ychwanegu, “ Os llun y gellir galw yr hyn nad oedd iddo lun.” Nis gŵyr yn iawn pa un oedd, ai sylwedd ai cysgod, “ *for each seemed either.*” Yna mae yn defnyddio yr hen gymhariaeth Homeraidd, “ Du y safai fel nos.” Ond yr oedd yn ysgwyd erchyll saeth : nid cysgod oedd hono. Nid oedd pen ganddo, ond yr hyn a ymddangosai yn ben : ac nid coron oedd ar hwnw, ond rhith breninol goron. Yna, pan ydym yn syllu mewn syndod ac arswyd ar y peth hyll aruthrol hwn, dyma ddadganiad disymwth, “ *Satan was now at hand.*” Y mae Dr. Pughe wedi gwanhau y frawddeg hon trwy roddi “ oedd ” o flaen “ Satan ;” ac y mae cyn hyny wedi gadael allan y geiriau “ *terrible as hell.*” Gyda hyn o eithriadau, y mae wedi dyfod trwy y lle yma yn fuddygoliaethus. Ond dyma y cyfieithiad :—

Llyfr ii. llin. 666.

“The other shape
 If shape it might be call'd that shape had none
 Distinguishable in member, joint, or limb,
 Or substance might be call'd that shadow seem'd,
 For each seem'd either; black it stood as Night,
 Fierce as ten Furies, terrible as Hell,
 And shook a dreadful dart. What seem'd his head
 The likeness of a kingly crown had on.
 Satan was now at hand, and from his seat,
 The monster moving onward, came as fast
 With horrid strides, Hell trembled as he strode.”

PUGHE: tudal. 53.

“Os llun y gelwir nad
 Dosbarthus lun o gymal iddo oedd
 Nac aelawd, neu y gelwir sylwedd fal
 Pe cysgawd oedd ac fal y naill y llall;
 Yn ddu fel nos y safai, poethach no
 Deg froch o fâr, bygythiai erehyll saeth:
 Hyn fal pe pen oedd iddo arno oedd
 Cyffelyb i freninawl goron ferth.
 Oedd Satan yma yn y fan, oddiar
 Ei sedd y gwrthyn brysiol gynted rhag
 Ei faen ar gamau anferth, uffern a
 Ergrynai gan ei drawd.”

Llawer ffordd sydd i geisio gwneyd araeth neu ddesgrifiad yn fawreddus. Y mae rhai yn amcanu at hyny trwy arfer geiriau mawrion, ac eraill trwy gyffelybiaethau gwyhion. Y mae rhyw reswm gan y rhai olaf; oblegid y mae cyffelybiaethau yn brydferth a buddiol yn eu lle fel addurniadau; ond dylid gofalu am fod yno rywbeth gwerth ei addurno, ac na byddo yr addurn yn cuddio y meddwl tufewdol o'r golwg. Dylid cofio hefyd mai nid y wisg sydd yn *cyfansoddi* gwir fawredd. Fel prawf o hyn cawn ddyfynu rhan o araeth Satan pan ddisgynodd ar y ddaear gyntaf, un o'r darnau ardderchocaf yn “Coll Gwynfa;” ond nid yw yn cynnwys cymaint ag un gyffelybiaeth, nac un math o droell-ymadrodd o'r dechreu i'r diwedd,—dim ond mawredd hanfodol, noeth. Ffordd effeithiol i farnu teilyngdod cyfansoddiad, yw ei ddyosg o bob addurn, ac edrych pa faint o sylwedd fydd wedi hyny ar ol. Yn yr ymadrodd mwyaf mawreddus a fu erioed, nid oedd dim ond “Bydded goleuni, a bu goleuni.” Yn rhai o feirdd ac areithwyr goreu y Groegiaid, ni cheir un amser gyffelybiaethau hir-

faith ; dim ond cyfeiriad at ambell gymhariaeth mewn gair neu ddau wrth fyned heibio ; a thueddar ni i feddwl mai dyma y cwbl sydd yn cydweddu â theimlad dwfn. Yn y cyfryw amgylchiad, nid oes gan y meddwl amser i olrhain cyffelybiaethau ; er y dichon iddo gyffwrdd â hwynt fel yr hylif trydanol. Mewn cyffyrddiadau cymhariaethol fel hyn, nid oes neb mor hapus a Shakspeare. Y mae yn rhagori yn hyn hyd yn nod ar Milton. Mewn disgrifiad, o'r tu arall, y mae yn naturiol i ni chwilio am bob cymhorth i osod allan y meddwl, ac-y mae yn rhydd i ni aros yn hwy gyda'r cyffelybiaeth. Felly yn y rhanau disgrifiadol, y mae Milton yn arfer cyffelybiaethau go faith ; ac yn gosod holl gyfoeth hanesiaeth a gwybodaeth y byd dan deyrnged i'r perwyl. Ond pan yn adrodd teimladau dwysion, prin y mae yn caniatáu iddo ei hun gymaint a chyfeiriad at unrhyw gymhariaeth. Yn y dyfyniad a ganlyn, y mae Milton hefyd yn defnyddio y geiriau mwyaf dysymyl, yn yr hyn y dilynwyd ef gan y cyfieithydd. Ac y mae yn rhaid i ni ddyweyd am Dr. Pughe mai anfynech y mae yn troseddu trwy arfer geiriau rhy fawrion. Nid trwy ffurfio geiriau cyfansawdd y mae mor an-nealladwy, ond yn hytrach trwy ddadgyfansoddi yn ormodol. Ond yma y mae wedi gochelyd y ddwy ochr, ac wedi ymgadw yn lew at yr iuth gyffredin.

Llyfr iv. llin. 73.

“ Me miserable ! which way shall I fly
 Infinite wrath, and infinite despair ?
 Which way I fly is Hell ; myself am Hell :
 And in the lowest deep a lower deep
 Still threat'ning to devour me opens wide,
 To which the Hell I suffer seems a Heav'n.
 O then at last relent. Is there no place
 Left for repentance, none for pardon left ?
 None left but by submission, and that word
 Disdain forbids me, and my dread of shame
 Among the Spirits beneath, whom I seduced
 With other promises and other vaunts
 Than to submit, boasting I could subdue
 Th' Omnipotent. Ay me, they little know
 How dearly I abide that boast so vain
 Under what torments inwardly I groan,
 While they adore me on the throne of Hell !
 With diadem and sceptre high advanced,
 The lower still I fall, only supreme
 In misery ! such joy ambition finds.
 But say I could repent, and could obtain
 By act of grace my former state, how soon

Would height recall high thoughts, how soon unsay
 What feign'd submission swore ! ease would recant
 Vows made in pain, as violent and void ;
 For never can true reconciliation grow
 Where wounds of deadly hate have pierced so deep :
 Which would but lead me to a worse relapse
 And heavier fall : so should I purchase dear
 Short intermission bought with double smart.
 'This knows my Punisher : therefore as far
 From granting he, as I from begging peace.
 All hope excluded thus, behold, instead
 Of us outcast, exiled, his new delight,
 Mankind created, and for him this world.
 So farewell hope, and with hope farewell fear,
 Farewell remorse : all good to me is lost :
 Evil be thou my good ; by thee at least
 Divided empire with Heaven's King I hold,
 By thee, and more than half perhaps will reign ;
 As man ere long, and this new world shall know.'

PUGHE : tudal. 98.

“Mi truenus ; i ba le

Rhag llid diddiwedd ac anobaith byth
 Y ffoaf ! y ffordd y ffowyf Uffern yw ;
 My hun wyf Uffern ; ac yn isaf dwfn
 Bygythia isach dwfn gan lydan safn
Fy ysu, Nef wrth hon yr Uffern a
 Oddefaf. Ynte O ymfeddalâa :
 Ai nid oes lle i edifeirwch, i
 Faddeuant ddim ! ond trwy ymostwng nid
 Oes dim ; gwahardda traha y fath air,
 Ac ofni gwaith Ysbrydion isod a
 Dywysais trwy addewid arall wedd,
 O ffrostiaw y gorfyddwn Ner pob nerth.
 Ië mi, neud prin y gwyddont druted y
 Goddefaf ffrost mor wag, tan hyn tu mewn
 O nych yr wyf yn ochi, tra y mawraant
 Ar orsedd Uffern fi. A choron ar
 Fy mhen yn dderchafedig fry, fy syrth
 Yw isaf byth, goruchaf wyf ond mewn
 Trueni ; haedda trachwant y fath hoen.
 Ond edifaru pe y gallwn, ac
 Y gallwn gael trwy ddawn o rad y cynt
 Orsafiad ! cynted yr adalwai y
 Goruchder uchel frydau, cynted byth
 Y gwadid hyn a dyngai ffug warâad ?
 Adganai hawddfyd ofynedau nych,
 Mal oferion trais. Am nas gellir byth
 Gymmodi, lle y brathed clwyfau cas
 Angenawl ddyfned : hyn nis dygai fi

Ond i adlithriad gwaeth a thrymach ewymp :
 Efelly drud y prynwn seibiant byr
 Er deufwy hrwyn. Gwyr fy arteithydd hyn :
 Am hyny pelled efe o roddi, ac
 Wyf fi o ofyn hedd : mal hyn nad oes
 Mwy gobaith, llyna ni yn eillion a
 Gwasgaredigion, ei orhoffedd yn
 Ein lle yw Dyn, ac iddo y byd hwn.
 Yn iach aed gobaith bellach, ac yn iach
 Aed ofn ynghyd, yn iach pryderi mwy ;
 Pob da i mi a golled : drwg bydd di
 I mi yn dda : o leiaf trwyot ti,
 Y daliaf gyfranedig rwyg & Naf
 Y Nef, ie, trwyot ti, a hwyrach mwy
 No hanner tan fy rhwysg : ac fal cyn hir
 Y gwybydd Dyn, a hwn y newydd fydd."

Digona hyn i ddangos pa beth sydd yn wir fawreddus : ond edrychwn eto ar un anghraifft o'r *prydfferth*, lle y mae Milton yn desgrifio "nos dawl yn dystewi;" a chredu yr ydym y cytuna ein darllenwyr na fu dim erioed yn fwy darluniadol. Yn y cyfieithiad o hono, nid oes ond dau o feiau gwerth sylwi arnynt. Yn gyntaf, mae Milton yn dyweyd fod y cyflychwyr yn gwisgo pob peth yn ei *lifrau* llwydion ei hun, fel arwydd fod y cwbl dan ei awdurdod, yr hyn sydd yn llawer mwy barddonawl na "duddasai yn ei liw cynnefin bob rhyw beth." Ac yn nesaf, y mae Milton yn darlunio "dystawrwydd yn canlyn." Nid oedd modd ei ddwyn i mewn yn fwy cynnil. Nid yw yn ei bersonoli yn amlwg; ond y mae yn ddigon fel arweiniad i mewn i'r meddylddrych ardderchog a geir yn un o'r llinellau dilynol. Ac felly, ar ol son am yr eos yn canu trwy y nos ei thrydar eu, y mae yn ychwanegu fod Dystawrwydd yn lloni wrth ei wrandaw. Ni fu erioed feddylddrych mwy anturiaethus; a diau y buasai yn disgyn yn rhy annysgwyliaidwy, ac o ganlyniad yn annaturiol, oni b'ai fod meddwl y darlennydd wedi ei barotï i'w dderbyn trwy y crybwylliad blaenorol. Y mae hyn wedi ei golli i raddau yn y cyfieithiad, gan mai nid yr un gair a roddwyd yn y ddaule am "*silence*." Ond ni chadwn y darlennydd yn hwy oddi wrth Milton a'i gyfieithydd.

Llyfr iv. llin. 598,

"Now came still evening on, and twilight grey
 Had in her sober liv'ry all things clad ;
 Silence accompanied : for beast and bird,
 They to their grassy couch, these to their nests,

Were slunk, all but the wakeful nightingale :
 She all night long her am'rous descant sung :
 Silence was pleased. Now glowed the firmament
 With living sapphires : Hesperus, that led
 The starry host, rode brightest, till the Moon,
 Rising in clouded majesty, at length
 Apparent queen, unveiled her peerless light,
 And o'er the dark her silver mantle threw."

PUGHE : tudal. 116.

"Dynesai weithion araul hwyr, a llwyd
 Gyflychwyr a duddasai yn ei liw
 Cynnenid bob rhyw beth ; canlynai taw.
 Y milod idd eu gwâl, yr adar idd
 Eu nyth, a gilient, ond yr caws ffraw ;
 Hi canai trwy y nos ei thrydar cu ;
 Oedd llon tawelwch : weithion gloewai wy'br
 Gan lasar-feini byw : Ucheron a
 Flaenorai lu serenawl, gwympaf oedd
 O rawd, nes mewn cymylawg fri y lloer
 Yn cwnu, yn frenines gain
 Dynoethai hi ei mirain wawl, ar daen
 Ei thoron arian bwriai dros y cudd."

Nis gwyddom pa fodd i ddiweddu yn well na thrwy ddyfynu un o gyfeiriadau Milton at ei gyflwr a'i dywydd ei hun. Mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr ei fod yn ddall pan yn cyfansoddi "Coll Gwynfa," ac yn cael ei anmharchu yn fawr gan yr Ucheleglwyswyr. Yn un o'i "*Sonnets*," y mae yn eysuro ei hun â'r ystyriaeth mai y rhai sydd yn dwyn yr iau yn fwyaf tawel sydd yn gwasanaethu Duw oreu, a'i fod Ef yn cyfrif fel ei weision, y rhai hyny nad ydynt yn gwneuthur dim ond sefyll a dysgwyl. Mewn un arall, y mae yn dyweyd nad yw yn colli un iota o galon na gobaith ; ond ei fod o hyd yn dal i fyny, ac yn morio yn gywir yn y blaen. Felly yn "Coll Gwynfa," ar ol gorphen yr hanner cyntaf o'r gwaith, y mae yn nechreu y seithfed llyfyn dadgan ei deimladau fel y canlyn :—

"Er mewn dyddiau drwg,
 Mewn drygion ddyddiau bod, plith drygion o
 Dafodau : mewn tywyllwch, ac aml byd
 I fy amgylchu mewn unigler ; nid
 Er hyny unig, tra gofwyi di
 Fy nosawl hun, neu pan orliwia gwawr
 Y dwyrain : eto twya di fy nghan,
 Nyfedon, ac andawiad addas cais
 I mi, er nad lliosawg."

Mwy o rai tebyg iddo a goder yn ein dyddiau ninnau. Os yw yn ormod dysgwyl am ei gyffelyb mewn dawn a gallu; nid yw yn rhyfyg i ni benderfynu ei ddilyn mewn uniondeb moesol, ac ymroddiad i ogoneddu Duw, yn fwy na rhyngu bodd dynion; ac yna gallwn goledd y grediniaeth y cawn rai addas i'n gwrandaw, "er nad lliosog."

Ysgrifenydd y sylwadau blaenorol flynyddoedd yn ol heb un dysgwyliad y byddai galwad arnom i draethu ein barn ar gyfieithiad arall o "Goll Gwynfa" i'r Gymraeg. O gymaint a hyn yr oedd ein llawenydd yn fwy pan ddeallasom fod I. D. Ffraid wedi ymaffyd yn y gorehwyl, ac nid yw y llawenydd hwnw wedi troi yn siomedigaeth wrth ddarllen y llyfr. Yr oedd yr anturiaeth yn fawr, a'r cwbl a ellid ei ddysgwyl oedd llwyddiant cymhariaethol. Y mae cadw dullwedd Milton yn berffaith wrth gyflwyno ei feddyliau mewn iaith arall yn ormod gwaith i neb: ac y mae rhai anfanteision neillduol yn perthyn i'r iaith Gymraeg. Un o honynt ydyw, fod y Gymraeg, mewn cymhariaeth i'r Saesneg, yn ddiffygiol mewn geiriau unsill. Er mwyn osgoi yr anhawsder hwn y mae rhai yn diweddu eu llinellau yn fynych gydag *i, o, tney, dros*, a'r cyfryw eiriau dibwys. Nid yw hyn byth yn cael ei arfer gan Milton; ac ni ddylid ei arfer wrth gyfieithu Milton i'r Gymraeg. Y mae I. D. Ffraid yn llawer mwy rhydd oddiwrth y bai hwn na Dr. Pughe. Y mae yma ddau berygl i'w gochelyd. Ar un llaw ni ddylid diweddu y llinell yn fynych yn niwedd brawddeg. Dylai y gorphwysfaoedd amrywio yn barhaus er mwyn gochel unfurfaeth; ac o ganlyniad dylai y llinellau ddiweddu yn fynychaf heb un atalnod, neu gyda rhai o'r atalnodau lleiaf. Ond ar y llaw arall y mae Milton, yn gofalu bob amser fod pob llinell yn llinell, a'i bod yn dybenu gyda rhyw air cryfach nag *and*, neu *with*, neu *to*. Felly mae yn amlwg mai nid mesur direol yw mesur diodl.

Y mae anfanteision eraill yn tarddu o'r dull cyffredin o drefnu y geiriau mewn ymadrodd. Y mae rhai o'r anfanteision hyn nad oes dim i'w wneyd ond eu goddef; ond y mae eraill y byddai yn hawdd eu symud. Yn mysg y rhai olaf gellid enwi y dull o ddefnyddio *yr*

hwn, neu yr hon. Cymerwn anghraifft o gyfieithiad I. D. Ffraid yn nechreu y gwaith hwn—

“angeuol flas
Yr hwn ddug farw a'n gwae i gyd i'r byd,”

Y Saesneg ydyw

“whose mortal taste
Brought death into the world, and all our woe.”

Yr ydym yn gorfod teimlo fod y Gymraeg, fel y mae yma, yn eiddilach o lawer na'r Saesneg. Ond byddai yn hawdd symud y bai trwy ysgrifenu yn fwy unol â phriod-ddull y Gymraeg

“yr hwn i'r byd
A'i farwol flas ddug aneu a'n holl wae.”

Nid ydym yn beio y cyfieithydd am ddweyd “angeuol flas yr hwn ddug farw;” oblegid y mae yn ddull cyffredin o ysgrifenu, ac nid ydym yn amhheu nad ydym ein hunain yn fynych wedi syrthio i'r un amryfusedd: ond gwell yn ddiâu yw “yr hwn a'i angeuol flas a ddug,” neu “yr hwn y dug ei angeuol flas.”

Nid yw y pethau hyn ond brychau na fuasent yn werth son am danynt, neu na fuasent i'w gweled o gwbl, mewn ambell gyfansoddiad; ond y mae y cyfieithiad hwn yn waith y teimla un obaith a hyfrydwech wrth geisio ei gael yn nes at berffeithrwydd. Mewn llawer ystyr, er nad yn mhob ystyr, y mae yn rhagori ar eiddo y Dr. Pughe. Ei brif ragoriaeth ydyw, ei fod yn llawer mwy llythyrenol. Y mae hyn i'w weled yn y llinell gyntaf, a gellir cymeryd hono yn anghraifft o'r gwahaniaeth rhyngddynt yn gyffredin. Geiriau Milton ydynt

“Of man's first disobedience, and the fruit
Of that forbidden tree.”

Cyfieithir hwynt gan Pughe fel y canlyn:—

“Am drosedd dyn, ac aeron teg y pren
Yn waharddedig.”

Llinell brydferth yw hon o eiddo Pughe. Y mae yn swnio mor fawreddus nes yr ydym ar y cyntaf yn tueddu i ddweyd fod Pughe yn rhagori ar Milton. Ond wrth ei theimlo a'i phwyso yr ydym yn dechreu amhheu. Pa beth yw “trosedd dyn”? Yr hyn a ddywed

Milton yw "anufudd-dod cyntaf dyn," fel y mae gan Ffraid. Gwyddom mai hyn a feddyliai Pughe, trwy ein bod eisoes yn gydnabyddus a Milton; ond pe byddai i bregethwr ddechreu ei bregeth trwy ddweyd, "Yr wyf yn myned i sylwi heddyw ar drosedd dyn, er mwyn dangos ei fawredd a'i echryslonrwydd," mae yn sier mai ychydig fyddai nifer y gwrandawyr hyny a feddylent ei fod yn myned i draethu am bechod cyntaf Adda. Ond pa beth a ddywedwn am yr ail ran, "ac aeron teg y pren?" Y mae yma ymddangosiad o welliant; ond y mae yn myned yn brin wrth ei bwysu. Mewn rhai amgylchiadau gallesid goddef i'r cyfieithydd roddi y gair "teg" yn nghanol y frawddeg: ond yn y lle hwn, mewn cysylltiad a throsedd dyn, a'r galanastra a ddaeth trwy hyny, mae yn ddiâu y buasai Milton yn ei wrthod. Gwell genym gan hyny yw y llinell fel y mae yn syml gan Ffraid,

"Am anufudd-dod cyntaf dyn, a ffrwyth
Y gwaharddedig bren."

Ynglyn â hyn, gellid sylwi fod Ffraid, drwy yr holl waith, yn gosod y meddwl allan yn fwy cywir na Pughe. Nid oes yn ei gyfieithiad ddim ddim tebyg i'r camsyniadau digrifol y cyfeiriwyd atynt yn ysgrif flaenorol. Ni ddygwyddodd i ni weled ond ychydig o gam-gyfieithiadau, a'r rhai hyny yn ddibwys; ac ni fuasem yn sylwi arnynt ond yn unig ar yr egwyddor a gynwysir yn yr hen wirair Cymraeg, "Nid da lle gellir gwell." Rhoddwn yma rai anghreiffiau.

MILTON.

"Hail horrors, hail
Infernal world, and thou profoundest Hell
Receive thy new possessor; one who brings
A mind not to be changed by place or time,
The mind is its own place, and in itself
Can make a Heaven of Hell, a Hell of Heaven.
What matter where, if I be still the same,
And what I should be, all but less than he
Whom thunder hath made greater?"

FFRAID : Llyfr i, llinell. 302—312.

"Henffych frawiau mwy!
A chroesaw fyd uffernol! a thydi
A fagddu, ddyfnaf lynclyn, derbyn fi
Dy berchen newydd, un a ddwg i'th fewn
Feddwl nas gellir newid gan na lle
Nac amser, y meddwl yw ei le ei hun,

Ac ynddo ei hun all wneyd o uffern nef,
 Ac o nef uffern. A pha waeth pa le,
 Os byddaf byth yr un, a chwaith pa beth
 A fyddaf fi, yn oll ond llai nag ef,
 Yr hwn gan y taranau wnaed yn fwy?"

GWELLIANT.

"A pha waeth pa le,
 Os fi yr un, a'r hyn a ddylwn fod,
 Hyd byth, oll ond fy mod yn llai nag ef,
 Yr hwn gan allu 'r daran wnaed yn fwy?"

Mae y llinellau cyntaf o'r dyfyniad mor dda ag y dichon iddynt fod, ac yr ydym yn eu rhoddi yma er mwyn cyflawnder â'r cyfieithydd. Gellid meddwl fod yn anhawdd eu darllen yn Gymraeg na Saesneg heb deimlo eu grym a'u prydferthwch. Ond gwelsom un beirniad Seisnig yn eu gwyrddroi yn hollol, ac yn gwneyd y nodiad, fod Milton wrth ddweyd mai "Y meddwl yw ei le ei hun," yn gosod rhai o gyf-eiliornadau y Stoiciaid yn ngenau Satan mewn ffordd o wawd. Dyma un prawf mai nid yn Nghymru yn unig y mae beirniadaethau ffol yn cael eu cyhoeddi. Ond er cystal yw Ffraid yn y llinellau cyntaf, yr ydym yn ofni ei fod wedi camgymeryd ystyr y geiriau, "*And what I should be.*" Ac nid ydym yn sicr ein hunain ein bod yn deall y geiriau, "*All but less than he.*" Tebycaf ydyw y dylid eu cymeryd gyda'r geiriau o'r blaen yn yr ystyr, "pa waeth os ydwyf yr hyn a ddylwn fod, oll, yn gyfangwbl, ond fy mod yn llai nag ef." Galleu roddi ein rhesymau dros y golygiad hwn; ond aem felly yn rhy faith, ac y mae yn rhaid i ni fyned ymlaen o hyn allan yn fwy brysiog.

MILTON.

"which on his countenance cast
 Like doubtful hue."

FFRAID: Llyfr i, llinell. 634.

"yr hyn a fwriai ar ei wedd
 Fel eiliw o betrusder."

GWELLIANT.

"yr hyn a fwriai ar ei wedd
 Un fath betrusgar eiliw."

MILTON.

“and by success untaught.”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 11.

“Ac heb gael dysg gan lwyddiant.”

GWELLIANT.

“Ac heb gael dysg gan ffeithiau.”

Ystyr y gair: “*success*” yn Milton yw *canlyniad*, pa un bynag ai da ai drwg.

MILTON.

“Or, if our substance be indeed divine,
And cannot cease to be, we are at worst
On this side nothing”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 119.

“A'n sylwedd os diau mai dwyfol yw,
Ac nas gall beidio bod, gwaeth nis gall fod
Tu yma i ddim.”

GWELLIANT.

“Neu os yn wir ein sylwedd dwyfol yw,
Ac nas gall beidio bod, pan waethaf mae
Tu yma i ddim.”

Y mae yma eto le i ammhenaeth. Gellir cymeryd y geiriau, fel y gwneir gan y cyfieithydd, i arwyddo nas gallai fod yn waeth tu yma i ddiddymdra. Ond y mae hyny wedi ei ddweyd o'r blaen. Ac yn awr y mae Moloch yn cymeryd y dybiaeth arall, sef nas gellid eu difodi, ac yn ceisio dangos, hyd yn nod ar y dybiaeth hono, y gallent ymgysuro yn y meddwl eu bod tu yma i ddiddymdra er gwaethaf pob peth a all ddygwydd iddynt.

MILTON.

“When he who most excels in fact of arms,
In what he counsels and in what excels
Mistrustful, grounds his courage on despair.”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 148.

“pan y gwnai
Efe, y blaenaf mewn gorchestion eirf,
Mewn cynghor, ac yn mhob rhagorol gamp,
O ddiffyg hyder, seilio ei ddewrder ar
Anobaith.”

GWELLIANT.

“pan y mao
Efe, y blaenaf mewn gorchestion eirf,
Gan ammheu 'r hyn gynghora, a'r hyn yw
Ei benaf gamp, yn seilio”—

MILTON.

“Is this then worst?”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 199.

“A ydyw hyn gan hyny yn waeth”—

GWELLIANT.

“Ai 'r gwaethaf ynte ydyw hyn”—

MILTON.

“There to converse with everlasting groans.”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 225.

“I siarad yno mewn gruddfanau mwy.”

GWELLIANT.

“I gymdeithasu â gruddfanau mwy.”

MILTON.

“Since our present lot appears
For happy though but ill, for ill not worst.”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 273.

“gan y gwelir fod
Yn awr ein rhan yn ffodiog, er mai sâl ;
O sâl nid salaf.”

GWELLIANT.

“gan y gwelir fod
Yn awr ein rhan, o ffodiog er yn sâl,
O sâl nid salaf.”

MILTON.

“As if (which might induce us to accord)
Man had not hellish foes enow besides.”

FFRAID : Llyfr ii, llinell. 621.

“Fel pe (a gallai hyn ein gwneyd o'r farn)”

GWELLIANT.

“Fel pe (a gallai hyn ein gwneyd yn un)”

MILTON.

“Hesperus, that led
The starry host, rode brightest, till the moon,
Rising in clouded majesty, at length,
Apparent queen, unveiled her peerless light,
And o'er the dark her silver mantle threw.”

FFRAID : Llyfr iv, llinell. 730.

“Ucheron deg,
Yr hon flaenorai y serenog lu,
A rodiai loewaf, nes y codai 'r lloer
I'r lan yn hoew mewn cymylog urdd,
A bellach, fel brenines ar ei sedd,
Dadlenai 'n llawn ei digyffelyb wawl,
A'i mantell arian daflai dros y gwyll.”

GWELLIANT.

“Ac fel brenines amlwg yn y man
Dadlenai 'n llawn ei digyffelyb wawl.”

Rhoddir y dyfyniad hwn gyda golwg, yn benaf, i ddangos rhagoroldeb y cyfieithiad; ac nid yw ond anghraifft deg o'r holl waith. Ond y mae yma un gwall bychan, trwy fod y cyferbyniad wedi ei golli rhwng y lloer yn codi mewn cymylog urdd, a'i gwaith yn y man (*at length*) yn dadlenu yn llawn ei digyffelyb wawl.

MILTON.

“Lives there who loves his pain?”

FFRAID : Llyfr iv, llinell. 1060.

“A oes yno 'n byw
Neb gar ei boen?”

GWELLIANT.

“A oes neb yn fyw
A gar ei boen?”

MILTON.

“and wilt object
His will who bound us?”

FFRAID : Llyfr iv, llinell. 1071.

“Ac a wrth'nebit ei cwyllys ef?”

GWELLIANT.

“Ac ai dy wrthddadl yw ei cwyllys ef?”

MILTON.

“Argues no leader, but a liar traced,
Satan, and couldst thou faithful add?”

FFRAID : Llyfr iv, llinell. 1182.

“Ni ddengys flaenor, ond celwyddog un,
O Satan : a phe gellit ato roi
Ffyddlawn?”

GWELLIANT.

“Ni ddengys flaenor, ond celwyddwr noeth,
O Satan : ac a ellit ato roi
Ffyddlawn?”

MILTON.

“But ere then
Far heavier load thyself expect to feel
From my prevailing arm, though heaven's king
Ride on thy wings.”

FFRAID : Llyfr iv, llinell, 1158.

“ond dysgwyl di
Cyn hyny deimlo llawer trymach llwyth
Oddiwrth fy mraich, na phe gwnai Teyrn y Nef
Farchogaeth ar dy edyn.”

GWELLIANT.

“ond dysgwyl di
Cyn hyny deimlo llawer trymach llwyth
O'm braich orchfygol, er i Deyrn y Nef
Farchogaeth ar dy edyn.”

Y mae cystrawen yr ymadrodd yn goddef yr ystyr a roddir iddo gan y cyfieithydd : ond mwy naturiol yw cymeryd y gair “trymach” i gyfeirio at y cadwyni y sonir am danynt yn y llinell flaenorol.

Nid yw y gwallau hyn, a rhyw ychydig eraill a ellid eu nodi, megis “fab” yn lle “ferch,” llyfr ix, llinell. 458, yn lleihau nemawr neu ddim ar deilyngdod cyffredinol y gwaith. Nid ydynt ond yr hyn sydd yn dygwydd i bawb. O'r hyn lleiaf yr ydym ein hunain wedi syrthio llawer gwaith i gamgymeriadau mwy pwysig na dim a welir yn nghyfieithiad I. D. Ffraid. Y mae ar y cyfan yn hynod gywir ; ac nid yn unig yn gywir, ond yn rymus. Y mae dan radd o anfantais mewn cymhariaeth i Dr. Pughe trwy fod yr ymdrech i drosglwyddo yr holl feddwl yn ei wneuthur yn fwy amleiriog, ac weithiau oblegid hyny

'yn wanach. Ond pe dechreuem roddi anghreiffiau o'r manau lle y cawsom ein boddio tuhwnt i'n dysgwyliad, byddai raid i ni adysgrifenu cyfran helaeth o'r llyfr. Y mae gan amlaf wedi llwyddo i gadw sylwedd y meddwl heb aberthu y ffurf. Ac y mae mwy o bwys mewn ffurf nag a feddylir yn gyffredin. Pa beth yw y gwahaniaeth rhwng a leilad gwych ag un gwael? Gellir gwneyd hen ysgubor o gapel yn ddigon diddos; ond nid yw mor hardd i edrych arno oblegid ei fod yn ddiffygiol mewn ffurf. Felly y mae pob ysgrifenydd medrus yn alluog i osod ei feddyliau allan mewn ffurf brydferth. A dyma yr anhawsder mawr wrth geisio eu trosglwyddo o'r naill iaith i'r llall. Er pob ymdrech i roddi y meddwl yn gywir, os na roddir ef yn ei ffurf ei hun, bydd ei rym a'i brydferthwch wedi ei gollu. Ond yn y cyfieithiad hwn, ni a dybiem fod y ffurf Filtonaidd, mor bell ag oedd yn ddichonadwy, yn aros yn gyffredin am y meddyliau. I brofi nad yw hyn yn ganmoliaeth ry uchel, rhoddwn un dyfyniad yn mhellach, yr hwn nid yw ond dangosiad teg o ansawdd y gwaith.

“Ymbortha [ymborthaf] yna ar feddyliau r'ont
 Ysgogiad gwirfodd i gynghanedd mwyn;
 Fel yr aderyn effro'n canu'r hwyr,
 Gan byncio yn nghudd y llwyn ei gerdd y nos.
 Fel hyn dychwela holl dymhorau'r flwydd;
 Ond dychwel ni wna dydd i mi, na gwen
 Diriondeg hwyr a bore yn agosáu,
 Na threm ar wanwyn mewn blodeuawg wrid,
 Na rhosyn haf, na deadellau 'r maes,
 Na heidau'r nen, na gwyneb dwyfol dyn;
 Ond cwmwl tew a chaldug byth-barhaus
 Sy'n cau o'm cylch, a didol fi o ffyrdd
 Difyrus dynol ryw; yn llen llyfr cain
 Gwybodaeth, rhod i mi le hollol wag
 O weithiau Anian, ag sydd oll i mi
 Fel wedi eu croesi allan a'u dileu,
 Ac un o byrth doethineb wedi ei gau.
 O gymaint mwy tydi, nefolaidd wawl,
 Tywyna oddifewn, fy meddwl oll
 Goleua; yno plana lygaid ter,
 Oddiyno chwal a llwyr lanha bob niwl,
 Fel gwelwyf ac y traethwyf bethau sydd
 Yn anweledig byth i farwol drem.”

WILLIAM SALESBURY.*

Y MAE ymddangosiad yr ail argraffiad o Destament William Salesbury yn rhoddi achlysur cyfaddas a galwad uchel i gyflawni yr hyn oeddyd wedi ei fwriadu o'r blaen, sef anrhegu ein darllenwyr â chrynodeb o hanes am un o brif gymwynaswyr ein gwlad ; y cyntaf mewn trefn amser, ac nid yr olaf mewn teilyngdod, o gyfieithwyr hysgrythyrâu Sanctaidd i'r iaith Gymraeg. Nid gorchwyl hawdd yw hyn, gan fod y rhai sydd wedi mwynhau firwyth ei lafur, wedi bod yn esgenulus, tuhwnt i gyffredin, i gadw coffadwriaeth am ddim a berthyna iddo, heblaw ei enw yn unig : ac nid yw ysgrifenydd yn cyttuno hyd yn nod am y dull o ysgrifenu ei enw ; ceir ef weithiau yn Salisbury, neu yn Salusbury, a phryd arall yn Salsbri ; ond y modd yr ysgrifenydd ef ganddo ef ei hun yn niweddi ei gyfarchiad i'r Frenines Elizabeth, ac ac hefyd yn niweddi ei epistol "at yr oll Cembu," yw Salesbury.

Dywed Pennant, yn hanes ei deithiau yn Nghymru, fod y Salesburiad wedi dyfod i Leweni, gerllaw Dinbych, cyn amser Harri y trydydd. Yn y rhifyn am Ebrill diweddaf o'r "Archæologia Cambrensis," ceir llythyr ar y mater hwn oddiwrth un "Germano Cambro Britannus," yr hwn a hōna berthynas â theulu y Salesburiad. Yn ol ei dystiolaeth ef, yr oeddynt yn deilliaw o le a elwir Saltzburg, yn Bavaria, ac yn perthyn i deulu Bavaria, ac felly yn disgyn o Charlemagne. Adam de Saltzburg, medd efe, a sefydlwyd gan Harri yr ail yn Lleweni, pan' gymerwyd y lle oddiar y Tywysog Dafydd. Ond yr hanes manylaf am hynafiaid William Salesburg yw yr un a gynnwysir yn ail lythyr Garmon yn y "Gwyliedydd" am Mehefin, 1826, wedi ei ysgrifenu, fel y mae yn hysbys, gan y Parch. Walter Davies. Ac yn hytrach na'i anffurfio, trwy geisio ei ailgyfansoddi, mwy dewisol genym ni, ac yn ddiddadl mwy derbyniol i'n darllenwyr, fydd gadael Mr. Davies i lefaru yn ei iaith ei hun, yr hon sydd Gymraeg o'r fath oreu.

* O'r "TRAETHODYDD" am 1849.

“Yn ol deongliad dameg flangell y Philistiaid,—‘Allan o’r bwytäwr y daeth bwyd, ac o’r cryf y daeth allan felysdra;’ felly, oddiar wraidd y Saeson cleddyf-rudd, a’r Normaniaid saeth-annelawg, y tarddodd irwydd enydfawr, toreithiog o fendlithion tymmorol ac ysbrydawl, i Gymru dlawd a gorthrymedig. Y Salsbriaid oeddynt o äch Normaniaid, a dywedir mai gyda Gwilym y Goresgynydd y daeth y cyntaf o’r enw i’r Ynys hon, yn y fl. 1066. Yn ol llyfrau yr Arwyddfeirdd, mab i’r Salsbri cyntaf yn Nyffryn Clwyd, oedd Ioan Salsbri, a fu farw yn y fl. 1039: a Mr. Peter Elis a ddywed mai mab i hwn oedd Syr Harri Ddu, enw tra adnabyddus i hen delynorion Gwynedd: ond Reinallt a ddywed mai y pedwerydd Salsbri yn Nghymru oedd yr Harri Ddu uchod, ac iddo briodi Nest, wýres i Ithel Fychan, a marw yn y fl. 1289. Trwy fynych ymbriodi ac ymgyfathrachn äg etifeddesau Cymreig, daeth y Salsbriaid, fel rhai Normaniaid gwiwgof eraill, o enwau Herbert, Stradling, Basset, Turberville, &c., yn Gymry gwlad-gar, o barth gwaed, ac iaith, a serchiadau. Ym Marwnad Syr John Salsbri, hynaf, o Leweni, dywed Willam Lleyn megys wrth y marw,—

‘Y Sessiwn gwyddys eisïau
Eich doeth fron, a’ch *dwy-iaith* frau.’

Ac am y Salsbriaid, a’n syberwyd tuag at feirdd a cherddorion, y dywed S. Tudur, yn ei Awdl Briodas i John Salsbri o Rug, a Bachymbyd—

‘*Siôn* Eryr y gwyr i gyd—*Siôn* wrol,
Siôn eurwalch Bachymbyd—
Siôn fwyaf son i’w fywyd,
Siôn ben ar bawb sy’n y byd.’

‘Y gwyr o raddau a gâr roddion
Hap a roed iddynt y Prydyddion,
A gwyr o ddwyradd o gerddorion,
A chroew iaith hyrwydd a Chrythorion—
Nadolig, a *Sulgwyn*,—o delon’—*Bosg*, a *Mai*
Er maint a ddeuai, croesawai *Siôn*.’

“Pais-arfau y Salsbriaid, yn gyffredin oedd—‘Maes rhudd, *Llew* ar ei ysglyf, naid arianaidd, a choron euraidd, rhwng tair lloeren o’r trydydd lliw.’ Dengys hyn eu Cymreigyddiad; o herwydd bod arfau y Cymry yn fwy *lleuawg* o lawer nac arfau y Saeson. Anfynych y gwelir Arfbais bedranawg Gymreig heb *lew* yn rhyw gwr iddi.

“Mr. Pennant a dybiai ddyfod y Salsbriaid i *Lleweni* (llys yr hen Farchweithian, un o bymtheg llwyth Gwynedd yn yr Sfed ganrif) cyn amser Harri y trydydd: ond nid yw hyn debyg; canys yr oedd Dafydd, brawd ‘Llywelyn y llyw olaf,’ yn arglwydd Dinbych yn nheyrnasiad Edward y cyntaf; ac yn ei gwyn at Arch. esgob Caergaint y mae yn achwyn ar drais a gorthrech Saeson Caerlleon, ac eraill, am dori a chludo ymaith ei goedydd ef yn *Lleweni*, heb ei genad ef. Y mae hyn yn hanesiaeth awdurdodawl, ac felly nid tebyg i’r Salsbriaid feddiannu Llys Marchweithian nes y dienyddiwyd Dafydd, arglwydd Dinbych, gan ei clynon

eigyddaidd yn Amwythig, yn y fl. 1282. Ond pa bryd bynag y daethant i Leweni, ni buont hir cyn lledu eu hesgyll, a pherchenogi nifer o balasau a threftadaethau, yn swyddau Dinbych, Fflint, a Meirion : canys ni a'u cawn yn Bachymbyd—Rug—Bachegraig—Yr Ystoc—Lleproc—Llanrhaiadr—Llywesog—Clocaenog—Llanfwrog—MaesCadarn—Gwytherin—Dol-beleddr—Llandyrnog.

“Ond ‘golud yn ddiau a gymer adenydd, ac a eheda ymaith, megys eryr tua’r wybr.’ Enwan a thenlloedd a ymddangosant yn fawr eu rhwysg, ac a ddiflanant. Felly o’r Salsbriaid llydain eu hesgyll, nid oes heddyw—‘prin *ddau*, lle yr oedd gynnuau gant’—neu lai na *dau*, canys ar wiffeddwl ysgafn nis gwn ond am *un* ty-lwyth cerbydawg, boneddwiw, o’r enw, a hwnw nid yn *Ngywnedd* ond yn *Ngywent*.”

Gwelir fod Mr. Davies yn anghyttuno â Pennant mewn perthynas i’r amser y daeth y Salesburiaid i Leweni, yn gymaint a bod Dafydd ab Gruffydd yn cwyno am fod y Saeson o Gaerlleon yn tori ei goed ef yn Lleweni heb ei genad, yn amser Edward y cyntaf. Ac nid yw y llythyr yn yr “Archæologia Cambrensis” yn rhoddi ond ychydig neu ddim goleuni ar yr anhawsder; yr hwn a arwydda fod Lleweni wedi ei gymeryd oddiar Dafydd ab Owen Gwynedd mor foreu ag amser Harri yr ail. Er hynny, gan fod Pennant yn un o’r ysgrifenywyr mwyaf gofalus am gywirdeb yn ei holl hanesion, nid yw yn hawdd ei anghredu yn yr achos hwn. Efallai fod yr hyn a ganlyn yn symud rhyw radd o’r anghysondeb. Yn yr un llyfr o waith Pennant, crybwyllir am freinlen tref Dinbych, yn yr hon y dywedir fod Richard y trydydd wedi caniatáu i’r bwrdeisiaid a fyddai yn Saeson gael porfau pob math o anifeiliaid, ar bob tymmor o’r flwyddyn, yn mhortha gyffredin y dref a fforest Lleweni. Yn awr gan fod Dafydd ab Gruffydd yn arglwydd Dinbych, onid yw yn rhesymol meddwl mai fforest Lleweni a gyfrifai efe yn eiddo iddo ei hun. O’r hyn lleiaf, y mae yma brawf y gallasai y Salesburiaid fod yn Lleweni, er fod Dafydd yn hōni hawl i ryw gyfran o’r coed; oblegid nid oes un ammheuaeth nad oeddynt yno yn amser Richard y trydydd, pan oedd y fforest yn perthyn i fwrdeisiaid Dinbych.

Cyn myned i son yn benodol am Y SALESBURY a wnaeth yr enw mor anwyl i bob mynwes Gymreig, tybiwn mai nid annifyr fydd ychydig hanesynau am eraill o’r teulu. Mewn hen fywgraffiad am Syr Rhys ap Thomas, yr hwn sydd i’w weled yn y cyflyfr cyntaf o’r “*Cambrian Register*,” dywedir fod amryw o Salesburiaid Lleweni wedi ymuno â Syr Rhys i bleidio Iarll Richmond, wedi hynny, Harri y seithfed, yn erbyn Richard y trydydd. Yn 1563, rhoddodd y frenines Elizabeth arglwyddiaeth Dinbych i Robert Dudley, Iarll Leicester, yr hwn a

wnaeth hafog nid bychan yn y rhan hono o'r wlad. Er iddynt ei arhegu â dwy fil o bunnau, nid ymfoddlonodd ar hyny; ond cododd y rhenti o ddau cant a hanner yn y flwyddyn, i wyth neu naw cant o bunnau; a chauodd y tiroedd cyffredin, yr hyn a barodd i'r bobl godi yn ei erbyn, a thynu i lawr y cloddiau. Cymerwyd dau o feibion Lleweni, medd Pennant, yn garcharorion o'r achos i'r Amwythig, a dedfrydwyd hwy i farwolaeth fel gwrthryfelwyr.

John Salesbury o Leweni, a briododd Catherine o'r Berain; trwy yr hon briodas yr unwyd y ddwy etifeddiaeth. Efe oedd ei gwr cyntaf: a dywed yr hanes fod Catherine, ar ol dilyn ei gorff at y bedd, yn dychwelyd adref gyda Morris Wynn o Wydir, ac iddo yntau awgrymu yn ostyngedig y dymunai fod yn ail wr iddi. Atebodd hithau yn foesgar iawn, ei fod yn rhy ddiweddar, gan ei bod hi wedi rhoddi ei gair i Syr Richard Clough wrth fyned tua'r eglwys; ond os byddai hi byw i gyflawni yr un ddefod i Syr Richard, na byddai ganddi y gwrthwynebiad lleiaf i'w gymeryd ef yn drydydd. Ac felly y bu. Mab hynaf John Salesbury a Catherin o'r Berain, oedd Thomas Salesbury, yr hwn a ddiennyddiwyd yn achos brad Babington, yn y flwyddyn 1586,* bedair blynedd ar bymtheg ar ol i William Salesbury gyhoeddi ei gyfieithiad o'r Testament Newydd, Gellir casglu mai Pabydd oedd y Thomas Salesbury hwn, oblegid cynghrair Pabaidd oedd brad Babington, i ladd y frenines Elizabeth, ac i osod Mary, brenines y Scotiaid, ar yr orsedd yn ei lle.

Hawdd a fyddai casglu ychwaneg o hanes y teulu hwn. Gellid dangos pa fodd y daeth y Salesburiaid i Rug, trwy i Pierce Salesbury o Bachymbyd, mab John, mab Thomas Salesbury *hen* o Leweni, briodi Margaret, ferch Iefan ab Hywel ab Rhys ab Dafydd ab Hywel; yr hwn Iefan oedd wedi priodi Gwenhwyfar, merch ac etifeddes i Elisæus ab Gruffydd ab Einion, o Rug. Gellid dangos pa fodd y darfu i "Salesbury Hosanau Gleision," ddal Castell Dinbych, yn 1646, yn erbyn plaid y Senedd, nes y gorchfygwyd ef o'r diwedd gan y Cadfridog Mytton. A gellid dangos yn olaf pa fodd yr aeth tiroedd Lleweni i deulu *Combermere Abbey*, swydd Caerlleon, trwy briodas Syr Robert Cotton o'r lle hwnw â Hester, chwaer Syr John Salesbury, y barwnig olaf o'r enw, yn amser Siarl yr ail; a pha fodd y gwerthwyd hwy gan Syr Robert Salesbury Cotton, i'r Anrh. Thomas Fitzmaurice, brawd

* Nid yn 1587, fel y dywedir, trwy gamargraffiad yn ddiau, yn y "Gwladgarwr;" cyf. iv. tudal. 810.

Ardalydd Lansdowne; a chan ei fab yntau drachefn, yn y flwyddyn 1810, i'r Parch. Edward Hughes o Bare Kimmel, tad Arglwydd Dinorben, am y swm o p.209,000. Ond cofio yr ydym am y gofyniad byr, cynnwysfawr hwnw, *Cui bono?*—yr hyn o'i gyfieithu er dy fwyn di, Gymro uniaith, sydd yn arwyddo nad wyt yn malio ond ychydig am y bobl hyn, ac na fyddit fawr gwell er clywed eu hanes. Pwy a ym-droai i edrych ar ddynion cyffredin pan fyddo brenin yn myned trwy y dref? Nid ydym yn amhieu dim nad oedd llawer o honynt yn anrhydeddus yn eu dydd. Hwyl oedd yn rheoli mewn tref a gwlad; a'r ysgolaig o'r Plas isaf yn myned trwy y byd heb nemawr o son am dano, na choffa ar ei ol. Ond erbyn hyn, oni buasai rhyw gysylltiad rhyngddynt â'r ysgolaig dystaw, myfyrgar hwnw, ni buasem yn ystyr-ied eu henwau yn werth eu hysgrifenu. Gyda phob dyledus barch i chwi, foneddigion penedfigaidd, y mae yn rhaid i chwi yn awr gilio o'r ffordd i roddi lle i'ch gwell; un y byddai yn iselhad arno i roddi Syr neu Arglwydd o flaen ei enw; un llawer uwch i ymffrostio ynddo na Charlemagne ei hun. Ond pa le y ceir arwyddfardd teilwng i'w ddwyn ef ger bron? Nis gwyddom am neb gwell na'r Parch. Walter Davies: ac am hyny, ddarllenyddion, rhoddwch wrandawriad tra fyddo Gwallter Mechain yn traethu am enedigaeth William Salesbury. Ond er mai bardd wrth fraint a defod Ynys Prydain sydd yn myned i lefaru, dylid cofio fod amser i bob peth, ac nad yw yn iawn dysgwyl bardd-oniaeth ar achlysur o'r fath yma. Yr oll sydd gan Mr. Davies i'w wneuthur, yw dangos pwy oedd William Salesbury.


“O lwyth, neu baladr âch *Lleweni* yr hanodd ein cyfieithydd clodwiw. Ail mab i Domas Salsbri hen o Leweni, oedd Robert, a briododd Wenhwyfar, unig ferch ac etifeddes Rhys ab Einion Fychan o'r Plas Isaf, yn Llanrwst: o lin y 'Penwyn o Felai,' a fradychodd Ddafydd brawd Llewelyn ab Gruffydd i ddwyllaw Edward y cyntaf. Mab i Robert Salsbri o'r Plas Isaf, oedd Fowe Salsbri, a bu i hwnw ddau fab, o ferch i * * * Pilstwn o Fôn, sef Robert a *William*. Robert, yr hynaf, a briododd *Lowri*, ferch Syr Robert ab Rhys, caplan y *Cardinal Wolsey*, ac wyres i Rys ab Meredydd o'r Ysbytty, yr hwn, yn mrwydr Bosworth, a gipiodd i'w afael faniar syrthiedig teulu Lancaster, pan laddwyd Syr William Brandon, y banieriudd, gan law Risiart frenin, yn ei ymdrech egnawl i ddyfetha ei wrthwynebydd, Harri Tudur, Iarll Rismwnt, ac yn ol buddugoliaeth Bosworth, Harri VII, brenin Prydain fawr a'r Iwerddon, &c. Bu i Robert Salsbri yr ail, ddwy ferch, Gwen ac Elen. Gwen a gafodd y Berth ddu yn gynnysgaeth, pan briododd Griffith Wynn o Wydir. Elen a briododd Elis Llwyd o Rhiw goch, hynaif Syr John Wynn, a Wynnstay; ac ar ei ol ef, Owain Wynn, brawd y Gruffydd uchod, a bu iddynt fab a elwid Sion Wynn Owain, yr hwn a werthodd Fryn Sylltau, a'r Henblas i'w gefnder, Syr Thomas

Wynn, o Wydir; a Chaermelwr, a adeiladasai ei daid, Owen Wynn, a werthwyd ganddo i Domas Prys, o Blas iolyn, ac yntau eilwaith i Elis ab Harri, ac Ellis a'i gwerthodd i Owain Wynn, y diweddfaf o'r enw yn Ngwydir cyn ei fyned yn Farchog."

Y mae dau gamgymeriad bychan yn yr hanes hwn, os credwn Syr John Wynn o Wydir, na'r hwn nis gall fod arweinydd diogelach. Nid ail mab i Thomas Salesbury o Leweni, oedd Robert, ond y pedwerydd: ac nid unig ferch i Rhys ab Einion oedd Gwenhwyfar, oblegid dywed Syr John yn benodol fod ganddo un arall, os nad ychwaneg. Yr ydym yn addef nad yw y ddau wahaniaeth hwn ond dibwys i'r eithaf: ond pethau o'r fath hyn sydd wedi bod yn destunau i'r ymrafaelion tostaf ymhlith hynafiaethwyr yn mhob oes; a chan fod y dwymyn hynafiaethol arnom ninnau y dyddiau hyn, nis gallasem fyned heibio heb eu crybwyll. Y mae Mr. Davies wedi cyrhaedd y fath gyflawnder o enwogrwydd ar y maes hwn, fel y gall hebgor ychydig i'w ganlynwyr, heb brinhau dim arno ei hun. "Gwân dy bawl yn Hafren, Hafren fydd hi wed'yn."

Gan ein bod wedi agor "Hanes Teulu Gwydir," gwaith Syr John Wynn, tybiwn mai cymhwys fyddai ysgrifenu swm yr hanes a rydd efe am deulu y Plas Isaf; a hyn yn fwy, wrth gofio mai yno, ac nid yn Lleweni, y ganwyd William Salesbury. O Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru, y deilliodd Hywel ab Dafydd. I'r Hywel hwn yr oedd dau fab, Meredydd a Dafydd. O Meredydd y deilliodd teulu Gwydir trwy ei fab Robert. I Dafydd, brawd Meredydd, yr oedd mab a elwid Robin Vychan, i'w wahaniaethu, mae'n debyg, oddiwrth ei gefnder, Robert ab Meredydd. Robin Vychan a briododd Angharad, ferch Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Ednyfed Vychan. O'r briodas hon nid oedd ond un mab, a dim ond un ferch, yr hon a elwid Cattrin. Y Cattrin hon a briododd Rhys ab Einion Vychan, o dylwyth Penwyn yn Nanconwy. "Gan nad oedd iddo feibion o honi, dim ond merched, y rhan fwyaf o feddiannau y teulu hwnw, yr hyn oedd yn awr yn werth mil o *farciau* yn y flwyddyn, a aeth i'r Salesburiaid. Oblegid Robert Salisbury yr hynaf, pedwerydd mab Thomas Salisbury o Leweni, yn Sir Ddinbych, Ysw., a briododd Gwenhwyfar, verch Rhys ab Einion, o Cattrin, verch Robin Vychan ab Dafydd ab Hywel. Yr oedd i Rhys ab Einion un ferch arall o honi hi, a elwid Lleify, i'r hon y rhoddodd feddiannau hardd; ond nid dim yn debyg i'r llall, yr hon oedd wedi priodi Gruffydd ab Madog Vychan yn Abergele." Dyma

dystiolaeth Syr John Wynn: y mae yn diweddu mewn gradd o niwl; ond hwyrach mai merch i Rhys ab Einion o wraig arall oedd hono a briododd Gruffydd ab Madog Vychan. Byddai yr holl hanes ond odid yn fwy dealladwy pe trefnid ef fel hyn:—



Gadawn yr achau yn y fan yna ar hyn o bryd. Dichon y byddant yn gynuorthwy i ni mewn ymchwiliad o bwys a ddaw dan ein sylw ar ol hyn. Ond yr ydym yn dychwelyd unwaith eto i wrandaw ar Gwallter Mechain; yr hwn, mewn cysylltiad â'r dyfyniad a roddwyd uchod, sydd yn myned rhagddo fel y canlyn:—

“Yr hanes rhagflaenawl am Salsbriaid y Plas Isaf, a dynwyd allan o ysgrif-lyfr Mr. John Gruffydd, o'r Cae Cyriog ym Maelawr, hynafiaethydd diwyd a deallus yn ei oes: ond nid hawdd cydsyniaw â'r hyn a ganlyn, allan o'r un drysorfa:— ‘William Salsbri, Llen, ail frawd Robert Salsbri, a ddaliawdd y Plas Isaf oddiwrth y ddwy aeres, ei nithoedd Gwen ac Elen, a'i epil ef a'i piau eto, a buasai yn dal mwy oddiarnynt oni buasai i'r Dr. Elis Prys, o Blas Iolyn ei luddias. Cwtogwyd tiriogaeth y Plas Isaf yn fawr, herwydd rhaniadau i'r meibion ieuaf o oes i oes. Aeth Bryn y Barcud i un, Pant y Gareg Newydd i un arall; arall oedd Thomas Salsbri o Wytherin; arall yn Rhyd Lanfair, hynaif yr aeres a briododd Hwmffrai Llwyd; un arall yn Llan Nefydd,’ &c. Gan nad oedd na chyfraith na defawd wladawl yn llesteiriaw i fenywod etifeddu y tir a daear, yn yr oes dan ein sylw, nid yw debyg y gwnai gwr o gynneddfau addefedig W. Salsbri gymeryd meddiant ar dir a da ei nithoedd trwy drais. Nid oedd Wynniaid, Gwydir, chwaith y cyfryw fabanod a chymeryd eu dietifeddu yn ddiymdrech. Eto, ped gwir yr haeriad uchod, ni roddasai Syr John Wynn, o Wydir, gwr o ddoniau anianawl mwy na chyfredin, y fath eirda digymysg i'r ‘ysgothaig digymhar o'r Plas Isaf,’ fel y galwai efe William

Salsbri yn ei ysgrifeniadau, y rhai sydd i'w gweled eto. Pa fodd bynag, o blaid enw da prif-gyfieithydd Cymru, gellir dyfalu iddo ef etifeddu Plas Isaf ar ol marwolaeth ei frawd hynaf heb fab, trwy rym ammodau priodasol ei riëni, neu ryw weithred gyfreithiawl arall; ac mai gelyn i ledaeniad yr efengyl—rhyw Babydd neu gilydd, er mwyn pardduo ei enw da, a osododd ar droed y chwedl, mai trwy draws anghyfiawnder y daliasai efe diroedd ei ddwy nith."

Cyhuddiad trwm yw hwn yn y wedd y gosodir ef allan gan Mr. John Gruffydd; ac nid ydym yn ammheu nad yw yn cynnwys rhyw gymaint o wirionedd: ond y mae, fel llawer cyhuddiad, yn gadael o'r golwg wirionedd cyferbyniol, yr hwn sydd yn rhoddi goleu arall ar yr holl amgylchiad. Yn ol tystiolaeth Syr John Wynn, yn "Hanes Teulu Gwydir," yr oedd yr hyn a nodir uchod fel camwedd digyffelyb, yn arferiad cyffredin yn mysg y Cymry yn yr oesoedd cyn hyny: a phan ystyriom mor ymlyngar yw y Cymry fel cenedl wrth eu hen ddefodau, y mae yn naturiol i ni feddwl ei fod yn ffynu mewn rhai manau mor ddiweddar ag amser William Salesbury. Yr arferiad ydoedd, i'r tiroedd gael eu rhanu yn gyfartal rhwng y meibion ar farwolaeth eu tad; ond os byddai farw heb adael meibion ar ei ol, yr oedd y tiroedd, yn lle disgyn i'r merched, yn myned i'w frawd, neu bwy bynag fyddai yr etifedd. Y mae genym brawf diymwad mai hyn oedd yr arferiad ymhlith hynafiaid William Salesbury. Os edrychir ar yr achan blaenorol, gwelir mai ei hendaidd ef oedd Rhys ab Einion Vychan, yr hwn oedd wedi priodi Cattrin, ferch Robin Vychan. Ond gan fod Cattrin yn unig blentyn i Robin Vychan, aeth y tir yn eiddo i Iefan ab Robert ab Meredydd. Yr oedd y tir hwn, medd Syr John, yn cynnwys yr Henblas. Pa fodd y daeth wedi hyny i deulu y Salesburiaid, nis gwyddom; hwyrach mai trwy bryniad. Yn awr y mae yma brawf digonol na fuasai William Salesbury yn gwneuthur dim ond dilyn yr hen arfer pe buasai yn cymeryd meddiant o'r holl etifeddiaeth ar farwolaeth ei frawd: ond yn lle hyny, gadawodd ran fawr o honi i'w nithoedd. Nid ydym yn anghofio fod cyfnewidiad wedi ei ddwyn i fewn i Gymru, ac wedi lledu i raddau helaeth cyn hyn: ond wrth ystyried fod Salesbury yn byw yn agos i'r cyfrwng rhwng yr hen arferiad a'r newydd, nid yw yn rhyfedd os bu ychydig anhawsder ac anghydwediad, wrth ranu y tir, rhyngddo ef a'i nithoedd.

Nid ydym nemawr pellach ymlaen eto nag yn y dechreu gyda hanes William Salesbury ei hun: ond, fel y mae gwaethaf y modd, yr ydym er hyny yn tynu yn lled agos i'w ddiwedd. Gellid dyfalu llawer

am y dull y treuliodd ei ieuenctid, yr ysgolion yn y rhai y dysgodd elfenau icithyddiaeth, y brwydrau dealltwriaethol, ac anianyddol efallai, a fu rhyngddo â'i gydysgolêigion, y bwriadau a'r penderfyniadau a letyent yn ei feddwl pan yn rhodio yn fachgenyn gwrid-coch ar hyd y dolydd neu y mynyddoedd a amgylchiant Laurwst: ond ni fyddai y cwbl yn ddim amgen na dychymyg. Y mae yma le manteisiol i fardd, yr hwn sydd yn medru creu ffeithiau; ond i'r hanesydd nid yw ond anialwech tywodlyd. Dilys ydyw, modd bynag, iddo fyned i Rydychain; ond ni wyddai Anthony Wood pa un ai yn athrofa St. Alban, ai yn Broadgate (yn awr Coleg Penfro), y cartrefodd tra yn y brifysgol. Symudodd o Rydychain i Lundain er mwyn efrydu y gyfraith. Bu am ryw ysbaid yn *Thavies' Inn*, ac wedi hyny, medd rhai, yn *Lincoln's Inn*. Ond, fel y sylwa y Parch. Walter Davies, "ni adawodd Rhagluniaeth iddo ymrwymo am ei oes yn ngwasanaeth y gyfraith ac elw bydol. Gadawai y rhai hyn i Ddemas a'i deulu, a dychwelodd i fyw ar ei etifeddiaeth yn ngwlad ei enedigaeth. Hel-aethrwydd ei wybodaeth a dyfnder ei ddysg mewn llawer o ieithoedd, a wnaeth i oreugwyr a dysgedigion ei wlad edrych arno gyda pharch a charedigrwydd. Os efe a gyfansoddodd y Rhagymadrodd o flaen ei 'Eglurn Ffraethineb,' a gyhoeddodd H. Perri, ar ddymuniad John Salsbri o Leweni, ymddengys ei fod yn hyddysg mewn naw o ieithoedd, heblaw Saesneg a Chymraeg; sef Hebraeg, Caldaeg, Syriaeg, Arabaeg, Grywaeg, Lladinaeg, Ffrancaeg, Italaeg, ac Hispanaeg; mwy o rifedi nag 'wythawd' ei nai fab cyfynder yr awenyddawl a'r hybarch Edmund Prys, Mydrydd y Salmau cân." Gellir casglu iddo fod yn aros gyda yr Esgob Davies pan yn cyfieithu y Testament Newydd, ac wedi hyny yn Llundain tra yr oedd Henry Denham yn ei argraffu. Ond y traddodiad cyffredin ydyw, iddo dreulio y rhan fwyaf o'i oes yn y Cae Du, yn mhlwyf Llansannan, sir Ddinbych. Nid yw Mr. Davies yn y "Gwyllydydd," yn son gair am y Cae Du; ond dyma dystiolaeth Mr. Charles yn y "Geiriadur" dan y gair *Bibl*, a Dafydd Ddu yn ei "Eurgrawn," yr hwn oedd yn hynafiaethydd gwybodus. Anfynych iawn y mae hen draddodiad o'r fath yma heb ryw sail. Llwyddodd Dr. Robinson, yn well na neb a fu o'i flaen, i gael allan sefyllfaoedd yr hen ddinasoedd y sonir am danynt yn yr ysgrythrau; nid trwy ymgynhori a dysgedigion, ond trwy ymgymysgu â'r werin, a sylwi yn fanwl ar yr enwau a drosglwyddwyd i lawr o oes i oes, hyd y dyddiau hyn, trwy draddodiad. Os gosodir y bobl gyffredin i ymres-

y mu ynghylch y *pahan* a'r *pa fodd*, collir hwynt yn fuan mewn caddug o ffolineb; ond gellir ymddiried yn lled ddibetrus i'w tystiolaeth am ffeithiau. Er na chymerwn y Tadau yn esbonwyr a barnwyr, yr ydym mor foddolawn a'r Pabyddion eu hunain i'w cymeryd yn dystion o'r hyn a welsant ac a glywsant. Yn awr, un o'r pynciau mwyaf sefydlog yn nghredo pob dyn a phob dynes a anwyd yn mhlwyf Llansannan, ydyw, fod y Cae Du wedi bod yn annedde i William Salesbury. Yn yr hen dŷ, yr hwn oedd yn sefyll hyd yn ddiweddar, yr oedd y simdde yn eangach nag arferol, ac yr oedd arwyddion amlwg fod ystafell fechan wedi bod unwaith yn ei chwyr uchaf, yn yr hon, meddynt, yr ymguddiai y Cyfieithydd rhag yr erlidwyr, yn amser Mary waedlyd. Dywedir hefyd ei fod yn berehen ar dri neu bedwar o dyddynod eraill yn yr un plwyf. Glynwch yn y grediniaeth hon, drigolion Llansannan. Na chaniatewch i neb eich yspeilio o'r anrhydedd a lewyrcha ar eich bro brydferth oddiwrth enw Cyfieithydd cyntaf y Testament Cymraeg, yn gystal a rhai enwau eraill nid llai teilwng o gofiadwriaeth ar ol hynny. Mawr yw y parch sydd yn gweddu yn enwedigol i ti, y Cae Du, uwchlaw caeau cyffredin, pe byddent wynach eu lliw, a helaethach mewn maintoli; gan mai dyma y lle, yn ddiddadl, y preswyhodd William Salesbury am ryw gyfran o'i oes. Pa bryd y bu farw nid yw hysbys: tybiai Thomas Fuller mai oddeutu y flwyddyn 1560; ond camsyniad amlwg yw hyn, gan na chyhoeddwyd y Testament Newydd hyd y flwyddyn 1567.

Mewn perthynas i'r llyfrau a ysgrifenyd ganddo, nid ydym wedi ein gadael i ymbalfalu mewn cymaint o dywyllwch ag sydd yn gorcluddio y rhan arall o'i hanes. Gosodwn hwy i lawr mewn trefn, hyd y gellir, yn ol amser eu hargraffiad.

1. Y gwaith cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd fath o Almanac, yr hwn, meddai yr Esgob Humphreys, gynt o Fangor, ac wedi hynny o Henffordd, oedd yr Almanac Cymraeg cyntaf a argraffwyd. Rhoddir ei gynnwysiad ar y wyneb-ddalen fel y canlyn:—"Yn y llyvyr hwnn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arferadwy, a'r Gweddieu gocheladwy ac Keingeu." 4to. Llundain, 1546.

2. Geirlyfr Saesneg a Chymraeg, cyflwynedig trwy genad i'r brenin Harri VIII. "Imprynted at London, in Foster Lane by me John Waley, 1547. Cum privilegio ad imprimendum solum." O flaen y

geirlyfr y mae "Johan Waley y prenter yn danfon anerch ar popol Kymry." Sylwadau ar y geirlyfr hwn yw yr oll o hanes Salesbury a gawn gan Thomas Fuller: a chan eu bod fel pob peth a ddaeth o ysgrifell yr hen Fuller, yn llawn arabedd, nid annifyr gan lawer fydd eu darllen. "Y boneddwr hwn," medd efe, "o gariad at ei iaith enedigol, *amor patriæ ratione valentior omni*, a gyfansoddodd Eirlyfr Saesneg â Chymraeg byr; yr hwn yn gyntaf mewn modd anghyhoedd a gyflwynwyd i, ac a gymeradwywyd gan, y brenin Harri yr Wythfed (Tudyr o ochr ei dad o waed Cymreig), ac yna a argraffwyd yn gyhoeddus yn y flwyddyn 1547. Rhai dynion ymrysongar a ddadleuant yn erbyn defnyddioldeb y gwaith hwn, gan nad oedd ar y Cymry ddim *anghen*, nac ar y Saeson ddim *awydd*, am lyfr o'r fath. Ond gwybydded y cyfryw ei fod yn fuddiol i'r ddwy genedl; i'r Saeson er mwyn *cyrhaedd*, i'r Cymry er mwyn *cadw*, yr iaith hono. *Cyrhaedd*;—oblegid, gan ei bod yn iaith gyntefig, nid yw yr hynafiaethydd ond cloff hebddi (yr hyn a wn trwy fy niffyg fy hun) i ddeall yr ychydig allan o lawer o weddillion y genedl hono sydd eto ar gael. *Cadw*:—gan fod yr iaith hono, fel eraill, trwy ddiffyg arfer yn agored nid yn unig i lygriad ond ebargofiad, yn ol cyfaddefiad y brodorion eu hunain. Yn wir, y mae pob geirlyfrau yn dra buddiol; gan fod geiriau yn dwyn pethau i'r tafod; a fel y sylwodd Plato yn dda, *onoma esti organon didaskalikon* (enw neu ar yw offeryn addysgiant, ac y mae yn arwain gwybodaeth i mewn i'r deall). Pa fodd bynag, gan nas gellir dechreu a diweddu dim ar unwaith, llyfr Salesbury (fel y cyntaf o'r fath) a gynnvgiodd ar, ond ni chwblhaodd y gorchwyl; ac wedi hyny fe'i gorphenwyd gan eraill.*

3. Dymchweliad allor uchel y Pab—wythblyg—Llundain, 1550.

4. Arweinydd hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg—pedwarplyg—Llundain, 1550. Cyhoeddwyd ail-argraffiad diwygiedig yn y flwyddyn 1567.

5. "Kynniver llyth a ban o'r Ysgrhythyr ac a ddarlleir yr Egeleis pryd Cymmun, Sulieu, a'r Gwiliu, trwy'r Vlwyddyn. O Gambereiciat William Salesbury." 4to, Llundain, 1551.

6. "Rhetoreg, neu Egluryn Ffraethineb." Gadawyd y gwaith hwn mewn ysgrifen gan William Salesbury: ac ar ddymuniad ei gar, John Salesbury o Leweni, adolygwyd ef, a chwanegwyd ato, gan y Parch. H. Perri, B.D. Gan fod y traethawd godidog hwn yn haeddu

erthygl iddo ei hun, ni chawn ond sylwi yma, iddo gael ei ail-argraffu, a'i daenu fel adgyflenwad i rifynau y Greal.—Llundain, 1805.

7. Ond y penaf o'i holl weithiau oedd ei gyfieithiad o'r Testament Newydd o'r Groeg. Yn y flwyddyn 1563, penderfynodd y senedd fod i'r Ddau Destament, a'r "Llyfr Gweddi Gyffredin," gael eu cyfieithu i'r Gymraeg, dan olygiad pump o esgobion, sef Bangor, Llanelwy, Tyddewi, Llandaf, a Henffordd; a bod y cyfieithiad hwn i fod yn barod i'r eglwysi erbyn gwyl Ddewi, 1566, dan boen deugain punt o ddirwy ar bob esgob yn nifyg cyflawniad. Ond er y ddeddf a'i bygythiad methu a wnaethant oll. Pa un a dalasant eu dirwyon ai peidio, ni wyddys, ac nid yw werth ei wybod. Pa fodd bynag, nid yw yn debyg mai esgeulusdra yn yr esgobion oedd yr achos; oblegid trwy eu hannogaethau hwy, yn gystal a'i ewyllysgarwch ei hun, y cymerodd William Salesbury y gwaith mewn llaw, yr hwn a orphenwyd yn fuan wedi yr amser a benodasid gan y senedd, ac a argraffwyd yn Llundain yn y flwyddyn 1567, yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd Dr. Gruffydd Roberts ei Ramadeg Cymraeg yn yr Ital. Blwyddyn i'w chofio yw hon; a gellir gwneuthur hyny yn haws wrth sylwi fod y tri rhifnod olaf yn dilyn eu gilydd yn y drefn naturiol—5, 6, 7. Gallwn grybwyll hefyd mai hanner can' mlynedd cyn hyny yr oedd Luther wedi cyhoeddi ei osodiadau (*theses*) yn Wittemberg, yr hyn a fu yn ddechreuad y Diwygiad Protestanaidd. Cynnorthwywyd Salesbury yn y gwaith hwn gan Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw, neu Tyddewi, a T. Huet, Cantor Mynyw. Cyfran pob un o'r llafur, fel y nodir ar ymylau y dalenau, oedd fel y canlyn:—

W. Salesbury—O ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr ail epistol at y Thessaloniaid; yr ail epistol at Timotheus; yr epistol at Titus; yr epistol at Philemon; tri epistol Ioan; ac epistol Judas.

Dr. Richard Davies—yr epistol cyntaf at Timotheus; yr epistol at yr Hebreaid; epistol Iago; a dau epistol Pedr.

T. Huet—Llyfr y Dadguddiad.

Y mae haneswyr, gan mwyaf, yn rhoddi yr epistol cyntaf at Timotheus, i Salesbury, a'r ail i Dr. Davies, yr hyn sydd gamgymeriad. Ar ymyl y ddalen, yn niwedd yr epistol at y Thessaloniaid, dywedir, "O Lyfer cenedleth, &c., yd y van hyn, W. S; a'r epistol iso D. R. D. M. ei translattodd." D. R. D. M. a arwydda Dr. Richard Davies, Mynyw. Ac yn nechreu yr ail epistol at Timotheus, dywedir, "W. S. yr un hwn, a'r ddau iso."

O flaen y Testament y mae yr Esgob Davies wedi rhoddi epistol ardderchog "at y Cembrau," yr hwn a ail-argraffwyd gan Morus Cyffin, yn ei "Ddadseiniad meibion y Daran," yn y fl. 1587; a'r drydedd waith gan y Parch. Peter Williams, yn y fl. 1774; ac a ymddangosodd hefyd yn y "Gwyliedydd" am y fl. 1834.

Ond er deddf y senedd, annogaeth yr esgobion, a llafur y cyfieithwyr, mae yn fwy na thebyg na chawsai y Cymry fwynhau y trysor hwn, oni buasai i Humphrey Toy fod mor haelionus a'i ddwyn allan ar ei draul ei hun; a braint yw genym wneyd a allom at gadw ei enw yntau mewn coffadwriaeth, trwy ddyfynu yr ychydig a ganlyn mewn perthynas iddo, allan o waith Syr Sam. R. Meyrick, am yr hwn ddyfyniad yr ydym yn ddyledus i ohebydd yn y "Cymro" am Mawrth 23.

"Mr. Humphrey Toy ydoedd y gwr i haelfrydedd ac ysbryd anturiaethus yr hwn y mae Cymru mewn dyled am y cyhoeddiad o'r cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd yn Gymraeg, yr hwn a argraffwyd ar ei draul ef, yn 1567, gan Henry Denham. Cyfieithwyd y Testament hwn o'r Groeg a'r Lladin gan William Salesbury, Yswain, Dr. Richard Davies, Esgob Tyddewi, a'r Parch. Thomas Huett, Precentor Tyddewi. Dilynai Robert Toy, tad Humphrey Toy, y grefft o argraffydd a chyhoeddydd, wrth arwydd y Gloch (*The Bell*), yn mynwent St. Paul, Caerludd, o'r flwyddyn 1541 hyd oddeutu 1546, pan y bu farw; ac aeth y weddw a'r business ymlaen am rai blynyddoedd, nes ei dilynwyd hi gan ei mab Humphrey. Ymddengys fod Mrs. Elizabeth Toy yn wraig o ysbryd ac egni nid bychan, a chan mai, yn ol pob tebygolrwydd, *Cymraes* ydoedd hi, nid yw yn ormod i dybied y gallasai ei dylanwad hi, i ryw radd, dueddu ei mab i gymeryd mewn llaw y gwaith o gyhoeddi y Testament yn ei hiaith enedigol ei hun." (*"Sir Sam. R. Meyrick's Heraldry,"* vol. i, p. 182-3.)

Dyma sylwedd yr hyn oll a fedrasom gasglu o hanes William Salesbury. Bwriadwn fyned ymlaen i wneyd rhai sylwadau ar ansawdd a theithi ei gyfieithiad mewn rhifyn dyfodol. Yn y cyfamser, diolehgar fyddwn i bwy bynag o'n darllenwyr a fyddo yn meddu gallu ac ewyllys, am y cymhorth lleiaf tuag at ddiwygio neu adgyflenwi yr hanes uchod.

YR EGLWYS A'R WLADWRIAETH.*

Pwnc mawr yr oes hon, yr hwn sydd yn wreiddyn y rhan fwyaf o'n dadleuon crefyddol a gwladol, ac yn debyg o effeithio yn helaethach eto mewn amser dyfodol, yw undeb yr eglwys a'r wladwriaeth. Yr ydym eisoes wedi teimlo ein hunain dan rwymanau i ddangos ein barn ar y mater hwn yn y "Traethodydd" ar liaws o achlysuron; ond meddyliem ei bod yn bryd bellach i ni roddi ger bron ein darlennyddion mor gryno a chynnwysfawr ag y gallwn, y rhesymau hyny a'n tueddant i goledd y farn hono, ac i fod o gydwybod yn ymneillduwyr oddiwrth yr Eglwys Wladol. Nid ydym am efelychu ein gwrthwynebwyr trwy geisio taflu sarhad ar bersonau. Gadawn y gwaith hwnw i'r rhai sydd yn ymwybodol nas gallant sefyll ar dir rheswm nac ysgrythyr. Ein dyben ni fydd ystyried y pwnc ar wahan oddiwrth amherffeithrwydd y rhai a'i pleidiant; ac ymdrechwn wneyd hyn heb roddi lle i'r un gair a fyddo yn debyg o achosi teimladau anghysurus.

Y gosodiad a amddiffynir y dyddiau hyn gan y dosbarth goreu o bleidwyr yr Eglwys Sefydledig yw, y dylai y wladwriaeth, fel y cyfryw, feddu nodwedd grefyddol, y dichon iddi fod yn alluog i wahaniaethu rhwng gwirionedd a chelwydd, ac mai ei dyledswydd yw cyfranu i daenu yr hyn sydd yn ymddangos iddi yn wir grefydd, a dim ond y wir grefydd. Dyma farn y dynion blaenaf yn yr Eglwys Rydd a'r Cyfundeb Wesleyaidd, a rhai efallai o'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru. Addefant nad yw eu cyfundraeth yn cael ei rhoddi mewn gweithrediad; ond eto dadluant, ac mor bell a hyny y maent yn dadleu yn ddiau ar seiliau cedyrn, nad yw gwaith ein seneddwyr yn gwaddoli celwydd yn ddigon i brofi na ddylent gyfranu i gynnal a phleidio y gwirionedd. Fel hyn y mae undeb yr eglwys a'r wladwriaeth yn cael ei ddal fel pwnc gan lawer, ag sydd, oblegid y naill achos neu y llall, o ran ymarferiad yn ymneillduwyr trwyadl. Nid yw hyn yn cyfiawnhau dim ar ymddygiad y rhai hyny a arosant o fewn cylch yr Eglwys

* O'r "TRAETHODYDD" am 1847.

Sefydledig yn ei ffurf bresennol; ond i'r gwrthwyneb, tystiolaetha â llais uchel yn eu herbyn. Dyma nifer mawr o'r dynion duwiolaf yn y deyrnas yn credu y dylai fod rhyw fath o eglwysi gwladol; ac eto y maent yn gweled rhesymau anorehfygol yn erbyn yr holl rai sydd mewn bol yn bresennol, fel y maent dan yr anghenrheidrwydd o fod yn anghydfurfwyr yn hytrach na gwneyd cam â'u cydwybodau. Os cyfeirir atynt hwy, paham na weithredir yn debyg iddynt? Ond ar hyn o bryd gadawn yn llonydd yr holl resymau ychwanegol hyn o blaid ymneillduaeth, y rhai a gynnyrchir gan amgylchiadau; a cheis-iwn ymddyosg oddiwrth bob teimladau a syniadau perthynol i amser a lle, i gymeryd golwg bwylllog a diduedd ar yr egwyddor sylfaenol.

A oes dim a fyno llywodraethau gwladol ^{fol} y cyiryw â chrefydd? ^{addaf} pawb y dylai y personau a gyfansoddant y llywodraeth fod yn bersonau crefyddol; ond y gofyniad yw, A ddylai y llywodraeth fod yn llywodraeth grefyddol? Nid ydym yn teimlo yr ammheuaeth lleiaf wrth ateb y gofyniad hwn yn gadarnhaol; ac mor bell a hyn mae yn ymddangos i ni fod amddiffynwyr yr Eglwys Sefydledig yn ymresymu yn hollol gywir. Y mae gwahaniaeth rhwng dyweyd y dylai pob un o'r personau ar ei ben ei hun fod yn ddyn crefyddol, a dyweyd y dylai y llywodraeth, yn ei ffurf gyhoeddus fel llywodraeth, fod yn grefyddol; er ar yr un pryd, nas gellir cael y naill heb y llall: oblegid os bydd y personau yn grefyddol, y mae y llywodraeth yn sier o fod yn grefyddol hefyd; ac o'r tu arall, nis gellir cael llywodraeth wir grefyddol heb fod y rhai a'i cyfansoddant yn bersonau crefyddol. Dichon y bydd llawer o lleidwyr yr egwyddor wirfoddol yn methu cydsynied â'n golygiadau ar y mater hwn; ac yn ddiau y mae rhai o honynt hwy yn ein tyb ni mor gyfeiliornus a neb o'r ysgrifenyddol eglwysyddol, o ddyddiau yr anfarwol Hooker hyd yn awr: ond nis gallwn gelu yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn wirionedd. Meddyliem fod yr ystyriaethau a ganlyn yn dangos fod perthynas rhwng llywodraethau gwladol a chrefydd, ac hefyd yn mha fodd y dylai y berthynas hono weithredu.

Yn y lle cyntaf, dylai llywodraethau gwladol ofalu am beidio penderfynu dim, nac achosi neb i wneyd dim, a fyddo yn groes i gyfraith Duw. Yn eu holl drefniadau dylent gofio fod awdurdod uwch, i'r hon y maent hwy yn gyfrifol yn gystal a'u deiliaid. Y mae llywodraethau gwladol, yn eu perthynas â chyfraith Duw, yn debyg i gorfforiaethau dinasol yn eu perthynas a chyfreithiau cyffredinol y deyrnas. Beth

bynag yw y gallu sydd ganddynt yn eu cyleh priodol eu hunain, nid oes ganddynt hawl i ffurfio yr un penderfyniad yn groes i ddeddf uwch. Pe ceid pob gwladwriaeth i ymddwyn yn y wedd hon, byddai hynny ar unwaith yn fwy o grefydd nag a welwyd yn gysylltiedig a llywodraethau gwladol mewn un oes o'r byd. Buan y rhoddid terfyn yn llwyr ar y rhyfeloedd, y gormes, a'r anghyfiawnder, sydd wedi bod hyd yma yn aflwydd ac yn ddinystr i blant dynion. Dealler hefyd nad ydym am gyfyngu eu sylw at y naill ran mwy na'r llall o'r dadguddiad dwyfol. Dylent sylwi ar y llech gyntaf o'r ddeddf foesol yn gystal a'r ail. Ni ddylent beri i neb ddangos parch allanol i unrhyw wasanaeth crefyddol eilunaddolgar. Nid oes ganddynt hawl ychwaith i orfodi yr un dyn i gymeryd enw yr Arglwydd yn ofer trwy lwon afreidiol. Ac hefyd dylent ofalu na fyddont yn gorfodi neb o'u deiliaid i dori y gorchymyn o barth y dydd Sabboth. Heb fyned ymhellach, y mae yn eglur fod gwaith mawr i'w wneyd cyn y gwelir undeb mor agos ac mor gyflawn rhwng y wladwriaeth a chrefydd a'r hyn yr ydym ni yn dadleu drosto.

Ond nid yn unig y mae llywodraethau gwladol i ofalu na fyddont yn trefnu dim yn groes i grefydd, ond y mae yn ddyledswydd arnynt drefnu yn gadarnhaol fod pob gweithred a ellir ei golygu fel gweithred y wladwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen yn ol rhöol gair Duw. Y mae hyn yn cynnwys gradd o ychwanegiad yn nyledswyddau crefyddol y llywodraethwyr; ac er mwyn ei weled yn fwy amlwg, cymerwn ail olwg ar yr anghreiffitiau a nodwyd yn barod. Dywed-asom nad oes ganddynt hawl i *orfodi* neb i ddangos cydsyniad ag arferion eilunaddolgar, fel y maent wedi gwneuthur yn fynych mewn rhai gwledydd tramor. Ond nid ydym am aros ar hyn; oblegid yr ydym yn barnu ymhellach na ddylent *oddef* i'w hawdurdod gael ei defnyddio mewn un amgylchiad i bleidio eilunaddoliaeth. Dywed-asom na ddylent hefyd ofyn i neb gymeryd enw yr Arglwydd yn ofer; ond heblaw hyn, dylent edrych am fod holl weithrediadau y llysoedd gwladol yn unol ag ysbryd y grefydd Gristionogol. A chyda golwg ar y Sabboth—nid yn unig y mae yn bechod iddynt geisio gan neb drosedd y pedwerydd gorchymyn, ond y maent o dan rwymau i drefnu na fyddo un weithred o eiddo y wladwriaeth yn cael ei chyflawni ar ddydd yr Arglwydd, os na fydd anghenrheidrwydd anheborol yn galw am dani. Y mae y rheol hon yn gymhwysiadwy at y lluoedd ancirif o filwyr, a phawb sydd mewn unrhyw sefyllfa yn ngwasanaeth

y llywodraeth. Mewn gair, y mae yn cymeryd i fewn bob gorchwyl a achosir gan y llywodraeth, ac a ddygir ymlaen ar ei chost neu dan ei chyfarwyddyd. Yr holl anhawsder yw penderfynu pa weithredoedd a ellir eu golygu fel gweithredoedd y wladwriaeth.* Ond nid oes yma fwy o anhawsder nag a gyfarfyddir bob amser pan eir i wahaniaethu rhwng dau ddosbarth o faterion a fyddo yn terfynu ar eu gilydd. Nid hawdd yw dywedyd yn y cyfryw amgylchiadau pa le y mae y naill yn diweddu a'r llall yn dechreu. Felly yn yr achos hwn; nid peth hawdd iawn yw tynu y llinell rhwng hawliau y wladwriaeth fel gwladwriaeth a hawliau y deiliaid fel personau. Ac nid yw yn gorhwyys arnom i wneuthur hyny. Dangoser i ni unrhyw weithred y gellir ei galw gyda phriodoldeb yn weithred y wladwriaeth—ac y mae miloedd o'r cyfryw tuhwnt i bob dadl—yna dywedwn ninnau fod y wladwriaeth fel gwladwriaeth yn gyfrifol i Dduw am y weithred hono, ac yn rhwym o edrych am ei bod yn cael ei chyflawni yn unol â gair Duw.

Gan y gellir ystyried pwnc y Sabboth fel maen-prawf yn yr ymchwil- iad hwn, ni a'i dilynwn am ychydig, ac a edrychwn arlo mewn achosion eraill, y rhai a allant daflu goleu ar y mater yn ei gysylltiad â'r wlad- wriaeth. Y mae dadl o berthynas i'r priodoldeb o adael cerbydau i redeg ar y ffyrdd haiarn ar ddydd yr Arglwydd wedi peri cynhwrf mawr yn ddiweddar mewn amryw barthau o'r Alban; ac er ein syndod a'n gofid, gwelsom ymneillduwyr crefyddol yn cymeryd plaid yr an- ffyddwyr, ac yn beio yn fawr ar y rhai hyny o gyfarfyddwyr y ffyrdd haiarn ag oeddynt yn barnu y dylent ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddyinion. Nid yw yn hollol amlwg ar ba dir y maent yn gwrthwynebu yr yddygiad hwn o eiddo y cyfarwyddwyr. Ai am eu bod yn gweith- redu fel cymdeithas? Os felly, pan ymuna dynion yn gymdeithasau, y maent yn colli eu cyfrifoldeb; ac y maent wedi hyny yn rhydd i gyflawni y drygau a fynont. Ond ar y cyfan, meddyliem mai yr achos penaf o'r gwrthwynebiad yw y dybiaeth fod y Cyfarwyddwyr, trwy attal eu cerbydau i redeg ar y Sabboth, yn dinystrio rhyddid y rhai hyny a ddymument deithio ar y dydd hwnw, ac yn eu gorfodi i gadw y Sabboth yn groes i'w hewyllys. O herwydd nas gellir myned o'r naill fan i'r llall ar hyd un ffordd arall mor gyfleus, dadleuir fod rhwystro neb i fyned ar hyd y ffordd haiarn, hyd yn nod ar ddydd yr

* Yn yr ysgrif hon, yr ydym yn cymeryd y geiriau "llywodraeth" a "gwladwriaeth" fel yn gyfystyr. Hwyrach fod gwahaniaeth rhyngddynt; ond nid oes anghenrheidrwydd i ni ymfyn i byn yn breseanol.

Arglwydd, yn gaethiwed; ac am hyny na ddylid ei oddef. Y mae hyn gystal a dyweyd fod helaethrwydd dylanwad yn codi dyn uwchlaw cyfrifoldeb. Os na fydd masnachwr ond un allan o lawer yn yr un dref yn meddu rhyw nwyddau a fyddo yn gyfleusdra i'w gymydogion, y mae yn rhydd i beidio eu gwerthu ar y Sabboth: ond os na fydd neb yn y dref yn alluog i werthu y nwyddau hyny ond efe, neu os bydd yr eiddo ef yn rhagori ar eiddo pawb arall, yna y mae ei gyfrifoldeb i Dduw yn darfod, ac y mae yn colli ei ryddid ei hun rhag ofn caethiwo rhyddid ei gymydogion. Nid yw gweithredoedd o anghenrheidrwydd a thrugaredd yn dwyn perthynas a'r matter; oblegid y mae y gweithredoedd hyny yn ddyledus ar ddyn eu cyflawni, pa un a fydd eraill mewn cyfleusdra i'w cyflawni ai peidio. Pe ceisid gan fasnachwr werthu rhywbeth ar y Sabboth ag y byddai anghenrheidrwydd am dano ar y pryd i gadw bywyd ei gydgreddur, nid oes achos iddo holi a yw y peth hwnw i'w gael mewn rhywle arall. Nid yw yr hawsder neu yr anhawsder i'w gael o ddim pwys: ei ddyledswydd yw cydsynio yn y fan. Gan hyny ofer yw son am yr anhawsder o deithio heblaw ar y ffordd haiarn. Y gofyniad yw, a ellir profi fod y weithred yn anheggorol anghenrheidiol. Os ydyw, yna nid ydym yn dadleu yn ei herbryn: ond os rhaid addef, fel y mae yn ymddangos i ni tuhwnt i bob ammheuaeth, ei bod yn hollol ddianghenrhaid, yna ni ddylid gorfodi y cyfarwyddwyr i'w chyflawni. Yn yr un modd y credwn nad oes dim yn rhyddhau gwladwriaeth, mwy na chymdeithasau llai, oddiworth eu rhwymedigaeth i weithredu yn mhob peth yn ol rheol deddf Duw. Hyd yn nod pe dadleuai rhai o'r deiliaid fod eu cydwytodau yn peri iddynt ymddwyn yn groes i orchymynion y Bibl; er nad ydym am gyfyngu eu rhyddid yn y gradd lleiaf, eto nis gallwn weled fod ganddynt hawl i arfer y rhyddid hwn ar gost y wladwriaeth. Mewn achosion o'r natur yma, y mae un egwyddor yr hon a all fod yn help i'n harwain yn ddiogel trwy bob dyrswch. Ni ddylai person, na chymdeithas, na gwladwriaeth, geisio gorfodi neb arall; ac ni ddylent gael eu gorfodi gan neb arall. Ni ddylai un dyn geisio rhwystro neb arall trwy orthrech i gyhoeddi yr hyn a olyga efe yn wirionedd, ac i weithredu yn gyfatebol; ond o'r tu arall, pe na byddai ond un argraffydd yn dygwydd bod yn y deyrnas, ni ellid dysgwyl i hwnw argraffu yr hyn a ystyria efe yn llyfr anghrefyddol, er mwyn rhoddi mantais i'r llall gyhoeddi ei syniadau. Felly am y llywodraethwyr gwladol: dylent ganiatau pob rhyddid dichonadwy i bawb o'r deiliaid;

ond, pe cyfodai rhai o honynt i ddadleu nas gallant fwynhau eu rhyddid heb gymhorth y llywodraeth, nid yw hyny yn ddigon o reswm i dueddu y llywodraethwyr i droi eu dylanwad o blaid yr hyn a ystyriant hwy yn bechod. Er fod yn anhawdd penderfynu mewn rhai amgylchiadau, gyda golwg ar bersonau neu gymdeithasau, yr un modd ag am y wladwriaeth, pa mor bell y mae eu gweithrediadau yn cyrhaedd, nid yw hyny yn wrthdaddl gyfiawn yn erbyn yr egwyddor, fod pob dyn, a phob cymdeithas, a phob gwladwriaeth yn gyfrifol i Dduw. a bod ^{cyf}ch eu ^{cy}frifoldeb yr un mor eang a chylch eu gweithrediadau.

Onid heblaw y dylai llywodraethwyr gwladol ofalu am fod eu gweithredoedd eu hunain yn unol â chyfraith Duw, credu yr ydym ymhellaech y dylent gymeryd yr un rheol i'w cyfarwyddo pa fodd i ymddwyn gyda golwg ar weithredoedd eu deiliaid. Y mae y rhan fwyaf o'r gweithredoedd a gyflawnir gan y personau a breswylant o fewn terfynau y wladwriaeth yn rhai nas gellir eu galw mewn un ystyr yn weithredoedd y wladwriaeth. Ond eto, y mae llawer o honynt yn gofyn am ryw sylw oddiwrth y llywodraeth, ac y mae yn ddyledswydd arni ffurfio deddfau mewn perthynas iddynt. Yn awr, pa reol a gymerir i farnu pa rai yw y gweithredoedd hyn, a pha fodd i ymddwyn tuag atynt? Nid ydym ni yn gwybod, ac ni chlywsom erioed am un reol gywir yn y mater hwn nad yw yn sylfaenedig ar air Duw. Os gofynir am brawf o blaid y gosodiad hwn, dymunem wybod pa fodd y dichon y wladwriaeth ffurfio deddfau i lywodraethu y deiliaid, ond trwy ddilyn yr egwyddorion anghyfnewidiol hyny, y rhai a'n dysgant i gredu fod gwahaniaeth hanfodol rhwng da a drwg, rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder, o ba egwyddorion y mae genym yr unig grynoded perffaith yn y Bibl. Ar yr un pryd, nid ydym yn tybied fod gan ddynion fel llywodraethwyr, mwy nag fel personau unigol, awdurdod i gosbi yr un weithred fel y mae o ran ei natur yn dwyn perthynas uniongyrchol â Duw. Nid yw eu cyd-ddynion yn gyfrifol iddynt hwy yn yr un dull, ac i'r un graddau, ag y maent hwy yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain i Dduw. Y mae yn wir y dylent gael rhyddid i weithredu eu hunain oddiar deimlad o'u cyfrifoldeb i gyfraith uwch, yr hon sydd yn gofyn ufudd-dod perffaith oddiwrth bob dyn yn mhob sefyllfa: ond y mae mor wir a hyny, y dylent adael yr un rhyddid i eraill. Y cwbl a ymddiriedwyd i lywodraethau gwladol yw yr hyn y buasai gan bob dyn hawl i'w gyflawni pe na bu asent hwy yn bod. Nid oes hawliau newyddion yn cael eu creu wrth ffurfio llywodraeth; ond yn unig casglu yr hawliau oedd yn bod eisoes

at eu gilydd, a'u hymddiried i ryw bersonau neillduol. Yn awr, pe na buasai llywodraeth wladol yn bod, ni fuasai gan ddyn hawl i gosbi un arall oblegid gwahaniaeth barn : ond buasai ganddo hawl, yn ol cyfraith ei grëadigaeth, i wneyd a allai at ddiogelu ei hun a'i feddiannau. Yr hawl yma a ymddiriedwyd i'r wladwriaeth ; a thra y cadwo at hyn, y mae yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyny a blannod y Crëawdwr yn y natur ddynol. Amlwg yw, gan hyny, mai dyben cosbedigaethau gwladol yw rhoddi yr egwyddorion tragwyddol hyn mewn grym, yn eu tystiolaeth o blaid cyfiawnder ac yn erbyn anghyfiawnder. Felly y dywed yr apostol, "Canys tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r rhai drwg. — A fyny di nad ofnech yr awdurdod ? Gwna yr hyn sydd dda a thi gei glod ganddo." Ond y mae yr holl egwyddorion naturiol hyn yn derbyn eu bod o ryw ffynnonell uwch na'r natur ddynol, ac y mae yn rhaid eu profi wrth ryw safon uwch : ac y mae yn ymddangos i ni, er nad ydynt ynddynt eu hunain yn grefydd, eto mai crefydd yw eu ffynnonell a'u safon. Dyna dystiolaeth yr un apostol yn yr adnodau nesaf : "Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. Eithr os gwnei ddrwg, ofna ; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer : oblegid gweinidog Duw yw efe, dialydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Herwydd pahan, anghenrhaid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, eithr o herwydd cydwybod hefyd."

Nid ydym yn ammheu na ddichon llawer dyn, heb fod yn feddiannol ar wir grefydd, weithredu yn ol yr egwyddorion a nodwyd ; ond nid yw yn addas i'w barnu, mwy nag y mae y wenynen yn alluog i ddeall priodolaethau rhifyddiaethol ei chell. Rhaid cael rheswm dynol i farnu greddf anifeilaidd, ac y mae yn rhaid cael crefydd ddwyfol i farnu rheswm dynol. "Y dyn ysbrydol sydd yn barnu pob peth." Heb fyned ymbhellach na'r drygau mwyaf amlwg i chwilio am anghreiffitiau, meddylier am waith y naill ddyn yn cymeryd meddiant o eiddo dyn arall heb ei genad—pa fodd y gwyddom fod hyn yn ddrwg, a pha sail sydd genym i gosbi y troseddwr ? Os dywedir fod y weithred yn niweidiol yn ei chanlyniadau i'r gymdeithas ddynol, yr ydym yn addef ei bod felly : ond os eir i ymresymu ar y tir hwn, onid oes gan bob dyn hawl i farnu pa beth sydd yn lles iddo ef ei hun, yn gystal ag y mae gan y lleill hawl i farnu pa beth sydd yn lles iddynt hwythau. Nid canlyniadau gweithredoedd yw ein rhëol, ond uniondeb : ac y mae pob ymchwiliad mewn perthynas i uniondeb yn ein harwain yn ol at ddeddf anghyfnewidiol Duw. Y mae pob deddf ddynol yn rhagdybied

deddf ddwyfol ; oblegid y mae dynion wrth wneuthur deddf i gosbi unrhyw weithred yn golygu fod y weithred hono eisoes yn ddrwg. Nid am fod deddf ddynol yn ei chondemnio y mae y weithred yn ddrwg, ond am fod y weithred yn cael ei thybied yn ddrwg y mae dynion yn ei chondemnio. Ond ni buasai y weithred yn ddrwg oni bai ei bod yn drosedd o ryw ddeddf flaenorol ; oblegid nid oes gamwedd lle nid oes deddf. A chan fod y ddeddf hono, fel y gwahaniaeth rhwng da a drwg, o anghenrheidrwydd yn anghyfnewidiol, ac yn cynnwys ei rheswm a'i phriodoldeb yn ddi ei hun, heb ymddibynu ar un ewyllys grëadigol, y mae yn rhaid ei bod yn tarddu yn uniongyrchoi o natur Duw.

Er mwyn egluro ein meddwl ymbellach, cymerwn fenthyg cymharïaeth gyffelyb i'r hon sydd wedi bod yn wasanaethgar i ni yn barod. Mewn cymdeithasau bychain dan nodded y llywodraeth, er fod ganddynt awdurdod i ffurfio isgyfreithiau, er mwyn hwylusdod a threfn yn eu plith eu hunain, eto nid oes ganddynt hawl i alw neb o'u haelodau i gyfrif am drosedd uniongyrchol yn erbyn cyfraith y deyrnas. Rhaid iddynt adael hyny i lysoedd uwch. Nid ydynt i gymeryd sylw o un weithred ond mor bell ag y byddo yn dwyn perthynas â'r gymdeithas hono yn unig. Er hyny, cyfraith y deyrnas yw sylfaen a grym eu holl benderfyniadau : ac nid amhrïodol fyddai iddynt gymeryd y gyfraith hono yn rhëol a chynllun wrth ffurfio eu hîsgyfreithiau eu hunain. Ar yr un pryd gallant hwy gyfarfod â llawer o anhawsderau yn y rhai ni chânt nemawr o gyfarwyddydd wrth droi at y gyfraith wladol neu ysgrifeniadau y cyfreithwyr goreu : ond ni ddichon i lywodraethwyr byth gyfarfod âg amgylchiad, pan na fydd yn fuddiol iddynt ymgynghori â gair Duw ; oblegid " yr holl ysgrhythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder ; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Ac heblaw hyn, y mae y natur ddynol yn ei chyflwr presennol mor adfeiledig, fel y mae ei hegwyddorion goreu yn troi yn fuan yn ddyfroedd afiachus oni chant eu hadgyflenwi yn barhaus o ryw ffynnonell uwch. Yr ydym mor barod o hyd i gymeryd ein teimladau ein hunain yn rhëol, y mae cymaint o nwydau llygredig yn gorchuddio pob daioni, ac y mae ein syniadau am gyfiawnder ac uniondeb mor dueddol i redeg i ryw eithafion, fel y mae anghenrheidrwydd anheborol am ryw gyfarwyddydd anffaeledig y tuallan i feddwl dyn i fod yn rhëol i'w ymddygiadau. Er mai ar hyd moroedd y byd hwn y mae y llywodraethwr gwladol i forio,

ac er mai yn mhethau y byd hwn y mae i fasnachu, ac er fod y Crëawdwr wedi rhoddi cydwybod naturiol fel cwmpawd yn y llong, eto y mae yn rhaid cyfaddef fod gallu a chywirdeb y cwmpawd wedi anmharu i'r fath raddau, ac y mae cymaint o ddylanwadau croesion ac annysgwyl- iadwy yn effeithio arno, fel y mae yn rhaid i'r llywydd gyfeirio ei sylw yn feunyddiol at wrthddrychau uwch a mwy sefydlog.

Yn y sylwadau blaenorol, amcanasom ddangos, yn y lle cyntaf, y dylai llywodraethau gwladol ofalu am beidio gwneyd dim yn groes i grefydd, ac am fod yr hyn oll a wnelont yn cael ei ddwyn ymlaen yn unol âg egwyddorion crefydd; ac yn ail, y dylent fod dan ddylanwad crefydd wrth ffurfio cyfreithiau i reoli gweithredoedd eu deiliaid. Mewn ystyr fanwl a phriodol, gellir golygu y ddau ddsbarth yn cyfeirio yn unig at weithredoedd y llywodraethwyr eu hunain: oblegid nid yw yr ail yn cynnwys mwy nag y dylai eu hymddygiadau hwy eu hunain tuag at y deiliaid fod yn unol a rheol gair Duw, ac wedi eu nawseiddio gan ysbryd crefydd. Mewn gair, y mae y cwbl yn terfynu yn hyn, y dylai y wladwriaeth fel y cyfryw fod yn wladwriaeth grefyddol. Er hyny, y mae yr ail ddsbarthiad yn ein harwain at y rhan olaf o'n traethawd, sef i ymofyn a oes a fyno y llywodraeth wladol â chrefydd y deiliaid; ac os nad ydym yn camsynied, y mae yn ein harwain hefyd at yr ateb- iad. Ceisiwyd profi fod yr holl gyfreithiau i fod yn sylfaenedig ar grefydd; ac y mae hyn ynndo ei hun yn brawf na ddylid gwneyd cyfreithiau i reoli crefydd. Y mae cyfreithiau gwladol i fod o'r un hyd a'r un lled ag egwyddorion cyffredinol y natur ddynol; a thra y cadw- ont o fewn y terfynau hyn y mae crefydd yn eu pleidio. Ond nid oes un dyn yn teimlo yn naturiol fod ganddo hawl i alw ei frawd i gyfrif yn herwydd ei grefydd. Ië, y mae holl deimladau y natur ddynol yn erbyn hyny, ac o ganlyniad, y mae egwyddorion crefydd yn erbyn yr un peth. Ac felly y mae dynion, wrth arfer y gallu gwladol i amddiffyn crefydd, yn colli pob cynnorthwy oddiwrth y teimlad cryf o blaid uniondeb, ac yn erbyn anghyfiawnder, yr hwn a blanodd y Crëawdwr yn y natur ddynol, ac yn gorfod rhoddi eu cyfreithiau i orphwys ar sylfaen anghrefyddol.

Os yw hawl a dyledswydd y llywodraethwyr gwladol i ddewis crefydd drostynt eu hunain, ac i reoli eu gweithredoedd eu hunain yn unol â'r grefydd hono, yn osodiad nas gellir ei ddymchwelyd; eto y mae iddo, fel pob pwne arall, ryw wirionedd gwrthgyferbyniol; a'r gwirionedd hwnw ydyw hawl a dyledswydd y deiliaid i ddewis eu crefydd drostynt eu

hunain, ac i weithredu yn unol â'u crefydd hwythau. Dyma ddau wirionedd na ddylid byth eu cymysgu na'u gwahanu. Amlwg yw, gyda golwg ar liaws o achosion eraill, fod hawliau yn perthyn i'r deiliaid, y rhai y byddai yn bechod i'r llywodraethwyr geisio eu cymeryd oddiarnynt. Er anghraifft, nid oes gan un wladwriaeth hawl i amddifadu dyn heddychol o'i ryddid corfforol, nac o'r gyflog sydd yn ddyledus iddo am ei lafur. Pa fodd ynte y mae ganddi hawl i geisio caethiwo eneidiau trwy rwystro eu rhyddid i addoli Duw yn ol tystiolaeth eu cydwobodau. Os bydd hawliau y llywodraethwyr a hawliau y deiliaid yn methu cydweithredu, yna hawliau y llywodraethwyr a ddylent roddi ffordd. Ond nid oes y perygl lleiaf iddynt fyned yn groes i'w gilydd, oddieithr pan fyddo y naill ochr yn arfer trais er mwyn rheoli crefydd y llall. Pan fyddo y wladwriaeth mewn un modd yn caethiwo rhyddid crefyddol, y mae yn y fan yn creu gwrthdarawiad yn meddyliau y deiliaid, ac yn eu gosod dan anghenrheidrwydd i anufuddhau i'r gyfraith. Y mae eu crefyddau yn tynu yn groes i'w gilydd, ac nid oes heddwch i'w gael nes y byddo y naill wedi difodi y llall. Ond tra y cadwo y ddwy blaid o fewn eu terfynau priodol, pob un yn ymfoddloni i ofalu am ei chrefydd ei hun, y maent yn sier o gydweithredu yn dangnefeddus. Ac nid hyny yn unig, ond y mae hawliau crefyddol y naill yn cadarnhau ac yn diogelu hawliau crefyddol y llall. Y mae teimlad crefyddol y llywodraethwyr yn parchu rhyddid crefyddol y deiliaid : ac y mae crefydd y deiliaid yn eu dysgu i gydnabod dyledswydd y llywodraethwyr i reoli eu gweithrediadau eu hunain fel y byddo yn ymddangos iddynt yn fwyaf unol â gair Duw.

Nid llawer a geir yn yr oes hon mor öfn a dadleu yn gyhoeddus fod yn iawn cosbi y deiliaid oblegid eu crefydd. Ymdrechant dastu gorchudd dros y gwirionedd trwy haeru mai nid cosb arnynt yw eu gorfodi i gynnal rhyw ffurf benodol o grefydd, er fod y ffurf hono yn un nas gallant ei chymeradwyo. Dywedir fod hyn yn cael ei wneyd ar yr un tir ag y gorfodir pawb yn ddiwahan i gyfranau at gynnal y milwyr, er fod cyfreithlondeb rhyfel yn beth a wedir gan lawer. Gan fod pwys mawr yn cael ei roddi ar yr ymresymiad hwn, ni a'i profwn i edrych a oes ynddo rywbeth amgen na swm heb ddim sylwedd. Heb droi ar hyn o bryd i ymryson ynghylch cyfreithlondeb rhyfel, nis gallwn lai na sylwi fod yn syn genym na welid fod yma wahaniaeth hanfodol, yr hwn sydd yn dinystrio holl gymhwysder yr anghraifft. Pan orfodir y deiliaid i dalu treth at gynnal y milwyr, ac yr un modd y

gellir dyweyd am y barnwyr a phob math o swyddogion gwladol a osodir i amddiffyn bywydau a meddiannau, y mae y deiliaid yn cael eu trethu i ddwyn ymlaen achosion a ymddiriedwyd i'r llywodraeth, ac achosion nad oes ganddynt mwyach hawl i'w cymeryd i'w dwylaw eu hunain. Gan hyny, cyn y byddo y gymhariaeth yn ateb, y mae yn rhaid profi yn gyntaf nad oes gan ddyn hawl i ddewis ei grefydd, ac y dylid ei garcharu am ddatgan syniadau crefyddol heb ei awdurdodi gan y llywodraeth, yr un modd ag am gymeryd y gyfraith i'w law ei hun mewn materion gwladol. Ond y mae braidd yn ormod o'r dydd i sefyll dros hyn, ac o ganlyniad y mae y rheswm yma yn syrthio i'r llawr. Addefir o bob tu y dylid talu i'r llywodraeth am wneuthur drosom yr hyn *nad yw yn rhydd* i ni, yn unol â threfn cymdeithas, ei wneuthur drosom ein hunain; a chesglir gan rai oddiwrth hyn y dylem dalu i'r llywodraeth, er mwyn ei galluogi i wneuthur yr hyn y *mae yn rhydd* i ni ei wneuthur ein hunain. A fu erioed fwy o anghysondeb?

Yr un atebiad a ellir ei roddi i'r rhesymau a ddygir ymlaen oddiwrth yr oruchwyliaeth Iuddewig. Ond wrth fyned heibio, gallwn grybwyll nad yw mewn un modd yn amlwg fod yno orfodaeth o gwbl. Meddyliem fod yn rhaid i bob dyn diduedd gredu i'r gwrthwyneb. Pa fodd bynag, er mwyn ymresymu caniatawn fod y gyfraith Iuddewig yn cymeryd rhan o feddiannau pawb at gynnal crefydd, pa un a fyddent hwy ewyllysgar ai peidio. Pa beth a enmillir wrth hyn? Y mae yr anghraifft hon eto mor annigonol a'r un o'r blaen. Nid oedd rhyddid dan yr oruchwyliaeth hono i neb ymneillduo oddiwrth grefydd y wladwriaeth. Gan hyny, cyn y gellir cymhwyso y gymhariaeth gydag un priodoldeb atom ni sydd yn byw dan y Testament Newydd, y mae yn rhaid profi na ddylai y llywodraeth oddef i neb ymeillduo oddiwrth y grefydd sefydledig.

Hyderwn nad oes eisieu dyweyd ychwaneg am reswm y milwyr, nac ychwaith am y genedl Iuddewig. Ond efallai yr honir mai nid ar y pwnc y mae y bai, ond ar yr anghreiffitiau; a bod rhyw bethau eraill y dylai y llywodraeth eu cyflawni, er nad yw yn iawn iddi rwystro y deiliaid eu hunain i'w cyflawni os byddant yn dewis. Rhaid i ni addef, er nad yw cywirdeb y dywedriad hwn uwchlaw ammheuaeth, eto nad ydym yn barod i'w wrthwynebu; a chan nad ydym yn ewyllysio cymeryd mantais ar gymhariaeth anhapus, na sylfaenu ein hymresymiad ar ddim nad yw yn eithaf dilys, ni a'i cymerwn ar unwaith yn ganiataol. Nid oes dim yn fwy anhawdd ei benderfynu na'r

terfynau priodol i weithrediadau y wladwriaeth. Ond y mae un gwirionedd mor amlwg fel na ddichon neb a fyddo yn meddu synwyr a chydwybod ei wadu; sef, na ddylai y wladwriaeth bleidio y naill dds-barth o'r deiliaid ar gost y lleill. Dyma egwyddor eglur i'w chymhwysio hyd y gellir at bob amgylchiad. Beth bynag yw y gwahaniaeth rhwng barnau dynion a'u gilydd am eangder y gwaith sydd yn perthyn i'r llywiawdwy'r gwladol, y mae yn rhaid iddynt oll gyttuno ar hyn. Gwir yw, fod eithriadau yn dygwydd weithiau, ac ysywaeth yn rhy fynych; ond y mae gwahaniaeth rhwng eithriad a rheol. Y mae deddfau Duw ei hun, yn nghyflwr presennol dynolryw, yn achlysuero anfantais ar amserau i rai personau: ond nid dyna eu tuedd naturiol a chyffredin; ac os gwelwn ryw drefniant yn peri anfantais barhaus ac anocheledwy i ryw dds-barth o ddynion, gallwn gredu yn ddiogel mai nid deddf Duw ydyw. Yn awr, yr hyn y ewynwn o'i herwydd yw, fod pleidwyr yr egwyddor orfodol yn gwneyd hyn yn rheol yn lle yn eithriad. Rhoddant arian pawb i gynnal rhai, a cheisiant ddadleu mai felly y *dylai* fod. Dymunem ofyn i'r cyfryw rai, A oes y fath beth yn bod ag anghyfiawnderau mewn deddfau gwladwriaethol? Os oes, onid yw trethu y naill dds-barth er lles y dosbarth arall yn un o honynt? Ac os ydyw, onid yw yr anghyfiawnder hwn yn rhedeg trwy holl gyfundraeth y rhai sydd am gynnal crefydd trwy orfodaeth? Mewn achosion eraill, dangosir, neu o leiaf profesir, rhyw awydd am symud pob baich a fyddo yn gwasgu ar rai o'r deiliaid yn fwy nag eraill; ac os ceir fod hynny mewn rhyw amgylchiad yn rhy anhawdd, edrychir arno fel eithriad, yr hwn nis gellir ei wella: ond meddylier am yr holl anghyfiawnderau a welwyd erioed, neu a ellir eu dychymygu byth mewn uurhyw wladwriaeth, tuag at ddynion yn eu meddiannau bydol, eglur yw eu bod oll yn eiddgyfarfod yn y gwaith o rod-di gorfod ar y deiliaid i gynnal rhyw ffurf bennodol o grefydd yr hon nid ydynt yn ei chymeradwyo, ac oddiwrth yr hon o ganlyniad nis gallant dderbyn un gradd o lesad.

Ynglŷn a'r sylw uchod, gallwn grybwyll i ni weled rheswm newydd yn ddiweddar o blaid yr egwyddor orfodol. Dygwyd ef ymlaen gan Mr. Macaulay, i brofi yr anghenrheidrwydd am i'r wladwriaeth rod-di dysg i'r bobl. Os ydyw yn rheswm da yn yr achos hwnw, y mae yn profi hefyd y dylid gwaddoli crefydd; ac nid ydym yn anfoddlawn i bleidwyr y gyfundraeth hono gael hynny o gymhorth a ddichon ddeillio iddynt oddiwrtho. Dywedai Mr. Macaulay fod yn iawn i bawb dalu

treth i gynnal addysg, oblegid fod hyny yn lles cyffredinol ; fod dynion annysgedig wedi creu terfysg lawer gwaith, wedi llosgi tai, a pheryglu bywydau eu cymydogion ; ac am hyny y dylai pawb dalu i roddi dysg iddynt er mwyn eu diogelweh eu hunain. Os bernir yn gyffelyb mai ein dyledswydd yw talu treth i gynnal crefydd er mwyn dysgu ein cymydogion i beidio ein drygu, byddai yn dda genym wybod pa beth mewn un oes a achosodd fwy o derfysgoedd, ac ymrysonau, ac erlid-igaethau, na'r un gyfundraeth a wrthwynebir genym yn yr ysgrif hon. Ac onid yw yr un ysbryd erlid i'w weled y dyddiau hyn mor ffyrnig ag erioed yn nghyhoeddiadau yr Eglwyswyr yn Nghymru a Lloegr ? Nid peth hyfryd gan neb yw cymeryd eu herlid ; ond gwaeth na'r cwbl yw bod dan orfodaeth i dalu am hyny. Ond os fel hyn y maent yn dewis myned yn mlaen, yr holl effaith fydd gwneyd yr ymneillduwyr yn fwy penderfynol ; a gallwn fod yn dawel yn y grediniaeth mai hwy eu hunain sydd yn debyg o ddyoddef mwyaf yn y canlyniad oddiwrth y cyfryw ymddygiadau.

Ond i ddechelyd : y ffordd a arferir yn gyffredin i ochel grym yr ymresymiad yw dyweyd, mai nid yr ymneillduwyr sydd yn talu i gynnal y grefydd sefydledig, ac felly nad ydynt yn dyoddef yr anghyfiawnder o orfod cyfranu i gynnorthwyo y dosbarth arall o'r deiliaid. Dywedir eu bod yn cymeryd eu tiroedd ar y dybiaeth fod y degwm yn myned i gynnal y person, a bod eu rhent o gymaint a hyny yn llai, ac felly na ennillent ddim trwy gadw y degwm, ac nad ydynt yn colli dim trwy ei dalu. Rhyfedd mor dueddol yw dynion i feddwl fod rhyw fath o reswm yn ddigon da at wasanaeth crefydd, er y buasai arnynt gywilydd son am dano mewn cysylltiad âg un achos arall. "Ac os offrymu yr ydych y dall yn aberth, onid drwg hyny ? ac os offrymweh y cloff a'r elwyfus, onid drwg hyny ? Cynnyg ef yr awrhon i'th dywysog, a fydd efe boddlawm i ti ? neu a dderbyn efe dy wyneb ? medd Arglwydd y lluoedd." Nid ydym yn cofio i ni glywed neb o wrthwynebwyr rhydd-fasnach yn dadleu fod y masnachwyr yn nhrefydd mawrion Lloegr yn codi eu hadeiladau ac yn prynu defnyddiau eu nwyddau ar y dybiaeth fod yn rhaid iddynt dalu treth ar yr holl yd tramor a ddygid i'r deyrnas, ac am hyny nad oeddynt yn dyoddef anghyfiawnder. Neu, meddylier fod y wladwriaeth, er mwyn y lles cyffredinol, yn penderfynu diwallu y deiliaid â digonedd o fara. Ar ol ymgynghori yn ddoeth a manwl, y maent o'r diwedd yn cyttuno pa fath ymborth a ddylai pawb fwyta. Er nad ydynt yn rhwystro y

deiliaid i gynnal eu hunain mewn rhyw ffordd arall, os mynant, eto dyma yr ymborth sefydledig : a phenodir nifer o bersonau cymhwys, o leiaf ni a dybiwn eu bod yn gymhwys, yn mhob sir, y rhai, a neb ond hwy, a awdurdodir i ddarpar bara y llywodraeth, a dim ond hwnw. Caniatéir iddynt y fraint o gywain yr ŷd â throl y llywodraeth, a'i falu yn melin y llywodraeth, a'i bobî yn mhobty y llywodraeth, a'i gynnyg ar werth yn masnachdai y llywodraeth. Ac er fod llawer yn ewyno nad yw y bara hwn yn dygymmod â'u hiechyd, ac er eu bod oblegid hyny dan anghenheidrwydd i brynu math arall ag sydd yn fwy cydweddol a'u cyfansoddiad hwy, eto rhoddir treth ar bob tyddyn yn mhob sir er mwyn cynnorthwyo y rhai a awdurdodir gan y llywodraeth, a'u galluogi i werthu eu nwyddau o gymaint a hyny yn rhatach. Mewn amgylechiadau o'r fath hyn, a freuddwydiai neb am son nad yw y trigolion yn dyoddef cam, oblegid eu bod yn cymeryd eu tyddynod ar yr ammod o dalu y dreth ? Eto, dyma y rheswm a ddefnyddir i brofi uniondeb yr egwyddor orfodol mewn crefydd.

Yn y lle nesaf, y mae llywodraethwyr, wrth roddi gorfod ar y deiliaid i gynnal crefydd, yn pleidio un farn ar gost yr holl farnau gwrthwynebol. Y mae hyn yn waeth na gwneyd anghyfiawnder â phersonau yn eu meddiannau bydol : y mae yn anghyfiawnder â gwirionedd ; ac y mae un gwirionedd yn fwy ei werth na holl gyfoeth y deyrnas. Pe byddai rhyw bwne mewn athroniaeth yn rhanu yr holl fyd yn wahanol bleidiau ; a phe byddai y llywodraethwyr yn nghanol y dadleu, yr areithio, a'r ysgrifenu, yn tafu dylanwad y wladwriaeth i un ochr, ac yn peri i bawb dalu at gynnal darlithwyr y blaid hono ; oni theimlid fod hyn yn gam â gwirionedd ? Gwir nas gallant wneuthur ond ychydig yn y diwedd y naill ffordd na'r llall ; oblegid os yw eu barn yn anghywir, ni thycia eu gwrthwynebiad ; ac os ydyw yn gywir, nid oes eisieu eu cymhorth. Dyfod a wna yr haul i'r golwg yn ei amser, pa un a ydynt hwy yn foddolawn ai peidio. Er hyny gallant beri cryn lawer o anhwylysdod i grëaduriaid y ddaear, a'u rhwystro am dro i weled ei brydferthwch a'i ogoniant, o herwydd mwg y fflaglau a gynneuant hwy er mwyn ei guddio, neu ynte er mwyn ei ddangos yn fwy eglur. Y mae gwaith y llywodraeth yn ymyryd â barn y deiliaid yn gam â'r gwirionedd mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, y mae yn llwgrwobrwo dynion i broffesu yr hyn nad ydynt yn ei gredu ; ac yn ail, y mae yn gosod y farn wrthwynebol dan anfantais a gormes. Hoff iawn gan amddiffynwyr gorfodaeth yw cymharu y llywodraeth i berson

unigol, gan ddadleu y dylai y naill fel y llall wneyd a allo o blaid yr hyn a farno yn wirionedd. Ond beth a feddylid am ddyrn, yr hwn a lwgr-wobrwyai y bobl er mwyn eu hennill i'r un grefydd ag ef ei hun, ac a golledai y lleill am wrthod cydsynio. Cyfarfyddir â hyn weithiau, ond nid yn fynych iawn; oblegid y mae ar ddyrnion fel personau gywilydd gwneyd yr hyn y dadleuant drosto yn nghanol y lliaws; a phan ei canfyddir, y mae teimlad naturiol pob dyn yn ei ffeiddio. Ond nid yw yr holl effeithiau niweidiol a achosir yn y wedd hon gan bersonau yn werth eu cymharu am fynyd â'r anghyfleusdra, yr anghyfiawnder, a'r mallod, sydd yn cydfyned â dylanwad y llywodraeth wladol. Dylid cofio hefyd mai nid eu harian eu hunain a ddefnyddir i'r perwyl hwn gan y llywodraethwyr, fel y gwneir yn gyffredin gan bersonau unigol. O'n rhan ni, hawdd yw genym addef ein bod yn gweled llawer o addasrwydd yn y gymhariaeth rhwng cyfrifoldeb gwladwriaethol a chyfrifoldeb personol; ond y mae rhai yn gwneyd camddefnydd o honi wrth ystyried holl feddiannau y wladwriaeth fel eiddo personol i'r llywodraethwyr, pan nad ydynt hwy mewn gwirionedd ond ymddiriedolwyr dros y deiliaid, ac fel y cyfryw, wrth gynnal crefydd, yn defnyddio arian rhai eraill i bleidio rhes o farnau ag y mae llawer o gyfranwyr yr arian hyny yn ei theimlo yn ddyledswydd arnynt eu hanghymeradwyo.

Y mae y cymysgedd hwn a ddygir i fewn i'r ymchwiliad yn tarddu i fesur mawr oddiar esgeuluso yr iawn drefn o ymresymu. Cyfeirir y sylw yn y lle cyntaf at gyllidau y wladwriaeth; ac eir i ystyried wedi hyny at ba achosion y dylid eu cymhwyso. Ond y gwirionedd yw, nad oes yr un ffyrlling o'r arian hyn dan awdurdod y llywodraeth i'w roddi yn unol â chyfiawnder at un achos na fyddo yn cydweddu a dybenion priodol y llywodraeth. Gan hyny, y peth cyntaf i'w benderfynu yw y gwaith sydd yn perthyn i'r llywodraeth i'w gyflawni. Yna nis gellir dadleu nad oes ganddi hawl i ofyn y cyllidau a fyddo yn anghenrheidiol i ddwyn ymlaen y gwaith hwnw, ac nid dim yn ychwaneg. Yn awr, wrth ymofyn mewn perthynas i waith y llywodraeth, meddyliem fod un peth yn amlwg, sef nad oes ganddi hawl yn y gradd lleiaf i benderfynu dros y bobl pa beth sydd wirionedd. Y mae gan y llywodraethwyr hawl, ac y mae yn ddyledswydd arnynt, i benderfynu hyny drostynt eu hunain, a dylent gyfranu yn haelionus o'u harian eu hunain i gynnal yr hyn a farnant hwy yn wirionedd. Ond wrth gyfranu arian y wladwriaeth at ryw achos, y maent yn

penderfynu teilyngdod a chywirdeb yr achos hwnw dros y deiliaid. Wrth drefnu rhyfel neu heddwch, ac wrth ffurfio eu holl ddeddfau, y maent yn gweithredu, nid drostynt eu hunain fel personau, ond dros y rhai sydd dan eu hawdurdod. Bai dirfawr ynddynt fyddai cymeryd eu lles eu hunain yn ddyben; oblegid nid ydynt ond cynmrychiolwyr ac ymddiriedolwyr yn gweithredu dros eraill. Ac felly, wrth gyfranuarian y wladwriaeth i gynnal yr hyn sydd yn ymddangos iddynt hwy yn wirionedd, y maent o anghenrheidrwydd yn penderfynu dros yr holl ddeiliaid pa beth sydd wirionedd. Y mae hyn yn rhy eglur i neb ei wadu. Ond y gofyniad yw, A oes ganddynt hawl i weithredu yn y mater hwn dros y deiliaid? Os dywedir fod, dyna ddiweddar egwyddor fawr Protestaniaeth, sef hawl pob dyn i farnu drosto ei hun. Y mae hon yn rhagorfraint nad oes gan y deiliaid hawl i'w gwerthu, a llawer llai y mae gan y llywodraethwyr hawl i'w chymeryd oddiarnynt. Nid yw wiw son fod y llywodraethwyr yn penderfynu yn unol a barn y rhifedi mwyaf o'r deiliaid; oblegid nid oes gan y mwyafrif awdurdod gyfiawn i amddifadu cymaint ag un person o'i ryddid i farnu drosto ei hun. Mewn cymdeithasau gwirfoddol, er fod yn ddigon cyfreithlawn iddynt gyhoeddi eu barnau, ac ymdrechu i ennill eraill i'w derbyn; eto ni ddylent geisio gan neb broffesu y barnau hyny heb eu credu, na cheisio ganddynt eu credu heb eu profi yn ol y gyfraith a'r dystiolaeth. Nid oes gan aelodau yr un gynnadledd na chymdeithasfa o fewn y byd hawl i farnu pa beth sydd wirionedd dros neb ond drostynt eu hunain: ac os yw hyn yn ormod peth i'w ymddiried i'r dynion mwyaf ysbrydol a gwybodus yn eglwys Dduw, pa faint mwy afresymol yw rhoddi yr awdurdod yn nwyllaw llywodraethwyr gwladol?

Hyderir fod y sylwadau blaenorol yn ddigon i argyhoeddi y darllenydd diragfarn fod cynnal crefydd trwy orfodaeth, yn y lle cyntaf, yn anghyfiawnder a dynion yn eu meddiannau; ac yn ail, yn anghyfiawnder a'r gwirionedd. Nid oes ond un gradd pellach eto yn ddichonadwy, sef anghyfiawnder a chydwybod. Gellir gwneyd cam a hawliau meddiannol y deiliaid, trwy roddi trethi rhy drymion ar ryw ddsbarth o honynt, heb fod hyny yn effeithio ar wirionedd. Ac efallai y gellir gwneyd cam a gwirionedd heb fod hyny yn ymyrd a rhyddid cydwybod. Er anghraifft, pe b'ai y llywodraeth yn gwaddoli personau i ddysgu rhyw farn ammheüus mewn seryddiaeth, er nas gall un dyn cydwybodol ddadgan ei gydsyniad a'r farn hono, os na fydd yn ymddangos iddo yn wirionedd, eto gall fod yn dawel a dystaw, heb

deimlo fod ymdrechu o blaid y naill farn mwy na'r llall yn fater cydwybod. Ond y mae pob dyn yn rhwym o gydwybod i wasanaethu ei Greawdwr yn y dull sydd yn ymddangos iddo ef yn fwyaf priodol; ac y mae pob anfantais a ddyoddefir ganddo oblegid hyny yn gam a chydwybod, ac yn beth nas gall llywodraeth wladol ei achosi heb bechu yn erbyn Duw. Gwir, nas gellir dysgwyl i ddynolryw fod yn berffiaith rydd, tra yn y fuchedd hon, oddiwirth bob anfanteision yn herwydd eu crefydd, mwy nag y gellir dysgwyl eu gweled oll uwchlaw tlodi neu boenau corfforol: ond nid yw hyny yn rheswm dros achosi y naill mwy na'r llall. "Anghenrhaid yw dyfod rhwystrau; er hyny gwae y dyn hwnw trwy yr hwn y daw y rhwystr." Y mae hon yn ymddangos i ni yn rhêol nad yw yn caniatáu yr un eithriad. Os yw yn rhy anhawdd dwyn ymlaen achosion y deyrnas heb wasgu yn ormodol weithiau ar feddiannau a barnau rhai o'r deiliaid, nis gall un anglychiad ddygwydd byth yn yr hwn y mae yn iawn i'r llywodraethwyr wneyd dim ag y gwyddant ei fod yn gam â chydwybod. Os gofynir, pwy sydd i benderfynu yn y mater hwn? Yr ydym yn ateb fod pob un i farnu drosto ei hun; y llywodraethwyr i farnu yn mha bethau y dylent ofyn ufudd-dod, a'r deiliaid i farnu yn mha bethau y gallant ufuddhau yn unol a gair Duw. Os gofynir ymhellach, pa fodd y maent i benderfynu? A ddylai y llywodraeth esgusodi pob dyn a fyddo yn proffesu ei fod o gydwybod yn nacau cydsynio a gofynion y gyfraith wladol? Yr ydym yn ateb, na ddylent. Nid oes ganddynt ond barnu hyd eithaf eu gwybodaeth a fydd y pwnc dan sylw yn dwyn perthynas a chydwybod; ac os ymddengys ei fod, y mae eu hawdurdod ar unwaith yn darfod. Paham na allai y llywodraeth weithredu yn hyn yr un modd ag y mae pob dyn yn ngorchwylion cyffredin bywyd. Nid oes un meistr a fyddo yn meddu cydwybod ei hun nad yw yn parchu cydwybod ei was; ac ni feddyliai neb am ddadleu yn erbyn hyn oddiar y dybiaeth y gallai y gwas gymeryd ei gydwybod yn esgus mewn achosion amhriodol. Pe hōnai y gwas fod ei gydwybod yn ei rwystro i gyflawni ei waith yn ddiwyd a didwyll, diau na ddylid gwrandaw arno: ond os caiff ei feistr le i feddwl ei bod yn rhan o'i grefydd i beidio gweithio ar ryw ddyddiau penodol, neu ynte na ddiehon iddo fvyta rhyw ymborth neillduol heb ddolurio ei gydwybod, y mae yn teimlo yn y fan mai anghyfiawnder fyddai ei orfodi. Nid ydym yn proffesu y medrwn ddarlunio terfynau crefydd i fanylwydd yn mhob anglychiad, ac efallai mai annichon yw tynu y llinell gyda sierwydd.

Ond nid oes mwy o anhawsder yn y mater hwn nag a geir yn mhob achos arall y gellir meddwl am dano. Y mae gwahaniaeth barn mewn perthynas i rifedi y ffrwythau hyny a fwriadwyd i fod yn gynnalïaeth i ddyd; eto nid yw hyn yn profi nad yw y penteulu dan rwymanu i ofalu hyd eithaf ei wybodaeth na fyddo dim yn cael ei ddarparu fel ymborth i'r teulu a fyddo yn debyg o fod yn niweidiol i'w iechyd: ac ni ehynnygiai neb daeru fod yn rhydd i dad roddi gwenwyn i'w blentyn, oblegid nas gellir gwahaniaethu mewn rhai amgylehiadau rhwng yr hyn sydd beryglus a'r hyn sydd ddiberygl, neu ynte am y gallai plentyn ystyfnig wrthod cymeryd yr hyn a fyddo gorcu er ei les. Cymerer eto un anghraifft arall. Nis gellir cael dau lŷs gwladol mor wahanol oddiwrth eu gilydd ac mor amibynol ar eu gilydd, o ran eu gorchwylion a'u dybenion, fel na ddichon amgylehiadau ddygwydd weithiau pan y bydd yn anhawdd penderfynu i ba un o'r ddau y bydd rhyw achos neillduol yn perthyn. Ond nid yw hyn yn brawf na ddylai pob un ymgadw, heb un eithriad, at ei waith priodol ei hun, yn y pethau hyny nad un oes ammheuaeth mewn perthynas iddynt. Pan gyfyd anhawsder o barth rhyw achos a fyddo yn gorwedd ar y terfyn, efallai y bydd yn rhaid ei farnu gan y ddau lŷs, ac nid oes gan bob un ond ffurfio barn mor gywir ag y gallo; ond nid yw y dybiaeth y dichon i hyny ddygwydd rywbyrd yn cyfreithloni y naill i ymyryd a materion a fyddo yn perthyn yn amlwg i'r llall. Felly, er y gellir dychymygu amgylehiadau, ac er, efallai, y gellir cyfarfod a hwynt ar rai achlysuron, pan y bydd yn anhawdd dëall a yw y parch i'r iawnderau yr ydym yma yn ceisio eu hamddiffyn yn rhwystro y llywodraethau gwladol i weithredu, eto nid yw hyn yn cyfiawnhau y deddfau hyny a ffurfir ganddynt, y rhai ydynt yn ddiammheuol yn gwneyd cam a chydwybodau y deiliaid. Ac nid yn unig dylent beidio gwneyd yr hyn sydd yn gamwedd amlwg a diammheuol; ond nid oes ganddynt hawl i wneyd dim y byddo lle i ammheu yn y gradd lleiaf y bydd eidywybod yn dyoddef o'i herwydd.

Efallai y dadleuir fod llywodraeth Prydain yn y dyddiau hyn yn caniatáu rhyddid perffaith, ac nad yw gorfodi y deiliaid i gynnal sefydliad gwladol yn gam â chydwybod. Os wrth hyn y dëallir nad yw y deddfau presennol yn cyrhaedd mor bell o ran eu heffeithiau ag i osod rhwystr anorehfygol ar ffordd dynion i addoli Duw, neu beri i'w meddyliau dderbyn a chredu yr hyn nid ydynt yn ewyllysio, yr ydym yn addef fod y dywedïad yn hollol wir: ond y mae mor wir fod hyn

yn beth nad yw llywodraethau gwladol wedi ei wneuthur erioed, ac nas gallant ei wneuthur byth. Gormod gwaith i holl fyddinoedd arfog y byd yw darostwng meddwl dyn. Deddf oddifewn sydd gryfach na phob deddf oddiallan. Y mae yn rhaid gan hyny mai yr oll a ellir ei feddwl pan sonir am wneyd cam â chydwybod yw, nid fod dynion yn cael eu troi o'u hanfodd oddiwrth y naill grefydd at y llall, ond eu bod yn cael eu rhwymo i ddyoddef anfantais oblegid y grefydd a ddewisir ganddynt. Nis gellir eu rhwystro i ddewis y gyfundraeth grefyddol a fynont, ac addoli Daw mewn rhyw ffordd neu gilydd yn ol egwyddorion y gyfundraeth hono : ond gellir gosod bygythion neu demtasiynau o'u blaen, a pheri iddynt ddyoddef yn eu cyrff neu eu hamgylehiadau os na chydysniant. Mwy na hyn nis gall fod yn y wladwriaeth waethaf; a llai na hyn nis gall beidio bod yn y wladwriaeth oreu a fyddo yn peri trwy rym cyfraith i'r deiliaid gymal crefydd. Cydnabyddwn fod graddau yn yr anfanteision a ddyoddefir, ac nid ydym yn anystyriol o'r breintiau a fwynhêir genym yn yr oes hon, nae yn anniolchgar am danynt. Er hyny, dyoddef yw dyoddef yn mhob oes, pa un bynag ai trwy dân yn Smithfield, fel yn nyddiau Mary waedlyd; ai trwy garchar, a'r cleddyf, a'r crogbren, fel yn amser Charles yr Ail; ai trwy gau allan o swyddau gwladol, fel yn yr oes a aeth heibio; ai trwy orfod cyfranu y ddegfed ran o gynnyrch y ddaear, a mwy na hyny, fel yn y dyddiau presennol. Ac yn ddiâu nid ydym yn gweled, wedi'r cwbl, fod rhyw lawer iawn o wahaniaeth rhwng dyoddef poenau corfforol, a dyoddef sarhâd gwladol neu golled mewn meddiannau bydol. Onid yw dynion yn feunyddiol yn peryglu eu hiechyd a'u bywyd er mwyn enaill, neu beidio colli, ychydig o dda y byd hwn. Gan hyny, anhawdd yw profi fod carcharu neu losgi dynion oblegid eu crefydd yn llawer gwaeth na pheri colled barhaus iddynt yn eu hamgylehiadau. Ond nid awn i ymryson ynghylch hyn; oblegid pa le bynag y mae y naill neu y llall, y mae rhyddid cydwybod yn cael ei ddinystrio : ac yr ydym wedi profi mewn rhan flaenorol o'r ysgrif fod sefydliadau gwladol o grefydd yn anfantais i ddozbarth o'r deiliaid yn eu hamgylehiadau : y mae yn rhaid o ganlyniad eu bod hefyd yn anghyfiawnder â chydwybod.

Pa resymau bynag a arferir i geisio tywyllu y mater, y mae yr holl ddadl, mewn gwirionedd, yn troi ar hyn; a ydyw yn iawn i lywodraethau gwladol gosbi y deiliaid mewn unrhyw ddull a modd oblegid eu crefydd? Gellid meddwl fod hyn yn ddigon amlwg : ond gan fod

rhai pobl yn gofyn mwy na mwy o eglurhad cyn y gwelant bwne yn y byd, goddefwr i ni daflu i ystyriaeth y cyfryw rai y dybiaeth a ganlyn. Pe ba'i y llywodraeth wladol yn pasio deddf fod pob un o aelodau yr Eglwys Sefydledig i dalu y ddegfed ran o ffrwyth ei dir i gynnal y grefydd a broffesir ganddo, a bod pob un na chydymffuriai fel aelod o'r eglwys hono yn rhwym o dalu yr un faint fel dirwy i'r llywodraeth, a oes rhywun a gynnygiai amddiffyu y fath ymddygiad? Arosr am fynyd uwchben y gofyniad, ac y mae yn ddiammheuol genym y gwel pawb y byddai hyn yn anghyfiawnder noeth. Byddai y fath ddeddf yn yr oes hon yn sier o godi gwrthwynbiad egniol; a chredwn na cheid ond ychydig, hyd yn nod yn Nghymru, yn ddigon wynebgaed i'w hamddiffyn. Ond ni fyddai y ddeddf hon mor anghyfiawn ag yw gorfodi yr holl ddeiliaid i gynnal un neu ychwaneg o Eglwysi Sefydledig. Pe buasid yn cosbi yr ymneillduwr, trwy ei ddirwyo, cawsai yr hyfrydweh o wybod fod ei arian yn myned at achosion cyffredinol a phriodol y wladwriaeth: ond yn awr, nid yn unig y mae yn rhaid iddo eu talu, ond y mae yn gorfod gwneuthur hyny at gynnal ffurf o grefydd yn erbyn yr hon y mae o gydwybod, yn ol ei olygiad ef ar yr ysgrythrau sanctaidd, dan rwyman i wrthdystio. Ofer yw dywedyd fod yn well i ddynion gael rhyw fath o grefydd na bod heb un, ac am hyny mai gwell iddo yntau roddi ei arian i gynnorthwyo y grefydd hono, yn hytrach nag at achosion cyffredinol; oblegid dylid cofio ei fod ef yn barnu, yn y lle cyntaf, nad oes gan neb hawl i wneyd drwg fel y del daioni, ac yn ail, y buasai crefydd yn burach yn ei natur, ac yn helaethach yn ei llwyddiant, pe gweithredasid yn ol yr egwyddor wirfoddol. Gan hyny, y casgliad teg ac anwrthwynebol ydyw, fod pob ymneillduwr, yn ol y drefn bresennol, yn cael ei golledu yn herwydd ei gydwybodolrwydd, a hyny yn y dull mwyaf anhawdd i'w ddyoddef; ac felly y mae yn rhaid i ni gredu fod gwaddoli rhyw gyfundraeth grefyddol trwy gyfraith yn gamwedd o'r fath wrthunaf yn erbyn cydwybod, ac o ganlyniad yn gwrthdaraw yn erbyn awdurdod benarglwyddiaethol Duw ei hun, i'r hwn yn unig y mae dyn yn gyfrifol am ei grefydd.

MR. JOHNES, SYR THOMAS PHILLIPS, A'R

“ QUARTERLY REVIEW.”*

UN o brif elfenau llwyddiant pob cenedl mewn ystyr anianyddol neu fasnachol, gwladol neu grefyddol, yw fod cymdeithas a thrafnidaeth rwydd rhwng y genedl hono a chenedloedd eraill. Y mae pob peth yn llygru wrth ei gau a'i gadw ar ei ben ei hun. Anfantais fawr i ddosbarth o ddynion yw treulio eu hoes yn anwybodus am arferion a syniadau pawb ond yr eiddynt hwy eu hunain. Nis gellir barnu un gwrthddrych yn gywir heb edrych arno o wahanol sefyllfaoedd, a chymharu y gwahanol olygiadau â'u gilydd. Y diffyg o hyn yw un achos o'r holl ragfarnau cyfyng, unochrog, sydd yn Nghymru yn y dyddiau presennol. Ond os yw dynolryw yn y cyfryw amgylchiadau yn analluog i wybod dim yn iawn, y maent ar yr un pryd yn dueddol i feddwl eu bod yn gwybod y cwbl. Y mae eu hunanoldeb bob amser yn cyfateb i'w hanwybodaeth. Y mae hyn i'w weled yn feunyddiol yn mysg y Cymry wrth sylwi ar eu cyhoeddiadau cyfnodol, ac ar eu hymddyddanion personol. Credo llawer o honynt ydyw, mai Cymru yw y wlad enwocaf ar wyneb y ddaear, mai y blaid y maent hwy mewn cysylltiad â hi yw y bobl enwocaf yn Nghymru, ac mai hwy eu hunain yw y dynion enwocaf sydd yn perthyn i'r blaid hono. Dyma swm a sylwedd eu cyffes ffydd, pa un a fydd y gyffes hono yn argraffedig ai peidio. Er eu bod hwy a'u plaid fe allai mor fychain, fel nas gellir eu canfod ychydig filltiroedd o bellder heb gymhorth ysbïenddrych, eto dyma eu byd bach hwynt, ac nid ydynt erioed wedi dychymygu nad yw y mynyddoedd o'u hamgylch yn cyffwrdd â'r ffurfafen, ac yn terfynu y greadigaeth.

Ond heblaw fod y dyeithrwech hwn i bob golygiadau gwahanol oddi wrth yr eiddom ein hunain yn meithrin rhagfarn a hunanoldeb, y mae cynnefino â hen arferion yn peri ein bod yn anmharod i weled ein gwaeleddau ein hunain, er eu bod yn amlwg i bobl eraill, ac er y

* O'r "TRAETHODYDD," am 1850.

buasent yn amlwg i ninnau, oni b'ai ein bod wedi byw o hyd yn eu canol. Y mac arferiad yn myned mewn amser yn drech na natur ei hun. "Yr aderyn a facer yn uffern," meddai yr hen Gymry, "yn uffern y myn drigiaw." Darllenasom yn ddiweddar am ddyn oedd yn arfer gweithio mewn *gashouse*, ei fod wedi ci alw ryw ddiwrnod i drwsio y bibell oedd yn trosglwyddo y *gas* yn maelfa yr apothecari. Aeth y teulu at eu boreufwyd, gan ei adael ef yno gyda'i orchwyl. Ond yn fuan, dyma ryw arogl tra anhyfryd yn treiddio i bob congl o'r tŷ. Rhedodd yr apothecari i chwilio beth oedd yr achos; dywedodd gŵr y *gas* wrtho yn bur ddigynhwrf am beidio dychrynu mewn un modd, nad oedd dim perygl; ond fod arogl y cyfferiau yn annyoddefol iddo ef, a'i fod wedi gollwng allan ychydig o'r *gas* i buro yr awyr. Y mae lle i ofni fod rhai o'r Cymry yn rhy debyg. Dywedwch a fynoch yn erbyn arferion llygredig y genedl, neu yn erbyn gwaeleddau y blaid hono y maent hwy yn perthyn iddi, gwrandawant y cwbl gyda gwên anghrediniol, os nad gyda digder bygythiol. Dyma yr arferion a welsant hwy er yn blant. Yn eu canol y maent wedi byw, ac yn eu canol y maent yn dewis marw.

Nid oes neb yn teimlo mwy o anwyldeb at Gymru na ni ein hunain. Cymru yw gwlad ein henafiaid; ac yn ei llwch hi y dymunem fod ein llwch ninnau yn gorphwys hyd foreu yr adgyfodiad. Gwerthfawroech yn ein golwg yw ereigiau llwydion Cymru na pherlau yr India. Ond nid trwy wenieithio iddi yr ydym yn hoffi dangos ein cariad tuag ati. Yr ydym yn caru cymaint arni nes ymfoddloni i oddef gwg, a chael ein cyfrif yn elynion, os bydd raid, am ddywedyd y gwir; gan hyderu ein bod wedi gwneuthur hynny, nid mewn ysbryd trahâus, ond gyda gostyngeddwydd a chydymdeimlad. A'r gwir ydyw, er mor anghysurus ei adrodd, nad yw Cymru, o'i chymharu â gwledydd eraill, yn sefyll mor uchel ag y myn rhai i ni gredu ei bod. Bu ein tadau yn llafurus ac yn dra llwyddiannus yn eu tymor: ond ni ddylid meddwl eu bod hwy wedi gwneyd y cwbl. Gwaith mawr a rhyfeddol a gyflawnwyd trwyddynt; ond er cymaint a wnawd, y mae llawer yn aros eto heb ei wneuthur. Nid rhaid i neb fod yn segur o eisieu lle i weithio. Er fod ein haddoldai yn lliosog, a'r pregethu yn rymus, y mae llawer o arferion anghrefyddol ac anfoesol yn ffynu yn ein plith. Mewn rhai ystyr-iaethau—cofier nad ydym yn dywedyd yn mhob ystyr, na thebyg—ond mewn rhai ystyriaethau, y mae yn rhaid addef fod y Cymry wedi'r cwbl yn is na chenedloedd eraill. Er eu bod yn rhagori mewn moesoldeb cyffredinol, y mae ganddynt ryw *ychydig* o arferion gwael, y rhai ni

oddefid yn mysg y Saeson, na'r Ysgotiaid, nac hyd yn nod yn mysg y Gwyddelod : ac oni b'ai ein bod wedi cynnefino â hwynt, nis gallasem feddwl am danynt heb deimlad dwys ; ac nis gallasem orphwys nes eu hysgubo ymaith yn hollol o'r tir. Cawn enwi rhai o honynt fel profion o wirionedd yr hyn a ddywedwyd. Yn gyntaf, A oes rhyw genedl arall yn dangos cymaint o ddirmyg ar addoliad cyhoeddus ? Pe medrai y Cymro daflu ei hun allan o hono ei hun am un Sabboth, ac edrych gyda theimladau Seisnigaidd ar ei gydwladwyr yn eu haddoliadau, byddai yn fuan wedi ei orlenwi â syndod. Byddai yn naturiol iddo feddwl ei fod wedi disgyn i ganol pobl anwareiddiedig. Ond heb son am y Saeson coethedig, edryched y Cymro ar ymddygiad parchus y Pabydd Gwyddelig, a chywilyddied oblegid anfoesoldeb ei gyd-genedl. Beth all fod yn fwy anfoesol na'r arferiad o fyned allan cyn diwedd yr addoliad ? Dyma y dirmyg mwyaf noeth ar addoliad Duw yn cael ei ddangos yn gyhoeddus bob Sabboth mewn cannoedd o gymulleidfaoedd yn Nghymru. Ac os dywedwn y gwir ar hyn eto, y mae yr Ymneillduwyr yn llawer gwaeth na'r Eglwys Sefydledig, a'r Methodistiaid yn waeth na'r un blaidd arall o Ymneillduwyr.

Yn ail, meddyliwn am ddull y bobl ieuaine mewn llawer parth o Gymru yn dwyn ymlaen eu cyfeillach rag-brïodasol. Nid ydym yn credu fod merched Cymru yn fwy anniwair na merched y Saeson. Y mae dywedyd hyny yn gabldraeth ar ein gwlad ; ac nis gall neb o wir fwriad fod yn euog o hono, ond y rhai y mae eu casineb at grefydd yr Ymneillduwyr yn gryfach na'u cariad at wirionedd. Os ydynt am ddiwygio y wlad, paham yr arweiniant feddyliau y bobl oddiwrth y gwir achos, i ddadleu ynghylch drygedd Ymneillduaeth ? Dyma arferiad anfoesol, yr hon yw gwreiddyn y drwg, yr hon a addefir gan bawb, a'r hon ni chlywir am ei chyffelyb mewn un rhan arall o'r byd. Yn erbyn hon y dylid milwrio. Y mae anniweirdeb yn Lloegr, a phob gwlad arall : ond merched ieuaine wedi eu magu yn y fath am-ddifadrwydd o bob gwylder, ac wedi dibrisio eu hunain i'r fath raddau, nes y maent yn gollwng y meibion i mewn i'w tai, a gwaeth na hyny mewn rhai manau, a *hyn oll yn arfer gelad*—dyma beth na cheir ef ond yn Nghymru. Y mae yn syndod i ni na b'ai pob ysgrifenydd yn ysgrifenu yn erbyn yr arferiad hon, a phob pregethwr yn pregethu yn ei herbyn, a phob penteulu yn cynghori ei deulu yn ei herbyn, nes ei hmylid o'r wlad. Ar y pen hwn, y mae yn rhaid i ni ddywedyd mai y Methodistiaid sydd wedi gwneyd fwyaf, a bod pleidiau eraill, ar rai

achlysuron, wedi dangos tuedd i wawdio eu hymdrechiadau. Ond nid oes un blaid wedi gwneyd yr hyn a ddylai; a'r prawf o hyny ydyw, fod yr arferiad eto yn aros. Pe buasai cymaint ag un o enwadau crefyddol Cymru wedi gwneyd ei ddyledswydd, buasai yr hen arferiad fflaidd hon wedi diflannu.

Yn drydydd, A fu neu a oes rhyw genedl arall yn ymddwyn mor anheilwng tuag at weinidogion yr efengyl? Mae yn wir eu bod wedi dyoddef mwy o erlidigaeth lawer gwaith oddiwrth elynion crefydd: ond son yr ydym yn awr am ymddygiadau proffeswyr Cristionogaeth at eu gweinidogion hwy eu hunain. Ac yma y mae yn ofidus genym, ar ol codi y Methodistiaid mor uehel, ein bod yn gorfod eu tynnu i lawr mor fuan. Ond gan ein bod wedi penderfynu dyweyd y gwir wrth ddechreu yr ysgrif hon, mae yn rhaid i ni ddatgan ein barn gydwobodol mai y Methodistiaid sydd fwyaf euog yn y bai hwn. Ond buasai eu bod wedi cynnefino â'r arferiad, nis gallasent lai na'i ffeiddio. Nid fel hyn yr oedd cristionogion tlodion yn amser yr apostolion; oblegid yr oedd yr apostolion, oddieithr Paul, yn cael eu cynnal gan yr eglwysi; ac yr oedd Paul ei hun yn derbyn cynnaliaeth oddiwrthynt oddieithr mewn rhyw amgylechiadau neillduol. Nid fel hyn y mae un blaid yn Lloegr, Ysgotland, na'r America. Ac nid fel hyn y mae hyd yn nod y Pabyddion carpiog, newynlyd, yn yr Iwerddon. I bob dyn diduedd, sydd yn gwybod yehydig am hanes y byd, un o'r pethau rhyfeddaf a glywodd am dano erioed yw, fod nifer mawr o bobl yn ffurfio eu hunain yn gorff crefyddol, heb feddwl am y ddyledswydd ysgrythyrol o alluogi y rhai sydd yn pregethu yr efengyl i fyw wrth yr efengyl.

Y mae pob un o'r penau hyn yn haeddu traethawd hirfaith; ond dywedwyd digon i ddangos fel y mae anwybodaeth a chynnefindra yn peri i ddynion fyw yn nghanol y gwaeledd a'r annhrefn mwyaf heb ystyried. Gwyddom y bydd llawer yn ddig wrthym am eu haffonyddu yn eu cysgadrwydd. Ond a ydyw ein tystiolaethau yn wir? Ai ynte nid ydynt? Os ydynt, hwy a wnant les fel meddyginiaeth, er eu bod yn ehwerw i'r archwaeth. Dylai y Cymry feddwl bellach am wrandaw ar rywbeth heblaw canmoliaeth ddiddiwedd. Y mae yn bryd iddynt ddarfod â rhyw *fabieidd-dra* o'r fath yma. Os ydynt wedi cynnefino gormod â'r hen arferion i weled eu gwrthuni, bydded iddynt wrandaw ar rai sydd wedi cael mantais i wybod pa fodd y mae cenedloedd eraill yn gweithredu. Ac yma nis gallwn lai na mynegu ein hargyhoeddiad y dylasai Adroddiadau yr Ymwelwyr gael mwy o wrandawiad nag a

gawsant. Digon naturiol a gweddus oedd troi yn ol y camddesgrifiadau a gynnwysent; ond yn yr eiddigedd i wrthbrofi y celwydd, buwyd yn rhy ddisylw o'r gwirionedd oedd ynddynt. Ac os yw hyn yn anwadadwy mewn perthynas i'r Ymwelwyr, y mae Mr. Johnes, a Syr Thomas Phillips, ac awdwr yr erthygl ar Fethodistiaeth yn y "*Quarterly Review*," ar lawer golygiad, yn haeddu mwy o sylw. Y mae eu hysgrifeniadau yn dangos eu bod yn fwy cydnabyddus â hanes y Dywysogaeth, yn meddu mwy o serch at ei thrigolion, yn deall teithi y genedl yn well, a'u bod oll yn enwedig Mr. Johnes a Syr Thomas Phillips, yn alluog i ffurfio barn gywirach a thecach am ansawdd foesol a chrefyddol ein gwlad.

Mr. Johnes ydyw un o farnwyr y Llysoedd Sirol. Ysgrifennodd ei draethawd ar "Achosion Ymneillduaeth yn Nghymru"* pan yn ddyu ieuanc; ac y mae genym sail i gredu, pe cyhoeddid argraffiad eto, yr hyn'gobeithiwn a wneir yn fuan, y newidid yehydig ar rai ymadroddion. Ond hyd yn nod fel y mac, nid oes ynddo ddim a ddichon fod yn achos cyfiawn o dramgwydd i'r Ymneillduwr mwyaf gwresog. Y mae yn dechreu gyda'r hen Ymneillduwyr, Wroth, Vavasor Powell, a Lewis Rees; yna mae yn myned ymlaen at y diwygiad Methodistaidd, yr hwn a olrheinir at Ficer Prichard, a Griffith Jones. Cawn hanes Howel Harris, Rowlands o Langeitho, Williams, Pantycelyn, Peter Williams, a Charles o'r Bala, am y rhai ni buasai neb yn medru llefaru yn fwy parchus. Yn yr ail bennod, ymdrinir âg achosion Ymneillduaeth yn Nghymru, yr hwn a briodolir yn gyntaf i ddiffyg cydymdeimlad yn yr offeiriaid â theimladau ac archwaeth y bobl; ac yn ail, i'w hesgeulusdod o iaith y bobl. Ac olrheinir y ddau achos yma at esgobion Seisnigaidd. Yn y drydedd bennod, rhoddir golwg gymhar-iaethol ar yr hen esgobion Cymreig a'u holynwyr Seisnigaidd. Yn y ddwy bennod nesaf, dangosir fel y mae yr esgobion a'r llywodraeth wedi camddefnyddio cyllidau yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Nid ydym yn cofio i ni erioed ddarllen darn o hanesiaeth yn cynnwys profion o anghyfiawnder, a thrais, a gorthrymder mwy ysgeler nag a geir yn y llyfr hwn. Oni buasai fod y Cymry yn fwy *mulaidd* na phobl eraill, ni fuasent yn goddef y fath gamwedd. Cymerer un allan o lawer. Un o esgobion Llanelwy a gyflawnai y ddyledswydd o ofalu am ei deulu fel y canlyn:—rhoddodd i'w fab, y Parch. C. S. Luxmoore, dŷ yn perthyn i ddeoniaeth Llanelwy, 40*p.*—Henllan, 1,500*p.*—Llanelwy,

* "*An Essay on the Causes which have produced Dissent from the Established Church, in the Principality of Wales; to which the Royal Medal was awarded at an Eisteddfod of the London Cambrian Institution, held in May, 1831.*"

426*p.*—Llanefydd, 300*p.*—Llanfair-talhaiarn, 220*p.*—Darowain 120*p.*—Cangelloriaeth, 400*p.*—Degymau eraill yn esgobaeth Llanelwy, 600*p.*—Cradley yn esgobaeth Hereford, 1,200*p.*—Bromyard yn yr un esgobaeth, 500*p.*—Prebendiaeth Hereford, 1,400. Dealler mai symiau blyncddol yw rhai hyn. Nis gallodd yr esgob fod yn llawn mor haelionus i'w feibion eraill; ond nid oedd ganddynt hwythau achos i gwyno. Y Parch. J. M. Luxmoore, brawd y rhagddywededig Barchedig C. A. Luxmoore, a dderbyniodd Marchwial, 720*p.*—Llanarmon-yn-ial, 500*p.*—Prebendiaeth Meifod, 60*p.*—Morton (tir wedi ei bwreasu âg arian y Frenines Anne), 800*p.*—Whitford. 1000*p.* Ond heb fanylu ymhellach, digon yw dywedyd fod Mr. Johnes yn cyfrif fod yr esgob Seisnigaidd oedd yn Llanelwy, pan oedd ef yn ysgrifenu ei lyfr, yn nghyd â pherthynasau Seisnigaidd yr esgobion blaenorol, yn derbyn mwy na'r hanner o gynnyreh yr holl esgobaeth. Pa ryfedd fod y Cymry wedi troi yn Ymneillduwyr?

Gwelir mai ar gyllidau yr Eglwys Sefydledig y mae Mr. Johnes yn sylwi gan mwyaf, a rhaid addef ei fod yn eu dynoethi yn nerthol a diarbed. Mewn gair, efe oedd rhagredegwr a phrif achosydd y cynhwrf presennol ynghylch esgobion Cymreig, a diwygiadau eraill. Er hyny, mewn rhai manau y mae yn cyffwrdd yn yr un ysbryd diragfarn â beiau yr Ymneillduwyr. Y mae yr hyn a ddywed am gyflwr annysgedig y nifer mwyaf o bregethwyr y Methodistiaid ar ol amser yr hen Ddiwygwyr cyntaf yn wir bob gair. Pe buasai y Methodistiaid wedi gwneuthur eu dyledswydd ar y mater hwn mewn pryd, buasai golwg arall ar Gymru erbyn heddyw. Meddyliem hefyd nad yw y dyfyniad a ganlyn yn annheilwng o sylw:—

“Yr oedd y Methodistiaid cyntaf yn apelio at y galon a'r serchiadau; yr oeddynt yn uno cynghorion ymarferol âg athrawiaeth Gristionogol; yr oeddynt yn efelychu y dull apostolaidd o bregethu. Os gallwn farnu am y pren oddiwrth ei ffrwyth, am y Methodistiaid cyntaf oddiwrth fuecheddau eu dysgyblion, nid oedd dim ynddo a fuasai yn debyg o ddwyn dianrhydedd ar Eglwys Loegr. Ond y mae eu dilynwyr yn rhy dueddol i gario egwyddorion eu hynafiaid i eithafon. Eu Pregethau yn rhy fynych nid ydynt yn ddim amgen nag areithiau ar brif athrawiaethau yr efengyl, heb un cymhwysiad ymarferol o'r gwirionedd. Fel hyn y mae yr athrawiaeth sydd yn fwyaf addas i ddarostwng balchder y galon ddynol, yn myned yn flynnonell anghariad yn lle addfwynder.”

Nid ydym yn dysgwyl y bydd pawb o'n darllenwyr yn cydfyned yn hollol â'r dyfyniad hwn: ond byddai yn dda iddynt ystyried a yw pregethwyr yr oes hon yn gymaint o *ddifrif* a'r hen ddiwygwyr, ac a ydynt yn ganlynol mor awyddus, nid i ddangos eu hunain, ond i wneyd lles i'w gwrandawyr. Y mae Mr. Johnes yn myned ymlaen i sylwi ar y

tebygolrwydd rhwng yr effaith a welir dan bregethiad yr Ymneillduwyr Cymreig a'r hyn a gynnyrechir gan y darluniadau a'r gorwycheder yn yr addoliad pabaidd; yr un teimlad grymus am ychydig amser, yn cael ei ddilyn gan wrthdarwiad a gwanychdod. Nid yw y gymhariaeth hon yn berffaith gywir: ac heblaw hyny, y mae yn gwrthdaraw yr hyn a ddywedodd yr awdur o'r blaen am yr hen Fethodistiaid cyntaf. Ond ni ddymunem, er hyny, i'r sylw gael ei droi heibio yn ddiystyr. Mae yn ddiamheuol fod lliaws o'r Cymry yn gosod teimladau amserol yn lle cysondeb bywyd duwiol. Yr hyn a gyfrifir ganddynt yn fendith yn moddion gras yw teimlad cysurus, neu gynhyrriad cryf ar y pryd, heb ymofyn a ydyw y pregethau yn effeithio yn ddaionus ar yr holl ymarweddiad.

Y mae gormod o wir hefyd yn yr hyn a ddywedir yn y traethawd hwn am y rhwygiadau mynych yn eglwysi yr Ymneillduwyr. Ond nis medrwn weled fod hyn yn profi nad yw yr hawl i ddewis swyddogion eglwysig yn perthyn i aelodau yr eglwys, mwy nag y mae y terfysgoedd a'r annhrefn sydd yn cydfyned âg etholiadau seneddol yn rheswm yn erbyn rhyddid gwladol. Yr unig feddyginiaeth rhag y drwg hwn yw mwy o grefydd yn yr eglwysi. Nid yw y rheolau a'r trefniadau mwyaf ysgrythyrol yn ddigon i ddiogelu heddwch, os bydd ysbryd y bobl wedi myned yn anghrefyddol. Dylid bod yn ochelgar rhag meithrin yr ysbryd hwn trwy ddwyn ger bron yr eglwysi faterion bychain, dibwys, a fyddo yn tueddu i enyn dadleuaeth a checraeth. Os na chedwir eu meddyliau yn barhaus gyda gwirioneddau mawrion yr efengyl, pa beth sydd i'w ddysgwyl ond rhwygiadau?

Pe buasai ein gofod yn caniatâu, buasai yn dda genym ddilyn Mr. Johnes ymhellach. Ond rhaid i ni ei adael ar hyn. Gwnaeth wasanaeth i'w genedl trwy ysgrifenu ei draethawd; ac nis gall wneuthur yn well rhaglawn na thrwy fyned rhagddo ar hyd yr un llwybr. Yr ydym yn ddiolchgar iddo am ei ymdrechion yn ddiweddar yn mhlaid yr Hungariaid gorthrymedig; ond gobcithiwn na fydd iddo er dim anghofio gwlad ei enedigaeth.

Yr ydym yn troi yn awr at y gyfrol hardd a helaeth o waith Syr Thomas Phillips.* Efe yw y boneddwr a enwogodd ei hun, amryw flyneddau yn ol, trwy ei wroldeb yn gwrthsefyll ymosodiad y Siartiaid yn Cas'newydd-ar-wysg. Er y pryd hwnw y mae wedi ymroddi, nid yn aflwyddiannus, i efrydu y gyfraith. Nid yw ei lyfr yn cynnwys

* "Wales: the Language, Social condition, Moral character, and Religious opinions of the people considered in their relation to Education." By Sir Thomas Phillips, London. 1849.

cymaint a'r eiddo Mr. Johnes o feirniadaeth ar waecddau yr Eglwys Sefydledig a'r Ymucillduwyr. Cynhyrfwyd ef i ddechreu ysgrifennu oddiar fwriad i wrthbrofi camddarluniadau yr Ymwelwyr bythgofiadwy; yr hyn a wneir ganddo yn foneddigaidd, ac ar yr un pryd yn y modd mwyaf effeithiol. Ond yn lle aros ar hyn, y mae yn cymeryd golwg gyflawn ar bob peth y gellir meddwl am dano ag sydd yn dwyn cysylltiad â'i destun: ac nis gwyddom pa le y ceir crynodeb mwy trefnus o bob hysbysrwydd hanesiol ac ystadegol mewn perthynas i Gymru. Mae yn amlwg mai ffolineb fyddai i ni feddwl am roddi adolygiad manwl ar lyfr o'r fath yma: nid oes genym gan hynny ond gwneuthur ychydig sylwadau ar rai o'r prif faterion.

O eigion calon y rhoddwn ein cydsyniad i bob gair a ddywedir gan Syr Thomas Phillips am yr anghurheidrwydd o addysgu bechgyn Cymru yn yr iaith Gymraeg. Pe caniateid mai buddiol fyddai difodi hen iaith ardderehog y Cymry, nid yw hyn yn cyffwrdd dim â'r pwnc. Y gofyniad yw, Pa un yw y llwybr goreu i geisio addysgu cenedl, ai mewn iaith ddealladwy ai mewn iaith annealladwy? Pe b'ai gwrthwynebwyr y Gymraeg yn alluog i gyfranu doniau gwyrthiol, ac yn medru gwneyd holl blant y Cymry yn Saeson ar unwaith; pe b'ai holl feibion a merched Gwalia, ar ol myned i'r gwely yn Gymry ryw brydnawngwaith hyfryd yn yr haf presennol, yn deffro boreu drannoeth yn Saeson pur, o Fon i Fynwy, yna byddai y ddadl ar ben. Byddai y Gymraeg o hynny allan yn iaith dysgedigion, a phob darn o lyfr Cymraeg wedi ei anfarwoli. Ond yn y cyfamser ai gadael y Cymry yn eu hanwybodaeth yw ein dyledswydd? Mae yn debyg mai darford a wna yr iaith yn raddol, er prophwydoliaeth Taliesin, ac er yr holl gynhwrf eisteddfodawl. Nid yw wiw ymladd yn erbyn Rhagluniaeth. Doethineb crefyddwyr Cymru fyddai ymbarotoi ar gyfer yr amgylchiad trwy godi addoldai Seisonig yn brydlawn yn y prif drefydd. Ond nid mewn un dydd yr adeiladwyd Rhufain, ac nid mewn un dydd, na blwyddyn, na chant o flyneddau, y gwneir y Cymry yn Saeson. Gan hynny rhodder pob manteision gwybodaeth iddynt, mewn ysgolion a llyfrau, yn iaith eu gwlad. Y gwirionedd ydyw, mai y ffordd rwyddaf i ddyngu Saesneg iddynt yw trwy eu cynnysgaethu âg archwaeth at wybodaeth yn yr iaith Gymraeg.

Byddai yn annaturiol iawn i ni beidio cytuno â Syr Thomas Phillips yn ei olygiadau am alluoedd a chynneddfau y Cymry. Dywedwyd yn "*Blackwood's Magazine*," ychydig amser yn ol, mai ofer yw ceisio gan Gymro wneyd brys gydâg unrhyw orchwyl. Ar yr olwg gyntaf, gellid

meddwl fod rhyw sail i'r dywediad. Digon arafaid, a thrymaid, a llebanaidd yw yr olwg ar lawer un o'n cydwladwyr yn llusgo ei heglau ar ei ol wrth ganlyn y defaid i'r mynydd, neu y ceffylau i gyrchu gló. O'r ochr arall, mae yn eglur fod y Cymry ar rai achlysuron, yn enwedig yn eu cyflawniadau crefyddol, yn fwy bywiog na'r Saeson. Pa fodd y mae cysoni y ddwy ffaith a'u gilydd? Y mae yn ymddangos i ni nad oes yma un gradd o ddirgelwch; ond fod yr holl ddyrswch yn cyfodi oddi-wrth gymharu y Cymry â'r Saeson mewn gwahanol amgylchiadau. Nid yw yn deg i ni ddysgwyl yr un bywiogrwydd mewn Cymro gwledig ag mewn Sais sydd wedi arfer byw yn nghanol helyntion masnachol y trefydd. Nid oedd dim yn synu James Hogg yn fwy pan aeth i fynu o Ettrick i Lundain, na gweled mor gyflym yr oedd y Llundeinwyr yn cerdded yr heolydd: ond nid oedd hyn yn profi fod y Saeson yn fwy bywiog na'r Ysgotiaid. Edrycher ar y Sais gwledig yn yr un a fyner o siroedd Lloegr, a gwelir yn fuan ei fod yn fwy asynaidd na'r Cymro. Ond wedi y cwbl yr ydym yn methu ymadael â'r meddwl fod rhyw ddiffyg cyffredinol yn perthyn i'r holl deulu Celtaidd, sef diffyg penderfyniad a dyfalbarhad. Yn hyn y mae John Bull yn rhagori. Y mae mwy o gyflymder y Groegiaid yn y Cymry, a mwy o ddyfalwch anhyblyg y Rhufeiniaid yn y Saeson. Ond yn y diwedd dyfalwch sydd yn trechu.

Testun y bedwaredd bennod yw "nodweddiad moesol" y Dywysogaeth; ac yma y mae yr awdur yn dwyn ymlaen ei holl adgyfnerthoedd i rodli atebiad mwy neillduol i Adroddiadau yr Ymwelwyr. Y mae dau dueddiad gwrthwynebol yn ein meddwl gyda golwg ar yr Adroddiadau hyn. Ar un llaw, dymunem eu defnyddio fel moddion i gynhyrfu ein cydgenedl i filwrio yn fwy ymdrechgar yn erbyn y drygau sydd yn dwyn gwaradwydd ar ein cymeriad. Hyn yw ein teimlad mwyaf cyffredin. Ond ar y llaw arall, wrth ddarllen eto y cyhuddiadau erehyll a ddygwyd yn ein herbyn gan yr Ymwelwyr, fel y maent wedi eu difynu yn y bennod hon, prin y medrwn ymattal heb rodli iddynt un ysgegiad ychwanegol. Ond gan ein bod wedi traethu ein barn am danynt yn y "Traethodydd" fwy nag unwaith o'r blaen, gadawn y gêr anhyfryd yn llonydd am y tro hwn. Yn y ddwy bennod nesaf ceir golygiad cryno ar hanesiaeth yr Ymneillduwyr a'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Os nad ydym yn camsynied, y mae rhifedi yr Ymneillduwyr yn llawer mwy nag a dybia yr awdur. Y mae efe yn cyfrif rhifedi yr aelodau gyda'r holl bleidiau Ymneillduol yn 166,606, a'r gwrandawyr cyffredin oddeutu 300,000; ac felly nid yw yr holl wrandawyr ond un o bob

pedwar o'r holl boblogaeth. Y mae cyfrif y cymunwyr yn ddigon cywir am a wyddom ni : ond nid yw rhifedi y cymunwyr yn gyffredin yn agos i hanner y gynnullidfa, heb sôn fod rhai yn aros i warchod gartref yn y rhan fwyaf o deuluoedd bob Sabboth. Pa fodd bynag, nid oes ynom un awydd i weled yr Ymneillduwyr yn ymfrostio yn eu rhifedi : mwy dewisol genym yw eu symblu i fod yn fwy gweithgar.

Cwynir yn un o'r pennodau hyn fod y Methodistiaid wedi ymbelláu yn fwy na'u tadau oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Nid ydym yn proffesu ein hunain yn esbonwyr ar gynghorion a dybenion y corff hwnw o grefyddwyr : ond nid ydym yn deall eu bod wedi ymdrin a'r mater mewn cymanfa chwarterol, na chyfarfod misol. Y maent, hyd y gwyddom ni, yn gadael cyflawn ryddid i'w haelodau synied fel y mynont am undeb yr Eglwys a'r wladwriaeth. Ac os oes personau unigol yn eu plith yn dangos mwy o elyniaeth yn erbyn yr Eglwys Sefydledig na'r hen bobl, mae yn debyg yr amddiffynant eu hunain trwy fenthyca yr hen ofyniad, "Pwy a ddechreuodd yr ymrafael?" Yr oedd y Methodistiaid yn bur dawel, nes y taenwyd papyrâu am flyneddau gan yr Eglwyswyr yn eu trin hwy yn chwerwach nag un blaidd arall : ac y mae yn wirionedd dilys nad oes dim wedi cryfhau mwy ar yr ysbryd ymneillduol yn Nghymru nag ysgrifeniadau yr Eglwyswyr eu hunain. Er hyny gobeithiwn na fydd y Methodistiaid yn ddisylw o'r cynghor. Nid ydym mewn un modd yn dymuno iddynt wadu eu hegwyddorion ; ond dylent gofio ar yr un pryd mai ennill eu cyd-ddynion at Grist a ddylai fod eu prif orchwyl. Y mae yn anghenrheidiol gwylio yn barhaus rhag i lywod-ddysg dynu y meddwl oddiwrth bethau mwy pwysig. A phe cyrhaeddem ein hamcan, pe dattodid yr undeb rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth, nid yw hyny *ymddo ei hun* yn werth ynladd llawer drosto. Edrycher i Ffrainc, a'r Canton de Vaud, a rhai o Unol Daleithiau yr America, pa faint gwell yw eu cyflwr hwy na chyflwr y wlad hon ? Cofier o hyd mai yr efengyl yw y prif beiriant i wneyd trefn ar y byd, ac mai i'r graddau y medrwn lwyddo i gael trigolion y deyrnas yn ddynion da, i'r graddau hyny y byddwn yn offerynuol i ddarostwng pob anghyfiawnder, yn wladol ac yn eglwysig. Wrth ddywedyd hyn yr ydym mor bell oddiwrth dafu dirmyg ar yr Ymneillduwyr, fel y dymunem eu gweled yn fwy goleuedig a chydwybodol, a'u hegwyddorion yn gorphwys ar sylfaen ddyfnach a chadarnach na dybenion gwladwriaethol.

Yn y bennod ar Addysg, ceir hanes manwl am yr ysgolion dyddiol

a sefydlwyd yn Nghymru, yn yr hen amseroedd yn gystal ag yn yr oes hon. Rhaid i'n darllenwyr oddef i ni ddyweyd y gwir ar hyn eto : a'r gwir ydyw, mai yr Eglwys Sefydledig a wnaeth fwyaf o blaid addysg, ac mai y Methodistiaid hyd yn ddiweddar a wnaeth leiaf. Dylem wneyd eithriad gydag golwg ar addysg grefyddol yn yr Ysgolion Sabbothol ; oblegid, yn yr ystyr yma, diau mai y Methodistiaid fu yn fwyaf llafurus. Ond pe buasent yn talu mwy o sylw i ysgolion dyddiol, ni fuasai anghen i roddi cymaint o amser yr Ysgol Sabbothol i ddsygu darllen a sillebu ; a buasai yr addysg Sabbothol i'r graddau hyny yn fwy crefyddol ac effeithiol. Gwnaeth Mr. Charles o'r Bala ei ran yn hyn, fel yn mhob gwaith da arall. Yr oedd ganddo ef amryw athrawon dyddiol dan ei ofal mewn gwahanol fanau. A phe buasai y Methodistiaid yn ei gefnogi fel y dylasant, ac yn cario ei gynlluniau i weithrediad, ni fuasai agwedd mor flodeuog ar lawer o hen arferion anfoesol y mae cymaint o achos gofidio o'u herwydd.

Yn y bennod hon hefyd, coffeir gyda pharch, ac nid gyda mwy o barch nag sydd yn ddyledus, am ymdrechion Thomas Gouge, a Griffith Jones, Llanddowror. Dyma ddau o brif gymwynaswyr Cymry. Ond y mae pob un o honynt yn haeddu ysgrif helaeth iddo ei hun : ac am hyny nid awn ar hyn o bryd i ddechreu ar eu hanes. Gellid dywedyd yr un peth am lawer o enwogion eraill y sonir am danynt gan Syr Thomas Phillips : ac o ganlyniad mae yn hawdd i'r darllenydd weled mai nid gwaith yw ei lyfr ef i'w adolygu mewn un erthygl ; ond yn hytrach, un i'w gymeryd fel defnydd cyfres o erthyglau. Nid oes genym gan hyny ond ei adael, heb geisio sylwi ar yr holl faterion a gynnwysir ynddo, gan gydnabod nad yw wedi derbyn dim tebyg i gyfiawnder oddiar ein llaw.

Mewn rhan arall o'r rhifyn hwn, beirniadwyd ychydig ar yr erthygl a ymddangosodd yn ddiweddar yn y "*Quarterly Review*," ar "*Fethodistiaeth yn Nghymru*:" ac nid ydym yn gweled achos i alw yn ol un gair a ddywedwyd yno mewn perthynas i ysbrydiaeth y sylwadau a wnaed yn y "*Quarterly*" ar yr hen batriarch o Langeitho. Ni fu erioed ymddygiad mwy anfoneddigaidd. Pe buasai y cyhuddiad yn wirionedd, dylasai yr ysgrifenydd gofio fod angen, yr un fath a chariad, ac hyd yn nod lle na byddo cariad, yn cuddio lliaws o bechodau. Ond y mae genym seiliau diammheuol i gredu fod yr adroddiad yn anghywir. Gallwn sicrhau iddo hefyd am Robert Jones, Rhoslan, ei fod yn ddyddyn seliad, ac yn un o'r rhai mwyaf gofalus am cirwiredd. Ond wedi'r cwbl, y mae cyfiawnder yn ein rhwymo i ddywedyd am yr awdur

hwn eto, ei fod yn ddyn o ddawn, ac ar y cyfan yn lled ddiragfarn. Y mae ynddo debygolrwydd mawr i'r diweddar Robert Southey, yn ei ddull o feddwl, yn gystal a'i ddull o ysgrifenu. Y mae yn y modd mwyaf diarbed yn dynoethi beiau yr Eglwys Sefydledig, a'r offeiriad mwyaf doniol. Y mae yn dwyn yr un cyhuddiad yn erbyn Ifan Brydydd Hir, Goronwy Owain, ag a ddygir ganddo yn erbyn Rowlands. Y mae hefyd wedi rhoddi canmoliaeth wresog i amryw o'r diwygwyr Methodistaidd. Ni fuasai neb yn dymuno ysgrifenu yn fwy parchus am Williams, Pant-y-celyn, Charles o'r Bala, a John Elias. Oddieithr y crybwylliad am Rowlands, ac ychydig froddegau eraill, y mae ei ysgrif y peth a allesid ddysgwyl oddiwrth Uchel-eglwyswr cydwytodol a charedig. Nid ydym yn cofio fod y "*Quarterly Review*," prif gyhoeddiad y Toriaid a'r Uchel-eglwyswr, wedi rhoddi cymaint o ganmoliaeth erioed o'r blaen i un blaid o Ymneillduwyr.

Onid y mae ganddo un haerriad arall, yr hwn ni ddylai gael ei adael yn ddisylw; sef fod gweinidogion yr Ymneillduwyr dan anfantais i ddywedyd yn erbyn pechodau eu gwranda-wyr, ac yn analluog i weinyddu dysgyblaeth yn ffyddlawn, gan eu bod yn ymddibynu ar yr eglwysi am eu bywioliaeth. Gwelir yr un peth yn llyfrau Mr. Johnes a Syr Thomas Phillips; a chymerwn y cyfle i roddi atebiad byr i'r tri ar unwaith.* Ynfydrwydd fyddai dadleu na ddichon i weinidog yr efengyl gyda'r Ymneillduwyr fod mewn profedigaeth o'r natur yma ar rai achlysuron. Ond pa le y ceir unrhyw sefyllfa heb ei phrofedigaethau? Onid ydyw ewyllys da a chyfeillgarwch, yn enwedig oddiwrth foneddigion, yn gymaint o fagl, os nad yn fwy felly, i ddyn o feddwl coethedig, ag ydyw petrusder ynghylch cynnal-iaeth? Ac onid yw llawer o weinidogion yr Eglwys Sefydledig mor ymddibynol ar eu huwchafiaid ag ydyw gweinidogion yr Ymneillduwyr ar eu heglwysi? Ond yn hytrach na thaffu y cyluddiad yn ol yn rhy ysgafn, gadewch i ni edrych arno yn bwyllog, a'i chwilio yn ddiduedd yn ngoleuni ffeithiau a rheswm. Yn gyntaf, dyger ef at faen-prawf y ffeithiau sydd yn wybyddus i bawb. A ydyw gweinidogion yr Eglwys Sefydledig yn dywedyd yn llymach yn erbyn pechodau eu gwranda-wyr, ac yn gweinyddu dysgyblaeth burach, na gweinidogion yr Ymneillduwyr? Onid yw yr Ymneillduwyr yn cael eu beio am fod yn rhy fanwl ac yn rhy gyfyng? Ac

* Y mae ysgrifennwr arall, yr hwn nid yw yn werth sylwi arno, oddieithr mewn nodiad ar waelod y ddalen, wedi dwyn yr un cyhuddiad yn erbyn y Methodistaidd yn bennodol—un Downes, awdur y "*Welsh Decameron*." Mewn llythyr a ysgrifennodd i "*Blackwood's Magazine*," yn amser terfysg Rebecca, y mae yn dywedyd fod y Methodistaidd Calfinaidd yn pleidio y terfysgwyr; ac fel prawf o hyn y mae yn rhoddi dyfyniadau helaeth allan o'r "Diwygiwr!"

onid yw y naill gyhuddiad yn gwrthbrofi y llall? Ond yn ail, os cymerwn reswm yn rheol i farnu, onid yw yn amlwg mai trwy ddyweyd y gwirionedd yn onest, a gweithredu yn union tuagat bawb, y mae gweinidog yr efengyl yn fwyaf tebyg o ennill parch a dylanwad parhaus mewn eymydogiaeth? A phe dygwyddai i ddilaw cyffredinol o amryfusedd ddyfod dros yr holl ardal, yr hyn nis gall fod ond anfynych, eto bydd cywirdeb y gweinidog yn sierhau iddo dderbyniad eroesawgar mewn lle arall.

Y mae awdur yr erthygl hon yn ein galw yn daer i ddyhelwelyd i fynwes yr Eglwys Sefydledig. Yr ydym yn derbyn y gwahoddiad yn yr un ysbryd ag y mae yntau yn ei roddi. Er ein bod dan anghenrheidrwydd i dybied fod genym ni seiliau cryfaeh i'w alw ef a'i frodyr i ymuno â'r Ymneillduwyr, y mae yn hawdd i ni gredu fod ganddo resymau boddlonol i'w feddwl ei hun dros aros lle y mae, a'i fod yn barnu yn gydwytodol mai dyledswydd pawb yw cofleidio ei egwyddorion. Nid ydym yn rhyfeddu fod Eglwys Loegr yn sefyll mor uchel yn ei fryd. Y mae genym barch mawr ein hunain i rai o'i threfniadau, ac i lawer o'i gweinidogion. Y mae amryw o'i gweddïau yn ymddangos i ni mor agos at berffeithrwydd a dim a gyfansoddwyd erioed gan ddynion heb fod dan gyfarwyddyd ysbrydoliaeth ddwyfol: ac y mae yn rhaid i ni gyfaddef hefyd fod rhyw swyn i'n teimladau yn agwedd barchus yr addolwyr o fewn ei muriau. A dywedwn yn mhellaach ein bod mor awyddus am undeb â'r ysgrifenydd hwn ei hun. Ond pa fodd y mae cyraedd yr amean hwn? Nid ydym yn gofyn i'r Eglwyswyr ymadael â'u hegwyddorion; ac ni ddylent hwythau ddysgwyl hynny oddiwrthym ninnau. Pan yn caniatâu y gallant hwy fod yn Eglwyswyr eydwytodol, dymunem iddynt ystyried fod y fath beth yn ddichonadwy ag Ymneillduwyr eydwytodol—dynion a wrthodent holl fanteision yr Eglwys Sefydledig, *er eu cynnyg iddynt*. Fe allai mai nid y rhai hyn yn fynych yw y rhai mwyaf eu dadwrdd: ond y maent wedi bod, ac y maent yn bod eto. Nid awn i ymofyn yn awr pa ochr sydd yn iawn. Y ffordd rwyddaf i ni ddyfod i benderfyniad ar hyn, yw trwy ymgymysgu mwy â'n gilydd, fel y caffom gyfleusdra i ddeall ein gilydd yn well. Os yw egwyddor yn rhwystro y naill i fyned drosodd yn llwyr at y llall, nid oes un egwyddor yn ein rhwystro i garu ein gilydd, ac i gydwethredu er lles ein eyd-ddynion. Pabam na ddaw yr holl Eglwyswyr ymlaen yn fwy ealonog i bleidio Cymdeithas y Biblau? Dyma gymdeithas, yr hon nid yw yn cynnyg yr un gradd o fantais i'r Ymneillduwr mwy nag i'r Eglwyswr. Y mae yr Eglwyswr yn honi mai

ei farn ef sydd agosaf i'r Bibl, a'r Ymneillduwr yr un modd am ei farn yntau. Onid doethineb pob un gan hyny yw llafurio i daenu y Bibl pur, hyd yn nod pe na byddai dim yn ei olwg ond ennill pawb i'r un syniadau ag ef ei hun? Ond tebyg ydyw, y ciliai dybenion pleidgar o'r fath yma yn raddol, ac y llyncid hwy i fyny mewn teimladau mwy Cristionogol. Pe cydweithredem fwy, ni a adnabyddem ein gilydd yn well, ac ni a welem mai lled gyffelyb yw y natur ddynol yn mhawb, ac nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng gweithrediadau Ysbryd Duw, y tufewn, a'r tuallan i'r Eglwys Sefydledig.

Caniataer i ni alw sylw eto at un amcan arall, yr hwn sydd yn deilwng o gydweithrediad pawb, ac yn yr hwn y gallem oll ymuno heb wneuthur cam a'n hegwyddorion; sef yw hyny, un ysgol gyffredinol i'r Cymry, i roddi addysg drwyadl mewn ieithyddiaeth, rhifyddiaeth, ac athroniaeth, fel y byddo y Cymro yn meddu cystal manteision a'r Sais i gyrhaedd y grisiau uchaf mewn enwogrwydd a defnyddioldeb. Y mae sibrwd am hyn wedi bod er's blyneddau. Gwyddom fod un cyfarfod wedi ei gynnal ar yr achos. Y mae y wlad yn aeddfed i dderbyn y cynnygiad. Pe b'ai un neu ychwaneg o bob plaid grefyddol yn cyduno i alw holl wladgarwyr Cymru at eu gilydd, i gydymgyngori, ac i ddechreu gweithredu, symudid y rhwystrau yn dra buan. Nis gwyddom am un achos paham na allai yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr ymuno a'u gilydd yn y gwaith hwn. Nid yw yr ieithoedd a'r gwyddorion yn perthyn i'r naill blaid mwy na'r llall. Gallai yr Eglwys Sefydledig a phob enwad Ymneillduol roddi darlithoedd mewn duwinyddiaeth, ar wahan i'r rhai a ddewisent eu gwrandaw; ond heb orfodi neb i broffesu nac i ddysgu dim yn groes i'w farn grefyddol ei hun. Dyma y cynnygiad: ac nid ydym yn credu nad oes digon o wladgarweh yn Nghymru i'w ddwyn i weithrediad. Un peth sydd yn ddiammheuol — y mae yr amcan yn werth ymdrechu i'w gyrhaedd; ac y mae mor ddiammheuol a hyny y cyrhaeddir ef os ymdrechir.

Y rhwystr mwyaf ar ffordd llwyddiant y cynllun hwn, fel pob un arall a fyddo yn amcanu at les y Dywysogaeth, yw ysbryd plaid. Yr hyn sydd eisieu yw mwy o awydd yn ein dynion blaenaf, arweinyddion y genedl, i wneyd daioni cyffredinol i'r wlad, ac nid i'w cyfundebau eu hunain yn unig; mwy o gariad at Gristionogion fel Cristionogion, ac at ddynion fel dynion; a phawb yn cydymdrechu i godi meibion a merched Cymru mewn gwybodaeth a moesoldeb, os nad mewn sefyllfa fydol, i fod yn dywysogion ac yn dywysogesau yn yr holl dir.

YR UNDEB EFENGYLAIDD.*

Yn mis Hydref, 1845, dechreuodd cyfnod newydd yn hanes yr eglwys Gristionogol; oblegid ar y dydd cyntaf o'r mis hwnw yr ymgynnullodd lliaws o frodyr, yn perthyn i bedwar-ar-bymtheg o wahanol enwadau crefyddol, yn Liverpool, i sylfaenu "Yr Undeb Efengylaidd." Am y personau a fuont yn offerynol i gychwyn y gwaith da hwn, yr oll sydd yn berffaith eglur yw, fod dynuniad am undeb o'r fath wedi disgyn er ys rhai blyneddau ar feddyliau llawer o'r dynion goreu yn y deyrnas hon a'r America: ac, ar ol rhyw gymaint o ohebiaeth, annogwyd amryw o weinidogion Scotland i argraffu cyleh-lythyr, i'w anfon at rai o bob enwad efengylaidd, i'w gwahodd i gyfarfod ac ymgynghori yn y lle a'r pryd a grybwyllwyd.

Er fod yr amgylchiad hwn yn perthyn bellach i'r amser a aeth heibio, nid yw wedi diflanu o'n côf nag o'n calon: ac os ymfoddlona y darllenwyd i ddyfod gyda ni am ychydig fynyddau, ni a geisiwn roddi cip-olwg iddo ar weithrediadau y gynnadledd. Cymerwn yn ganiatâol ei fod yn barod i dderbyn y cynnygiad; ac am hyny, heb ychwaneg o ymddyddan, meddylid ei hun mewn ystafell o faintioli cymedrol, yn nghanol brodyr o bob oedran ac yn mron o bob enwad ag sydd yn enwi enw Crist, a theimladau cymysgedig o lawenydd a phryder yn argraffedig ar bob grudd. Gan fod genym beth amser cyn dechreu ar orchwylion y cyfarfod, ni a gymerwn yr adeg hon i'ch gwneyd yn gyd-nabyddus â'r rhai hyny o honynt ag y mae eu henwau yn fwyaf cyhoeddus, ac ydynt yn llenwi y lle mwyaf yn eglwys Dduw. A welwch chwi yr hynafgwr acw, sydd yn edrych mor fwynaid a serchiadol? Y mae cariad yn llewyrchu yn ei wyneb-pryd. Efe yw Mr. James o Birmingham, awdur yr "Ymofynydd Pryderus," a llawer o lyfrau da craill. Yr un yna sydd newydd ddyfod i mewn, ac yn llon-gyfarch y rhai a eisteddant o'i gwmpas gyda'r fath sirioldeb dirodres, yw Mr. Bickersteth, un o'r gweinidogion mwyaf parchus yn yr Eglwys Sefyd-

edig. Yn awr, teflweh eich golwg i'r ochr arall i'r ystafell—y gŵr aew, sydd yn ymblangos mor dawel a digyffro, yw Mr. Baptist Noel, yr offeiriad goreu yn Llundain; ac wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn tybied nad oes yno lawer o rai da eraill heblaw efc. Braidd na ellid meddwl ar yr olwg gyntaf ei fod yn rhy wylaidd i wneyd dim yn gyhoeddus; ond y mae ei agwedd hunan-feddiannol yn arwyddo fod aew gadernid mawr oddi fewn, ac na fedr bygythion na deniadau ei droi of o lwybr ei ddyledswydd. Ond pwy yw y dyn bychan bywiog sydd yn eistedd ar y faenc o flaen Mr. Noel? weithiau yn troi ato i ymddyddan, bryd arall yn syllu mewn syn-fyfyrdd, yna yn tynu ei fysedd trwy ei wallt—ac yn awr wrth sylwi, a welsoch chwi y fath dalcen gan neb erioed? Dyna y Dr. Candlish, un o'r dynion rhyfeddaf yn ei oes. Y mae yn destun llawenydd fod lle i obeithio am dano ef a Mr. Noel, nad ydynt eto ond prin wedi cyrhaedd hanner eu dyddiau, a bod gan yr Arglwydd lawer o waith iddynt i'w gyflawni. Annhebyg iawn mewn maintioli corfforol, ond lled gyffelyb mewn grymusder meddwl, yw yr un sydd yn eistedd nesaf ato, sef Dr. Cunningham, Proffeswr Hanesyddiaeth Eglwysig yn athrofa yr Eglwys Rydd. Ond onid oes rhywbeth hynod o hawddgar yn wyneb-pryd y gŵr hwn ar y llaw ddê? Gellid meddwl nad oes modd ei yru byth i dymher ddrwg. Efe yw y Dr. Newton, gweinidog tra chymeradwy gyda'r Wesleyaid. Hwn yna sydd â'i wallt mor wjn yw y Dr. Cox, un o'r gweinidogion mwyaf dysgedig a doniol ymhlith y Bedyddwyr. Y gŵr oedianus, dwysfyfyrgar aew, yw y Dr. Wardlaw, gweinidog yr Annibynwyr yn Glasgow, ac awdu amryw o lyfrau tra champus. Y gŵr ieuanc yma yw Mr. Hamilton o Lundain, yr hwn, er ei fod yn ieuanc mewn dyddiau, sydd eisoes trwy ei ysgrifeniadau wedi cyrhaedd dylanwad nid bychan.

Ond cyn myned yn agos dros y rhai y dymunem eu nodi allan, y mae yn rhaid i ni roddi heibio yn bresennol; oblegid daew John Henderson, Ysw., o Glasgow, yn codi i gynnyg, a Syr Culling Eardley Smith yn cefnogi, fod Mr. James o Birmingham i fod yn gadeirydd yn y cyfarfod hwn. Nid oedd modd cynnyg neb addasach, na theilyngach o'r anrhydedd. Deallwn fod Dr. Raffles, Mr. Bickersteth, Dr. Newton, Mr. Innes, a Dr. Brown o Edinburgh, i gymeryd y gadair yn ol ynol yn y cyfarfodydd eraill. Mor syml a phriodol yw yr ychydig eiriau a ddyferant o enau Mr. James wrth agor y cyfarfod. Hawdd yw gwelod fod pob gair yn dyfod o'r galon. Ar ol canu mawl, a darllen rhanau o'r Ysgrhythyr, y mae yn galw ar Mr. Bickersteth i weddio, wedi

hyny Dr. Symington, Dr. Newton, a Dr. Smyth. A phwy fedrai ddeall, wrth eu clywed yn gweddio, i ba gangen o'r eglwys Gristionogol y maent yn perthyn? "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn." Y mae yr enaint gwerthfawr yn dechreu disgyn, ac yn llanw y cyfarfod â'i bêr-arogl. Onid yw hyn yn rhyw arwydd fod yr amser i drugarhau wrth Sion, ie yr amser nodedig, wedi dyfod?

Yn y ddau gyfarfod nesaf, y mae rhifedi mawr o'r brodyr ymgynulliedig yn traethu eu teimladau yn rhydd gyda golwg ar yr anghen am undeb, a'r dybenion daionus a atebid trwy hyny. Y mae pawb yn dyweyd yn hynod o dda; ond anghyfiawnder fyddai peidio sylwi yn neillduol ar araeth Mr. Noel. Er i ni gael y fraint o'i wrandaw o'r blaen, ni chlywsom ef erioed yn debyg i'r tro hwn. Fel y mae yn agor o flaen ein meddyliau ddybenion ymarferol yr Undeb, y mae calonau pawb yn llosgi ynddynt, mewn gobaith a llawenydd anorchfygol. Ei farn ef yw, y dylem amcanu at gael ysgolion dyddiol yn mhob parth o'r wlad, at godi athrofa i ddychweledigion oddiwrth Babyddiaeth, at gael cyhoeddiad misol perthynol i'r Undeb, at ddylanwadu yn mhob modd cyfreithlawn trwy yr argraffwasg, ac at gynnal gohebiaeth gyson â holl Brotestaniaid y byd. Da genym ei glywed yn gosod cymaint o bwys ar yr anghenrheidrwydd o edrych yn ofalus pwy a dderbynir yn aelodau, a chofio mai undeb duwionion yw hwn i fod, ac nid undeb rhwng y byw a'r meirw. Gwyeh iawn hefyd yw ei ddyweddiad am ddyledswydd pob dyn i ddal yr hyn y mae efe yn gredu sydd wirionedd. Ymddangosai y mater hwn unwaith yn lled ddyrystlyd. Dywedai Dr. Cox, yn yr ysbryd mwyaf tirion, ei fod yn perthyn i'r *Anti-State Church Association*; ei fod yn ymrwymo i beidio dyweyd dim yn anfrawdol am aelodau yr Eglwys Sefydlledig; ond am roddi i fyny ei wrthwynebiad i'r egwyddor o gysylltu yr eglwys â'r wladwriaeth, na allai y ddaear mo'i symud. Yn cyfeirio at araeth Dr. Cox, y dywed Mr. Noel mai ei farn ef yw, os bydd neb yn credu yn gydwobodol fod cysylltiad yr eglwys â'r wladwriaeth yn ddrwg, nid yn unig ei fod yn rhydd i'w wrthwynebu, ond fod yn ddyledswydd arno wneuthur hyny. Dyma olynwr yr apostolion mewn gweithred a gwirionedd. Y rheol apostolaidd yw "dywedyd y gair mewn cariad." Ni ddylai neb ddysgwyl i ni wadu ein hegwyddorion, nac aberthu un gwirionedd, er mwyn undeb â'n gilydd; ac ni ddylem ninnau ddysgwyl hyny oddiwrth neb arall. Dylem oddef ein gilydd mewn cariad. Po mwyaf unol yr ymddangoswn wrth ddarnguddio ein syniadau person-

ol, lleiaf i gyd fydd yr undeb gwirioneddol. Ond o herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw tuag atom, daethom trwy y bwlech hwn yn ddiangol ; ac yn awr dyma ein llong ardderchog, fel cenad hedd, yn nofio yn rhydd ar wyneb y dyfroedd.

Ond cymerwn yn araf—y mae un lle peryglus eto rhyngddi a'r cefnfor. Pwy sydd i fod yn aelodau o'r undeb hwn ? A yw y rhai a waedant Grist a'i groes i gael eu derbyn ? A ydym i roddi deheulaw cymdeithas i'r rhai a bregethant efengyl arall, yr hon nid yw arall ? Os nad ydym, pa foddion a gymerir i'w cau allan ? Cyffyrddwyd â'r mater hwn gan amryw yn barod. Mr. James o Birmingham a ddywedai fod yn rhaid cael rhyw arddangosiad o'n barn ar brif bynciau crefydd. Mr. Wells, un o ysgrifenyddion yr Undeb Cynnulleidfaol, a soniai am gasglu yr holl gyffesion efengylaidd, a gwneyd un gyffes ffydd o'r cwbl. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Dr. Pye Smith, yn crybwyll fod rhyw gyffes yn anhebgorol, ac y dylem ei gosod allan, nid yn iaith y Bibl, ond yn ein iaith ein hunain. Yn ganlynol, ymddiriedwyd i gyfeisteddfod y gorchwyl o benderfynu ar ryw bynciau i'w cynnyg i'r gynnadledd : ac yn y pedwerydd cyfarfod, sef prydawn dydd Iau, daew y Dr. Candlish, dros y cyfeisteddfod, yn cynnyg y penderfyniad, yr hwn, fel y cyttunwyd arno yn y diwedd, sydd fel y canlyn :—

“ Yn marn y Gynnadledd hon, y mae yn ddymunol fod cyfarfod arall yn cael ei gynnal ar ol hyn, er taenu undeb Cristionogol.

“ Fod y Gynnadledd hon yn oedi parotôad o fynegiad llawn a ffurfiol ar y mater, ac yn ystyried mai digon am yr anser presennol yw hysbysu, fod y rhai a wahoddir i'r cyfarfod dyfodol i fod yn gyfryw bersonau ag a ddaliant yr hyn a ddeallir yn gyffredin wrth olygiadau efengylaidd, mewn perthynas i'r cyfryw faterion pwysig o athrawiaeth a'r rhai canlynol :—

“ 1. Dwyfol ysbrydoliaeth, awdurdod, a digonolrwydd yr Ysgrhythyr Sanctaidd.

“ 2. Undod y Duwdod, a Thrindod o Bersonau.

“ 3. Hollol lygredigaeth y natur ddynol, mewn canlyniad i'r cwmp.

“ 4. Ymgrawdoliad Mab Duw, a'r Iawn a wnaeth dros bechaduriaid o ddynolryw.

“ 5. Cyflawnhad y pechadur trwy ffydd yn unig.

“ 6. Gwaith yr Ysbryd Glân yn nhröedigaeth a sancteiddiad y pechadur.

“ 7. Hawl a dyledswydd barn bersonol yn neongliad yr Ysgrhythyr Sanctaidd.

“ 8. Dwyfol osodiad y weinidogaeth Cristionogol, ac awdurdod a pharâd yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd.”

Yn awr, y mae cyflawn ryddid i bawb draethu eu meddyliau, neu ofyn am eglurhad pellach. Teimla rhai yn anfoddlawn i gau allan y Cyfeillion, neu fel y gelwir hwynt yn gyffredin, *Quakers*. Ond dywedir

fod y rhai goreu o honynt yn debyg o ddyfod yn fuan i gydweled â phob un o'r pynciau uchod. Dymuna rhai gael erthygl ar y Sabboth; ond barn y cyfarfod yw, mai gwell yw cael penderfyniad gwahanol am gadwraeth y Sabboth, fel dyben ymarferol, ac nid fel pwnc athrawiaethol. Gofynir am eglurhad ar rai pethau eraill; er hyny, nid oes un gair anfrawdol i'w glywed oddiwrth neb. Ond arosweh—dacw fab y Dr. Bunting, un o'r gweinidogion Wesleyaidd, yn codi i fyny, ac yn cynnyg gwelliant. Fel y galloch ddeall ei wrthddadl, rhaid sylwi fod y chweched erthygl, yn y modd y ddarllenwyd hi ar y cyntaf, yn sefyll fel hyn: "Gwaith yr Ysbryd Glan yn ail-enedigaeth a sancteiddiad y pechadur." Ond medd Mr. Bunting, "Yr wyf fi yn teimlo gradd o wrthwynebiad i'r erthygl yna, *am nad yw yn myned yn ddigon pell*. Nid yw ail-enedigaeth ond rhan o dröedigaeth pechadur; a dymunwn gael rhyw air i ddangos yr anghenrheidrwydd anhebgorol am waith yr Ysbryd Glan yn yr oll o'i dröedigaeth." Ar ei gais ef, rhoddir y gair "troedigaeth" i fewn, yn lle "ail-enedigaeth." Felly chwi a welwch mai y Wesleyaid, yn y cyfarfod hwn, yw y rhai mwyaf Calфинаidd; ac yn wir, braidd na feddyliem mai yr Annibynwyr sydd fwyaf awyddus am gyffes ffydd. Nid ydym yn dyweyd hyn i arwyddo fod neb o honynt wedi newid ei farn, ac nid ydym ychwaith yn tybied hyny. Ond y mae hyn yn dangos nad yw y gwahaniaeth rhyngom ond bychan, pe dealllem ein gilydd yn well. Ymddengys nad oes dim ar feddwl neb i'w ofyn ymhellach. A yw yn ddichonadwy eu bod i gyd wedi dyfod i'r un meddwl? A ellir dysgwyl i bedwar-ar-bymtheg o wahanol enwadau gyttuno ar yr holl bynciau a nodwyd? Darllenir hwynt unwaith eto. Yna, dacw y cadeirydd, Dr. Newton, yn dymuno ar bawb sydd yn eu cymeradwyo i ddangos hyny trwy godi eu deheulaw. *A dacw bob deheulaw yn yr ystafell yn dderchafedig*. Gofynir, os oes neb yn groes, am iddo yntau arwyddo hyny; ond nid oes un llaw yn cael ei chodi. Ar hyn, dyma ddystawrwydd syn trwy yr holl le am hanner mynyd; ac yna, teimladau pawb yn tori allan yn genllif o lawenydd anwrthwynebol. Yn nghanol y sŵn, dacw Dr. Raffles yn codi, i alw arnom i foliannu yr Arglwydd am ei ddaioni; a "phrin iawn caiff y blaenor y blaen," nad yw yr holl gynulleidfa yn cydganu o un galon,

"Praise God from whom all blessings flow;
Praise Him all creatures here below:
Praise Him above, ye heavenly host:
Praise Father, Son, and Holy Ghost."

Rhaid i ni fyned ymlaen yn awr at y cyfarfod olaf, nos Wener, yn yr hwn y mae Dr. Brown yn gadeirydd. Gwelwn Mr. Bickersteth yn codi i gynnyg, ein bod yn dadgan ein hymostyngiad a'n galar oherwydd y rhwygiadau sydd wedi bod yn eglwys Dduw; ac yn ymrwymo o hyn allan i ymwrthod â phob ymadroddion anfarwol. Dywed Mr. Bickersteth nad yw yn beio y naill blaidd mwy na'r llall, a'i fod yn ystyried yr eglwyswyr yn llawn mor euog a'r ymneillduwyr. Cefnogir ef yn syml ac effeithiol gan Mr. Blackburn, yr hwn a sylwa, fod *love of wit* yn ein harwain yn fynych i arfer geiriau chwerau am ein gilydd. Ar ol cael rhyw ymadrodd lled *witty* i lawr ar y papyr, y mae yn anhawdd iawn tynu yr ysgrifell drwyddo. Ond y mae hyn yn rhan o'r croeshoeliad moesol y mae yn rhaid i'r cristion ei ddyoddef. Cefnogir yntau gan Dr. Cunningham. Bu dadl frwd amryw flynyddoedd yn ol rhyngddo ef a Dr. Brown: ac y mae Dr. Cunningham yn dyweyd ei fod yn ei hystyried yn ddyledswydd arno gyfaddef ei fod wedi defnyddio llawer gair ag y buasai yn well peidio; a'i fod yn ei themlo yn hyfrydweh neillduol i gael gwneyd y cyfaddefiad hwn mewn cyfarfod yn yr hwn y mae Dr. Brown yn gadeirydd. Ar hyn daew Dr. Brown yn codi i dystiolaethu fod ganddo barch bob amser i Dr. Cunningham; ond fod yn rhaid i'w galon fod yn ddideimlad iawn, os na fydd yn ei barchu ar ol heno yn fwy nag erioed.

Pa beth fydd canlyniad y cyfarfod hwn yn ei effaith ar grefyddwyr Cymru? A yw yn ormod dysgwyl iddynt fod yn wyliaidwros o hyn allan am beidio tramgwyddo eu gilydd? Oni ddylai yr holl enwadau fod yn fwy gofalus na chaffo dim ymddangos yn eu cyhoeddiadau, a fyddo yn tueddu i ddifriō personau, a pheri archollion diachos i deimladau? O'n rhan ein hunain, yr ydym yn ymrwymo, hyd y mae ynom, i ymgadw yn ofalus at holl benderfyniadau yr Undeb Efengylaidd.

YSGRIFENIADAU MORGAN LLWYD.*

Y MAE YN gysur genym weled cymaint o lyfrau newyddion yn cael eu hargraffu yn Nghymru y dyddiau hyn, nid yn unig er mwyn yr argraffwyr eu hunain, ond hefyd, ac yn benaf, er mwyn y dorf o ddarllenwyr, yr hon, y mae lle i feddwl, sydd o hyd yn cynnyddu mewn archwaeth dda a gwybodaeth fuddiol, yn gystal ag mewn rhifedi. Nid ydym ychwaith yn grwgnach o herwydd fod y llyfrau goreu yn iaith y Saeson yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Y mae yn rhaid addef fod ganddynt hwy amryw gyfansoddiadau, nad oes genym ni ddim i'w gystadlu â hwynt. Hoff yw genym ein gwlad a'n hen iaith odidog, ond hoffach yw gwirionedd. Yr ydym yn elynion marwol i bob rhagfarn genedlaethol a chrefyddol. Ond nid anfuiddiol fyddai cofio y dichon fod rhagfarn yn erbyn y Gymraeg yn gystal ag o'i phlaid; ac nad yw y ffaith fod llyfr wedi ei ysgrifenu yn iaith Hengist yn ddigon i brofi ei fod yn werth ei gyfieithu, neu o'r tu arall, ei fod o anghenrheidrwydd yn anheilwng o dderbyniad o herwydd darfod ei fyfyrto a'i gyfansoddi rhwng bryniau creigiog Cymru. Yr ydym yn cofio clywed am dyddynwr parchus yn sir Ddinbych, yr hwn, pan yn cychwyn i'w daith i un o wledydd breision Lloegr, a dderbyniodd orchymyn penodol oddiwrth ei brïod serchus i brynu y darn gorcu a fedrid gael am arian o ryw ymborth neillduol, yr hwn a ystyrir gan lawer yn anhebgorol fel attodiad ar ddiwedd ciniaw. Nid rhaid ei enwi yma. Digon yw dywedyd fod sir Gaerlleon yn enwog am dano er ys blyncddau; a'i fod yn rhan arbenig o'r hyn a gynnwysir yn y gair rhagorol hwnw, *enllyn*—yr hwn air, wrth fyned heibio, nid oes gan y Saeson yr un yn eu hiaith yn cyfateb iddo. Wele, yr ymborth gorchymynedig a brynwyd, ac a ddygwyd adref yn ddiogel. Mawr oedd y ganmoliaeth a roddid iddo gan y dyeithriaid a ddygwyddent gyfranogi o hono; a lliosog oedd yr holiadau am y lle y cafwyd ef, a'r pris a roddwyd am dano. Ond ryw ddiwrnod, tarawai y gyllell wrth ryw sylwedd caled yn ei ganol; ac

* O'r "TRAETHODYDD," am 1848.

erbyn edrych, pa beth oedd yno ond allwedd fechan, yr hon yr oedd gwraig y tŷ wedi ei cholli amryw fisoedd cyn hyny. Na ddywedod neb fod yr hanesyn yma yn rhy wael i ymddangos yn y "Traethodydd;" oblegid y mae yn ddesgrifiad cywir o'r dull yr ymddygir yn rhy gyffredin at gyfansoddiadau o darddiad Cymreig. Dyma ysgrifeniadau Morgan Llwyd yn llawn o athrylith wreiddiol a gwirioneddol, ac eto nid oes un o bob cant o'r Cymry yn gwybod dim am danynt. Nid oes, am a wyddom ni, mewn bod, ond ychydig iawn o goffadwriaeth am dano. Er holi llawer, methasom gael nemawr ychwaneg o'i hanes nag a gynnwysir yn "Nrych yr Amseroedd," gan Robert Jones, Rhos-lan. Os oes rhai yn meddu ychwaneg, byddai yn dda genym glywed oddi-wrthynt. Ar ol sôn y byddai yn pregethu yn Mhwillheli ar ddyddiau marchnad, ac yn arfer myned trwy y farchnad â'i ddwyllaw ar ei gefn, a'i Fibl yn ei law; ac y byddai y bobl yn cilio o'i flaen, fel pe buasai gerbyd yn carlamu trwy yr heolydd; y mae awdur y llyfr difyr hwnw, rai tudalenau ymbellach ymlaen, yn dywedyd am dano fel y canlyn:—

"Yr oedd Morgan Llwyd o deulu Cynfal, yn mhlwyf Maentwrog, str Feirionydd. Mab ydoedd, medd rhai, nai medd eraill, i Hugh Llwyd, Cynfal. Clywais ddywedyd, pan oedd yr hen ŵr yn glaf, ychydig cyn marw, ei fod yn dymuno gweled Morgan. Gofynnodd y rhai oedd gydag ef iddo, 'Ai nid ydych yn ewyllysio gweled eich mab Dafydd?' Atebodd yntau, 'Nac wyf: nid yw hwnw ond ffwl meddw fel finnau. O na chawn weled Morgan.' Mae yn debygol wrth hyn mai ei fab ydoedd. Mae yn dra thebygol mai drwy weinidogaeth Mr. Walter Cradoc y cafodd dröedigaeth, pan oedd Mr. Cradoc yn gweinidogaethu yn Ngwrecsam: ond pa un ai yn yr ysgol, ai ar ryw achos arall, yr oedd efe yno, nid yw yn hysbys. Yr oedd yn ŵr o gynneddfau cryfiou, yn nodedig am ei dduwioldeb, dwfn iawn yn ei fyfyrddau; ac yr oedd llawer o bethau dirgelaidd yn ei ymadroddion, ei lythyrau, a'i lyfrau, anhawdd i lawer eu deall. Ysgrifonodd lawer o lyfrau bychain yn Gymraeg, megys 'Llyfr y Tri Aderyn,' 'Gair o'r Gair,' 'Yr Ymroddiad,' 'Gwaedd yn Nghymru,' &c. Teithiodd lawer trwy Gymru i bregethu yr efengyl. Gelwid ef gan wyr y Deheudir, Morgan Llwyd o Wynedd. Bu yn weinidog yn Ngwrecsam dros rai blynyddau, yn yr amser y trowyd amryw o offeiriadau anfucheddol allan o'r llanau. Bu farw o gylech y flwyddyn 1660, a chladdwyd ef yn mynwent yr Ymneilldauwr gerllaw Gwrecsam. Gwelais y gareg yno a fuasai ar ei fedd, ac arni y ddwy lythyren yma, sef M. Ll. Dywedir i ryw ŵr boneddig, o erlidiwr creulon, yn ei gynddaredd wrth fyned heibio, drywanu ei gleddyf i'w fedd hyd at y carn. Dywedir fod rhyw bwys a thrymder neillduol wedi syrthio ar feddyliau Mr. Vavasor Powell, y nos y bu farw Morgan Llwyd, ac iddo ddywedyd wrth y rhai oedd gydag ef y geiriau hyn, 'Aeth y seren ddysgleiriaf yn Nghymru dan gwmwl heno: er na wyddai efe y pryd hwnw ddim am y farwolaeth a ddygwyddasai. Byddai rhyw bethau neillduol yn cael eu hamlygu i Morgan Llwyd cyn eu dyfod i ben. Un tro, pan oedd yn pregethu yn mhentref Ffestiniog, a bod yno, yn mysg amryw oedd yn cellwair ac yn gwawdio, un dyn ieuanc yn rhagori arnynt oll mewn ysgafnder a chellwair; wrth sylwi arno, nolodd ef allan, gan ddywedyd wrtho fel hyn, 'Tydi, y dyn ieuanc, gelli adael heibio dy gellwair: tydi yw y cyntaf a gloddir yn y fynwent yma.' Ac

felly y bu. Bryd arall, fel yr oedd yn pregethu yn Machynllaith, a rhai plant wedi dringo i goed ag oedd gerllaw, efe a gyfeiriodd ei law tuag atynt, gan ddywedyd y geiriau hyn, 'Pan ddell y plant hyn i oedran gwŷr, fe ymâd yr efengyl o Fachynllaith:' ae felly y bu dros faith flynyddau. Oud y peth hynotaf oedd ei ragfynegiad am ddiwygiad mewn crefydd yn Nghymru, yn y geiriau nodedig sy'n canlyn:—

'Mae dynion gwych, hiliogaeth yr hen Jacob, yn barod i gyfodi allan o'r pridd; 'ae er hyn, o'r nefoedd y disgynant. Y mae ffynonau y môr tragywyddol yn tori 'allan ynddynt; ac ni all y byd, na'r enawd, na'r cythraul, mo'u cau, na'u cadw 'dan y d laear. Y tri hyn a orchfygant y tri byd; oddi fewn, oddi allan, ac oddi fry. 'Fe fydd y rhai hyn yn golofnau yn nheml Duw, ac arnynt hwy yr ysgrifenis y tri 'enw: ynddynt hwy y darllenir enw y Tad nefol, yr hwn yw y Brenin anfarwol; 'a'r Fam nefol, yr hon yw Caersalem newydd, a'r naturiaeth angelaidd; a'r Brawd 'nefol, Crist, o flaen yr hwn nid yw yr haul ganol dydd ond fel sachlen ddu dywyll; 'ac wrth ei enw newydd, ni bydd ond ychydig a'i hedwyn. Yna yr ymddengys Par- 'adwys, a phren y bywyd, ac arch y dystiolaeth, a'r manna cuddiedig, a'r byd an- 'weledig sydd trwy y byd hwn; a hwnw a bery byth. Ni thefir y pethau hyn i'r 'eôn. Bwyd y moch yw y mês, ond y rhai ysbrydol a fwyânt o fara'r bywyd: ac 'yno y cair gweled rhagor rhwng y morwynion call a'r rhai anghall, ac y dywedir 'y llais cryf, Y sawl sydd frwnt, bydded frwnt eto, a'r gwatwarwr coegddall, 'bydded ddall byth. Oud y cyfiawn a grêd, ac a gaiff weled a'i lygaid y Brenin 'Iesu yn ei degvch; a'r delwau a gwmpant o'i flaen, a'r teyrnasoedd a blygant i'r 'bummed freniniaeth, fel meibion Israel i Joseph, megys y dywed yr Ysgrythyr 'sanetaidd yn helaeth. Mae hyn yn agos, wrth y drws: ie, ac yn oes gwr fe'i gwelir. 'Mae y droell yn troi yn rhyfedd drwy yr holl fyd yn barod; ac a drŷ eto yn gyf- 'lymach ac yn rhyfeddach beunydd: *Dan. xii. 10; Matth. xxv; Dat. xxii. 11; 'Esay xxxiii. 17; Dan. vii. 27; Esay xi. 9.'*

D.S.—Oes cymherir yr amser yr ysgrifennodd M. Llwyd y rhagfynegiad uchod â'r amser y torodd y diwygiad allan yn Nghymru; ie, yn Lloegr, Scotland, ac America hefyd, sef tua'r flwyddyn 1739, gellir gweld i'r cyflawniad ddyfod i ben fel y rhagddywedasai, sef, 'Yn oes gwr fe'i gwelir.'

Yn y gyfrol gyntaf, tudal. 31, o'r "Drysorfa Ysbrydol," a gyhoeddwyd gan Mr. Charles, dywedir fel y canlyn:—

"Trwy weinidogaeth Mr. Walter Cradoc, yn Ngwrecsam, y cafodd Morgan Llwyd o Gynfal, ei alw. Gwr tra enwog yn ei oes oedd Morgan Llwyd; o gynnedd-fau cryfion, dwys ffyrddod, symrlwydd duwiol. Bu yn fyrych yn y parthau hyn yn pregethu, yn y Bodweni, a manau eraill. Y rhai a alwyd trwy ei weinidogaeth ef oeddynt ddechreuad y gynnulleidfa gyntaf o Ymneillduwyr yn y fro hon."

Yn yr un gyfrol, tudal. 171, cawn y sylw a ganlyn yn hanes Mr. Cradoc:—

"O'ddentu'r flwyddyn 1632, trwy ryw Ragluniaeth anadnabyddus i ni yn bresen-nol, daeth Mr. Cradoc i fod yn gurad yn Ngwrecsam, yn sir Ddinbych. Gwisgwyd ef yno â nerth neillduol o'r uchelder; a bu yn hynod ddefnyddiol i alw pech- aduriaid i edifeirwech. Yr oedd yn llafurus iawn yn ei waith; yn pregethu nid yn unig yn y dref, ond hefyd mewn parthau oddiamgylch. Yn y cyfamser yr oedd Morgan Llwyd yn ddyn ieuanc yn yr ysgol, yn Ngwrecsam. Trwy weinidogaeth

Mr. Cradoc yr ymwelodd yr Arglwydd gyntaf â'r gwr enwog hwnw, yr hwn a fu yn gveinidogaethu yn Ngwrecsam ar ol i Mr. Cradoc ymadael oddiyno, ac a fu yn dra llafurus yn pregethu mewn amryw fanau, yn Neheubarth a Gwynedd."

Nid ydym yn cyfrif ein hunain yn ddigon medrus i esbonio y rhag-ddywediadau rhyfeddol a grybwyllir uchod. Ond y mae yn rhaid i ddyn fod yn hynod o anwybodus, os nad yw yn deall fod llawer o bethau yn dygwydd yn y byd y rhai nid yw efe yn alluog i'w hamgyffred. Pe agorem ein llygaid, ni a welem ein bod yn byw o hyd yn nghanol rhyfeddodau. Ond oes ryfeddach na chyffredin oedd yr oes hono mewn llawer ystyr, pan oedd pob math o egwyddorion yn ymweithio yn erbyn eu gilydd mewn llawn nerth, ac yn gwneuthur yr holl deyrnas yn dryblith drwyddi; pan o'r diwedd y torwyd pen triarglwyddiaeth yn mherson Siarl y cyntaf, ac y dyrchafwyd yr ynys hon dan lywyddiaeth Cromwell i uwch bri yn ngolwg cenedloedd y ddaear nag y buasai erioed o'r blaen. Yr oedd yn oes o ddinystyr cyffredinol ar ffurfiau difwyd, ac o gyffro alaethus ymblith y pryfed copyn wrth weled eu gwëoedd yn cael eu hysgubo ymaith mor ddiarbed. Dymunol fuasai pe gallesid difodi gwaith y creaduriaid hyn heb beryglu eu bywydau, na pheri iddynt ddyoddef llawer o anghyfleusdra; oblegid nid ydym yn chwennych niweidio cymaint a phryf copyn, os gellir peidio. Er hyny, dylem gofio mai am fywyd, ac am bethau gwerthfawroeach na bywyd, yr oeddynt hwy yn ymladd: a phan ddelo amgylchiad felly, nid hawdd yw cadw o fewn terfynau rheswm na rheol. Ond nid oes modd i ni ddesgrifio yr amseroedd hyny yn well nag yn ngeiriau Morgan Llwyd ei hun, yn "Llyfr y Tri Aderyn:"

"Nid oes chwaith neb yn nheyrnas Lloegr, nag yn ninas Llundain, yn ei ddeall ei hunan. Y peth a wnelont heddyw, mae rhyw ysbryd yn ei ddadwneuthur yfory. Ni welaf fi ddim yn dyfod i ben yn d meddyliau dynion; ond y mae rhyw droell arall yn troi uwchlaw synwyr pawb. Mae yr ūs yn ymgasglu, a chorwynt disymwth yn ei chwalu: mae y pryf copyn yn hir yn gwneyd ei rwyd, a rhyw blantos yn ysgubo y cwbl i lawr mewn mynyd awr. Mae y bobl ar a welaf i mewn odyngalech, neu fel plant yn gwneyd tai bach yn min afon, a'r llifeiriant yn ddisymwth yn codi, ac yn ysgubo y cwbl. Mae rhyw nerth yn mysg dynion yr awrhon nad oedd o'r blaen. Mae rhyw ysbryd ihyfedd yn gweithio, er nad yw y bobl yn gweled."

Dyma nodweddiadau ei oes; ac y maent i'w gweled yn amlwg yn ei ysgrifeniadau. Nid oes ynddynt ddim tebyg i ffurfioldeb. Y mae yr awdur yn dal cymdeithas â natur yn ei holl sylweddolrwydd, a'i phrydferthwch cynhenid. Yr ydym wrth ddarllen ei waith yn teimlo fel dyn yn dianc o ganol un o drefydd myglyd Lloegr—a phwy na wnai hyny

pan y gallai—i anadlu awyr iach mynyddoedd Cymru. O ganlyniad, y mae ei feddyliau yn hynod o wreiddiol. Y mae natur bob amser yn newydd; ac y mae rhywbeth ffres yn mhob dyn sydd yn meddwl ac yn llefaru yn ei ddull naturiol ei hun. Pwy bynag a fydd fod yn wreiddiol, nid rhaid iddo ond treiddio trwy ffurfiau i natur pethau: y mae yma ystorfa anhysbyddadwy. Pan fyddo gwyneb y tir wedi ei weithio allan, nes myned yn hollol ddiffwrth, gyrrer yr aradr yn ddyfnach i'r ddaear, a cheir yn fuan gynnwrech toreithiog; hyny yw, os bydd yno ddyfnder daear i'w gael. Ond ar rai amserau, y mae Awdur natur ei hun yn rhwygo holl ffynnonau y dyfnder mawr, ac yn dwyn nerthoedd newydd i fynu o grombil y ddaear, nes y bydd yn ymddangos fel byd newydd ei greu, yn barod i dderbyn yr hâd ymron heb ddim triniaeth. Felly y bu yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Y mae yn debyg mai y pryd hwnw y bu y cynhyrriad mwyaf ar feddyliau dynion er dyddiau yr apostolion; ac y mae yr effeithiau i'w gwled yn nghyfansoddiadau beirdd ac athronwyr, yn gystal a duwinyddion, yr oes hono. Er nad oedd y cyffro yn amser Cromwell yn cyrhaedd mor bell, eto yr oedd yn llawn mor ddwys, os nad yn ddwysach, yn yr ynys hon: ac y mae dyfnder cyfatebol i'w weled yn ysgrifeniadau Milton, Owen, Howe, a Baxter. Nid ydym am gymharu Morgan Llwyd âg un o'r gwŷr hyn gyda golwg ar faintioli ei feddwl. Ond eto y mae yr un naturiaeth yn rhedeg trwy ei holl waith yntau; ac nis gallwn lai na thybied ei fod, o ran gwreiddiolder, yn sefyll mor uchel a neb o'i gydoeswyr.

Fel y rhan fwyaf o awduron ag sydd yn nodedig am wreiddiolder, y mae Morgan Llwyd weithiau yn lled aneglur; ac ysgatfydd ei fod mewn rhai manau yn rhy gyfriniol. Er hyny, nid hawdd yw penderfynu pa le y mae y clawdd terfyn i fod, tuhwnt i'r hwn nis gall ysgrifenydd ysgogi heb fod yn euog o aneglurder gormodol. Yr hyn sydd yn amlwg i un a ddichon fod i'r llall yn dywyll fel y fagddu. Ymhlith yr awduron enwocaf yn yr Almaen, y mae Novalis a Jean Paul Richter, y rhai ydynt weithiau yn dra aneglur. A dywedir fod y cyntaf o'r ddau yn hoff iawn o Jacob Behmen, y mwyaf cyfriniol, ond odid o'r holl ysgrifenyddion. Ond heb ymdroi gydag ysgrifenyddion Almaenaidd, nid ydym yn credu fod neb erioed wedi canfod y pen pellaf i feddyliau mawrion Shakspeare a Milton. Y gwir yw, nad oes un llyfr yn werth llawer, os na fydd ambell waith yn agor rhyw olygfeydd o flaen y darlennydd, y rhai nid yw efe, nac ychwaith yr awdur ei hun, yn medru olrhain eu terfynau. Mae yn debyg mai yr oll a ellir yn rhesymol ei ddysgwyl

yw, fod yr awdur yn ein harwain i le digon manteisiol i weled, a hyny ar dywydd digon elir. Gofaled na fyddo niwl yn ei amgylchynu ef a'r darlennydd, yn cuddio pob gwrthddrych oddiwrthynt, ac yn eu rhwystro efallai o'r diwedd i weled eu gilydd. Bydded yno ryw gymaint, a goreu po mwyaf, yn hollol eglur, ac os bydd yr olygfa yn ymestyn, ymhell tuhwnt i gyrhaeddiad ein golygon, bydd yn hyfryd genym ei dilyn ymlaen, nes y byddo y nefoedd a'r ddaear, yn raddol yn ymddangos fel yn cyffwrdd â'u gilydd, a ninnau yn colli ein hunain mewn anfeidroldeb. Byddai yn dda i bob myfyriwr ieuanc ystyried nad yw i feddwl am fesur yr hyn oll a ddarlleno. Dylai gofio drachefn a thra- chefn fod pob peth naturiol yn cynnwys dirgelweh, ac o ganlyniad ei fod yn anolrheinadwy.

Un achos o ymddangosiad cyfriniol mewn rhai awduron yw eu gwaith yn cario dull allegawl o ysgrifenu i eithafoedd. Y mae gradd o hyn i'w weled yn Christmas Evans, a mwy efallai yn Morgan Llwyd; ond nid cymaint yn neb a'r rhagdywededig Jacob Behmen. Tra y cedwir y dull hwn o ysgrifenu o fewn terfynau, y mae yn un o'r addurniadau godidocaf mewn cyfansoddiad. Y mae yn gwisgo meddylddrychau ysbrydol â chyrrff daearol, ac yn eu gosod yn weledig o flaen ein llygaid. Y mae nid yn unig yn tystiolaethu ac yn profi fod y fath beth yn bod, ond y mae hefyd yn dangos pa fath ydyw. Ond nid oes dim yn fwy peryglus yn llaw ysgrifenydd heb chwaeth gywir, yr hwn sydd yn rhy dueddol i anghofio y sylwedd wrth ddilyn y cysgod. Nid da gormod o ddim. Anghenrheidiol yw gwybod pa le a pha bryd i beidio, rhag i ni fod yn gyffelyb i'r Gwyddel, yr hwn a dybiai, os oedd cymeryd llonaid llwy bob dydd o'r physisgwriaeth yn debyg o'i wella mewn ychydig wythnosau, y byddai cymeryd yr holl gostrelaid ar unwaith yn rhwym o wneyd yr un peth mewn un noswaith. Priodol hefyd yw cadw mewn cof fod rhyw berthynas, rhyw gyfatebrwydd, i fod rhwng y gyffelybiaeth a'r mater y dymunir ei osod allan. O ddiffyg sylwi ar hyn, y mae llawer, wrth geisio portreadu eu meddyliau trwy gyffelybiaethau, yn rhy debyg i'r paentiwr hwnw, yr hwn oedd mor anghelyfdd, medd y chwedl, fel y gorfyddai iddo ysgrifenu, Dyma lûn dyn, neu, Dyma lûn coeden, cyn y gallesid penderfynu pa wrthddrychau yr amcenid eu darlunio.

Yn gyferbyniol, o'r ochr arall, os na fyddwn yn dra gwyliadwrus, yr ydym mewn perygl o fyned i'r niwl wrth geisio dilyn cyffelybiaethau yn ol at eu harwyddocâd. Nid ydym yn ddiammheuol nad yw Morgan

Llwyd wedi ysbrydoli gormod ar yr arch yn "Llyfr y Tri Aderyn." Ond wrth ystyried yr oes yr oedd yn byw ynnddi, y rhyfeddod yw ei fod wedi ymgadw mor dda o fewn rhyw derfynau. Ymhell ar ol ei amser ef, cyhoeddwyd llyfryn yn Gymraeg, dan yr enw, "Dwy Bregeth; y gyntaf, am y creaduriaid yn myned i mewn i arch Noa: yr hyn ydoedd gysgod o iachawdwriaeth etholedig eglwys Dduw yn a thrwy Iesu Grist. Yr ail, am y creaduriaid yn myned allan o'r arch i fynydd Ararat: yr hyn ydoedd gysgod o symudiad yr eglwys filwriaethus o ystâd o ras i ystâd o ogoniant. Gan Edmund Jones, Gweinidog yr Efengyl. Trefecca; argraffwyd yn y flwyddyn, 1782." Yn y bregeth gyntaf, y mae yr hybarch Edmund yn profi pob cangen o'r athrawiaeth Galffinaidd oddi-wrth fynediad y creaduriaid i'r arch: ac nid yw yn ymddangos ei fod yn teimlo yr anhawsder lleiaf i ysbrydoli y cwbl, o'r falwoden a'r ceiliog rhedyn i fynu hyd at y llew a'r elephant. Gallwsid meddwl y cawsai beth traferthl gyda'r creaduriaid aflan: ond nid oes un rhwystr a saif o flaen y dull hwn o ymresymu. "Yr oedd gwardigaeth y creaduriaid aflan yn yr arch," medd efe, "pa rai sydd niweidiol, a drwg eu natur, yn dangos i ni y byddai i rai o'r dynion gwaethaf yn y byd gael eu hachub trwy Grist, cystal ag eraill o well natur." Ae os gofyn neb, Paham yr achubwyd mwy o'r creaduriaid glân? y mae Edmund yn ateb, "Eithr y rheswm ysbrydol, paham yr achubwyd mwy o'r rhai glân nag o'r rhai aflan, ydoedd i ddangos i ni, y byddai nifer y rhai a achubid o eglwys weledig Duw yn y byd, yn fwy saith waith na nifer y rhai a gymerid allan o'r byd, a'u ystâd halogedig wrth natur i ddechreu eglwys yr efengyl â hwynt." Ar yr un pryd, y mae llawer o ddywediadau da dros ben yn y ddwy bregeth; ond gresyn yw eu bod wedi eu gosod i sefyll ar sylfaeni mor weiniaid. Y perygl wrth geisio deongli cyffelybiaethau, yw gosod y cysgod yn lle y sylwedd, ffurfiau allanol yn lle y gwirionedd tufewnol, amgylchiadau llëol ac amserol yn lle egwyddorion cyffredinol a thragywyddol. Hyfryd ar noswaith dawel, deg, yw syllu ar y sêr yn mynves yr afon lydan, lonydd; ond os edrychwn ar yr adlewyrchiadau hyn fel gwrthddrychau sylweddol, yr ydym yn rhwym o gymeryd ein camarwain, ac o ddyoddef siomedigaeth ddirlfawr yn y canlyniad.

Y penaf o gyfansoddiadau Morgan Llwyd yw "Llyfr y Tri Aderyn," yr hwn a ysgrifenyd ar ddull ymddyddan rhwng yr Eryr, y Golomen, a'r Gigfran. Nis gellir darllen ond ychydig ddalenau heb weled fod yr awdur yn feistr ar y dull yma o gyfansoddi. Y mae yr Eryr yn

siarad fel Eryr, y Golomen fel Colomen, a'r Gigfran fel Cigfran. Tyb-
 ygid fod yr Eryr yn cynnrychioli Cromwell, a'r Golomen yn sefyll am
 yr Anghydfurfwyr, neu o leiaf y rhai a fuasent felly cyn i Cromwell
 gymeryd meddiant o'r llywodraeth, ac mai wrth y Gigfran y mae i ni
 ddeall yr hen Eglwys Sefydledig. Nis gellir canfod priodoldeb nac
 ystyr amryw ranau o'r ymddyddan heb gadw hyn mewn golwg. Ond
 dilys ydyw, fod yma hefyd gyfeiriad pellach, fel y mae rhai o'r esbon-
 wyr goreu yn barnu fod mewn llawer o'r darluniadau proffwydoliaethol
 yn y Bibl; a bod y Golomen wedi ei bwriadu i ddynodi gwir Gristion-
 ogion yn mhob oes; a bod y Gigfran, a'i "llais garw gwrol," yn llefaru
 iaith gelynyon y gwirionedd, ac erlidwyr crefydd ysbrydol; a'n bod, yn
 ngwedd freninol yr Eryr, yn gweled dyn cydwybodol a diragfarn i
 athrywynu rhwng y pleidiau. Nid oes yn hyn ddim yn annaturiol;
 oblegid nid oedd y rhyfel cartrefol rhwng y brenin a'r senedd ond par-
 had o'r hen ryfel rhwng enawdolrwydd ac ysbrydolrwydd. Dyfetha
 crefydd ysbrydol oddiar y ddaear oedd dyben yr Archesgob Laud a'i
 ganlynwyr, ac amddiffyn y grefydd hono oedd dyben y blaid wrthwyn-
 ebol. Pwy bynag a wado hyn, nid yw ond bradychu ei anwybodaeth:
 ac y mae yr anwybodaeth hono yn awr yn ddiessus, wedi i'r mater gael
 ei chwilio mor fanwl, a'i ddangos mor oleu, gan Thomas Carlyle, a Dr.
 Merle D'Aubigne. Tawed y Cigfran, gan hyny, tra fyddom yn gwan-
 daw ar y Golomen fwyn yn mynegi ei syniadau ar rai o brif bynciau
 crefydd. Fel y canlyn y mae yn traethu am Y Bod o Dduw.

"*Eryr.* Er a ddywedech di, nid yw hyn yn myned i'm pen i, nac i'm calon
 ychwaith: a'r pen yw drws y galon. Pa fodd y mae i ddyn foddwl heb gamfeddwl
 am y pethau hyn?"

Colomen. Ni all fod ond un anfesuro! a hwnw am ei fod yn berffaith, rhaid
 iddo fod yn mhob man ar unwaith, ac yn llefaru wrth bawb yn wastad, yn clywed
 ac yn cynnal pob peth ar unwaith. Nid rhan o hono sydd yma, a rhan acw, canys
 nid oes mo'r rhanau ynddo: *Jer.* xxiii. 24. Ond y mae efe i gyd, ac yn gwbl, ac
 yn hollawl, yn mhob man ar unwaith. Am hyny y gallai Moesen chwedleua ág ef
 wyneb yn wyneb: canys yr oedd yr holl Dduwdod o flaen ei lygaid ef. Ond ni wel
 neb hyn ond y meddwl ysbrydol, megys nas gellir gweled yr haul ond yn ei oleuni ei
 hunan. Pwy sydd yn gweddio; neu pwy sydd yn pregethu; neu yn rhoddi tro yn y
 byd; ac yn gweled fod yr holl Dduwdod i gyd, sef y Duw mawr, a'i holl olwg arno?
 ac yn deall mai lle y mae ei gariad ef, yno y mae y bywyd a pharadwys; a lle y
 mae ei ddiig ef, yno y mae angeu ac uffern? *Mat.* xi. 27. Hwn yw y Duw anfesuro!,
 bendigedig byth, yn ymlonyddu ynddo ei hunan; ac iddo fe bo'r clod yn mhob man
 yn dragywyddol: *Rhuf.* ix. 36; *Deut.* xxviii. 58. Ni ddylai dyn son am ei enw ef
 heb barch a chryndod, canys ynddo y mae pawb yn son am dano: *Dat.* vi. O'i
 flaen ef y mae'r nefoedd yn dianc, a cher ei fron ef y mae'r angelion sanctaidd yn
 ymguddio: *Esay* vi."

Dyma feddyliau mawrion mewn iaith ardderchog. Pe buasai Dr. Samuel Clark wedi deall cymaint a hyn, ni chynnygiasai a phrofi Y Bod o Dduw trwy gymeryd yn ganiatâol fod hyd a lled yn un o briodolaethau yr Anfeidrol. Ond gwrandawn yn nesaf pa beth a ddywed y Golomen am Arfaeth ac Etholedigaeth. A rhag i'r Gigfran gael lle i feio, caniatâwn iddi ddyfod ymlaen i ddyweyd ei chwyn yn fyr. Er mwyn deall ei gwrthdadau, efallai mai anghenrheidiol yw sylwi, fod Noa yn ei waith yn adeiladu yr arch, yn cael ei olygu trwy yr holl lyfr fel yn arddangos y Tad yn rhoddi y Mab i fod yn Waredwr pechaduriaid.

“*Cig.* Mae Noa wedi fy ngwrthod i; ac nid gwaeth i mi beth a wnelwyf, os gwrthodedig ydwyf.

Er. Nid efe a'th wrthododd di, ond ti a'i gwrthodaist ef, ac a aethost ymaith: *Ezec.* xxxiii. Cariad ac ewyllys da yw efe, ac nid oes tywyllwch ynddo. Hawdd ganddo faddeu i'r gwaethaf; anhawdd ganddo ddigio, a gwych ganddo hir-ymaros.

Cig. Ond mae llawer yn dywedyd ei fod ef wedi gwrthod llawer, a dewis rhai, cyn eu geni.

Er. Mae hyn tuhwnt i'm dysg i: efallai y gŵyr y Golomen y dirgelwch hwn. Beth a ddywedi di?

Col. Anhawdd dywedyd, ac anhawdd deall, pa fodd y mae y dyfnder hwn yn Noa. Ond mi ddarllenaf i chwi yr A, B, C, yn gyntaf fel hyn. Mae yn nhragywyddoldeb dri yn un, sef, ewyllys, cariad, a nerth; a'r naill yn ymgyrhaeddyd erioed a'r llall, ac yn ymborthi, ac yn ymgenedlu yn eu gilydd byth: *Diar.* viii. Oni b'ai fod pleser tragywyddol i borthi yr ewyllys anfeidrol, ni byddai neb yn gadwedig. Ac oni b'ai fod cynhyrfaid yr ewyllys cyntaf yn dân llosgadwy, ni byddai neb yn golledig. Ac oni b'ai fod y tri fel hyn yn cydweithio, ni buasai na dyn, nac angel, nac anifail, na dim arall wedi ei wneuthur. Mae rhai wedi ymesgor erioed yn y cariad trwy ysgogiad yr ewyllys, yr hwn sydd yn eu gwasgaru fel gwreichion allan o hono ei hun, ac yn eu tymheru yn nwyr y difyrwch, yr hwn yw yr arch. Nid yw gwreiddyn y tri ond cariad ynddo ei hun, heb gasâu neb. Ond yn yr ewyllys gweithgar hwnw mae'r ysgogiad yn tewychu y peth sydd ynddo, ac yn gadael heibio (fel pren ei ddail, neu ddyn ei boeryn) y peth nad yw un ag ysbryd y galon: *Ioan* iv. 8. Wele, nid yw y cigfrain yn adnabod tarawiad y tant yma yn y delyn nefol. Ond deall di, O Eryr! ac fe ddëall y colomenod hyn yn fwyfwy. Canys fel dyma wreiddyn y mater, a ffynnon pob peth. Dyma fôn derwen yr holl fyd gweledig hwn: dyma y cynhyrfaid tragywyddol sydd yn achosi pob symudiad yn mysg yr holl grëaduriaid. Ond nid yw yr adar ar ganghenau y pren yn meddwl pa fodd y mae y gwreiddyn yn cynnal eu naturiaeth, a hwythau ynddi. Yr ewyllys cyntaf yw gwreiddyn pob un, fel y mae y wreichionen yn dyfod o'r gareg; ac mae efe yn ymgyrchu yn wastad i fynwes y mab, ac yn ymlonyddu yno yn y cariad; ond mae llawer o'r gwreichion heb fynu ymoeri felly, ond yn ehoddeg gyda Lucifer yn eibyn y goleuni i'r tywyllwch tragywyddol, ac yn aros yn yr ysgogiad tanllyd, heb gael esmwythdra byth, cisieu dyfod i'w geisio allan o'u naturiaeth eu hunain: *Mat.* iii. 17. Mae gallu yn yr ewyllys i ysgog, ond nid oes mo'r ewyllys gyda gallu i ddy, chwelyd, fel y dywed y gigfran o'r blaen ran o'r gwir; am hyny mae llawer yn eu gwrthod eu hunain, ac yn achwyn ar Noa. Ac er bod ei fynwes ef yn eu chwennyh, mae eu mynws danllyd hwynt yn eu dal yn eu teyrnas eu hunain. Ond O Eryr! os cofi di ofyn ymbellach am hyn pan fo'm ni wrthym ein hunain yn y dystawrydd, mi ddangosaf yn helaethach wreiddyn pob dirgelwch.”

Attolwg i ti, O golomen hawddgar! ai hyn a elwi yn A, B, C? Mewn difrif, os felly y mae, yr ydym yn anobeithio cyraedd byth hyd at yr a, b, ab. Er hyny y mae un peth yn eglur, sef, na fedr neb brofi nad oes yma synwyr, yr hyn sydd fwy nag a ellir ei ddywedyd am bob peth a draethwyd ar y mater hwn. Wrth odrych hefyd yn fanwl, y mae rhyw drymwydd yn dyfod i'r golwg, nes ein galluogi i benderfynu nad oedd Morgan Llwyd ymhell, o ran sylwedd ei farn, oddiwrtli yr hen wir-air Cymreig, "Pob da oddiwrtli y Creawdwr, a phob drwg oddiwrtli y creadur." Nid ydym yn cofio i ni erioed weled dywedriad mwy cynnwysfawr am yr ewyllys na hwn, "Mae gallu yn yr ewyllys i ysgog, ond nid oes mo'r ewyllys gyda gallu i ddychwelyd." Anhawdd yw dyweyd yn well er ysgrifenu cyfrolau. Ond yn niwedd y dyfyniad uchod, gwelir fod y Golomen yn addaw dangos mwy ar hyn pan fyddai hi a'r Eryr wrthynt eu hunain yn y dystawrwydd. Ac felly, hwyrach mai cystal fyddai aros hyd hyny am oleuni ychwanegol. Ar ol cryn lawer o ymddyddan ymhellach, y mae yr Eryr yn gwasgu at y Gigfran yn fwy difrifol, nes yw hithau o'r diwedd yn blino, ac yn cymeryd ei hedfa oddiwrtlynt yn y modd canlynol:—

Er. Gwrandaw, O Gigfran: rhaid i mi o'r diwedd dy holi di yn ddwysach. Paham na ddoi yn ol at dy Arglwydd?

Cig. Mi wela dy fod di yn fy erbyn i yn hollawl; ond cymer Noa, a'i arch, rhyngot ti a'r Golomen. Minnau a wn p'le cafi fy swper. Mi glywaf sawyr bur gunod ar y ddaear.

Er. Fe dderfydd y rhai hyny o'r diwedd, ac yno fe dderfydd am danat tithau.

Cig. Nid oes fater. Mi a'u cymeraf tra caffiwyf. Fiarwel i Noa, ac i'w arch, ac i tithau, ac i'w Golomen. Ni ddeuaf atoch mwyach. Crawec. Crawec. Ymaith, ymaith. Ymhell ddigon."

Yn awr, dyma yr Eryr a'r Golomen "wrthynt eu hunain yn y dystawrwydd." Gadawer i ni wrandaw pa esboniad pellach a gawn ar y materion blaenorol.

Er. Tri yn un, meddi di, oedd ef. Ond a oes dim drwg yn dyfod oddiwrtli y Rheolwr cyntaf fel oddiwrtli Noa?

Col. Nag oes. Nid oes, fel y dywedais o'r blaen ond cariad a golcuni ynddo: er bod digter ac arglwyddiaeth gydag ef pa le bynag y mae: 1 *Ioan* i. 5; *Essay* xxvii. 4. Ac y mae ef yn mhob man yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear. Gochel feddwl fod dim drwg ynddo, er ei fod ef yn hir yn cyd-ddwyn a'r drygioni sydd yn y byd. O Eryr, deall hyn. Canys dyma wreiddyn ymranid holl ganghenau gwybodaeth a naturiaeth. Canys y naturiaeth dragwyddol yw ffynnon y naturiaethau amserol. Ti wyddost nad yw gair da ynddo ei hunan yn ddrwg, a ddel aillan o un a meddwl da; ond cyn gynted ag y dyweder ef, mae y glust ddrwg yn ei wyro. Felly mae ysbryd y byd wedi cipio a chamu enaid dyn, er iddo ddyfod yn bur ac yn berffaith allan o'r un daionus."

Meddyliem fod hyn yn gystal esboniad a dim a'ëllir ei gael. Mae yn amlwg fod Morgan Llwyd yn gweled yr anhawsdwr, ac yn ei deimlo. Os na lwyddodd i'w symud yn hollol, nid yw hyn yn rhyfedd, wrth gofio fod pawb wedi methu o'i flaen, ac ar ei ol. Wedi'r cwbl, tybygid nad oes gan neb lawer ychwaneg i'w ddywedyd ar y materion hyn na'r hen weinidog hwnw yn y Deheudir, yr hwn, pan ofynwyd iddo, pa fodd yr oedd yn deall y geiriau hyny, "Esau a gaseais," a atebodd, "Ie, nid ydych chiwi yn deall yr adnod yna. Nid wyf finnau yn ei deall. Ond nid yn yr un man yr wyf fi yn methu a chiwi. Nid wyf fi yn synu un tipyn iddo gasau Esau. Y peth sydd yn fy nyrysu i yw, meddwl iddo erioed garu Jacob." Dichon, gan hyny, mai doethineb i ni fyddai disgyn at ryw bethau mwy dealladwy, neu bethau o'r hyn lleiaf ag y mae llai o berygl wrth ymdrin â hwynt.

Bu dadl led faith yn y "Drysorfa" rai blynyddau yn ol mewn perthynas i ddeilliad yr enaid. Y mae Morgan Llwyd o ran y dull o ymadroddi, yn cydfyned â'r naill blaid; ond o ran sylwedd, â'r llall. Ei farn ef ydyw, fod yr enaid yn dyfod trwy genedliad naturiol oddiwrth y rhieni; ond yr ysbryd yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. Fel hyn y mae efe yn gwahaniaethu rhwng yr enaid a'r ysbryd; ac o'n rhan ni, nis gallwn wadu fod ynom ogwydd cryf i feddwl fod y gwahaniaethiad yma yn gywir. Onid dyma y ffordd fwyaf naturiol i ddeall y rhanau hyny o'r Bibl, lle y sonir am enaid ac ysbryd yn yr un adnod? Ac onid yw y golygiad hwn yn taffu goleu ar y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifel? Ar yr un pryd, gan fod y gair "enaid" yn cael ei arfer am "ysbryd," ac yn cael ei ddeall felly yn unig yn ein dyddiau ni, byddai ceisio dryysu pobl gyffredin trwy ddywedyd fod enaid mewn anifel, pan y gwyddom y cymerent hwy y gair mewn ystyr wahanol oddiwrth yr eiddom ni, yn arwydd o brinder mewn synwyr a gras. Nid ydym ychwaith yn anfoddlawn i'r dywediad, "mai dwy ran sydd mewn dyn, sef corff ac enaid;" oblegid y mae y gair "corff" yn y dywediad hwn, yn cynnwys yr holl ran anifeilaidd o ddyn; a'r gair "enaid" yn golygu yr hyn a eilw Paul "yr ysbryd," sef y sylwedd anfarwol, yr hwn, pan fyddo dyn farw, "sydd yn myned at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef." Gyda golwg ar y gofyniad am ddeilliad yr ysbryd, y mae yn ddirgelwch i ni pa fodd y gallai neb gredu ei fod yn hanu o'r rhieni trwy genedliad naturiol. Y mae y farn hon yn arwyddo, un ai fod yr ysbryd yn effaith cyfluniad corfforol, a dim ond hyny; neu ynte, fod dynion yn meddu ar allu creadigol. Ond nis gall dyn roddi bod i'r un

mymryn o sylwedd eorfforol ; pa faint llai i sylwedd ysbrydol ac anfarwol ? Ond fel y canlyn y mae'r ymgomiad ar y pyngciau hyn rhwng yr Eryr a'r Golomen :—

Er. Yr oeddwn i gynnau yn barod i lewygu, ond yr awrhon mae ynof beth nerth, a chefn, a chalon i ymofyn ymhellach cyn ymadael. Attolwg dangos beth yw y rhagoriaeth rhwng yr enaid a'r ysbryd yn yr un dyn.

Col. Ysbryd dyn yw'r trysor mawr, a'r enaid sydd megys llong i'w ddwyn o'r naill i'r llall. Ysbryd dyn yw'r castell, a'r enaid sydd megys tref o'i amgylch. Yr ysbryd yw canhwyllyn y meddyliau, a'r enaid yw plisgen y rheswm oddiallan : yr ysbryd, medd yr ysgrythyr, yw'r mer, a meddyliau'r enaid yw'r cymalau. Ysbryd dyn yw gwreiddyn y pren, a rhesymau'r enaid yw'r canghenau. Mae enaid yn mhob peth byw, a math ar ddeall gan anifail : *Heb.* v. 12 ; *1 Thes.* v. 23. Ond nid oes ysbryd anfarwol mewn dim ond mewn dynion ac angelion. Yr enaid y mae dyn yn ei lun ei hun yn ei genedlu, ond Duw yw tad (ac nid taid) yr ysbryd. Yr enaid rhesymol yw hwyllbren dyn, ond yr ysbryd yw llyw y llong. Weithian y mae ysbryd dyn yn rhodio (fel Tina) allan yn rhodfeydd yr enaid ; ac yno y mae gwynt ysbryd y byd hwn yn ei gipio ; ond mae ysbryd dyn naturiol yn wastad allan o hono ei hun, fel y mab afradlawn, nes dychwelyd, yn cael ei ddwyn yn nghertwyn y cythraul, ac yn dilyn ei chwibianiad ef yn y enawd : *Luc* xv. 17. Mae'r ysbryd fel tŷ Lot, a'r enaid yn y enawd fel heol Sodom : *Eph.* ii. 2, 3. Ac fel y mae rhagoriaeth rhwng anadl dyn a'i feddwl, felly y mae rhwng yr enaid a'r ysbryd. Yr ysbryd yw neuadd yr enaid, a'r enaid yw porth yr ysbryd. Dyma'r ysbryd (yn angeu'r corff) sydd yn esgyn i fynu at breswylwr tragwyddoldeb, pan fo enaid anifail yn disgyn i lawr, canys gwaed yw : *Prej.* iii. 21."

Ond na thybied y darllenydd mai pyngciau sychion yn unig yw testunau yr ymddyddan yn "Llyfr y Tri Aderyn." I'r gwrthwyneb, y mae yn llawn o gyfeiriadau grymus at y gydwybod, a'r rhai hyny yn fynych yn taraw i'r byw. Braidd na feddyliem mai yn hyn y mae ei nerth mwyaf, a'i ragoriaeth penaf. Nid yw wedi ei ranu yn bennodau ar wahanol faterion. Ceir ynddo yr un amrywiaeth naturiol ag mewn ymddyddanion cyffredin. Ond nid yw yn gadael pum mynyd i fyned heibio heb ryw air at y gydwybod. Rhoddwn yma ddyfyniad i ddangos mor ddidwyll a diarbed y mae y Golomen yn traethu y gwirionedd i'r Eryr tywysogaidd :—

Er. Ond pa ryw ddyfnder yr wyt ti yn ei feddwl ? Pa beth yw'r dyfnder, a'r uchder ?

Col. O Eryr, os gwrandewi fel y dylit, ti gei fwy o ddeall : *Dat.* xxi. 8. Y dyfnder yma yw'r pwll diwaelod, a hwnw yw'r ail angeu, a'r angeu mawr hwnw yw'r uffern, a'r lliid annhraethadwy sy'n llosgi pechod a phechaduriaid cyndyn fel afon o frwstan ; canys mae'r pechod lleiaf yn cynhyrfu y digofaint mwyaf : ac am yr uchder, hwnw yw diwedd yr ailenedigaeth. Nid oes neb a'i hedwyn ond y rhai sydd yn ehedeg allan o honynt eu hunain iddo, ac yn byw ynddo : *Esay* xxx. 33.

Er. Ond ai diogel i ddynion ehedeg yn uchel ? Fe allai mai po uchaf yr ym-godant isaf y cwympant.

Col. Gwir ddigon yw os bydd esgyll o gwyr naturiaeth ganddynt. Canys felly

yr ehe lodd Lucifer a'i lu i waelod uffern. Y balch a ostyngir, a'r isel o galon a ddyrchefir: *Luc* xiv. 8. Ond os calon ddrylliedig a gais adnabod dwfn gariad Duw, hi a gaiff ei dysgu, a'i chynnal, a'i chodi i uchelderau'r Arglwydd, a'i chyfarwyddo yn ysbyrd y gwir Noa: *Salm* xxv. 8; *Phil.* iii. 20; *Phil.* iii. 2, 13.

Er. Ond yr wyt ti yn fynych yn son am Noa. Pa beth yw yr ysbyrd?

Col. Ysbyrd y Goruchaf yw'r awel dragywyddol, a'r seren foren, a goleuni'r byd, ffynnon yr oesoedd, sel y Testament, anadl yr Oen, rheolwr angelion, a bywyd dynion: a'r Ysbyrd hwnw sydd yn dwyn rhai i baradwys tra fo eu cyrff hwy ar y ddaear.

Er. Paradwys—Pa le mae'r ardd hono? Mi glywais son llawer am dani

Col. Ni all neb ehedeg yno, ond y sawl sydd yn rhedeg allan o hono ei hunan, sef allan o'i ewyllys, a'i gyfrwysdra, a'i ddiweddion, a'i lwybrau ei hunan. Mae paradwys nid ymhell oddiwrthyt, ond yn mhob man lle y mae cariad Duw yn ymddangos. Ac mae'r holl golomenod cywir ynddi, yn clywed geiriau annhraethadwy, yn mysg myrddiynau o angelion, ac ysbyrdoedd perffaith: *Heb.* xii. 22; *Luc* xvii. 21. Ac hefyd o'r tu arall, mae uffern, a'r tân, mae'nân, a'r tywyllwch yn nghalonau llawer tra f'ont yma yn rhodio ar y ddaear.

Er. Ond gad i mi ofyn i ti, Onid oes un nef nag uffern ond sydd yn y byd yma?

Col. Oeh lawer! Mae nef dragywyddol, ac nffern fel ffwrn a bery byth. Ond er hyny, mae naill ai nef ai uffern yn mhob dyn yn y byd hwn: *Jago* iii. 6. Ond nid yw dyn yn gweled yma pa le y mae, mwy na gwr yn cysgu yn ei wely sydd a lleni tywyll y cnawd o'i gwmpas, a'i holl ffenestri wedi eu cau. Ond mae'r amser i ddeffro yn agos, pan gladder neu pan losger y cnawd, ac yna mae pawb yn myned i'w gartref, ac yn canfod ei orweddfa.

Er. Ond y mae arnaf ofn hyn: Pa le y byddaf fi yn oes oesoedd?

Col. Er bod Ffelig yn crynu, nid oes fawr dan y diwedd yn ymofyn am hyn: *Act.* xxiv. 25. Os dilyn naturiaeth, ti gei losgi fyth heb fyned byth yn ulw. Ond os cei di naturiaeth arall a chalon newydd, ti fyddi gyda'r colomenod yn y llawenydd: *Act.* xxvi. 18.

Er. Ai son a wnei di wrthyt fi am galon newydd? Parchedig oeddwn i erioed, a'm hynafiaid hefyd, fel y mae'r achau yn dangos: ac mae llawer a gawsant gred a bedydd nad oes arnynt ofn uffern mwy na thithau.

Col. Er hyny, fe ddaw uffern heb ei hofni. Ac nid yw achau teuluoedd ond rhwyd a weuodd naturiaeth, yn yr hon y mae pryf copyn balchder yn llechu. Nid wyt ti nes er dyfod o honot o dywysogion Cymru, onid wyt ti yn un o had Tywysog Breninoedd y ddaear; wedi dy eni nid o ewyllys gwr, ond o'r had anlygredig. Rhaid i ti, er glaned wyt oddiallan, gael newid dy naturiaeth oddifewn, neu fe a'th losgir di yn dy blu, a'th foneddigeiddrwydd dy hunan: *Jago* i. 18. Ac am gred a bedydd dyfrllyd, nid yw hyn fwy na gwelltyn yn y domen, oni chei di gyda hyn yr ailenedigaeth: *Act.* xiii. 23.

Er. Peth na wn i oddiwrthyt fy hunan yw'r ailenedigaeth, er i mi ar glast glywed son am dani.

Col. Yr ailenedigaeth yw dyfodiad dyn allan o'r naill fyd i'r llall yn y byd yma. Pan fo'r enaid yn yr ysbyrd (mewn poen dan weiddi) yn tori drwy gwrs naturiaeth oddifewn, heb fynu mo'i ddal yn hwy yn nghroth y meddwl daearol, ond er gwaethaf pob creadur yn dyfod allan o dywyllwch i oleuni, allan o fryntni ysbyrdol i burdeb, allan o gas i gariad, allan o gacthiwed i ryddid nefol, allan o'r carechar i reoli, allan o helynt y byd i gymdeithas sanetaidd, allan o fynwes cythreuliaid i gyfeillach angelion Duw, allan o swm y cnawd i glywed llais Duw, allan o'r oferedd i sobrwydd meddwl, allan o'r chwerrhiniad i brudd-der paradwysaidd,

alian o'r enawd drowllyd i'r ysbryd bywiol, allan o groth naturiaeth i Gaersalem nefol: *Act.* xxvi. 18; *Eph.* vii. 1, 2. Mae yn yr ailenedigaeth ddwy ran; un i'r enaid a'r ysbryd, am yr hon yr ydym ni yn son, a'r llall i'r corff yn y diwedd, yr hon a elwir mabwysiad y corff: *Rhuf.* iii. Ac fel y mae'r corff yn y bedd heb ei eni hyd yr adgyfodiad, felly mae'r enaid yn pydru yn naturiaeth nes iddo adgyfodi gyda Crist, ac fe wna Duw i ddyw weled ei fod ef yn gorwedd yn uffern, ac yn llechu yn y ddaear, cyn iddo ddwyn y meddwl i baradwys.

Er. Yr wyt ti yn son yn fynych am baradwys. A wyddost tipwy sydd yno?

Col. Dod genad i mi son yn ddifyr am fy ngwlad a'm bro fy hunan: *Luc* vi. 45; *Rhuf.* viii. 38, 39. Rhaid i bawb son am ei gartref. Yr wyf mewn rhan ynddi yn barod, a'r colomenod gyda ti, fel y dywedais i ti.

Er. Ond beth pe bawn i yn dy ladd di yr awrhon, i ba le yr ait ti?

Col. I mewn ymbellach i'm gwlad; canys ni ellir mo'm gwrthio i allan o'm naturiaeth, a naturiaeth nefol yw paradwys.

Er. A wyddost ti beth yr wyt ti yn ei ddywedyd?

Col. Gwn, er na allaf beri i ti ddeall.

Er. Onid oes arnat ti ofn marw er hyn i gyd?

Col. Nag oes, mwy nag ar un sydd wedi blino fyned i'w wely i orphwys: *Phil.* i. Cenad yw angen oddiwrth fy nhad, i'm dwyn adref allan o ysgol y byd hwn fel allan o garchar y enawd."

Y mae adfywiad i ysbryd dyn mewn troi oddiwrth athroniaeth anif- eilaidd y dyddiau hyn at syniadau uwch-ddaearol Morgan Llwyd. Mewn gwirionedd, yr ydym bron meddwl na ddarfu i ni ganmawl han- ner digon arno. Wrth ddarllen y dyfyniad uchod, ac amryw ranau eraill o'r llyfr, gellid tybied mai Plato sydd yn siarad, dan ddyllanwad ac yn ngoleuni y grefydd Cristionogol. Os na ellir dywedyd ei fod yn chwahu y muriau sydd yn cylehynu ein byd bach ni, yn yr hwn nid oes ond ychydig heblaw ffurf ac ymddangosiad; y mae o leiaf yn tynu y cauadleni oddiar y ffenestri, ac yn gollwng pelydr yr haul ganol dydd i fewn ar chwareufwrdd amser, nes y mae ei holl ardderchawgrwydd yn diflanu, a ninnau yn gorfod credu nad yw sylweddau tragywyddoldeb ymhell oddiwrthym. Ond "Nid oes neb a'i hedwyn, ond y rhai sydd yn ehedeg allan o honynt eu hunain iddo, ac yn byw ynddo." Mynych y mae yn euro ar yr hoel hon. Ymddengys ei fod yn edrych ar "hun- an," fel drwg y drygau. Fel y dywedodd Rowlands, Llangeitho, gan' mlynedd wed'yn, dyma'r peth y mae dyn yn ei wisgo gyntaf, ac yn ei ddyosg olaf. Cymerer ychydig ymhellach ar y mater hwn, allan o'r ymddyddan a fu rhyngddynt cyn i'r Gigfran eu gadael:—

"*Er.* Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd yn erbyn doethineb? Mae arnaf ofn dy fod di yn annhwylllo.

Col. Geiriau sobrwyyd yr wyf fi yn eu traethu. Nid magl i'r cyfflyog yw syn- wyr y enawd, ond i'r aderyn doethaf daearol. Y dynion naturioi goreu a gollir. Am hyny gocheled pawb ei syawyr ei hun. Ni fedr anifail hoyw ehedeg; ac nid

ysbrydol yw'r naturiol, er gwyched fo yn ngolwg dynion. Mae llawer o bregethwyr yn anghymeradwy ac yn golledig : 1 *Cor.* ix. 27. Eu hathraw yw synwyr y cnawd : maent yn ysgrifenu eu pregethau ; ond oni b'ai cyflog dynion, ni wnaent bwyth o waith ; ac er hyny, fel gweinidogion yr efengyl y mynent eu hanrhydeddu. Ac heblaw y dysgawdwy'r deillion, nid oes mewn tref na gwlad ddyn llwyd llwm anlythyrenog, nag oes sarph yn ei fynwes, a synwyr y cnawd yn ei galon.

Er. Nid rhyfedd wrth hyn fod llawer yn golledig, os yw pob dyn fel nythaid o nadroedd, yn llawn o feddyliau cnawdol. Ond beth a ddywaid y Frân wrth hyn ?

Cig. Dyma daro at y gwreiddyn. Os drwg gynghorwr, drwg ganlynwr. Os tywyll goleuni rheswm, mae'r holl gorff yn dywyll, a phob gair ar a ddywedais i erioed yn ofer. Ond o'm rhan i, yr wyf yn tybied fod rheswm yn mhob peth ; ac mai rheswm naturiol yw y goleuni goreu. Dyma wreiddyn y pren a blawyd yn ddfwn. Diwreiddied y golomen ef os gall.

Col. Mi wn mai dyma Salomon y byd, ond y mae ysbryd gwirion y Golomen yn fwy na Salomon yn ei holl ogoniant a'i ddoethineb. Ond i ddaugos i ti ddoethineb ddaearol y Fran. Ei synwyr hi yw hyn :—Dalied pawb ei eiddo, cipied pawb a allo. Safed pob dyn ar ei waclod ei hun. Na ddywedded mo'r gwir mewn cariad, ond mewn creulondeb. Na ddringed uwchlaw rheswm dyn. Canlyned y byd a'i arfer. Maged ei naturiaeth, ei gnawd a'i waed, a gwariet ei amser mewn trythyllwech. Bwytaed ac yfed, a bydded lawen. Boddoned pawb er ei fwyn ei hun. Bydded ganddo ddau wyneb yn barod, a'i galon yn ddauddyblyg. Bydded gall drosto ei hunan, onide marw a wna. Ond dyma ffohineb y byd. Dyma ynydrwydd pen agored, canys nid call y dyn a'i ceisio ei hun. Y sawl sydd i dau wyneb gantho, mae un o'r ddau, yn gythreulig : y neb a wenieithio ddynion sydd bwdr yn ei galon. Hawdd yw bwyta, ac yfed, a chwareu gormod, a dawnsio yn y cnawd ar ol pibell yr ysbryd drwg. Ysbryd y gwaed yw cwmwl y meddwl. Arfer y byd yw'r porth llydan i ddystryw. A'r sawl na ddringo uwchlaw ei hun, ni eistedd fyth yn y nef-oedd. Mae'r dyn difyr chweringnog allan o'i gof ei hun, ac o'r tu fewn i gof y sarph. Amser dyn yw ei gynnysgaeth, a gwae a'i gwario yn ofer. Rhaid yw dofi ysbryd y cnawd, a magu bywyd ysbryd yr uchaf. Boddi a wna'r dyn na nofia yn erbyn ffrwd y wlad. Y rheswm uchaf yw'r afreswm isaf. Ni saif neb ond un arno ei hun. Nid eiddo neb ei hunan. Cadwed pawb ei galon at Dduw. Adrodded pob un ei gydwybod yn ddoeth. Cladded dyn ei reswm ei hun. Ond dyma iaith nad oes nemawr yn ei deall. Nag ofned neb arall cymaint ac ef ei hun. Oni fedri roi taw ar eraill, dystawa dy hun. Pan fo mwyaf swm yn y byd, bydded lleiaf yn dy galon. Nag ofna ddiabol, na char y pechod, ac na chynnwys dy hun. Na ddalied ysbryd y creadur di, ond nofia i ysbryd y Creawdwr. Cyfrif y da o'th flaen yn berf, a'th waith o'th ol yn dom. Melys i'r cnawd yw siwgr diafol, ond bwyta di y manna dirgel. Mochyn yw Lucifer yn ymdreiglo yn nghnawd dyn. Croehan hwn yw calon fudr yn berwi ar dân uffern. Gwyniau'r cnawd y'nt feirch o ryfel ; disgyn oddi arnynt, ac nae oeda. Perthen o ddrain yw rhesymau dyn. A'i gwado ei hun, a ddiane o honi. Portha dy chwant, ac efe a'th ladd. Lle y mae dynion, mae angelion ; lle y mae angelion, y bydd dynion. Y sawl sy'n byw ynddo ei hun, sy'n byw allan o fynwes y Tad. Oni clli achub eraill, diane dy hun oddiwrthyt dy hun. Gwell yw adnabod y galon yn y byd yma, na'i bod hi yn adnabod digofaint byth. Pa fodd y gelli fod yn llonydd oni byddi ar y graig ? Nid gwaeth beth a ddywedo fyliaid, nid eu gair hwy a saif."

Ond os awn ynlaen fel hyn, byddwn mewn perygl o adysgrifenu yr holl lyfr. Yr oeddym wedi nodi allan amryw ddarnau eraill, mor faith

a'r rhai hyn, ac yn llawn mor odidog ; ond rhaid ymattal. Er hyny, byddai yn drosedd anfaddeuol i ni fyned heibio, heb bigo, a rhoddi at eu gilydd, rai anghreiffiau byrion eto, o wahanol ranau o'r llyfr, y rhai a ymddangosant i ni yn brydferthach na dim gemau a fu erioed yn addurno pendefigion neu bendefigesau y ddaear. Cynglorem ein darllynyddion, ac yn enwedig y rhan brydweddol o honynt, i'w cylymu hwy am eu gyldfau, a'u hysgrifenu ar lechau eu calonau. Beth meddech, gyfeillion hynaws, a chyfeillesau hawddgar, am dlysan o fath y rhai canlynol ? Oni feddyliech chwi eu bod yn hardd dros ben ?

“Mae gan bob dyn ddigon o gyfrwysdra i'w dwyllo ei hunan : *Act. xiii. 10.*

Pan ddole ysbryd y nef i mewn, efe a ostega trwy ostwag y dwfr diluw sydd yn dy galon di, ac yno di gai weled penau y bryniau, a'r meddyliau tragywyddol cariadus yn ymddangos o'r tu fewn.

Ni all neb ganfod y Dawdod, ond trwy'r Tad, na'r Tad ond trwy'r Mab, na'r Mab ond trwy'r Ysbryd, na'r Ysbryd ond trwyddo ei hunan.

Pan fo dyn duwiol yn ymadael â'r byd, nid yw ond gadael ei wisg fel Joseph yn nwyllaw gwraig Putiphar, hono yw'r ddaear.

Mae llawer, y rhai byddai wych ganddynt deithio yr holl fyd drosto, ond nid adwaenent y byd mawr helaeth yn y galon.

Mae ysbryd dyn siaradus yn farch i ddiabol heb un ffrwyn yn ei safn.

Er cyfrwysed a fo dyn, cofied a chanfydded fod y byd yn gweled peth, a'r angylion lawer, a'r gydwybod fwy, a Duw yn gweled y cwbl ar unwaith : *Eph. iv. 29 ; Col. iv. 6.*

Mae yn rhy ddiweddar i lawer y foru, am fod heddyw yn rhy gynnar ganddynt.

Na phregethed, ac na ddyweded neb ond y peth y mae efe yn barod i'w selio a'i waed.

Tra f'och di yn gadael i'r meddwl redeg allan drwy'r llygaid a'r synwyrâu, neu yn edrych oddifewn ar luniau a delwau y peth a welist neu a gofiaist, mae'r meddwl, fel Lot, yn gadael ei dŷ, i ymresymu a'r Sodomiaid, nes i Ysbryd Duw dy gipio di i mewn i ymddyddan â Duw yn ystafell y galon.

Cyn gynted ag y dyweder y gair, mae efe wedi ei argraffu yn yr awyr, ac mae'r angelion yn ei estyn ef i'r byd arall.”

Dichon fod rhai, a dybiant eu hunain yn feirniaid go dda, yn analluog i ganfod prydfferthwch y dywediadau hyn : ond nis gallwn gredu fod neb mor amddifad o archwaeth ymhlith derbynwyr cyson y “Traethodydd.” Nid yn fynych y canfyddir â chyffelybiaethau clysach na'r rhai a welir uchod, am ysbryd y nef yn gostegu y dwfr diluw yn y galon, Joseph yn gadael ei wisg yn nwyllaw gwraig Putiphar, a Lot yn gadael ei dŷ i ymresymu â'r Sodomiaid, nes ei gipio i mewn i ymddyddan â Duw yn ystafell y galon. Mewn traethodau crefyddol y mae yn ymddangos i ni fod priodoldeb neillduol mewn cyffelybiaethau wedi eu seilio ar hanesiaeth ysgrythyrol. Sylwer hefyd ar y cyntaf yn y gyfres uchod : “Mae gan bob dyn ddigon o gyfrwysdra i'w dwyllo eu hunan.”

Y mae byd o synwyr yn y dywedriad hwn; ac y mae ynddo hefyd ddigon, ond nid gormod, o arabedd a challineb distaw, fel halen i roddi blas arno. Canfyddir yr un gynneddf mewn manau eraill, fel yn yr anghraifft a ganlyn:—

“*Cig.* Mae'r hen rai yn gweled fod tro mawr ar fyd yn agos, a'r eigfrain ifaine yn dwndro, ac yn eymeryd eu pleser. Mi fum yn Rhufain y dydd arall, ac yno mi welwn y Pab yn crynu yn ei gadair. Mae hi yn llawn bryd i mi i edrych yn fy nghyleh.

Er. A ydyw efe yn mysg y crynwyr? Paham y mae efe yn crynu?

Mae y crybwylliad hwn am y Crynwyr, y rhai oeddynt yn y dyddiau hyny newydd ddechreu, ac yn dyoddef llawer o erlidigaeth, yn ein harwain i ymofyn, beth oedd syniadau Morgan Llwyd am ryddid crefyddol: a rhaid yw cyfaddef nad ydynt mewn un modd mor oleu, ac mor gyflawn ag y dymunasem eu bod. Fel hyn y llefara yr Eryr wrth y Gigfran:—

“Mae cyfraith naturiaeth yn dysgu dynion i fyned ar ol eu goleuni eu hunain. Rheswm a chydwytod yw dau lygal dyn naturiol, a'r dyn a dyno ei lygal ei hun allan o'i enaid, fe ddylai'r barnwr ei gospi, nid am nad yw efe yn myned ar ol tyb grefyddol y llywodraethwr, ond am ei fod yn myned yn erbyn ei reswm ei hun. Ac os gwnei di yn erbyn dy oleuni, yr wyt ti yn dy gospi dy hun oddifewn, ac yn peri i'r swyddogion oddiallan dy gospi hefyd.”

Dyma yr hen reswm a arferwyd gan erlidwyr yn mbob oes. Ei sylwedd ydyw, “Fel hyn yr wyf fi yn barnu, ac y mae genyf fi hawl i farnu drosot ti, ac os wyt ti yn dyweyd yn wahanol, yr wyt yn dyweyd yn erbyn dy gydwybod, ac y mae cadwraeth dy gydwybod di wedi ei ymddiried i mi, ac am hynny, mi ddylwn dy gosbi.” Ar yr un pryd, dylid cofio mai ychydig iawn yn yr oes hono oedd yn deall dim am natur rhyddid crefyddol. Nid oes gan un blaid lawer o le i oganu eraill yn y mater hwn. Wrth edrych ar yr honiadau a wneir weithiau, gellid meddwl nad oes neb, *oddigert* y “*Tracthodydd*,” yn darllen y ddwy ochr i'r ddalen. Ond dywedent a fynont, y gwir yw, fod pob plaid a gafodd erioed gyfle wedi bod yn euog o erlid. Cynghorem Es-gobaethwyr a Henaduriaethwyr i ddarllen bywgraffiad Dr. Owen gan Orme, a chynghorem Annibynwyr i ddarllen adolygiad Dr. Macrie ar y gwaith hwnw. Yr oedd golygiadau Dr. Owen ei hun ar y pwnc hwn yn amherffraith. Ysgrifonodd Jeremy Taylor, gyda mwy na'i hyawdl-odd arferol, dros ryddid i bawb brophwydo fel y dewisent, pan oedd ef ei hun wedi gorfod encilio i sir Gaerfyrddin yn amser Cromwell; ond

pan ddyrchafwyd ef i awdurdod gan Siarl yr Ail ymddygodd yn hollol groes i'r egwyddorion a amddiffynasid ganddo o'r blaen. Ac am yr Annibynwyr, y mae yn hysbys ddarfod i lawer o honynt fyned drosodd i America, yn yr amseroedd hyny, er mwyn rhyddid cydwybod: ond ar ol myned yno, nid hir y buant cyn rhoddi mewn grym yr hen ddeddfau caethion ag yr oeddynt wedi diane rhagddynt, a dangosasant at bawb a feddyliai yn wahanol oddiwrthynt hwy, yr un creulonder ag yr oeddynt hwy eu hunain wedi ei ddyoddef cyn hyny yn yr hen wlad. Dichon hefyd nad oes genym ninnau yn y dyddiau hyn gymaint o achos ymfrostio. Os oedd eiddgedd dros Dduw a'i ogoniant yn eu cario hwy i eithafoedd, nid *oes dim dwywaith* (chwedl pobl Gwynedd) nad yw swrn mawr o'r siarad am ryddid a glywir yn awr, yn enwedig oddiwrth olygwyr newyddiaduron Saesneg, yn tarddu o ddifaterweh am y gwirionedd, os nad casineb gwreiddiol tuag ato.

On dyma rywun yn gwaeddi ar ein hol, ac yn taeru yn galed ein bod wedi erwydro yn rhy bell oddiwrth ein testun. Pa fodd bynag am hyny, y mae yr adolygiad a'r llyfr yn tebygu i'w gilydd mewn un peth, sef mewn rhyddid perffaith oddiwrth bob rhêol a ffurf. Nid mewn areithfa yr ydym ar hyn o bryd yn traethu darlith drefnus; ond yn ein llyfrgell mewn hen gader freichiau led anrhydeddus: a thybied a wnaethom, ddarllenydd hoff, dy fod dithau yn eistedd gyferbyn â ni; a'n bod yn ymddyddan tipyn, ar draws ac ar hyd, am "Lyfr y Tri Aderyn." Ond ofnwn dy fod yn dechreu blino bellach, er dy fod yn rhy foesgar i gwyno; a dychymygasom unwaith neu ddwy i ni weled cysgodion cwsg yn hofran o flaen dy amrantau. Wele, y mae wedi myned yn hwyr; a'n doethineb ninnau fyddai meddwl am ein gor-phwysfaeodd. Ond nis gallwn ganiatâu i ti ymadael heb gyfeirio rhai ymadroddion eto at dy gydwybod; a gobeithiwn y bydd i ti fyfyrion arnynt yn ddifrifol wrth rodidi dy ben ar y gobenydd. Fel hyn y mae Morgan Llwyd yn ein harwain rhwng Ebal a Gerizim, i glywed y fell-dith a'r fendith. Gwrandaw dithau, ac ystyria.

"Ond gwae chwi'r cyfreithwyr, mae cyfraith a'ch ysa: gwae'r cynhenus mewn gwlad, pentewynion uffern ydynt: *Iago* ii. Gwae chwi, ryfygwyr llofruddiog, mae llawer och wedi myned i'r lân arall yn eich erhyn. Gwae chwi, wyr trawsion yn llyncu cyfoeth, rhaid i chwi chwydu'r cwbl gyda'ch gwaed eich hunain: *Job* xx. 15. Gwae chwi, yr uchelwyr drwg eu siamplau, yn llusgo y tlodion ar eich ol i ddystryw: *Salm* x. 9, 10. Pa fodd y rhoddwch chwi gyfrif am eich tenantiaid trauin? *Job* xxiv. 9. Beth a ddaw o honoch chwi pan dorer a phan losger bob peth uchel? *Esa.* ii. 2; *Mat.* iii. 10; *Zac.* xi. 1; *Preg.* xi. 8, 9; *Job* xi. 11; *Job* xxiv. 5; *Diar.* vi. 13, 15; *Mat.* xxiii. Gwae pob pren mawr a phob pren bychan ag nad yw'n dwyn

ffrwyth da. Mae'r tân wedi enyn yn Nghymru. Mae drws dy fforest di, O wlad y Brytaniaid presennol, yn agored i'r eirias dân. Ac hefyd mae'r fwyall ar dy wreiddlyn di; oni ddygi yr awrhon ffrwyth da, fe a'th dorir rhag bod yn bobl. A gwae chwi'r oferwyr, sy'n gwario eu hamser, a'u hiccchyd, a'u harian, a'u meddyliau tragwyddol mewn oferedd. Gwae di, lafurwr anwybodus. Dy holl waith yw cloddio'r ddaear a'i thrin, a thro'i'r anifeiliaid yn y mynydd, a hwy a gymerant eu troi genyt ti, am hyny tystion ynt yn dy erbyn. Gwae di, ddarllenwr cyfrwys-ddrwg, yr hwn wyt ynchwiliollyfrau i ganfod lluniau neu feiau. Fe genfyddy gwirionedd dy feiau di, ac a'th fama. Gwae di, ragrithiwr, yr hwn wyt yn ofni golwg dyn. Nid wyt ti yn ofni pechu yn y dirgel, di a gei dy farnu yn yr amlwg. Gwae di, gardotyn heinyf segurlyd, na fyni weithio er lles i neb. Lles ni cheisi, lles a golli: *Diar.* xix. 15. Gwae di, gydwybod gysglyd, yr hon fel ei mud wyt yn bradychu dy berchenog, mae amser hir i ti udo. Gwae chwi, sy'n ymgyrchu i'r dyrfa (yn hoyw eich ysbryoedd) yn bwyta siwgr chwant y cnawd yn ngyrfa diafol, ac yn carowsio eich eneidiau. Ar fyrder ni bydd defnyn o ddwfr i ti i'w gael i oeri blaen dy dafod. Gwae chwi foneddigon drwg, sy'n llyfu chwys y tlodion, yn peri i'eh tenantiaid ocheneidio, ac yn tori eu hesgyrn. Mae amser eich gwasgfa chwi yn prysuro heb oedi. Gwae chwi, offeiriaid mudion, yn caru llwynogod, yn cyfarth defaid, cŵn deillion, chwervon, beilchion, diog, gwancus, chwyrnlyd, cysglyd, llydlyd, drewlyd. Fe'ch troir chwi oll allan o'r eglwys. A gwae chwi, holl hen Gymry sydd eto heb eu hadnewyddu. Ond gwyn eich byd chwi sy'n hiraethus am Dduw, chwi gewch eich llenwi âg ef, ynddo ac iddo. Gwyn eich byd chwi, rai diwyd ffyddlon parhaus, chwi a gewch fendith ar eich gwaith. Gwyn eu byd y gweddiwyr diragrith, hwy a gânt eu gwrando bob amser: *Jer.* xxix. 13; *Marc* iv; *Salm* xxv. 11. Gwyn eu byd a gadwant eu hunain, ni wâd Duw mo honynt hwy. Gwyn eu byd a gywir hauant wenith Duw, hwy a gânt fwynhau cnwd ysbyrdol. Gwyn eu byd y rhai ysbyrdol, canys gyda hwy y mae cyfrinach Duw. Gwyn eu byd y gwyliadwrs, ni chaiff diafol afael arnynt. Gwyn eu byd y disgwylwyr dystaw, fe ymwel yr Arglwydd Iesu â hwynt. Gwyn eu byd y rhai a ddyoddefant dros yr Oen, gyda'r Oen y teyrnasant. Gwyn eu byd y rhai a ddihunwyd ac a ddi-hunanwyd, byw a wnant yn Nuw ei hunan. Gwyn eu byd a barhant hyd y diwedd mewn daioni; annhraethadwy yw eu cyflog hwynt. Gwyn eu byd y llesg gostyngedig, toredig eu calonau, canys ynddynt hwy yr erys Duw. Gwyn eu byd y diniwaid, ni all neb eu niweidio. Gwyn eu byd llant bychain Duw, mawr yw ei ofal am danynt. Gwyn fyd weision grymus y Tad, eisteddant i wleda, a'r Oen a'u gwasanaetha. Gwyn eu byd y rhai boddllon dyoddefgar, nid oes dim a all eu cythruddo. Gwyn eu byd a arosant yn isel, hwy a godir yn uchel. Gwyn eu byd a nofiant yn erbyn ffrwd naturiaeth, hwy a ddeuant i'r môr lle y mae yr ysbryoedd sanctaidd. Gwyn eu byd ar a wnelont bob daioni ag a wypont, hwy a gânt wybod a fynont, a nerth newydd fel eiyrod: *Ioan* vii. 17; *Heb.* xi. 5; *Mat.* v. 8; *Dat.* xxi. 7; *Dan.* vii. 17; *Eph.* v. Gwyn eu byd a rodiant gyda Duw (fel Enoch), Duw a'u geilw ac a'u derbyn o fysg dynion. Gwyn ei fyd y meddwl pur llonydd, fe edwyn hwnw Baradwys a phren y bywyd. Gwyn ei fyd a ymprydio oddiwrth gnawdoliaeth, fe gaiff fwyta Manna Duw. Gwyn ei fyd a wrthodo holl bleserau y cnawd, efe a yf o afon Duw. Ac (mewn un air) Gwyn ei fyd yr ailnedig, hwnw a anwyd i etifeddu pob peth, Luw sydd yn ddal iddo, ac yntau yn blentyn anwyl i Dduw. Yr Oen fydd ei olenni, ac yntau fydd olenni yn yr Arglwydd. Ni all dim ei ddrygu, ond pob peth a gydweithia er lles iddo. Pan na allo ddal ei afael ar Dduw, fe ddeil Duw ei afael ar ei hâd ynddo ef. Fe gaiff orphwys byth ynghalon Duw (yr hwn yw ei Fab) pan fo llawer eraill byth yn crasu ar y llechau duon tanyllyd, yn farw heb fyw, yn fyw heb farw yn dragwyddol. Ond ni all yr ail angyu

newid yr ailenedig, ac nid oes dafod angel a oll gyfrif yr holl drysorau sydd ynghadw yn Naw cyn dechreuad y byd i'r enaid hwnw. *Rhif.* viii. 2; 1 *Cor.* ii. 9; 1 *Tim.* i. 13. Ond efe a'i cenfydd ac a'i caiff, a'i waith ef fydd eu cyfrif a'u mwynhau yn dragwyddol. Wele'r awrhon dyma'r felldith a'r fendith. Wele dyma fynydd Ebal a mynydd Gerizim. Dyma angeu a dyma fywyd. Dewis di, O ddyd, fywyd ac nid angeu."

Dyma ni yn terfynu. Rhoddasom ddyfyniadau helaethach nag arferol, oblegid fod gweithiau Morgan Llwyd mor anadnabyddus i'r Cymry; ond nid ydym yn credu y dadleua neb eu bod yn rhy faith. Ac er y cwbl, nis gallasom gael lle i ddim ond "Llyfr y Tri Aderyn," o'r hwn y mae genym hen argraffiad, dan yr enw "Dirgelwch i rai i'w ddeall, i eraill i'w watwor: sef Tri Aderyn yn ymddyddan; yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran, neu Arwydd i Annerch y Cymry am y flwyddyn 666. Argraffwyd yn Ngwreesam, ac ar werth yno gan R. Marsh, gwerthwr llyfrau. 1778." Yn awr, a oes neb a gymer mewn llaw roddi argraffiad newydd a hardd o'i holl ysgrifeniadau? Ond na chynnygier ar y gorchwyl oni wneir ef yn iawn; ac ymlaenaf oll, rhaid cael golygydd medrus a ffyddlawm i ddiwygio y gwallau yn yr hen argraffiad.

Rai blynyddau wedi ymddangosiad yr ysgrif hon yn y "TRAETHOD-
YDD" cawsom yr hyfrydwch o ddarllen Dyddlyfr George Fox, sylfaen-
ydd y blaid a elwir "Cyfeillion," neu y "Crynwyr." Cynnwysa y
Dyddlyfr hwnw gyfeiriadau at Morgan Llwyd, y rhai a brofant fod
ynddo radd o duedd unwaith at rai o ddaliadau y Crynwyr; yr hyn a
allesid ei ragdybied oddiwrt h ei fynych grybwylliad yn ei holl ysgrif-
eniadau am y goleuni tufewnol sydd yn mhob dyn. Ymddengys iddo
fyned i ymweled â George Fox, ond iddynt fethu dyfod i gydwelediad.

BARDDONIAETH Y CYMRY.*

Yn y dyddiau hyn o gyffrôad llenyddol, pan y mae y wasg Gymreig yn fwy cynnyrchiol nag erioed,—pan y mae ein heisteddfodau wedi adgyfodi gyda nerth newydd, ac yn debyg o ateb dybenion daionus os parhânt i ddiwygio fel y maent wedi gwneuthur yn ddiweddar,—a phan y mae cyfansoddiadau barddonol yn ymddangos bob blwyddyn, y rhai ni fuasent yn annheilwng o'r beirdd enwocaf o amser Taliesin i lawr hyd Dewi Wyn;—y mae yn rhaid i bawb addef nad oes y tebygolrwydd lleiaf fod yr iaith Gymraeg mewn perygl o farw yn fuan, nac ychwaith fod athrylith y Cymry wedi gwanhau. Gwyddom fod tuedd gyffredin mewn ysgrifenwyr i osod gormod o bwys ar yr hyn sydd yn dygwydd yn eu hoes hwy eu hunain, ac yn enwedig yn y cyleh y maent hwy yn troi ynddo, pa un bynag ai ða ai drwg a fyddo; oblegid y mae yn naturiol i bawb feddwl eu bod hwy yn sefyll ar y rhan uchaf i'r ddaear, a bod eu gwrthdroedwyr yn gorfod cerdded a'u penau yn isaf: ac nid ydym yn hōni ein bod ni, mwy nag eraill, yn medru ymryddhan yn hollol oddiwrth effeithiau yr amgylechiadau yr ydym yn byw ynddynt. Ond yr ydym wedi ymdrechgu, hyd y gallwn, i godi ein meddwl uwchlaw amser a lle; a'n barn ddiudedd ydyw, fod y cyfnod hwn yn rhagori ar bob un a fu o'i flaen yn hanes y genedl, ac yn rhagarwyddo oes euraidd mewn llenyddiaeth Gymreig. Yr ydym ar y ffordd i gyrhaedd gwir enwogrwydd; ac os na orphwyswn ar yr hyn sydd genym, y mae lle i ddysgwyl na dderfydd am y Cymry heb iddynt wneyd rhywbeth y bydd y byd yn ei gyfrif yn werth ei gadw yn etifeddiaeth hyd byth. I'r perwyl hwn, y mae yn rhaid i olygwyr yr holl gyhoeddiadau cyfnodol ymosod o ddifrif i godi arehwaeth y wlad, a chadw gwell gwyliadwriaeth yn y cyflawniad o'u swydd, fel na roddont le i'r rhai sydd am fod yn awdwyr cyn dysgu ysgrifenu, ac am fod yn feirdd mor fuan ag y medront rifo eu bysedd. Y mae yn rhaid iddynt hefyd fod yn fwy ffyddlawn a dihoced yn eu hymddygiad at wir feibion yr awen, a dwyn

* O'r "TRAEFHODYDD," am 1852. [Adolygiad ar "DAFYDD IONAWR."]

ar gof iddynt hwythau yn aml fod ganddynt dir lawer eto i'w feddianu. Oddiar y cyfryw deimlad, a chydâ'r cyfryw ddyben, dymunem wneuthur ychydig sylwadau yn yr ysgrif hon o barth y beirdd yn gyffredinol, a Dafydd Ionawr yn neillduol; ac os dywedwn fwy yn gyffredinol nag ar destun ein traethawd yn neillduol, ni fydd hynny am unwaith ond yr hyn a wneir yn yr holl gyhoeddiadau Seisnig yn barhaus.

Ar ol yr holl floeddio mewn eisteddfodau, yr holl ddadleu mewn papyrâu, a'r holl foli ar ddoniau awenyddol y Cymry, a oes genym yn y diwedd rai beirdd wedi cyrhaedd y faine uchaf yn llenyddiaeth yr oesoedd? A oes genym gymaint ag un bardd yn haeddu ei gystadlu am fynyd â Shakspeare neu Milton? Ynfyd fyddai y dyn a atebai yn gadarnhaol. Gellid dywedyd am dano ar unwaith ei fod, o ran ei farn a'i chwaeth, mewn cyflwr anobeithiol. Deuwn i lawr eto amryw risiau, nid mewn amser yn unig, ond hefyd mewn teilyngdod; a gofynwn, A oes genym ryw fardd yn yr iaith Gymraeg i'w ddangos yn ogyfuwch a Wordsworth? Byddai yn dda genym pe gellid dyweyd fod; ac nid ydym yn ammheu na cheir rhai meddyliau mewn ychydig o feirdd Cymru mor odidog a dim yn holl farddoniaeth Wordsworth: er hynny pe dywedem eu bod ar y cyfan yn sefyll ar yr un tir ag ef, ofhwn y byddai hynny yn dangos mwy o gariad at ein gwlad nag at y gwirionedd. Beth yw Goronwy Owen a Dafydd Ionawr? Beirdd mawr yn ddiau; ond nid digon mawr i'r lle hwn. Beth yw Dafydd Ddu a Dewi Wyn? Beirdd penigamp yw y ddau; ond nid hwn yw eu lle hwythau. Beth yw Thomas Edwards o'r Nant, yr hwn a elwir weithiau yn "*Welsh Shakspeare?*" "*Welsh Shakspeare*" yn wir! Rhodder pob parch dyledus i awen wreiddiol Thomas o'r Nant, ac nid ychydig sydd yn ddyledus iddo: ond rhy brin y gellir ei gymharu, ar dir cyfiawnder, i Burns, na Cowper, na Wordsworth, chwaethach i Shakspeare. Yr arferiad yma o gymeryd pob dyn o athrylith fel cynllun perffaith a wnaeth fwy i gadw y Cymry yn ol na dim arall. Gadewch i ni ddisgyn gris neu ddwy eto, a chwilio am fardd i'w osod ar gyfer Tennyson. Meddyliem ein bod yn awr yn agos at y mare. Fe allai y bydd rhai yn tybied fod gwladgarwch wedi ein dallu: ond nid ydym yn foddolawn i fyned yn is na hyn, doed a ddelo. Heb son am Goronwy fawr o Fon, a'r tri Dafydd a enwyd eisoes, y mae genym rai beirdd yn awr yn fyw, na raid iddynt gywilyddio eistedd yn lled agos at Tennyson, er ei fod yn *Poet Laureate*; ac, fe allai, y deuent mewn amser yn rhagorach nag

ef, pe meddent yr un hamdden, a phe caent yr un cefnogaeth, i roddi eu holl enaid at y gwaith.

Y mae un fantais gan y beirdd Seisnig nad yw gan y Cymry, trwy fod cylch y darllenwyr coethedig gymaint yn eangach, a nifer y rhai sydd yn alluog i weled a gwerthfawrogi gwir fawredd o ganlyniad yn llawer llïosocach. Y mae yn ffaith am y gweithiau mwyaf mawr, heb un eithriad, a ymddangosodd yn Seisneg, pa un ai mewn iaith rydd ai mewn barddoniaeth, nad ydynt, ac nas gallant fod, yn boblogaidd yn mysg yr anwybodus. Y mae yn wir y gall dynion gwir athrylithgar fod yn boblogaidd, megys John Bunyan a Defoe. Yr oedd ganddynt hwy athrylith mor wirioneddol a neb fu ar y ddaear erioed : ond nid oeddynt er hyn o ran mawredd meddwl yn perthyn i'r dosbarth uchaf : onidê, buasent yn llai poblogaidd. Yr hwn a fyno fod yn fardd pobl-ogaidd, rhaid iddo roddi i fyny bob gobaith am fol yn fardd uchel. Dichon fod yr athrawiaeth hon yn newydd i lawer ; ond nid yw oblegid hyn yn llai safadwy. Os oes ar neb eisieu prawf, bydded iddo roddi cyfieithiad teg a hawdd ei ddeall o'r darnau goreu yn Shakspeare, neu Milton, neu Goethe, a gofyned i ddyn anwybodus beth yw ei farn am danynt. Caiff glywed yn fuan nad yw y cwbl ond ffïloreg, neu rywbeth gwaeth. Neu aed i dai y bobl gyffredin yn Lloegr, ac edryched pa beth a ddarllenir ganddynt : ai "Hamlet" a "Col'l Gwynfa;" neu ynte hanes rhyw lofruddiaeth ysgeler, ynghyd âg araeth y llofruddiwr ar y crogbren. Nid ar dlodi yr ydym yn beio, oblegid nid tlodi ynddo ei hun yw yr achos o hyn, ond diffyg meddwl coethedig. Y mae rhai eithriadau anrhydeddus i'w cael ymhlith y tlodion o'r fath dlotaf. Nid yw ddim gwahaniaeth pa un ai tlawd ai cyfoethog, os dysgyblir y meddwl : ond y mae yn amlwg mai chwaeth lygredig, a barn anghywir, sydd hyd yn hyn, ac a fydd am ryw amser eto, gan y nifer mwyaf yn Lloegr a Chymru. Y mae llais y lliaws yn burion yn ei le, ac yn nes i'w le ar lawer o faterion na llais eu llywodraethwyr ; ond pan ddygir eu barn ymlaen mewn cysylltiad â llenyddiaeth, fel pe byddent yn meddu cymhwysderau gwyrthiol i roddi dedfryd ar bob achos heb gymeryd trafferth i'w ddeall, yna y mae yn rhaid i ni ddywedyd yn ngeiriau Dr. Johnson, "*My dear sir, clear your mind of cant.*" Na, y mae yn rhaid i'r meddyliau mwyaf yn mhob oes ymfoddloni ar "*audience fit, though few.*" Y mae yn rhaid iddynt gyfeirio eu hunain at yr *ychydig*, a gadael i eraill fod yn *fânwerthwyr i'r lliaws*. Ac os hyn yw cyflwr y beirdd mwyaf yn Lloegr, pa faint mwy anhawdd yw i neb goleddu y meddwl

am fod yn fardd o'r fath oreu yn Nghymru! Heblaw yr athrylith anghurheidiol, y mae yn rhaid iddo feddu ar yni a hunanymwadiad digyffelyb. Y mae yn rhaid iddo roddi ei holl fryd—oblegid ni wna neb waith mawr heb roddi ei holl fryd ar hyny—i gyflawni gorchwyl, yr hwn nad yw yn debyg o ddyfod dan sylw neb byth ond y Cymry, a'r hwn y bydd naw o bob deg o honynt hwythau, un ai yn rhy ddifater i'w ddarllen, neu yn analluog i weled ei werth er ei ddarllen; a hyny pan y gallasai gyda llawer llai o drafferth gyfansoddi rhigymanu a fasant yn fwy derbyniol i'r cyffredin, ac yn fwy ennillfawr iddo yntau.

Er hyny, na lwfrhaed ac na ddigaloned y beirdd Cymreig. Y rhai sydd yn arwain yr ychydig yw y rhai sydd mewn gwirionedd yn arwain y byd i gyd. Ac os yw eu hanfanteision hwy yn nhalaeth fechan Cymru yn fwy na chyffredin, nid ydynt yn anorfod. Lle y byddo awen bur, hi a ddaw allan trwy bob rhwystrau, ac a wna ei hol hefyd ar feddyliau dynion. Y rhai a lafuriasant trwy fwyaf o anhawsderau yw y rhai a wnaethant fwyaf yn mhob oes, a'r rhai a fethasant yn ol pob ymddangosiad ar y pryd, yw y rhai a fu yn fwyaf llwyddiannus. Nid ydym yn deall fod beirdd llawer rhagorach *yn awr yn fyny* mewn un rhan o'r byd nag sydd yn Nghymru. Ond dymunol fyddai iddynt edrych ar ryw nôd uwch na bod yn feirdd goreu yn Nghymru, nac yn yr holl fyd yn y dyddiau anianyddol hyn. Bydded iddynt gadw eu golwg ar gedyrn yr hen oesoedd, y rhai y mae llifeiriant amser wedi methu eu hysgubo ymaith na'u gorchuddio. Ond nid ydym am eu cymhell i'w dilyn hwythau yn gaethwasaid: oblegid ni ddaeth neb erioed yn fawr mewn dim wrth ddynwared dyn mawr. Peth rhyfedd na welai beirdd ieuaine y pwnc yma; ac nid hwy yn unig, ond y pregethwyr ieuaine hefyd. Y mae y ffaith fod rhyw neillduolrwydd dullwedd yn perthyn i ryw ddyn mawr yn ddigon o brawf nad yw rhyw un arall sydd yn dangos dullwedd cyffelyb ddim yn ddyn mawr. Ond y rhai mwyaf oll yw y rhai sydd yn fwyaf rhydd oddiwrth bob neillduolrwydd, y rhai sydd wedi cyrhaedd agosaf at yr hyn yw dyn yn syml—nid y fath yma neu y fath arall o ddyn, ond dyn. Perffeithrwydd dullwedd mewn gwisg, mewn ymddyddan, mewn ymddygiad yn y cylch cymdeithasol, mewn areithyddiaeth, neu mewn cyfansoddiad, ydyw fod y dullwedd yn peidio tynu sylw. Dyma un achos fod yr ysgrifenywyr mwyaf yn llai derbyniol gan y werin: ond o gymaint a hyny y maent yn fwy diogel i'w dilyn. Heblaw eu bod yn gosod nôd digon uchel o'n blaen i gyrru ato, nid ydynt mor debyg o dynu y meddwl at ryw hynodion

o'r eiddynt hwy eu hunain, oddiwrth yr hanfodion sy'n perthyn i wir farddoniaeth yn mhob oes a gwlad. I'r graddau y bydd y dysgybl yn feddiannol ar y rhai hyn, y mae yn deilwng o gael ei alw yn fardd. Er iddo ddynwared hwn ac arall yn y modd mwyaf campus, er iddo roddi y cydseiniaid i gleeian yn erbyn eu gilydd mor gywrain a neb erioed er pan adeiladwyd tŵr Babel, er iddo argraffu ei waith, a chael eraill i'w ganmawl, er iddo fod yn "fardd wrth fraint a defawd beirdd ynys Prydain," ni fydd byth yn fardd wrth fraint a defawd yr Awen nes iddo gael gafael yn yr hanfodion. Fel cynnorthwy i'r dysgybl ieuane, ni a geisiwn ymofyn yn fyr pa bethau sydd yn hanfodol i farddoniaeth, ac i ba raddau y mae y pethau hyny yn feddiannol gan feirdd Cymru, yn enwedig gan Dafydd Ionawr.

Yr elfen gyntaf sydd yn anhebgorol mewn barddoniaeth yw *bywyd*. Dyma sydd yn gwneyd caniaidau Homer mor swynol : nid oes ynddynt ond ychydig o'r hyn a feddylir yn y dyddiau hyn wrth y gair " arddunawl ;" ond y maent oll yn llawn bywyd. Yn yr ystyr y deallid y gair gan Longinus, y maent yn dra arddunawl, oblegid y maent yn cynhyrfu ac yn tanio y meddwl wrth eu darllen. Ni fu neb yn meddu mwy o'r elfen hon na Williams, Pant-y-celyn. Hyn a barodd i hen bererin ddywedyd unwaith yn ein clywedigaeth, fod emynau Williams fel y *marbles*, pan y mae llawer o emynau eraill mwy rheolaidd, yn disgyn fel tameidiau o glai. Nis gwyddom pa gyfrif i'w roddi am y bywyd hwn yn enaid y bardd ymhellach na'i fod yn deimlad cryfach na chyffredin—teimlad o brydferthwech anian, teimlad sydd yn myned i mewn i helynt dynoliaeth, yn ei mawredd a'i thrueni, ei llawenydd a'i galar, ei chariad a'i chas, ei daioni a'i drygioni. Yr oedd llawer o flaen Dewi Wyn wedi gweled y dyn tlawd yn

"Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
Rhoi anghen un rhwng y naw."

Ond fe deimlodd Dewi wrth ei weled, nes y rhedodd ei deimlad allan yn ffrwd angerddol o farddoniaeth mor nerthol a dim yn yr iaith Gymraeg. Os bydd dyn yn meddu " llygad i weled anian, calon i deimlo anian, a dewrder i gydfyned âg anian," y mae yn rhwym o fod i ryw fesur yn fardd, pa un a fydd ef ei hun yn deall hyny ai peidio. Beth all fod yn fwy naturiol na'r ddau ddyfyniad a ganlyn o " Gywydd y Diluw," gan Dafydd Ionawr ? Nid ydynt ond darluniad dysyml o anian ; ac eto y maent yn berffaith farddonol. Yn y cyntaf, y mae yn dangos yr olwg oedd ar y byd cyn i'r dyfroedd orphen treio.

“Yn diriawn wedi aros,
 Drwy flydd ddeugain nydd a nos,
 I'r moroedd o rym marwol
 Dreio 'n lân weithian yn ol,
 Agorodd Noa'n gywrain
 Ffencstr fad y canad cain :
 I Noa, fwynaf enaid,
 Golwg yn llawn gwg a gaid ;
 Tra thew y nosfodl tarth hyll
 A duoer drwy 'r wybr dywyll ;
 Hyll niwyl drwy 'r holl nefoedd,
 Terfysgawg, bygythiawg oedd ;
 Haul agwrdd ar lewygu
 Yn dystaw deithiaw mewn du :
 Y lloer dyner a'r ser sydd,
 Lu gwelwon, fal eu gilydd,
 Yn llwyr brudd, dan gudd yn gaeth,
 Yn wylaw mewn dwfn alaeth.
 Un wyneb drwy 'r ddu nennawr
 I ddydd a nos oedd yn awr.”

Tra gwahanoi, ond nid llai naturiol, yw y dyfyniad a ganlyn :—

“Dysgwylodd am dês golau
 Yn eurdda hin i'w ryddhau :
 Am nwyfus drum y nefoedd
 Y gwr cu, hiraethu 'r oedd.
 I Noa, oedd lawn awydd
 Ymado, a rhodio 'n rhydd,
 Calan yn ddyddan a ddaeth
 A dedwydd ryddid odiaeth :
 Y canad mad symudodd,
 Rhan o honaw draw e drodd ;
 Fe welodd y nef wiwlon,
 A'r haul yn uchelder hon ;
 Gwenu 'r oedd y nef geinawr
 Yn ei phrydferth nerth yn awr :
 Daear anwyl dirionwyc
 O'i gwmpas yn werddlas wych :
 Blwyddyn newydd ddedwydd dda,
 A newydd fyd i Noa ?”

Cymerer y disgrifiad a ganlyn eto o fachludiad yr haul yn nechreu
 y “Barddoniaeth Cristionogol :”—

“Adda a'i wraig ddiwair wên,
 Y'nghoedwig eang Eden,
 Ar ael glasfryn areulwawr
 Safasant ; mewn mwyniant mawr

Gwelent yr huan gwiwlwys
 Drwy nifwl dyfnddwl a dwys ;
 Drwy ddwl nifwl y nefoedd
 Yn geinwawr iawn gwenu 'r oedd :
 Ymlonent, gwelent yn gwau
 Lawer o ddysglaer liwiau,
 Y porphor a'r aur perffaith
 Am gyrau 'r cynylau maith.
 Mynydd mawr is heulwawr sydd,
 Wych olwg, llawn uchelwydd ;
 Cyn mud, cyn cain ymadael,
 Y wyneblan huan hael
 Saethodd hydr belydr uwch ben
 Fwyfwy drwy 'r las ffurfafen,
 A'r caerawg belydr cywrain
 Yn fyw i gyd drwy nef gain :
 Goleuodd ei gu lewyrch
 Ardd Eden a'r wybren wych ;
 Hir bu 'n gwych edrych o'i ol
 A seirian olwg siriol :
 Yn raddol hoff wawl a ffodd,
 E felynwawr ddiiflanodd ;
 Yn llwyr o'r awyr yr aeth
 Yr haul dros y môr helaeth,
 A'i loywdes hafwres hyfryd,
 O'i ddeutu 'n gwenu i gyd."

Dygasom yr anghreiffitiau hyn ymlaen i ddangos fel y mae dyn yn myned yn fardd wrth deimlo yr hyn sy'n weledig i bawb. Ond dylem sylwi hefyd fod teimlad cryf yn ei alluogi ef i weled mwy nag eraill. Dichon fod y rhan fwyaf wedi profi hyn i ryw raddau yn achlysurol ; ac i'r graddau hyny yr oeddynt ar y cyfryw amserau o ran teimlad yn feirdd. Gallwn dybied nad oes ond ychydig na wyddant am ryw deimladau sydd yn agor byd newydd o flaen eu meddwl, pan y maent yn cael eu gorlenwi â hyfrydwech wrth edrych o'u hamgylch, a gwrandaw ar fwisg y greadigaeth, pan y maent yn teimlo fod pob peth yn cynnwys rhyw ddirgelwech mwy nag a welir â llygaid y corff, a mwy nag a fedr athroniaeth ei esbonio ; pan y maent yn teimlo yn arbenig fod dyn yn rhywbeth mwy na pheiriant, a bod rhyw lais ato ef yn mhob deilen a blodeuyn. Y mae yn wir fod Wordsworth yn dyweyd am Peter Bell, ei fod, wrth edrych ar y briallu ar làn yr afon, yn gweled briallu melyn, *a dim ond hyny*.

"The primrose by the river's brim,
 A yellow primrose was to him,
 And it was nothing more."

Ond yr oedd hyn cyn iddo gael ei ddeffro i deimlo. Wedi i'r corff marw hwnw yn y dwfr gyffwrdd â'i galon, y mae o hyny allan yn gweled ac yn clywed pethau nad oedd o'r blaen wedi breuddwydio am danynt. "Nid oes neb," medd un ysgrifenydd, "yn gweled mwy mewn gwrthdrysych nag y mae efe ei hun yn ei ddwyn gydag ef at y gwrthdrysych." I'r graddau y byddo dyn yn meddu calon gydnaws, a chwaeath bur, a chydymdeimlad dwfn, ynddo ef ei hun, i'r graddau hyny y mae yn alluog i ddeall pob byw a bod. Ond dylai y bardd fod yn meddu teimlad cryfach na chyffredin, oblegid y mae efe wrth ei swydd i roddi iaith i holl deimladau y natur ddynol, ac fel offeiriad i gyflwyno mawl y greadigaeth i'w Chreawdwr. Edryched ef na fyddo efe ei hun yn halogedig wrth wneuthur hyny. Os yw yn deilwng o gael ei alw yn fardd, dylai parch i'r hyn sydd fawr, a chariad at yr hyn sydd brydferth, fod yn ei galon ef yn anad neb; yna bydd yn medru cymdeithasu âg ysbryd dynoliaeth, a dirnad lleferydd y greadigaeth; bydd yn gweled pethau pell yn agos, ac yn gweled yn y pethau agosaf ryw arwyddocâd ac ardderchawgrwydd nad yw y cyffredin yn meddwl am danynt. Gellir cymeryd y dyfyniad cyntaf a roddwyd o waith Dafydd Ionawr fel anghraifft. Ni fuasai dyn cyffredin wrth edrych ar yr olygfa a ddarlunir gan y bardd yn gweled dim ond yr haul yn llwyd ei wedd; ond yr oedd athrylith farddonol yn ei weled *ar lewygu*. Ni fuasai llygaid y corff yn gweled y lloer a'r ser o gwbl, oblegid yr oeddynt "dan gudd;" ac nid yw y bardd yn eu dwyn i'r golwg, oblegid buasai hyny yn groes i natur; ond y mae yn eu gweled, er eu bod dan gudd, "yn wylaw mewn dwfn alaeth." A phrin y gallasai yntau eu gweled ar yr un pryd a'r haul, oni buasai mai

"Un wyneb drwy'r ddu nennawr
I ddydd a nos oedd yn awr."

Yn "Nghywydd y Farn," y mae Goronwy Owain yn darlunio dychryn y diafol ar ddyfodiad Mab y Dyn yn y dydd olaf. Buasai meddwl heb ddim awen yn alluog i weled y diafol yn ceisio diane o'r golwg, a llechu yn nyfnderoedd uffern; ond y mae y bardd yn ei weled yn *cydfod* â'i garchar, ac yn *caru* aros yno.

"Cydfydd y fall â'i gallawr,
Câr lechu yn y fagddu fawr."

Dwy linell Filtonaidd yw y rhai hyn: pe buasai Goronwy yn ysgrifenu fel hyn o hyd, buasai yn un o'r prif-feirdd, nid yn Nghymru yn unig,

ond yn yr holl fyd. Yr ydym yn cofio fod "Iwan," yr hwn a barodd gryn gyffro yn y "Seren Gomer," unwaith yn amser Joseph Harris, yn beirniadu ar y ddwy linell hyny yn "Nghywydd y Farn,"

"Syrth nifer y ser, arw son
Drwy 'r wagvybr draw i'r eigion."

Os nad ydym yn camgofio, yr oedd yn collfarnu y gair "draw," yn y llinell olaf, fel gair afreidiol. Dyma un prawf o'r perygl i wyr dysgedig mewn gwaed oer, fyned i farnu gwaith a gyfansoddwyd yn ngrym cynhyrriad awenyddol. Nid darlunio yr hyn a glywodd y mae y bardd; nac ychwaith yr hyn y mae yn ei weled o bell. Y mae ei deimlad barddonol yn ei godi mor uchel nes y mae yn gweled y cwbl yn eglur, ac yn cyfeirio ato "draw" â'i fÿs i'w ddangos i ninnau. Er hyny, mwy syml a mwy ardderehog yw y meddylddrych gwreiddiol fel y mae ar lawr yn llyfr y Dadguddiad. Gall y ser fod yn fydoedd mawrion a nerthol, er iddynt syrthio ar draws eu gilydd i'r eigion. Ond y mae Ioan yn eu gweled yn syrthio mor ddirym a ffigys yn cael eu hysgwyd gan wynt, ac yn gweled llen y ffurfafen yn cael ei dirwyn i fyny mewn amrantiad, fel rhol ysgrifenedig ar ol gorphen ei darllen. "A ser y nef a syrthiasant ar y ddaear fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision pan eu hysgydwer gan wynt mawr. A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd."

Y mae pob bywyd yn gwneyd cyfnewidiad ar yr hyn a ddaw o fewn ei ddylanwad. Y mae yn tynu o bob peth yr hyn sydd yn gydnaws â'i ansawdd, ac yn ei uno âg ef ei hun. Gellir rhoddi trysorau i gadw mewn blwch; ond nid ydynt drwy hyny yn cael eu newid, ac yn myned yn rhan o'r blwch. Rhagoriaeth bywyd yw ei allu i gyfranu ei hun i'r defnyddiau a ddaw o fewn ei gyrhaedd, a'u tebygoli iddo ei hun. Felly y mae teimlad barddonol yn tynu cyffelybiaethau o bob elfen, ac oddiwrth bob gwrthdrych a fyddo yn debyg o ateb ei ddyben, yn ynefoedd uchod neu ar y ddaear isod; ond yn lle eu gadael yn gyffelybiaethau meirwon, y mae yn cyfranu ei fywyd ei hun iddynt hwythau; ac i'r graddau y bydd y teimlad barddonol yn meddwl y bardd ar y pryd, ac i'r graddau hefyd y bydd y gyffelybiaeth yn cyfateb i ansawdd y teimlad hwnw, i'r graddau hyny y bydd y gyffelybiaeth yn colli ei nodwedd fel cyffelybiaeth. Y mae yr egwyddor o fywyd awenyddol sydd yn meddwl y bardd yn troi y cwbl i'w ddelw ei hun, ac yn ei wneyd yn rhan hanfodol o hono ei hun. Nid oes dim barddoniaeth mewn dyweyd fod y ser yn debyg i lusernau; ond pan ddywedir eu

bod hwy eu hunain yn llusernau y nef, y mae yno ryw wrdichionen fechan o farddoniaeth. Addefwn fod yn iawn i'r bardd ddefnyddio cyffelybiaethau, oblegid nis gall y teimlad weithredu o hyd yn ei lawn rym. Y mae yn rhaid iddo roddi gorphwysdra weithiau i'w awen ei hun ac i feddwl y darlennydd. Addefwn hefyd fod rhai cyffelybiaethau yn wir farddonol: ond y mae y rhai hyny bob amser yn cynnwys rhywbeth mwy na chyffelybiaeth. Y maent nid yn unig yn dangos tebygolrwydd, ond yn taflu mawredd neu brydfertlhwech ar y meddylddrych. Y mae hefyd i'w ystyried fod gwahanol diriogaethau y meddwl yn rhedeg i'w gilydd, fel nas gellir penderfynu yn fanwl pa le y mae y naill yn diweddu a'r llall yn dechreu. Ond *nod anghen* bardd yw y gallu i *uno*. Dichon iddo fod, a dylai fod hefyd, ar rai amserau yn ymfoddloni i edrych ar y gyffelybiaeth oddi draw, ac yn ymloni yn yr olwg arni, fel y llew gydâ'i ysglyfaeth; a dylai adael llawer un i aros yn ei chyflwr cyffelybiaethol; ond pan ymgynhyrfo y gallu bywydol o'i fewn, y mae yn rhaid iddo ei chael yn rhan o hono ei hun. Gyda golwg ar y rhagoriaeth hwn y mae amryw o feirdd Cymru yn sefyll yn uwch na Dafydd Ionawr. Er hyny ni fyddai yn anhawdd cael lliaws o anghreiffitiai i'r perwyl yn ei weithiau yntau. Fe allai mai y ffordd fwyaf addysgiadol fyddai cymeryd yr un sydd wedi bod dan ein sylw ddwywaith yn barod, fel y gwelo y dysgybl ieuanc, er mwyn yr hwn yn benaf yr ydym yn ysgrifenu hyn o sylwadau, fod mwy mewn llawer disgrifiad dysymml nag a ellir dybied ar yr olwg gyntaf. Y mae agwedd yr haul yn peri i'r bardd feddwl am ddyn ymron llewygu. Yn awr, pe buasai yn dyweyd fod yr haul yn ymddangos fel dyn ar lewygu, buasai y gyffelybiaeth yn aros, ond buasai y farddoniaeth yn cael ei cholli, neu o leiaf buasai yn hynod o wan. Ond yn lle hyny, y mae yn uno yr haul a'r dyn â'u gilydd, nes y maent yn un gwrthddrych, trwy ddyweyd fod yr haul ei hun ar lewygu. Neu mewn geiriau eraill, yn lle dal yr "haul agwrdd," a dyn ar lewygu, y naill ar gyfer y llall, y mae yn cymeryd y tebygolrwydd sydd mewn dyn yn yr amgylehiad hwnw, ac yn ei wisgo am yr haul. Ond yn y Bibl y ceir yr anghreiffitiai goreu ar y mater hwn eto. Fel un allan o lawer, cymerer y darluniad o'r march yn llyfr Job. Y mae Goronwy Owain wedi ei fenthyca; ond y mae wedi gwanhau y meddylddrych trwy wahanu y gyffelybiaeth oddiwrth ei gwrthddrych.

"A'i wddf anwar fel taran,
A'i ffroenau dig fal ffwrn dân."

Onid llesgach fyth yw y cyfieithiad yn y Bibl Cymraeg, “A addysgaist iddo weryru?” Y mae y Seisneg yn gywir, “*Hast thou clothed his neck with thunder?*” Nid ei wddf yn debyg i daran a ddangosir; ond y daran a gwddf y march wedi eu huno yn un meddylddrych. “A wisgaist ti ei wddf ef â tharan?” Drachefn, nid ffwrn dân, na thebyg i ffwrn, yw ei ffroenau, ond rhywbeth mwy dychrynlyd; ac nid dychrynlyd yn unig, fel y mae yn y cyfieithiad Seisneg, ond dychryn ei hunan wedi ei bersonoli. “Dychryn ydyw ardderchawgrwydd ei ffroen ef.” A thrachefn, ymhellach ymlaen, “Efe a lwnc y ddaear;” nid y mae fel un yn ceisio ei llyncu; ond “efe a lwnc y ddaear gan greulondeb a chynddaredd.”

Onid wrth adael y dull cyffredin o draethu ei feddwl, ac wrth ymdrechu i fod yn awenyddol, nid oes modd i'r bardd ieuanc fod yn rhy ochelgar rhag myned i eithafion. Os yw am anturio ymhell oddiwrth y lân, mwyaf i gyd yr anghenrheidrwydd iddo forio wrth reol. Y mae hyn wedi ei argraffu ar farddoniaeth pob cenedl yn yr arferiad o osod rheolau caethach mewn rhyw ddull neu gilydd i'r bardd nag i'r sawl a fyddo yn ysgrifenu mewn iaith rydd. Ai nid yw rheolau y Cymry yn rhy gaeth sydd bwnc arall. Ond y mae fod rhyw reolau yn arferedig yn mhob gwlad yn arwydd gweledig oddiallan o'r gwirionedd pwysfawr, nad oes dim rhyddid i fod ar wahan oddiwrth rywmau, a bod nerth a chyflymdra mwy na chyffredin yn gofyn rheolau manylach na chyffredin. Nid yw yn debyg y llwyddir byth i wneyd i'r agerdd-gerbyd fyned yn ddiberygl ar hyd y ffordd fawr. Pan geisiasant hyny yn agos i Birmingham dro yn ol, prin y cychwynwyd y cerbyd nad oedd yn taraw fel hwrdd-beiriant yn erbyn un o'r tai oedd wrth ochr y ffordd. Neu os mwy addas fyddai cymharu y ddawn awenyddol i delyn fwyn felyslais, dylid gofalu rhag, wrth geisio ei chwareu yn rhy nerthol, i'r tannau gael eu dryllio. Nid bywyd yw pob bywiogrwydd, nid grym yw pob egni, ac nid barddoniaeth yw pob peth anghyffredin. Y rheol affaeledig yw, “cydfyned âg anian;” oblegid pa beth bynag sydd annaturiol, y mae hefyd yn anawenyddol. Dylai cefnllif cryfaf yr awen ymgadw o fewn y terfynau a osodwyd iddi gan ddeddfau anian. Y mae yn wir fod y bardd, fel y dywedwyd, yn medru esgyn uwchlaw cyffelybiaethau, trwy gymeryd rhyw ansawdd o eiddo y gyffelybiaeth, a'i gymhwyso yn ddigyfrwng at y gwrthddrych a ddarlunir; ond nis gellir cael ansawdd i'w gymhwyso heb fod yno ryw gyffelybrwydd i ddechreu. Barddonol i'r graddau uchaf yw y dywediad fod y march

yn llyneu y ddaear, oblegid y mae cyffelybrwydd yn wreiddyn iddo ; ond annaturiol, ac am hyny anawenyddol, fyddai son am iddo llyneu y lleuad. Yn y pwnc hwn y mae William Wynne yn ddiffygiol. Y mae yn dangos mwy o egni, ond llai o rym, na Goronwy Owain ; mwy o drydanïaeth, ond llai o oleuni a gwres. Er anghraifft, pan y mae yn dywedyd fod yr haul yn hollti “ yn friwsion o'i fro asur,” yr ydym yn gorfod teimlo fod yma ryw ymdrech annaturiol. Gyda phob parch i Dewi Wyn, nis gallwn lai na meddwl ei fod yntau yn euog o'r bai hwn mewn ychydig fanau. Ond nid oes dim o hyn yn perthyn i Dafydd Ionawr. Ei berygl mwyaf ef oedd bod yn rhy farwaidd ; ac nis gellir gwadu ei fod felly weithiau mewn gwirionedd. Ar yr un pryd, os ydyw ambell waith yn rhy ddigynhwrf, ac os anfynych y mae yn dangos nerthoedd anarferol, dylem gofio mai nid marweidd-draw pob tawelweh, a bod cysondeb o feddyliau da yn myned mor bell, os nid ymbhellach, i brofi dyn mawr, ag ychydig o feddyliau mwy godidog.

Ond y mae genym un peth i'w enwi eto, sydd yn hanfodol i fardd uchel, sef *crebwyll*. Dyma gymhwysder nad oes ond ychydig o feirdd Cymru wedi ei gyrhaedd, ac nad oes ond ychydig o ddarllenwyr yn alluog i'w amgyffred. Er hyny, os nad ydym yn camsynied, y mae mwy o ymestyniad ato i'w weled er yn ddiweddar nag a fu ; a gobeithiwn nad yw hyn ond gwawr o gyfnod gwell. Nid llawer o hono oedd gan Dafydd Ionawr. Yr oedd yn medru rhoddi darluniadau trefnus o'r dygwyddiadau y sonir am danynt yn y Bibl, ac yn “ Ngholl Gwynfa,” ynghyd â sylwadau buddiol o'i eiddo ei hun ; ond nid gallu cryf oedd ganddo i greu. “ Crebwyll,” medd y “ Barddas,” “ a elwir felly am waith awen yn creu pethau a fydd iddynt hanfod a dygwydd, herwydd ansawdd anian a phwyll, cyd na bo iddynt hanfod o ddir a gorfod.” Hyny yw, y mae yn rhaid i'r crebwyll ddilyn anian ; oblegid nid yw yn perthyn i'r bardd, na neb arall, ffurfio deddfau newyddion na newid yr un o'r hen ddeddfau ; ond o fewn y terfynau hyn y mae ganddo ryw fath o allu i greu. Er nad yw yn medru creu deddfau, y mae yn creu bydoedd newyddion. Mewn ychydig feddyliau er dechreu amser y bu y gallu hwn yn nerthol weithio. Dyma ymherawdwyr y byd ; oblegid ymherawdwyr, medd Dr. Pughe, yw *rhai yn achosi o honynt eu hunain* ; ac y mae cymaint o bellder rhwng y beirdd cyffredin a'r dynion mawrion hyn, ag sydd rhwng y creaduriaid bychain anwel-edig sydd yn gwau trwy eu gilydd yn y dyferyn dwfr a'r morfil sydd

yn chwareu yn y cefnfor. Eu helyntion bychain eu hunain yn dragywydd sydd gan rai beirdd, neu rai a alwant eu hunain yn feirdd. Y mae yn rhaid iddynt hwy gael ymrithio i'r golwg yn mhob peth a ysgrifenant. Nid yw eu holl gyfansoddiadau ddim yn amgen na hwy eu hunain mewn gwahanol wisgoedd. Y gwaith uchaf y mae eraill yn amcanu ato yw moli eu cyd-ddynion, a chofnodi ffeithiau hanesyddol. Ni fynem ddywedyd dim yn ddiystyrllyd am unrhyw fynegiad diragrith o deimlad, nac unrhyw beth sydd yn ffaith, pa mor isel bynag y byddo. Rhodd werthfawr yw medr i ddarlunio, pe na b'ai yn cyrhaedd yn uwch na ni ein hunain a'r pethau sydd o'n hamgylch. Ond gellir meddu y ddawn hon yn helaeth heb un wreichionen o grebwyll. Y mae crebwyll yn esgyn uwchlaw pob teimladau personol, ac uwchlaw pob gwrthddrychau neillduol sydd mewn bod, i dir gwirionedd cyffredinol. Y mae yn myned trwy yr ymddangosiadau allanol yn eu gwahanol ddulliau i gymdeithasu âg enaid dynoliaeth. Y mae yn myned heibio i bethau prydfferth i edrych ar brydfferthwech ei hun yn ddigyfrwng a digymysg. Y mae yn codi dyn mor uchel nes y mae yn colli golwg ar bob gwahaniaeth dibwys, ac yn gweled y cwbl yn eu perthyras a'u gilydd fel un cyfanswm. Y mae llawer wedi sylwi fod rheswm yn amhersonol; ac y mae rhai wedi sylwi fod crebwyll yn amhersonol: ond nid ydym yn cofio fod neb wedi eu dwyn at eu gilydd i ddangos y tebygolrwydd sydd rhyngddynt yn yr ystyr yma. Y mae y naill fel y llall yn codi y meddwl uwchlaw gwrthddrychau y synnyrau. Y mae y naill fel y llall yn ei ddyrchafu uwchlaw pob syniadau a theimladau personol, i ymwneyd â deddfau cyffredinol. Ond gwaith y rheswm, yn benaf, yw cael allan y deddfau hyny; a gwaith y crebwyll yw eu cymhwyso i ffurfio bydoedd newyddion. I'r graddau y byddo y bardd yn deall ac yn teimlo y deddfau hyn, i'r graddau hyny y bydd ei greadigaeth yn drefnus. Nid pentwr o ddychymygion "afluniaidd a gwag" a foddona y crebwyll; ond bydoedd yn llawn o brydfferthwech a bywyd. Yr oedd tuedd farddonol y Groegiaid yn peri iddynt boblogi pob mynydd a choedwig, pob afon a llyn, pob dyffryn a dól, â rhyw fodau byw: ac yn ddiau y mae yn well genym baganiaeth y dyddiau hyny na'r athroniaeth atheistaidd sydd yn gwneyd yr holl greadigaeth yn esgyrnedd o ddeddfau. Nid ydym am dryblith heb ddeddfau, nac ychwaith am ddeddfau heb fywyd. A chofier fod pob peth byw yn gyfanwaith. Nid casgliad o wahanol ddarnau wedi eu rhoddi at eu gilydd yn gelfyddydol; ond un cyfanwaith perffaith.

Dichon iddo gynnyddu mewn maint ; ond y mae o'r dechreu yn meddu rhyw argraff o berffeithrwydd. Y mae llawer o'r un nodwedd yn perthyn i bob peth sydd yn tarddu o wir athrylith. Y mae pob cyfansoddiad athrylithgar, pa un bynag ai mawr ai bychan, yn un cyfanwaith ; y mae pob rhan yn wasanaethgar i'r cwbl, ac y mae delw yr oll ar bob rhan.

Dyma olwg frysiog ar y tir sydd gan fardd i ymgyrhaedd ato. Ac yn awr ni a derfynwn yr ysgrif hon gyd ag un sylw, a dim ond un. Pe b'ai y beirdd yn ystyried mawredd eu swydd, a'r cyfrifoldeb sydd yn perthyn iddi, hwy a arswydent rhag camddefnyddio eu talentau ; a byddai eu cais am gymhorth o'r uchelder wrth ddechreu pob gorchwyl yn rhywbeth mwy na defod

NODIADAU.

Y MAE yn angenrheidiol ychwanegu rhai nodiadau at yr ysgrif hon mewn ffordd o eglurhad.

1. Nid yw yr awdur yn ystyried ei hun yn fardd, nac yn ddarn o fardd, er ei fod wedi rhyfygu ysgrifenu ychydig ar farddoniaeth ; mwy nag y mae yn tybied ei hun yn ddyn mawr pan yn son am y gwahaniaeth rhwng gau a gwir fawredd. Ond gan y dysgwylid iddo sylwi ar yr argraffiad newydd o waith Dafydd Ionawr, nid oedd ganddo ond ymafflyd yn y gorchwyl, a cheisio ei gyflawni fel y gallai.

2. Dymunir i'r darllenydd gofio nad yw adolygwyr yn ysgrifenu yn eu henwau eu hunain, ond yn enw y cyhoeddiad, a chyda'r holl awdurdod sydd yn perthyn i'r cyhoeddiad ; ac mai nid yr un dôn sydd yn gweddu yn y ddau amgylchiad. Pwy oedd yn fwy awdurdodol na'r Professor Wilson yn *Blackwood's Magazine*, a phwy yn fwy hynaws mewn ymddyddanion personol ?

3. Nid yw yr awdur er hynny yn gwybod iddo erioed ddywedyd gair, yn olygyddol mwy nag yn bersonol, yn amharchus am rai anwybodus, os na fyddent yn euog o hunanoldeb annyoddefol. Ond y mae yn rhaid iddo addef nad oes ynddo lawer o hynawsedd tuagat y dosbarth cwaeyddol.

4. Er mor anheilwng y mae yn teimlo ei hun i ddywedyd gair wrth y beirdd, eto gan fod gorfod arno wneuthur hynny, anturiodd eu hanerch fel dynion, ac nid fel plant. Ond er nad oedd yn tybied fod yn angenrheidiol rhoddi anwes iddynt, ei amcan yn yr ysgrif hon, megis bob amser, oedd gwneuthur a allai tuag at ddysgu ei gwgenedl i barchu gwir athrylith, ac yn enwedig athrylith Gymreig.

5. Er pan gyhoeddwyd yr ysgrif hon, y mae Tennyson wedi codi ei hun i safle uwch o gryn lawer fel bardd : ac y mae lle i ofni mai prin y goddefir bellach i neb o feirdd Cymru gael eu rhoddi yn yr un rhestr ag ef. Ond ni fedrasom ddarbwyllio ein hunain i newid yr hyn a ysgrifenasid.

6. Yr achos fod yr awdur yn sylwi ar ddiffygion y Cymry yn fwy na diffygion cenedloedd eraill ydyw, am mai yn yr iaith Gymraeg yr oedd yn ysgrifenu.

MR. GLADSTONE.

Pe gofynid, Pwy yw y dyn y mae ei eiriau yn tynu mwyaf o sylw yn y dyddiau hyn, yr un sydd yn llenwi mwyaf o le yn ngolwg y wlad yn gyffredin, byddai yn rhaid ateb mai yr un hwnw yw Mr. Gladstone. Yr ydym hefyd yn tueddu i feddwl ei fod yn debyg o bara felly am hir amser, er nas gellir llefaru mor benderfynol ar hyn, gan fod cymeradwyaeth y lliaws mor gyfnewidiol. Yr ydym yn cofio amser pan oedd Arglwydd Brougham y dyn mwyaf poblogaidd yn y deyrnas, a phan oedd ffenestri tŷ y Duc Wellington yn cael eu dryllio gan y werinos. Wedi hyny daeth Wellington yn llawer mwy poblogaidd na neb o'i gydoeswyr, ac aeth Brougham am ryw amser o'r golwg. Yna daeth Palmerston yn boblogaidd, ar ol bod yn wrthddrych gwawd i'r prif newyddiaduron am lawer o flynyddoedd. Mae yn rhaid fod rhyw ragoriaeth yn perthyn iddynt oll, oblegid er fod teimlad y werin yn gyfnewidiol, y mae rhyw reddf ynddynt sydd yn eu harwain o'r diwedd i farnu yn lled gywir. Nid yn hir y byddant yn annioleghgar i'w cymwynaswyr: ac y mae hyn yn rhoddi lle i feddwl mai myned ar gynnydd mewn derbyniad a wna Mr. Gladstone. Braidd na thybiem fod y parch a deimlir iddo yn ddyfnach na'r hyn a roddid i Palmerston, er efallai nad yw mor gyffredinol. Yr oedd gan Palmerston ddawn anarferol i gadw pawb yn foddolawn; a thra yr oedd y wlad yn dymuno gorphwys am ychydig amser, nid oedd neb yn fwy addas nag ef i fod yn Brif-weinidog. Ond yn awr, pan y mae yn ymysgwyd o'i chwsg, y mae llygaid pawb yn troi ar unwaith at Gladstone dan ddylanwad rhyw deimlad dwfn mai efe yw dyn yr oes.

Wrth ddywedyd hyn nid ydym yn tybied nad Iarll Russell a ddylai fod ar hyn o bryd yn llywydd y weinyddiaeth. Y mae efe yn fwy profedig fel diwygiwr ac fel arweinydd; ac nid ydym yn anobeithio na ddaw yntau yn boblogaidd. Y mae wedi dyoddef llawer o gam, a hyny yn ddystaw; ond y mae Rhagluniaeth fel yn rhoddi cyffe iddo ddangos pa beth ydyw. Er hyny cydnabyddir yn gyffredin fod

cynorthwy Mr. Gladstone yn annhebgorol, pe na byddai ond yn unig oherwydd ei allu araethyddol. Yn yr ystyr yma nid oes neb i'w gystadlu ag ef yn Nhy y Cyffredin ond Disraeli a John Bright. Y mae rhyw fath o allu gan Disraeli; ond nid llawer o ddylanwad sydd ganddo, oblegid nid oes neb yn credu ei fod o ddifrif. Hyd yn nod fel areithiwr y mae Mr. Gladstone yn rhagori arno, ac heblaw hyny y mae ef yn argyhoeddi pawb ei fod yn dyweyd yr hyn y mae yn ei gredu. Y mae ystyr a meddwl i'r dywediad hwnw o'i eiddo, y dylai gwladwriaeth feddu cydwybod; ac y mae efe yn gweithredu yn ol y dywediad. Mewn difrifoldeb y mae efe a Mr. Bright yn gyffelyb i'w gilydd; a dylem fod yn ddiolchgar wrth feddwl fod genym ddau mor alluog yn pleidio rhyddid. Y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt yw yr hyn sydd yn tarddu o'r gwahaniaeth yn yr addysg a gawsant, ac nis gwyddom am well anghraifft i ddangos y gwerth sydd mewn addysg glasurol. Y mae Mr. Bright yn gystal siaradwr â neb yn y senedd o ran dawn naturiol, ac yn meddu meddwl mor gryf a'r un o honynt, ac eto o ddiffyg addysg wedi rhoddi achos teg i ddyweyd ar lawer adeg ei fod yn gyfyng ei syniadau. Y mae yn siarad efallai yn fwy grymus am ei fod yn gyfyng: tra o'r ochr arall y mae Mr. Gladstone yn ymddangos i lawer yn fwy gwasgarog am fod ei syniadau yn eangach, ond ar yr un pryd yn fwy boddhaol i'r rhai sydd yn alluog i'w ganlyn.

Ganwyd William Ewart Gladstone yn Liverpool, yn y flwyddyn 1809. Derbyniodd ei addysg yn Eton, ac wedi hyny yn Christ Church, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd yr anrhydedd o *double first class* yn 1831. Dewiswyd ef yn aelod dros Newark yn 1832, a chafodd swydd yn y Trysorlys gan Syr Robert Peel yn 1834. Yr oedd efe yn un o'r rhai hyny a arosasant yn ffyddlaw'n gyda Syr Robert Peel i bleidio rhydd-fasnach; ac y mae er yr amser hwnw yn myned o hyd yn fwy rhyddfrydig. Gwnaeth ef a'r diweddar Richard Cobden les amhraethol i'r deyrnas hon trwy y cytundeb masnachol â Ffrainc, yr hwn a ddygwyd oddiamgylch er gwaethaf y *Times*. Gwnaeth hefyd lawer o wasanaeth i achos rhyddid yn Itali trwy ei ysgrifeniadau yn gystal â'i areithiau. Yr oedd wedi ei ddewis yn un o gynnrychiolwyr Prifysgol Rhydychain yn y flwyddyn 1847; ac yr oedd y nifer mwyaf o'r rhai oedd wedi cyrhaedd unrhyw fath o anrhydedd yn y brifysgol yn ei bleidio hyd y diwedd. Ond trwy fod yr holl aelodau yn mhob rhan o'r wlad yn meddu hawl i bleidleisio, gwrthodwyd ef yn yr etholiad diweddaf. Yr hyn sydd fwyaf rhyfedd yn yr amgylchiad hwn ydyw fod

cynnifer o'i blaid yn Rhydychain, a bod y mwyafrif drosto cyn lleied mewn gwlad fasnachol fel swydd Lancaster. Pa fodd bynag, y mae yr effaith yn sier o fod yn ddaionus, gan y bydd yn naturiol iddo deimlo ei hun o hyn allan yn fwy rhydd, tra yn myned ar gynnydd mewn rhyddfrydedd.

Rai wythnosau yn ol ymddangosodd erthygl yn y "*Saturday Review*" yn ceisio profi nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng Gladstone a Disraeli, gan fod y ddau wedi newid eu hegwyddorion, y naill wedi troi oddiwrth y Ceidwadwyr at y Rhyddfrydwyr, a'r llall oddiwrth y Rhyddfrydwyr at y Ceidwadwyr. Dylid bod yn ochelgar wrth farnu dybenion dynion, yn enwedig mewn achosion gwladwriaethol, lle nad yw egwyddor yn dyfod i weithrediad mor uniongyrchol ag mewn crefydd. Byddai yn ormod dyweyd nas gall un droi yn gydwybodol hyd yn nod oddiwrth y Rhyddfrydwyr at y Ceidwadwyr. Bu Iarll Derby unwaith yn Ddiwygiwr, ac yr ydym yn cofio ei glywed yn ar-eithio yn Nhy y Cyffredin fel aelod o weinyddiaeth Iarll Grey. Ond wedi cydweithredu i ddiwygio y Senedd yn 1832, meddyliodd yn raddol fod y Diwygwyr yn myned yn rhy bell gyda rhyw fesurau oedd yn effeithio ar yr Eglwys Sefydledig, a'r diwedd fu iddo ddyfod yn benaeth y Ceidwadwyr; ac eto nid ydym yn gwybod fod neb wedi ammheu ei ddybenion yn y cwbl. Os eir i ddechreu ammheu dybenion, bydd yn anhawdd penderfynu pa le i aros, oblegid nid oes neb o'r rhai blaenaf yn y wladwriaeth nad ydynt wedi cyfnewid, oddieithr John Bright ac Arglwydd Russell. Yr unig amgylchiad sydd yn rhoddi lle i ammheuaeth ydyw, pan fyddo un yn newid heb allu dangos un achos o hyny ond ei fantais ei hunan. Nid oes neb eto wedi medru rhoddi cyfrif am y cyfnewidiad yn Disraeli, ond yn unig fod lle manteisiol gyda'r Ceidwadwyr i unrhyw ddyn o ddawn pan giliodd Syr Robert Peel oddiwrthynt. Yr un modd am Mr. Lowe, yr hwn oedd yn pleidio diwygiad pan yn perthyn i weinyddiaeth Arglwydd Palmerston, ond a drôdd wedi hyny i'w wrthwynebu â'i holl egni. Er hyny gwaith isel fyddai priodoli gan ddybenion hyd yn nod i Disraeli a Robert Lowe. Dichon fod ganddynt ameanion cywir, er nad ydynt yn hysbys i neb ond iddynt hwy eu hunain. Ond am y cyfryw ddynion â Syr Robert Peel a Mr. Gladstone, yr oedd yn amlwg i bawb nad oeddynt yn cyfnewid heb achos digonol; ac yr oedd mor amlwg â hyny eu bod yn aberthu llawer wrth adael y blaid gyda'r hon yr oeddynt wedi arfer cydweithredu. Nid eu bai hwy oedd iddynt gael eu dwyn i fynu yn wrth-

ddiwygwyr; ond rhinwedd mawr ynddynt oedd cymeryd eu hargyhoeddi. Ac erbyn hyn y mae amser wedi dangos fod y dewisiad a wnaethant yn un doeth a da, tra y mae pob blwyddyn yn rhoddi prawf ychwanegol fod Disraeli wedi troi i wrthwynebu yr hyn yr oedd lles y wlad yn galw am dano, ac o ganlyniad nas gellir cyfiawnhau ei ddybenion heb daflu anfri ar ei ddealldwriaeth. Ar yr un pryd y mae gwahaniaeth bychan mewn un ystyr rhwng Peel a Gladstone, trwy fod y naill wedi aros yn Ddiwygiwr hannerog, er ei fod yn rhyddfasnachwr, tra y mae y llall wedi dyfod nid yn unig yn rhyddfasnachwr, ond yn ddiwygiwr trwyadl. Er hynyn mewn cydwybodolrwydd nis gellir ammheu nad ydynt yn gyffelyb i'w gilydd; ac nid mewn yehydig amgylchiadau y mae hyn yn dyfod i'r golwg, ond y mae yn un elfen bwysig yn eu holl fesurau ac yn eu holl areithiau.

Yn mysg holl seneddwyr y dyddiau hyn nid oes neb yn dwyn mwy o gydwybod i'w hareithiau na Gladstone a Bright. Nid siarad am gydwybod y byddant, fel y byddai Arglwydd Eldon, ond yn ei dwyn i weithrediad. Y mae hyn yn myned yn mhell i esbonio effeithiolrwydd eu hareithiau; ac nid ydym heb feddwl fod yma addysg i bregethwyr Cymru. Pan y mae llawer o'n pregethwyr yn ymddangos fel pe na byddai ganddynt ddyben uwch na dangos eu gwybodaeth, neu ddifyru y gynnulleidfa, y mae ein prif seneddwyr yn arcithio bob tro fel dynion yn penderfynu y mynant gyrrhaedd cydwybodau eu gwrandawyr. Yr hyn sydd yn gwanhau dylanwad Mr. Bright yw, fod ei gydwybodolrwydd yn rhy naill ochrog, yr hyn sydd yn ei anghymhlwyso i weled dim ond beiau yn holl weithrediadau Prydain, a'i fod hefyd yn rhoddi rhy yehydig o le yn ei ystyriaeth i'r egwyddorion anweledig sydd yn gryfach na phob gallu anianyddol. Y mae Mr. Gladstone yn fwy gwladgarol ei deimlad, tra y mae hefyd yn dwyn egwyddorion o natur uwch ac eangach i gysylltiad â phob achos gwladwriaethol.

Y mae Mr. Hunt yn un o'i erthyglau i'r "*Pall Mall Gazette*" yn sylwi fod Peel a Gladstone wedi codi materion arianol i dir uwch na neb a fu o'u blaen, ac y gellid tybied eu bod yn edrych ar gyllid y deyrnas fel pwnc o grefydd. Y mae hyn yn wir am Mr. Gladstone mewn modd arbenig; ac efallai mai yr hynodrwydd penaf sydd yn perthyn iddo yw ei duedd i gymeryd golwg ar bob achos o safle crefydd a moesoldeb. Wrth osod trethi, neu wrth eu gostwng, y mae yn edrych ar yr effaith a gaiff y weithred ar feddyliau y bobl, yn gystal ag ar eu hamgylchiadau. Y mae ei areithiau ar y pynciau sychion hyn wedi

cu trwytho mewn teimlad moesol i'r fath raddau fel y maent yn dwyn ar gof i ni bregethiau Chrysostom, neu rai o ysgrifeniadau godidocaf Jeremy Taylor. Os gelwir arno i areithio ryw amser ar y gelfyddyd o wneyd llestri pridd, y mae yn sier o dderchafu ei destyn, a'i addurno â'r lliwiau mwyaf ysblenydd, trwy ei ddangos yn ei berthynas ag egwyddorion moesol. Dan effeithiau ei areithyddiaeth y mae yr hyn oedd yn ymddangos yn lled ddistadl yn myned yn un o'r pynciau mwyaf pwysig y gellir meddwl am dano. Y mae yn peri i'r cwmwl bychan ymeangu, a dyfrhau y ddaear; a thrwy ddwyn ystyriaethau moesol i lewyrchu arno, y mae yn taenu prydfferthwch yr enfys dros holl wlad y llestri pridd. Yn ei araeth drachefn wrth ddwyn i mewn fesur y diwygiad seneddol yn ddiweddar y mae yn galw sylw at y gwerth sydd yn yr hawl i bleidleisio yn newisiad seneddwyr fel y mae yn effeithio ar feddwl y dyn ei hun, yr un modd ag y mae rhyddid yn werthfawr ynddo ei hun yn annibynol ar ei ganlyniadau. Dyma wreiddyn yr holl ddadl mewn ychydig eniau. Y mae Lowe a Disraeli yn foddolawn i bob lles gael ei wneuthur i'r bobl hyd y gellir, ond dim gan y bobl rhag ofn y canlyniadau. Nid ydynt yn ystyried mai trwy arfer gweithredu yn rhydd y daw y bobl yn well, ac mai dyma y ffordd sydd yn arwain o'r diwedd hyd yn nod i'r canlyniadau goreu. Y mae rhyddid yn werth ymdrechu o'i blaid pe gorfyddai i ni ganiatáu fod y bobl yn fwy cysurus eu hamgylchiadau mewn cyflwr o gaethiwed, a bod y gwledydd lle y maent felly yn fwy llwyddiannus. Ond er fod peryglon a thrafferthion yn cydfyned â rhyddid, megis â phob peth gwerthfawr yn y fuchedd hon, eto y gwirionedd ydyw, mai yr hyn sydd yn dda ynddo ei hun sydd ar y cyfan yn ddaioni mwyaf i'r holl wladwriaeth.

Ond nid oes neb yn deilwng o le uchel mewn gwlad nac eglwys os na fydd yn alluog i dewi, heblaw bod yn alluog i siarad: ac y mae yn dda genym weled nad yw Mr. Gladstone yn ddiffygiol wrth ei farn yn ol y rheol hon. Yn yr etholiad diweddar ei achos ef yn ei berthynas a Rhydychain oedd yn tynu mwyaf o sylw. Yr oedd yn peri ymranïad dros amser rhwng y cyfeillion agosaf. Yr oedd Dr. Pusey a'r "*Guardian*" yn ei bleidio, er fod mwyafrif yr Uchel-eglwyswyr yn ei erbyn. Yr oedd Dr. Miller, drachefn, un o'r dynion goreu oedd yn perthyn i'r blaid efengylaidd yn rhoddi ei ddylanwad drosto, tra yr oedd y "*Record*," fel y galleid dysgwyl, yn ei wrthwynebu. Yn nghanol yr helynt, tra yr oedd yr holl wlad yn siarad ac yn ysgrifenu, naill ai o'i blaid neu yn

ei erbyn, aeth i lawr i Gaerlleon i gynnorthwyo ei fab. Ac wrth fyned heibio nis gallwn ymattal heb gydnabod mai dyma un o'r gweithred-oedd a barodd i ni ei hoffi yn gymaint â dim. Yn lle dywedyd, "Y mae yn rhaid i mi gofio mai myfi yw Mr. Gladstone, mai myfi yw un o'r dynion mwyaf yn y wladwriaeth, ac mai arnaf fi y mae llygaid pawb yn craffu," taflodd ei hun ar unwaith fel dyn cyffredin i ganol y cynhwrf yn Nghaerlleon, ac areithiodd o blaid ei fab fel pe na buasai y gwahaniaeth lleiaf rhyngddo ef a'r rhai oedd o'i amgylch. Ond yr hyn oedd yn fwyaf rhyfedd oedd ei ddystawrwydd perffaith mewn perthynas iddo ef ei hun. Pan ddeallwyd ei fod wedi myned i Gaerlleon i areithio, yr oedd pawb yn dysgwyl iddo ddyfod allan mewn ffordd o hunan-am-ddiffyniad. Er na chaniateir i'r un ymgeisydd fyned i Rydychain na Chaergrawnt, i ofyn pleidleisiau, nac i ddadleu ei achos hun; ac er fod ysbryd y rheol yn cyrhaedd efallai i Gaerlleon; buasai yn hawdd iddo draethu, heb droseddu y rheol, ar y prif faterion oedd mewn dadl rhyngddo ef a'i wrthwynebwyr. Ond cadwodd yn mhell oddiwrthynt, ac ymddangosai fel pe buasai wedi anghofio Rhydychain mor llwyr ag yr oedd wedi anghofio ei fawredd ei hun. Yn gyffelyb yr ymddygodd yn ddiweddar yn y lle newydd y galwyd arno i'w lenwi mewn canlyniad i farwolaeth Arglwydd Palmerston. Cyn i'r amser ddyfod, yr oedd llawer o brophwydo yn nghylch ei lwyddiant neu ei aflwyddiant fel Blaenor Tŷ y Cyffredin: ond siomwyd pob ochr yn y dull dystaw yr aeth i'w swydd. Aeth yr awenau i'w law rywfodd yn ddiarwybod. Heb un arddangosiad o awdurdod, gwnaeth i bawb deimlo fod ganddo awdurdod. Cymerodd ei le yn dawel fel un wedi ei eni i'r swydd; a dygodd bawb i fod yn ufudd iddo heb un ymdrech.

Y mae Mr. Gladstone wedi cyhoeddi amryw lyfrau; ac er nad ydym yn tybied fod lle mor uchel yn perthyn iddo fel awdur ag fel areithiwr, y mae pob peth a ysgrifennodd wedi tynu sylw, ac nid yn anhaeddiannol. Cyhoeddodd lyfr yn y flwyddyn 1838 dan yr enw, "*The State in its relations with the Church.*" Y mae y duedd foesol y soniasom am dani i'w gweled yn y gwaith hwn. Un gwirionedd sydd ganddo fel sylfaen i'w ymresymiad yw cyfrifoldeb y wladwriaeth i Dduw; ac yn nglyn â hyn y mae yn arfer rhai ymadroddion oedd yn swnio i lawer yn ddi-eithr yn y dyddiau hyny, megis "Cydwbybod y Wladwriaeth." Bu y rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau a ystyrir yn rhyddfrydig am hir amser yn ceisio taflu dirmyg ar y dywediad. Gofynid yn fynych mewn gwawd, Pa le yr oedd y gydwbybod hon? A pha fodd y gallai fod cydwbybod

mewn gwladwriaeth fel y cyfryw? Yr achos o nyn oedd fod yr ysgrifenydd mwyaf poblogaidd yn Lloegr nid yn unig wedi colli yr hyn oedd yn fywyd ac yn enaid i'r hen Buritaniaid, ond eu bod yn mhell ar ol mewn cymhariaeth i'r Paganiaid. I'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid yr oedd rhywbeth cysegredig yn y drychfeddwl o wladwriaeth. Ond yn awr ni edrychir ar y wladwriaeth ond fel rhyw gymdeithas gyffredin, megis cymdeithas adeiladu, neu gwmpeini i wneyd ffordd haiarn. Hyd yn nod pe na fyddai genym ond golwg isel o'r fath yma, y mae sail i'r dywediad am gydwybod y wladwriaeth. Mae yn wir fod dynion pan yn gweithredu mewn fiurf gymdeithasol yn rhy dueddol i adael cydwybod allan o ystyriaeth: ond os nad oes ganddynt gydwybod fel cymdeithas, nid yw hyny yn brawf na ddylai fod. Mwy o lawer y dylai cydwybod gael lle mewn gwladwriaeth, yr hon sydd o natur anghydmorol uwch. Y mae yn gymaint uwch ag yw corff byw yn uwch na chasgliad o goed neu geryg yn cael eu cadw wrth eu gilydd gan rywau allanol. O ran ei tharddiad y mae mor ddwyfol ag unrhyw eglwys Gristionogol, ac y mae yn rhaid i ni gredu fod cyfrifoldeb cyfatebol yn perthyn iddi. Yr ydym gan hyny mor bell oddiwrth dybied mai ynfydrwydd yw y dywediad am gydwybod y wladwriaeth, fel yr ydym yn teimlo yn lled sier mai yn y gwirionedd hwn y mae i ni chwilio am esboniad ar y berthynas rhwng y wladwriaeth a'r eglwys. Nid ydym yn dyweyd nad yw Mr. Gladstone yn tynu camgasgliadau oddiwrth y gwirionedd. Y mae efe oddiwrtho yn ceisio profi yr anghenrheidrwydd am undeb yr eglwys a'r wladwriaeth, tra y mae yn ymddangos i ni fod iawn ystyriaeth, o'r gwirionedd hwn yn arwain i ddadgysylltiad. Dylid edrych ar y wladwriaeth yn ei pherthynas â'r mater hwn fel un person. Y mae yn ddyledswydd arni ymddwyn yn gydwybodol fel gwladwriaeth: ond megis na ddylai person unigol ormesu ar gydwybod ei gymydog wrth geisio ufuddhau i'w gydwybod ei hun, felly nid yw cydwybod y wladwriaeth yn rheswm dros ormesu mewn un modd, nac mewn un gradd, ar gydwybodau y deiliaid.

Nis gwyddom i ba raddau y mae Mr. Gladstone yn ddyledus am ei syniadau gwladwriaethol i'r hen awdwyr paganaidd; ond y mae yn amlwg ei fod yn dra chyfarwydd â'r rhai goreu o honynt yn enwedig Homer. Rhyfedd yr effaith y mae yr hen fardd hwnw wedi ei gael ar y meddyliau mwyaf coethedig trwy yr oesoedd. Yn y wlad hon y mae wedi myned yn fwy poblogaidd nag erioed yn y blynyddoedd diweddar; ac nid oes ammheuaeth na fu Mr. Gladstone yn offerynol

i ddwyn hyny oddiamgylch. Yn y flwyddyn 1858 cyhoeddodd ei "*Homeric Studies.*" Ymddangosodd cyfieithiad ganddo o'r llyfr cyntaf o'r "*Iliad*" mewn cyfrol o'i waith ef ac Arglwydd Lyttelton, yn cynnwys cyfieithiadau i ac o wahanol icithoedd: a chrybwyllir yn y newyddiaduron ei fod yn awr yn nghanol ei orchwyllion craill, yn paratoi cyfieithiad cyflawn o'r holl "*Iliad.*" Y mae yn dda iddo mai nid i'r iaith Gymraeg y mae yn bwriadu ei gyfieithu: oblegid yn lle gadael iddo gymeryd ei amser i orphen y gwaith fel y byddo amgylchiadau yn caniatáu, yr hyn a wna y Saeson yn rhwydd, buasai y Cymry fel plant anwesog, yn ystrancio, ac yn nadu, ac yn ymdreiglo ar y ddaear, am na chawsent y tegan i'w dwylaw yn ddiattreg. Ond hyd yn nod pe buasai y Saeson mor fyr eu hamynedd â'r Cymry, diammheu mai cymeryd ei amser a wnaethai Mr. Gladstone; a diau y bydd y gwaith pan ddel allan yn deilwng o awdur yr "*Homeric Studies.*" Hwyrach ei fod ef yn llai celfydd nag Arglwydd Lyttelton yn y gwaith o gyfieithu o'r Saesneg i'r Groeg, gan nas gall neb fod yn ysgolhaig perffaith yn yr icithoedd clasurol heb roddi ei holl amser at hyny; ond i gyfieithu o'r Groeg i'r Saesneg nid oes anghen am fwy o gymhwysderau nag a feddir gan Mr. Gladstone.

Un o'r pethau diweddaf a gyhoeddodd oedd yr araeth a draddodwyd ganddo fel *Lord Rector* i'r Brifysgol yn Edinburg. Y cwbl a ddysgwyliid oedd cynghorion buddiol mewn iaith hyawdl i ddysgu yr efrydwyr pa fodd i fod yn fechgyn da, ac yn ysgolheigion gwych. Yn lle hyny defnyddiodd y cyfle i'w hanrhegu â thraethawd gorchestol ar le a gwaith y Groegiaid yn eu cysylltiad â gwareiddiad ac â chrefydd. Difyr oedd gweled profedigaeth a phenbleth y newyddiaduron uwelben y traethawd hwn, pan oedd yn rhaid iddynt ddyweyd rhywbeth heb wybod pa beth. Ymddangosodd erthygl yn y *Times* gyda golwg arno, yr hon nid oedd yn ateb un dyben canfyddadwy heblaw profi anwybodaeth yr ysgrifenydd. Yr oedd mor gywilyddus o ddrwg fel yr aethant i chwilio am ryw un mwy galluog i ysgrifenu ail erthygl ar yr un mater. Amcan y traethawd yw dangos fod dyben uchel gan Ragluniaeth ddwyfol wrth godi y Groegiaid i'r safle yr oeddynt ynddo, a bod eu llenyddiaeth wedi ateb y dyben hwnw trwy ddwyn i'r golwg y drychfeddwl o brydferthwech dynol; fod yn anghenrheidiol i'r dwyfol a'r dynol gael eu cadw ar wahan am lawer o oesoedd, rhag darostwng y naill wrth geisio dyrchafu y llall; fod cadwedigaeth y dwyfol wedi ei ymddiried i genedl Israel, y rhai y gwaherddid iddynt wneuthur llun

dim, fel na chymysgid y dwyfol â'r dynol ; fod yn anghenrheidiol hefyd i'r dynol gael ei gadw a'i arddangos, ac i hyn gael ei ymddiried i'r Groegiaid : ac o'r diwedd fod y ddau, sef y dwyfol a'r dynol, wedi eu huno yn y dyn Crist Iesu, ac yn nghrefydd y Testament Newydd. Pa beth bynag a feddylir am y golygiad hwn, y mae yn rhaid addef fod yma eangder a gwreiddiolder. Yr wrthddadl gryfaf sydd genym ydyw yn erbyn y dull yn fwy na'r sylwedd, am nad yw y gwahaniaeth wedi ei osod allan yn ddigon eglur rhwng y naturiol a'r goruwchnaturiol. Braidd na ellid tybied weithiau fod Mr. Gladstone yn ystyried rhai o'r Groegiaid yn ysbrydoledig yr un modd ag ysgrifenwyr yr Hen Destament. Gwyddom mai nid hyn yw ei feddwl ; ond nid yw wedi bod yn ddigon gofalus i wneyd ei feddwl yn eglur. Nis gellir ammheu na ddarfu i'r Arglwydd yn ei Ragluniaeth godi y Groegiaid i wneyd gwaith mawr fel rhagbarotoad i ddyfodiad Cristionogaeth ; fel y doniodd y gweithwyr oedd yn adeiladu y tabernacl, er mai i Moses y rhoddasid y portread mewn modd goruwchnaturiol. Yn yr ystyr yma yr ydym yn barod i fyned yn mhellach na Mr. Gladstone, ac i gymhwyso yr ymresymiad, nid yn unig at y beirdd, ond at y philosophyddion, ac hyd yn nod at iaith y Groegiaid. Nid peth bychan oedd paratoi iaith i drosglwyddo syniadau y Testament Newydd : ac er mai iaith y Groegiaid oedd yr iaith berffeithiaf yn yr holl fyd, yr oedd wedi hyny yn analluog i gynnwys gwirioneddau y grefydd Gristionogol heb roddi meddwl newydd i lawer o hen eiriau.

Y mae yn gysur gweled dynion mewn swyddau uchel yn ymhyfrydu mewn ymchwiliadau o'r fath yma ; yr hyn ni cheir anghreiffiau o hono mor fynych mewn un wlad ag yn Mhrydain. Peth cyffredin yn y wlad hon yw fod ein prif seneddwyr yn gyfarwydd yn ngweithiau yr hen awduron clasurol, er nad oes llawer o honynt wedi rhoddi prawf o hyny trwy y wasg heblaw Syr George Cornwall Lewis, a Iarll Derby, a Mr. Gladstone. Y mae undeb gweithgarwech ac ysgolheigddod yn fanteisiol iddynt yn mhob ystyr, trwy fod eu bywyd ymarferol yn eu cadw rhag erwydro i ddilyn rhyw dybiau disail fel efrydwyr, tra y mae eu hefyrdiaethau yn rhoddi eangder i'w golygiadau fel seneddwyr. Ond yn ychwanegol at y cwbl, y mae yn amlwg fod Mr. Gladstone yn cael ei lywodraethu gan ryw egwyddorion uwch na dim a ddysgodd yn holl ysgrifeniadau y Groegiaid ; ac efallai mai yr hyn sydd yn creu mwyaf o barch iddo yn nheimlad y bobl yn gyffredin yw dylanwad ei gymeriad moesol.

YR HEN BRIFYSGOLION, A'R BRIFYSGOL I GYMRU.*

Yn mysg yr ymdrechion a wneir mewn llawer ffordd i ddyrchafu cenedl y Cymry, mae yn amlwg na ddylem fod yn ddisylw o'r cais sydd yn awr ger bron y wlad i sefydlu Prifysgol Gymreig. Yr ydym gan hyny yn bwriadu traethu ein meddyliau ar y pwnc hwn. Ond y mae yn ymddangos yn anghenrheidiol i ni daflu golwg yn gyntaf ar y manteision neu yr anfanteision sydd yn nglŷn â'r hen Brifysgolion, gan y bydd hyny yn ein cynnorthwyo i weled a oes achos am Brifysgol newydd, a pha fath Brifysgol a fyddai yn ddymunol.

Gofynir weithiau, Pa rai yw y Prifysgolion goreu? Nid ydym yn meddwl ateb y gofyniad hwn, oblegid nis gellir rhoddi ateb iddo yn benderfynol heb wneuthur cam â'r gwirionedd. Y mae rhyw ragoriaethau a diffygion yn perthyn iddynt oll, a'r un rhai yn rhagori mewn un peth, ond yn ddiffygiol mewn peth arall. Y mae llawer yn ymddibynu ar yr hyn y bwriedir ei ddysgu, gan fod y naill yn rhagori mewn athroniaeth, y llall mewn addysg glasurol, ac un arall drachefn mewn rhifyddiaeth. Yr ydym yn gwybod y bydd rhai o'n darllenwyr yn synu atom, gan eu bod yn cymeryd yn ganiataol fod ysgolion yr Almaen yn tra rhagori yn mhob ystyr. Y mae hyn yn gamsyniad dirfawr, ac nis gallasai neb syrthio iddo ond rhai hawdd iawn eu hudo. Rhag i ni fod yn euog o gamddesgrifiad cyffelyb yr ochr arall, dylem ddywedyd nad ydym yn diystyru ysgolheigion yr Almaen, nac am roddi ar ddeall nad oes rhyw fantais i'w chael trwy ddarllen eu hysgrifeniadau. Pa beth bynag oeddynt yn anser Porson, nis gellir cymhwyso atynt yn awr y geiriau hyny o'i eiddo of:—

“The Germans in Greece
Are sadly to seek,
Not five in five score,
But ninety-five more;

* O'r “TRAETHODYDD,” am 1865.

All except Herman,
And Herman is a German.*

Er fe allai fod y dywediad hwn yn ddigon priodol yn ei ddyddiau ef, nid ydyw felly mwyach. Y maent wedi bod yn fwy llafurus na neb mewn rhai eanghenau o ddysgeidiaeth, yn enwedig mewn cyfansoddi grammadegau a geirlyfrau, yn Lladin, Groeg, a Hebraeg. Mewn duwinyddiaeth hefyd, os bydd gan ddyn ieuane synwyr i wrthod y drwg a dewis y da, gall dderbyn lles wrth ddarllen eu hysgrifeniadau, gan y bydd felly yn cael edrych ar yr un gwirionedd o wahanol gyfeiriad. Ond pan glywir rhai yn dywedyd eu bod fel ysgolheigion a duwinyddion yn rhagori yn mhob ystyr ar ysgrifenyddwyr y wlad hon, y mae hynny yn arwydd sier o anwybodaeth neu human, ac fe allai bob un o'r ddau. Twyll i gyd yw haerriad o'r fath yma, ac y mae yn bryd ei ddynoethi.

Gwyddom yn dda mai yr ateb fydd, ein bod ninnau yn llefaru mewn anwybodaeth; ac nid ydym yn myned i ddadleu i'r gwrthwyneb. Yn lle hynny, deawn a phroffion ymlaen, a gadawn i'r darllenydd farnu drosto ei hun. O'r holl ddysgedigion a gynyrechodd yr Almaen hyd heddyw, enwer un sydd yn haeddu ei gymharu â Bentley. Yn ngwaith pwy o honynt y ceir y fath grynodeb o hufen dysgeidiaeth ag yn ei feirniadaeth ef ar lythyrau Phalaris? A dyma un gwahaniaeth rhwng yr Almaenwyr a'r Saeson: y mae yr Almaenwyr yn ddigon llafurus i gasglu llawer o ddysgeidiaeth; ond ni fedrant *hufenu* eu dysgeidiaeth. Y maent yn casglu defnyddiau o bob parth o'r byd; ond ni feddant y gallu i roddi yr hyn sydd yn anghenrheidiol at ei gilydd i wneyd un dodrefnyn, a gadael y gweddill o'r neilldu. Yn Bentley nid y defnyddiau a welir, ond adeiladaeth. Os dywedir nad yw Bentley ond un, ni a enwn eraill, megys Porson ac Elmsley. Gwnaeth Porson ddarganfyddiadau lliosog mewn eysylltiad â beirdd a barddoniaeth y Groegiaid, y rhai sydd wedi ennill cymeradwyaeth y byd dysgedig yn gyffredinol. Ac am Elmsley, dygwyddodd i ni ddarllen yn ddiweddar adolygiad Germanaidd, yn yr hwn yr oedd yr adolygydd yn canmawl un o'i gyd-wladwyr fel ysgolhaig rhagorol; ac fel y ganmoliaeth uchaf a allai roddi iddo, dywedai fod ganddo graffider Elmsleyaidd. Ac i ddyfod i lawr at yr amser presennol, pa le ar y Cyfandir y ceir ysgolheigion

* Er mwyn yr anghyfarwydd, fe allai y dyld egluro mai aralleiriad digrifol o'r Groeg yw y llinellau hyn o eiddo Porson, ac mai ystyr y llinell olaf ydyw, nad oedd Herman ond ysgolhaig Germanaidd, er mai efe oedd y goreu. Os oedd pump a phymtheg a phedwar ugain allan o bob cant yn amysgedig, pa fodd y gallasai Herman fod yn cithriad? Yr ateb ydyw, nad oedd Herman ond ysgolhaig Germanaidd.

mor drwyddl â'r diweddar Syr George Cornwall Lewis, neu Iarll Derby, neu y ddau gydfrawd yn nghyfraith, Mr. Gladstone ac Arglwydd Lyttelton; heb son am y rhai sydd wrth eu swyddau yn athrawon mewn gwahanol barthau o'r deyrnas?

Un ran bwysig o ddysgeidiaeth yw hanesiaeth yr hen oesoedd; ac fe allai mai dyma y rhan benaf, os gwahaniaethir rhwng ysgolheigddod fel gwybodaeth o ieithoedd, a dysgeidiaeth fel gwybodaeth o gynnwys y llyfrau a ysgrifenyddyd yn yr ieithoedd hyny. Ac ar y tir hwn eto nid oes achos i ni ofni y gystadleuaeth. Yn hanes Rhufain, yn enwedig y canrifoedd cyntaf o'r hanes, y mae yn rhaid i ni addef fod yr Almaenwyr wedi rhagori. Er fod rhai o olygiadau Niebuhr wedi eu gwrthbrofi gan Syr George Cornwall Lewis, eto y mae yn sier fod ei ddarganfyddiadau ef wedi creu cyfnod newydd yn hanesyddiaeth Rhufain. Taffwyd goleuni yn ddiweddar hefyd ar rai materion yn yr un hanes gan Mommsen. O'r Almaen drachefn y cafwyd yr ymchwiliadau manylaf i gyfreithiau Rhufain. Ond os chwiliwn am y llyfrau goreu ar hanes Rhufain dan deyrnasiad yr Ymherawdwr, y mae yn rhaid i ni droi at Gibbon a Merivale. Mewn perthynas i amseryddiaeth Groeg a Rhufain, yr awdurdod uchaf yw Fynes Clinton o Rydychen. Gyda golwg ar hanes Groeg, nid oes un dyn cymhwys i farnu ar y Cyfandir a feddylia am wadu mai yr awdwyr goreu tu hwnt i bob cymhariaeth yw Dr. Thirlwall a Mr. Grote. Mewn hanesyddiaeth eglwysig, gyda phob parch i Neander, prin y gellir cystadlu ei waith ef â Milman's *Latin Christianity*. Ac am hanes yr Athrawiaethau, ni a roddwn dystiolaeth un sydd yn alluog i farnu, a'r hwn sydd ar yr un pryd yn hollol amhleidgar. Yn y rhagymadrodd i waith Dr. Shedd o America, ar Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol, yr hwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Clark, dywedir fel y canlyn. "Y mae gweithiau Hooker a Bull, Pearson a Waterland, yn mhob ystyr yn deilwng o gael eu gosod wrth ochr yr eiddo Baur a Dorner. Y mae eu dysgeidiaeth mor helaeth a chywir; y mae eu gafael resymegyddol mor alluog; ac y mae eu barn yn fwy na chyfartal."

Nid ydym yn gwneuthur y sylwadau hyn i attal neb sydd yn dewis myned i rai o ysgolion y Cyfandir, ond i'w rhwystro i geisio dyrchafu yr ysgolion hyny ar draul darostwng ysgolion eu gwlad eu hunain. Ac yn awr i gymeryd golwg fwy neillduol ar Brifysgolion Lloegr a Scotland, ni a ddechreuwn gyda'r rhai hyny y mae yr Ymneillduwyr wedi bod yn fwyaf arferol o fyned iddynt. Mae y pedair yn Scotland wedi

bod yn rhydd bob amser ; a chododd rhai dynion enwog o honynt. Yn Aberdeen y bu Reid, Robert Hall, a Syr James Macintosh. Yn Edinburgh y dysgwyd Brougham, Jeffrey, Thomas Carlyle, ac Edward Irving. Ar y Prifysgolion hyn yn Scotland yr oedd Ymneillduwyr Lloegr yn ymddibynu, oddieithr y mân Athroféydd oedd yn perthyn iddynt mewn gwahanol fanau, hyd y flwyddyn 1828, pan y sefydlwyd Prifysgol Llundain, yr hon oedd yn cau allan bob math o addysg dduwinyddol. Oblegid hyn gwrthodwyd iddi Freintlythyr i'w galluogi i roddi "graddau" i'r efrydwyr hyd y flwyddyn 1836 : ac ni roddwyd ef y pryd hwnw i'r hen sefydliad ; ond ffurfiwyd corfforaeth newydd o rai o'r gwŷr dysgedicaf yn Mhrydain, ac awdurdodwyd hwy i raddio efrydwyr o ryw nifer o golegau, a gorfodwyd yr hen sefydliad i roddi i fyny ei enw o *London University* i'r Gorfforaeth newydd, ac i ymfoddloni, dan yr enw *University College*, i fod ar yr un tir a'r collegau eraill. Ar ol hyny, helaethwyd y terfynau fel ag i gymeryd i mewn bob ymgeisydd i gynnyg am raddau, o ba goleg bynag y daw, neu pe na byddai wedi bod mewn un coleg. Yr hyn a ddylesid ei wneuthur oedd agor yr hen Brifysgolion : ond yr oedd yr hyn a wnaed yn beth mawr ar y pryd ; ac er nad yw *University College* wedi bod mor llwyddiannus ag y dysgwyliasiad, y mae er hyny wedi rhoddi symbyliad newydd i ddysgeidiaeth yn mysg yr Ymneillduwyr, ac wedi effeithio yn ôl ar yr hen Brifysgolion i'w gwneuthur hwythau yn fwy ymdrechgar. Nid oes un gwahaniaeth o bwys rhwng *University College* a Phrifysgolion Scotland yn y dull o gyfranu addysg ; ond y mae Edinburgh a Glasgow yn rhagori yn ddirfawr mewn athroniaeth, ac fe allai fod *University College* yn rhagori mewn addysg glasurol. Mae y diffyg o arholiad digon manwl wrth dderbyn i mewn yn Scotland yn ddigon o esboniad ar y diffyg mewn addysg glasurol. O ran cymhwysder yr Athrawon nid oes un gwahaniaeth, oblegid y maent yn mynu y dynion goreu a allant gael o Rydychen a Chaergrawnt yn Scotland, yn gystal ag yn *University College*. Yr oedd Lushington, yr athraw Groegaidd yn Glasgow, yn un o'r dynion blaenaf yn Nghaergrawnt. Yr oedd Ramsay, yr athraw Lladinaidd, yn un o'r rhai blaenaf yn Rhydychen : ac felly yr oedd Syr Daniel Sandford, yr hwn a fu mor enwog fel athraw Groegaidd o flaen Lushington. Yr oedd Sellar o Edinburgh drachefn yn un o'r rhai blaenaf yn Rhydychen : ac er na fu Blackie yn Rhydychen na Chaergrawnt, yr oedd y diweddar Dr. Donaldson o Gaergrawnt yn ei gyd-nabod yn un o'r ysgolheigion goreu yn Mhrydain. Y mae hyn oll

yn profi y gall dyn gael yr addysg oreu yn Scotland, os bydd wedi rhagbarotoi yn ddyladwy; ac mai y diffyg o hyny yw yr achos na fyddai yr Ysgotiaid yn well ysgolheigion. Yr hyn sydd fwyaf yn erbyn *University College*, ydyw ei fod yn rhydd i ddysgu pob llyfr ymron ond y Bibl. Y mae hyn yn peri fod rhyw awyr anffyddol o amgyleh y lle; ac y mae yn hysbys fod Francis Newman, y diweddar athraw Lladinaidd, yn anffyddiwr professedig. Y canlyniad ydyw, fod y sefydliad hyd yma heb dderbyn efnogaeth galonog a chyffredinol oddiwrth Ymneillduwyr efyngylaidd.

Ond y mae dau ddiffyg lled bwysig yn perthyn yn ddiwahaniaeth i *University College* a Phrifysgolion Scotland. Un ydyw y diffyg o Isathrawon, fel y gallont rannu pob dosbarth yn fân ddosbarthiadau, a dysgyblu pob un yn dda unwaith neu ddwy bob dydd. Y maent yn ameanu at hyn yn Scotland; ond nis gallant wneuthur llawer yn y ffordd hon o cisieu moddion arianol. Dyma un fantais fawr y mae cyflawnder o bob math o athrawon yn ei roddi iddynt yn Rhydychen a Chaergrawnt. Y diffyg arall nid yw yn ddiffyg yn unig, ond bai gorthrwm, trwy fod yr efrydwy'r yn cael eu gorfodi i ddysgu ychydig o bob peth, yn lle cyfyngu eu sylw yn benaf at un neu ddau o bethau a fyddo yn fwyaf dewisol ganddynt. Yn *University College*, er anghraifft, gallent wneyd i fyny i ryw radd trwy ymdrech ychwanegol am y diffyg o Isathrawon; a phe caent roddi eu holl amser am bedair blynedd at y Groeg dan addysg Malden, fe allai y deuai rhai yn gystal ysgolheigion a phe buasant yn Rhydychen neu Gaergrawnt: ond yn lle hyny gorfodir hwy i ddysgu ychydig o fferylliacth, anianyddiaeth, rhifyddiaeth, ac ychydig o bob *aeth* bron y gellir meddwl am dano, cyn y cânt eu graddio gan y Gorfforaeth. Dywedod y byd beth a fyno, yr ydym yn dadlen o hyd mai sylfaen pob addysgiaeth dda yw *classics* neu *mathematics*. Ofer yw meddwl am ragori yn y ddau; ac am hyny y mae yn rhaid i ddyn ieuane wneyd ei ddewisiad rhyngddynt. Mae yn wir y dylai pob ysgolhaig wybod rhywbeth am elfenau *mathematics*: ond y mae yn ymddangos i ni mai yr un a ddylai gael y lle blaenaf mewn addysgiaeth yw y *classics*; nid er mwyn yr ieithoedd Lladin a Groeg ynddynt eu hunain, ond er mwyn y llyfrau a ysgrifenyd ynddynt. Y mae y llyfrau hyn yn werth eu darllen a'u deall o herwydd eu teilyngdod, gan eu bod yn gynnyrehion yr holl feddylwyr mwyaf a fu yn y byd erioed cyn dyddiau Crist, oddieithr ysgrifenyd yr Hen Destament: ac heblaw hyny, dyma y parotoad goreu i'r neb sydd yn meddwl rhoddi gweddill

ei oes i ddarllen gwaith y meddylwyr mwyaf a fu yn y byd ar ol hyny. Ond cyn y gellir defnyddio y llyfrau clasurol yn y wedd hon, y mae yn rhaid rhoddi blynyddoedd lawer i ddysgu yr ieithoedd. Ychydig sydd yn ystyried gymaint o amser sydd yn ofynol i ddysgu iaith. Nid gormod yw dyweyd fod saith mlynedd o lafur cyson yn ddigon bychan i ddyn ddyfod yn feistr ar y Groeg yn unig. Nid yw hyn yn fwy nag y mae yr efrydwyr goreu yn Llundain, neu Edinburgh, neu Glasgow, wedi ei roddi at y gorchwyl. Y maent wedi paratoi yn dda am flynyddoedd cyn myned i'r Brifysgol, a thrwy hyny y maent yn rhagori yn anhraethol ar y mwyafrif sydd yn dyfod yno heb y cyfryw barotoad.

Y mae *University College* yn enwog mewn rhifyddiaeth, nid o ran bod De Morgan yn well rhifyddwr na Kelland o Edinburgh, ond fod ganddo ddawn mwy poblogaidd. Y gwendid mwyaf yn y Coleg hwn yn Llundain yw yn y dosbarth athronyddol; ac wrth athroniaeth yr ydym yn meddwl athroniaeth feddyliol a moesol, sef athroniaeth yn ngwir ystyr y gair. Yr ydym yn ofni mai yr achos o hyn yw diffyg chwaeth at athroniaeth yn y Saeson: oblegid y mae Hoppus yn ddyn galluog, ac eto byddai yn hawdd i blentyn gyfrif pawb yn ei ddosbarth. Ond yn hyn y mae rhagoriaeth y Scotiaid. Y mae pob dosbarth athronyddol yn y wlad hono wedi bod yn llawn bob amser er dyddiau Reid yn Glasgow, a Dugald Stewart yn Edinburgh, y rhai a sylfaenasant ysgol athronyddol, yr hon sydd wedi ei chadarnhau a'i chodi i enwogrwydd mawr trwy ysgrifeniadau Syr William Hamilton. Yr oedd dosbarth Wilson yn orlawn, er nad oedd ef ond gwan fel athronydd. Hwyrach y gellir priodoli ei boblogrwydd ef mewn rhyw radd i'w hyawdledd, ac i ddylanwad ei gymeriad llenyddol. Ond ar yr un adeg yr oedd dosbarth yr hen Ritchie yn llawn, yr hwn oedd yn cymeryd arno ddysgu rhesymeg, er nad oedd yn meddu un math o gymhwysder. Dilynwyd Ritchie gan Syr William Hamilton, yr hwn oedd ei hun yn ddigon i roddi mawredd ar yr holl sefydliad. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf dysgedig yn ei oes, ac ar yr un pryd yn feddyliwr gwreiddiol. Yr oedd efe fel Wilson wedi bod yn Rhydychen, ac yn ymfoddloni fel yntau i dreulio ei fywyd i wasanaethu ei gydwladwyr yn Edinburgh. Dysgybl gwasaid i Syr William Hamilton yw Mansel, yr hwn a gyfrifir yn un o'r athronwyr mwyaf sydd yn awr yn Rhydychen.

Ond dylem droi bellach i gymeryd golwg fwy pwylllog ar y ddwy Brifysgol, Rhydychen a Chaergrawnt, y rhai a ymffrostiant nad oes eu cyffelyb yn yr holl fyd. Diau fod gwir yn yr ymffrost hwn; ond nid

yw mewn un modd yn wir i gyd. Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae mwy o amrywiaeth gwybodaeth yn ofynol i raddio yn Llundain, neu yn Scotland, nag yn Rhydychen neu Gaergrawnt. Nid ydym yn dywedyd mai fel hyn y dylai fod yn y rhai cyntaf, ond mai fel hyn y mae. A phe cyfyngem ein sylw i'r icithoedd clasurol, nid ydym yn deall fod gwybodaeth lawer manylach o honynt yn anghenrheidiol tuag at raddio yn Rhydychen neu Gaergrawnt nag yn y lleill. Nid yw gradd noeth, o ba le bynag y ceir ef, yn ddigon i brofi fod dyn yn hynod mewn dysgeidiaeth. Y cwbl y mae yn ei wneuthur yw hyn : y mae nifer o goeg-ddysgedigion ar hyd y gwledydd, yn byddaru dynion â'u beirniadaethau ffïol ; ac y mae yn anghenrheidiol cael rhyw brawf i gau allan y fath yma. Os bydd dyn wedi ei raddio mewn Prifysgol, y mae hyn yn dangos ar unwaith ei fod yn ysgolhaig rhesymol ; a dyna'r cwbl. Rhyw ychydig mewn unrhyw Brifysgol sydd yn cyrrhaedd dysgeidiaeth uchel : ac i'r ychydig hyn y mae yn rhaid addef fod Rhydychen a Chaergrawnt yn cynnyg manteision heb eu cyffelyb. Os bydd dynion ieuainc o duedd rifyddol, cânt roddi eu holl feddwl at rifyddiaeth yn Nghaergrawnt : ac os byddant o duedd glasurol, cânt roddi eu holl feddwl at yr icithoedd clasurol a'r hen awdwyr yn Rhydychen. Ac er mwyn eu cynnorthwyo, cânt ddyweyd eu gwersi yn ddosbarthiadau bychain i'w hathrawon (*tutors*) yn y coleg y maent yn perthyn iddo, a'u holi yn fauwl ganddynt yn mhob gwrs ; a hyn oll yn ychwanegol at y darlithoedd a glywant gan y *Professors*. Wrth wneyd, ac nid wrth glywed, y mae dyn yn dysgu : a thrwy fod yr efrydwy'r fel hyn yn fân ddosbarthiadau, y mae pob un yn gorfod *guneyd* ei wers. Mwy hyfryd o lawer i'r diog yw dychymygu ei fod yn myned ar gynnydd yn gyflym wrth glywed ei athraw yn darlithio. Mae yn ffordd bur ddidrafferth i'r dysgybl ; ond nid dyma y ffordd i ddyngu.*

* Mae y cyfoeth anferth sydd yn perthyn i'r gwahanol go'egan y i Rhydychen a Chaergrawnt yn peri nas gall un Brifysgol arall yn yr holl fyd ymgystadlu â hwynt yn nifer yr athrawon. Nid yw rhestr y *Professors* yn rhoddi ond golwg hannerog ar y gallu athrawol. Y mae y *Professors* yn perthyn i'r *University* fel y cyfryw, a'u darlithiau yn rhydd i'r neb a fyno o'r holl golegau. Ond heblaw hyn y mae nifer o athrawon yn perthyn i bob coleg, y rhai ydynt yn cymeryd aelodau y coleg dan eu gofal yn ddosbarthiadau bychain. Nid yw un dyben gwaadu nad dyma yr unig ffordd effeithiol i ddyngu. Byddai Dr. Chalmers yn arfer cwyno fod y rhai oedd dan ei ofal yn llawer rhy liosog, ac yn dywedyd mai yr hyn a hoffasai efe i'w dai dosbarth bychan yn eistedd oddeutu y bwrdd, ac yntan yn holi pob un yn fauwl, ac yn cadw pob un at ei waith. Yr oedd yn tybied y gallasai wneuthur llawer mwy o les felly na thrwy ddarlithio. Y mae y fantais hon yn perthyn i raddau helaeth i'r Athrofydd bychain yn Nghymru ; ac nid oes arnom ofn dyweyd, pe byddai tri athraw mewn un Athrofa, a phe byddai yr ysgolheigion wedi eu parotoi yn ddyladwy cyn dyfod yno, y gallent roddi addysg fwy llwyr a thrwyadl nag a wneir yn Scotland na Llundain. Ac eto y mae llawer yn Nghymru yn tybied mai perffheithrwydd athrofaol yw darlithio ; yn debyg i'r bachgen hwnw y cyfeirir ato yn y rhifyn diweddar o'r TRAEITHODYDD, yr hwn a enwogodd ei hun a'n byth

Er hyny y mae rhai anfanteision yn perthyn i Rydychen a Chaergrawnt. Un o honynt ydyw eu bod yn ymorphwys yn ormodol ar y drefn o fân ddsbarthiadau, heb roddi y lle sydd yn gweddu i'r *Professors*. Y maent wedi myned i eithafoedd gyda hyn. Gwir eu bod yn ceisio gwella, ac wedi gwella llawer : ond nid oes yn un o honynt agos cymaint o fywyd yn y darlithiau proffeswrol ag a welir yn Edinburgh neu Glasgow. Anfantais arall yw yr hen drefn farbaraidd o wneuthur i'r efrydwyr dreulio llawer o'u hamser i gyfansoddi Lladin a Groeg yn y mesurau a arferid gan y beirdd Lladinaidd a Groegaidd. Nid ydym yn gwadu nad yw yn anghenrheidiol eu dysgu i gyfansoddi yn yr ieithoedd clasurol ; oblegid nid oes neb yn feistr ar unrhyw iaith nes y medro gyfansoddi yn yr iaith hono ; ond y mae yn ymddangos i ni fod yn ddigon iddynt gyfansoddi mewn iaith rydd yn lle mewn mesurau caethion. Yr un peth fyddai gwneuthur prawf ar fechgyn Cymru yn yr iaith Saesneg trwy geisio ganddynt brydyddu yn yr iaith hono. Ac y mae y mesurau Lladinaidd a Groegaidd yn llawer caethach, ac nis gall neb gyfansoddi ynddynt heb hir arferiad. Mae yn wir nad yw hyn yn anheggorol anghenrheidiol yn Rhydychen na Chaergrawnt ; ond cymerir ef i'r cyfrif wrth ystyried teilyngdod yr efrydwyr, ac y mae yn gosod pob un a elo yno dan anfantais fawr os na fydd wedi bod o'r blaen mewn ysgol eglwysyddol.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng Rhydychen a Chaergrawnt yw, fod yr olaf yn rhoddi y lle blaenaf i rifyddiaeth. Nid ydynt yno yn esgeuluso yr ieithoedd clasurol, ac y maent wedi gwneyd ymdrech yn y blynyddoedd diweddaf trwy wobrwyo ychwanegol i'w codi yn uwch. Ond tra fyddo y *Senior Wranglership* yn cael ei gyfrif yr anrhydedd uchaf, a'r anrhydedd hwnw yn cael ei ennill trwy wybodaeth o rifyddiaeth, er pob ymdrech a wneir, bydd rhifyddiaeth yn sier o fynu y lle blaenaf. Digon rhyfedd yn ngwyneb hyn yw gweled mai yn Nghaergrawnt y cododd y beirdd enwocaf, megys Spenser, Milton, Coleridge, Byron, a Tennyson. Nid ydym yn gwybod a oes rhyw berthynas rhwng rhifyddiaeth a barddoniaeth ; ond fel hyn y mae yn hanes Caergrawnt. Ar gyfer hyn nid oes gan Rydychen ond Chaucer, Young, a Shelley. Ond y maent lwythau yn ymfrostio mai oddiyno y cododd yr ysgrifenywyr goreu mewn rhyddiaeth, megys Syr Philip Sidney, Hooker,

trwy adael yr Athrofa am y gorfodid iddo weithio, pan oedd yntau wedi myned yno gan feddwl na fyddai raid iddo ond eistedd i lawr yn llonydd tra fyddai yr athraw "fel rhyw *depot mawr*" yn tywallt dysgeidiaeth ar ei ben.

Locke, Butler, Addison, Dr. Johnson, Gibbon, Southey, Milman, De Quincey, Froude, a Ruskin. Y mae yno rai hefyd yn ddigon rhyddfrydig i ymfrostio yn Dr. Owen. Ond y mae un peth rhyfedd i'w gofnodi mewn cysylltiad â Rhydychen, mai oddiyno y tarddodd y rhan fwyaf o gynhyrfaidau moesol a fu yn y deyrnas hon. Yno y cododd Wickliffe y Diwygiwr cyntaf; Wesley a Whitefield; Adam Smith, tad rhyddfasnach; Jeremy Bentham, y diwygiwr gwladol; Pusey a Newman, y rhai a gynnyrchasant effaith mawr, er drwg neu er da. Ac yn y dyddiau hyn ni cheir yn un lle fwy o allu meddyliol o blaid egwyddorion rhyddfrydig nag a geir yn Rhydychen. Rhyddfrydwyr i'r gwraidd yw amryw o'r dynion mwyaf eu dylanwad yn y Brifysgol.*

Mewn cysylltiad â'r ddwy y mae un gofyniad ymarferol yn galw am sylw. Y maent yn awr wedi eu hagog i Ymneillduwyr; a dichon y bydd rhai dynion ieuaine yn tueddu i ofyn, A gynghorech chwi ni i feddwl am un o honynt? Mae yr ateb yn ymddibynu ar ddau beth. Yn gyntaf, a ydych yn Ymneillduwyr gwirioneddol? Os nad ydych, byddwch fe allai yn ddigon boddlawn i'r prif sefydliadau fod yn nwy-law yr Eglwyswyr. Y mae hyd yn nod yr Eglwyswyr rhyddfrydig am i chwi gael yr un breintiau a hwythau; ond y mae pob un rhagfarnlyd am eich cau allan. Os ydych am bleidio y rhai olaf hyn, y ffordd oreu yw gadael y prifysgolion mwyaf yn hollol iddynt hwy, ac ymfoddloni ar y rhai lleiaf. Yr hyn a ddewisent hwy fyddai eich cau allan o bob math o brifysgolion: ond byddai yn well ganddynt i chwi gael mil o brifysgolion bychain nag i chwi hawlio eich rhan yn yr hen brifysgolion uchaf. Ond yn ail, A ydych yn meddu digon o wroldeb moesol? Bydd yn rhaid i chwi ddyoddef dirmyg weithiau yn y Brifysgol oddiwrth y bechgyn hyny nad yw y Creawdwr wedi eu cynnysgaethu â graddau cyffredin o synwyr. Ond nid yw hyny yn werth son am dano. Bydd yn hawdd i chwi gilio oddiwrthynt, a threulio hyny o oriau hamddenol fydd genych gydag eraill, y rhai y bydd eu cymdeithas yn hyfrydweh ac yn adeiladaeth. Yr hyn fydd yn fwyaf anhawdd ei ddyoddef fydd dirmyg oddiwrth eich brodyr; a hyn a gewch yn Nghymru bron yn ddieithriad. Ped ymunech â'r Eglwys Sefydledig, byddai hyny yn rhywbeth dealladwy, ac ni fyddai yn beth anghyffredin. Ond bachgen tlawd yn penderfynu cael cystal dysg â'r gwŷr mawr, a hyny heb un golwg am droi y ddysg hono yn fantais arianol, dyma beth nad oes

* At y rhestr uchod gallasid ychwanegu amryw craill, yn enwedig prif ysgogwyr y chwildroad yn amser Charles I., megys Hampden, Pym, ac Eliot.

ganddynt ond synu at ei ynfydrwydd. Ond dylem gydnabod fod rhai weithiau yn gwneyd cais at ymresymu yn bwylllog ar y mater. Y rheswm cryfaf a glywsom yn erbyn oedd, fod Howell Harris wedi methu aros yn Rhydychen am ei fod yn lle rhy ddrwg. Yr un modd y buasai Howell Harris yn blino ar bob prifysgol y gwyddom ni am dani. Ond anghofiodd ein cyfeillion i Wesley a Whitefield aros yno, ac i Charles o'r Bala aros yno. Ac arosodd Wesley wedi gorphen ei addysg i lafurio fel athraw yn ngholeg Lincoln. Y mae peryglon i ddynion ieuainc yn yr holl drefydd mawrion, a pheryglon arbenig yn y Prifysgolion : ond ar ol yr ymchwiliad mwyaf difrifol i'r achos, nid ydym yn tybied fod mwy o berygl i ffydd na moesau yn Rhydychen neu Gaergrawnt nag sydd yn yr holl Brifysgolion.

Os yw y sylwadau blaenorol am yr hen Brifysgolion yn gywir, gallant fod yn gynnorthwy i ni weled pa le yr ydym yn sefyll wrth son am gael Prifysgol i Gymru. Beth bynag yw cryfder ein dymuniad am les ein cydgenedl, dylem ddeall ar unwaith mai ofer yw i ni feddwl ymgystadlu â'r hen Brifysgolion. Gwnawn a fynom, bydd y mwyafrif o'r bechgyn mwyaf athrylithgar yn sicr o fyned i Loegr neu i Scotland. Dichon y bydd cryn nifer o eithriadau, trwy y bydd llawer un yn ddigon cydwybodol i aros er mwyn gwneyd a allo i godi y sefydliad i fri. Ond fel rheol gyffredin, "i'r pant y rhed y dwfr," ac i'r lle mwyaf manteisiol am addysg y rhed athrylith. Yr ydym yn dywedyd hyn, nid i wrthwynebu yr anturiaeth, oblegid yr ydym yn teimlo fel arall, ond i symud ymaith bob gau olygiadau a gau obeithion er mwyn dyfod at y sylwedd. Ac os bydd y goreuon yn troi eu cefnau ar y sefydliad, bydd hyny yn effeithio ar y lleill, oblegid bydd pawb yn ystyried eu hunain, neu o leiaf am gael eu hystyried yn mysg y rhai goreu. Sicrheir yn yr areithiau a draddodwyd ar yr achos y bydd y sefydliad hwn yn rhatach na'r hen sefydliadau ; ac os yw hyn yn wir, y mae i ryw fesur yn dirymu ein hymresymiad ; oblegid bydd ei radlonrwydd yn tynu iddo y tlodion athrylithgar, ac yn mysg y tlodion weithiau y ceir mwyaf o athrylith. Ond y mae yn ddrwg genym orfod ychwanegu nad yw y rhadlonrwydd cymhariaethol hwn ond dychymybol. Y mae yma ryw ddirgelwch y carem gael goleuni arno. Dywedir y bydd y sefydliad newydd ar yr un cynllun â phrifysgolion Scotland ; ond pan eir i ddywedyd am ei radlonrwydd, cymherir ef â Rhydychen neu Gaergrawnt. Ac hyd yn nod wrth son am y ddwy olaf, addefir nad ydynt yn ddrutach i'r rhai hyny a fedront ennill ysgoloriaeth, yr hyn sydd yn cynnwys, fel y mao yn

ymddangos i ni, y byddant mor fanteisiol mewn ystyr arianol i'r ysgolheigion goreu ag a fydd y Brifysgol Gymreig.

Ond er ein bod yn teimlo mai ein dyledswydd yw gosod yr anhawsderau yn amlwg ger bron y darllenydd, yr ydym er hyny yn pleidio yr amean, ac yn barnu y gellir gorchfygu yr holl anhawsderau os byddwn o ddifrif. Mewn perthynas i'w ddymunoldeb, os gellir ei gyrhaedd, mae yn anhawdd meddwl pa fodd y dichon fod un ammheuaeth. Y mae rhyw effaith gan agosrwydd lle, ac ni ddylid gadael hyny allan o'r ystyriaeth. Fel y mae preswylion yn agos i'r môr yn effeithio i gynnyrchu tuedd at forwriaeth, felly y mae agosrwydd at ysgol dda yn creu chwaeth at ddsygeidiaeth. Yr hyn sydd yn cadw i fyny newyddiaduron taleithiol yw yr awydd sydd ynom i wybod am yr hyn sydd yn cymeryd lle yn agos atom. Y mae yn naturiol gan hyny i ni ddysgwyl y bydd sefydliad Cymreig yn tynu mwy o sylw yn Nghymru, ac mewn canlyniad y bydd ein cydlwadwyr yn teimlo mwy yn achos yr efrydwyr, ac yn gwybod mwy am eu llwyddiant neu eu hafllwyddiant, yr hyn a fydd yn un cymhorth i wrthweithio y duedd sydd ynddynt i chwilio am addysg yn mhell oddicartref. Gellir dysgwyl hefyd fel un effaith neillduol o'r cyfryw sefydliad y daw dysgeidiaeth yn fwy parchus nag ydyw yn ngolwg y Cymry. Er cymaint a siaredir am athrofeydd, y mae profion lliosog wedi ein gweithio o'n hanfodd i'r grediniaeth mai ychydig iawn o werth a roddir yn Nghymru ar wir ddsygeidiaeth. Y peth penaf a fwriedir i'r Athrofeydd ei ddysgu yw rhywbeth a alwant yn *homiletics*, yr hyn, dybygem, a arwydda y gelfyddyd o wneyd pregethau. Nid yw y bai yn perthyn yn neillduol i'r Cymry; oblegid hyd yn ddiweddar nid oedd Ymneillduwyr ond lled debyg yn Lloegr. Yn y bywgraffiadau a ysgrifenyd am Dr. Liefchild, a Mr. Sherman, a Dr. Raffles, yr ydym yn cael pob un o honynt yn ewyno fod y sylw gormodol a dalent i brogethu pan yn yr athrofa wedi eu rhwystro i ddysgu, ac o herwydd hyny na ddaethant byth yn ysgolheigion da. Y maent wedi gwella llawer yn Lloegr; a byddai prifysgol Gymreig yn sier o gynnyrchu gwelliant buan yn Nghymru.

Ond pe ceid y brifysgol, a oes gobaith iddi fod yn llwyddiannus? A oes rhyw debygolrwydd y ceid nifer digonol o ysgolheigion? Am y rhai sydd yn barnu wrth y nifer, yr ydym yn ofni y cânt eu siomi. Os meddylir am gael ysgolion da, bydd yn rhaid cadw y safon yn uchel; ac os cedwir y safon yn uchel, bydd y nifer yn ychydig. Yr hyn sydd fwyaf pwysig gyda golwg ar yr ysgolheigion yw cael goreuon y genedl,

a'r goreuon os gellir o genedloedd eraill. Bydd hyn yn fwy anhawdd nag y mae llawer yn dybied ; ae er hyny nid ydym yn anobeithio. Pe ceid deugain ysgoloriaeth dda, byddai hyny yn foddion lled effeithiol. Ond yma eto nid ydym allan o berygl. Os gwneir yr ysgoloriaethau yn rhy gyffredin, edrychir arnynt fel elusen, ae ni cheir yr ysgolheigion goreu i gynyng am danynt. Ac heblaw hyny, ni fyddant yn ateb y dyben o gynynechu un ymdrech i ddysgu yn y rhai fydd yn meddwl eu derbyn, gan y byddant yn sier o honynt, pa un a ddysgant ai peidio. Ar yr un pryd nis gellir gwneuthur heb ysgoloriaethau ; ae os cedwir hwy i fyny ar dir amrhydeddus, byddant yn lled debyg o ddennu amryw fechgyn athrylithgar. Ond nid yw hyn eto yn ddigon i ddiogelu llwyddiant y sefydliad. Bydd yr ysgoloriaethau yn gwneyd yr addysg yn ddigon rhad ; ond bydd y mwyafrif er hyny yn dewis talu mwy yn Lloegr neu Scotland, er mwyn gwel'd y byd, pe na bae yr addysg yn ddim gwell. Bydd yn rhaid cael rhyw fanteision neillduol nas gellir eu cyrhaedd ond mewn cysylltiad â'r sefydliad hwn. Yr hyn a olygwn ydyw nifer o *fellowships* i'r rhai fydd yn sefyll uchaf yn niwedd eu hefyrdiaeth. Gwyddom mai ofer fyddai son am hyn wrth y Cymry yn gyffredin. Ni wnaent ond hwtio y meddylddrych ar unwaith. Ond y mae blaenoriaid yr ysgogiad hwn yn gwybod yn well am natur prifysgolion. Gwyddant hwy mai dyma un o elfenau cryfder yr ysgolion penaf yn y deyrnas, a'u bod yn amcanu at hyn yn awr yn Edinburgh. Ond beth bynag am ysgolion eraill, nid yw ond ffolineb son am brifysgol Gymreig heb *fellowships*. Dylai y *Fellows* gael rhan yn llywodraethiad y Brifysgol, a gallai rhyw nifer o honynt gael cyflog ychwanegol fel cynnorthwywyr i'r athrawon sefydlog.

Y gofyniad nesaf ydyw, A oes rhyw debyg y ceir y cyfryw sefydliad ? Mewn rhyw ystyr, buasai yn fwy trefnus i'r gofyniad hwn gael y lle blaenaf, yn ol y cynghor tra hysbys yn yr hen lyfr coginiaeth am ddal yr ysgyfarnog yn gyntaf. Ond tybiasom mai gwell, cyn dyfod at hyn, oedd ymofyn, A oes anghenrheidrwydd am y sefydliad ? Ac a oes rhyw obaith am ei lwyddiant ar ol ei gael ? Nid yw yn un dyben ystyried pa un a ellir ei gael, os nad yw wedi'r cwbl, yn werth ei gael. Fe allai, hefyd, fod rhyw argraff ddirgelaidd o anhawsder y gofyniad hwn yn effeithio arnom i'w adael hyd yn ddiweddaf. Pan ystyrir fod y Llywodraeth eisoes yn cynnal corfforiaeth gref dan yr enw *University of London*, a hyny yn benaf er mwyn Ymneillduwyr Lloegr a Chymru, ymddengys yn annhebyg iawn y gellir llwyddo i gael ganddynt gynnal

corfforiaeth newydd er mwyn Cymru yn unig. Er fod rhai o'r dynion mwyaf eu dylanwad yn y deyrnas yn perthyn i Brifysgol Llundain, nid ydynt eto wedi llwyddo i gael gan y Llywodraeth roddi arian i adeiladu tŷ cyflëus iddynt i gadw eu cyfarfodydd. Y maent wedi bod yn grwydriaid o'r naill fan i'r llall, yn byw ar drugaredd; ac yn awr dysgwylir iddynt ymfoddloni ar fenthyg yr ystafelloedd anghenrheidiol yn *Burlington House*. Ac os ydynt mor grintachlyd yn eu hymddygiad at sefydliad mor äang a dylanwadol, y mae lle i ofni mai ychydig a wnant i'r byd bach Cymreig. Mae yn wir i'r Iwerddon gael tri choleg newydd yn 1849, a chorfforiaeth athrofaol yn y flwyddyn ganlynol i raddio efrydwyr o'r colegau hyny. Ond yr oedd hyn yn rhan o'r ymgais i wareiddio y Gwyddelod, ac nid yw yn sail i ddysgwyl y gwneir yr un peth i'r Cymry. A phe buasem yn hollol ar yr un tir, nid yw llwyddiant y colegau hyny wedi bod yn gyfryw ag i roddi llawer o annogaeth i wneuthur prawf cyffelyb eto. Wrth gymeryd hyn oll i ystyriaeth, y mae yn edrych yn dywyll o'r cyfeiriad hwn; ac er hyny nid ydym yn gweled achos i ddi-galoni. Peidiwn a dysgwyl gormod, ac ni chawn ein siomi. Ac fel na syrthio y darllenydd i lwyr anobaith, dymunem ddwyn ar gof iddo yn fwy eglur pa le yr ydym yn awr yn sefyll. Son yr ydym am i'r Llywodraeth fyned dan y draul o sefydlu corfforiaeth newydd ar wahan oddiwrth yr hen brifysgolion i raddio bechgyn Cymru. Dyma yr hyn a feddylir wrth *University* i Gymru. Y mae cael colegau i'r Cymry yn bwne arall hollol annibynol: ac ni fyddai methu cyrhaedd y cyntaf yn un prawf nad ellid cyrhaedd yr ail. Nid ydym yn erbyn i'n cyfeillion wneyd ymgais egniol i gael *University*. Y mae enw yn effeithio ar ryw bobl; ac y mae yn bur debyg fod yr enw hwn yn tynu mwy o sylw na phe sonid yn unig am gael dwy ysgol dda, un yn y Gogledd a'r llall yn y Deheubarth. Nid ydym ychwaith am roddi ar ddeall nad yw y peth ynddo ei hun yn werth ei gael. Y mae yr hyn sydd yn tynu sylw at yr ysgogiad yn awr yn debyg o effeithio i dynu sylw at y sefydliad pan y ceir ef. Nid oes un dyn call nad yw yn cymeryd teimladau y natur ddynol i'r cyfrif. Ond yr hyn y dymunem ei argraffu ar feddyliau ein cydwladwyr ydyw hyn, nad yw y cwbl yn troi ar eu llwyddiant neu eu hafwyddiant i gael *University*. Gofyner hyn; ac ymdrecher i gael hyn. Dadleuer drosto, a dangoser nad yw hyn ond un peth sydd yn gynnwysedig mewn *justice for Wales*. Ond os methir yn hyn, na feddylier fod yr ymdrech oblegid hyny yn rhwym o fod yn aflwyddiannus. Y peth mwyaf sydd yn eisieu ar Gymru yw dwy ysgol dda; dwy ysgol rydd yn ngwir ystyr y gair;

neu, os dewisir, galwer hwy yn golegau. Yna, os na cheir *University*, gall yr efrydwyr gymeryd eu graddio yn Llundain. Mewn rhyw ystyr bydd hyn yn well i'r ysgolheigion goreu; oblegid pe caniateid na fydd graddau yn Mhrifysgol Llundain yn uwch na graddau yn y Brifysgol Gymreig, bydd yr *honours* yn Llundain yn sicr o fod yn llawer uwch, gan y bydd yno lawer mwy o gystadleuaeth. Y peth mwyaf pwysig fydd cael addysg o'r fath oreu yn yr ysgolion hyn, addysg gyfartal i'r hyn a geir yn yr ysgolion uchaf. I'r dyben hyny, bydd yn anghenrheid-iol cau allan o honynt yn ddiarbed, ac anfoddio y lliaws trwy hyny. Hynod mor barod yw y wlad i gydymdeimlo â bechgyn yr un dalent. Ac nid oes dim i'w ddywedyd yn erbyn hyny, hyd y gwyddom ni. Y mae yn dangos ysbryd tirion a charedig. Ond byddwn yn rhyfeddu er hyny na fyddai mwy o gydymdeimlad â rhai sydd trwy lafur a diwydrwydd ar hyd eu hoes wedi gwneuthur y defnydd goreu o'u talentau. Y mae digon o fanteision i bobl yr un dalent yn mhob rhan o Gymru; ac os yw yn rhaid iddynt yn mhellach gael colegau, coder rhai iddynt ar wahan. O ran hyny, y mae amryw o'r fath yn bod eisoes. Yr hyn sydd yn angen ar Gymru yw ysgolion i'r rhai hyny sydd yn penderfynu dyfod yn ysgolheigion trwyadl; ysgolion nid yn unig i ddysgu y gelfyddyd o bregethu, neu y gelfyddyd feddygol, ond yn benaf i ddysgu y pethau hyny sydd o'r golwg wrth wraidd pob celfyddyd, y rhai o ganlyniad nid yw y lliaws yn alluog i weled eu gwerth. Gellid meddwl nad yw yn ormod dysgwyl i'r Llywodraeth ein cynnorthwyo yn hyn o amean. Nid yw yn afresymol i ni gredu y llwyddwn mewn rhan, er fe allai nad yn y cwbl. Ond os gomeddar ni yn hollol, ni fydd un achos i ni deimlo cywilydd oblegid y cais; a byddwn yn y diwedd yn rhydd i ystyried pa beth a ellir ei wneuthur heb gynorthwy y Llywodraeth.

LLYFR "HANES Y FFYDD."*

Uwch ben yr ysgrif hon galleid ysgrifenu yr enw Charles Edwards, heb ddim ychwaneg : ond gwyddom y byddai hyny yn achos i lawer un ei gadael heb ei darllen, gan ryfeddu ein bod yn rhoddi lle i hanes dyn mor anenwog. Nid hwyrach hefyd y gofynid, gyda gradd o ddirmyg, Pwy oedd Charles Edwards? A phaham y rhaid i ni ddarllen am un na chlywsom erioed son am dano, yn lle am awdwyr dysgedig a doniol? Wel, ddarllenydd mwyn, yr oedd Charles Edwards yn awdur—nid awdur Seisnig mae yn wir, onidè mae yn debyg y buasai yn fwy hysbys i'r Cymry—ond awdur Cymreig : ac nid yw yn ormod dyweyd ei fod yn rhagori ar hanner yr ysgrifenywyr a gyfieithwyd i'r Gymraeg gyda mawr ddiwydrwydd, o'i amser ef hyd yn awr. Mae yn ymddangos hefyd ei fod unwaith yn awdur lled boblogaidd; oblegid cyhoeddwyd y chweched argraffiad o'i waith ar "Hanes a Rhinwedd y Ffydd Gristionogol," gan Dr. Williams, o Lanbedrog, yn y flwyddyn 1822.

Rheswm arall paham na roddwyd enw yr awdur yn unig uwch ben yr ysgrif hon ydyw, diffyg defnyddiau i ysgrifenu hanes cyflawn am dano. Am ba beth yr oedd ysgrifenywyr y dyddiau hyny yn meddwl, nis gwyddom : ond meddwl am gadw cofiadwriaeth y dynion goreu heb ei golli oddiar y ddacar *nid oeddynt*. Cs rhoddwyd cymaint a gair o hanes Charles Edwards ar lawr gan eu gydoeswyr, ar bapyr neu ar gareg fedd, y mae rhyw gaddug wedi ei guddio er ys talm. Gwelsom ofyniad yn y "*Cambro-Briton*," oddiwrth un "*Chwyllyddydd*," yr hwn, dybygem, oedd Dr. Williams, o Lanbedrog, yn holi am ryw hysbysrwydd mewn perthynas iddo : ond er i'r golygydd ei hun gyfeirio sylw at y gofyniad, nid ydym yn deall iddo byth dderbyn atebiad. Y mae yr holl hanes a roddir gan Dr. Williams yn nechreu yr argraffiad diweddaf, yn gynnwysedig mewn dau lythyr; un oddiwrth y Parch. Walter Davies, a'r llall oddiwrth John Edwards, Ysw., o *Great Ness*.

* O'r "*Traethodydd*," am 1852.

Yn y cyntaf, dywedir i Charles Edwards gael ei eni yn Rhyd-y-croesau, yn mhlwyf Llansilin, yn swydd Dinbych, ar derfynau plwyfau Croesowallt a Sylattyn: ac i'w frawd hynaf, Robert Edwards, briodi Anne Kyffin, merch ac etifeddes Robert Kyffin, o Garth Eryr yn Mochant. Yn y llall, dywedir nad oedd ond un Charles wedi bod yn y teulu; a bod hwnw yn fab i Robert Edwards, o Cynlleth, yn swydd Dinbych. Hyd yma y mae yr hysbysiadau am dano yn cyrhaedd; ac y mae yn rhaid addef nad yw y ddau hanes uchod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hollol gyson. Dichon er hyny nad oes ynddynt ddim anghysondeb gwirioneddol. Ond os na ellir credu y ddau, diau y dylid rhoddi y flaenoriaeth i'r Parch. Walter Davies.

Ychydig sydd i'w gael ymhellach na hyn heblaw tybiaeth. Barna rhai ei fod yn offeiriad: ond y cwbl a ellir ei ddyweyd yn benderfynol yw, ei fod yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, o'r un ddelw ac ysbryd a Leighton neu Gurnall. Yn 1671, cyhoeddwyd ganddo, yn Rhydychain, argraffiad newydd o'r "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr," o waith Esgob Jewel, wedi ei gyfieithu gan Morus Kyffin.*

Yn y flwyddyn 1675, cyhoeddwyd llyfr buddiol o'r enw "Hyfforddiadau Christianogol, yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonaec gan Tho. Gouge, gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaec gan Richard Jones o Ddinbech. Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r awdwr, 1675." Yn niwedd y llyfr hwn y mae yr anerchiad a ganlyn, gan Charles Edwards:—

"DIWYGIWR Y PRINT-WASG AT Y DARLLEYDD."

"WELE Rhagluniaeth y Goruchaf yn porthi dy enaid ti yr awrhon, yn y fath ryfeddol fodd ac y llonodd ef gorph Samson gynt, pan ddarparodd iddo fel ynghorff llew; gan beri i Sais o'i lawn wirfodd cariadus wneuthur lleshâd i Gymro; a chynhyrfu yr Awdwr parchedig, er ei fod yn ŵr o Loegr, i ofalu am breintio tair mil, a phumcant o'r llyfrau hyn, i'w cyfrannu yn rhâd ymmyse ein gwladwyr ni. Pe busasai rhyw brophwyd ychydig wedi amser Owen Glyn-dwfr yn cyssuro ein henafiaid ni i'r cyffelyb eiriau ac yr adroddwyd y ddychymmyg wrth y Philistiaid, y digwyddai iw heppil hwynt gael bwyd allan o'r bwyttawr, a melustra allan o'r cryf, Barn. 14. Anhawdd y deallasant wrth hynny y troen y Saeson fyth mor dirion, ac hyfforddi iechydwrtaeth y cymru. Etto hoddwy y cyflawnir hynny yn dy olwg di; fel y rhyddech ogoniant i Dduw, a ddichon wneuthur trugaredd uwchlaw pob disgwiliad. Wedi yr arferer y llyfrau hyn emnyd, yr wyf ar fedr preintio Hanes y Ffydd beth yn helaethach nag o'r blaen, os yr Arglwydd a'i mynn.

Yr wyfi yn deall fod cryn nifer o eiriau cymraeg yn ddieithrol i'r naill ran o Gymru, er eu bod yn gydnabyddus yn y llall. A bod amryw o'r geiriau sy mewn

* Cyhoeddwyd argraffiad wedi hyny gan Mr. Charles o'r Bals, ac un arall yn ddiweddar yn Llundain.

hên lyfrau Cymraeg yn anhyspys i ni o'r oes hon, cisiau ymarfer â hwynt. Oherwydd hynny fe fyddai'n ddymunol i rai o Wynedd a Deheubarth gyttuno i gydwnauthur Diesionari Cymraeg bychau, sef Gair-lyfr cryno i'r Gwerin, yn dangos arwyddocâd yr holl eiriau Cymreig, mal y dealler lyfrau yn hawsach, ac y deuer o byd eilwaith i lawer o'r iaith a'r fydd ar y goll. Yr hyn a fyddam ni ewyllyscarach iw wneuthur pe gwyddem faint sydd ynddi o'r fam-iaith baradwysaidd, er mwyn hynodi hyny mewn rhan, ni a geslais fagad o ymadroddion allan o'r Bibl Hebraeg a ellir eu deall yn Ghymru gyd ag ychydig hyfforddiad.

C. E."

Er mai Sais oedd Thomas Gouge, ni wnaeth neb yn yr oes hono fwy o les i'r Cymry. Hyfryd i'n teimlad ni yw gweled cydweithrediad mor gyfeillgar rhyngddo ef ac awdur "Hanes y Ffydd." Nid rhinwedd fechan hefyd yn Charles Edwards oedd cadw ei gariad at ei genedl, a llafurio eymaint drostynt, er ei fod yn byw y rhan fwyaf o'i oes, fel y mae lle i gasglu, yn mhlith y Seison. Y mae rhai yn debyg iddo yn ein dyddiau ninnau; a gobeithiwn y bydd i'w nifer fyned ar gynnydd.

Ond i ddychwelyd at "Hanes y Ffydd." Y mae Moses Williams yn dyweyd yn ei "Gofrestr" i Charles Edwards brintio "Hanes y Ffydd" y tro cyntaf yn Llundain, yn 1671, a thrachefn yn Rhydychain, yn 1677. Y mae Dr. Williams yn tybied fod dau argraffiad wedi ymddangos yn Llundain, gan mai y trydydd yw argraffiad Rhydychain, yn 1677. Yn 1722, cyhoeddodd John Rogers argraffiad arall yn yr Amwythig, yr hwn a elwir ganddo "*The Fourth Edition.*" Yn 1811, cyhoeddodd R. Jones, Dolgelle, argraffiad arall, yr hwn a elwir hefyd "Y Pedwerydd Argraffiad, wedi ei adgyweirio a'i ddiwygio yn ofalus." Cyhoeddwyd un arall yn Dolgelle, 1822, fel y crybwyllwyd eisoes, dan arolygiad Dr. Williams o Lanbedrog. Rhoddwn yma yr oll o'r Rhagymadrodd fel y mae yn y trydydd argraffiad:—

"*At y Darlleydd.*

"GRAS, trugaredd, a thangnefydd a liosogo i ti trwy Grist Iesu. Wrth ystyried mor gynnorthwyawl i'm gwladwyr a fyddai hysbysrwydd o'r pethau a ganlynant, ac nad adwaenwn i un llyfr i'w gyfieithu ydoedd yn wahanredol yn amgyffred y cwbl o honynt, ymosodais i'w pigo allan o amryw lyfrau: a chymerais gwrs y wenyen i sugno llawer llysiuyn i wneuthur hyn o ddilyn. Cyd-ddwg ditheu â'r fath grwybyr ac fydd ynddo.

Cawn weled yma siamplau pobl Dduw, a'r modd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orchymynion ef; fel y bo i ni ganlyn y brise a dorrasant hwy drwy lychfeydd profedigaethau'r bŷd dryc-hi-nog hwn: a cherdded *llwybr Câl sydd yn arwain* i orphwystra tragywyddol. Amlhâodd defaid Jacob wrth gyfebru o flaen gwiall brithion, a dwyn ŵyn o'r un lliw â'r hyn a osodid iddynt i edrych arno *yn y cwtterydd o fewn y cafnau dyfroedd lle y deuent i yfed*, Gen. 30, 37, 38, 39. Bydded i ninnau wrth geisio ymddiwallu â gwybodaeth, iawn graffu ar Grist, a'i ferthyron

Sanctaidd, y rhai y diriselyd pob pechod, a mwyniant bydol oddiam danynt; mal y tebygom ir *gwyn oedd ynddynt*, ac y chwaneo gwir Gristianogion tebyg iddynt yn ein plith. Ni a ddeuwn i borfeydd gleision, os awn *rhagom ar hyd ôl praidl y gwir fugail*. Can. Sol. i. *Na fyddwn fuscrell eithyr dilynwy'r rhai drwy ffydd ac ammynedd sy'n etifeddu yr addewidion*. Heb. 6. 12. yn enwedig *byddwn ddilynwy'r i'n henafiaid megis y buont hwythau i Grist*. 1 Cor. xi. 1. dodwn hawl i fraint a bonedd ein hen deidiau, sef purdeb ffydd efangylaidd, a grym dwiolddeb. Er mwyn hyny fy 'ngwladwy'r anwyl, *y rhoddais hyn o ddiwydrwydd ar ysgrifenu atoch am yr iechyd-wriaeth gyffredinol, gan eich annog i ymdrech yn mhlaidd y ffydd, yr hon a roddwyd unwaith i'r Sainct*, ic ym mhlith y Britanniaid. Jud. 3. yr oedd Paul yn hoffi Timotheus yn hytrach wrth alw *i'w gôf y ffydd ddi-fsuant ydoedd ynddo ef, yr hon a drigodd yn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice*. 2 Tim. i. 5. eled y Cymro yn hoff gan Dduw yn yr unrhyw fodd. Ac fel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da ym myse ein henafiaid, felly hefyd gochelyd pechodau y llaweroedd o honyt ydoedd ddrwg, a ddug arnynt ddialedd dwys, ac a wnaethom *na bu Duw foddlon i'r rhan fwyaf o honyt*; *Canys cwmpwyd hwynt yn nhir eu ganedigaeth. A'r pethau hyn a wnaed yn Siamplau i ni fel na chwennychem ddrygioni, megis ag y chwennychasant hwy, ac na odinebwn fel y godinebodd rhai o honyt hwy, ac y syrthiodd miloedd o honyt. Ac na thentiwn Grist, megis ac y temptiodd rhai o honyt hwy, ac a'i destrywiwyd. A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a scrifenywyd yn rhybydd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd*. 1 Cor. x. 5, 6, 8, 9, 11. *Na fydddech fel eich tadau, y rhai y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, ond ni clywent, ac ni wrandawent, nes i fwgylthion Duw eu goddiwes hwynt*. Zech. i. 4, 6.

Darllen yn astud, a chydabyddi nad yw ffydd yn beth newydd, eithr hên; na pheth dychymygod, eithr sylweddol; a sicrwydd y pethau nid ydis yn eu gwled. Heb. xi. 1. Y rhai sydd ystyriol ar eiriau, a gweithredoedd Duw, ac yn byw yn rasol, a dderbyniant gyflawn hyder yn ei ffyrdd ef. Arfera sanctaidd *ddiwydrwydd er mwyn llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd*. Heb. vi. 11. I'w blant ufudd, ac nid i'w elynion aunghymmodol y mae'r Duw doeth yn adrodd ei gyfrinach.

Gwelodd Duw yn dda roddi i mi amser i orphen yr hyn a ragfwiadraswn ei yserifennu ynghylch Rhinwedd y ffydd, ac i ddatean ei helynt hi beth yn helaethach nag o'r blaen, gan roddi ar lawr fwy o resymau'r prif Gristianogion nag a welaisti gynt. Ac o'i ddoeth ragluniaeth a'i ddaioni gwnaeth y Mawrhydi Nefol i mi drwy brofiad go-hir yn fy nghyflwr fy hun wybod sicrwydd am y prif bethau yr wyf yma yn eu cyfranau i eraill. Canys ar bob rhyw achosion cefais fy Arglwydd grasusol yn gyfrwy i mi, ac y mae'r yscrythrau yn mynegi ei fod ef. Iw enw ef y byddo gogoniant, ac ith enaid titheu y byddo adeiladaeth mal y byddech Gristion mewn gwirionedd ac nid mewn lliw yn unig.

Ym myse rhai pethau anarferol a ddigwyddodd i mi cefais ganfod llawer o'r Gymraeg yn y Bibl Hebraeg, a thybiais na ddylwn i gelu hyny oddiwrth fy ngwlad, na gosod y ganwyll dan lestr a oleuwyd yn fy llaw i oddiuchod heb gynnorthwy dŷn; a diammau y gellir gwled rhyw beth wrthi. Yn ddiau ni ddeallais erioed o'r blaen arwyddocâd llawer o eiriau ac enwau arferedig yn ein plith ni, nes i mi eu cael hwy yn yr iaith honno ym mha un yr yserifenyd yr ysgrythrau sanctaidd gyntaf. A chan fod genym etto beth o iaith y Prophwydi, ymegniwn i fod yn berchenogion o'u grasau hwynt hefyd, ac i wneuthur ar ol yr hyn a draethant hwy.

Di a gei yn y llyfr hwn wyth o ddalennau â lluniau arnynt, y rhai ni fwriedais it tuag at addoliad, megis y gelli ddeall wrthynt; a thrwy'r un awdurdod ac y *lluniwyd Jerusalem ar bridd-lech*, Ezeck. iv. 1. ond er arfer naturiol, fel y mae'n gynnwefin ym myse cenedlloedd eraill.

Llê trawodd rhyw gw'r neu'i gilidd o'r groes wrth fy ngwaith a gwneuthur tippin

o anaf arno, bydd mor dirion a'i feddiginiaethu drwy yserifennu neu ddeleu ymbell lythyren, a gwneuthur y nôd hwn—o gysylltiad, lle bo'r naill ran o'r gair yn rhybell oddiwrth y llall.

Y mae i mi achos arbenig i glodfori enw yr Hollalluog am ddwyn fy ngorchwyl i hyn o hŷd. Ac i'w alw *Eben-Ezer*, a *dywedyd*, *hyd ymna y cymorthwyodd yr Arglwydd* fi. 1 Sam. vii. 12. Adolwg na ddigio neb wrth hyn o lyfran, eithr ei dderbyn a'r un ewyllis ac yr wyf innu yn ei ddanfôn. Na friwa'r llaw a estynno it arwydd o garedigrwydd, er gwaelod fyddo. Nid yw ddiarwybod i mi fod eraill yn y wlad a fedrasent wneuthur y rhan fwyaf o hyn yn well. Ond ni rediff y sŷg o'r acron (er perciddied a chyflawned fyddont) nes eu dryllio a'u gwasen. Os digwydd i'r cyfryw, a *nhwy yn gwybod osn yr Arglwydd*, ymosod i *berswadio dynion*, y mae iddynt er hyn ddigon o waith, a llê i'w wneuthur. Ac ni hwyrach i ryw un o gariad iti, neu o genfigen i mi, yserifennu ychwaneg ynghylch yr unrhyw bethau: pa fodd bynag, gwna'r defnydd goreu o bôb cynnorthwy. Yr oedd yn o-anhydyn genifi fyned drwy'r daith hon, i geisio it hyn o *hanes* am beth gwerthfawr a fu ar y goll, ac i hel ynghŷd hyn o dystion yn achos Duw, nes iw wialen ef fy ngyrru, ac iw ragluniaeth ef *osod anghenrhaid arnaf*: ac i *gariad Crist fy nghymell*. Ô cofiwn yr hwn a *fu farw dros bawb, fel na byddei i'r rhai byn fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw trostynt, ac y gyfodwyd*. 2 Cor. v. 11, 14, 15. Bu fodlon gan Baganiaid wasanaethu eu pobl trwy ddirfawr boen, a chaledi: ac os bu i'r cyfryw chwysu a gwaedu dros eu gwlad, nid yw ond peth bychan i Gristianogion yserifenu er ei mwyn. Y Cymro caredig o chei llesâd wrth ddarlain, treulia ymbell ddeigryn mewn gweddi dros un a dreuliodd lawer munudyn mewn rhyw fath a'r orchwylion er dy fwyn di, ac felly tâl y pwyth ith

gydwladwr anwiw

Llundain, mis Ebr. 1677.

CHARLES EDWARDS."

Y bennod gyntaf yn y llyfr sydd yn rhoddi hanes am bedwar parth y byd. Yn y pennodau nesaf, o hyny hyd yr ugeinfed, ceir Hanes y Ffydd er dechreu y byd mewn gwahanol wledydd, ac yn fwy neillduol yn mhlith y Cymry. Y mae rhai o'r hanesion, fel y gwelir yn llyfrau yr oes hono yn gyffredin, yn dangos gormod o hygoledd; er hyny, nid tro iawn yn Dr. Williams oedd eu gadael allan. Gallasai wneyd nodiadau arnynt yn ngwaelod y ddalen; ac yna cawsai y darlennydd farnu drosto ei hun. Ond y mae yr holl bennodau hyn ar y cyfan yn hanes cywir a chryno. Nid oes dim a ddymunem ei gymhell ar ddyinion ieuaine i'w ddarllen yn fwy na hanes y byd, ac yn cweddig hanes crefydd yn y byd: ac wrth ddechreu, byddai yn anhawdd iddynt gael llyfr mwy buddiol na "Hanes y Ffydd." Tueddir ni i roddi dau ddyfyniad o'r bedwaredd bennod ar bynthege. Y cyntaf sydd fel hyn:—

"Gweddiwn ar Dduw am roddi Ysbryd ei ras i bob gradd o ddyinion yn ein mysg; 'fel yr adeiladont yr hen ddiffaethfa, ac y cyfodont anghyfanedd-dra llawer oes; sef tabernacl Dafydd yr hwn a syrthiodd,' yn ein gwlad ni yn amser ein hen dadau: 'ac yr adeilader ei fylchau drachefn: fel y byddo i'r hyn a weddillwyd o honom geisio yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn:?' ac a'n gwaredodd o dŷ caethiwed bydol ac ysbrydol, yn yr hwn y mae'r Gwyddelod yn nychu.

Gwilia arnat yn ddyfal, O Gymro, rhag i ti rwystro a digaloni adferiad at y Ffydd yn dy fro; canys 'yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd y gweddill, a gerydda bob gwrthwynebwr.' 'Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tan?' Yn hytrach gwnaed yr oes hon ei rhan yn adeiladu ar y sail ysgrythyrol a osododd yr oes ddiweddaf, ac yn cynyddu'r gwaith a ddechreuwyd trwy gymaint o anhawsdra 'fel y toro goleuni Cymru allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei phentewyn.'

Byddai yn gymhorth nid bychan i'n gwlad pe cyfodai ei blaenoriaid COLLEGE neu ddau ynddi, i ddwyn gwŷr ieuainc gobeithiol i fynu mewn dysgeidiaeth a moesau da, tuag at eu cymhwyso, gyda bendith y Goruchaf, i weinidogaeth cfengylaidd, a swyddogaeth wladwriaethol."

Caniataer i ni alw sylw pawb at y rhan olaf o'r dyfyniad hwn. Dyma un o brif anghenion y Cymry yn ein dyddiau ninnau. Y mae genym ryw fath o golegau, ond y maent oll yn perthyn i ryw blaid grefyddol. Yr hyn sydd eisieu yw un Brifysgol gyffredinol i'r Cymry. Y mae enw Charles Edwards yn haeddu ei gadw mewn coffadwriaeth, pe na buasai wedi gwneyd dim ond rhoddi y cynnygiad hwn ger bron ei gydwladwyr. Ar yr un mater y mae y dyfyniad arall, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Ni bydd y nef yn nyled y ddaear. Yr hyn a wyddai Solomon yn dda wrth ei brawf a'i lwyddiant rhyfeddol, wedi iddo adeiladu'r deml. Am hyny, yn ei ddoethineb a'i serch, cynghorodd ei fab, gan ddywedyd, "Anrhydedda yr Arglwydd a'th gyfoeth, ac a'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th winwryfoedd a dorant gan win newydd." Ac nid yn y byd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulir ar wasanaeth Duw, eithr yn y byd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinder tragwyddol, caiff goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yn ngwasanaeth eu Harglwydd, drysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, a chynnalïaeth ogoneddus byth. Ynte masnach ynnillfawr yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd, a goreu hwsmonaeth yw llafurio i danu yr hâd y tyf ei gnwd yn uwch na'r cymylau. 'Oblegid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r enwad a fed lygredigaeth; eithr yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fed fywyd tragwyddol.'

O nad ymgenïai'n cenedl i fod mor fywiog ac mor wresog yn y grefydd Gristionogol ag a fu rhai o'n hen deidiau ni gynt. Troesant hwy Scotiaid, a Phictiaid, a Germaniaid, a chenedloedd eraill at ffydd Crist; ac a esgeuluswn ni hi yn ein cartref ein hunain? Yr oeddynt hwy yn flaenaf; ac a fyddwn ninnau yn olaf yn achosion teyrnas nef? Na ddirywiwn; eithr fel Naboth, glynwn yn y winllan cfengylaidd sydd Dref-tadaeth ein hynafiaid; a rhodiwn fel plant y goleuni, ac ymddygnwn yn ddyladwy wrth fodd Duw, megys y mae hi yn bryd i ni bellach; 'nid mewn cyfeddach a moddwod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynen a chenfigen:' fel y gallo ein gwlad, a fu cyhyd dan waradwydd, fyned yn enwog am rinwedd."

Testun yr ugeinfed bennod yw "Sier wirionedd y Ffydd Gristionogol." Nid ydym yn cofio i ni erioed weled y gwahaniaeth rhwng y profion allanol a'r rhai tufewnol yn cael ei osod allan yn well mewn ychydig eiriau nag yn nechreu y bennod hon. "Er fod achau'r ffydd a argraffwyd eisoes yn gwirio Duw yn dad iddi; eto, gellir cael ychwaneg

o hysbysrwydd am hyn wrth ei phryd a'i gwedd, y rhai sydd yn tebygu iddo." Ar ol dwyn yn mlaen liaws o resymau nerthol a goleu i brofi gwirionedd y ffydd Gristionogol, y mae yn sylwi fel y canlyn:—

"Os ammheui eto, dywedaf wrthyt, fel y dywedodd Philip wrth Nathaniel, 'Tyred a gwel.' Fel yr argyhoedda'r creadigaeth a rhagluniaeth dy reswm di, gwaith yr 'adenedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân,' a lwy'r argyhoedda dy galon, ac a ysgrifena'r gyfraith ynddi, oni's gwrthodi hi. Oni choeli fod athrawiaeth y ffydd yn win melus ac iachus, wrth weled eraill yn ei ddymuno, ac yn siŵl ar ei ol ef, prawf ef dy hun, a dywedi yr un peth. Golch lygaid gweiniaid dy feddwl & dagrau edifeiriol, a gloewach fyddant, a chanfyddi ewyllys Duw yn graffach a gweli'r Haul cyfiawnder wrth ei oleuni ei hun. Oddiwrth dath enawdoliaeth y cyfyd niwl yn y meddwl. Bydd pob dyn â deall wedi ei dywyllu, tra fyddo wedi ymddieithrio oddiwrth fuehedd Dduw. Ond y meddwl newydd a gaiff 'brofi beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.' A'r hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth hon ynddo ei hun. Derbyn Ysbryd Duw i sancteiddio dy enaid, yr hwn a dystiolaetha mai ei ysgrifen ef yw'r ysgrhythrau. Yna y gelli ddywedyd wrth yr eglwys fel y Samariaid wrth y wraig, 'Nid ydwyf fi weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di: eanys mi a'i clywais ef fy hun a gwn yn ddiâu mai efe yw y Crist, iachawdwr y byd.' 'Yr hwn a ewyllysia wneuthur ewyllys Duw a gaiff wybod am y ddydsgeidiaeth, ai o Dduw y mae hi.' Defaid ufudd Crist a adnabyddant ei lais ef rhagor llais dieithriaid.

Oni bydd dyn yn yr un elfen a'r peth yr edrycho efe arno, nis gwel yn iawn. Pan edrycho un oddiar y lan ar bren yn y dwfr, efe a'i gwel yn gam, er ei fod yn union. Felly ni ddichon yr hwn sydd mewn cyflwr enawdol iawn ddirnad y gwirionedd grasol; 'oblegid yn ysbrydol y bernir ef.' Meibion Duw sydd gynefin a'i bresennoldeb ef, ac arferol o drin ei negesau, a adwaenant ysgrifen-law eu Tad nefol. Cais burdeb calon, a chei weled Duw, a'i ewyllys hefyd."

Yn awr, ddarllenydd, onid yw y dyfyniad hwn yn profi mai nid dyn cyffredin oedd Charles Edwards? Nid ydym yn tybied fod un sylw mwy dwfn-dreiddiol, na chyffelybiaeth brydferthach yn holl waith Bacon. Byddai yn hawdd i ni gael nifer mawr o ddywediadau tebyg yn y llyfr hwn; ond cymerer yr ychydig a ganlyn fel anghreiffitiau:—

"Ffrydia dwfr edifeirwch o'r calonau creigiog pan eu tarawer a gwialen Moysen.

Ac o herwydd bod y rhan fwyaf yn eu hawddfyd yn ysmala ganddynt glywed cynghorion gair Duw, a'i weision, a'u eiddwobodau eu hunain, gan fod eu brasder yn cadw'r pigau rhag dyfod at y byw, a'u pethau esmwyth hwy yn rhwystro'r ergydion i guro eu rhyfys hwy i lawr, rhydd yr Arglwydd bwys ei law ar y rhai a fo ysgafn ganddynt ei air ef. A phryd na ddysger er mwnder, caiff llais y wialen ddwyn y wers ar gof, a throir llawenydd yn dristwch i'r rhai a drônt ras yn drythyllwch.

Tywydd caled oddiallan a chwanea gan boethni euogrwydd oddifewn; a thra fo'r cyflwr bydol yn gymylog y saetha melt drwy'r meddwl yn aml. Y pechodau ni chanfyddid yn y cynhesrwydd llwyddiannus a'r maswedd mwill, a ymddangosant cyn amlod a'r ser pan ddel oerni calon.

Ac nid heb achos y mae'r Arglwydd yn gosod ar y pechadur yn neillduol drwy'r cyfryw ddwys argyhoeddiad. Canys tra fyddo ef yn galw pobl i edifarhau drwy gyffredin weinidogaeth y gair; ac megys ar ben yr heolydd yn llefain argynnulleidfâu

llyuosog i ddiwygio eu ffyrdd, ni thybir fod ei rybudd ef yn perthyn, i'r naill mwy nag i'r llall, am hyny, ysywaeth, cydesgeulusant ef. Ond pan yw yn neillduol drwy ddwys gerydd yn curu wrth ddrws y galon gystuddiol, cydnabyddir y pryd hyny pwy y mae ef yn ei geisio; a'r hwn mae y fath ymofyn am dano, a ymrodda iddo ef. Ac fel Moses cenfydd Dduw yn y berth bigog, er iddo ei ddogio fel Adda yn yr ardd lysieuog.

Er hyny i gyd y mae'r llanc grasol [sef Joseph] drwy ystyriaeth duwiol yn curu'r gôf uffernol yn ei efel. Er maint oedd mantais ei elyn aeth a'r maes oddiarno, a chadwodd ei onestrwydd er colli ei wisc, ac ni wnaeth ddrwg yn erbyn Duw da.

Gwraig Job a lefarodd wrtho ef fel un o'r ymfydion, er hyny ni phechodd ef â'i wefusau. Cawsai ddogion o rybudd oddiwrth Adda fal y medrai Satan wneuthur bwa croes o'i asen ef i saethu atto ef ac i'w archolli, am hyny gwiliodd ac ymgadwodd. Mor iachus ydoedd tymher ei ysbryd ef, nad allai'r haint oedd cyn nesed at ei fynwes ef mo'i ammharu.

Ac os yw amser y byd agos i ddarfod, a chwedi rhedeg hyd at y gwaddod isaf (fel y tybia rhai) nid rhyfedd ei fod wedi egru a chwerwi cymaint. Canys tebyg y gwywa daioni, ac y crina'r byd cyn llosgi pob peth; ac mai'r drygioni erchyllaf a brysura'r farn fawr: a dirmygu llais peraidd yr efengylwyr a bair glywed udgorn dychrynlyd y Barnwr. Daw'r *eclipse* du ar y byd pan fo ei anwiredd yn ei lawn lloned.

Dir yw fod pobl Dduw y pryd hyn yn cael sylwedd yr unrhyw rasau ag a gafodd y Cristionogion cyntaf, er bod rhagoriaeth rhwng eu doniau. Yr un yw daioni Duw i ddynion pa un bynag a fo'r moddion drwy ba rai y gweithier ef, ai arferol ai rhyfeddol. Y mae'r bara beunyddiol a gawn ni o'r ddaear drwy fendith Duw ar ein llafur, yn tori ein newyn ni, ac yn adferu ein nerth ni yn gystal ag y gwnai'r manna a ddisgynai o'r wybr i'r Israeliaid.

Un go wan, wrth gyfarwyddyd a pheiriannau, a ddichon wneuthur pethau nad allo y cryfaf hebddynt; a'r hwn gan hyny a fyno'r maes oddiar elynion ei enaid, a ddylai yn gyntaf fedri iawn drin arfan ei filwriaeth ysbrydol.

Gyda gwllith y nefoedd, rhaid wrth ddefnyddiau o chwys y corff i beri i'r maes ffwrthloni. Ac ni wasanaetha i ni dybied am natur dyn fyddo wedi llygru â phechodau ffaidd, y daw hi yn ddiboen i ddwyn ffwrth da.

Cynhyrriad a gwaith sydd fuddiol i'r bywyd hwn a'r llall hefyd. Y dwfr rhedegog sydd loywaf, a'r awyr gwyntog sydd iachaf, a'r crision bywiog sydd ysbrydolaf.

Medr y cythraul chwythu'r tân uffernol o'r cynnud crinion i'r coed l'r, gan geisio llygru y rhai da drwy y rhai drwg. Yr hwn a gymero ofal am iechyd ei enaid, ymgadwed ym mhellach ag a allo oddiwrth y cyfryw ag sydd gleifion o haint anwiredd.

Rhwystira ddechrenad pechod. Pan glywech ddeisyfiad afreolus yn cyfodi ynot, brawycha a gweddia; a dyro dy fryd ar ei ladd ef cyn iddo ymgadarnhau mewn gweithrediadau atgas. Hawdd i wendid dynu eginyn derwen o'r gwraidd cyn gynted ag y toro trwy'r ddaear. Llawer tân wrth ei ganfod mewn pryd a ddiffoddwyd yn ddiboen, yr hwn, ped esgeulusasid, a gynnnyddasai i ddiffrodi dinas.

Rhoddi cyfarwyddyd i'r enbydus a'r cyfeiliornus, ac elusen i'r truenus, sydd yn cysuro y sawl a'u gwnele cymaint a'r rhai a'u derbynio. 'Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.' A phan ddel dyn hyd at y cnewyllyn blasus sydd o'r tu fewn i weithredoedd crefyddol, ni fyn fod hebddynt mwy; ac y mae dyn yn myned yn aplach i bob gwaith da wrth ei arfer. A bendith y Goruchaf a rydd ychwaneg i'r hwn a fyddo 'ffyddlon ar ychydig.'

CYFNEWIDWYR HYMNAU.*

Yr oedd blaenor y canu mewn un man yn America, ryw amser yn ol, yn ddyn oedd yn meddu barn uchel iawn am ei alluoedd ei hun. Nid fel hyn y mac pawb o flaenoriaid y canu; ond pa fodd bynag, dyma oedd ansawdd meddwl y brawd hwn. Yr oedd efe a'i gyfeillion un tro yn bwriadu dwyn allan dôn newydd ar y geiriau hyny o eiddo Watts,

“Ond boed fy nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr ŵyl.”

Mawrion a phwysig oedd y darpariadau ar gyfer yr amgylchiad. Yr oeddynt wedi penderfynu llanw pawb a ga'i y fraint o wrandaw â syn-dod, a gwneuthur iddynt eu hunain enwau oesol. Ond yr oedd y crybwylliad am y delyn yn ngeiriau Watts yn taraw blaenor y canu fel yn rhy henaidd, ac anghydweddol â sefyllfa bresennol y gelfyddyd gerdd-orawl. Ar ol hir fyfyrddod, llwyddodd o'r diwedd i ddiwygio y pennill er perffaith foddlonrwydd iddo ei hun a'i gydgerddorion; ac aeth i gynnyg y gwelliant i'r hen weinidog, yr hwn oedd ŵr call a chraffus. “Y mae genyf fi,” meddai, “wrthwynebiad diysgog yn erbyn y geiriau yn y wedd sydd arnynt. Mae yn amiwg nad oedd Watts yn deall dim am offerynau cerdd.” “Pa fodd y dymunech ehwi eu bod?” gofynai y gweinidog. “Wel, syr,” atebai y cantor, “mae yn ymddangos i mi y byddent yn llawer godidocach fel y canlyn:—

“Ond boed fy nghalon i'r pryd hyn,
Fel Dafydd gynt a'i *violin*.”

Teimlai y gweinidog ryw gynhyrfiadau tufewinol cryfion i chwerrthyn yn ngwyneb y cantor; ond ymattaliodd. Yna mor fuan ag y medrodd gael ei hun yn alluog i siarad, dywedodd ei fod ef yn tueddu i feddwl fod yn ddichonadwy gwneuthur y gwelliant hwn drachefn yn fwy diwygiedig; a gofynodd oni fyddai yn well darllen y geiriau fel hyn:—

“Ond aed fy nghalon, diddle, diddle,
Fel Dafydd bach yn canu'r *fiddle*.”

* O'r “TRAETHODYDD” am 1850.

Ni fuasai yr hanesyn hwn yn werth ei adrodd, oni ba'i ei fod yn anghraifft o'r cyfnewidiadau a wneir yn gyffredin gan rai a dybiant eu hunain yn ddoethach na'r beirdd mwyaf awenyddol; ond anfynych y dangosant ddim ond eu hanfedruswydd eu hunain. Peth peryglus iawn yw ceisio diwygio cynnyrehion athrylith. Nid yw gwybodaeth a dysgeidiaeth yn addasu dyn at y gorchwyl hwn. Ni fu neb yn Mhrydain yn fwy dysgedig na Bentley. Yr oedd hefyd yn meddu cryfder synwyr a chyflymder meddwl tuhwnt i gyffredin. Yr oedd bron yn anffaeledig yn ei fedruswydd i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau yn ysgrifeniadau yr hen awdwyr. Pan gyfodai llu o wrthwynebwyr i'w erbyn, nid oeddynt ond fel gwybed o'i amgylch. Ac eto, nid oedd y dyn mawr hwn yn ddim amgen na burguniwr pan aeth i geisio diwygio barddoniaeth Milton. Ni fu gwell bardd yn yr oes hon na Wordsworth; ac nid beirniad cyffredin ychwaith oedd Jeffrey. Er hyny, yr oedd y beirniad yn gwawdio y bardd; a bu y ddau farw yn ddiweddar heb ddeall eu gilydd. Cyn y gellir deall barddoniaeth, rhaid i ni ddyfod mewn tymer ddysgyblaidd, ostyngedig, i yfed o ysbryd y bardd. Rhaid i ni gymeryd ein codi ganddo uwchlaw rheolau ffurfiol, i edrych ar y gwrthddrychau o'r un lle ag yntau, a than ddylanwad yr un teimlad. Y mae bardd mewn awr o gynhyrriad hapus, yn alluog i gyflawni gorchwyl na fedr yr holl fyd ei ddiwygio, na gwneyd ei gyffelyb.

Na feddylier ein bod am gyhoeddi cosbedigaeth drom o herwydd rhyw gyfnewidiadau bychain, diniwed; megys, byrhau ambell linell er mwyn ei chael i ateb i'r mesur; neu roddi gair Cymraeg dealladwy yn lle gair Seisnigaidd. Clywsom yn ddiweddar am hen Gristion didwyll yn cwyno yn enbyd fod y wir athrawiaeth bron myned o'r golwg. "Y mae pregethwyr y dyddiau hyn," meddai, "yn son llawer am weithredu ffydd. Y maent am i ni weithredu'r cwbl: ond gair yr hen bobl oedd *actio* ffydd." Nid ydym ni yn llawn mor eiddigeddus a hyn yn erbyn pob math o gyfnewidiadau. Ond os eir i gynnwng newid, dylid bod yn gynnil a gochelgar dros Len. Fel y dywed Wordsworth am ddail y coed:—

"Yn dyner cwrdd, mae ysbryd yn y dail."

✓ Ac ar bob cyfrif na feddylier am newid yr ystyr. Na thyner oddiwrth, ac na chwanager at, yr un o feddylddrychau y bardd. Pa hawl sydd genym i newid gwaith y prydyddion mwy nag awdwyr eraill? Neu pa hawl sydd gan neb i gyhoeddi ei feddyliau ei hun yn gymysg â

meddyliau Williams Pantycelyn, heb un hysbysiad pa le mae y naill yn diweddu a'r llall yn dechreu? Pan welwn gymysgwaith fel hyn, byddwn yn teimlo tuedd i ddywedyd wrth yr awdur fel y dywedodd hen bregethwr didderbynwyneb wrth ryw wreigan, yr hon nid oedd mor lanwaith ag y buasai dymunol, "Pan ddelwyf fi yma y tro nesaf, wraig dda, a fyddweh chwi gystal a rhoddi yr ymenyn ar un ddysgl, a'r blew ar ddysgl arall?" Pe cyhoeddai rhywun draethawd*o waith Dr. Chalmers neu Dr. Harris, yn gymysg blith-dra-phlith â'i waith ei hun, edrychid ar y weithred fel digywilydd-dra erchyll; ond y mae pawb yn ystyried barddoniaeth grefyddol fel yspail i'w ddefnyddio yn y dull a'r modd y gwelont hwy yn dda. Y mae rhyw achos i hyn, fel i bob effaith arall. Beth all yr achos hwnw fod nis gwyddom; ond yn unig fod y cyfansoddiadau hyn yn cael eu bwriadu i wasanaeth crefyddol, a bod dynion yn dueddol i feddwl fod rhywfath o ddyben crefyddol yn ddigon o fantell i guddio pob anghyfiawnder.

Pe buasai y cyfnewidiadau hyn yn ddiwygiadau mewn gwirionedd, buasai rhyw reswm i'w roddi drostynt. Ond er i ni weled ugeiniau o emynau wedi myned dan y driniaeth hon, gallwn dystio yn ddibetrus fod naw o bob deg, a mwy na hyny, wedi ei newid er gwaeth ac nid er gwell. Bydd y meddwl newydd bron bob amser yn waelach na'r un gwreiddiol, ac weithiau bydd yn hollol ddisynwyr. Heb fyned i chwilio am anghreiffitiau i'r llyfrau hyny yn y rhai y gorfodir yr hen Williams i ganu yn groes i'r hyn oedd yn arfer gredu pan yn y byd, neu lle y mae ei feddyliau ardderchog cf wedi eu cuddio yn y fath fodd fel, pe codai oddiwrth y meirw, y byddai yn rhy anhawdd iddo adnabod ei waith ei hun, ni a gymerwn rai o'r cyfnewidiadau sydd fwyaf hysbys i ddarllenwyr y "Traethodydd," a'r rhai a gyfrifir gan lawer fel diwygiadau diammheuol. Dyma hen bennill anwyl o waith Williams:—

"Mae dy air yn abl f'arwain
 Trwy'r anialwech mawr ymlaen,
 Mae e'n golofn oleu eglur,
 Weithiau o niwl ac weithiau o dân:
 Mae'n ddi-ble, ynddo 'fe
 Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne',"

Nid ydym am ddadleu yn erbyn "Dy air sydd ddigon i fy arwain" yn y llinell gyntaf, er mwyn gochelyd y gair Seisnigaidd *abl*. Nid yw hyn nac yma nac acw. Ond yr ydym yn gwrthdystio â'n holl galon yn erbyn y cyfnewidiad a wnaed yn Ngogledd Cymru ar y llinellau olaf

Digon hawdd i bawb ddeall mai ystyr y gair “ddi-ble,” yw diwrthdadl, peth heb un *plea* yn ei erbyn. A dyma linell ysblenydd,

“Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.”

Nid rhyfedd fod hen bobl y Deheudir yn myned i'r awel wrth ganu y fath linell a hon. Ai tybed fod y Gogleddwyr yn barnu fod y bardd yn y fan yma yn codi gormod ar y gair? Oni ddywed yr ysgrythyr fod Duw wedi mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll? Ac onid yw Crist, cynuwys mawr y gair, yn fwy na'r nef i gyd? Ond beth bynag a achosodd y cyfnewidiad, fel y canlyn y cenir yn gyffredin yn Ngogledd Cymru:—

“Dy air sydd ddigon i fy arwain
Trwy'r anialweh maith yn mlaen;
Mae yn golofn oleu eglur,
Weithiau'n niwl ac weithiau'n dan;
Llusern yw, oleu wiw,
Oleua'n deg holl deulu Duw.”

Pan ddefnyddir dwy gyffelybiaeth i ddangos yr un gwrthddrych, dylai yr olaf gryfhau y flaenaf, ac ychwanegu at gynnwysiad y meddylddrych: ond yma, ar ol arwain y meddwl at y golofn fawreddus yn yr anialweh, dybenir y pennill gyda llusern deuluaidd. Cymhariaeth addas ac ysgrythyrol yw llusern; ond yn y cysylltiad y mae yr anmhrifodoldeb. Dywedir fod y gair yn “golofn oleu eglur;” ac nid hyny yn unig, ond hefyd yn “llusern oleu wiw.” Dyma un o'r anghreiffitiau goreu a welsom erioed o'r *bathos*, neu *the art of sinking*. Ar ol ein codi i entrych awyr, i syllu ar ogoniant y golofn oedd yn arwain yr Israeliaid, goll-yngir ni i lawr bendramwnwgl i edrych ar lusern. Nid oes genym ond gobeithio yr esgusodir ni, os ydym yn analluog i weled goleuni y llusern, a ninnau newydd ddyfod o lewyrch tanbeidiol y golofn.

Mewn pennill arall o waith Williams mae y llinellau a ganlyn:—

“O llefara addfwyn Iesu,
Mae dy ciriau fel y gwin;
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd,
Ac sydd o anfeidrol rin.”

Yr ydym yn methu dychymygu pa wrthwynebiad a allai fod gan neb i'r llinellau prydferth hyn. Y maent oll yn gysylltiedig â'u gilydd, ac yn ymddibynu ar eu gilydd, fel na ellir tynu allan yr un gair na'i symud o'i le, heb niweidio y cwbl. Ar ol son fod geiriau Iesu fel y gwin,

dywedir eu bod oll yn dwyn i mewn i'r enaid dangnefedd, yr hwn dangnefedd sydd o anfeidrol rin. Ond gwelir hwynt yn fynych wedi eu murnio yn y wedd ganlynol:—

“O lefara addfwyn Iesu,
Mae dy eiriau fel y gwin;
Oll o mewn yn dwyn tangnefedd,
Ac sydd o anfeidrol rin.”

Y mae y cysylltiad wedi ei ddattod, a'r holl feddyliau yn chwalo oddi wrth eu gilydd. Dywedir fod yr oll o rywbeth o mewn yn dwyn tangnefedd. Ond yr oll o ba beth? Rhaid mai y meddwl ydyw, os oes yma feddwl hefyd, fod yr oll o'r enaid yn dwyn tangnefedd. Ond dwyn tangnefedd i bwy? Mae yn debyg mai dwyn tangnefedd iddo ei hun. Ond pa gysylltiad sydd rhwng hyn a'r llinellau blaenorol? Nid yn unig y maent yn anghysylltiadol; ond y maent yn gwrthdaraw yn erbyn eu gilydd; gwneir erfyniad am i Iesu lefaru, ac fel rheswm dros hyny, dywedir fod ei eiriau fel y gwin. Ond yn nesaf, yr ydym yn cael fod oll o mewn yn dangnefeddus eisoes. Os felly, pa raid i Iesu lefaru? Onid yw yn amlwg, ddarlennydd, fod yr hen Williams yn gwybod beth oedd ganddo mewn llaw, yn well na'i ddiwygwyr? Yn y Casgliad diweddaf gan y Parch. Roger Edwards, mae yn dda genym weled y geiriau hyn wedi eu hadferu i'w ffurf gyntefig.

Mae pawb yn gydnabyddus â'r hen bennill hwnw, “Mi gana' am waed yr Oen;” ac y maent yn cofio ei fod yn diweddu fel y canlyn:—

“Ond dyma'm sail i am y wlad,
Y cariad bery byth.”

Ond clywsom y llinellau olaf yn cael eu hadrodd gan rai fel hyn:—

“Fy unig sail i am lanhad
Yw'r cariad bery byth.”

Nid ydym yn ystyried fod y cyfnewidiad hwn yn gamwedd pwysig: er hyny, nis gallwn lai na meddwl mai “gwell yw yr hen.” Tebyg mai y dyben wrth roddi y gair “glanhad” yn lle “gwlad” yw ei gael i ateb yn well i'r crybwylliad blaenorol am “galon ddu,” a'r “meddyg da.” Ond a oes dim lle i feddwl fod yma raddau bychain o *tautology*, neu ddywedyd yr un peth drosodd drachefn? Oblegid mae y prydydd wedi adrodd o'r blaen nad oes ganddo yn ngwyneb calon ddu ond Iesu'r meddyg da. Ond y mae y ddwy linell olaf yn ychwanegu at y meddylldrych, ac yn taflu goleu newydd dros y cwbl. Y maent yn dangos

fod y pennill yn iaith teithiwr blinedig. Ar ol canu am waed yr Oen, a Iesu y meddyg da, y mae yn cael ei anadl, ac yn gallu edrych yn ol ar daith yr anialwch, ac yn mlaen tua gwlad yr addewid. Wrth edrych yn ol y mae yn galaru oblegid ei galon ddu, a'i throion chweryon chwith; ond wrth edrych yn mlaen, mae er hyny yn gobeithio cyrhaedd y wlad; a'i sail am hyny yw'r cariad a bery byth.

Cymerwn olwg yn nesaf ar yr hen bennill hwn—

“Rwy'n gweled bob dydd,
 Mai gwerthfawr yw ffydd,
 Pan elwy' i borth angu fy angor a fydd:
 Mwy gwerthfawr im' yw
 Na chyfoeth Periw;
 Mor ddiogel i'm cynnal ddydd dial ein Duw.”

Beth allasai fod gan neb yn erbyn y pennill hwn? Mae yn eglur y dylid ystyried y geiriau “Mor ddiogel,” nid fel cynhariaeth, ond fel amlygiad o ryfeddod neu lawenydd. A oes rhywbeth ansgrythyrol mewn dywedyd fod ffydd yn cynnal yr enaid? Ond fel y canlyn y cenir yn gyffredin yn y Gogledd:—

“Ei gwrthdrych a'm cynnal ddydd dial ein Duw.”

Nid yn unig y mae y cyfnewidiad hwn yn afreidiol; ond y mae yn tori y llinyn sydd yn rhedeg trwy yr holl linellau, ag sydd yn eu cydio wrth eu gilydd. Y mae yn taflu meddwl yr addolydd o'i le; ac yn cael yr un effaith arno a phe dywedid wrtho ar ganol canu, “Mae yn wir fod ffydd yn angor, ond gwylia rhag tybied mai ffydd a'th gynnal.” Ac fel hyn y mae ysbryd addoli yn cael ei gollu, a beirniadaeth geurus yn dyfod yn ei le. Yn nghasgliad Mr. Morris Davies mae y llinellau hyn fel y dylent fod.

Dyma bennill arall nad oes achos na modd ei wella:—

“Boed dyoddefiadau pur y Groes
 I laesu 'm cur a'm gwae;
 Gruddfanau dyfion angu loes,
 I'm rhoddi i lawenhau.”

Ond fel y canlyn y clywir y ddwy linell gyntaf yn gyffredin:—

“Boed dyoddefiadau pur y Groes,
 Fel olew i'm iachau.”

Cymhellir ni i ofyn yn gyntaf, Pa raid oedd i *geisio* newid y pennill hwn? Paham na chawsai lonydd i fyw mewn heddwch? Beth allasai

gynhyrfu neb i dori un o'i aelodau ymaith mor ddidrugaredd? Mae yn wir nad yw "gwae" a "lawenhau" ddim yn odliad perffaith; ond arferir rhai cyffelyb gan y beirdd manylaf, oddieithr pan rwymant eu hunain â llyffetheiriau y mesurau caethion. Fe allai mai nid gwrthwynebiad i'r hen bennill a barodd iddynt eu newid, yn gymaint ag ysa aflywodraethus i wneyd prawf o'u medrusrwydd eu hunain. Os oedd y llinell wreiddiol yn dda, nis gallent hwy gredu na fedrent hwy gyfansoddi ei gwell. Ond gadewch i ni edrych a yw y llinell newydd yn well mewn gwirionedd. Gwelir fod y bardd wedi bwriadu cyferbyniad bywiog rhwng y llinell gyntaf a'r ail, ac yn yr un modd rhwng y drydedd a'r bedwaredd. Sylwedd ei weddi ydyw, ar fod dyoddefiadau y Groes yn llaesu ei ddyoddefiadau ef, a gruddfanau angeu loes yn symud ei ruddfanau ef. Er maint yw y cur a'r gwae y mae efe ei hun ynddynt, y mae yn gwybod y llaesid y cwbl yn y fan pe cai olwg ffyddiog ar y cur a'r gwae yr aeth Crist trwyddynt. Ond y mae y cyferbyniad hwn wedi diflanu o'r golwg yn y cyfnewidiad; ac y mae yn ymddangos i ni fod hyn yn goll dirfawr. Dilynir y dull newydd yn y casgliad a wnaed gan y Methodistiaid yn y Deheudir.

Yn nghasgliad y Deheudir nid oes llawer o gyfnewidiadau yn cyffwrdd âg *ystyr* yr hen emynau; ac yn y rhai hyny gan mwyaf nid yw y gwahaniaeth yn fawr. Ond i'r graddau y mae yr ystyr wedi ei newid, mor bell a hyny mae yr emynau yn y cyffredin wedi eu gwaethygu ganddynt hwythau. Heblaw yr un a nodwyd uchod, cymerer yr anghraifft a ganlyn:—

"Plana'r egwyddorion hyny
 Yn fy enaid bob yr un,
 Ag sydd megys peraroglau
 Yn dy natur di dy hun;
 Blodau hyfryd,
 Fo'n dysgleirio da'r a ne'."

Yn lle "dysgleirio" y maent hwy yn darllen "aroglu." Gall hwn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn wir welliant: ond erbyn craffu, mae yn amlwg fod y meddylddrych gwreiddiol yn gryfach ac yn fwy barddonol. Ar ganol ysgrifenu y pwt hwn o draethawd yn mis hyfrydawl Mai, nid rhaid i ni ond myned allan i'r maesydd i gael profion digonol fod y blodau yn taenu *dysgleirdeb* dros yr holl greadigaeth. Yr oedd yr hen Williams yn meddu llygad i weled anian, a glewder hefyd i gydfyned âg anian.

Gwelir ein bod wedi dewis y casgliadau yn y rhai y gwnaed lleiaf o gyfnewidiadau. Buasai yn hawdd iawn i ni gael lliaws o anghreiffitiau gwaeth mewn casgliadau eraill; ond buasai ein gwaith yn ceisio profi gwrthuni y rhai hyny yn ddirmyg ar synwyr ein darlennyddion. Ein dyben oedd dangos nas gellir newid cymaint a'r *mymryn lleiaf* o feddwl bardd heb fod mewn perygl o wneyd mwy o ddrwg nag o dda. O ganlyniad cymerasom yr anghreiffitiau oedd yn fwyaf tebyg i ddiwygiadau. Dyledus hefyd yw hysbysu yn y modd mwyaf eglur nad ydym mewn un gradd yn beio awdwyr y Casgliadau diweddaf a gyhoeddwyd yn y Gogledd. Yr oedd yr hafog wedi ei wneyd ar yr hen Hymnau cyn eu geni hwy. Yr oedd y wlad wedi cynnefino â'r hen bennillion yn eu hagwedd ddirywiedig; a'r unig gyfnewidiad a wnaethant hwy oedd eu hadferu mor agos i'w dull cyntefig ag y medrent farnu fod yn ddoeth ac yn ddichonadwy. Gwnawd gwelliant dirfawr gan Mr. Morris Davies i ddechreu: ac aeth Mr. Roger Edwards yn mlaen drachefn yn yr un cyfeiriad. Y mae ein cyfeillion yn Liverpool, yn eu Casgliad hwy, wedi dychwelyd ar unwaith at yr argraffiadau cyntefig, ac wedi ysgubo ymaith bob rhith o gyfnewidiad. Os yw y rheol a osodasant hwy iddynt eu hunain yn rhy gaeth, mae yn rhaid addef eu bod yn cyfeiliorni i'r ochr fwyaf diberygl. O'n rhan ein hunain, fel y dywedasant yn barod, nid ydym yn teimlo awydd cryf i gollfarnu pob amcan i wneyd yr iaith yn burach a destlusach. Nid yw yr hen argraffiadau cyntaf a gyhoeddwyd yn y Deheudir yn hollol unfurf, fel y gwelir wrth gymharu yr anghreiffitiau canlynol o ddau o honynt:—

"Rho i mi weld mai ti yw'm Hedd,
A llwyr ddifyrru ar dy Wedd;
A chym'ryd Gair dy Enau gid,
Yn unig blesser yn y Byd

Gad i mi gael dy Ysbryd cun,
Yr hwn sydd ynnot ti dy Hun;
Fel byddo dy holl gyfraith lym,
Yn felus ac yn hyfryd im'.

'Does le mi wela i rannu Mryd,
Un amser rhyngot ti a'r byd;
Cariadau eraill 'thalent ddim,
Dy hun cai fod yn briod im'.

Datguddia i'r annuwiol ryw,
Na feddai i gyfaill ond fy Nuw;
O c'od fi o'r Pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan.

Rho i mi wel'd mai ti yw'm hedd,
A llwyr ddifyrru ar dy wedd;
A chym'ryd d'eiriau gwerthfawr drud,
Yn unig bleser yn y byd.

Gad i mi gael dy Ysbryd pur
Yn gyfaill yn yr anial dir;
Fel byddo dy holl gyfraith lym,
Yn felus ac yn hyfryd im'.

'Does le, mi wela, i rannu mryd,
Un amser rhyngot ti a'r byd;
Cariadau eraill aeth yn ddim,
Dy hun cai fod yn briod im'.

O cod fi o'r pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan;
A dangos i'r annuwiol ryw,
Na fedda i gyfaill ond fy Nuw."

Cymerwyd y golofn gyntaf o hen argraffiad a gyhoeddwyd gan Williams ei hun; a'r ail o'r argraffiad cyflawn o'r holl Hymnau, a gyhoeddwyd gan ei fab, y Parch. John Williams, yn y flwyddyn 1811. Yn yr argraffiad olaf hwn y mae ychydig wallau wedi diane mewn rhai manau; er hyny, diammheu mai hwn a ddylai fod yn safon i ni, gan fod Mr. John Williams yn ofalus i roddi yr holl Hymnau fel y gadawsid hwy gan ei dad. Ac nis gwyddom pa fodd i derfynu ein sylwadau yn well na thrwy ddyfynu ei eiriau ef yn y rhagymadrodd. "Ar ddeisi-ffiad amrywiol o gyfeillion crefyddol, ac ar ddymuniad Assosiassiwn y Methodistiaid Calffinaidd, cynnulleidig yn y Ddeudir, mi a anturiais gymeryd y gorchwyl mewn llaw o osod allan mewn argraffiad newydd, yr holl Hymnau o waith fy nhad, y diweddar Barchedig W. Williams, o Bantycelyn, y rhai a gyfansoddodd efe yn yr iaith Gymraeg. Y mae llawer o honynt o bryd i bryd, er mwyn masnach neu elw, mae'n debygol, wedi eu mabwysiadu gan eraill, a llawer hefyd wedi eu priodoli ganddynt i'r dyben o gluro, neu guddio eu cymmysgedd eu hunain. Y mae cymmaint o honynt, gan rai Calffiniaid ac Arminiaid (pa rai na wyddent ddim am natur Barddoniaeth), wedi eu cyfnewid, eu anharddu, eu cylchdroi, a'u dirdynu, fel ag nas gall yr oes nesaf ddeall pa un yw gwaith priodol yr awdwr, neu y cyn-ysgrifen. Ac am eu bod wedi eu hanffurfio a'u hanferthu o ran Prydyddiaeth, gan amryw hurtun penglogaidd ac anneallus yn mhlith y Calffinistiaid, ac wedi eu gŵyrdroi i gyhoeddi athrawiaeth llwyr groes gan rai Arminiaid, mi a benderfynais i brintio'r holl Hymnau a gyfansoddodd yr awdwr, fel ag y cyhoeddodd efe hwynt ei hun, mewn amrywiol ddull, ac ar amrywiol amserau; dan obeithio a thaer ymbil ar i'r Arglwydd i'w bendithio eto i filoedd, fel y gwnaeth yn mlaen llaw."

OLYSGRIFEN.—Y mae anghraifft arall o "gyfnewidiad" wedi dyfod i'r golwg yn ddiweddar. Ymddengyŋ fod dau gyfieithiad o emyn Cowper wedi eu cyhoeddi, y rhai ydynt yn dygwydd bod yn hynod o debygi'w gilydd. Rhag i neb feddwl fod ysgrifenydd y sylwadau hyn yn "gyfnewidiwr hymnau" ei hun wedi'r cwbl, dymuna hysbysu fod ei gyfieithiad ef wedi ymddangos yn y "Drysorfa" er's tua deng-mlynedd-ar-hugain yn ol, ac iddo ofalu dywedyd mai cyfieithiad ydoedd o Cowper.

“YR ATHRAWES O DDIFRIF.”*

MEGYS mai trugareddau cyffredin Rhagluniaeth yw y rhai mwyaf anhebgorol, felly, er cymaint o awydd a ddangosir yn yr oes hon i ymgyrhaedd at rywbeth gwreiddiol, efallai wedi'r cwbl, mai y gwirioneddau mwyaf agos atom, y rhai sydd mor amlwg i bawb fel mai prin yr ystyrid hwy gan lawer yn werth eu cofnodi, yw y rhai mwyaf pwysig ynddynt eu hunain, a'r rhai sydd yn cael yr effaith ddyfnaf ar y meddwl. Dyma y gwirioneddau sydd mor anghenrheidiol i ddyn fel gwrthdrysychau ei fyfyrdod ag yw yr awyr bur er cynnaluaeth ei gorff: ac, fel yr elfen hono mewn natur, y maent yn cyrhaeddyd at bawb na fyddont yn claddu eu hunain o'u gwirfodd mewn gorchwylion daearol. Y mae hyn i'w weled wrth ymddyddan â gwahanol ddsbarthiadau o wrandawyr o barth y pregethau a draddodir yn eu clywedigaeth; oblegid er y gall rhai fod yn fwyaf parod i ganmawl rhyw olygiad newydd, neu ryw ddywediad barddonol, er hyny os gofynir i'r gwrandawyr cyffredin pa air sydd wedi aros fwyaf yn eu myfyrdod, ac wedi gadael yr argraff ddyfnaf ar eu teimlad, ond odid na cheir ei fod yn hen wirionedd cyffredin. Wrth ddywedyd hyn ni amcenir am ddadlennu o blaid segurddod a diffrwythdra: oblegid nid heb lafur y gellir cadw hen wirioneddau o hyd yn newydd, mwy nag y gellir cadw yr awyr o'n hamgylch yn bur i anadlu ynddi heb ofal gwastadol; ac nid oes dim yn fwy anhawdd na dangos pwysigrwydd yr hyn sydd amlwg, a thynnu sylw at yr hyn sydd o'r blaen yn berffaith hysbys.

Un o'r gwirioneddau cyffredin hyn yw cyflymdra amser, a breuolder oes dyn. Nid oes yma ddim newydd; ac y mae yn anhawdd dyweyd dim arno nad yw wedi ei ddyweyd o'r blaen gan drigolion y cyfyd. Yr ydym wedi cynnefino ag ef i'r fath raddau fel yr ydym yn gadael iddo fyned heibio heb edrych arno: ac er hyny, y mae yn un o'r ystyriaethau mwyaf difrifol a all fod; a phe caffai ein sylw arosol yn ei sylmwrwydd noeth, nid fel delw yn unig i grogi arni wisg addurniadol,

* RHAGDRAETH i “Hanes Mrs. Edmunds, Bangor.”

ond fel gwirionedd yn meddu bywyd a nerth, byddai yn sicr o gynnyrchu effeithiau daionus yn ein meddyliau. Pa beth bynag sydd ammheus, dyma un peth nas gellir ei wadu; a pha beth bynag sydd amherthynasol, dyma un peth sydd yn dwyn eysylltiad agos â phawb o honom, ger bron yr hwn y mae holl oesoedd y byd wedi gorfod ymstwnng, ac yn teimlo eu hunain yn ei afael yn fwy diddym na dail y coed pan ddygir hwy ymaith gan y llifeiriant. Y mae dynion erbyn hyn bron meddwl fod holl ddeddfau natur dan eu hawdurdod, ac y gallant gymeryd awenau y greadigaeth i'w dwylaw eu hunain; ac eto nid oes neb o honynt wedi llwyddo i arafu rhediad amser am un fynydd, nac i attal eu hunain rhag cael eu cario ymaith ganddo. Ymaith i rywle: ond i ba le? dyna y gofyniad mawr. Pa le y mae ein hen gyfeillion, y rhai fu yn cyd-deithio â ni trwy ran o'r anialwch? Collasom rai o honynt yma, a rhai acw, ac yn awr pa le y maent? Ni fu dynion serchocach na rhai o honynt erioed yn rhodio y ddaear; ni fu calonau mwy didwyll erioed yn neb o hil Adda; ac a ydynt yn awr wedi darford bod? Nac ydynt: y mae rheswm ac ysgrythyr yn dyweyd, Nac ydynt. Yn awr y maent yn dechreu deall pa beth yw bywyd. Y maent yn bod eto mewn gwlad nas gallant fyth ddymuno ei gwell. Ond yma, gan eu cyfeillion a adawsant ar ol, nid oes bellach ond y cof am danynt; ac y mae y cof hwnw yn cael ei guddio o'r golwg yn raddol gan lwech y byd. Mae yr hyn a ddarllenir am ddinasoedd mawrion, megys Ninife a Babilon, yn cymeryd lle o hyd yn hanes pob dyn yn bersonol. Pwy all ddyweyd y nifer o ddywediadau difyr, o ymddygiadau caredig, ac o edrychiadau serchoglawn, sydd wedi eu claddu yn ei gof? Ond nid ydynt wedi eu difodi er eu bod wedi eu claddu; ac wrth gloddio ychydig i'r amser a aeth heibio, y mae rhai o honynt yn dyfod i'r golwg bob dydd, darn o golofn yma, a rhyw gerfiad gwych draw: ac odid nad oes gan bob dyn amgueddfa fechan yn rhyw gongl i'w galon, lle y mae yn trysori yr adgofion mwyaf gwerthfawr yn ofalus, gan ymweled â hwy yn fynych, a chymdeithasu trwyddynt â rhai sydd yn awr yn ysbrydoedd wedi eu perffeithio.

Daeth yr ystyriaethau hyn i fy meddwl gyda grym adnewyddol pan ofynwyd i mi ysgrifenu ychydig sylwadau fel Rhagdraeth i'r Cofiant sydd yn canlyn. Y mae ychwaneg o rai blynyddoedd na'r bedwaredd ran o ganrif er pan ddaethum yn gydnabyddus â Mrs. Edmunds, y pryd hwnw Miss Jones, Caerfyrddin. Trefnodd Rhagluniaeth i mi dreulio blwyddyn yr amser hwnw yn nhy Mr. Lloyd, Pentowyn, gerllaw

Meudrim, yn y sir hono; ac am ysbaid wedi hyny bum yn llafurio fel cenadwr cartrefol mewn tref fechan Seisnigaidd yn yr un sir, o'r enw Lacharn; lle nad yw yn enwog hyd y gwn i am ddim, oddieithr mai yno y bu fyw Mrs. Bevan, yr hon a wnaeth gymaint o les trwy sefydlu ysgolion dyddiol yn holl siroedd Cymru, mewn cydweithrediad â'r Parch. Griffith Jones, Llanddowror; ac mai yno hefyd y cododd James Williams, y cenadwr ffyddlawn yn Llydaw; ac mai gerllaw yno y ganwyd Peter Williams, a'r ddau Charles. Dyddiau dedwydd oedd y rhai hyny, yn enwedig pan fyddai James Williams a minnau yn cydgerdded o Lacharn i Pentowyn, i ymweled â Mr. Lloyd, neu pan fyddai yr hen bererinion hawddgar John Morgan o Meudrim, neu Samuel Anthony o Gydweli, yn talu ymweliad â ni yn Lacharn. Nid oeddwn y pryd hwnw ond bachgenyn dibrofiad a diwybod: er hyny yr oedd ynof ryw syched anniwall am wybodaeth, yr hyn oedd yn tueddu amryw frodyr duwiol, hen ac ieuaine, i edrych arnaf gyda mesur mawr o ddrwgdybiaeth. Ond nid am danynt hwy, nac am danaf fy hun, yr oeddwn yn bwriadu son; ond am y rhai oedd yn mysg Methodistiaid y cyfnod hwnw yn bleidgar i addysg, ac yn garedig i bregethwyr ieuaine ymofyngar am wybodaeth, pa mor ddifedr bynag y gallai y cyfryw bregethwyr ymddangos. Ychydig y mae pobl mewn oed yn ei feddwl fel y mae eu geiriau yn effeithio ar yr ieuaine, fel y mae un ymadrodd tirion yn byw yn y cof pan fyddont hwy eu hunain wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Y mae dynion hynaws i'w cael, a rhai yn hynod felly, yn mhob gwlad: o'r hyn lleiaf dyna fel y mae profiad wedi fy nysgu i feddwl am ddynolryw. Ond yr un y derbyniais fwyaf o garedigrwydd oddiwrtho yn Sir Gaerfyrddin oedd y rhagddywededig Mr. Lloyd; a fy nyben penaf yn cyfeirio at hyn ydyw, er mwyn cael cyfle i wneyd coffa parchus am un o rai rhagorol y ddaear. Ni fu erioed gyfaill mwy cywir, na christion mwy dirodres a diragrith. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf doniol, a mwyaf siriol, mewn ymddyddan, ac ar yr un pryd yn un o'r rhai mwyaf rhydd oddiwrth bob ymgais i ddyrchafu ei hun trwy ddarostwng eraill. Yr oedd yn ddiwygiwr trwyadl, nid mewn gair yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd; a'i arwyddair bob amser oedd “Ymlaen.” Bu yn ddiakon am liaws o flynyddoedd yn Meudrim; ac ni fu neb yn fwy ffyddlawn gydag achos Crist yn ei holl ganghenau.

Yn nesaf ato ef, galleid enwi dau neu dri o frodyr eraill yn yr un sir; ac yn eu plith mae yn hyfrydwch genyf gael achlysur i wneyd crybwylliad am Dad yr “Athrawes o Ddifrif,” yr hon y ceir hanes ei

bywyd yn y tudalenau a ganlyn. Yr oedd Mr. Jones mewn rhai pethau yn gwahaniaethu cymaint ag oedd bosibl oddiwrth Mr. Lloyd : ac eto yr oedd ganddo yntau ei ragoriaethau. Dyn hynaws, tawel ydoedd : ni chlywid ei lef yn yr heol : ond yr oedd ei ddylanwad dystaw yn llanw pob lle y dygwyddai fod ynddo, ac yn cyrhaedd at bawb o fewn cylech yr eglwys y perthynai iddi. Dirgelwch hynod ydyw hwn, y gallu mawr sydd gan rai dynion dystaw. Er hyny nid mewn dystawrwydd ynddo ei hun y mae gallu : ond yn yr argraff fod yno egwyddor uchel a synwyr cryf yn rhywle o'r golwg. Felly am dano yntau ; ni fuasai yn cael y lle oedd iddo yn moddyliau pawb a'i hadwaenent oni b'ai eu bod yn argyhoeddedig ei fod yn ddyn cyflawn, ac yn grefyddwr cywir. Yr oedd pwysau yn ei gymeriad, yr hyn nis gellir ei ddyweyd am bawb sydd ar ryw gyfrifon yn ddynion mawr. Y maent, efallai, yn fawr mewn gwybodaeth, neu mewn parodrwydd i siarad : ond y maent er hyny yn ysgeifn ; ac o ganlyniad nid oes ond ychydig o argraff yn dilyn yr hyn a ddywedant. Nid yw eu mawredd, wedi'r cwbl, ond mawredd mwg, yn codi yn golofn i entrych awyr, ond yn cael ei chwalu yn fuan gan y gwynt. Pell iawn oedd efe oddiwrth fod yn debyg i hyn. Yr oedd yn ddyn gwybodus ; ond yr oedd eraill yn yr un dref yn fwy gwybodus. Yr oedd yn ddyn doniol ; ac os yw yn addas son am ddawn gweddi, yr oedd efe yn meddu y ddawn hono i raddau mwy na'r cyffredin ; ond yr oedd eraill mor ddoniol ag yntau, ac yn fwy hyawdl i draethu eu syniadau ar bob achlysur. Ac eto nid oedd un dyn anghyhoedd yn cael gwrandawriad mwy parchus oddiwrth bawb ; a diammheu fod hyn yn tarddu yn benaf oddiwrth bwysau ei gymeriad.

Yr oedd ef mewn modd arbenig yn byw yn grefyddol gartref, ac yn gofalu am ddwyn ei blant i fynu yn ofn yr Arglwydd ; ac nis gellir olrhain yr achosion o ffyddlondeb a defnyddioldeb yr "Athrawes o ddifrif," heb gymeryd golwg ar yr addysg foreuol, a'r amgylechiadau teuluaid, a fu yn foddion i ffurfio nodweddiad ei bywyd. Yr oedd hi yn cadw gorehymyn ei thad, ac nid ymadawodd â chyfraith ei mam ; ac o'r ffynnonell hon yr oedd ei gweithgarwch a'i llwyddiant yn tarddu. Ar agwedd y teulu yn yr hwn y dygir un i fynu, yn fwy nag ar ddim arall, y mae gweddill yr oes yn ymddibynu ; oddi yma y mae da a drwg y byd i fesur mawr yn tarddu : a'r diwygiad mwyaf effeithiol yn mhob gwlad fyddai diwygiad teuluaid. Yn nghanol yr holl ymdrech i sefydlu ysgolion cyhoeddus, yr hyn yw un o arwyddion mwyaf gobeithiol y dyddiau yr ydym yn byw ynddynt, dichon fod perygl rhag i ni golli

golwg ar bwysfawrogrwydd yr addysg deuluaidd: ac er mor anghenrheidiol yw dyfalwch i ddilyn cyfarfodydd crefyddol, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros esgeuluso crefydd gartref. Yn y teulu y mae dysgu geir-wiredd; yn y teulu y mae dysgu gonestrwydd; yn y teulu y mae dysgu diwydrwydd; yn y teulu y mae dysgu glanweithdra; yn y teulu y mae gwreiddio y bobl ieuaine mewn egwyddorion crefyddol. Y mae rhai yn tybied mai un achos o'r gwahaniaeth moesol sydd rhwng y wlad hon ag amryw o wledydd y Cyfandir ydyw, fod yr hinsawdd yn Mhrydain yn gorfodi y preswylwyr i dreulio yr amser yn eu cartrefi, pan na fyddont gyda'n gorchwylion, yr hyn sydd yn peri iddynt roddi pris ar, ac amcanu at, wir gysur teuluaidd, neu fel dywed y Saeson, *comfort*, yr hwn air nis gellir ei gyfieithu i ieithoedd y Cyfandir, tra y maent hwy, gan degwch yr hin, yn cael eu denu allan yn barhaus, yr hyn mewn amser sydd yn effeithio ar eu cymeriad i'w gwneyd yn bobl ansefydlog ac anfoesol. Fel hyn y mae achosion bychain mewn ymddangosiad yn cynnyrchu effeithiau mawrion. Ac os yw yr Ysgotiaid, fel y myn llawer i ni gredu, ac fel y mae yn debyg eu bod ar rai ystyriaethau, yn rhagori ar y lleill o drigolion y deyrnas hon, y mae yn anhawdd gweled pa gyfrif i'w roddi am hyny, heblaw eu parch neillduol i'r Sabboth, a'r hen arfer dda sydd yn ffynnu yn eu plith o dreulio hwyr y dydd hwnw gartref, pob teulu wrtho ei hun, i ymddyddan am y pregethau, ac i holi eu gilydd yn nghatecism y Gymanfa, gan ddiweddu y cwbl trwy gyd-ddarllen rhan o air Duw, a chydganu, a chydweddio. Hwyrach mai annoeth fyddai ceisio myned mor bell â hyn yn Nghymru; oblegid nid mewn un dydd y mae newid arfer gwlad; a phe diddymid cyfarfodydd crefyddol cyhoeddus ar nos Sabbothau yn ein mysg ni, y mae lle i ofni y treulid yr oriau hyny gan liaws o'n gwrandawyr mewn dull gwaeth nae anfuddiol. Ond ar yr un pryd y mae genym achos i ystyried ai nid yw crefydd y capel i raddau gormodol yn llyneu crefydd y teulu, fel y mae y llywodraeth gyffredinol mewn rhai ymerodraethau yn trawsfeddiannu pob awdurdod iddi ei hun. Nid dyben llywodraeth wladol ddylai fod i ormesu ar feddiannau a hawliau teuluoedd; ond yn hytrach i'w hamddiffyn: ac felly y mae crefydd gyhoeddus yn achlysuero effeithiau annymunol, os yw yn rhwystro crefydd deuluaidd, yn lle ei meithrin a'i chryfhau. Y canlyniad yn y naill amgylchiad fel y llall fydd fod pob grym ac egni meddwl yn darfod, a'r bobl o'r diwedd yn myned i ddysgwyl wrth eu llywodraethwyr i wneuthur drostynt yr hyn a ddylent hwy ei wneuthur drostynt eu hunain.

A oes sail i gredu fod egwyddorion yr oruchwyliaeth batriarchaidd rioed wedi ei diddymu? Y mae hyn yn dra ammhëns : oblegid nid yw Duw yn arfer dinystrio yr egwyddorion y mae efe ei hun wedi eu planu ; ond yn hytrach eu dwyn yn raddol trwy wahanol oruchwyliaethau i berffeithrwydd ; "Yn gyntaf yr eginyn, ar ol hyny y dywysen, yna yr yd yn llawn yn y dywysen." Pa fodd bynag, y mae yn sicr fod yr un awdurdod yn perthyn i rieni yn yr oes hon ac yn yr oes batriarchaidd ; ac y dylai pob penteulu fod yn frenin yn ei deulu. Nid oes gan un ymerawdwr awdurdod mor gyflawn ar ei ddeiliaid ag sydd gan rieni ar eu plant. Y mae pob tad a mam, hyd yn nod y rhai tlotaf a'r rhai mwyaf anwybodus, yn frenin a brenines yn eu teulu trwy hawl ddwyfol. Ond i'r dyben o lenwi y swydd hon yn iawn, y mae yn anghenrheidiol i bob penteulu fod hefyd yn brophwyd. Nid yw hyn yn cynnwys mai trwy ddysgu yn unig y mae iddo lywodraethu ; oblegid y mae y plant i ufuddhau am fod y tad neu y fam yn gorchymyn ; er iddynt ar y pryd fod yn analluog i weled y rheswm am hyny. Ond y mae o'r pwys mwyaf i'r rhieni gofio fod y llywodraeth hon wedi ei hymddiried iddynt er mwyn lles y plant, ac er mwyn eu dwyn i fynu i fod yn lles i eraill. Ond nid hyn ychwaith yw y cwbl : oblegid y mae Un anfeidrol uwch na'r tad a'r fam yn bod, yr hwn sydd yn gofyn teyrnged feunyddiol o addoliad oddiwrthynt : ac am hyny dylai allor fod yn mhob teulu ; ac y mae y penteulu i fod yn offeiriad i gyflwyno diolchgarwch a deisyfiadau i Dduw ar ran y teulu.

Y mae rhai cannoedd o deuluoedd yn ateb i'r disgrifiad hwn wedi bod, ac yn bod y dyddiau hyn, yn Nghymru ; ac un o honynt oedd y teulu yr ydym yn awr yn son am dano. Yr oedd y tad a'r fam o gyffelyb feddwl, yn ymdrechgar i feithrin eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd ; a gellir dyweyd am danynt, fel y dywedir am Zacharias ac Elizabeth, "Yr oeddynt ill dau yn gyfiawn gerbron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd, yn ddiargyhoedd." Yr oedd yn hawdd gweled mai crefydd oedd prif bwnc eu bywyd. Yr oeddynt, fel y byddai fy nghyfaill doniol a duwiol, y diweddar Lewis Jones, yn mynych annog aelodau eglwysig, yn byw i grefydd, ac nid yn crefydd wrth fyw. Ond nid oeddynt yn cymeryd trafferth i ddangos eu crefyddolrwydd, yr hyn sydd yn fwy adgas na dim ; oblegid y mae yn fwy hyfryd cymdeithasu â phublicanod a phechaduriaid nag â Phariseaid. Nid oedd neb yn cael lle i ddywedyd yn ei feddwl wrth ymddyddan â hwynt, "Y mae y rhai hyn yn awr yn rhagrithio ; y maent yn dangos eu hunain y peth nid ydynt ; y mae eu profes

yn anghyson â'u gweithredoedd.” Nid rhyfedd, gan hyny, fod ganddynt ddylanwad mawr yn y teulu: oblegid y mae plant yn alluog, a hyny yn foreuach nag y meddylid, i barchu cysondeb a diragrithrwydd yn mywyd eu rhieni; ac o'r ochr arall, nid oes dim yn dirymu llywodraeth deuluaid yn fwy na'r cyfryw anghysondeb yn y penteulu ag a baro i'r plant feddwl ei fod yn Pharisead diegwyddor. Y mae parch i rieni yn flodeuyn o natur mor anorchfygol yn meddyliau eu plant, fe y gall fyw mewn llawer math o hinsawdd: ond y mae un hinsawdd y. ei ladd, a hwnw ydyw Phariseaeth. Gall fyw a thyfu yn iachus ac yn gryf er fod y rhieni yn dlodion, neu yn fethiantus, ac er iddynt fod yn dra diffygiol mewn gwybodaeth a synwyr: ond y mae yn anhawdd iawn parchu y dyn hwnw na'i grefydd, yr hwn y mae ei fywyd yn peri i'w deulu feddwl o anghenrheidrwydd ei fod yn ddyn twyllodrus. Ni ddygwyddodd y brofedigaeth hon, na dim yn debyg, i ran Mrs. Edmunds; oblegid cafodd ei dwyn i fynu dan ofal rhieni y rhai yr oedd yn hawdd i bawb eu parchu.

Yn y teulu caredig hwn yr oedd croesaw cynhes bob amser i weinidogion yr efengyl; ac i minnau yn eu plith, am fy mod, os caniateir i mi fenthyca yr ymadrodd arferedig, “yn rhyw enw o bregethwr.” Yn sicr, un o rinweddau penaf y Methodistiaid yw eu llettygarwch diragrith a dirodres, yr hwn sydd wedi ei feithrin ganddynt hwyrach yn fwy na chan un corff arall o bobl, fel canlyniad naturiol y drefn deithiol o bregethu: ac nid wyf yn gwybod fod neb yn ein plith yn dymuno i hyn gael ei golli; oblegid er fod rhai yn barnu yn gydwytodol y dylai pob eglwys fod dan ofal rhyw weinidog, y maent yn llawn mor awyddus i gynnal anrhydedd ac effeithiolrwydd y pregethu teithiol. Un o'r manteision cydfynedol â'r drefn hon yw y duedd sydd ynddi i gadw undeb a brawdgarwch rhyngom â'n gilydd, ac i ddylanwadu yn ddaionus ar deuluoedd. Pa bryd bynnag y galwai pregethwr yn nhŷ Mr. Jones, byddai y tad a'r fam yn ei dderbyn gyda gwên serchoglawn, a'r plant yn ymgasglu o'i amgylch i'w holi yn ddiarbed: a'r fath oedd hynawsedd a sirioldeb pawb fel y byddai y gŵr dŵeithr yn teimlo ei hun yn fuan megys yn un o'r teulu. Pwnc y rhieni yn benaf fyddai ansawdd crefydd yn y lle yr oedd y pregethwr yn cartrefu, neu mewn manau eraill lle yr oedd wedi bod yn ddiweddar: ond byddai holiadau y bobl ieuaine yn dwyn perthynas gan mwyaf â phersonau, yn enwedig y personau hyny a gyfrifid ganddynt hwy yn fawr fel pregethwyr: ond nid â phersonau yn unig; gan y byddai ganddynt yn fynych ryw fater

dyrys dan sylw, yr hwn oedd wedi bod yn destun ymdrafodaeth yn yr Ysgol Sabbothol, neu ryw ddarn anhawdd yn ngwaith rhyw awdur, yn Gymraeg neu yn Saesoneg.

Yr oedd Mrs. Edmunds o'i hieuenetid yn hoff o ddarllen: ac nid rhyw gyfansoddiadau gwagsaw a ddarllenid ganddi, ond llyfrau sylweddol, y rhai oedd yn tueddu i oleuo y deall ac i buro y galon. Dichon ei bod yn rhagori ar y cyffredin mewn cynneddfau naturiol: ond yr achos penaf o'i llwyddiant oedd ei diwydrwydd a'i dyfal-barhad. Gorchwyl anfuddiol fyddai holi i ba raddau yr oedd hi, o ran cyfansoddiad ei meddwl, yn cyfranogi o'r athrylith wreiddiol oedd yn y wraig ryfedd hono, Anne Griffiths; neu o'r teimlad seraffaidd oedd yn y ferch ieuanc hynod hono, yr hon sydd yn adnabyddus trwy Gymru, ac a fydd felly, dan yr enw, "Fy Chwaer." Ni fuasent hwy yn dyfod i feddiant o'r lle uchel oeddynt wedi ei gyrhaedd, oddieithr trwy lafur: ac felly daeth hithau yn deilwng o gael ei rhestru yn yr un dosbarth trwy ddarllen y llyfrau goreu, a myfyrio arnynt; ac uwchlaw'r cwbl, trwy gymdeithasu â Duw yn ei air. Yr oedd ganddi feddwl penderfynol i fyned yn mlaen trwy rwystrau, yr hyn a'i galluogodd i ddefnyddio pob cyfleusdra i ymofyn am wybodaeth, a'r hyn hefyd a'i cadwodd rhag ymollwng i lwfrdra gormodol pan ddaeth cyfnewidiadau a siomedigaethau i'w chyfarfod. Yn ngwyneb troion digon adfydus, dangosodd ei bod wedi cael allan y gelfyddyd nefol i orchfygu amgylchiadau, yn lle cymeryd ei gorchfygu ganddynt. Ond gan fod ei hanes i'w gael yn gyflawn yn ei Chofiant, afreidiol fyddai gwneuthur crybwylliad pellach am dani yn y lle hwn. Ei gweithredoedd fel y dangosir hwy yn y tudalenau canlynol a ddangosant pa fath un ydoedd, yn well nag unrhyw eiriau a allaf fi eu defnyddio: a gobeithiaf y bydd darllen am danynt yn foddion i godi awydd mewn llawer o ferched Cymru am fod yn debyg iddi. Efallai, gan hyny, mai y peth goreu a ellid ei wneuthur yma fyddai cymeryd yr achlysur presennol i gynnwng ychydig sylwadau cyffredinol ar rai o'r ffyrdd y dichon i ferched ieuainc fod yn ddefnyddiol fel hithau, yn nghyd a'r addysg fwyaf anghenrheidiol tuag at eu parotoi.

Pa beth yw yr achos fod cyn lleied nifer o ferched Cymru yn ymdrechu i gymhwyso eu hunain, fel y gwnaeth Mrs. Edmunds, i fod yn Athrawesau yn yr Ysgolion Brytanaidd? Ac nid yn yr Ysgolion Brytanaidd yn unig y gallent fod yn wasanaethgar; ond hefyd fel Athrawesau teuluaid, naill ai trwy gael lle mewn teuluoedd cyfrifol i addysgu y plant gartref, neu dderbyn plant i'w teuluoedd eu hunain.

Pa le y mae'r bai, na fyddai hyn yn fwy cyffredin? Nid ar ferched Cymru; oblegid pe gwelent ryw sail i gredu y byddai eu gwasanaeth yn dderbyniol, mae yn ddiau na fyddent yn ol o ateb i'r alwad: ond tra na fyddo neb yn galw, mae yn anhawdd iddynt hwythau ateb. Ond pa beth yw yr achos o hyn eto? Paham na fyddai lle iddynt, a galwad arnynt, i wneuthur eu hunain yn fwy defnyddiol fel Athrawesau? Y mae yn rhaid dyweyd y gwir, neu beidio dyweyd dim: a'r gwir ydyw, fod hyn yn tarddu i fesur helaeth o deimlad gwasaidd y Cymry. Yr ydym wedi myned i gredu nad oes dim yn rhinweddol nac yn glodfawr os na fydd wedi dyfod o ganol Lloegr: pan mewn gwirionedd nad oes dim yn ein gwneyd yn is na'r Saeson, oddieithr ein bod ni ein hunain yn credu ein bod yn is. Sonir llawer am yr anghenrheidrwydd o ddsygu Saesneg da, ac am bwysfawrogrwydd yr acen Seisnigaidd: ond o bawb sydd yn ceisio parablu Seisneg, nid oes neb yn siarad yn fwy angrammadegol, nac yn acenu yn fwy gwrthun, na'r bobl gyffredin yn Lloegr; a dywedir mai y rhai mwyaf anobeithiol o honynt oll yw y rhai sydd wedi eu geni a'u magu yn Llundain. Pan fyddwn ni, y Cymry, yn cyfarfod ag ambell Sais hanner-ddysgedig o un o drefi Lloegr, byddwn yn teimlo fod ein geiriau yn dyfod allan yn hynod Gymreigaidd mewn cymhariaeth i'r dull main a masw y bydd efe yn eu seinio; ond pan gawn gyfle i wrandaw ar y dynion uwchaf yn senedd Prydain, byddwn yn cael nad oes ond ychydig iawn o wahan-iaeth yn y pwnc hwn rhyngddynt hwy a ninnau. Y mae meibion a merched wedi eu dwyn i fynu mewn ysgolion da o'u mebyd yn siarad yn lled gyffelyb i'w gilydd yn Lloegr a Chymru; ond y mae gwahan-iaeth hanfodol rhyngddynt a'r Saeson annysgedig, neu hanner-ddysgedig. Ymaith gan hyny a'r hen dyb ffol am y fantais o anfon ein plant i Loegr, neu o gael Athrawon ac Athrawesau o Loegr i'w dysgu yn Nghymru.

Ond achos neillduol o'r diffyg cefnogaeth i Athrawesau yw golwg ry gyfyng ar addysg y rhyw fenywaidd. Y mae yn anghenrheidiol i ferched yn gystal a meibion wybod rhywbeth heblaw darllen ac ysgrifenu: a dylai fod darpariaeth yn mhob ysgol a fwriedir er lles y bobl i roddi addysg i'r merched yn ngorchwylion cyffredin y teulu. Pe cedwid y dyben hwn mewn golwg, byddai galwad am athrawes yn mhob un o'r Ysgolion Brytanaidd. Y mae y cynllun yn cynnwys o anghenrheidrwydd fod yr Athrawes ei hun yn fedrus mewn gwnïadwaith, mewn coginiaeth, ac yn mhob cangen arall o drafnidiaeth teuluaidd; ac hefyd

fod y plant yn cael aros dan ei gofal am fwy o amser nag y maent yn gyffredin. Er hyny y mae yn ammheius a ydyw hyn yn cyfarfod â holl angen y wlad; ac y mae lle i feddwl, pa mor effeithiol bynag y gwneir yr Ysgolion Brytanaidd, y bydd ysgolion o natur uwch yn anghenrheidiol. Yn ol y drefn bresennol, y mae ffermwyr a masnachwyr cyfrifol yn gorfod anfon y merched i *boarding schools* drudfawr, yr hyn sydd dda yn ei le priodol, sef i'r rhai sydd a modd ganddynt i fyw yn foneddigesau rhagllaw; ond yn effeithio yn ddrwg ar eraill yn fynych, gan ei fod yn eu hanaddasu i'r sefyllfa y mae Rhagluniaeth wedi eu gosod yuddi. Yn awr, oni fyddai yn ddymunol pe codid ysgolion yn Nghymru wedi eu bwriadu yn bennodol i ferched ffermwyr a masnachwyr, i'w haddysgu yn y pethau fydd yn fuddiol iddynt fel merched ffermwyr, ac fel merched masnachwyr? Cynnygir y gofyniad hwn i ystyriaeth; ond ni ddysgwylir iddo ddwyn ffrwyth am rai blynyddoedd, gan fod y Cymry mor hynod bwylllog yn eu symudiadau gyda phob achos, oddieithr iddo fod yn destun cymhwys i greu cynhyrriad mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ond y mae yr amser yn sier o ddyfod pan fydd merched ffermwyr a masnachwyr yn rhy gall i wastraffu eu hamser i ddysgu yr hyn ni wna iddynt ddim lles, pan ddenant i deimlo mai y pethau mwyaf cyffredin yw y pethau mwyaf pwysig, pan ddeallant fod cadw tŷ yn lanwaith a threfnus yn fwy o glod iddynt na medru chwarae y *piano*, neu gamseinio iaith y Ffrancod, a phan na fyddant yn foddllawn heb wybodaeth ymarferol yn mhob rhan o drafndiaeth teuluaid, a hono yn seiliedig ar wybodaeth egwyddorol. Y teulu, mae yn ddiâu, yw y lle goreu i gyrhaedd y wybodaeth hon yn ymarferol; ond er mwyn deall yr egwyddorion yn drwyadl, mae yn ymddangos fod angen am ysgolion pennodol i'r perwyl. Nid yr ysgol heb y teulu; ac nid y teulu heb yr ysgol. A'm dymuniad ar ran fy ngwlad ydyw, ar fod ei theuluoedd a'i hysgolion yn eydweithredu yn hyn, ac yn mhob gorehwyl arall perthynol iddynt, fel y byddo ei merched i'w hadnabod am eu rhagoriaeth yn mhob rhinwedd a daioni.

GOETHE.*

Y MAE yn hysbys i'n darllenwyr ein bod yn ystyried Duwinyddiaeth fel y benaf o'r holl wybodaethau. Ond yr ydym yn teimlo hefyd na ddylai duwinyddion gan eu hunain i fynu, mewn ysbryd mynachaid, oddiwrth y byd sydd o'u hamgylch; oblegid y maent trwy hyny yn crebachu eu meddyliau, ac yn gwneyd eu hunain yn greaduriaid gweiniaid ac afiachus. Mae y dyn sydd yn cyfyngu ei holl fryd at un gangen o wybodaeth yn debyg i dir wedi ei gadw trwy'r blyneddau at yr unrhyw gnwd, nes y mae o'r diwedd yn colli ei ffrwythlonrwydd. Nid oes dim yn well i dir ac i ddyn na newid yr hâd, tra y gofelir na fyddo efrau ac ysgall yn cael eu hau yn gymysg â'r gwenith. Dylai y duwinydd fod yn gyfarwydd mewn modd arbenig yn hanes llenyddiaeth y byd, ac yn ngweithiau y prif awdwyr llenyddol, hen a diweddar. Un ran o lenyddiaeth yw barddoniaeth: ac at un o feirdd enwocaf yr oes hon yr ydym yn awr yn galw sylw y darlennydd. Cyfarfyddir yn fynych mewn llyfrau Seisnig âg enw Goethe.† Nid yw Carlyle yn ysgrifenu nemawr draethawd heb son am dano. Fe allai mai efe yw y bardd mwyaf a ymddangosodd er dyddiau Milton: o'r hyn lleiaf edrychir arno felly gan lawer yn y wlad hon, a chan y cyffredin o'r Almaenwyr. Naturiol, gan hyny, yw gofyn, Pwy oedd y bardd hwn? A pha beth a wnaed ganddo? Ni a geisiwn ateb y gofyniad; ac ymdrechwn fod mor fyr ag y byddo modd, gan nad oes ond ychydig o'r Cymry yn alluog i deimlo dyddordeb yn y rhan yma o'r maes llenyddol.

Mewn perthynas i'w fywyd a'i farwolaeth, digon yw dywedyd iddo gael ei eni yn Frankfort-on-the-Main yn y flwyddyn 1749. Bu yn fwy ffodus na'r beirdd yn gyffredin. Gwahoddwyd ef gan Dywysog Weimar i'r llys yn 1775, a gwnaed ef yn gyfrin-gynghorwr (*geheimrath*) yn 1779. O ran hyny, y mae yn well ar lenyddion yn mhob gwlad nag yn

* O'r "TRAETHODYDD" am 1851.

† Gall y Cymro ei alw yn Cyte. Ond nid oes un sain yn Gymraeg yn ateb yn hollol i ee, neu yn bytrach i ö yn yr Almaenaeg.

Mrydain. Y rhai a enwogasant eu hunain fel awdwyr sydd yn aml yn cyrhaedd y sefyllfaoedd uchaf ar y Cyfandir. Pa fodd bynag, cafodd Goethe y fraint o dreulio gweddill ei oes yn Weimar mewn llongyddwch ac anrhydedd. Ysgrifennodd liaws o lyfrau; a bu farw mewn oedran teg yn y flwyddyn 1832. Cyn, yn gystal ag ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd rhai ugeiniau o gyfrolau ar y Cyfandir i esbonio a chanmawl ei ysgrifeniadau. Y gwaith penaf o'i eiddo, a'r hwn sydd wedi ennill mwyaf o sylw, yw "*Faust*," yr hwn a gyhoeddwyd yn ddwy ran. Y mae rhoddi cip-golwg ar y rhan gyntaf, yr hon yw yr oreu o lawer, yn ddigon o orchwyl i ni yn yr ysgrif bresennol. Gwyddom nas medrwn wneuthur cyfiawnder â'r awdur, pe cyfieithem yr holl bryddest: ond wrth roddi ychydig ddarnau o honi, yr ydym yn teimlo ein hunain yn lled debyg i hwnw gynt oedd yn ceisio gwerthu ei dŷ trwy ddangos careg oedd wedi ei chymeryd o'r mur fel anghraifft o'r adeilad. Nid oes genym ond dymuno i'r darlennydd gadw hyn yn ei gof, fel na byddo iddo ffurfio barn am y cyfanwaith oddiwrth y rhanau anmherffaith a roddir ger ei fron.

Y mae hen draddodiad ddarfod i ysgolhaig enwog, o'r enw Dr. Faust, werthu ei hun i'r diafol yn nechreu y bymthegfed ganrif. Bu fyw yn dywysogaidd yn y canlyniad am ryw dymmor. Yr oedd holl elfenau natur yn ddarostyngedig iddo. Yr oedd yn gallu myned lle y mynai gyda'r cyflymdra mwyaf, heb gymhorth ager-gerbyd; a gwneuthur fel y mynai heb neb yn beiddio ei alw i gyfrif. Ond nid oedd yn nes i gyrhaedd hapusrwydd wedi hyny nâg o'r blaen: a thruenus, medd yr hanes, oedd ei ddiwedd; oblegid "drwg y ceidw y diawl ei was." Mae yn debyg nad oedd Faust ond myfyriwr diniweid; heb roddi achos cyfreithlawn i gael ei ddrwgdybied fel un yn dal cyfrinach â'r gwr drwg, mwy na'r hen offeiriaid yn Nghymru. Er hyny, mae yr hanes yn llawn addysgiadau; oblegid y mae yn ddesgrifiad o agwedd ac ymddygiad miloedd yn y dyddiau hyn; ond yn unig eu bod hwy yn gwerthu eu hunain am lawer llai na Faust. Ar y traddodiad hwn y mae Goethe wedi sylfaenu ei bryddest. Dangosir Faust fel yr ysgolhaig mwyaf yn ei oes, yr hwn, ar ol cyrhaedd enwogrwydd trwy ei ymchwiliadau, sydd yn teimlo nad yw ei holl wybodaeth ond arwyn-ebol, ac mai "gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl." Wedi gweled ei anallu i amgyffred natur pethau, y mae yn penderfynu boddi ei holl ofidiau mewn *gweithgarwch*. Pan y mae fel hyn wedi blino ar ei gyflwr annedwydd, ac yn hiraethu am allu i adael ei fyfyrddodau ar ol, ac i

drosglwyddo ei hun trwy y greadigaeth wrth ei ewyllys, mae y temtiwr yn dyfod ymlaen dan yr enw Mephistopheles. Y mae y desgrifiad a roddir o'r diafol gan Goethe yn dra gwahanol i'r hyn a gawn yn "Ngholl Gwynfa." Y mae Milton yn ei ddangos yn archangel, er ei fod yn archangel syrthiedig; ond yn nesgrifiad Goethe, nid yw ond enaf maleisus cyfrwysddrwg. Prif briodoledd y naill yw digofaint anghymodlawn yn erbyn Duw a dyn; a phrif briodoledd y llall yw ysbryd gwawdlyd. Os yw syniadau Carlyle yn gywir, y mae Satan, yn "Ngholl Gwynfa," yn arwr perffaith; oblegid y mae yn meddu galluoedd aruthrol, ac y mae hefyd o ddifrif. Ond yn Mephistopheles, nid oes y gweddillion lleiaf o fawredd yn ganfyddadwy. Nid oes ganddo ffydd mewn dim: y mae yn ddirmygus ei hun, a'i waith yw dirmygu pawb a phob peth arall. Y mae pob un o'r ddau fardd yn rhoddi delwedd yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yn amser Milton, yr oedd y drwg fel y da o ddifrif. Ond yn yr oes hon, ffordd gyffredin y diafol a'i offerynau i demtio yw gwawdio.

Yn ei raglith, yr hon sydd farddoniaeth, fel yr oll o'r gwaith, oddi-eithr dau neu dri o dudalenau, y mae Goethe yn dilyn y desgrifiad yn nechreu Llyfr Job, ac yn dangos yr angelion a'r diafol yn ngŵydd yr Arglwydd. Ar ol i Raphael, a Gabriel, a Michael, ganu eu pennillion o fawl yn olynol, mae y tri yn cydganu fel y canlyn:—

"Dy olwg rydd i'r engyl nerth,
Er nas gall neb iawn draethu 'th glod:
Dy holl weithredoedd o fawr werth
Y'nt brydferth fel pan gawsant fod."

Ar hyn y mae Mephistopheles yn dyfod ymlaen, ac yn llefaru fel y canlyn*:—

"Gan i ti unwaith eto agosau
I holi am ein helynt ni mor dirion,
A'th fod o'r blaen yn arfer caniatâu,
'R wyf finnau ger dy fron ymhlith dy weision.
Na feia—mi ni fedraf iaith chwyddedig,
Hyd nod pe ymgynhyrfai pawb i'm herbyn.
Ti chwarddit pe siaradwn i'n doddedig,
Oni b'ai fod dy Fawrhydi uwchlaw chwerthin.
Am haul a bydoedd, ychydig fedraf ddywcyd;
Ond craffu'r wyf pa fodd mae dyn yn gwneyd."

* Nid yw Goethe yn cadw at unffurfaeth yn hŷd nac yn odlau y llinellau. Weithiau y maent yn odli bob yn ail linell; bryd arall y mae pob dwy linell yn odli a'u gilydd.

Duw bach y byd sy o hyd yn wael ei nod :
 Mor rhyfedd 'n awr a'r dydd y cafodd fod.
 Ond rhywfaint gwell yn ddiau buasai byw,
 Pe heb y goleu o nefolaidd ryw,
 A elwir ganddo rheswm : hwn a'i gwnaeth
 Na'r holl fwystfilaidd haid yn fwystfil gwaeth.
 Os caf fi ddyweyd pa fodd y treulia 'i einioes,
 Mae 'n debyg iawn i geiliog rhedyn hirgoes ;
 Yn hedeg fyth, gan neidio yn ei hediad,
 Neu ganu yn y glaswellt ei hen ganiad.
 A da pe na wnai ddim ond canu 'n fwyn ;
 Ond yn mhob pentwr budr mae 'n gwanu ei drwyn."

Dyma ddarlun o'r diafol i'r dim. Nid yw yn edrych ond yn unig ar yr ochr waethaf i bob peth ; ac nis gall attal ei duedd wawdlyd yn mhresennoldeb y Goruchaf. Ond y mae yr Arglwydd yn gofyn yn ol ac yntau yn ateb drachefn, fel y canlyn :—

YR ARLWYDD.

"Oes genyt ddim i'w ddyweyd mewn amgen iaith ?
 Ai beio ar bawb yn unig yw dy waith ?
 Oes ar y ddaear byth un peth yn iawn ?"

MEPHISTOPHELES.

"Mae acw bawb o bob rhyw ddrwg yn llawn.
 Wrth wel'd fel mae plant dynion yn dihoeni,
 'R wyf fi fy hun yn blino yn eu poeni."

Yna, mae yr Arglwydd yn gofyn a oedd wedi sylwi ar Faust. Mae yntau yn ateb ei fod, ac yn mynegu ei farn am dano :—

"Mae e'n dy wasanaethu 'n bur ddyeithrol ;
 Ei fwyd a'i ddiod nid yw ddim daearol ;
 Ei fryd o hyd yw pethau anghyfarwydd ;
 Mae ef ei hun yn hanner gwel'd ei ynfydrwydd :
 Ymgyrhaedd mae am ser prydfertha'r nef ;
 Am fwyniant uchaf daear mae ei lef :
 Ond nid yw 'r ewbl, yn agos nag ymhell,
 Yn boddio ei fynwes drist un gronyn gwell."

Mae yr Arglwydd yn ateb :—

"Os cymysg ei wasanaeth ef yn awr,
 Myfi cyn hir a'i dygaf i eglurder.
 Pan welo'r garddwr flagur teg eu gwawr,
 Mae'n sicr bydd blodeu a ffrwyth i'w cael ar fyrder."

Y canlyniad ydyw, fod y diafol yn cael cenad i demtio Faust : ond nid yw efe, fel Job, yn alluog i wrthsefyll y demtasiwn. Nis gwyddom a oedd Goethe yn meddwl rhoddi ar ddeall fod y diafol yn gyfrwysach yn awr nag yn amser Job, a bod cyfoeth yn fwy peryglus na thlodi. Mae yn temtio Faust, nid trwy ei amddifadu o'i holl feddiannau, ond trwy roddi iddo bob peth a ddymunai ei galon ; ac felly y mae dros amser yn llwyddo i'w ddyrysu a'i faglu. Dylid cofio hefyd nad yw Faust, fel Job, yn wr perffaith ac uniawn ; ond yn hytrach yn un oedd yn ymbalfalu am y gwir, ac am ryw enyd yn colli y ffordd.

Mae y bryldest yn dechreu trwy ddangos Faust wrtho ei hun, mewn ystafell neillduedig, yn traethu ei deimladau :—

“ Yn awr y wyddor athronyddol,
 Y gyfraith hefyd a meddygaeth,
 Efrydais drwyddynt yn dra manol,
 Heblaw ysywaeth ! duwinyddiaeth :
 A dyma fi, greadur ffol,
 Mor gall ag o'wn flyneddau'n ol.
 Fe'm gelwir athraw, doctor dawnus :
 Am ddeg o flwyddi bâm yn tywys
 I fynu, i waered, cam neu union.
 Fel fyd a fynwn fy nysgyblion ;
 Nes gwel'd nas gallwn wybod dim :
 Hyn sy 'n gwneyd gofid calon im'.
 Gwn mod yn ddoethach na'r holl ffyliaid,
 Athrawon, awdwyr, ac offeiriaid.
 Dadl ac ammheuon mwy ni'm poenant ;
 Uffern a diafol ni'm dychrynant ;
 A dyma'r achos o fy nhrallod :
 Nis gwn am ddim yn werth ei wybod :
 Nis gwn pa ddysg a allaf roi,
 At wella dynion, ac i'w troi.
 Ni feddaf dir a chyfoeth rhwydd,
 Anrhydedd byd nac uchder swydd.
 Nis gall un ei fyw felly o hyd ;
 Am hyn dewiniaeth aeth â'm mryd ;
 I wel'd a ddichon nerth ysbrydion
 Fy nwyn i adnabod y dirgelion ;
 Yn lle gorchestu dan fy mhwn
 I orfod dyweyd yr hyn nis gwn ;
 Fel gallwyf wel'd tufewn i'r byd,
 Pa beth sy 'n dal y cwbl ynghyd,
 A chanfod nerth pob gwaith a'i hadau,
 Yn lle bod yma yn gwertâu geiriau.
 O ! na b'ai hon yr olaf nos
 It' wel'd fy ngofid, leuad dlos.

Fan yma lawer noswaith faith,
 Pan oeddwn ddyfal gyda'm gwaith,
 Yn nghanol llyfrau a phapyrau,
 Gyfeilles brudd, rho'ist im' dy oleu.
 Mor llon y crwydrwn pe cawn nerth,
 Dros ddolydd heirdd, a bryniau serth ;
 A gwibiwn gyda phur ysbrydion,
 Gan rydd-fwynhau dy lewyrch gwiwlon,
 A dianc ar flinderau chwith,
 A throchi f' enaid yn dy wlith."

Nid yw yn ymddangos fod Faust yn ceisio ymgyrhaedd at ddim uwch na chymundeb agosach â natur, yn lle â Duw natur ; ac nid rhyfedd gan hyny ei fod yn ei drallod, fel Saul, yn troi at ddewiniaeth. Wedi agor llyfr Nostradamus, y mae am beth amser yn syllu ar yr arwyddluniau, ac yna yn llefaru mewn ymfrost gwag-hyderus :—

" Yr ysbryd-fyd nid yw 'n guddiedig ;
 Dy synwyr di sydd yn glöedig :
 Dos, ddysgybl, golch dy fynwes brudd,
 Yn mhelydr rhuddgoch gwawr y dydd."

Ar ol troi dalenau y llyfr mewn ammheuaeth ac awydd, y mae o'r diwedd yn penderfynu galw ar Ysbryd y ddaear i ymddangos ; yn yr hwn ysbryd mae y bardd, feddyliem, yn personoli natur. Ond y mae Faust yn analluog i ddal yr olygfa ; ac y mae yr Ysbryd yn diflanu, ar ol ei gyfarch yn debyg i hyn :—

" Yn holl lifeiriant bywyd
 Yn 'stormydd pob rhyw waith,
 I fynu ac i waered,
 Draw, yma, mae fy nhaith.
 Y geni a'r bedd,
 Fragwyddol firwd,
 Newidiol wedd,
 Rhyw fywyd brwd,
 Wrth gyflym rod amser 'rwy 'n gweithio bob awr,
 I wau gwisg weledig y Duwdod mawr."

Wrth ei glywed yn siarad âg ef ei hun, y mae ei ysgrifenydd, yr hwn oedd yn byw yn ei deulu, yn tybied ei fod yn darllen rhai o'r beirdd Groegaid, ac yn myned i mewn ato, i gael rhai cyfarwyddiadau yn y gelfyddyd o areithio. Yn mhlith cynghorion buddiol eraill, y mae Faust yn dywedyd :—

“I gael iawn lwydd fel dyn parablus,
 Na fydd zmfytyn gwag soniarus.
 Mae synwyr da yn hawdd ei dd'wedyd,
 Heb lawer iawn o help celfyddyd.
 Os wyt o ddifrif yn dy bethau,
 Pa achos hela ar ol geiriau.”

Ond y mae yn anfon ymaith ei ysgrifenydd yn fuan er mwyn cael llonyddwch i fyfrio ar y weledigaeth, yr hon oedd mor fawreddus fel y mae yn teimlo ei hun yn gòryn distadl.

“Mi dybiais fy hunan yn llun yr Anfeidrol,
 Yn agos i ddrych y gwirionedd tragywyddol
 Mi fynwn ymloni mewn nefol ddysgleirdeb;
 A dyosg yn hollol hen wisg daearoldeb :
 Yn uwch nag un cerub, mewn dwyfol ddylanwad,
 Meddyliais y gallwn ymsaethu trwy'r cread.
 Mai gwag oedd fy ymfrost, yn chwero rhaid addef;
 Y daran-lef nerthol a'm galwodd i adref.”

Ar ol dyfod fel hyn ato ei hun i ryw radd, y mae yn gorfol cydnabod yn bwylllog,

“Nad tebyg wyf i'r duwiau, amlwg yw;
 Ond pryfyn gwael sydd yn y llwch yn byw;
 Yr hwn mewn pridd, gan ryw ddamweiniol droed
 A leddir, ac a gleddir yn ddiwed.”

Ond nid cynt y mae yn rhoddi i fynu ei ymgais i dreiddio i fyd yr ysbrydoedd trwy gymhorth dewiniaeth, nag y gwelwn ef yn gwyro i'r eithafion yr ochr arall. Gan nas gall amgyffred y môr, y mae yn penderfynu taflu ei hun iddo. Y mae wedi syllu cymaint i'r dyfnder diwaelod, nes y mae yn teimlo, fel y dywed un o'r beirdd Seisnig,

“'T is round him, near him, here, there, every where;
 And there's a courage which grows out of fear,
 Perhaps of all most desperate, which will dare
 The worst to *know* it—when the mountains rear
 Their peaks beneath your human foot, and there
 You looked down o'er the precipice, and drear
 The gulf of rock yawns—you can't gaze a minute
 Without an awful wish to plunge within it.”

Yn y teimlad hwn mae yn cyfeirio ei olwg at phiof o wenwyn mewn congl o'i fyfyrgell, ac yn tori allan mewn iaith, yr hon nid yw yn hollol gyson â'r dybiaeth ei fod yn ddyn sydd yn ymofyn yn ddidwyll am y

gwirionedd. Er hyny, dichon fod y disgrifiad yn cynnwys addysgiadau buddiol, fel y mae yn dangos y perygl o roddi lle i anesmwythder meddwl a chwilfrydedd gormodol.

“Paham troaf acw fy ngolwg mor ddibaid?
 Pa beth sydd fan draw yn sugn-dynu fy llygaid?
 Paham daeth ar unwaith fath lewyrch caredig,
 Fel lloer ganol nos yn tywynu mewn coedwig?
 O phiol ardderchog, cyfarchaf di’n barchus;
 Canys ynot ti gwelaf athrylith gwyr dawnus.
 Ti, hoff gyfansoddiad o farwol sylweddau,
 Dod brawf i dy feistr o’th dirion effeithiau.
 Pan arnat edrychaf, fy mhoen a lareiddia;
 Pan ynot ymaflaf, fy nghynhwrf lonydda.
 Llfeiriant fy ysbryd yn raddol sy’n treio;
 I’r cefnfor mawr llydan ’r wy’n cael fy arwysio;
 Ei ddyfroedd o danaf ddysgleiriant fel drychau:
 Dydd newydd a’m dena i newydd ororan.
 Tân gerbyd ar ysgeifn adenydd sy’n dyfod
 Hyd ataf, a theimlaf fy hunan yn barod
 I dreiddio ffordd newydd trwy’r maith eangderau,
 I gylchoedd newyddion o bur weithrediadau.
 Fath fywyd goruchel! fath ddwyfol hapusrwydd!
 I ti oeddit gynnau yn bryfyn annedwydd.
 Er cyrhaedd y cyfan ni raid ond gwroldeb
 I gefnu ar hyfryd fwynhad daearoldeb.
 Bydd eofn i godi o’r gwraidd y pyrth uchel
 Mae pawb mor awyddus mewn rhywfodd i’w gochel.
 Yn awr y mae profi, trwy weithred ddihafal,
 Fod dyn mewn gwir fawredd i’r duwiau’n gyfartal.
 Heb grynu dan arswyd y dwfn wagle draw,
 A phoeni dy hunan gan afreidiol fraw:
 Anturia trwy’r gyfyng fynedfa’n ddigyffro,
 O amgylch yr hon mae holl uffern yn iflamio:
 A chymer yn dawel y naid olaf yma,
 Pe syrthit trwy hyny i eigion dyddymdra.”

Efallai mai at y duedd chwilfrydig sydd yn y natur ddynol, y mae’r diafol yn cyfeirio y rhan fwyaf o’i demtasiynau, er y cwmp yn Eden hyd yn awr. Hyn yn gyffredin sydd yn denu ieuentyd i *ddechreu* cyfeiliorni oddiar lwybrau rhinwedd a phurdeb. Dyma yr achos fod dynion gwybodus yn rhedeg mor fynych ar ol y mympwyon mwyaf twyllodrus. Ond yr ydym yn gweled i ba le y mae y duedd hon, trwy ennill y llywodraeth ar y meddwl, wedi arwain Faust, yn ol y disgrifiad a roddir o hono gan fardd penaf yr Almaen: a da fuasai i’w gyd-wladwyr pe cymerasent addysg yn fwy cyffredin oddiwrth yr hanes.

Mae y gwenwyn yn ei law, ac yntau yn myn'd i gymeryd y cam olaf, nis gŵyr i ba le. Ond pan mae yn rhoddi y phiol wrth ei enau, daew y clychau yn seinio i groesawu dyfodiad y Pasg; a daew gor o gantorion y tuallan yn canu, "Crist a gyfododd, gorfoledded marwolion," &c. Mae yn aros am ychydig i wrandaw, ac wrth wrandaw, mae ei feddwl terfysglyd yn dechreu ymlonyddu, nes yw ei deimladau o'r diwedd yn rhedeg allan yn yr ymadroddion canlynol:—

“Chwi, nefol donau, nerthol, tyner,
 Paham y ceisiwch fi mór fwyn?
 Dadseiniwch yno yn felusber,
 Lle mae rhai fedrant deinilo'r swyn.
 Eich cenadwri minnau glywaf,
 Fy ffydd yn unig sydd yn wan.
 Rhyfeddod ydyw yr anwylaf
 O'r plant a row'd i ffydd yn rhan.
 Tuallan wyf i'r cylehoedd hyfryd,
 O'r lle daw'r newydd da i'm clyw:
 Er hyny seiniau hoff fy mebyd
 Sydd yn fy ngalw'n ol i fyw.
 Disgynai arnaf gariad nefol
 Gynt yn nystawrwydd Sabboth mad:
 Yn sain y clych'r oedd rhin gyfriniol,
 A gweddi oedfl wir fwyhad.
 Rhyw hiraeth melus annirnadwy
 A'm gyrai i grwydro'n syn fy mryd:
 Yn nghanol dagrau hallt llosgadwy
 O'm hamgylch teimlwn newydd fyd.
 Yr anthem hon oedd ragfynegiad
 O'r mis dedwyddaf gynt a gaid:
 Adgofiant'n awr, â mabaidd deimlad,
 A'm lluddia'i ro'i yr olaf naid.
 Anthemauf nefol, seiniwch eto;
 O seiniwch cich nefolaidd gân:
 Fy nagrau sydd yn dechreu treiglo;
 Y ddaear hon a'm piau'n lân.”

Y dydd canlynol, y mae Faust a'i ysgrifenydd yn rhodio allan, i weled y trigolion yn mwynhau eu hunain; y meibion a'r merched yn chwilio am ddifyrwech, yr hen yn beirniadu ar eu llywodraethwyr, a'r cardotyn yn dyfod ymlaen i ofyn elusen. Telir parch ganddynt oll i Faust fel un oedd wedi bod yn offerynol i achub eu bywydau yn amser y pla. Ond nid oedd dim yn tycio i symud ei anesmwythder: a phan y mae ei ysgrifenydd yn sylwi y dylai ystyried ei hun yn ddedwydd wrth dderbyn cymaint o warogaeth, y mae yntau yn ateb, mai

gwneyd prawf yr oedd o wahanol gyfferiau ar yr achlysur hwnw, a'i fod wedi lladd miloedd o'i gymydogion. Pan oeddynt yn dychwelyd, yr oedd y dydd yn hwyrhau; ac wrth edrych ar yr haul yn machludo, y mae Faust yn dywedyd,

“Gwyn fyd yr hwn fedro obeithio yn wastad
 Am esgyn yn gyflawn o'r môr o gamsyniad:
 Yr hyn nid yw'n wybod mae dyn yn ei geisio;
 A'r hyn mae yn wybod nis gall ei ddefnyddio.
 Ond gad i'n fwynhau ein bendithion presennol,
 Heb boeni yn achos gofidiau dyfodol.
 Gwel fel y mae'r heulwen yn gwneyd wrth fachludo
 I'r bythod yn nghanol y coedydd ddysgleirio.
 Mae'n gostwng, mae'n cilio, mae'r dydd ar derfyniad,
 I wledydd pellenig mae'n cario adfywiad.
 Uwch daear ymgodwn, pe meddwn adenydd;
 Ymdrechwn i ganlyn ei lewyrch ysblenydd.
 Canfyddwn mewn hwyrol belydrau diddiwedd
 Y byd wrth fy nhraed mewn tawelwch yn gorwedd;
 Pob bryn fydd ar dân, a phob dyffryn yn llonydd,
 Rhed ffrydiau arianaidd i euraidd afonydd.*
 Pe meddwn y gallu ni rwystrid fy nheithiau
 Gan wylltion fynyddoedd a'u dyfnion agenau:
 Y môr cynhes eisoes ymegyr i'm golwg;
 Yr haul sy'n ymddangos ar suddo i'r tywyllwg:
 Ond yfed ddymunwn ei lewyrch tragwyddol;
 Y dydd o fy mlaen, a'r nos fyth o'm lledol;
 Y nef uwch fy mhen, a'r tonan odditanodd:
 Ond tra'r wy'n breuddwydio efe a ddiflanodd.”

Mae yn debyg y bydd llawer, wrth ddarllen yr ymadroddion uchod o eiddo Faust, yn barod i ddywedyd na fu erioed greadur mwy afresymol. Wel,

“*Where ignorance is bliss, 'tis folly to be wise.*”

Modd bynag, nid ydym yn sicr nad oedd dymuniadau cyffelyb yn rhedeg weithiau trwy feddwl Solomon, y doethaf o ddynion. Onid yw y greadigaeth yn brydferth i'r dyn sydd wedi agor ei lygaid? Ac onid yw yn naturiol iddo hiraethu am gymundeb agosach, a chyfranogiad helaethach, o'r hyfrydwech sydd o'i amgylch. Ond mwy dedwydd na hwynt oll yw yr hwn sydd wedi dyfod *trwy* y dymhestl, ac wedi

* Mae y llinell hon yn wreiddiol fel hyn,

“Den Silberbach in goldne ströme flissen.”

Mae amhenaeth am yr ystyr. Rhai a farnant ei bod yn disgrifio y ffrydiau yn newid, dan dywyniad prydawnol yr haul, o liw arianaidd i liw euraidd. Ond mwy tebyg mai yr ystyr yw, fod mân ffrydiau o liw arianaidd yn rhedeg i afonydd o liw euraidd.

cyrhaedd yr hafu dymunol mewn ymddiried diysgog yn y Duw a wnaeth y bydoedd, ac oddiyno yn gallu edrych yn ol gyda thosturi a chydymdeimlad ar y truciiniaid sydd eto yn y perygl. Dylid cofio fod Faust yn y dymhestl, yr hon sydd yn myned waeth waeth; a rhyfedd os cedwir ef heb fyned i'r gwaelod. Wedi iddo ddychwelyd i'w fyfyrgeall, y mae yn cymeryd ei Destament Groeg mewn llaw, ac yn dechreu ar y benod gyntaf o efengyl Ioan. Ond mae yn ymddyrsu yn y fan gyda'r ymadrodd cyntaf yn yr adnod gyntaf. Yna mae Mephistopheles yn dyfod ymlaen : a dyma ran o'r disgrifiad a roddir gan y diafol o hono ei hun :—

“Os dyn, er nad yw ond rhyw ynfyd fyd bychan,
 Sy'n tybied yn aml mai efe yw y cyfan ;
 Mi, rhan wyf o'r rhan oedd yn oll yn y dechreu,
 Sef rhan o'r tywyllwch o'r hwn daeth y goleu ;
 Y goleu, sy'r awrhon mewn rhyfel ystyfnig
 Yn erbyn ei fam am yr urddas gyntefig.
 Ond nid yw yn llwyddo er maint yr ymdrechu ;
 Mewn rhwym annatodol wrth gyrff mae yn glynu.
 O gyrff mae yn deillio; cyrff ganddo addurnir;
 Gan gyrff ar bob llaw ei wibdeithiau a rwystrir.
 Ac felly, gobeithiaf na phery'n hir eto :
 Ond y caiff gyda'r gyrff ei dragwyddol ddinystro.”

Trwy chwareu yn rhy agos i'r tân, mae Faust o'r diwedd yn syrthio iddo. Mae yn gwneyd rhyw fath o gytundeb â'r diafol, yr hwn sydd yn ymrwymo i'w wasanaethu yn ffyddlawn. Ond cyn iddynt orphen eu hymddyddan, dyma ŵr ieuanc o'r wlad yn euro wrth y drws, gyda'r bwriad o gynnyg ei hun yn efrydydd. Y mae Faust yn teimlo nad yw yn addas i'w dderbyn. Er ei fod wedi gwerthu ei hun i'r diafol, nid yw yn ddigon drwg i ragrithio. Ond y mae y cyfryw deimladau a hyn yn lled ddyethriol i Mephistopheles, yr hwn, ar ol gwisgo y cap a'r gŵn, sydd yn ymgymeryd â'r gorchwyl yn ei le. Ac yn ddiau nid oes diffyg dawn, er y gallasai fod mwy o ddyngarwch, yn ei ymddyddanion â'r gŵr ieuanc. Wedi beirniadu ar y dull cyffredin o efrydu, mae yn sylwi ar y gwahanol alwedigaethau : ac os dymunai neb wybod beth yw barn y diafol ar y matter hwn, dyma ychydig anghreiffiau :—

Yn gyntaf, am y gyfraith ;

“Trosglwyddir cyfreithiau i lawr i olafiaid,
 Fel oesol afiechyd oddiwrth eu hynafiaid.
 O'r naill oes a lle i rai eraill ymlusgant ;
 Ynfydrwydd yw rheswm, a phla yw pob gwelliant.

Ond am hen reolau cyfiawnder tragywyddol,
Nid oes neb ysywaeth yn beiddio ymorol.

Yn ail, am Dduwinyddiaeth ;

“Wrth drin Duwinyddiaeth, na fydd ry ammhëus,
Lle pallo y synwyr mae gair yn gyflëus.
Rhagorol yw dwyn ymlaen ddadl ynghylch geiriau:
A geiriau mae'n hawdd cyfansoddi trefniantau.
Mewn geiriau mae ffydd yn cael hyfryd orphwysfa:
O air nis gall dynion yspeilio un iota.”

Yn drydydd, am Feddygaeth ;

“Mae ysbryd meddygaeth yn hawdd iawn ei ddsygu :
Y byd mawr a'r byd bach sydd yn rhaid eu hefrydu ;
I adael pob peth yn y diwedd i weithio,
Yn gwbl fel bo'n dygwydd i Dduw ewyllysio.
Paid chwilio am fwy nag a elli gyrhacddydd ;
Y cyfan sydd eisieu yw deall y fynydd.
Y mae genyt ddigon o harddwch corfforol ;
Na fydd mewn gwrolder ychwaith yn ddiffygiol.
Os medri ymddiried i'th allu dy hunan,
Ennilli ymddiried pawb arall yn fuan.”

Erbyn hyn, y mae Faust, yr ydym yn ofni, wedi rhoddi i fynu bob ymofyniad am y gwirionedd. Ni chaniata ein terfynau i ni ei ddilyn ef a Mephistopheles yn eu holl grwydriadau ; ac am hyny ni a gyfyngwn ein hunain at hanes Margaret, y ferch ieuanc yr effeithiodd Faust mewn modd mor annedwydd ar ei thynged ; gan obeithio y bydd yn rhybudd i ambell un o ferched Cymru. Un o ragoriaethau Goethe yw ei fedrusrwydd i ddesgrifio y rhyw fenywaidd. Fel profion o hyn, gellid enwi Mignon yn Wilhelm Meister, a Clara yn Egmont, ac yn enwedig Margaret yn y bryddest hon. Gan nad yw mor anghenrheidliol ymgadw at y dull barddonol wrth ddyfynu y rhan yma o'r gwaith, ni a'i cyfieithwn mewn iaith rydd. Rhaid i ni ymfoddloni i roddi talfyriad o'r hanes ; ac o ganlyniad nis gallwn ddangos fel yr oedd cynllwynion y diafol yn gweithio yn raddol ac yn naturiol. Nid ar unwaith y syrthiodd Margaret. Gorfu iddynt gymeryd peth amser a thrafferth i'w hudo â thlysau costus, a defnyddio cymydoges iddi o'r enw Martha, i'w cynnorthwyo yn eu hamcanion cythreulig. Fel hyn y mae bob amser. Os bydd ar yr un drwg eisieu offerynau, y mae rhyw gyfaill neu gyfeilles yn barod i gymeryd y gwaith mewn llaw. Derbyniodd Margaret y tlysau mewn ffordd ddirgelaid, heb wybod

oddiwrth bwy yr oeddynt yn dyfod; gan mai yr oll oedd eisieu ar y cyntaf oedd ansefydlu ei meddwl, a chreu ynddi awydd am uwch sefyllfa. Hithau yn ei diniweidrwydd a'u rhoddodd i'w mam, yr hon a aeth i ymgynghori â'r offeiriad Pabaidd; a barnodd yr offeiriad, rhag ofn y gallasai fod rhyw ddrwg yn perthyn iddynt, mai gwell oedd cysegru y cwbl i wasanaeth yr eglwys. Nid oedd hyn yn boddio Margaret yn dda. Ond cafodd rai eraill yn fuan, rhagorach na'r rhai cyntaf; a chymerodd hwynt y tro hwn yn ddioed i dŷ ei chymydoges Martha. A dyma yr ymddyddan sydd yn myned yn mlaen rhyngddynt.

“Martha (wrthi ei hun). Gobeithiaf y caiff fy ngŵr anwyl faddeuant: nid yw wedi ymddwyn yn iawn ataf fi. Dyma fe yn myned i ffwrdd i'r byd, ac yn fy ngadael yn weddw ac unig. Ac eto ni wnaethum i ddim erioed i'w boeni: yr wyf yn sicr fy mod yn ei garu o'm calon. Mae yn debyg iawn ei fod wedi marw. O beth a wna? Pe cawn ond hysbysrwydd diammheuol o'i farwolaeth!

Margaret (yn dyfod i mewn). *Martha!*

Martha. Beth yw'r mater Margaret?

Marg. Mae fy ngliniau yn methu fy nghynnal. Yr wyf wedi cael blwch arall o *ebony*, a'r pethau harddaf a fu erioed, llawer mwy costus na'r rhai cyntaf.

Martha. Rhaid i ti beidio dyweyd dim am danynt wrth dy fam; neu, hi a gymer y rhai hyn eto i'r offeiriad.

Marg. Yn awr, weli di? Edrych arnynt.

Martha (yn eu gwisgo am Margaret). O greadur hapus!

Marg. Ond y drwg ydyw, na chaf ymddangos ynddynt ar yr heol, nac yn yr eglwys.

Martha. Gelli ddyfod drosodd yn aml ataf fi, a gwisgo y tlysau yn ddirgel yma. Gelli gerdded am awr i fynu ac i lawr o flaen y drych: ni a gawn hapusrwydd yn hyn. Ac yna daw rhyw gyfle, daw dydd gŵyl, pan elli eu dangos bob yn ychydig—yn gyntaf cadwen, ac wedi hyny y clustdlysau. Hwyrach na wna dy fam ddim sylwi, neu bydd yn hawdd gwneyd rhyw esgus iddi hi.”

Pan y maent yn ymddyddan fel hyn, dyma Mephistopheles ei hun yn curo wrth y drws, ar wedd gŵr boneddig; a dyna y wedd sydd arno fynychaf yn y bryddest hon.

“Margaret. Och! dyna fy mam yn dyfod?

Martha (*wedi edrych trwy y ffenestr*). Rhyw ŵr dyeithr ydyw—do'weh i fewn.

Mephistopheles. Cymerais fy rhyddid i alw gyda chwi ar unwaith; erfyniaf faddeuant y boneddigesau. (*Mae yn gwneyd ymgrymiad parchus i Margaret*). Daethum i ymofyn am Mrs. Martha Schwerdtlein.

Martha. Fi yw hõno: beth welwch chwi yn dda ofyn, syr?

Meph. Gwelaf fod gyda chwi ymwelydd o radd uchel. Esgusodwch y rhyddid a gymerais. Galwaf eto yn y prydawn.

Martha. Dim ond meddwl, lodes—o bob peth yn y byd! Mae y gŵr boneddig hwn yn tybied mai *lady* wyt ti.

Marg. Nid wyf fi ond creadur ieuanc tlawd. Mae y boneddwr yn rhy garedig. Nid eiddof fi y tlysau.

Meph. Ah! nid y tlysau yn unig. Ond y dull, yr edrychiad, mor fawreddus. Mae yn llawen genyf fod cenad i mi aros.

Martha. Gellwch draethu eich neges. Y mae arnaf awydd mawr—

Meph. Dymunaswn fod genyf well newydd. Gobeithiaf na ddigiwch wrthyf fi am hyny. Mae cich gŵr wedi marw, ac yn anfon ei serch atoch.

Martha. Wedi marw! Fy ngŵr anwyl! O beth a wnaif? Fy ngŵr wedi marw! O! mi fyddaf finnau farw!

Margaret. O Martha anwyl, anwyl, paid anobeithio.

Meph. Gwrandewch ar yr hanes pruddaidd.

Marg. Oblegid hyn ni ddymunwn i byth syrthio mewn cariad â neb holl ddyddiau fy mywyd. Byddai y golled yn sicr o fy ngofidio i farwolaeth.

Meph. Rhaid i dristwch ddilyn llawenydd, a llawenydd ddilyn tristwch.

Martha. Dywedwch wrthyf pa fodd y bu farw.

Meph. Mae wedi ei gladdu yn Padua, wrth eglwys St. Anthony, mewn lle addas iawn i fod yn orphwysfa—tragywyddol oer.

Martha. A oes genych chiwi ddim arall i mi?

Meph. Oes, un dymuniad pwysig. Byddwch yn sicr o fynu canu yr offeren drosto dri chant o weithiau. Nid oes genyf ddim arall.

Martha. Beth, dim darn o arian i gofio am dano? Dim un tlws? Y mae pob gweithiwr tlawd yn cadw rhywbeth yn ngwaelod ei bwrs, fel coffadwriaeth; ac yn cardota yn hytrach—

Meph. Madam, mae yn ddrwg iawn genyf. Ond nid gwario ei arian a wnaeth. Yr oedd hefyd yn edifarhau yn chwerv o herwydd ei bechodau, ac yn fwy fyth o herwydd ei anhapusrwydd.

Marg. Ah! mor anhapus yw plant dynion. Yn wir mi fynaf fi ganu un *requiem* drosto.

Meph. Chiwi haeddech gael gŵr parchus yn ddiwed. Yr ydych yn ferch ieuanc hawddgar.

Marg. O, na! y mae digon o amser i hyny eto.

Meph. Os nad gŵr, yna rhyw un arall yn ei le.

Marg. Nid dyna yr arferiad yn y wlad hon.

Meph. Arferiad neu beidio, mae y fath bethau yn dygwydd.

Martha. Ond dywedwch i mi—

Meph. Yr oeddwn yn sefyll wrth ei wely angu. Yr oedd rywfaint gwell na thom—gwellt wedi hanner pydru: ond bu farw fel crïstion, a theimlai fod arno lawer iawn o ddyled. 'Mor drwyadl,' meddai, 'y mae yn rhaid i mi ffeiddio fy hun—rhedeg i ffwrdd oddiwrth fy ngalwedigaeth, ac oddiwrth fy ngwraig. O! mae cofio am hyny yn angu i mi. Pe b'ai hi ond maddeu i mi cyn i mi farw.'

Martha (yn wyllo). Fy ngŵr anwyl! yr wyf wedi maddeu iddo er's llawer dydd.

Meph. 'Ond,' dywedai hefyd, 'yr oedd mwy o fai arni hi nag arnaf fi.'

Martha. Dyma gelwydd! Beth, dyweyd celwydd ar fin y bedd!

Meph. Mae yn ddiau iddo ddyweyd anwiredd â'i anadl olaf, os gallaf fi farnu yn gywir. 'Yr oedd genyf fi,' meddai, 'ddigon o waith i chwilio am fara i'r plant, ac ni chawn fwyta fy rhan fy hun mewn heddwch.'

Martha. A oedd efe fel hyn yn anghofio fy holl ffyddlondeb, fy holl gariad, fy llafur ddydd a nos?

Meph. Nid felly; yr oedd yn cofio am dano yn serchog. Dywedodd, 'Pan adewais Malta, gweddiais yn daer dros fy ngwraig a'm plant; a bu y nefoedd mor dirion a gadael i'n llong ni gymeryd llong o Twrei, yr hon oedd yn cario trysor y Sultan. Cafodd ein gwroldeb ei wobrwyo; ac, fel yr oedd yn iawn, derbyniais innan ran dda o'r arian.'

Martha. Pa fodd! pa le! a yw efe wedi en claddu yn rhywle?

Meph. Pwy ŵyr pa le y maent erbyn hyn wedi en gwasgaru gyda phedwar gwynt y nefoedd? Cymerodd merch ieuanc landeg ei ofal pan oedd yn ddyeithr yn

Naples. Dangosodd hon garedigrwydd a ffyddlondeb mawr tuag ato; yn gymairt felly, fel yr oedd yn teimlo yn ddiolchgar iddi hyd ei oriau olaf.

Martha. Y filain! yspeiliwr ei blant! Ac nid oedd yr holl drueni, a'r holl dlodi, yn ddigon i'w arafu yn ei fywyd pechadurus."

Fel hyn y maent yn myned ymlaen am ychydig amser ymhellach; Martha yn wylo ar ol ei gŵr, ac yn ei ddifenwi bob yn ail. Cyn y diwedd, y mae braidd am daffu llygad serchog ar Mephistopheles ei hun. On l y mae yn amlygu awydd adnewyddol am hysbysrwydd cadarn a ffurfiol.

"*Martha.* O! ond dywedwch wrthyf yn ebrwydd. Mi ddymunwn gael *certificate* pa le, pa fodd, a pha bryd y bu fy ngŵr farw, ac y claddwyd ef. Yr wyf bob amser yn hoffi pob peth yn rheolaidd, a dymunwn ddarllen ei farwolaeth yn y papyrau wythnosol.

Meph. Ië, fy anwyl Fadame, fe saif y gwirionedd trwy ddau o dystion dros yr holl fyf: ac y mae genyf gydymaith parchus, yr hwn a ddaw gyda mi o flaen y swyddog gwladol. Mi a'i dygaf ei yma.

Martha. O gwnewch yn mhob modd.

Meph. A'r foneddiges ieuanc, a fydd hi yma hefyd?—gŵr ieuanc dymunol. Y mae wedi teithio llawer, ac y mae yn wastad yn dangos parch mawr i'r boneddigesau.

Marg. Bydd arnaf fi ormod eywilydd i ymddangos yn mhresenoldeb y gŵr boneddig.

Meph. Ni raid i chwi gywilyddio ger bron un brenin ar y ddaear.

Martha. Tu cefn i'r tŷ, yn yr ardd, fan acw, dysgwylw'n chwi heno eich dau."

Canfyddir yn hawdd oddiw'rth y dyfyniad uchod, nad oedd Margaret ond merch ieuanc ddysym, ddiniweid, mewn angylchiadau cyffredin. Rhoddwn ymhellach ran o ymddyddan rhyngddi hi â Faust, fel eglurhad ychwanegol ar ei sefyllfa, ynghyd â'i thuedd ac ansawdd ei meddwl.

"*Marg.* O ië, allan o olwg allan o feddwl. Y mae geiriau teg yn dyfod yn hawdd oddiw'rthych chi. Ond y mae genych ddigon o gyfeillion: y maent hwy yn llawer callach na fi.

Faust. O ferch anghymharol! cred fi; mae yr hyn a elwir yn gallineb yn fwy teilwng yn fynych i gael ei alw yn hunan a ffolineb.

Marg. Pa fodd y mae hyny yn bod?

Faust. Ah! pam nad yw symlwrwydd, pam nad yw diniwei lrwydd byth yn gallu gwerthfawrogi ei hun? Pam y mae gostyngeddwrwydd, iselder meddwl, doniau uchaf natur haelionus gariadus——

Marg. Dim ond i chwi feddwl am danaf fi am fynyd; eaf fi ddigon o amser i feddwl am danoch chi.

Faust. Yr ydych gryn lawer ar eich pen eich hun, mae yn ddiambheu.

Marg. Ydwyf; nid yw ein teulu ni ond bychan, ac eto y mae yn rhaid edrych ar ei ol. Nid oes genym un forwyn. Rhaid i mi barotoi bwyd, ysgubo'r llawr, gwau a gwnio, a rhedeg foru a hwyr. Ac y mae fy mam mor fanwl yn mhob peth. Nid o ran fod ganddi achos neillduol i gynnulo. Gadawodd fy nhad ddigon i ni, tŷ a gardd gerllaw y dref. Er hyny, y mae fy nyddiau yn awr yn ddigon cy surus.

Mae fy mrawd yn filwr. Mae fy chwaer fach wedi marw. Cefais lawer o helbul gyda hi; ond mi a gymerwn yr holl drafferth arnaf fy hun eto, mor anwyl i mi oedd y plentyn.

Faust. Yr oedd yn angel os oedd yn debyg i ti.

Marg. Myfi a'i magodd, ac yr oedd yn hoff iawn o honof. Ganwyd hi wedi marwolaeth fy nhad. Meddylodd pawb y buasem yn colli fy mam, gan mor wael yr oedd hi wedi myned: ac yn araf iawn y cryfhaodd. Felly, nid oedd modd iddi roddi sugn i'r peth bychan; ac am hyny myfi a'i magodd â dwfr a llaeth. Fel hyn daeth yn eiddo i mi. Ar fy mraich, yu fy mynwes, yr oedd yn gwenu, yn chwareu, ac yn tyfu.

Faust. Yr wyf yn gwybod i ti brofi yr hyfrydwch puraf.

Marg. A llawer o oriau celyd hefyd. Yr oedd cryd yr un fach wrth ochr fy ngwely. Prin y gallai symud nad oeddwn i yn effro; weithiau yr oedd yn rhaid rhoddi llaeth iddi; weithiau ei chymeryd ataf i'r gwely; bryd arall, os na thawai, yr oedd yn rhaid i mi godi, a cherdded i fynu ac i lawr ar hyd yr ystafell i'w stio i gysgu; ac yn foreu dranoeth yr oedd yn rhaid i mi olehi; yna myned i'r farchnad, a gofalu am y teulu; ac fel hyn y naill ddydd ar ol y llall. Anhawdd iawn, syr, oedd bod yn siriol bob amser; ond yr oedd yn rhoddi blas ar y bwyd, ac ar amser gorphwysio."

Y mae hwn yn ymddangos i ni yn ddarlun prydfferth dros ben. Mae yn profi mai y ffordd i ysgrifenu yn dda yw dilyn natur; ac hefyd fod defnyddian barddoniaeth i'w cael ymhlith y bobl gyffredin, ac yn y pethau mwyaf cyffredin. Gresyn na fuasai yr eneth dirion, hynaws hon, yn fwy penderfynol i aros yn ei chyflwr diwyd, diniweid, dedwydd. Ond trwy ddechreu gwrandaw ar lais y temtiwr, ac anghofio eu hunain, ychydig sydd yn dianc heb ofid a gwarth yn y canlyniad; a dichon mai y rhai mwyaf nawsaidd eu tymherau sydd yn fwyaf agored i'r verygl.

Nis gwyddom a ydyw addurniadau a gwisgoedd gwychion yn brofedigaeth fwy neillduol i'r merched. Y mae rhai meibion, mewn ffordd gyffelyb, yn medru gwneyd eu hunain yn ffyliaid pen ffair. Ond mewn un peth ni a feddyliem fod y merched yn gyffredin yn rhagori; hyny ydyw mewn gallu i adnabod nodweddiadau. Y mae hyn wedi ei roddi ynddynt fel greddf gan y Creawdwr. Os yw y meibion yn meddu ar fwy o gymhwysder i ddeall pynciau, y merched sydd fwyaf medrus i ddeall personau. Oddiwrth y dyfyniad a ganlyn, gwelir mor gywir yr oedd Margaret, yr hon gyda llaw oedd Babyddes o ran ei chrefydd, yn ffurfio ei barn am Faust a Mephistopheles.

"*Marg.* A wnei di addaw un peth, Henry?"

Faust. Pob peth a allaf.

Marg. Yn awr dywed i mi, pa fodd y mae rhyngot â chrefydd? Yr wyt yn ddynd ac anwyl; ond yr wyf yn ofni nad wyt yn meddwl llawer am grefydd.

Faust. Dim ychwaneg ar y mater yna fy ngeneth. Yr wyt yn teimlo fy mod yn

dy garu di : mi a roddwn fy mywyd dros y rhai sydd yn anwyl genyf; ac ni fynwn amddifadu neb o'u teimlad a'u heglwys.

Marg. Nid yw hyna yn iawn; mae yn rhaid credu ynddi.

Faust. A raid i ni ?

Marg. Ah ! Pe b'ai genyf ryw ddylanwad drosot ! Heblaw hyny, nid wyt yn parchu y sacramentau sanctaidd.

Faust. Yr wyf yn eu parchu.

Marg. Ond heb un dymuniad am danynt. Ni fuost er ys hir amser mewn cymmun na chyffesiad. A wyt ti yn credu yn Nuw ?

Faust. Pwy a feiddia ddyweyd, Yr wyf yn credu yn Nuw ? Gelli ofyn i offeiriad ac athronwyr, ac ni fydd eu hateb ond gwawdiaith.

Marg. Nid wyt yn credu, ynte ?

Faust. Paid a'm camddeall, fy anwylyd. Pwy a feiddia ei enwi ef ? a phwy a ddichon hōni, 'Yr wyf yn credu ynddo ?' Pwy all deimlo, a beiddio dywedyd, 'Nid wyf yn credu ynddo ?' Efe, yr hwn sydd yn cynnwys oll, yn cynnal oll, onid yw efe yn dy gynnwys di, fi, ac ef ei hun ? Onid yw y nefoedd yn ymledu acw oddiarnodd ? Onid yw y ddaear yn gorwedd yn gadarn yma odditanodd ? Onid yw y ser tragwyddol, yn codi, ac yn tywynu yn garedig uwch ben ? Onid ydym yn edrych yn llygaid ein gilydd, ac onid yw y cwbl yn ymgrynhōi i dy ben a dy galon, ac yn gwau mewn tragwyddol ddirgelwch, yn anweledig, yn weledig o'th a gŵch. Llanw dy galon âg ef, er cymaint ydyw ; a phan fyddi yn berffaith wynfydedig yn y teimlad, yna galw ef y peth a fynddi. Galw ef Dedwyddwch ! Calon ! Cariad ! Duw ! Nid oes genyf fi enw arno ! Teimlad sydd oll yn oll. Enw nid yw ond swm a mwg, yn cymylu dysgleirdeb y nefoedd.

Marg. Y mae hyn i gyd yn bur brydferth, ac yn bur dda. Y mae'r offeiriad yn dyweyd yn lled debyg, ond gydag ychydig wahaniaeth yn y geiriau.

Faust. Y mae pob calon yn mhob man, dan lewyrch bendithiol y dydd, yn dyweyd yr un peth, pob un yn ei iaith ei hun—a pham na chaf finnau yn fy iaith fy hun."

Dyma anghraifft o'r anffyddiaeth sydd wedi gwneyd cymaint o ddi-frod yn Germani, a'r hwn sydd yn cael ei daenu yn ddiwyd yn Lloegr. Fel hyn y maent yn tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth. Ond y mae Margaret wedi'r cwbl yn teimlo, er nas gŵyr yn iawn paham, fod yr athrawiaeth yma yn dwylldrus.

"*Marg.* Os cymerir y peth fel yna, gall ymddangos yn deg. Ond, er hyn i gyd, y mae rhyw ddrwg yn perthlyn iddo, oblegid nid oes genyt ddim Cristionogaeth.

Faust. Anwyl eneth !

Marg. Yr wyf wedi gofidio yn hir oblegid y cwmpeini yr wyt yn gadw.

Faust. Paham felly ?

Marg. Mae y dyn sydd gyda thi yn gas gan fy enaid. Nid oes dim yn holl ystod fy mywyd wedi archolli cymaint ar fy nghalon â golwg adgas y dyn yna.

Faust. Paid a'i ofni, fy anwylyd.

Marg. Mae ei bresenoldeb yn gwneyd i'm gwaed rewi. Oddieithr hwn, y mae genyf deimladau caredig at bawb. Ond er mor dda genyf dy weled, yr wyf yn dychrynu rhag y dyn yna ; ac heblaw hyny, yr wyf yn barnu ei fod yn dwyllwr. Duw a faddeuo i mi, os wyf yn gwneyd cam âg ef.

Faust. Rhaid fod creaduriaid hynod o'r fath yna.

Marg. Ni fynwn fyw gyda neb cyffelyb ildo. Pan ddaw at y drws, mae yn edrych i mewn gyda'r fath ddirmyg, a llid hanner cuddiedig : mae yn hawdd gweled

nad yw yn cydymdeimlo â dim. Mae yn ysgrifenedig ar ei dalcen nas gall efo garu en enaid byw."

Wedi i Margaret ymadael, y mae Mephistopheles yn dyfod ymlaen, ac yn dechreu gwawdio fel arferol.

"*Meph.* Yr epa ffol! A ydyw hi wedi myn'd?

Faust. A fuost ti yn chwareu yr ysbïwr eto?

Meph. Clywais beth oedd yn myned ymlaen yn ddigon da. Cefais dy gateceisio, Doctor. Gobeithiaf y bydd yn lles i ti. Mae y merched yn teimlo awydd mawr i wybod a yw dyn yn grefyddol a syml yn ol yr hen ddull. Dywedant wrthynt eu hunain, 'Os bydd yn gydffurfiol yn y pwngce hwnw, bydd hefyd yn gydffurfiol i ninnau.'

Faust. Tydi, anghenfil fel yr ydwyf, nis gelli amgyffred fel y mae y ferch ieuanc gywir, anwyl hon, yn llawn o'i ffydd yr hon sydd ddigonol er ei dedwyddwch hi, yn teimlo dychryn sanctaidd wrth feddwl y bydd y dyn anwylaf ganddi yn golledig."

Gwelwyd uchod mor gymysglyd a sigledig oedd syniadau crefyddol Faust, a'r fath ddylanwad cryf oedd ganddo ar galon Margaret. Hudwyd hi o'r diwedd i roddi caniatâd i Faust ddyfod ati i'r tŷ ganol nos; a'r canlyniad naturiol fu—ei dinystr. Oblegid nad oedd cyfeillach y nos yn oddefol yn y wlad hono, fel y mae mewn rhai manau yn Nghymru, cafwyd ganddi roddi diod gwsg i'w mam, yr hon ddiod oedd wedi ei pharotoi gan Mephistopheles; ac yr ydym yn cael lle i gasglu na ddeffrôdd hi byth o'i chwsg. Y crybwylliad cyntaf a geir am gwmp Margaret, oddieithr rhyw awgrym rhagbarotoawl, yw yr hyn a ddywedir ganddi ei hun, pan yn tywallt allan deimladau adfydus ei chalon, ar ol bod yn ymddyddan wrth y ffynnon âg un o'i chyfeill-esau am ferch ieuanc arall.

"*Elizabeth.* A glywaist ti ddim am Barbara?

Marg. Dim un gair. Anaml y byddaf fi yn dyfod allan.

Eliz. Yn wir, Sybella a ddywedodd wrthyf fi heddyw. Y mae hi wedi twyllo ei hun o'r diwedd. Dyna sydd yn dyfod o fod yn rhy foneddig.

Marg. P'odd felly?

Eliz. Y mae hi mewn helynt ffaidd. Y mae yn awr wrth fwyta ac yfed yn porthi dau ar unwaith.

Marg. Och!

Eliz. Mae wedi dygwydd iddi hithau yn iawn o'r diwedd. Mor hir y bu yn hongian wrth y bachgen. Buont yn rhodiana, ac yn myn'd i ffeiriau a dawnsiau; rhaid oedd iddi hi fod ymlaenaf yn mhob peth. Cymerai yn wastad gacenu a gwïn o'i law. Mawr oedd ei balchder yn ei glendid; ac yr oedd yn ddigon digywilydd i dderbyn anrhegion ganddo. Wedi hyny, coffeidio a chusanu, ac yn awr, dyna hi wedi colli ei choron.

Marg. Druan ydyw.

Eliz. Yr wyt ti, ynte, yn tosturio wrthi! Pan oeddym ni yn nyddu, ni adawai ein mamau i ni fnyed allan y nos. Yr oedd hi mor gariadus: ar y faine o flaen y

drws, ac yn yr heol dywyll, nid oedd yr amser yn byth ddigon hir iddynt. Ond yn awr, gall ostwng ei phen, a gwneyd penyd mewn cynfas wen yn yr eglwys.

Marg. Mae yn ddiammheu y gwna efe ei phriodi.

Eliz. Byddai yn ffwl pe gwnai. Mae gan ddyn ieuanc heinif y byd o'i flaen. Heblaw hyny, y mae efe wedi myned ymaith.

Marg. (wrthi ei hun) Mor ddirugaredd yr oeddwn i gynt yn medru beio os dygwyddai i ferch ieuanc lithro. Nid oedd digon o eiriau i'w cael i siarad am gwilydd un arall. Mor ddu yr oedd yn ymddangos. Ac er ei duo hyd y gallwn, nid oedd byth yn ddigon du genyf. Yr oeddwn yn bendithio fy hun, ac yn teimlo mor lân; ac yn awr, dyma fi fy hun yn y pechod!"

Yn fuan wedi hyn, mae ei brawd yn ei thrin yn erwin. Dyma ran o'i araeth:—

"Yr wyf eisoes yn gweled yr amser pan y bydd pob dyn gonest yn troi oddiwrthyt, y buten, fel oddiwrth gorff marw heintus. Bydd dy galon yn suddo o'th fewn pan edrychant yn dy wyneb. Ni chei wisgo cadwen aur eto. Dim sefyll mwy wrth yr allor yn yr eglwys, nac ymfalchio mewn *lasiau* gwychion yn y ddawns. Bydd yn rhaid i ti guddio dy hun mewn rhyw gornel dywyll druenus, yn nghanol cardotwyr; ac hyd yn nod pe b'ai Duw yn maddeu i ti, byddi yn felldigedig ar y ddaear."

Yn nesaf, yr ydym yn ei chael yn yr eglwys, lle y mae un o'r ysbrydion drwg yn ei dilyn o hyd, ac yn dannod ei phechod. Pan y maent yn canu yr anthem,

"Dydd o ddigter yw'r dydd hwnw,
Llysg y byd i gyd yn ulw,"

y mae yn teimlo fel pe b'ai y muriau yn gwasgu arni nes y mae yn methu anadlu; ac o'r diwedd yn syrthio i lewyg. Yn y canlyniad, y mae, er mwyn cuddio ei gwarth, yn lladd ei phlentyn, yn cael thafu ei i garchar, a'i dedfrydu i ddyoddef dienyddiad. Yn y cyfamser, y mae Faust yn crwydro i weled y byd, ac i fwynhau ei hun, gyda Mephistopheles. Ond pan ddaeth i wybod am yr amgylchiad, terfysgodd ei gydwybod yn ddechrynllyd, a chododd ffirwgwd enbyd rhwng Mephistopheles ac yntau. Fel y canlyn y maent yn cyfarch eu gilydd:—

Faust. Mewn trueni! Mewn anobaith! Wedi bod yn hir yn grwydriad digysur ar y ddaear, ac yn awr yn y carchar! Yr un anwyl annedwydd, wedi ei chau i fynu mewn daearell i boenau echrydus fel drwgweithredydd! I hyn y daeth! I hyn! O ysbryd twyllodrus diddaioni, hyn a guddiaist oddiwrthyf. Saf; a thro dy lygaid diaflaidd mewn llidiawgrwydd yn dy ben. Saf, a heria fi â'th bresennoldeb annyoddefol. Yn y carchar! Mewn trueni anobeithiol! Wedi ei rhoddi i fynu i ysbrydion drwg, ac i ddynoliaeth ddedfrydgar ddideimlad. A mi yr holl amser a hudaist â'th bleserau diflas, gan guddio ei thrueni oddiwrthyf, a'i gadael hithau i drengu yn ddigymhorth.

Meph. Nid hi yw y gyntaf.

Faust. Y corgi! anghenfil ffaidd! Tro ef, O Ysbryd anfeidrol! tro y bwystfil yn ol i'w lun cfaidd, yn yr hwn yr arferai redeg o fy mlaen y nos, y taflai ei hun wrth draed y teithiwr diniwed, ac y cydai yn ei ysgwyddau pan syrthiai. Tro ef eto i'w hoff ddull, i orwedd ar ei dŵr yn y llwch o fy mlaen, tra fyddwyf yn ei gicio a'm troed,—y peth mellddigedig. Nid y gyntaf! Gwae! Gwae! nid oes enaid dynol a all amgyffred, fod mwy nag un creadur wedi suddo i'r fath ddyfnder o drueni; nad oedd y gyntaf, yn ei hing angeuol, yn ddigon i wneyd iawn dros eu-ogrwydd y lleill i gyd yn ngolwg yr Holl-faddeuol. Y mae trueni yr un hon yn malu fy nheimpladau i i'r byw; ac yr wyt ti yn hyll-wenu yn dawel uwch ben colligaeth miloedd.

Meph. Dyma ni eisoes unwaith eto yn mhen draw ein doethineb, lle mae eich synwyr chwi, ddynion, trwy ormod tyniad yn tori. Paham y daethost i gymundeb â ni, os na eli ei gario trwodd? A fynit ti ehedeg, a thithau mewn perygl oddiwrth ben-feddwod? Ai ni a gymhellodd ein hunain arnat ti, ai tydi arnom ni?

Faust. Nac ysgyrnyga dy ddannedd gwancus arnaf fi mor feiddgar! Yr wyf fi yn dy ffeiddio! O Ysbryd mawr a gogoneddus, yr hwn a welaist yn dda ymddangos i mi, tydi yr hwn a adwaenost fy nghalon a fy enaid, paham y rhwyaist fi wrth y fath gydymaith gwarthus, yr hwn sydd yn ymborthi ar ddrygioni, ac yn ymbesgi ar ddystryw!

Meph. A wyt ti wedi darfod?

Faust. Achub hi; neu gwae i ti. Y felldith fwyaf ofnadwy arnat ti am filoedd o flyneddau."

Ond dyma ddigon o'r iaith echrydus hon. Dylasai Faust feddwl i bwy, ac at ba waith yr oedd yn ymwerthu pan wnaeth gytundeb â'r diafol. O'r diwedd y mae Mephistopheles yn addaw cymylu synwyrâu y carcharwr, fel y gallo Faust gymeryd yr agoriadau, a dwyn Margaret ymaith. Ond y mae hi, druan, erbyn hyn yn cael gradd o seibiant oddiwrth ei gofid mewn gwallgofrwydd. Pan y mae Faust yn agor drws y carchar, y mae yn ei chlywed yn canu darnau o hen gerdd gymsglyd ddisynwyr. Y mae lithau wrth ei weled yn cuddio ei gwyneb yn y gwely gwellt, gan dybied mai efe yw y dienyddwr.

"*Marg.* Gwae! gwae! Dyma nhw'n dyfod. Angeu chwerw.

Faust. Ust! Ust! Yr wyf fi yn dyfod i'th ryddhau di.

Marg. Os dyn wyt ti, teimla dros fy nhrueni.

Faust. Ti ddeffröi y gwylwyr â'th lef.

Marg. (ar ei gliniau). Pwy roddodd i ti, ddienyddwr, yr awdurdod hon arnaf? Yr wyt yn dyfod i'm cyrchu pan nad yw hi eto ond hanner nos. Bydd drugarog, a gad i mi fyw. Onid yw boreu yfory yn ddigon buan. (Mae yn sefyll i fynu). Yr wyf eto mor ieuanc, mor ieuanc! ac a raid i mi farw eisoes? Yr oeddwn yn deg, hefyd; a hyny am dystrywiodd. Yr oedd fy ngariad yn agos, ond y mae efe yn awr ymhell. Mae y goron briodasol wedi ei dryllio, a'r blodau wedi eu gwasgaru. Paid ymaffyd ynof mor arw. Arbed fi! Beth wnaethum i ti? Na ad i mi ymbil yn ofer. Ni welais i monot erioed o'r blaen, ti wyddost.

Faust. A allaf fi fyw wedi gwel'd y fath ofid a hyn?

Marg. Yr wyf yn awr yn hollol yn dy allu di. Yn unig gad i mi yn gyntaf roddi sugn i'r plentyn. Bum yn ei wasgu at fy nghalon drwy'r nos. Cymerasant ef

ymaith i'm poeni, a dywedant yn awr mai fi a'i lladdodd. Ac ni fyddaf yn hapus byth mwy. Y maent yn canu cerddi am danaf. Y mae hyn yn greulawn yn y bobl. Yr oedd hen ystori yn dybenu felly; pwy barodd iddynt hwy ei chymhwyso?

Faust (yn taflu ei hun i lawr). Dy gariad sydd yn gorwedd wrth dy draed, i ddattod rhwymau dy drueni.

Marg. (yn taflu ei hun i lawr wrth ei ochr). Ië, gad i ni benlinio i alw ar y seintiau*. Weli di? O dan y grisiau yma, o dan y trothwy, y mae uffern yn berwi. Yr un drwg yn ei ddigter arswydus sydd yn cadw swm!

Faust. Margaret! Margaret!

Marg. Dyna lais fy nghariad. B'le mae efe? Clywais ef yn galw. Yr wyf yn rhydd. Ni chaiff neb fy rhwystro. Mi a redaf i'w freichiau. Gorweddaf yn ei fynwes. Galwodd Margaret! Yr oedd yn sefyll ar y trothwy. Yn nghanol y cwbl, trwy swm a dwndwr uffern, trwy y gwawd cythreulig, adwaenais y llais melus, hoff.

Faust. Myfi ydyw.

Mary. Tydi ydyw! Ah, dywed hyna unwaith eto. Efe ydyw! Efe ydyw! B'le yr aeth fy holl ofid? B'le yr aeth ing y carchardy—y cadwynau? Tydi ydyw! Yr wyt yn dyfod i'm gwaredu. Dyma fi yn ddiangol. Fan acw eisoes y mae yr heol, lle gwelais i di y tro cyntaf; a'r ardd hyfryd lle yr oeddwn i a Martha yn dysgwyl am danat.

Faust. Tyred ymaith, tyred ymaith.

Marg. O aros! Yr wyf yn hoffi aros lle byddi di yn aros—(yn ei goffeidio).

Faust. Brysia! Os na wnei frys, rhaid i ni dalu yn ddrud.

Marg. Beth! A fedri di ddim cusanu mwyach? Cyn lleied o amser oddiwrthyf, fy anwylyd, ac eisoes wedi anghofio pa fodd i gusanu? Paham y teimlaf fy hun mor drist yn dy fynwes? pan, amserau eraill, yr oedd nefoedd gyfan yn dyferu o'th eiriau a'th olwg. O! y mae dy wefusau yn oerion. Pa le y gadewaist dy gariad? Pwy a'm hamddifadodd i o hono?

Faust. Tyred, canlyn fi. Ymwrola, fy anwylyd. Gwasgaf di at fy nghalon yn fil mwy cynhes nag erioed—yn unig canlyn fi. Nid wyf yn gofyn ond hyn.

Marg. Ac ai tydi ydyw, ynte? Ai tydi ydyw yn wir?

Faust. Myfi ydyw. Tyred ymaith.

Marg. Yr wyt yn dattod fy llyffetheiria, ac yn fy nghymeryd i'th fynwes? Pa fodd nad oes arnat fy ofn? Ac a wyt ti yn gwybod, fy anwylyd, pwy yr wyt yn ryddhau?

Faust. Tyred, tyred; mae y nos yn myned heibio.

Marg. Mi a leddais fy mam; mi a foddais fy mhlentyn. Onid i ti ac i mi y rhoddwyd ef?—i ti hefyd? Tydi yw! Prin y gallaf gredu. Dyro i mi dy law. Nid breuddwyd yw! Dy law anwyl! Ond Och! mae yn wlyb. Sych ef ymaith. Mae yn ymddangos i mi fod gwaed arni. O! pa beth a wnaethost? Dyro dy gleddyf heibio, yr wyf yn dymuno arnat.

Faust. Gad yna son am bethau sydd wedi pasio. Ti a'm lleddi.

Marg. Na mae yn rhaid i ti fyw ar fy ol. Dangosaf i ti fel y mae y beddau i fod: rhaid i ti edrych at hyn y peth cyntaf yfory. Cladd fy mam yn y lle goreu; —fy mrawd wrth ei hochr;—minnau ychydig o'r naill du, ond nid yn rhy bell; a'r un bychan ar fy mron dde—ni fydd neb arall gyda mi. Cael gorwedd wrth dy ochr di, hyn fyddai yn felus. Ond ni fydd dim yn iawn gyda mi eto. Yr wyf yn teimlo fel pe bawn yn cael fy nhynu atat, a thithau yn fy ngwthio oddiwrthyf. Ac eto tydi ydyw; ac yr wyt yn edrych mor ddaionus, mor dirion.

Faust. Os wyt yn teimlo mai myfi yw, tyred gyda mi.

Marg. Allan acw?

Faust. I'r awyr rydd.

Marg. Os yw y bedd y tuallan, os yw angeu yn dysgwyl, yna tyred. Ymaith i'r tragwyddol orweddle, ac nid un cam ymhellach.—A wyt ti yn myn'd i ffwrdd yn awr? O, Henry, pe gallwn innau fyned hefyd!

Faust. Ti elli! Dim ond cydsynio! mae y drws yn agored.

Marg. Nis gallaf fyned allan; nid oes un gobaith i mi. Pa les yw diane? Maent yn gwylid am danaf. Mor ddigysur yw gorfod cardota; a pheth sydd waeth, gyda chydwybod euog hefyd. Mor druenus yw crwydro mewn gwlad ddy-eithr; ac y maent yn sier o fy nal, beth bynag a wnelwyf.

Faust. Arosaf fi gyda thi.

Marg. Brysia! Brysia! Achub dy blentyn bach. Ffwrdd! cadw dy lwybr i fynu gyda'r afon, dros y bont, i'r coed, i'r llaw chwith lle mae'r planc—yn y pydew. O brysia, a chymer afael ynddo. Mae yn ceisio codi! Help! help!

Faust. Cymer bwyll, 'rwy'n dymuno. Dim ond un cam, a dyna thi yn ddiogel.

Marg. Pe buasem wedi pasio y bryn! Yno mae fy mam yn eistedd ar gareg—mae fy 'menydd yn rhewi!—yno mae fy mam yn eistedd ar gareg, ac yn ysgwyd ei phen yn ol ac ymlaen. Nid yw yn rhoddi un amnaid; mae ei phen wedi trymhan Hi a gysgodd mor hir; ddeffry ddim mwyach. Hi a gysgodd tra yr oeddym ni yn mwynhan ein hunain. Amserau hyfryd oedd y rhai hyny!

Faust. Gan nad wyf yn llwyddo trwy greffu, rhaid i mi dy gario ymaith o'th anfodd.

Marg. Gad fi yn llonydd. Na, ni fynaf ddyoddef trais. Paid ymaflyd ynof mor filain. Bu amser, ti wyddost, pan wnaethum bob peth i dy foddio.

Faust. Mae y dydd yn gwawrio! Fy anwylyd! Fy anwylyd!

Marg. Dydd! Ydyw, mae yn myned yn ddydd! Mae y dydd olaf yn ymyl! Hwnw oedd i fod fy nydd priodas! Na ddywed i neb dy fod wedi bod gyda Margaret eisoes. O fy nghoron briodasol! Mae y cwbl drosodd bellach. Cawn gyfarfod eto, ond nid yn y ddawns. Daew y torfeydd yn dyfod ynghyd. Nis gall yr heolydd eu cynnwys. Mae y gloch yn canu!—yr arwydd yn cael ei roddi! Y maent yn ymaflyd ynof ac yn fy rhwymo! Y maent yn fy ngyru i'r dienyddle! Eisoes yn barod i bob gwddf y mae y dur miniog sydd yn barod i mi. Dyna y byd yn gorwedd yn ddystaw fel y bedd.

Faust. O na buaswn heb erioed fy ngeni!

Meph. (yn dyfod i mewn). Cyfod, neu fe'th gollir. Nid yw un dyben arcs. Oedi a siarad! Mae y boreu wedi gwawrio.

Marg. Beth yw hwn yna sydd yn codi o'r gwaelod? Efe! Efe! Anfon ef ymaith! Beth sydd a fyno efe yn y lle sanctaidd! Mae am fy nghael i!

Faust. Mae yn rhaid i ti fyw.

Marg. O farn Duw! Yr wyf wedi rhoddi fy hun i fynu i ti.

Meph. (wrth Faust). Tyred, tyred—neu mi a'th adawaf gyda hi ar ol.

Marg. Eiddot ti ydwyf fi, O Dad! Achub fi! Chwi angelion! Chwi luoedd sanctaidd! Sefwch o'm hamgylch, i'm hamddiffyn. Henry! yr wyf yn gofidio wrth edrych arnat ti.

Meph. Hi a farnwyd!

Llais oddiuchod. Hi a gadwyd!

Meph. (wrth Faust). Yma ataf fi—(mae yn cymeryd Faust ymaith).

Llais o'r tufewn (yn darfod yn raddol). Henry! Henry!

Pan yn galw fel hyn ar ei Henry, y mae enaid Margaret yn ehedeg ymaith i'r byd tragwyddol. Ac felly terfyna y rhan gyntaf o Faust. Fe allai nad oes cymaint o naturioldeb i'w weled yn yr ail ran, yr hon a ysgrifenyd pan oedd y bardd wedi heneiddio, ac yn yr hon yr amcanai ddangos daioni o'r diwedd yn gorchfygu drygioni, trwy fod Faust, ar ol ei holl grwydriadau, yn derbyn trugaredd, ac yn dianc o afaelion y Twyllwr. Ond ein dyben blaenaf ni, yn yr ysgrif hon, oedd rhoddi hanes Margaret o flaen merched Cymru. Os bydd rhai o'n darllenwyr yn methu canfod prydfferthwch y darluniad, gallant benderfynu ar unwaith am danynt eu hunain eu bod yn ddiffygiol, nid yn unig mewn chwaeth lënyddol, ond hefyd mewn teimlad dyngarol. Dichon y bydd rhai yn barnu ein bod wrth ddywedyd fel hyn yn llefaru braidd yn rhy awdurdodol: ond dymunem iddynt ddeall ein bod yn cyfeirio, nid at ein gwaith ein hunain, ond at brif waith un o brif awdwyr yr Almaen. Pan yn gwrthwynebu dyn mawr, byddwn yn ceisio gwneuthur hyny yn wylaidd a gostyngedig; ond pan yn ei ganmawl, byddwn yn teimlo yn rhydd i ddywedyd ein meddwl yn fwy penderfynol. Pe buasem yn arfer geiriau mor gryfion i warthruddo Goethe, buasai hyny yn brawf o hyfdra anfaddeuol; ond pan yn talu gwarogaeth i'w athrylith yr ydym ar dir gwahanol, gan nad ydym ond yn dilyn y beirniaid penaf yn mhob gwlad.

NODIAD.

YSGRIFENODD un beirniad yn yr *Amserau* na ddarllenodd efe erioed y fath filoreg â'r ysgrif hon. Rhyfedd yw yr anffaeledigrwydd hapus y mae rhai dynion wedi ei gyrhaedd. Afreidiol yw hysbysu nad oedd gan Hiraethog na Ieuan Gwyllt un ran na chytran yn y feirniadaeth hono.

ATHRONIAETH KANT.*

[ERTHYGL GYNTAF.]

Cawsom gyffe yn ddiweddar i ddarllen llythyr a anfonasid at un o olygwyr y “Traethodydd” yn cynnwys dymuniad am “ychwaneg o draethodau dyfnion ac athronyddol, cyffelyb i'r ‘*Edinburgh Review*’ neu y ‘*North British.*’” Y mae yn rhaid i ysgrifenydd y llythyr hwn roddi cenad i ni sylwi ei fod wedi syrthio i ychydig o gamgymeriad; oblegid nid oes un o gyhoeddiadau y Seison wedi anrhegu ei ddarllenwyr mewn cyn lleied amser â chynnifer o draethodau “dyfnion ac athronyddol” ag a ymddangosodd yn y “Traethodydd.” Yn yr “*Edinburgh Review*” nid oes nemawr o draethodau gwir ddyfnion wedi ymddangos er ys blyneddau lawer, oddieithr chwech neu saith o eiddo Syr William Hamilton; ac yn y “*North British*” ni chafwyd uwch-law tair neu bedair ysgrif o'r natur yma er y dechreu. Ar yr un pryd y mae darlleniad y llythyr hwn, ynghyd â'r wybodaeth a gawsom yn achlysurol am ddymuniad cyffelyb o fanau eraill, wedi rhoddi i ni hyfrydwech nid bychan; yn gymaint a'i fod yn peri i ni obeithio fod llawer o fechgyn Cymru wedi eu deffro i feddwl, ac yn dechreu dyfod yn alluog i ymborthi ar fwyd cryf. Dichon fod rhyw ychydig o hunan a ffolineb yn gymysg â'r dymuniad hwn mewn rhai o honynt; ond y ffordd debycaf i'w hargyhoeddi o'u hanwybodaeth yw eu harwain at y materion mwyaf dyfnion; ac o bob athroniaeth, mae yn ddiau mai yr athroniaeth ddyfnaf—yr athroniaeth sydd wedi rhoddi gwaith i'r meddyliau mwyaf dyfnbwyll, a'r hon sydd yn sicr o effeithio yn ddyfnaf yn y pen draw ar bob gwybodaeth arall—yw athroniaeth y meddwl. Fe allai hefyd nad oes neb wedi treiddio yn ddyfnach i'r athroniaeth hon—o'r hyn lleiaf, nid oes neb wedi achosi chwyldroad llwyrach yn ngolygiadau y dynion callaf mewn perthynas iddi, na'r hyglod Immanuel Kant, awdur y “*Kritik der reinen Vernunft*” (Beirniadaeth y

* O'r “TRAETHODYDD,” am 1853.

Rheswm pur). Y mae wedi ysgrifenu amryw lyfrau eraill ar wahanol faterion. Yn y "*Kritik der practischen Vernunft*," a'r "*Metaphysik der Sitten*," yr ydym yn cael ei olygiadau ar y Gydwylbod a'r Ewyllys. Ond y llyfr cyntaf a enwyd, yn yr hwn y traethir am gynneddau gwybodaeth, a gynnwys y gyfundrefn a adnabyddir yn neillduol wrth ei enw: ac y mae hwn yn ddigon i ni am ddwy neu dair o erthyglau. Wrth ddwyn y gwaith hwn, yn hytrach na'n syniadau ein hunain, ger bron y darlennydd, yr ydym yn teimlo fod genym hawl i addaw y bydd ein herthyglau yn ddyfnion ac athronyddol: ac wrth gyfyngu ein hunain at un awdur, yn lle rhedeg yn arwynedol dros liaws o enwau, bydd genym well mantais i wneyd cyfiawner â'r pwnc. Fel y caffo y darlennydd gyfle, nid yn unig i foddio ei chwilfrydedd, ond i ffurfio barn deg a chywir, rhoddir cryn nifer o ddyfyniadau yn ngeiriau Kant ei hun. Byddant yn werth llafurio i'w deall; ac i'r sawl a fyddo yn meddu ar ddigon o benderfyniad meddwl, ni fyddant yn annealladwy. Ac yma y mae yn iawn i ni roddi gair o ocheliad o flaen y darlennydd. Os nad yw yn dewis darllen dim ond sydd hawdd i'w ddeall, nid yw yn un dyben iddo son am athroniaeth y meddwl. Mae yn wir am lawer sydd wedi cymeryd arnynt ysgrifenu cyfrolau ar hyn, nad ydynt yn gofyn llawer o weithrediad meddwl yn y darlennydd, mwy nag yn yr ysgrifenydd. Ni ddylid eu diystyru; oblegid y mae y gorchwyl o bobl-ogeiddio gwybodaeth yn fuddiol i blant. Er hyny, fel rheol gyffredin, os na fydd awdur yn galw holl feddwl y darlennydd i lawn weithrediad, gallwn benderfynu ei fod yn ysgrifenu yn arwynebol. Ond un lled wahanol i hyn yw awdur y "*Kritik der reinen Vernunft*."

Cyn ymddangosiad y gwaith hwn, yr oedd athroniaeth y meddwl wedi ei chladdu mewn tryblith o ansicrwydd, ac yn ei chwmp wedi tynu duwinyddiaeth i lawr i'w chanlyn. I gael gafael yn yr achos o'r dirywiad hwn, mae yn rhaid i ni fyned yn ol at y llygredigaeth a'r annuwiaeth a ddygwyd i mewn i'r deyrnas hon gydag adferiad Siarl yr Ail. Priodolir ef yn fynych i Locke; ond y mae hyn yn anghyfiawnder dirfawr, oblegid yr oedd ei athroniaeth ef yn fwy ysbrydol i raddau anghymharol na'r eiddo rhai o'i ragflaenwyr. Gwnaeth ef ei oreu i godi argae yn erbyn y ffrwd; ond nid oedd ganddo safle digon cadarn i sefyll arno, gan ei fod yn gwadu meddylddrychau cynhenid, ac yn priodoli y cwbl i'r synwyrâu corfforol. Mae yn wir ei fod weithiau yn son am adfyfyrdod fel ffynnonell meddylddrychau; ond os na fydd gan ddyn ddim i fyfyrio arno ond sydd yn dyfod i mewn

trwy y synwyrâu, o ba le y dichon iddo gael gwybodaeth am ddim heblaw am briodoliaethau ymddangosiadol y byd gwelodig? Os yw meddwl dyn fel papyr gwyn, yn derbyn ei holl feddylddrychau trwy y synwyrâu, yna er iddo eu cymharu trwy adfyfyrdod, a'u gwahanu, a'u rhanu fel y myno, y maent o hyd yn rhwym o aros yn argraffiadau corfforol, ac nid yw gwybodaeth dyn o ran natur yn ddim uwch na gwybodaeth yr anifel. Pe buasai Locke yn cymeryd yr un tir a Cudworth, buasai yn alluog i droi yn ol annuwiaeth Hobbes a'i ganlynwyr; ond gan iddo roddi i fynu y brif amddiffynfa, er cymaint ei ddawn, ac er cystal ei ddyben, bu ei ymgais yn aflwyddiannus. Yn ganlynol, daeth Hume ymlaen i brofi nas gallai dyn fod yn sier am ddim ond yr hyn a welai â'i lygaid ac a deimlai â'i ddwylaw; ac mai prin y gallai fod yn sier o hyn y mewn gwirionedd: ac heb ryw athroniaeth uwch na'r eiddo Locke, nid oedd modd ei wrthsefyll. Yn y cyfyngder hwn, cymerodd Reid afael yn yr egwyddor o "synwyr cyffredin:" ond gyda phob parch i Reid, ac i'w amddiffynwr, Syr William Hamilton, nis gallwn lai na meddwl fod yr egwyddor hon ei hun yn lled ansier ac amhenderfynol i feddwl adeiladu arni; a buasai yn anhawdd i'r meddwl dynol bwysu ar unrhyw egwyddor o'r fath yma, heb i ryw athronydd dreiddio yn ddyfnach na Reid, i ddangos pa beth sydd yn ei chyfansoddi, pa gymaint o bwysau y mae yn alluog i'w gynnal, a phaham y dylid cymeryd rhyw wirioneddau mwy nag eraill yn sylfaen i'r holl adeilad. Dyma y gorehwyl yr amcanwyd ei gyflawni gan Kant. Cymered y darlennydd un dyfyniad byr ar y mater, o'i ragymadrodd i'r argraffiad cyntaf o'r "*Kritik der reinen Vernunft*."

"Gyda golwg ar *sicrwydd*, yr wyf wedi gosod i lawr y penderfyniad, nad oes caniatâd mewn unrhyw fodd, yn y fath yma o ymchwiliadau, i *dybiad*, a bod y cwbl sydd ynddynt yn ymddangos yn debyg i dybiaeth yn eiddo gwaharddedig, yr hwn nis gellir ei gynnyg ar werth am y pris iselaf; ond mor fuan ag y ceir ef allan, mae yn rhaid ei attafaelu."

Er mwyn gwled ei amcan yn eglurach eto, darllener ymhellach un dyfyniad o'i ragymadrodd i'r ailargraffiad.

"Hyd yn hyn cymerwyd yn ganiatâol fod yn rhaid i'n holl wybyddiaeth reoli ei hun yn ol y gwrthdrychau: er hyny y mae pob ymgais i wneyd allan rywbeth mewn perthynas iddynt *a priori* trwy ein hamgyffredion, trwy yr hyn y gallasid eangu ein gwybyddiaeth, wedi bod dan y dybiaeth hon yn ddi-effaith. Profer gan hyny am unwaith a lwyddir ddim yn well yn ymchwiliadau nchanianaeth, ar y dybiaeth fod yn rhaid i'r gwrthdrychau reoli eu hunain yn ol ein gwybyddiaeth, yr hyn sydd eisoes yn cydfyned yn well â'r dichoniaeth dymunedig o wybyddiaeth

o honynt *a priori*, yr hwn sydd i benderfynu rhywbeth am wrthddrychau cyn eu rhoddi o'n blaen. Yr amgylchiadau yn yr achos hwn ydynt yn hollol yr un a chyda meddyliau cyntaf Copernicus, yr hwn, gan nad oedd yn llwyddo i esbonio symudiadau y cyrff nefol, wrth dybied fod yr holl ffurfafen yn troi oddiamgylch yr edrych-ydd, a chwiliodd pa un a atebai yn well os gadawai yr edrych-ydd ei hun i droi, a'r ser yn y gwrthwyneb i aros. Yn awr, mewn uehanianaeth, gallwn gynnig yr un ffordd gyda golwg ar ganfyddiad gwrthddrychau. Os rhaid i'r canfyddiad reoli ei hun yn ol ansawdd y gwrthddrychau, nid wyf yn gweled pa fodd y gall neb wybod dim mewn perthynas iddo *a priori*; ond os yw y gwrthddrych yn rheoli ei hun (fel gwrthddrych y synwyr) yn ol ansawdd ein gallu o ganfyddiad, gallaf yn hawdd amgyffred fod hyn yn ddichonadwy."

Yn awr, awn rhagom at yr arweiniad i mewn, yr hwn sydd yn dechreu gyda'r gwahaniaeth rhwng gwybodaeth bur a gwybodaeth brofiadol. Wrth wybodaeth bur y meddylir y wybodaeth sydd yn tarddu o'r meddwl ei hun; wrth wybodaeth brofiadol y meddylir yr hyn sydd yn dyfod i ni trwy brofiad; ac o ganlyniad y mae y gwahaniaethad hwn yn ymddibynu ar yr olwg a gymerir ar ddeilliad meddylddrychau. Dyma wreiddyn y ddadl yn mhob oes er dyddiau Plato. O'n rhan ni, yn hytrach na phriodoli y cwbl i'r argraffiadau sydd yn dyfod trwy y synwyrâu corfforol, byddai yn haws genym gymeryd cyfundraith Plato yn ei chrynswth, a golygu ein holl wybodaeth yn adgofiad o'r hyn oedd yn y meddwl mewn rhyw gyflwr blaenorol. Nid yw hyn mor afresymol ag y mae y rhan fwyaf o'r beirniad yn ceisio ei ddesgrifio. I'r gwrthwyneb, er fod Plato yn myned yn rhy bell wrth gynnig ceisio esbonio y ffaith, eto y mae enewyllyn y ffaith ei hun yn aros yn anwadadwy, sef mai yn nghlyfansoddiad gwreiddiol y meddwl y mae i ni edrych am elfenau sylfaenol ein meddylddrychau. Gan fod y blaid wrthwynebol, megys Locke, Hartley, Hume, Brown, &c., mor dueddol i ddarostwng y meddwl, a'i wneyd yn gyffelyb i'r corff, mae yn rhyfedd na chofient fod y prif achos sydd yn troi yr ymborth yn rhanau o gorff byw, nid yn yr ymborth, ond yn nghyfansoddiad blaenorol y corff ei hun. Er fod y defnydd yn dyfod iddo oddi-
:llan, eto oddifewn y mae yr achos sydd yn gwneuthur y defnydd hwnw yr hyn ydyw fel rhan o'r corff. Ond diau y dewisai ein darllenwyr gael geiriau Kant ei hun ar y mater hwn. Fel y canlyn y mae efe yn dechreu ei Arweiniad i mewn:—

"Fod ein holl wybyddiaeth yn dechreu gyda phrofiad, sydd yn ddiammheuol, ollegid pa fodd y gallai y gynnedd o wybyddiaeth gael ei deffro i ymarferiad, oni b'ai fod hyn yn dygwydd trwy wrthddrychau y rhai a effeithiant ar ein synwyrâu, ac mewn rhan o honynt eu hunain a gynnyrchant arddangosiadau, ac mewn rhan

a ddygant ein gallu deallol i weithrediad, i'w cymharu, i'w cysylltu, neu i'w gwahanu, ac fel hyn i weithio defnydd annelwig y teimladau i wybyddiaeth o wrth-ddrychau, yr hyn a clwir profiad. Gyda golwg ar amser, gan hyny, nid oes un wybyddiaeth ynom ni yn rhagflaenu profiad, ac y mae y cwbl yn dechreu gyda phrofiad.

Ond er fod ein holl wybyddiaeth yn dechreu gyda phrofiad, nid yw y cwbl oblegid hyn yn tarddu o brofiad. Oblegid gall yn hawdd ddygwydd fod hyd yn nod ein gwybyddiaeth brofiadol yn cael ei gyfansoddi o'r hyn a dderbynir trwy y synwrau, ac o'r hyn y mae ein gallu gwybyddol ei hun (trwy gymbelliad yr argraffiadau synwrol) yn ei gynnwrechu o hono ei hun, yr hwn ychwanegiad nis gallwn ei wahan-iaethu oddiwrth y defnydd gwreiddiol mewn dadl, nes y byddo hir ymarferiad wedi tynu ein sylw ato, a'n gwneyd yn fedrus i'w wahaniaethu.

Y mae gan hyny, o leiaf, yn un o'r holiadau sydd o hyd yn gofyn ymchwiliad manylach, ac nas gellir ar yr olwg gyntaf yn ebrwydd ei ateb,—a oes y cyfryw wybyddiaeth yn annibynol ar brofiad, ac ar argraffiadau y synwrau. Y cyfryw wybyddiaethau yr ydym yn eu galw *a priori*, i'w gwahaniaethu oddiwrth y rhai profiadol (*empirischen*, *Saes. empirical*), y rhai sydd yn tarddu *a posteriori*, hyny yw, o brofiad."—*Kritik der reinen Vernunft:—Einleitung*, § 1.

Yn yr ail adran o'r Arweiniad i mewn, dangosir ein bod yn meddu rhyw wybodaeth *a priori*, sef gwybodaeth anymddibynol ar y synwrau corfforol. Nodau y wybodaeth hon yw *anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd*. Os cyfarfyddir â gwirioneddau sydd yn ymddangos yn anghenrheidiol anhebgorol, ac yn gyffredinol ddiethriad, mae yn hawdd gweled fod yma rywbeth nad yw yn cael ei ddysgu gan brofiad y synwrau corfforol. * Y cwbl a ddichon profiad ei ddangos yw fod y peth yn wirionedd hyd y mae ein sylw ni wedi cyrhaedd; ond nid yw mewn un modd yn profi ei fod yn wirionedd anghenrheidiol a chyffredinol. O ba le y daeth yr anghenrheidrwydd hwn? Mae yn amlwg nad yw wedi dyfod oddiwrth brofiad; ac y mae yn rhaid gan hyny ei fod wedi tarddu o gyfansoddiad y meddwl ei hun. Y mae yma wahaniaeth, nid yn unig mewn graddau, ond mewn natur; oblegid yn y naill amgylchiad yr ydym yn teimlo y gallasai fod fel arall, ond yn y llall yr ydym yn teimlo mai felly y mae yn rhaid iddi fod. Ac nid hyny yn unig, ond y mae gwirioneddau anghenrheidiol yn profi eu hunain ar unwaith, yn eu goleuni eu hunain, fel nad yw ychwaneg o brofiad yn ychwanegu dim at yr anghenrheidrwydd. Yn awr, i ddangos fod y fath wirioneddau anghenrheidiol *a priori* yn bod, cymerer y dyfyniad a ganlyn:—

“Gellir dangos yn hawdd fod y cyfryw farnau anghenrheidiol, a chyffredinol yn yr ystyr fanylaf, ac o ganlyniad pur *a priori*, mewn gwybyddiaeth ddynol. Os dymunwn anghraifft mewn gwyddiant, nid rhaid i ni ond edrych ar wirioneddau sylfaenol rhifyddiaeth. Os dymunwn anghraifft oddiwrth arferiad mwyaf cyffredin y deall, gwasanaetha y gosodiad, ‘fod i bob cyfnewidiad ryw achos.’ Ac yn yr

amgylchiad olaf, mae yr amgyffrediad o achos yn cynnwys mor amlwg yr amgyffrediad o'r anghenrheidrwydd o gysylltiad ag effaith, ac o hollol gyffredinolrwydd y rheol, fel y collid ef yn llwyr pe dewisem gyda Hume ei briodoli i gydfynediad mynych yr hyn sydd yn dygwydd, a'r hyn sydd yn ei ragflaenu, a'r arferiad yn tarddu oddiwrth hyny (o ganlyniad anghenrheidrwydd tufewnol yn unig) o gysylltu arddangosiadau. Ac heb eisieu y cyfryw anghreiffiau i brofi gwirionedd egwyddorion pur *a priori* yn ein gwybyddiaeth, gellid dangos eu bod yn anheborol er gwneuthur profiad ei hun yn ddichonadwy, ac o ganlyniad yn anghenrheidliol *a priori*. Oblegid o ba le y gallai profiad gael ei sicrwydd, pe buasai yr holl reolau yn ol pa rai y mae yn gweithredu yn tarddu eu hunain o brofiad? Pe felly, prin y gallesid edrych arnynt yn gedym fel egwyddorion cyntefig."—*Ibid.* § 2.

Ar ol dangos mewn adran arall fod athroniaeth yn sefyll mewn anghen am ryw wyddiant i benderfynu posiblrwydd, egwyddorion, a chylch yr holl wybyddiaethau *a priori*, y mae Kant yn myned ymlaen i egluro y gwahaniaeth rhwng barnau dosranol a chyfosodiadol (*analytical and synthetical*). Wrth ffurfio barn, yr ydym yn cymeryd rhyw wrthddrych fel sylfon (*subject*) mewn cysylltiad â rhyw briodoledd fel mynegiad (*predicate*). Mae y berthynas hon rhwng y sylfon a'r mynegiad yn ddichonadwy mewn dwy ffordd; un ai mae y mynegiad B yn perthyn i'r sylfon A fel rhyw beth a gynnwysir (mewn dull cuddiedig) yn yr amgyffrediad A; neu ynte y mae y mynegiad B yn gorwedd yn hollol y tuallan i'r sylfon A, er ei fod yn sefyll mewn cysylltiad âg ef. Yn yr amgylchiad cyntaf yr ydym yn galw y farn yn ddosranol, yn yr ail yn gyfosodiadol. Er anghraifft, os dywedir, "Y mae pob corff yn meddu hyd a lled," dyma farn ddosranol; oblegid nid oes raid i ni fyned allan o'r amgyffrediad am gorff i gael gafael ar hyd a lled yn gysylltiedig âg ef; ond y cwbl sydd eisieu yw dosranu yr amgyffrediad i gael y mynegiad. I'r gwrthwyneb, os dywedir, "Y mae pob corff yn meddu pwysau;" y mae y mynegiad hwn yn rhywbeth gwahanol i'r hyn a gynnwysir yn yr amgyffrediad am gorff. Gan hyny, y mae ychwanegiad y cyfryw fynegiad yn rhoddi barn gyfosodiadol. Mae yn amlwg mai barnau cyfosodiadol sydd yn eangu ein gwybodaeth, a dyma y barnau sydd yn tarddu o brofiad. Ond a ydyw ein holl farnau cyfosodiadol yn tarddu o brofiad? Nac ydynt yn ddiâu. Cymerwch y gosodiad, "Y mae achos i bob dygwyddiad;" y mae hwn yn cynnwys barn gyfosodiadol; oblegid y mae y meddylddrych am achos yn ychwanegiad at y meddylddrych am ddygwyddiad. Ond nis gall darddu o brofiad; oblegid y mae yn cario gydag ef anghenrheidrwydd, yr hwn nis gallasai profiad byth ei roddi; ac o ganlyniad y mae yn farn gyfosodiadol *a priori*. Ar y cyffelyb farnau y mae rhifyddiaeth a

mesuryddiaeth, ac athroniaeth naturiol hefyd, i raddau, yn sylfaenedig.

Ond heb aros yn hwy gyda'r arweiniad i mewn, yr ydym yn brysio at gorff y llyfr, yr hwn sydd yn dechreu gyda "Theimladaeth Uchaniaiol." Gweithrediad y meddwl ar wrthddrychau, trwy yr hyn y mae y meddwl yn dyfod yn wybyddus o honynt, a elwir canfyddiad (*Anschaung*). Y gallu synwrol sydd yn ein cynnysgaethu â chanfyddiadau, ond meddylir hwynt gan y deall, a thrwy hyn y mae amgyffrediaidau yn tarddu. Y canfyddiad hwnw sydd yn cyfeirio at wrthddrych trwy gyfrwng argraffiad synwrol a elwir yn ganfyddiad profiadol. Y gwrthddrych anmhenderfynol o ganfyddiad profiadol a elwir yn ymddangosiad. Dosbarthir ymddangosiadau yn ddwy ran, sef mater a ffurf. Dyma wahaniaeth sydd yn teilyngu sylw neillduol, oblegid y mae yn dwyn perthynas, nid yn unig âg athroniaeth y meddwl, ond â phob gwybodaeth arall. Beth yw yr achos o'r holl amrywiaethau sydd o flaen ein llygaid mewn blodau a choedydd a chreaduriaid? Nid gwahaniaeth yn y defnydd yn gymaint ag yn y ffurf. Mewn fferylliaeth, dangosir fod y sylweddau mwyaf uchelbris a'r rhai mwyaf diwerth yr un mewn mater, ond yn wahanol mewn ffurf. Gwreiddyn llawer cyfeiliornad mewn duwinyddiaeth yw talu rhy fach o sylw i ffurf, yn yr ystyr yr arferir y gair yn y lle hwn. Felly mewn perthynas i athroniaeth y meddwl, buasai yn haws penderfynu y ddatl am ddeilliad meddylddrychau pe cadwesid y gwahaniaethiad hwn mewn golwg. Geiriau Kant ar y pwnc hwn sydd fel y canlyn:—

"Yr hyn sydd mewn ymddangosiad yn cyfateb i argraff y synwyr yw y *mater*, ond yr hyn sydd yn peri fod amrywiaeth yr ymddangosiad yn drefn mewn perthynasau penodol yw *ffurf* yr ymddangosiad. Gan nas gall hyny fod yn argraff y synwyr, trwy yr hwn yn unig y mae argraffiadau y synwyr yn cael eu trefnu a'u dwyn i ffurf benodol, y mae mater yr holl ymddangosiadau yn cael eu rhoddi fel hyn, mae yn wir, yn unig *a posteriori*, ond y mae yn rhaid fod y ffurf o honynt yn gorwedd yn barod iddynt oll yn y meddwl *a priori*; ac am hyny gellir ei ystyried ar wahan oddiwrth holl argraffiadau y synwyr.

Yr wyf yn galw pob arddangosiad yn bur, yn yr hwn ni chyfarfyddir â dim sydd yn perthyn i argraff y synwyr. Y ffurf bur o ganfyddiadau synwrol yn gyffredinol a geir gan hyny *a priori* yn y meddwl, trwy yr hyn y mae holl amrywiaeth ymddangosiadau i'w canfod mewn perthynas neillduol. Y ffurf bur yma o synwyr a elwir hefyd yn ganfyddiad pur. Felly, os gwahanaf oddiwrth yr arddangosiad o gorff yr hyn y mae y deall yn feddwl ynddo, megys sylwedd, gallu, hyranedd, ac hefyd yr hyn o hono sydd yn perthyn i argraff y synwyr, megys anhydreiddrwydd, caledrwydd, lliw, &c., y mae rhywbeth eto yn aros yn ol i mi o'r canfyddiad profiadol hwn, sef eangder a llun. Y rhai hyn a berthynant i ganfyddiad pur, yr hwn *a priori*, ac heb wrthddrych gwirioneddol o synwyr neu deimlad, sydd yn meddu lle yn y meddwl fel ffurf bur o'r gallu synwrol.

* * * Mewn Teimpladaeth athronol, gan hyny, ni a neilldawn y gallu synwrol yn gyntaf fel ag i wahanu pob peth a feddylir ynddo gan y deall trwy ei amgyffredion, nes na byddo dim yn aros ond canfyddiad profiadol. Yn ail, ni a wahanwn drachefn oddiwrth hyn bob peth sydd yn perthyn i argraff y synwyr, nes na byddo dim yn aros ond canfyddiad pur a ffurf noeth yr ymddangosiadau; yr hyn yw yr unig beth a dderbynir *a priori* oddiwrth y gallu synwrol. Yn yr ymchwiliad hwn ceir fod dwy ffurf bur o canfyddiad synwrol, fel egwyddorion gwybyddiaeth *a priori*, sef lle ac amser.—*Ibid. Transcendentale Aesthetik*: § 1.

Fel cynnorthwy i ddeall y dyfyniad uchod, cymerir cymhariaeth agos, yr hon a ddichon fod yn fantais i'r anghyfarwydd, er ei bod yn rhwym o fod yn anghelfydd, ac i raddau yn anmhriddol. Tybier fod canfyddiadau yn y meddwl fel papyrlen yn yr argraffwasg yn derbyn argraff o arluniadau celfydd, a'r rhai hyny yn cael eu lliwio yr un pryd yn y modd mwyaf prydferth. Yn awr, ar un llaw, mae yn rhaid gadael allan o'r sylw y lliwiau a dderbynir oddiwrth y deall; ac ar y llaw arall, mae yn rhaid gadael allan y defnydd sydd yn dyfod oddiwrth wrthddrychau allanol; yna bydd genym feddylddrych am ffurf noeth yr arluniau. Er mor anmherffaith yw y gymhariaeth hon, y mae yn llawer mwy cymhwys na'r hen gyffelybiaeth am y meddwl fel papyr gwyn. Yr hyn sydd yn dyfod i'r meddwl trwy y synwyr yw y papyr, ar yr hwn y mae y meddwl yn rhoddi ei argraff ei hun. Y deall sydd yn llanw ac yn lliwio yr arluniad: ond cyn dyfod i sylwi yn fanwl ar waith y deall, yr hyn a wneir yn yr erthygl nesaf, mae yn fuddiol cymeryd golwg yn gyntaf ar yr amlinelliad noeth. Yr ydym wedi gweld uchod mai ffurfiau pur y gallu synwrol yw lle ac amser. Ond beth yw y ffurfiau hyn? Ac yn gyntaf, beth yw lle? I'r gofyniad hwn y mae Kant yn ateb fel y canlyn:—

“Trwy gyfrwng y synwyr allanol (fel priodoledd ein meddwl) yr ydym yn gosod o'n blaen wrthddrychau fel yn allanol i ni, ac oll mewn lle. Felly yr ydym yn penderfynu, neu yn allnog i benderfynu, eu llun, a'u maint, a'u perthynas a'u gilydd. Y synwyr tufewrol, trwy yr hwn y mae y meddwl yn canfod ei hun neu ei gyflwr tufewrol, nid yw, mae yn wir, yn rhoddi un canfyddiad o'r enaid fel gwrthddrychi; ond eto y mae ffurf benodol dan yr hwn y mae canfyddiad o'i gyflwr tufewrol yn unig yn ddichonadwy, fel y mae yr oll sydd yn perthyn i'r penderfyniadau tufewrol yn cael eu gosod ger bron mewn perthynasau o amser. Yn allanol nis gellir edrych ar amser, mwy na lle, fel rhywbeth ynom. Yn awr, pa beth yw amser a lle? A ydynt yn fodau sylweddol? A ydynt mewn gwirionedd yn ddim mwy na phenderfyniadau, neu hefyd yn berthynasau pethau, ond ar yr un pryd yn gyfryw ag a berthynant i'r pethau hyn ynddynt eu hunain, pe na chanfyddid hwynt; neu a ydynt yn gyfryw ag a llynant yn unig wrth ffurf y canfyddiad, ac felly wrth briodoledd dufewrol ein meddwl, heb y rhai nis gellid priodoli y gosodiadau hyn i unrhyw wrthddrych? Er mwyn addysgu ein hunain ar hyn, ni a esboniwn yn gyntaf y syniad o le.

1. Nid yw lle yn syniad profiadol wedi ei gael oddiwrth brofiadau allanol. Obligid cyn y gallaf olrhain teimladau at rywbeth y tuallan i mi (hyny yw at rywbeth mewn lle gwahanol i'r hwn yr wyf fi ynddo), ac hefyd cyn y gallaf eu gosod o'm blaen fel y tuallan i, ac yn agos at eu gilydd, o ganlyniad, nid yn unig yn wahanol ond mewn gwahanol leoedd, mae yn rhaid i'r syniad am le i'r perwyl hwn fod yn sylfaen i'r cwbl. Gan hyny nis gall y syniad am le gael ei dderbyn trwy brofiad oddiwrth berthynasau ymddangosiadau allanol, ond y syniad dywededig sydd yn gyntaf yn gwneyd y profiad allanol hwn yn ddichonadwy.

2. Y mae lle yn syniad anghenrheidiol *a priori*, yr hwn sydd yn sylfaen i bob canfyddiad allanol. Nis gallwn wneuthur i ni ein hunain y syniad hwn—nad oes un lle—er y gallwn yn hawdd feddwl am dano heb un gwrthdrys o'i fewn. Edrychir arno, gan hyny, fel ammod o bosiblwydd ymddangosiadau, ac nid fel penderfyniad yn ymddibynnu arnynt; ac y mae yn syniad *a priori*, yr hwn o anghenrheidrwydd sydd yn sylfaen i bob ymddangosiad allanol.

3. Nid yw lle yn syniad cyffredinol am berthynasau pethau a'u gilydd, ond yn ganfyddiad pur. Obligid, yn y lle cyntaf, nis gall neb ddechymygu mwy nag un lle, a phan soniwn am lawer o leoedd, yr ydym wrth hyny yn deall rhanau o'r un a'r unrhyw le. Nis gallasai y rhanau hyn ychwaith ragflaenu yr un lle sydd yn cynnwys y cwbl, i wneuthur y cyfanswm yn ddichonadwy; ond yn yr oll yn unig y gellir meddwl am y rhanau. Y mae yn hanfodol un—yr amrywiaeth, ac o ganlyniad y syniad cyffredinol am leoedd, a orphwys yn unig ar derfyniadau. Oddiyma y mae yn canlyn mewn perthynas iddo, fod canfyddiad *a priori* (yr hwn nid yw yn dyfod trwy brofiad) yn sylfaen i bob syniad am dano. Fel hyn holl osodiadau mesur, er anghraifft yr un a ganlyn, 'fod swm dwy ochr i driongl yn fwy na'r drydedd,' nis gallent ddeilliaw gyda sierwydd diethriad oddiwrth ddechymygon cyffredin am linell a thriiongl, ond oddiwrth ganfyddiad, ac yn ddiu *a priori*.

4. Y mae lle yn ymddangos fel yn ddiderfyn. Y mae yn wir fod yn rhaid i ni feddwl am bob amgyffrediad fel ymddangosiad yr hwn a gynnwysir mewn rhifedi diddiwedd o amrywiol ymddangosiadau dichonadwy (fel eu harwydd cyffredin), o ganlyniad y mae yn cynnwys y rhai hyn dano ei hun; ond nis gellir meddwl am un amgyffrediad yn y fath fodd, fel pe byddai yn cynnwys rhifedi didderfyn o ymddangosiadau ynddo ei hun. Ond yr ydym yn meddwl fel hyn am le (oblegid y mae holl ranau lle yn cydhanfodi yn ddiderfyn). Gan hyny, y mae yr ymddangosiad gwreiddiol o le yn ganfyddiad *a priori*, ac nid yn amgyffrediad.—*Ibid.* § 2.

Fel atebiad drachefn i'r gofyniad, Beth yw amser? yr ydym yn cael sylwadau fel hyn:—

"1. Nid yw amser yn rhywbeth sydd yn bod o hono ei hun, neu yn perthyn i bethau fel penderfyniad gwrthdryschol, ac o ganlyniad yn aros ar ol i ni gymeryd ymaith holl ammodau tufewnol eu canfyddiad: oblegid ar y dybiaeth gyntaf, byddai yn rhywbeth, yr hwn heb un gwrthdrys sylweddol a fyddai er hyny yn sylweddol; a chydya golwg ar yr ail dybiaeth, nis gallasai, yn unig fel penderfyniad perthynol i bethau ynddynt en hunain, neu drefn, ragflaenu y gwrthdryschau fel eu ha mod, a chael ei wybod a'i ganfod *a priori* trwy osodiadau cyfosodol. Ar y llaw llaw arall, y mae y dybiaeth olaf hon yn dygwydd yn hawdd os nad yw amser yn ddim ond yr ammod tufewnol dan yr hwn y mae pob canfyddiad yn cymeryd lle ynom. Obligid yna gellir arddangos y ffurf yma o'r canfyddiad tufewnol yn rhagflaenol i'r gwrthdryschau, ac o ganlyniad *a priori*.

2. Nid yw amser yn ddim ond y ffurf o'r synwyr tufewnol, hyny yw, o'r canfyddiad o honom ein hunain ac o'n cyflwr tufewnol. Obligid nis gall amser fod yn

benderfyniad o ymddangosiadau allanol: nid yw yn perthyn i lun nac i sefyllfa; i'r gwrthwyneb, y mae yn penderfynu arddangosiadau ein cyflwr tufewinol. Ac oblegid nad yw y canfyddiad tufewinol hwn yn rhoddi un llun, yr ydym yn ceisio cyflenwi y diffyg trwy gyfatebiaethau, ac yn arddangos olyniad amser trwy linell ddiderfyn, yn yr hon y mae amrywiaeth yn cyfansoddi cyfres, yr hon nid yw yn meddu llydanrwydd, ac oddiwrth briodoliaethau y llinell hon yr ydym yn casglu holl briodoliaethau amser, oddieithr yn unig fod rhanau y gyntaf yn gyfamserol, ond rhanau yr olaf yn olynol. Oddiwrth hyn, hefyd, y mae yn ymddangos fod yr arddangosiad o amser ei hun yn ganfyddiad, gan y gellir dynodi ei holl berthynasau mewn canfyddiad allanol.

3. Amser yw yr ammod ffurfiol *a priori* o bob ymddangosiad yn gyffredinol. Lle, fel y ffurf bur o bob canfyddiad allanol, a gyfyngir fel ammod *a priori* yn unig i ymddangosiadau allanol. Ar y llaw arall, gan fod pob arddangosiadau, pa un bynag a fydd ganddynt bethau allanol yn wrthddrychau ai peidio, eto yn perthyn ynddynt eu hunain, fel penderfyniadau y meddwl, i'r cyflwr tufewinol, ond gan fod y cyflwr tufewinol hwn dan ammod ffurfiol y canfyddiad tufewinol yn perthyn o ganlyniad i amser, felly y mae amser yn ammod *a priori* o bob ymddangosiad yn gyffredinol, ac mewn ffaith yn ammod uniongyrchol i ymddangosiadau tufewinol ein meddyliau, a thrwy hyny yn ammod anuniongyrch i ymddangosiadau allanol. Os gallaf ddywedyd *a priori*, fod pob ymddangosiad allanol mewn lle, ac yn cael ei benderfynu yn ol perthynasau lle *a priori*; gallaf ddywedyd yn ddieithriad oddiwrth egwyddor y synwyr tufewinol, fod pob ymddangosiad yn gyffredinol, hyny yw, holl wrthddrychau y synwyr, mewn amser, ac yn sefyll o anghenheidrwydd mewn perthynas âg amser.

Os cymerwn ymaith ein dull o grn fod ein hunain yn dufewinol, ac o gynnwys trwy y canfyddiad hwn yr holl ganfyddiadau allanol yn y gallu arddangosiadol, ac o ganlyniad, os cymerwn y gwrthddrychau fel y maent ynddynt eu hunain, y mae amser felly yn ddim. Nid oes iddo hanfod gwrthddrychol ond yn unig gyda golwg ar ymddangosiadau, gan fod y rhai hyn eisoes yn bethau a dderbynir genym fel gwrthddrychau ein synwyr; ond nid yw amser mwyach yn wrthddrychol, os cymerwn ymaith allu synwryol ein canfyddiad, ac o ganlyniad y dull o arddangosiad sydd yn briodol i ni, ac os soniwn am *bethau yn gyffredin*. Amser gan hyny nid yw ond ammod tufewinol ein (dynol) ganfyddiad (yr hwn sydd bob amser yn perthyn i synwyr, hyny yw, mor bell ag yr effeithir arnom gan wrthddrychan), ond y mae ynddo ei hun, yn annibynol ar y meddwl, yn ddim. Er hyny, y mae gyda golwg ar bob ymddangosiad, ac o ganlyniad gyda golwg ar bob peth sydd yn cyfarfod â ni trwy brofiad, o anghenheidrwydd yn wrthddrychol. Nis gallwn ddywedyd, 'Y mae pob peth mewn amser,' oblegid yn yr amgyffrediad am bethau yn gyffredinol yr ydym yn gadael allan bob math o ganfyddiad o honynt, ond y mae y canfyddiad hwn yn ammod penodol dan ba un y mae amser yn perthyn i'r arddangosiad o wrthddrychau. Yn awr, os unir yr ammod â'r amgyffrediad, ac os dywedir 'Y mae pob peth fel ymddangosiad (gwrthddrych ein canfyddiad synwryol) mewn amser,' y mae yr egwyddor felly yn meddu ar gywirdeb gwrthddrychol a chyffredinolrwydd *a priori*."—*Ibid.* § 6.

Os teimla rhai yn anhawdd rhoddi derbyniad i'r golygiadau hyn, eto meddyliem y bydd yn fwy anhawdd iddynt gyfarfod âg esboniad gwell. Ond fel cynnorthwy pellach i ddeall y mater, rhoddwn yma rai sylwadau ychwanegol allan o'r bennod olaf ar "Deimladaeth Uchanianol."

“Y mae yn anghenrheidiol i ni egluro mor fanwl ag y gellir pa beth yw ein golygiad mewn perthynas i ansawdd sylfaenol pob gwybyddiaeth synwryol yn gyffredinol, er mwyn rhagflaenu pob camesoniad.

Ein meddwl gan hyny ydyw, nad yw ein holl ganfyddiad yn ddim amgen nag arddangosiad o ymddangosiad, nad yw y pethau a ganfyddir genym yn gyfryw ynddynt eu hunain ag ydym ni yn eu canfod; nad yw eu perthynasau ychwaith ynddynt eu hunain wedi eu cyfansoddi fel y maent yn ymddangos i ni, ac os gadewir allan y meddwl, nou ansawdd meddyliol y synwryau yn gyffredinol, byddai holl briodoliaethau, holl berthynasau gwrthddrychau mewn lle ac amser, ac hyd yn nod lle ac amser eu hunain, yn difanu, ac nis gallant hanfodi fel ymddangosiadau ynddynt eu hunain, ond yn unig ynom ni. Y mae yn hollol anhysbys i ni beth yw natur y gwrthddrychau ynddynt eu hunain, ar wahan oddiwrth holl amgyffrediad ein gallu synwryol. Nis gwyddom ddim ond ein dull o'u canfod, yr hyn sydd yn perthyn yn neillduol i ni, a'r hyn nid yw o anghenrheidrwydd yn perthyn i bob Bod, er ei fod i bob dyn. Gyda hyn yn unig y mae a wnelom. Lle ac amser yw ffurfiau pur y gallu hwn, argraffiadau synwryol yn gyffredinol yw y mater. Ffurfiau lle ac amser yr ydym yn eu gwylbod yn unig *a priori*, hyny yw, yn flaenorol i bob sylwad gweithredol, ac am hyny gelwir y canfyddiad yn bur. Ond yr argraff synwryol yw yr hyn yn ein gwybyddiaeth sydd yn achosi i'r wybyddiaeth gael ei galw *a posteriori*, hyny yw, canfyddiad profiadol. Mae y cyntaf yn aros yn y gallu synwryol o anghenrheidrwydd, beth bynag fyddo natur yr argraffiadau synwryol; ond dichon i'r olaf fod yn dra gwahanol. Pe gallem gario ein canfyddiad hwn i'r graddau uchaf o eglurdeb, eto ni ddenem trwy hyny yn nes at ansawdd y gwrthddrychau ynddynt eu hunain. Y cwbl a allem fyth ei wybod yn gyflawn fyddai ein dull ni o ganfyddiad, hyny yw, ein gallu synwryol, a hyn o hyd dan ammodau lle ac amser yn unig, y rhai sydd yn perthyn yn wreiddiol i'r meddwl. Pa beth y dichon i'r gwrthddrychau fod ynddynt eu hunain nis gallem byth ei wybod trwy y canfyddiad egluraf o'u hymddangosiad, yr hwn ymddangosiad yn unig a roddir i ni.

2. Er cadarnhad i'r ddysg hon am feddylddrychiaeth (*ideality*) y synwyr allanol yn gystal a'r tufewinol, a holl wrthddrychau y synwryau o galyniad, fel ymddangosiadau, buddiol fyddai sylwi nad yw yr oll sydd yn perthyn i ganfyddiad yn ein gwybyddiaeth (oddieithr y teimlad o hyfrydwech a phoen, a'r ewyllys, y rhai nid ydynt mewn un modd yn wybyddiaethau) yn cynnwys dim ond perthynasau lleoedd mewn canfyddiad (hyd a lled), cyfnewidiad lle (symudiad), a'r deddfau yn ol pa rai y mae y cyfnewiad hwn yn cael ei benderfynu (galluoedd symudol). Ond yr hyn sydd yn bresennol yn y lle, neu yr hyn a effeithir heblaw cyfnewidiad lle yn y pethau eu hunain, nid yw yn cael ei roddi trwy ganfyddiad. Yn awr, nid yw peth ynddo ei hun yn wybyddus oddiwrth berthynasau yn unig, ac am hyny uniawn yw barnu, megys na roddir dim i ni trwy gyfrwng y synwyr allanol, ond yn unig perthynasau arddangosiad, nas gall y synwyr yma gynnwys dim ond perthynas gwrthddrych i'r meddwl yn ei arddangosiad, ac nid yr hyn sydd yn dufewinol, ac yn perthyn i'r gwrthddrych ynddo ei hun. Gyda'r canfyddiad tufewinol y mae yr amgylchiad yn gyffelyb, oblegid, nid yn unig yn hwn y mae arddangosiadau y synwryau allanol yn cyfansoddi y mater a'r hwn y cynnysgaethir ein meddwl, ond hefyd y mae amser, yn yr hwn yr ydym yn gosod yr arddangosiadau hyn, a'r hwn sydd hyd yn nod yn blaenori ein hymwybodolrwydd o honnt mewn profiad, ac yn sylfaenol fel ammod ffurfiol y dull o'u gosod yn y meddwl, yn cynnwys eisoes berthynasau o olyniad, cyfamseriad, ac o'r hyn sydd yr un amser ag olyniad (yr arosol). Yn awr, yr hyn tel arddangosiad a ddichon ragflaenu pob gweithrediad meddwl am unrhyw beth, sydd ganfyddiad; ac os na bydd yn cynnwys dim ond perthynasau, dyna ffurf y canfyddiad; yr hwn, gan nad yw yn arddangos dim, ond mor bell ag y mae rhywbeth wedi ei roddi yn y meddwl, nis gall fod yn ddim

amgen na'r dull yr effeithir ar y meddwl trwy ei weithgarwch ei hun, sef trwy y trefniad hwn o'i arddangosiad, o ganlyniad trwyddo ei hun, hyny yw, synwyr tufewnol gyda golwg ar ei ffurf.

3. Wrth ddyweyd fod, mewn lle ac amser, canfyddiad yn arddangos gwrth-ddrychau allanol, yn gystal a hunanganfyddiad y meddwl, yn unig fel yr effeithir ar ein synwrau, hyny yw, fel y mae yr ymddangosiad, nid yw hyn yn cynnwys nad yw y gwrthddrychau hyn yn ddim ond rhith. Oblegid, yn yr ymddangosiadau y mae y gwrthddrychau, ac hyd yn nod yr ansoddau a briodolir iddynt yn cael eu hystyried bob amser fel rhywbeth gwirioneddol; ond mor bell ag y mae yr ansawdd hwn yn ymddibynu ar y dull o ganfyddiad yn y meddwl yn y berthynas rhwng y gwrthddrych a'r meddwl, y mae y gwrthddrych hwn fel ymddangosiad yn wahanol iddo ei hun fel gwrthddrych ynddo ei hun. Felly nid wyf yn dyweyd fod cyrff yn ymddangos yn unig y tuallan i mi, neu fod fy enaid yn ymddangos yn unig yn fy ymwybodaeth, er fy mod yn dal fod y briodoledd o le ac amser, yn ol yr hon fel ammod eu hanfodiad yr wyf yn ystyried y naill a'r llall, yn gynnwysedig yn fy null o ganfyddiad, ac nid yn y gwrthddrychau hyn ynddynt eu hunain. Fy mai i ydyw, os o'r hyn a ddylwn ei ystyried fel ymddangosiad, yr wyf yn gwneyd rhith yn unig. Ond nid yw hyn yn cymeryd lle ar ein hegwyddor o feddylddrychiaeth pob canfyddiad synwrol. Ar y llaw arall, os priodolwn wiredd gwrthddrychol i'r holl ffurfiau hyny o arddangosiad, nis gallwn rwystro i bob peth gael ei droi trwy hyny yn rhith yn unig. Oblegid os cyfrifwn le ac amser fel priodoliaethau y rhai y mae yn rhaid cyfarfod â hwynt mewn pethau ynddynt eu hunain, ac os meddyliwn am yr afresymoldeb i'r hwn y syrthiwn trwy hyny, gan y bydd genym ddau beth diderfyn, y rhai nis gallant fod yn sylweddau, nac ychwaith yn rhywbeth sydd yn perthyn yn wirioneddol i sylweddau, ac eto yn hanfodi, ac hyd yn nod yn ammod anghenrheidiol o hanfodiad pob peth, o hyd yn aros, hyd yn nod pe difodid pob peth, ar y tir hwn nis gallwn feio y rhagorol Berkeley, pan oedd efe yn darostwng cyrff i ddim ond rhith; i.e. ein hanfodiad ei hun, yr hwn, ar y dybiaeth hon, a fyddai yn ymddibynu ar hunanhanfodiad yr hyn nid yw yn bod, megys amser, a newidid gydag ef yn ddim ond rhith, yr hyn, pa fodd bynag, sydd afresymoldeb nad oes neb eto wedi bod yn euog o hono.

4. Mewn duwinyddiaeth naturiol, lle yr ydym yn meddwl am Dduw fel gwrth-ddrych yr hwn nid yn unig nis gall fod yn wrthddrych canfyddiad i ni, ond yr hwn nis gall fod mewn un modd yn wrthddrych canfyddiad synwrol iddo ei hun, yr ydym yn neillduol ofalus i symud ammodau amser a lle o bob canfyddiad o hono (oblegid y cyfryw a raid i bob gwybyddiaeth o hono fod, ac nid meddwl, yr hwn sydd bob amser yn arwyddo terfynau). Ond pa fodd y gallwn wneuthur hyn, os byddwn yn flaenorol wedi gwneyd amser a lle yn ffurfiau pethau ynddynt eu hunain, ac mewn ffaith yn gyfryw ag sydd yn aros fel ammodau o hanfodiad pethau *a priori*, hyd yn nod pan fyddwn wedi difodi y pethau eu hunain, oblegid fel ammodau o bob hanfodiad yn gyffredinol, mae yn rhaid iddynt fod hefyd yn ammodau o'r bod o Dduw. Gan nas gallwn ymfoddloni gan hyny i'w gwneyd yn ffurfiau gwrthddrychol o bob peth, nid oes dim yn aros ond eu gwneyd yn ffurfiau meddyliol ein dull o ganfyddiad, yn allanol yn gystal a thumewnol; yr hwn a elwir yn synwrol oblegid nad yw yn wreiddiol, hyny yw, nid yn gyfryw ag y rhoddir trwyddo hyd yn nod sylwedd hanfodol gwrthddrych canfyddiad, yr hyn, hyd y gallwn ni weled, nis gall berthyn i neb ond i'r Creawdwr; ond sydd yn ymddibynol ar sylwedd hanfodol y gwrthddrych, o ganlyniad yn ddichonadwy yn unig trwy effeithiad ar allu arddangosiadol y meddwl.

Nid yw ychwaith yn anghenrheidiol i ni gyfyngu y dull o ganfyddiad mewn lle ac amser i ddyn yn unig. Dichon fod pob Bod meidrol meddyliol yn debyg yn hyn i ddyn o anghenrheidrydd (er nas gallwn benderfynu hyn), eto nid yw am hyny

yn peidio perthyn i'r gallu synwryol, a hyn y oblegid y rheswm hwn, ei fod yn ddeilliedig, nid yn wreiddiol, o ganlyniad nid yn ganfyddiad deallol, yr hwn oblegid y rhesymau a grybwyllwyd sydd yn ymddangos yn perthyn i'r Creawdwr yn unig, ond nid un amser i un sydd, gyda golwg ar ei hanfodiad a'i ganfyddiad (yr hwn ganfyddiad sydd yn penderfynu ei hanfodiad gyda golwg ar wrthdrychau penodol) yn Fod ymddibynol."—*Ibid.* § 8.

Hyderwn fod y dyfyniadau hyn yn ddigon "dyfnion ac athronyddol." Ond os ydynt yn ddyfnion, y mae rhywbeth i'w gael wrth eu darllen ag sydd yn werth llafurio i'w gyrhaedd; ac y maent yn rhoddi llawer mwy o foddlonrwydd i'r meddwl na rhyw druth o draethawd a fyddo yn troi o amgylch ogylch y mater, heb fyned unwaith i mewn iddo. Ni ryfeddem pe b'ai rhai yn ceisio hōni mai ffiloreg yw y cwbl; oblegid wedi iddynt dybied eu bod yn deall pob dim, a'u bod wedi mesur pob cyfundraith, a dirnad y dirgelion oll, fel yr hen ŵr anwybodus oedd yn hapus yn haeru ei fod wedi gweled pen draw y byd wrth ddychwelyd o sir Fôn, y mae yn naturiol iddynt deimlo gradd o anfoddlonrwydd wrth glywed fod cyfandiroedd newyddion ac eang o wybodaeth yn gorwedd yn nghanol yr eigion hwnw sydd yn ymddangos iddynt hwy yn derfyn y greadigaeth. Y maent hefyd, fe allai, wedi darllen Locke, a Stewart, a Brown, ac yn alluog i'w deall heb lawer o drafferth; a phaham ynte na ddeallant Kant neu Coleridge? Rhaid mai yn yr ysgrifenywyr hyn y mae y bai. Gan bwyll, gyfeillion caredig,—os yw y cyfryw ddynion a hyn yn dywedyd fod byd newydd tu draw i Fôr y Werydd, gellwch benderfynu nad ydynt yn eich twyllo. A pha le y mae yr anhawsder i'w deall? Y maent yn dywyll yn yr un modd ag y mae "Euclid" yn dywyll i'r neb na fyno lafurio; ond wrth ddwyn yr holl feddwl atynt, y maent yn dyfod yn oleu, ac i'r graddau yr ydych yn eu deall yr ydych yr un pryd yn deall y mater; tra y mae awdwyr cyffredin yn hawdd eu deall o ran geiriau, ond yn gadael y mater mor dywyll ag o'r blaen. Yr achos syml paham y mae Kant yn anhawddach na Brown ydyw, ei fod yn treiddio yn llawer dyfnach, yn siarad y mater yn lle siarad am y mater, ac nad yw yn foddllawn i arfer geiriau heb feddyliau. Mewn perthynas i olygiadau Kant ar amser a lle, mae yn rhaid i ni addef nad ydym yn gweled ynddynt un gradd o anhawsder. Y mae yn profi i eglurder nad ydynt yn bethau, nac yn briodoliaethau pethau. Nid ydynt ychwaith, fel tybiodd rhai, yn briodoliaethau y Duwdod, oblegid nid ydyw Duw yn bod mewn amser a lle. Gan hyn, nis gallant fod yn ddim ond ffurfiau anghenrheidiol ein gallu synwryol, Os gofynir drachefn beth yw yr anghenrheidrwydd hwn, nis gwyddom

pa fodd i ateb yn well na thrwy ddyweyd ei fod yn tarddu o derfynoldeb creadur, a'i anallu, o ganlyniad, i sylwi ar bob peth ar unwaith. Y mae hyn yn ymddangos wrth ystyried fod gwahaniaeth yn amgylchiadau creaduriaid yn peri gwahaniaeth yn eu golygiadau ar amser a lle. Nis gallwn feddwl fod y ddeddf foesol i un creadur mewn un byd yn wahanol o ran ei hanfod i'r peth ydyw i ni; ond y mae yn rhaid fod amser a lle yn dra gwahanol mewn gwahanol fydoedd, ac y maent hefyd yn dra gwahanol i ninnau mewn gwahanol amgylchiadau.

Pa fodd bynag, dyma ni yn awr wedi cael gafael mewn egwyddorion gwreiddiol. Nid ydym eto wedi cyrhaedd at feusydd y deall a'r rheswm, y rhai a adewir hyd yr erthyglau nesaf; ond yr ydym eisoes wedi gweled ffolineb yr ysgrifenwyr hyny sydd yn priodoli holl feddylddrychau dyn i'r hyn a dderbynir ganddo oddiwrth wrthdrychau allanol. Nid fel hyn yr ydym yn cael ein canfyddiadau o amser a lle; oblegid y mae ynddynt anghenrheidrwydd dieithrad yr hwn nis gallasai gwrthdrychau allanol ei roddi. Gallwn symud y gwrthdrychau; ond nis gellir symud amser a lle. Ië, gallwn ddifodi pob peth yn ein meddwl ond y Creawdwr ei hun. Mae yn wir nas gallwn ddifodi cymaint ag un llwchyn yn weithredol; ond gallwn feddwl i'r holl greadigaeth beidio bod. Er hyny nis gallwn ddifodi amser a lle hyd yn nod yn y meddwl. Er pob cyfnewidiad allanol y maent yn rhwym o fod yn y meddwl nes y difodir y meddwl ei hun. Gan hyny, mae yn rhaid mai i'r meddwl y maent yn perthyn, ac mai o'r meddwl ei hun y maent yn tarddu. Pe buasent o'r byd gweledig, buasent yn darfod gyda'r byd gweledig; ond gan eu bod o'r meddwl, y maent yn oesi cyhyd a'r meddwl. Ac felly, er nad ydym ond ar gyffiniau y byd mawr sydd o'n mewn, yr ydym eisoes wedi cyfarfod â rhywbeth yn ein natur nad yw yn tarddu o'r byd bach oddiallan, ond sydd ar yr un pryd yn sylfaen i holl ymddangosiadau y byd allanol; ac y mae hyd yn nod ein synwrau yn ein harwain at egwyddorion, y rhai nis gallant ddyfod oddiwrth argraffiadau synwro!

ATHRONIAETH KANT.*

[ERTHYGL AIL.]

WEDI traethu am y gallu synwryol, fel y dangoswyd yn ein rhifyn diweddaf, y mae Kant yn myned ymlaen at y deall, yr hwn yw y gallu sydd yn trefnu yr argraffiadau a dderbynir trwy y synwryau, ac felly yn cael gwybodaeth allan o honynt. Nis gall y synwryau ond dwyn y defnyddiau i'r meddwl yn gymysglyd; ond y mae yn anghenrheidiol eu dosbarthu yn ofalus cyn y byddont o un gwasanaeth. Y gallu sydd yn gosod y defnyddiau hyny yn eu lle priodol yw y deall. Y mae y synwryau yn rhoddi i ni wrthddrychau, ond y deall sydd yn meddwl y gwrthddrychau hyny. Y mae galluoedd synwryol gan y rhai hyny sydd o'u genedigaeth yn hollol amddifad o bob gallu meddyliol; ond i'r graddau y mae dyn yn alluog i feddwl, i'r graddau hyny y mae yn amcanu at reol a threfn. Dyma y ffordd y mae dyn yn dyfod yn feistr ar y gwrthddrychau, sef trwy eu dwyn dan ddeddfau y meddwl. Nid hwy sydd yn gosod deddfau i'r meddwl, ond y meddwl sydd yn gosod ei ddeddfau ei hun arnynt hwy. Y mae y gwrthddrychau allanol yn effeithio yr un modd ar synwryau y dyn sydd heb ddeall a'r dyn sydd yn meddu deall; ac y mae yn rhaid gan hyny fod rhyw egwyddorion gwreiddiol yn y deall ei hun yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Heblaw hyny, y mae y deall yn cynnwys deddfau, y rhai nid yw y synwryau yn hysbysu am danynt, a'r rhai, o ganlyniad, nis gallant ddyfod trwy y synwryau: ac os ceir fod rhywbeth yn y meddwl nas gallai ddyfod iddo oddiwrth wrthddrychau allanol, y mae yn rhaid i ni gredu fod hwnw yn tarddu o gyfansoddiad gwreiddiol y meddwl ei hun.

Er anghraifft, cymerwn ddeddf achosiant. Dyma bwnc sydd wedi rhanu y meddylwyr penaf yn ddwy fyddin. Y gofyniad yw hyn; **A** yw ein golygiadau ar achosiant o anghenheidrwydd yn cynnwys mwy

* O'r "TRAETHODYDD," am 1853.

nag a hysbysir i ni trwy gyfrwng y synwyrâu? Y mae y gofyniad hwn yn graig rwystr i bawb sydd yn ceisio darostwng y meddwl dan lywodraeth y corff; ac y mae eu hymdrechion i'w ateb yn rhwym o fod yn aflwyddiannus. Er mwyn symud yr anhawswer, yr oedd Hume yn dal nas gellir meddwl dim mwy wrth achosiant nag olyniad gwastadol; ac amddiffynwyd ef yn egniol gan Dr. Thomas Brown. Yn ol y farn hon, nid yw y meddylddrych am achos ac effaith yn ddim mwy nag sydd yn tarddu yn naturiol oddiwrth y ddeddf hōno a elwir Cymdeithasiad Meddyliau (*Association of Ideas*). Wrth weled y naill ymddangosiad yn arfer dilyn y llall, yr ydym o'r diwedd yn eu huno â'u gilydd yn y meddwl, ac yn galw hyn yn achosiant. Ni fu un farn erioed yn fwy amddifad o bob rhith o sail. Yn gyntaf, y mae yn priodoli i arferiad yr hyn sydd yn bod yn flaenorol i bob arferiad. Pan gaiff plentyn brawf unwaith o effaith y tân, y mae ynddo deimlad mor gryf o achosiant fel nas gellir ychwanegu ato. Yn ail, y mae yn gadael allan yr hyn sydd yn cyfansoddi hanfod y meddylddrych; fel y dywedir am hwnw oedd yn addaw rhoddi arddangosiad manwl a ffyddlawm o Hamlet, ond fod Hamlet ei hun, trwy ddeisyfiad neillduol, wedi ei adael allan. Yr hyn sydd yn hanfodol yn ein golygiad am achos yw teimlad o allu: a'r gofyniad yw, O ba le y mae hwn yn tarddu? Nid yw cydfynediad parhaus yn gwneyd y naill yn achos a'r llall yn effaith. Y mae achosiant yn rhywbeth gwahanol a llawer uwch. Y mae yr achos yn cynnyrchu yr effaith, o herwydd rhyw allu sydd yn gweithredu trwyddo; a chan fod y gallu hwn, ynddo ei hun, yn beth nas gellir ei weled na'i deimlo, y mae yn rhaid fod y syniad am dano yn tarddu o gyfansoddiad y meddwl. Ac yn drydydd, yr ydym bob amser yn cysylltu anghenrheidrwydd â'r meddwl am achos ac effaith: ac fel y sylwyd yn yr erthygl o'r blaen, y mae teimlad o anghenrheidrwydd yn hollol wahanol yn ei natur i ddim a ddysgir i ni gan y synwyrâu, ac o ganlyniad y mae yn tarddu o'r meddwl ei hun. Pa bryd bynag y gwelir effaith, y mae pawb yn teimlo fod rhyw achos yn bod iddo o anghenrheidrwydd. O ba le y daeth yr anghenrheidrwydd hwn? Nid yw y synwyrâu yn cyrhaedd ymhellach na'r cylch bychan yr ydym ni yn troi ynddo; ac am yr hyn oll a hysbysir trwyddynt, yr ydym yn teimlo, o ran dim yn natur pethau, y gallasai fod fel arall: ond fod rhyw achos i bob effaith sydd wirionedd cyffredinol ac anghyfnewidiol; yr ydym yn sier ar unwaith mai felly y mae yn mhob gwlad ac yn mhob byd, ac mai felly y mae yn rhaid iddi fod.

Yr ydym wedi galw sylw yn fwy neillduol at y pwnc o achosiant, oblegid mai hwn yw y penaf; er hyny nid yw ond un allan o amryw wirioneddau gwreiddiol sydd yn y meddwl, y rhai ydynt, os goddefir y gymhariaeth, fel cynnifer o gelloedd yn y deall i dderbyn yr holl argraffiadau a ddaw trwy y synwyrâu, ac i'w gosod mewn trefn yn eu lleoedd priodol. Y mae Kant yn dangos fod y cyfryw, a pha fodd i wybod yn sier pa rai ydynt, fel y canlyn:—

“Y mae eisocs yn brawf mawr ac anheggorol o ddoethineb a threiddgarwch meddwl ein bod yn gwybod pa beth a ddylem yn rhesymol ei ofyn. Oblegid, os bydd y gofyniad ynddo ei hun yn afresymol, ac yn galw am atebion dianghenrhaid, y mae, heblaw y gwarth sydd yn disgyn ar y neb a'i gofynodd, yn dwyn gydag ef weithiau yr anfantais o hudo y gwrandawr anochelgar i atebion afresymol, ac yn rhoddi yr olygfa ddirgrifol, fod un (yn ol yr hen ddywediad) yn godro y bwch, a'r llall yn dal y gogr.

Os yw gwirionedd yn gynnwysedig yn nghydweddiad gwybyddiaeth a'i wrthddrych, y mae yn rhaid i'r gwrthddrych hwn trwy hyny gael ei neillduo oddiwrth eraill; oblegid y mae gwybyddiaeth yn dwyllodrus, os na fydd yn cydweddu a'r gwrthddrych at yr hwn y mae yn cyfeirio, er ei fod yn cynnwys rhywbeth a all fod yn wir gyda golwg ar wrthddrychau eraill. Yn awr, y prawf cyffredinol o wirionedd a fyddai hwnw yr hwn a ddaliai am bob gwybyddiaeth heb effeithio arno gan wahaniaeth y gwrthddrychau. Ond wrth ein bod trwy hyn yn gadael allan holl gynnwys y wybyddiaeth (sef perthynas a'i wrthddrych), ac wrth fod gwirionedd yn dwyn perthynas a'r cynnwys hwn, mae yn eglur mai amhosibl ac afresymol yw chwilio am brawf o wirionedd y cynnwys hwn o wybyddiaethau; ac o ganlyniad nas gellir rhoddi nod o'r gwirionedd, yr hwn a fydd yn ddigonol, ac ar yr un pryd yn gyffredinol. Gan ein bod wedi galw y cynnwys yn fater y wybyddiaeth, yr ydym fel hyn dan yr anghenrheidrwydd o ddyweyd nad oes un nod cyffredinol o wirionedd y wybyddiaeth gyda golwg ar y mater, gan fod hyn ynddo ei hun yn wrthddyweddiad.

Ond am yr hyn sydd yn dwyn perthynas â gwybyddiaeth, gyda golwg ar y ffurf yn unig (trwy adael allan yr holl gynnwys), y mae mor eglur fod Rhesymeg, i'r graddau ag y mae yn dangos deddfau cyffredinol ac anghenrheidiol y deall, dan yr anghenrheidrwydd yn y reolau hyn o osod i lawr faen prawf o wirionedd. Oblegid y mae yr hyn sydd yn groes iddynt yn gyfeiliornus, gan fod y deall trwy hyn yn groes i reolau cyffredinol y meddwl, ac o ganlyniad yn groes iddo ei hun.”—*Kritik der Reinen Vernunft. Von der Eintheilung der allgemeinen Logik.*

“Yn y dosraniad hwn yr ydym yn dosbarthu ein holl wybyddiaeth, *a priori*, i elfenan y deall-wybyddiaeth pur. Mae yn dwyn perthynas a'r pynciau canlynol:— 1. **Fod yr amgyffredion yn bur**, ac nid yn dyfod trwy brofiad. 2. **Na fyddont yn perthyn i ganfyddiad neu deimladaeth**, ond i'r meddwl a'r deall. 3. **Eu bod yn amgyffredion elfenol**, ac yn hollol wahanol i'r rhai deilliedig a chyfansoddedig. 4. **Fod y daflen o honynt yn gyflawn**, a'u bod yn llanw holl faes y deall pur. Yn awr nis gellir derbyn sierwydd fod unrhyw wybodaeth yn gyflawn wrth gyfrif rhyw rifedi a geir yn unig trwy brofiad. Nid yw hyn, gan hyny, yn bosibl ond yn unig trwy gyfrwng *meddylddrych o'r cwbl o'r deall-wybyddiaeth a priori*, a thrwy y penderfyniad y mae hyn yn ei roddi gyda golwg ar ddsbarthiad yr amgyffredion sydd yn ei gyfansoddi: o ganlyniad, nid yw yn bosibl ond yn unig trwy eu cysylltiad mewn cyfundrefn. Y mae y deall pur yn gwahaniaethu ei hun yn hollol, nid

yn unig oddiwrth y cwbl sydd brofiadol, ond hyd yn nod oddiwrth yr holl deimladaeth. Y mae gan hyny yn undod, hunanfodol, hunanddigonol, yr hwn nis gellir ei fwyhau trwy unrhyw ychwanegiad oddiallan. Y mae y cyfanswm o'i wybyddiaeth, gan hyny, yn ffurfio cyfundrefn, yr hon y mae yn rhaid ei chynnwys a'i phenderfynu dan feddylddrych, yr hwn y mae cyfanrwydd a chyfatebrwydd ei ranau ar yr un pryd yn rhoddi prawf o gywirdeb a chyfreithlondeb yr holl ranau gwybyddiaeth a gynnwysir ynddo."—*Ibid. Die Transcendentale Analytik.*

Y mae y deall yn allu i ffurfio amgyffrediad am wrthddrychau unigol, ac hefyd i ffurfio barn am danynt yn ol egwyddorion penodol. Ond yn y lle cyntaf, dylem edrych pa fodd y mae y deall yn amgyffred gwrthddrychau unigol, ac olrhain yr amgyffredion hyn i'w hadau cyntefig, yn y rhai y maent yn aros yn guddiedig nes y dygir hwy i'r golwg gan brofiad. Wrth chwilio, yr ydym yn cael fod y deall o anghenrheidrwydd yn edrych ar bob peth a ddaw o dan ei sylw mewn pedwar golygiad; yn gyntaf, maint; yn ail, math; yn drydydd, perthynas; ac yn bedwerydd, modd. Hyny yw, y mae y deall yn rhwym o briodoli y pedwar peth hyn i bob gwrthddrych. Dyma yw ei waith, ac i hyn y mae wedi ei osod a'i gymhwyso gan y Creawdwr. Y mae yn holi, ac yn mynu atebiad i'r pedwar gofyniad, pa faint, pa fath, pa ham, a pha fodd. Ond dan bob un o'r penau hyn y mae tri dosbarth fel y canlyn:—

I. MAINT.

Unigol.
Lliosog.
Cwbl.

II. MATH.

Cadarnhaol.
Nacaol.
Terfynol.

III. PERTHYNAS.

Sylwedd, a Phriodoledd.
Achos, ac Effaith.
Cymundeb y Gweithredydd a'r
Goddefydd.

IV. MODD.

Posiblrydd, ac Anmhosiblrydd.
Bodolaeth, a Difodiant.
Rhaid, a Damwain.

Gellir rhanu y pedwar dosbarth yn ddwy ran; y rhan gyntaf yn cynnwys y ddau ddsbarth cyntaf, y rhai ydynt *rifydddegol*, a'r ail ran yn cynnwys y ddau ddsbarth olaf, y rhai ydynt *allofyddol*. Y mae y ddau ddsbarth cyntaf yn cyfeirio at wrthddrychau canfyddiad, a'r ddau olaf at fodolaeth y gwrthddrychau hyny. Y mae pob dosbarth yn cynnwys tri o is-ddosbarthiadau; y cyntaf a'r ail yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, a'r trydydd yn cyfodi yn anghenrheidiol oddiwrth

undeb y ddau gyntaf. Y mae hyn yn tarddu oddiwrth natur pethau. Y mae pob amgyffiediad yn tybied un arall yn wrthwynebol, ac y mae y ddau yn tybied rhyw drydydd, yn yr hwn y maent yn cydgyfarfod mewn undeb â'u gilydd. Felly, nid yw yr is-ddosbarthiadau yn ddim mwy na'r prif ddosbarthiadau wedi eu rhanu i'w helpenau hanfodol; a'r elfenau hyny nis gallant fod yn fwy nae yn llai na thair. Nis gallasem ffurfio amgyffrediad am unigol, oni bai fod genym amgyffrediad am liosog, nae am liosog heb yr unigol; ac nid yw y cwbl yn ddim mwy na'r lliosog yn cael ei ystyried fel unigol. Ni buasai cadarnhâd heb naeâd, na naeâd heb gadarnhâd; a'r terfynol yw cadarnhâd yn gysylltiedig â naeâd. Nis gallasai fod achosiant heb sylwedd, ac nis gallasem gael amgyffrediad am sylwedd ond trwy achosiant; ac undeb y ddau yw y cymundeb (*reciprocity*) rhwng y gweithredydd a'r goddefydd. Felly hefyd am bosiblwydd a bodolaeth, neu anmhosiblwydd a difodiant; ac nid yw anghenrheidrwydd yn ddim mwy na'r bodolaeth a roddir trwy bosiblwydd. Ond ni ddylid meddwl oblegid hyn mewn un modd nad yw y trydydd o'r is-ddosbarthiadau yn elfen wreiddiol yn y meddwl: oblegid y mae cysylltiad y cyntaf a'r ail, i'r dyben o gael y trydydd, yn gofyn gweithred benodol o eiddo y deall, yr hon nid yw yr un ag a ddygir i ymarferiad yn y cyntaf a'r ail.

Ond pa fodd y gwybyddwn fod yr amgyffredion hyn yn tarddu yn wreiddiol o'r deall ei hun, ac nid yn dyfod i'r meddwl oddiwrth y gwrthddrychau? Mewn atebiad i'r gofyniad hwn, y mae Kant yn sylwi:—

“Yr amrywiaeth o arddangosiadau sydd beth a ellir ei roddi mewn canfyddiad trwy gyfrwng y synwrau yn unig, a dichon i ffurf y canfyddiad hwn fod yn gorwedd *a priori* yn ein gallu arddangosiadol, ac eto heb fod yn ddim mwy na'r dull yr effeithir ar y meddwl. Ond y *cysylltiad* o amrywiaeth yn gyffredinol nis gall ddyfod i ni trwy gyfrwng y synwrau, ac am hyny nis gall fod yn gynnwysedig yr un anser yn ffurf bur y canfyddiad teimladol, oblegid y mae yn weithred hunan-gynhyrliol y gallu arddangosiadol; a chan ein bod yn galw hwn yn ddeall, i'w wahaniaethu oddiwrth allu synwrol, y mae pob cysylltiad—pa un a fyddwn ni yn ymrwybodol o hono ai beidio, pa un ai cysylltiad o amrywiaeth y canfyddiad, neu o wahanol amgyffredion, ac yn y cyntaf, o ganfyddiad teimladol neu annheimpladol—yn weithred o eiddo y deall, i'r hon y rhoddwn yr enw cyffredinol o Gyfosodiad, er mwyn dangos nas gallwn arddangos dim i ni ein hunain fel yn gysylltiedig yn y gwrthddrych, os na fyddwn ni ein hunain wedi ei gysylltu yn flaenorol.”—*Ibid.* *Deduction der reinen Verstandesgriffe*, § 15.

“*Yr wyf fi yn meddwl*,’ sydd o anghenrheidrwydd yn beth a all gydfyned â'm holl arddangosiadau, oblegid heb hyn byddai rhywbeth yn cael ei arddangos ynof yr hwn nis gellid ei feddwl—yr hyn sydd yr un peth a dywedyd fod yr arddangosiad yn anmhosibl, neu o leiaf yn ddim i mi. Yr arddangosiad a ellir ei roddi cyn

pob meddwl a elwir canfyddiad. O ganlyniad y mae holl amrywiaeth y canfyddiad yn perthyn yn anghenrheidiol i'r 'Wyl fi yn meddwl' yn yr un dynsawd ag y cyfarfyddir â'r amrywiaeth hwn. Ond yr arddangosiad hwn sydd weithred hunan-gynhyrliol; hyn yw, nis gellir edrych arni fel yn perthyn i'r gallu synwrol. Yr wyl yn ei alw yn ymwybodolrwydd *pur*, er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth y profiadol; ac hefyd yr ymwybodolrwydd gwreiddiol, oblegid ei fod yr un ymwybodolrwydd, yr hwn tra yn cynnyrchu yr arddangosiad 'Wyl fi yn meddwl' yr hwn a raid gydfyned â phob un arall, a thra yn aros yr un a'r unrhyw yn mhob ymwybodolrwydd, nis gall gael un mwy gwreiddiol i gydfyned âg ef. Yr wyl hefyd yn galw ei undeb yn undeb uwch-anianol yr ymwybodolrwydd, i ddangos y posibilrwydd o wybodaeth *a priori*, yn tarddu o hono. Oblegid yr amrywiol arddangosiadau a roddir mewn unrhyw arddangosiad ni fyddent yn arddangosiadau i mi, pe na fyddent yn perthyn i ymwybodolrwydd; hyn yw, mae yn rhaid iddynt fel fy arddangosiadau (hyd yn nod pe na bawn yn ymwybodol o honynt fel y cyfryw) fod o anghenrheidrwydd yn gydfurfiol â'r ammod dan ba un yn unig y gallant sefyll ynghyd mewn ymwybodolrwydd cyffredinol, oblegid heb hyn ni fyddent yn perthyn i mi. O'r cysylltiad gwreiddiol hwn y mae llawer yn tarddu.

Er anghraifft, y mae hollol unoliaeth yr ymwybodolrwydd o amrywiaeth, yr hwn a roddir yn y canfyddiad, yn cynnwys cyfosodiad o arddangosiadau, ac y mae yn bosibl yn unig trwy gyfrwng yr ymwybyddiaeth o'r cyfosodiad hwn. Oblegid y mae yr ymwybyddiaeth profiadol, sydd yn cydfyned â'r gwahanol arddangosiadau ynddo ei hun yn wahanedig, ac heb un berthynas âg unoliaeth y person. Nid yw y berthynas hon yn tarddu gan hynny oddiwrth fod pob arddangosiad yn cydfyned âg ymwybyddiaeth, ond oddiwrth fy mod yn *ychwanegu* y naill at y llall, ac yn ymwybodol o'r cyfosodiad o honynt. O ganlyniad, yn unig am fy mod yn gallu uno amrywiaeth o arddangosiadau mewn un ymwybyddiaeth, y mae yn bosibl i mi arddangos i mi fy hun unoliaeth yr ymwybyddiaeth yn y cyfryw arddangosiadau—hyn yw, nid yw undeb dosranol yr ymwybodolrwydd yn bosibl ond yn unig dan y raglybiaeth o undeb cyfosodiadol. Y mae y meddwl, fod yr arddangosiadau hyn a roddir yn y canfyddiad yn perthyn fel cyfanswm i mi, yr un peth gan hynny a phe dywedid, fy mod yn eu huno mewn un ymwybyddiaeth, neu o leiaf y gallaf eu huno felly; ac er mai nid hyn ei hun yw yr ymwybyddiaeth o'r cyfosodiad o'r arddangosiadau, eto y mae yn rhagdybied y posibilrwydd o hynny,—hyn yw, yn unig fel yr wyl yn cynnwys yr amrywiaeth o honynt mewn un ymwybyddiaeth, yr wyl yn eu galw yn y cyfanswm yn arddangosiadau i mi. Oblegid heb hynny, byddai genyf hunan mor wahanedig ag yw yr arddangosiadau o ba rai yr wyl yn ymwybodol. Can hynny, undeb cyfosodiadol yr amrywiaeth o ganfyddiadau, fel ei rhoddir *a priori*, yw sylfaen unoliaeth yr ymwybodolrwydd ei hun, yr hwn sydd, *a priori*, yn rhaglaenu fy holl feddyliad penderfynol. Ond nid yw cysylltiad yn gorwedd yn y gwrthdrysychau, ac nis gall darddu oddiwrthynt trwy syniad, a chael ei dderbyn felly yn gyntaf i'r deall; ond y mae yn unig yn weithred y deall, yr hwn ei hun nid yw ddim mwy na'r gallu i gysylltu *a priori*, ac i ddwyn amrywiaeth yr arddangosiadau dan undeb yr ymwybodolrwydd; yr hon egwyddor yw yr uchaf yn yr holl wybyddiaeth ddynol."—*Ibid.* § 16.

Yn nesaf, yr ydym yn myned ymlaen at y gwaith arall sydd yn perthyn i'r deall, sef ei waith yn barnu yn ol egwyddorion. Ac yn y lle cyntaf y mae yn anghenrheidiol i ni ymfyn pa fodd y mae y deall yn cymhwysu yr amgyffredion sylfaenol hyn at y gwrthdrysychau, er mwyn ffurfio barn am danynt. Y mae y synwyrâu yn rhoddi y

gwrthddrychau, a'r deall yn rhoddi yr amgyffredion cyffredinol dan ba rai y mae yn rhaid eu trefnu: ond y mae y gwrthddrychau yn allanol, a'r amgyffredion yn tufewnl; a'r gofyniad ydyw, Pa le y ceir cyfryngau trwy ba rai y gall y deall drosglwyddo ei hun dros y gwagle sydd yn gwahanu rhwng corff ac ysbryd? Nid peth hawdd i'w esbonio ydyw hyn; ac nid yw yn rhyfedd fod Leibnitz yn barnu nad yw corff ac ysbryd yn effeithio ar eu gilydd, ac nad oes un dramwyfa rhyngddynt; ond eu bod yn cyfateb i'w gilydd trwy ragosodiad. Yn awr, cyn y gellir uno yr allanol a'r tufewnl, y mae y rhaid cael rhyw gyfrwng sydd yn cyfranogi o natur y ddau. Y cyfrwng hwn, yn ol barn Kant, yw *amser*. Y mae amser yn cyfranogi o ansawdd y deall ar un llaw, ac o ansawdd y gallu synwrol ar y llaw arall. Y mae yn gyffredinol, ac yn anghenrheidiol *a priori*, fel yr amgyffredion; ac y mae yn gynwysedig hefyd yn mhob arddangosiad profiadol: gan hyny, gellir cymhwyso yr amgyffredion tufewnl at ymddangosiadau allanol trwy y syniad uehanianol o amser, yr hwn sydd yn cyfryngu rhyngddynt. Fel hyn y mae y syniad o amser yn ein cynnysgaethu â ffurf neu ammod cyffredinol, trwy yr hwn y gall y deall weithredu ar y gwrthddrychau, a'r hwn a elwir gan Kant yn *gynllun (schema)*. Y mae y cynllun bob amser ynddo ei hun yn gynnyrch y darfelydd: er hyny dylid ei wahaniaethu yn ofalus oddiwrth ddelw y gwrthddrych. Y mae hwn yn wahaniaeth hanfodol. Y mae delw y gwrthddrych yn y meddwl yn rhy agos at y gwrthddrych i fod yn gyfrwng rhyngddo ag amgyffredion y deall. Nid yw y ddelw yn y meddwl, mwy nag ar bapyr, yn cyfateb ond i un gwrthddrych. Ar ol edrych ar ryw ddyn neillduol, y mae delwedd o hono yn y meddwl; ond nid yw hyn ond yr un peth a'r argraff cyntaf a dderbyniwyd trwy y synwrau, yr hwn sydd yn aros yn y cof. Ond y mae yn anghenrheidiol cael cyfrwng mwy ysbrydol a chyffredinol; ac nis gellir deall un dyn heb ei ystyried yn ol rhyw gynllun cyffredinol o ddyn yn ddiwahaniaeth. Dyma beth yw *understanding*, sef dwyn y neillduol at y cyffredinol, a gosod y naill i sefyll dan y llall, er mwyn gweled eu cyfatebolrwydd. Felly y mae y cynllun o driongl yn y deall yn wahanol i bob triongl neillduol; oblegid y mae yn cymeryd i mewn yr union-onglog a'r cyfochrog ar unwaith. Y mae pob delw o driongl yn rhwym o ateb yn unigi ryw un math; ond y mae y cynllun yn ateb i bob math.

Yr ydym yn coffau yr anghreiffitiau hyn i ddangos y gwahaniaeth rhwng y cynllun a delw o'r gwrthddrych: ond y cyfrwng yr hwn sydd,

fel y dywedwyd, yn rhoddi cynllun cyffredinol i holl amgyffredion sylfaenol y deall yw amser. Y cynllun pur i bob maint, fel amgyffrediad y deall, yw *rhifedi*; yr hwn nid yw ond arddangosiad o un wedi ei ychwanegu at un yn olynol mewn amser. Wrth osod nifer o farciau ger bron, y mae genym ddelw o'r nifer hwnw; ond y mae y meddyl-ddrych o rifedi yn gynllun cyffredinol sydd yn ateb i bob nifer. Dan yr amgyffrediad cyffredinol, *pa fath*, y mae genym y cadarnhaol, sef amser wedi ei lenwi; y nacael, sef gwagder mewn amser; a'r terfynol, sef y mynediad o'r naill i'r llall. Y cynllun cyffredinol i bob sylwedd yw parhad mewn amser, hyny yw, rhywbeth yn aros o dan yr ymddangosiad cyfnewidiol. Y cynllun i achos yw olyniad yr amrywiol, mor bell ag y mae yr olyniad hwn yn ddarostyngedig i reol. Y cynllun i gymundeb y gweithredydd a'r goddefydd yw cyfamseriad y naill a'r llall, yn ol rheol gyffredinol. Cynllun posiblwydd yw cydweddiad arddangosiadau ag ammodau amser. Cynllun bodolaeth yw hanfodiad gwrthddrych mewn amser penodol. Cynllun anghenrheidrwydd yw hanfodiad gwrthddrych bob amser.

Erbyn hyn yr ydym mewn mantais i weled pa fodd y mae y deall yn cario allan ei amgyffredion sylfaenol at wrthddrychau. Wrth gysylltu y cynllun cyffredinol o bob amser â phob amgyffrediad, y mae yn alluog i ffurfio egwyddorion *a priori*, y rhai a ellir eu rhanu, yr un modd a'r amgyffredion, yn bedwar dosbarth, gan nad ydynt ond rheolau yn dangos pa fodd i gymhwyso yr amgyffredion hyny at wrthddrychau.

I. EGWYDDORION SYLFAENOL CANFYDDIAD.

II. EGWYDDORION RHAGFLAENOL
TEIMLADAETH.

III. EGWYDDORION CYFATEBOL
PROFIAD.

IV. EGWYDDORION GOFYNOL
MEDDYLIAD YMARFEROL YN GYFFREDINOL.

Yn yr egwyddorion hyn, yr un modd a'r amgyffredion, y mae y ddau ddosbarth cyntaf yn rhifyddogol, a'r ddau arall yn allofyddol: hyny yw, y mae gwadu y gwirioneddau a gynnwysir yn y ddau gyntaf yn wrthddywediad, fel pe dywedid fod dau a thri yn gwneyd deg; ond nid yw felly yn y ddau arall. Er hyny, y mae yr un anghenrheidrwydd ynddynt oll. Ar y ddau gyntaf y mae rhifyddiaeth, ac ar y ddau olaf y mae anianaeth, yn sylfaenedig.

I. Egwyddorion sylfaenol Canfyddiad. Y mae y rhai hyn yn gynnwysedig yn y gosodiad, *fod pob canfyddiad yn meddu ansoddau maint-ioli*. Y mae hyn yn tarddu o'r amgyffrediad am faint, trwy gysylltu

âg ef amser a lle. Y mae y cysylltiad hwn, fel egwyddor sylfaenol pob canfyddiad, yn dangos gwrthddrychau allanol yn meddu hyd a lled. Mae y gair "canfyddiad" yn gyfieithiad llythrenol o'r gair gwreiddiol *Anschauung*; ond dylid cofio ei fod yn cynnwys, nid canfyddiad trwy y llygaid yn unig, ond gweithrediad yr holl synwrau corfforol.

II. Egwyddorion rhagflaenol Teimladaeth. Mae y rhai hyn yn gynnwysedig yn y gosodiad—Yn mhob ymddangosiad, y mae y sylweddol, yr hwn sydd yn wrthddrych teimlad, yn meddu gradd. Y mae teimladaeth yn gwahaniaethu oddiwrth ganfyddiad trwy ei fod yn gysylltiedig âg ymwybodolrwydd, nid yn unig o hyd a lled, ond hefyd o sylweddolrwydd yn y gwrthddrychau. Y mae yn ein dwyn at rywbeth sydd yn meddu *intensive quality*. Y mae yn tarddu o'r amgyffrediad am y *Math*, yn gysylltiedig âg amser; oblegid y mae pob ymddangosiad yn meddu rhyw gymaint o barhad, nid yn unig gyda golwg ar eu canfyddiad fel *extensive*, ond hefyd gyda golwg ar y teimladaeth o honynt fel *intensive quantities*.

III. Egwyddorion cyfatebol Profiad. Y maent yn gynnwysedig yn y gosodiad, fod profiad yn bosibl yn unig trwy arddangosiad o gysylltiad anghenrheidiol y teimladau. Y mae hwn eto yn tarddu o'r amgyffrediad o berthynas trwy gyfrwng amser. Y mae tri modd o amser, sef Parhad, Olyniad, a Chyfamseriad. Ac y mae hyn yn rhanu y gosodiad yn dair rhan: 1. Yn mhob cyfnewidiad ymddangosiadau, y mae y sylwedd yn parhau, ac nid yw ei faint mewn natur yn cael ei leihau na'i fwyhau.

2. Y mae pob cyfnewidiad yn cymeryd lle yn ol y ddeddf o gysylltiad achos ac effaith.

3. Y mae pob sylweddau, mor bell ag y maent yn hanfodi mewn lle yn yr un amser, yn gweithredu ar eu gilydd mewn llwyr gyfartalwch.

IV. Egwyddorion gofynol Meddyliad ymarferol yn gyffredinol. Y maent yn gynnwysedig mewn tri gosodiad.

1. Y mae yr hyn sydd yn cydweddu âg ammodau ffurfiol profiad (yn ol canfyddiad ac amgyffrediad) yn bosibl.

2. Y mae pob peth sydd yn gysylltiedig anwahanol âg ammodau materaidd profiad, yn wirioneddol.

3. Y mae pob peth ag y mae ei gysylltiad anwahanol â'r gwirioneddol yn cael ei benderfynu yn ol ammodau cyffredinol profiad, yn bod o anghenrheidrwydd.

Os cymer y darlennydd y drafferth o gymharu yr egwyddorion hyn

â'r amgyffredion sylfaenol yn y rhan gyntaf i'r erthygl, caiff weled fel y maent yn cyfateb i'w gilydd, ac fel y mae yr egwyddorion yn tarddu yn anghenrheidiol o'r amgyffredion.

Cymaint a hyn am y Deall. Gwelir fod yr holl egwyddorion hyn yn cyfeirio at wrthddrychau teimladwy. Cyleh y deall yw y byd anianyddol a'i ddeddfau. Ond yr ydym yn ymwybodol fod dyn yn ymgyrhaedd at wirioneddau llawer uwch, a'r gallu i gyrhaedd gwybodaeth o'r gwirioneddau hyny yw Rheswm. Dyma y gwirioneddau yr oedd Plato yn son cymaint am danynt, fel yn meddu hanfodiad sefydlog, tra y mae ymddangosiadau o bob math yn myned heibio. Prin y gallwn feddwl am Kant ei hun ei fod wedi cymeryd golwg ddigon eang ar y tir uchel hwn : er hyny y mae wedi traethu llawer am y gwahaniaeth rhwng Deall a Rheswm ; ac wedi gwneyd mwy o gyfiawnder na'i gydoeswyr yn gyffredin â Plato, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniad a ganlyn :—

“Yr oedd Plato yn gwneyd defnydd o'r gair *Meddylddrych (Idea)* yn y fath fodd fel y mae yn hawdd gweled ei fod ef wrth hyny yn deall rhywbeth, yr hwn nid yn unig nid yw yn deillio o'r synwyrâu, ond yr hwn sydd hyd yn nod yn ymddyrchafu yn hollol uwchlaw amgyffredion y deall, â'r rhai yr oedd a fynai Aristotle; gan nad oes dim cyffelyb iddynt un amser i'w gael mewn profiad. Meddylddrychau, yn ol golygiad Plato, ydynt gynlluniau o bethau ynddynt eu hunain, ac nid, fel amgyffredion y deall, yn unig yn agoriadau i brofiadau dichonadwy. Yn ol ei farn ef, y maent yn tarddu o'r rheswm uchaf, o'r hwn y derbynir hwynt i'r rheswm dynol, yr hwn nid yw yn aros mwyach yn ei gyflwr gwreiddiol, ond sydd gydag anhawsder yn cael y meddylddrychau cyntefig, y rhai ydynt yn awr yn dra thywyll, trwy adgofiant (yr hyn a elwir athroniaeth). Nid âf i ddechreu yma ar ymchwiliad llenyddol, i gael allan pa feddwl oedd yr athronydd ardderehog hwn yn ei gysylltu â'r ymadrodd. Digon yw sylwi mai nid peth anghyffredin, mewn ymddyddan ac mewn ysgrifeniadau, trwy gymharu golygiadau yr awdur, yw ei ddeall hyd yn nod yn well nag yr oedd efe yn deall ei hun, gan ei fod o ddiwyg penderfynu ei amgyffrediad yn ddigon llwyr, weithiau yn dyweyd, ac hyd yn nod yn meddwl yn groes i'w olygiad ei hun.

Sylwodd Plato yn dra phriodol fod ein gallu gwybyddol yn teimlo anghen llawer uwch nag yn unig i sillebu ymddangosiadau, yn ol undeb cyfosodiadol, er mwyn bod yn alluog i'w darllen fel profiad, a bod ein rheswm yn naturiol yn dyrchafu ei hun at wybodaethau sydd yn ymestyn yn llawer pellach nag y mae unrhyw wrthddrych a roddir trwy brofiad yn alluog i gyfateb iddynt; ond y rhai er hyny sydd yn meddu sylweddolrwydd, ac nid ydynt mewn un modd yn ddychymygion yr ymenydd.

Yr oedd Plato yn cael ei Feddylddrychau mewn modd neillduol yn yr hyn oll sydd ymarferol, hyny yw, yr hyn oll sydd yn gorphwys ar ryddid; yr hwn sydd yn sefyll dan y gwybyddiaethau hyny ag sydd yn gynnwrch arbenig rheswm. Yr hwn a fynai gael yr amgyffredion o rinwedd oddiwrth brofiad; yr hwn a fynai wneuthur (fel y mae llawer wedi gwneuthur) y peth hwnw yn gyllun er mwyn deilliad gwybyddiaeth, yr hwn nis gall fod yn ddim mwy nag aughraiff er mwyn eglurhad amherffaith, efe a wnai rinwedd yn ddyddymdra dauceiriog, yr hwn ni

fyddai yn rheol, ond yn gyfnewidiad yn ol amser ac amgylehiadau. Ar y llaw arall, y mae pawb yn gwybod, os cynnygir rhywun iddo fel anghraifft o rinwedd, fod ganddo o hyd y gwir gynllun gwreiddiol yn ei feddwl ei hun, a'r hwn y mae yn eymharu yr anghraifft, ac yn ei brisio yn gyfatebol. Ond y cynllun hwn yw y meddylddrych o rinwedd, mewn cymhariaeth i'r hwn y mae pob gwrthddrych dichonadwy o brofiad yn gwasanaethu fel anghreiffitiau (profion fod yr hyn y mae rheswm yn ei ofyn yn gyrhaeddadwy mewn rhyw radd) ond nid fel cynllunian. Nas gall dyn byth weithredu yn gyfatebol i'r hyn a gynnwysir yn y meddylddrych pur o rinwedd nid yw mewn un modd yn profi fod y syniad hwn yn ddechymycol. Oblegid y mae pob barn o hyd yn ddichonadwy yn unig trwy gyfrwng y meddylddrych hwn gyda golwg ar deilyngdod moesol neu y gwrthwyneb: o ganlyniad y mae y meddylddrych yn gorwedd o anghenrheidrwydd wrth sylfaen pob dynesiad at berffeithrwydd moesol, pa mor bell bynag y mae y rhwystrau anrherfynol yn y natur ddynol yn ein cadw oddiwrtho."—*Des ersten Bucks der transcendentalen Dialectik erster Abschnitt.*

Y mae y Meddylddrychau hyn yn gyrhaeddadwy trwy gyfrwng y Rheswm. Fel y mae y Deall yn trefnu y canfyddiadau a roddir trwy y synwyrâu i ffurfio barnau am y gwrthddrychau, felly y mae Rheswm yn cyffredinoli barnau y Deall, ac yn ymestyn at undeb hollol a diammodol. Os dywedir fod Ioan yn farwol, yr ydym yn dadgan ein barn am dano ef yn bersonol: ond nid yw Rheswm yn foddolawn ar farn am Ioan, neu Gwilym, neu ryw bersonau unigol, ac am hyny y mae yn mynu gafael mewn egwyddor gyffredinol megys, Y mae pob dyn yn farwol. Neu, pe meddyliem am y pwnc o gyfrifoldeb i Dduw, y mae Rheswm yn dwyn cyfrifoldeb unrhyw berson neillduol dan yr egwyddor gyffredinol fod pob dyn yn gyfrifol, ac yn dwyn hyny drachefu dan yr egwyddor uwch fod pob creadur rhesymol yn gyfrifol, ac fel hyn yn esgyn o hyd at yr undeb mwyaf cyffredinol. Y mae Kant yn sylwi fod tri math o undeb, at ba rai y mae y Rheswm yn ymgyrhaedd; sef, yn gyntaf, undeb pob priodoledd mewn un tufewnol, yr hyn sydd yn rhoddi y meddylddrych am Enaid; yn ail, undeb pob ymddangosiadau mewn un cyfanswm, yr hyn sydd yn rhoddi y meddylddrych am Fydsawd; ac yn drydydd, undeb pob bod mewn un Bod perffaith, yr hyn sydd yn rhoddi y meddylddrych am Dduw. Dyma dair ffurf hanfodol y Rheswm.

Dylid cadw mewn cof fod Kant yn barnu am y ffurfiau hyn yn y Rheswm, yn gystal a'r amgyffredion gwreiddiol yn y deall, eu bod oll yn tarddu, nid oddiwrth wrthddrychau allanol, ond o gyfansoddiad y meddwl ei hun. Y mae yn profi hyn am y Deall trwy ddangos mai gwaith y Deall yw ffurfio barnau, ac y gellir rhanu pob math o farnau yn wahanol ddisbarthiadau, y rhai sydd yn cynnwys cynnifer o

amgyffredion gwreiddiol. Ond gwaith y Rheswm yw llunio cyfresym-
iadau (*sylogisms*), y rhai ydynt o dri math, fel y gŵyr pawb sydd yn
gyfarwydd â Rhesymeg; ac yn y tri math yma yr ydym yn cyfarfod â
ffurfiau hanfodol y Rheswm. Yn y gosodiadol (*categorical*) yr ydym yn
ymresymu oddiwrth y priodoliaethau at y sylwedd, yr hyn sydd yn ein
harwain at sylwedd pur, sef yr enaid. Yn yr ammodol (*hypothetical*)
yr ydym yn ymresymu oddiwrth gyfosodiad gwahanol bethau mewn
un gyfres, yr hyn sydd yn ein harwain at gyfanswm y cwbl, sef y byd-
ysawd. Ac yn y gwahaniaethol (*disjunctive*) yr ydym yn ymresymu
oddiwrth gyfosodiad gwahanol ranau mewn un gyfundrefn, yr hyn
sydd yn ein harwain at Un, yr hwn sydd yn trefnu y cwbl, ond nid yw
yn rhan o'r cwbl.

Y mae Kant ar yr un pryd yn barnu nad yw Rheswm yn rhoddi
gwybodaeth am wrthddrychau; ac er ei fod yn ymgyrhaedd at y tri
undeb a grybwyllwyd, eto nad yw yn alluog i gael gwybyddiaeth sier o
honynt. Yn hyn mae yn ddiammheuol ei fod yn gywir; oblegid nid
â gwrthddrychau y mae a fyno y Rheswm, ond âg egwyddorion: a da
fuasai pe ymfoddlonasai ei olynwyr yr un modd i gadw rheswm o fewn
ei derfynau priodol. Y mae cymaint perygl mewn cario rheswm yn
rhy bell ar un llaw ag sydd mewn cario y gallu synwryol yn rhy bell
ar y llaw arall. Er hyny nis gallwn lai na meddwl fod golygiadau
Kant ar y matter hwn yn ddiffygiol mewn dau beth. Yn gyntaf, nid
yw yn ddigon Platonaid; hyny yw, nid yw yn rhoddi lle digon mawr
i'r egwyddorion y mae Rheswm wedi ei fwriadu i weithredu arnynt.
Yr ydym yn addef mai ei orchwyl yn benaf oedd traethu am ansawdd
y cynneddfau; eto, gan ei fod yn cymeryd cymaint o drafferth i ddangos
pa beth nas gallai y Rheswm, buasai yn addas iddo ddangos yn fwy
amlwg pa beth a allai; oblegid, er nas gall ddarganfod personau na
phethau yn uniongyrchol, eto y mae yn alluog i ddarganfod gwirion-
eddau, y rhai ydynt mewn rhyw ystyr yn meddu mwy o wir hanfodiad
na dim arall ond Duw ei hun. Ac yn ail, dylasai roddi lle i ffydd fel
un o alluoedd ein gwybyddiaeth; oblegid, os gallu i ganfod egwyddorion
yw Rheswm, y gallu sydd genym i weithredu ar wrthddrychau anwel-
edig yw ffydd.

THOMAS CHARLES.*

Er fod bywgraffiadau am y Parch. THOMAS CHARLES wedi ymddangos yn Gymraeg a Saesneg, mae yn debyg y dysgwylir cael yma restr o'r cofnodau mwyaf neillduol yn ei fywyd. Ganwyd ef y 14eg o Hydref, 1755, yn Pantdwn, plwyf Llanfiangel, yn Sir Gaerfyrddin, ar y llaw aswy wrth fyned o St. Clears i Lacharn. Ei dad oedd ffermwr cyfrifol, o'r enw Rice Charles. Pan oedd oddeutu deg neu ddeuddeg oed, anfonwyd ef i'r ysgol yn Llanddowror, lle yr oedd yr enwog Griffith Jones wedi bod yn llafurio hyd ei farwolaeth yn 1761. Arosodd yn Llanddowror am dair neu bedair blynedd: ac yn yr ysbaid hwnw y profodd yr argraffiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl. Darllenai y Bibl, a phob llyfr da a fedrai ei gael; a theimlodd effeithiau dwys wrth ddarllen *Bunyan ar y Ddau Gyfammod*. Ond yr oedd yn amddifad o bob cymhorth oddiwrth gyfeillion crefyddol nes y daeth yn gydnabyddus a hen ŵr duwiol o'r enw Rhys Hugh, yr hwn oedd yn byw yn agos, ac yn henn ddysgybl i Mr. Griffith Jones. Galwai gydag ef unwaith neu ddwy bob wythnos; ac edrychai arno fel ei dad yn Nghrist. Yn yr amser hwn aeth i'r sacrament, a gwnaeth ymdrech i ddwyn crefydd i'r teulu; ac ennillodd ddylanwad mawr arnynt oll trwy ei diriondeb a'i ddirifoldeb. Pan oddeutu pedair ar ddeg oed, anfonwyd ef i'r athrofa oedd yn Nghaerfyrddin; ac yn fuan wedi hyny ymunodd â'r Methodistiaid Calffaidd. Ond yr oedd proffeswyr hunanol a gweigion yn bod yn y dyddiau hyny, a bu cyfeillach rhai o honynt yn niwed mawr iddo; nes yr agorodd yr Arglwydd yn rasol ei lygaid, ac y gwaredodd ef allan o'u rhwyd. Cafodd adeiladaeth a bendith wrth ddarllen *Ymddyddanion Hervey*, ac amryw lyfrau efengylaidd eraill. Pan yn ddeunaw oed, Ionawr 20fed, 1773, aeth yr holl ffordd i Capel Newydd, i wrandaw Mr. Rowlands o Langeitho; a chaiff fynegu yr effeithiau a gafodd y bregeth ar ei feddwl yn ei eiriau ei hun:—"Ei destun oedd yn *Heb. iv. 16*: a bydd y diwrnod yn dra chofiadwy genyf tra byddwyf byw. O'r diwrnod

* O'r "GWYDODNIADUR."

cysuro! hwnw cefais fath o nefoedd a daear newydd i'w mwynhau. Y cyfnewidiad a brofai dyn dall wrth dderbyn ei olwg, nid ydyw yn fwy na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw yn fy meddwl,—

Ciliodd daear, aeth o'r golwg,
Nef a ymagorai 'n amlwg;
Sain angelaidd oedd i'm elustiau,
Adsain nefol bër ganiadau.

Dyna'r pryd yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o anghrediniaeth, neu o gynnwys meddyliau culion, bychain, a chaled, am yr Hollalluog. Gyda hyny cefais y fath olwg ar Grist fel ein harchoffeiriad, ar ei gariad, ei dosturi, ei allu, a'i hollddigonedd, ag a lanwodd fy enaid â syndod, i.e. â 'llawenydd amhraethadwy a gogoneddus.' Yr oedd fy meddwl wedi ei orthrechu a'i orchfygu gan syndod: yr oedd y gwirioneddau a osodwyd ger fy mron yn ymddangos yn rhy anfeidrol rasol i'w credu; nis medrwn gredu gan lawenydd. Bydd y golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hwnw er llawn ddigoniad i fy enaid, yn y myfyriaeth arnynt, yn mhen myrdd o oesoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl, megys yn nofio yn fy mhen; ond erioed hyd y tro hwn ni threiddiasant i'm calon gydag effeithiol-aeth a nerth dwyfol. Arosodd effaith y bregeth hon ar fy meddwl am fwy na hanner blwyddyn; ac yn y misoedd hyny yr oeddwn, yn gyffredinol, mewn agwedd gysurus a nefolaidd. Yn fynych wrth rodio yn y meusydd, mi a godwn fy ngolwg yn llawen i'r nef, fel un yn edrych tua i gartref, a than hiraethu yn wresog am ymddangosiad fy Iachawdwr gogoneddus i'm cymeryd am byth ato ei hun. Eto, ar amserau, ammheun a redent i fy meddwl, a mi a ddywedwn ynof fy hun, 'A oes modd i'r pethau hyn fod yn wir?' Yna yr Arglwydd a barai i'r fath eiriau a'r rhai hyn ddatseinio yn fy meddwl—'Ni chyflawnafer angerdd fy llid; ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim; canys Duw wyf fi, ac nid dyn:' *Hos.* xi. 9. 'Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef:' *Salm* ciii. 4. Yn nghylch y pryd hwn hefyd y bu agoriad Luther ar *Gal.* i. 4. er bendith fawr a neillduol i'm hysbryd, megys y bu am lawer gwaith wedi hyny. Yn yr holl amser y bu fy arosiad yn Nghaerfyrddin, yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi i mi, yn gyffredinol brawf melus o'i gymdeithas; ac yr oeddwn yn mwynhau yn dra helaeth y moddion mwyaf grymus o ras, a llawer o'r dwyfol bresennoldeb ynddynt. Ar yr un amser nid oeddwn heb demtasiynau cryfion a maglau, y rhai a fuont fwy nag unwaith yn

agos iawn i'm llwyr anafu; ond yn y cwbl yr oedd llaw anweledig Duw yn fy nghadw—'y breichiau tragywyddol odditanodd.'"

Yn y flwyddyn 1775, agorodd rhagluniaeth y ffordd yn annysgwyl- iadwy iddo fyned i Rydychain. Ond yn mhen oddeutu dwy flynedd ar ol ei dderbyniad i mewn, dygwyd ef i anhawsder a chyfyngder mawr. Ei gynnalïaeth o Gymru a attaliwyd yn ddisymwth; ac nid oedd un ffynnonell ddaearol y gallasai edrych iddi am gynnorthwy. Dygwydd- odd hyn hefyd pan oedd yn ddyledwr o ugain punt i'r coleg. Ond yn y cyfyngder hwn, anfonodd gwr boneddig am dano i giniawa gydag ef; a chyn iddo fyned o'r tŷ estynnodd iddo y swm o ugain punt: ac ar yr un pryd dywedodd wrtho, na chai diffyg fod arno tra fyddai yn Rhyd- ychain: a bu y gwr boneddig cystal a'i air. Ni adroddir hyn oblegid hynodrwydd yr amgylchiad; ond i geisio argraffu ar feddyliau y rhai hyny y perthyn iddynt, y mawr bwys o gynnorthwyo dynion ieuaine. Cafodd ei urddo yn ddiagon, Mehefin 14eg, 1778. Yr haf hwnw ymwel- odd â'r Bala: ac oddiyno aeth ef a'i gyfaill, Mr. Lloyd, i Langeitho, lle y gwrandawsant ddwy bregeth gan Mr. Rowlands, er eu cysur an- nhraethol: ac o Langeitho teithiasant i Pantdwn. Am yr ymweliad hwn a'i hen gartref, dywed Mr. Charles,—“Minnau a edrychw'n ar y conglau bychain yn y tŷ, ac ar y gwrychoedd encil yn y meusydd, gyda hyfrydwch sydd yn anhawdd i'w adrodd; lleoedd y buasai fy enaid gynt mewn ymdrech â Duw ynddynt, ac mewn gweddi yn caffael y fendith. Nis gallwn lai nag edrych ar y conglau a'r manau hyny, y buaswn ynddynt yn mwynhau cyrdeithas adfywiol â Duw, fel lleoedd cysegredig. Yr oedd tyddyn fy nhad megys yn gwisgo gwedd baradwysaidd; a'r coffa am yr amryw fendithion a gyfran- wyd arnaf ar amryw amserau, oedd yn llenwi fy nghalon â llawen- ydd a mawl. Awst 16eg, mi a bregethais yn Llanfihangel—plwyf fy nhad; a chefais y fraint o fod yn y gwaith gyda chysur a difrifwch neillduol: a bu yn llawenydd mawr i'm calon gael gweled un- waith yn chwane'g fy hen gyfaill tra anwyl a Christionogaidd, Rhys Hugh. Medraswn agos wylo o lawenydd. Y cyfarfod olaf ydoedd a gawsom yn y byd hwn: yn mhen mis ar ol hyn efe a ddiangodd i'r nef.”

Graddwyd ef yn A.B. yn 1779: a chafodd ei urddo yn offeiriad yn 1780. Wedi bod yn llafurio am bum mlynedd yn Halifax, priododd Miss Jones, o'r Bala, Awst 20fed, 1783: a sefydlodd yn y Bala am weddill ei ces. Oddeutu dechreu y flwyddyn 1784, cafodd guradaeth

Llanymowddwy; ond achwynwyd arno gan rai o'r plwyfolion ei fod yn egwyddori y plant bob Sabboth ar ol y gosper, a rhoddodd y periglor iddo rybudd i ymadael. "Bu ar ol hyn," fel y dywed y Parch. T. Phillips, yn *Llyfr y Jubili*, "am rai gweithiau, yn gwasanaethu yn Llanwddyn; a rhag bod yn segur, yr hyn oedd yn boen o'r mwyaf i'w enaid effro, aeth drachefn i weinidogaethu amryw droiau yn achlysurol i Shawbury, er meithed oedd y daith iddo fyned a dychwelyd, ac amryw rwystrau eraill. Ond er y cwbl, nid oedd Mr. Charles eto wedi cael digon o foddlonrwydd meddwl yn nghyleh ewyllys Duw o berthynas i'r llwybr oedd iddo i'w gymeryd, fel ag i ymroddi, heb oed na dysgwyliad yn mhellach, i adael yr Eglwys Sefydledig, nac i bregethu unwaith y tu allan i'w muriau. Ymgynghorai â'i gyfeillion, y Parch J. Newton, ac eraill, y rhai a'i hannogent i ymadael â Chymru o gwbl, a myned i Loegr; ond nis gallai wneyd hyny, am ei fod, meddai, mor dueddol i gymeryd Cymru fel y cymerodd ei wraig, 'er gwell ac er gwaeth,' hyd oni wahanai angeu hwynt. Gan ei fod yn methu cael lle i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig, ac o'r ochr arall yn berffaith argyhoeddedig yn ei feddwl ei fod wedi cael ei alw i bregethu, gallwn ddirnad ei deimladau, i ryw radd, pan y dywed, mewn llythyr at gyfai. l. o dan y dyddiad Mehefin 12fed, 1784, 'ei bod yn gyfyng arno o'r deutu —rhwng gadael yr Eglwys ac aros ynddi. Wedi cael fy nhroi allan o dair o eglwysi, yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf? Yn yr eglwys ddiweddaf a wasanaethais, bum dri mis. Cafodd yr efengyl ei bendithio yn fawr yno, fel y mae pethau yn ymddangos yn bresennol. Y mae y bobl yno yn gwaeddi arnaf dan wylo am eu porthi â bara y bywyd. Pa beth a wnaf? Y mae geiriau Crist yn swnio yn barhaus yn fy nghlustiau, 'Portha fy ŵyn.' Yr wyf yn meddwl fod fy nghalon yn barod i ymaflyd yn y gwaith, bydded y canlyniad a fyddo.' O'r diwedd, ar ol ymdrech a dysgwyliad maith, a dadgan ei ewyllysgarwch i weinyddu am ddim i Eglwyswyr ei gymydogoeth, a chael ei wrthod, cafodd ei dueddu, neu yn hytrach ei nerthu mewn ymroddiad, i ddilyn arweiniadau rhagluniaeth, a bwrw ei goelbren yn mhlith y Methodistiaid Calfnaidd."

Mae yn naturiol meddwl iddo gael y derbyniad mwyaf croesawus yn ebrwydd. Ond nid felly y bu; oblegid yr oedd llawer o'r Methodistiaid yn edrych arno ar y cyntaf fel un balch, a diddawn, a diddefnydd. Ond yr oedd y rhai callaf o anghenrheidrwydd yn ei barchu; a choffeir am Mr. Rowlands, pan glywodd ef yn pregethu yn Llangeitho oddeutu

Awst, 1785, iddo ddywedyd am dano yn llon, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles." Ac nid hir y bu cyn i'r Arglwydd ei arddelwi mewn modd neillduol. Yn nyddiau y Nadolig y flwyddyn hon (1785) pregethodd mewn cymanfa yn y Bont uchel, gerllaw Ruthlyn, ar *Gal.* iv. 4, 5: a dywed ei fywgraffydd, y Parch. T. Jones, iddo lefaru "am berson anfeidrol, ac ufudd-dod gweithredol a dyoddefol y Prynwr, gyda'r fath eglurdeb, awdurdod, ac effeithiau nefolaidd, ag a roddodd y gynnulleidfa mewn syndod deffrous a diolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysbrydol, na welwyd y cyffelyb ond yn anfynych." Rai blyneddoedd wedi hyn cafodd un o'r odfeuon rhyfeddaf a welwyd erioed, pan yn llefaru am ddyrechafiad Crist, mewn cymanfa yn Aberystwyth.

Teithiodd lawer trwy wahanol barthau o Gymru i bregethu, ac i sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbothol, hyd y flwyddyn 1799. Ond yn fuan ar ol dechreu y gauaf hwnw, wrth deithio ar noswaith oerlem tros fynydd Migneint, ar ei ddychweliad o sir Gaernarfon, ymaflodd oerfel dwys yn mawd ei law aswy; yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus: a bu raid iddo yn y diwedd oddef ei thori, neu yn hytrach ei chodi ymaith. Yr oedd gweddïau aml yn yr achos, gan yr ystyrid ei fywyd mewn cryn enbydrwydd; a chofir hyd heddyw am eiriau hen weddiwr hynod, o'r enw Richard Owen, yr hwn a ddadleuai gyda thaerineb a hyder,—“Pumtheg mlynedd yn chwanege, O Arglwydd! Yr ydym yn erfyn am bumtheg mlynedd o estyniad at ddyddiau ei oes; ac oni roddi di bumtheg mlynedd, O ein Duw, er mwyn dy eglwys a'rh achos?” A pha esboniad bynag a roddir ar yr amgylehiad, y mae yn iawn cofnodi y ffaith, mai o fewn ychydig i bumtheg mlynedd ar ol hyn y diweddodd gyrfa ddaearol Mr. Charles. O hyn allan, gan nad oedd mor allnog i deithio, ymroddodd yn fwy i ysgrifenu. Yn y flwyddyn 1799, ac o hyny hyd 1802, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r *Drysorfa Ysbrydol* ganddo ef a Mr. Jones, o Ddinbych. Yn y flwyddyn 1803, dygodd argraffwasg i'r Bala; ac argraffwyd, o'r amser hwnw hyd ei farwolaeth, o'r llyfrau ysgol a barotoisai efe, 320,000 o gopïau. Yn y blyneddoedd hyn hefyd, dygodd allan y *Geiriadur Ysgrythyrol*, ei *Amddiffyniad i'r Methodistiaid Cymraeg*, a'r ail gyfrol o'r *Drysorfa*. Ond yn 1814, llesgäodd yn raddol: ac yn Awst aeth ef a Mrs. Charles i'r Abernaw am bythefnos, lle y clybuwyd ef yn dyweyd wrth ei wraig, “Sally, y mae y pumtheg mlynedd yn agos ar ben.” Oddiyno aethant at eu perthynasau i Fachynlleth, lle y pregethodd Mr. Charles

ddwywaith ar y dydd Sabboth, Medi 4ydd ; yn y bore oddiar *Luc* xv. 7, a'r prydawn oddiar *1 Cor.* xvi. 22 : a'r rhai hyn oedd ei bregethau diweddaf. Dychwelasant adref y 10fed o Fedi, ac wrth draethu ei lawenydd a'i ddiolchgarwch am gael cyrhaedd adref, chwaneodd Mr. Charles, "Bellach nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw." Ymwelodd cyfaill âg ef y bore y bu farw, a dywedodd, "Wel, Mr. Charles, y mae dydd trallod wedi dyfod:" atebodd yntau, "Y mae noddfa:" a dyna ei eiriau diweddaf. Bu farw dydd Mercher, Hydref 5ed, 1814 : a dilynwyd ef gan ei briod ar y 19eg o'r un mis.

Dyma grynodedb o'r prif ddygwyddiadau allanol yn mywyd Mr. Charles ; dyma yr amgylechiadau a'i cyfarfu yn ystod ei daith : ac nid ydynt yn lliosog mewn rhifedi, nac yn ddigyffelyb mewn pwysigrwydd. Y mae llawer nad yw eu henwau mewn coffadwriaeth wedi byw bywyd allanol mwy cyflawn o hynodrwydd. Ond nid caethwas amgylechiadau oedd Mr. Charles ; nid hynodrwydd sefyllfa oedd ei hynodrwydd, ac nid mawredd damweiniol oedd ei fawredd ; ac am hyny nid yw desgriafiad o'r holl amgylechiadau a ddaeth i'w gyfarfod yn rhoddi ond golwg amherffaith ar hanes ei fywyd. Nid yn oddefol yn unig yr aeth efe trwy y byd, ond yn weithredol. Nid effaith oedd ei fywyd yn unig, ond achos. Gallu ydoedd a ddaeth yma i roddi ysgogiad newydd i feddyliau dynion. Ei brif nodwedd oedd, ei fod yn weithiwr diwyd a difeff : ac er nad oedd ei weithiau yn gyfryw ag sydd yn gyffredin yn tynu sylw dynion bydol, y mae eu heffeithiau yn fwy parhaus, heb son dim am eu buddioldeb, nag yw gorchestion buddugoliaethwyr milwrol, a llywodraethwyr y ddaear.

Gellir rhanu ei waith yn ddau ddsbarth ; yn gyntaf, ei lafur dyn-garol ; ac yn ail, ei lafur awdurol.

I'w lafur dyngarol y perthyn ei ymdrechion o blaid addysg. Y mae hwn erbyn hyn yn bwne poblogaidd. Y mae mawrion y deyrnas yn gwenu arno, ac yn ei gymeryd dan eu hamddiffyn. Ond yn yr oes hono, yr oedd dyn yn cael ei dybied bron fel yn codi yn erbyn y llywodraeth os soniai am roddi addysg i'r bobl. Er fod Griffith Jones o Landdowror, yn offeiriad, ac er fod ei ysgolion mewn undeb â'r Eglwys Sefydledig, eto yr oedd boneddigion y wlad gan mwyaf yn gwgu arno. Ac yma, ni ddylid myned heibio i enw y gwr hwn heb ddyweyd ei fod yn un o brif ddiwygwyr Cymru. Cyhoeddodd rai o'r llyfrau goreu yn yr iaith Gymraeg, a llwyddodd yn ngwyneb llawer o wrthwynebiad, trwy gynnorthwy rhai cyfeillion cyfoethog, i gynnal ysgolion cylchynol

yn holl siroedd Cymru. Ond pa faint mwy o rwystrau oedd yn rhaid fod ar ffordd Mr. Charles, gan ei fod ef yn amcanu at godi ysgolion heb fod mewn cysylltiad â'r Eglwys Sefydledig? Er hyny gwnaeth waitli mawr yn ngwyneb anfanteision mawrion. Pe na buasai wedi gwneyd dim ond a wnaeth gyda'r ysgolion dyddiol, buasai hyn yn unig yn gymaint ag a wnaeth rhai yr ysgrifenydd cyfrolau am danynt yn Lloegr. Yr oedd ganddo nifer o ysgolfeistriaid a rhai ysgolfeistresi yn cadw yr ysgolion hyn mewn gwahanol Barthau o'r wlad: ac y mae pawb a'u hadwaenai yn dwyn tystiolaeth fod doethineb a chraffder mawr i'w gweled yn eu dewisiad. Rhoddodd lawer ei hun at eu cynnal, a chasglodd lawer i'r un perwyl oddiwrth ewyllyswyr da yn Lloegr a Chymru: ac heblaw hyn, os gwelai ddyn ieuanc gobeithiol, anfonai ef i ryw ysgol i'w barotoi i fod yn ysgolfeistr. Gwnaeth yn y ffordd hon gymaint ag oedd yn ddichonadwy iddo ei wneuthur; a phe buasai llawer yn gweithredu yn gyffelyb, buasai golwg arall ar Gymru heddyw. Ond cyfiawn yw addef nad oedd, yn yr ymdrech hwn, ond dilynwr i'r Parch. Griffith Jones; ac y mae hanes yr ysgolion dyddiol a sefydlwyd ganddo wedi diflanu o'r golwg yn ngoleuni cryfach y lles annhraethol a ddeilliodd o'r Ysgolion Sabbothol. Y mae yn y rhai hyn elfen wreiddiol, yr hon sydd yn un o'u rhagoriaethau mwyaf arbenig: ac ni wneir y sylw hwn er mwyn dyrchafu Mr. Charles, nac er mwyn darostwng neb arall, ond i ddangos natur a nodwedd yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru, fel y mae yn sefydliad heb ddim cyffelyb iddo mewn un wlad arall dan haul. Y mae Ysgolion Sabbothol yn Lloegr; ac yr oeddynt wedi dechreu yno yn gynt nag yn Nghymru: a chan fod yr un enw arnynt, y mae llawer yn tybied eu bod yr un peth mewn gwirionedd. Ond y mae cymaint o wahaniaeth rhyngddynt ag oedd rhwng goruchwyliaeth Moses a goruchwyliaeth y Testament Newydd. Dyben yr Ysgol Sabbothol yn mhob gwlad arall ond Cymru yw dysgu plant yn unig; ac nid dysgu plant chwaith fel y cyfryw, ond plant y tlodion, y rhai sydd yn analluog i gael addysg mewn un ffordd arall. Nid yw y gweinidog na'r diacon, nac un aelod parchus o'r gynnulleidfa, yn meddwl am anfon ei blant yno. Y canlyniad yw, fod yr Ysgolion Sabbothol yn anadnabyddus lle y mae cyflawnder o ysgolion dyddiol, a'r rhai hyny o fewn cyrhaedd plant y tlodion, megys yn y rhan fwyaf o Scotland: ac fel y bydd addysg ddyddiol yn dyfod yn fwy cyffredin yn Lloegr, mae yn dra thebyg y bydd yr Ysgolion Sabbothol yn darfod, os na osodir hwynt i sefyll ar egwyddor uwch. Hyd yn hyn, pa fodd

bynag, y mae cyfarfod i bob oedran, ar ddydd yr Arglwydd, i chwilio yr Ysgrhythrau, yn beth anarferol ac annealladwy yn mhob gwlad, oddi-eithr yn unig yn Nghymru. Efallai na chyfeiliornid pe dywedid mai dyna brif ragoriaeth ein cenedl; ac mai dyna y penaf o holl weithredoedd Charles o'r Bala. Mawr oedd y gwrthwynebiad a gafodd oddiwrth yr holl enwadau crefyddol, ac hyd yn nod oddiwrth lawer o'r Methodistiaid Calfaidd. Dyoddefodd ferthyrdod moesol am faith flyneddoedd, a hyny oddiwrth ei gyfeillion. Ond ymlaen yr aeth yn dawel a diwyd, heb ffrwst ac heb drwst. Yr oedd rhyw fywyd na fynai farw yn yr Ysgolion Sabbothol. Ac erbyn hyn y mae y gronyn o had mwstardd wedi myned yn bren mawr.

Y mae un weithred ddyngarol yn arwain i un arall; a bu yr ymdrech gyda'r Ysgolion Sabbothol yn achos o sefydliad Cymdeithas y Biblau. Y mae llawer o ysgrifenu wedi bod am ddechreuad y gymdeithas ardderchog hon, ac ychydig o wahaniaeth barn wedi ei amlygu o barth i'r personau a ddylent gael eu hystyried fel ei sylfaenwyr. Y mae enwau rhai wedi eu llusgo i'r ddadl nad oedd un berthynas rhyngddynt â'r achos, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Yr unig ddau sydd yn teilyngu cael eu cofrestru fel cychwynwyr y gymdeithas, yw Thomas Charles a Joseph Hughes. Y cyntaf oedd yr un a greodd yr anghenrheidrwydd teimladwy am gymdeithas o'r fath; ac nid hyny yn unig, ond ymfynodd, a chynhyrfodd, ac ni orphwysodd nes ei chael. Ond yn y cyfarfod a gadwyd yn Llundain ar yr achos, pan oeddynt, mewn canlyniad i lafur a thaerineb diorphwys Mr. Charles, yn penderfynu ar gael cymdeithas i ddiwallu anghenion y Cymry, mae yn ymddangos mai y Parch. Joseph Hughes a ddygodd i mewn y meddylddrych am ei gwneyd yn gymdeithas gyffredinol, nid i Gymru yn unig ond i Brydain; ac nid i Brydain yn unig, ond i'r holl fyd. Fel hyn y dylasai fod, ac ni fuasai Mr. Charles mor uchel pe buasai fel arall. Meddylier ei fod, yn nghanol yr anghen oedd yn ei wlad ei hun, pan oedd plant yr Ysgol Sabbothol yn gwaeddi am Fiblau, ac yn methu eu cael, er hyny yn myned i fynu i Lundain, ac yn cynnyg am gael cymdeithas i anfon Biblau i eithafoedd y ddaear, buasai felly yn rhy debyg i'r "ffyliaid, y rhai y mae eu llygaid yn nghyrau y byd." Prin y gallasai y cyfryw ymddygiad darddu oddiar awydd syml am wneyd daioni; a phe caniateid ei fod yn dangos teimlad canmoladwy, mae yn eglur nas gallasai y teimlad hwnw fod yn cydfyned â doethineb. Ond gwnaeth Mr. Charles yr hyn oedd yn

perthyn iddo; llafuriodd yn y cylch yr oedd rhagluniaeth ddwyfol wedi ei osod, nes y bu ei lafur yn achlysur i sefydlu Cymdeithas y Biblau. Y mae ymofyn pa un ai efe ai Mr. Hughes oedd awdur y gymdeithas, yr un peth yn union ag yw dadleu pwy oedd awdwyr y fuddugoliaeth yn Waterloo—pa un ai y Seison, y rhai a wrthsafasant y gelynion am ddiwrnod cyfan, ai ynte y Prwssiaid y rhai a ddaethant ymlaen yn niwedd y dydd, ac a orphenasant y gwaith.

Ond er mwyn gosod y mater hwn yn gywir ger bron y darlennydd, y mae un neu ddau o sylwadau yn mhellach yn deilwng o ystyriaeth. Y sylw cyntaf yw, fod gwahaniaeth hanfodol rhwng dyngarwyr a Jarganfyddwyr naturiol. Yn y celfyddydau a'r gwybodaethau, y peth mawr yw cael allan y meddylddrych; ond mewn dyngarwch, nid y mwyaf gwreiddiol yw y dyn mwyaf; ond y mwyaf gweithgar, ac yn enwedig y mwyaf medrus i ennill eraill i weithio. Nid oes dim yn fwy hawdd na ffurfio cylluniau; ond yr anhawsder yw eu dwyn i weithrediad. Yn yr olwg yma y mae Mr. Charles a Mr. Hughes yn sefyll yn uchel yn eu perthynas â Chymdeithas y Biblau; Mr. Charles fel y mwyaf offerynol i'w dwyn i fod, a Mr. Hughes fel y mwyaf llafurus o'i phlaid ar ol ei sefydlu. Pe buasai Mr. Charles yn cynnyg y meddylddrych am ei gwneyd yn gymdeithas gyffredinol i'r holl fyd, ni fuasai hyny yn chwaneu dim at ei anrhydedd; a phe na buasai Mr. Hughes yn ei gynnyg, ni fuasai hyny o bwys; oblegid y gofyniad ydyw, nid pwy a siaradodd, ond pwy a weithredodd. A hyn y cytuna Mr. Alers Hankey, yr hwn oedd yn bresennol yn y cyfarfod; a'r hwn wrth son am Mr. Hughes, sydd yn sylwi fel y canlyn:—"Ar lafur ein cyfaill ymadawedig, yn ystod y cyfnod pwysig (ac i bawb oedd yn dwyn perthynas ag ef) pryderus hwn, yr wyf yn seilio yr hawl i'w enw gael ei drosglwyddo i oesoedd dyfodol fel 'tad y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;' a'r cyfryw hawl, ar y sail gadarnaf, fel na feiddia neb ei ddadleu. O berthynas i'r anrhydedd ansicr o fod yn llefarydd y geiriau a ddyferwyd yn y cyfarfod ar y 7fed o Ragfyr, 1802, ar ol clywed adroddiad Mr. Charles, pe galleid bod yn sicr hyd yn nod o'r geiriau eu hunain, nid oeddynt yn unig ond ymgorfforiad o deimlad cyffredin pawb oedd yn bresennol, ac yr oeddynt yn rhy aneglur i gyfleu un ystyr. Dywedodd rhyw un ryw *beth*. Atebwyd dyben rhagluniaeth felly, a thu hwnt i hyny yr wyf yn credu fod pob peth yn anhysbys. Nid wyf yn gwadu nad efe allai fod y person a'u llefarodd hwynt, beth bynag oeddynt—y mae y

tebygolrwydd hwyrach o'i du—ond ni thybiwyd fod yr hawl o hyny o un pwys hyd oni ymgwymerodd Mr. Owen â'r gorchwyl o ysgrifenu hanes y gymdeithas, ac wedi hyny seiliwyd ef ar gof Mr. Hughes ei hun. Y mae ei hawl i fod yn dad iddi, fel y dywedais, yn gorphwys ar lawer cadarnach sail. O'r foment gyntaf yr ennynwyd y wreichionen, darfu iddo ef ei chwythu â'i holl sel, hyd oni ddaeth yn filam fawr." Dyma eiriau Mr. Hankey, fel y ceir hwynt yn *Llyfr y Jubili*, gan y Parch. Thomas Phillips. Nid oes ynddynt ddiffyg parch i Mr. Hughes; oblegid enwir ef yn "dad y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;" a seilir ei hawl ar yr iawn sylfaen, sef ar ei lafur, ac nid ar ei eiriau. Os llafur dibaid o blaid y gymdeithas o'i chychwyniad sydd yn rhoddi hawl i'r enw, nid oes neb yn fwy teilwng o hono na Mr. Hughes: ond os llafur mor ddibaid cyn ei chychwyniad, a'r llafur hwnw yn achosi ei dygiad i fod, sydd yn cyfansoddi tad y gymdeithas, yna mae yr enw yn perthyn yn fwyaf priodol i Mr. Charles. Ond afreidiol yw dadleu yn nghylch yr enw; ac y mae yn amheus a yw yn briodol galw neb ar y ddaear yn dad Cymdeithas y Biblau. Yr hyn oll a amcenir yma yw, dangos natur y cysylltiad sydd rhwng sylfaeniad y gymdeithas â Chymru, ac yn bendifaddeu â llafur Mr. Charles. Y sylw arall ar y mater hwn yw, fod llai o bwys nag y mae llawer yn ei feddwl yn y geiriau "Brytanaidd a Thramor." Y pwnc mawr oedd cael cymdeithas i ddosbarthu Biblau yn rhadlawn, heb nod nae esboniad; nid meddwl am dani, ac nid siarad am dani, ond mynu ei chael. Dyna yr egwyddor fawr sydd yn enaid i'r gymdeithas: ac yr oedd yr egwyddor hon yn gynnwysedig yn nghynnygiad Mr. Charles; oblegid y mae efe ei hun yn dywedyd yn ei ddull dirodres arferol, "Wrth waith y Parch. T. Charles yn ymorol yn Llundain âg ewyllys-wyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Bibl am bris gweddol, yn yr iaith Gymraeg, ac os byddai bosibl, i drefnu cyllidfa barhaus o honynt, fel na byddai un amser mwy brinder o Fiblau i'r Cymry tlodion, rhoddodd yr Arglwydd y meddyliau caruaid ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddyddan â hwynt, o ffurfio cymdeithas i ddosbarthu Biblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig tramor." Pe sefydlasid y gymdeithas i Gymru yn unig, neu i Brydain yn unig, buasai yr egwyddor hon yn gweithio ei ffordd yn raddol, ond yn effeithiol. A dichon y buasai Prydain wedi gwneyd mwy o les i wledydd eraill pe soniasai lai am dani ei hun fel unig

ffynnonell pob daioni i'r holl fyd; a phe buasai yn cyfeirio ei hymdrech yn fwy i annog, a chodi, a chynnorthwyo dynion ymroddgar yn mhob gwlad i lafurio yn eu gwlad eu hunain, ac i sefydlu cymdeithasau daionus yn mysg eu cydwladwyr. Gwyddom ein bod yn dywedyd yr hyn a ymddengys i lawer yn heresi: ond ein cred ddiysgog ydyw, mai rhwystr i lwyddiant y Gymdeithas oedd ei gwneuthur yn gymdeithas i'r holl fyd; ac y buasai wedi effeithio mwy hyd yn nod ar y Cyfandir pe galwesid hi yn Gymdeithas y Biblau yn unig; hyny yw, pe cadwesid yn nes at gynllun gwreiddiol Mr. Charles.

Wrth adael y mater hwn, os cymerir golwg gyffredinol ar lafur dyngarol Mr. Charles, gellid meddwl mai peth hawdd iawn yw cyrhaedd y llwyddiant mwyaf mewn gwneyd daioni. Nid oedd efe yn amcanu at orchwylion mawrion, ac eto cyflawnodd y rhai mwyaf. Dirgelwch ei lwyddiant oedd, fod ei lygad yn syml: ac felly, yn lle treulio ei amser i edrych oddiamgylch, a chynllunio pa beth a allai ei wneuthur i enwogi ei hun; ac yn lle ymgyrhaedd at amcanion uchel i dynu sylw ac i ennill clod gan ddynion, yr oedd bob amser yn gwneyd yr hyn oedd o'i flaen, er ei fod yn orchwyl rhy ddistadl gan eraill i ymaflyd ynddo. Effeithiodd yn mhell trwy wneuthur yn egniol yr hyn oedd yn agos ato. Braidd na ellid dywedyd mai un meddwl oedd ganddo; a'r meddwl hwnw oedd rhoddi addysg i'r bobl. Dyma yr hyn oedd yn ymddangos ar y pryd yn fwyaf anghenrheidiol, ac at hyn y casglodd ei holl nerthoedd. Yr oedd yn alluog i draddodi pregethau mor gyflawn o faterion, ac mewn dull mor rymus, a neb yn Nghymru; ac felly y gwnai pan fyddai achlysuron yn galw am hyny. Wrth ymdrin â phynciau athrawiaethol yn y cymdeithasfaoedd, yr oedd ei frodyr mwyaf gwybodus yn cael adeiladaeth a goleuni newydd i'w meddyliau wrth ei wrandaw, a rhoddent y blaen iddo yn naturiol. Ond wrth fyned a dyfod ar hyd y wlad, ei destun gwastadol oedd addysg. Pa un bynag ai yn y tŷ, ai ar y ffordd, ai yn yr areithfa, ei hyfrydwech oedd dysgu y bobl, ac annog eraill i wneuthur yr un modd. Oddiar y teimlad hwn y sefydlodd yr ysgolion dyddiol: ac wrth weled y rhai hyny yn annigonol, arweiniwyd ef i godi yr Ysgol Sabbothol. Atebodd y sefydliad hwn y dyben; a llwyddodd, nid ar unwaith, ond yn raddol, tu hwnt i bob dysgwyliad. Yr oedd yma egwyddor newydd, a nerth annherfynol, wedi dyfod i'r golwg, yr hon nid yw eto ond yn dechreu dangos ei heffeithiolrwydd. Ond ar ol sefydlu yr Ysgol Sabbothol, nid aeth i chwilio pa beth a gai i'w wneuthur drachefn, pa

goiofn arall a godai i anfarwoli ei enw: ond aeth ymlaen yn ddyfal gyda'r gwaith oedd ganddo, nes y gorfodwyd ef, gan y llwyddiant oedd yn cydfyned â'i ymdrechion, i chwilio am ryw foddion i gyflenwi yr anghen am Fïblau yn ei wlad ei hun; ac felly, trwy ei ffyddlondeb yn addysgu y Cymry tlodion, y daeth, dan arweniad dwyfol, i fod yn achosydd o sefydliad Cymdeithas y Biblau.

Os awn rhagom yn nesaf at yr ail ran o'i lafur, yr ydym yn cael yr un ysbryd yn ei weithiau awdurol. Cyhoeddodd dri o lyfrau gyda golwg uniongyrchol ar yr Ysgol Sabbothol. Un c'honynt yw y *Sillydd*, yr hwn sydd yn awr allan o arferiad, er colled yn hytrach na mantais i ieuentyd yr oes hon; gan fod ynddo liaws o gyfarwyddiadau mewn pethau bychain, yn y rhai y mae y Cymry fwyaf ar ol. Mae yr *Hyfforddwr* yn adnabyddus i bawb: ac wedi bod yn un o'r llyfrau mwyaf defnyddiol. Ond tybia rhai fod yr oes hon yn rhy oleuedig i sefyll mewn anghen am ei gynnorthwy—heb ystyried mai wrth ddysgu yr *Hyfforddwr* y daeth yr oes mor oleuedig ag ydyw—a phe bai yn llawer mwy goleuedig, y gwirionedd anwadadwy ydyw, er ein holl ymffrost a'n clindarddach, y bydd yr oes nesaf yn dywyllach na'r ddiweddaf yn athrawiaethau sylfaenol crefydd, oni pharheir i ddysgu yr *Hyfforddwr*, neuryw lyfr cyffelyb. Rhyfedd ydyw fod dynion, sydd yn proffesu gweled yn mhell, yn methu canfod y gwirionedd hwn—sydd mor amlwg, ac mor agos atynt. Bydd rhifedi mawr yn mhob oes yn rhaid iddynt wrth laeth, ac nid bwyd cryf: ac hyd yn nod am y rhai a farnant eu bod hwy eu hunain yn ei ddeall yn berffaith, efallai fod hyny yn brawf eu bod eto heb ei chwilio i fanylrwydd; oblegid y mae ynddo ddigon o waith i'r amgyffredion cryfaf, gan ei fod yn cynnwys easgliad o amryw adnodau dyfnion ar yr holl bynciau pwysicaf yn athrawiaeth yr efengyl. Ond ni feddyliodd Mr. Charles am ddysgu crefydd yn athrawiaethol, heb ei dysgu hefyd yn ymarferol; ac am hyny cyhoeddodd *Esboniad ar y Deg Gorchymyn*: ac nid yw yn un clod i'r Cymry fod y llyfr hwn yn llai poblogaidd na'r *Hyfforddwr*. Heblaw amddiffyn ein hunain yn ngwyneb cyhuddiadau anhaeddiannol a ddygwyd yn ein herbyn fel gwlad, buasai yn dda i ni ymosod o ddifrif i ddiwygio lle yr ydym yn feius; ac nid rhyw egni achlysurol, ond ymdrech cyson sydd yn anghenrheidiol i buro moesoldeb y genedl. I'r dyben hwn, y mae yn anhawdd dyfeisio moddion mwy effeithiol na dysgu ac adrodd yr *Esboniad ar y Deg Gorchymyn* yn barhaus yn yr holl Ysgolion Sabbothol.

Fel y mae llawer o amrywiaeth chwaeth, felly y mae yn rhaid fod llawer o wahaniaeth barn mewn perthynas i bob cyhoeddiad cyfnodol. Ond i'r rhai sydd yn caru sylwedd yn fwy na gwegi, i'r rhai a ewyllysiant weled hanes enwogion, a'r rhai hyny yn *wir* enwogion, a thraethodau duwinyddol, a'r rhai hyny yn *wir* dduwinyddol, yn nghyd âg adroddiadau o yndriniaethau cymdeithasfaol y rhai oeddynt yn haeddu eu trosglwyddo i'r oesoedd a ddeuai, bydd y ddwy gyfrol o'r *Drysorfa Ysbrydol*, a gyhoeddwyd ganddo, yn sier o gael eu cyfrif yn mhllith eu llyfrau mwyaf gwerthfawr. Y maent yn perthyn i'r dosbarth hwnw o lyfrau, am y rhai y gellir dywedyd eu bod yn "dda bur." Nid oedd y wasg yn y dyddiau hyny, o'r hyn lleiaf dan ei olygiaeth ef, wedi syrthio mor isel ag i gael ei chyflenwi gan y rhai mwyaf segur ac anwybodus, y rhai a ruthrant i ddysgu eraill pan y dylent ddysgu eu hunain; a llawer llai y rhoddai efe dderbyniad i gecraeth a difriaeth oddiwrth swydd-ymgeiswyr aflwyddiannus, neu ddrwgweithredwyr diarddeledig. Ond y pwysicaf o'i holl anturiaethau llenyddol oedd y *Geiriadur Ysgrhythrol*. Y mae yn anhawdd desgrifio y lles a wnaeth y gwaith hwn i genedl y Cymry mewn llawer o ystyriaethau. Pe edrychid arno yn ei berthynas â'r iaith Gymraeg, efallai nad oes un llyfr, heblaw y gyfrol sanctaidd yn y cyfieithiad awdur dodedig, wedi gwneyd mwy i gadw yr iaith mewn bod a bywyd: fel y mae yn ddiau nad oes un llyfr yn fwy diogel fel cynllun i ysgrifenydd, gan nad yw ei arddull yn rhy hen nac yn rhy newydd, yn rhy uchel nac yn rhy isel. Os gofynir drachefn i'r rhai sydd yn gwneyd arferiad o feio crefyddwyr Cymru am eu bod yn rhy esgeulus o wybodaeth gyffredinol, pa lyfr a fu yn fwyaf offerynol i roddi y graddau sydd o'r wybodaeth hono yn ein gwlad, y mae yn rhaid iddynt addef mai y *Geiriadur Ysgrhythrol*. Ond er ei fod wedi cyflawni yr amcanion hyn wrth fyned heibio, maes neillduol y llyfr, o'i ddechreu i'w ddiwedd, fel y mae ei enw yn arwyddo, yw yr *Ysgrhythrau*; a pha ddarpariaeth bynag sydd yn ofynol i alluogi y Cymro uniaith i efrydu y Bibl yn fanwl ac yn drwyadl, y mae i'w gael, hyd yr oedd y terfynau yn caniatáu, yn y *Geiriadur*. Os yw yn ddymunol cael arweiniad i holl lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, y mae hyny i'w gael yn y *Geiriadur*. Os byddai llyfr ar hanesiaeth y Bibl yn dra buddiol, y mae hyny yn y *Geiriadur*. Os yw yn anghenrheidiol deall daearyddiaeth y Bibl, ceir hyny hefyd yn y *Geiriadur*. Os ymfynir am esboniad ar liaws o anhawsderau y Bibl, ni chwilir yn ofer am hyny yn y *Geir-*

iadur. Ac yn olaf, os teimla neb awydd i ddarllen Corff o Dduwinyddiaeth, er iddo chwilio y llyfrgelloedd helaethaf, nid yn fynych y cyfarfyddir âg un gwell nag a feddir gan y Cymry yn y *Geiriadur Ysgrythyrol*. Er fod ei wasanaeth yn mhob un o'r rhandiroedd a enwyd yn deilwng o grybwylliad, y mae yn debyg mai yr hyn sydd yn cyfansoddi ei ragoriaeth penaf, a'i fuddioldeb mwyaf parhâus, yw ei draethodau duwinyddol. Y mae y golygiadau athrawiaethol yn eang, ac yn dangos gofâl am roddi ei le priodol i bob pwnc yn y dadguddiad dwyfol. Nid ydynt yn gwadu dyledswydd dyn er mwyn dyrchafu gras Duw, nac yn cuddio gras penarglwyddiaethol er mwyn argymhell dyledswydd. Nid peth bach yw cael cyfarwyddwr y gellir ymddiried iddo, un nad yw yn caru eithafion, ac nad yw yn dewis myned ymlaen un cam heb wybod yn sicr i ba le y mae y ffordd yn arwain. Duwinyddiaeth fel hyn yw Duwinyddiaeth y *Geiriadur Ysgrythyrol*.

Ysgrifennodd Mr. Charles, hefyd, lyfr bychan yn yr iaith Seisnig, i amddiffyn y Methodistiaid Calфинаidd yn ngwynneb cyhuddiadau a ddygid yn erbyn y cyfundeb gan wr eglwysig o sir Fôn, yr hwn a gymerai arno brofi fod rhai o honynt mewn modd dirgelaidd yn feithrinwyr teyrnfradwriaeth. Er fod y gwr hwn, a'i gyhuddiadau, wedi myned i ebargofiant, y mae y traethawd yn werth ei ddarllen eto fel anghraifft o iaith brydferth, ac ysbryd gwir foneddigaidd. Heb law hyn oll, yr oedd wedi dechreu ar *FyNEGair* helaeth i'r Bibl Cymraeg. Ac ni ddylid myned heibio heb ddyweyd gair am ei hymn. Y mae yn debyg na chyfansoddodd fwy nag un hymn; ond gem yw yr un hono. Y mae y pennill cyntaf fel y canlyn:—

Dyfais fawr trag'wyddol gariad
 Ydyw Iachawdwriaeth lawn,
 Sail cyfammod hedd sydd gadarn;
 Ac nis derfydd byth mo 'i ddawn.
 Dyma 'r fan y gorphwys f' enaid;
 Dyma 'r fan y byddaf byw;
 Mewn tangnefedd, pur, heddychol,
 Yn mhob 'stormydd gyda 'm Duw.

Mae y pennillion eraill yn gyffelyb, yn un gadwen o feddwl a theimlad barddol, er eu bod wedi eu hargraffu weithiau heb fod mewn cysylltiad a'u gilydd. Ond o'i holl gyfansoddiadau, efallai nad oes yr un yn dangos mwy o wreiddiollder a mawredd meddwl na'i ddyddyfr, yr hwn a argraffwyd yn hanes ei fywyd. Yn hwn y mae yn chwilio

dirgeledigaethau y galon ddynol, ac yn plymio dyfnderoedd profiad ysbrydol. Yn lle aros yn yr ymddangosiadau arwynebol, y mae yn eu holrhain i lawr yn barhaus at yr achosion cyffredinol yn eigion yr enaid, lle y mae pob amrywiaethau personol yn cydgyfarfod, ac yn diflanu o'r golwg mewn egwyddorion tragywyddol; ac o ganlyniad y mae ei ddyddlyfr yn gyflawn o'r addysgiadau dyfnaf i bob dyn yn mhob oes.

Ac yn awr, fel casgliad oddiwrth y cwbl, gallwn weled gymaint y dichon i un dyn ei wneuthur os bydd o ddifrif. Pe cyfranogai holl weinidogion a diaconiaid y Methodistiaid Calfnaidd yn helaeth o'r un ysbryd ag oedd Mr. Charles, pe byddent oll mor hunan-ymwadol, a phe ymdrechent i wneuthur cymaint gyda'u gilydd ag a wnaeth ef ei hun, mae yn ddiammheuol y byddai effeithiau newyddion i'w gweled yn fuan oddiwrth eu gweithrediadau. Pe caent yr un ffydd ag oedd ynddo yntau, ffydd yn Nuw i ddechreu, a ffydd mewn dynion yn nesaf, hwy a symudent fynyddoedd eto yn yr oes hon.

Tueddir yr ysgrifenydd i wneyd sylw neu ddau ymbellach gyda golwg ar berthynas Mr. Charles â Chymdeithas y Biblau.

1. Gwelir nad yw yn rhoddi llawer o bwys ar yr enw "Brytanaidd a Thramor:" a phe buasai yr enw yn cynnwys y meddylddrych mwyaf gwerthfawr, eto nid meddylddrych ond llafur sydd yn haeddu clod mewn achosion dyngarol.

2. Ar ol sylfaenu y gymdeithas, mae yn ymddangos mai Mr. Joseph Hughes a fu yn fwyaf llafurus i'w dwyn ymlaen; ac os yw gofal tadol am dani yn rhoddi hawl i'r enw o Dad Cymdeithas y Biblau, mae yn amlwg mai i Mr. Hughes y mae yrenw yn fwyaf priodol.

3. Ond os eir i chwilio am darddiad y Gymdeithas, ac os yw hyny i'w benderfynu yn ol deddfau achos ac effaith, yna y mae yn eithaf sicr mai Charles o'r Bala oedd sylfaenydd Cymdeithas y Biblau.

DAVID CHARLES.*

GANWYD y Parch. DAVID CHARLES o Gaerfyrddin, yn Pantdwrn, yn agos i St. Clears, yn sir Gaerfyrddin, Hydref 11eg, 1762 : ac felly yr oedd saith mlynedd yn iau na'i frawd, y Parch. Thomas Charles o'r Bala. Swm yr hanes a roddir am dano yn ei ieuentyd, yw, ei fod fel pawb a ddaeth i ddim enwogrwydd, yn dra hoff o ddarllen. Mor gref oedd y duedd hon, fel y dywedai ei dad am dano, "Nis gwn beth i'w wneyd o Dafydd, os na ddygaf ef i fynu yn offeiriad, gan ei fod bob amser mewn rhyw gongl â'i ben yn y llyfr." Ond nid oedd amgylchiadau y tad yn caniatáu iddo wneyd un arall o'i feibion yn offeiriad; ac felly, yn lle ei anfon i Rydychain i ddysgu Groeg a Lladin, anfonwyd ef i Gaerfyrddin, i ddysgu trin llin a gwneyd rhaffau. Pa fodd bynag, yr oedd ei benderfyniad i ddysgyblu ei feddwl yn ei ddilyn yno; ac yr ydym yn cael iddo gyflawni y gorechestwaith o drysori yn ei gof y cyfan o *Young's Night Thoughts* yn ystod ei brentisiaeth. Dywedir wrthym fod dygwyddiadau dyfodol yn taflu eu cysgod o'u blaen; ac yn ddiâu yr oedd yma ryw arwydd mai nid dyn cyffredin a fyddai y bachgen hwn: ac os, fel y dywed un arall, y plentyn yw tad y dyn, yr oedd yma hefyd ddangosiad pa fath ddelw ac argraff fyddai ar ei feddyliau wedi iddo ddyfod yn fwy oedranus. Ond yr hyn sydd o fwy pwys ydyw, ei fod yn ddyn ieuane crefyddol; a bod ei fywyd yn brawf mor gyson o wirionedd ei broffes, fel y rhoddid yr ymddiried mwyaf diysgog ynddo gan bawb a'i hadwaenai. Deffrowyd ei feddwl i ystyried wrth ddarllen pregethau Ralph Erskine, pan oddeutu pumtheg oed; a byth wedi hyny, yn nghanol trafferthion bydol, ni chollodd ei olwg ar yr un peth anghenrheidiol. Tua'r flwyddyn 1780, symudodd o Gaerfyrddin i Bristol, lle yr arosodd am dair neu bedair blynedd. Byddai yno yn arfer cyfarfod gyda nifer o grefyddwyr ieuaine i weddio ac adeiladu eu gilydd. Yn y cofiant ar ddiwedd y gyfrol Saesneg o'i bregethau, i'r hwn yr ydym yn ddyfledus am y

fieithiau hyn, rhoddir y dystiolaeth a ganlyn am y gyfran hon o'i oes, mewn llythyr oddiwrth Mr. Warlow, o Milford:—"Yr oedd ei gymdeithas o les nid bychan i ni; yr oedd ychydig o flaen Mr. Weston a minnau mewn blyneddoedd, yn gystal ag mewn profiad. Yr oedd yn ddyn ieuane o farn gref; yr oedd yn deall athrawiaethau gras yn dda, ac yn teimlo eu heffeithiau ymarferol ar ei galon, tra yr oedd yn arddangos eu gwirionedd a'u gallu yn ei fywyd a'i ymarweddiad. Gyda'r cymeriad hwn yr ymadawodd o Bristol i Gymru. Yr wyf yn cofio hyn yn dda, ac hefyd y lliaws o gyfarfodydd hyfrydol a gawsom gyda'n gilydd, a'r hiraeth a deimlid ar ei ymadawiad."

Dychwelodd i Gaerfyrddin i ddilyn ei alwedigaeth: ac yn mhen ychydig o flyneddoedd priododd ferch i Samuel Levi Phillips, Ysw., banker, o Hwlfordd (*Haverfordwest*). Yr oedd Mr. Phillips yn enedigol o Frankfort-on-the Maine, wedi ei ddwyn i fynu yn y grefydd Iuddewig, ac yn fab i Rabbi; ond wedi troi at Gristionogaeth, yn more ei oes, yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Brydain. Ei ferch a ennillwyd at grefydd trwy weinidogaeth y Parch. Rowland Hill; i'r hwn yr oedd ganddi y parch mwyaf tra fu byw: ac yn ei thŷ hi yr arosai Mr. Hill yn benaf pan yn ymweled a'r rhan hono o'r wlad. Ac yma, y mae yn anhawdd myned heibio heb grybwyll hanesyn bychan sydd yn cael ei adrodd am y diweddar Mr. Evans, New Inn, wedi hyny o Lwynffortun. Pan ofynwyd i Mr. Evans, beth oedd yr achos ei fod ef yn derbyn cydnabyddiaeth am ei lafur gweinidogaethol, pan oedd Mr. Charles bob amser yn pregethu am ddim, atebodd yn ei ddull difyr ei hun, "O! *my dear Sir*, y mae Mr. Charles wedi cael digon gan yr Iuddewon; y mae yn rhesymol iawn i minnau gael ychydig gan y Cenedloedd." Ond cafodd Mr. Charles fwy gyda'i wraig na ehynnysgaeth fydol, fel y mae y llythyr canlynol yn profi, yr hwn a ysgrifennodd efe ati yn y flwyddyn 1817.

"FY ANWYL SARAH,—

Dymunaf yn fawr na fyddo i chwi ofalu am ddim, ond eich iechyd, a'r hyn sydd yn llawer mwy pwysig nag iechyd corfforol; oblegid y mae hwn i wywo pa ofal bynag a gymerir am dano, tra y bydd y *bywyd sydd yn deilliaw o Grist* (Efe yw ein bywyd), yn cryfhau dan ddwyllaw angeu, ac yn ymadnewyddu i dragywyddokleib diderfyn. 'Y dwf a roddwyf iddo, a fydd ynddo,' medd Crist, 'yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol.' Y mae y gradd lleiaf o'r bywyd dwyfol hwn yn worth mwy na'r holl greadigaeth weledig, oblegid boddlonrwydd a delw Duw ydyw; y mae yn hawl i'r mwynhad o Dduw, ac o gymhwysder ysbrydol i'w

fwynhau. Pa ddaioni a allwn ni weddio am dano, i ni ein hunain neu i eraill, yn gyffelyb i'r fendith annhraethol hon? O! na b'ai genyf galon i'w cheisio yn fwy difrifol a dyfal, i chwi ac i mi fy hun! Yr wyf yn cydnabod fod arnaf ddyled fawr o weddïau i chwi. Yr wyf yn ei hystyried yn ddyledswydd, ac yn ei theimlo i ryw radd yn bleser, i geisio ei thalu; ond mewn dull tlawd iawn yn wir. Y rhai hyny yw gwir gedyrn y ddaear y rhai sydd yn gedyrn mewn gweddi, y rhai sydd fel Jacob yn orchfygwyr gyda Duw, ac yn orchfygwyr ar y byd, ac uffern, ac angeu, a'r bedd. Er mor ddrwg yw fy nghalon ofer, nid yn fynych yr ydych *chwi* yn mhell oddiwrthi; ac ar i chwi a minnau gael mynediad helaeth, pa bryd bynag y delo yr amser, i'w dragywyddol deyrnas ef, yw, gobeithiaf, ddymuniad uwchaf fy meddwl. 'Am hyn y ceisir ef gan dŷ Israel: ' a pha fodd y gallwn fod mewn gwel gwaith nag yn tywallt ein calonau, ac yn anadlu ein dymuniadau ger ei fron ef, yr hwn y mae ei glust bob amser yn agored i lef ei creaduriaid distadlaf. Dedwydd fydd i ni gael tynnu yr anadl olaf yn y gorchwyl hwn: ni byddai hyny yn llafur ofer—cai ei wobrywyo mewn tragywyddoldeb o lawenydd."

Dewiswyd Mr. Charles mewn oedran ieuangach na chyffredin i fod yn ddiakon i eglwys y Methodistiaid Calфинаidd yn Nghaerfyrddin; ac yn fuan ennillodd iddo ei hun "radd dda" mewn gwybodaeth, a "mwyneidd-dra doethineb." Cyflawnodd waith y swydd hon yn ffyddlawn am fwy nag ugain mlynedd; ac yn mhell cyn ei alw i swydd fwy cyhoeddus, rhoddid yr ymddiried llwyraf yn ei farn, a theimlid anghen am ei gynnorthwy, nid yn nghyfarfodydd misol ei sir yn unig, ond hefyd yn y cymdeithastaoedd chwarterol. Yr oedd un hynodrwydd yn ei achos ef nad oes anghraifft o hono mewn cysylltiad âg un *blaenor* arall yn hanes y cyfundeb. Y mae yn hysbys nad oes ragoriaeth yn perthyn i neb yn nghymanfaoedd y Methodistiaid yn herwydd ei le na'i swydd, nac unrhyw amgylechiad allanol. Y mae pawb ar yr un tir yn y cyfarfodydd hyn, oddieithr fel y byddont yn ennill dylanwad trwy y cyfryw brofion o'u cymhwysderau ag a fyddo yn creu parch iddynt yn meddyliau eu brodyr. Er hyny, fel y mae yn naturiol tybied, ymddiriedir amgylechiadau arianol y cyfundeb yn fwy neillduol i'r diaconiaid; ac o'r tu arall, wrth ymdrin â materion athrawiaethol, dysgwylir yn benaf wrth y pregethwyr. Nid oes un reol ffurfiol yn achos o'r gwahaniaeth; a diau mai goreu po leiaf o ffurfioldeb yn hyn fyddo yn hanfodi. Rhodder y dyn mwyaf addas yn y lle mwyaf addas, beth bynag fyddo enw ei swydd; ac felly y gwneir y gwaith yn fwyaf effeithiol. Yn mhob cymdeithas, pa mor werinol bynag fyddo ei chyfansoddiad, y mae rhyw rai o anghenrheidrwydd i fod ar y blaen; ac nid oes reol ddiogelach i benderfynu pwy a ddylai y rhai hyny fod na'r syniad cyffredin; oblegid er mor analluog yw y mwyafrif i ddeall pynciau, y maent yn lled gywir yn eu barn am

bersonau; a thra bo rhyddid yn ffynnu, y mae pob meddwl, yn gystal a phob corff, yn cael y lle sydd yn cyfateb i'w bwysan. Pwy bynag fyddo ar y blaen, nis gall fod yn esmwyth i bawb, tra fyddo y natur dlynol yr hyn ydyw, a thra fyddo cenfigen heb ddarfod o'r byd: ond y mae hanes Mr. Charles yn profi fod gwir deilyngdod yn sicr mewn amser o ennill ei le priodol; oblegid er nad oedd efe ar y pryd ond diacon yn unig, ac er fod y Methodistiaid heb golli eu parchedigaeth arbenig i ordeiniad esgobaethol, eto gelwid arno i draethu ei feddwl ar bob mater a ddeuai ger bron y gymdeithasfa; ac nid oedd neb yn cael ggrandawriad mwy astud pan yn ymdrin âg athrawiaethau dyfnaf y gwirionedd dwyfol. Nid oedd raid iddo geisio dangos mawredd; ac nid oedd mor ffol a cheisio dangos gostyngeddrwydd: ond wrth gymeryd ei le naturiol, yr oedd yn cael ei hun yn mysg y rhai blaenaf yn y cyfundeb, trwy gydsyniad unfrydol ei frodyr, a bron yn ddiarwybod iddo ei hun.

Mewn canlyniad i ddymuniaidau taerion a chyffredinol, ac yn benaf, fel y dywedir, trwy annogaeth ei frawd Mr. Charles o'r Bala, tueddwyd ef i ddechreu pregethu pan yn chwech a deugain oed. Cafodd ei gyfeillion yn fuan yr hyfrydych o weled nad oeddynt wedi camsynied; a phan benderfynwyd galw nifer o'r pregethwyr mwyaf cymmeradwy i weinyddu yr ordinadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, tra y cytunid fel rheol gyffredinol nad oedd neb i gael ei neillduo heb gael prawf o hono fel pregethwr am bum' mlynedd, gwnaed eithriad pennodol gyda golwg arno ef, a chafodd ei ordeinio gyda'r dosbarth cyntaf o weinidogion y Deheubarth yn 1811. Tybygid mai nid llawer o wahaniaeth a wnaeth hyn yn ei ddull o lafurio; o'r hyn lleiaf, nid esgeulusodd yr achos crefyddol yn ei gartref wedi hyny mwy nag o'r blaen. Nid oedd efe yn un o'r pregethwyr llafurus hyny, y rhai y mae eu holl lafur yn gynnwysedig mewn teithio. Yr oedd yn llafurio yn ddiarbed; ond yn benaf â'i feddwl. Yr oedd yn byw o hyd mewn myfyrdodau ysbrydol; a byddai ei agwedd allanol yn dangos fod y myfyrdodau hyny yn dwyseiddio fel y byddai amser yr ymgynnulliad eglwysig yn agosau; ac yn y cyfarfod hwnw yr oedd yn ei elfen. Sonir hyd heddyw am yr ymddyddanion nefolaidd rhyngddo ef a'r hen frodyr, neu yr hen chwiorydd, mwyaf profiadol. Nid oedd yn treulio yr holl amser i areithio; ond medrai y ffordd at galonau y rhai iselaf, a thynai eu meddyliau hwythau allan. Ond y lle yr oedd lliaws ei frodyr yn cael mwynhau ffrwyth ei fyfyrdodau dyfnaf

oeld yn y cymdeithasau chwarterol. Ar yr achlysuron hyn, y mae yn rheol fod un cyfarfod yn cael ei dreulio i ymdrin â rhyw bwne o athrawiaeth, yr hyn, mewn modd llai ffurfiol, ond i gyleh cangach, sydd yn ateb dyben y darlithoedd duwinyddol yn yr athrofeydd, yn Lloegr ac Ysgotland. Yn y cyfarfodydd hyn, byddai rhai o'r dynion mwyaf yn Nghymru yn wyddfodol; ond edrychent i fynu ato ef fel athraw yr athrawon. Pan gyfodai, byddai pawb yn ymwneyd i wrandaw; ac fel yr elai ymlaen, byddent yn fuan wedi eu llenwi â theimladau cymysg o ryfeddu ac addoli. Nid oedd ynddo un egni nac ymdrech; dim un ystum, nac ymgais i dynu sylw; dim ond *meddwl pur* yn gorlenwi pawb a syndod: a phan dawai, byddai y gwrandawyr yn teimlo fel pe byddent yn dyfod yn ol o fyd y meddwl i'r byd gweledig. Adroddir am un tro neillduol, pan oeddynt yn ymddyddan am rai o'r priodoliaethau dwyfol. Yr ysgrifenydd, fel arferol, oedd Mr. Richards, Tregaron: a phan gododd Mr. Charles, dechreuodd Mr. Richards sylwi gyda'r bwriad o ysgrifenu pob gair yn fanwl hyd eithaf ei allu; ond wrth wrandaw, anghofiodd ysgrifenu, ac anghofiodd ei swydd; a phan ofynwyd iddo ar ddiwedd y cyfarfod, a oedd wedi gofalu am gofnodi sylwadau Mr. Charles heb eu talfyru, nid oedd ganddo ond cyfaddef nad oedd wedi ysgrifenu un gair.

Un fantais fawr yn y cyfarfodydd hyn oedd, fod ei wrandawyr gan mwyaf yn alluog i werthfawrogi ei feddyliau: ond pan fyddai yn llefaru mewn cynnulleidfa gymysg, yr oedd yr achos yn dra gwahanol; gan nad oes ond yehydig mewn cymhariaeth yn fedrus i ddosbarthu rhwng drwg a da: a'r canlyniad oedd, fod Mr. Charles trwy ei oes yn mhell o fod yn bregethwr poblogaidd. Nid llawer sydd i'w cael mewn cynnulleidfa yn gyffelyb i'r diweddar Mr. Howells, o Long Aere, un o weinidogion mwyaf parchus yr Eglwys Sefydledig yn Llundain; yr hwn a ofalai am ei wrandaw ar bob adeg gyfleus; a phan fyddai rhyw feddwl mwy ysblenydd na chyffredin yn disgyn o enau y pregethwr, codai Mr. Howells yn fyrbwyll a rhoddai dro ar ei begwn ddwywaith neu dair, gan rwbio ei ddwyllaw, fel un wedi colli arno ei hun; ac yna eisteddai i lawr mor ddisymwth ag y cododd i fynu.

Pe buasai yr holl drigolion mewn rhyw un ardal neu dref i gyd yn ddyinion call, efe fuasai yn y lle hwnw y pregethwr mwyaf poblogaidd o bawb. Ond y mae Rhagluniaeth yn ddoeth wedi gwasgaru y rhai call yn mysg y rhai anghall; ac felly y mae toraeth y bobl hyd yn hyn, yn mhob gwlad, yn gyffelyb i wrandawyr yr areithiwr hwnw,

yr hwn, pan oedd y werin yn ei ganmawl un diwrnod, a ofynodd i'w gyfeillion, Pa beth ffol a ddywedais heddyw? Nid oes dim yn fwy poenus i'r cyffredin na cheisio meddwl; ac i'r cyfryw nis gallasai fod dim o werth yn mhregethau Mr. Charles, Caerfyrddin. Ac y mae dosbarth arall o wrandawyr yehydig uwchlaw y rhai hyn, os ydynt uwchlaw iddynt hefyd, y rhai sydd yn meddwl eu bod yn meddwl, ac yn dychymygu eu bod yn deall, ond heb ddechreu meddwl na deall fel y dylent; y rhai a ddadleuant yn ddiiddiwedd yn nghylech mân-gwestiynau, ond ni welant un gradd o anhawsder na mawredd yn meddyliau dyfnion Efengyl Ioan; ac i'r cyfryw drachefn, nid oedd Mr. Charles ond pregethwr bychan. Nid oedd yn ei bregethau un gradd o'r cywreinrwydd hunan-ddoeth sydd yn ymddangos yn fawr i'r anwybodus: ac nid yn unig, yr oedd yn ymattal rhag gwneyd swm mawr yn nghylech pethau bychain, ond nid oedd efe yn un a allai wneyd llawer o swm yn nghylech pethau gwir fawr. Ond i'r sawl sydd yn caru gwirionedd er ei fwyn ei hun, ac yn alluog i ganfod mawredd pan na fyddo llawer o rwysg yn ei amgylchynu, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf hoff ganddynt i'w wrandaw; ac y mae y gyfrol argraffedig o'i bregethau yn un o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr ganddynt i'w ddarllen. Wrth ddywedyd hyn, ni feddylir fod pob math o ragoriaethau wedi cydgyfarfod yn y pregethau hyn. Y maent yn ddiffygiol mewn teimlad, ac i raddau mewn cysylltiad ymresymiadol. Myfyrdodau ydynt yn hytrach na phregethau. Nid ydynt yn llefaru llawer wrth y serch na'r gydwybod; ac nid oes ynddynt ddim o'r hyn a ystyrir gan Arglwydd Brougham yn hanfod areithyddiaeth, ac a elwir ganddo yn "*fierce declamation.*" Ond os edrychir am sylwadau gwreiddiol a ehynnwysfawr, yn codi dyn uwchlaw iddo ei hun, ac uwchlaw pob peth daearol, i wlad y meddylddrychau tragywyddol a digyfrwng, y mae yn anhawdd cyfarfod â gwell anghreiffian nag a geir yn mhregethau Mr. Charles o Gaerfyrddin.

Er hynny nid oes i ni dybied ei fod yn ddieithr i deimladau dwysion a dyfnion: ond yr oedd wedi arfer llywodraethu ei hun, a chuddio ei deimladau o olwg y byd, nes yr oedd hynny wedi myned o'r diwedd yn ail natur iddo. Nid oedd dim yn fwy croes i'w feddwl na rhoddi lle i neb dybied ei fod yn rhagrithio; ac yn sicr y mae bob amser yn arwydd o ragrith neu blentyneiddrwydd pan fo dyn yn hoff o son am ei deimladau, ac yn eu dangos ar bob achlysur. I'r eithafion hyn y mae y Cymry yn gyffredin yn fwyaf tueddol. Nid oes ond yehydig o honynt a fuasant, fel efe, yn eychwyn oddicartref brydnawn ddydd Sadwrn,

newydd weled rhan fawr o'u meddiannau yn myned ar aân, yn pregethu y Sabboth, ac yn dychwelyd ddydd Llun, heb son gair am y golled wrth neb, yn gyhoeddus nac mewn ymddyddan. Nid dideimladrwydd oedd yr achos ynddo ef; ond yr oedd galw sylw dïeithriaid ato ei hun a'i amgylchiadau yn beth nas gallai ei oddef. Fod ynddo ystôr o deimlad, sydd amlwg oddiwrth ei hymnau, y rhai ydynt, efallai, mor llawn o dân barddonol a hymnau neb oddieithr rhai Williams, o Bant-y-celyn: ac nid llawer o gyfansoddiadau Williams ei hun sydd yn fwy trydanol na'r pennill tra adnabyddus hwnw,—

O fryniau Caersalem ceir gweled
 Holl daith yr anialwech i gyd;
 Bryd hyn y daw troion yr yrfa
 Yn felus i lanw ein bryd;
 Cawn edrych ar 'stormydd ac ofnau,
 Ac angeu dychrynlyd a'r bedd:
 A ninnau 'n ddiangol o'u cyraedd,
 Yn nofio mewn cariad a hedd.

Yn ol pob hanes, y mae yn ymddangos fod ei serchogrwydd yn dyfod i'r golwg yn gyfatebol i'r graddau y byddai ef ei hun o'r golwg; yn fwy yn ei hymnau nag yn ei bregethau, yn fwy mewn cyfarfodydd eglwysig na chyfarfodydd cyhoeddus, ac yn fwy yn ei gartref ei hun nag yn un man arall. Y mae yr olwg a geir arno yn ei deulu yn gadael yr argraff mwyaf dymunol ar bob calon. Ar ei ddyfodiad i'r ystafell deuluaid yn yr hwyr, cymerai y *poker* yn ei law i roddi adfywiad i'r tân, pa un a fyddai mewn anghen am hyny ai peidio; fel yn dywedyd ynddo ei hun, Gadewch i ni yn awr fod yn gysurus gyda'n gilydd. Eisteddai yn y gadair freichiau, a thaffai olwg serchiadol o'i amgylch. Yna dilynai y cydymddyddan mwyaf siriol a hyfryd hyd bryd swper, ac am hanner awr wedi hyny; yna yr addoliad teuluaid; ac wedi hyny cenid dwy neu dair o hymnau neu salmau, yn benaf o Watts neu Williams, ond yn fynych o Cowper neu Newton. Yr oedd yno rai yn ei deulu yn medru canu â'r ysbryd, ac â'r deall hefyd: ac ar amserau byddai rhyw hymnau neillduol yn effeithio cymaint arno, fel y byddai firwd o ddagrau yn treiglo dros ei ruddiau.

Oni b'ai fod gobaith gwynfydedig wedi ei ddwyn i'r golwg trwy yr efengyl, yr hwn sydd yn rhoddi y sierwydd cryfaf nad yw cymdeithas y saint ar y ddaear ond blaenbrawf o'r hyn a fwynheir ganddynt yn y nef, galarus fuasai adrodd pa fodd y daeth cwmwl tywyll dros y

dedwyddwch hwn am y clwe' blynedd diweddaf o'i fywyd. Yn mis Gorphenaf, 1828, tarawyd ef á'r parlys, a cholodd ei leferydd yn llwyr. Ei unig orclwyl bron o hyny allan oedd darllen y Bibl, neu wrandaw ar eraill yn darllen. Parhaodd hefyd i dderbyn cysur oddiwrth yr hymnau a genid iddo gan ei ferched; ac nid anghofiodd yr addoliad teuluaidd. Pan ddygwyddai nad oedd neb arall yn bresennol, i fod yn arweinydd mewn gweddi deuluaidd, gelwid y teulu ynghyd fel arferol, ac wedi i ryw un ddarllen pennod o'r Bibl, ac i'r teulu benlinio o'i amgylch, dyrechafai yntau ei lygaid ac un llaw tua'r nef, ac ar ei eistedd gweddi fel y gallai. Ar y cyfryw amserau, byddai pawb, fel y mae yn hawdd meddwl, wedi eu gorchfygu gan deimladau nas gellir eu disgrifio, er nad oedd neb yn deall un gair. Fel hyn yr aeth ei flyneddoedd olaf heibio: ond nid oes un ammheuaeth nad oedd ef ei hun wedi cymeryd y cynghor a roddodd i'w frodyr mewn cyfarfod eglwysig cyn dechreu ei gystudd:—"Ymdrechwch i gael gwybodaeth eglur o'ch derbyniad gyda Duw *yn awr*; oblegid y mae yn bosibl na fydd yr haul yn y ffurfafen pan fyddoch yn rhodio ar hyd glyn cysgod anheu." Bu farw Medi 2fed, 1834, yn y 72fed flwyddyn o'i oedran.

SHEDD AR HANES YR ATHRAWIAETH.*

Nid oes un gangen o wybodaeth yn tynu mwy o sylw y dyddiau hyn na hanesyddiaeth. Yr ydym wedi cael hanes Groeg gan Thirlwall a Grote; hanes y canoloesoedd a Lloegr gan Hallam; hanes Lloegr mewn gwahanol gyfnodau gan Macaulay a Froude; hanes Eglwys Groeg gan Stanley; hanes yr Eglwys Ladiniaidd gan Milman; hanes Cromwell a Frederick gan Carlyle; ac at y cwbl dyma ni yn cael hanes Iwl Caisar gan Ymherawdwr Ffrainc, yr hwn sydd yn cymeryd y ffordd hon i geisio cadarnhau ei ymherodraeth. Ond o bob hanes, y mwyaf buddiol, er fe allai mai nid y mwyaf difyr i'r cyffredin, yw hanes y meddwl dynol. Nid llawer o lyfrau sydd genym i'r perwyl hwn yn Lloegr. Y rhai goreu yw hanes athroniaeth y prif athronwyr Groeg-aidd gan Esgob Henffordd, a hanes yr *Inductive Sciences* gan Whewell. Ond nid ydym yn cofio fod genym un llyfr cryno o'r blaen ar *hanes yr athrawiaeth*, oddieithr cyfieithiad o Neander, a Cunningham's *Historical Theology*. Nid yw gwaith Neander ond talfyriad o'r hyn oedd wedi ei roddi ganddo eisoes yn ei gyfrolau ar Hanes yr Eglwys, yn nghyd ag ychydig ychwanegiad yn ei ddiwedd. Y mae yn rhagori yn ei fanllywedd, yn chwilio conglau bychain nad yw Cunningham na Shedd yn cyfeirio atynt. Ond y mae hyn yn ei rwystro i roddi lle dyladwy i'r hyn sydd fwyaf pwysig; ac os mynwn gael golwg gyflawn ar y prif faterion yn hanes yr athrawiaeth, y mae yn rhaid i ni droi at Cunningham a Shedd.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau olaf yw, fod Shedd yn fwy ysgoleigaidd, hyny ydyw, yn fwy syml a threfnus. Y mae yn ymddangos hefyd yn fwy cyfarwydd ag ysgrifeniadau y Tadau Groegaidd, a thrwy hyny y mae wedi gallu traethu yn fwy goleu ar hanes Athrawiaeth y Drindod. Dyma bwnc y mae y Cymry y dyddiau hyn yn ddifffgiol iawn mewn gwybodaeth am dano, pan eir at ei fanlyon; ac nid anhawdd yw cyfarfod â llawer o grefyddwyr yn perthyn i'r enwadau

* O'r "TRAETHODYDD," am 1865.

uniongred yn hollol gyfeiliornus yn eu golygiadau mewn perthyras iddo. I'r cyfryw bydd Shedd yn agor byd newydd, yn yr hwn y bu yr Eglwys Gristionogol yn byw ac yn bod am oesoedd; ac nis gellir tybied mai etifeddiaeth o ychydig werth yw y gwirioneddau a adawsant i ni, oddieithr i ni gredu fod y datguddiad a roddwyd am Dduw yn y Bibl yn afreidiol. I grefyddwyr yn gyffredin bydd Shedd yn ddigon ar y mater hwn; ond gellir dysgwyl iddo droi meddyliau llawer o'n gweinidogion i ddarllen awdwyr eraill sydd wedi ysgrifenu arno yn fwyaf helaeth, yn enwedig Bull a Waterland.

Y cyfnod y mae Cunningham yn fwyaf cartrefol ynddo yw canrif y Diwygiad Protestanaidd. O fewn y cylech hwn nid oes neb yn rhagori arno; a dyma lle y mae Shedd braidd yn ddiffygiol. Ond am hanes yr Athrawiaeth hyd at y Diwygiad Protestanaidd, nid ydym yn gwybod am neb gwell na Shedd. Un peth sydd wedi ein boddhau yn fawr yw yr arbenigrwydd a roddir ganddo i'r tri A; sef Athanasius, Augustine, ac Anselm. Dyma dri chedyrn Dafydd yn ddiammheu yn holl hanes yr Eglwys o'r Apostol Paul hyd Luther. Y mae gan eraill eu trioedd yn hanes breniniaethau y byd hwn; ac yr ydym yn gweled mai y tri mawr gan Ymherawdwr Ffrainc yw Iwl Caesar, Charlemagne, a Napoleon y Cyntaf. Yr oedd rhyw ddyben i'r tri olaf, mae yn sier; ond pa faint o wir fawredd oedd yn perthyn iddynt sydd amheus: a diau fod y tri chyntaf yn rhagori cymaint arnynt âg y mae y nefol yn rhagori ar y daearol. Hyderwn y bydd y crybwylliaidau a wneir am danynt yn y lle hwn yn foddion i arwain llawer i ymgynabyddu â hwy yn eu hysgrifeniadau. Oblegid er mor fuddiol yw crynodeb o'r fath yma, gwybodaeth ail-law yw yr hyn a geir trwyddo; a dylai pawb a allo wneyd arferiad o fyned ar ol pob pwnc i'r ffynnonell. Heblaw fod y gwreiddiol yn fwy cyflawn, y mae mwy o hyfrydweh i'w gael wrth ei ddarllen. Y mae rhyw newydd-deb a bywyd yn ngwaith dyn ei hun nas gellir eu trosglwyddo trwy gyfrwng gwaith neb arall. Yn y naill nid oes genych ond darlun; ond yn y llall yr ydych yn dyfod i gyffyrddiad uniongyrchol â meddwl a theimlad yr awdur. Ac heblaw hyn eto, y mae yn haws cofio y gwreiddiol. Y mae llawer yn dychymygu mai mantais i'r cof yw cael talfyriad o ryw awdur. Ond y mae hyn yn gamsyniad. Y mae hanes maith a manwl a fyddo yn cymeryd i mewn yr holl amgylchiadau yn gadael argraff mwy arosol ar y cof na thalfyriad na fyddo yn cynnwys dim ond y prif bethau yn yr hanes. Ac felly y mae cyfansoddiad yr awdur ei hun ar unrhyw bwnc, os

dilynir ef yn ei holl ymresymiaidau, yn sicr o aros yn hwy yn y cof na phed ymfoddlonid ar ddarluniad o hono mewn talfyriad. Yr ydym yn dywedyd hyn i geisio dangos na fwriedir llyfrau o'r fath yma i arbed y drafferth o fyned at yr awdwyr gwreiddiol. Ond y maent yn dra gwerthfawr fel arweinyddion. Pan fyddo dyn mewn lle dieithr, wedi clywed llawer o son am dano o'r blaen, mae yn dda ganddo gael un medrus i'w gyfarwyddo, er nad yw yn meddwl ymfoddloni ar ddesgrifad yr arweinydd, heb weled y prif ryfeddodau â'i lygaid ei hun. Fel arweinydd i'r sawl sydd yn meddwl chwilio i hanes yr athrawiaeth, mae yn anhawdd cael neb mwy cywir a gofalus na Shedd; a thueddir ni i gredu ei fod yn un o'r llyfrau mwyaf buddiol a gyhoeddwyd eto gan Clark.

Oni ddeffry Duwinyddion y wlad hon y maent mewn perygl o adael eu brodyr yn America i fyned o'u blaen. Nid ydym yn sicr fod genym neb yn y dyddiau hyn i'w gystadlu â Hodge, fel duwinydd dwfn, neu fel esboniwr craffus. Ac yn awr dyma Shedd wedi cymeryd lle uchel ar unwaith fel hanesiwr yr athrawiaeth Gristionogol, ac y mae yn gysur canfod ei fod yntau, fel Hodge, yn glynu yn fyddlawn wrth olgyiadau yr hen Ddiwygwyr.

LLYFR YR YMARFER O DDUWIOLDEB.*

DYMA un o'r llyfrau oedd yn fwyaf parchus gan ein hynafiaid yn Nghymru oddeutu dau cant o flyneddoedd yn ol. Ysgrifenydd ef yn Saesneg gan Dr. Bayly, dan yr enw, "*The Practice of Piety; directing a Christian how to walk that he may please God.*" Ganwyd Lewis Bayly yn Nghaerfyrddin, a chafodd ei ddysgeidiaeth athrofaol yn Ngholeg Exeter, Rhydychain. Yn 1611, cyfarfyddir â'i enw yn nghofnodiadau Rhydychain, fel gweinidog Evesham yn swydd Gaerwrangon, caplan i'r Tywysog Henry, a gweinidog St. Matthew yn Llundain; ac yn fuan wedi hyn gwnaed ef yn gaplan i'r Brenin Iago I. Ar farwolaeth yr Esgob Howlands, dyrchafwyd ef i esgobaeth Bangor, a chysegrwyd ef i'r swydd hono yn Lambeth yr 8fed o Ragfyr, 1616. Yr oedd ei lyfr mor boblogog a gairdd yn Saesneg, fel yr oedd pedwar-ar-bymtheg-a-dengain o argraffiadau wedi dyfod allan erbyn y flwyddyn 1734: ac y mae lle i gasglu iddo fod yn yr iaith hono yn feudithiol i laweroedd. Yn hanes John Bunyan, a ysgrifenydd ganddo ef ei hun, dywedir fod hwn yn un o'r llyfrau oedd yn meddiant ei wraig pan briododd, ac a dderbyniasai hi gan ei thad, yr hwn oedd ŵr crefyddol. Darllenwyd ef gan Bunyan; oblegid er ei fod yn blaenori mewn direidi, yr oedd hyd yn nod yr amser hwnaw yn rhagori ar liaws o bobl ieuaine Cymru yn y dyddiau hyn mewn awydd ac ymofyniad am wybodaeth. Ac er mai parhau a wnaeth am ryw yspaid yn annychweledig, y mae yn cydnabod fod y darlleniad o hono wedi ei arafu i ryw raddau yn ei yrfa annuwiol, ac wedi ei dueddu i gyrcu yn fwy mynych i swm gweinidogaeth yr efengyl, yr hyn a ddybenodd, ar ol llawer o "wingo yn erbyn y symbylau," mewn gwir dröedigaeth. Hyfryd i'n teimladau ni yw meddwl fod llyfr wedi ei ysgrifenu gan un a anwyd ar lan Towy yn ddolen yn y gadwyn o ail-achosion a fu yn offerynol, dan fendith Duw, i rwymo a gwareiddio y Behemoth hwn, nes y daeth o'r diwedd i fod yn "dywysog y breuddwydwyr," ac yn un o brif arweinydd y pererinion ar eu taith o ddinas dystryw i'r Gaersalem nefol.

* O'r "TRAETHODYDD," am 1848.

Ni ddygwyddodd i ni weled hysbysiad pa bryd y cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf; ond dilys ydyw iddo ymddangos rywbryd cyn y flwyddyn 1612; oblegid mewn argraffiadau dilynol, ar ol crybwyll fod barn Duw wedi disgyn, yn 1598, ar Tiverton yn Devon, am "ffieidd-fudr halogi dydd yr Arglwydd, yr hyn a ddygwyddai yn bendant o achos bod ei marchnad ar y dydd oedd yn canlyn," y mae yr awdur yn ychwanegu, "Ac yr awrhon eilwaith gwedi rhoi y llyfr hwn allan gyntaf, ar y pummed dydd o fis Awst, 1612 (pedair-blynedd-ar-ddeg ar ar ol y waith gyntaf), yr ennynodd tân yn yr holl dref eil-waith, ac ei difawyd, oddieithr deg-ar-hugain o dai rhai tlodion, yr yseol, a'r elusendai." Bu yr esgob hwn farw, Hydref 23ain, 1631, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Bangor. Gadawodd bedwar o feibion, Nicholas, John, Theodore, a Thomas.

Yr argraffiad cyntaf o'r llyfr hwn yn Gymraeg a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1630. Nodir ef yn nghofrestr Moses Williams fel y canlyn, "Yr Ymarfer o Dduwioledeb, gan Lewis Baily, Esgob Bangor. 8vo Mwythig, a 12mo Llundain, 1630." Y mae yn debygol nad oedd Moses Williams yn bwriadu cysylltu y flwyddyn 1630 ond yn unig â'r argraffiad deuddeg-plyg yn Llundain, ac mai wedi hyny y daeth yr argraffiad wyth-plyg allan yn y Mwythig. Y cyfieithydd oedd Rowland Vychan o Gaergai, gerllaw y Bala. Yn yr argraffiad diweddaf o "Hanes y Ffydd," dan ofal y Dr. P. Williams, rhoddir yr anrhydedd hwn mewn camgymeriad i'r Dr. Davies o Fallwyd. Ar ol son am waith Dr. Davies yn perffeithio Geirlyfr Thomas Williams, dywedir, "Efe a wnaeth Ramadeg Gymraeg hefyd, ac a gyfieithodd lyfrau godidog tuag at adeiladaeth ysbrydol, sef 'Llyfr y Resolution,' a'r 'Ymarfer o Dduwioledeb,' a'r 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd.'" Ond nid felly yr ysgrifennodd yr awdur, Charles Edwards. Yn yr argraffiad diweddaf yn unig y gwnaed yr amryfusedd, trwy roddi "ac a gyfieithodd lyfrau," yn lle "a chyfieithwyd llyfrau." Y gwirionedd ydyw, na chyfieithodd Dr. Davies ond un o'r tri, sef "Llyfr y Resolution." Cyfieithydd y "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd" oedd Robert Llwyd, Ficar y Waen; a chyfieithydd yr "Ymarfer o Dduwioledeb," fel y dywedwyd eisoes, oedd Rowland Vychan.

Gan fod Rowland Vychan o Gaergai mor enwog fel cyfieithydd ag oedd Robert Vychan o Hengwrt yn yr un oes fel hynafieithydd, efallai mai nid annerbyniol fyddai ychydig gofion am dano, wedi eu casglu gan mwyaf o'r "Gwyllydd," un o'r cyhoeddiadau gwerthfawrocaf a

ymdangosodd yn yr iaith Gymraeg. Bu teulu y Vychaniaid yn Nghaergai am rai canrifoedd. Yma yr oedd Gwerfyl Meechain, merch Howel Vychan, yr hon oedd brydyddes enwog, ac a flodeuodd o'r flwyddyn 1460 i'r flwyddyn 1490.* Ei brawd, John Vychan, a briododd ferch y Cadpen Madoc; a mab iddynt hwy oedd Robert Vychan, a briododd etifeddes Gwernbrychdwn, yr hon oedd un o Lwydiaid Mythafarn; a merch y rhai hyny a briododd y Milwriad Salsbri, o Rug a Mychymbyd.† Yn nghofrestr siryddion Meirionydd yr ydym yn cael fod John Vychan o Gaergai yn sirydd yn y flwyddyn 1615, ac wedi hyny yn 1622. Cawn enw Rowland Vychan, sef y cyfieithydd, yn 1644, John Vychan yn 1668, William Vychan yn 1682, a John Vychan yn 1709. Cyfarfyddir hefyd âg enw yr olaf yn mysg y tanysgrifwyr yn nechreu "Holl Ddyledswydd Dyn," o gyfieithiad Edward Samuel, yn y flwyddyn 1718. Ond i ddychwelyd at yr enwoef o honynt oll, sef y cyfieithydd, dywedir yn y "Gwyliedydd," llyfriv., tudal. 247, y gelwid ef y Cadpen Vychan, ac iddo fod yn mrwydr Naseby yn ymladd o blaid y brenin: ac fel prawf, rhoddir y cyfieithiad canlynol o hen hysbysiad; ond ni fynegir pa le y cafodd yr ysgrifenydd afael arno:—"Ymofyner am un S—H—, o L-n-ll-ch-d, yn agos i Fangor; gŵr du, byr, llydan ysgwydd, a chydnerth o wventhuriad. Bu yn ymladd o dan y Cadpen Rowland Fychan yn ymladdfa Naseby, lle y cymerwyd ef yn garcharor. Anfonwyd ef â phenwaig, neu ysgadan cochion, i un Mr. Wyn, yn agos i Gaerwrangon, yr hwn a fuasai yn ddiweddar yn swydd Gaernarfon yn prynu gwartheg, ac a gyflogasai y dywededig S—H— i'r gorehwyl uchod. Gwelwyd ef ddiweddaf yn dychwelyd tuag adref, y pedwerydd-dydd-ar-bymtheg o Ionawr diweddaf, ar Fwlich Oerddrws, lle y tagodd efe ryw gylchwerthwr (*pedlar*) gan yr hwn yr oedd ceffyl yn llwythog o dobaeco, triagl, dwr y bywyd (*brandy*), a lliain, &c., &c., a chymerodd y cwbl ymaith." Buasai yn dda cael rhyw broffion ychwanegol i brofi y prawf hwn: ond gan nad pa un a fu y Cadpen Vychan yn defnyddio ei *gleddyf* yn erbyn y seneddwr, y mae yn ddigon amlwg nad oedd yn arbed ei *ysgrifell*. Ymdangosodd cerdd awenyddol o'i waith yn y "Blodeugerdd," wedi ei chyfansoddi i ddynoethi yr hyn a ystyriai efe yn rhagrith a gormes y *blaid seneddol*. Ar ol cyfeirio at ddienyddiad Siarls, dan yr esgus o roddi hanes am bennaeth yr Iwerddon, yr hwn y torwyd ei ben, dywed ymhellach,

* Ozen's "Cambrian Biography." † "Gwyliedydd." Llyfr vi, tudal. 87.

“Ni allaf fynegi yr achos o'i dōri,
Mwy da i mi dewi yn dawel a son;
Ond dyweda 'n seliedig, na thōrir pen tebyg,
Yn Lloegr goch oerddig na'r Werddon.”

Pe buasai mewn gwirionedd yn “tewi yn dawel a son,” tebygol na chwaisai ei aflonyddu yn herwydd ei syniadau gwladwriaethol, mwy na'i gydoeswr o'r Hengwrt; ond gan ei fod yn bleidiwr mor wresog a gweithgar i'r brenin, nid rhyfedd iddo ddyoddef oddiwrth y seneddwyr. Dywed rhai * iddo gael ei garcharu am dair blynedd yn Nghaer Lleon Gawr. Dywedir hefyd † iddynt losgi ei dŷ, a rhoddi ei etifeddiaeth i gâr iddo, ac iddo yntau gyfansoddi yr englyn canlynol ar yr achlysur:

“Caergai, nid difai fu gwaith tân—arnad;
Oernych wyd yrwan,
Caer aethost i'm câr weithian,
Caergai lle bu cywir gân.”

Mae yr amser pan ddygwyddodd yr anffawd hwn wedi ei gadw mewn coffadwriaeth yn yr englyn a ganlyn o waith William Phylip o Ardudwy:

“Mil chwe chant gwarant gwiwrai—yn dygwydd,
Pump a deugain difai,
Er dwyn i'r gwyr adwaenai,
Ar gof pan losgwyd Caergai.”

Adroddir hefyd ‡ i'r ddau fardd gyfarfod yn amser eu henciliad ar un o fynyddoedd sir Feirionydd, pan yr anerchasant eu gilydd fel hyn:—

<p>“Pe cawn i'r Pen-grynyon Rhwyng ceulan ag afon, Ac yn fy llaw goed-ffon o lin-on ar li; Mi a gurwn yn gethin Ynghweryl fy mrenin, Mi a'u gyrwn yn un byddin i'w boddi.”</p>	<p>“Pe cawn i'r Pen-gryniaid Ar ben goriwaered, Er gwaned a hyned wyf heno, A phastwn du-ddraenen 'Rwy'n ddeuddeg a thri'gain, Chwi â'm gwelech yn llawen yn llowio.”</p>
<p><i>R. Vychan.</i></p>	<p><i>W. Phylip.</i></p>

Ar ddychweliad Siarls II. adferwyd yntau i'w etifeddiaeth: ac ail-adeiladodd ei dŷ, gan argraffu y pennill hwn uwch ben y drws:—

“Dod glod i bawb yn ddibrin,
A char dy frawd cyffredin,
Ofna Dduw, can's hyn sydd dda,
Ac anrhydedda'r brenin.”

* “Gwyllydydd,” llyfr ii., tudal. 218. † “Gwyllydydd,” llyfr iii., tudal. 276. ‡ Rhagymadrodd y Parch, Walter Davies i “Waith Huw Morys.”

Adroddir hefyd yr englyn canlynol, yr hwn a gyfansoddodd efe i Gaergai wedi ei hailadeiladu :—

“Llawer caer yn daer i’w dydd—a losgwyd,
 Lesgwaith gwŷr digrefydd :
 Y gaer hon i gywir rhydd,
 Caer gain yw Caergai newydd.”

Ymddengys fod Rowland Vychan yn feddiannol ar gryn lawer o arbedd, yr hwn a redai allan weithiau mewn pennillion difyfyf. Pan adeiladwyd yr aden newydd o’r tu deheu i eglwys Llanuwchllyn, yn amser Siarls y Cyntaf, canodd y Cadpen fel hyn :—

“Tebyg yw ’r adeilad hon
 Yn ol yr union gyfraith,
 I het newydd am ben hen lanc
 A fyddo ar drancedigaeth.”

Ond y mae hanes y Cadpen Vychan yn gwirio y ddiareb Gymreig, “Y mae gwehilion i’r gwenith;” oblegid er ei fod yn bleidiwr cadarn i’r “Eglwys a’r Brenin,” ac er iddo gyfieithu yr “Ymarfer o Dduwioleddeb,” a llyfrau da eraill i’r Gymraeg, yr ydym yn cael nad oedd efe ei hun bob amser yn rhodio mor ddiargyhoedd ag y buasai dymunol. Yn y “Gwyliedydd,” llyfr ii., tudal. 218, rhoddir crybwylliad ei fod, ryw dro, gyda Rowland Llwyd, o Riwaedog, yn dychwelyd adref o Rug, plas Syr Owain Salusbury, pan ddygwyddodd iddynt ymrafaelio ar y ffordd, ac ynladd, ac wodi hyny ymadael â’u gilydd mewn digter. Ond eyn ei ddysgyblu yn rhy lymdost am y trosedd hwn, gwrandawer fel y mae yn cyfaddef ei fai yn y pennill a anfonwyd ganddo dranoeth o Gaergai i Riwaedog :—

“Gwin a saig Syr Owain Salusbury
 A wnaeth gynhwif ar Gareini,
 Rhwag Rowland Llwyd, pendefig mwynlan,
 A’r hen geeryn Rowland Vychan.”

Wrth ddarllen yr hanes hwn, dylem hefyd gofio yr oes yn yr hon yr oedd y cyfieithydd o Gaergai yn byw : oblegid nid yw yn annichon fod gradd o wirionedd mewn dywedriad a glywsom unwaith gan un o’r diaconiaid mwyaf duwiol yn sir Fcironydd, yr hwn sydd hynod mewn parodrwydd i feddwl y goreu am bawb. Yr oedd yr hen frawd hwn ar y pryd, yn debyg i Syr Isaac Newton a Robert Hall, ac eraill nad oes achos eu henwi yma, yn myfyrio ac yn mygu tybaco ar unwaith. Er mwyn ei dynu allan i siarad, gofynwyd iddo, pa fodd yr oedd cynnifer

o ddynion da yn yr hen amser mor dueddol i fyned dros derfynau cy-medroldeb yn yr arferiad o ddioddydd meddwol. "Mae yn debyg," meddai yntau, gan ollwng y mwg allan yn droellau godidog o gwmpas ei ben, "mae yn debyg nad oedd meddwi tipyn yn yr oes hono yn ddim mwy o ddrwg nag yw ysmocio yn ein dyddiau ni." Os oedd ein cyfaill hwn yn myned yn rhy bell yn helaethrwydd ei natur dda, gwell yw genym gyfeiliorni yr ochr hono na rhyfygu i farnu yn rhy galed am gyflyrau ein cyd-ddynion.

Am y gweddill o hanes Rowland Vychan, gellir ei gynnwys mewn ychydig eiriau. Cyfieithodd "Law-lyfr o Weddiau" y Dr. Brough, ar gais y Milwriad Gwilym Salesbury. Dywedir hefyd i'r "Ymarfer o Dduwioddeb" gael ei gyfieithu ganddo drwy archiad ei gares, Marged, unig etifeddes Syr John Llwyd, Marchog, a chywely John Llwyd, Ysw., o Riwaedog; ac mai ar draul yr Henuriad Heilyn, o Lundain, yr argraffwyd ef. Cyfieithodd hefyd "Ymddiffyniad rhag pla o Schism," ac amryw lyfrau eraill.

Yr amser y bu farw nid yw hysbys; ond pa bryd bynag y bu, yr ydym yn cyttuno âg un o ohebwy'r doniol y "Gwyliedydd," "nad oedd ei farwolaeth yn golled fechan i Gymru."

Mewn perthynas i ansawdd yr "Ymarfer o Dduwioddeb," yr ydym yn ei ystyried yn llyfr da, defnyddiol; ond nid ar un cyfrif yn gydradd âg amryw a ysgrifenydd yn wreiddiol yn yr iaith Gymraeg, megys "Hanes y Ffydd," gan Charles Edwards, a "Llyfr y Tri Aderyn," gan Morgan Llwyd. Nid oes ynddo ond ychydig neu ddim o'r hyn a elwir *athrylith*. Ofer yw chwilio o'i fewn am un ymadrodd yn taraw y meddwl gyda grym trydanawl, ac yn treiddio drwy bob nwyd a chynneddf, nes gwneyd yr enaid yn danllwyth o deimlad. Ond y mae ei ddiffyg mwyaf eto heb ei enwi. Nid oes ynddo yr un atebiad goleu a boddlonawl i'r gofyniad, "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw, neu pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Nid oes ynddo ddigon o le i waith Mab Duw dros bechaduriaid, na gwaith yr Ysbryd ar bechaduriaid. Yn hyn y mae yn gyffelyb i'r holl lyfrau eraill oedd yn fwyaf eu bri gan y Cymry oddeutu can' mlynedd yn ol; er nad yw mor ddiffygiol a'r rhan fwyaf o honynt, megys "Dilyniad Iesu Grist," gan Thomas a Kempis, "Holl Ddyledswydd Dyn," a "Rheol Buchedd Sanctaidd," gan Jeremy Taylor. Nid oedd crefydd yn ol eu disgrifiad hwy, fawr amgen na moesoldeb a ffurfioldeb. Gwir eu bod yn ein cynnysgaethu â nifer mawr o weddiau ar wahanol

achlysuron; ond pan gollir golwg ar yr anghenrheidrwydd am waith Ysbryd Duw, nid yw gweddi yn ddim amgen na ffurf; oblegid i ba ddyben ac am ba beth y gweddiwn, os bydd gras penarglwyddiaethol wedi ei gau allan o'n cyfundraeth? Pa ryfedd, gan hyny, fod y llyfrau hyn mor aneffeithiol i ddiwygio y wlad? Yr amcan oedd gwneyd y firwyth yn dda heb newid anian y pren; a'r canlyniad naturiol oedd fod Cymru, yn ol tystiolaeth Griffith Jones, Llanddowror, yn myned yn fwy digrefydd bob blwyddyn. Nid ydym yn eu beio am draethu cymaint ar grefydd ymarferol. Nid oes modd dyweyd gormod yn erbyn llygredigaethau cyhoeddus yr oes, ac i feithrin buchedd sanctaidd. Ond beio yr ydym ar grefyddwyr yr oes hono am na buasent yn rhoddi rhyw lyfrau eraill yn uwylaw y bobl, yn ychwanegol at y rhai hyn, i ddangos colledigaeth a drygioni dyn o ran ei gyflwr a'i galon; a threfn rasol Duw i'w godi o'i sefyllfa bechadurus a thruenus. Fel cydymaith i esboniad Luther ar y Galatiaid, buasai gwaith Dr. Bayly yn dra buddiol. Er fod seiliau cryfion i gredu nad oedd gwahaniaeth hanfodol rhyngddo ef a Luther yn ei olygiadau ar gyfiawnhad trwy ffydd, yn nghyd â'r anghenrheidrwydd am waith yr Ysbryd Glân, y mae wedi ein gadael i gasglu hyny trwy awgrymiadau achlysurol. Yr ymarfer o dduwioled oedd ei destun ef, ac at hyny y mae wedi ymgadw bron yn hollol, oddieithr yn y pennodau cyntaf, lle y mae yn son am Dduw a'i briodoliaethau, am drueni yr annuwiol, ac am ddedwyddwch y duwiol. Y mae yn dechreu gydag "agweddiad eglur o sylwedd a phriodoliaethau Duw, allan o'r Ysgrythyr Lân, cyn belled ac y mae yn addas i bob Cristion ei wybod: ac yn anghenrhaid ei gredu i'r neb a fynno fod yn gadwedig." Dan y pen hwn cymerer yr hyn a ganlyn:

"Personau y Duwdod ydynt naill ai'r *Tad*, neu y rhai ydynt o'r *Tad*. Y *Tad* yw'r person cyntaf yn y gogoneddus Drindod, heb dderbyn na'i sylwedd na'i ddechreuad gan neb arall, eithr ganddo ei hun, yn cenedlu ei Fab, ac ynghyd gyd a'i Fab, yn anfon ei Yspryd Glân er tragwyddoldeb.

Y Personau y rhai ydynt o'r *Tad* yw, y rhai o herwydd eu personol hanfod sy ganldynt holl sylwedd y Duwdod er tragwyddoldeb, wedi ei gyfranu iddynt oddiwrth y *Tad*. A rhai hyny ydynt naill ai oddiwrth y *Tad* yn unig, megys y *Mab*: neu oddiwrth y *Tad* a'r *Mab*, megys yr Yspryd Glân.

Y *Mab* yw'r ail Person o'r *Drindod ogoneddus*. Ac unig genedledig Fab ei *Dad*, nid o ras, ond o naturiaeth; yn cael ei hanfod o'r *Tad* yn unig, a holl hanfod ei *Dad* trwy genedliad tragwyddol ac anafesuredig, ac ynghyd a'r *Tad* yn anfon yr Yspryd Glân. O herwydd ei sylwedd berffaith-gwbl, o honaw ei hun y mae: eithr o herwydd ei berson, o'i *Dad* y mae, drwy genedliad tragwyddol. Cans nid yw y sylwedd yn cenedlu sylwedd, eithr person y *Tad* sydd yn cenedlu person y *Mab*, ac felly y mae ef yn Dduw o Dduw, yn cael oddiwrth ei *Dad* ddechreuad ei *Berson*, a'i *Drefn*, eithr nid dechreuad ei sylwedd a'i amser.

Yr Yspryd Glân ydyw y trydydd Person o'r Drindod fendigedig, yn deilliaw a chwedi ei anfon yn gystal oddiwrth y Tad a'r Mab, drwy dragwyddol ac anfesurol ysbrydoliaeth. Canys fel y mae'r Mab yn derbyn holl sylwedd y Duwdod drwy genedliad, felly y mae'r Yspryd Glân, yn ei dderbyn yn gyfan trwy ysbrydoliaeth.

Y drefn hon rhwng y tri pherson a ymddengys yn hyn: sef fod y Tad, yr hwn sydd yn cenedlu, o flaen y Mab, yr hwn a genedlwyd; a'r Tad a'r Mab o flaen yr Yspryd Glân, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y ddau.

Y drefn hon a wasanaetha i ni i osod allan ddau beth: yn gyntaf, y dull pa wedd y mae y Drindod yn gweithio yn eu gweithrediadau oddiallan: megys bod y Tad yn gweithio o honaw ei hun drwy'r Mab a'r Yspryd Glân; y Mab oddiwrth y Tad a thrwy yr Yspryd Glân; yr Yspryd Glân oddiwrth y Tad a'r Mab. Yn ail, i neillduo y dechreuad digyfrwng cyntaf, oddiwrth yr hwn y mae y gweithrediadau cyffreflin hyny oddiallan yn tarddu. Oddi yma y deilliaw, yn gymaint ag y mae y Tad yn ffynon a gwreiddyn y Drindod, a dechreuad pob gweithrediad oddiallan: enw Duw *mewn perthynas*, a'r cyfenw creawdwr yn y Credo, a rhoddir mewn modd hynodol i'r Tad; ein prynedigaeth i'r Mab; a'n saneteiddiad i Berson yr Ysbryd Glân, megys mewn gweithie lyddion digyfrwng o'r gorchwyliau hyny. A hyn hefyd yw'r achos y mae'r Mab fel y mae yn Gyfryngwr yn rhoi pob peth ar law ei Dad; ac nid ar yr Yspryd Glân; a bod yr ysgrythyr yn dywedyd can fynyched ein bod ni wedi ein cymmodi a'r Tad.

Oni bac'r drefn *oruchel* hon, neu'r *Deutuaeth*, nid oes na chyntaf na diweddaf, nac uwch nac is yn mhlith y tri phersonau, canys o ran *naturiaeth cydhanfod* y maent, o ran *braint gogyfuwch* ydynt, ac o ran amser *go-gyd-traggywyddol*.

Hi all sylwedd y Duwdod sydd yn mhob un o'r tri pherson; eithr a gnaudiwyd yn unig yn yr ail Person, sef y *Gair*, ac nid yn mherson y Tad na'r Yspryd Glân, o herwydd tri rheswm,

1. Fel y gallai Dduw Tad yn hytrach egluro faint yw ei gariad tuag at ddynolryw; yn rhoddi ei uniganedig Fab i gymeryd enawd arno, ac i ddyoddei marwolaeth er mwyn iachawdwriaeth dyn.

2. Fel y gallai ef, yr hwn yn ei Dduwdod oedd yn Fab i Dduw, fod hefyd yn ei ddyndod yn Fab dyn: rhag i enw Mab fyned i arall; yr hwn wrth ei dragwyddol enedigaeth nid ydoedd y Mab.

3. O herwydd mai gweddeiddiaf oedd i'r Person hwnw, yr hwn yw sylwedd a gwir ddelw-lun ei dragwyddol Dad, efydu ynom ysbrydol ddelw Dduw, yr hon a gollasem.

Yn y enawdoliaeth, ni throed mor Duwdod yn ddyndod, na'r dyndod yn Dduwdod, eithr y Duwdod mal y mae yn ail Person, neu'r *Gair*, a gymerodd arno y dyndod, sef cwbl o naturiaeth dyn, corff ac enaid, a'i briodoliaethau naturiol a'i wendid perthynasol, ond *pechod* yn unig.

Yr ail Person ni chymerodd arno Berson dyn, ond naturiaeth dyn. Felly nid oes gan y naturiaeth ddynol mo'r hanfod personol o'r eiddo ei hun (canys felly y byddai dau Berson yn Nghrist) eithr hanfod y mae efc yn y *Gair*, yr ail Person. Canys megys na wna enaid a chorff ond un person dyn, felly Duwdod a dyndod ni wna ond un Person Crist.

Dau naturiaeth y Duwdod a'r dyndod ydynt mor ddiymmod wedi eu cysylltu ynghyd drwy bersonol undeb, mal megys na ellir byth eu gwahanu o'r neilldu, felly ni chymysgir hwynt; eithr parhau y maent byth yn wahanredol wrth eu amryw sylweddol briodoliaethau, y rhai oedd ganddynt cyn eu cyd-gysylltu. Megis wrth ensampl; *Anherfynoldeb y Duwiol anian* ni chyfrenir i'r *dynol anian*, na therfynoldeb y dynol i'r Duwiol.

Etto oherwydd yr undeb personol hwn, y mae y fath gysondeb priodoliaethau yn y ddau naturiaeth, fal y mae yr hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w

briodoli i'r llall. *Megis purcasu o Dduw yr eglwys a'i briodl waed ; ac y barna efe y byd drwy y Cwr yr hwn a ordeiniodd efe: Act. xx. 28 ; ac xvii. 31.* O hyn y canlyn, er bod dynolryw Crist yn grededig, ac am hynny yn derfynol, ac yn gynhwysedig anian, ac na dllichon fod yn bresennol ym mhob man, drwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol : etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfrannu atto Personol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedl ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddiwrth Dduw, am hynny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei personol hanfod ym mhob lle."

Nid ydym yn tybied fod Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y dyfyniad uchod, ac am hynny nid awn i'r drafferth o geisio ei hesbonio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ymlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddsberthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math : 1. Y rhai a arwyddocant sylwedd Duw, sef *Jehovah, Eheich, Jah, Curios* (Ar-glwydd), *Theos* (Duw). 2. Y rhai a arwyddocant y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un anghraifft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocant sylweddol weithredoedd Duw, sef *El, Shaddai, Adonai, Helion, Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosbarth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfatebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ac na allant mewn neb rhyw fodd gytuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymysgedd, ac annherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan ; 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, drwy'r hyn y mae ef o annherfynedig amgyrhaedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod yn absennol yn unlle, mae yn bresennol ym mhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "yn mhob lle yn llanwedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynhwysedigaidd ;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yn Nghrist yn gorfforol. 2. Anghyfnwidioldeb, "drwy yr hwn y mae Duw heb gyfnwid oll ; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tra-gwyddoldeb, "drwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiaiu, na diweddiad i'w amser ; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynasol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfatebol, neu fel y gelwir

hwynt mewn lle arall, “y rhai tueddol, neu'r cyfryw ac a edrychant tua'r creaduriaid.” Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewylllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewylllys Duw y cynnwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynodedb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er fod ynddynt lawer o gywreinerwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr anghenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dyn heb ei gymmodi â Duw yn Nghrist. Yma eto cawn raniadau, adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dyn, 1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dyn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath; 1. Y trueni sydd yn dilyn ei gorff; 2. Y trueni sydd yn gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sydd yn canlyn y corff yn ol trefn pedair oes dyn; 1. mebyd; 2. ieuencid; 3. oedran gŵr; 4. henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corff a'r enaid wrth farw; ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigdrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dyn o'i drueni, aurliegir ni â myfyrdodau am gyflwr cristion wedi ei gymmodi â Duw yn Nghrist; yn nghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef “gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiwaethaf.” Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ymlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddiwrth ymarfer duwioddeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef, 1. Camgymeryd yn anwybyddus iawn ddeall rhyw fanau o'r ysgrythyr sanctaidd, a rhyw fanau o brif bynciau crefydd gristionogol; 2. Drwg esiamplau y gwŷr mawr; 3. Diane yn hir heb haeddodigol gosb yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioddeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuanc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir einioes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymeriadau am rai o brif bynciau crefydd.

“Seiliau crefydd a gangymmerir ydynt:

1. Oddiwrth athrawiaeth *cyfiawnhad* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasel; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae yn canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dyn; etto y maent yn angenrheidiol i ieuchdwriaeth: ‘Canys gwaith Duw ydym wedi ein creu yn Nghrist Iesu i

weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rotio ynddynt: Eph. ii. 10. Pwy hynag gan hynny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragwyddol. Am hynny y dywed yr ysgrythyr y *tâl Crist i bob dyn yn ol ei weithredoedd da: Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dad. xxii. 12.* Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angelion o'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: *Dad. ii. a'r iii.* Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiath* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi'r newynog, yn dilladu'r noeth, ac felly: *Math. xxv.* Yn y dydd hwnnw *cyfiawnder* a wisg y goron: *2 Tim. iv. 8.* Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd da* (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddieithr *dial*. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw'r sail gadarnaf o'n sicrwydd ni i dderbyn fywyd tragwyddol: *1 Tim. vi. 19.* Oblegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymallyd yn Nghrist a'i nfudd-dod i iechydwrïaeth. Ac nid oes ffydd arall yn *llesiau yn Nghrist, ond yr hon sydd yn gweithredu trwy garid:* *Gal. iii. 6.*

Ac (oddieithr yngweithred cyfiawnhad) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wrês, y dwfr a'i wlybanaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: *Iago ii. 26.* Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddynt* trwyddo: *Act. xv. 9; 1 Thes. v. 23.*

2. Oddiwith athrawiaeth tragwyddol *rhagddarpariad* Duw a'i ddigynfnewidiol *osodiad*, y mae ef yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni. Am hynny nid yw holl weithredoedd Duwioledeb ond ofer. Eithr ef a ddylai ddyseu ddarfod i Dduw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd*. Yr hwn gan hynny a ragddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hynny yw, at y diwedd, a ddarfuo iddo ei ragddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd â llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (madd Pedr) a *ddeuwysyd i iachydwrïaeth*, a ddeuwysyd hefyd i *sancteiddiad yr Yspryd:* *1 Petr. ii. 16; Rhuf. viii. 20, 30.* Os tydi gan hynny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufyddhei i ddaionus gynhyrifiadau yr Yspryd Glân, drwy ymadel â pheched, a hyw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddiogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddiammedu a ragddarparwyd i iechydwrïaeth tragwyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarweh. Ymchwel di at Dduw, a Duw yn rasmusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd y *Tad y mab afrallon:* ac wrth dy drôad, fe fydd eglur, yn gystal i angelion ac i ddynion, *dy fod yn perthlyn i'w etholedigaeth ef:* *Luc xv. 10. 24.* Onis gwnei; paham yr achub Duw dydi?

3. Pan glywo y Cristion enawdol, nad oes gan ddyn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, fel ped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo oddef i ddyn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynai; eithr dyn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwmp y mae i ddyn yn nghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. Oblegid yn yr stat hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylat un meddwl da: *2 Cor. iii. 5.* Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dyn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, ac

ewylllys rhydd : Oblegid felly y mae'r Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewylllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewylllys, a'r gwaith* : *Phil. ii. 12* ; *2 Cor. vii. 1*. Y rhai (fel y mae'r Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddiwrth bob halogrwydd enawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteidrwydd yn ofn Duw. Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob crïstion ewylllys rhydd ; ac fel y mae yn cynnyddu mewn gras, felly y mae ei ewylllys yn cynnyddu mewn rhydd-did : Oblegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddiogel :' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did :' *Ioan viii. 36* ; *2 Cor. iii. 17*. Canys y mae'r Yspryd sanctaidd yn *tyngu* eu meddyliau : *Ioan vi. 44*. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad : *Can. i. 4*. Gan lewyrechu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd ; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus ; gan nerthu pob un o honnynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ac y rhoes Duw ef yn rhydd : O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw, i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei wahardd, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hynny moth ddiffyg *ewylllys rhydd i daioni*, i fod yn gymmairt achos o'th waith yn pechu, ac yw eisiau calon gariadusi i wasanaethu dy Dda nefol.

4. Pan glywo y dyn enawdol, na ddichon neb (er pan gwmpodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion : Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill : ac yn ei foddioni ei hun ac ychydig feddyliau da : ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ac yw'r gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar naghau o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu'r drwg, yn amhosiblwrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddyngu, er (yn ol y ewymp) na allodd neb ond Crist, (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddyn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith : etto y mae pob gwir grïstion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac felly (gyda Dafydd) maent hwy yn gosod eu calonau i gyflawni 'gorchymynion Duw bob amser hyd y diwedd :' *Psal. cxix. 112*. Ac yno y mae Yspryd y grâs (yr hwn yn ol yr addewid a dywelldir allan yn amlach o dan yr Efengyl) yn eu diddanu hwynt, ac yn eu cynnorthwyo yn eu hancanon i wneuthur yr hyn a orchymyno ef iddynt ei wneuthur : *Joel ii, 28, 29*. Ac wrth wneuthur hynny, y mae yn derbyn eu hewylllys da a'u dyfalwech, yn lle cyflawniad y gyfraith, gan osod haeddedigaethau Crist (yr hwn a gyflawnodd y gyfraith drosom ni) i ateb dros ba beth bynnac a fo ddiffygiol yn ein ufydd-dod ni. Ac o herwydd hyn, y mae St. Ioan yn dywedyd, 'nad yw gorchymynion Duw yn drymion :' *1 Ioan iii. 5*.

Ac y mae St. Paul yn dywedyd, 'Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu i :' *Phil. iv. 15*. Ac yr ydis yn dywedyd am Zachari ac Elizabeth, iddynt hwy rodio yn ngorchymynion yr Arglwydd yn ddiargyhoedd : *Luc i. 6*. Ac o'r achos yma y mae Crist yn erchi i'w ddisgyblion gymmeryd gofal am *gadu ei orchymynion* : megis y dystiolaeth gywiraf o'n *cariad* tuag atto : *Ioan xv. 10*. Cymmairt gan hynny y mae dyn yn caru Crist, ag y mae ef yn gwneuthur cydwybod o rodio yn ei orchymynion ef ; y pha fwyaf a fo ein cariad ni tuag at Grist, lleiaf a fydd ein poen ni yn cadw ei gyfraith.

Mellidith yr gyfraith, yr hwn (dan y Testament hên) oedd mor ddychrynadwy, dan y newydd trwy farwolaeth Crist a ddiddymwyd i'r adgenedig. Y toster oedd yn ei gwneuthur yn amhosibl i'n naturiaeth ni o'r blaen, sydd yr awrhon gwedi ei dymeru gan yr Yspryd i'r newydd-enedig, fel y mae hi yn ymddangos yn hawdd, ac yn esmwyth. Yr oedd yr Apostolion yn dirio ar yr Iuddewon, a'r cenedloedd digrêd, nad oedd bossibl cadw'r gyfraith drwy nerth naturiaeth lygredig. Ond pan fyddent hwy yn dyscu Crïstionogion credadwy, y maent hwy yn gofyn ufydd-dod

i'r gyfraith (yr hon yw rheol cyfiawnder) sef gwir ufydd-dod, mewn gair a gweithred: marwhau eu haclodau: croeshoelio y cnawd, ei wynnau a'i drachwantau. adgyfodiad i newydd-deb buchedd, rhodio yn yr Yspryd, gorchfygu y byd trwy ffydd: *Rhuf.* xv. 18; *Col.* iii. 5; *Gal.* v. 24; *Rhuf.* vi. 4, 5; ac 8. 11; 1 *Ioan* v. 4. Fel na allo neb ddywedyd gid â Christ, 'pwy o honoch am hargyhoeddai o bechod? fe ddiehon pob Cristion adgenedledig ddywedyd am dano ei hun, pwy o honoch am hargyhoedda fi o odinebwr, puteiniwr, tyngedwr, meddwyn, lleidryn, ocerwr, gorthrechwr, balch, cenfigennus, yn gybydd, yn dorwr y Sabboth sanctaidd, yn gelwyddog, yn esculuso cyffredin wasanaeth Duw, a'r fath bechodau dybyrd gorthwrw? ac onid ê nid yw efe wir gristion. Pan beidio dyn a gwneuthur cydwytbod o ddilyn llywodraeth cyfraith Dduw, yno y mae Duw yn ei roddi ynteu i fynu i'w arwain gan ei drachwantau ei hun, yr arwydd penaf o feddwl anghymeradwy, *Rhuf.* i. 24. 28. Fel hyn y gyfraith (yr hon gwedi y cwmp ni ddiehon neb o'i naturiol allu ei chyflawni) a gylawnir mewn gwirionedd gan bob Cristion adgenedledig, trwy rasulol gynnorthwy Yspryd Crist: *Rhuf.* viii. 9; *Luc* xi. 13. A'r Yspryd hwn a rydd Duw i bob Cristion a weddio am dano, ac a ostyngo ei galon i gadw ei gyfreithiau ef.

5. Pan glywo y dyn di-adgenedledig, fod Duw yn ymhoffi mwy yn y meddwl oddifewn nag yn y dyn oddiallan, yno y mae efe yn meddwl ynddo ei hun fod pob parch, neu grefydd oddiallan, naill ai'n ofergodl ai yn afraid.

O hyn y digwydda mai anfynych iawn y gostwng ef ar ei liniau yn yr Eglwys; a'i fod yn gwisgo am ben wrth ganu Psalmau, neu ar weddïau cyffredin: yr hyn beth ni chynnygiai y budredd brwt yngŵydd tywysog, neu ŵr anrhydeddus. Ac am y catwo efe ei feddwl i Dduw, y mae yn tybied mewn pethau eraill y gall ddilyn arferion y byd. Y mae efe yn rhannu ei feddyliau, ac yn rhoi hyn a hyn i Dduw, a hyn a hyn i'w drachwantau; ie efe a reîn y dydd Sabboth â Duw, ac a rydd gan mwyaf y naill hanner i Dduw, ac a dreulia y llall yn gyfan yn ei ddfyrwrch ei hun. Eithr gwybydd (o ddyn enawdol) na fyn yr hollalluog Dduw mo'i wasanaethu âg hanneran, o herwydd efe a greawdd ac a waredodd yr holl ddyn. Ac fel y mae Duw yn ffeiddio gwasanaeth y dyn oddiallan, heb y galon oddimewn, megis ragrith: felly y mae ef yn cyfrif gwasanaeth oddimewn, heb anrhydedd oddiallan yn ffeiddbeth halogedig: y mae ef yn gofyn y ddau yn ei wasanaeth. Yn dy weddi (gan hynny) ymostwng ar liniau i dystiolaethu dy ostyngeddrydd: dereha dy olwg, a'th ddwyllaw, i arwyddocau dy grediniaeth: gostwng dy ben i lawr, cura dy ddwyfron, yn arwydd o'th edifeirweh: ac yn enwedig galw ar Dduw â chalon bur: gwasanaetha ef yn sanctaidd, yn gyfan, ac yn unig: Canys Duw, a thywysog y byd hwn, ydynt ddau Arglwydd gwrthwyneb i'w gilydd, am hynny nid yw bossibl i neb wasanaethu'r ddau.

6. Y mae Cristion diadgenedledig yn cymmyrd gwrando pregethiad yr efengyl yn beth a ellir ei hepcor, a bod iddo ei ddewis a'i arfer, ai peidio a'i arfer pan fyno: ond pwy bynag wyt a fynnit yn ddiogel sierchau dy galon, o'th fod yn un o ddewis-edig ddefaid Crist; rhaid itti gymeryd gofal mawr, a gwneuthur cydwytbod (os yw bosibl itti) i wrando pregethu gair Duw: oblegid yn gyntaf, pregethiad yr efengyl ydyw'r prif gyfrwng trefnedig a osododd Duw i ddychwelyd eneidiau, y rhai a ragddarparodd ef eu bod yn gadwedig: am hynny y gelwir 'yn allu Duw er iechyd-wriaeth i bob dyn sydd yn credu.' *Rhuf.* i. 16. Ac lle nid yw yr orlinhad hwn, y mae'r bobl 'yn golledig:' *Diar.* xxix. 18; a phwy bynag a'i gwrthodo fe fydd esmwythach 'i dir Sodom a Gomorha ddydd y farn nac i'r bobl hynny.' *Luc* x. 12. Yn ail, pregethiad yr efengyl ydyw 'baner Crist; at yr hon yr ymgynnnull yr holl filwyr, a'r etholedigion bobl:' *Esay* xi. 12; ac ii. 2, 3. Pan osyer allan y faner hon megis y gwneir ar ddydd yr Arglwydd, nid yw efe o bobl Dduw 'yr hwn ni chyrrho atti, ac ni ddiseyn defnyd o ddwfr ei ras ef ar ei heneidiau:' *Zach.* xiv. 17.

Yn drydydd, dyma'r moddion cyffredin, drwy'r hyn y mae'r Yspryd Glân yn ennyn ffydd yn ein calonau, heb yr hyn ni allwn ni ryngu bodd Duw: *Rhuf.* x. 14. Os gwranddo ar lais Crist yw'r nôd penaf ar etholedig ddefaid Crist, ac ar gyfaill y priodfab: *Ioan* x. 2; ac iii. 29; yno ni ddichon na bo hwnw nôd ddechrynadwy o afr wrthodedig, yr hwn a esculuso, neu ddiystyro wrando pregethiad yr efengyl. Na feddylied neb fod yr ymadrodd hwn yn ffôl: oblegid trwy'r ffolineb yma a'r bregethu 'y mae yn rhyngu bodd i Dduw achub y rhai a gredant:' 1 *Cor.* i. 11. Ofnadwy yw eu cyflwr hwynt gan hyuy y rhai sy'n byw mewn heddwch, heb ofal am bregethiad yr efengyl. A eill dynion ddisgwyl am drugaredd Dduw a dirmygu y moddion i'w gael? yr hwn (medd Crist am bregethwyr ei efengyl) 'a'ch dirmygo chwi a'm dirmyga innau?' *Luc* x. 16: 'yr hwn sydd o Dduw, a wrendy eiriau Duw,' am hyny 'nid ydych chi yn gwranddo am nad ydych o Dduw:' *Ioan* viii. 47. Oni buasai bregethu o Ioan fedyddiwr, ni buasai yr Iuddewon byth yn galaru; oni buasai i'r Israeliad glywed cennadwri Phineas, ni wylasent byth; oni buasai i'r rhai a groeshoeliodd Crist glywed pregeth Pedr, ni buasai byth gynhyfriw yn eu calonau: *Act.* ii. 37. Oni bai glywed o'r Ninifeiaid bregeth Jonas, ni buasent hwy byth yn edifarhau: *Jon.* iii. 5; ac oni wrandewi dithau ac edifarhau, ni byddi di byth yn gadwedig: *Luc* xiii. 5; *Diar.* ii. 8, 9.

7. Yr opiniwn, nad yw'r Sacramentau ond arwyddion noethion selau o addewid Duw a'i ras i ni, a wnaeth fawr rwystr ar dduwioledeb; lle mewn gwirionedd y maent yn selau yn gystal o'n gwasanaeth, a'n hufudd-dod ni i Dduw: yr hwn wasanaeth, onis cyflawnwn iddo ef, nid yw'r sacramentau yn selio dim gras ini. Eithr o derbyniwn hwynt tan fwriadu bod yn weision ffyddlon edifeiriol, yno y mae y Sacramentau nid yn unig yn arwyddocau, ac yn cynnyg, eithr yn hytrach yn selio a gweithredu gras ysprydol oddimewn, yr hyn oddiallan y maent yn ei addo, ac yn ei arwyddocau. Ac i'r perwyl yma, y gelwir y bedydd ymolchiad adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân: *Tit.* iii. 5; a Swpper yr Arglwydd, cymmun corph a gwaed Crist: 1 *Cor.* x. 16. Pe coelid y gwirionedd hwn, y Sacrament sanctaidd o swpper yr Arglwydd, a gymmeryd yn fynychach, ac mewn mwy parch ac anrhydedd.

8. Yr olaf, ac nid y cyff lleiaf, wrth yr hwn y mae Duwioledeb yn cael tramgwydd mewn achosion crefydd, ydyw addurno campau drwg âg enwau rhinweddau da: megis galw carowsio meddwaidd, yfed iechyd; tywallt gwaed gwirion, gwroldeb; glothineb, lleteugarwch; cybydd-dra, cynnildeb; puteindra, caru merched; cys-segr-werth, rhôdd o ddiolchgarwch; balchder, ymddygiad hoew; gwenheithio, medrusrwydd; meibion Belial, eymdeithion da; poethineb, ffromder; serthedd, digrifwch; felly o'r tu arall, galw llarieidd-dra mewn geiriau a gweithredoedd, rhagrithiad; elusenau, gwag-ogoniant; Duwiolder, ofergoel; Zel mewn crefydd, puritaniaeth; gostyngeidd-dra, llyfrdra; gwneuthur cydwybod, manyldra, &c. A thra fôm ni fal hyn yn galw drwg yn dda; a da yn ddrwg; y mae gwir dduwioledeb yn cael mawr rwystr i fyned i'w thaith a'i helynt.

Nis gwyddom yn iawn beth oedd meddwl yr awdur pan ddywedai yn y dyfyniad uchod fod Duw yn derbyn ewyllys da y credinwyr, a'u dyfalwch, yn lle cyflawniad y gyfraith; ac yn gosod haeddledigaethau Crist, (yr hwn a gyflawnodd y gyfraith drosom ni) i ateb dros ba beth a fo ddiffygiol yn ein ufudd-dod ni. Ni ddylid ei wneyd ef, na neb arall, yn droseddwr o herwydd gair. Y mae yn amlwg oddiwrth yr iaith a arferir ganddo mewn manau eraill nad oedd yn golygu fod

unrhyw weithred nae ewyllysiad o eiddo y credadyu, mewn un modd na rhan, yn ddefnydd ei gyfiawnhad. Yr oedd mor bell oddiwrth hyn a neb o'r hen Ddiwygwyr. O ran hyny, y mae yn cofiau enw Calvin fwy nag unwaith yn dra pharehus. Wedi hyn, yn anser Laud, y dygwyd Morganiaeth a Phabyddiaeth i mewn i Eglwys Loegr, yr hyn nis gellid ei wneuthur yn hwylus heb ddadgysylltu rhyngddi ag athrawiaeth y Diwygiad, ac ymdrechu hyd yr oedd yn ddichonadwy i dafu pob dirmyg ar enwau y Diwygwyr. Y mae yn debyg gan hyny nad oedd Dr. Bayly yn meddwl dim ychwaneg wrth y geiriau uchod na bod amcan cywir yn rhyngu bodd Duw, a'i fod ef yn maddeu pob diffygion yn ufudd-dod y dyn adgenedledig trwy haeddedigaethau y Cyfryngwr. Er hyny, nis gallwn ddyweyd ein bod yn cymeradwyo yr ymadrodd. Y mae o leiaf yn anhapus, ac yn arwain i ganlyniadau anysgrhythrol. O barth y dywediad a ganfyddir yn y dyfyniad blaenorol am y sacramentau, os yw yn newydd i rai, nid yw yn annheilwng o sylw; oblegid gorfodir ni i gredu fod syniadau annhraethol ry isel yn cael eu coleddu ar y mater hwn gan lawer o'n cydwladwyr. "Phiol y fendith," meddai yr apostol, "yr hon a fendigwn, onid cymun gwaed Crist ydyw? y bara yr ydym yn ei dori, onid cymun corff Crist ydyw?" Y mae y geiriau hyn yn llawn o wirionedd, a'r gwirionedd hwnw yn llawn o ddirgelwech ysbrydol. Nid credu gormod y mae y Pabyddion, ond credu rhy ychydig. Y maent yn methu dirnad pethau ysbrydol, a thrwy hyny yn darostwng dirgeledigaethau, y rhai ydynt uwchlaw rheswm i fod yn wrthddywediadau croes i reswm. Ond awn ymlaen i ddilyn yr awdur at yr hyn a cilw "y clo cyngan," yn niwedd y sylwadau ar y rhwystrau i fyw yn dduwiol, o'r hwn y cymerwn un anghraifft:—

"Na foddlonâ mo honot dy hun a'r *grefydd ffurfol*, yr hon a luniodd gwyr diadenedig iddynt eu hunain, yn lle duwioldeb ddiragrith; canys mewn amltra opiniynau, y mae y rhan fwyaf agos wedi colli yr ymarfer o wir ffydd. Na thebyg fod yn Gristion digon da, o blegit dy fod di yn gwneuthyd fel y mae y rhan fwyaf, ac o ran nad wyt yn gynddrwg a'r gwaethaf. Nid oes dyn yn y byd mor ddyrgionus, a bod ei ymarweddiad yn tueddu at bob math ar feiau. O herwydd y mae anghysondeb (*antipathy*) rhwng rhai beiau a'i gilydd. Ond cofia beth y mae Crist yn ei ddywedyd; 'Oddieithr i'ch cyfiawnder fod yn helaethach na chyfiawnder yr serifenyddion a'r Pharisëaid, nid ewch chwi i mewn mewn un modd i deyrnas nefoedd.' *Math.* v. 20. Ystyria ynot dy hyn belled wyt ti o ol y Pharisëiad mewn ymprydio, gweddio, mynych dramwy i'r Eglwys, a rhoddi elusenau. Meddwl ynot dy hun pa nifer o baganiaid, y rhai nid adwaenent fedydd, eto mewn rhinweddau gwybodawl, a gonestrwydd buchedd, oeddynt yn rhagori llawer arnat ti. Pa lo

wrth hyn y mae bywyd Crist dy feistr? a pha cyn belled wyt ti oddiwrth fod yn wir Cristion? Os wyt ti yn ewyllysgar yn ymroi i fyw mewn un math ar bechod anafus, nid elli di gael enaid adgenedledig; er i ti ddiwygio dy fuchedd mal Herod oddiwrth lawer o feiau eraill: *Marc* vi. 10. Y mae'n rhaid i'r gwir Cristion gymeryd gofal i rodio mewn uniondeb calon, yn ol holl orchymynion Duw, yn gystal yn y naill a'r llall. O blegit, medd St. Iago, 'yr hwn a ballo mewn un pwnc o'r gyfraith (yn ewyllysgar) fydd euog o'r cwbl:' *Iago* ii. 10. Ac y mae Pedr yn erchi i ni roddi heibio (nid peth) ond holl lid, cynfigen, twyll, a rhagrith, &c. *1 Pedr* ii. 1. Un pechod fydd ddigon er peri enaid yn golledig, heb *edifeirwch*. Na freuddwydia am fyned i'r nef rhyd ffordd negosach neu hawsach na'r hon a linyndiodd Duw i ni yn ei air. Nid ydyw'r ffordd i'r nefoedd yn hawdd, a chyffredin, ond *cul a chyfyng*: *Mat.* vii. 14; ie, cyn gyfynged ac y mae Crist yn tystiolaethu, 'fod yn anhawdd i ddyn goludog fyned i deyrnas nefoedd:' *Mat.* xix. 23. A'r rheini fydd yn myned i mewn, nid ydynt ond *ychydig*: ac na cill yr ychydig rai hyn mor myned i mewn ond trwy *yndrechu*: a bod rhai o'r rheini a ymdrechiant *heb allu myned i mewn*: *Luc* xiii. 24. Hyn a wyddai holl Seintiau Duw (tra fuont fyw yma) yn dda. Pryd yr oeddynt drwy aml ymprydian, difrifol weddiau, mor fynych yn gwrando y gair, a derbyn y Sacramentau, a thrwy y cyfryw amltra o ddagrau heilltion yn crefyddol erfyn ar ddwyllaw Duw, er mwyn Crist, am gael eu derbyn i'w deyrnas."

Am y rhelyw o'r llyfr, nis gallwn roddi mwy na chynnwysiadau y prif bennodau, y rhai ydynt fel y canlyn:—Y modd y mae i ŵr neillduol ddechreu y boreu mewn duwioledb—myfyrdod boreuol—addysg fer o'r modd y mae darllain yr ysgrythrau sanetaidd unwaith bob blwyddyn trostynt, yn hawdd, yn fuddiol, ac yn barchedig—myfyrdodau yn arwain y Cristion fel y gallo efe rodio yr holl ddiwrnod gyda Duw fel Enoch—myfyrdodau am dduwioledb teuluaidd—am yr union fodd o arfer duwioledb ar y dydd Sabboth—yr ymarfer anghyffredin ac anaml o dduwioledb, trwy yr hyn y gogoneddir Duw yn ein bywyd, sef naill ai yn ymprydio ai yn gwneuthur gwleddau—yr union fodd o ymarfer duwioledb wrth dderbyn cymun yr Arglwydd—yr arfer o dduwioledb i ogoneddu Duw yn amser elefyd, y pryd y galwer arnat ti i farw yn yr Arglwydd. Dan y pen olaf hwn yr ydym yn cael gwoddi pan ddechreuo un fyned yn glaf, gweddi o flaen cymeryd physygwr-iaeth, a gweddi i ddyn elaf wedi dywedyd iddo nad yw efe ddyn i'r byd hwn, ond fod rhaid iddo ei barotoi ei hun i fyned at Dduw. Yn yr un modd, y mae gweddïau yn gymysg â'r myfyrdodau trwy yr holl lyfr, yr hyn, efallai, oedd un achos o'i boblogeiddrwydd yn yr hen amser. Diau fod llawer wedi cael bendith dragywyddol wrth ei ddarllen; a da fyddai pe darllenid mwy arno yn yr oes hon. Dywedwn eto ei fod yn llyfr tra buddiol; ac wrth derfynu, rhoddwn un dyfyniad ymhellach, i ddangos fel y mae, wrth draethu am rodio yr holl ddiwrnod gyda Duw, yn ein dysgu i wylid ar ein geiriau.

“Cofia fod yn rhaid i ‘ti roi cyfrif am bob gair segur.’ *Mat.* xii. 36: a bod y gŵr doethaf wrth siarad gormod, yn myned tu hwnt iddo ei hun: *Diur.* x. 19. Gochel gan hyny bob annibenus ag ofer siarad, o’r hyn anfynech y daw dyddanweh, a thra mynych edifeirweh: yn euwedig mogel atebion byrbwyll, pryd y mae y tafod yn rhedeg o flaen y meddwl: y gair oedd eiddot ti tra cedwaist ef i mewn, y mae’n eiddo arall cyn gynted ac yr aeth allan. O gywilydd a gwarth, pan fyddo tafod dyn ei hun yn dyfod yn dyst yn ei erbyn, i waradwyddo ei wyneb ei hunan. Ynteu bydded dy ciriau yn anaml, ac yn hwyllig: rhagfyfyrta ydyw y peth yr wyt ar fedr ei ddywedyd, yn weddaidd i’w ddywedyd: na haera fwy nag a wpych ti ei fod yn wir, a dewis dewi o flaen siarad yn ddiifrwyth, neu chwedleua rheswm diddenfydd: *Iago* i. 19.

2. Eled dy galon a’th dafod ynghyd mewn honestrwydd, a gwirionedd, casâ ragrith, a chelwydd mewn arall, fliciddia ynot dy hun: neu fo fliciddia Duw dydi am hyny. O blegit y mae ef yn casâu y dyn celwyddog a’r cythraul ei dad ef un ffynyd: 1 *Petr* ii. 1; *Salm* iii. 2. Os gwybyddir unwaith dy fod heb wneuthur eydwybod o ddywedyd celwydd; ni choelia un dyn mo honot pan fyddech yn dywedyd y gwirionedd. Os celwyddog i’th adwaenant pryd y traethech wir ni’th coeliant, eithr o byddi yn caru y gwirionedd, fe a goelir i’th air di o flaen llwf un celwyddog. Mawr yw’r meddiant sydd gan Satan ar y rhai a ymarfero â dywedyd celwydd, megis na fedrant ond dyweyd er na byddo iddynt elw yn y byd oddiwrtho: ac er na bo neb arall yn peri iddynt ei ddywedyd. Na ad i’th ddiogofaint barhan wedi ei darfyddo’r achos: gwel byth ragoriaeth rhwng yr hwn sy’n gweuthur cam o herwydd ei wendid (neu yn erbyn ei ewyllys), a’r hwn sydd yn trawseddnu o’i lawnfryd yn falaisus; gad i’r naill gael trugaredd, ac i’r llall gael cyfiawnder.

3. Cadw dy ymadrodd oddiwrth bob budreddi a serthrwydd, mor lân, ac y mynnit gadw dy fwyd oddiwrth wenwyn: a bydded dy ymadrodd yn gyfryw ac a fyddo da i ‘adeiladu yn fuddiol, ac yn peri gras i’r gwrandawyr.’ *Eph.* iv. 29. Bydd mwy difrifol yn siarad am y grefydd, nac yn siarad am bethau bydol.

O dealli i’t gyfeiliorni, nag ymdro yn wargaled i aros yn dy fai; gorfoledda wrth gael y gwirionedd, a mawryga ef. Myfyria gan hyny ar dri pheth; sef i ddeall yn dda, i ddywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda. A phan gyfarfyddech di â phlant Duw, bydd sicr o gynnill rhyw lesâd oddiwrthynt, dysg ganddynt gwbl ac a ellych o ddaioni, a chyfrana ag hwynt yr holl bethau daionus a wyddost dithau. Pa fwyaf o ddaioni a ddysegech i eraill, mwyaf a ddyseo Duw i tithau; *Marc* iv. 24, 25. Canys megys y mae rhoddion dynion wrth hir ymarfer o honynt, yn delwi ac yn darfod: felly y mae doniau Duw o’i hir ymarfer yn cynnyddu, ac yn chwano: megys ystenaidd o olew y wraig weddw ddyledog, yr hwn pa fwyaf a dywalltai hi o hono; fwyfwy a fyddai ynddi: 2 *Bren.* iv. 2

4. Gochel greu y cwbl a ddywedpwyd i ti, ac na ddywed y cwbl a glywch di; canys os gwnei, ni chei di hir feddu cyfeillion cywir, na byth eisiau blinderau trymion: *Preg.* iii. 7; *Luc* ii. 19. Am hynny mewn cyhuddiadau, bydd yn gyntaf yn ddiogel o’r gwirionedd, yno barna. Ac fel yr wyt yn prisio geirada calon honest, na ad fyth i gasineb mewn drygnaws beri i ti adrodd yr hyn a ddarfu i gariad mewn cymdeithas dy rwymo di (er ys hir o amser) i’w gadw yn gyfrinachol. Eithr rhag ofn y fath wyniau, synia ddau beth:

Yn gyntaf, er maint dy gydnabyddiaeth, na wna yr un yn gyfeillfrawd o’th gyfrinach ond un a fyddo yn gwir ofni Duw, y cyfryw nid rhaid i ti byth mo’i ofni. Canys o ddigwydda i chwi amrafaelio mewn rhyw bethau neilldnol, etto cariad cristonogawl, prif sail eich cyfeillach, ni chwympa ymaith byth; ac ni chynnwys ofn Duw iddo ef wneuthur dihirada â thydi.

Yn ail, na wna ddim yngwydd dy gyfaill dinasol, am yr hyn ni elli fod yn ddi-angol, oddieithr ei gadw yn gyfrinachol: nag un peth am yr hwn (o daw achos) y

bydd rhaid iti ei ofni; os ef a brisia i fod yn elyn anafus i ti. O gwnaethost ti ddim ar fai, gofyn faddeuant i Dduw, a pherswadia dydi dy hun, ac nid dy gyfaill, i gadw dy gyfrinach dy hun. Canys bydd ddiogel pa gyfeillach bynnag a osodir ar sail amgen nag ar wir grefydd, os yr achos o honi a fetha, y mae'r gyfeillach yn myned i'r gwellt: ac yn hytrach, o herwydd fel y mae Duw yn magu gwirionnedd, heddwch, a chyndeithas ymhlith dynion, mal y byddem fyw i wneuthur daioni y naill i'r llall: felly y mae'r cythraul beunydd yn hau celwydd, amrafael, a gelynaeth, i beri (os gall ef) i'r cyfeillion anwylaf ddifetha eu gilydd.

5. Na wna goeg-ddigrifwch o wendid un arall: cofia dy un dy hunan. Ffieiddia synwyr gâs, a naturiaeth front y dyn sydd (pan fo ei menydd yn deall rhyw achos o watwor) yn trafaelio megis gwraig feichiog, nes cael ei ben yn rhydd oddiwrthos. Iê, gwel ganddo golli ei gyfaill gorau na'i wawd dihiraf; eithr o bydd ynot boen i fod yn llawen, cymmer ofal mawr am dri pheth. Yn gyntaf, na byddo dy ddigrifwch yn gwrthwynebu iawn grefydd. Yn ail, na byddo yn erbyn cariad perffaith. Yn drydydd, na byddo yn erbyn diweirdeb. Ac yno bydd mor llawen ac a fynych, yn unig yn yr Arglwydd: *Phil.* iv. 4.

6. Na fydded llawen gennit weled codwm i'th elyn, oblegid ni wyddost pa fodd y bydd dy ddiwedd dy hun. Eithr gorfoledda fwy wrth weled gwellhâd y dyn dihiraf, nac wrth weled ei gosbedigaeth. Na chashâ un dyn, rhag ofn bod Crist yn ei garu, yr hwn ni fyn i ti gashâu yr hwn a garo ef, yr oedd Crist yn dy garu pan oeddit yn *elyn* iddo: *Rhuf.* v. 8, 10; *Eph.* ii. 4. Am hynny drwy haeddedigaethau ei waed, y mae ef yn erfyn arnat er ei fwyn ef garu dy elyn: nacâ ef (a thithau yn Gristion) os llysefi. Nid yw ef yn gofyn ond maddeuant o gant o geiniogau am fadducant o ddeng-mil o dalentau: *Math.* xviii. 24, 28; a xxv. 28. Triugain can-mil o goronau, am ddeg-eoron: ychydig o faddeuant dyn am annherfynol faddeuant yr Hollallnog Dduw. Er i ti dybied nad yw dy elyn yn haeddu maddeuant, etto y mae Crist yn deilwng o'i anrhydeddu.

7. Dywed y gwirionedd, ac na ofna wyneb dyn, pan fyddo gogoniant Dnw neu ddaioni dy gynyddog yn ei ofyn ar dy law. Wrth ynuill câs y Tywysog lawer gwaith yr ynuillr cariad Duw: ni chaiff gwenaith ond byr barhau mewn cymmeriad, na gwirionedd mor hir aros mewn ammharch.

8. Tybia ei fod yn gyfaill cywir ffyddlon, a ddywedo i ti dy feiau yn eglur mewn dirgelwch. Yr hwn sydd yn dy weled ti yn troseddu, ac heb ddywedyd i ti dy fai, naill ai mae ef yn gwneioethio it' am dy ffafr, neu ni feiddia ef rhag ofn dy anfodloni. Gresynus ydyw cyflwr yr hwn wrth ei raid ni feddo un i'w gyngori. Argyhoeddiad, bid gyfion bid angyfion, pa un bynnag ai o enau cydymaith, ai o enau gelyn y delo, ni wna fyth niwaid i wr synhwyrol. Oblegid os bydd hynny yn wir, dyna i ti rybudd i wellhau: os anwir, dyna ddangos i ti beth i'w ochelyd. Felly ym mhob ffordd y mae yn gwneuthur gwr call yn well, neu yn ddichlynach. Ond oni elli aros dy argyhoeddi, na wna dithau ddim achos o argyhoeddiad.

9. Na chrybwylla Dduw, ond trwy ofn ac anrhydedd, megis yn ei glyw a'i olwg. Canys gan weled nad ydym ni deilwng i arferu ei enw sanctaidd yn ein geneiau: llai o lawer y dylem ni gamarfer ei enw bendigedig yn ofer yn ein hymadroddion. Canys ei arfer beunydd, mewn ofer, byrbwyll, neu gau lyfon, sydd arwydd ddiannmheus o enaid ni wir ofnodd Dduw erioed. Gweddia gan hynny gyd â Dafydd, pan fyddych i lefaru mewn rhyw achos a ddichon beri digofaint fel hyn: 'Gosod, Arglwydd, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefusau.' *Psal.* cxli. 3.

10. Yn olaf, bydd weddaidd yn cammol, yn wybodol yn cyfarch, yn gymdeithgar yn cyngori, yn drugarog yn maddeu, yn ffyddlon yn addo, yn hael yn gwobrwyo twrn da, heb wneuthur taledigaeth rhinwedd yn wobrau ffafor: *2 Petr.* i. 12; *Rhuf.* xii. 10; *2 Thes.* iii. 15; *Psal.* xv. 4.

HANES BYWYD Y PARCH. JOHN EVANS,
LLWYNFFORTUN.*

NID yw y llyfr hwn heb ei ddiffygion, ac nid ydynt yn anhawdd eu canfod. Braidd na feddyliem y gallasai fod, mewn rhai manau, ryw fymryn bychan yn fwy trefnus. Ond yr hyn y cwynwn yn benaf o'i herwydd, yw eisieu mwy o John Evans, Llwynffortun—nid mwy o hanes am dano a feddyliwn, ond mwy o hono ef ei hun. Y ffordd oren i ysgrifenu bywgraffiad, yn ol ein barn ni, yw gadael y person y rhoddir ei hanes, hyd y gellir, i lefaru drosto ei hun. Yr ydym yn cydnabod nad oedd yma nemawr o lythyrâu i'w cael, fel yr oedd ar ol y Dr. Arnold, a John Foster: ond ar yr un pryd gallesid efelychu Boswell, tywysog yr holl Fywgraffwyr, er nad oedd dda i ddim arall, yr hwn sydd ar bob cyfle yn dwyn y Dr. Johnson ymlaen yn ei berson ei hun, ac yn ein galluogi ninnau i wrandaw arno ef a'i gyfeillion yn ymddyddan â'u gilydd. Yr un mor werthfawr genym ni fuasai cael desgrifiad manwl o ymddyddanion Mr. Evans, pe na bae ond am un diwrnod—pa bryd y cododd y diwrnod hwnw—pa hyd y bu yn gwisgo am dano—beth oedd ei sylwadau wrth wisgo—pa sawl gwaith y bu ar ei liniau cyn dyfod o'r ystafell—pa ymddyddanion a fu rhyngddo ef a'r teulu ar foreu-fwyd—pa sylwadau a wnaeth wrth ddarllen y bennod, gwyddom ei fod yn gwneyd sylwadau, ond beth oeddynt?—at bwy, ac at ba amgylechiadau yr oedd yn cyfeirio ar weddi—pa nodiadau a wnaeth ar y ffordd am y tai, a'r teuluoedd oedd yn byw ynddynt—a oedd ganddo lygad i weled anian yn y golygfeydd prydferth oedd yn ei amgylchu—pa fodd y pregethodd y diwrnod hwnw—pa betli a ddywedodd yn nhŷ y capel wrth William Dafydd y blaenor, ac wrth Mrs. J. yr hon oedd yn cadw y mis, a pha beth a ddywedasant hwythau yn ol wrtho yntau—pa ymddyddan fu rhyngddo a'r teulu lle yr oedd yn lletya y noswaith hono—pa beth a ddywedodd wrth y gŵr ieuanc oedd yno newydd ddyfod adref o'r ysgol, ac wrth y plant bach oedd yn dyfod i fewn yn wylaidd

* O'r "TRAETHODYDD," am 1848.

i ddywedyd eu hadnodau. Nid oes dim yn rhy fach i'w adrodd am ddyw mawr. Pethau bychain sydd yn ffurfio nodweddiad, a phethau bychain sydd yn dangos nodweddiad. Ond er hyn i gyd, llyfr yw hwn o'r iawn ryw; un na chyfarfyddir â'i well bob dydd na phob blwyddyn ychwaith yn nosbarth y bywgraffiadau Cymreig. Os nad yw yn ateb yn berffaith i'r rheol a osodwyd i lawr yma, y mae yn debyg y gall yr awdur fenthyca geiriau Solon pan yn cyflwyno cyfreithiau newyddion i'r Atheniaid, "Nid dyma y rhai goreu a allai fod, ond dyma y rhai goreu a allech chwi eu derbyn." Yr oedd yn rhaid cadw o fewn terfynau cyfyng rhag i'r llyfr chwyddo i ormod o faint, a thrwy hynny fyned mor ddrud fel na fedrai neu na fynai y Cymry mo'i brynu. Yr unig fai yw ei fod yn rhy fyr i ddangos John Evans y peth oedd. Ond pe gofynid i ni pa ranau o hono i'w gadael allan, er mwyn cael lle i'r hyn sydd yn awr yn ddifffgiol, byddai yn rhaid i ni gyfaddef fod hwn yn ofyniad nad ydym yn alluog i'w ateb. Hyd y cyrhaedda, y mae ei gynnwysiad ar y cyfan yn foddhaol. Yn lle dolurio ein teimladau â rhyw esgyrnedd difwyd, y mae Mr. Williams wedi dyfod at y gwaith gyda llaw a llygad gŵr celfydd, ac wedi tynnu darlun yr efengylwr lybarch, neu o leiaf ei amgylchedd, yn ddoniol a destlus. Os nad yw wedi ei lenwi mor fanwl ag y dymunem, eto nid oes yma ddim anystwyth nac annaturiol. Y mae pob cyffyrddiad yn dangos rhyw gymaint o athrylith; ac y mae un wreichionen o athrylith yn fwy ei gwerth na byd cyfan o'r hyn a eilw y cyffredin yn drefnusrwydd.

Dywed Wordsworth mai "y plentyn yw tad y dyn." Y meddwl yw fod pob dyn yn ffurfio ei gymeriad pan yn blentyn. Gadewch i ni edrych, gan hynny, pa fath un oedd John Evans, a pha driniaeth a gafodd, yu y rhan foreuaf o'i oes.

"Ganwyd JOHN EVANS yn Hydref y flwyddyn 1779, mewn lle a elwir Cwm-Gwèn, yn mhlwyf Llanfihangel-Ieroth. Enw ei dad oedd John Evans, ei fam Rachel. Un o sir Aberteifi, o ran pobl, oedd ei dad. Un o Llanllawddog, plwyf yn agos i Gaerfyrddin, oedd ei fam. Y mae amrai o berthynasau iddo, o ochr ei fam yn mhlwyfi Llanfynydd, Abergwili, Llanllawddog, a Llanegwad. Yr oedd yr hen ŵr synwrol Dafydd Rees, Llanfynydd, yn berthynas iddo; a theulu parchus Rees, New Inn, o ba un yr hanodd y Parch. Josiah Rees, Llangranog. Dau o blant oeddent, mab a merch; yr oedd ef yn henach na'i chwaer bedair blwydd a chwarter. Y mae ei chwaer yn byw mewn tyddyn yn nghymydogaeath Pencader. Nid yw yn grefyddol gydag un enawd; y mae yn ymddangos yn ddynes hawddgar iawn; ac y mae ynddi lawer o bethau yn hynod debyg i'w brawd. Wrth ymddyddan â hi, dygai ei gwên siriol, ysgogiadau ei gwynebpryd, ac yn enwedig ei llygaid, wyneb pryd tarawiadol a threiddiol ei brawd i'r meddwl yn effeithiol ac yn rymus. Dyn byr o gorffolaeth, yn hytrach, oedd ei dad, ac felly ei fam hefyd. Yr oedd ei dad yn ddyn

cyflym a gwresog o ran tymber; yr oedd ei fam yn nodedig addfwyn a thawel; yr oedd ei dad yn ddyrn pryderus o ran ei feddwl; yr oedd ei fam o dymher lonydd, a'i 'chalon yn ddiysgog yn ymddiried yn yr Arglwydd.' Nid annhebyg yw fod pryder ei dad yn dyfod i'r golwg yn ystâd flinderus meddwl ei fab; ac addfiwynder, tawelweh, a sirioldeb ei fam, yn hawddgarweh a thiriondeb ei mab. Yr oedd ei dad ac yntau yn methu deall eu gilydd yn gystal a'i fam ac yntau. Nid yw hyn idd ei ryfeddu, yr oedd dyn o'r cyfryw ysbryd a'i dad yn barod i daro ei droed wrth bob twmpath; hoffai John, yntau, ei ffordd ei hun, ac yr oedd ei groesi yn ddolur calon iddo. Os nad ydym yn eamsynied, y mae'r dymher hon yn un arwydd o'r clefyd, yr hwn a'i blinodd dros ei holl fywyd. Yr oedd ei fam ac yntau yn deall eu gilydd yn dda—gwyddai yr iawn ffordd i drin yr ochr wan iddo. Os dangosai ei mab radd o gyndynrwydd tuag ati, medrai lywodraethu ei hunan—medrai ragor, medrai ddefnyddio tynerweh mewn ymddygiad, mewn gair a gweithred; wrth wneyd felly, medrai ar ddigon i fod yn fam ac yn famaeth idd ei hanwyl John. Trugaredd i Gymru mai fel hyn yr oedd pethau. Pe buasai, pan yn ieuanc, heb un ddinas noddfa i fyned iddi, heb un man i droi yn nydd ei ofid, heb neb i gydymdeimlo âg ef, fe gollasid ffrydian ei ddawn, a melusderau defnyddioldeb ei dalentau, yn anialweh camddygiad i fynu. Yr oedd ei dad yn ddiacaon yn Mhencader: hen eglwys barchus yn y gmydogaeth yn perthyn i'r Annibynwyr, o'r hon yr oedd ei fam hefyd yn aelod. Ymddengys fod ei fam, yn neillduol yn nyddiau ei hieuenetid, yn rhagori ar y cyffredin mewn dysgu ac adrodd pennodau: ystôriodd ei meddwl wrth hyn erbyn blynyddoedd canol oed a henaint. Fe 'breswylodd gair Crist ymddi pan yn helaeth,' a hi a'i cyfranodd yn ddibaid idd ei chariadus fab. Yr oedd ei fam pan yn ieuanc yn aelod hardd gyda yr Annibynwyr yn Pantteg; y gweinidog yno y pryd hwnw oedd y Parch. Thomas Davies, yr hwn hefyd a fedyddiodd wrthddrych ein Cofiant. Mor dda yw dysgu gair Duw a'i gadw a'i wnenthur. Ychydig oedd hi yn feddwl wrth ei gwaith, pan yn ferch ieuanc, yn 'rhoddi cwbl ddiwydrwydd' i ddysgu ac adrodd 'gair ein Duw ni, yr hwn a saif byth,' ei bod yn ymbarotol i fod yn fammaeth, 'i fagu ac i feithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd,' un o'r dynion rhyfeddaf a fu erioed, nid yn unig yn Nghymru, ond efallai yn yr holl fyd Cristionogol. Yr oedd hi yn ddynes dduwiol *iawn*, y mae ei duwioldeb yn perarogli yn yr ardal hon hyd heddyw; y mae ei mherch yn dyweyd yn uchel am dduwioldeb ei mham. Byddai yn arferyd gweddio drosto ef yn bersonol, trwy ei gymeryd o'r neilldu, a'i gyflwyno mewn difrifol weddïau i'r Hwn a ddywedodd, 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi.' Dywedai ei mberch fod rhywbeth mwy neillduol rhwng ei mham a John; nag oedd rhyngddi a hi—'mwy o afael am dano.' Pa ryfedd os cafodd gwraig mor grefyddol ryw ddatguddiad y byddai mab cymaint o weddïau, addunedau, a dagrau, yn rhyw un mawr ac envog yn nheyrnas yr Arglwydd a'r Iaehawdwr. Y mae yn ddiammheu fod difrifoldeb ei fam wrth weddïo drosto, a'i gynghori gyda y fath ddwysder ag a wnai, yn argraffu arno, yn mlynnyddoedd plentynod a thynnerweh, y sobrwydd a danbeidiai o'i wedd, ac yn ei bregethau, ar y mil-oedd a'i gwrandawent. Pa faint o dda neu ddrwg all mam wneyd? Y mae llawer o rieni yn dduwiol; ond y mae eu duwioldeb yn rhy wan i wneyd dim, braidd, ond eu cadw hwy rhag uffern, y mae yn rhy fyr i gyrhaedd eu plant. Rhieni sydd yn rhoi allweddau'r nefoedd neu allweddau uffern yn nwyllaw eu plant."

Nis gallwn wella dim ar y sylwadau hyn; ac afreidiol yw ychwanegu atynt. Gan hynny ni wnawn ond yn unig eu cymhell yn daer i sylw pob tad a mam yn Nghymru: ac awn ymlaen i wled pa fodd y dechreuodd argraffiadau crefyddol ar ei feddwl.

“Yr oedd cyson gymdeithas rhyngddo â'r nefoedd er yn blentyn. Yr oedd yn brofiadol ei fod yn ffafir y Goruchaf. Dywedai yn ddifrifol iawn wrth ei chwaer ambell waith, 'Peidiwch a bod yn draws i mi, onide fe ddiigia'r nefoedd wrthyich.' Tua'r nefoedd yr oedd yn amcanu er yn blentyn. Yr oedd y nefoedd wedi cymeryd ei blaid. Aeth gyda ei dad, pan oedd oddeutu 14eg oed, i Waen-Ifor, i wrando Jones, Llangan. Pregethai Mr. Jones am yr Iachawdwr yn porthi y miloedd âg ychydig fara ac ychydig bysgod. Sylwai ar yr ymadrodd hwnw 'heblaw gwragedd a phlant.' Ei ddull difyrus ac effeithiol a ddwysymafodd yn meddwl John ieuane. Ychydig oedd yr hen offeiriad medrus a pharehus yn feddwl, wrth edrych ar y bachgen tenau, hyll, llygeidiog, fan draw, ei fod yn gweled un o'r dynion mwyaf doniol a fu erioed yn Nghymru; fe, un o'r gweision ffyddlonaf, duwiolaf, a mwyaf cymhwys ag a fu erioed yn perswadio colledigion i droi at Geidwad.

Y lle yr ymunodd gyntaf â'r Trefnyddion Calfinaidd oedd Gwaen-Ifor. Dim ond mewn un *society* y bu yno. Fe aeth wedi hyny i'r New Inn. Aeth ei dad gydag ef. Ar y ffordd wrth fyned, collodd ei dad ef, aeth yn ei ol i odrych am dano, ac fe'i cafodd ar ei liniau yn gweddio. Am amser hir, os nid bob amser wedi hyn, pan fyddai yn myned heibio y ffordd hono, penliniai i weddio: ac os na chai gyfle i fyned ar ei liniau, arosai, ac ocheneidiai tua'r nefoedd. Yna, wedi cyfodi, aeth gyda ei dad tua'r New Inn, a chyflwynodd ei dad ef i un Thomas Bona, neu, fel ei gelwid, y Dr. Bona, yr hwn oedd yn flaenor yno yr amser hyny. Wrth ei roddi, dywedodd ei dad, 'Dyma fe i chwi; mi fethais yn lân a gwneyd *Dissenter* o hono.' Yr oedd yn awr yn un-ar-bymtheg oed yn niwedd y flwyddyn. Fe ddechreuodd bregethu yn Hydref y flwyddyn ganlynol.”

Pwy fuasai yn meddwl wrth fyned heibio i Waenifor neu New Inn, mai yn yr ardal hono y cododd un o'r pregethwyr enwocaf yn Nghymru. Ond fel hyn y mae yn gyffredin. Os meddylir am y dynion mwyaf a fu, neu sydd heddyw, yn mhlith y gwahanol enwadau crefyddol, ceir eu bod, nid heb rai eithriadau mae yn wir, wedi eu magu mewn rhyw gilfachau distadl. Ac nid yw yr achos o hyn yn anamlwg. Y maent yn cael mwy o hamdden mewn lleoedd felly i feddwl. Nid yw eu sylw yn cael ei dynu gymaint ar wrthddrychau allanol, ac am hyny y mae y meddwl yn troi i chwilio am fwynhad yn y dyfnderoedd o deimladau gwreiddiol sydd o'i fewn ef ei hun. Gwnewch a fynoch i gynnorthwyo eich gilydd, ac nid oes modd gwneyd gormod, eto cofier na ddaw neb i enwogrwydd yn y byd na'r eglwys, heb gael ei orfodi i ddeall ei hunan, a'i daslu i ymddibynu ar ei ymdrech ei hunan. Yr hyn sydd yn gwahaniaethu dyn oddiwrth yr anifel yw, nid ei fod yn wybodol, ond ei fod yn ymwybodol ac yn gydwbybodol; ac i'r graddau y mae y galluoedd hyn yn cael eu dwyn i weithrediad, i'r graddau hyny y mae yn rhagori ar yr anifel. Byddai yn fendith i breswylwyr y trefydd mawrion pe credent hyn: oblegid y mae rhai o honynt, a dyweyd y gwir, yn ymddangos fel pe baent yn tybied fod pob un yn rhwym o fod yn ddyng mawr os bydd yn byw mewn tref fawr. Ac nid hyn yn unig, ond y

mae pregethwyr yn rhy dueddol i feithrin y teimlad hwn mewn amryw ffyrdd, y rhai nid oes anghenrheidrwydd i ni aros yma i'w cofnodi. Pe baem yn addas i roddi gair o gynghor i bregethwyr, ni a ddywedem wrthynt, Peidiwch byth a diystyru lleoedd tlodion, ac yn enwedig na ddiystyrwch y bechgyn tlodion mewn lleoedd tlodion. Byddai genych yw reswm i dybied am ddyrn mewn oed y buasech wedi clywed son am dano, pe buasai rhyw fawredd yn perthyn iddo, er nad yw hyn yn wir bob amser. Ond edrychwch ar yr hoglanc salw yswil acw, sydd yn craffu mor fanwl ar eich holl ysgogiadau, yr hwn y mae ei lygaid yn serenu pan ddywedoch rywbeth gwell na'i gilydd, nid oes neb o fewn yr holl fyd a w'yr pa syniadau mawrion sydd wedi dechreu gwreiddio yn meddwl y bachgen yna. Diammheu fod golwg ddigon asw ar John Evans pan yn synfyfyrto wrth ddychwelyd o'r ysgol, neu wrth grwydro ambell ddarn diwrnod ar hyd y dolydd. Ond eglur yw ei fod wedi dechreu meddwl, a meddwl yn ddwfn hefyd. Yr oedd yn cymdeithasu llawer â ef ei hun, yn holi ei hun, yn profi ei hun, yn barnu ei hun, ac yn ceryddu ei hun. Yr oedd wedi deall nad oedd dim yn nghreadigaeth Duw yn rhyfeddach, yn ddyfnach, yn ardderchocach, ac yn druenusach na'i enaid ef ei hun. Yr oedd wedi dechreu adnabod ei hun, ac yn y drych hwnw yr oedd yn dechreu adnabod drwg pechod, a'r anghenrheidrwydd am Gyfryngwr. Yr oedd yno gefnllif o feddyliau a theimladau annhraethadwy yn ymgodi, ac yn chwyddo dros y ceulanau, nes yr agorwyd y ffordd yn raddol iddynt redeg allan i'w ffrydle briodol.

Y mae yn ymddangos fod ei dad, er yn ddiakon gyda'r Annibynwyr, yn ei fwriadu i fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Nid cydweddol â'n teimladau ni un amser yw rhedeg i lawr holl weinidogion yr eglwys hono fel dynion digydwybod. Nid oes neb yn fwy parod i addef fod llawer yn myned iddi gyda dybenion cywir. Ond pa fodd y gall Ymneillduwyr gyflwyno eu plant iddi sydd bwne na fedrasom erioed ei ddeall. Y mae yn rhaid i'r Eglwyswyr eu hunain ystyried y cyfryw yn euog o'r rhagrith mwyaf. Er hyny y mae yn rhydd i ni gredu i'r Arglwydd oruwchreoli yr ymddygiad anghlyson hwn o eiddo hen ddiakon Pencader er daioni; gan i'w fab trwy hyny gael y fantais amhrisiadwy o dreulio ei ieuenctid yn yr ysgolion, nes y daeth i ryw raddau yn gydnabyddus â'r Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg. Nid ydym wrth ddywedyd hyn yn barnu na allasai fod yn bregthwr defnyddiol a duwiol, heb lawer o ysgol: ond buasai yn rhaid iddo goethi ei feddwl, a chyrhaedd yr un wybodaeth o ran sylwedd, mewn rhyw ffordd arall.

Nid yr *enw* o fyned i'r ysgol sydd yn gwneyd dyn yn wybodus, ond yr arferiad o ddarllen a dysgyblu ei feddwl. Y mae yr arferiad hon, pa fodd bynag y cyrhaeddir hi, yn annhebgorol anghenrheidiol. Y mae rhai trwy lafur blin a chaled wedi dringo yn uchel heb un ysgol; ond hwy eu hunain yw y rhai parotaf i gyfaddef eu bod wedi treulio llawer o amser yn ofer, ac wedi myned trwy lawer o drafferth afreidiol o ddifffyg cyfarwyddyd a chynnorthwy athrofaol. Ac am John Evans, y mae yn ammheus a fuasai ef yn meddu ar ddigon o benderfyniad i ymroddi at ddarllen am hanner diwrnod yn ei oes, oni buasai iddo gael ei orfodi i fyned trwy y cylch arferol o ddysgeidiaeth pan yn ieuanc er mwyn ei barotoi i'r offeiriadaeth. Pregethu oedd ar ei feddwl ef; at siarad y gwnawd ef; ac yr ydym yn cael na fedrodd ymattal heb fyned oddi-amgylch i wneuthur daioni am ddeuddeng mlynedd o leiaf cyn ei awdurdodi gan yr esgob. Ond gadawn i Mr. Williams roddi hanes ei waith yn dechreu pregethu.

“Y mae genym brofion fod pregethu ar ei feddwl yn ieuanc iawn. Dywedodd wrthym ei fod yn pregethu pan yn fachgen bychan yma a thraw ar hyd y meusydd. Dywedai ei chwaer y byddai yn myned allan yn fynych i'r caeau i fyfyrrio, gweddio, a phregethu—byddid yn ei ddal ambell waith. Elai tri neu bedwar o bobl y tŷ, neu rai o'r cymydogion agosaf, am berth âg ef, a gwrandawent arno am gryn amser gydag hyfrydwech a dyddanwech nid bychan. O bymtheg i un-arymtheg oed oedd pan yn cadw ysgol yn Mhencader. Yn mysg eraill ag oedd ganddo yn yr ysgol, yr oedd yno ddau o ddynion ieuanc: sef, John Lloyd, a Thomas Davies: byddai y tri ar ambell i dro yn pregethu; pob un yn ei dro, a'r ddau eraill yn barnu; nid oedd un o honynt yn grefyddol. Meddai Mr. EVANS, ‘Yr oedd hyn yn rhyfygus iawn ynom i bregethu heb enw o grefydd.’ John Lloyd oedd yr ymadroddwr penaf. Yn fuan ar ol hyn ymunodd JOHN EVANS â'r Trefnyddion; Thomas Davies â'r Bedyddwyr; a John Lloyd â'r Annibynwyr. Y mae y Parch. John Lloyd yn weinidog ffyddlon a llafurus yn Henllan, er ys llawer o flynyddoedd. Aeth Mr. EVANS, i Lanpumsaint, i gadw ysgol, cyn pen fawr o amser ar ol ymuno â'r brodyr yn y New Inn. Yn Lanpumsaint y dechreuodd bregethu. Y mae lle yn ymyl pentref Llanpumsaint a elwir y ‘Llain,’ yn yr hwn yr oedd yn byw, yr amser y dechreuodd JOHN EVANS, un Joshua Phillips, brawd i'r diweddar John Phillips, Meidrim, yr hwn a fu yn pregethu am flynyddoedd ymhlith y Trefnyddion Calinaidd. Yr oedd y gŵr hwn yn ddyn da, ‘yn ofni Duw yn fwy na llawer.’ Y testun oedd, ‘Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun,’ &c. Y mae yn ddiau fod y bregeth yn dda; ni effeithiodd testun gymaint ar bregethwr crioedd ag effeithiodd hwn arno ef; fe'i lluniwyd ar ei ddwl ef, ac fe'i ffurfiwyd yn môd yr adnod hon—y gyfran hon o air Duw gwedi ei phersonoli ydoedd ei ymarweddiad gwylaidd, difrifol, a gostyngedig. Y mae i ryw raddau bob galwedigaeth y byddir ynddi yn ffurfio ei delw ar y rhai a'i harferant. Onid ydyw yn syndod na byddai pregethu, ac ymdrin â'r Bibl, yn gadael mwy o argraff ar y miloedd sydd yn arferyd â hwy. Yr ail destun yn yr un lle ydoedd, ‘Fy anrhydeddwr y anrhydeddaf fi,’ &c.”

Pan yn naw-ar-hugain oed, priododd â Mrs. Jones, gweddw, yr hon oedd yn byw yn Llwynffortun : a'r flwyddyn ganlynol, urddwyd ef yn ddiakon gan Watson, Esgob Llandaff. Bu yn gurad am ychydig amser yn Mynyddislwyn, ac wedi hyny yn Casnewydd-Penybont, a Threlalas. Ond codwyd gwrthwynebiad yn fuan i'r offeiriad newydd gwyllt gan y plwyfolion ; a dywedir mai rhai o'r rhywogaeth llawddgar, yn awr fel gynt, oedd flaenaf yn y camwedd. Daeth adref i Llwynffortun, ac ar ol pregethu yn achlysurol mewn gwahanol eglwysi, y rhai a orlenwid gan liosogrwydd y gwrandawyr, cafodd guradaeth Llanddowror, hen eglwys yr enwog Grifith Jones. Ond nid hir y bu yno drachefn heb dori allan i bregethu mewn llanau eraill, lle y cai dderbyniad : ac mewn man neu ddau, pan nacawyd rhoddi drysau y llan yn agored iddo, aeth Mr. Evans i ben un o'r bedd-feini, a rhoddodd allan ei hoff bennill—

“O'r nef mi glywais newydd, fe'm cododd ar fy nhraed,
Fod ffynnon wedi ei hagar, i'r cleision gael iachâd.
O f' enaid 'hed yn ebrwydd, a phaid a llwfrhau ;
O'th flaen mae *drws agored* na ddichon neb ei gau.”

Bu yn yr eglwys ychydig yn fwy na blwyddyn : ond ni chafodd ei gwbl urddau. Crybwylla ysgrifenydd y bywgraffiad iddo ddyweyd wrtho ryw dro, “Mr. Evans, dim ond un urdd gafodd Mr. Hill (y Parch. R. Hill); yr oedd yn arfer dyweyd ei fod wedi treulio ei oes â dim ond un fotas ; pe buasech chwi yn cael ei un ef, neu efe yn cael eich un chwi, fe fuasid yn meddu ar bâr fel hyny.” “Gwir iawn,” dywedai yntau, “ond ni fuasai ddim yn taraw gwedi hyny, oblegid botasau yr un droed oedd y ddwy.” Ar ol hyn o grwydr aeth yn ei ol at y Methodistiaid, ac y mae yn hawdd genym gredu iddo gael derbyniad llawen gan ei hen gyfeillion. Gwnaeth ei arosfa am y rhan fwyaf o weddill ei oes yn Llwynffortun, yr hwn sydd dyddyn yn nyffryn Towy, un o'r dyffrynoedd mwyaf dymunol yn Mhrydain. Ond mynych yr ymwelai â rhanau eraill o'r Dywysogaeth, yn y Gogledd yn gystal a'r Deheudir. Mawr oedd y dysgwiliad pa bryd bynag y clywid ei fod yn dyfod trwy unrhyw barth o'r wlad ; a pharhaodd yn ei boblogrwydd hyd y diwedd. Ond cyn myned yn mhellach, nis gallwn nacau i ni ein hunain yr hyfrydwch o gyfleu ger bron ein darllenwyr y disgrifiad campus a roddir gan Mr. Williams o'i ymddangosiad mewn cymanfa.

“Cymerwn olwg arno yn awr mewn *Association* neu Gymanfa. Dyma ddydd y Gymanfa wedi dyfod—y mae cae cyfleus yn ymyl y dreflan lle y cedwir y cyfarfod—rhodd rhyw foneddig haelfrydig yn y gymydogeaeth—yno y mae esgynlawr gwedi ei aileiladu—mewn cysylltiad â hwn bob ochr iddo, y mae pedeirolfeni a cherbydau—a'r cwbl yn gwneyd i fyny ran o gyloch tebyg i hanner lleuad. Oddiyma ac oddidraw fe welir y miloedd yn dyfod ynghyd: rhai mewn cerbydau, rhai ar feirch, a llawer ar draed—y llwybrau oddiamgylch gwedi eu duo, a'r holl ffyrdd gwedi eu britho, gan ddeithriaid a phererinion. Dyma y cwrdd yn myned i ddechreu am 10 o'r gloch y dydd olaf: rhyw frawd anwyl yn rhoddi emyn allan idd ei ganu, yn darllen rhanau o'r gair santaidd, ac yn myned i weddi; yn y cyfamer dyma Mr. EVANS, Llwynffortun, yn dyfod tua'r cae, hyd y bwlech, os mor bell; y mae yn dyfod yn mraich rhyw gyfaill; ond wrth ei ddyfodiad dyma'r dyrfa yn ymagor ac ymranu yn ddwy linell; erbyn hyn bydd yr holl seremonïau, 'Pa sut yr ydych chiwi, a pha fodd yr ydych chiwithau,' yn eu llawn ogoniant; y mae'n rhaid i'r dwylaw gael eu rhoi, ac y mae yn rhaid gwneyd yn fawr o'r rhai hynny hefyd: hwyrach na wasanaethir pedwar neu bump ar unwaith, trwy ranu y bys-edd—fe roddir hyn a hyn i hwn, ac felly i'r llall hefyd. Fe oblygir y pen ar un draw, fe wenir yn siriol ar yr un acw; siaredir hefyd gymaint ag a ellir trwy ofyn hynt y perthynasau, y teuluoedd ynghyd â'r cymydogion preswylhedig yn yr ardal oedd o ba rai y mae y personau yr ymddyddenir â hwy yn dyfod. Eir fel hyn o gam i gam trwy y dyrfa hyd nes y byddir wrth yr esgynlawr—yna dringir i fyny. Yn ol myned i fyny y mae yn rhaid rhoi rhyw dro apostolaidd, gydag edrychiad difrifol ar y gwyddfodolion; yna, â'i wyneb yn orchuddiedig yn ei het, dyrchefir ocheneidiau a saeth-weddïau i'r nef am Ddwyfol ddylanwadau. Wrth ei ddyfodiad fe fydd pawb yn barod i gyfodi—â rhagddo gan gyflawni ar hyd ei daith yn gofanwl amrai gyfarchiadau; yna eistedda yn mysg ei frodyr fel 'brenin mewn llu.' Ar ambell lewyrchyn yn mhregeth rhyw frawd doniol fyddo yn anerch y gwrandawwyr, fe gyfyd i fyny mewn ehelaeth fwynhad o'r ymadrodd, a buan y mwyheir ei fwynhad pan welo y miloedd yn cydfwynhau âg ef. Y mae yr olygfa hon arno (gwrandawwr heb ei fath ydoedd) yn dwyn mawr foddhad i'r cannoedd o'r saint ag sydd yn bresennol. Er fod y bregeth hon yn dda, ac yn dda iawn, eto, tua'r conglau a'r 'cyrau eithaf' y mae llaweroedd, y rhai 'nad ydynt yn gofalu am ddim o'r pethau hyn'—ond yn awr dyma'r 'Amen.' Yn awr, pwy sydd nesaf? yw'r gofyniad. Mr. EVANS, Llwynffortun, yw'r atebiad. Gyda hyn dyma'r enwog JOHN EVANS, New Inn, yn myned i gyfarch y dorf liosog. Egyr y 'memrwn sanctaidd,' try y dalenau â'i law, ac edrycha ar y dyrfa ac am y testun bob yn ail; yn ol ei gael, enwa y llyfr, yna y bennod a'r adnod, gan ddywedyd, 'Yma y gwelir geiriau i'w darllen fel hyn.' Gwedi hyn darlenna y testun yn rymus, medrus, soniarus, eglur, a hwylus; gyda hyn fe fydd y llaw chwith yn taclusu y napeyn gwddf, a'r llaw ddeheu yn graddol ysgogi, ac yn effeithiol awgrymu parodrwydd areithyddol y pregethwr i fyrlymu allan ffrydiau llifeiriog o hyawdledd. Hefyd, y mae yr ên, y gwefusau, y gruddiau, mewn gair, y mae holl beirianwaith ymadroddus yr areithiwr mewn llawn waith. Y mae yn rhagymadroddi oddiwrth rai o'r cyd-destunau; ar hyd y ffordd wrth fyned at ei destun, y mae ei 'lygaid yn canfod pob peth gwerthfawr,' ac y mae ei ddawn yn ei osod allan yn y modd goreu. Yn ddisymwth dyma fe gyda ei destun, efallai mai yn destunol, efallai mai yn bynciaol, fel y dygwyrddo hi; ond fe bregethir, beth bynag yn anwyl. Yn ol galw yn nhrysorfa ei destun, dwg allan feichiau trymion o werthfawr bethau ei gynwysiad; ac erbyn y byddo gwedi gwasgaru y cludiadau hyn, dyma fe yn ddiarwybod i bawb gyda ei destun drachefn. Yna tyr ryw ddeilen olewydden oddiarno, ac a'i cwhwfana yn nghilfin ei ddawn medrus nes na bydd neb yn beiddio gofyn, A oes heddwch? Gwna fel hyn un tro ar ol y llall, nes y byddo mewn ymddangosiad

gwedi dyhysbyddu ei destan. Y mae yn awr yn 'angel yn chedeg yn nghanol y nef â'r efengyl dragywyddol ganddo.' Gyda ei waith fel hyn yn ennill y gynulleidfa, ceir eu gwled fel egin mis Mai ar ol cafodydd maethlon y Gwanwyn, i gyd yn lloni ac yn adfywio. Y mae ei ymadroddion yn disgyn ar y gwrandawyr 'fel gwlaw ar irwellt, ac fel cafodydd ar laswellt.' Yn awr, daew bobl y 'cyrau eithaf' yn dechreu dofi—daew y coegddyn yn gymen iawn yn rhoddi benthg ei glust—daew y dysgedig â'i wyneb myfyrgar yn gwisgo ambell i wên yn awr a phryd arall—man draw yn ei *gig* y mae ynad yr heddwch a'i foneddiges yn gwrandawr wrth eu bodd—y mae yr annysgedig, yntau, gwedi cael ei wareiddio gan ddylanwad y pregethlwr—y mae y difedddl a'r ieuanc, am yr amser presennol boed a fynd, gwedi eu darbwyllo i dalu teyrnged o wrandawriad i'r hyn a draethir gan y dywedwr—y mae yr hen wr a'r hen wreigan, wrth bwys eu ffyn, a'u 'enawd a'u calon gwedi pallu,' yn teimlo dyddiau ieuencid unwaith eto yn adymaflyd ynddynt. Y mae yntau yn awr yn feistr y gynulleidfa, yr hon a wneir i fyny o filoedd a miloedd o wahanol amrywiaethau sefyllfaoedd, tymherau, synwyrâu, a dygiad i fyny. Y mae yn eu trin i gyd fel myno ei hun; fe'u difyra fel y difyra y fam y plentyn sugno. Y mae ei ymddangosiad apostolaidd, boneddigaidd, a santiaidd yn awr yn llanw y llygaid—y mae ei bêr a'i felus barabl yn adsain yn ein clustiau. 'Mor weddaidd ar y mynyddoedd oedd traed yr efengylwr hwn yn eghoeddi heddwch, yn dywedyd wrth Seion, Dy Dduw di sydd yn teyrnasu.' Daew bawb yn ymadael, ac yn barod i ddweyd, fel y dywedwyd am ei Feistr mawr, 'Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.'

Treuliodd amryw flyneddau yn y rhan ddiweddar o'i oes yn y Cross Inn, lle y bu farw ei wraig gyntaf, ac y priododd yr ail waith a Miss Rachel Davies, merch Mr. John Davies, Pentwyn, Llanon. Oddiyno symudodd i Pentwyn; ond erbyn hyn yr oedd wedi gwanychu yn fawr. Am y flwyddyn olaf o'i fywyd nid âi ond yehydig iawn oddicartref; ond ymdrechai fyned mor fynych ag y gallai i'r capel y perthynai iddo, yr hwn oedd yn ymyl, hyd ddydd ei ymadawiad. Yr oedd wedi penodi ar y lle i'w gladdu o flaen y capel: i'r hwn fan yr elai bob tro wrth fyned i, a dyfod o, foddion gras. Safai yno am beth amser, a chollai ei hun mewn myfyrdodau a gweddiau. "Claddweh fi fan hyn, druain," meddai, "peidiweh a'm doddi yn nes i'r mur rhag im' fod dan y bargod." Yehydig o ddyddiau cyn huno yn yr Iesu, dywedodd wrth ei anwyl wraig, "Ni chollir ddim o honof, na wneir, na wneir." Gofynai lithau iddo, "A gawsoch ryw ymweliad cysurus yn ddiweddar, Mr. Evans bach?" Atebai yntau, â'r dagran yn llof dros ei ruddiau, "Do, do! yr hwn sydd yn credu yn y Mab ni ddemnir—ni chollwyd neb erioed a gredodd yn y Mab—yr wyf finnau yn credu â'm holl galon." Yn yr agwedd hon y bu farw ar y 6ed o Hydref, 1847.

Fel hyn yr ymadawodd un o "rai rhagorol y ddaear." Yr oedd wedi addfedu i ogoniant, fel y rhagddywedodd ef ei hun wrth son am farwolaethau amryw frodyr enwog o wahanol enwadau crefyddol. "Y

maent hwy," meddai, "wedi myned, ac y mae yn debyg na fyddaf finnau yn hir bellach. Un o'r *winter apples* wyf fi; ond yr wyf yn dysgwyl y byddaf finnau yn addfed tua *November*, ac y cymer fy Nhad nefol fi ato ei hun."

"Yr hen Lwynffortun anwyl!" chwedl y bobl. Y mae lle gwag yn y byd ar ei ol. Er nad ydym yn ei ystyried yn ddyn mor *anghymharol* o fawr ag y darlunir ef gan frwdfrydodd ei hanesydd, yr hyn ynddo ef sydd ddigon esgusodol, credwn er hyny fod ynddo rai rhagoriaethau nad oes ond ychydig, os neb, yn feddiannol arnynt mewn cymaint hel-aethrwydd. Fel dyn, yr oedd wedi ei addurno â llawer o gymhwysderau i'r gwaith a fwriedid iddo. Yr oedd ei wynebpryd hardd, ei lygaid mawrion llonydd, a phereidd-dra ei lais, yn arddangosiad cywir o an-sawdd ei feddwl. Yr oedd yn llestr etholedig, wedi ei wneyd o'r clai goreu, i ddwyn trysorau yr efengyl i fyd colledig. Mae yn wir fod yn y llestr hwn, er hardded oedd, radd bychan o wendid mewn un man: ond hwyrach fod hyn yn ei wneyd yn fwy derbyniol gan y cyffredin, ar yr un egwyddor ag y maent, yn ngwledydd y dwyrain, yn edrych ar bawb a fyddo wedi colli eu synwyrâu fel rhai ysbrydoledig. Pa fodd bynag am hyny, yr oedd y Lluniwr mawr, yn yr achos hwn, fel mewn achosion eraill, wedi gwneuthur y naill ar gyfer y llall. Fel y mae y rhai sydd yn brinach mewn un gynneddf yn rhagori mewn cynneddfau eraill, yr oedd ei gof yntau yn gryfach, a'i ddychymyg yn fwy bywiog na chyffredin. Ac heblaw hyn, yr oedd ei ddiddichellrwydd a'i wres-ogrwydd calonog yn ei wneyd yn fywyd pob cymdeithas. Yr ansoddau llyn sydd yn peri fod y morwyr, at eu gilydd, yn ddosbarth mor hoffus. Y maent yn treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn mhell oddiwrth eu cyd-ddynion; ac am hyny y maent, fel yr adar yn yr ynysoedd anhygyrch, yn rhydd oddiwrth bob drwgdybiaeth; a phan ddelont i gymdeithas, y mae y firwd o deimladau oedd wedi croni yn eu mynwesau yn rhedeg allan megys ped agorid argae. Oblegid yr un rheswm, y dynion mwyaf darllengar a myfyrgar yw y cyfeillion mwyaf dyddan, pan ymollyngant i fod yn gyfeillgar. Ond nid oes neb, beth bynag yw ei ddawn a'i am-gyleriadau, nad yw yn gwybod am weithrediad yr un duodd ar ryw achlysuron. Y mae pawb a fu erioed yn rhwym am rai wythnosau ar wely cystudd yn cofio yn dda y wedd newydd oedd ar y gwrthdrysau mwyaf adnabyddus y diwrnod cyntaf y daethant yn alluog i gamu dros y trothwy—y prydferthweh oedd yn daenedig dros y greadigaeth, nes yr oeddynt yn yfed dedwyddweh i'w hysbryd oddiwrth yr olwg ar bob

peth oedd yn eu hamgylchynu. Rhywbeth tebyg i hyn, gellid meddwl, oedd teimladau Mr. Evans yn dra mynych. Yr oedd yn treulio darnau lliosog o'i oes yn wirioneddol bruddglwyfus; ond i'r graddau y byddai y pruddglwyf yn ei wneyd yn anhapus, i'r graddau hyny yr oedd ei ddedwyddwch yn fwy yn nghymdeithas ei gyfeillion; ac yr oedd o anghenrheidrwydd yn gwasgaru yr un gwres hyfryd o'i amgylch, nes nawseiddio serchiadau pawb oedd yn agos ato.

Ond yr oedd Mr. Evans hefyd yn ddyn duwiol, a duwiol iawn. Beth bynag oedd yn ddiffygiol yn ei gyfansoddiad naturiol, ni chlywsom crioed fod yr un briw na brêg yn ei gymeriad Cristionogol. Yr oedd yn ofni Duw o'i febyd. Adroddir yn ei hanes ei fod, pan yn yr ysgol yn Maes-y-noni, yn arfer gweddio yn uchel wrth fyned i'r gwely, ac y byddai y gwasanaeth-ddynion yn dyweyd y naill wrth y llall, "Dystewch, y mae John Evans yn gweddio." Ac ar ol iddo ddechreu pregethu, y mae genym seiliau digonol i gredu ei fod yn weddiwr dibaid, ac iddo bara felly trwy ei fywyd. Yr oedd hyn yn effeithio ar ei holl ymddyddanion, ac yn cadw llywodraeth grefyddol ar ei holl ymddygiadau. Yr ydym yn cofio un hanesyn am dano, yr hwn sydd yn brawf o'i gydwybodolrwydd a'i awydd i wneyd daioni. Yr oedd yn lletya un noswaith gyda theulu cyfrifol yn y rhan uchaf i sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn hwyr cyn iddo gyrhaedd yno. Ar ol cwynosa, a threulio ychydig amser yn siriol a chyfeillgar, gofynodd Mr. Evans am gael darllen pennod a gweddio. Yr oedd erbyn hyn yn tynu at hanner nos. Dywedwyd wrtho ei bod yn hwyr iawn, a bod y gweision a'r morwynion wedi myned i gysgu. "Wel," ebe yntau, "os yw yn rhy hwyr i gadw y ddyledswydd deuluaidd, gadewch i ni gael rhyw gymaint o ymddyddan crefyddol serch hyny, i chwalu tipyn ar y niwl oddiar y gydwybod. A ydych chiwi, Mr. P., yn cael hamdden y dyddiau hyn i feddwl am eich enaid? Yr wyf yn ofni, *my dear sir*, fod y byd yn cael gormod o le yn eich calon. Ac am danoch chwithau, Miss P., yr wyf yn cofio fod arwyddion gobeithiol arnoch chiwi rai blyneddau yn ol; ond bum yn meddwl eich bod wedi myned yn ddiweddar braidd yn wylltach nag oeddych. Yn awr yw yr adeg i chiwi eich dau i ymbarotoi erbyn marw; ac nid oes dim a wna les y pryd hyny ond grym duwioldeb." Nid oes yma ond talfyriad o'i anerchiad patriarchaidd; a dywedwyd i ni fod y ddau yn well o'r tro. Nid pob un fuasai yn medru cymeryd cymaint â hyn o ryddid heb godi gwrthdarawiad yn meddyliau y rhai a gyferchid ganddo. Ond yr oedd y parch oedd gan bawb i

Mr. Evans fel dyn duwiol yn agor eu calonau i dderbyn ei ciriau.

Nid anaddas yw sylwi yn mhellach ei fod yn ddyn duwiol *boneddigaidd*. Wrth ddywedyd hyn nid ydym yn cyfeirio at ei feddiannau bydol; oblegid y mae llawer un yn gyfoethog heb fod yn ŵr boneddig, ac y mae llawer un yn foneddigaidd heb fod yn gyfoethog. Ac nid ydym ychwaith yn gosod nemawr o bwys ar ei ymgrymiadau a'i foes-gyfarchiadau diddiwedd. Buasai llai o'r pethau hyn yn llawn cystal, er eu bod yn gweddu yn burion arno ef. Ond cyfeirio yr ydym at y lleoneisrwydd hwnw sydd yn annheggorol i bob dyn cyn y gellir ei barchu fel un o ymddygiad boneddigaidd. Nid pob dyn duwiol sydd yn ei feddu; o'r hyn lleiaf, y mae llawer o'r hyn sydd groes iddo mewn rhai nas gellir ammheu eu duwioldeb. Ond yr oedd Mr. Evans bob amser yn anadlu mewn awyr o ledneisrwydd. Ni oddefai i neb ddodi ei droed ar y pryfyn distadlaf. "Peidiwch, druain," meddai, "y mae ganddo ei deimladau tyner fel ninnau." Adroddir hefyd yn ei hanes iddo gyfarfod unwaith â mintai o *gypsies*, a chyfarch gwell iddynt; ac iddynt lwythau ddychwelyd eu cydnabyddiaeth iddo yntau mewn geiriau bendithiol a chlodforus. Dywedai ei gyfaill wrtho, "Mr. Evans, nid oes un addewid i'r rhai yna, oes e?" "Oes druain, oes druain," meddai yntau, "Y rhai a ddisgynant i'r llewch a ymgrymant ger ei fron ef." Yr oedd yn barchus iawn o deimladau pawb, os byddai lle i farnu eu bod yn meddu teimladau. Clywsom am dano un tro yn gadeirydd mewn cymdeithasfa, pan gododd hen frawd i draethu ei syniadau, y rhai nid oeddynt yn dygwydd taraw yn uniongyrchol ar y pwnc oedd dan ymdriniaeth. "Yr ydych yn dyweyd yn dda iawn," ebe yntau, "yr ydych yn dyweyd yn dda iawn; hwyrach y daw hyna i fewn ar ryw fater arall, ond nid dyna y mater sydd dan sylw yn awr." Er hyny, pan fyddai achos yn galw, medrai daflu gair mor gyrhaeddgar a neb, fel y tystia yr hyn a adroddir yn ei hanes am ddau frawd yn ngafael yr ias Americanaidd, un o ba rai a awgrymai na fuasai yn ormod peth i'r Cyfarfod Misol eu danfon. "O, na, druain," dywedai yntau, "os myned i ddanfon, ni a ddanfonwn rai o werth eu danfon." Bu yr ymadrodd byr hwn yn foddion i feddyginiaethu y ddau frawd yn drwyadl; ac y mae eu traed ar ddaear Cymru y dydd heddyw.

Mewn cysylltiad â'i ledneisrwydd, iawn ydyw nodi ei dymher hael-frydig at yr holl enwadau crefyddol. Mae yn debyg mai mewn cyfeiriad at hyn y dywedodd yr hybarch Christmas Evans y byddai pobl y mil blyneddau i gyd fel Mr. Evans, Llwynffortun. Ar un achlysur yn

Llanelli, wrth drin y pwnc o fedydd, wedi gosod allan ei olygiadau ei hun, dywedai—" Mae brodyr parchus eraill yn golygu fod llawer o ddwfr yn anghenrheidiol ; gwneled pawb ateb cydwybod yn hyn, ond y Nefoedd a'n gwaredo rhag ffraeo yn nghyleh y masgl, a bod yn ddifater am yr ŵy. Gofynwyd unwaith i ddau frawd gwahanol eu golygiadau am y dull, 'A ydych chi yn sier mai bedydd trwy drochiad sydd yn iawn?' 'O ydwyf yn eithaf sier.' 'A ydych chiwithau yn sier mai taenellu y dwfr sydd gywir?' 'O ydwyf yn eithaf sier.' 'A ydych chi yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithiwyf fy mod.' 'A ydych chiwithau yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithio fy mod.' Felly mae dynion, druain, yn sier mewn pethau ansier, ac yn ansier yn yr hyn y dylent fod yn sier. Fy mrodyr a'm chwirydd anwyl, na fydded i ni ymrwystro gyda y cysgodau, ond awn trwyddynt at y Sylwedd Mawr ei hun." Dyma iaith deilwng o Gristion. Ond byddai y duedd hon weithiau yn ei arwain dros bob terfynau. Tarawodd wrth ŵr dycithr unwaith, a gofynodd a oedd efe yn perthyn i ryw gangen o eglwys Crist. Atebodd yntau nad oedd. "Gobeithio," meddai Mr. Evans, "eich bod yn ddyn duwiol serch hyny." Mewn man arall gofynwyd iddo beth oedd ei farn am ddyn meddw, yn y gymydogeaeth hono, yr hwn oedd wedi syrthio ychydig cyn hyny dros y bont yn ei feddwdod, a boddi. "Dylem gymeryd yn araf iawn y ffordd yna," ebe yntau, "oblegid nid oes neb a ŵyr na chafodd drugaredd rhwng y bont a'r afon." Diau na ddylid rhoddi terfyn i Sanct yr Israel; ac o'n rhan ni yn bersonol, y mae yn rhaid i ni gyfaddef fod ysbryd hael Mr. Evans yn hynod o gydfynedol â'n teimladau; ac yn myned yn fwy felly bob blwyddyn. Ond y mae ochr arall i'r ddalen yn bod, a dylid cofio fod gwirionedd ac egwyddor yn werth dadleu drostynt, a dyoddef drostynt. Y mae gormod o duedd yn yr oes hon i golli golwg ar y gwahaniaeth anghyfnewidiol rhwng drwg a da, ac i esgusodi dynion diegwyddor, yn enwedig os byddant yn meddu tipyn o'r byd, pan y dylent gael eu hysio a'u hwtio allan o bob cymdeithas. Onid oes genym anghreiffitiau lliosog o ddynion yn aberthu eu cydwybodau ar allor Mammon, ac yn cael eu parchu yn llawn cymaint, os nid yn fwy, nag o'r blaen? Onid oes rhai yn cywilyddio son am wirionedd ac uniondeb rhag eu cyfrif yn euog o feddwl cyfyng? Onid oes mwy o gydymdeimlad yn cael ei ddangos at ddrwgweithredwyr nag at y tlodion gan ein seneddwyr? Ac hyd yn nôd yn mysg yr enwadau crefyddol, onid oes gormod o dynnerwech yn cael ei arfer at rai sydd yn profi eu

hunain yn hollol amddifaid o lywodraeth crefydd ar eu calonau? Y mae genym bob parch i gariad, a da pe byddai mwy o hono; ond pan eir i ferwi pob math o fresych gwylltion fel hyn yn un cawl cymysg-lyd, y mae cariad ei hunyn eingorfodi i waeddi fod angen yn y crochan. Gobeithiwn na ddychymyga neb ein bod, yn y sylwadau hyn, yn beio ar Mr. Evans, mwy nag y dymunem gollfarnu yr Archesgob Leighton, neu William Gurnall; ond teimlo yr ydym fod anghen hefyd am ysbryd yr hen Anghydfurfwyr, y rhai a safasant fel y dderwen yn nghanol yr ystorm, a thrwy hyny a brofasant, ond ar yr un pryd a dorasant, rym y corwynt. Pe buasai rhinweddau Mr. Evans o Lwynffortun a Mr. Elias o Fôn, wedi cydgyfarfod yn yr un person, buasant yn cyfansoddi nodweddiad na welwyd ond anfynych ei gyffelyb. Yr oeddynt i raddau wedi eu huno yn Luther, a Baxter, a John Howe, a Charles o'r Bala, a Dr. Chalmers, ac amryw eraill yn ddiammheu nad ydym yn awr yn cofio am danynt: ond ni welwyd erioed yr holl rinweddau hyn wedi cydgyfarfod yn gyfartal ac yn berffaith oddieithr mewn un hanes a ysgrifenyddwyd ar wahanol amserau, ac mewn gwahanol amgylchiadau, gan bedwar o wŷr, y rhai mewn cymhariaeth oeddynt anllythyrenog; yr hyn sydd brawf digonol fod gwrthddrych yr hanes hwnw yn fwy na dyn.

Ond gadawer i ni eto dafu golwg ar Mr. Evans yn fwy neillduol fel pregethwr. Y mae un awdur wedi sylwi yn ddiweddar fod hanfodion pregethu wedi eu colli yn mhlith y Saeson, ac nad yw eu pregethu yn ddim amgen na thraethodau, a'r rhai hyny yn fynych yn dra marwaidd. Nid hawdd yw penderfynu yn mha beth y dylai y cyfansoddiadau hyn wahaniaethu oddiwrth bob cyfansoddiad arall; ond gellid meddwl fod rhyw le canol yn perthyn iddynt rhwng traethodau a barddoniaeth, nid barddoniaeth Pope a'i ganlynwyr, ond yr eiddo Dante a Milton. Y mae yma faes digon helaeth, a digon o le i amrywiaeth: ond nid oes perygl i neb golli y ffordd, os na fydd yn rhy awyddus i gadw o fewn terfynau. Yr oedd yr hen bregethwyr yn feistriaid ar y gwaith oblegid eu bod yn ymollwng i lesaru fel yr oedd naturiaeth ei hun yn eu dysgu. Ond y mae nifer mawr o bregethwyr Lloegr wedi dirywio yn yr un modd a'r beirdd, ac nid yw yn annichonadwy i bregethwyr Cymru ddirywio hefyd, trwy adael natur er mwyn efrydu cynlluniau a rheolau. Er hyny, meddyliem na fyddem yn euog o bleidgarweh pe dywedem fod elfenau hanfodol pregethu wedi eu cadw yn Nghymru hyd yma, a'u bod i'w canfod yn amlwg yn John

Evans, Llwynffortun. Ni ddygwyddodd i ni crioed ei glywed yn amcanu at yr echediadau uchaf a berthynant i araethlyddiaeth gysegredig; ac eto anaml y codai i siarad heb fod ganddo ryw darawiadau a barai i chwi ddywedyd yn ddystaw, Dyma Bregethwr! Nid yn unig yr oedd yn traethu am y gwrthddrych oddi draw; ond medrai ei ddwyn o flaen y meddwl, ac er mwyn cynnorthwyo y gwrandawyr i'w weled medrai ei wisgo â'r iaith fwyaf dewisol, ac â'r cymhariaethau mwyaf destlus. Pan ai i son am y creaduriaid yn myned i'r arch, yr oeddych yn gweled Noa yn hen wr parchus yr olwg arno yn sefyll wrth y drws i'w derbyn, a'r holl lwybrau wedi eu britho gan bedwar-carnoliaid ac ymlusgiaid heb rifedi, nes yr oeddych yn barod i gilio oddiar eu ffordd. Pan ddarluniai y ddwy anian yn y Cristion, yr oeddych yn gweled pechod yn hen ddyn crebachlyd, crintachlyd, yn myned wanach wanach, a gras yn ddyn ieuanc gwridgoch, glandeg, yn myned gryfach gryfach. Ond pan soniai drahefn â'i lais toddodig am ddyoddefiadau y Cyfryngwr, braidd na feddyliech eich bod yn gweled ol yr hoelion yn ei ddwylaw a'i draed, nes yr oedd Thomas anghrediniol yn barod i ddywedyd, "Fy Arglwydd, a'm Duw."

O ran y dull o draddodi, yr oedd, fel rhai o brif areithwyr Lloegr, yn perthyn i'r dosbarth unffurfiol. Rhedai ei hyawdledd allan yn ffrwd risialaidd, heb nemawr o amrywiaeth mewn agwedd na llais, o'r dechreu i'r diwedd. I'r dosbarth hwn y perthynai Robert Hall, yr hwn a gynnygiodd y dull arall yn nechreuad ei weinidogaeth, ond a gafodd allan yn fuan fod ei lais a'i nerth corfforol yn rhy wan, ac am hyny fod yn rhaid iddo wneyd i fynu mewn cyflymdra yr hyn oedd yn ddiffygiol mewn gryn. Y mae i bob hedyn ei gorff ei hun; ac nid yw yn un anmharch ar Mr. Evans, pe dywedid mai hwn oedd yr unig ddull oedd yn gweddu iddo ef, oblegid yr oedd ei boblogeiddrwydd i raddau mawr yn ymddibynu ar gyflawnder a llithrigrwydd ei ymadraddiad. Nid ydym yn tybied y buasai yn alluog i dafu pelenau poethion mewn ychydig eiriau fel Ebenezer Morris neu John Elias, mwy nag y gallasant hwythau gaethiwo sylw cynnulleidfa, a'i chadw am ddwy awr mewn hwyl nefolaidd, heb ddyrchafu y llais na gwneyd yr ymddangosiad lleiaf o egni corfforol. Nid oedd ganddo ddawn i ddyweyd ei feddwl mewn cylch bychan; a phe buasai yn llwyddo i wneuthur hyny, nid yw yn debyg y buasai y dywediad yn ddigon cynnwysfawr i orchfygu y teimladau: ond yr oedd yr un dyben yn cael ei ateb yn raddol trwy barhad yr argraffiadau ar feddyliau y gwrandawyr.

Yr hyn a hynodai Mr. Evans fel pregethwr oedd ei brydferthweh. Yr oedd ei wynebpryd yn brydferth, tafliad ei law yn brydferth, ei feddyliau yn brydferth, a'i iaith yn brydferth. Yr oedd oll wedi ei wisgo â phrydferthweh. Yr oedd rhyw swyn rhyfeddol hyd yn nod yn ei lais, ac nid ydym yn ammheu nad oedd llawer o'i wrandawyr yn cael gwledd yn mhercidd-dra y swn, heb sylwi ar ystyr yr hyn a draddodid. Nid oedd ei hyawdledd yn llifeiriant angerddol yn rhuthro ar draws pob rhwystrau, ac yn rhwygo y cwbl o'i flaen fel yr oedd Elias o Fon. Nid oedd un amser yn ymarllwys yn rhaiadrau annysgwylidwy, nes "synu, pensyfyrdanu dyn," fel yr eiddo Ebenezer Morris. Nid oedd yn rhedeg rhwng creigiau mor serth ac mor uchel a'r eiddo Christmas Evans. Nid oedd yn afon lydan, lonydd, ddofn, fel yr eiddo Charles, Caerfyrddin. Nid oedd yn ateb cynnifer o wahanol ddybenion, nac yn rhedeg trwy randiroedd mor amrywiol, a'r eiddo Ebenezer Richards, neu Williams, o'r Wern, Ond er hyny yr oedd yn un o'r afonydd prydfferthaf a welwyd erioed, o faintioli mwy na chyffredin, yn dolenu ar hyd ac ar led dyffrynoedd breision, fel pe buasai wedi anghofio pen ei thaith yn nghanol hawddgarweh y golygfeydd oedd ar ei glanau. Galleid meddwl wrth ei wrandaw nad oedd dim yn haws na phregethu. Yr oedd yn meistrol holl deimladau y galon heb amcanu at hyny. Yr oedd ei areithyddiaeth fel yr enfys yn anghymharol o hardd, ac ar yr un pryd mor agos atom mewn ymddangosiad nes arwain rhai i gredu y gallasant yn hawdd ei efelychu: ond er iddynt sefyll yn ol eu tyb hwy yn yr un man ag y gwelsant ef yehydig cyn hyny yn dadlenu ei ogoniant o flaen eu llygaid, yr oedd prydfferthweh y pregethwr doniol o Lwynffortun mor bell o'u cyrhaedd ag erioed. Yr oedd y dynion hyn yn anghofio fod prydfferthweh yn colli pan yr ymdrechir i'w ddangos. Pa bryd bynag y gwneir ysgogiadau y corff, neu oslef y llais, neu y dull o ymadroddi, yn wrthddrychau blaenaf ein myfyrdod, y maent yn rhwym o fyned yn annaturiol, ac o ganlyniad yn wrthun. Nid oes yn yr holl greadigaeth un gwrthddrych yn fwy prydfferth na phlentyn bach; a'r achos o hyny ydyw ei fod yn berffaith rydd oddiwrth bob pryder yn nghyleh ei ymddangosiad. Yr ysbryd plentynaid hwn yw gwreiddyn pob prydfferthweh; a hyn mewn modd arbenig oedd yn harddu Mr. Evans. Ai tybied yr ydych, chwi ddynwardwyr, ei fod ef yn cymeryd amser i ystyried wrth draddodi pa agwedd oedd ar ei ddyn oddiallan? Ai tebyg ei fod yn dywedyd wrtho ei hun, Dyma yr adeg i mi godi fy llaw chwith i deimlo y napeyn sydd am

fy ngwddf; yn awr dylwn roddi cwlhwfauiad hardd i'r llaw dde; y mae yn bryd i mi bellach roddi rhyw droiad mwynaidd a hyfryd i'r llais. Os oedd yn meddwl am y pethau hyn weithiau, y mae yn ddiddadl mai nid yr amserau hyny y byddai yn pregethu oreu. Yr oedd efe, fel pob pregethwr mawr, yn colli golwg arno ei hun yn nysgleirdeb y meddyliau a lanwent ei fryd. Yr oedd ei faterion yn meddiannu ei holl enaid, ac yr oedd pethau llai eu pwys yn cymeryd eu lle naturiol oblegid nad oedd yn meddwl ond ychydig am danynt. Nid oedd yr addurniadau allanol ganddo ef ond gwisg yn dilladu ei bregethau; ac nid oes un dyn call yn gofalu llawer am ei wisg, ond yn unig iddi fod yn symol glân, ac na fyddo yn tynu sylw o herwydd ei hanweddeidd-dra.

Onid wedi'r cwbl, yr hyn a'i gwnaeth mor ddefnyddiol yn ei ddydd oedd yr *eneiniad*. Hyn oedd ei addurn penaf, ac a barai fod *myu'd* yn ei bregethau. Dyma beth nas gellir ei ddesgrifio, mwy nag y gellir dyweyd beth yw bywyd naturiol. Ond hebdo nid yw y dynion mwyaf doniol ond delwau yn symud ac yn siarad trwy rym peirianwaith. Y mae miloedd yn Nghymru yn gwybod pa beth ydyw trwy weled ei effeithiau; a chadwed Duw y teimlad o'r anghen am dano yn ein gwlad tra parhao dyddiau'r ddaear.

HANES YR EGLWYS YN GENEVA.*

[*Notices of the state of Religion in Geneva and Belgium. By H. HEUGH, D.D. 1845.*]

DR. HEUGH sydd weinidog poblogaidd yn Glasgow, perthynol i'r *Seceders*. Yn y llyfr hwn cawn grynodedb o'r wybodaeth a gasglodd, yn ei ymweliad â Geneva a Belgium, mewn perthynas i ansawdd grefyddol y lleoedd hyny. Wrth roddi adolygiad o hono, mor bell ag y mae yn traethu am Geneva, yr ydym yn cyflawni dau o ddybenion ein cyhoeddiad; sef yw hyny, gwneyd y Cymry yn feddiannol ar gynnwysiad y gweithiau mwyaf teilwng o sylw a ymddangosant yn yr iaith Saesneg, a rhoddi golwg iddynt ar agwedd bresennol yr eglwysi Protestanaidd.

Nid oes un lle yn Ewrob wedi effeithio mwy ar y byd, mewn ystyr grefyddol a moesol, na Geneva. Oddiyma y bu Calfin yn dylanwadu ar holl deyrnasoedd cred, trwy ei ymddyddanion â'r dieithriaid a gyrchent ato o'r gwahanol wledydd, ac yn fwy na hyny trwy ei ysgrifeniadau. Yma y cafodd llawer o'r diwygwyr nodded yn nyddiau Mary waedlyd, pa rai yn amser Elizabeth a ddygasant olygiadau Calfin yn ol gyda hwynt, ac oblegid eu hymdrech i lân-buro yr eglwys a alwyd yn Buritaniaid; a diau mai y rhai hyn yn nghyd a'u holynwyr sydd wedi bod yn Lloegr yn "halen y ddaear" hyd heddyw. Oddiyma hefyd y dychwelodd John Knox i wrthwynebu Pabyddiaeth, ac i sylfaenu yr eglwys ddiwygiedig yn Scotland. Oddiyma yr anfonwyd y cenadon Protestanaidd cyntaf i bregethu yr efengyl i'r Paganïaid.† Oddiyma, wedi hyny, ysywaeth, y bu Rousseau a Voltaire yn camarfer eu doniau i geisio difodi pob crefydd oddiar wyneb y ddaear. Yma hefyd y bu Gibbon, yn y dull mwyaf dichellgar, yn ymdrechu i

† Yr anrhydedd o fod yn mlaenaf i anfon yr efengyl i wledydd Paganïaid, ar ol y diwygiad oddiwrth athrawiaethan ac arferion anysgrhythrol Pabyddiaeth, sydd yn perthyn i'r eglwysi diwygiedig yn Geneva a Ffrainc. Yn 1556, anfonodd eglwys Geneva bedwar-ar-ddeg o genadon i blanu yr efengyl yn ngwledydd America Ddcheuol, y rhai ocdynt newydd gael eu darganfod." *Christian Observer*," 1842, tudal. 772.

* Or "TRAETHODYDD," am 1845.

ddiraddio Cristionogaeth. Ond yma drachefu y mae gwawr adfywiad wedi codi unwaith eto, ac yn dechreu ymdaenu i barthau pellenig trwy lafur ac ysgrifeniadau Malan, a Gausset, ac yn enwedig D'Aubigné.

Geneva sydd ddinas ar lán yr afon Rhone, rhwng mynyddoedd Switzerland, yn cynnwys oddeutu 80,000 o drigolion. Y tu dwyrain i'r dref y mae llyn prydferth ac eang, a elwir "Llyn Geneva," o ba un y mae yr afon yn rhedeg. Ar hyd ymylau y llyn y mae adeiladau harddwych, o ba rai gellir gweled mynyddoedd yr Alps, a mynydd Blanc yn eu canol, fel patriarch, yn dyrchafu ei ben gwyn yn uwch na'r cwbl. Y wlad, am oddeutu 18 milltir o hyd a 9 o led, a berthyn i dalaeth Geneva, yr hon sydd un o'r ddwy-ar-hugain a gyfansoddant Unol Dalcithiau Helvetia. Poblogaeth holl dalaeth Geneva yw 60,000. Ei threfniant gwladol yw gwerinlywodraeth. Yr holl wrywiaid, un-ar-hugain oed ac uchod, a bleidleisiant yn newisiad y senedd. Etholir hanner yr aelodau bob dwy flynedd. Gall unrhyw ddinesydd gael ei ddewis wedi pasio pump-ar-hugain. Rhifedi yr holl aelodau yw 274. O'u plith eu hunain y mae y senedd yn dewis tri-ar-ddeg o bersonau i fod yn Gynghor llywodraethol, neu Weinidogion y llywodraeth, o ba rai y mae y senedd hefyd, bob blwyddyn, yn dewis dau swyddog, a elwir *Syndics*, un i fod yn Llywydd y Cynghor, a'r llall yn Is-lywydd. Y ddau *Syndic*, yn nghyd a'r ddau am y flwyddyn o'r blaen, a fiurfiant gyfeisteddfod gweithiol y Cynghor llywodraethol.

Y drefn eglwysig sydd fath o Henaduriaeth. Ond y mae ynddi un diffyg hanfodol, trwy na oddefir yr egwyddor o gynnrychioliad i weithredu yn yr eglwys fel y mae yn y wladwriaeth. Yr awdurdod a ymddiriedwyd i ddwy gymdeithas, y rhai nid ydynt o ddewisiad yr eglwysi, sef y *Venerable Company* a'r *Consistory*. Nid oes neb yn perthyn i'r *Venerable Company*, ond gweinidogion yn unig. Eu rhifedi yn bresennol yw 51. O'r nifer yma, y mae 24 yn perthyn i'r dref a 27 i'r wlad oddi amgylch. Cynnelir eu cyfarfodydd yn wythnosol, a llywyddir hwynt gan gymedrolwr o'u plith eu hunain. Eu gwaith yw arolygu yr achos crefyddol yn ei holl ranau, penderfynu ar dderbyniad ymgeiswyr i'r weinidogaeth, a chynnyg i'r *Consistory* y rheolau a'r cyfnewidiadau hyny a farnont yn anghenrheidiol.

Y *Consistory* a gyfansoddir o weinidogion a llyegion. Rhifedi y gweinidogion yw 15, y rhai a ddewisir o'u plith eu hunain gan y *Venerable Company*. Rhifedi y gwŷr llëyg yw 24, y rhai a ddewisir gan y Protestaniaid sydd yn aelodau o'r cynghorfeydd bwrdeisiol. Etholir

y drydedd ran bob dwy flynedd. Cynnaliant eu cyfarfodydd yn wythnosol. Ar ol gofyn barn y *Company*, gallant ffurfio rheolau mewn achosion eglwysig, a sefydlu terfynau plwyfydd. Gallant hefyd ger- yddu, attal, neu ail-osod gweinidogion. Ond y mae holl benderfyn- iadau y *Company* a'r *Consistory*, yn enwedig o berthynas i ddewisiad gweinidogion ac athrawon duwinyddol, i fod yn ddarostyngedig i farn y Cynghor Llywodraethol.

Y mae hyn o hanes yn dangos fod beiau gwreiddiol yn nghyfansoddi- ad eglwysig Geneva. Tystiolaeth Dr. Heugh ar y mater sydd fel y canlyn:—"Y *Consistory*, i raddau helaeth, sydd gorff gwladol. Nid oes un darpariaeth am i'r aelodau llëyg fod yn ddynion crefyddol. Y cynghor llywodraethol, heb ganiatâd pa un ni all y *Company* na'r *Consistory* gyflawni dim, sydd yn hollol yn gorff gwladol, a'i aelodau nid ydynt o anghenrheidrwydd yn Brotestaniaid hyd yn nod mewn enw. Y mae eglwys Geneva fel hyn yn hollol wrth drugaredd y wladwriaeth; ac os oes perygl yn narostyngiad hollol yr eglwys i'r byd, y mae eglwys Geneva yn y sefyllfa fwyaf annymunol." Yr ydym yn cael hefyd fod Pabyddiaeth yn sefydledig, ac yn cael ei chynnal gan y llywodraeth. Y mae un *curé* a thri *vicar* yn perthyn i blwyf Geneva, a dim llai nag un-ar-hugain o weinidogion Pabaidd yn yr holl dalaeth.

Ond y mae yn bryd i ni gymeryd golwg ar hanes y cyfnewidiadau crefyddol yr aeth Geneva trwyddynt. Sonir weithiau gan brydyddion ac areithwyr am allu i ddifodi amser a lle. Pe meddem y gallu hwn, ni a gymerem y darlennydd yn ol i'r amser yr oedd Calfin yn taranu yn Geneva nes oedd coelgrefyddau Ewrob yn siglo hyd ei sylfeini. Nid rhyfedd fod Baptist Noel yn dyweyd:—*

Oh! for an hour of Luther now!
Oh! for a frown of Calvin's brow!
Once they broke the Papal chain—
Who shall break it now again?

Gan mai dysgyblion Calfin oedd y Puritaniaid, y rhai a fuant yn offerynau penaf yn y deyrnas hon i gadw yn fyw grefydd efengylaidd, nid oes neb wedi bod yn wrthddrych mwy o ragfarn nag ef oddiwrth fân- wawdwyr a rhith-wybedyddion. Ond y mae pob dyn gwir fawr, beth bynag fyddo ei farn bersonol, megys Hooker a Horsley, yn ei gydnabod fel un o'r ysgrifenyddwyr galluocaf a ymddangosodd mewn un oes. Os oedd Luther, fel Pedr, yn rhagori mewn parodrwydd a brwdfrydedd; ac os

oedd Melanethon yn meddu ar gariad Ioan ; nid gormod yw dyweyd, heb un amcan i godi y naill yn uwch na'r llall, mai Calfin oedd y tebycaf i Paul, o ran grymusder ac eangder ei feddwl, yn nghyd a helaethrwydd ei lafur, yn gystal ag amser ei ymddangosiad ar faes y diwygiad.

Pan oedd yn chwecch-ar-hugain oed, cyfansoddodd ei gorff o Dduwin-yddiaeth, ac ni orphwysodd nes ysgrifenu naw cyf-lyfr unplyg, y rhai ydynt oll yn dangos manylrwydd iaith a threiddgarweh meddwl.* Sefydlodd athrofa, i ba un yr ymgasglai ieuenetid Protestanaidd o bob gwlad. Cynnaliai ohebiaeth barhaus â'r holl ddiwygwyr enwocaf, a threuliai ei nerth allan mewn llafur cartrefol. Bu farw yn 55ain oed, yn y flwyddyn 1564.

Yr athrofa, a gofal yr achos crefyddol yn gyffredinol, a ymddiriedwyd ar ol hyny i Beza, yr hwn oedd ŵr dysgodedig a duwiol, ac yn esboniwr medrus. Dilynwyd ef gan rês o weinidogion enwog, ac y mae yn ymddangos fod gwir grefydd weli ffynu yn Geneva am fwy na chan' mlynedd ar ol marwolaeth Calfin. Yn yr ysbaid hyny, er ei bod yn fechan mewn maintioli, yr oedd ei dylanwad yn fawr. D'Aubigné a ddywed, "Y mae Duw wedi rhoddi i bob gwlad ei gwaith priodol. Gwaith Geneva oedd y Diwygiad. Hyn a ryddhaodd ein dinas. Hyn a roddodd enaid mawr mewn corff bychan, ac a nerthodd ein talaeth i wrthsefyll gelynyion cryfion. Hyn a roddodd arfau i'n llywodraeth, trwy ba rai, er ei bod wedi ei chau o fewn terfynau cyfyng, y parodd deimlo ei dylanwad yn Switzerland, yn Ffrainc, yn Germany, yn Holland, yn Lloegr, yn Scotland, yn yr holl Ogledd, ac hyd yn nod yn y byd newydd. Y Diwygiad oedd Geneva."†

Ond ar ol llanw mawr y Diwygiad, aeth yn drai dros wnech y ddaear. Yn nechreu y ganrif ddiweddaf, pan oedd diffirwythdra wedi ymdaenu dros yr holl wledydd, pan oedd cyfeiliornadau dinystriol yn dringo i'r eglwys, a'r eglwysi o ganlyniad yn gwywo ac yn darfod, yr ydym yn cael fod eglwys Geneva wedi cyfranogi yn helaeth o'r un ysbryd gwrth-giliedig. Y mae Dr. Heugh yn olrhain adfeiliad yr eglwys hon i bedwar o achosion ; ac nid cyfiawn fyddai myned hoibio i faterion, y rhai a ystyria efe mor bwysig, heb eu gosod ger bron y Cymry.

1. Fod yr holl drigolion yn cael eu hystyried yn Gristionogion cyn eu gwneuthur felly mewn gwirionedd. Yr oedd y terfyn yn rhy isel rhwng y byd a'r eglwys.

* Y mae ei holl waith yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg gan y *Calvin Translation Society*.

† *D'Aubigne, La Question de L'Eglise*, tudal. 5.

2. Yr oedd rhy fach o awdurdod yn nwyllaw yr aelodau. Yma gallem sylwi, rhag i neb gamddeall yr awdur, fod yr awdurdod sydd yn perthyn i'r aelodau yn eglwys Dr. Heugh ei hun yn llawer llai nag a feldiennir yn gyffredin gan eglwysi Cymru. Nid oes ganddynt ond ychydig neu ddim i'w wneyd yn mysg y *Seceders* hoblaw dewis y swyddogion. Ond ni chaent gymaint â hyn, ac o ganlyniad ni feddent *ddim* awdurdod yn Geneva.

3. Undeb yr eglwys â'r wladwriaeth. Gorfodir y bobl i gymeryd y gweinidogion a welo y swyddogion gwladol yn oreu, a gorfodir hwynt i'w cynnal trwy rym cyfraith.

4. Ni chaniateid rhyddid cydwybod. Ni oddefid Pabyddiaeth, a chyhoeddwyd dedfryd o alltudiaeth ar bawb a ddysgent egwyddorion yr Ail-fedyddwyr.

Hyn yn fyr yw sylwedd y pedwar peth a rydd yr awdur fel achosion y dirywiad. Mor bell ag y mae yn myned, tueddir ni i feddwl fod ei olygiad yn lled gywir. Ond ar yr un pryd dylid cofio yn barhaus fod yr achos penaf yn ddyfnach na dim a grybwyllir ganddo ef, yn llygredigaeth y natur ddynol, y galon ddrwg anghrediniaeth yn ymadaw â'r Duw byw. Diammheu fod yr achosion a nodwyd yn rhoddi mantais i'r llygredigaeth weithredu, ac yn rhwystr drachefn ar ffordd y Diwygiad; ond y mae yn wirionedd fod eglwysi, yn mha rai nid oedd y beiau uchod yn weledig, wedi ymlygru yn drwyadl. Ac am hyn byddai yn dda i holl eglwysi Cymru yn y dyddiau hyn ystyried cynghor yr apostol, "Na fydd uchelfryd, eithr ofna."

Yn Geneva y dechreuodd y dirywiad yn raddol. Tua dechreu y ganrif ddiweddaf newidiwyd y dull o brofi yr ymgeiswyr ar eu derbyn- iad i'r weinidogaeth. Yn lle eu holi yn fanwl am eu hegwyddorion, penderfynwyd na roddid ger eu bron ond un gofyniad, sef, "A ydych yn addaw cadw at athrawiaeth y prophwydi a'r apostolion, fel ei cynnwysir yn yr Hen Destament a'r Newydd, o ba un y mae genym dal- fryiad yn ein catecism?" Y cam nesaf oedd newid y catecism. Ail- gyfansoddwyd ef, a gadawyd allan yn llwyr holl bynciau hanfodol Cristionogaeth. Er anghraifft, cymerer y gofyniad a'r atebiad a ganlyn fel y maent yn y catecism newydd. "Pa fodd y mae Iesu wedi ein gwaredu oddiwrth ein pechodau?—1. Trwy gyhoeddi a chadarnhau i ni, trwy ei farwolaeth, faddeuant o'n pechodau, ar yr ammod o edifeir- weh; 2. Trwy gynnyg i ni, yn ei athrawiaeth, yn ei esiampl, ac yn nghynnorthwyon yr Ysbryd Sanctaidd, foddion i'n sancteiddio ac i

haeddu iachawdwriaeth." Ond nid oedd y newidiadau hyn yn ddigon. Aethant o'r diwedd mor hyfion, fel y mynasant gyfieithiad newydd o'r Bibl, yr hwn nid yw yn fawr angen na'r cyfieithiad Sosinaidd yn y wlad hon; a dyma y Bibl a arferir yn bresennol yn eglwys wladol Geneva. "Pa fodd y tywyllodd yr aur; y newidiodd yr aur coeth da?"

Un o'r dulliau yr ymddangosodd y dirywiad hwn oedd eiddigedd dros ryddid; ac un o effeithiau y rhyddid hwnw oedd erlid pawb nad oedd yn foddolawn i newid ei farn yr un ffordd â'r Cyngor llywodraethol. Na feddylid neb ein bod yn gwrthwnebu rhyddid. Un o ddybenion ein cyhoeddiad yw ei bleidio, a bwriadwn wneuthur hyn yn ffyddlaw a didwyll. Ond nis gallwn lai na fficiddio pob rhagrith. Yr ydym yn dewis i bawb fwynhau rhyddid yn ddiwahaniaeth, a'i fwynhau hefyd i'r graddau eithaf ag y mae yn ddichonadwy meddwl am llano. Ac o ganlyniad, yr ydym yn rhwym o anghymeradwyo ymddygiad y bobl hyny sydd mor hoff o ryddid, nes y dymument gadw y cwbl iddynt eu hunain. Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn cyfeirio at enwadau neillduol. Y mae gormod o hyn yn mysg pob enwad. Ond i ddychwelyd at hanes Geneva—Yn y flwyddyn 1817, cyhoeddwyd deddf yn gwahardd pregethu ar ddwyfoldeb Person y Cyfryngwr, ar bechod gwreiddiol, ar ras effeithiol, ac ar etholedigaeth. Un o'r rhai cyntaf yr ymaflodd y ddysgyblaeth ynddynt, oedd yr enwog Cæsar Malan. Derbyniasid ef yn weinidog yn 1814, ond ni wyddai am allu achubol y gwirionedd, hyd ddiwedd 1815. Yn mis Mawrth, 1817, traddododd bregeth, yr hon a barodd dramgwydd dirfawr i'w wrandawyr, ac yn mhen deuddydd, cafodd orchymyn oddiwrth yr awdurdodau goruchel yn ei rybuddio i beidio pregethu y fath athrawiaeth gyfeiliornus. Ar ol llawer o fygythion ar un llaw, a gwrolder anmhlygadwy ar y llaw arall, diarddelwyd ef yn hollol yn mis Awst, 1818. Cyn diwedd yr un flwyddyn, cymerwyd oddiarno ei swydd fel Athraw yn y Coleg; a'r rheswm a roddid dros hyny oedd, ei fod yn defnyddio y Bibl, yn lle cyfyngu ei hun at y catecism, wrth roddi addysg grefyddol i'r ysgolheigion.

Ond yr hyn a fwriadwyd gan ddynion i ddifodi crefydd ysbrydol, a oruwch-lywodraethwyd gan Dduw i fod yn foddion diwygiad. Parhaodd Malan i bregethu y tuallan i'r ddinas, a bernir fod rhai cannoedd wedi eu hargyhoeddi trwy ei weinidogaeth. Bu ei ysgrifeniadau hefyd, a'i ymddyddanion ar ei deithiau trwy wahanol wledydd yn dra bendithiol. Yr Arglwydd a'i cynnalio ac a'i cysuro yn awr yn ei hen ddyddiau. Mewn cysylltiad â'r diwygiad hwn, y mae yn hyfryd genym

goffâu enw y diweddar Mr. Robert Haldane, boneddwr duwiol o Scotland, perthynol i'r Bedyddwyr, ac awdur esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid. Ymwelodd â Geneva yn 1816, yn fuan wedi i Malan ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd, ac ni a roddwn yr hanes yn ei ciriau ef ei hun, gan obeithio y bydd eu darllen yn foddion i godi yr un ysbryd mewn llawer yn Nghymru. Gwedi son am yr anhawsderau a gyfarfu ar y cyntaf, y mae yn myned rhagddo fel hyn:—"Gan nad oeddwn yn gwybod am neb arall a pha un y gallaswn ymddyddan am yr efengyl, penderfynais ymadael â Geneva yn ddiwed, a myned i Montauban. Ond y mae yr Arglwydd yn gweled yn dda yn fynych i oruwch-lywodraethu ein hamecanion trwy ddygwyddiadau, y rhai ynddynt eu hunain a ymddangosant yn fychain, ac felly i ddwyn allan ganlyniadau na allesid eu dysgwyl. Yr oedd M. Moulinie yn garedig wedi cynnyg cymeryd Mrs. Haldane i weled darlun o'r mynyddoedd ychydig allan o'r dref, ac i'r perwyl hwn wedi addaw galw gyda ni y dydd canlynol. Yn y boreu, pa fodd bynag, derbyniasom lythyr oddiwrtho yn dyweyd ei fod wedi dyoddef oddiwrth gŵr yn ei ben drwy y nos, ac na allai ddyfod ei hun, ond ei fod wedi anfon gwr ieuane, yr hwn oedd ysgolhaig duwinyddol, i fod yn arweinydd i ni. Yr amgylchiad hwn a achosodd fy arosiad yn Geneva, yr hwn le yr oeddwn yn myned i'w adael. Gyda'r dysgybl hwn dechreuais ymddyddan am yr efengyl, o'r hon y cefais ef yn hollol anwybodus, er ei fod mewn agwedd meddwl oedd yn dangos parodrwydd i dderbyn addysg. Dychwelodd gyda mi i'r gwesty, ac arosodd nes yr oedd yn llawer o'r nos. Boreu dranoeth, daeth ef ac ysgolhaig arall, yr hwn oedd mor dywyll ag yntau. Holais hwynt am eu gobaith personol o iachawdwriaeth, a sylfaen y gobaith hwnw. Pe dygasid hwy i fynu yn ysgolion Socrates a Plato, heb fwynhau dim moddion addysg ond hyny, nis gallasent fod nemawr tywyllach am athrawiaethau yr efengyl. Y ddau yr ymddyddenais â hwynt a ddygasant chwech eraill yn yr un agwedd meddwl â hwy eu hunain, gyda pha rai y cefais lawer o ymddyddanion meithion. Ymwelent â mi mor fynych, ac ar oriau mor wahanol, fel y gofynais iddynt ymgynnull ar yr un amser, a threfnwyd iddynt ddyfod dair gwaith yn yr wythnos, o chwech hyd wyth o'r gloch yn y pryduawn. Rhoddai hyn amser i mi ymddyddan ag eraill, y rhai o herwydd adroddiad yr ysgolheigion, a ddechreusant ymweled â mi, yn nghyd a hamdden i barotoi yr hyn a allai fod yn fuddiol er addysg iddynt. Cymerais yr epistol at y Rhufeiniaid fel mater, a pharheais i

esbonio y rhan hyny o'r Ysgrhythyr trwy y gauaf, ac i alw eu sylw at yr athrawiaethau mawrion a ddatguddir ynddo."

Aeth y gwaith da rhagddo, a chynnyddodd gelyniaeth yr eglwys wladol. Yn 1831, diarddelwyd Dr. Gausson, ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth ef a'i frodyr oedd ymfurfio yn gymdeithas, dan yr enw "Cymdeithas Efengylaidd Geneva." Y gweinidog hwn yw awdur un o'r llyfrau goreu ar ddwyfoldeb yr Ysgrhythyrau. Pan wahanwyd Belgium oddiwrtl Holland, dychwelodd Dr. D'Aubigné o Brussels, lle yr oedd wedi bod yn *chaplain* i'r brenin, a chysegrodd ei holl egni i gynnorthwyo ei frodyr yn Geneva. Dywedai un newyddiadur Saesneg yn ddiweddar am D'Aubigné, mai efe yw y duwinydd mwyaf adnabyddus yn yr holl fyd y dyddiau hyn, oddigerth Dr. Chalmers. Ei brif waith yw hanes y diwygiad Protestanaidd, o ba un y mae amryw gyfieithiadau wedi ymddangos yn Saesneg.

Nid hir y bu y Gymdeithas Efengylaidd yn Geneva cyn sefydlu Athrofa, yr hon sydd wedi bod yn llwyddiannus tuhwnt i bob dysgwyliaid. Yr athraw duwinyddol yw Dr. Gausset, yr athraw mewn hanesyddiaeth eglwysig yw Dr. D'Aubigné, rhoddir darlithoedd ar y Testament Newydd gan M. Pilet, ac ar yr Hen Destament gan M. La Harpe. Y maent hefyd wedi codi addoldy hardd a helaeth o fewn y ddinas, a chyhoeddasant yn ddiweddar yn y *Semur*, eu bod yn bwriadu gwneyd symudiad newydd yn fuan o blaid yr egwyddor wirfoddol. Y maent hefyd yn cynnal pedwar ugain o genadau y rhai ydynt yn llafurio gan mwyaf yn Ffrainc. Wrth ysgrifenu y brawddegau hyn, nis gallwn lai na chywilyddio dros ein cenedl. Dyma ddyrnaid o grefyddwyr yn Geneva yn cynnal athrofa anrhydeddus, yn yr hon y mae pedwar o athrawon, ac yn anfon allan bedwar-ugain o genadau. Pe disgynai yr un ysbryd ar Gymru, byddai yr athrofeydd yn fuan yn llawnion, ac anfonid cannoedd o genadau i lafurio yn y gororau tywyll rhwng Cymru a Lloegr. Hyn a fyddai yn ddiwygiad! Ond y mae yn gysur gweled diwygiad yn rhyw barth o'r byd. Os yw gau-grefyddau yn ymgyrthau, nid oes achos digaloni; y mae mwy o wir grefydd yn y byd, nag a welwyd erioed o'r blaen, ac y mae arwyddion amlwg hefyd ei bod yn myned yn gyflym ar gynnydd. Os oes miloedd yn Lloegr yn troi yn Buseyaid, a'r Puseyaid yn troi yn Babyddion, y mae baner y diwygiad ar y maes hefyd, ac y mae yn gweddu i Brotestaniaid cywir o bob enwad a phob gwlad ddyfod i adnabod eu gilydd yn well, a nesu mwy at eu gilydd.

MERCHED CYMRU.*

[Adolygiad ar "FY CHWAER;" sef COFIANT MISS JONES, Cefn-y-gader.]

Y MAE llawer o ddaioni yn y byd wedi'r cwbl. Cyfaddasiad i roddi neu i dderbyn daioni yw pob cyfaddasiad o fewn y greadigaeth. Y mae pob aelod, pob gallu, pob cynneddf i bob creadur wedi eu cymhwyso i weinyddu neu i fwynhau dedwyddwch. Nid wrth fesur y mae Duw wedi taenu ei ddaioni dros y byd. Y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd; ac nid digon, a dim ond hyny, yw rheol trugaredd. Y mae yr holl greadigaeth wedi ei gorlenwi â daioni. Edrychwch ar y pysg yn yr afonydd, yr adar yn yr awyr, a'r anifeiliaid yn y meusydd, y maent yn chwareu fel pe byddai eu dedwyddwch yn fwy nag y medrant ei gynnwys. Hyd yn nod pethau difwyd a ymddangosant fel pe byddent yn mwynhau hyfrydwch yn hyfrydwch dyn. Y mae dyn yn medru eu personoli a'u cynnysgaethu â theimladau eneidiol. Y mae pob peth yn cael enaid yn ei enaid ef i weled a theimlo a chydabod daioni Duw. Nid yw y cyrff nefol a choed y ddaear ond pethau difwyd ynddynt eu hunain; ond pan y mae dyn yn edrych arnynt, y mae coed y maes yn euro dwylaw wrth ganu clod eu Crëwr; y mae dydd a nos yn traethu ymadrodd ac yn dangos gwybodaeth, ac y mae yr haul fel gwr priod yn dyfod allan o'i ystafell, ac yn ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa.

Tuedd yr oes hon yw mesur a phwyso pob peth, ac yn ol ei faint a'i bwysau corfforol y bernir ei werth. Ac mor bell ag y mae y byd yn gynnwysedig o bridd a choed a cheryg, nid oes dim na fedrid ei fesur a'i bwysu i'r manylrwydd mwyaf, a dyweyd ei werth hefyd mewn arian i'r filfed ran o ffyrlling. Ond ar ol gorphen y gwaith hwn, y mae yr elfenau penaf, y rhanau gwerthfawrocaf, wedi eu gadael allan o'r cyfrif, sef, y dedwyddwch y mae meddwl dyn yn ei lewyrchu ar y cwbl, ac yn ei dderbyn oddiwrth y cwbl. Sefwch ar ben un o fryniau Cymru, ac edrychwch ar y dyffrynoedd ffrwythlawn oddiamgylch, gellwch fesur

* O'r "TRAETHODYDD," am 1845.

eu hyd a'u lled, a phenderfynu gwerth arianol pob tyddyn o'u mewn; ond attolwg, a fedrwech chwi gyfrif pa sawl ounce o brydferthwech sydd yn yr olygfa, neu pa sawl ceiniogwerth o hyfrydwech a ddeillia i'r meddwl oddiwrthi? Os yw hyn yn orchwyl rhy anhawdd, ni a ddeuwn yn nes atoch. A fedrwech chwi fesur harddwech y rhosyn, neu bwysu prydfferthwech y lili? Na! dyma ormod gwaith i holl rifyddwyr y byd. Gallant fesur y ffordd oddiyma i'r haul, gallant ddyweyd pa faint yw pwysau Jupiter; ond nis gallant gyfrif pa faint o ddefnydd dedwyddwech sydd mewn un blodeuyn.

Ond y lle y mae mwyaf o ddaioni rhagluniaeth i'w weled a'i fwynhau yn y fuchedd hon yw y teulu crefyddol. Y cwlwm cadarnaf a fedd natur yw serch teuluaid, a phan ddelo y dyn yn ddigon caled i dori y cwlwm hwn y mae yn barod i gyflawni pob drwg; ac os byth yr â trugaredd i ymofyn am dano yn ei gyflwr gwrthgiledig, ond odid nad mewn rhyw weddillion o'r rhwymyn hwn, rhyw adgofion am hen deimladau teuluaid, yr ymeiff y gwirionedd dwyfol i arwain ei feddwl at y Gwaredwr. Yn y cylch teuluaid y mae pob cysur creadigol yn cydgyfarfod. Yma y gwelir y daioni naturiol a'r daioni moesol mwyaf digymysg a fedd natur. Yma y gwelir y fath beth hyfryd yw cariad. Yma y gwelir caredigrwydd heb un gradd o hunan-elw yn ddyben. Yma y gwelir plant yn anrhydeddu ac yn gwasanaethu eu rhieni oddiar gariad atynt, ac yn gwneuthur cymwynasau i'w gilydd heb ddim rhagrith.

Ond ar yr un pryd, pa gysur sydd mewn teulu oni fydd merch yn ei fywiogi a'i phresennoldeb, ac yn taenu drosto a'i hyfryd wedd ryw siriol swyn. Yr oedd ei chyfeillach hi yn annheggorol eyn y gallasai dyn fod yn ddedwydd hyd yn nod yn ei gyflwr paradwysaidd. O'r ewbl a feddai y greadigaeth, hyn oedd ei ddedwyddwech penaf, a hyn oedd yn ei alluogi i gyflawn fwynhau pob dedwyddwech arall. Pan y mae Dafydd, yn ei alarnad am Saul a Jonathan, yn ewyllysio desgrifio cariad mwy na chyffredin, y mae yn ei gyffelybu i "gariad gwragedd." Pan oedd ein Iachawdwr yn y byd, yr oedd gwragedd duwiol yn ei ganlyn yn ei deithiau, "y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt." A phan oedd yn ei ing olaf ar y groes, "yr oedd yno lawer o wragedd yn edrych o hirbell, y rhai a ganlynasant yr Iesu o Galilea, gan weini iddo ef." Yr oedd un hen Gristion gloyw yn Sir Feirionydd yn arfer dyweyd y diolchai yn wresog iddynt os cai fyned i'r nefoedd, fel y mae yn ddian ei fod wedi myned er ys blyneddoedd. Ac yn wir, braidd

na theimlem yr un duedd yn llanw ein meddwl ninnau y fynydd hon. Diolch i chwi, wragedd hynaws, am eich caredigrwydd i'n Iesu mawr. Diammheu nad oedd yr Iesu ei hun yn annioleghgar iddynt, nac yn ddideimlad o ddylanwad hyfrydol eu cymdeithas. Yr oedd un teulu, yn enwedig, mewn pentref tawel naill du i fynydd yr Olewydd, lle y byddai yn arfer myned i gael gorphwysfa a chysur i'w ysbryd lluddedig—"A hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus." Nis gallwn lai na meddwl yn fynych am y teulu tirion yn Bethania, wrth fwynhau y gymdeithas deuluaid mewn llawer man rhwng mynydd-oedd Cymru.

Pa beth yn fwyaf arbenig sydd yn anghenrheidiol i gyfansoddi rhagoroldeb meddwl yn y rhyw fenywaidd? Ni a feddyliem mai yr un peth ag sydd yn cyfansoddi eu rhagoroldeb allanol, sef prydfferthwch. Ni ddysgwylir i fereh ragori mewn cryfder corfforol, ac yn yr un modd, ni fwriadwyd iddi ragori mewn cryfder meddwl. Ond os ydym yn dewis gweled prydfferthwch meddwl mewn perffeithrwydd, yn y rhyw fenywaidd y mae i ni edrych am dano. Nid yw athronyddion hyd yn hyn wedi medru cyd-olygu yn mha beth y mae prydfferthwch allanol yn gynnwysedig. Os yw ein cyfeillesau prydweddol yn teimlo dyddordeb yn y mater, gallant ddarllen traethawd Burke "*On the sublime and beautiful*," neu erthygl arglwydd Jeffrey yn yr "*Encyclopædia Britannica*." Ond am yr hyn sydd yn cyfansoddi prydfferthwch tu-fewnol, nid rhaid i neb fod mewn ammhueaeth. Y mae yr Ysbryd Glân wedi gofalu am roddi disgrifiad manwl o hono yn y Bibl: "Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blethiad gwallt, ac amgylchosodiad aur, neu wisgad dillad; eithr bydded cuddiedig ddyn y galon mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr." Nid ydym ni, a diammheu genym nad oedd yr apostol yn dymuno iddynt fod yn gwaceriaid o ran eu gwisgoedd. Dylent fod yn brydfferth oddi allan yn gystal ag oddi mewn. Ond ar yr un pryd ni ddichon fod prydfferthwch, yn allanol nac yn dufewnol, heb symledd (*simplicity*). Y wisg fwyaf syml yw y wisg brydfferthaf, a'r meddwl mwyaf syml yw y meddwl prydfferthaf. Uwchlaw pob peth, anwyl gyfeillesau, na chynnygiwch baentio eich meddyliau mwy na'ch gwynebau. Bydded eich holl brydfferthwch yn gyfargraff o guddiedig ddyn y galon.

Un o'r moddion a effeithiodd fwyaf er gwareddio y byd yw dylanwad y rhyw fenywaidd; a'r hyn a roddodd iddynt y dylanwad hwn, ac a'u

dyrchafodd i'w lle priodol mewn cymdeithas, yw y grefydd Gristionogol. Yn yr holl wledydd Paganauidd, nid oedd ac nid yw y rhan brydweddol o ddynolryw ddim amgen na chaeth-forwynion. Ond y mae Cristionogaeth nid yn unig wedi eu rhyddhau o'u caethiwed, ond wedi eu defnyddio i feithrin egwyddorion rhyddid a moesgarwch yn y gwyr. Pell oddiwrthym, ferched hawddgar Cymru, fyddo dyweyd gair yn erbyn eich dylanwad. I'r gwrthwyneb, teimlwn ein hunain yn rhwym o'i amddiffyn a'n holl egui, a'i wneuthur hyd y gallom yn fwy cyffredinol; ac i'r dyben hyny, caniatewch i ni ddyweyd gair neu ddau wrthych yn gyfrinachol. Os ydych yn dewis i'ch dylanwad fod yn effeithiol, rhaid i chi ofalu na fyddoch mewn un modd yn peri i neb ei deimlo. Meddyliwch am y frenines Victoria; y mae ei gorsedd yn llawer cadarnach na phe buasai yn umbenaeth benarglwyddiaethol. A'r achos o hyny yw, ei bod hi ei hun yn ymgadw o'r golwg yn ngweinyddiad y llywodraeth. Ei gweinidogion sydd yn gweithredu, a hwy sydd yn gyfrifol, tra y mae hi yn aros yn guddiedig o fewn terfynau deddf y cyfansoddiad gwladol; ac o ganlyniad, y mae holl gadernid cyfansoddiad y deyrnas yn amddiffyniad i'w gorsedd. Felly am danoch elwithau; yr ydym yn eithaf ewyllysgar i chi fod yn freninesau, ond hyderwn na ystyriwch ni yn euog o deyrnfradwriaeth os dywedwn y dylech fod yn ofalus i ymgadw o fewn terfynau y deddfau sydd yn hanfodol i'ch llywodraeth. Un o'r deddfau hyny yw gwylder. Dyma y lle y mae cuddiad eich cryfder; a thra yr aroswech o fewn y terfynau hyn, eich dylanwad a dreiddia drwy feddyliau, ac a effeithia ar ymddygiadau pawb a ddeuant o fewn cylech eich cymdeithas.

Un o brif bechodau yr oes, un o arwyddion amlycaf yr amserau, yn Nghymru y dyddiau hyn, yw diffyg o deimlad haelionus at achos yr Arglwydd Iesu. Yn ngwyneb cysgadrwydd a diffirwythdra ein cenedl, at bwy y trown ond at y rhai sydd wedi arfer gweini mor ewyllysgar i'r Gwaredwr o'r dechreuad. Pe dygai merched y dywysogaeth eu galluoedd i bleidio y grefydd hono, oddiwrth ba un y derbyniasant eu dylanwad, buan y gwelid bywyd newydd yn ein holl gymdeithasau crefyddol. Rhoddai hyn iddynt destunau buddiol i ymddyddan am danynt yn eu cyfarfodydd teuluaidd, yn lle dyfynio beiau eu cymydogion. Cynnyddai eu cariad at Grist trwy ei roddi mewn ymarferiad; a chaent wybod yn fuan, trwy dderbyn arwyddion o'i foddlonrwydd, nad yw efe yn ddisylw yn y nef, mwy na phan oedd ar y ddaear, o'r caridigrwydd lleiaf a ddangosir ato ef a'i waith.

Hyd yn ddiweddar, nid oedd ond ychydig o hyfforddiad neillduol wedi ei roddi i ferched trwy y wasg Gymreig, ac nid oedd ond ychydig o sylw mewn un modd wedi ei gymeryd o honynt. Ond y mae Cofiant Miss Jones, o'r Wyddgrug, wedi gwneuthur llawer at lenwi y diffyg. Yr oedd gwrthddrych y cofiant hwn yn un o'r merched goreu a fagodd Cymru; a diammheu genym yr addefa pawb a'i darlleso, fod yr awdur yn un o'r ysgrifenyddwyr goreu. Buasai yn ddywentydd genym addurno ein tudalenau â darnau helaeth o'r llyfr, oni bae ein bod yn hyderu y bydd yn fuan, os nad yw, yn nwyllaw ein holl ddarllenwyr. Cawn yma olwg ar deulu dedwydd, "yr hwn yr oedd ei wreiddyn yn ymdaenu wrth y dyfroedd, a'r gwllith yn aros ar hyd y nos ar ei frig." Cawn olwg hefyd ar brofedigaethau teuluaid, na chyfarfyddir yn fynych a'u cyffelyb; ond nid yw hyn yn lleihau dim ar ddaioni rhagluniaeth. Rhaid cael y *shades* i wneyd y darlun yn berffaith, ac y mae trugaredd wedi addaw troi yr holl gystuddiau yn fendithion.

Nid oes dim yn ein taraw yn rymusach wrth ddarllen y cofiant hwn na'r parch oedd gan Miss Jones i weinidogaeth yr efengyl. Y pregethau a wrandawai oedd sylwedd llawer o'i llythyrau. Nid gwrandaw yn unig i feirniadu oedd ei gwaith; ond gwrandaw i gredu a chofio, i fyw ar y gair, a byw yn ol y gair. Y mae hyn yn cadarnhau y dywediad, mai y gwrandawyr callaf yw y gwrandawyr hynawsaf. Ar yr un pryd byddai yn burion i bregethwyr ystyried fod llawer cristion dystaw, anamlwg, yn meddu mwy o synwyr na nifer mawr o'r rhai sydd yn esgyn i'r areithfaoedd. Ond nid un o'r rhai callaf yn unig oedd Miss Jones; yr oedd hefyd yn rhagori mewn ysbrydolrwydd; ac y mae yn anhawdd darllen ei llythyrau heb ddyrchafu dymuniadau aml i'r nefoedd am gynnydd mewn crefydd ysbrydol, y grefydd hono sydd yn deillio oddiwrth Ysbryd Duw, yn sancteiddio ysbryd dyn, ac yn effeithio ar ei holl ymarweddiad.

Ond nid yw hyn ond ychydig gasgliadau allan o lawer. Y mae yr holl lyfr yn llawn o addysgiadau; a'r unig amheuaeth sydd ar ein meddwl wrth ei adael yw, na ddarfu i ni roddi iddo y ganmoliaeth sydd yn gweddu i'w deilyngdod.

YR EGLWYS RYDD.*

NID oes un dygwyddiad yn yr oesoedd diweddaf wedi tynu cymaint o sylw Cristionogion yn mhob gwlad ag ymneillduad yr Eglwys Rydd yn Scotland. Yr oedd yn dro na welwyd ei fath er dyddiau yr hen Anghydfurfwyr yn Lloegr; ac mewn cymhariaeth i rifedi y trigolion, yr oedd yr ymneillduad yn Scotland yn fwy cyflawn ac effeithiol. Yr oedd y dynion blaenaf yn yr Eglwys Rydd hefyd yn adnabyddus yn yr holl fyd trwy eu hysgrifeniadau. Pan oedd esgob Llundain ac eraill yn chwilio am yr awdwyr goreu i ysgrifenu y llyfrau a elwir "*Bridgewater Treatises*," y rhan dduwinyddol o'r cyfansoddiadau hyny a ymddiriedwyd i Dr. Chalmers. Pan oedd Eglwys Loegr yn sefyll mewn anghen am ryw amddiffynwr galluocach na chyffredin i ddadleu o blaid yr undeb rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth, at Dr. Chalmers yr aethant i ofyn cynnorthwy. Ond wele Dr. Chalmers ei hun erbyn hyn yn ymneillduwr. Ychydig cyn yr ymraniad, Syr George Sinclair, un o wrthwynebwyr yr Eglwys Rydd, wrth ysgrifenu at Iarll Aberdeen, i'w rybuddio o'r perygl, a arferai y geiriau hyn, "Pa le bynag y byddo Dr. Chalmers, yno y bydd Eglwys Scotland."

Mewn gwledydd tramor y mae yr Eglwys Rydd wedi derbyn cymeradwyaeth cyffredinol. Ond rhaid addefnad yw yr ymddygiad tuag ati oddiwrth lawer yn y deyrnas hon wedi bod mor deilwng ag y buasai dymunol. Nid oes nemawr fai nad yw yn euog o hono yn ngolwg y naill blaid neu'r llall. Yr achwyniad a ddygir yn ei herbyn gan y Toriaid yw, ei bod yn codi yn erbyn y llywodraeth; a rhoddir hyn yn esgus gan lawer dros beidio caniatâu lle i'w chynnulleidfaoedd i adeiladu addoldai. Os codi yn erbyn y llywodraeth yw dyweyd y gwir yn lled ddiarbed am y seneddwyr a'r gweinidogion gwladol, yn debyg i'r prophwydi dan yr Hen Destament, ac yn debyg i Grist ei hun pan y galwai y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion yn rhagrithwyr, seirph, a hiliogaeth gwiberod, er eu bod yn eistedd yn nghadair Moses—os hyn yw

codi yn erbyn y llywodraeth, yna nis gellir gwadu fod amryw o weinidogion yr Eglwys Rydd yn euog o'r bai. Nid ydynt hwy yn petruso dyweyd fod ymddygiad y gweinidogion gwladol tuag atynt wedi bod yn anghyfiawn a thwyllodrus, a bod eu gwaith yn gwobrwyo Maynooth yn bechod yn erbyn Duw. Nid ydynt ychwaith yn cdrych ar foneddigion y tir fel bodau o ryw natur uwch na dynion. Pan fydd perchenogion y tiroedd yn gwrthod lleoedd i godi addoldai, dynoethant eu hymddygiadau yn y newyddiaduron ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus, nes gwneyd i dduwciaid blygu o'u blaen. Ond drachefn, dysgant y bobl yn y modd mwyaf egniol i beidio troseddu y gyfraith wladol. Y maent yn gweithredu yn ol egwyddorion gwrthgyferbyniad, ac o ganlyniad, barnant y dylid talu yr eiddo Cæsar i Cæsar, yn gystal a'r eiddo Duw i Dduw.*

Cyhuddiad arall a ddygir yn eu herbryn yw, mai yr achos iddynt ymadael o'r Eglwys wladol oedd eisieu mwy o awdurdod yn eu dwylaw eu hunain. Dyma yr esboniad a roddir yn gyffredin gan y newyddiaduron Radicalaidd, y rhai ydynt gan mwyaf dan olygiad anffyddwyr, a pha bryd bynag y daw rhyw bwne crefyddol dan sylw, y maent yn sier o wrthwynebu crefydd ysbrydol. Nid oes ond un diffyg yn y cyhuddiad hwn, a hyny ydyw ei fod yn hollol groes i'r gwirionedd. Yr hyn a ddadleuent drosto oedd, y dylai dewisiad pob gweinidog fod yn meddiant yr aelodau. I gynnorthwyo y darlennydd i ddeall y mater, gellid sylwi fod y cyfarfod misol, yr hyn a alwant hwy y *presbytery*, ar ol cael prawf o dduwioldeb, a dysg a dawn yr ymgeisydd, yn rhoddi caniatâd iddo bregethu. Y mae yntau o hyny allan yn rhydd i fyned am Sabboth neu ddau i bregethu pa le bynag y byddo gweinidog wedi marw neu oblegid afiechyd neu ryw achos cyfreithlawn arall yn gorfod bod yn absennol. Yn ol yr hen drefn, pan fyddai gweinidog farw, byddai perchenog y plwyf yn rhoddi y lle i un o'r pregethwyr hyn, heb ofalu ond anfynech iddo fod yn dderbyniol gan yr aelodau. Er mwyn cadw Dr. Chalmers a'i frodyr, os gellid, yn yr Eglwys wladol, cynnygiodd y llywodraeth i'r cyfarfod misol gael awdurdod i wrthod y neb a

* Yr ydym yn deall fod tri neu bedwar yn Nghymru yn ceisio haeru na ddylid beio ar y senedd-wyr a'r gweinidogion gwladol, pa ddrygau bynag a wnelont. Pe b'ai y dynsodion hyn yn gwybod ychydig am natur y llywodraeth dan ba un y maent yn byw, hwy a ddeallent fod cyfansoddiad y deyrnas hon yn sicrhau rhyddid i'r deiliaid i draethu eu meddyliau yn tofn am holl weithredoedd cyhoeddus y gweinidogion gwladol; ac nid hyn yn unig, ond hefyd yn eu galluogi i'w troi o'n awyddau. Y mae yn amlwg gan hyny fod y cyfeillion a nodwyd yn gwrthwynebu cyfansoddiad y deyrnas. Barnasom mai nid anffuddiol fyddai cynaint a hyn o gyfeiriad atynt wrth fyned heibio; ond nid ydynt yn werth ychwaneg o sylw.

fynent o'r pregethwyr a benodid gan berchenogion y tiroedd; ond barnent hwythau fod yr awdurdod hono yn perthyn i'r aelodau; ac yn hytrach na'i chymeryd oddi arnynt, gadawsant eu bywiolaethau, a dattodasant y cysylltiad oedd rhyngddynt.

Y mae Eglwys Loegr, ac hyd yn nod llawer o'r offeiriaid cfengylaidd, yn edrych ar weithrediadau yr Eglwys Rydd gyda gradd mawr o oerfelgarwch. Ymddangosant fel pe byddent yn methu deall pa hawl oedd gan weinidogion Scotland i fod yn fwy cydwybodol nag eraill. Cefnogwyd hwy ar y cyntaf yn egniol a chyson gan y "*Record*," yr hwn yw newyddiadur yr offeiriaid cfengylaidd. Ond pan aethant i son am adael eu bywiolaethau, newidiodd y "*Record*," ei ochr. Ei farn ef ar y mater oedd, y dylasant aros i mewn i wrthdystio yn erbyn gormes y wladwriaeth. Canmolai eu hegwyddorion yn fawr, ac annogai hwythau i siarad ac ysgrifenu; ond beiai hwynt am gynyg dyoddef dros eu hegwyddorion. Aeth Mr. M'Neil hefyd o Liverpool i Lundain i areithio yn eu herbyn mewn cyfarfod yn Exeter Hall. Ond ar y pwnc hwn eto, yr ydym yn cael Baptist Noel fel arferol yn pleidio y gwirionedd. Areithiodd o blaid yr Eglwys Rydd, ac ni arosodd ar hyny, ond ysgrifonodd lyfr helaeth i'w hamddiffyn. Er hyny pell oddi wrthym yw condemnio pawb sydd yn methu gweled y mater gyda'r un eglurder a Baptist Noel. Trwy fod Eglwys Scotland yn cydweithredu mewn cymanfa gyffredinol, yr oedd pob gweinidog cydwybodol yn teimlo ei hun yn bersonol yn gyfrifol am ei gweithrediadau. Ond yn Eglwys Loegr, trwy fod yr awdurdod yn nwyllaw yr esgobion, nid yw mor hawdd i bob gweinidog deimlo ei gyfrifoldeb. Nid yw efe yn ymyrd â llywodraeth yr eglwys. Maes ei lafur ef yw y plwyf sydd dan ei ofal; ac felly dichon ei fod yn cyflawni ei waith yn ddiwyd ac yn ddystaw, er fod yr offeiriaid nesaf ato yn fwy na hanner-pabyddion. Ond fel y daw amgylchiadau i wasgu y mater yn ddwysach at ystyriaeth gweinidogion yr Eglwys sefydledig yn Lloegr, yr ydym yn credu y bydd nifer mawr o honynt yn barod i aberthu eu holl elw bydol er mwyn cydwybod.

Oddiwrt holl ymneillduwyr parchusaf y mae yr Eglwys Rydd, fel y gallesid dysgwyl, wedi derbyn tiriondeb a chymeradwyaeth. Y Wesleyaid yn enwedig a bleidiasant yr achos o'r dechreuad fel pe busai yn perthyn iddynt hwy eu hunain. Mr. Farmer, yr hwn sydd ddiacaon haelionus yn nghyfundeb ein brodyr Wesleyaidd, a'u hanrhegodd yn ddiweddar â £500. Ac y mae y "*Watchman*," newyddiadur

Wesleyaidd, yn cael ei lanw yn fynych â hanes eu gweithrediadau. Yn y "*British Quarterly*" drachefn, yr hwn a gyhoeddir dan olygiad Dr. Vaughan, athraw duwinyddol y Coleg Annibynol gerllaw Manchester, ymddangosodd traethawd mewn perthynas i'r Eglwys Rydd, wedi ei ysgrifenu yn frawdol a charedig. Am yr ychydig ymneillduwyr oedd yn coledd drwg-dybiaeth ar y cyntaf, y mae hyny yn raddol yn diflanu; ac yn ddiau y mae yn rhaid i ddyn fod yn amddifad o bob teimlad Cristionogol os gall ddarllen am eu diwydrwydd, eu hegri, eu hunan-ymwadiad, a'u haelioni digyffelyb, heb gydnabod yn ddiolchgar fod llaw Duw gyda hwynt.

Gan y dichon fod rhyw weddillion o'r drwg-dybiaeth a grybwyllwyd yn aros yn meddyliau rhai o ymneillduwyr Cymru, a chan ein bod yn sier nad yw yn tarddu o genfigen a rhagfarn, namyn oddiar anwybodacth, ni a gymerwn y cyfle hwn i egluro beth yw yr egwyddorion a broffesir gan weinidogion ac aelodau yr Eglwys Rydd o barth yr undeb rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth. Eu barn hwy ydyw, y dylai y wladwriaeth fel y cyfryw, sef yn ei nodweddiad cyhoeddus fel gwladwriaeth, gydnabod awdurdod Crist fel Brenin, a chyfranu at gynnal ei achos. Ond daliant mor gadarn a hyny na ddylai y llywodraeth wladol arfer un math o awdurdod eglwysig, ond y dylent adael pob achosion crefyddol i gael eu trin a'u penderfynu gan yr eglwysi, un ai yn gynnulleidfaol, yn henaduriaethol, neu yn esgobaethol, fel y byddo yr eglwysi eu hunain yn dewis. Y maent hwy yn dewis y ffurf henaduriaethol; ond nid ydynt mewn un modd yn dadleu y dylai y llywodraeth gynnal y ffurf hono mwy na rhyw ffurf arall; ond yn unig y dylai ofalu fod gair Duw yn cael ei ddysgu i'r bobl. Fel y canlyn y mae Dr. Chalmers ei hun yn esbonio ei olygiadau:—"Pe bawn yn adeiladu addoldy mewn rhyw ardal, a phe b'ai pendefig cyfoethog yn byw yn agos, ni phetruswn fyned ato i ofyn ei gynnorthwy: ac os gwelai yn dda gyfranu ugain punt, mi a fyddwn yn ddiolchgar iddo. Ond os dadleuai y pendefig ar sail yr ugain punt fod yn rhaid iddo ef gael rhan yn llywyddiaeth yr eglwys, fod yn rhaid iddynt gymeryd y gweinidog a ddewisio efe, a dwyn pob achos dyrys i'w dy ef i gael ei benderfynu mewn cyfeisteddfod ganddo ef a'i weinidogion—os dyma yr ammodau, mi a ddywedwn wrtho am gadw ei ugain punt. Yn yr un modd, er mwyn diwyllio gwlad â Christionogaeth, mi a awn at y llywodraeth wladol i ofyn eu cynnorthwy at hyny; a phe rhoddent ugain mil, mi a fyddwn ddiolchgar iddynt. Ond os yr ammod yw, fod yn rhaid iddynt gael llywyddiaeth yr eglwys i'w

dwylaw hwy, yna mi a ddywedwn wrthynt am gadw eu hugain mil." Dyma olygiadau Dr. Chalmers. Pa un a yw y darllenydd yn cydweled ai peidio, y mae yn rhaid iddo gyfaddef eu bod yn ddigon eglur, ac mai dyma y ffordd fwyaf rhesymol y gellir meddwl am dani i amddiffyn yr undeb rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth.

Hwyrach fod ambell un yn teimlo rhyw duodd i ofyn, Paham na fuasai y Rhydd-eglwyswyr yn newid eu barn wrth ymadael o'r Eglwys wladol? Yr ydym yn ateb, mai y farn uchod a barodd iddynt ymadael. Ac os nad yw hyn yn ddigon, dymunem ninnau ofyn yn ol, A yw yn beth annichonadwy iddynt hwy farnu fel hyn mor gydwybodol ag mae eraill yn barnu yn wahanol? Ac a yw barn gydwybodol yn beth i'w newid gydag amgylchiadau? Pe buasent yn profesu cyfnewidiad eisymwth wrth ymadael, buasai pob dyn ystyriol yn rhwym o amnheu eu cywirdeb. Buasai sail gref i dybied eu bod yn rhagrithio er mwyn ennill cymeradwyaeth yr ymneillduwyr. Os rhaid i ni gondemnio y Rhydd-eglwyswyr am nad ydynt yn hollol o'r un farn a ni am ddyledswydd y wladwriaeth tuag at grefydd Crist, na sonier mwyach am y Puritaniaid a'r hen Anghydfurfwyr. "Ho," medd rhyw un nad yw yn gwybod dim am y mater, "hwy a gymerent eu gwaddoli yr wythnos nesaf pe gallent." Diammheu y gwnaent pe gallent *gan eu cydwybodau*. Dyma yr unig rwystr sydd ar eu ffordd. Pe gallasent gan eu cydwybodau, ni fuasai raid iddynt aberthu parch y gwŷr mawr, ac aberthu cysuron eu teuluoedd eu hunain. Ac hyd yn nod wedi iddynt ymadael, byddai yn hawdd iddynt gael cyflogau gan y llywodraeth, pe cymerent eu llwgr-wobrwyo, fel y mae cannoedd o ymneillduwyr yn Lloegr yn derbyn y *Regium Donum*; ond y maent wedi datcan eilwaith ac eilwaith na chymerant ffyring o arian y llywodraeth hyd nes daw y llywodraeth wladol i gyfranu at gynnal crefydd oddiar barch ac ymostyngiad i Grist a'i air, ac nad ydynt yn dysgwyl y gwelir hyn cyn y mil blyneddoedd.

Yr ydym wedi gweled llawer o anghysonderau yn ein hoes; ond un o'r rhai mwyaf hynod oedd gweled ymneillduwyr yn canmawl Baptist Noel o herwydd ei olygiadau diragfarn a'i ysbryd rhydd, er ei fod yn aros yn yr Eglwys wladol; ac ar yr un pryd yn condemnio y Rhydd-eglwyswyr er eu bod wedi ymadael o'r Eglwys wladol. Nid yw yn ddichonadwy bod gan neb fwy o barch i Baptist Noel nag sydd genym ni. Gwyddom ei fod yn un o'r rhai mwyaf cydwybodol ar y ddaear, a bod ganddo resymau ag sydd yn ymddangos iddo ef yn foddlonol dros aros hyd yn hyn mewn undeb a'r Eglwys sefydledig. Er

hyny rhaid i ni gredu mai nid llai yw cydwybodolrwydd, ac mai llawer mwy fydd dylanwad, y dynion duwiol a doniol yn Scotland, y rhai yn ddiâu a wnaethant fwy na neb er dyddiau yr apostolion i alw sylw y byd at ysbrydolrwydd teyrnas y Messiah, ac i brofi digonolrwydd, ac effeithiolrwydd yr egwyddor wirfoddol. Nid ydym yn medru cydweled â hwy mewn rhai o'u golygiadau. Ond beth er hyny? Nid yw y gwahaniaeth yn debyg o beryglu ein heddwch; oblegid fel y dywedwyd, eisoes, y maent hwy yn foddllawn i adael y mater hyd y mil blynedd-oedd; a phan ddelo yr amser dedwydd hwnw, bydd yn hawdd ei benderfynu. Pe ennillid holl weinidogion yr Eglwysi sefydledig i gredu fel y Rhydd-eglwyswyr, na ddylai awdurdodau gwladol gymeryd un rhan yn llywyddiaeth teyrnas Crist, buan y rhoddid terfyn ar bob dadl am undeb yr Eglwys a'r wladwriaeth.

Gwelir fod y sylwadau uchod wedi eu cyhoeddi cyn i Baptist Noel adael yr Eglwys sefydledig. Mae yn hysbys hefyd fod rhai o ddynion blaenaf yr Eglwys Rydd yn dywedyd erbyn hyn na chymerent eu gwaddoli gan y llywodraeth pe caent gynyg ar hyny: a diammheu y daw yr Eglwys Rydd yn fwy rhyddfrydig o hyd, yr un modd a'r *United Presbyterians*. Pan ennillir dynion i weled fod cydwybod yn galw arnynt i ymwrthod ag awdurdod y llywodraeth wladol mewn achosion crefyddol, bydd y gofyniad sylfaenol wedi ei benderfynu. Gellid tybied hefyd mai hwn yw y gofyniad hawddaf, yn gystal â'r pwysicaf, gan ei fod yn cyfeirio yn uniongyrchol at y gydwybod, ac nid yn unig at y llogell; ac o ganlyniad mai ar hwn yn benaf y mae y ddadl yn ymddibynu.

Y CYFFRAWD.*

[*The Geographical Progress of Empire and Civilization.* By the REV. T. PRICE.
Llandovery: W. Rees.]

O FEWY cych llênnyddiaeth Gymreig nid ydym yn gwybod am neb yn fwy teilwng o ganmoliaeth nag awdur y llyfr hwn. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am "HANES CYMRU," un o'r gweithiau mwyaf gorchestol a ymddangosodd yn ein iaith. Mewn gwybodaeth drylwyr yn yr holl ieithoedd Celtaidd, diau ei fod yn *facile princeps*: ac y mae hyn yn ei gymhwyso tu hwnt i neb a fu o'i flaen i dafu goleu ar ysgrifeniadau yr hen feirdd Cymreig. Ond yn y gwaith sydd yn awr dan ein sylw y mae wedi dŷfod allan mewn maes newydd. Yma y mae yn olrhain hanes ymherodraeth a gwareiddiad trwy holl oesoedd y byd. Ymdrin- iwyd â'r pwnc hwn gan Guizot ac eraill, yn ei gysylltiadau moesol; a rhaid i ni gydnabod mai dyma yr olwg sydd yn ymddangos i ni yn fwyaf ennillgar a phwysig. Dilys ydyw fod achosion yn cynnyrchu eu heffeithiau priodol yn y byd moesol, fel yn y byd naturiol; ac y mae chwilio allan yr achosion hyn yn un o'r gorchwylion mwyaf difyr a defnyddiol. Ond y mae Mr. PRICE yn dwyn ymlaen egwyddor newydd i esbonio y pwnc. Ei farn ef ydyw, fod rhyw allu anianyddol yn tramwy o gwmpas y ddaear, yr hwn a eilw ef "Y CYFFRAWD;" ac mai y gallu hwn sydd yn cynhyrfu meddyliau y bobl, ac yn achosi ymherodraeth a gwareiddiad. Er nas gallwn gytuno â'r golygiadau hyn, y mae ein parch i'r awdur yn ein rhwymo i sylwi ar ei resymau: a chan nad yw ei lyfr yn faith, rhoddwn yma y rhan fwyaf o hono mewn rhydd gyfieithiad ger bron ein darllenwyr. Y mae yn werth ei ddarllen, er mwyn y crynodeb a geir ynddo o hanes y byd. Fel pob dyn call, y mae Mr. PRICE yn dechreu heb lawer o ragymadroddiad, fel y canlyn:—

"Y mae yn ymddangos i mi fod ymherodraeth a gwareiddiad, y rhai ydynt yn cynnwys cynhyrfiad deallawl, medr, a chelfyddyd, anturiaeth fasnachol a milwraidd,

* O'r "TRATHODYDD," am 1848.

buddugoliaeth, llywodraeth, a rhagoriaeth cenedlaethol, wedi ymdaith bob amser mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol.

“Fod cyfartaledd yr ymdaith yn cyfateb i symudiad y pwyntiau cyhydeddol, yr hyn sydd yn hanner cant o ciliadau mewn blwyddyn, neu radd mewn deuddeg-mlnydd-a-thriugain, ychydig yn fyraeh na milldir Brydeinaidd; ac yn ddarostyngedig i afrwyddiadau a brysiadau cylchynol.

“Fod y cyfwng a drafaelwyd yn barod yn cyfansoddi rhan o linell â throadau ysgefn ynddi, gydag ail-dröadau neu ddolenau; yr hon, pe ei hestynid, a ffurfiai wregys neu gylch, yn amgylchynu y ddaear, yn croesi y cyhydedd oddeutu yr hydred o bedwar ugain o raddau i'r dwyrain, ac yn myned ymlaen mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol hyd yn agos i'r lledred gogleddol o driugain o raddau, pan y mae yn cymeryd rhedfa ddeheuol. A ganlyn ydynt fy rhesymau:—

“Y mae yr hanesion boreuaf yr ydym ni yn eu meddu yn nghyleh sefydliad y gallu llywyddol yn ei gyfleu oddeutu ymarllwysiad yr Afon Euphrates, lle y sefydlodd Nimrod ei ymherodraeth, C.C. 2247.

“Wedi peth amser yr ydym yn colli presenoldeb ymherodraeth yn Asia, ac yn mhen yr yspaid o 1923 o flyneddau ar ol y blaenorol, yr ydym yn ei ganfod yn Groeg o dan Alexander, C.C. 324, yn y pellder o saith-ar-hugain o raddau; wedi i Tyrus, Palestina, a'r Aiphth gael eu hymweled gan y dylanwad cylchdeithiol.

“Wedi hyny, yr ydym yn canfod eisteddle ymherodraeth wedi ei symud o Groeg i'r Ital, pellder o gylch pedair gradd a hanner yn yr un cyfeiriad, yr hyn, yn yr un cyflymder o fynediad ymlaen, a'n dwg i'r flwyddyn O.C. 1—y rhan ddiweddaf o deyrnasiad Augustus, a gradd uchaf y mawredd Rhufeinig, y mae yn debyg.

“Yn yr Ital drachefn, yr ydym yn colli y gallu ymherodrol; ac wedi wyth cant o flyneddau yr ydym yn ei ganfod yn Ffrainc, yn nwyllaw Charlemagne, wedi cymeryd Lombardy yn ei ffordd; eithr ni thrafaeliodd yn y deithradd hon ond naw gradd, yn lle un-ar-ddeg, ei drafaeliad arferol; collwyd dwy radd yma trwy arosiad i gael eu hennill eto trwy frysiad.

“Drachefn, yr ydym yn colli presenoldeb ymherodraeth yn Ffrainc; ac yn awr, wedi treigliad 1046 o flyneddau, os cymhwyswn y cwpawd at linell y symudiad, gan ganiatáu, fel o'r blaen, hanner cant o ciliadau i flwyddyn, y rhan o'r ddaear a ddygir dan ein sylw fydd Ynys Brydain. Ac os na chanfyddwn allu ymherodrol wedi ei gyflawn amlygu yno, ni a ganfyddwn o'r hyn lleiaf ragoriaeth cenedlaethol, a hwnw hefyd yn cynnyddu yn gyflym; fel y tystir nid yn unig gan anturiaeth fil-wraidd a masnachol, a sefydliadau cartrefol, ond hefyd gan yr hynodeb hanfodol ac anwadadwy hwnw o lywodraeth dramor. Canys mewn ychwanegiad at ei gallu gwladol yn Ewrop, a'i thirioagaethau lliosog eraill, ag sydd yn daenedig dros y byd, y mae y Frenes Victoria y foment hon yn wir benadures ymherodraeth fawr yr India, o'r Indus i Fynyddoedd Himalaya, ac a all â gair effeithio ar dynged hyd yn nod China ei hun.

“Fel hyn yr ydym yn canfod fod rhagoriaeth cenedlaethol wedi teithio mewn 4994 o flyneddau, o ororau yr Euphrates i Brydain, pellder o ddeuddeg-a-deugain o raddau, a thair mil o filldroedd, oddeutu yr wythfed ran o amgylchedd y byd; a chyda mor ychydig o drawswyriad o'r llwybr a'r cyfartaledd cyffredin, fel ag i roddi i ni ddigon o seiliau, yn ol fy marn i, i awdurdodi ffurfiad o ryw dyb ar y testun.

“Gan hyny, yr wyf fi yn barnu oddiwrth y gwirioneddau hyn fod rhyw ddyllanwad, i'r hwn y rhodlais yr enw Cyffrawd, cyffelyb i ddyllanwad trydaniaeth, yn ymdeithio ar hyd y llinell, neu y gwregys hwn, ac yn gweithredu ar y gwynau a pheiriannau dealltwriaeth mewn modd cyffelyb i'r hwn y mae trydaniaeth yn gweithredu ar elfenau amhurach ein cyfansoddiad, y rhai ydynt yn dyfod o fewn cyrhaedd sylw celfyddgar; yn cyffroi y meddwl i fywiogrwydd mwy, ac yn aehosi arddangosiad pellach o'r galluoedd deallawl; ac y mae y meddwl wedi ei gyffroi fel

hyn, yn cael ei wthio i ffurfiad o feddyliau mwy anghyffredin, ac i fwy o anturiaeth wrth eu cyllawni.

“Yr wyf hefyd yn casglu fod gan y dylanwad hwn ganolbwynt pegynol, neu ffoc (*focus*), yn meddiannu cymerial a chymmeddfau pegwn trydanawl.

“Hefyd fod y dylanwad hwn yn gweithredu gyda gallu lleihäol, fel y mae yn pellhau oddiwrth y ffoc; nid yw ei weithrediad mwyaf galluog yn cyrhaedd dros bum cant y filltiroedd, tra nad yw ond pur wan yn y pellder o fil o filltiroedd.

“Yr wyf yn barnu hefyd yn yr un modd, fod y pegwn neu'r ffoc hwn yn bresenol (O.C. 1847) yn gyflëedig yn y rhan ogleddol o'r ynys hon, yn agos i Gyfyngfôr Forth, yn Scotland; yn ymsymud yn nghyfeiriad Cyfyngfôr Solway, yn y cyflymder o bedair milltir y flwyddyn. Y mae yn awr yn ei dröad tua'r deheu, fel ag yn mhen ugain mlynedd ar ol hyn, neu yn y flwyddyn O.C. 1867, bydd wedi croesi y cyfyng rhwng y ddau gyfyngfôr hyny; pan y pery yn ei ymdaith tua'r deheu, hyd oni chwblhëir ei blygiad deheuol; ac yna efe a dry drachefn tua'r gogledd, gan adael nöd difeth ar gymeriad deallol y bobl â'r rhai yr ymwel.

“Yr wyf yn meddwl hefyd ei bod yn debygol fod gan y pegwn hwn ei begwn cyferbyniol yn yr hanner-gyloch deheuol; eithr rhaid fod ei gyflëad presennol yn Môr y Dê; y tir nesaf o unrhyw hynodrwydd ydyw Zealand Newydd, oddutu saith cant o filltiroedd o bellder; yr hwn sydd yn rhy bell i gael ei gyffroi gan y dylanwad, oddieithr mewn gradd pur ysgafu.”

Yna rhoddir darlun o Ewrop, Asia, ac Affrica. Y gwledydd a fuont unwaith, neu ydynt yn awr, yn wareiddiedig, a ddarlunir yn oleu; a'r rhelyw yn dywyll. Am y rhanau tywyll, dywedir na ddarfu iddynt erioed gyrhaedd enwogrwydd: ac am y rhanau goleu, ceir fod y dylanwad yn tramwy ar hyd-ddynt yn ol y cyfartalwch o un gradd mewn deuddeg-a-thriugain o flyneddau, gan ddechreu yn y flwyddyn C.C. 2247, a mesur o ganol Môr Persia. Ond nid oes yma ddim son eto am y byd newydd. Onid yw y gallu hwn, pa beth bynag ydyw, i'w weled yn gweithredu gyda nerth a bywiogrwydd mawr yn America, lle nad yw y Cyffrawd wedi cyrhaedd? Mewn ffordd o atebiad i'r gwrth-ddadl hwn cawn y sylwadau canlynol:—

“Eithr fe'm hysbysir, mewn atebiad i'r gosodiad hwn, fod gwareiddiad ac anturiaeth yn bodoli mewn gwledydd eraill, y rhai nad ydynt o fewn y gwregys hwn; a rhoddir America er esiampl. I hyn yr wyf yn ateb, nad yw yr un o'r nodebau hyn, y rhai a ellir eu canfod yn America, o dwf naturiol; ni ddangosodd y cynfrodorion hwynt erioed; y mae y Cyffrawd i gyd yn cael ei ddwyn i mewn o Brydain; a chyhyd ag y pery y fam-wlad dan y dylanwad hwn, ac y pery yr adgyflenwad, fe fodola yr ysbryd yn America, fel ag y gwna yn Calcutta, Hong Kong, a Sidney; eithr pan fydd y erwydr-wib gwefr-dynol, wedi gadael yr Ynysoedd Prydeinig a suddo yn Môr y Werydd, a'r ynysoedd hyny wedi llithro i sefyllfa o ddirawder, yna fe â cynhyrfiad America i gyffelyb sefyllfa o ddirawder; ac a bery felly, oni aflonyddir hi gan ryw gyffro ag sydd yn anadnabyddus hyd yn hyn, hyd oni thiria y gallu cynhyrfiol ei hunan ar gyffin ddwyreiniol Labrador, ar ol yspaid o ddwy fil o flyneddau, os pery y byd cyhad a hyny.

“Gellir cymhwyso yr un sylw at bob gwlad trwy'r byd; nid yw yr hynodeb rhag-grybwylledig i'w ganfod yn mhlith unrhyw bobl, oddieithr disgynyddion y

rhai a anwyd o fewn y gwregys hwn. Ac nid yw y Cyffrawd yn gyfranadwy ond drwy drosglwyddiad tref-tadawl. Ni bu y Prydeiniaid erioed yn alluog i'w gyfranu i gynfrodorion America, India, nac Australia, na'r Dutch i'r Hottentotiaid, a'r Caffiriaid.

“Ac nid yw y blaenoriaeth deallawl hwn yn ragorfraint unrhyw genedl neillduol. Y mae yn bresennol yn meddiant pobl y rhan ogleddol o Ewrop, y rhai a elwir y genedl Indo-Ewropaidd, neu Caucasiaid; eithr nid yw y cangenau Asiaidd o'r un tylwyth yn gwybod am ei fodolaeth, er eu bod wedi ei feddiannu unwaith; yn mhlith y rhai, gallwn nodi trigolion Georgia er esiampl, y rhai a dybir y rhan mwyaf digymysg o'r tylwyth Caucasaidd, ac yn arddangos y rhag-brawf mwyaf perffaith o'r llun dynol; o'r hyn lleiaf y mae y benglog Georgiaidd yn cael ei chyfrif dan y cymeriad hwnw gan Blumenbach, a'r hwn y cytuna llawer o ddifynwyr enwog eraill; ac eto nid yw y Georgiaid hyn ag sydd wedi eu breintio mor fawr, gyda golwg ar fanteision deallawl, rony'n uwchlaw y Mongoliaid cymydogathol, penlogau aflunaiidd pa rai sydd yn cael eu rhoddi ochr yn ochr a'u rhai hwy mewn cyferbyniad iddynt. Y mae yn ymddangos yn wirionedd fod y Georgiaid yn gystal a llawer o gangenau digymysg eraill o'r tylwyth Caucasaidd, wedi bod yn rhy hir heb fod dan effeithiau y dylanwad bywiog hwn, fel na ddarfu cyflunieiddrwydd eu penglogau leshau dim iddynt.”

Dyma ergyd nerthol ar ben y gyfundraeth benglogaidd hono a elwir *Penglogiaeth*. O barth yr hyn a ddywedir yn y dyfyniad uchod am Unol Daleithiau yr America, cawn wneyd sylw neu ddau pan ddeuwn at ein gwrthddadleuon. Ond y mae Mr. PRICE yn myned ymlaen i roddi awgrym am yr achos pahan nad yw dylanwad y Cyffrawd yn tramwy rhagddo mewn llinell union; a dyma, efallai, un o'r rhanau mwyaf cywrain yn yr holl lyfr. Yn ol ei ddesgrifiad ef, y mae llwybr y Cyffrawd yn fwy dolenog na'r Afon Meander. Er fod ei ysgogiad ar y cyfan tua'r gogledd-orllewin, eto ymddengys fod rhyw allu arall, unwaith mewn oddeutu 930 o flyneddau, yn ei dynu tua'r gogledd. Ond beth yw y gallu sydd yn cynnyrehu yr effaith hwn? Nid yw Mr. PRICE yn llefaru yn benderfynol iawn ar y mater, ond y mae yn cynnyg tybiaeth y dichon iddo fod yn ddim amgen na'r yni hwnw sydd yn treiddio trwy bob corff, sef gwefrdyniant. Y mae yn hysbys nad yw y pegwn gwefr-dynol yn un â phegwn y ddaear, ac nad yw yn sefydlog mewn un man, ond ei fod yn troi yn gyfnodol oddeutu pegwn y ddaear. Cymerir yn ganiataol yn y llyfr hwn ei fod yn cyflawni y cylchdro hwnw mewn 930 o flyneddau. Anhawdd yw profi nad yw yr amser hwn yn gywir; oblegid, er fod rhai yn ei gyfrif rywfaint yn llai, nid oes neb yn medru llefaru gyda llawer o sierwydd. Ond er nad yw y pegwn gwefr-dynol yn yr un lle a phegwn y ddaear, y mae yn nes ato o lawer na'r Cyffrawd: a phan fyddo y pegwn gwefr-dynol yn dygwydd bod yr un ochr i'r ddaear a'r Cyffrawd, y mae yn ei dynu tua'r gogledd; ond

pan fyddo, yn ei gylchdro, yn cilio tua'r ochr arall, y mae y Cyffrawd yn dilyn ei duedd naturiol. Gellid meddwl fod tyniad y duedd naturiol hon tua'r cyhydedd, neu yn hytrach tua'r de-orllewin: ond wrth gymeryd holl ysgogiad y Cyffrawd yn y cyfanswm, rhaid ystyried ei lwybr fel yn gorwedd rhwng y ddau gyfeiriad, yn ogledd-orllewinol. Ond gadawn i Mr. PRICE lefaru drosto ei hun:—

“Yr wyf yn dychymygu fod y pegwn gwefr-dynol yn troi o gylch y pegwn daearol, mewn cylech-dro mwy neu lai afreolaidd, ac i orphen ei gylchdroad mewn oddeutu 930 o flneddau.

“Fod y Cyffrawd, neu y dylanwad cynhyrfus, yn cael ei ad-dynu tua'r gogledd, bob tro y mae y pegwn gwefr-dynol yn neslau ato; a phan y mae y pegwn gwefr-dynol yn encilio tua'r rhan bellaf o'i gylch-dro, y mae y llall yn tynnu tua'r cyhydedd.”

Yn y dyfyniad a ganlyn cawn ddesgrifiad manwl o lwybr y Cyffrawd yn ei holl droiadau. Buddiol fyddai i'r darlennydd gyfeirio at yr enwau a nodir yma mewn map; ac yna, pa un bynag a fydd yn eidsynio a'r awdur ai peidio, bydd y darlenniad yn wers dda iddo mewn hanesydd-iaeth ac hefyd mewn daearyddiaeth.

“Nid ydym yn canfod ond ychydig grybwylliaidau am lywodraeth ddwyreiniol yn flaenorol i'r unfed-ganrif-ar-ddeg. Rhaid fod y byd am rai cenedlaethau wedi y gwahaniad yn Babel wedi bod yn bur deneu o bobl. Y mae yn ymddangos fod ysbryd ymfudiad wedi bod mor gyffredinol yn y prifnod hwnw, fel y rhaid fod ceulanau yr Euphrates wedi eu hanmhoblogi agos, a rhaid fod ymherodraeth Nimrod, yr hon unwaith a gynnwysai holl ddynolryw, wedi ymollwng o eisieu deiliaid. Y mae Syr Isaac Newton, er profi anamllder y trigolion yn y gwledydd hyn, yn traethlu y ffaith o fod Abraham, gyda 318 o ddynion o'i dylwyth ei hun, ac heb ond ychydig help mae'n debyg, wedi gorchfygu pedwar brenin cydbleidiol. Mae ef hefyd yn dangos, fod yn rhaid fod yr Aipht, dair canrif yn ddiweddarach, yn bur deneu ei phobl, fel y mae Pharao yn dywedyd, “Y mae pobl plant Israel yn amlach, ac yn gryfach, na nynti;” a hyn pan na allai yr Israeliaid fod gan mwyaf uwchlaw hanner miliwn. Nid yw yn rhyfeddod, gan hyny, ein bod heb glywed am fodolaeth unrhyw ymherodraeth fawr mewn gwledydd ag oedd mor anmhoblog. Canys er fod y dylanwad cynhyrfus, testun y traethiad presennol, yn ei dramwyfa dros wledydd eraill, wedi deffroi ysbryd o anturiaeth, trefniad, a goruchafiaeth, ac er ei fod wedi cymeryd y rhan Asiaidd hon o'r ddaear yn ei lwybr, eto ni allai gynyrrchu y cyfryw effeithiau, o achos ei fod yn traws-leithio anialwch.

“Eithr yn ystod yr unfed-ganrif-ar-ddeg, C.C. y mae y dylanwad, wedi iddo redeg ar hyd ymylau tiriogaethau Tyrus, yn myned i ran Palestina, gan ddeffroi galluoedd y bobl; ac y mae yn dyfod yn weithredydd effeithiol trwy wir-gyflawni y rhagoroldeb cenedlaethol a ragddywedwyd er ys cyhyd o amser, a sefydlu y llywodraeth addawedig o'r canoldir i'r Euphrates.

“O Palestina, y mae y dylanwad yn myned i'r Aipht, ac y mae y frenhiniaeth hono yn dyfod mor gref dan Amon, a hefyd dan ei fab Sesac, fel y mae Syr Isaac Newton yn siarad am dani fel “Ymherodraeth fawr yr Aipht.” Eithr nid yw yn aros yn hir yn y sefyllfa hon o allu, canys, yn ol yr un awdur, y mae yn tori yn ddarnau yn 944 cyn Crist.

“O'r Aipht y mae y dylanwad ymherodrol yn cymeryd ei ffordd i'r canoldir, ac fel y mae yn cylchdeithio yr *Archipelago* yn ei yrfa tua'r gogledd, y mae yn gweithredu ei allu ar gyffiniau *Groeg*; gan gyfranu ysbryd cyffroad i'r gwahanol wladwriaethau, fel y mae yn neshau atynt. Yn gyntaf oll, y mae *Sparta* yn cael ei chynhyrfu, yna *Athens*, a *Thebes*, yna *Macedonia*; pob un o honynt yn olynol yn arddangos rhagoroldeb cenedlaethol; eithr nid cynt y sefydlodd y bywyn ei hun yn gyflawn yn *Macedonia*, nag y mae y wlad yn cyfodi i fynu mewn agwedd ymherodrol, ac yn dyfod yn feddiannol ar lywodraeth gyffredinol.

“Eithr yn mhén ychydig flyneddau y mae y dylanwad yn gadael *Macedonia*, ac yn ymweled â'r cenedloedd barbaraid tua'r gogledd, ac yn ebrwydd y mae yr ymherodraeth *Facedoniaidd* yn syrthio yn ddarnau, ac y mae y cenedloedd barbaraid hyn yn cael eu cynhyrfu; y mae y *Gauliaid* yn dylifo i lawr ar *Groeg*, ac yn ei hanrheithio heb unrhyw rwystr. Ac nid ydynt yn gadael y wlad hono mewn eaclynriad i orchfygiad neu wrthwynebiad, eithr yn wirfoddol, trwy gael eu cyffroi gan eu daliadau cool-grefyddol eu hunain.

“Yn fuan wedi hyn y mae y dylanwad yn myned ymaith i'r *Adriatic*; yna y mae *Groeg* yn dyfod yn diriogaeth i *Rufain*, ac nid yw byth yn ychwaneg yn cyfodi ei phen.

“Mewn ychydig amser y mae y dylanwad yn cyrhaedd tuedd yr *Ital*, ac y mae y wlad hono yn ebrwydd yn eydnabod ei allu, ac yn cymeryd llywodraeth ymherodrol; yr hyn y mae yn dal ei gafael ynddo cyhyd ag y mae yn cael ei theithio gan y *Cyffrawd*, fel *Groeg* ei rhagredegydd; ac yna, fel hithau, y mae yn cael ei difrodi gan farbariaid. Canys cygrynted ag y mae y dylanwad yn gadael y tir, ac yn cael ei gyflen yn y môr, y mae yr ymherodraeth yn dechreu gogwyddo; a chyn hir y mae *Rufain* yn cael ei chymeryd gan *Alarie*, y wlad wedi ei llenwi gan y *Gothiaid*, a'r gallu ymherodrol wedi ei ddiffodd.

“Y mae y dylanwad wedi hyn yn myned ymlaen i *Lombardy*, yr hon y mae yn ei chroesi yn gyflym; eithr er hynny nid heb ei effeithiau; fel y mae y *Lombardiaid* yn dyfod o sefyllfa farbaraid, i fod yn waraidd a dylanwadol.

“Eithr nid yw goruchafiaeth *Lombardy* yn parhau yn hir. Y mae y dylanwad yn gadael y wlad yn fuan ac yn myned i diriogaeth y *Ffrancod*; pan y mae llywyddiant y *Lombardiaid* yn gogwyddo, a'r *Ffrancod* yn dyfod i reoli. Y mae *Charles Martrel* yn cyfodi gyda nerth cawr, a chyn hir y mae y gallu ymherodrol yn nwyllaw ei ŵyr *Charlemagne*.

“Pa fodd bynag nid yw y gallu hwn ond o barhad byr. Y mae y dylanwad yn myned ymaith, ac yn suddo yn y canoldir, pan y mae yr ymherodraeth *Ffrancaidd* yn ymollwng yn ebrwydd, a *Ffrainc*, fel ei rhagflaenyddion *Ital* a *Groeg*, yn cael ei difrodi gan farbariaid, y *Normaniaid*, a'u gorechfygu mewn effaith. Tra y mae y dylanwad hwn yn teithio y mor, cyfnod o bum canrif agos, y mae *Ffrainc* mewn sefyllfa o anhrefn a gwendid; wedi cael ei gwarehae a'i gorechfygu dair gwaith, unwaith gan y *Normaniaid*, a dwywaith gan y *Saeson*. Eithr yn mhén amser, y mae y *Cyffrawd* yn ymweled â'r wlad drachefn, ac y mae trefn yn dychwelyd, gyda gryn cenedlaethol. Y mae y *Saeson* yn cael eu troi ymaith, ac y mae *Ffrainc* yn helaethu ei therfynau.

“Er hynny nid yw y dylanwad cynhyrfus yn gwneyd ond arosiad byr yn *Ffrainc*. Y mae yn myned yn gyflym dros y wlad, gan gymeryd cyfeiriad *Mor* y *Gogledd*; ac fel y mae yn agosáu at gyffin y *Saeson* oddentu diwedd y bymthegfed ganrif, gellir tybied iddo gyfranu rhyw gyffroad bendithiol, yn arwain i iawn-drefn a chyfluniad gallu, ac fel hyn yn terfynu rhyfel trychinebus y *Rhosynau*, y rhai oeddynt wedi difrodi y wlad mor hir. Eto nid yw yn cyffwrdd â thir *Prydain* y pryd hwn, ac y mae yn fuan yn encilio oddiwrth ei chyffin tua'r gogledd; ac ychydig yn flaenorol i'r flwyddyn O.C. 1657, (trwy gael ei dynu gan y pegwn gwefr-dynol, fel yr

wyf fi yn barnu, i'r gogledd o Lundain y flwyddyn hono) y mae yn cyrhaedd ei bellder mwyaf oddiwrth yr ynys hon, ac yn cael ei gyfleu yn Môr y Gogledd; ac oddentu yr amser yma yr ydym yn eanfod y deyrnas mewn sefyllfa o annbrefnusrwydd, yr unbenaeth wedi ei dymchwelyd, a'r wlad yn dyoddef oddiwrth ryfel cartrefol.

“Drachefn y mae y gallu trefnusol a chyfuniadol yn tueddu tua'r ynys hon, ac oddentu O. C. 1800, y mae yn tirio ynddi, ar yr oehr ogledd-ddwyrainiol o Scotland; ac oddentu yr amser hwn y mae Prydain yn dechreu cymeryd ei sefyllfa bresennol mewn rhagoriaeth cenedlaethol; ac y mae trigolion y rhan hono o'r wlad yn arddangos sefyllfa berffeithiach o gynnydd deallawl na rhai y rhan ddechrenol o Brydain.

“Y mae y dylanwad yn myned ymlaen ar hyd gyffiniau Scotland am lawer o flyneddau yn olynol; ac yn awr O. C. 1847, prin y mae wedi myned dros yr hydred o dair o raddau i'r gorllewin; ac ni all fod wedi teithio yn mhell i'r deheu oddiwrth yr afon Forth.”

Yn awr, pa beth a ddywedwn am y gyfundraeth newydd hon? Ei bod yn brawf o feddwl athrylithgar sydd anwadadwy. Nid dyn cyffredin fuasai yn medru ei dyfeisio. Nis gallwn weled ychwaith ei bod yn peryglu moesoldeb a chrefydd, trwy ddinystrio y teimlad o gyfrifoldeb. Yr hyn y dadleuir drosto yw, fod rhyw allu anianyddol yn cynhyrfu, yn bywiogi, ac yn cadarnhau meddyliau y trigolion, heb benderfynu pa ddefnydd a wneir ganddynt o'r cyffrôad hwnw. Rhaid i chwi addef fod deddfau anian yn effeithio llawer ar y meddwl tra yn y fuchedd hon; ac nid ydym yn sier nad yw gwefr-dyniant, neu ryw allu mwy bywiol, yn dylanwadu gyda mwy o rym nag a dybir yn gyffredin ar gyrff dynion, a thrwy eu cyrff ar eu heneidiau. Fel prawf o hyn gellir crybwyll y darganfyddiadau a wnaed yn y blyneddau diweddaf gan y Mesmeriaid; honiadau y rhai, er nad ydynt oll yn deilwng o grediniaeth, eto ni haeddant y gwawd a defir arnynt gan eu gwrthwynebwyr. Ond er ein bod fel hyn yn rhydd oddiwrth bob rhagfarn yn erbyn cyfundraeth Mr. PRICE, ac oddiwrth bob amharodrwydd i'w chroesawu pe gwelem ei bod yn cydfyned â ffeithiau, y mae genym amryw resymau yn ei herbyn, i ba rai y mae yn anghenrheidiol i ni gael atebiad cyn y gallwn roddi iddi dderbyniad cyflawn.

1. Yn ol ei ddesgrifiad ef, nid yw y dylanwad yn cyrhaedd yr Ital hyd amser Iwl Caisar. Ond y mae yn ymddangos i ni fod y Rhufeiniaid wedi dangos yr yni mwyaf cyn hyn yn amser y werin-lywodraeth. Beth bynag y gellir edrych arno fel yn cyfansoddi gwir fawredd cenedl, yr ydym yn ei gael yn fwy blodeuog yn y werin-lywodraeth na than yr ymherawdwy. Ond pe caniatêid mai yn nyddiau Iwl Caisar a'i olynwr y cyrhaeddodd Rhufain yr uchder mwyaf, y mae yn amlwg er hyn fod mwy o allu, yn ofynol i ddringo i'r uchder hwnw nag i'w gadw ar ol ei gyrhaedd.

2. Y mae yn amheus i ni a ddylid gadael y Carthaginaid allan. Ni ddangosodd neb crioed fwy o ddewrder a medrusrwydd na'r bobl hyny, yn enwedig yn amser Hannibal.

3. Yr ydym yn teimlo yn gryf iawn na ddylid cau allan y Saraceniaid; ac eto yn ol y gyfundraeth dan sylw, nis gallent gyfranogi o'r dylanwad yn y mesur lleiaf. Yr oeddynt unwaith yn feistriaid ar y byd, o'r Indus hyd at y Pyrenees. A chydabyddir yn gyffredin mai iddynt hwy yn benaf y mae teyrnasoedd Ewrop yn ddyledus am eu gwareiddiad, a'u gwybodaeth lēnyddol a chelfyddydol. Nid oedd y Ffrancod y pryd hyny, mewn cymhariaeth iddynt hwy, ond barbariaid; a dywedir nad oedd Charlemagne ei hun ond prin yn medru ysgrifenu ei enw. Ac eto, yn ol barn Mr. PRICE, yr oedd y dylanwad yn y cyfnod hwn yn mhlith y Ffrancod, ac nid yn mhlith y Saraceniaid. Gwir iddynt gael eu gorchfygu gan Charles Martel; ond methodd ef, a Charlemagne ar ol hyny, eu gyru o Ewrop. Ac nid ydym yn gweled bod buddugoliaeth Charles Martel yn profi fod y Ffrancod yn uwch na'r Saraceniaid mewn ymherodraeth a gwareiddiad, mwy nag yr oedd buddugoliaeth yr Affganiaid ychydig flyneddau yn ol yn profi eu bod hwy yn uwch na Lloegr.

4. Os bu rhyw Gyffrawd crioed yn tramwy dros ryw barthau o'r ddaear i gynhyrfu meddyliau dynion, y mae yn rhaid ei fod yn yr Almaen yn amser y Diwygiad Protestanaidd; ond yn ol darluniad Mr. PRICE, yr oedd y Cyffrawd y pryd hyny yn Ffraine.

5. Nid ydym yn gwybod fod Lloegr wedi bod mewn un oes yn arddangos mwy o egni meddyliol, ac yn cynnyddu yn gyflymach mewn gallu ymherodraethol nag yn nyddiau Elizabeth a Cromwell. Dan eu teyrnasiad hwy yr ennillwyd rhai o'r buddugoliaethau mwyaf clodfawr, ac yr ysgrifenyd y llyfrau campusaf a feddwn. Ac eto, myn Mr. PRICE i ni gredu fod y dylanwad yn cilio oddiwrth Loegr yn amser Elizabeth, a'i fod wedi cyrhaedd y pellder mwyaf oddiwrthi yn amser Cromwell, ac yna iddo droi yn ol a chyrhaedd y wlad hon yn 1800.

6. Yn ol y gyfundraeth hon, nid yw y dylanwad wedi bod yn agos i China na Rwssia. Er fod China wedi sefyll, ac megys wedi rhewi i fynu er ys llawer dydd, eto bu amser pan oedd yn rymusach ac yn fwy gwareiddiedig na'r un deyrnas arall. Ac am Rwssia, y mae eisoes yn annaturiol o fawr, ac y mae ei chynnydd beunyddiol yn peri i bawb synu. Os edrychir am y deyrnas sydd yn cynnyddu gyflymaf, cyfeiriwn at Rwssia; neu os dywedir fod yn rhaid cael un yn ei chyflawn faint, ac

yn rhagori ar yr holl deyrnasoedd eraill, yna gellir ateb fod China wedi bod felly unwaith, er nad oedd dan effaith y dylanwad.

7. Nis gallwn ganfod eysondeb yn yr esboniad a roddir yma o barth Unol Daleithiau America. Dywedir fod eu llwyddiant hwy yn ddyledus i'w perthynas â Lloegr. Onid yw hyn yn gwneyd y dylanwad yn genedlaethol, yn lle (fel y dylai fod yn ol y dybiaeth) yn wladol a lleol?

8. Ond yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn fwyaf annhebygol o'r cwbl yw y dyb y bydd y dylanwad yn cymeryd dwy fil o flyneddau i dramwy dros y môr i America. A yw Mr. PRICE yn barnu yr â y byd yn ol am gymaint a hyny o amser i dywyllwch y canol oesoedd? Braidd na ddywedem fod hyny yn annichonadwy, a bod y rheswm hwn yn ddigon, pe na bai dim arall, i wrthbrofi yr holl gyfundraeth.

Yr ydym yn cynnyg y sylwadau hyn gyda phob parch, i Mr. PRICE, gan obeithio y cawn gyfarfod âg ef eto mewn maes helaethach. Nis gwyddom pa fodd y gall dreulio ei amser yn well na thrwy ei ddefnyddio i egluro yr *holl* achosion sydd wedi cydweithredu i ddwyn oddi amgylch wareiddiad y teulu dynol. Neu os mwy dewisol ganddo fydd rhyw efrydiaeth arall, goddefed i ni grybwyll nad oes neb hyd yn hyn wedi ceisio gwneyd cyfiawnder â chenedl y Celtiaid yn ei holl gangenau, oddieithr y Ffrancwr, Thierry. Da fyddai genym weled CARN-HUANAWC yn cymeryd y gorchwyl hwn mewn llaw.

CHALMERS AC IRVING.

Pe gwrandawem ar rai o'r ysgrifenwyr mwyaf cyfrifol yn Lloegr, arweinid ni yn hawdd i gredu nad oes nemawr creadur mwy dirmygedig yn y dyddiau hyn na'r pregethwr poblogaidd. Addefant fod amser wedi bod pan oedd yn ateb rhyw ddyben, ond barnant fod ei dymmor yn awr wedi darfod, gan fod y wasg i raddau helaeth wedi cymeryd lle yr areithfa, a'r bobl trwy gynnydd gwybodaeth yn llai parod i gymeryd swm yn lle sylwedd. Ac nid ynmysg anffyddwyr yn unig y mae y farn hon yn ffynu, ond ceir yr un syniad yn ysgrifeniadau rhai o'r awdwyr sydd yn talu y parch mwyaf i Gristionogaeth. Os yw hyn yn wir, y mae y pregethwr poblogaidd yn wrthddrych i dosturio wrtho. Ond er nad ydym yn synu fod dynion o feddwl coethedig yn ffeiddio y faldorodd a'r ymgais sydd yn dra mynych yn nglyn â phobl-ogeiddrwydd, ac yn edmygu y gweithiwr yn fwy na'r gwaeddwyr; ac er ein bod yn teimlo y dylai crefyddwyr dalu mwy o sylw i'r wasg, a gwneuthur mwy o ddefnydd o honi; nid ydym er hyny wedi ein hargyhoeddi fod dydd y pregethu wedi darfod, ac nid oes dim yn rhoddi i ni fwy o lawenydd na ehlywed am bregethwyr nerthol yn codi i ddefiro y wlad o'i chysgadrwydd. Yr achos penaf o gyfeiliornad yn hyn, fel yn mhob peth arall, ydyw ein bod yn dueddol i gyfyngu ein sylw at ryw un peth y byddwn ni ein hunain yn dygwydd ei hoffi. Y mae rhai yn fwy hoff o wrandaw nag o ddarllen, ac am hyny nis gallant gredu fod un ffordd i wneyd cymaint o ddaioni i'r byd a thrwy bregethu, er yr addefant mae yn ddiau i'r Apostolion wneuthur mwy trwy ysgrifenu. Ond llawn mor afresymol yw ymddygiad y rhai hyny sydd am osod i ffynu y wasg fel yr unig foddion i ddiwygio y byd, fel pe buasai pob dyn wedi myned ar unwaith yn fud ac yn fyddar. Rhodder y lle blaenaf i'r wasg; ond na chauer allan yr holl fanteision sydd yn perthyn yn neillduol i bregethu, fel y dywed Milton yn ol cyfieithiad I. D. Ffraid,

“Canys swyn yr enaid yw Hyawdledd.”

Wrth ffurfio barn drachefu am wahanol fath o brogethu y mae yr un duedd yn ein dilyn; ac y mae mwy na hanner y rhagfarn a goleddir yn erbyn pregethwyr poblogaidd yn tarddu o anmharodrwydd y dosbarth mwyaf deallus i gymeryd golwg eang ar yr hyn sydd yn fwyaf cyfaddas, nid yn unig i gyfateb i'w safon hwy, ond i gyfarfod ag anghenrheidiau y bobl yn gyffredinol. Ac nid yw y rhai mwyaf deallus yn nes i ddyfod i gyttundeb â'u gilydd; oblegid tra y mae rhai o honynt yn hoffi yr ymresymiadol, y mae eraill yn awyddus am y barddonol, a rhyw ychydig yn ymhyfrydu mewn gwirionedd pur heb ddim addurniadau. Ond y meddwl mwyaf eang yw yr hwn sydd yn medru gwerthfawrogi pob math o wir deilyngdod. Y mae yn mawrygu Burke gyda'i gymhariaethau amrywiol ac ysblenydd, er ei fod yn rhoddi y flaenoriaeth o anghenrheidrwydd i Demosthenes, yr hwn nid yw ond anfynych iawn yn defnyddio unrhyw gymhariaeth, a phan yn gwneyd defnydd o honi, nid yw ond prin yn cyffwrdd â hi heb adael iddi dynu y sylw yn y gradd lleiaf oddiwrth y pwnc. Ond os hyn yw eangder meddwl, y mae yma le hefyd i wahaniaeth mewn graddau, yn gystal â gwahaniaeth mewn dulliau; ac y mae yr un cymhwysder ag sydd yn galluogi dyn i gael hyfrydweh wrth ddarllen gwahanol fath o awdwyr, neu wrth wrandaw ar wahanol fath o areithwyr, yn y dosbarth uchaf, yn peri iddo hefyd ganfod gwir werth lle y mae yn y dosbarthiadau iselaf. Os na fydd yn cael llawer i'r deall na'r dychymyg, y mae yn caru gweled cyfeiriad cywir at y serch neu y gydwybod. Nid oes dim yn ei ddigio yn drwyadl mewn pregethwr mwy nag mewn dyn cyffredin ond rhagrith, pa un bynag ai rhith-wybodaeth, ai rhith-deimlad, ai rhith-fawredd, ai rhith-ostyngeddwrwydd. Os bydd yn gweled fod yno rywbeth gwirioneddol, y mae yn mwynhau y pregethwr pwy bynag fyddo, hyd yn nod pe dygwyddai iddo fod yn bregethwr poblogaidd. Ac heblaw hyny y mae yn ystyried nas gall neb fod yn boblogaidd yn hir gydag un dosbarth o bobl os na fydd ynddo ryw deilyngdod. Er nad yw yn cymeryd ei lywodraethu ar bob achlysur gan farn y lliaws, y mae yn talu gwarogaeth i ddynoliaeth, yr hon sydd yr un ynddo ef ag yn y rhai mwyaf anwybodus.

Ond y mae lle i ofni mai ychydig sydd yn meddu yr eangder hwn yn mysg y rhai mwyaf deallus yn Lloegr, ac am hyny fel rheol gyffredin nid yr un pregethwr sydd yno yn dderbyniol i'r dysgedig a'r annysgedig. Hwyrach fod yn rhaid i ni fyned yn ol at ddyddiau Chalmers ac Irving cyn y cawn neb yn alluog i gynhyrfu pob graddau am dalm

o amser. Y mae genym barch calon i Mr. Spurgeon. Y mae ganddo ryw allu tuhwnt i gyffredin, ac nid ydym yn ammheu nad yw yn gwneuthur llawn cymaint o les mewn cyleli penodol, a hwnw yn gyleh tra eang, ag a wnawd erioed gan Chalmers neu Irving. Hawdd fyddai genym gredu hefyd y gallai y mwyaf dysgedig dderbyn budd dan ei weinidogaeth os byddai yn gwerthfawrogi gwirioneddau syml yr efengyl. Yr hyn a amcanwn ei ddywedyd ydyw, ei fod yn amddifad o'r cymhwysderau hyny sydd yn anghenrheidiol i ddenu rhai o feddwl diwylliedig os na fyddant eisoes yn meddu archwaeth grefyddol. Nid ydym ychwaith yn sier nad yw Mr. Spurgeon yn fwy cymhwys fel pregethwr i'r lliaws nag oedd Chalmers ac Irving: ond dilys ydyw mai hwy a wnaeth yr argraff ddyfnaf ar feddylwyr Prydain. Y maent ill dau wedi bod yn hynod o ffodus yn y rhai a gymerasant mewn llaw y gorehwyl o ysgrifenu eu hanes. Ysgrifenydwyd bywgraffiad Chalmers gan ei fab-yn-nghyfraith, a bywgraffiad Irving gan Mrs. Oliphant. At eu gweithiau hwy y cyfeiriwn y darlennydd sydd yn awyddus i wybod hanes y ddau, gan sierhau iddo mai dyma y bywgraffiadau mwyaf difyr ac adeiladol, yn nesaf at fywgraffiad Arnold, a ymddangosodd er ys hir amser. Rhaid i ni ymfoddloni ar ychydig addysgiadau cyffredinol.

Mewn rhyw ystyr yr oedd y ddau dan lawer o anfantais i fod yn boblogaidd yn Lloegr. Yr oeddynt yn perthyn i eglwys estronol, ac yn llefaru gydag acen estronol. Dichon fod y Cymry sydd yn myned i Loegr i bregethu Saesneg yn llafurio dan un anfantais nad oeddynt hwy yn gwybod am dani, oblegid yr oedd eu cydwladwyr hwy yn ymgasglu o'u hamgylch pa le bynag yr aent, tra y mae cydwladwyr y Cymro yn fwyaf parod o bawb i'w ddiystyru. Ond o ran aceniad mae yn hawdd i Gymro ragori ar y ddau, ac ni raid iddo ofni y bydd yr iaith yn un rhwystr iddo ef mwy nag iddynt hwy. Nid oedd Chalmers nac Irving yn arfer y dull mursenaidd o lefaru, yr hwn o bob dull yw y mwyaf gwrthun; ac yr oedd Chalmers yn enwedig y mwyaf Ysgotiaidd o'r holl siaradwyr cyhoeddus a glywsom yn mysg yr Ysgotiaid eu hunain. Ac fel pe na buasai hyn yn ddigon o rwystr, yr oedd y ddau yn darllen eu pregethau. Gallwsid meddwl fod hyn ar unwaith yn sierhau eu haflyddiant: ond y mae athrylith yn gorchfygu pob rhwystrau, a daeth y ddau hyn, er eu haceniad Ysgotiaidd, ac er eu bod yn darllen eu pregethau, y ddau bregethwr mwyaf poblogaidd o bawb yn eu hoed. A braidd na feddyliem iddynt droi y rhwystrau yn

fanteision, fel y mae teyrnas gref ar ol gorchfygu teyrnas wan yn ei throï o fod yn wrthwynebol i fod yn wasanaethgar ac yn ychwanegiad cryfder.

Os oedd y ddau fel hyn yn debyg yn eu llwyddiant, yr oeddynt hefyd i fesur yn debyg i'w gilydd yn eu haflwyddiant ymddangosiadol. Efallai fod rhyw fath o fethu yn well prawf o wir fawredd na llwyddo. Pa fodd bynag y mae yn ffaith yn eu hanes lwy iddynt fethu cyrhaedd rhai o'r prif amcanion yr oeddynt yn cyrchu atynt, ac mai trwy aflwyddo y darfu iddynt lwyddo. Yr oedd Chalmers wedi cysegru ei fywyd i gryfhau a helaethu terfynau yr Eglwys Sefydledig yn yr Alban; ac efe fu yr offeryn penaf i'w siglo hyd ei sylfeini. Trwy fethu yn yr amcan lleiaf y llwyddodd i wneuthur mwy nag yr oedd yn ei fwriadu. Yr oedd Irving yn dybenu ei oes mewn mwy o niwl a thywyllwch na Chalmers. Yr oedd yr aflwyddiant yn ymddangos yn fwy, a'r llwyddiant yn llawer llai. Wrth ddarllen hanes ei flyneddoedd diweddaf y mae yn anhawdd meddwl am ddim yn fwy pruddaidd, yn fwy tebyg i un o'r *tragedies* mwyaf grymus yn Sophocles neu Shakspear. Y mae yn peri i ni feddwl am Lear, fel y disgrifir ef gan Shakspear yn erwydro heb un cartref, wedi colli ei olwg, a'r rhai oedd dan fwyaf o rwymau iddo wedi codi yn ei erbyn. Cafodd Irving ei ddiarddel gan Eglwys yr Alban dan yr esgus ei fod yn gwadu purdeb perffaith y dyn Crist Iesu. Nid ydym yn amddiffyn ei ddull ef o eirio; ond y mae yn amlwg nad oedd y rhai oedd yn ei farnu yn ei ddeall ef, nac yn deall y mater. Anhawdd iawn mewn amgylchiadau o'r fath yma yw sefyll yn erbyn y llifeiriant. Yr oedd y papurau crefyddol yn ei gyhuddo o heresi, ac nis gallasai neb ddyweyd gair o'i blaid heb gael ei ddrwgdybiad. Am hynny allan y cafodd fyned i grwydro lle y gallai. Aeth yn fwy caddugawl arno o hyn allan, a thybiodd mai cenadwriaethau o'r nefoedd oedd y lleisiau annacarol a glywai o'i amgylch yn y tywyllwch. Nid ydym yn gwybod am lawer o anghreiffitiau yn dangos mwy o sylmrydd plentynaidd a mawredd moesol mewn undeb â'u gilydd nag a welir yn ei waith yn ymostwng i gymeryd ei ddystewi am ysbaid gan rai o aelodau ei eglwys, y rhai yn ol ei dyb ef oeddynt yn llefaru trwy ysbrydoliaeth. Yr oedd wedi meddwl fod y doniau Apostolaidd wedi adgyfodi yn yr eglwys oedd dan ei ofal, a'i fod yntau yn cael y fraint o fod yn offerynol i gasglu eglwys newydd yn ol y cynllun Apostolaidd. Aeth hyn oll, o ran y llythyren, yn fethiant; ond y mae yr egwyddorion y bu efe yn dadleu drostynt yn ennill

dylanwad cynnyddol o ran eu hysbryd ar y meddyliau cryfaf mewn gwahanol ganghenau i'r eglwys Gristionogol.

Onid er mor debyg oedd Chalmers ac Irving ar rai ystyriaethau, eto anfynych y cyfarfyddir â dau mor wahanol i'w gilydd. Er fod Irving yn gynnorthwywr i Chalmers yn Glasgow, yn lle ceisio ei efelychu, ymddangosai mer annhebyg iddo ag oedd modd. Yr oedd Chalmers braidd yn esgeulus am ei ddyn oddiallan, ond dangosai Irving gryn ofal am ei wisg a'i wallt. Nid ydym yn sicr pa fodd yr oedd Irving mewn cymdeithas, ond meddyliem ei fod yn cael ei amgylchu gan ryw fawredd oedd yn cadw pellder rhyngddo ag eraill; ond gwyddom am Chalmers na fu neb erioed yn fwy nawsaidd, neu fel y dywed y Saeson, yn fwy *genial*. Yr oedd ef a chwithau mor agos at eich gilydd cyn pen pum' mynyd fel na fedrech yn eich byw lai na bod yn berffaith rydd yn ei gyfeillach. Pan esgynent drachefn i'r areithfa, yr oedd holl symudiadau Chalmers yn frysiog a bywiog; ei lais wrth ddarllen y salm heb un math o beroriaeth ynddo, er ei fod fel pob llais naturiol yn ddigon dymunol i'r glust; ei lygaid, tra fyddid yn canu, yn ymddangos fel yn edrych i fewn, yn lle edrych allan, a'i holl wynebpryd yn debyg i wynebpryd llew yn hanner cysgu. Dechreuai fel pe byddai heb gwbl ddefiro, ac ai ymlaen, er yn frysiog, eto yn afrywdd ac afrywiog. Ond yn raddol byddai yn estyn ei allu dros y gynulleidfa, edrychai ei enaid trwy ei lygaid pan godai ei ben ar ddiwedd ambell frawddeg, a chyn diwedd byddai yr holl wrandawyr fel un peirianwaith, yn hollol dan ei reolaeth, i'w droi a'i drin fel y byddai efe yn dewis. Mor bell ag y gallwn ffurfio barn, meddyliem ei fod, mewn llais ac agwedd, a'i ddull o bregethu, yn hynod o debyg i Rowlands o Langeitho. Yr oedd mwy o amrywiaeth yn null Irving; ei lais yn fwy soniarus, er nad mor dreiddgar; a'i holl agweddau yn fwy pwylllog a mawreddog, er yn llai nerthol. Ond yr oedd y ddau yn eich cario gyda hwy hyd y diwedd, gan nad pa mor annhebyg oeddynt. Dyma y prawf o wir areithiwr, a dyma yr hyn y mae pob areithiwr yn addaw ei gyflawni. Y mae llawer er hynny fel yr hen gerbydau yn eich gadael i fyned i lawr pan fynoch. Ond yr oeddynt hwy yn eich cymeryd ymlaen, bodd neu anfodd; ac ofer oedd i chwi ddysgwyl gollyngdod hyd ddiwedd y bregeth. Efallai fod Chalmers yn fwy tebyg i agerbeiriant ar y tir, ac Irving i long ar y môr; y cyntaf yn myned yn gyflymach, ac ar y cyfan yn fwy diogel; y llall yn fwy

godidog i'r golwg wrth gychwyn allan, ond yn fwy agored i dderbyn niwed wrth gyfarfod â gwyntoedd gwrthwynebus.

Nid oedd y gwahaniaeth hwn oddiallan ond arwydd o'r gwahaniaeth oddifewn. Os darllenir eu hysgrifeniadau, gwelir fod gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt yn ansawdd eu meddyliau. "Yr ydych chiwi, yn yr Alban," meddai Irving unwaith, "yn barnu meddyliau fel y byddweli yn barnu ychain, sef wrth eu teimlo; ond yr wyf fi yn hoffi canfod meddwl yn dyfod i'r golwg yn y pellder." Dyma ddesgrifiad cyflawn o'r gwahaniaeth. Yr oedd Irving yn rhy dueddol i ddibrisio pob peth agos, ac i sefydlu ei olwg ar wrthddrychau pellenig er nas gallasai fod yn sier iawn pa beth oeddynt. Byddai weithiau yn tybied ei fod wedi darganfod ynys newydd, pan nad oedd yno mewn gwirionedd ond ewmwl yn ymddangos dros ychydig, ac wedi hyny yn diflanu. Ond nis gallai Chalmers oddef cymeryd llawer o drafferth gyda dim os nad oedd yn sier pa beth ydoedd, ac yn alluog i'w fesur o amgylch ogylech. Yr oedd efe wrth natur yn rhifyddwr, yr hyn oedd yn rhoddi eglurder i'w holl syniadau. Y mae wedi cyfyngu ei hun i faes llai eang na'i gyfaill; ond y mae yn canfod pob gwrthddrych o fewn cylch y maes hwnw yn llawer mwy eglur a sier. Ei hoff awdwyr ef oedd Butler a Paley, y rhai sydd yn ymresymu gwirioneddau gyda'r un cadernid ac Euclid, ac yn gadael allan o ystyriaeth y gwirioneddau hyny nas gellir eu dwyn o fewn cylch ymresymiad. Ond hoff awdwyr Irving oedd Hooker a Milton, ac ysgrifenywyr cyfielyb, y rhai sydd yn cyfeirio o hyd at yr anfesurod. Nid oedd dim yn fwy difyr na chlywed Chalmers yn adrodd am ei brofedigaeth pan fu unwaith yn nghymdeithas Coleridge. Cyfaddefai yn rhwydd nad oedd yn deall yr athronydd hwnw mwy na phe buasai yn siarad mewn iaith ddieithr, ac o anghenrheidrwydd yr oedd efe yn barnu nad oedd Coleridge yn deall ei hun. O'r tu arall yr oedd Irving yn defnyddio pob cyfle i fwynhau cyfeillach Coleridge, a dywedai wrtho ei fod yn dyfod ato er mwyn sugno ei ymenydd. Digon tebyg y buasai Chalmers yn ennill mewn eangder meddwl pe buasai yn llafurio i ddeall Coleridge; ond y mae yn ddiammheuol y buasai yn fantais fawr i Coleridge ac Irving pe buasent yn cyfranogi yn helaethach o'r eglurder a'r grymusder synwyr cyffredin oedd yn perthyn i Chalmers.

Yr oedd y gwahaniaeth hwn rhwng eu meddyliau yn effeithio, fel y gallasid dysgwyl, ar holl arddull eu cyfansoddiadau. Amcan mawr Chalmers oedd dangos ei feddyliau gyda'r un eglurder a grymusder i

eraill ag yr oeddynt yn ymddangos iddo ef ei hun. Nis gallai adael un meddwl nes llwyddo i'w ddwyn allan yn y fath fodd ag a roddai iddo le i ddysgwyl y byddai i bawb ei weled a'i deimlo. Yr oedd hyn yn ei wneuthur yn fwy effeithiol fel pregethwr ; ond y mae yn rhwystro iddo fod mor dderbiniol fel awdur ag y gallasai fod pe buasai yn crynhoi ei feddyliau i lai o le. Y mae yn egluro, ac yn egluro, pan y mae pob darllenydd sydd yn berchen ar raddau cyffredin o synwyr wedi gweled yr holl feddwl er ysmeityn. Er hyny dylid cofio fod ganddo feddwl gwerth ei egluro bob amser, ac nad yw yn rhuo heb fod ganddo ysglyfaeth. Y mae wedi dwyn rhai meddyliau gwreiddiol i'r golwg, ac wedi taflu goleuni newydd ar lawer o hen feddyliau. Ychydig yw y llyfrau a ennillasant fwy o sylw, ac a gynnyrchasant fwy o effaith, na'r "Pregethau Seryddol" pan ddaethant allan gyntaf. Yr oedd newydd-deb y dull o ysgrifenu yn un achos ; ond nid dyna y cwbl, oblegid y mae ynddynt feddyliau cryfion a dysglaer. Yn ei holl ysgrifeniadau eraill cyfarfyddir yn fynych â'r ymresymiaidau cadarnaf yn nghyd a'r hyawdledd tanbeidiaf. Ar yr un pryd gyda golwg ar holl arddull y cyfansoddiad, y mae yn rhaid addef fod y flaenoriaeth yn perthyn i Irving. Mae yn wir fod cryn lawer o hyawdledd gau yn eu ysgrifeniadau boreuaf, ac ymresymiaidau gau yn y lleill ; ond yn y rhai goreu o honynt y mae rhywbeth uwch na hyawdledd ac uwch nag ymresymiaidau. O rai o'i weithiau gellir pigo darnau mor fawreddog â dim yn yr iaith Saesneg. Y mae mwy o nerth tawel a llonydd i'w ganfod ynddo ef nag yn Chalmers, a dyma y nerth mwyaf ardderchog o bob nerth. Yr oedd Chalmers yn ymgyrhaedd yn uniongyrchol at y defnyddiol, heb fawr o amynedd i edrych yn mhellach ; tra yr oedd Irving yn gyffredin yr un modd yn chwilio am y defnyddiol, ond yn rhoddi i'r gair ystyr uwch a helaethach, fel ag i gymeryd i fewn yr hyn oll sydd yn boddhau ac yn dyrchafu meddwl dyn : ac yn hyn y mae yn sier mai Irving oedd yn fwyaf tebyg i Natur, yr hon sydd yn mhob man yn gwisgo y defnyddiol â phrydferthwech ac ardderchowgrwydd. Yr oedd Chalmers yn adeiladu temlau mawrion ac uchel, ar gynllun yr oesoedd diweddaraf, gan ofalu yn benaf am eu cael yn gedyrn, ac mor gysurus ag oedd modd i eistedd ynddynt ; ac Irving drachefn yn efelychu hen adeiladwyr y canoloesoedd, trwy amcanu taflu harddwech dros yr holl gadernid. Y mae Chalmers weithiau, megys heb geisio, yn cyrhaedd y prydfferth a'r mawreddus ; ac o'r tu arall nid anfynych y mae Irving wrth ymgyrhaedd at y prydfferth a'r mawreddus yn

colli golwg ar y defnyddiol. Ond meddyliem mai rhywbeth fel y dywedwyd yw nodwedd cyffredin eu hysgrifeniadau.

Ond nid yn ei ysgrifeniadau yn unig nac yn benaf y mae i ni weled Chalmers. Ei brif ragoriaeth oedd ei weithgarwch, yn yr hyn yr oedd yn sefyll yn uwch na phawb o'i gydoeswyr. Gweithiwr gwan oedd Irving. Yr oedd yn ddiffygiol mewn gallu i drefnu, ac yn byw yn ormodol y tu allan i'r byd ymarferol. Dyma yr unig esboniad a ellir ei roddi ar y bregeth ryfedd hono a draddododd efe i Gymdeithas Genadol Llundain, yn yr hon y dadleuai yn erbyn trefniadau y gymdeithas yr oedd wedi ei alw i'w phleidiu, ac y taflai bob anfri ar ei hymdrechiadau a'i chasgliadau, oblegyd fod y dysgyblion cyntaf wedi eu hanfon allan heb god nac ysgrepan, fel pe na buasai neb i aberthu dim gyda'r achos cenadol ond y cenadau yn unig. Ac eto teg yw dywedyd ei fod ef ei hun i ryw fesur wedi gweithredu yn ol y cynllun hwn, oblegid y mae yn ymddangos iddo fyned i Lundain heb un dealldwriaeth yn nghylch y gyflog: a hyfryd fyddai gweled dynion ieuainc yn fwy tebyg iddo, yn anturio eu hunain yn fwy llwyr i ofal Rhagluniaeth y Nef, yn penderfynu gweithio eu ffordd yn ngororau Clawdd Offa, neu yn yr ardaloedd mwyaf anghenus y clywant am danynt yn Nghymru, heb ddysgwyl wrth eglwysi nac wrth gymdeithasau. Dywedwn a fynom y mae yma wers y byddai yn dda i lawer ei chymeryd. Ond y mae y wers hono yn ddeublyg; oblegid os dylai pregethwyr aberthu y cwbl, y mae yn canlyn o anghenrheidrwydd y dylai eraill aberthu rhyw gymaint. Y mae yma brawf hefyd o ddiffyg gwreiddiol yn syniad Irving, yr hyn oedd yn ei anghymwyso i fod yn weithiwr. Yr oedd yn ceisio dadgysylltu rhwng bywyd a threfn, a diau fod llawer yn rhoddi gormod o bwys ar drefniadau, fel pe byddent yn ddigon i wneyd y cwbl o honynt eu hunain. Ac eto lle y byddo bywyd, y mae yn rhaid iddo weithio ei hun i ryw drefn, a gweithio wedi hyny yn ol y drefn hono. Dyma lle yr oedd Chalmers yn rhagori. Yr oedd yn ddyn ymarferol, yn meddu cyflawnder o synwyr cyffredin, yn foddllawn i weithio mewn cydymffurfiad â deddfau natur: ac wrth weithio felly mawr oedd y llwyddiant a ddilynodd ei ymdrechiadau, nid yn unig i gael y bobl i'w wrandaw,—yr oedd ei ddawn fel pregethwr yn ddigon at hyny,—ond i'w codi i safle uwch fel dynion ac fel Cristionogion. Ond nid ar drefniadau difywyd yr oedd yntau yn ymddibynu. Er ei fod yn gweled anghenrheidrwydd am drefn, ac yn rhagori fel trefnwyr, ei bwne mawr o hyd oedd cael dynion yn llawn

o ysbryd gweithio. Trwy gael dynion byw, a'r rhai hyny yn fyddlawn a synwrol, i lafurio mewn cyffyrddiad parhaus â'r bobl, y gwnaeth efe gymaint o ddaioni yn Glasgow ac yn Edinburgh. Byddai yn athrawiaethu yn wastadol ar ryw ychydig o egwyddorion mawrion oedd yn dangos y pwys o uno bywyd a threfn. Un o honynt oedd yr egwyddor ymosodol. Ychydig o gred oedd ganddo ef mewn adeiladau mawrion a chyfarfodydd trystfawr i dderbyn neu ddenu dynion i wrandaw, heb ryw ddarpariaeth i fyned atynt yn bersonol, trwy ymweled â hwy yn eu tai, a thrwy eu cael dan addysg mewn ystafelloedd bychain, lle y teimlent yn rhydd i ddyfod, ac i ddywedyd eu meddyliau ar ol dyfod. Trwy gyffyrddiad personol, a llafur dystaw, ac nid trwy swm a chynhwrf, yr oedd efe yn dysgwyl i ddynion gael eu hennill. Yn hyn yr oedd bywyd ei gyfundraeth. Ond yr oedd ganddo egwyddor arall tuag at ddiogelu trefn, yr hon a alwai yn egwyddor diriogaethol (*territorial principle*), wrth yr hyn y deallai fod pawb i lafurio o fewn rhyw gylchoedd penodol, fel y byddai gan bob un ryw faes i fod yn gyfrifol am dano. Efallai fod y wedd a roddai efe i'r rhan yma o'r cynllun yn tarddu o'i ymlyniad wrth y drefn blwyfol; pa fodd bynag am hyny, y mae ysbryd y rheol yn deilwng o sylw oddiwrth Ymneillduwyr yr un modd ag Eglwyswyr. Y mae y ddwy egwyddor erbyn hyn wedi ennill derbyniad cyffredinol; ac efallai mai y perygl mwyaf yn awr yw myned i eithafoedd yr ochr arall, trwy ddysgwyl i weinidogion roddi mwy nag a ddylent o'u hamser i ymweled â'r bobl; oblegid, fel y dywedodd Hugh Miller, os bydd pregethwr wedi myned mor bell ag ymfoddloni i bregethu yn wael ar y Sabboth, dan yr esgus ei fod yn treulio yr wythnos mewn ymweliadau, byddai yn well iddo fyned un cam yn mhellach, a rhoddi heibio yn gwbl yr enw o bregethwr. Yr oedd Chalmers yn dysgwyl i eraill gyflawni y rhan fwyaf o'r gwaith wythnosol, ond fod y gweinidog i gadw bywyd yn yr holl beirianwaith, trwy flaenori mewn gweithgarwch, yn gystal a thrwy annog eraill i weithio.

ARNOLD.*

[*The Life and Correspondence of Thomas Arnold, D.D., late Head Master of Rugby School, and Regius-Professor of Modern History in the University of Oxford.* By A. P. STANLEY, M.A. 2 vols. London.]

Y MAE ein darllenwyr yn gwybod erbyn hyn, neu o leiaf, hwy a ddylent wybod, mai un o'r rhagoriaethau a hynodant ein cyhoeddiad yw ysbryd diragfarn. Nid mewn proffes yn unig y mae hyn i'w weled, ond mewn gweithred a gwirionedd. Er ein bod yn ystyried ein hunain yn rhydd, neu yn hytrach dan rwyman, i wrthwynebu yr hyn a fernir genym yn fai cyhoeddus, os bydd yn ymddangos mor bwysig fel na ddylid ei adael yn ddisylw, megys yr ydym wedi dyfod allan yn y rhifyn hwn yn erbyn dysgeidiaeth newydd Rhydychain; eto, ni chaiff ein heiddigedd yn erbyn yr amherffeithderau a'r beiau sydd yn Eglwys Loegr, neu ryw eglwys arall, ein rhwystro i gydnabod gwir deilyngdod, ac i roddi parch lle y mae parch yn ddyledus. Yr ydym ein hunain yn Ymneillduwyr o gydwybod. Y mae yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth yn ymddangos i ni yn anysgrhythrol. Nis gallwn ymfoddloni i roddi "sain anhynod" ar y mater hwn nac ar unrhyw fater arall, tramgwydded pwy a dramgwyddo. Os oes rhai yn tybio fod cariad yn gynnwysedig mewn, neu yn galw am, ddarn-guddio y gwirionedd, y maent heb ddysgu elfenau cyntaf crefydd. Ond ar yr un pryd, yr ydym yn teimlo parodrwydd ac awydd i wneyd cyflawnder i ysgrifeniadau y gweinidogion duwiol a doniol sydd wedi llafurio neu yn awr yn llafurio yn yr Eglwys Sefydledig. Yr ydym o'n calon yn caru dyn trwyadl pa le bynag y gwelwn ef; ac un felly mewn modd arbenig oedd y diweddar Dr. ARNOLD. Dyn ydoedd a fu byw i ryw ddyben, ac a adawodd ôl ei feddwl ar y byd. Y mae Dr. Tait yn dyweyd fod ei enw yn debyg o effeithio fel canolbwynt i ffurfio plaid newydd yn Eglwys Loegr. Hyfryd fyddai genym weled byddin liosog

* O'r "TRAETHODYDD," am 1845.

yn dyfod i'r maes, yn meddu mwy o ddysg a gwybodaeth, ac yn enwedig mwy o ysbryd rhydd, nag a ddangosir yn fynych gan y blaid efengylaidd, a mwy o grefydd na'r uwch-eglwyswyr, fel y byddont yn alluog i wrthsefyll cyfeillionadau y Puseyaid. Rhaid i ni gyfaddef, gyda golwg ar hyn o bwne fod ein dymuniad yn gryfach na'n dysgwyl- iad. Ond pa fodd bynag, nid yw y peth yn annichonadwy, nac ychwaith yn dra annhebygol; ac o'r hyn lleiaf y mae yn sier fod gwrthddrych y cofiant sydd yn awr ger ein bron wedi gadael dylanwad iachusol ar feddyliau llawer o'i gyd-oeswyr.

Ganwyd THOMAS ARNOLD yn West Cowes, yn Ynys Wight, Mehefin 13eg, 1795. Derbyniodd y rhan fwyaf o'i addysg forenol oddiwrth chwaer ei fam, hyd y flwyddyn 1803, pan yr anfonwyd ef i ysgol Warminster. Yn 1807, symudwyd ef i Winchester, lle yr arosodd hyd 1811. Yr oedd yn fachgen o dymer wylaidd a neillduedig, a pharhaodd felly i raddau ar hyd ei oes. Yr oedd yn nodedig y pryd hyny am ei wybodaeth mewn hanesyddiaeth a daearyddiaeth, ac yr oedd wedi darllen Gibbon a Mitford ddwy waith drosodd cyn gadael Winchester. Yn 1811, anfonwyd ef i goleg Corpus Christi, yn Rhydychain. Yn 1815, dewiswyd ef yn aelod o goleg Oriel, ac ennillodd wobr y canghellydd am y ddau draethawd goreu, Lladin a Saesneg, am 1815 a 1817. Ei gyfeillion penaf oeddynt Coleridge, yr hwn yn awr sydd yn un o'r ynadon; Hawkins, yn awr Provost Oriel; a Whately, yn awr archesgob Dublin; a pharhâodd y gyfeillach hyd ei farwolaeth. Neillduwyd ef yn ddiakon yn 1818; ac oddeutu yr un amser daeth sylweddau y byd tragwyddol gyda dwysder o flaen ei fyfyrddau. Cafodd y fath olwg ar fawredd Duw, fel nas gallai ddal y meddwl am dano heb Gyfryngwr; a chafodd y fath olwg ar Grist ag a effeithiodd arno dros ei holl fywyd, fel un yn cyfateb i holl anghenion ei reswm, ei gydwybod, a'i serchiadau. Wedi treulio rhai blyneddau yn Laleham, dewiswyd ef yn 1827 i fod yn llywydd ar ysgol Rugby. Mewn cysylltiad â'r lle hwn daeth ei enw yn adnabyddus yn fuan trwy y deyrnas a chododd yr ysgol i enwogrwydd digyffelyb. Argraffai ar feddyliau ei ddysgyblion fod ganddynt waith i'w wneyd cyn myned o'r byd, a dysgai hwynt i amcannu at wirionedd ac uniondeb, heb ofalu pa rwystrau fyddai ar eu ffordd. Yr oedd yn fwy hoff o ddiwydrwydd na chyflymdra, a dywedai unwaith wrth gyfaill am un oedd yn fwy llafurus na chyffredin, "A welwch chwi y bachgen acw? Y mae genyf gymaint o barch iddo oblegyd ei ddiwydrwydd,

fel y gallwn sefyll o'i flaen a'm het yn fy llaw." Trwy ddangos fod ganddo ymddiried yn y bechgyn, fe'u dysgai i deimlo y dylent hwythau ymddwyn yn deilwng o'r ymddiried hwnw. Ei iaith ydoedd, "Os ydych chi yn dyweyd felly, dyna lawn ddigon—yr wyf yn rhwym o gredu eich gair." Yr oedd efe ei hun yn gofalu am ymddwyn yn ddi-dwyll yn y pethau lleiaf yn gystal a'r mwyaf. Nid oedd un amser yn ceisio cuddio ei anwybodaeth. Os cyfarfyddai ag anhawsder yn y wers, cyfaddefai hyn yn rhwydd; ac os gwelai ei fod wedi rhoddi camolygiad ar ryw ymadrodd, hysbysai yn ddioed ei fod wedi camsynied.

Tra bu yn Rugby, ysgrifonodd lawer o weithiau awdurol, y penaf o ba rai oedd argraffiad newydd o Thucydides, gyda nodiadau helaeth yn Saesneg; Hanes Rhufain; ac amryw gyfrolau o bregethau. Ond yr un a barodd fwyaf o gynhwrf oedd traethawd a gyhoeddodd yn 1833, ar "Egwyddorion Diwygiad Eglwysig." Heblaw dadleu yn erbyn llawer o feiau achlysurol yn yr Eglwys Sefydledig, yr oedd am helaethu a rhyddhau ei thelerau, fel ag i dderbyn pob math o Ymneillduwyr a ellid eu hystyried yn Gristionogion. Yr oedd hyn yn tarddu yn anghenrheidiol oddiwrth ei olygiad am natur yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. Ei farn ef oedd, yn gyffelyb i'r enwog Hooker, y dylai y wlad fod mor Gristionogol, fel y byddai yr eglwys a'r wladwriaeth yn un. Y mae rhywbeth pur ddeniadol yn y golygiad hwn; ond er cymaint ein parch i Hooker ac Arnold, nis gallwn lai na sylwi yn gyntaf, mai y pwnc yw nid pa beth y dylai y wlad fod, ond pa beth ydyw; ac yn ail, y mae Arnold ei hun yn un o'i lythyrau at y Chevalier Bunsen fel yn teimlo nas gellir rhoddi ateb boddlonol i'r wrthddadl, nad yw yr eglwys yn meddu awdurdod i arfer y cleddyf gwladol. Ond nid anghywirdeb ei farn ar y mater hwn a barodd y cynhwrf; ond ei waith yn beiddio sibwrdd fod anghen am un gradd o ddiwygiad. Cododd tymmestl na bu yn aml ei chyffelyb. Pentyrid arno bob math o wawd a chelwydd gan y newyddiaduron Toriaidd, yn enwedig y papur bwystfilaidd hwnw a elwid "*John Bull*." Oerodd llawer o'i gyfeillion; a gwnawd pob ymdrech i'w ddrygu yn ei fywiolaeth. Ond yn mhen blwyddyn neu ddwy aeth y rhuthr heibio; a dyma y gwr a gydnabyddir erbyn hyn gan bob plaid yn Eglwys Loegr fel un o'r dynion mwyaf yn ei oes.

Yn 1835, dewiswyd ef yn aelod o senedd Brif-ysgol Llundain; ond yn 1838 rhoddodd y swydd i fynu, am na chaniateid i'r Testament Groeg fod yn rhan hanfodol yn holiad yr ymgeiswyr. Ar y mater

hwn yr ydym yn hollol o'r un farn ag Arnold, er nad oblegyd yr un rhesymau. Y mae yn ymddangos i ni na ddylai fod ammodau duwinyddol yn y prif-ysgolion; ond yr ydym yn sier y dylai fod holiad manylach yn yr Hen Destament a'r Newydd nag a geir yn un o honynt, fel prawf, nid o gred yr ymgeisydd, ond o'i wybodaeth feirniadol. Os dywedir fod gwahaniaeth barn yn gwneyd hyn yn anghyrhaeddadwy, yr ydym yn ateb fod cymaint o wahaniaeth barn am hanesion ac arferion Groeg a Rhufain: a pha reswm a ddichon fod dros holi yr ymgeiswyr mewn llyfrau coelgrefyddol, tra y gadewir hwynt yn anwybodus am gynwysiad y llyfr dwyfol?

Yn 1841, penodwyd ef yn Bröfesswr Hanesyddiaeth Ddiweddar i Brifysgol Rhydychain. Pan aeth yno i draddodi y ddarlith gyntaf, nid oedd yr ystafell arferol yn agos ddigon i gynnwys y gwrandawyr. Heb wadu cymaint ag un o'i egwyddorion, yr oedd erbyn hyn wedi gweithio ei ffordd i anrhydedd trwy bob gwrthwynebiadau; a derbynwyd ef fel buddugoliaethwr hyd yn nod yn Rhydychain. Dyma gefnogaeth i bob Cymro cywir-galon i lafurio o blaid yr hyn sydd iawn, pe byddai y byd yn ei erbyn. Cymer gysur frawd; pa le bynag y mae gwirionedd yn tarddu o'r ddaear, y mae cyflawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.

Ond yr oedd ei oes ddefnyddiol yn tynu at y terfyn. Y noswaith cyn iddo farw, sef nos Sadwrn, Mehefin 11eg, 1842, ysgrifennodd fel hyn yn ei ddydd-lyfr—y geiriau olaf a ddaeth o'i ysgrifell:—

“Y dydd ar ol yfory yw fy nydd genedigaeath, os caniateir i mi ei weled—y seithfed-a-deugain er y'm ganwyd. Gymaint rhan o'm bywyd ar y ddaear sydd cisoes wedi pasio! Ae yna—beth sydd i ganlyn y bywyd hwn? Mor amlwg y mae fy ngwaith allanol yn cyfyngu ac yn toddi ymaith i orchwylion llawieiddiaeth yr oedraus. Mewn un jstyr, mor agos y gallaf ddyweyd yn awr, ‘Yr wyf wedi byw.’ Ae yr wyf yn diolch i Dduw bod fy uchelgais, hyderwyf, wedi ei lwyr farweiddio; nid oes genyf ddymunial yn amgen na chamu yn ol o'm lle presennol yn y byd, heb godi i'r un uwch. Er hyny y mae gweithian, y rhai, trwy ganiatâd Duw, y dymunwn eu cyflawni cyn i'r nos ddyfod; yn enwedig un gwaith mawr,* pe caniateid i mi gymeryd rhan ynddo. Ond uwchlaw pob peth, bydded i mi edrych at fy ngwaith personol fy hun—i gadw fy hun yn bur, yn wresog, ac yn grediniol—gan lafurio i wneuthur ewyllys Duw, eto nid yn awyddus i mi fod yn offerynol yn hytrach nag eraill, os nad yw Duw yn dewis fy nefnyddio.”

Boreu dranoeth, rhwng pump a chwech o'r gloch, deffrôdd yn ngafael y poenau hyny rhwng y ddwyfron a elwir *angina pectoris*. Brysiodd ei wraig i anfon am gymhorth meddygol. Wedi iddi

* Yn cyfeirio mae yn debyg at waith a fwriadai ei ysgrifenu ar natur crefydd a gwladychiaeth.

ddydwelyd i'r ystafell, clywodd ef yn adrodd un o'i hoff adnodau : " Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist : bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant." Ar ei gais ef, hi a ddarllenodd Salm li., ac a ymostyngodd ar ei gliniau i weddio. Tra yr oedd y meddyg yn cymysgu y cyfferiau, hi a aeth i hysbysu i'r plant y perygl yr oedd eu tad ynddo ; ond anfonwyd ar ei hol yn ebrwydd i ddyweyd ei fod *yn marw*, ac yn fuan wedi iddi hi a'r plant ddyfod i'r ystafell, efe a anadlodd am y tro olaf.

Rhodewn yma ddyfyniadau allan o'i lythyrau i ddangos ei farn ar rai materion crefyddol a gwladwriaethol.

" Yr wyf yn meddwl fod unrhyw ymdriniaeth ag achosion eglwysig yn rhwym o wneyd daioni, os yw yn debyg o arwain i ryw ddiwygiad ; oblegyd byddai unrhyw ddiwygiad ag y dichon i ddyn feddwl am dano yn welliant. Pa beth ni allai ei wneuthur, pe yr ymroddai i weithio yn nhŷ yr Arglwydd, nid i glytio i fynu y twll hwn a'r llall, ond i ail-flurfio yr holl drefniant llygredig, yr hwn mewn amryw ystyr-iaethau sydd yn sefyll yn hollol fel yr oedd yn amseroedd gwaethaf Pabyddiaeth, yn unig darllener 'Brenin' neu 'Arglwyddi' yn lle y 'Pab.'—Cyf. i., tudal. 86.

" Y mae dadlen am yr anghenrheidrwydd o Esgobyddiaeth yr un peth a dadlen am yr anghenrheidrwydd o enwaediad ; y mae ac yr oedd y ddau yn gyfreithlawn, ond dywedwyd fod y naill neu y llall yn anghenrheidiol sydd anghristionogol, ac yn rhwymo yr eglwys dan iau ordinhadau enawdol : a'r rheswm pahan y dywedwyd nad oedd enwaediad yn rhwym ar Gristionogion, er ei orchymyn unwaith, sydd yn llawer cryfach yn erbyn natur ryw Esgobyddiaeth, yr hon ni orchymynwyd mewn un modd erioed."—*Ibid.* tudal. 377.

" Mi feddyliwn fod yn rhedeg trwy eich llythyr, efallai yn ddiarwybod i chwi eich hun, dybiaeth barhaus mai y Gwrth-ddiwygywr yw y blaid uniongred ; yr hyn sydd yn bur naturiol yn nghyfeillion y drefn bresennol, neu mewn un nad yw wedi boddloni ei hun, fel yr wyf fi wedi gwneuthur, fod gwrth-ddiwygiad bob amser yn gyfeiliornus ; mor drwyadl gyfeiliornus mewn egwyddor, fel er nad yw y diwygiad a gynnygir y goreu a fyddo dichonađwy, eto y mae yn dda fel buddugoliaeth yn erbyn gwrth-ddiwygiad. Yr eithafion yw gwrth-ddiwygiad yn ol pob un o reolau Aristotle, yn gyntaf am ei fod y mwyaf gwrthwynebol i'r canol-bwynt, er pan aeth dyn yn llygredig ; ac yn ail, am ei fod y drwg ag yr ydym oll yn fwyaf tueddol iddo—Myfi fy hun wyf wrth-ddiwygiwr yn fy holl dueddiadau naturiol, ac nid wyf fel arall, ond yn unig trwy rym rheswm ac egwyddor, fel y mae dyn yn gorchfygu ei holl dueddiadau drygionus."—Cyf. ii. 19.

DEDDF YR YD, A'R WEINYDDIAETH WLADOL.*

Y MAE tuedd cryf mewn dynion, pan godir hwynt i ryw awdurdod, yn yr eglwys neu y wladwriaeth, i feddwl, neu i geisio gan eraill feddwl, mai y swydd y maent hwy wedi eu gosod ynddi yw y bwysfawrocaf yn yr holl fyd. Gwelir hyn yn eglur iawn yn hanes y llywodraethau gwladol, y rhai a ymddangosant yn fynych fel pe baent yn tybied fod ganddynt hawl a medr i ymyryd â phob peth yn y nefoedd uchod, a'r ddaear isod, a'r dyfroedd tan y ddaear. Nid oes un ddeddf o eiddo y Creawdwr ei hun na raid iddynt hwy gael ei barnu, a'i gwella, ac efallai ei gwrthwynebu. Yr anghraifft fwyaf gwrthun fel prawf o'r gosodiad hwn yw gwaith y llywodraethwyr gwladol yn llyfasu ffurfio cyfreithiau i reoli teyrnas y Cyfryngwr, yn nghyd â'r dull a'r lle y dylai yr Anfeidrol gymeryd ei addoli; ac yn penderfynu nad yw i dderbyn un addoliad arall ond yn unig trwy oddefiad. Yn mhell islaw i'r ymddygiad hwn, ond ar yr un pryd y nesaf ato mewn rhyfyg a rhagrith, neu rywbeth pur debyg i hyny, yw cyfreithiau a fwriadwyd ganddynt i reoleiddio pris y farchnad. Ar egwyddorion twyllodrus y maent wedi eu sylfaenu, ac o ganlyniad y mae yn rhaid i'r effeithiau fod yn siomedig a niweidiol.

Nid oes dim yn fwy amlwg na bod deddf yr yd yn gosod rhwystr ar ffordd masnach y deyrnas; ac y mae mor amlwg a hyny fod yr amaethwyr yn ymddibynu i raddau helaeth ar y masnachwyr. Hwyrach mai gormod fyddai dywedyd nad yw y ddeddf hon yn fantais i neb: ond y mae yn ddiddadl ei bod yn anfantais i'r amaethwyr yn gystal a'r masnachwyr; er y dichon na ellir symud yr anghyfiawnder hwn, mwy na rhyw ddrwg arall o hir barhad, heb beri colled achlysurol a thymmorol i rai ag y buasai yn llawer gwell iddynt pe na chwasai erioed ei ddechreu. Ond ofer yw treulio amser i ddadlennu mwyach

* O'r "TRAETHODYDD," am 1846.

yn erbyn, nac o blaid y ddeddf hon. Y mac ei dedfryd wedi ei chyhocddi, ac awr ei thrancedigaeth yn agos, a'r dienyddwr yw Syr Robert Peel. Nis gallwn mewn un modd gydweled a'r rhai hyny a edrychant gyda chymeradwyaeth ar droedigaeth disymwth y gwr hwn. Y mac moesoldeb a chywirdeb cyhoeddus yn rhy bwysig i esgusodi yr ymadawiad lleiaf oddiwrthynt, hyd yn nod pan fyddo hyny, fel y mac yn yr achos presennol, yn foddion i ddwyn oddiamgylch yr effeithiau mwyaf daionus. Y pla sydd yn difa pob rhinwedd yn mysg pob graddau yn yr oes hon yw rhagrith—dynion yn meddwl un peth ac yn dywedyd peth arall; yn cymeryd eu llywodraethu gan amgylchiadau yn lle cyfiawnder a gwirionedd; ac yn troi gyda phob awel pan fyddo sefyll yn ei herbyn yn debyg o beri anghyfleusdra iddynt hwy eu hunain. A pha fodd y dysgwylw'n ddim yn amgen yn mhlith y cyffredin, pan y mac ein seneddwr yn rhoddi profion mor aml ac mor amlwg nad oes ganddynt gymaint ag un farn yn werth ei hamddiffyn ond tra fyddo hyny yn cydfyned a rhyw fantais bleidiol neu bersonol? Nid ydym yn anystyriol o'r anhawsderau llïosog a amgylchant y swydd y mac y prif-weinidog wedi ei alw i'w llenwi; er hyny, credwn y byddent yn llawer llai nag ydynt, pe ymfoddlonai i ddilyn rhyw un llwybr dealladwy, a phe cadwai ei olwg ar yr hyn sydd uniawn, heb droi i'r dde nac i'r aswy. Nid oes ond ychydig flyneddoedd er pan oedd yn gwneyd pob ymdrech i gynhyrfu rhagfarn y wlad yn erbyn rhyddid masnachol. Yr oedd y Whigiaid wedi cynnyg gostwng treth y bara, er nad oeddynt yn bwriadu ei symud yn hollol. Ond yr oedd hyny o gyfnewidiad yn beth na oddefai y Toriaid. Prophwydent y byddai cyflawnder o fara yn ddinystyr i'r deyrnas. Bu rhai o honynt mor ddiragrith a chyfaddef na fedrent roddi y gwaddol oedd yn weddus i'w plant os gollyngid yr ýd i fewn o'r gwledydd tramor. Yn hytrach na pheri y fath archoll anaele i deimladau tadol y Toriaid, gyrwyd y Whigiaid ar ddisberod; a chymerodd Syr Robert awenau y llywodraeth fel prif-amddiffynydd gorfaeliaeth. Erbyn hyn yr oedd gan y Toriaid yn agos i gant yn ychwaneg o aelodau yn Nhŷ y Cyffredin na'r Whigiaid. Dechreuent ymdeimlo yn dra chysurus; ac fel y bydd dyn pan wedi ei orlenwi a dedwyddweh, nid oedd dim diwedd i'w haelioni, yn enwedig i'r Pabyddion. Nid oedd berygl yn y byd tra y cedwid pris yr ýd yn ddigon uchel. Ond yn nghanol y mwyniant hwn, rywbryd yn y gauaf diweddaf, taffwyd y deyrnas yn mron oddiar ei hechel gan y si fod Syr Robert Peel wedi newid ei farn. Fel y

dywedodd Mr. D'Israeli, aeth Arg. John Russell un diwrnod i ymolehi, a lladratodd Syr Robert ei ddillad. Y dyn oedd a'i holl egni yn gwrthwynebu y cynnygiad i dynu y dreth i lawr i wyth swllt a welir yn awr yn dadleu dros ddifodi y cwbl. Ymddengys i rai fod yn hyn destun canmoliaeth; ond mewn gwirionedd, y mae ein dealldwriaeth ni yn rhy wan i'w ganfod. Er hyny, hawdd yw genym gyfaddef fod areithiau diweddaf y prif-weinidog yn anghreiffitiau ardderehog o hywadledd seneddol. Y mae ganddo ddigon o ddawn; gresyn na f'ai ganddo dipyn ychwaneg o egwyddor.

Yr hyn sydd braidd yn ddigrif yn yr achos hwn yw gweled y prif-weinidog yn dwyn ei gynnygiad ymlaen fel darganfyddiad hollol newydd, ar yr hwn y mae yn sylfaenu ei obaith am anrhydedd yn mysg enwogion y byd mewn oesoedd eto i ddyfod. Gellid meddwl wrth ddarllen ei areithiau nad oedd y fath beth a'r *League* mewn bod, er eu bod wedi llafurio am flyneddau i wasgaru goleuni ar y mater hwn i'r conglau mwyaf tywyll. Ac o ran hyny, yr oedd Adam Smith wedi gweled y mater yn mhell cyn i'r cynghrair a nodwyd gael ei lunio. Ac yn ddiau, hyfryd yw cofio mai dynion anghyhoedd, wedi'r cwbl, trwy eu hysgrifeniadau, yw arweinyddion y byd. Ond nid wrth ddarllen Adam Smith, na chyhoeddiadau y *League*, y deallodd Syr Robert y pwnc hwn. O nage; ond wrth efrydu yn ddwys ac yn ddwfn uwchben ei waith ei hun! Yr oedd efe, oddeutu pedair blynedd yn ol, wedi gostwng y trethi ar rai nwyddau tramor; ac mae yn tystio mai wrth sylwi yn fanwl ar effaith y cyfnewidiad hwn y tywynodd i'w feddwl yr anghenrheidrwydd am ddiddymu deddf yr ŷd. Cyffelybir ef gan y "*Daily News*" i ryw grydd yn un o siroedd Lloegr, yr hwn fyddai yn poeni ei ben yn nghylch llawer o bethau: ac un tro dyfeisiodd welliant o gryn werth mewn rhyw beirianwaith, a chymerodd ei daith i Llundain gyda'r bwriad o ddyogelu iddo ei hun yr hawl i'r elw a ddeilliai oddiwrtho. Ond erbyn myned yno, deallodd fod y gwelliant dan sylw yn hysbys i bawb ond iddo ef er ys mwy nag ugain mlynedd. Felly am y pwnc hwn, yr ydym yn ofni fod Syr Robert wedi bod ugain mlynedd o leiaf yn rhy ddiweddar; er hyny, y mae yn gysur meddwl nad yw eto wedi myned yn rhy hen i ddysgu.

Meddyliasom unwaith fod Syr Robert wedi cael tro gwirioneddol, a'i fod yn penderfynu o hyn allan i ddilyn buchedd newydd. Pan roddodd ei swydd i fynu ychydig fisoedd yn ol, dywedasom ynom ein hunain, "Y mae yn rhaid fod rhyw onestrwydd yn y dyn hwn wedi'r

cyfan; ac y mae yn ddrwg genym ein bod wedi coleddu meddyliau rhy gyfyng am dano. Wedi ei argyhoeddi fod rhyddid masnachol yn gyfiawn, y mae, mewn edifeirwech ac awydd i wneyd iawn am ei gamyddygiad blaenorol, yn trosglwyddo ei swydd i Arg. John Russell, ac yn penderfynu ei gynnorthwyo i ddwyn ymlaen y cyfnewidiadau sydd yn anghenrheidiol er lles y wladwriaeth." Mawr oedd ein llawenydd wrth weled arwyddion mor obeithiol; oblegyd gwell yw genym feddwl y goreu am bawb hyd y gallom. Ond ysywaeth, nid hir y caniatodd Syr Robert i ni feithrin barn mor dyner am dano. Pan ddaeth y gwirionedd i'r goleu, ymddangosodd ei fod wedi ymdrechu cadw ei swydd hyd y gallai ar ol newid ei farn, ac na soniodd un gair am roddi lle i'r Whigiaid nes i'r swyddogion eraill wrthod cydweithredu. Gwir iddo ddywedyd yn y senedd mai ei reswm dros encilio oedd, ei fod yn barnu mai y Whigiaid oedd fwyaf cymhwys i gymeryd y gwaith mewn llaw: ac nid annhebyg fod rhai na welant yn hyn eto y gradd lleiaf o anghysondeb. Ond o'n rhan ni, gwell genym yr hen filwr, Wellington, yr hwn a addefai rhag blaen nad oedd efe wedi newid ei farn, ac na fuasai yn pleidio y cyfnewidiad lleiaf yn yr hen gyfraith, ond yn unig trwy orfod. Yr oedd efe yn un o'r gweinidogion a wrthwynebant Syr Robert ar y cyntaf, gan ystyried, os oedd raid diddymu deddf yr ŷd, mai Arg. John Russell a ddylasai gael yr anrhydedd o wneuthur hyny: ac ni chydysniodd i adgymeryd ei swydd nes y dealodd fod y Whigiaid yn teimlo eu hunain yn analluog i ymaffyd yn y gorchwyl.

Yn awr, am yr anallu hwn, yr oedd yn tarddu mewn rhan oddiwrth y wybodaeth sicraf am anewyllysgarwech y Toriaid i gydweithredu, pe buasai Arg. John Russell yn cynnyg y ddosran leiaf o gyfnewidiad; er fod dros gant o honynt yn barod i droi gyda Syr Robert Peel i bleidleisio dros lwyr ddiddymiad. Felly pan ranwyd y tŷ ar ol dadl hirfaith, yr oedd 97 o fwyafri o *blaid* Syr Robert; ond dir yw y buasai mwyafrif cyffelyb yn *erbyn* Arg. John Russell. Er hyny, nid yw y gweinidogion presennol wedi dianc heb wrthwynebiad ffyrnig oddiwrth Doriaid yr hen ysgol, y rhai nid ydynt eto wedi cyrhaedd y fath gyflymdra i wybod yr awr o'r dydd. Rhaid addef fod y boneddwyr a berthynant i'r dosbarth hwn wedi cyfarfod â siomedigaethau chwervon; ac nid rhyfedd yw eu gweled o'r diwedd yn gwirio dywediad y Dr. Arnold, fod y gynffon yn fynych yn brathu y pen. Un o honynt, o'r enw Syr J. Tyrrell, gan gyfeirio at yr hyn a soniasai Syr Robert am ei obaith y derbyniai

gyfiawnder wedi iddo farw, a ddywedai yn y modd mwyaf difrifol mai goreu pa gyntaf y cymerai hyny le. Pell iawn oddiwrthym ni yw rhoddi Amen gyda'r weddi hon.

Nis gallwn derfynu y sylwadau hyn yn well na thrwy gymeryd benthg geiriau Morgan Llwyd yn "Llyfr y Tri Aderyn:"—

"Nid oes neb yn nheyrnas Lloegr nac yn ninas Llundain yn ei ddeall ei hunan. Y peth a wnelont heddyw mae rhyw ysbryd yn ei ddadwneuthur yfory. Ni welaf fi ddim yn dyfod i ben yn ol meddyliau dynion; ond mae rhyw droell arall yn troi uwchlaw synwyr pawb. Mae'r ũs yn ymgasglu, a chorwynt disymwth yn ei chwalu; mae'r pryf copyn yn hir yn gweu ei rwyd, a rhyw blantos yn ysgubo'r cwbl i lawr mewn mynyd awr. Mae'r bobl a'r a welaf i mewn odyr galch, neu fel plant yn gwneuthur tai bach yn min afon, a'r llifeiriant yn ddisymwth yn cōdi, ac yn ysgubo'r cwbl. Mae rhyw nerth yn mysg dynion yr awrhon nad oedd o'r blaen. Mae rhyw ysbryd rhyfedd yn gweithio er nad yw'r bobl yn gweled."

ADDYSG YN NGHYMRU.*

[*Reports of the Commissioners of Inquiry into the state of Education in Wales.*]

DIFYR yw darllen y disgrifiadau camsyniol a roddir weithiau gan ysgrifenwyr tramor o gyflwr y deyrnas hon, nid yn unig gan ymwelwyr o wledydd pellenig, megys India neu Persia, ond yn nghyfansoddiadau dynion dysgedig ar gyfandir Ewrop, a'r rhai hyny wedi treulio llawer o amser yn Lloegr i ddeall arferion y genedl. Dywed rhai o honynt mai un o'r sefydliadau mwyaf anrhydeddus yn ein plith yw yr ymladdfeydd a welir yn fynych mewn gwahanol ranau o Loegr; eu bod yn eael eu dwyn ymlaen ar gost y llywodraeth; a bod Syr Peel (fel y galwant hwy ef) o un ochr, a Lord Palmerston o'r ochr arall, yn arfer rhoddi eu presenoldeb yn y cyfryw leocdd i gefnogi yr ymladdwyr. Ond yr hyn sydd yn eu dyrysu yn hollol, yw y dull y mae trigolion y wlad hon yn treulio y Sabboth. Ni fedrant ddirnad pa fodd y mae yn ddichonadwy i neb fyw heb weithio neu chwareu ar ddydd yr Arglwydd. Dyma rai o'r camsyniadau chwithig y mae dynion call yn syrthio iddynt wrth geisio darlunio pobl o iaith a nod-wedd wahanol i'r eiddynt hwy eu hunain. Nid rhyfedd, gan hyny, os cyfarfyddwn â rhai pethau lled newydd a dycithr yn adroddiadau yr ymchwilwyr a fuont yn ddiweddar dros y llywodraeth yn edrych i ansawdd addysgiant yn Nghymru. Nid ydym yn dyweyd hyn i'w beio, ond yn hytrach i'w hesgusodi. Yr oeddynt wedi ymgymeryd â gorchwyl a fuasai yn gofyn oes o ragbarotôad, mewn dygn efrydiaeth o iaith ac arferion y Cymry, eu barnau a'u rhagfarnau, eu manteision a'u hanfanteision, ac uwchlaw y ewbl, eu teimladau a'u hymdrechiadau crefyddol. Afresymol gan hyny oedd dysgwyl dealltwriaeth cywir am ansawdd ein gwlad mewn tri mis neu bedwar oddiwrth ddynion oedd ychydig cyn hyny mor anwybodus o honom a neb o drigolion y blaned newydd Neptune. Nid oedd ganddynt ond gwneyd

* Or "TRAETHODYDD," am 1848.

y goreu o'r gwaethaf; a'r rhyfeddod yw, eu bod ar y cyfan wedi gwneyd cystal.

Y mae y rhan fwyaf o'r Cymry darllengar wedi deall erbyn hyn; ond odid, nad yw y darluniad a roddir o honom yn yr Adroddiadau dan sylw mor brydferth ag y byddai dymunol; ac nid ydym yn petruso dadgan ein barn fod yr adroddwyr yn anfwriadol wedi gwneyd cam â ni fel cenedl. Er hynny nid oes un dyn cydwybodol a ddichon haeru fod yr holl gyhuddiadau yn ddisail. Y mae ynddynt beth gwirionedd; a dylem ninnau ei ystyried yn ddifrifol, a meddwl am ddiwygio. Poenus ydyw gweled ysbwyr wedi dyfod i chwilio a chwalu ein gwendidau a'n gwaeleddau; a mwy poenus yw eu gweled yn dadlennu y cyfan o flaen llygaid yr estroniaid; ond mwy poenus drachefn yw gorfod teimlo nad ydynt yn ein difrio heb achos. Ond caffed y gwir ei le, beth bynag fyddo y canlyniad. Os oes yma beth anwiredd, fel yr ydym yn credu fod, dynoether ef yn ddiarbed; ond na fydded i'r cyffro a'r cynhwrf wrth geisio dynoethi yr anwiredd beri i ni anghofio y gofyniad, A oes yma ddim gwirionedd? Na fyddwn fel trigolion Ai, yn amser Josua, yn esgeuluso ein tai ein hunain, wrth fyned allan yn erbyn y gelynyon. Gwell bob amser yw ymwroli yn erbyn y drwg, na cheisio ei guddio neu ei bellhau. Ofnwn fod mwy o anwybodaeth ac anfoesoldeb yn Nghymru nag y mae llawer o ddynion da yn ei ddychymygu. Gall dyn fod flyneddau yn Llundain yn cerdded ei heolydd llydain a theg, heb wybod ond ychydig am y tlodi alaethus sydd o'i mewn, er fod yno filoedd mewn ffeuau budron o fewn ychydig latheni ar bob llaw iddo yn y cyflwr mwyaf gresynus. Yn yr un modd, nid ydym heb radd o ofn fod crefyddwyr Cymru yn y dyddiau hyn yn cyfyngu eu hunain yn ormodol i'r prif ystrydoedd. Y maent yn dilyn ymarferiadau a chyflawniadau crefyddol yn eu plith eu hunain, ac yn ymfoddloni ar hynny; yn lle tori allan ar y dde a'r aswy i chwilio am y trueiniaid nad oes neb yn tosturio wrth eu heneidiau. Hyderwn y bydd y sylw presennol ar agwedd ein gwlad yn foddion i'n deffro a'n diwygio yn hyn; ac yna, er fod gweinyddiad y cerydd yn anghysurus i'n teimladau, eto bydd yr effeithiau daionus a gynyrehir trwyddo yn peri i ni gofio am dano mewn amser dyfodol gyda llawenydd.

Y mae cryn ddadlennu y dyddiau hyn o barth y gofyniad, Pa un a ddylai y llywodraeth ymyryd âg addysg y wlad ai peidio. Beth bynag yw y gwahaniaeth barn ar y pwne hwn, y mae dyledswydd pob plaid o grefyddwyr yn amlwg, sef ymdrechu mwy nag erioed i amaethu

meddylliau y werin. Oni wnawn ni, y mae ein llywodraethwyr yn rhwym o gymeryd y gorchwyl i'w dwylaw eu hunain. Yn anialdiroedd America, ar dywydd sych, bydd tan yn ymgymeryd weithiau yn y gwelltglas crin, o herwydd esgeulusdra rhyw deithiwr difeddwl, ac yn myned rhagddo gyda'r fath gyflymdra, fel mai ofer i neb a fyddo ar ei ffordd yw cynnyg dianc rhagddo trwy north a buander traed. Yr unig foddion o waredigaeth yn y cyfryw amgylchiad yw rhoddi tân yn ddioed yn y glaswellt, i'w losgi ymaith cyn i'r tân cyntaf gyrhaedd y lle. Ar yr un egwyddor y mae yn rhaid i ninnau weithredu. Os ydym yn ofni i'r llywodraeth gaethiwo ein rhyddid yn y mater hwn, gofalwn na fo iddi ddim gwaith: codwn o'i blaen i ddifodi anwybodaeth ac anfoesoldeb oddiar wyneb y dywysogaeth. Gofidus yw genym weled Ymneillduwyr yn gwrthwynebu eu gilydd, yn lle ymuno yn yr amcan mawr hwn. Mewn un misolyn yn ddiweddar, yr oedd y golygydd, yn nghanol yr awgrymiadau mwyaf adgas at bleidiau eraill, yn ceisio profi nad oedd neb wedi gwneyd dim yn werth son am dano o blaid yr egwyddor wirfoddol ond efe a'i gyfeillion. Ond byddai yn burion i'r hen frawd hwn gofio fod yn ddichonadwy i ni bleidio yr egwyddor wirfoddol mewn crefydd, nid trwy siarad yn unig, ond trwy ei chario i weithrediad. Ac felly yn mhwnce yr addysgiant, y mae yn bryd i ni gredu a theimlo fod yn rhaid gwneyd heblaw dyweyd.

Ond er ein bod yn gorfod addef fod llawer o wir yn yr Adroddiadau hyn, ac yn teimlo y dylem ymdrechu i godi ein cenedl yn uwch mewn gwybodaeth a moesoldeb, eto, fel y crybwyllasom yn barod, yr ydym yn mhell oddiwrth feddwl eu bod yn rhoddi golygiad cywir ar agwedd Cymru a nodwedd ei thrigolion. Wrth ddarllen amryw ranau o honynt, braidd na thueddid ni i ddyweyd, fel y ferch hono yn mynwent Clynnog, yr hon y sonir am dani yn yr erthygl ar gamgyhuddiadau yn ein rhifyn am Ebrill diweddar, "Celwydd seintyn yn dy feintyn." Ond dealler nad ydym mewn un modd yn tybied fod y boneddigion a gyfansoddasant y llyfrau hyn yn euog o ddwyn camdystiolaethau gwirfoddol. Y mae yn eglur eu bod hwy yn awyddus i gael allan y gwirionedd: ac oni b'ai eu bod yn ddynion cydwybodol, yn barnu drostynt eu hunain, yn lle gwrandaw ar bob coegddyn a fu yn ceisio eu hyfforddi pan oeddynt yn Nghymru, buasai eu disgrifiad o honom yn llawer anferthach nag ydyw. Mewn rhai pethau y maent wedi rhoddi llawn cymaint o ganmoliaeth i ni ag a haeddem—os nid mwy; ac yn ddilys, un o'r argraffiadau a adawodd y darlleniad ar ein

meddwl ni, yw, fod y tri wedi ymddwyn yn weddol amhleidgar. Er hyny, nis gallwn gau allan y grediniaeth eu bod, yn ddjarwybod iddynt eu hunain, wedi cael eu harwain i'n desgrifio ar y cyfan yn is nag ydym. Y gwaith a ymddiriedwyd iddynt gan y llywodraeth oedd chwilio i'r diffyg o addysgiant yn Nghymru, ac yr oedd hyn yn eu tueddu yn naturiol i edrych ar ein gwaeleddau yn hytrach na'n rhagoriaethau. Hawdd iawn hefyd oedd iddynt hwy a'u cynnorthwywyr fyned i eithafoedd oddiar deimlad y dylent gyflawni eu gwaith yn fanwl a dihoced. Fel hyn, y maent yn ofalus i nodi allan y beiau yn mhob ysgol, ac i gofrestru yr holl gam-atebiadau; ond ymddengys fod hyn wedi tynu eu sylw yn ormodol oddiwrth bob peth arall. Gwyddom am rai ysgolion, lle yr oedd amryw o'r bechgyn yn ateb pob gofyniad rhag blaen; ond nid oes gair o son am hyny yn yr Adroddiad. Y mae genym hefyd anghreiffitiau yn profi eu bod ar rai achlysuron wedi cael allan feiau lle nad oeddynt. Mewn un man, canfuasant bapyr argraffedig ar y muriau, yn hysbysu fod yr *Horrorable* Thomas Coltman yn dyfod yno—yn lle *Honorable*: a rhoddir hyn i lawr i ddangos anwybodaeth y trigolion; pan mewn gwirionedd nad oedd yn dangos dim ond diffyg gofal yn yr argraffydd: a phe buasent yn sylwi yn fanylach ar odre y papyryn, buasent yn gweled mai nid yn y dref hono yr oedd wedi ei argraffu. Yr un mor resymol fyddai i ninnau ddyweyd nad ydynt hwythau yn medru sillebu Saesneg; oblegid yn y llinell nesaf ond un at y gair *Horrorable*, yr hwn sydd wedi peri cymaint o ddechryn iddynt, y mae y gair cyffredin *afford* wedi ei argraffu yn *afford*. Ac yn yr un Adroddiad gallem gael anghraifft arall sydd yn llawer tebycach i arddangosiad o anwybodaeth. Yn agos i'w ddiwedd, y mae Mr. John James, un o gynnorthwywyr y *commissioners*, yn rhoddi rhestr o enwau y llyfrau Cymreig; ac yn eu plith y mae "Gardd o Gerddi," o waith Thomas Edwards o'r Nant. Yn awr, fe w'yr y rhan fwyaf o blant yr Ysgolion Brytanaidd mai y gair Seisneg am *cerddi* ydyw *songs*, ac mai y cyfieithiad cywir o'r enw "Gardd o Gerddi" yw *Garden of Songs*. Ond pa fodd, dybygwech chwi, ddarllenwyr, y mae Mr. John James yn ei gyfieithu? Fel hyn, "*Garden of Gardens*." Ar y cyntaf, meddyliasom nad oedd Mr. John James yn gwybod y gwahaniaeth rhwng *Gardd o Gerddi* a *Gardd o Erddi*; a theimlasom ninnau beth blys i ddwyn y cyluddiad o anwybodaeth yn ei erbyn yntau. Ond erbyn i ni gymeryd pwyll, gwelsom ei fod, mewn rhanau eraill o'r Adroddiad, yn ysgrifenu Saesneg yn gywir ac

yn ddestlus. Y mae yn ddiammheu genym, gan hyny, mai mewn cbargofiad y gwnaeth efe y camsyniad. Tebyg nad oedd y llyfr o'i flaen ar y pryd, ac iddo mewn gormod brys gymeryd yn ganiatâol mai ei enw oedd *Garld y Gerddi*. Y mae camgymeriad o'r fath yn dygwydd weithiau i'r gorau, ac annhegweh i'r eithaf fyddai eu priodoli i anwybodaeth. Ni fuasem yn aros cymaint gyda'r un ffaith hon, ond yn unig i ddangos mor hawdd yw pigo beiau, os rhoddwn ein bryd ar hyny; ac nad yw pob peth yn brawf o anwybodaeth ag sydd yn ymddangos felly ar y cyntaf. Y diffyg o gadw hyn mewn cof yw an o'r ewynion sydd genym yn erbyn y *commissioners*, a'u cynnorthwywyr.

Gyda golwg ar foesoldeb ein gwlad, y mae y darluniad a roddir yn yr Adroddiadau hyn yn dywyll a phruddaidd dros ben. Ond yn y mater hwn, nid oes genym un bai i'w roddi wrth ddrws yr adroddwyr. Y maent hwy yn llawer tynerach a chynnilach na degau o'r Cymry eu hunain. Os gwir yw rhai o'r tystiolaethau a dderbyniasant, yr ydym yn waeth na *barbariaid*; nid oes y fath beth a diweirdeb na gonestrwydd yn ein plith, nac un syniad am danynt; nid yw ein crefydd yn effeithio dim ar ein hymarweddiad; ac nid yw Cymru drwyddi oll ond pentwr o lygredigaeth. Y mae yn ddirgelweh i ni pa hyfrydweh y mae neb yn gael mewn camddarlunio eu gwlad a'u cenedl. Yr ydym yn addef fod llawer o arferion gwarthus yn ffinu yn Nghymru; ond y gwarth mwyaf o bob gwarth sydd yn perthyn iddi yw y gwarth o fagu y fath ddynion a hyn. Bu cynhwrf dirfawr yn Lloegr am flyneddau o herwydd i O'Connell ddyweyd nad oedd gwragedd y Saeson yn ddiwair; ond llawer mwy annaturiol ac annyoddefol yw y cyhuddiad yn erbyn merched Cymru oddiwrth ddynion parchedig yn ein plith ni ein hunain—dynion yn anadlu awyr Cymru, yn llefaru iaith y Cymry, ac yn byw ar lafur y trigolion annedwydd y maent hwy mor greulawn yn eu gwarthruddo.

Dyma anghraifft o Sir Fon:—

Dyfyniad o Lythyr y PARCH. J. W. TREVOR, Periglor Llanbeulan, Môn, a Chaplan i ARGLWYDD ESGOB BANGOR, ar gynnydd Bastarddiaeth yn Môn, fel canlyniad addysg ddiffygiol.

“Y mae yn anhawdd, yn gystal ag yn ofidus, desgrifio mewn ymadroddion priodol sefyllfa waradwyddus y bobl gyffredin yn Nghymru, gyda golwg ar gydgyfeillach y ddau ryw; ond y mae o bwys i'r gwirionedd gael ei wybod. Yr wyf yn credu fod cyfartalrwydd plant anghyfreithlawn i'r boblogaeth yn fwy yn Môn (gyda dim ond un eithriad, a hono yn Nghymru) nag eiddo unrhyw sir arall yn y

deyrnas. Y mae y ffaith hon yn ddigon i brofi iselder moesol ein pobl gyffredin. Ond rhaid i mi dynu eich sylw yn fwy neillduol at rai adroddiadau ar y mater hwn, y rhai a ddangosant i elwi ar unwaith yr hyn y dymunwyd ei wneyd yn hysbys, sef fod egwyddorion moesol pobl Cymru yn hollol lygredig ac anfad yn y pwnc hwn; fod yn anmbosibl i unrhyw attalfêydd na chosbedigaethau o eiddo y gyfraith wella, nac hyd yn nod leihau y drwg, hyd nes y dysgir hwy, trwy y defnyddiad o addysg well, a gwarciddiad mwy cyffredinol, i edrych ar eu harferion presennol, gyda themlad o gywilydd a gwyleidd-dra. Yr wyf yn awr yn gosod o'r neilldu yr ystyriaeth o bob egwyddor uwch—oblegid nid yw y cyfryw i gael edrych amynt yn bresennol. Tra y parhâ y gwahanol rywiau i gyd-yngymysgu fel anifeiliaid, ofer yw dysgwyl y gellid eu hattal gan grefydd na chydwylbod.

Yr wyf yn haeru gyda sierwydd, fel ffaith anwadadwy, nad yw anniweirdeb yn cael ei ystyried fel drwg, nac hyd yn nod braidd fel gwendid, gan y bobl gyffredin yn Nghymru. Y mae yn cael ei ystyried fel mater o anghenheidrwydd—fel y llwybr arferedig rheolaidd i'r ystad briodasol. Y mae yn cael ei addef, ei amddiffyn, ac hyd yn nod chwerthin am ei ben, gan y naill ryw yn gystal a'r llall, heb betrusder na chywilydd, nac un ymgais i'w gelu. A pha beth, os, fel y dygwylld yn fynych, y bydd i'r dyn brofi yn affyddlaw, ac i briodas beidio cymeryd lle, ac eto i blentyn gael ei eni? Yna y mae y gorchwyl o dyngu y plentyn yn dyfod ymlaen, a chydag ef, fel y mae y gyfraith yn awr yn gofyn, yr holl ddynoethiad aflan o'r anlladrwydd a'i blaenorodd.

Yn awr, mi a adroddaf rai ffeithian fel y daethant o dan fy sylw i fel heddynad, a chwi a gofiwch eu bod yn cael eu gwrandaw gan y cyhoedd o bob oedran a rhyw:—

Geneth ieuane a ddygwyd ymlaen i gymeryd ei llw ei bod hi yn eistedd wrth y tân, tra yr oedd ei mam weldw yn y gwely gyda'i charwr yn yr un ystafell; a hyn a wnaeth ar amryw achlysuron.

Yr oedd un arall yn cymeryd ei llw ei bod yn sefyll yn ymyl, ar ganol dydd golen, ac yn yr awyr agored, tra y cyflawnid y weithred a wnaeth ei chyfeilles yn fam bastarddyn.

Fod dyn mewn gwely gyda dwy ddynes, nos ar ol nos, am fisoedd yn nghyd, a chymerodd nu o'r merched ei llw i'r ffaith ofynedig.

Daeth rhieni, neu ynte un o honynt, ymlaen i brofi tadogaeth plentyn ordderch eu merch—hwyntlwy eu hunain yn fynych yn dystion o'r weithred.

Gallwn fiosaogi y cyfryw anghreiffitiau i brofi yr hollol ddiffyg o weddeidd-dra naturiol cyffredin a chywilyddus yn mysy y bobl.

Cafodd y dystiolaeth uehod ei rhoddi (ac felly y rhoddir hi bob amser, heb ond ychydig eithriadau) heb y Gronyn lleiaf o anewyllysgarwech na gwyleidd-dra, a chyda'r fath wammalrwydd ac eofndra ag oedd yn profi fod y personau yn hollol galed, ac wedi eu handdfadu o bob teimlad o gywilydd.

Pan y gwnaethum ymgais wrth Fwrdd yr Undeb i berswadio y *guardians* i adailadu *workhouse* (nid oes yr un yn Mon), a phan y defnyddiais fel rheswm dros hyn, y byddai ildo attal cynnydd bastarddiaeth, yr hyn sydd yn draul ddirfawr ar ein trethi, yn gystal ag yn warth i'n cyfundeb, hwy a wnaethant wawd o'r syniad ei fod yn unrhyw waradwydd, a hwy a haerasant fod arfer Cymru yn cyf-iawnhau yr ymddygiad. Mewn gair, y mae y *guardians*, y rhai ydynt agos i gyd yn ffermwyr gwledig, mor gymnefin a'r pechod hwn, ac wedi cyfranogi mor hir ynddo, fel ag y maent yn analluog o unrhyw deimlad priodol ar yr achos. Y maent hyd yn nod yn efnogi yr arferiad; y maent yn cyflogi eu gwatacthyddion, gan gytuno i'r ammod, iddynt gael rhyddid i dllwyn i mewn i'r dyben hwn, ar amserau penodol, neu ynte, efallai, pa bryd bynag yr ewyllysiont. Y mae bechgyn a genethod tai amaethwyr yn cael eu dwyn i fynu o'u mabandod, a'r arferion fliaidd hyn o flaen eu llygaid a'u clustiau yn barhaus, nes y maent o anghenheidrwydd, ar

y demtasiwn gyntaf, yn syrthio i'r un llwybr eu hunain. Mewn gair, y mae meddyliau ein pobl gyffredin yn y mater hwn, hyd yn nod yn fwy nag yn yr un arall a nodais, wedi myned yn duwyadl ac yn gyffredinol lygredig ac anifeilaidd.

I gyfarfod a'r drwg dychryllyd hwn, y mae y drefn bresennol o addysg yn Nghymru yn hollol ddinerth. Nis gallaf lai na barnu y gwnai cynllun cyffredinol o ysgolion plwyfol, wedi ei ffurfio a'i sefydlu gan y llywodraeth, lwyddo, o dan drefniadau priodol i gynnyrchu newidiad er gwell. Yr wyf yn gwybod yn dda fod pob cynllun o'r fath yn cynnwys llawer o anhawsderaau, ac y cyfarfyddai efallai a gwrthwynebiad cadarn. Y mae yn rhaid i lwyddiant llawer o bleidiau gwrthwynebol, a lawliau ymgystadlauawl, gael eu hystyried a'u pwyso, ac wedi y cwbl y mae yn debygol nas gellid hyd yn nod wneyd ymgais at liaws o bethau ag y dymunem eu cyflawni; er hyny, yr wyf fi yn meddwl y dylai y llywodraeth ymyraeth yn y mater, a'n gorfodi i wneyd ein dyledswydd tuag at ein brodyr tlodion—tuag at y rhai hynag ag yr ydym trwy eu llafur yn byw, a thrwy eu drygan, y rhai sydd yn cael eu meithrin gan ein hesgeulusdra ni, yr ydym ni yn gystal a hwythau yn cael ein drygu a'n gwarthruddlo. Y mae y trigolion yn mhob plwyf yn cael eu trethu i borthi y tlodion—pahan na wneid hyny yn gystal i'w haddysgu hefyd?

Ydwyf, Syr, eich tra ffyddlaw'n wasanaethydd,

J. W. TREVOR,

“*At II. W. Vaughan Johnston, Ysw.*”

Periglor Llanbeulan, Mon.”

Bobl Môn! a yw y dystiolaeth hon yn wir? Os ydyw, nid ydych yn deilwng o gael eich galw yn ddynion, chwaethach Cristionogion. Ai dyma y wlad lle bu Christmas Evans a John Elias yn llafurio am gynnifer o flyneddan. Ond gwyddom nad yw yn wir: nis gall fod yn wir. A dylech chwithau alw ar y Trevor hwn i brofi ei gyhuddiad, neu gyfaddef ei fod wedi dwyn camdystiolaeth. Ond gadewch i ni weled pa beth y mae efe ei hun yn ei wneyd at ddiwygio y bobl ddrygionus y mae yn byw yn eu plith. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, y mae ganddo ddigon o le i weithio. A ydyw yn gwneyd rhyw beth heblaw llafurio i argyhoeddi ei blwyfolion o'r ddyledswydd bwysig o dalu degwm ar pytatws? Wel, erbyn troi at hanes y plwyfydd sydd yn perthyn iddo ef, yr ydym yn cael nad oes ynnddnt oll yr un ysgol. Fel y canlyn y dywed yr Adroddiad:—

“LLECHYLCHED. Yr oedd unwaith Ysgol Eglwysig yn y plwyf hwn. Mae yr adeilad yn aros; ond y mae wedi ei gau i fynu am y saith mis diweddfaf. Cefais ef wedi ei gloi, a'r ffenestri wedi eu byrddio. Gallai gynnwys 105 o blant. Y byrddau a'r meinciau nid oeddynt ond ychydig, ond mewn cyflwr da. Y cwbl oedd yn eisieu oedd ysgolfeistr ac ysgoleigion.

Llechlched sydd un o'r pentrefydd mwyaf ar y ffordd fawr o Bangor i Gaergybi. Amgylchynir ef gan bump o blwyfydd. Yn yr holl ddosbarth hwn o'r wlad, yn cynnwys poblogaeth o 2,563, ni chefais ond un ysgol i'r tlodion, ac yr oedd hono o'r fath iselaf, ac yn ddiddfnydd fel moddion addysg. (Llandrygarn.)

Y mae pobl y pentref yn cwyno eu bod mewn anghen mawr am ysgol; nas gwyddant beth i'w wneyd a'u plant, y rhai a adewir i grwydro oddiamgylch y ffordd mewn rhifedi mawr, yn segur, neu yn gwneyd drygioni.

Y plwyfydd sydd yn ecfansoddi y dosbarth rhag-grybwylledig, yw y rhai hyn :—

	Poblogaeth yn 1841.
Llechylched - - - - -	618
Llanfihangel - - - - -	200
Llanfaelog - - - - -	786
Llanbeulan - - - - -	314
Ceirchiog - - - - -	160
Llandrygam - - - - -	485
Cyfan - - - - -	2,563

Y Parch. J. W. Trevor (y person), a roddodd yr hysbysiad a ganlyn am Llechylched :—

'Cefais yn y plwyf hwn ysgoldy wedi ei adeiladu yn 1827, trwy gynnorthwy y Gymdeithas Genedlaethol, gyda thraul o 70*p.* Yr oedd yma ysgolfeistr ar y gyflog o 9*p.*; ac yr oedd y tanysgrifadau yn cyrhaedd i'r un swm. Nid oedd rhifedi y plant ond anfynech uwchlaw 30. Afreolaidd iawn oeddynt yn dyfod yn nghyd; ac nid oedd eu eynnydd mewn un modd yn foddlonawl. Wedi hyny, cefais amryw ysgolfeistri eraill, y rhai nid oeddynt nemawr addasach; er eu bod yn cael cyflogau mwy, ond nid digon: eto y canlyniad gyda golwg ar y plant oedd o hyd yr un. Nid oes modd eu gorfodi i ddyfod i'r ysgol yn rheolaidd. Y rhieni a anfonant eu plant, neu a'u cadwiant gartref, yn hollol fel yr ewyllysiont. Os cosbir hwy am fod yn absennol, y rhieni a'u symudant oddiyno yn gwbl, ac a ddangosant eu gwg trwy gam-drin yr ysgolfeistr. Mewn gair, nis gellir cadw i fynu un ddysgyblaeth geryddol.'

Dylid cymharu yr hysbysiad hwn (medd y *commissioner*) a'r adroddiad am Ysgol Llanrhuuddlad, plwyf heb fod ddeng milltir o ffordd, yn yr hon y dysgir ac y dysgyblir y plant yn dda, a lle nad oes 6 allan o 135 o blant yn absennol mewn un wythnos, er fod 100 o honynt yn byw fwy na milltir a hanner oddiwrth yr ysgol. Y mae pobl Mon a Gogledd Cymru yn gyffredinol yn sicr o anfon eu plant i ysgol a ddysgir gan ysgolfeistr da, ac yn ol trefn dda."

Felly yr oll a wnaeth Mr. Trevor oedd gollwng yr ysgol i lawr, yr hon oedd yno o'r blaen, er fod yr ysgoldy wedi ei godi trwy gynnorthwy oddiwrth y Gymdeithas Genedlaethol. Meddyliem fod hyn yn ddigon am y Parch J. W. Trevor. Y mae y *commissioner* mewn ychydig eiriau wedi penderfynu ei achos ef. Ond nid ydym eto wedi dybenu â'r ymholiad mewn perthynas i foesoldeb y Cymry. A ydynt, fel y dywedir eu bod, yn îs mewn anniweirdeb na chenedloedd eraill? Yr oll sydd arnom eisieu yw cael y gwir i'r goleu. Os ydynt, rhaid i ni ddyoddef y gwarth, er mor boenus: ond os nad ydynt, y mae yn iawn i ni dreiglo y gwarth yn ol ar ein cyhuddwyr. A thrwy ffawd dda, y mae y gofyniad wedi ei ateb yn barod, ac am byth, gan y Parch. E. Jones, Tredegar. Y mae yr ateb hwnw wedi ei argraffu eisoes yn Gymraeg; ond dylai ymddangos yn ein holl gyhoeddiadau cyfnodol, a'i gadw gan bawb wrth law i roddi taw ar ein cablwyr.

Drwg genym nas gallwn gael lle i ychwaneg o hono na'r dysyniad a ganlyn.

"Yn fy llythyr cyntaf, mi a ymrwymais i chwilio pa un a oedd y siroedd a'r ardaloedd, yn y rhai yr oedd y rhifedi niwyaf o enedigaethau bastarddaidd, yn rhai oedd yn myned fwyaf i'r Eglwys, ac mewn rhai manau yn fwy Seisnigaidd nag eraill. Yr wyf yn awr yn barod i gyflawni fy addewid, ac yr wyf yn credu y gwna y canlyniad frawychu hyd yn nod Ordovicia ei hun. Y mae yn debygol na feddlyiodd efe crioed y gellid gwybod cyfartalweh y genedigaethau bastarddaidd, a llawer llai y breuddwydiodd efe y buasai Ymneillduwr Cymreig yn ei gyfarfod ar ei dir ei hun, a phrofi gyda ei resyniad ef ei hun fod achos moesoldeb yn fwy dyledus i'r iaith Gymraeg, ac Ymneillduath Cymreig, nac i'r Saeson ac Eglwys Loegr. Ond mewn gwirionedd, felly y mae; ac wedi iddo ef hau y gwynt, rhaid iddo foddloni i fedi y corwynt. Yn y daflen ganlynol, yr hon a gasglwyd o chwechfed gyfrif blyneddol y Cofrestrydd, y mae yr ardaloedd yn rhai y mae mwyaf o fastarddiaeth, yn cael eu rhoddi yn gyntaf, ac y mae y llinellau cyferbyniol yn dangos yn gyntaf yr holl enedigaethau; yn ail, rhifedi y genedigaethau anghyfreithlawn; yn drydydd, cyfartaledd y genedigaethau anghyfreithlawn, wrth y cant i enedigaethau cyfreithlawn:—

1842.—ARDALOEDD (<i>Districts</i>).	Yr holl enedig- aethau.	Y genedig- aethau angh- yfreithlawn.	Cyfar. wrth y cant.
Presteign, Knighton, Rhaiadr— <i>swydd Faesyfed</i>	- 896	130	14.5
Drefnewydd, Trefaldwyn— <i>swydd Drefaldwyn</i>	- 1245	128	10.3
Hwlfordd— <i>swydd Benfro</i>	- 1153	112	9.7
Tregaron, Llanbedr, Castellnewydd Emlyn— <i>Aberteifi</i>	1076	101	9.4
Wrexham— <i>swydd Dinbych</i>	- 1117	102	9.1
Narberth, Penfro— <i>swydd Benfro</i>	- 1365	122	8.9
Caerfyrddin	- 1146	98	8.6
Llanfyllin, Machynlleth— <i>swydd Drefaldwyn</i>	- 829	66	8.0
Swydd Fon	- 1032	80	7.8
Llandli, Llandeilo fawr, Llandovery— <i>Caerfyrddin</i>	- 1732	131	7.6
Dolgellau, Corwen, Bala, Ffestiniog— <i>Meirionydd</i>	- 1336	102	7.6
Pwllheli, Caernarfon— <i>swydd Gaernarfon</i>	- 1584	121	7.6
Llanrwst, Llanellwy, Ruthyn— <i>swydd Dinbych</i>	- 1246	87	7.0
Mynyw, Chepstow— <i>swydd Fynyw</i>	- 1132	71	6.3
Bangor, Conwy— <i>swydd Gaernarfon</i>	- 1114	69	6.2
Aberteifi, Aberaeron— <i>swydd Aberteifi</i>	- 1103	64	5.6
Caerdydd, Pent-y-bont, Neath— <i>swydd Forgawg</i>	- 2600	141	5.4
Builth, Brycheiniog, Crughywel, Hay— <i>Frycheiniog</i>	- 1786	91	5.1
Aberystwyth— <i>swydd Aberteifi</i>	- 685	34	5.0
Merthyr Tydfil— <i>swydd Forgawg</i>	- 2141	101	4.7
Treffynnon— <i>swydd Fflint</i>	- 1190	52	4.4
Abergafenni, Pontypool— <i>swydd Fynyw</i>	- 2754	118	4.3
Abertawe— <i>swydd Forgawg</i>	- 1123	45	4.0
Newport— <i>swydd Fynyw</i>	- 1024	38	3.7

Nid rhaid i Ordovicia a'i gyfeillion Eglwysig ymbalfalu yn y tywyllweh yn nghyleh y genedigaethau anghyfreithlawn yn Nghymru. Y mae y ffeithiau a'r rhifnodau yn cael eu gosod o'u blaenau. Fe welir mai yr unig ardal Gymreig, yn yr hon y mae y cyfartalweh yn bur fawr trwyddi, ydyw, yr hon sydd yn cynnwys Tregaron, Llanbedr, a Chastellnewydd Emlyn; eithr gan fod athrofa Eglwys Loegr o fewn ei therfynau, nid wyf yn dysgwyl cael fy ngawdio yn llym ar gyfrif ei Chymraeg, na'i Hymneillduath. Y mae yn rhaid i'r sefydliad hwnw o anghenrheidrwydd, daenn llawer o ddyllanwad iachusol dros arferion a moesoldeb y bobl. Y mae y Drefnewydd a Threfaldwyn i radd fawr yn rhyddion oddiwrth y Gymraeg,

ac nid ydynt yn cael eu haffonyddu yn fawr iawn gan Ymneilldubeth. Y mae yr un nodiad yn gyfaddas hefyd i Wrexham, yr hon ardal sydd yn cynnwys rhan fawr o swydd Fflint. Gall Ordoviciais ein hysbysu, os gwel yn dda, am yr ardaloedd sydd yn myned yn fwyaf i'r Eglwys, ac yna gellir dangos gwerth Ymneilldubeth yn eglur, mewn cymhariaeth i Eglwys Loegr. Yr wyf fi yn foddllawn i oddef y canlyniad: ond y mae yn amheus genyf a gaiff fy ngwrthwynebwyr ei foddloni yn gyfartal.

Os yr iaith Gymraeg, ac Ymneilldubeth Cymreig, ydyw dwy ffynnondd fawr bastarddiaeth ac anfoesoldeb Cymru, byddai yn rhesymol tybied nad yw y ffrydian aflan i'w cael lle nad yw y ffynnonau yn bodoli. Ond y mae yn beth rhyfedd dyweyd fod bastarddiaeth i'w ganfod yn Lloegr, a merched heblaw merched Cymru yn anniwair ac annheimpladwy o rinwedd menywaidd. Y mae anniweirdeb yn bodoli tuhwnt i Glawdd Offa, a hyny i radd fawr iawn. Yn ol trefn pethau, nid yw bastarddiaeth Lloegr yn cael ei achosi gan unrhyw genadon clyllaidd, wedi eu hanfon gan Ymneilldubeth Cymreig a'r iaith Gymraeg: ac am Ymneilldubeth Seisneg, y mae Ordoviciais ei hun wedi rhoddi iddo air da: a chan ei fod wedi ei gymeradwyo gan elyn, y mae yn sicr o fod yn dda. Er nad yw Ymneilldubeth Cymreig na'r iaith Gymraeg yn Lloegr, eto y mae yno fastarddiaeth: a gallwn ddyweyd ychwaneg, sef, fod nifer y genedigaethau anghyfreithlawn yn llawer mwy, mewn rhai parthau o Loegr, nag yn Nghymru. Y mae Lloegr yn cael ei rhannu i un-ar-ddeg o raniadau yn y cofrestriad. Y mae Cymru a swydd Fynwy yn un rhaniad. Yn yr amrywiol ddosbarthiadau y mae y cyfartalrwydd yn sefyll fel y canlyn:—

Y rhan ogledd-orllewinol	-	-	-	8.8	y cant.
— ddwyreiniol	-	-	-	7.9	—
Y canoldir gogleddol	-	-	-	7.7	—
Y rhan gogleddol	-	-	-	7.4	—
Caerefrog	-	-	-	7.2	—
Y rhan orllewinol	-	-	-	6.8	—
Cymru	-	-	-	6.8	—
Y canoldir deheuol	-	-	-	6.7	—
Y rhan dde-ddwyreiniol	-	-	-	6.4	—
— orllewinol	-	-	-	5.7	—
Y brifddinas	-	-	-	3.2	—

Nid wyf yn ewyllysio iselhau enwogrwydd Lloegr. Yr wyf yn gwybod fod y cyfryw gymhariaethau yn ddigon anhawdd i'w dyoddef. Ond gan eu bod yn cael eu dwyn ymlaen, y mae yn rhaid i ni beidio eu gwrthod. Gellir gweled oddiwrth y daflen uchod fod pump allan o un-ar-ddeg o'r dosbarthiadau yn waeth na Chymru, un yn gyfartal; tra nad oes ond pedwar yn well. Yn awr, yn lle difrio eu cydwladyddesau, fel y rhai mwyaf anniwair ac anfoesol yn y byd, oni fyddai yn well gwaith i'n hathrodwyr offeiriadol edrych ar y siamplau hyn a'u cyffelyb. 'O gywilydd, Pa le y mae dy wrd?' A ydyw i'w ganfod ar rudd Ordoviciais? Dylai y byd llydan ryfeddu os nad yw.

Yn rhifyn Awst o gyhoeddiad Cymreig Eglwys Loegr, yr wyf yn canfod erthygl, mewn amddiffyniad i Ordoviciais, yn erbyn rhai sylwadau o eiddo fy nghyfaill parchedig Mr. Rees, Llanelli. Cyfansoddiad y golygydd yw yr erthygl; ac y mae yn adrodd, 'Fod sefyllfa moesoldeb mor isel yn mysg yr Ymneillduwyr, fel y cywilyddiaid llawer o genedloedd paganaudd fod yn eu cyflwr. Pa genedl dan y nefoedd sydd mor anniwair a cheuedl y Cymry?' Gan fod yr haerriad enllibus ac anwireddus wedi ei adrodd drosodd a throsodd lawer gwaith, gyda gradd neillduol o ddrygnaws afaelgar a thrahaus, y mae yn dda fod genym allu i'w attal o hyn allan. Nid oes dim ond puteindra agored ac arferol y brifddinas a threfydd mawrion

Lloegr yn cadw eu cyfartaledd mor isel. Ond fel y mae, nid ydyw ond un rhan-nifer (*fraction*) yn is na Chymru: y rhif sydd yn perthyn i bob un o honynt ydyw 6.8 a 6.7. Gan gymeryd hyn i gyfrifiad, ni a anturiwn sicrhau i gyhoeddwr yr 'Haul,' a'i noddwyr offeiriadol, nad rhaid iddynt ond yn unig groesi yr Hafren, i gael gweled cenedl mwy anniwair na'r Cymry; ac os yw dynoethiad o sefyllfa cenedloedd mewn perthynas i anniweirdeb yn rhoddi hyfrydwch iddynt, ni a awn ymlaen i roddi iddynt gynnorthwy pellach, fel rhagllaw y gallont adael eu rhagrith yn yr anghof sydd yn gweddu iddo, yn lle ei ddwyn i ategu achos adfeiliedig. Bydded iddynt edrych ar Lloegr, ac ar wledydd y Cyfandir, a dysgu o hyn allan ac am byth i dewi am anwybodaeth y Cymry, os nad ydynt yn meddwl dangos eu hunain fel yr anghreiffitiau cywiraf o'r anwybodaeth hwnw o fewn cylch y dywysogaeth. Y mae yn rhaid i ni gredu mwyach fod y dyn a ddichon daenu haeriadau Ordovics, a golygydd yr 'Haul,' yn amddifad o allu moesol i gydnabod y gwirionedd.

Y datfen ganlyniol a ddengys gyfartalwch genedigaethau anghyfreithlawn yn Lloegr, ac yn rhai o'r gwledydd cyfandirawl:—

Sardinia	-	-	-	2.091 y cant.
Sweden	-	-	-	6.562 —
Norway	-	-	-	6.678 —
Lloegr	-	-	-	6 721 —
Belgium	-	-	-	6.772 —
Ffrainc	-	-	-	7.114 —
Prwssia	-	-	-	7.122 —
Denmark	-	-	-	9.351 —
Hanover	-	-	-	9.876 —
Austria	-	-	-	11.380 —
Wurtenburg	-	-	-	11.740 —
Saxony	-	-	-	14.997 —
Bavaria	-	-	-	20.598 —

Ond os oes eisieu prawf mwy penderfynol, dymunwn genad i'w gyflwyno. Yn yr un adroddiad, yr ydym yn cael y cyfrifon a ganlyn, y rhai a ddangosant gyfartalwch y genedigaethau anghyfreithlawn i bob can' mil o fenywaid. Y canolrif yn Lloegr yw 422. Y mae Cymru 19 o dan y canolrif hwnw, yr hyn sydd yn profi i eglurdeb fod anniweirdeb yn ffynnu i raddau mwy yn Lloegr:—

Gogledd orllewinol	-	-	-	609 i bob can' mil.
Canoldir gogleddol	-	-	-	494 —
Cacrefrog	-	-	-	454 —
Gogleddol	-	-	-	451 —
Dwyreiniol	-	-	-	477 —
Canoldir deheuol	-	-	-	436 —
Gorllewinol	-	-	-	432 —
Cymreig	-	-	-	403 —
De-ddwyreiniol	-	-	-	369 —
De-orllewinol	-	-	-	329 —
Y brifddinas	-	-	-	190 —

Hyderaf fod y sylwadau blaenorol yn ddigon i brofi fod y cyhuddiadau hyn yn ddisail. Gosod allan holl ferched Cymru fel pentwr o buteiniaid, nis gall wneyd niwed i neb yn y diwedd ond y rhai a wnant y cyfryw haeriadau. Gweled offeiriad yn ymddwyn fel hyn, a hynny gyda phlcses amlwg, sydd yn wirioneddol alarus. Y mae dynoliaeth yn ffieiddio yr olygfa ar weinidog gwirionedd Duw, ac un a gymer arno fod yn olynwr yr apostolion, yn gwneyd ei hun yn genad twyll ac yn apostol enllib."

Dywedwn unwaith eto, oblegid rhaid dyweyd yr un peth lawer o weithiau cyn y dealla rhai pobl, nad ydym mewn un modd am gelu y gwirionedd. Ac nid ydym ychwaith am gelu fod cyflwr Cymru, mewn cysylltiad â'r mater hwn, yn wir druenus. Nid yw felly mewn cymhariaeth i wledydd eraill; ond y mae felly wrth ystyried ei manteision, yn nghyd â'i rhagoriaeth mewn gwybodaeth grefyddol. Nid oes un gwladgarwr nad yw yn teimlo oblegid hyn, yn gymaint ag oddiwrth yr anwireddau a draethir gan ein gelynion; ac y mae yn gweddu i ni ystyried y mater yn ddifrifol a chwilio yn fanwl i'r achosion. Y mae rhai yn medru dyfod i ben â'r gorchwyl yn bur hawdd. Yn ol eu tyb hwy, Ymneillduaeth yw gwreiddyn y cwbl. Yn yr Adroddiad am sir Aberteifi, cawn y dystiolaeth a ganlyn oddiwrth y Parch. L. H. Davies, Troed-yr-aur, yn y sir hono.

“Y maent yn fynych yn cyfarfod mewn ysgolion nos yn y tai i barotoi y pwnc, ac y mae hyn yn tueddu at anfoesoldeb rhwng y bobl ieuaine o'r ddau ryw, y rhai yn fynych a dreuliant y nos ar ol hyny gyda'u gilydd mewn taffodydd. Mor gyffredin yw y diffyg o ddiweirdeb yn mhlith y benywaid, fel, er i mi addaw dychwelyd y tal am briodi i bob par na enid eu plentyn cyntaf am naw mis ar ol y briodas, nid oedd ond un yn meddu hawl iddo mewn ehwe' mlynedd. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn feichiog. Dywedir mai peth cyffredin yw iddynt dros-eddu y seithfed gorchymyn ar yr ammod o briodi os beichioga y ferch.”

Dyma yr achos wedi ei benderfynu, yn ol barn y Parch. L. H. Davies. Dim ond difodi y “pwneau,” a'r cyfarfodydd y nos, dyna yr oes euraidd wedi gwawrio. Ond amlwg yw, mai nid yn erbyn cyfarfodydd y nos y mae y gwrthwynebiad; oblegid y mae llawer o'r offeiriaid yn cynnal cyfarfodydd cyffelyb. Yn Llanbedr, dywedai Dr. Llewelyn, yr hwn feddyliem sydd fwy gŵr na Lewis Henry Davies, ei fod yn myned i sefydlu ysgol nos i'r tlodion. Y gwirionedd yw, mai yn y capeli, a phob peth cysylltiedig â hwynt, y mae y drwg. Caiff y meibion a'r merched ieuaine gyfarfod mor fynych ag y mynont, ond iddynt beidio gwneuthur hyny mewn capeli a thai Ymneillduol. Cant gadw “nosweithiau llawen,” i ddiota a chanu maswedd, a dawnsio, &c., heb un perygl i'r gwŷr rhinweddol hyn eu haflonyddu; ond os awn i geisio eu tynu oddiwrth y cyfryw arferion halogedig trwy godi cyfarfodydd crefyddol yn eu lle, yr ydym yn rhoddi achlysur, meddant hwy, i bob anfoesoldeb. Cyfarfodydd y nos a welodd Ymneillduwyr Cymru o'r dechreuad, pan nad oedd ond yr Eglwys Sefydledig yn teyrnasu yn ein tir; a'r holl wahaniaeth yw, eu bod yn cael eu treulio yn awr i ddysgu y bobl i ofni Duw a chilio oddiwrth ddrygioni, yn lle

i feithrin oferedd a llygredigaeth. “Tydi sydd yn llwydo y dwfr,” meddai y blaidd wrth yr oen, gan ysgyrnygu hyny o fonnau dannedd oedd ganddo wedi eu gadael. “Pa fodd y gall hyny fod, barchedig syr,” meddai yr oen yn wylaidd, “onid oddiwrthych chwi y mae y ffrwd yn rhedeg ataf fi?” Felly y dywedwn ninnau, O'r hen amser gynt, pan nad oedd son am Ymneillduaeth yn ein gwlad, o'r hen amser dedwydd, paradwysaidd hwnw, y mae yr arferiad o gadw cyfarfodydd y nos wedi rhedeg i lawr i'n dyddiau ni. Nid ydym yn dadleu drostynt. I'r gwrthwyneb, byddai yn well genym fod llai o honynt. Os nad yw crefydd yn werth i ni adael ein gorchwylion ganol dydd er ei mwyn, nid yw yn werth ei phroffesu o gwbl: ac nid oes ammheuaeth nad yw treulio llawer o nosweithiau bob wythnos mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn tueddu i rwystro crefydd deuluaidd. Hyfryd fyddai gweled ein cydwladwyr yn rhoddi dwy awr bob nos i lyfforddi eu plant, ac i ddarllen llyfrau buddiol: ond hyd yn hyn, mae llawer o honynt, ysywaeth, heb ddysgu treulio eu hamser yn ddedwydd ac adeiladol yn eu cartrefi; ac o ganlyniad, nid oes genym ond dewis un o ddau beth, un ai eu gadael i chwilio am ddifyrweh mewn cyfarfodydd llygredig, neu ymdrechu i'w hennill oddiwrthynt trwy godi cyfarfodydd gwell yn eu lle. Hyderwn fod yr anghenrheidrwydd am danynt yn lleihau, mewn un ystyr o leiaf, o gymaint ag y mae ysbryd darllen yn cynnyddu, a dirwest yn ennill tir. Ond yma eto, y mae genym un gofyniad i'w osod ger bron y boneddigion hyny sydd yn beio cymaint ar y cyfarfodydd nosawl. A wnewch chwi ganiatáu i ni gyfarfod yn y dydd? A gaiff eich gweision a'ch morwynion ryddid i gysegru dwy awr bob wythnos, ganol dydd goleu, i addoli Arglwydd pawb oll, ac i gael eu hegwyddori yn fanylach yn yr hyn a glywsant ar y Sabboth? A ydynt yn cael dyfod yn awr, pan fyddom yn ymgynnull liw dydd? Yr ydych yn cwyno yn fawr oblegid fod y bobl ieuaine yn dyfod at eu gilydd wedi nos. Drwg genym ninnau fod anghenrheidrwydd am hyny. Yr ydym yn gwneyd a allom, ac nid gormod ydyw dyweyd ein bod yn gwneyd mwy na neb arall, i daenu llyfrau rhad yn mhlith y bobl, gan obeithio y bydd hyny yn foddion i'w dysgu i werthfawrogi eu cartrefi. Pe caem hwynt i'r agwedd hon, gallem hebgor ein cyfarfodydd nosawl, a dyfod at ein gilydd yn *unig* yn y dydd. Ond goddefwch i ni ofyn i chwithau, foneddigesau a boneddigion oll, a ganiatewch chwi y rhyddid hwn i'r rhai sydd dan eich hawddurdod? Nid ydym yn gofyn llawer. Gan nas gallwn ddysgwyl

i chwi gydymdeimlo yn hollol a'n syniadau crefyddol, byddwn yn berffaith foddllawn os cant ddyfod unwaith bob wythnos, i gadw y meddwl am fyd arall rhag myned o'u cof, ac i'w dysgu i ymddwyn yn gywir ac uniawn yn y sefyllfa a osodwyd iddynt yn y byd hwn. Beth meddech chwi am y cynnygiad? Yr ydym yn aros am eich atebiad. Ac nes y rhoddoch ryw atebiad dealladwy ac ymarferol, doethineb i chwi fyddai peidio siarad llawer am gyfarfodydd y nos.

Y mae genym un gofyniad arall, i'r hwn nid ydym yn dysgwyl atebiad, oblegid gwyddom yn dda ei fod yn anatebadwy. Os Ymneillduaeth yw yr achos o anniweirdeb y Cymry, pa fodd y mae sir Faesyfed yn fwy truenus yn yr ystyr yma nag un sir yn yr holl dywysogaeth? Digrif a dyddorawl fyddai gweled rhywun yn cynnyg ateb y gofyniad hwn. Dyma i chwi waith, gyfeillion dysgedig, nad oes neb o honoch yn alluog i ddyfod trwyddo. "Mae graddau yn nysg Rhydychain," meddai Thomas Edwards o'r Nant, "na ddichon pawb mo'u dwyn." Ond ni fedr Rhydychain a Chaergrawnt yn nghyd ddim dyfod i ben a'r gorehwyl hwn. Addawsom un gyfrol o'r "Traethodydd" ryw dro o'r blaen am atebiad i ryw ofyniad, ac ni chwasm hyd heddw ond un ymgeisydd; ond anturiwn addaw tair cyfrol o'r "Traethodydd"—a pha le y ceir cyfrolau i'w cystadlu a hwynt—i bwy bynag a fedro ddangos yn foddllonawl pa fodd y mae Ymneillduaeth yn achosi anniweirdeb yn Nghymru, pan y mae sir Faesyfed yn llawer is yn y bai hwnw, er ei bod hyd yma bron yn berffaith rydd oddiwrth ddylanwad yr Ymneillduwyr. Er mwyn i chwi gael pob mantais i ddeall y gofyniad—oblegid hysbys ydyw nad yw pawb o honoch chwithau yn hynod o gyflym—ni a gymerwn fenthyg cyffelybiaeth i'w ddangos mewn modd mor eglur ag y mae yn ddichonadwy. Yr oedd tyddynwr unwaith, wrth weled nad oedd yr hen ddull o drin ei dir yn ateb dyben, wedi penderfynu cymeryd ffordd arall ato, trwy ei sychu yn dda, ac aredig yn ddyfnach, a chario llwythi lawer o galch iddo, yr hwn oedd yn y wlad hono ar y pryd yn beth hollol newydd. Yr effaith oedd iddo gael cynnyrch rhagorol, cymaint ddwy waith o wair, cymaint dair gwaith o haidd, a chymaint bedair gwaith o wenith. Ond rywfodd, er ei ofid, yr oedd yno gryn lawer o chwyn yn tyfu ar ol yr holl driniaeth. Ac ar ryw ddiwrnod, dyma ei gymydog yn dyfod heibio, ac wedi taflu golwg ar rai o feusydd y tyddynwr diniwed, dyma ef yn brysio at y meist'r tir, ac er mwyn drygu gwrthddrych ei genfigen, yr hwn oedd yn trigo yn ddiotal yn ei ymyl, y mae yn haeru fod y dull newydd yn

andwyo y tir, ac yn enwedig fod y caleh yn llanw yr holl dyddyn â chwyn. Ond erbyn edrych, yr oedd llawer mwy o chwyn ar dir arall gerllaw iddo, yr hwn a drinid yn ol yr hen ddull sefydledig. Yn awr, y gofyniad yw, Pa fodd yr oedd y caleh yn euog o gynnyrehu yr holl ddrwg, pan y mae efrau a phob sothach niweidiol yn fwy toreithiog o lawer ar y tyddyn arall, yr hwn sydd hyd yma bron yn hollol dan yr *hen* gyfundrefn amaethyddol. Dyma y gofyniad—i ba le y mae i ni droi am atebiad? Cymaint a hyn am y cylhuddiad, fod Ymneillduaeth Cymreig yn achosi anniweirdeb. Tybygwn ei fod erbyn hyn yn ddi-gon marw. Nid oes ynddo nac ysgogiad na chwythad. A thrwy yr awdurdod sydd yn perthyn i'n swydd, fel golygwyr y “Traethodydd,” yr ydym yn galw ar y Parchedigion J. W. Trevor ac L. H. Davies i symud yr hen ysgerbwld ffiائد yn ddioced oddiar brif-ffordd y frenines, yn lle ei fod yno yn peri anghysur i ddeiliaid fyddlawn ei mawrhydi. Gadawn iddynt eill dau ei fingo os mynant, a gwneyd y defnydd a welant yn dda o'i groen. Hwyrach y barnant mai gwell fyddai ei lenwi ag eisin, a'i anfon i'r *British Museum*. Ond am roddi bywyd ynddo mwyach, yr un peth fyddai iddynt geisio adfywio un o anghen-filod afluniadid y cynoesoedd, y rhai a gloddir i'r golwg gan ddynion ymfyngar y dyddiau presennol. Am hwn, nid oes dim i'w ddywedyd yn dragywydd mwy, ond iddo fod unwaith yn ceisio ymsymud yn amrosgo mewn rhyw gwr o'r greadigaeth yn y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg; ac nid yw yn debyg y bydd neb yn teimlo awydd i chwilio yn fanylach i'w hanes.

Cyn gadael y mater hwn, y mae cyfiawnder yn ein rhwymo i yehwanegu, nad oes ond rhifedi bychan, mewn cymhariaeth, wedi bod yn euog o geisio camarwain y Saeson mewn perthynas i gyflwr y Cymry, a'r achosion o'u hanfoesoldeb. Ymddengys, hyd y gellir barnu oddiwrth yr Adroddiadau hyn, fod y rhan fwyaf o'r offeiriadid a'r boneddigion wedi rhoddi atebion digon teg i'r gofyniadau a gyfeir-iwyd atynt. Ni fuasai yn iawn iddynt ein disgrifio yn well nag ydym. A chyda golwg ar yr achosion, nis gallwn lai na chyttuno a'r rhai hynny a briodolant yr anniweirdeb sydd yn ein gwlad, mewn rhan, i'r diffyg o wahanol ystafelloedd yn mhreswylfeydd y tlodion, ac hyd yn nod y tyddynwyr. Dylai perchenogion y tai edrych at hyn. Wrth eu drws hwy, i fesur mawr, y mae y bai yn gorwedd. Ond y prif achos, ac un sydd yn ddigon, wrth ei ystyried, i beri i ni synu na b'ai bastarddiadid Cymru yn llawer amlach, yw yr hen arferiad gwarthus

sydd yn ffynnu yn mysg ein pobl ieuainc o ddwyn ymlaen eu cyfeillach rag-briodasol ar amser ac mewn lleoedd anwedddus. Dyma yr ysmotyn duaf ar gymeriad ein cenedl, yr hwn sydd yn ei gwneyd yn ddiareb yn mhlith cenedloedd y ddaear. Doweh allan, offeiriaid a boneddigion Cymru, yn erbyn y bai hwn, ac ni a ymunwn a chwi o ewyllys calon. Ac y mae yn dda genym dystiolaethu fod yr Ymneillduwyr eisoes wedi gwneyd llawer. Y maent wedi pregethu yn ei erbyn, wedi troi holl rym eu dysgyblaeth eglwysig yn ei erbyn, ac wedi codi cymdeithas benodol yn ei erbyn. Ond mewn undeb y mae nerth. A ymunwch chwi a ni? Yn lle taflu y bai ar ein gilydd, a gawn ni gydweithredu o hyn allan i wrthwyncbu y Philistiad dienwaededig hwn? Pe ymunai mawrion ein gwlad, a phob plaid grefyddol, yn un gymdeithas yn ei erbyn, byddai lle i obeithio y gwelid ef yn fuan wedi ei orchfygu.

Nid ydym yn barnu fod achos i ni ofyn maddeuant am aros cyhyd gyda'r pwne hwn, gan fod moesoldeb ein gwlad ac anrhydedd ein crefydd yn gysylltiedig ag ef mewn modd arbenig; a'i fod hefyd yn hoff destun gan y rhai hyny a ewyllysiant ein drwgliwio. Ond awn ymlaen bellach i roddi rhai dyfyniadau lled helaeth o'r Adroddiadau. Cyhoeddwyd hwynt mewn tair o gyfrolau unplyg mawrion. Rhoddir hanes siroedd Caerfyrddin, Morganwg, a Phenfro, gan Mr. Lingen; siroedd Brycheiniog, Aberteifi, Maesyfed, a Mynwy, gan Mr. Symons; a'r oll o Ogledd Cymru, gan Mr. Johnson. Yn nechreu pob cyflyfr, rhydd yr awdur olygiad ar agwedd y siroedd lle bu yn ymwelod. Neu yn hytrach, hyn ydyw yr Adroddiad; ac yna rhoddir hanes manwl am bob ysgol, mewn ffordd o attodiad. Ymddengys mai un o'r nodweddu a dynodd eu sylw yn fwyaf oedd yr Ysgol Sabbothol, a diammhau yr hioffai ein darllenwyr wybod pa beth a ddywedant ar y pen hwn. Yr hyn a ganlyn yw tystiolaeth Mr. Lingen:—

“Fel hyn y mae cyleh cymdeithasol y Cymro yn hollol wahaniad oddiwrth bob dylanwad oddieithr yr hwn a ymgyfyd yn mhlith ei gydradd. Y mae yn cilio yn eiddigeddus oddiwrth gynnal unrhyw gymundeb a dosbarthiadau uwch a gwahanol iddo ei hun. Boddllona ei uchafon, gan mwyaf, yn unig i fod yn anwybodus o'i hanfodiad yn ei holl gysylltiadau moesol. Gadewir ef i fyw mewn isfyd o'r eiddo ei hun: ac y mae gyrfa cymdeithas yn myned yn hollol uwch ei ben, fel na chlywir am dano, oddieithr pan y bydd i ymddangosiad dyeithr ac anarferol o Ddiwygiad, neu Rebecca, neu ymdorior Siartaid, alw sylw ar natur cymdeithas a allai gynrychu unrhyw beth mor wrthwyneb i bob peth a brofasom mewn lleoedd eraill.

Gan ei fod wedi ei droi oddiwrth, neu ei gyfyngu i oruchwyliachth gorfforol yn, y byd ymarferol, y mae ei alluoedd meddyliol, cybelled ag y maent heb gacl eu gorchfygu gan galedfyd bywyd gwledig, neu anghymedroldeb bywyd gweithfaol,

wedi cael eu hymarfer hyd yma braidd yn hollol at dduwinyddiaeth. Yn y cyfeiriad yma hefyd oddiwrth achosion, y rhai sydd allan o'm terfynau i'w nodi yn neillduol, y mae wedi ymysmud o'dan yr un dynged wahaniaethol, ac y mae ei addoliad fel ei fywyd yn wahanol i'r eiddo y dosbarthiadau sydd uwchlaw iddo. Ac nid yw wedi methu mewn canlyniadau teimladwy yn ei derfynau dewiselig o ymdrech amibynol. Y mae wedi adeiladu tai, ac yn cynnal gweinidogaeth ei addoliad dros wyneb yr holl wlad i raddau cyfaddas i'w anghen. Nid oes genyf fi ryddid i sylwi ond ar un rhan o'r gyfundraeth hon, sef yr Ysgolion Sabbothol, yr hyn a wnaf ar unwaith gyda rhyw faint o fanylrwydd, fel y maent yn gosod allan yr arddangosiad mwyaf neillduol o ddeall cynhenid, ac ymdrechadau y cyffredin bobl, yn hollol ddigynnorthwy, i addysgu eu gilydd yn ol eu cynllun eu hunain. Y mae yr ysgolion hyn wedi bod yr unig, ac y maent yn bod y prif a'r mwyaf cydnaws, ganolbwynt addysg. Trwyddynt hwy y mae y rhan ieuangaf o'r rhai sydd mewn oedran o'r dosbarthiadau llafurol yn Nghymru yn gyffredinol yn gallu darllen, neu y maent yn dysgu darllen yr ysgrythyrau yn iaith eu mam. Bernir fod y bummed ran o'r holl boblogaeth yn ddeiliaid o'r holl ysgolion, a hanner y nifer hwn yn alluog i ddarllen yr ysgrythyrau.

Nid yw y cynllun o'r cyfryw Ysgolion Sabbothol yn ddim ychwaneg na hyn. Cyferfydd cynulleidfa yn y capel. Y mae yn ethol y rhai y mae yn eu hystyried ei haclodau mwyaf teilwng, deallus, a chrefyddol, i weithredu fel athrawon i'r lleill, ac un neu ychwaneg i arolygu y cyfan. Ffufir dosbarthiadau Biblau, dosbarthiadau Testamentau, a dosbarthiadau o'r cyfryw na allant ddarllen. Cyfarfyddant unwaith bob Sabboth; yn gyffredinol o ddau hyd bedwar y prydawn, weithiau yn y boreu hefyd. Dechreuir yr ysgol trwy weddi gan yr arolygwr, neu un o'r athrawon; yna cenir; wedi hyny y dilyn y gyfran o addysg: bydd dosbarthiadau y Biblau a'r Testamentau yn darllen ac yn eglurhau yr ysgrythyrau, a'r llall yn dysgu darllen; terfynir yr ysgol yn yr un dull ag y dechrenodd. Sefydlir ysgolion cyffelyb mewn lleoedd eraill gan ranau o'r un gynulleidfa, pan y bydd peller y ffordd, neu anghytleuserau cyffelyb yn peri ei bod yn anhawdd ymgysgu arfod yn y capel. Gelwir y rhai hyn yn gangenau. Y mae y cyfansoddiad drwyddo oll yn werin-drefn—rhoddir swydd a rhyw fath o hawlfraint braidd i bob dyn ag sydd yn gymhwys ac yn foddolawn i gymeryd rhyw ran yn ei dygiad ymlaen, heb unrhyw olwg ar ei sefyllfa gymdeithasol y chwe' diwrnod eraill o'r wythnos. Dengys fy nghyfrif i 11,000 o athrawon gwirfoddol, y rhai y mae yn nghylech saith yn cael eu haddysgu gan bob un. Pa beth bynag a all cywirdeb y cyfrif fod, yr wyf yn credu nad yw y cyfartalwch perthynasol hwn yn mhell o fod yn gywir. Y mae sefyllfa athraw yn cael ei chwennychu, ac yn cael ei lliosogi yn gyfatebol. Nid anfynech yr edrychir arni gan yr ysgolorion uchaf yn yr ysgolion plwyfol fel y wobrwyl flaenaf. Iddynt hwy y mae yn radd o ddyrchafiad tuag at fod yn bregethwr a gweinidog. Y mae cyffredinolrwydd yr ysgolion hyn, a rhifedi mawr y personau sydd yn perthyn iddynt, y rhai sydd yn cynryd rhan yn eu llywodraethiad, wedi cynnefino y bobl a rhai o'r ymadroddion a'r trefniadau mwyaf arferedig mewn cyfansoddiad cydweithredol, megys cyfeisteddfod, ysgrifenydd, ac felly ymlaen.

Fel hyn y mae pob peth yn perthyn i'r cyfryw sefydliadau a ddiachon eu cyfaddasu i chwaeth y holl yn gyffredin. Y maent yn boddhan y duedd hono o fod mewn cymdeithas liosog ag sydd yn bywiocau y Cymry tuag at eu gilydd. Y maent yn gosod gobaith am swydd o flaen y rhai sydd ar bob achos arall yn ddeiliaid. Y pynciau sydd yn ffyn ynddynt ydynt y rhai a fyddant o ddyddordeb mwyaf cyffredinol; ymdrinir a hwy mewn rhan yn egwyddorol, mewn rhan yn ddadleuol, mewn rhan yn areithyddol, yr hyn a gymeradwyir fynychaf. Mewn gair, mae pob gwr, gwraig, a phlentyn, yn teimlo yn ddedwyld gartref ynddynt. Y mae y cyfan yn mhlith cymydogion a chydradd. Pa anwybodaeth bynag a ddangosir yno, pa

gamgymeriad bynag a wneir, pa dybiau dycythr bynag a osodir ger bron, nid oes yno neb uwchlaw iddynt i wenu wrth weled eu hanwybodaeth. Arferion cyffredin a dreiddia drwy y cyfan. Y maent yn ddealladwy neu esgusodol y naill i'r llall. Gan hynny y mae i bob un ag sydd ganddo rywbeth i'w ddywreid gyflawn ryddid i'w adrodd. Pa beth bynag y gall y cyfryw Ysgolion Sabbothol fod fel lleoedd o addysg, y maent yn fensydd gwirioneddol o fywiogrwydd meddyliol. Y mae y llafurwr Cymreig yn ymddeffroi atynt. Y mae y Sabboth iddo ef yn fwy nag ymorfwysiad corfforol a dyhewyd. Dyma ydyw ei gyfleusdra goreu o'r holl wythnos i ymddangos yn ei gymeriad ei hun. Dengys ei syniad o hyn trwy y wisg a olygir ganddo gyda theimlad bron mor Sabbothol a'r diwrnod ei hun. Nid wyf yn cofio i mi weled dyn mewn oed yn fratiog mewn un Ysgol Sabbothol drwy y dosbarthranau tlafat. Ymddangosent i mi bob amser wedi ymwisgo yn well ar y Sabbothau na'r dosbarthiadau cyffelyb yn Lloegr.

Y meddylddrych cyntaf o Ysgol Sabbothol Gymreig (cymysg o addoliad, dadlun-aeth, ac addysg elfenol, yr hyn a gyflawnir gan y gynnulleidfia iddi ei hun, heb unrhyw oruchwyliaeth arall heblaw yr eiddo ei hun) a ganfyddir o dan bob amrywiaeth o ymddangosiad, rhwng y ffurf fwyaf trefnus, a'r un fwyaf iselaidd.

Yn y ffurf iselaf o'r sefydliad, ni amcenir ond ychydig heblaw darllen, neu araf ddysgu darllen yr ysgrhythrau. Y mae pob dosbarth ar ei ben ei hun yn darllen y Bibl drwyddo o'r dechreu i'r diwedd. Nid oes yno holi nac eglurhau yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau; neu os bydd, y maent yn holion yn nghylch geiriau, y rhai a gaf eu nodi eto. Heblaw hyn, y maent yn ddsngu adrodd adnodau, pennodau, a phwncau. Gyda golwg ar yr adnodau, a'r pennodau, gwelwn y fath gyfrifon hynod a'r un ganlynol:—

Yn y flwyddyn ddiweddaf adroddwyd yn yr ysgol 105 o bennodau, yn cynnwys 1716 o adnodau o'r ysgrhythrau sanctaidd, yn nghyda 7988 o adnodau.

	Rhif yr ysgolorion.	Rhif yr adnodau a ddysgwyd.	Rhif y Salmu a ddysgwyd.	Rhif y pennodau a ddysgwyd.
[Prif Gapel] Soar -	75	1967	173	92
[Cangenau] Tonnau -	26	1109	80	21
Melincythau	66	1056	73	45
Kimle -	32	326	42	8
Britton Ferry	76	882	8	12
Skewen -	60	1745	12	35
Brynceock -	72	1196	35	42
	407	8281	423	258

Ar y pryd y cymerwyd y cyfrif hwn, cyflwynid gwobrwyon i Levi Lewis, bachgen yn gwasanaethu yn y porthladd, yr hwn oedd wedi dysgu ac adrodd 35 o Salmu; ac i David Hughes, bachgen i löwr, yr hwn a ddysgodd ac a adroddodd 26 o bennodau o'r Hen Destament yn y tri mis blaenorol.

Pwncau yw y lliosog o 'pwnc,' yr hyn sydd yn arwyddo pwnc o athrawiaeth, wedi ei argraffu yn holiad ac ateb, gyda chyfeiriadau ysgrhythrol. Y mae pob enwad a braidd, bob capel, yn meddu pwncau o'r eiddo ei hun, y rhai o dro i dro a gyhoeddir yn y dull rhataf y gellir. Ni ddysga pob dosbarth ond ei ran ei hun yn unig. Cyn gynted ag y dysgir ef allan yn dda, gwna yr ysgol fath o orymdaith orfoleddus i gapelau eraill, ac yn fynych i eglwysi, i adrodd yn gyhoeddus yr hyn y maent fel hyn wedi ei ddysgu allan. Y dull o'i adrodd yw ar fath o don, bob yn rhan, ac yn y diwedd ymuna pawb. Dysgwylir yn gyffredin iddynt fod yn alluog i ganu hymn neu ddwy ar yr un pryd.

Gellir gwelw yn y cyfryw ysgolion bersonau mewn gwith o oedran wedi dysgu darllen ynddynt.

Gwraig 72 oed, a dilechrenodd ddysgu yr egwyddor yn 70, a ddarllenodd i mi dudalen o lyfr elfenol yn dra clywr.

Yn yr ysgol hon yr oedd tair o hen wragedd yn mhilith yr ysgolorion, un uwchlaw 80 oed, yr hon yn yr oedran hwnw a ddysgodd darllen. Yr oedd yn awr yn ddall, ond yn dilyn y dosbarth i wrandaw, a gallai adrodd amryw Salmuau.

Anfynych y cedwir cyfrif manwl o'r gwyddfodolion. Bydd yr ysgol weithiau yn peidio ar dymmor anafanteisiol a dyddiau byrion. Ar ei hail gychwyniad, dywedir iddi gael ei 'hadnewyddu.' Gwneir hyn yn y cyffredin trwy gyfarfod gweddio.

Y mae grym yr hen sefydliad wedi ei wisgo a dull diweddarach yn bur wahanol oddiwrth yr anghreiftiau blaenorol; y cyfryw ag yw Capel Mair, Capel Pen-y-groes, undeb Ysgol Sabbothol Narberth, ysgolion y Wesleyaid a'r Annibynwyr yn Milford, neu yr eiddo y Wesleyaid yn Bridgend a Chaerdydd. Y rhagoriaeth mwyaf nodedig yn yr ysgolion diweddaf hyn yw, fod yr holl ddosbarthiadau a all ddarllen yr ysgrhythrau yn unfryd yn cymeryd yr un rhan, a hwnw yn gyffredin yn bur fyr. Trwy y cyllun hwn, y mae y gwahinidog (os bydd yn cymeryd rhan yn yr ysgol) yn gallu paratoi yr athrawon ymlaen llaw, neu yr athrawon yn eglurhau rhyw gyfran yn eu plith eu hunain, ac ar ddiwedd yr ysgol gellir yn nufrydol egwyddori y dosbarthiadau.

Y mae yr hyn a nodwyd fel achosion o boblogrwyd!, a chyn belled a hyny, defnyddioldeb yr Ysgolion Sabbothol, yn perthyn i'r rhai mewn oedran yn hytrach nag i'r ieuenedyd. Mewn rhanau o'r wlad, lle y mae y rhan fwyaf o dddeiliaid yr Ysgol Sabbothol wedi tyfu i fynu, y mae addysg y dosbarthiadau ieuengaf yn wael ac afreolaidd. Gwir eu bod yn dysgu darllen mewn amser, ac fel y maent yn myned yn hynach, y maent yn gweithio eu hunain i ddull yr ysgol. Oddieithr, pa fodd bynag, fel darpariaeth i hyn, nid yw yr addysg a gyrhaeddir ar y cyfryw achlysuron o nemawr werth. Er mai yr Ysgolion Sabbothol yn rhy fynych yw yr unig foddion a osodir yn lle addysg ddyddiol, eto ni honir y gallant gyflawni y difyg. Ar y pen hwn nis gall un prawf fod yn fwy cadarn na'r eiddo athrawon ac arolygwyr Ysgolion Sabbothol.

Mr. John Davies. 'Nid yw yr addysg a dderbynir mewn Ysgol Sabbothol ddim yn agos yn cyfateb i anghenion y tlodion.'

Mr. Rhys Jones. 'Y mae yr Ysgolion Sabbothol yn effeithio yn fawr mewn cyfranu addysg foesol a chrefyddol i'r bobl, ac nid oes ond ychydig o blant heb fod yn ddeiliaid o'r naill Ysgol Sabbothol neu y llall. Pa fodd bynag, nid yw yr addysg a allant gyrhaedd yma yn cyfateb i'w hanghenion; gan eu bod yn cael eu cyfyngu yn hollol at bynciau crefyddol, a'r gelfyd lyd o ddarllen. Yr ydym yn cael cryn lawer o drafferth i beri cymaint a hyn o gynydd mewn plentyn nad yw yn perthyn i'r un ysgol ddyddiol.'

Mr. D. Thomas. 'Y mae yr hyfforddiant a dderbynir mewn Ysgol Sabbothol yn hollol annigonol er addysgiad cyffredinol plant y tlodion.'

Y mae yr ysgolion Sabbothol poblogaidd yn cael eu cynnal ar ychydig, neu heb ddim traul. Y mae braidd bob ysgolor mewn oedran yn meddu Bibl o'r eiddo ei hun. Y llyfrau elfenawl ydynt o'r fath mwyaf cyffredin. Prynir y rhai hyn trwy gydoddion. Y mae esboniadau yn gyffredin gan bersonau unigol. Mae yr addysg Rabbinaidd, neu yr athrawiaeth uchel, a gynnwysir ynddynt yn fynych yn cyfateb i chwaeth y cyffredin. Clywais y cyfrif mwyaf manwl yn cael ei roddi o'r fath ddefodau a bwrw allan o'r synagog, a chyfansoddiad y cynghoran Iudewig; a chanf, dolir trwy gyfeiriad at Adroddiadau fy nghymorthwywr Mr. Morris, fod cydnabyddiaeth â ffurfiau yn cynnwys rhanau mwyaf dyrys duwinyddiaeth yn beth pur gyffredin yn eu msysg. Anfynych y defnyddir argrafflenau; eto dywedai y Parch. David Rees, Llanelli, wrthyf, ei fod ef yn credu fod deiliaid yr ysgolion

Sabbthol yn fwy efdnabyddus â daearyddiaeth Palestina nag â'r eiddo Cymru. Nid oes lyfrgelloedd yn perthyn ond i'r ysgolion sydd yn cael eu dwyn ymlaen oreu.

Gellir cyfrif am y dylanwad ag y mae iaith neillduol wedi ei gyrhaedd mewn rhoddi y eysfeiriad hynod hwn i addysg y cyffredin oddiwrth y datlen ganlynol (a gymerwyd allan o'r crynodd plwyfol), yn yr hwn y mae y ddau gantraf cyntaf yn siarad yr iaith Gymraeg, ac yn gorwedd yn y rhan uchaf o sir Gaerfyrddin; y ddau olaf yn siarad yr iaith Saesneg, ac yn gorwedd yn neheubarth sir Benfro:—

Cantrefi.	Poblog- aeth.	Rhif yr Ysgolion Dyddiol.	Rhif yr Ysgolion Sabbth.	Rhif yr Ysgolion Dyddiol.	Rhif yr Ysgolion Sabbth. cysyllt. a'r Eglwys. Ymneill.	Y Cyfan- swm.
Cathinog -	11067	12	37	502	356 2600	2956
Perfedd -	7460	10	28	445	278 2600	2878
Castellmartin	4607	12	11	479	407 93	500
Narberth -	13151	31	27	1274	961 1252	2213

Hynod a neillduol yw y cymeriad a ffurfiwyd trwy y duedd hon mewn meddyliau wedi eu gwahanu yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, braidd oddiwrth holl gyfryngau gwybodaeth fydol. Gwelir gwresogrwydd barddonol ac ymroddgar teimladau erefyddol, dyfalwch gyda moddion erefyddol, dyddordeb zelog mewn gwybodaeth grefyddol, absennoldeb trosedd mewn cymhariaeth, ochr yn ochr â'r rhagfarnau neu y cyffrôadau mwyaf direswm; hollol amddifadwydd o drefn o feddwl a gweithredu, a (yr hyn sydd yn llawer gwaeth), diystyrwch cyffredinol o gymedr-oldeb, lle mae moddion gomodedd, o ddiweirdeb, geirwiredd, a gonestrwydd.

Yr hyn sydd yn ei synu yn fawr yw y ffaith fod y bobl gyffredin yn medru dwyn y gwaith ymlaen, heb neb o'u huchafiaid i cdrych ar eu hol. Er mai i hyn y mae yn priodoli eu poblogrwydd, eto, eglur yw nad oes ganddo fawr o gred yn eu sefydlogrwydd a'u heffeithioldeb. Nid yw yn ymddangos ei fod erioed wedi deall y gall dynion gael eu llywodraethu gan unrhyw amean uwch na hunan. Y mae y fath beth a dyn flawd yn awyddu am wneyd lles, ac yn medru gwneyd lles, i'w gyd-ddynion, yn un o'r dirgeledigaethau nad yw efe eto wedi eu hamgyffred. Dyma lle mae llywodraethwyr gwladol, a'u gweision o bob gradd, o hyd yn cyfeiliorni. Nid oes ganddynt ddim ymddiried yn y bobl, nac un syniad am y fath beth ag egwyddor. Ni fedrant ddychymygu pa fodd y gall y ddaear ymgynnal yn y gwagle diderfyn heb fod ar gefn rhyw gawrffil anferthol: ac nid ydynt un amser yn alluog i estyn eu meddyliau yn ddigon pell i weled fod yn rhaid, yn ol eu dull hwy o ymresymu, i'r cawrffil hwnw gael ei gynnal gan ryw gawrffil arall, ac felly yn ddiiddiwedd. Sonia Mr. Lingen am ddynion, yn weision trwy yr wythnos, ac yn feistriaid ar y Sabbth. Oni wŷr efe mai nid cyfoeth sydd yn gwneyd dyn yn wir barehus mewn cymdeithas fydol mwy nag yn yr Ysgol Sabbthol. Fel y dywed Burns:—

*"The rank is but the guinea stamp;
The man's the gold for all that."*

Hir y parhâu y Cymry i barchu pob dyn yn ol ei haeddiant a'i deil-yngdod gwirioneddol, ac nid yn ol ei fawredd amgylehiadol. Gwelir hefyd fod Mr. Lingen yn llêd awgrymu nad yw yr holl ddysgeidiaeth grefyddol yn effeithio llawer ar ein moesau. Fel atebiad i hyn, yr ydym yn cyfeirio at holl foneddigion ein gwlad, ac yn gofyn iddynt yn öfn, Pwy yw y rhai mwyaf bucheddol, mwyaf cyfiawn, mwyaf geirwir, yn eu gwahanol gymydogathau? Onid rhai o athrawon ac aelodau yr Ysgolion Sabbothol? Ar yr un pryd, yr ydym yn barod i addef nad ydym yn llwyddo i wneyd trefn ar bawb ag sydd yn dyfod atom: ac nid yw yn annhebygol fod rhifedi mawr yn ein gwlad, o herwydd eu cynnefindra â moddion crefyddol, yn myned yn fwy caled, ac yn fwy hyf mewn annuwioledeb. Fel hyn y mac gair Duw yn dyweyd y byddai, ac fel hyn y bydd pa foddion bynag a arferir. Ond nid yw hyn yn eu cyfiawnhau hwy yn eu hanfoesoldeb, nac yn ein cyfiawnhau ninnau i beidio llafurio hyd y gallom i'w diwygio. Mac y ffaith a ddynodir yn niwedd y dyfyniad uchod—ac ofnwn y gellid cael anghreiffitiau o galedweli cyffelyb mewn manau eraill—yn wirioneddol ddychrynlyd. Hwyrach ein bod yn ymfodloni gormod yn yr Ysgolion Sabbothol i oleuo y deall, heb ameanu at ddefiro y gydwybod. Y mae agwedd Cymru yn yr ystyr yma yn galw am ystyriaeth ddifrifol.

Trown bellach at Mr. Symons. Yr hyn a ganlyn yw ei dystiolaeth ef:—

“Mac tuedd gyffredinol yr Ysgolion Sabbothol yn wir fuddiol. Hwynthwy, mewn llawer o fanau, a fuont yr unig foddion i gyfranu yr ychydig gasgliad o wybodaeth ysgrythyrol sydd mewn bod; a chredwyf mai canlyniad addysg yr Ysgolion Sabbothol oedd tair rhan o bedair o'r atebion cywir a roddwyd i mi wrth brawf-holi yr ysgolion dyddiol. Cyfarfyddais â rhai Ysgolion Sabbothol rhagorol perthynol i'r Eglwys Wladol, lle y mae yr ysgrythrau yn cael eu heglwri yn gystal a'u darllen; a Chatecism yr Eglwys—yn lle cael ei gyflwyno i feddwl y plentyn fel cyfres o eiriau i orlwytho y meddwl heb un cysylltiad â meddylddrychau—yn dyfod yn llythyren fywiol o athrawiaeth, ac yn ddeddflyfr ffrwythlawn o reolau moesol. Mae y cyfryw yn Aberystwyth, Llangenny, a St. Mary, Brycheiniog, lle y mae addysg yn cyrhaedd hyd at wasanaeth cyffredin ein Heglwys (*liturgy of our Church*); ac y mae anghreiffitiau eraill o addysg sylweddol yn cael ei chyfranu yn Ysgolion Sabbothol yr Eglwys; am yr hyn y rhoddir cofnodau cyflawn dan enwau y cyfryw blwyfydd; eithr yn yr holl amgylchiadau hyn y mae yr effaith yn cael ei gynnyrchu drwy arolygiaeth personol ac ymdrechion parhaus yr offeiriad ei hun, neu rhyw bersonau dysgedig, y rhai a ddysgant y plant eu hunain. Pan y mae y rhai hyn yn absennol y mae y cwbl yn suddo i hen gylch sathredig y gyfundraeth o ddysgu geiriau heb eu deall, a'r arfer beiriannyddol o ddarllen. Nid yw y plentyn yn edrych ar yr addysg yn ddim amgen nag atddodiad i galedwaith cylchynol dyddiau yr wythnos, ac y mae holl burdeb nodweddiad ac effaith ysbrydol yr Ysgol

Sabbothol yn llwyr ar goll. A'r cyfryw ysywaeth yw y rhan fwyaf o honynt. Gyda golwg ar y drefn a ddilyniir yn Ysgolion Sabbothol yr Eglwys, nid oes eisieu dywedyd ond ychydig: nid oes ynddi ddim neillduol. Hyn, yn fy marn ostyngedig i, yw eu prif ddiffygion. Y eylch cyffredin o ganu—darllen adnod ar ol adnod dros hir amser, a hyuny yn gyffredin heb nac eglurhad, deongliad, na holiad o eiddo yr athraw—ac hefyd ailadroddiad *colect* a chatecism, yw swm yr addysg a weinyddir. Nid oes dim i ddihuno galluoedd, cyffroi dyddordeb, nawseiddio teimladau, a chyrhaedd calonau y plant. Yr wyf yn credu nad oes odid yr un cynghor cyffredinol yn cael ei roddi yn un man yn Ysgolion Sabbothol yr Eglwys. Y mae arnynt eisieu hywyd. Y mae yr holl gyfundraeth yn ddiysbryd ac unfurf; ac yn gwrthio y plant yn ol, yn lle eu denu ymlaen. Y mae yr Ysgolion Sabbothol da sydd yn perthyn i'r Eglwys, lle y mae yr Eglwys yn fyw ac ymdrechgar, yn gwneyd daioni mawr; eithr gellir gwellhau hyd yn nod y rhai goreu o honynt mewn nerth, bywiogrwydd, a threfn.

Y mae Ysgolion Sabbothol yr Ymneillduwyr yn ddiâu yn cyd-daro yn well âg amcanion addysg grefyddol na'r rhai hyny o eiddo yr Eglwys. Y mae iddynt eu diffygion o ymarferiad meddyliol ac ysbrydol, eithr y mae eu cyfundraeth yn tra ragori, lle y mae yn cael ei gweinyddu yn effeithiol. Y mae yr ysgolion hyn o nodweddiad hollol wahanol i'r eiddo Ysgolion Sabbothol yr Eglwys: ni fwriadwyd hwynt yn gymaint er hyfforddiad plant yn egwyddorion addysg grefyddol, eithr fel moddion cyffredin diwylliant ysbrydol y gynnulleidfa yn gyffredinol; o herwydd hyny y mae nifer lliosog o rai mewn oed yn myned iddynt. Golygfa hyfryd yw edrych ar gapel wedi ei orlenwi â'r dosbeirith tlotaf; pob cor yn cynnwys o bump i ddeg o bersonau mewn oed, neu blant, meibion, neu ferched; ac yn mhob cor athraw, wedi ei ddewis o herwydd rhagoriaeth ei frwdfrydedd a'i wybodaeth, yn darllen gyda'r lleill, ac â'i holl egni, fynychaf, yn ymdrechgu egluro yr ysgrythyrau i'w ddiadell fechan, y rhai yn mhob ysgol dda a hola efe hyd eithaf ei allu am ystyr y rhanau dyrys. Pan ystyrir fod y miloedd sydd yn llenwi yr ysgolion hyn braidd yn ddiethriad yn perthyn yn neillduol i'r dosbarth gweithiol, a bod nifer oedd yn mhob capel yn cysegru y rhan fwyaf o'u hunig ddydd gorphwys i'r swydd o ddyngu a diwyllio eu cymunedigion is na hwynt eu hunain; a phan ystyriwyf mai y bobl weithyddol hyn yn unig, yn eu Hysgolion Sabbothol a'u capelau, a gadwasant grefydd yn fyw mewn llawer o fanau, ac a weiniasant yr unig foddion effeithiol i wneyd yr efengyl yn adnabyddus—rhaid i mi ddwyn fy nhystiolaeth ddiffuant i'r gwasanaeth a wnaeth y cynnulleidfaoedd gostyngedig hyn i'r wladwriaeth. Ac ar yr un pryd mae y diffygion yn yr ysgolion Ymneillduol yn dra amlwg. Y mae llawer rhy fychan o arfer meddwl mewn amryw o honynt; ac yn y cyfryw amgylchiadau y mae yr ysgolion yn dirywio i ddim amgen na sefydliad i ddyngu darllen a chanu. Y mae y diffyg hwn bob amser yn gyfartal i'r graddau mwy neu lai o allu a fyddo gan yr athraw. Nid yn y gyfundraeth y mae y drwg; y mae i raddau mawr yn perthyn i ddiffyg gwybodaeth addas yn yr athrawon—a hyn yn neillduol yw yr achos gyda'r athrawesau—ac y mae i raddau helaeth hefyd yn perthyn i esgeulusdra cymhariaethol y gweinidogion Ymneillduol, y rhai ni chyfarfyddais â hwynt ynddynt ond anfynych; a'r rhai, fel y gellid meddwl, a fyddent addasaf i gyfarwyddo a chynnhyrfu yr athrawon ymlaen. Mae y swydd yn cael ei gadael yn hollol yn y rhan fwyaf o achosion i'r arolygwr, yr hwn nid yw bob amser yn ei chyflawni yn effeithiol, yn neillduol mewn ymweled yn bersonol â phob dosbarth, ac yn y cynghorion y dylid eu rhoddi bob amser ar ddiwedd yr ysgol. Y mae y drefn ardderchog hon o gadw y sylw yn fywiog, a rhoddi addysg trwy ymadroddi, yn cael ei harfer yn amherffaith yn y rhan fwyaf o Ysgolion Sabbothol yr Ymneillduwyr, a braidd yn hollol allan o arferiad, hyd eithaf fy ngwybodaeth i, yn Ysgolion Sabbothol yr Eglwys.

Mewn rhai o ysgolion yr Ymneillduwyr mae yr holi yn arwain i ddadlenuaeth, a'r ddadlenuaeth yn aml i ymchwiliad ainfuddiol i ryw bynceian tywyll, ac amrywiaeth barn, yr hyn a duedda ond ychydig i gynnydd Cristionogol. Mi a glywais yn yr ysgolion hyn ymofyniadau yn cael eu dwyn ymlaen i egluro hyd yn nod ddirgeleddigaethau a berthynent i amseroedd pan oedd Adda eto heb ei greu. Y mae tuedd-rwydd yn y Cymry i ymchwiliad cyfriniol a darddansoddol, yn enwedig yn swydd Ceredigion. Yr wyf yn barnu fod prif athrawiaethau a gochymynion moesol yr efengyl yn cael eu dysgu yn rhy anaml yn yr Ysgolion Sabbothol. Maent yn fwy tueddol i ymsuddo i gwestiynau dansoddol a difudd yn nghyleh rhyw ddygwyddiadau bychain, yn gystal ag athrawiaethau dadlenol; er anghraifft—Pwy oedd yr angel a ymddangosodd i Balaam?—nag i egluro a chymhell dyledswyddau moesol, neu i esbonio dammegion. Y mae y pethau hanfodol er iachawdwriaeth yn gyffredin yn cael eu dysgu yn well, ond nid bob amser gyda y symledd dyladwy.

Y mae y gyfundrefn yn rhyfedd. Yn yr ysgolion goreu, nid oes dim yn cael ei wneyd ag sydd yn peri blinder—ond pob peth i gadw y sylw yn eiddo, ac i adfywio yr ysgol: a dim yn cael ei ddygn barhau yn rhy hir. Y mae amrywiaeth barhaus o waith i'r meddwl yn gymysgedig â chanu hymnau. Y mae cerddoriaeth leisiol yn cael ei dysgu a'i harfer yn rhagorol yn rhai o'r ysgolion hyn. Dymunwyf yn neillduol gyfeirio eich harglwyddiaethau at adroddiadau Ysgolion Sabbothol Aberystwyth am lawer desgriafiad o nodweddiad pwysig y gyfundrefn a ddilyniir. Un o'i phrif ragoriaethau yw hyfforddiad athrawon yn flaenorol. Mae yn anmhosibl i un beidio cael ei daro pan yn ymweled âg Ysgolion Sabbothol yr Ymneillduwyr, gyda dymuniad i ganfod ychydig mwy o'r un sylw, egyptmeimlad, a phoen, yn cael ei ddangos gan y dosbarth dysgedig a chyfoethog at y rhai hyn sydd islaw iddynt ag sydd yn cael ei ddangos gan y dosbarth goreu o lafurwyr, at eu cymydogion sydd yn dlotach na hwynt. Mae i'w ofni yn fawr fod mwy o Samaritaniaid yn mhliith y tlotion nag yn mhliith y cyfoethogion yn y siroedd hyn; a bod sylw Mr. Phillips, gwr boneddig yn sir Faesyfed, o ewyllys da, ac o eiddo helaeth, yn eithaf gwir, 'Hyd oni chymero y tîrfeiddiannwyr a'r offeiriad fwy o sylw o'r tyddynwyr a'r gweithwyr, ychydig o ddaioni sefydlog a ellir ei ddysgwyl.'

Nis gallaf orphen y sylwadau hyn ar yr Ysgolion Sabbothol heb draethu fy anghymeradwyaeth o'r arferiad sydd yn gyffredin yn ysgolion yr Eglwys a'r Ymneillduwyr yr un fel; sef caniatáu i blant ieuaine ddyysgu darllen ynddynt. Mae hyn yn ddiammhau yn wýrdroad ar ddyben ac ysbryd y sefydliad. Gwelais yn aml bersonau, pan yn y swydd o ddyysgu plant bychain i sillebu ac i acenu geiriau bychain, nid yn unig yn treulio eu hamser yn y drafferth o ddyysgu y wyddor, ond hefyd yn aflonyddu yr ysgolheigion eraill. Mae yr ysgolion sydd yn cael eu dwyn ymlaen yn yr agwedd hon yn peidio a bod mwyach yn athrofeydd o wybodaeth grefyddol, ac yn dyfod yn ysgolion wythnosol o'r fath iselaf. Mae yn gam dyweyd nad oes ond addysg gyffredin yn cael ei chyfranu yn yr Ysgolion Sabbothol Cymreig; dyma addysg gyffredin, a'r fwyaf difudd, a lleiaf ysbrydol yn ei natur.

Yr wyf wedi beiddio llefaru yn rhydd am y diffygion a welais yn yr Ysgolion Sabbothol, o herwydd yr wyf yn llwyr argyhoeddedig o'r difawr les maent yn allnog i'w gyflawni, ac yr ydwyf yn credu y geill dynoethiad caredig o'r hyn a ymddengys yn fyr ynddynt fod o les."

Y mae Mr. Symons, tuhwnt i bob dadl, yn deall natur a dybenion yr Ysgol Sabbothol yn llawer gwell na Mr. Lingen; ac nid oes ynom y duedd leiaf i ymryson âg ef o barth y beiau a ddynodir ganddo yn y dyfyniad uchod. Y mae tuedd yn y Cymry at ymchwiliadau

dansoddol-dduwinyddol: ac y maent yn bencampwyr yn y cyfryw ymchwiliadau, fel y cafodd rhai o'r *commissioners* weled mewn rhai manau er eu dirfawr synedigaeth. Tra y cadwont y duedd hon o fewn terfynau priodol, ac i weithredu ar bynciau teilwng, ni ddylid eu hanghefnogi. Ond gwelsom rai yn rhy hoff o gwestiynau anorphen, a chwestiynau nad oeddynt o un pwys yn y byd, pe gallesid eu hateb. Nid ydym yn cofio i ni glywed neb erioed yn dadleu, fel y dywed Mr. Symons, yn nghylch enw yr angel a ymddangosodd i Balaam. Mae y "*Daily News*" wedi gwella tipyn ar yr ystori hon, ac yn dyweyd mai testun y ddadl oedd enw yr angel a ddysgodd asyn Balaam i lefaru. Darlennasom fod rhai o dduwinyddion y canol-oesoedd wedi llafurio i benderfynu pa sawl angel a fedrai sefyll ar unwaith ar flacn nodwydd. Nid ydym yn deall fod y Cymry eto wedi myned mor gywreindoeth a hyn. Ond nid yw wiw gwadu fod rhai yn anfuiddiol yr Ysgol Sabbothol mewn amryw fanau gyda holiadau gweigion, o herwydd nad oes ganddynt archwaeth at wirioneddan mwyaf pwysig y dadguddiad dwyfol. Y mae hefyd yn deilwng o ystyriaeth, a yw yr addysgiadau mor ymarferol ag y dylent fod. Ni ddylid esgeuluso athrawiaeth; ond cofier fod pob cangen o athrawiaeth, fel y gosodir hi i lawr yn y Bibl, yn dwyn perthynas agos âg ymarferiad, "fel y byddai dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Braidd na chytfunem yn mhellach i ryw raddau â Mr. Symons yn nghylch yr amhriodoldeb o ddysgu plant i sillebu, &c., yn yr Ysgol Sabbothol. Nid oes dim ond anghenrheidrwydd anheborol yn ein cyfiawnhau i ddysgu y gelfyddyd o sillebu a darllen ar y Sabboth. Er hynny, lle nad oes ysgol ddyddiol, neu lle y mae cymaint ag un plentyn yn methu myned iddi, neu lle nad yw yr iaith Gymraeg yn cael ei dysgu ynddi, y mae y gwaith hwn yn ymddangos i ni yn anheborol. Nis gallwn ychwaith edrych yn ddiystyrlyd ar yehydig o bobl dlodion yn dyfod at eu gilydd i ddarllen y Bibl, pe na byddai un yn alluog i roddi nemawr o gymhorth iddynt mewn ffordd o esboniad. Diau y dylent yn mhob modd ymgyrhaedd at ddeall yr hyn a ddarllenont. Ond y mae darllen y Bibl ynddo ei hun yn rhan arbenig o addoliad: a phe na byddai dim ond hyn yn yr Ysgol Sabbothol, dyledswydd pawb fyddai ei phleidio.

Nid yw Mr. Johnson wedi rhoddi cymaint o hanes yr Ysgol Sabbothol a'i gyd-lafurwyr: ond er fod ei dystiolaeth yn fêr, y mae yn lled gywir a chynnwysfawr.

“Y mae natur a dyben yr Ysgol Sabbothol Gymreig yn hawdd eu canfod. Yn yr ysgolion wythnosol y mae pawb yn profesu dysgu Saesneg; yn yr Ysgolion Sabbothol, yn gyffredin, y mae pawb yn dysgu Cymraeg. Y dyben a ddimunir gan y tlodion oddiwrth y blaenaf yw gwybodaeth dymmorol; y dyben i'r hwn y cysegrant eu holl sylw yn yr Ysgol Sabbothol yw crefydd, hyd yn nod mor bell ag i gau allan bob efrydiaeth arall.

Y mae y dull o ddwyn yr ysgolion hyn ymlaen yn lled debyg, i ba enwad bynag y perthynant. Dechreuir hwynt fel gwasanaeth crefyddol, trwy ddarllen pennod o'r Eibl, canu hymnau, a gweddio. Yna gwahanir y dosbeirith mewn corau, pob cor yn cynnwys o 5 i 10 o ysgolheigion, yn nghyda'u hathraw. Bydd y rhai hyn ar waith am agos i awr yn darllen y Bibl yn Gymraeg, adrodd rhanau allan, ac ateb gofyniadau a roddir gan yr athraw. Ar ol hyn, holir yr holl ysgol ar unwaith o ryw holwyddoreg athrawiaethol perthynol i'r enwad crefyddol, a'r hwn y mae yr ysgol hono yn dwyn cysylltiad: atebir yr holiadau gan y rhan hynaf neu ieuangaf o'r aelodau gyda'u gilydd, yn ol fel yr anerechir hwynt gan yr arolygwr, yr hwn a eglura neu a gadarnha yr holwyddoreg trwy ychwanegiadau difyfyf. Terynir yr ysgol fel y dechreuodd, trwy weddi. Y mae sefyllfa a chyrrhaeddiadau isel y personau a sefydlasant, ac a ddygant ymlaen yr Ysgolion Sabbothol Cymreig yn mwyhau gwerth yr ymdrech gwirfoddol yma o blaid addysgiant: a pha mor amherffaith bynag yw yr effeithiau, y mae yn annichonadwy i ni beidio a rhyfeddu at liosogrwydd yr ysgolion a sefydlwyd ganddynt; rhifedi, bywiogrwydd, a dyhewyd yr athrawon, rheoleidd-dra a threfnusrwydd y gwaith, a'r effeithiau parhaus ac amlwg a gynnyrchwyd ganddynt ar gymdeithas.”

Mewn man arall, dywed Mr. Johnson fod y diffyg o Ysgolion Sabbothol i'w weled yn amlwg wrth nesu at ororau y Saeson yn anfoesoldeb y trigolion. Ar y cyfan, ni raid cwyno oblegid y desgrifiad a roddir yn y dyfyniadau hyn. Cymerer y tri Adroddiad gyda'u gilydd, a cheir ynddynt dystiolaeth gadarn a boddlonawl o blaid effeithioldeb yr Ysgolion Sabbothol. Ond drwg genym sylwi fod yr olygfa yn newid pan eir at yr ysgolion dyddiol: ac y mae yn rhaid i ni ychwanegu nad ydym yn ystyried eu bod wedi gwneyd *cymaint* o gam â ni yn yr achos hwn ag y mae rhai yn feddwl. Hwyrach y gallent mewn manau liniaru ychydig ar yr hanes, a rhoddi mwy o ganmoliaeth mewn manau eraill, heb droseddu rheolau cyfiawnder. Ond ar yr un pryd, y mae yn rhaid addef nad ydym eto ond dechreu gydag addysgiant cyffredinol; a gobeithiwn y cymer y Cymry wers effeithiol oddiwrth yr ymweliad hwn, i'w gwneyd yn llawer mwy egniol. Yr hyn a'n synodd ni yn fwyaf oedd canfod cynnifer o blant yr ysgolion dyddiol mor anwybodus mewn hanesiaeth ysgrythyrol, hyd yn nod pan eu holid yn yr iaith Gymraeg. Ond cofiasom fod nifer mawr o blant eto heb fod yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol: ac o'r rhai sydd, y mae llawer yn dianc yn mhlith y lleill wrth ateb ar y Sabboth, heb ddeall ac heb ddysgu dim. Gosodwn yma ran o

Adroddiad Mr. Johnson am yr ysgolion dyddiol, er mwyn dangos yr anwybodaeth sydd eto yn ein gwlad, ac hefyd er mwyn y sylwadau buddiol o'i ciddo ef ei hun ar y dull o ddysgu. Gadewir allan enwau y lleoedd, gan y parem ofid i rywrai wrth eu cyhoeddi.

“Dengys y dyfyniadau canlynol pa fath yw cymhwysderau athrawon i roddi addysg yn y prif gangenau o wybodaeth gyffredinol—megys gramadeg, hanesyddiaeth, daearyddiaeth, &c.

Yn ysgol —, mewn Gramadeg Saesneg, yr oedd dosbarth o 5 yn alluog i adrodd allan ranau, ond nid oeddynt yn profesu deall cymhwysiad rheolau, nac ystyr darnodiadau (*definitions*). Pe gofynid iddynt, ‘Pa beth yw bannod?’ Hwyl a atebent yn ngeiriau y llyfr, ‘Bannod yw, &c., megys y dyn, y goeden, y ceffyl;’ ond yr oeddynt yn analluog i wahaniaethu rhwng y fannod a'r sylweddair, neu i ddyweyd pa un a oedd *dyn*, *coeden*, a *ceffyl*, yn fannodau, ai nad oeddynt. Yr oedd y meistri yn profesu dysgu y rheolau iddynt yn gyntaf, a'r cymhwysiad wedi hyn.

Mewn ysgol yn —, yr oedd y meistri amser yn ol yn was amaethwr, ond y mae wedi dilyn ei alwedigaeth brese nol am sith mlynedd, heb fod wedi derbyn unrhyw hyfforddiad (*training*). Er ei fod yn deall Saesneg yn weddol, y mae yn siarad gydag acen Gymreig gref, ac yn dra anramadegol. Yr oedd yn son am blant wedi cael eu ‘*sended*’ i’w ysgol. Y mae ei ddull o ddysgu gramadeg yn un anghyffredin. Y mae efe yn darllen y llyfr, ac y mae y plant yn adrodd ar ei ol, fel pe buasant yn adrodd ar ol gweinidog yn yr eglwys. Yr oedd yn resynus ei glywed yn eam-gynann bron bob gair a ddywedai, a'r plant yn ei ddilyn yn fanwl. Yr oedd yn galw *noun* yn ‘*noon*.’

Yn yr Ysgol Rad yn —: yr oedd yma ysgolheigion, y rhai oeddynt wedi darllen 76 tudalen o hanes Lloegr, yn cyunwys braslun o'r hanes hyd deyrnasiad Harri VI. Wrth eu holi, canfyddais nad oeddynt, yn llythyrenol, yn gwybod dim am y mater; a phan y gofynais i'r meistri y rheswm, efe a ddywedodd, ei fod yn meddwl y buasai yn well iddo adael iddynt ddarllen y llyfr ‘*onest over, and then catechise them upon it.*’ Trwy y moddion hyn goddefid hwynt i aros mewn perfffaith anwybodaeth am gynnwysiad y llyfr hyd nes y gorphenent ei ddarllen.

Afreidiol yw lliosogi anghreiffitiau o analluogrwydd yr athrawon presennol i gyfranu addysg yn y prynciau hyn. Y mae eu gwybodaeth yn dra chyfyngedig o'r iaith Saesneg, yn nghyd a'r ffaith fod yr holl lyfrau a ddefnyddir yn bresennol i ddysgu gramadeg, daearyddiaeth, a hanesyddiaeth, wedi cael eu hysgrifenu yn y Saesneg yn unig, yn profi fod y cyfryw addysgiad yn anhosibl. Hyd yn nod pe byddai yr athrawon yn alluog i ddeall y llyfrau a ddefnyddiant, ac i ddyfod i feddiant o wybodaeth a meistrolaeth eang ar y pwnc, fel ag i'w galluogi i egluro yr anhawsderau a raid gyfodi yn meddyliau plant, mewn dull cyfaddas i'w galluoedd, byddai rhwystr pellach yn ymddangos, o herwydd rhagfarn rhieni Cymru yn erbyn defnyddio eu hiaith eu hunain, hyd yn nod fel cyfrwng eglurhad. ‘Yn yr ysgolion dyddiol,’ meddant, ‘y mae arnom ni eisieu i'n plant gael dysgu Saesneg iddynt yn unig: pa les a geir oddiwrth ddysgu Cymraeg i ni? Yr ydym yn deall Cymraeg eisoes.’ Yn wir, yr unig un o gangenau uchaf gwybodaeth gyffredinol, a ddysgir mewn nifer go fawr o ysgolion, yw gramadeg. Ymddengys oddiwrth dafn flaenorol, fod tua'r drydedd rau o'r ysgolion presennol yn rhoddi addysg mewn gramadeg, ac, heblaw dau eithriad, mewn gramadeg Saesneg yn unig.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni ddysgir gramadeg fel gwyddor, neu fel pwnc i gael ei gyfeirio at y deall, ond fel gweithrediad y cof yn unig, fel ag i ddyfod yn

bwne o gywreirwydd pur, yn yr un modd ag ysgrifenu a darllen. Y mae yr athraw yn gwneyd i'r plant drysori i'w cof ddalen ar ol dalen o 'Murray's Grammar,' neu o ryw draethawd rhatach yn y gwahanol lyfrau sillebu a brynir gan y rhieni. Y darnodiadau a'r egluriadau a geir yn y llyfrau hyn, y rhai a fyddent yn anhawdd i ysgolhaig Saesneg, ydynt yn anamgyffredadwy i blant Cymreig; ac y mae'r athraw, hyd yn nod er ei fod yn alluog i esbonio, yn esgeuluso gwneyd hyny. Ni eglurir yr un ran o'r pwnc ag esampiau adnabyddus cyfaddas i alluoedd plant; ac yn ymddyddan yr athraw, y mae rheolau cystrawen a gramadeg yn cael eu tori yn llawer mynychach nag y maent yn cael eu cadw. Gellid lliosogi anghreiffitiau o ysgolion yn mha rai yr oedd yr athraw, tra yn perffeithio ei blant yn rheolau ac athrawiaeth gramadeg, ei hunan yn tori pob rheol mewn siarad ac ysgrifenu.

Mewn perthynas i ddaearyddiaeth, nid oes, yn y mwyafrif o'r ysgolion, ddim i arwyddo fod yr athrawon yn gwybod fod y fath gangen o ddysg yn bod. Y mae gan rai *jun* o Palestine, oddiwrth yr hwn y maent yn proffesu rhoddi addysg mewn daearyddiaeth vsgrhythrol, ond nid oes gan yr ysgolheigion yr un ddirnadaeth am sefyllfa Gwlad Canaan yn ei pherthynas ag unrhyw wlad arall yn y byd, ac nis gallant wahaniaethu gogledd oddiwrth ddeben ar y *map*. Yn yrychydig ysgolion ag sydd yn cynnwys llyfrau a *mapiau* anghenrhidiol, y mae daearyddiaeth, fel gramadeg, yn cael ei ddysgu fel ymarferiad i'r cof, ac nid fel moddion i cangu meddyliau na helaethu gwybodaeth y plant. Gellir clywed dosbarthadau cyfain yn adrodl gydag un llais yr egluriadau o hydred a llodred, llinellau y cyhydedd, *circumference*, ac *oblate spheroids*, mewn ymadroddion, y rhai, efallai, a fuasent yn ddealladwy i ysgolhaig Saesneg, ond i blentyn Cymreig yr oeddynt mor ddiystyr a'r enwan celfyddydol hyny en hunain. Y mae hyd yn nod yr egluriadau cydnabyddus a gynnwysir yn y traethodau diweddar a diwygiedig ar ddaearyddiaeth yn cael eu dysgu allan, a thrwy hyny yn cael eu dyosg o'u hystyr. Ond ymddengys nad yw wedi dyfod i feddwl yr athrawon, nac hyd yn nod ymwelwyr a noddwyr ysgolion, fod eisieu i'r egluriadau Saesneg gael eu hegluro i blant Cymreig, ac i'r agoriadau mwyaf cydnabyddus gael eu hagar. Yn yr ysgolion goreu, gwelais, yn achlysurol, radd noledig o fedrusrwydd mewn nodi allan leoedd ar y *map*, celfyddyd ag y mae cyflymder naturiol y plant Cymreig yn eu galluogi i'w chyrrhaeddyd, trwy nad yw yn cynnwys gwybodaeth o unrhyw iaith arall heblaw yr eiddynt eu hunain. Ond ar y goreu, nid yw eu cywreirwydd o ddefnydd ond fel moddion i ddyben; a thra yr edrychir arno wrtho ei hun, y mae mor ddifudd a medrusrwydd llyfrgellydd (*librarian*), yr hwn sydd yn gwybod lle pob llyfr yn y llyfrgell, ond yn hollol anwybodus am gynnwysiad pob un o honynt. Gall y plant hyn nodi allan amryw leoedd, ond y maent heb un ddirnadaeth am eu trigolion, neu eu cynnyrch, am hinsawdd neillduol neu agwedd y gwahanol wledydd, neu am eu perthynas y naill i'r llall.

Ar y cyfan, hyd yn nod yn yr ysgolion goreu yn Ngogledd Cymru, y mae yr iawn ddull o addysgu daearyddiaeth yn cael ei droi o chwith: y mae daearyddiaeth cartref yn cael ei esgeuluso. Y mae plant ag sydd yn berffaith mewn darnodiadan, ac a allant nodi allan ynysoedd, cul-foeodd, mynyddoedd, a pherhynoedd, ar y wyneb arall i'r ddaear, yn tybio nad oes y fath olygfeydd yn bod yn Ngogledd Cymru; er hyny, nid oes ond ychydig o wledydd yn hyfforddio i athraw doeth y fath fanteision i addysgu. Oddiar ben mynydd yn Nghymru, gyda phob amrywiaeth o olygfeydd o'i flaen, efe a allai ddysgu mwy ar un diwrnod gwyl nag sydd hyd yn hyn wedi ei ddysgu yn yr un ysgol, trwy egluro yr anhawsder hwnw ag sydd bob amser yn dyrysu meddwl plant—y cysylltiad rhwng ymddangosiad gwirioneddol y ddaear a'r darluniad a roddir o honi gan ddaearyddwyr yn unfrydol."

Yn yr anghreiffiau uchod, canfyddir anwybodaeth yr athrawon : pa beth gan hyny, a ellir ei ddysgwyl oddiwrth yr ysgolheigion ? Fel profion ar y pen hwn, cymerer yr ychydig ffeithiau a gaulyn o'r un Adroddiad.

“1. Ysgolheigion yn y dosbarth cyntaf a ddywedent fod 18 Efengyl, fod Bartholomeus wedi ysgrifenu un, a Simon wedi ysgrifenu un arall ; mai mab Dafydd oedd Moses. Mewn dosbarth is, dywedent fod Jerusalem yn y nefoedd, ac mai Paul a ysgrifennodd yr Efengyl yn ol St. Matthew ; credai un arall ei fod wedi ei ysgrifenu gan Iesu Grist. Y bachgen hynaf mewn dosbarth lliosog a ddywedai fod Joseph yn fab Abraham. Bachgen oddeutu 10 oed a ddywedai mai Iesu Grist oedd Gwardwr dynion ; ond pan ofynwyd iddo, ‘Oddiwrth ba beth y mae efe yn eu gwaredu ?’ atebodd, ‘Oddiwrth Dduw.’

2. Bachgen oddeutu 13 oed a dybiai mai Judas Iscariot oedd y mwyaf hynod o holl feibion Jacob. Yr oedd hyn yn y dosbarth cyntaf, ac ni chywirwyd ef gan y lleill. Yn yr ail ddosbarth yr oedd 6 o fechgyn, oddeutu 9 oed, yn darllen y Testament Newydd : nid oeddynt yn gwybod dim. Pan ofynwyd, ‘Pwy roddodd Iesu Grist i farwolaeth ?’ atebent, ‘Cain.’

3. Tystiolaethai un, a chyttunai y lleill i gyd, fod yr Hafren yn codi yn Mor y Canoldir.—Dywedent i Iesu Grist gael ei fradychu gan Pontius Pilat. A phan ofynwyd pwy oedd Mam Iesu Grist ; atebent, ‘Methuselah.’

4. Dywedai un fod Ioan Fedyddiwr yn Fab Duw, ac un arall mai Adda a'i deulu a aethant i'r arch.

5. Nid oedd ond 5 allan o ddosbarth lliosog yn gwybod dim am yr ysgrhythr. Dywedai un fod gan Adda *bedwar* mab, sef Cain, Abel, Isaac, a Jacob. Meddyliai un arall nad oedd gan Adda ond tri mab, sef Sem, Cam, a Japheth.

6. Gofynais i 6 o fechgyn, rhwng 10 a 13 oed, pa le y bu Crist farw ? Atebodd dau, ‘Yn Eden.’ Dywedodd un arall, ‘Yn Bethlehem.’ Yr oeddwn yn eu holi hwynt yn Gymraeg, gan nad oedd un o honynt yn alluog i siarad gair o Saesneg.

7. Rhai yn y dosbarth cyntaf a ddywedent mai Moses oedd gwr y Forwyn Fair, ac mai yn Ngardd Eden y ganwyd Iesu Grist.

8. Nid allai neb ddyweyd pa sawl gorchymyn sydd ; nac o bwy y ganwyd Iesu Grist ; nac enw yr un o'i ddysgybllion. Nid oedd un yn eu mysg a allai ddyweyd beth oedd enw Brenines Lloegr.

9. Dywedwyd wrthwyf gan un ysgolhaig mai Iesu Grist oedd mam Ioan Fedyddiwr ; dywedai un arall fod Judea yn Bethlehem : ac yr oedd yr holl ddosbarth cyntaf yn cytuno mai Ioan Fedyddiwr a ysgrifennodd yr Efengyl yn ol Ioan. Hollais hwynt yn Gymraeg a Saesneg.

10. Rhai a ddywedent wrthwyf fod Samuel yn fab i Iesu Grist, mai Mair Magdalen oedd mam ein Iachawdwr, ac mai Mair y Forwyn oedd ei wraig.

11. Gofynais, ‘Pa sawl gorchymyn sydd ?’ a phan na chefais ateb, gofynais iddynt ddyweyd yn Gymraeg beth oedd ystyr y gair gorchymyn ; ac atebasant, ‘Ioan Fedyddiwr.’”

Derbyniwyd yr atebion hyn mewn rhai o'r siroedd a gyfrifir yn fwyaf gwybodus yn Nghymru. Ac os cafwyd y plant yn yr ysgolion dyddiol mor anghyfarwydd yn hanesiaeth y Bibl, naturiol yw casglu eu bod yn mhellach ar ol mewn gwybodaethau tymmorol. Hyn a ystyria yr ymwelwyr yn un o'n diffygion penaf, a braidd na led-

arwyddant ei fod yn achos o bob diffyg arall. Nid yw yr Ysgolion Sabbothol yn effeithio cymaint ag a fyddai dymunol ar ymarweddiad yr aelodau; oblegid nid os ynddi ddim ond crefydd: ac nid yw ein holl lyfrau a'u cyhoeddiadau cyfnodol yn werth dim, am nad ydynt yn cyfyngu eu hunain at lywod-ddysg, a changenau eraill o wybodaeth dymmorol. Rhydd Mr. Johnson ddyfyniad o lythyr, yn yr hwn yr addefir fod y "Traethodydd" yn rhagori ar ddim a fu o'i flaen; ond cwynir ei fod hefyd yn gorfod ymostwng i foddio ei ddarllenwyr, trwy roddi traethodau crefyddol yn achlysurol. Dymunem hysbysu i'r ysgrifenydd, pwy bynag ydyw, ein bod yn gwneyd hyn o ddewisiad; ac mai llawenydd yw genym weled nad yw y Cymry yn rhoddi pris ar un llyfr heb fod ynddo ryw duedd grefyddol. Ni fu Lloegr erioed yn uwch nag yn yr oes Buritanaidd, pan yr oedd crefydd wedi myned yn fwy na dim arall yn ngolwg y wlad, ac yn llanw ei holl lyfrau. Ac un o arwyddion mwyaf gobeithiol yr oes hon yw, fod mwy o sylw nag oedd ychydig flyneddau yn ol yn cael ei dalu i destunau crefyddol yn nghyhoeddiadau penaf y Saeson. Yn lle ceisio ennill y Cymry i'r peth oedd y Saeson, dylem lawenhau wrth weled y Saeson yn dyfod ar ol y Cymry. Afreidiol i ni hysbysu nad ydym yn erbyn gwybodaethau tymmorol; ond dymunem iddynt gael eu hefydu, fel ein dysgir yn hanes Syr Isaac Newton a Cuvier, yn ysbryd y grefydd Gristionogol. Dylai crefydd gael yr un lle mewn addysgiant, ag sydd yn perthyn iddi yn yr ymarweddiad. Dylai fod yn egwyddor lywodraethol, yn ganolbwynt yr holl gyfundrefn. Y mae llawer o dwyll ar y pen hwn yn y dyddiau presennol. Tybir mai dysgu y plant yn dda yw llanw eu penau â phlentwr o ffeithiau, heb un ymdrech i gyrhaedd y galon. Os ceir hwy i fedru swnio y geiriau *oxygen* a *hydrogen*, a lliaws o'r cyffelyb, ac i adrodd rhes o enwau brenhinocdd Lloegr, bernir eu bod yn wybodus rhyfeddol. Ond heb son dim am grefydd, byddai un ystori dda, neu chwedl ddifyr, i ddysgu y plant i ddyweyd y gwir, neu i fod yn gymmwynasgar i'w gilydd, yn well na'r cwbl. Neu, pe rhoddai *Lady* Guest argraffiad rhad o'r "Mabinogion," mewn iaith fwy dealladwy, atebai well dyben na hanner y llyfrau coeg-ddysgedig a arferir mewn llawer o ysgolion. Y mae gormod o duedd yn addysg y dyddiau hyn, sef yr addysg a gymeradwyir yn yr Adroddiadau dan sylw, i wneyd y plant yn bciriannau rhifyddol; ac yn y diwedd ni ddeuant mor alluog yn y gorchwyl a pheiriant Babbage. Y mae gwybodaeth am ffeithiau o'r fath a nodwyd yn burion yn ei

lle, ac y mae yn werth i bob dyn lafurio am ei meddu ; ond y drwg ydyw ei bod yn cael ei chodi i le pethau uwch. Gosodir hi allan fel y feddyginiaeth anffaeledig rhag pob afiechyd moesol ; a chyfrifir y Cymry, o herwydd eu hamddifadrwydd o honi, yn hanner barbariaid. Yn awr, nid ydym yn credu fod y Cymry yn is na Lloegr hyd yn nod ar y tir hwn. Cymharer gweithwyr gwledig Lloegr â'r un dosbarth yn Nghymru, a cheir y fantol yn troi yn fuan o du y Cymro. Ond caniatâer am y tro nad yw ein cydwladwyr yn gwybod llawer am ystyr y geiriau *oxygen* a *hydrogen* ; a ydynt oblegid hyny yn anwybodus ? Attolwg, a oedd Socrates yn anwybodus ? A oedd Aristotle a Plato yn anwybodus, y rhai y treulir cymaint o amser, ac nid yn afreidiol, yn y prif-ysgolion, i ddarllen eu hysgrifeniadau ? Y mae bechgyn deg oed yn ein dyddiau ni yn medru adrodd ffeithiau mewn seryddiaeth a fferylliaeth na chlywsant lwy erioed son am danynt ; ond yr un peth fyddai eu cymharu â hwynt mewn gwybodaeth, ag a fyddai cymharu aderyn y tô â'r eryr. Rhaid penderfynu, gan hyny, nad yw yr addysg a bleidir yn yr Adroddiadau hyn yn elfenau anhegorol mewn gwybodaeth ; llawer llai y gallant fod yn foddion digonol i gynnyrchu moesoldeb a chrefydd. Os mynech wybod beth yw gwybodaeth, darllenwech Lyfr y Diarebion ; ceir yno wybodaeth y doethaf o dynion, a hono dan ddwyfol gyfarwyddyd, ac yn tueddu i effeithio yn ddaionus ar y galon a'r fuchedd.

Gan fod yr ymwelwyr, neu ddirprwywyr (pa air a gawn am danynt yn Gymraeg ?) yn gosod cymaint o bwys ar ddysegeidiaeth fydol, nid rhyfedd eu bod yn bur ddirgwrth ein hen iaith odidog. Er eu bod yn gorfod addef fod y rhanau Cymreig yn rhagori ar y gororau Seisnigaidd, ac mai y Saeson (sylwed holl gyfeisteddfodau yr Ysgolion Brytanaidd ar hyn) yw yr ysgolfeistriaid salaf yn Nghymru, eto nis gallant gredu nad yw yr iaith Gymraeg ar ffordd pob diwygiad. Gan mai Mr. Lingen yw y blaenaf yn y rhes, gadawn iddo ef lefaru dros y lleill.

“Canfyddais fod pawb o'r un farn am yr anfanteision ag sydd yn gysylltiedig ag anwybodaeth o'r Saesneg. Y maent mor amlwg, ac mor gyffredin yn cael eu haddef, fel nad oes eisieu manylu. Eto, os pleidia budd y Saesneg, gogwydda serch at y Gymraeg. Edrychir ar y naill fel cyfaill newydd i'w feddu er mwyn elw, y llall fel hen gyfaill i'w feithrin er ei fwyn ei hun, ac yn enwedig i beidio ei adael yn ei nychdod. Y mae yn debygol nas gallech weled neb rhieni mewn ardaloedd hollol Gymreig, o ba ddsbarth bynag y byddont, nad ewyllysient ddysgu eu plant mewn ysgol Saesneg : eto y mae pob golygiad neillduol o fywyd cymdeithasol i'r

hwn y'n genir ef—pregethu—cyfarfodydd gweddio—Ysgolion Sabbothol—cymdeithasau—gwahoddiadau—claddedigaeth—y cylehgrawn enwadol (ei unig wasg; —y mae y rhai hyn oll yn ymddangos iddo yn Gymraeg fel yr unig gyfrwng i'w dwyn ymlaen, mewn rhan, fe ddichon, o anghenrheidrwydd, ond mewn rhyw raddau, o dlewisiad. 'Y mae yn rheol gan y Cymreigyddion na siaredir yn eu cyfarfodydd ddim Saesneg.' (Tystiolaeth y Parch. D. A. Williams). Gwir fod amgylchiadau y byd yn dangos yn fwyfwy yr anghenrheidrwydd sydd ar y Cymro am Saesneg; ond pa un bynag ai heb allu siarad dim Saesneg y mae, neu ynte ei siarad yn amherffaith, y mae yn teimlo yn gyffelyb annyoddefol ei hollol anallu i'w siarad, neu ei ymdrech yn wyneb ei amherffeithrwydd. Y mae ei deimladau yn gyffrous; ei ddychymyg yn fywiog; ei ddrychfeddyliau (ar y pynciau y mae yn eu deall) yn dilyn y naill y llall yn gyflym. Y mae yn meddu meistrolaeth ar ei iaith ei hun yn llawer helaethach nag y mae y Sais o'r un sefyllfa yn ei feddu ar yr eiddo ef. Y mae hyawdledd (*h. y.* i weddio 'yn ddoniol' fel ei gelwir), mor gyffredinol yn ei ddoisbarth ef, fel y mae bod yn amddifad o hono yn waradwydd. Gan hyny, wrth siarad Saesneg y mae yn rhaid iddo adael o'r neilldu ddawn neillduol yn yr hon y mae yn ymfalchio, i ymddangos dan ffurf o anallu ag sydd yn dramgwydd mwyaf iddo. Mor bell gan hyny ag y mae yn gallu dwyn ymlaen orchwylion ei fywyd, y mae yn ymwrthod a'r Saesneg fel baich annyoddefol. Fel hyn y mae fod yr iaith Gymraeg yn cadw ei thir, a'r awyrgylech foesol, yr hwn, o dan ei chysgod, sydd yn amgylchu y boblogaeth, yn ymddangos mor bell a hyn yn ammodau cydberthynol, fel y mae pob ymdrech i ddefnyddio y gyntaf i dros-glywddo meddyliau eraill heblaw y rhai sydd yn gyson a'r olaf yn ymddangos yn ofer."

Clywsom am un yn gofyn yn ddifrifol i'r diweddar Mr. Richards, o Dregaron, pa beth oedd ystyr y tair torth yn y ddammeg hono sydd yn son am ddyd yn myned at ei gyfaill liw nos, ac yn llwyddo o herwydd ei daerni. Ar ol i Mr. Richards roddi yr ystyr lythyrenol, a dangos yr addysg naturiol oedd yn y ddammeg, "Ië, ië," ebe y gwr, "y mae hyna yn burion, ond yr wyf fi yn credu fod y tair torth yn arwyddo rhywbeth pellach." "O, tebyg iawn," atebai Mr. Richards; "ond chwi wyddoch nad wyf fi yn un sydd yn gweled yn mhell." Nid ydym yn cofio pa fodd yr oedd y gwr ei hun yn esbonio: ond y mae yn eglur am Mr. Lingen, ei fod ef yn un o'r rhai sydd yn gweled yn mhell. Y mae wedi cael allan mai yr achos o ragfarn y Cymry yn erbyn y Saesneg yw eu hanallu i weddio yn ddoniol yn yr iaith hono. Pa fodd bynag am hyny, gwyddom am rai yn siarad ac yn ysgrifenu o blaid y Saesneg, er na fedrant weddio yn ddoniol mewn un iaith. Nid yw y ddau arall wedi bod mor ffodus ag ef i ddarganfod yr achos o ymlyniad y Cymry wrth eu hiaith; ond y maent er hyny yn llawn mor benderfynol dros ei difodi oddiar wyneb y ddaear; a gofidus yw meddwl eu bod yn cael eu cadarnhau yn y farn hon gan dystiolaethau i'r un perwyl oddiwrth amryw a gyfrifant eu hunain yn Gymry. O'r ochr arall, deallwn fod Esgob Tyddewi, un o'r ysgolheigion penaf yn

Ewrop, i'r hwn y mae genym barch diledryw, yn sefyll yn gadarn o blaid yr hen Omraeg. Dyma wahaniaeth—Esgob Thirwall, yn erbyn mân-guradiaid a hanner-boneddigion Cymru. Ni phetruswn ddyweyd ei fod ef ei hun yn fil addasaeth i roddi barn ar y mater hwn na'r lleill i gyd gyda'u gilydd. Y prif reswm a ddygir ymlaen yn erbyn yr iaith Gymraeg, yw yr aufantais a achlysurir ganddi mewu llysoedd gwladol. Ond dymunem ofyn, Onid mwy cyfiawn a mwy hawdd fyddai gwneyd y barnwyr yn y llysoedd hyn yn Gymry, na cheisio gwneyd yr holl Gymry yn Saeson? Dywedir am ryw athronydd, ei fod unwaith yn myfyrio wrth y tân yn ei ystafell, ac wedi ei lyneu i fynu gan y pwnc oedd yn destun ei fyfyrdod ar y pryd i'r fath raddau, fel yr oedd y tân wedi hanner ei rostio cyn iddo deimlo oddiwrtho. Ond pan ddechreuodd ddyfod ato ei hun, galwodd ar y gwas i ddyfod yno i symud y tân yn ol. "Y mae hynny yn anhawdd iawn, syr," ebe y gwas; "onid gwell fyddai symud ychydig ar y gader?" Felly y dywedwn ninnau—Yn lle tynu i lawr hen furiau cedyrn Cymru, onid gwell fyddai symud y gader gyfreithiol, a dwyn ymlaen holl achosion ein llysoedd gwladol yn yr iaith Gymraeg? Llafuriwch am hyn, gydwladwyr hoff; anfonwch ddeisebion taer a dibaid i'r senedd, ac na orphwyswch nes cyrhaedd eich amcan.

ADRODDIADAU Y DIRPRWYWYR.*

PAN yn ymaflyd yn y gorchwyl o ysgrifio ein sylwadau ar “Addysg yn Nghymru” erbyn y rhifyn diweddaf, nid oeddym ond newydd dderbyn yr Adroddiadau, ac hyd y gwyddom nid oedd unrhyw feirniadaeth wedi ymddangos o berthynas iddynt yn y Dywysogaeth, oddieithr un neu ddwy o erthyglau gwael, gwan, a gwantan, mewn Papyryn a gyhoeddir yn y Deheudir. Ond er nad oeddym wedi cael hamdden i’w darllen yn fanwl, yr oedd yr olwg gyntaf yn ddigon i’n hargyhoeddi y dylasem ddyfod allan yn fwy penderfynol ac egniol na’r Papyryn rhag-grybwylledig. Yr oeddym yn gweled ac yn teimlo fod y Dirprwywyr wedi gwneyd cam dirfawr â ni fel cenedl; a chymerasom ein rhyddid i ddyweyd hyny yn eofn ac yn wrol. Ond ar yr un pryd nid oeddym yn ystyried fod genym ni hawl i farnu eu dybenion, a chymerasom ofal i hysbysu nad oeddym yn eu cyhuddo o ddwyn camdystiolaeth fwriadol. Y mae yn dda genym, wrth edrych yn ol, i ni ymgadw o fewn y terfynau hyn; ac nid ydym eto yn gweled anghenrheidrwydd i fyned un cam yn mhellach. Trosedd mawr yn nghyfrif rhai fyddai son fod y fath beth yn ddichonadwy ag i’r Dirprwywyr hyn fod i ryw raddau yn well na Beelzebub ei hun. Ond nid yw yr eithafion o’r natur yma yn effeithio dim namyn i beri gwrthdarawiad cryfach yn mhlaid y Dirprwywyr a’u Hadroddiadau, o’r hyn y mae genym anghraifft eisoes yn y “*British Banner.*” Beth sydd a fynom ni â chwilio eu calonau? Rhyngddynt hwy a’u dybenion—ein gwaith ni yw barnu gwirionedd eu tystiolaethau. Yr un peth yn ein bryd ni fyddai cyhuddo dyn o lofruddiaeth neu ladrad, a’i gyhuddo o gelwydd gwirfoddol. “Pan glywaf ddyn yn tystiolaethu yr hyn nid yw wir,” meddai Dr. Johnson, “y mae yn ddigon genyf hysbysu iddo, Yr ydych yn dyweyd celwydd, syr: ond os byddaf mewn natur ddrwg, byddaf yn ei gyfarch fel hyn, Yr ydych yn dyweyd celwydd, syr; ac

* Or “TRAETHODYDD,” am 1848.

yr ydych yn gwybod eich bod yn dyweyd celwydd." Ond nid oeddyn ni wrth gyfansoddi yr ysgrif o'r blaen, ac nid ydym yn awr, mewn natur ddrwg; gan hyny, nid oes eisieu i ni fyned yn mhellaeh na hysbysu fod y Dirprwywr wedi dyweyd celwydd, heb gymeryd arnom benderfynu pa un a oeddynt yn gwneuthur hyny yn fwiadol ai peidio.

Yr ydym yn deall fod rhai yn tueddu i'n beio, pe gwyddent pa fodd, am addef fod *peth gwirionedd* yn yr Adroddiadau. Ond yn lle galw hyn yn ol, yr ydym yn barod i'w ail-ddyweyd; ac nid hyny yn unig, ond dymunem ei wasgu yn ddwysach eto at feddyliau ein darllenwyr. Yr ydym yn addef, ac hefyd yn honi yn y modd cadarnaf, fod ein cenedl ar y cyfan yn rhagori ar un genedl arall: ond nid barnu ein hunain mewn cymhariaeth i eraill a weddai fod ein rheol: ond yn hytrach ymofyn pa beth ydym wrth yr hyn a ddylem fod. Hoff genym ni hen arwyddair y Cymry, "Y Gwir yn erbyn y Byd." Caffed y gwir ei le, beth bynag fyddo y canlyniad. Ac onid y gwir yw, fod arferion yn ffynnu yn mhlith meibion a merched Cymru na oddefid mewn un genedl wareiddiedig? Onid y gwir yw, fod gwylder benywaidd yn beth na w'yr llawer o'n merched ieuaine ddim am dano? Onid y gwir yw, fod mân-ddiehellion, twyll ac anghyfiawnder, yn rhy gyffredin yn ein plith? Onid y gwir yw, fod cryn nifer yn y dosbarth amaethol a gweithyddol yn dra isel mewn gwybodaeth gyffredinol? Yr ydym yn gorfod credu mai fel hyn y mae, ac nid oes arnom ofn dyweyd ein meddyliau. Pa les fydd i ni dwyllo ein hunain, trwy gau ein llygaid, fel yr estrys, rhag gweled y drwg sydd mor agos atom? Na, gadewch i ni ymwroli yn fwy ffyddlaw'n a thanbaid nag erioed yn erbyn y llygr-edigaethau sydd wedi dwyn y fath sarhad ar ein cenedl. Wrth ymladd yn erbyn y gelynion, nae esgeuluswn y gwaith o adeiladu y mur. Da fyddai genym pe medrem lanhau enw da ein gwlad oddiwrth y gwarth a defir arni gan ei chauseion; ond gwell na hyny fyddai ei glanhau hi ei hun oddiwrth achosion sydd wedi dwyn y gwarth hwnw arni, deued a ddelo o'i henw yn ngolwg estroniaid. Dywedir wrthym, efallai, mai nid dyma yr adeg briodol i son am waeleddau y Cymry. Wel, y mae gan y neb a fyno hawl i feddwl felly; ond y mae genym ninnau yr un hawl i feddwl yn hollol i'r gwrthwyneb. Ac y mae yn ymddangos i ni mai dyma yr amser i ddwyn y Cymry i ffeiddio ac i yru ymaith o'u plith yr arferion hyny ag sydd wedi dwyn y fath warth ar eu cymeriad fel cenedl; ac y byddem yn euog o anffyddlondeb ysgeler wrth beidio gwneyd y defnydd goreu o'r cyfleusdra. Dymunem

gymhell yr ystyriaethau hyn yn ddifrifol at feddyliau penau teuluoedd ac athrawon yr Ysgolion Sabbothol. Gofidus yw genym fod ein gwaeleddau wedi eu hadrodd yn Gath, a'u mynegu yn heolydd Ascalon ; a buasem yn gwneuthur un peth a allasem i ragflaenu yr anffawd. Ond y mae hyn yn awr wedi dygwydd, ac nid oes modd ei alw yn ol. Beth yw ein dyledswydd yn ngwyneb hyn ? Onid galaru a diwygio ? Pe byddai un o'n cyfeillion anwylaf yn euog o ryw fai, ni a wnaem ein goreu yn y lle cyntaf, fel meibion hynaf Noa, i daslu mantell drosto, a'i ddwyn i edifarhau. Ond pe deuai rhyw Davies, Troedyrour, neu Jones, Nefyn, a'r cyhuddiad ymlaen, ni fedrem ddyweyd celwydd er mwyn ei amddiffyn ; ond yn hytrach ni a ddefnyddiem ymddygiad ei gascion yn rheswm ychwanegol i geisio ei ddiwygio. Ac heblaw hyn oll, beth sydd yn rhwystro ein cyfeillion i weled eu bod, wrth ddesgrifio yr Adroddiadau fel un pentwr digymysg o gelwyddau, yn euog eu hunain o'r un camwedd aga raddir ganddynt yn erbyn y Dirprwywr ? Ie, mwy na hyn—y mae y Dirprwywr yn addef fod llawer o ddaioni yn Nghymru : ond ni fyn rhai o'u gwrthwynebwyr i ni addef fod yr Adroddiadau yn cynnwys y mymryn lleiaf o wirionedd ! Gwareder Cymru rhag ffolineb ei phleidiwr.

Ni ddygwyddodd i ni glywed am un wrthddadl arall, gwerth mynyd o sylw yn erbyn ein hesgrif flaenorol. Gan hyn, ni a awn rhagom i gynnyg rhai sylwadau ychwanegol ar yr un testun. Ac ymlaenaf oll, dymunem hysbysu nad casineb at y grefydd wladol sydd yn ein cymhell yn hyn o orchwyl. Pe na buasai ond y teimlad hwn yn ein llywodraethu, buasem yn llawenhau wrth weled yr Adroddiadau. Nid oes eisieu profion cadarnach nag a geir yma o aneffeithioldeb yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Dywedir a dangosir ynddynt yn amlwg mai ei hysgolion hi yn gyffredin yw y rhai salwaf ; ac nad yw ei phleidiwr yn gofalu ond ychydig am les y bobl. Ceir yma y ffeithiau mwyaf gwarthus am eglwyswyr wrth y degau yn lladrata arian a ddylasent fod yn cynnal ysgolion i'r tlodion. Pe baem am warthruddo yr Eglwys Sefydledig, ni fyddai raid i ni ond casglu yn nghyd yr hanesion gwaethaf yn y llyfrau hyn. Ond nid hyn yw ein hamecan. Teimlo yr ydym dros ein cenedl, yr hon a gafodd gam yn yr achos hwn ar law cenadon y llywodraeth. Er ein bod yn addef y gwir, nid ydym am dderbyn y celwydd ; ac y mae ein ffyddlondeb yn argyhoeddi ein cydwladwyr o'u beiau yn ein gosod ar dir manteisiol i gyfarfod â'u cyhuddwyr. Er nad oes genym ddim i'w ddywedyd yn

wahanol oddiwrth yr hyn a ddywedasom yn ein rhifyn diweddaf, eto, gan i ni gael lle i ddeall fod amryw o gyfeillion y Dirprwywr yn talu mwy o sylw nag a feddylasom i'r hyn sydd yn ymddangos yn y "Traethodydd," tybiwn mai nid afreidiol fyddai i ni brofi ac egluro ein cŵyn yn eu herbyn yn fwy helaeth a manwl.

1. Y mae yn amlwg nad oedd y Dirprwywr yn meddu ond ychydig o syniad am, nac archwaeth at, grefydd y Cymry. Nid ydym yn awr yn son am Ymneillduaeth, ond crefydd efengylaidd, pa un bynag ai yn y llan ai yn y capel. Y mwyaf anghymhwys yn yr ystyr yma, yú ol pob ymddangosiad, oedd Mr. Lingen. Y mae y gwr hwn yn gosod Diwygiadau Cymru yn yr un gyfres ag ysgarmes Rebecca; ac wrth roddi hanes am un ysgol, y mae yn dyweyd fod y plant yn canu rhyw fath o *ffiloreg grefyddol*, pan nad oeddynt ond canu hen bennill synwyrllawn a melus, yr hwn a arferir yn bur gyffredin yn nghynulleidfaoedd y Saeson. Nid yw y ddau arall yn siarad am bethau cysgredig gyda llawn cymaint o ddibrisdod; ac nid ydym yn ammheu nad oes ganddynt ryw grefydd o'r eiddynt eu hunain; ond am grefydd y Cymry, nid oes lle i feddwl y gwyddant lawer ychwaneg na Mr. Lingen.

2. Yr oeddynt yn llawn rhagfarn yn erbyn iaith y Cymry. Nid yw yn hysbys pa ddrwg a wnaeth yr hen Omeraeg iddynt hwy na neb arall; ond y mae eu gelyniaeth tuag ati yn berwi allan ar bob achlysur. Y mae yma anghyfiawnder dyblyg. Y oedd anfon Saeson i holi plant y Cymry yn anghyfiawnder; ac yr oedd anfon rhai mor ragfarnlyd yn erbyn y Gymraeg, i wneyd gwybodaeth o iaith yn safon yr ymholiad, yn anghyfiawnder gwaeth. Ac nid oedd hyn oll yn ddigon ganddynt. Gellid meddwl nad oedd modd myned yn mbhellach; ond medrasant hwy ddyfeisio ffordd i ychwanegu un anghyfiawnder arall. Nid yn unig y maent wedi craffu ar bob trosedd o reolau yr iaith Saesneg; ond y maent yn ymostwng i feirniadu ar y dull o'i swnio. Pe anfonasid y doethion hyn i ymweled a Phrif-ysgol Edinburgh, buasant yn ddiattreg yn rhoddi *Professor* Wilson a Dr. Chalmers yn rhestr y bwngleriaid, am eu bod yn siarad gydag accu Albanaid. Neu pe dygwyddai iddynt daraw i mewn i Dy yr Arglwyddi, nid ydym yn sier y diangai yr Arglwyddi Brougham a Campbell heb eu collfarnu fel rhai rhy anwybodus i fod yn athrawon mewn Ysgolion Brytanaidd.

3. Heblaw hyn, yr oedd llawer o'r holiadau ynddynt eu hunain yn

eithaf afresymol. Buasent yn annheg, ac ni chwarsid gwell atebion, pe gofynasid hwynt yn ysgolion Llundain neu ryw dref arall. Gŵyr pawb nad oes dim yn fwy anhawdd na ffurfio darnodiadau boddlonawl, sef yw hyny, dyweyd mewn ychydig eiriau beth ydyw unrhyw wrth-ddrych. Ffordd effeithiol i ddyrysu dyn yw gofyn iddo, Beth yw y peth hwn, neu y peth arall? Methodd Plato ag ateb y gofyniad, Beth yw dyn? A phwy a ddichon gyfrif yr holl ddadleuon sydd wedi bod yn mhlith duwinyddion wrth geisio ateb y gofyniadau, Beth yw ffydd, Beth yw gwyrthiau, ac eraill cyffelyb? Ac eto dyma rai o'r gofyniadau a roddid gan y Dirprwywr i blant deg oed. Nid ydym yn gwybod am ddim yn fwy anhawdd i'w ateb na'r olaf, sef, Beth yw gwyrthiau. Y mae rhai o'r meddyliau dysgleiriaf a fu erioed yn y byd wedi ysgrifenu cyfrolau arno, ac wedi ei adael yn dywyll yn y diwedd. Ond ni phetrusai Mr. Symons roddi y gofyniad hwn i'r plant yn ysgol y Parch. T. Price. Y mae Mr. Price yn teilyngu canmoliaeth am droi y gofyniad ato yntau yn ol; ac nid ydym yn rhyfeddu na fedrai Mr. Symons mo'i ateb. Y syndod yw ei fod mor ffol a dysgwyl y medrai y plant, na neb arall, mewn ychydig eiriau ddyfod i ben â'r gorchwyl.

4. Bu y Dirprwywr yn hynod o anhapus yn newsiad y rhan fwyaf o'u cymorthwywr. Nid gwaeth genym ni iddynt ddyfod o Goleg Llanbedr, mwy na rhyw goleg arall, ond cael dynion yn meddu ar synwyr cyffredin: ond pe chwiliasent holl golegau y byd, dilys yw na chawsent neb mwy anaddas at y gorchwyl na'r nifer fwyaf o'r rhai a gafwyd. Dymunem siarad o hyd am y Dirprwywr gyda'r parch sydd yn gweddu i foneddigion, er ein bod yn eu hystyried wedi gwneyd cam â ni mewn amryfusedd. Ond gweled rhyw gorachod fel hyn yn rhyfygu beirniadu ar ddynion mil gwell na hwynt eu hunain—dyma sydd yn rhoddi ysfa yn nhraed pob dyn a fedro wneuthur rhyw ddefnydd o'i draed heblaw cario ei gorffyn ei hun o'r naill fan i'r llall. Soniasom yn y rhifyn diweddaf am John James efo ei *Garden of Gardens*. Ond gan nad oeddym y pryd hyny yn gwybod fawr am y dyn, rhoddasom yr esboniad tirionaf a fedrem ar ei gamgymeriad. Erbyn hyn, pa fodd bynag, os yw hanner y tystiolaethau a gawsom am dano yn wir, y mae yn rhaid i ni gredu na wyddai y gwahaniaeth rhwng *cerdd* a *gardd*. Cawsom lythyr oddiwrth gyfaill yn hysbysu mai "*lob* perffaith" ydyw. Wel yntau, *lob* y caiff fod o'n rhan ni; ac ni falïem mo'r llawer pe rhoddem rai ffethiau yn

ychwaneg i brofi cywirdeb y disgrifiad. Aeth y dyn hwn i ryw ysgol y gwyddom am dani yn dda; ac am nad oedd yr athraw yn crynu ger ei fron, ac yn talu iddo yr ymostyngiad a ddysgwyliai, dywedai yn fawreddus, "Gallaf fi wneyd llawer iawn o ddrwg i'ch ysgol chwi, os dewisaf." Rhaid fod yr athraw yn meddu ar amynedd Job, onide buasai yn ei hebrwng allan yn gynt nag y daeth i mewn am arfer y fath fygythiad annynol. Ond pa fodd bynag, aeth John James ymlaen i holi yr ysgol: ac yn mhliith pethau eraill, gofynodd, "Os gall 3 cheffyl dynu 3 tunell o lo mewn certwyn, yr hon sydd yn pwysu 1 dunell, pa faint o lo a dynai 2 geffyl?" Atebodd y plant yn gywir. Rhoddasant bwysau y certwyn, wrth reswm, at bwysau y glo, a chawsant y cwbl yn 4 tunell. Yna gweithiasant fel hyn, Os yw tri cheffyl yn tynu pedair tunell, yna y mae 2 geffyl yn tynu dwy dunell a $13\frac{1}{3}$ cant. Dyma yr *holl* bwysau a dynid gan 2 geffyl. Yna cymerasant allan bwysau y gertwyn, sef 1 dunell, a chawsant fod pwysau y glo yn un dunell a $13\frac{1}{3}$ cant. Fe wel pob dyn sydd yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ei law dde a'i law aswy fod y plant yn gywir. Ond er fod John James wedi cael amser i barotôl y gofyniad, ac i efrydu uwch ei ben; ac er iddo gael atebiad cywir o flaen ei lygaid, eto methodd a'i ddëall yn y diwedd. "Edrychweh yma," ebai wrthynt, "os yw 3 cheffyl yn tynu 3 tunell, beth sydd yn rhwystro i chwi weled mai tunell sydd gan bob cheffyl? Gan hyny, rhaid y gallai 2 geffyl dynu dwy dunell." Felly yr oedd y gertwyn yn symud o honi ei hun; ac nid oedd ei phwysau hi yn mwyhau dim ar y llwyth. Yr un peth fyddai dyweyd nad oedd ffolineb y ddau gynnorthwywr yn fwy na ffolineb un o honynt, er y gwyr pawb fod tunell o ffolineb yn John James ei hun. Cymaint a hyn am dano fel rhifyddwr. Y mae yn ymddangos nad yw ei wybodaeth mewn daearyddiaeth fawr helaethach: oblegid pan yr enwodd un o'r plant "Australasia." "Dyna," eb efe, "yr ydych yn awr yn dyfeisio gair o'r eiddoch eich hun." Tua'r un amser, aeth i edrych ysgol arall yn yr un gymydogath: ond yn lle myned at ei waith, bu ar hyd y pentref trwy y pryd-nawn nes yr oedd o fewn hanner awr i'r amser y byddai y plant yn arfer myned adref. Yna cadwodd hwynt dan holiad nes yr oedd yn dechreu tywyllu. Aeth y plant fel y gellid tybied yn bur anesmwyth, a rhoddodd yntau yn yr Adroddiad fod yr athraw yn analluog i gadw trefn yn ei ysgol. Un o'r holiadau oedd "Pa fodd y mae y byd yn cael ei ranu?" Gan fod yr holicdydd yn gofyn yn lled floesg,

meddyliodd un bachgen, yr hwn oedd yn well daearyddwr na John James, mai gofyn yr oedd "Pa fodd y mae Cymru yn cael ei rhanu?" Ac atebodd, "Ddeuddeg." Ond deallodd yr athraw yn ebrwydd mai camgymeryd yr holiad a wnaeth y bachgen; a dymunodd ar yr holwr am ofyn yn eglurach. Hyny a wnawd, a chafwyd atebiad cywir yn y fan. Ac eto, y mae John James wedi mynegu yn yr Adroddiad fod yno un bachgen 18 oed yn dyweyd fod y byd yn cael ei ranu yn ddeuddeg rhan. Digon yw hyn o sylw am John James, a mwy effallai nag a haeddai. Ond cyn gadael y cynnorthwywr, y mae genym air neu ddau yw ddyweyd am un D. B. Price, yr hwn sydd yn honi braidd mwy nag a ddylai, ac yn dra hoff o feio ar y dull o swnio Saesneg. Fel anghraifft o'r sylwadau pwysig a wneir ganddo ef, cymerer yr hyn a ganlyn: "Gwelais offeiriad y plwyf; enw ei breswylfod yw Glyn-Celyn, yr hwn sydd hanner milltir o'r eglwys, ar yr ochr dde i'r ffordd o Bronllys i Aberhonddu." Un o'i ofyniadau ef yw, "Pa le yr oedd Gardd Eden?" Erdolwg, fedr efe ei hun ddyweyd pa le yr oedd? Am un dosbarth yn Ysgol Tregaron Bwlehgwynt y mae yn sylwi na wyddent pa sawl blwyddyn ar ol Crist y crewyd y byd. "*Did not know how many years after Christ the world was created.*"* Ac yn ysgol yr Eglwys yn Tregaron, yr oedd y plant yn dyweyd yn ddigon priodol fod croeshoelio yn arwyddo hoelio traed a dwylaw wrth bren. Ond cyfieithir eu hatebiad gan D. B. Price fel hyn; "*to nail hand and foot to a stick.*" Byddai yn hawdd ychwanegu: ond rhag blino ein ddarllenwyr, gadawn ar hyn o hanes am weithrediadau y cynnorthwywr.

5. Yr ydym yn cyhuddo y Dirprwywr o annhegwch yn nghasgliad eu tystiolaethau. Yn y lle cyntaf, nid oeddynt yn rhoddi gofyniadau teg ger bron y tystion. Holent yn fanwl pa ddrygau oedd yn y wlad; ond ni ynganent am y rhinweddau. Ac yn ail, os na fyddai y tystiolaethau wrth eu bodd, hyny yw, os na byddent un ai yn rhoddi golwg bruddaidd ar y Dywysogaeth, neu ynte yn cynnwys dymuniad am gynnorthwy y llywodraeth, ni chaent ymddangos yn yr Adroddiad. Hwyrach fod rhai eithriadau; ond hyn oedd eu rheol gyffredin. Nid ydym yn dyweyd eu bod yn rhwym o argraffu pob tystiolaeth a dderbyniasant; ond yr oedd genym hawl i ddysgwyl mwy o gyfartalwch

* Y mae yn debyg fod yma gamargraffiad. Ond ni ddylasant hwythau fod mor awyddus i gofnodi camargraffiadau, a chamddywediadau.

nag a welir yma. Yn mhlith golygwyr yr holl gyhoeddiadau Cymreig, nid oes ond tystiolaeth un o honynt wedi cael ymddangos. Ac wrth gymeryd y tystion o bob ochr, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, ceir eu rhifedi fel hyn :—

Eglwyswyr	232
Ymneillduwyr	79
Gwahaniaeth	<hr/> 153

Felly, yr oedd yn rhaid cael yn agos i dri Eglwyswr ar gyfer un Ymneillduwr.

Dyma y ffeithiau noeth ac anwadadwy. A pha gyfrif a allwn ei roddi am danynt? Y ffordd feraf a hawddaf yw penderfynu ar unwaith fod y Dirprwywr wedi bod yn euog o roddi camddarluniad bwriadol. Ond y mae hyn yn gyhuddiad na feiddiwn ei ddwyn, hyd yn nod yn erbyn y cynnorthwyr. Ac am y Dirprwywr, y mae yn rhaid i ni gyfaddef na welsom ac na chlywsom eto ddim am danynt yn anghyson â'r dybiaeth fod y tri yn ddynion o deimladau boneddigaidd ac anrhydeddus. Os bydd rhywun yn teimlo tuedd i haeru ein bod yn rhy dyner, y mae iddo lawn groesaw. Pe efelychem y cyfryw un, galledd ddyweyd gyda'r un faint o reswm ei fod yn rhoddi camddarluniad bwriadol o'r Adroddiadau. Ac onid oes Ymneillduwyr yn Nghymru wedi rhoddi golwg dduach arnom na'r Dirprwywr eu hunain? Ond a raid i ni gredu oblegid hyny eu bod oll yn euog o draethu celwyddau gwirfoddol? Yr esboniad cywir am y cwbl ydyw, fod dynion wrth deimlo yn frwdfrydig dros un ochr, mewn perygl o anghofio neu ddi-brisio yr ochr arall. Un o hoff bynciau ein seneddwr yn y dyddiau hyn yw yr anghenrheidrwydd am i'r llywodraeth gymeryd addysg y bobl i'w llaw ei hun. A meddylwyd mai y lle mwyaf manteisiol i ddechreu oedd Cymru. Bu rhai mân-frwydrau o'r blaen; ond dyma lle y mae Brwydr Waterloo i gael ei hymladd, ydyw ar faes y Dywysogaeth. Ac fel rhagbarotoad, daeth y Dirprwywr hyn i gasglu pob profion a fedrent gael o iselder y Cymry, er mwyn dangos fod yn rhaid gwneyd rhywbeth iddynt yn fuan, onide yr ai y byd bach Cymreig yn bendramwnwgl. Mewn geiriau eraill, daethant yma, fel y dywed y Saeson, *to make out a case*. Cyfreithwyr y llywodraeth oeddynt, yn chwilio am dystiolaethau dros y llywodraeth, erbyn y daw yr achos ymlaen yn llys y Senedd, ac fel y cyfryw y dylem edrych arnynt. Nid ydym yn eu cyfiawnhau, mwy nag yr ydym yn cyfiawnhau y rhai

hyny sydd yn eu duo hwythau yn ormodol er mwyn cadarnhau y teimlad o blaid addysgiant gwirfoddol. Nid hon, yn ol ein barn ni, yw y ffordd deg ac uniawn. Ond pwne arall yw cyhuddo y naill blaid neu y llall o egwyddor ddrygionus.

Nis gwyddom pa un a ydym mewn tymher fwy hynaws na chyffredin y dyddiau hyn, ai peidio. Ond rywfodd nid ydym yn hollol barod i gredu, hyd yn nod am yr offeiriaid a'r gweinidogion ymneillduedig, a fu yn drwgliwio ein cenedl, iddynt ddwyn candystiolaeth fwriadol yn ei herbyn. Y mae y pechod hwn yn ymddangos i ni mor adgas ac arswydus, fel y mae yn anhawdd genym feddwl i neb o honynt fod yn euog o hono. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae eu hymddygiad hwy yn llawer gwaeth nag eiddo y Dirprwywr. Yr oedd y cyfreithwyr hyn yn perthyn i un blaid, ac yn gwneyd eu goreu dros y blaid hono; ond yr oeddynt hwy yn cael eu galw ymlaen fel tystion i ddyweyd y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir. Ond yn lle hyny, eisteddasant a dywedasant yn erbyn eu brodyr; rhoddasant enllib i feibion eu mam. Derbynasom lythyr digon tirion oddiwrth y Parch. J. W. Trevor, yn yr hwn y mae yn ceisio amddiffyn ei hun. Gan na ewyllysiem wneyd cam ag ef yn y gradd lleiaf, yr ydym yn rhoddi ei lythyr i mewn yma.

RECTORF, LLANBEULAN, ANGLESEA,
27th January, 1848.

SIR,—I cannot doubt your willingness to do me justice by correcting some errors into which you have fallen in your last number of the "Traethodydd."

At page 117, in stating the parishes and population under my charge as Rector of Llanbeulan, you mention Llanfihangel, population 200, and Llandrygarn, population, 485. Those parishes do not belong to the living of Llanbeulan; and I have nothing whatever to do with them. You might have mentioned that part of the town of Llanerchymedd, called *the Vill*, which belongs to Llanbeulan, and contains only 67 inhabitants. Adding therefore *these*, and deducting the *former*, your statement of the population within my benefice ought to be reduced from 2,563 to 1,945.

With respect to the facts stated in my evidence as published by the Commissioners, which you say are not true, and cannot be true, I have only to assure you that they are all on record in the minutes of the petty sessions at Bodedeyrn, and that they *were proved on oath*. There is no reason to suspect that the parties perjured themselves.

I was called upon by the Commissioner to give evidence. It was my duty to give it, when so required, and my only regret is that I had such disgraceful facts to disclose.

You appear to charge me also with all the blame for the want of schools in the Llanbeulan District. In the year 1846, the schoolmaster at Bryngwran died. I have made every exertion to find another master, but have failed to meet with one

duly qualified. The Inhabitants of the parish and chapelries of Llanbeulan do not contribute one farthing to the salary of the master. Only two of the landed proprietors are contributors to it, the remainder is given by me.

In another district of Llanbeulan, the people were desirous of establishing a British and Foreign School. Mr. Phillips, the local agent, attended a meeting for the purpose. I offered to give land for the building, and an annual contribution towards the master's salary, provided the Inhabitants would pay the remainder. This they attempted and failed to do, and therefore the scheme has come to nothing, and I am now engaged in establishing a school in the same place by other means.

I deem it proper to make this statement to you, because the character of your periodical is such that whatever appears in it deserves attention, and mistakes in it about individuals may be injurious.

To the attacks that have been made on me on account of my evidence, by writers in newspapers, and speechifiers at public meetings, it would be equally useless and degrading to make a reply; but from the Editor of the "Traethodydd" I am sure I shall not be denied justice for this inadvertent error, and I think also I may expect from him the usual courtesies of language which are observed between *Gentlemen* who honestly differ in their opinions.

I am, Sir, your obedient Servant,

J. W. TREVOR,

Rector of Llanbeulan.

Y mae Mr. Trevor yn ymddiheuro trwy nad yw Llanfihangel a Llandrygarn yn perthyn iddo ef; ac o ganlyniad nad yw y boblogaeth sydd dan ei ofal ond 1,945, yn lle 2,563. Mewn atebiad i hyn, dymunem sylwi na wnaethom ond rhoddi geiriau Mr. Johnson, fel y maent ar lawr yn yr Adroddiad. Yn nesaf, dywedir ganddo fod y ffeithiau a gynnwysir yn ei dystiolaeth ar lawr yn nghofnodiadau llys yr ustusiaid yn Bodedeyrn. Ond y mae Mr. Trevor wedi cam-ddeall ein meddwl. Pell oeddym oddiwrth ammheu ei eirwiredd gyda golwg ar y ffeithiau neillduol a benodir ganddo. Ond yr oeddym, ac yr ydym eto, yn gwadu ei gasgliad mewn perthynas i gyflwr moesol sir Fon. Nid yw yn anhawdd cael anghreiffiau cyffelyb i'r rhai a ddynoda efe yn mhob sir yn Mhrydain. Ond cymerwn genad i ofyn iddo, fel dyn cydwybodol, ac fel gweinidog yr efengyl, A yw efe yn barnu mai cyfiawn fyddai cynnyg anghreiffiau o'r fath hyn fel desgrifiad o foesoldeb y trigolion yn gyffredinol? Ai i gofnodiadau y llysoedd gwladol yr edrychai efe am wybodaeth gywir o ansawdd Lloegr neu yr Alban? Ond odid na ddarllenodd efe draethawd Mr. Allison am sefyllfa y tlodion yn Glasgow, lle y gosodir hwynt allan, ac nid yn anghywir dybygid, yn anhraethol is yn mhob ystyr na dim a welir eto yn Nghymru. Ond ai teg fyddai cymeryd hyn yn brawf fod pob rhinwedd a phob teimlad dynol wedi diflanu o blith yr Albaniaid? A ymfodd-

lonai Mr. Trevor ei hun i ni ffurfio barn am holl offeiriaid yr Eglwys Sefydledig oddiwrth y gweithredoedd ysgeler a gyflawnwyd gan rai o honynt, ac a brofwyd mewn llysoedd gwladol? Eto fel hyn y mae efo wedi ymddwyn tuag at drigolion annedwydd Mon: ac nid yw yn cyfyngu ei hun i Fon yn unig, ond y mae yn dwyn yr un cyhuddiadau yn erbyn Cymru yn ei chrynswth. Dywed “fod egwyddorion moesol y Cymry yn hollol lygredig a phenrhydd ar y pen hwn.” Dywed hefyd ei fod yn “honi gyda sierwydd, fel ffaithl anwadadwy, nad yw godineb yn cael ei ystyried yn fai, nac ond braidd fel gwendid, gan y bobl gyffredin yn Nghymru. Ystyrir ef fel mater o anghenheidrwydd—fel y llwybr rheolaidd i briodas. Y mae yn cael ei arddelwi, ei amddiffyn, a chwertthin am ei ben heb ddim petrusder, na chywilydd, na dirgeliad, gan y naill ryw fel y llall.” Bobl anwyl! a gafwyd dyn o fewn cyffiniau Cymru yn alluog i roddi y fath gyhuddiadau ofnadwy a hyn ar bapyr—a hwnw hefyd yn Gymro o waed, yn ustus heddwch, ac yn offeiriad urddasol yn yr Eglwys Sefydledig? Oni wyddai Mr. Trevor fod yr Ymneillduwyr yn diarddel o gymundeb eglwysig yn ddiarbed bob un a geir yn euog o'r pechod hwn? Gallasai wybod, a dylasai fynu gwybod hyn. Ac eto, y mae yn haeru nad yw y Cymry yn edrych arno yn fai. Tybygem mai y Methodistiaid yw y blaid liosocaf yn nghymydogoeth Mr. Trevor: a phe gofynasai i un o honynt, cawsai wybod eu bod yn diarddel hyd yn nod am rag-gyfeillach anweddaidd, a bod y diweddar Barch. John Elias wedi ysgrifennu yn erbyn yr arferiad yma yn benodol. Nis gwyddom ni a gred efe ein tystiolaeth ni ai peidio. Ond gallwn sierhau iddo i ni glywed ymdrin â'r pwnc hwn, fel prif bwnc y cyfarfod, am lawer o fisoedd yn olynol mewn mwy nag un sir yn Nghymru, gyda dymuniad taer am i'r holl genadau oedd yn wyddfodol fyned â'r mater adref yn ffyddlawn i'r amrywiol eglwysi a'r Ysgolion Sabbothol. Ac yn awr, yr ydym yn gofyn i Mr. Trevor ailstyried ei dystiolaeth yn ei oriau mwyaf difrifol; ac yna y mae yn ddiammhou genym y gwel mai ei ddyledswydd, fel dyn cydwybodol, yw *galw ei eiriau yn ol*, a hyny yn y modd mwyaf cyhoeddus.

Ond yr ydym yn addef yn rhwydd nad yw ymddygiad Mr. Trevor hanner cynddrwg a'r eiddo Henry Lewis Davies. Y mae hwn, nid yn unig wedi dwyn camdystiolaeth yn erbyn y Cymry; ond yn ceisio tafu y bai ar eu crefydd. Nid yw ei dystiolaeth ond pentwr o ddigywilydd-dra a baweidd-dra: ac y mae ei holl haeriadau wedi eu profi yn gelyddau dybryd. Ond y mae bechgyn Troedyraur wedi ei drin mor

dda, fel nad oes achos i ni ddyweyd llawer. Y mae ei dynged yn dwyn i'n cof y chwedl yn y Mabinogion am Gwawl fab Clud. Dywedir yno fod Pwyll fab Pryderi a Rhianon ferch Hyvait Hen wedi syrthio mewn cariad a'u gilydd; ond y dewisai tad Rhianon yn hytrach gael Gwawl yn fab-yn-nghyfraith. Yn yr amgylchiad hwn daeth Pwyll at balas Rhianon, lle yr oedd Gwawl ar y pryd yn gwledda. "A gwisgaw bratau trymion yamdano a wnaeth, a llopanau mawr am ei draed." Gwedi ei ddawed i'r neuadd, gofynai am lonaid côd fechan, yr hon oedd ganddo yn ei law, o fwyd. Hyn a ganiatawyd; ond er a fwridd ynddi, ni fyddai llawnach na chynt. Pan welodd Gwawl fod cymaint ag oedd yn y tŷ yn debyg o fyned i gôd Pwyll fab Pryderi, aeth i feddwl am ryw lwybr i attal yr anffawd; a chafodd allan nad oedd modd symud y swyn heb iddo gyfodi, a sengu â'i ddau droed y bwyd yn y gôd, a dywedyd, "Digawn a doded yma." Yna, medd yr hanes, 'cyvodi i vynynt a oruc, a doddi ei deuroed yn y gôd. Yna troi o Bwyll y gôd ynivynt Gwawl tros ei ben ynti; ac yn gyvlym cau y gôd, a llat clym ar y careiau." Yn awr, fe wel pawb mai dammeg yw yr hanes yma—fod Rhianon yn arwyddo Cymru hardd a hoff; fod Pwyll fab Pryderi yn cynnrychioli yr Ymneillduwyr; ac mai wrth Gwawl fab Clud y mae i ni ddeall Lewis Henry Davies. Ond diwedd y chwedl sydd fel hyn:—"Pwyll a dodes lev ar ei gorn. Ac ar hyny llyma y teulu m ben y llys. Yna cymeryd o Bwyll bawb o'r niver a daeth ygyda Gwawl, ac eu doddi yn ei garchar ehun; a bwrw y bratau, ac y llopana, ac yr yspail ditestyl iamdano a oruc. Ac val y delai bob un o nifer Pwyll yntau i mywn, y tarawai dyrnawd ar y gôd, ac y gofynai, Beth y st yman? Broch, metyn wyntau. Sef cyvryw chwarae a wneynt, tawaw a wnaai bob un dyrnawd ar y gôd, ai ag ei droed, ai â throsawl ac evelly yn gware, pawb val y delai a ovynai, Pa chwarae a wnewch hwi velly? Gware broch ynghôd, metynt wyntau. Ac yna gyntav y gwarewyd broch ynghôd." Yma yn y gôd y gadawn Guredyn Trolyraur ar hyn o bryd, nid heb obaith rhyddhâd, os ceir arwyddion bodlonawl o edifeirwch. Ond yn y cyfamser crefwn genad i ofyn yn barclws i Esgob Tyddewi, yr hwn, y mae yn dda genym glywed, sydd y ddarllenydd eyson o'r "Traethodydd," Onid yw y gŵr hwn yn haegu cael ei alw i gyfrif am ei ymddygiad?

Y mae un arall wedi enwogi cymaint arno ei hun yn yr helynt yma, fel y byddai ganddo achos efiawn i gwyno pe pasienn ef y tro hwn eto yn ddisylw. Cyfeir yr ydym at y Parch. W. Jones, Nefyn. Yr oedd

genym feddwl lled dirion am dano ef unwaith, o herwydd y llyfr a ysgrifenedd ar "Nodweddiad y Cymry." Er nad oeddym yn ystyried y gwaith hwnw mewn un modd yn ddifai, yr oeddym er hyny yn ewyllysgar i guddio lliaws o bechodau er ei fwyn. Ond y mae yn ymddangos oddiwrth ei lythyrau diweddar yn y "*Carnarvon Herald*" ei fod yn awr yn penderfynu gwneyd iawn i'r Uchel-eglwyswyr am bob gair diragfarn a ysgrifenedd yn ei lyfr. Soniai yn un o honynt am Mr. Trevor fel merthyr; ac amlwg oedd yr amcanai gymeryd rhan go fawr o'r un clod iddo ei hun. O Eglwys Loegr! hen eglwys Cranmer a Farrar! i ba ddyfnderoedd y syrthiaist? ai dyma y merthyron sydd genyt i'w dangos yn y dyddiau hyn? Llefarai y merthyron gynt yn wrol yn erbyn pechodau y mawrion a'r cyfoethogion; ond nid yw eiddigedd merthyr Nefyn yn cyrhaedd yn mhellach na merchetos disynwyr a thlodion digymhorth. Byddai y merthyron gynt yn cyhoeddi eu cenadwri o flaen wynebaw y troseddwy; ond y mae merthy Nefyn yn cyfaddef na ddysgwylodd y byddai i'w dystiolaeth ddyfod i'r amlwg ger bron y wlad. Blaenllymodd ei saethau, trochodd hwynt mewn gwenwyn, ac annelodd hwynt yn llechwraidd yn erbyn gweith-ddrychau ei gasineb; ac yna, pan brofwyd ef yn euog o'r weithred, y mae yn troi i fynu ei lygaid, ac yn mwngial rhywbeth am ybryd merthyr. Ond er hyn oll cynnygia ein darbwyllo ei fod yn ewylsiwr da o eigion calon i bawb o'r Ymneillduwyr; a thystia yn ddifrifol mai y fath yw cyflawnder anhysbyddadwy ei gariad tuag atom, fel y ymunai ein gweled oll yn un, *trwy ddyfod i'r un Eglwys ag yntau*. I, braidd na feddyliem y rhoddai ddeheulaw cymdeithas, ar ol rhyw gmaint o brawf, i bechaduriaid mawrion Nefyn. O'r hyn lleiaf, y rae genym seiliau cryf i greu y derbynai eu harian yn ddigon dirgnach. A rhag i neb dybied nad yw efe ei hun wedi gwneyd dim a ddiwygio y genedl, y mae yn iawn i ni hysbysu iddo ysgrifenu llyfr i rai o'r cyhoeddiadau misol, *er ys dau fis yn ol*, i'n dysgu yfodd i ffurfio Cymdeithasau Diweirdeb drwy yr holl wlad. Yr oeddi gynllun yn rhagorol: ond rhywfodd anghofodd sylwi fod y Methodistiaid wedi gweithredu yn egniol *er ys blyneddau* gyda chynllun r un natur, a'u bod yn llafurio i gael penau teuluoedd ac ieuenedd i law-nodi ymrwymadau, y rhai ydynt bron air-yingair yr unpeth a'r eiddo ef. Ond cafodd eu hymdrechiadau gyda'r achos hwn a gwrthwynebu a'u gwawdio yn nghyhoeddiad misol yr Eglwyswyr Addas, gan hyny, fyddai cymhwyso un o ymadroddion Sheridar at lythyrau y Parch.

W. Jones: "Y mae ynddynt lawer o bethau hollol wir, a llawer o bethau hollol newydd; ond y pethau sydd wir nid ydynt newydd, a'r pethau sydd newydd nid ydynt wir."

Nid oes genym arfod nac amynedd i ymdroi gyda'r rhelyw o'r personiaid sydd wedi dyfod allan ar yr achlysur hwn yn y cymeriad o gyhuddwyr y brodyr. Ond cymerwn y cyfle i gyfeirio rhai ymadroddion atynt oll gyda'u gilydd. Offeiriaid yr Eglwys Sefydledig—wrth y dosbarth erlidgar o honoch yr ydym yn siarad—gwrandewch air o rybudd! Yr ydych wedi bod yn llafurio am yspaid maith o amser, ac yn awr yr ydych yn fwy ymdrechgar nag erioed, i lanw meddyliau y cyfoethogion â rhagfarn yn erbyn yr Ymneillduwyr. Nid oes iaith yn ihy isel genych i'w harfer am dynynt, na phechodau yn rhy ysgeler i'w cyhuddo o honynt. Y mae perthynasau agosaf rhai o honoch yn Ymneillduwyr; iddynt hwy yr ydych yn ddyledus am hyny o wybodaeth grefyddol sydd genych; yn eu Hysgolion Sabbothol hwy y dysgasoch ddarllen; eu hemynau melysion hwy a drysorwyd gyntaf yn eich cof. Ond ni wnewch gyfrif o'ch rhwymedigaethau mwyaf pwysig; ni pierchwech dad na brawd; ni phetruswech alw eich mamau a'ch chwiforydd yn buteiniaid; nid gwaeth genych er fod eich cenedl yn cael â chablu yn holl newyddiaduron y deyrnas; os gellwch yn rhyw fdd dafu gwarth ar ddynion mwy cydwybodol na chwi eich hunain. Os bydd rhyw ddaioni o fewn y tir, os bydd brawdlysoedd yn myned hibiio heb un carcharor i'w brofi, yr ydych yn cymeryd y clod i chwi eich hunain: ond os bydd rhyw ddrwg yn aros heb ei ddiwreiddio, yr ydych yn rhoddi y bai wrth ddrws yr Ymneillduwyr; pan y gwyr eich cydwybodau mai eu llafur hwy gan mwyaf yw yr achos o bob trefn agweddeidd-dra a welir yn ein plith. Gallasai llawer o honynt gael ywiolaethau can frased a'r eiddoch chwithau, pe dewisasant. Ond gwasant wrth eu hegwyddorion, heb nemawr o obaith na dysgwyliaid an dâl yn y fuchedd hon, oddieithr yn yr hyfrydwech o wneuthur daioni. Nid oes pobl dan haul y ffurfafen y dyddiau hyn wedi llafurio mwy, ac wedi llwyddo mwy, dan gymaint o anfanteision, nag Ymneillduwyr Cymru. Ac eto, dyma y bobl yr ydych chwi yn ceisio eu difeddianu o'r hyn a werthfawrogir ganddynt yn fwy na'u bywyd, sef eu cymeriad moesol. Yr ydych yn adgyfodi yr hen gyhuddiadau gynt yn erbyn Griffith Jones, Llanddowror, ac wedi hyny yn erbyn y Methodistiaid boreuaf. Os bydd rhai yn tyfu i fynu yn anwybodus mewn rhy gwr o'r wlad, yr ydych yn ein beio am hyny;

ac os ymgyfarfyddwn, yn lle gorplwyso, ar ol caledwaith y dydd, i addlysgu y bobl mewn crefydd a moesoldeb, yr ydych yn ein beio am hyny. Os bydd meddwod a godineb yn ennill tir, yr ydych yn ein beio am hyny; ac os codir cymdeithasau effeithiol yn erbyn y cyfryw bechodau, yr ydych yn ein beio ac yn ein gwawdio am hyny. “Yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion; canys chwi nid ydych yn myned i mewn, a'r rhai sydd yn myned i mewn, nis gadewch i fyned i mewn.” Ond mor sier a bod deddf Duw yn anghyfnewidiol, fe ddymchwel eich traha ryw ddiwrnod ar eich penau eich hunain. Wrth geisio adciladu yr Eglwys Sefydledig trwy gelwydd a chabledl, yr ydych yn cymeryd y llwybr mwyaf uniongyrchol i'w dinystrio. Chw' sydd mewn effaith yn ei thynu i lawr â'ch dwylaw eich hunain. Y rhai a ddewisent fod yn llonydd, ni chânt lonydd; oblegid yr ydych yn eu gorfodi i ddyfod allan yn eich erbyn mewn hunan-amddiffyniad, ac yr ydych â'ch holl egni yn cynnhyrfu teimladau y genedl o'u plid. Ac, attolwg, pwy ydych *chwi* sydd yn edrych gyda diystyrwch ar sich cymydogion? “Ai eich celwyddau *chwi* a wna i wŷr dewi?” Ai *chwi* sydd yn son am gyfarfodydd y nos? Ai *chwi* sydd yn cwyno an-foesoldeb y genedl? Byddwch fyw yn well na ni, ac yna ni a wraudawn arnoch yn ein cynghori. Ond gwyddom yn lled dda, ac fe wŷry wlad hefyd, pa fath rai ydych *chwi*. A fynwch *chwi* i ni ddal y drch o'eh blaen, fel y caffoch fantais i weled eich hunain? Ysgwaethoedd, pe ysgrifenid hanes eich bywyd, ni fyddai yn llawer o anrhydedd *chwi* nac i'ch eglwys. *A hyn a wneir* os na cheir llonydd genych un fwrdd arall. Gan na fedrwech dewi o gydwybod nac o gywilydd, y nae yn rhaid eich dysgu â mieri ac â drain. Nid oes ynom ddymunia' na bwriad i gymeryd y gorehwyl mewn llaw ein hunain. Ond cofwch fod olynwyr Twm o'r Nant heb ddarfod eto yn Nghymru, y rha a hiraethant am weled rhyw gyhoeddiad misol yn cael ei gychwyi i gofnodi holl gastiau y personiaid hyny sydd yn enllibio yr Ymmllduwyr; ac yn rhanu llyfrau yn mysg eu plwyfolion, y rhai a gynnysant bregethau a chabldraeth ar bersonau yn gymysg â'u gilydd. Y ydym yn awr yn rhoddi i *chwi* rybudd teg. Y mae golygydd a gaebwyr eisoes wedi eu nodi—dynion a fedrant eich portreadu i'r byw ac ysgoi maglau y gyfraith wladol yn gystal a chwithau: ac oni ddwisech gael eich anfarwoli yn gynt na phryd, cynghorem *chwi* i fo'co hyn allan yn hynod iawn o ddystaw. Gobeithiwn na bydd anghenrhidrwydd am gyhoeddiad o'r fath; ac y cawn ymresymu am bob gwahaniaeth sydd rhyngom

heb geisio taflu anfri ar gymeriad moesol personau na phleidiau. Ar-osir o leiaf am rai misoedd i gael gweled pa fodd yr ymddygwch.

Hyfryd yw gweled y teimlad gwladgarol a gynnyrchwyd gan yr Adroddiadau hyn yn meibion dewrion Gwalia. Y mae ein diolchgarwech yn deilwng mewn modd arbenig i olygwyr a pherchenogion yr "Amserau" a'r "*Carnarvon Herald*;" ac hefyd i Mr. Thomas Morris, Liverpool; Dr. Owen Roberts, Bangor; y Parch. D. R. Stephen; y Parch. Evan Jones, Tredegar, am ei lythyr rhagorol at Mr. W. Williams; a'r Parch. Henry Richard, am ei ddarlith odidog yn Crosby hall. Ac er fod y "*Principality*" yn gloff ryfeddol ar y cyntaf, daeth ato ei hun a newidiodd ei dôn yn fuan, ac ar ol hyny y mae wedi ymladd yn egniol. Ond caniatâer i ni ddwyn ar gof nad yw ein llywodraethwyr yn debyg o sylwi ar ein hareithiau na'n penderfyniadau, mwy nag ar "nadau asynod," os na lwyddwn i ddylanwadu ar yr etholiadau. Nid oes dim yn eisien ond cael rhyw ychydig mewn lle manteisiol i ffurfio cymdeithas i'r perwyl: a'r lle sydd yn ein golwg ni ydyw Liverpool. Nid oes dim a saif o flaen ein cydwladwyr yn y dref hono, os unwaith y dechreuant. Rhaid cael un, a hwnw yn ddyn trwyadl, i roddi ei holl amser at y gwaith. Dau cant, mwy neu lai, o bleidleisiau a fyddai yn ddigon i droi y fantol yn y rhan fwyaf o'r etholiadau Cymreig. Ac ni fyddai yn syn genym glywed fod un cant yn Liverpool yn unig wedi prynu hawl i bleidleisio yn mhob un o siroedd Cymru. Y mae lliaws mawr yn mhob sir a ymument yn galonog; ond nid oes nemawr o honynt yn ei gweled yn werth myned i'r drafferth yn awr, gan na fydd eu pleidlais hwy yn bersonol yn debyg o effeithio llawer y naill fiordd na'r llall. Y mae yn rhaid cael symudiad cyffredinol; ac os cymerir y mater i fynu yn unol, nid gormod fyddai dysgwyl yr anfonid Ymneillduwyr egwyddorol i'r senedd dros bob sir a phob bwrdeisdref yn Nghymru.

OLYSGRIFEN.—Y mae ysbryd yr erthygl uchod yn rhy chwero o lawer, yn enwedig pan yn cyfeirio at Mr. Trefor a Mr. W. Jones. Wrth ei hail-argraffu gallasem adael allan eu henwau hwy yn ddystaw; ond meddyliasom mai mwy anrhydeddus fyddai galw yn ol fel hyn yn gyhoeddus bob gair sydd yn cynnwys yr amhucuath lleiaf am gywirdeb eu dybenion. Credwn fod y ddau yn ddynion cydwbybodol; a'n hunig esgusawd ydyw, mai yn ein ffrwst y dywedasom fod pob dyn yn gelwyddog.

MAYNOOTH.*

[Er mwyn gorpaen ein dadgyffesiadau yr ydym yn ail-argraffu yr erthygl ar MAYNOOTH, gyda hyn o ragymadrodd i hysbysu ein bod yn galw yn ol yr hyn oll sydd ynddi yn y mesur lleiaf yn beirniadu ar ddybenion Syr Robert Peel. Un o'r peryglon sydd yn perthyn i'r cyhoeddialau cyfnodol ydyw, eu bod yn hudo dynion ieuainc anwybodus i siarad gydag anffaeledigrwydd anweddaiidd am rai annhraethol uwch na hwy eu hunain. O'r bai hwn y buom yn euog yn yr erthygl sydd yn canlyn. Mae yn wir nad ydym eto yn ystyried Syr Robert Peel yn un o'r rhai uchaf: ond yr oedd yn rhy uchel y pryd hwnw i lefaru am dano fel y gwnaed yma; a chododd ei hun yn llawer uwch trwy ei ymddygiadau ar ol hyny.]

Crx y daw y rhifyn hwn o'r "Traethodydd" o'r wasg, y mae yn debyg y bydd yr ysgrif er gwaddoli Coleg Pabaidd Maynooth yn ddeddf, am yr hon y bydd llywodraeth Prydain yn gyfrifol, ac i'r hon y gorfodogir y deiliaid i ymostwng. Bydd tlodion Cymru yn gwybod o hyn allan fod rhan o ffrwyth eu llafur beunyddiol, rhyw gymaint o'r arian a delir ganddynt am anghenrheidiau bywyd yn myned i gynnal Pab-diaeth o'r fath waethaf; ac nid yn unig i'w chynnal yn yr Iwerddon, ond byddant dan orfod i gyfranau at fagu Offeiriaid Pabaidd, y rhai a ddanfonir yn fuan i Gymru i wenwyno ein plant, ac i wledydd Tra-mor i daenu difrod a dystryw pa le bynag y mae Protestaniaid yn llafurio—yn India, yn China, ac Ynysoedd Mor y De. Dyma fydd canlyniadau yr ysgrif y mae ein seneddwyr wedi penderfynu ei dwyn ymlaen er pob gwrthwynebiadau. Ni wnant y cyfrif lleiaf o lais unfrydol y bobl; edrychant ar eu deisebau gyda dirmyg a gwawd. Wel, y mae yn bryd i ninnau wneyd rhywbeth heblaw deisyf. Y mae pob llywodraeth yn ddigon da i'r bobl sydd yn ei goddef. Yr ydym wedi ein twyllo unwaith; os twyllir ni eto, ar y wlad y bydd y bai. Y mae yn sier nad yw hyn ond dechreuad y rhyfel. Os collasom y frwydr y tro hwn, bydd yr effaith yn dda os gwneir ni yn fwy ymdrechgar i

* O'r "TRAETHODYDD," am 1845.

gadarnhau ein hamddiffynfeydd, yn fwy deallgar i wybod pa le y mae ein grym, yn fwy parod i ymddiried mewn egwyddorion nac mewn dynion.

Un o'r gwersi amlycaf a gawsom yn y ddadl hon oedd geudeb a rhagrith y dynion a gymerant arnynt ein cynnrychioli yn y senedd. Nid oes un o'r pleidiau gwladol nad yw wedi troi yn dwyllodrus. Dangoswyd i'r byd nad yw senedd Prydain ond cabidwl o ragrithwyr. Ond yr un pryd, rhaid addef fod y flaenoriaeth yn perthyn i Syr R. Peel a'i gyfeillion. O'r holl dwyllwyr, dyma y rhai mwyaf digywilydd. Pan oedd y Whigiaid yn llywodraethu, y cyhuddiad trymaf a ddygid yn eu herbyn yn barhaus gan Peel a'i ganlynwyr oedd, eu bod yn pleidio gormod ar Babyddiaeth. Mawr oedd dychryn y Toriaid wrth weled y grefydd Babaidd yn ennill tir, ac yr oeddynt o gydwybod yn rhwym o dystiolaethu nad oedd dim a gadwai y deyrnas rhag dinystr diattreg ond eu dychweliad hwy i'w swyddau. Bu llawer o wrageddos diniwed mor ffol â'u credu. Peel oedd y dyn i sefyll yn yr adwy i wrthwynebu y fyddin Babaidd. Peel yn erbyn y Pab oedd yr arwydd-air. O'r diwedd cafodd y Toriaid yr awdurdod, a phrofasant yn fuan nad oedd eu holl gri yn ddim amgen na dichell y lleidr yn gwaeddi, *Stop thief*. Y mae yn ammheus a oes un weinidogaeth er amser Mari Waedlyd wedi pleidio cymaint ar Babyddiaeth. Y mae yr holl awdurdodau Pabaidd yn y dyddiau hyn wedi ymhyfhau i gyflawni pob galanasdra; gan wybod, pa ddrygau bynag a wnant, y bydd Lloegr yn sicr o'u cefnogi. Pan oedd yr Italiaid gorthrymedig, oddeutu dwy flynedd yn ol, yn ymdrechu o blaid rhyddid, daeth rhai o'u blaenoriaid drosodd i Loegr gan dybied y caent ddiogelwch yn y wlad hon nes dwyn eu hamcanion i accddfedrwydd; ac oddiyma yr oeddynt yn gohebu â'u cyfeillion yn yr Ital. Ond y fath oedd serch y Toriaid at Babyddiaeth, fel yr ymostyngasant i fod yn ysbwyr yn ngwasanaeth y Pab o Rufain; a chyflawnasant weithredoedd na oddefid dyn cyffredin a fyddai yn euog o honynt mewn un gymdeithas tu yma i Botany Bay. Agorent y llythyrau yn lladradaidd, a danfont yr hysbysiad i'r awdurdodau Pabaidd ar y cyfandir: a'r effaith o hyny fu, i liaws o'r gwladgarwyr oedd yn ysgrifenu o'r Ital gael eu rhoddi i farwolaeth. Drachefn, yn Madeira, y mae Dr. Kalley, un o ddeiliaid Lloegr, dan erledigaeth, oblegid ei fod yn dysgu gair Duw i'r trigolion; ond ein llywodraethwyr tirion ni a wrthodasant ei amddiffyn, er y byddai un awgrymiad penderfynol oddiwrthynt yn ddigon. Ac, O Tabiti! pwy

a fedr feddwl am yr ynys annedwydd hono heb deimlo ei galon yn ddolurus?—lle oedd unwaith fel gardd yr Arglwydd, wedi myned yn waeth nag anghyfannedd—y frenines yn ei chyfyngder yn troi at Loegr am ymward, a Lloegr yn gwrthod gwrandaw. Nid fel hyn yr oedd yn amser Elizabeth. Nid fel hyn yr oedd yn amser Oliver Cromwell. Nid fel hyn yr oedd yn amser William III. Iê, nid fel hyn yr oedd pan oedd *Lords* John Russell a Palmerston yn weinidogion. Ond gadewch iddo, os yw y Toriaid yn anghefnogi y cenadau Protestanaidd, y maent yn penderfynu codi digonedd o genadau Pabaidd o Maynooth i gymeryd eu lle. Dyma fendithion llywodraeth y Toriaid!

Arch-dwyllwr y dyddiau hyn yn bendifaddeu yw Syr R. Peel. O hyn allan ni fydd Peel ond gair byrach i arwyddo twyllwr mwy na chyffredin. Ni phleidiodd y gwr hwn ddim erioed na ddarfu iddo ar ol hyny ei fradychu. Nid gwadwr yn unig yw Peel, ond bradwr. Gofala bob amser i beidio yngan am unrhyw gyfnewidiad nes y byddo wedi cael yr agoriadau i'w law, ac yna egyr y drws i'r rhai yr oedd o'r blaen yn rhyfela i'w herbyn. Felly y gwnaeth yn achos rhydd-freiniad y Pabyddion. Gwrthododd gymeryd swydd dan Mr. Canning, oblegid fod y Prif-weinidog doniol hwnw yn pleidio y rhydd-freiniad. Ond cyn pen ychydig wythnosau, cafodd ef ei hun gyda'r Duc Wellington yr awdurdod i'w dwylaw, ac nid hir y buont nes dwyn ymlaen y rhydd-freiniad hwnw ag yr oeddynt wedi gwrthwynebu Canning oblegid ei fod ef yn ei bleidio. Felly drachefn, pan oedd y Whigiaid mewn awdurdod, amddiffynwyd amryw gynnygion gan Peel er mwyn niweidio ei wrthwynebwyr, y rhai a daflodd o'r neilldu mor fuan ag y gwnaed ef ei hun yn Brif-weinidog; ac o'r tu arall gwrthwynebai llawer o gynnygion, y rhai y mae yn awr yn eu pleidio a'i holl egni. Ond nid oedd y Whigiaid erioed wedi beiddio dwyn ymlaen y fath ysgrif a hon o barthed i Maynooth, ac o ganlyniad nid oedd Peel wedi cael cyfle i'w gwrthwynebu. Yr achos nad oedd y Whigiaid wedi cynnyg rhywbeth cyffelyb oedd, eu bod yn gwybod y buasai Peel yn taflu pob rhwystr ar eu ffordd: ac o ran hyny, yr oedd llawer o'i ganlynwyr wedi pleidleisio yn erbyn yr ychydig a delid o'r blaen yn flynyddol at Goleg Maynooth. Da yr oeddynt yn gwneuthur pan yn sefyll yn erbyn rhoddi ychydig; ond nid da oedd eu gwaith wedi hyny yn troi wrth orchymyn Syr Robert Peel i bleidio roddi llawer, a'i rhoddi hefyd yn gynnysgaeth sefydlog. Digrif yw darllen yr esgusodion ceimion a geir

ganddynt fel rhesymau dros eu troedigaeth. Dywedai dau o honynt eu bod yn pleidleisio o'r blaen yn erbyn yr anrheg flynyddol i Maynooth, oblegid ei bod yn ei hystyried yn rhy fach ; ond yn awr eu bod yn amddiffyn cynnygiad Syr Robert Peel oblegid ei fod ef yn rhoddi yn gyfartal â theilyngdod yr achos. Dyma anghraifft o resymeg seneddol. Y mae un o'r rhesymegyddion hyn yn ysgrifenu *Lord* o flaen ei enw, a'r llall yn ysgrifenu *Lord of the Treasury* ar ol ei enw. Am yr olaf fe ddygwyddodd fod y swydd sydd ganddo yn awr yn wag, o herwydd fod Mr. Pringle, y gwr oedd ynddi o'r blaen, yn cario gydag ef y fath beth â chydwybod ; a thrwy ffawd dda, fe ddygwyddodd ei droedigaeth yntau yn union yn yr adeg. Dyma dy ddeddf-wneuthurwyr di, O Brydain ! Pwy byth ar ol hyn a ddichon haeru nad yw ein senedd-wyr yn ddigon doeth a duwiol i ffurfio cyfreithiau i benderfynu holl ddadleuon crefyddol y byd ?

Mewn difrif gellid meddwl fod dallineb barnol wedi disgyn ar ein llywodraethwyr. Y mae dyben Syr Robert Peel yn y tro hwn yn eithaf amlwg, sef llwgr-wobrwyo y Pabyddion, fel yr ymdawelont dan y gorthrwm tost mewn gwlad ac eglwys sydd yn gwasgu y Gwyddelod truaïn i'r llwch : ond fel pob amcan am heddwch a fyddo yn sylfaenedig ar anghyfiawnder, yr effaith fydd gwneyd y rhwyg yn waeth. Y dylid gwneyd rhyw gyfnewidiadau yn yr Iwerddon, sydd osodiad nas gellir ei wadu. Y mae teithwyr yn dyweyd nad oes cymaint o dlodi a thrueni mewn un man ar y ddaear ag yn y wlad hono. Y mae ynddi gant ac un ar ddeg a deugain o blwyfydd heb gymaint ag un Protestant o'u mewn, oddieithr yr offeiriaid a'u teuluoedd : ac eto, yr eglwys Brotestanaidd yn yr Iwerddon ydyw y gyfoethocaf, yn ol ei maint, o'r holl sefydliadau crefyddol o fewn y byd. Dyma ddigon o le, a digon o achosion i ffurfio cyfreithiau newyddion. Paham na fuasai Syr Robert Peel yn gorfodogi perchenogion tiroedd i ddefnyddio eu harian er lles y trigolion, yn lle eu gwario mewn oferedd ar y cyfandir ? Paham na fuasai yn symud y rhwystrau sydd yn caethiwo ac yn dyfetha masnach y wlad ? Paham na fuasai yn rhoddi pob rhagorfraint yn Ngholeg Dublin o fewn cyrhaedd pob enwad crefyddol yn ddiwahaniaeth ? A chyda golwg ar yr Eglwys Wladol Wyddelig, os yw yn ofni rhoddi prawf teg i'r egwyddor wirfoddol, paham na fuasai ynocio ychydig ar yr hen gangenau diffwrth sydd yn gwenwyno y cwbl o'u cwmpas, ac nad ydynt gymhwys i ddim ond i'w llogsi ? A yw y pren drwyddo yn rhy bwdr i gyffwrdd ag ef ? Ofnwn mai dyma

y gwirionedd; ond nid yw yn debyg y saif yn well wrth roddi y fath faich anferth o anghyfiawnder ychwanegol i hongian wrtho. Meddylia Peel y medr wneyd iawn am un pechod trwy gyflawni pechod arall. Y mae y dyfroedd yn rhuthro i fewn trwy un pen i'r llong; "ond," ebe Peel, "gadewch i ni wneyd twll gyda'r brys mwyaf yn y pen arall, ac yna nid oes un ammhewaeth na achubir y llong a'r llwyth."

Ond y mae yn bryd i ni droi weithian at y Whigiaid, y rhai a arferent broffesu eu hunain mewn modd arbenig yn amddiffynwyr rhyddid. Eu blaenor hwy yw *Lord John Russell*, i'r hwn y mae y deyrnas yn ddyledus am liaws o ddiwygiadau gwladwriaethol. Er nad yw yn meddu ar gymaint o ddawn i barablu â Syr Robert Peel, y mae ei feddwl yn llawer cangach, a'i olygiadau yn llawer eglurach. Ond yn achos Maynooth, rhaid cyfaddef nad oes ond ychydig o wahaniaeth rhyngddo ef a Peel. Dim ond ychydig, meddwn, oblegid y mae gwahaniaeth, a hyny yn gynnwysedig mewn dau beth. Yn gyntaf, nid oedd y Whigiaid yn arfer celu eu syniadau ar y pwnc hwn. Dywedent er ys blynyddoedd y dylid gwaddoli yr Eglwys Babaid yn yr Iwerddon, yn gystal a'r Eglwys Brotestanaidd. Yn ail, y mae gwahaniaeth yn nybenion y ddwy blaid. Y mae Peel a'i ganlynwyr yn gweithredu yn unig fel y gorfodogir hwynt gan amgylechiadau; ond y mae Russell a'i ganlynwyr yn gweithredu oddiar egwyddor, er fod yr egwyddor hono yn eithaf camsyniol. Y mae Peel yn gwaddoli Maynooth er diogelu y llygredigaethau sydd yn yr Eglwys Sefydledig; ond y mae Russell yn gwneuthur hyny oddiar yr hyn a ystyria efe yn gyfiawnder at y Pabyddion. Y mae pob cyfnewidiad a gynnigir gan Peel yn cael ei achosi gan derfysg, ac oblegid hyny yn wob'r i'r terfysgwyr, ac yn annogaeth iddynt fod drachefn yn fwy terfysglyd; ond y mae Russell yn edrych ymlaen ac yn pleidio y cyfnewidiadau a fyddont yn anghenrheidiol i ragflaenu terfysg. Dyben y Toriaid yw dystewi y Pabyddion fel y caffo yr esgobion sefydledig fwynhau eu cyflogau mawrion mewn heddwch; ond dyben y Whigiaid yw rhanu meddiannau yr Eglwys Sefydledig yn gyfiawn a thêg hyd y mae yn ddichonadwy rhwng y gwahanol bleidiau crefyddol. Amlwg yw fod yma wahaniaeth; ond wedi'r cwbl y mae'r naill mor bell a'r llall oddiwrth wreiddyn y drwg. Y mae'r naill mor anghymhwys a'r llall i siarad am grefydd: ac mewn gwirionedd, y mae'r naill mor ddigrefydd a'r llall. O ganlyniad, nid yw yn rhyfedd fod y Whigiaid yn troi yn siomedig pan fo mwyaf

o berygl. Pan gynnygiodd Syr James Graham gaethiwo holl ddysgeidiaeth y deyrnas, cefnogid ef yn egniol gan y Whigiaid: ac yn y ddadl bresennol, yr oedd y Whigiaid yn fwy unol dros waddoli Pabyddiaeth na'r Toriaid. Eu prif reswm oedd eu heiddigedd o blaid rhyddid crefyddol. Yr oeddynt hwy o gydwybod yn pleidio rhyddid, ac am hyny yr oeddynt yn barnu y dylid gofodogi y wlad i gynnal Pabyddiaeth. Synent yn ddifawr fod yr Ymneillduwyr mor anghyfiawn tuag at eu brodyr Pabaidd. Mawr oedd eu ewyn oblegid ein penboethni. Nid oeddynt yn beio cymaint arnom am ein hanfoddlourwydd i gynnal hanner Pabyddiaeth Eglwys Loegr; ond rhyfeddent fod neb yn dangos y gwrthwynebiad lleiaf i gynnal Pabyddiaeth ddigymysg Maynooth. Y mae yn debyg mai amcan nesaf y Whigiaid fydd carcharu yr Ymneillduwyr er mwyn amddiffyn rhyddid. Proffesa y blaid hon eu bod yn talu parch mawr i lais y wladwriaeth, ac y dylai y bobl gael eu cynnrychioli yn ddihoed yn y senedd: ond pan ddygwyd eu proffes i'r prawf, gwelwyd yn eglur nad oedd y cyfan ond rhagrith a thwyll. Y maent yn hynod o awyddus i'r bobl gael eu gwrandaw tra y cymerant eu harwain ganddynt hwy: ond os dygwydd iddynt farnu drostynt eu humain, nid yw eu lleisiau ond *nadau asynod*. Dyma y geiriau a arferwyd gan Macaulay, y mwyaf doniol o'r Whigiaid, yn y ddadl bresennol. Drwg genym fod rhagfarn wedi cymylu cymaint ar feddwl ysblenydd y seneddwr hwn. Os dewisir ef ar ol hyn, dangosir fod *rhai* beth bynag o etholwyr Prydain yn ateb i'r dysgrifiad.

Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn barod i ofyn, Pa le y mae O'Connell? Onid oedd ef yn bleidiwr gwresog i'r egwyddor wirfoddol! Onid oedd ef yn dadleu bob amser na ddylid gorfodogi neb i gynnal crefydd un arall? Oni fu yn areithio yn hyawdl i'r perwyl hwn mewn cyfarfodydd llisosog yn Llundain a mannau eraill? Nid oes genym ond ateb fod hyn oll yn wirionedd. Ond, anwyl ddarllenydd, os meddyliaist fod y gronyn lleiaf o onestrydd yn O'Connell, ni fu erioed fwy o gamgymeriad. Oni wyddit mai Pabydd oedd y dyn hwn? a pha bryd y gwelwyd un Pabydd ffyddlawn yn pleidio rhyddid? Os pleidio rhyddid yw amddiffyn pob gormes yn Spain a Ffrainc yna y mae O'Connell yn bleidiwr rhyddid. Os pleidio rhyddid yw byw yn dywysogaidd ar gost y tlodion, a chadw y wlad mewn terfysg bythol, heb un dyben mewn golwg ond cyfoethogi ei hun a'i deulu, yna y mae O'Connell yn bleidiwr rhyddid. Os pleidio rhyddid yw difrio yr

Ymneillduwyr am nad ydym yn hollol foddllawn i gymeryd ein hysbeilio gan yr offeiriad Pabaidd, yna y mae O'Connell yn bleidiwr rhyddid. Pan newidiodd yr Ethiopiad ei groen a'r llewpart ei frychni, yna bydd rhyw le i obeithio y gwelir O'Connell yn bleidiwr ryddid. Ond yn y cyfamser rhaid i ni gredu nad oes ond un twyllwr mwy diegwyddor ar wyneb y ddaear. Rhoddasem y lle blaenaf iddo oni bai ein bod yn ofni gwneyd anghyfiawnder â Syr Robert Peel. Ond er fod yr ail radd, fel yn ddiau yr addefa pawb, yn gweddu i O'Connell, y mae amryw wedi dyfod yn bur agos ato, yn enwedig yr aelodau hyny oedd fel yntau yn arfer proffesu yr egwyddor wirfoddol. Arosodd rhai yn ffyddllawn, megis Bright, a Hindley, a Crawford. I'r gwyr hyn y mae parch dau-ddyblyg yn ddyledus. Ond am y rhan fwyaf o'r lleill, ymddygasant fel pe buasant wedi colli eu cof yn gystal a'u cydwybod. Anghofiodd Hume ei ofal am arian y deyrnas. Gadawodd Cobden ei egwyddorion rhyddfarnachol ar ol yn Covent-Garden. Ae er fod Dr. Bowring yn perthyn i'r *Anti-State-Church Association*, ae os nad ydym yn camsynied, yn aelod o gynghor y gymdeithas hono, eto ni phetrusodd areithio a phleidleisio dros roddi arian y wladwriaeth i gynnal Jesuitiaid Maynooth. Y mae yn anhawdd meddwl y magant gystal Jesuitiaid yn Maynooth a Dr. Bowring. Pa fodd bynag, hyderwn y gwel yr Ymneillduwyr oddiwrth hyn, mai nid lle mae mwyaf o sŵn bob amser y mae mwyaf o sylwedd.

Yn awr, ddarllynydd hynaws, onid oes yma haid o ddynion anrhydeddus yn ein cynrychioli yn y senedd? Y mae yn ammheus a ellid cael yr un nifer ar antur o blith y werin mewn un sir yn Nghymru mor berffaith anwybodus am egwyddorion rhyddid a chyfiawnder, heb son dim am grefydd. Ac eto, i ddwyllaw y rhai hyn yr ymddiriedwyd tynged y deyrnas. Dyma y rhai a farnant eu hunain yn addas i gymeryd gofal ein crefydd. Braidd na ellid meddwl eu bod yn caru eu cymydogion yn well na hwy eu hunain: oblegid y maent yn awyddus iawn am lwytho y wlad â chrefydd, ac yn ewyllysgar i fyw eu hunain heb ddim. Y mae genym ragrithwyr o Doriaid yn proffesu parch i Brotestaniaeth, rhagrithwyr o Whigiaid yn proffesu eu hunain yn bleidwyr rhyddid, a rhagrithwyr o Radicaliaid yn proffesu yr egwyddor wirfoddol. Rhagrith o ragrith, rhagrith yw'r ewbl! Onid yw yn bryd i ni gymeryd ein llusernau i edrych am *ddyinion*? Ymunwch, grefyddwyr Cymru, erbyn yr etholiad nesaf. Na wrandewch ar eiriau llyfn yr ymgeiswyr; edrychweh beth yw eu hymddygiadau. A ydynt

yn caniatâu rhyddid cydwybod i bawb sydd dan eu hawdurdod? A ydynt yn rhoddi lle i bob enwad crefyddol i godi addoldai ar eu tiroedd? Y mae y cymhwysderau hyn yn anheborol anghenrheidiol; ac na feddyliwch mewn un modd am roddi eich pleidlais i neb a fyddo yn ymddwyn yn groes iddynt. Paham y rhaid i chwi gymeryd eich trin fel creaduriaid direswm? Sefwch i fynu fel dynion, ac edrychwch yn wynebau eich gorthrymwr, a dywedwch wrthynt, "Onid o'r un gwaed y gwnaed ni ag y'ch gwnaed chwithau? Ac oni fydd yn rhaid i ni a chwithau ymddangos ger bron yr un frawdle? Pwy ydych chi sydd yn myned i sefyll rhyngom ni a'n Creawdwr? Y mae genym ni eneidiau yn gystal a chwithau; ac y mae genym ni rywfraint o ofal am ein heneidiau, yr hyn nid oes genych chiwi. Yr ydych yn son am eich tai a'ch tiroedd; oni wyddoch mai y meddwl sydd yn gwneyd y dyn? Er eich tai a'ch tiroedd, ni fedrech chiwi ddim byw heb y tlodion; ond medrai y tlodion fyw yn llawn cystal heboch chiwi, os nad gwell. Yr ydych wedi gormesu ar ein cydwybodau yn ddigon hir, ac wedi ein malurio nes ydym fel y tywod ar fin y mor: ond er mai tywod ydym, yr ydym wedi penderfynu mai hyd yma y caiff eich gorthrwm chiwi fyned, ac nid yn mhellach. Ymaith â chiwi; a dysgwch lywodraethu eich hunain yn gyntaf, yn lle siarad am lywodraethu cydwybodau eich cyd-ddynion." Iaith fel hyn sydd yn gweddu i greaduriaid rhesymol, ac ymddygiad cyfatebol i'r iaith hon a ddygai ein gormeswr yn fuan i'w pwyll.* Ond, heblaw hyn, dymunem wasgu yn y modd dwysaf at ystyriaethau ein darllenwyr y pwysfawrogrwydd o ddewis cynnrychiolwyr a fyddont yn egwyddorol am natur ysbrydol a gwirfoddol crefydd Crist, ac yn enwedig yn ddynion crefyddol eu hunain. Y mae cadwedigaeth y deyrnas yn ymddibynnu, dan fendith Duw, ar ei chrefyddwyr. Yr ydym wedi cael digon o brawf yn y tro hwn nas gellir ymddiried mewn dynion, beth bynag fyddo eu proffes, oni fyddant yn meddu ar deimladau crefyddol. Gan hyny, atoch chiwi, y rai a berchwch y Bibl, y mae ein golwg, beth bynag yw yr enwad y perthynoch iddo. Nid ydym

* Ni feddylia neb sydd yn feddiannol ar synwyr cyffredin ein bod yn y sylwadau uchod yn amcanu cyffroi na meithrin un math o derfysg anghyfreithlawn. Ond rhag iddynt ddygwydd i ddwylaw ambell un amddifad o'r cymhwysder a enwyd, efallai nad yw yn afreidiol ychwanegu ein bod i'r graddau pellaf yn anghymeradwyo pob moddion a fyddo yn anghydweddol â heddwech y gymdeithas wladol. Byddai mor ddrwg genym weled y tlodion yn gormesu ar ryddid y cyfoethogion ag yw gwelod y cyfoethogion yn gormesu ar ryddid y tlodion. Yr oll a fwriadwn yw annog ein darllenwyr i wneyd defnydd o'r hawliau a sierheir iddynt gan gyfreithiau ein teyrnas.

yn anystyriol o'ch anhawsderau. Gwyddom fel y bydd y crach-fon-oddigion ar ddiwrnod yr etholiad yn eich arweddu fel defaid i'r lladdfa. Ond eto, cofiwch, mai "TRECH GWLAD NAG ARGLEWYDD." Pe gweithred-ech mewn undeb â'ch gilydd, ac ar yr un pryd *mewn hedduch â phaeb arall*, gallech ethol y neb a fynech; ac er cymaint fyddai bytheiriad bygythiol ambell Pharao Cymreig, ni fedrai wneyd dim yn y diwedd ond rhincian dannedd. Dylai pawb wybod y gallant gael hawl i bleidleisio yn newisiad aelod o'r senedd dros unrhyw nifer o siroedd, trwy brynu gwerth dwy bunt yn y flwyddyn o dir yn mhob un o'r siroedd hyny. Gobeithiwn y bydd pawb o gyfeillion rhyddid, ag sydd yn feddiannol ar y modd, wedi cymhwyso eu hunain i bleidleisio yn yr etholiad nesaf. Ac, uwchlaw pob peth, ymunwch. Os ydych yn bwriadu amddiffyn eich iawnderau eich hunain, ymunwch i amddiffyn eich gilydd. Ymunwch!—ymunwch!—ymunwch!

Rhag i neb gymeryd ei hudo i ethol gelynyon rhyddid, dan yr esgus eu bod wedi rhoddi eu llais yn y senedd yn erbyn yr ysgrif er gwaddoli Maynooth, y mae yn anghenrheidiol sylwi y gellid rhanu gwrthwyn-ebwyr yr ysgrif hon yn dri dosbarth. Yn gyntaf, y rhai a bleidleisiasant yn ei herbyn oddiar eu dygasedd at bob enwad ond yr Eglwys Sefydledig. Yn ail, y rhai a farnant y dylai y wladwriaeth trwy gyfrwng eu llywodraethwyr, gydnabod y gwir Dduw, a chynnal y grefydd hono sydd yn ymddangos yn fwyaf cydweddol â gair Duw; ond y dylai pawb eraill gael rhyddid perffaith i addoli fel y mynont. Yn drydydd, a rhai a farnant na ddylai llywodraethwyr gwladol, fel y cyfryw, ymyrd ag achosion crefyddol; a bod gorfodaeth i gynnal rhyw ddaliadau neillduol mor groes i egwyddorion teyrnas Crist ag yw gorfodaeth i'w phroffesu. Am y dosbarth cyntaf, nid eu parch i wirionedd na rhyddid a barodd iddynt wrthwynebu Maynooth: a byddai yn anghyfiawnder o'r mwyaf i ni droi allan y fath ddynion â Stanley o Fon, oblegid fod eu syniadau am ryddid crefyddol yn amherffaith, er mwyn rhoddi lle i wrthwynebu pob rhyddid. Ni fyddai hyny ond cyflawni y gamp annifyr hono a elwir yn gyffredin "neidio o'r badell ffrío i'r tân." Ofnwn fod llawer yn Nghymru ag y dylid eu rhestru yn mhllith gelynyon rhyddid; ac y mae rhai o honynt, er gwarth i'n gwlad, yn aelodau o'r senedd. Digon hawdd eu hadnabod oddi-wrth eu ffrwythau. Edrychwn beth yw eu hymddygiadau gartref; ac yna gallwn farnu oddiar ba ddybenion y maent yn gweithredu mewn achosion cyhoeddus. Am y ddau dosbarth arall, ni phetruswn ddywedyd

mai y trydydd sydd yn meddu y golygiadau mwyaf cywir. Hwynthwy yn unig sydd yn gwrthwynebu gwaddoliad Maynooth ar sylfaen gadarn. Y mae yr amser wedi myned heibio pan y gellid dywedyd fod gan un rhan o'r wlad hawl i ddewis crefydd i'r rhan arall. Onid oes gan y Gwyddelod gystal hawl i'n gorfodogi ni i gynnal Pabyddiaeth ag sydd genym ni i'w gorfodogi hwy i gynnal Protestaniaeth? Ond y gwirionedd yw, fod y naill fel y llall yn anysgrhythrol ac afresymol. Ond yr un pryd, y mae genym barch calon i lawer yn yr ail ddosbarth; ac er fod yr ail a'r trydydd yn gwahaniaethu mewn barn, y mae pob lle i feddwl y byddant cyn pen ychydig flynyddau yn un mewn gweithred ac ymddygiad. Y mae Baptist Noel wedi datgan yn barod fod yn well ganddo ef fod heb eglwys sefydledig, na gweled y llywodraeth yn gwaddoli y grefydd Babaid. Dygwyd tystiolaeth gyffelyb gan esgob Cashel yn nhŷ yr arglwyddi. Ac os yw y dynion goreu yn Eglwys Loegr yn dechreu tystiolaethu yn erbyn pob math o grefyddau gwladol, a ddylai yr Ymneillduwyr fod yn ddystaw? Yr oedd llawer yn teimlo yn anghysurus wrth feddwl dyfod allan yn yr un fyddin ag O'Connell, i wrthwynebu gweinidogion gwir efengylaidd fel Baptist Noel. Os oedd rhai egwyddorion, ag yr oedd O'Connell o'r blaen fel ninnau yn eu proffesu, yn wirioneddau pwysig; eto yr oedd gwirioneddau mwy pwysig yn ein huno â Baptist Noel. Nid oes ond un gwahaniaeth mawr wedi'r cwbl rhwng dynion a'u gilydd, sef y gwahaniaeth rhwng canlynwyr Crist a'i elynion. Ond yn awr y mae byddin Crist a byddin Anghrist yn dechreu ymddidoli. Y mae O'Connell yn tynu i'w le priodol ei hun; ac o'r ochr arall, y mae holl wir grefydd y deyrnas yn ymdafu ar yr egwyddor wirfoddol. Y mae hyn wedi ei gyflawni yn barod yn Scotland; a chyn bo hir, ni bydd ond Pabyddiaeth Rhufain a Phabyddiaeth Rhydychain yn yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr a'r Iwerddon. Nid ydym yn dywedyd mai felly y mae yn awr. Gwyddom fod ynddi rai ugeiniau o'r gweinidogion mwyaf duwiol a fedd ein gwlad: ond nid oes angen amysbryd prophwydoliaeth i ragweled y byddant wedi eu gweithio allan o honi yn fuan. Nid awn i ymfyn yn bresennol beth ddaw o'r eglwysi sefydledig ar ol i bob Lot gyfiawn ddyfod allan o honynt. Ond os yw hen sefydliadau i gael eu dymchwelyd, y gwirionedd a saif byth.

Cyn rhoddi yr ysgrifell o'n llaw, cymerwn y cyfle hwn i osod ger bron ein darllenwyr ranau o aracth a draddodwyd yn Nghymdeithasfa

ddiweddaf Eglwys Rydd Scotland, gan Dr. Merle D'Aubigne o Geneva. Yr oedd yr achlysur yn dra llynod :—Dr. Chalmers, y duwinydd enwocaf yn Mhrydain, yn cyflwyno i sylw ei frodyr y Dr. D'Aubigne, yr enwocaf yn yr holl Gyfandir ;—y ddau wedi eu dwyn i fynu mewn cysylltiad ag eglwysi sefydledig ; ond y ddau wedi troi yn Ymneillduwyr. Y mae yr araeth hefyd yn deilwng o'i chyfieithu oblegid ei gwerth ynddi ei hun, heblaw y berthynas sydd rhyngddi â sefyllfa bresennol y wladwriaeth.

“Yn awr, anwyl gyfeillion, pa beth sydd gan Scotland a Geneva—pa beth sydd gan yr holl fyd Cristionogol i'w wneuthur—mewn trefn i gael nerth i efengylieiddio y byd? A ydym i lynu wrth ddyn—a ydym i ymofyn, yn y cysylltiad â'r wladwriaeth, yn ngrwm y llywodraeth wladol, am allu i orchfygu Rhufain a holl gyfeiliornadau y enawd, ac i gwblhau buddugoliaeth yr efengyl? Credwyf, anwyl frodyr, fod amser wedi bod pan y rhoddid pwys mawr ar wladolrwydd yr eglwysi; ac yn awr y mae y pwys i gael ei osod ar gyffredinolrwydd yr eglwys. Yn yr amser yr ymddangosodd yr Arglwydd Iesu, yr oedd llawer o grefyddau gwladol yn y byd. Yr oedd crefydd wladol i Groeg, un arall i'r Aipht, un arall i Ffrainc, un arall i Brydain; a phan yr ymddangosodd Duw yn y enawd, ac y prynodd ei bobl trwy ei waed, yn lle yr holl grefyddau gwladol hyn, efe a ddygodd allan un grefydd i'r holl fyd—yn lle yr holl dduwiau gwladol, un gwir a bywiol Dduw—yn lle yr holl raddau o offeiriaid, un eglwys gyffredinol. Wel, yr wyf yn credu fod symudiad cyffelyb i gymeryd lle yn awr yn y byd. Credwyf fod y sefydliadau gwladol yn rhoddi ffordd yn mhob man, a bod yn rhaid i'r wir eglwys gyffredinol gyfodi. Y mae dygwyddiadau yr amseroedd yn datgan hyn yn Mhrydain Fawr. Gwn fod gan Grist ei eglwys yn gyfansoddedig o'r rhai hyn y elwir trwy air Duw, ac a sancteiddir gan yr Ysbryd; ond gofynaf y cwestiwn, A yw Prydain eto yn deyrnas Brotestanaidd? Edrychaf yn unig ar ffeithiau, a chaf fod Prydain wedi ymadael oddiwrth y broffes wladol a wnaed ganddi am y tair canrif ddiweddar. Pobl Prydain ydynt o hyd yn Brotestaniaid, a Phrotestaniaid da; ond y mae teyrnas Brydain wedi gwadu Brotestaniaeth. Nid yw hyn yn ddyddiedig oddiwrth heddyw, nac ydyw, nag oddiwrth ddoe. Y mae yn ddyddiedig oddiwrth amser pell yn ol. Yn mhell o flaen eich llywodraeth bresennol, y mae Lloegr wedi bod yn y llwybr hwn. Ni siaradaf am eich gweinidogion gwladol. Yr wyf yn parchu eu doniau. Nid wyf am ddyweyd dim o berthynas i'ch llywodraeth—Yr wyf yn anrhydeddu y brenin, a phawb mewn awdurdod. Y mae genyf barch i ddoniau eich gweinidogion; yr wyf yn rhyfeddu at eu hegni a'u gallu. Ond dymunaf roddi rhai ffeithiau hanesiol ag sydd yn meddu pwys mawr yn hanes yr amserau presennol. Dywedwch i mi pwy a noddodd, a phwy sydd yn awr yn noddio, y Waldensiaid? Yn yr hen amser bu Lloegr, ac hyd yn nod Cromwell ei hun, yn eu noddio. Yn awr y mae llawer o Brydeinwyr yn gwneuthur llawer drostynt. Pwy na w'r am enw y rhagorol Colonel Beckwith? Ond pa deyrnas Brotestanaidd sydd yn eu noddio? Lloegr nid yw mwyach yn gwneuthur felly; ond y mae Prwsia. Lloegr, trwy rinwedd cyfammodau, oedd dan ymrwymiadau neillduol tuag atynt. Pa beth a wnaeth hi tuag at gadw y cyfammodau hyn? Pan oedd Geneva, wedi ei goresgyn gan Ffrainc, ar ennill yn ol ei hannibyniaeth, pwy a'i cynnorthwyodd? Pwy a adferodd ddinas Calfin? Prwsia eto. Ond mwy na hyn, ymherawdwr Rwsia mewn mesur mawr a wnaeth hyn: ond Lloegr, Lloegr

Brotestanaidd a arosodd yn oeraidd yn mhresenoldeb Geneva Brotestanaidd; ac ni wnaeth Castlereagh gymaint ag estyn allan ei law i'w chynnorthwyo. Achos arall at y pwynt: pan oedd Pabyddiaeth yn ymgynhyrfu, ac yn awyddus am ddechreu ei buddugoliaethau, hi a daflodd ei golwg, yn y lle blaenaf, ar Belgium. Teulu Orange, y rhai oedd mewn cysylltiad mor agos â'ch gwlad chwi ac â Phrotestaniaeth, oedd ar yr orsedd. Penderfynwyd ar ei chwymp. Chwyldroad a dorodd allan. Yr oeddwn yno, a bum am bedwar dydd a phedwar nos yn nghanol tân a bwledi. Teulu Orange a yrwyd allan. Gwelais ddau o feibion y brenin yn carlamu ymaith heibio y Boulevard. Archesgob Malines yn awr yw gwir frenin Belgium, er fod y blaidd rydd o hyd yn cynnal rhyddid crefyddol. A'r chwyldroad Pabaidd hwn a effeithiwyd dan nodded Ffrainc a Lloegr Brotestanaidd. Ni soniaf am Madeira—ni soniaf am Malta: ond pa fodd yr ymattaliaf heb son am Otaheite? oblegid yno y mae dygwyddiad wedi cymeryd lle ag sydd wedi effeithio ar bob calon Brotestanaidd trwy y byd, ond yn enwedig ar y Cyfandir, ac uwchlaw pob man, yn Geneva. Yr oedd Lloegr wedi myned i ymrwymïadau gwladol dan Canning. Gobeithid y buasai Lloegr yn eu cyflawni. Gobeithid y buasai llythyrau taer y frenines Pomare at eich brenines Victoria yn cyffwrdd â chalonau y rhai sydd mewn awdurdod. Dim—dim—llai na dim! Yn yr unfed canrif ar bymtheg anfonwyd D'Oppede ac eraill i ddinystrio y Waldensiaid yn eu mynyddoedd; yn y bedwaredd canrif ar bymtheg y mae Waldensiaid Otaheite wedieu rhoddi i fynu i D'Oppede ein hoes ni. Y Jesuitiaid a daflasant eu golwg ar y cenadaethau Protestanaidd. Dywedasant, 'Cenadaeth Otaheite yw y fwyaf bloddenog; rhaid i ni wneuthur hono yn esiampl—rhaid ei dystrywio.' Y mae llywodraeth Ffrainc yn myned o flaen y Pab, i roddi ei ddedfryd mewn grym, fel y dywedodd Luther gynt am Charles V. Lloegr Brotestanaidd a blethodd ei breichiau, ac a adawodd y Pab a'i ragredegrwr i gael ei ffordd. Ac onid yw bodolaeth yr Eglwys Rydd hon yn brawf mor fach yw y cariad sydd yn y wladwriaeth at yr eglwys? Pe buasai y wladwriaeth yn caru yr eglwys—gwir lwyddiant yr Eglwys Sefydledig—oni fuasai yn gwneuthur pob peth o fewn ei gallu i gadw yn ei mynwes y corff byw hwn, i gadw yno y dynion rhagorol hyny, y rhai ydynt ogoniant Scotland. Ni cwaf y hai a allant fod yn bresennol yn y Gymanfa gyffredinol hon? Ond y mae dau enw ygallaf eu llefaru—un oblegid fod ei glod yn holl eglwysi Duw—Thomas Chalmers; a llall oblegid ei fod wedi myned adref i dŷ ei Dad—David Welsh. A gaf fi son am brawf arall o agwedd bresennol Lloegr—Ysgrif Maynooth? Yr wyf yn teimlo fod llawer i'w ddywedyd o bob ochr. Yr wyf yn teimlo fod eich cydwladwyr Gwyddelig ynaeddu eu cynnorthwyo—y dylent gael pob rhyddid gwladol a chrefyddol: ond y peth cyntaf mewn gwlad gyfansoddiadol yw y cyfansoddiad. Y peth cyntaf mewn gwlad gristionogol yw yr ymrwymiad a gymerwyd ger bron Duw. Fy ymfyniad cyntaf ar fy nyfodiad i'r wlad hon oedd, 'A ellwch ddangos i mi lŵ eich brenines?' Y mae pob peth yn ail mewn cymhariaeth i lŵ a gymerwyd ger bron Duw. Wrth ochr llŵ hwn darllenais lyfr arall, gair Duw: 'Na chymer enw yr Arglwydd dy Daw yn ofer.' (Exod. xx. 7—15.) Dyma ddiwedd ar y ddadl. Aelod Pabaidd o'r seidd a ddywedai, 'A ydyw £9,000 yn bechod maddenadwy, a £28,000 yn bechod marwol?' Ie, ie, Mr. Shiel; troseddiad gorchymyn sanctaidd yr Arglwydd tu Duw sydd bechod marwol. Os yw y llywodraeth yn penderfynu cario ysgrif Maynooth, y peth cyntaf sydd ganddynt i'w wneuthur yw dyddymu llŵ y brenin oed a'r breninesau. Yna pan wneir Lloegr yn anmhrotestanaidd, dyger ymlaen ysgrif Maynooth. Gall wedi hyny fod yn ddrwg, ond ni fydd yn bechod. Y mae pechd yn llawer mwy i'w ofni na drwg. Nid yw Geneva mwyach yn wlad Brotestanaidd. Nid yw Lloegr mwyach yn wlad Brotestanaidd. Chwyldroad mwyaf yr nser presennol yw ysgrif Maynooth: oblegid dywedai yr ysgrif hon;

'Yn yr holl fyd nid oes yn awr yr un deyrnas Brotestanaidd.' Dyma farn pob dyn gwybodus a gyfarfyddais ar y Cyfandir, pa un ai Cristionogion ai Anffyddwyr, Protestaniaid ai Pabyddion. Pa beth gan hyny sydd i'w wneyd, frodyr? Rhai a ddywedant, Rhaid i ni eto gael senedd Brotestanaidd a llywodraeth Brotestanaidd. Nid wyf fi Brydeiniwr, ac nid wyf hyddysg mewn achosion gwladwriaethol. Yr wyf yn penderfynu peidio ymyryd a'r cyfryw faterion; er hyny dymunwn sylwi, fod y canlyniad yn ymddangos i mi o leiaf yn amheus. Addefaf y gellwch yn hawdd gael senedd Brotestanaidd; ond llywodraeth Brotestanaidd a fyddai yn bwnc anhawddach. Mi a ddywedaf ychwaneg, frodyr parchedig: nid dynion sydd yn gwneyd amserau; ond amserau sydd yn gwneyd dynion. Nid Syr Robert Peel a wnaeth yr amser presennol; ond yr amser presennol a wnaeth Syr Robert Peel. Efallai y medrwech gael gwared o Syr Robert Peel; ond a fedrwech gael gwared o'r amser presennol? Y mae y wladwriaeth Brotestanaidd yn diflanu; dyna rediad naturiol pethau; nis gellwch ei rwystro. Haws fyddai gwneyd i'r Thames neu y Tweed redeg yn ol i'w ffynonell. Pa beth, ynte, sydd i'w wneuthur? Fy mrodyr parchedig, i gadw achos efengyl rhaid i ni ymofyn help arall heblaw dyn. Mae gair Duw wedi llefaru wrthym er ys oesoedd; 'Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd, nag ymddiried mewn tywysogion.' 'Na hyderwech ar dywysogion, nac ar fab dyn, yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo. 'Gwyn ei fyd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymhorth iddo, sydd a'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw.' Meddyliwyf fod y diwygwyr, yn amser y Diwygiad Protestanaidd, mewn tentasiwn i bwyso ar dywysogion ac ar y wladwriaeth. Tywysogion a gweinidogion y wladwriaeth oeddynt yn fynych bryd hyny yn Gristionogion o'r brwdfrydedd mwyaf. Meddyliwyf fod Cristionogion yn edrych llawer ar y wladwriaeth pan y dywedodd tywysog Anhalt, wrth lawnodi cyffes efengylaidd Augsburg: 'Cefnaf yn hytrach ar fy neiliaid a'm meldiannau—gadawaf wlad fy nhadau, a'm ffon yn fy llaw—ennillaf fy mywioliaeth wrth lanhan esgidiau yr estroniaid, yn hytrach na derbyn yr un athrawiaeth ond yr hyn a gynnwysir yn y Gyffes hon.' Meddyliwyf fod Cristionogion yn dysgwyl llawer oddiwrt y wladwriaeth, pan y dywedai ardalydd Brandenburgh, gan droi at yr ymherawdwr galluog, Charles V., 'Yn hytrach nag i Air yr Arglwydd gael ei gymeryd oddiwrt hyf—yn hytrach na gwadu fy Nuw, mi a daflwn fy hun ar fy ngliniau o flaen eich mawrhydi, ac a ymfoddlonwn i golli fy mhen.' Gelll meddwl fod Cristionogion yn edrych at y wladwriaeth am gymhorth, pan oed duwinyddion, mewn braw a gwendid, yn rhaglunio undeb yn yr hwn yr oedd Protestaniaid i gydnabod y Pab mewn gweithred, os nad mewn lawl, a phan ddaru i brif weinidog etholydd Saesony, y Canghellydd Bruck, ddychweyd y cynllun, wedi ei dyddymu, trwy ysgrifenu ar ei odre y geiriau hyn; 'Na, na! oblegid y Pabydd Anghrist!' Pa le yn awr y ceir prif weinidogion y goron a wrthodant ysgrif Babaid trwy ysgrifenu ar ei diwedd, 'Na! oblegid y Pab sydd Anghrist.' Ac eto, yn wir, yn amser y diwygiad, yr oedd Cristionogion yn gwybod na dylent bwyso ar y wladwriaeth, nac ar dywysogion, ond yn unig ar air Duw. Yr lle llythyr Luther ar y mater hwn yn llawn o'r ymadroddion mwyaf cedym. Difynais o honynt, a dyfnaf eto yn 'Hanes y Diwygiad.'

'Gymedrolwr—Yr wyf yn gwybod y gallwn fod yn gwahaniaethu ar y pwe hwn; yr wyf yn traethu fy argyhoeddiad fy hun. Y mae agwedd presennol i'w dangos i ni nad oes gan yr eglwys ddim ychwaneg i'w ddysgwyl oddiwrt y wladwriaeth. Ysgrif Maynooth sydd lythyr ysgar a roddir gan y wladwriaeth i'r eglwys. Am dair canrif, yr oedd Protestaniaeth yn dysgwyl llawer diwrth ei hundeb a'r wladwriaeth—nid oes ganddi mwyach ddim i'w ddysgwyl oddiwrt hyny. Nid wyf am gymhell yr egwyddor wirfoddol fel pwnc ar ei ben hun—nid hyny mewn un modd yw fy amcan; ni wnaf gymaint a dyweyd y dyf yr eglwys

wahanu oddiwrth y wladwriaeth; ond yr wyf yn honi ffaith hanesiol, bwysig a gorbwysig, yr hon a gaiff arwyddocâd mawr yn hanesiaeth y dyddiau presennol—sef yw hyny, fod y wladwriaeth yn dadgysylltu ei hun oddiwrth yr eglwys. Gymedrolwr, y mae y frwydr yr oedd yr eglwys yn ei hymladd gyda galluoedd y wladwriaeth wedi ei cholli. Ond mewn brwydr, os gorchfygir un dosbarth o'r fyddin, y cadfridog yn ddiwed a ddwg ymlaen ar all. Yn Marengo, pan arweiniodd Buonaparte ei luoedd aneirif heibio i Geneva (lle yr wyf yn cofio ei weled, er nad oeddwn ond chwech oed); ac y croesodd St. Bernard; ac, yn nghyd a'i fyddin, a ymosododd ar y tu ol i'r Austriaid; y tro cyntaf ar y dydd nodedig hwn fe'i curwyd yn hollol; a'r cadfridog Austriaidd, Melas, a ddychwelodd i Alexandria, ac anfonodd hysbysiad o'r fuddugoliaeth i holl lysoedd Ewrop. Ond yr oedd Buonaparte wedi galw yn ol gyda'r brys mwyaf y cadfridog Desaix yr hwn oedd newydd ddychwelwyd o'r Aipht), a'r hwn oedd daith diwrnod oddiwrtho yn edrych am y gelydion mewn cyfeiriad arall. Daeth Desaix yno dri o'r gloch brydnawn, pan oedd y Ffrancood yn cilio yn ol ar bob llaw. Cynnaliwyd cynghor rhyfel ar faes y gwaed. Pawb a siaradent am encilio: Buonaparte yn unig oedd yn awyddus i adnewyddu y frwydr. Dysgwylent am gynghor Desaix. Desaix a edrychodd o'i amgylch. 'Y mae y frwydr wedi ei cholli,' ebe fe. Yna tynodd allan ei oriadur, ac ychwanegodd, 'Ond y mae genym amser i ennill un arall:' a chyn machlud haul yr oedd un o'r buddugoliaethau mwyaf pwysfawr mewn oesoedd diweddar wedi ei hennill. Frodyr parchedig, wrth weled ysgrif Maynooth yn myned ymlaen yn nghyngorfeydd y genell fawr hon—wrth weled llawer o weithrediadau eraill, yr wyf bron a dywedyd yr un peth; 'Y mae y frwydr wedi ei cholli; ond y mae genym amser i ennill un arall.' Ar bob llaw y mae y wladwriaeth yn encilio—yn dianc o frwydr yr Arglwydd. Eglwys Dduw, tyred ymlaen! Bydded i ni, fel Dafydd yn myned yn rbyn Goliath, daflu ymaith yr helm o bres a'r llurig, a chymeryd ein ffon yn ein law, a phump o geryg, a dywedyd wrth Rhufain: 'Ti wyt yn dyfod ataf fi a ehleddy ac a gwaywffon, ac a tharian; a minnau ydwyf yn dyfod atat ti yn enw Arglwydd ylluoedd, Duw byddinoedd Israel.' Gall fod yn dda i'r Cristion gael ei amddifadu o gym y wladwriaeth—o fraich o gnawd. Os yw y wladwriaeth yn cefnu ar yr egwys, bydded i'r eglwys gyfodi mewn nerth.

PA IIAM? A PHA FODD?*

Y MAE yn amhosibl i'r meddwl dynol wybod dim mewn perthynas i unrhyw wrthddrychau tu allan iddo ei hun ond trwy gymharu. Yn y lle cyntaf, y mae yn deall eu bodoliaeth trwy gymharu gwahanol deimladau y meddwl pan y mae, a phan nad yw y cyfryw wrthddrychau yn effeithio arno trwy gyfrwng y synwyrâu corfforol. Yn ail, y mae yn deall eu hansawdd a'u haniau trwy gymharu y gwahanol effeithiau a achosir ar y meddwl gan yr un gwrthddrych trwy wahanol synwyrâu, neu y gwahanol effeithiau a achosir gan wahanol wrthddrychau trwy yr un synwyr. Ac wedi cyrhaeddy' gwybodaeth o amryw wirioneddau yn y dull a nodwyd, efe a al gymharu y gwirioneddau hyn a'u gilydd yn ddiderfyn. Pe gofynil i'm cyfaill Mathematicos, efe a ddywedai mai dyma yw swm a sylweid rhifyddiaeth o ddechreu Adchwanegiad i fynu hyd *Differential Calculus*. Ac nid yw y gelfyddyd o ymresymu, beth bynag fyddo y testyn, dām yn amgen na chymharu yr oll o unrhyw wirionedd â rhan o hao, neu ran o unrhyw wirionedd â'r oll o hono. Er anghraiff pe dywedid fod pob dyn yn agored i gamsynied; *gan hyny*, ni dylai gospi neb am wahaniaethu oddiwrtho yn ei farn: neu fel iyn; cyfreithiau dynol nis gallant gyfnewid y galon; *gan hyny*, nis gallant wneuthur neb yn gristionogion; fe welir yn mhob un o'r brawddegau hyn fod y rhan olaf yn gynnwysedig yn y rhan flaenaf; ac f welir hefyd, beth bynag a ddywedo dysgedigion, nad oes ond dwy ra: mewn pob ymresymiad unigol.

Ond er mwyn bod yn fyr, rhaid i mi adael fy narllenwy i lunio esiamplau iddynt eu hunain. Ac wedi iddynt amgyffred hū o ragymadrodd, dymunaf iddynt gofio, yn y lle nesaf, fod yn amhosibl cymharu dim mewn perthynas i wrthddrychau a'u hansawd ond mor bell ag y maent yn dyfod dan sylw y meddwl trwy gyfrwng y

* O'r "DRYSORFA," am 1834, 1835.

synwyrâu. Mae yn wir y gallwn gyrhaeddyd gwybodaeth drwy dystiolaeth un arall; ond mae yn amhosibl i ni ddeall na chredu y dystiolaeth hono ond trwy ei chymharu â'r hyn a wyddom ein hunain drwy brofiad personol. Sylwedd y dystiolaeth a ddeallir ganddo ef yn gyntaf, a chenym ninnau yn ail, yn y drefn a grybwyllwyd yn flaenorol; ac a drosglwyddir hefyd oddiwrt h y naill i'r llall, drwy gyfrwng y synwyrâu corfforol, mewn ymadrodd neu ysgrifen, trwy barai y mae un yn trosglwyddo ei enaid i'w gydgreddur; nid y sylwedd o hono, ond ei olygiadau a'i deimladau, o un gongl i'r ddaear i gongl arall, ie, o ddechreu hyd ddiwedd y byd. Oblegid hyn nis gallwn feddwl am ysbyrd heb briodoli iddo hŷd a llêd, llun a lle. Oblegid hyn y mae Duw y nefoedd yn ymostwng i lefaru am dano ei hun mewn dull dynol; a'r cwbl a wyddom uwchlaw hyn, hyd yn oed trwy ddatguddiad, sydd o natur nacïol. Yr ydym yn gweled yn barhaus fod cyfnewidiadau yn cymeryd lle ynom, arnom, ac o'n hamgylch; ac eglur yw nad oes un effaith heb ryw achos cyfatebol. Ac y mae y wybodaeth o hyn yn cynnwys y grediniaeth fod Duw yn bod, achos pob achos, awdwr pob awdwr; ond pa beth yw Duw nis gallwn amgyffred. Yr ydym yn gweled, meddaf, fod y naill wrthddrych yn gweithredu ar y llall; a thrwy gymharu y gweithrediadau hyn ar wahanol amserau, yr ydym yn deall fod yr un achosion bob amser yn cenedlu yr un effeithiau; ond *pa ham* neu *pa fodd* y maent yn gweithredu felly nis gwyddom. Ac o'r diwedd dyma fi wedi dyfod at y pwnc yr oeddwn yn bwriadu traethu ychydig arno.

Wrth ystyried unrhyw beth heb olwg ar amser, nid ydym yn meddwl am achos nac effaith; ond wrth ei gymharu ag ef ei hun, yn awr, a rhyw amser a aeth heibio, yr ydym yn canfod fod cyfnewidiad wedi ei weithredu arno; ac wrth ei gymharu â rhyw beth arall, yr ydym yn deall fod y cyfnewidiad hwn wedi cymeryd lle ar y naill trwy offeryndod y llall; ond y cysylltiad sydd rhwng achosion a'u heffeithiau priodol sydd i ni yn anweledig.

I. PA FODD Y MAE CORFF YN GWEITHREDU AR GORFF? Nis gwyddom, ac y mae yn amhosibl i ni wybod pa beth yw yr achos o'r sugn-dyniad sydd rhwng holl ranau y greadigaeth a'u gilydd, yr hwn sydd yn cadw y planedau heb ymddryllio ac ymwyro yn eu cylch-droadau. Rhai a feddylient gynt fod y cyrff nefol yn troi mewn rhyw gorbyllau awyr-aidd, yn mha rhai yr oedd astronomyddion yn boddi eu synwyrâu eu hunain a'u dysgyblion. Fe wel pawb fod y farn hon yn rhy debyg i

eiddo y barbariaid hyny a dybient fod y ddaear yn cael ei chynnal ar gefn llyffant o anferthol faintioli, heb ystyried fod yn rhaid i'r llyffant ymddibynu ar rywbeth. Mewn fferylliaeth (*chemistry*) yr ydym yn gweled defnyddiau gwahanol yn effeithio mewn modd hynodol a dieithr ar eu gilydd; ond *pa ham* y maent yn gweithredu felly nis gwyddom. Pan y mae dau sylwedd corfforol yn cyfarfod a'u gilydd, mae y naill yn trosglwyddo grym a chyflymdra ei symudiad i'r llall; ond *pa ham* sydd ddirgelwch. Nid ydym ni yn gwybod dim mewn perthynas i'r cyfnewidiadau hyn ond cymaint sydd yn ymddangos yn allanol; er enghraifft, yr ydym un foment yn gollwng y gareg o'n llaw, a'r foment nesaf yn ei gweled yn disgyn i'r ddaear; ond yr olwynion dirgelaidd sydd yn achosi yr ymddangosiadau hyn ydynt yn nghudd o olwg dynolion, y tu fewn i len rhagluniaeth ar ba un yr ysgrifenwyd gan fys Duw; "Hyd yma y deui, ac nid yn mhellach." Ac oblegid y prawf a gawsom o anghyfnewidioldeb deddf y greadigaeth, yr ydym er hyny yn credu y bydd i'r un canlyniad gymeryd lle, pan y bydd yr un gwrthddrychau yn yr un amgylchiadau. Diammheu y bydd llawer un yn barod i ddyweyd mai pwysau y gareg sydd yn ei thynu tua'r ddaear. Ond, cymer bwyll, fy anwyl gyfaill; nid yw hyn ddim gwell na dyweyd mai pwysau y gareg yw yr achos o'i phwysau. Ond beth *yw* y pwysau hwn? *Pa ham* y mae hi yn tynu un ffordd mwy na'r ffordd arall? Os wyt yn deall dim, gyfaill hawddgar, ti addefi fod y pwnc hwn uwchlaw dy ddealldwriaeth. Ac wrth ddywedyd felly, pell oddiwrthyf fyddo taflu arnat y gradd lleiaf o ddistyrwch; oblegid y doethaf a'r cangaf eu cyrhaeddiadau a addefant yr un peth.

II. PA FODD Y MAE CORFF YN GWEITHREDU AR FEDDWL SYDD ETO YN FWY UWCHLAW EIN GWYBODAETH? Nid oes genyf amser i son yn bresennol am athrawiaethau Aristotle a Malebranche; oblegid nid wyf yn tybied eu bod yn deall eu hunain *pa beth* a haerent ar y pwnc hwn. Yr enwog Des Cartes a farnai nad yw y greadigaeth allanol yn gweithredu ar y meddwl mewn un modd; ond mai Duw ei hun, yn uniongyrchol ac yn ddigyfrwng sydd yn peri argraffiadau cyfatebol yn y meddwl; fel pe bai y teimladau a achosir gan sylweddau allanol ar y corff yn adgoffa i'r Creawdwr *pa bryd* a *pha fodd* i weithredu ar yr cnaid. Leibnitz hefyd a farnai nad yw corff ac ysbryd yn effeithio dim ar eu gilydd; ond fod y Creawdwr wedi rhag-gyfaddasu eu symudiadau, ac wedi trefnu y fath gysondeb rhwng y byd ysbrydol a'r

byd gweledig, fel y mae teimladau cyfatebol yn cymeryd lle yn y ddau ar yr un amser. Felly y mae y corff a'r enaid, fel dau awrlais cywir, yn sicr o gyd-daro, ond pan y bydd rhyw chwyldroad disymwth yn eu tafu o'u lle; ac yna, fe allai, y bydd hi yn hanner nos ar un, pan y gellid meddwl ar y llall ei bod yn ganol dydd. Y mae crybwyll y dychymygion hyn yn ddigon i'w gwrthbrofi; ac nid rhyfedd fod Berkeley yn gwadu bodolaeth y byd gweledig; ac yn cymeryd arno gredu nad yw y cwbl ond dychymyg y meddwl.

Cyn gadael y mater hwn, fe allai na fyddai yn anaddas crybwyll gair mewn perthynas i ymchwiliadau Gall a Spurzheim, y rhai a farnant fod grym a thueddfryd y meddwl yn ymddibynu ar ffurfiad yr ymenydd. Yn ol eu barn hwy, ddarllenwyd hynaws, os yw dy benglog yn lled helaeth yn mlaen, arnat ti mae y bai os nad wyt yn philosophydd, yn brydydd, neu yn ddyn hynod o ddysgedig, yn ol sefyllfa y gwahanol *protuberances*.* Ond os yn ol y mae yn gogwyddo, ni ddylid ymddiried ynot, ac y mae yn bryd i'th gyfeillion ofalu am danat rhag dygwydd i ti ryw anffawd. Mae yn ddiâu fod cysylltiad agos rhwng yr ymenydd a'r meddwl: ond pe caniateid fod y farn uchod yn wir, eto nid yw yn amcanu egluro *pa ham* neu *pa fodd* y mae y naill yn gweithredu ar y llall. Cymaint a hyna am yr ymenyddolion.

Yn awr, wele fyr-olwg ar ymdrechadau rhai o'r doethion enwocaf i geisio esbonio y dirgelwch hwn; ac wele y llwyddiant a'u canlynodd. A pha ham y methasant oll heb wahaniaeth? Oblegid nad ymgyngorasant â llawer hen Gymro tlawd ac annysgedig; oblegid na wrandawasant ar gyfarwyddiadau synwyr cyffredin; oblegid nad yngadwasant o fewn y terfyn a ordeiniodd Duw rhwng y pethau a ellir, a'r pethau nas gellir eu gwybod. "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid."

III. NIS GALLWN DDEALL YCHWAITH PA FODD Y MAE Y MEDDWL YN GWEITHREDU AR Y CORFF. Mae pob dyn yn ymwybodol fod ganddo enaid rhesymol; ond pa beth yw y sylwedd ysbrydol hwn, a pha beth yw y cysylltiad sydd rhyngddo a'r corff nis gwyddom. Yr ydym yn ewyllsio, ac y mae ein dwylaw yn symud. Yr ydym yn meddwl am gyfaiil anwylaf sydd yn gorwedd yn y dystaw fedd, ac y mae ein llygaid yn llenwi gan dagrau. Pa fodd y mae ein meddyliau yn effeithio felly ar ein cyrff? Ai trwy gyffyrddiad? Nage. Ai trwy

* Gwel "COOMBE'S PHRENOLOGY."

sugn-dyniad ? Nage. Pa fodd ynte ? Nis gwyddom. Ni fydd neb, gobeithiaf, mor ffol a dyweyd fod yr enaid, o ran y sylwedd o hono, yn hanfodi yn mhob aelod i'r corff ; ac eto y mae yn gweithredu ar a thrwy bob aelod. Yr un mor ffol fyddai dyweyd ei fod yn cartrefu mewn rhyw ran neillduol o hono, oblegid nid oes llêd na hŷd, llun na maintioli yn perthyn i ysbryd. Y gwirionedd yw, nas gallwn amgyffred dim am natur bôd ysbrydol heb ei gyffelybu i ryw sylwedd corfforol. Mae yn ammosibl i ddyn a aned yn ddall ffurfio drychfeddwl cywir am wahaniaeth a phrydfertthweh lliwiau, neu y syniadau hyfrydlawn a greir yn y meddwl wrth edrych ar y dolydd gwyrddleision, y creigiau eribog, neu y rhaiadr rhuadwyllt. Ond y mae yn fil mwy ammosibl i ni amgyffred pa beth yw ysbryd, a pha fodd y mae yn llywodraethu y telpyn brau o bridd, ar ba un y gosodwyd ef yn benllywydd.

IV. PA FODD Y MAE MEDDWL YN GWEITHREDU AR FEDDWL ? Pwy all ddyweyd pa fodd y mae ysbrydoedd y cyfiawrn y rhai a berffeithiwyd yn cymdeithasu a'u gilydd ? Nis gwyddom pa fodd y mae ein llygaid yn gweled, na pha fodd y mae ein geiriau yn trosglwyddo ein meddyliau i'n cyd-greaduriaid. Ond yno, y maent yn gweled *heb* lygaid, yn ymddyddan *heb* dafod, ac yn clodfori Duw mewn dull nas gellir ei draethu. Nid yw pellder lle na gwahaniaeth tafodiaith yn gwneyd un rhwystr yn eu plith. O deulu glân ! O fywyd dedwydd ! Pwy all ddesgrifio yr hyfrydweh diddiwedd a fwynhant ? Beth yw y cwbl a glywsom neu a wyddom ni am danynt ? Dim, dim, dim. Annhraethadwy yw gogoniant yr olygfa ; ond yr ydym yn taflu ein cysgod ein hunain, fel y dywed Brown, ar bob gwrthddrych wrth geisio dynesu atto.

Mae y Bibl yn rhoddi ar ddeall hefyd fod y diafol mewn rhyw fodd dirgelaidd yn gweithredu ar feddyliau plant dynion. Mae yn dwyn ymaith y gair o'u calon, yn dallu meddyliau y rhai digred, ac yn tentio saint Duw. Er nas gall dreisio ewyllys neb, mae yn medru perswadio llawer. Pa fodd y mae yn llefaru wrth ein meddyliau sydd i ni yn anamgyffredadwy. Ond nid yw, mewn un modd, yn fwy felly na bod awyr neu bapur yn cario syniadau un enaid mewn geiriau i enaid arall. Felly ni a welwn nas gwyddom, yn gyntaf, pa fodd y mae ysbrydion heb gyrff yn effeithio ar eu gilydd ; ac yn ail, pa fodd y mae ysbryd heb gorff yn effeithio ar ysbryd mewn corff ; nac ychwaith, yn drydydd, pa fodd y mae ysbrydion mewn enawd yn effeithio ar eu gilydd. Wrth feddwl am bob un o honynt, nid oes genym ond cyfaddef ein hanwybodaeth eu hunain, a doethineb y Creawdwr.

Ond pan ystyriom bob dyn eto fel person unigol yr ydym yr un mor analluog i amgyffred pa fodd y mae un meddwl yn gweithredu ar y llall. Y mae cysylltiad annatodol rhwng pob peth sydd yn cymeryd lle yn y byd moesol yn gystal a'r byd direswm ; ac y mae cysylltiad anwahanol rhwng y ddau hyn a'u gilydd. Y mae un effaith yn y byd direswm yn peri effaith cyfatebol yn y meddwl ; ac y mae un meddwl yn cenedlu un arall yn ol rhyw reol nad oes neb yn ei deall ond Penllywiawdwr y greadigaeth. Yr wyf y foment yma yn clywed tafodau haiarnaidd canol nos yn dyweyd ei bod yn ddeuddeg o'r gloch ; ac y mae hyn yn dwyn i'm côf hên ystorïau plentynaidd a glywais gynt, y rhai a ddywedent mai dyma yr amser y mae drych-iolaethau, mewn hyll wylltineb ac aruthr wedd, yn gwibio trwy y tywyllwch dychrynedig. Y mae edrych ar bortreïad yn fy ystafell yn peri i mi feddwl am fy nghyfaill sydd yn absennol ; ac y mae meddwl am fy nghyfaill yn dwyn i'm côf yr orïau dedwydd a dreuliasom yn nghyd mewn llawer melus gyfrinach, nes y byddai mantell arianaidd y nos yn ymdaenu drosom yn ddiarwybod. Gwelaf y dderwen gauad-frig dan ba un yr eisteddem, a'r ffrwd fechan risialaidd ar hyd glan pa un y rhodiem, tra yr oedd ein calonau yn llosgi ynom wrth son am gariad y Gwaredwr. Ond i fyned rhagom, yr ydym weithiau yn meddwl am yr hyn sydd wedi cymeryd lle, ac yn ei ystyried fel y cyfryw ; hyn ydyw cofio. Brydiau eraill yr ydym, mewn rhyw ystyr, yn creu ac yn poblogi bydoedd o'r eiddom ein hunain ; hyn ydyw dychymygu. A chymharu ein gwahanol feddyliau a'u gilydd ydyw deall, barnu, ac ymresymu.* Ond nis gallwn ddyweyd pa ham y mae un meddwl yn dilyn y llall, na pha beth yw y gadwyn ddirgelaidd sydd yn eu cysylltu a'u gilydd. Mae y cysylltiad hwn yn para yn annatodol hyd yn nod pan ydym yn cysgu, yr hyn sydd yn profi nad yw ein drychfeddyliau dan ein hawdurdod ni ; gan hyny ofer yw gofyn iddynt pa ham neu pa fodd y daethont yma. Ië, ni phetrusaf ddyweyd fod yn amhosibl i ni alw cymaint ag un drychfeddwl i fod yn ol ein hewyllys ein hunain ; er fe allai y gallwn syllu arno a'i gymharu wedi iddo ymddangos cyhyd ag y byddom yn dewis. Nis gall dim fod yn wrthddrych ein dymuniad heb fod yn wrthddrych y meddwl yn gyntaf. Cyn y gallwn ewyllysio cofio unrhyw beth rhaid

* Dr. Thomas Brown a farnai fod holl weithrediadau deallwriaethol yr enaid, megys cofio, dychymygu, ymwybod, ymresymu, &c., yn gynnwysedig mewn *suggestion*, yr hwn a renir ganddo yn ddwy ran, *simple and relative*. Gwel BROWN'S "Lectures of the Mind :—" y gwaith rhagoraf a ymddangosodd hyd yn hyn ar Philosophyddiaeth y meddwl. ["Pan oeddwn fachgen, &c."]

ein bod yn meddwl am y peth hwnw yn barod : a phwy all ddyweyd pa ham neu pa fodd y daeth y meddwl hwnw i mewn. Ond wedi i ni feddwl am dano, oni allwn ei gofio bellach pan y dewisom ? Na allwn. Mae yn wir fod yn bosibl i ni sylwi a chraffu arno wedi ei gael o flaen y meddwl : ac nis gallwn sylwi ar ddim ond mewn cysylltiad a rhywbeth arall ; nac ar hwnw ychwaith ond mewn cysylltiad a rhyw beth arall drachefn, nes o'r diwedd yr ydym yn cofio ac yn cael gafael yn y person neu y peth am ba un yr oeddynt yn ymofyn. Pe buasem yn ei gofio ar unwaith, nis gallasai hyny fod yn wrthddrych ein dymuniad, a phe buasem yn ei gofio wrth ein dymuniad, ni fuasem yn cymeryd cymaint o drafferth i chwilio am dano. Nid yw ein bod ni yn cofio ac yn ewyllsio hyny yr un pryd yn un prawf fod y côf dan awdurdod yr ewyllys ; fel nad yw ein gwaith yn gweled ac yn aroglï y blodeuyn ar unwaith yn profi fod y naill o'r synwrau hyn dan awdurdod y llall.

Fe allai dy fod yn awr, ddarlleneydd, yn meddwl am ryw amgylechiad nodedig y cyfarfyddaist ag ef yn ystod dy fywyd. Ond pa ham yr wyt yn meddwl am dano y fynyd hon nis gelli wybod. Nid dy fod yn dewis hyny yw yr achos ; oblegid, cyn meddwl am dano, ni allasai fod genyt yr un dewisiad mewn perthynas iddo. Yna arweinir di fe allai i feddwl pa bryd y cymerodd hyny le ; ond pa ham sydd eto yn ddirgelweh. Ac os nad wyt yn ebrwydd yn adgofio yr amser, yr wyt yn meddwl am dano nes ei weled mewn cysylltiad â rhyw ddygwyddiad arall mwy gwybyddus ; a thrwy gymharu y ddau, yr wyt yn cael allan y blaenaf. Ond nis gelli ddyweyd eto pa ham y meddyliaist am yr olaf mwy na rhyw ddygwyddiad arall. Mewn gair, fel pe gwelem drigolion y byd arall yn ymddangos ac yn diflanu wrth orchymyn un o ddewiniaid y cynoesoedd, felly y mae ein drychfeddyliau yn dyfod ac yn ymadael yn ol rhyw reol anhysbys, ac mewn ufudd-dod i ryw lywodraeth anweledig. Nis gwyddom o ba le y maent yn dyfod, nac i ba le y maent yn myned. Rhai o honynt a adwaenom, fel hen gyfeillion mynwesol, ac eraill nis gwelsom erioed o'r blaen. Pan y byddom yn syllu ar un, mintai o rai eraill a ruthrant rhyngom, a thra y byddom yn ceisio erlid y rhai hyn ymaith, bydd y drychfeddwl cyntaf wedi dianc i fyd yr anfodolion. Rhai o honynt a hyll-dremiant arnom mewn gwng nes peri i'n enawd grynu am ein hesgryn ; eraill â gwên ar eu gwyneb a gyfeiriant ein llygaid at wlad o dragywyddol hedd.

Er hyny mae yn ddiau fod rhyw berthynas rhwng ein meddyliau a'u gilydd ac â'r amgylchiadau yr ydym ynddynt : ac y mae cymaint o debygolrwydd rhynddynt bob amser ag y sydd rhwng perthynasau yn naturiol. Er enghraifft, pan glywom son am rodres a rhwysg a rhagrith, nis gallwn lai na meddwl am Mr. Pomposo ; ac yr un modd *vice versa*. Pan ddarllenom am yr Ysgol Sabbothol, ein myfyrdodau a gyfeirir yn ebrwydd at yr anfarwol Charles o'r Bala. Yn yr anghraifftiau hyn a phob rhai eraill, mae yn amlwg fod perthynas rhwng y personau a'r pethau yr ydym yn meddwl am danynt yn olynol. A dyma y cwbl a wyddom ni am y cysylltiad sydd rhwng ein meddyliau â'u gilydd.

V. PA FODD Y MAE Y CREAWDWR EI HUN YN GWEITHREDU AR Y GREADIGAETH WELEDIG. Nid oes neb ond yr ynfyd a ddywed, nad oes un Duw, ac nis gall yr ynfyd ddywedyd hyny heb weled ei ynfydrwydd, ond yn ei galon dywyll ei hun. Efe yw bywyd y byd ac enaid y greadigaeth. Ynddo ef yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod. Ac oni bai fod ein calonau yn dywyllach na gwaelodion uffern, nis gallasem anghofio y gwirionedd hwn. Ond y cyfryw yw dallineb gwirfoddol dyn wrth natur fel y mae perffeithrwydd a manylrwydd difethiant rhagluniaeth Duw yn peri i ni anghofio Duw rhagluniaeth. Pe buasai gwaith y Creawdwr fel gwaith y creadur, yn ffacledig ac yn ansefydlog ; pe buasai yr haul weithiau yn diffodd yn ddisymwth ac annysgwyladwy yn y ffurfafen ; pe buasai y ddaear yn methu, yn blino, neu yn colli ei llwybr yn ei chylehdro blynyddol ; neu pe buasai ryw elfen ddaearol yn colli ei grym a'i heffaith briodol ; yn yr amgylchiadau hyn buasai pawb yn barod i weled os nid i gydnabod bys Duw. Ond yn awr, gan fod pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y greadigaeth, y mae hyn, yn ddjarwybod i lawer o'u gwirfodd, mai trwy air Duw yr oedd y nefoedd er ystalm, a'r ddaear yn cydsefyll.

Os gofynir *pa fodd* y mae y nefoedd a'r ddaear yn cydsefyll, nid oes genym ond ateb gyda yr Apostol, Trwy air Duw. Ac os gofynir eto *pa fodd* y mae Duw ei hun yn cynnal y greadigaeth, nid oes genym ond ateb drachefn, Trwy ei Air. Ei air ef yw ei ewyllys ; a'r un gair ag y sydd yn anghenrheidiol i gynnal yr abwydyn sydd hefyd yn ddigonol i gynnal y bydoedd. Ond *pa fodd* y mae gair y Goruchaf yn gweithredu fel cadwyn adamantidd i gynnal y greadigaeth mewn bod ac mewn trefn nis gwyddom. Ac os ydym yn analluog i amgyffred pa

fodd y mae efe yn cynnal y byd, pa faint llai y gallwn amgyffred pa fodd y creodd Efe bob peth o ddim, pan nad oedd dim mewn bod i weithredu arno? Ni wyddom ni ddim am hollalluogrwydd Duw ond fod pob beth a ewyllysio Efe yn sier o gymeryd lle. Nis gwyddom am un eysylltiad rhwng ail-achosion a'u heffeithiau ond ewyllys y Creawdwr, ac nis gwyddom am un eysylltiad rhwng y Creawdwr ei hun a'r greadigaeth ond yr un ewyllys. Nid oes achos iddo ef ond ewyllysio, a daew ei ewyllys yn weledig yn y cyflawniad o honi. "Efe a ddywedodd ae felly y bu; efe a orchymynodd a hyny a safodd."

Nid yn ngraddau ein gwybodaeth am Dduw yn unig y mae y diffyg, ond yn ei natur. Y mae byd yr ysbrydoedd nid yn unig o natur uwch na dim a welodd neu a glywodd y doethaf o blant dynion, ond hefyd o natur hollol wahanol. Pe cynnyddid y wybodaeth a dderbynir trwy gyfrwng y synwyrâu corfforol yn ddiderfyn, byddem yr un mor analluog i amgyffred pa beth yw yr Ysbryd digrëedig, a pha fodd y mae yn gweithredu ar y greadigaeth weledig. Nis gallwn feddwl am fôd ysbrydol fel y cyfryw ond mewn dull nacaol. Nis gallwn ddyweyd pa beth yw Duw fel ysbryd, ond yn unig pa beth nid yw. Mae yn amhosibl i ni feddwl am un bôd heb briodoli iddo hŷd a lled, ac am hyny y mae y Duw anfeidrol yn ymostwng yn ei air i lefaru felly am dano ei hun. Ond dywedir hefyd mai Ysbryd yw Duw; ac nid oes hŷd na lled yn perthyn i ysbryd. Hollbresennoldeb ysbrydol yw ei hollbresennoldeb ef. Y mae rhanau yn perthyn i bob peth gweledig; ond nid oes ranau yn perthyn i Dduw, yr hwn sydd yn gweithredu bob mynyd ar bob peth. Y mae efe oll yn bresennol yn mhob rhan o'r greadigaeth; ac eto y mae yr holl greadigaeth yn hanfodi ynddo ef. Y mae yn amhosibl i ni amgyffred pa fodd y mae yr oll o'r Duw anfeidrol yn hanfodi mewn lle terfynol; na pha fodd y mae efe oll yn hanfodi mewn dau wahanol le ar unwaith: a buasai hyn yn amhosibl oni bai ei fod yn hanfodi ac yn gweithredu mewn dull nas gallwn ni ei amgyffred.

Drachefn, y mae olyniad yn perthyn i bob peth sydd yn cymeryd lle mewn amser; ond nid oes olyniad na chyfnewidiad yn perthyn i Dduw. Mae ei dragywyddoldeb ef fel ei hollbresennoldeb yn ddiranau. Nid yw yn dyfod o'r amser a aeth heibio, trwy yr amser presennol, i'r amser a ddaw. Efe sydd yn llywodraethu holl gyfnewidiadau amser o dragywyddoldeb diddechreu hyd dragywyddoldeb diddwedd; ond nid yw efe yn edrych yn ol ar dragywyddoldeb diddechreu nac yn edrych

ymiaen ar dragywyddoldeb diddiwedd. Po fwyaf feddylion am y Duw anfeidrol a'i weithrediadau, parotaf fyddwn i gyfaddef fod ei "fawredd Ef yn anchwiliadwy."

VI. LLYWODRAETH DUW AR Y MEDDWL. Y gorehwyl sydd genym yn bresennol yw profi ei bod yn amhosibl i ni amgyffred pa fodd y mae y Creawdwr yn llywodraethu meddyliau ei greaduriaid. Yr ydym yn analluog, fel y dywedwyd o'r blaen, i amgyffred pa fodd y mae efe yn llywodraethu y greadigaeth weledig; ond yr ydym yn fwy analluog i amgyffred pa fodd y mae yn llywodraethu y greadigaeth anweledig. Neu, mewn geiriau eraill, nid yw ein hanallu i amgyffred y cyntaf ddim ond anallu nacïol; ond y mae ein hanallu i amgyffred yr olaf, mewn rhyw ystyr, yn anallu cadarnhaol. Yr ydym yn methu wrth geisio amgyffred ei lywodraeth ar y greadigaeth weledig; ond yr ydym yn dyrysu wrth geisio amgyffred ei lywodraeth ar y greadigaeth anweledig. Y mae y dyrysweh hwn yn tarddu oddiar yr ystyriaeth fod pob creadur rhesymol yn gyfrifol am ei weithredoedd, yn euog am bob trosedd, ac yn haeddiannol o ddyoddef cosp o'i ÷legid. Ond er hyn i gyd nis gallaf lai na chredu fod gan Dduw lywodraeth mor fanwl ac mor eang ar y meddwl ag sydd ganddo ar y corff.

Ac yma y mae yn anghenrheidiol i ni wahaniaethu rhwng ei lywodraeth naturiol ef a'i lywodraeth foesol, oblegid am ei lywodraeth naturiol yr ydym yn traethu yn bresennol. Yr wyf yn arfer y geiriau hyn o ddiffyg rhai gwell, er nad ydynt mewn un modd yn rhai boddlonol. Nid oes gan Dduw ddim ond llywodraeth naturiol ar greaduriaid direswm; ac y mae rhai yn barnu nad oes ganddo ddim ond llywodraeth foesol ar ei greaduriaid rhesymol, neu o leiaf fod y naill yn dinystrio y llall. Ond y mae yn ymddangos i mi nad yw creadur rhesymol, wrth fod yn ddeiliad o'r naill yn peidio a bod yn ddeiliad o'r llall. Y mae llywodraeth naturiol Duw yn cyrhaedd hyd at gyflawniad y weithred, ac yna yn trosglwyddo y gweithredydd i afael ei lywodraeth foesol. Wrth ddyweyd fod ei lywodraeth naturiol yn cyrhaedd hyd at gyflawniad y weithred, fy meddwl yw ei fod ef yn goruwchreoli pob peth, mewn rhyw fodd nas gellir ei amgyffred, fel y mae pob gweithred a phob ewyllysiad o eiddo creadur rhesymol mor sier o gymeryd lle, yn y dull a'r pryd y maent yn cymeryd lle, ag yw ysgogiadau creaduriaid direswm a difywyd. Nis beiddiaf ddyweyd mwy, ac nis gallaf ddyweyd llai. Pe cynnygiem symud un cam yn mhellach, ni a fyddem mewn perygl o syrthio dros geulanau rhyfyg;

a phe arosem heb fyned mor bell, ni a fyddem yn euog o aberthlu anrhydedd llywodraeth y Goruchaf. Ond ar y tir hwn yr ydym yn ddiogel ac ansigladwy. Y mater hwn yw y pegwn ar ba un y mae rhai o'r dadleuon mwyaf pwysfawr yn troi, ac o ganlyniad y mae wedi ennill sylw nifer nid bychan o ysgrifenyddwyr. Ar un llaw y mae Clark, Reid, Stewart, Whitby, a'r Arminiaid yn gyffredinol. Ar y llaw arall y mae Leibnitz, Hobbes, Hume, ac yn olaf ond nid y lleiaf, Jonathan Edwards o America. Ar ba law y mae y gwirionedd, -barned y darllynydd drosto ei hun.

Fe ymddengys fod gan Dduw lywodraeth naturiol ar greaduriaid rhesymol yn gystal a chreaduriaid direswm, ar y greadigaeth anwledig yn gystal a'r greadigaeth weledig, os ystyriwn y cysylltiad sydd rhwng yr enaid a'r corff. Y mae yn amhosibl fod ganddo lywodraeth ar y naill heb fod ganddo lywodraeth mor fanwl ac mor helaeth ar y llall. A phe ceisier ei amddifadu i ryw raddau o'i lywodraeth ar y naill, ni a fyddem yn ceisio ei amddifadu hefyd i'r un graddau o'i lywodraeth ar y llall. Dyweyd ei fod ef yn goruwchreoli y corff heb fod ganddo un reol ar weithrediadau yr enaid, fyddai dyweyd fod gan frenin awdurdod ar deyrnas heb un awdurdod ar drigolion y deyrnas hono ; neu fod gan forwr lywodraeth ar ei long, heb un lywodraeth ar y llyw sydd yn rheoli symudiadau y llong. Yr ydym yn gweled fod yr enaid yn gweithredu ar y corff, ac yn ei ysgogi gan mwyaf yn ol ei ewyllys. Ac yn awr os oedd holl ysgogiadau y corff yn sicr er tragwyddoldeb o gymeryd lle fel y maent, y mae yn rhaid fod yr ewyllysiadau cyferbyniol o eiddo yr enaid yr un mor sicr. Ac os meddylw'n fod gweithrediadau yr enaid mewn un gradd yn ansicr ac yn ddamweiniol, mae yn rhaid i ni gredu hefyd fod gweithrediadau y corff mor ansicr ac mor ddamweiniol. Yr ydym yn gweled hefyd fod gweithred a gyflawnir gan un person yn achosi cyfnewidiadau dirfawr yn aml yn y byd o'i amgylch, a bod ei heffeithiau yn cyrhaedd at bersonau eraill yn olynol hyd ddiwedd amser. Gan hyny, onid yw llywodraeth y Creawdwr yn cyrhaedd at benderfyniadau yr ewyllys, mae yn rhaid nad oes ganddo lywodraeth ar ddim o fewn y greadigaeth ; ac felly nid oes ond damwain a dyrysweh yn llywodraethu y byd.

Fe ymddengys hyn hefyd os ystyriwn ragwybodaeth Duw. Os oedd ef yn gwybod yn sicr er tragwyddoldeb yr hyn oll a wneir mewn amser, mae yn rhaid fod yr hyn oll a wyddai yn sicr o gael ei gyflawni ; oblegid nid yw sicrwydd rhagwybodaeth ddim amgen na gwybodaeth

o sierwydd cyflawniad yr hyn a ragwybyddir. Os oedd yn bosibl i un weithred neu ewyllsiad, a fu neu a fydd, beidio a bod, yna yr oedd Duw yn gwybod er tragywyddoldeb ei bod yn sier o fod, ac yn gwybod hefyd fod yn bosibl iddi beidio bod. Yr oedd yn gwybod, ac ar yr un pryd nid oedd yn gwybod y byddai iddi gael ei chyflawni. Mae rhai yn ceisio dianc o afael yr ymresyniad hwn trwy ddadleu nad oes olynriad yn perthyn i Dduw, ond fod y cwbl a wneir mewn amser yn bresennol iddo. ef er tragywyddoldeb, fel y maent yn bresennol i ni yn awr mewn amser. “ Nil ei ragwybodaeth ef,” meddai Whitby, “ yw yr achos o'r hyn a gyflawnir; ond yr hyn a gyflawnir yw yr achos o'i ragwybodaeth ef.” Yr ydym yn addef nad oes olynriad yn perthyn i dragywyddoldeb yr Anfeidrol: ond nid yw hyn yn cyffwrdd dim a'r pwnc dan sylw; oblegid hyd yn nod yn ol barn y gwrth-ddadleuwyr yr oedd pob gweithred mor sier iddo ef er tragywyddoldeb ag ydyw i ni wedi gweled y cyflawniad o honi; ac nis gellir meddwl am un fynydd er dechreu amser nad oedd efe yn gwybod yn sier y byddai iddi gael ei chyflawni. Er nad yw rhagwybodaeth ynddo ei hun yn achosi, eto y y mae yn profi fod yr hyn a ragwybyddir yn rhwym o gymeryd lle.

A thrachefn, er ein bod yn cydsynio a'r farn uchod am dragywyddoldeb Duw, nid ydym mor barod i addef nad yw efe ddim ond yn rhagwybod yr hyn a gyflawnir. Os addefir rhagwybodaeth, bydd hyny yn ddigon i brofi sierwydd eu cyflawniad; ond os dywedir mai rhagwybod *yn unig* y mae efe, yna dyma dynghedfen y Paganiaid, i lywodraeth yr hon y barnent hwy fod y duwiau eu hunain yn ddarostyngedig: oblegid, yn ol y farn hon, y mae pob peth a fydd yn sier o fod; ac y mae y sierwydd hwn, mor belled ag y mae a fyno â chreaduriaid rhesymol, yn anymddibynol ar Dduw ei hun. Pe dywedid eto fod y cwbl yn ansier er ei fod ef yn eu rhagwybod, ni fyddai hyn ddim ond rhoddi damwain yn lle tyngedfen, a pha un sydd fwyaf dewisol gadawaf iddynt hwy benderfynu. Ond fel y crybwyllwyd o'r blaen, os addefir fod Duw yn hollwybodol, rhaid addef ar yr un pryd cyn y gallwn fod yn gyson â ni ein hunain, fod pob peth sydd yn wrthddrych ei hollwybodaeth yn sier o fod, ac nad yw yn bosibl i ddim fod yn wahanol i'r hyn yw; ac os addefir hefyd mai efe sydd yn llywodraethu ei creaduriaid, ac nad yw yn cael ei lywodraethu gan ei creaduriaid, dyna y cwbl yr ydym yn amcanu dadleu drosto. Pa beth yw y cysylltiad sydd rhwng ei lywodraeth ef a sierwydd yr hyn oll a gyflawnir neu a feddylir gan ei creaduriaid, nid ydym yn cymeryd arnom esbonio.

Ond gadewch i ni gymeryd golwg yehydig yn agosach eto ar y pwnc hwn. Os bernir nad yw llywodraeth Duw yn sierhau holl benderfyniadau yr ewyllys, yna y mae yn rhaid fod yr ewyllys yn penderfynu heb un achos; neu y mae yn rhaid fod gallu anymddibynol yn yr ewyllys i lywodraethu ei phenderfyniadau ei hun. Os credir fod yr ewyllys yn penderfynu heb un achos, y mae mor hawdd credu nad oes un achos i ddim sydd mewn bod : ae felly y mae yn bosibl fod yr holl greadigaeth wedi dyfod i fod heb un achos. Ae nid yn unig mae yn bosibl, ond mae yn rhaid, yn ol y farn hon, fod holl weithredoedd ewyllysgar dynion yn tarddu yn unig ac yn hollol oddiar ddamwain, a'u holl effeithiau hefyd yn tarddu yn ddechreuol oddiar yr un ddamwain. Heblaw hyny, y mae dyweyd fod dyn yn ewyllysio heb un achos yn wrthddywediad mewn geiriau. Y mae y gair ewyllysio yn arwyddo tuedd at un peth yn hytrach na pheth arall; ac y mae hyny yn arwyddo fod y peth hwnw yn ymddangos yn fwy dymunol na'r llall. Ond wrth ddyweyd fod dyn yn ewyllysio heb achos, yr ydym yn dyweyd ei fod yn ewyllysio y naill heb ei fod yn ymddangos yn fwy dymunol na'r llall; oblegid os dywedir ei fod yn ymddangos yn fwy dymunol yr ydym yn priodoli achos i'w ewyllysiad. Ae felly wrth ddyweyd fod dyn yn ewyllysio heb achos, yr ydym yn dyweyd ei fod yn ewyllysio yr hyn nid yw yn ewyllysio.

Y mae y farn uchod mor groes i synwyr cyffredin fel nad wyf yn gwybod fod nemawr yn ei dal mewn cynnifer o eiriau. Ond y mae gwrthwynebwyr yr anghenrheidrwydd moesol yn ceisio cuddio gwendid eu cyfundraeth trwy wisgo yr un farn mewn geiriau mwy soniarus. Addefant yn gyffredin nad oes neb yn ewyllysio heb achos; ond dywedant fod gallu anymddibynol yn yr ewyllys i lywodraethu ei phenderfyniadau ei hun. Digon o ateb i'r dywediad hwn ydyw gofyn, A yw yn bosibl i ddyn ewyllysio dim yn groes i'r hyn sydd yn ymddangos iddo yn fwyaf dymunol? Yn ol y farn hon, mae yn bosibl iddo, nid yn unig ddewis heb ystyried dymunoldeb nae annymunoldeb y gwrthddrych, ond dewis yr hyn y mae yn ei gashau. Os ydyw hyn yn ammhosibl, yna nid oes gan yr ewyllys y gallu anymddibynol y sonir am dano. Er mwyn gwrthbrofi hyn, fe allai y dywedir y dichon dau wrthddrych hollol gydwert h a chyffelyb gael eu gosod ger cin bron, ac y gallwn gymeryd y naill yn hytrach na'r llall. I hyn yr wyf yn ateb, Nid yw dyn yn y cyfryw sefyllfa yn dewis y naill *wrthddrych* yn hytrach na'r llall, ond yn dewis *cymeryd* un o honynt yn.

hytrach na bod hebdo. Pa un a gymerir ganddo sydd yn ymddibynu ar amgylechiadan, megis gwahaniaeth lle, ac ar ba un y mae ei olwg yn fwyaf neillduol pan y mae yn penderfynu cymeryd.

Os dywedir eto mai gwaith y meddwl yn ewyllysio sydd yn gwneuthur y gwrthddrych yn ddymunol, nid yw hyn ond arall-eiriad o'r gwrthuni uchod. Mae yn gadael y meddwl fel o'r blaen i ddewis yr hyn nid yw yn ymddangos yn fwyaf dymunol. A'r un peth fyddai dyweyd mai ei waith yn ewyllysio yw yr achos ei fod yn ewyllysio a dyweyd mai ei waith yn ewyllysio sydd yn gwneuthur y gwrthddrych yn ddymunol. Pa lwybr bynag a gymerir i amddiffyn rhyddid yr ewyllys yn ol golygiadau yr Arminiaid, dylid profi yn gyntaf fod dyn yn ewyllysio heb un olwg ar ddymunoldeb nac annymunoldeb y gwrthddrych; neu, mewn geiriau eraill, ei fod yn ewyllysio yr hyn nid yw yn ewyllysio. Braidd y meddyliaf fod neb o'm darllenwyr mor gibddall ag i beri fod yn anghenrheidiol rhoddi gocheliad, rhag iddynt feddwl fy mod yn dyweyd fod yn amhosibl i ddyn ewyllysio dim a fyddo yn ymddangos yn annymunol ynddo ei hun, ond yn ddymunol trwy ei ystyried mewn cysylltiad a rhywbeth arall, dymunoldeb ymddangosiadol pa un sy'n gorchfygu annymunoldeb y cyntaf. Fe ddichon hefyd iddo chwenych un gwrthddrych y fynyd hon, a'i gashau y fynyd nesaf; ond y mae yn amhosibl i'r enaid, ar yr un pryd, ewyllysio a pheidio ewyllysio yr un peth.

Drachefn, os oes gan ddyn allu anymddibynel i lywodraethu ei ewyllys, yna y mae yn rhaid ei fod yn ewyllysio unrhyw beth am ei fod yn penderfynu ewyllysio felly; hyny yw, y mae yn rhaid fod ewyllysiad blaenorol yn cymeryd lle yn yr enaid i benderfynu yr ewyllysiad diweddaf. Ond gofynaf, O ba le y daeth yr ewyllysiad cyntaf hwn? Gan ba beth y mae efe yn cael ei benderfynu? Mae y rhai sydd yn dal y farn hon yn addef na ddaeth un ewyllysiad i fod heb achos; gan hyny nid yw wedi cenhedlu ei hun, ac y mae yn rhaid ei fod wedi cael ei genedlu gan ryw ewyllysiad arall blaenorol. Ond gyda phob parch i benllwydni yr hynafiad hwn, eto, dymunaf ofyn drachefn, Gan bwy neu gan ba beth y cenedlwyd ef? A ddaeth efe i fod fel y dywedir am Melchisedec, heb dad ac heb fam? Ac os eir i olrhain achau unrhyw benderfyniad o eiddo yr ewyllys, pa le y ceir gafael yn nechreud y gofrestr? Oblegid yn ol y farn hon y mae pob ewyllysiad yn cael ei achosi gan luoedd ancirif o ewyllysiadau blaenorol; ac yr ydym yn ewyllysio unrhyw beth am ein bod yn ewyllysio ewyllysio ewyllysio, ac felly yn ol i dragwyddoldeb diddechreu.

Mae yn deilwng o sylw hefyd fod y rhai sydd yn gwadu anghenrheidrwydd moesol, wrth wneuthur hyny, yn gorfod dal yr un anghenrheidrwydd. Os dywedant nad oes un achos yn penderfynu yr ewyllys, yna y mae yn amhosibl i'r enaid ewyllysio yn wahanol, oblegid nid oes un achos mewn bod i beri gwahaniaeth: ac y mae yr enaid yn rhwym o ymostwng i lywodraeth damwain, fel y mae y ddeilen yn rhwym o fyned y ffordd y byddo y gwynt yn ei gyru. Os dywedir nad yw yr enaid yn ewyllysio heb achos, yna y mae eysylltiad anghenrheidiol rhwng yr achos hwnw a'r ewyllysiad sydd yn deilliaw oddiwrtho; ac y mae yr ewyllys yn rhwym o ymostwng i lywodraeth y gallu sydd yn rheoli ei holl benderfyniadau. Ac yn yr un modd gellir profi fod y gallu hwnw, beth bynag ydyw, yn rhwym o ymostwng i lywodraeth rhyw achos arall sydd yn ei ragflaenu.

Os meddylir fod y golygiadau uchod ar lywodraeth Duw yn cyfyngu ar ryddid yr ewyllys, byddai yn dda genyf wybod pa ryddid ychwanegol sydd yn bosibl i greadur rhesymol, nid yn unig ei gael ond ei dymuno, heblaw rhyddid i weithredu fel yr ewyllysio. A ddywed neb ei fod yn dymuno rhyddid i weithredu yn groes i'w ewyllys? Byddai felly yn ewyllysio yr hyn ni fyddai yn ewyllysio. Neu os dywed ei fod yn dymuno rhyddid i ewyllysio fel y myno; ni fyddai hyn ond rhyddid i ewyllysio fel y byddai yn ewyllysio, yr hyn a fwynheir yn ol y farn a amddiffynir yn yr ysgrif hon. Os yw yn barnu fod rhyddid yn gynnwysedig mewn ewyllysio fel y myno, gellir gofyn pa fodd y daeth i fynu ewyllysio felly? Byddai yn rhaid iddo gyfrif yn y diwedd fod rhyw ewyllysiad blaenorol yn rhydd, heb ymofyn pa fodd y daeth i fod felly.

Bellach, meddyliaf fod llawer un yn barod i ofyn "Pa ham a pha fodd?" Pa ham y mae efe eto yn beio? Pa fodd y mae dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd? Pa ham y daeth pechod i'r byd? A pha fodd y mae dyn yn euog o'i herwydd? I'r gofyniadau hyn nid oes genyf ond ateb yn ngeiriau yr Apostol, "Yn hytrach, O ddyn, pwy wyt ti, yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? A ddywed y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Pa ham y'm gwnaethost fel hyn?" Ond er nad wyf yn ystyried fy hun yn alluog i roddi mwy o atebiad iddynt nag a gynnwysir yn ngeiriau yr Apostol, fe allai na fyddai yn anfuddiol gwneuthur ychydig sylwadau arnynt yn mhellach i geisio symud rhai cam-gasgliadau a ddichon gael eu ffurfio oddiwrth yr athrawiaeth hon.

Y mae yr holl wrthddadleuon a ddygir ymlaen yn erbyn y golygiadau a amddiffynir uchod mewn perthynas i lywodraeth Duw ar y meddwl, yn gynnwysedig mewn dau brif wrthddadl ; sef, eu bod yn milwrio yn erbyn yr arferiad o foddion, ac yn diddymu cyfrifoldeb. Nid wyf yn cyfrif fy hun yn alluog i roddi atebiad cyflawn i'r gwrthddywediadau hyn. Ond ymdrechaf ddangos eu bod yn taro gyda chymaint os nid mwy o rym yn erbyn pob cyfundraith arall a all gael ei ffurfio ar y pwnc dan sylw ; a'n bod mor sier o ddyrysu, beth bynag fyddo ein golygiadau, os awn i geisio amgyffred y " pa ham a'r pa fodd."

Yn gyntaf, dywedir fod yr athrawiaeth hon yn tueddu i lwfrhau dynion yn yr arferiad o foddion. Pa ddyben, meddir, yw defnyddio moddion os yw y canlyniad yn sier o gymeryd lle fel nas gellir ei ragflaenu na'i brysuro ? Ond dylid cofio nad yw llywodraeth y Goruchaf yn sierhau y canlyniadau heb foddion, nac yn groes i foddion priodol ; ond trwy sierhau y moddion fel canlyniadau i ryw foddion blaenorol, ac fel achosion yn rhwym o weithredu yn ol deddf eu natur i ddwyn i ben effeithiau cyfatebol. Yn gyntaf, os ystyriwn benderfyniadau a thueddiadau y meddwl fel moddion, y mae barn ein gwrthwynebwyr yn golygu y dyben yn sier ac yn rhwym o gymeryd lle, mewn rhai amgylechiadau o leiaf ; ond y moddion yn ansier : tra y mae y farn Galfinaidd yn golygu y naill yn sier fel y llall. A gadawaf y darlennydd i farnu pa un sydd fwyaf anghyson. Pan yr oedd Paul yn dyweyd wrth y morwyr na cholliid bywyd yr un o honynt ; ac eto fod hyny yn ymddibynu ar eu gwaith yn aros oll yn y llong ; y mae ein gwrthwynebwyr yn barnu fod diogelwch eu bywydau yn sier, ond eu gwaith yn aros yn y llong yn ansier ; a ninnau yn barnu fod yr un sierwydd am benderfyniad en hewyllys i aros yn y llong ag oedd am ddiogelwch eu bywydau.

Drachefn, ni a gawn olygu penderfyniadau yr ewyllys fel dybenion i ryw foddion blaenorol, yn gystal ag fel moddion i ddwyn dybenion eraill i ben. Dywedir mai anfuddiol ydyw arfer moddion i geisio perswadio y meddwl os yw ei benderfyniadau oll yn sier, fel nad yw bosibl iddynt fod yn wahanol i'r hyn a fyddant. Ond yma eto mae y gwrthddadleuwyr yn anghofio fod y moddion hefyd wedi eu sierhau, y rhai sydd yn anghenrheidiol er dwyn i ben y penderfyniadau hyny o eiddo yr ewyllys. Ar yr un pryd nid ydym yn golygu y meddwl fel peiriant yn cael ei ysgogi gan rym naturiol (*physical force*) ; ond fel bod ysbrydol yn cael ei lywodraethu gan resymau a theimladau eneidol. Yn y fan hon eto y mae yr wrthddadl yn taro yn unig ac yn uniongyrchol

yn erbyn barn y gwrthddadleuwyr. Oblegid pa hyder all fod genym yn yr arferiad o foddion i dueddu yr ewyllys, oni fydd yr ewyllys yn rhwym o weithredu yn gyfatebol i'r moddion fyddo yn gweithredu ar y meddwl, os na fydd achosion cryfach yn gwrthweithredu arno. Oni bai fod cysylltiad annatodol rhwng achosion a'u heffeithiau yn y greadigaeth weledig ac yn y greadigaeth anweledig, pa annogaeth fyddai gan neb i gymeryd un gorchwyl mewn llaw ? a pha sail fyddai ganddo i ddysgwyl llwyddiant mewn dim o'u ymdrechiau ? Pa hyder fyddai gan y morwr ar wyneb y dyfnder tymhestlog oni bai fod y llyw yn sier o gadw y llong rhag cyfeiliorni, os na ddaw gallu cryfach i orchfygu ei effaith ? Felly y meddwl—y mae llywodraeth y Goruchaf wedi sierhau rhyw foddion i dueddu ewyllys un i geisio perswadio ei gydgreadur, ac y mae y cysylltiad diymod sydd rhwng achos ac effaith yn rhoddi lle iddo gredu y bydd yn sier o lwyddo oni fydd gwyntoedd cryfion oddiallan, neu ryw lifeiriant chwyrn oddifewn yn gwneuthur ei holl ymdrechiau yn ofer. Mae yn wir fod y ddau hyn bob amser yn cyd-daro i'w erbyn pan y mae yn ceisio perswadio dynion yn y pethau a berthynant i'w tragwyddol ddedwyddweh ; er hyny, y mae yn glynu wrth y llyw, gan edrych am gymhorth atto ef, i orchymyn yr hwn y mae y gwynt a'r môr yn rhwym o ufuddhau. Os yw yr ewyllys yn cael ei phenderfynu heb achos, neu gan ryw allu anymddibynol ynddi ei hun, nid yw o un dyben iddo lafurio ac ymresymu ; oblegid, yn ol y farn hon, nid oes ganddo ddim sail i obeithio am lwyddiant ; i.e, nid yw ei holl ymdrechiau yn tueddu yn y gradd lleiaf i ateb y dyben.

Yr ydym yn dyfod yn nesaf at yr ail wrthddadl. Pa fodd y mae dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd ? Pa ham y mae efe eto yn beio, canys pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef ? Pa ham y goddefodd y Duw sanctaidd i bechod ddyfod i'r byd, a pha fodd y mae dyn yn euog o'i herwydd ? Dyma ofyniadau nad oes neb hyd yma wedi llwyddo, ac nad oes neb, mae'n debyg, a lwydda byth i roddi atebiad cyflawn iddynt. Y mae rhesymau anatebadwy yn profi fod Duw yn llywodraethu y meddwl yn gystal a'r corff : ac y mae mor amlwg a hyny nad yw efe yn awdwr pechod. Mae yn amhosibl fod gan ddyn yr hyn a ddeallir yn gyffredin wrth ewyllys rydd : ac y mae mor amhosibl iddo beidio bod yn greadur cyfrifol. Os awn i geisio amgyffred yn gyflawn pa fodd y mae y pethau hyn felly, yr ydym yn dyrysu ar unwaith : ond y mae y dyrysweh yn fwy ar dir gwrthwynebwy'r nag ar dir amddiffynwy'r anghurheidrwydd moesol.

Os dywedir fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu heb un achos, yna anghysondeb o'r mwyaf yw dyweyd fod dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd; oblegid nid yw damwain yn ddarostyngedig i un ddeddf, ac nid yw gweithredoedd sydd yn tarddu oddiar ddamwain na da na drwg. Nid ydynt yn deilwng o gymeradwyaeth nae yn haeddiannol o gosb, oblegid nid ydynt yn deilliaw oddiar un egwyddor na dyben.

Ac os dywedir fod gallu anymddibynol yn y meddwl i lywodraethu yr ewyllys, nid ydym yn symud un gradd ar yr anhawsdra. Fel y dywedwyd o'r blaen, mae yn amhosibl fod gan ddyn y cyfryw allu; ond pe meddyllem fod hyny yn bosibl, yna y mae yn ewyllysio drwg neu dda am ei fod yn penderfynu ewyllysio felly. Ond os yw yr ewyllysiad diweddaf yn bechadurus, onid yw penderfynu pechu yn bechadurus hefyd? Os dywedir ei fod, yna y gofyniad yw, Pa fodd y daeth yr enaid i benderfynu ewyllysio felly? Ond os dywedir fod y penderfyniad i ewyllysio felly yn ddibechod, yna y mae yr ewyllysiad hefyd, yn ol eu barn hwy, yn ddibechod; oblegid y mae yr ewyllysiad yn rhwym o ganlyn wedi i'r penderfyniad gymeryd lle; ac y maent hwy yn barnu fod anghemrheidrwydd yn dinystrio cyfrifoldeb. Os gwrthddadleuir eto wedi'r ewbl fod yr ewyllysiad diweddaf yn bechadurus, a bod y meddwl hyd hyny yn hollol ddiduedd at yr hyn sydd ddrwg, yna gellir gofyn, Pa beth sydd yn tueddu y meddwl yn yr ewyllysiad diweddaf i weithredu yn bechadurus? Os oedd y meddwl yn berffaith lân nes ewyllysio, pa fodd y daeth yr ewyllysiad i fod yn halogedig? Pa lwybr bynag a gymerir gan yr Arminiaid, y maent mor analluog a ninnau i roddi un rheswm am ddechreuad drwg moesol. Ac heblaw hyny, y maent yn dyweyd mewn effaith fod dyn yn pechu ac nad yw yn pechu yr un pryd. Yn ol eu barn hwy, nis gall dyn fod yn gyfrifol am ei weithredoedd os bydd yr ewyllys yn cael ei llywodraethu yn y gradd lleiaf gan agwedd flaenorol y meddwl; oblegid os bydd unrhyw ewyllysiad yn cael ei achosi gan rywbeth yn agwedd y meddwl, mae hyny yn distrywio y gallu anymddibynol sydd yn yr ewyllys i benderfynu drosti ei hun. Ond os yw y meddwl yn hollol ddiduedd nes ewyllysio, yna y mae yn ewyllysio yn bechadurus, ac yn gwneuthur hyny am ei fod yn dewis gwneuthur hyny; pan ar yr un pryd nid yw yn gogwyddo at ddrwg. Yn ol eu barn hwy hefyd, nid yw y meddwl yn cael ei lywodraethu yn y gradd lleiaf gan ystyriaeth o unrhyw ddyben, oblegid dywedant fod hyny yn dinystrio rhyddid yr ewyllys. Ond os yw dyn yn gweithredu heb ddyben, nid oes da na

drwg moesol yn perthyn i'w weithred. Ac yn mhellach, yn ol y farn hon, yr oedd yn amhosibl i ddyn bechu mewn un modd. Oblegid yr ydym wedi profi yn flaenorol, nas gall fod unrhyw allu anymddibynol yn y meddwl i lywodraethu yr ewyllys. Ac y maent hwy yn dyweyd nas gall dyn fod yn gyfrifol am ei weithredoedd heb fod yn feddiannol ar y gallu hwnw. Ac yn olaf, y mae gwrthwynebwyr anghenrheidrwydd moesol yn euog o ddyweyd mewn effaith nad oes sancteiddrwydd yn y nef, ac nad oes pechod yn uffern. Nis gellir cynnwys y meddwl am foment fod yn bosibl i Dduw beidio a bod yn berffaith sanctaidd. Ond yn ol eu barn hwy, y mae yr amhosiblrwydd hwn yn anghyson â rhinwedd. Rhaid iddynt gredu hefyd fod yr angylion a'r saint yn y gogoniant o anghenrheidrwydd bellach yn rhwym o barhau yn eu cyflwr o berffeithrwydd, a bod y damnedigion yn uffern dan anallu moesol i garu Duw. Ond yn ol eu barn hwy, y mae anallu moesol i bechu yn diddymu sancteiddrwydd, ac y mae anallu moesol i wneuthur da yn diddymu pechadurusrwydd.

Yn awr ni a welwn fod yr Arminiaid er myned oddi amgylch trwy y drain a'r dyrysni a thros y rhagfuriau i geisio dianc o afael yr anhawsdra, yn gorfod aros yn y diwedd ar lan yr un dyfnder, sef dechreuad drwg moesol. Nid oes dim yn fwy amlwg pan edrychom o'n hamgylch, na bod gwahaniaeth rhwng daear ac awyr; ond wrth edrych tua'r terfyngylch ar ddiwrnod niwlog, mae yn amhosibl dyweyd pa le y mae y naill yn dechreu a'r llall yn dybenu. Er hyny yr ydym yn gwybod fod y gwahaniaeth yno mor wirioneddol ag ydyw yma, ac yr ydym yn gwybod hefyd i raddau pa beth yw y gwahaniaeth hwnw. Felly nid oes dim yn fwy sier na bod gwahaniaeth hanfodol rhwng amherffeithrwydd naturiol ac amherffeithrwydd moesol: ond os awn i geisio olrhain y "pa ham a'r pa fodd," nis gellir dyweyd pa le y mae amherffeithrwydd naturiol yn dybenu, ac amherffeithrwydd moesol yn dechreu. Ar yr un pryd mae yn anghenrheidiol i ni ddeall yn mha beth y maent yn gwahaniaethu, ac yn mha beth y mae ein hanallu ninnau i amgyfired y "pa ham a'r pa fodd" yn gynnwysedig. I'r dyben hyny yr wyf yn cynnyg yr hyn a ganlyn yn ostyngedig i sylw y darlleneydd; ond dymunaf iddo ystyried nas gellir gwneyd dim tebyg i gyfiawnder a'r pwnc yn y fan hyn o ddiffyg lle.

Y mae pechadurusrwydd dyn yn gynnwysedig yn agwedd ei deimladau eneidiol. Fe allai nad yw y gair *teimladau* yn hollol ddifai; ond nid wyf yn gwybod yn bresennol am un mwy addas heb fyned i ffurfio geiriau ansathredig. Gellir rhanu holl agweddau y meddwl yn ddau

ddosbarth, sef y deall a'r teimladau (*intellect and emotions*). Dyma yr hyn a olygir pan y sonir yn gyffredin am y gwahaniaeth rhwng y pen a'r galon : ac y mae yn ymddangos i mi fod yn rhaid i ni edrych am wreiddyn moesoldeb yn y dosbarth olaf, sef y galon neu y teimladau. Nid oes neb wedi ysgrifenu mor oleu ar ryddid yr ewyllys â Jonathan Edwards ; ac yr wyf yn cydnabod fy mod yn fwy dyledus iddo ef nag i neb arall am gymhorth i ysgrifenu hyn o draethawd. Ond fe allai nad yw y gwr enwog hwnw wedi bod mor ofalus ag y byddai ddymunol i gadw y gwahaniaeth uchod mewn golwg. Y teimladau ydyw enaid yr enaid : ac fel y mae'r meddwl yn llywodraethu y corff, er ei fod yn derbyn ei holl ddefnyddiau i weithredu arnynt trwy y corff ; felly y mae y teimladau yn llywodraethu y deall, er mai trwy y deall y maent yn derbyn y defnyddiau ar ba rai y maent yn gweithredu. Nis gall y deall bechu ond mor bell ag y mae yn cael ei lywodraethu gan y teimladau : a pha ddrwg a ewyllysir neu a weithredir gan ddynd, os bydd hyny yn tarddu oddiar ddiffyg deall, nis gall yr ewyllys neu y weithred hono fod yn ddrwg moesol ond yn ddrwg naturiol, oni fydd y diffyg hwnw yn y deall yn tarddu oddiar ryw fai yn y teimladau. Ac yn mhellaach, mae yn amhosibl i'r deall gyfeiliorni na chamsynied yn y cyflawniad o'i swydd, mor bell ag y mae y wybodaeth yn cyrhaedd yn ol pa un y mae yn gweithredu. Pan yr ydym yn camfarnu, yr ydym yn gwneuthur hyny am nad oes digon o dystiolaeth (*evidences*) dan olygiad y deall yr amser hwnw. Y mae iawn ystyriaeth o hyn yn ein galluogi i ateb y gofyniad, Pa fodd y mae dyn yn gyfrifol am ei farn ? Rhaid addef fod y deall dan rwymanau naturiol i farnu yn ol y graddau o ddefnyddiau gwybodaeth sydd gerbron y meddwl : a phe meddyliem fod un yn camfarnu ar ol pob ymdrech i gael allan y gwirionedd, nid yw ei gamfarn ef yn feius ; a phe meddyliem fod un arall yn dygwydd barnu yn iawn heb wneuthur un ymdrech i gael allan y gwirionedd, nid yw ei uniawn farn yn ganmoladwy mewn ystyr foesol. Ond y mae yn rhaid i ni gredu hefyd fod y Creawdwr wedi rhoddi digon o foddion gwybodaeth o fewn cyrhaedd pawb, nes ydynt oll yn ddiestigus : ac nid ydynt yn euog am eu camfarn ond mor bell ag y mae diffyg ewyllysio yn rhwystro y deall i dalu sylw dyledus i'r moddion gwybodaeth sydd o fewn eu cyrhaedd ; ac y mae y diffyg hwn yn yr ewyllys yn deilliaw oddiar ryw fai yn agwedd y teimladau. Yr un modd, y mae yn rhaid i ni olygu fod cyfrifoldeb dyn am weithrediadau ei gorff yn tarddu oddiar yr un gwreiddyn a'i

gyfrifoldeb am weithrediadau ei ddeall. Yr ydym yn gyfrifol i'r ddeddf foesol am agwedd ein teimladau encidiol ynddynt eu hunain ; ond nid ydym yn gyfrifol am ein barn na'n gweithredoedd ond mor bell ag y maent yn tarddu oddiar agwedd ein teimladau.

Felly ni a welwn yn gyntaf, mai nid gwaith dyn yn ewyllysio pechu a'i gwnaeth yn bechadurus. Ffolineb o'r mwyaf fyddai dyweyd mai am ei fod yn ewyllysio bod yn falch ac yn anghrediniol yr aeth efe yn falch ac yn anghrediniol. Yr oedd ei deimladau neu ei galon yn bechadurus yn y lle gyntaf, ac wedi hyny yr oedd yn rhwym o ewyllysio yn bechadurus. Ni a welwn hefyd yn ail mai nid camfarn na diffyg deall a'i gwnaeth yn bechadur. Pe buasai yn camfarnu o ddiffyg moddion gwybodaeth, ni fuasai hyny ond drwg naturiol ; ac os darfu iddo gamfarnu am nad ewyllysiodd dalu sylw dyledus i'r moddion hyny, yna yr oedd pechod yn gyntaf fel achos o hyny yn agwedd ei deimladau. Y mae yr Arminiaid yn gyffredin o blaid y farn gyntaf ; ac y mae y rhan fwyaf o amddiffynwyr anghenrheidrwydd moesol yn ymddangos fel pe baent yn dal y farn olaf. Ond mae yn amlwg fod y ddwy ochr yn rhoddi yr effaith yn lle yr achos. Nis gallasai dyn ewyllysio pechu, ac nis gallasai gamfarnu yn bechadurus oni bai fod agwedd ei galon yn feius cyn hyny.

Yn awr y gofyniad yw, Pa fodd y daeth y teimladau i fod yn feius ? Pa fodd y daeth pechod i mewn i'r galon ? Y mae rhai o'r awdwyr goreu * yn barnu fod yr egwyddor foesol a elwir cydwybod yn cael ei ffurfio yn y meddwl oddiar gydgyfarfyddiad achosion naturiol, trwy rinwedd y gallu hwnw a elwir *Association of Ideas*. A phaham nas gallwn gredu fod tuedd foesol bechadurus yn cael ei ffurfio yn yr un modd ? Nid yw lle yn caniatáu i ni ymhelaethu ar y mater hwn yn bresennol ; ac fe allai na fyddai hyny o un dyddordeb i'r darllenwyr yn gyffredinol. A phe buasem yn gwneuthur hyny nis gallasem ond yn unig brofi y pwnc, trwy ddangos fod yn ddichonadwy i hyny gymeryd lle. " Pa fodd " y mae y gallu uchod yn gweithredu er creu tueddiadau moesol yn y meddwl nis gallwn amgyffred : ond yr ydym mor analluog i amgyffred pa fodd y mae yr enaid yn gweithredu mewn dim, megys derbyn syniadau trwy y corff, cofio y syniadau hyny, ac ymresymu oddiwrthynt.

Os gofynir eto " pa ham " y goddefodd Duw i bechod ddyfod i'r byd yn y dull a grybwyllwyd, yr ydym yn ateb fod pechadurusrwydd pob gweithred yn tarddu, fel y dywedwyd, oddiar agwedd teimladau y gweithredydd. Ac nis gellir ei olrhain yn mhellaach yn ol ; oblegid y

* Gwel SIR JAMES MACKINTOSH'S *Dissertation in the Encyclopædia Britannica*.

mae pechadurusrwydd y teimladau yn gynnwysedig yn natur y teimladau, ac nid yn yr achos. Pe priodolem bechadurusrwydd y teimladau i'r achos a barodd iddynt fod felly, ac nid i natur y teimladau eu hunain, byddai raid i ni ei symud yn ol drachefn i ryw achos arall a barodd i'r achos hwnw fod felly. Ac er olrhain pechadurusrwydd y teimladau yn ol o'r naill achos i'r llall, byddai raid i ni benderfynu wedi'r cwbl ei fod yn gynnwysedig yn *natur* rhyw achos dechreuol. Mae yn wir nas gallwn ni yn wirfoddol achosi ein cydgreddur i gyflawni gweithred bechadurus heb fod yn euog trwy hyny; oblegid nis gallwn wneuthur hyny heb fod ein dybepion yn ddrwg. Ond nis gellir dyweyd ein bod yn euog o bechadurusrwydd y weithred a achosir. Y mae pechadurusrwydd y weithred yn tarddu oddiar agwedd teimladau y gweithredydd; ac y mae ein pechadurusrwydd ninnau wrth ei hachosi yn tarddu yn unig oddiar agwedd ein teimladau ninnau. Ië, yr oedd hyd yn nod y diafol yn hollol ddieuog o bechadurusrwydd trosedd cyntaf dyn. Nid oedd efe yn gyfrifol ond yn unig am ei ddrwg ddybenion ei hun wrth ei demtio. Felly er ein bod yn barnu fod Duw yn llywodraethu meddyliau dynion yn y modd mwyaf manwl; eto anfeidrol bell oddiwrthym ydyw meddwl na dyweyd ei fod ef yn euog o bechadurusrwydd eu gweithredoedd. Fel y dywedwyd nis gellir olrhain pechadurusrwydd unrhyw weithred yn ol yn mhellach na'r gweithredydd. Ac heblaw hyny, y mae ei ddybenion ef yn y cwbl yn berffaith ddoeth a da, er nas gallwn ni yn awr eu hamgyffred.

Bellach mi feddyliwn y gallwn benderfynu fod ein hanallu i amgyffred "pa fodd" y daeth pechod i'r byd, yn tarddu oddiar ein hanallu i amgyffred holl weithrediadau yr enaid. Ac y mae ein hanallu i amgyffred "pa ham" y daeth pechod i'r byd yn tarddu oddiar ein hanallu i amgyffred holl ddybenion Duw. Y maent yn berffaith eglur iddo ef, ac nid oes neb ond efe a all eu cynnwys. Y mae rhyfeddodau aneirif uwchlaw ein gwybodaeth ni yn anian a gweithrediadau yr abwydyn gwaelaf sy'n ymsymud yn llwch y ddaear; a pha fodd y gallwn amgyffred cyngor a ffyrdd y Duw anfeidrol, yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod.

ADOLYGIAD PREGETHAU

Y DIWEDDAR BARCH. D. CHARLES O GAERFYRDDIN.*

GWELWN werth yr argraffwasg. Oni buasai hon ni fyddai yr oes nesaf yn gwybod ond ychydig am un o'r dynion mwyaf a fagodd Cymru, a buasai y trysorau gwerthfawr a lanwent ei feddwl eang wedi eu claddu flynyddoedd o'i flaen. Ond yn y pregethau hyn y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto. Y mae ysbryd Charles o Gaerfyrddin, yn awr yn y nef, a'i ran farwol mewn dystawrwydd; ond er hynny ni a allwn gymdeithasu ag ef yn ei waith. Yma ni a'i gwelwn, nid o ran ei gorff mae yn wir, na'i enaid chwaith, ond o ran agwedd ac ansawdd ei feddwl. Ni a'i clywn ef yn ymddyddan heb gyfrwng ymadrodd; ac nis gall y parlys poenus, nac angeu ei hun, ei rwystro mwy i bregethu yn ddoniol i lawer lliosocach tyrfa nag a fyddai yn arferol o wrandaw arno yn ei fywyd.

Mewn cysylltiad â'r argraffwasg, gwelwn hefyd werth y gelfyddyd o ysgrifenu. Fel y mae y cyllun oedd yn meddwl y Creawdwr mawr wedi ei gyflawni yn nghreadigaeth y bydoedd gweledig, felly y mae efe hefyd wedi dysgu ei greaduriaid mewn rhyw ystyr i rhoddi bod a bywyd i'w drych-feddyliau hwythau mewn ysgrifen. Ac nid hynny yn unig, ond fe'n dysgodd hefyd i werthfawrogi y wybodaeth hon trwy roddi i ni ei air yn y Bibl. Trwy y ddwy gelfyddyd o ysgrifenu ac argraffu y mae yr oesoedd a'r ynysoedd pellaf wedi eu dwyn i'r agosrwydd mwyaf; ac y mae dyn meidrol yn gallu bod o ran ei feddwl yn bresennol mewn miloedd o wahanol fanau ac mewn gwahanol wledydd ar unwaith. Rhyfedd fel y mae pethau agos yn cael mwy o effaith arnom nag y mae pethau mwy eu pwys os byddant yn mhellach oddiwrthym. Dyma yr achos fod rhai dynion yn cyfrif areithio yn gymaint mwy peth nag ysgrifenu. Y mae effeithiau areithyddiaeth yn bethau a welir ar unwaith; ond y mae yr argraffwasg yn gweithredu yn ddirgelaidd, ac am hynny y mae llawer yn methu canfod ei gwerth. Nid

* O'r "DRYSORFA," am 1837, 1838.

yw hyn yn dangos dim ond gwendid meddwl; oblegid mae yn ddiammheu mai dyma y gallu cryfaf, er da ac er drwg, sydd heddyw yn Mhrydain. Ar yr un pryd, y mae yn anghenrheidiol ystyried na wna yr argraffwasg ddim heb allu hefyd yn yr ysgrifenydd. Y mae yn gofyn meddwl cryf cyn y gellir trin y peiriant hwn. Nid oes dim cyffelyb iddo am brofi dynion. Y mae fel bwa Gwilym y Conquerwr; rhaid cael braich gadarn i dynu ynddo. Y mae llawer un o feddwl bychan yn medru symud ei dafod mor lithrig ac yn ei tharo mor chwyrn yn erbyn tafod ei enau, nes y mae y werin anwybodus yn edrych arno bron yn gymaint areithiwr a Demosthenes. Ond y cyrff gwacaf yn fynych sydd yn gwneyd y swm mwyaf. Os ydych am ei brofi gofynwch iddo, a fedr efe dynu yn y bwa hwn? Y mae pob dyn sydd yn berchenog ar feddwl mawr yn medru dangos hynny yn ei ysgrifeniadau. Dyma reol heb un eithriad. Hyd yn nod pe bai presennoldeb y corff yn wan yn ngolwg dynion enawdol, a'r ymadrodd, yn eu barn hwy, yn ddirmygus, eto y mae y llythyrâu, neu yr ysgrifeniadau, yn wir yn drymion a chryfion. Un felly oedd yr Apostol Paul, ac un felly oedd Charles o Gaerfyrddin.

Beth sydd yn gwneyd pregethwr poblogaidd? Dyma beth ag y mae yn haws ei ofyn na'i ateb. Ond gallwn fod yn sicr o hyn, fod gwahaniaeth hanfodol rhwng bod yn bregethwr poblogaidd a bod yn bregethwr mawr. Na chamgymerer ni. Nid ydym yn dyweyd nad yw y ddau yn cydgyfarfod weithiau yn yr un person. Y mae rhai yn bregethwyr poblogaidd ac yn bregethwyr mawr hefyd. Ond yr ydym yn dyweyd hyn, ac ni a safwn ato; y gall dyn fod yn bregethwr mawr, i.e. yn un o'r rhai mwyaf, yn ngolwg y cyffredin, ac heb fod yn fawr mewn gwirionedd; ac y gall, o'r tu arall, fod yn fawr mewn gwirionedd, ac yn ddiystyr yn ngolwg y cyffredin. Nis gall pob dyn synwryol lai na chredu y gosodiad cyntaf pan feddyllo am lawer o'r rhai sydd yn boblogaidd yn ein dyddiau ni; ac fel prawf o'r gosodiad olaf nid oes achos i ni grybwyll am neb ond awdwr hybarch y pregethau hyn. A pha fodd y gall pethau fod yn amgen pan y mae archwaeth y wlad mor isel? Na feddylid neb wrth hyn ein bod yn diystyru ein cydgenedl. I'r gwrthwyneb, pe cymerid dwsin o'r Cymry ar antur, a'u profi mewn pynciau crefyddol gyferbyn a'r un nifer, wedi eu dewis yn yr un dull, o blith ein cymydogion y Saeson, nid ydym yn credu y safai plant Hengist bum' mynyd o'u blaen. Ac na feddylid neb chwaith ein bod yn dirmygu tlodi: oblegid y mae yn ddiâu genym fod cymaint o wybodaeth ysgrythyrol

yn mhlith y tlodion ag sydd yn mhlith ein boneddigion ; a rhyngot ti a ninnau, ddarllenydd, nid ydym yn amheu nad oes mwy. Ond er y cwbl, y mae yn rhaid addef fod ysbryd barn yn hynod o brin yn mhlith pob gradd. Y mae yn hysbys i gyfeillion y diweddar Ebenezer Richards, mai un o'r pethau oedd yn achosi y gofid mwyaf i'w feddwl yn ei ddyddiau olaf, oedd archwaeth lygredig gwrandawyr efengyl. "Byddaf yn aml," medlai y gwr mawr hwnw, "yn cael fy ngofidion yn drwm, wrth ymweled a'r eglwysi yma a thraw, pan y byddaf yn clywed dynion ag y gellid dysgwyl gwell pethau oddiwrthynt, yn canmol rhyw sothach gwag ag yr oedd yn gywilydd i neb ei gyhoeddi allan o'r arcithfa."

Y mae y rhan fwyaf o'n darllenwyr, mae yn debyg, wedi clywed yr hanes canlynol. Yr oedd un oedd yn bregethwr tra phoblogaidd yn ei ddydd yn pregethu ryw Sabboth mewn tref yn Neheudir Cymru, lle yr oedd hen flaenor parchus yn gwrandaw arno, yr hwn oedd yn medru barnu drosto ei hun. Ac ar ol diwedd yr odfa bu ymddyddan rhyngddynt yn debyg i hyn. "Mi fum yn meddwl," eb y blaenor, "fod yr oes hon wedi dyfod yn lled oleu ; ond yr wyf erbyn heddyw wedi fy argyhoeddi o'm cyfeiliornad." A pha beth sydd yn peri i chwi feddwl yn wahanol yn awr ? Ebe y gwr poblogaidd. "Wele, mi ddywedaf i chwi. Yr oedd Mr. Charles o Gaerfyrddin, gyda ni wythnos i heddyw ; ac fel arferol, yr oedd pob gair a ddywedodd yn debyg i aur pur ; ond nid oedd y capel ddim hanner llawn. Ond heddyw daethoch chwithau yma i adrodd hen ystorïau gwag, ac i floeddio pentwr o ffolineb, ac nid oedd digon o le i gynnwys y gwrandawyr. Onid yw hyn yn dangos fod y wlad yn dywyll iawn eto ?" Yr oedd y dywediad yma yn llym, mae yn wir ; ond nid oedd yn rhy llym yn yr amgylechiad hwn.

Pe meddylïem am ansawdd y cyffredinolrwydd o wrandawyr efengyl yn y dyddiau hyn, pa fath ddyinion ydynt ? Dynion sydd yn sylwi ar swm yn fwy nag ar sylwedd. Dynion sydd a'u clustiau mewn ysfa wastadol. Dynion sydd yn rhedeg i wrandaw y pregethwr poblogaidd oddiar yr un egwyddor ag y rhedant dranoeth i weled ystranciau y *monkey* neu y *mountebank* ar ben flair. Ac eto wrth fwynhau canmoliaeth y cyfryw, rhyfedd fel y gwelir ambell un yn penfeddwi. Rhyfedd fel y mae yn ymgodi, ac yn ymledu, ac yn ymchwyddo ; nes y mae rhai a *ddylent* wybod gwell pethau yn synu fel asynod, ac eraill *sydd* yn gwybod gwell pethau yn tewi, rhag ofn cael eu cyhuddo o genfigen. Ond nid hir y parhâ enwogrwydd wedi ei sylfaenu ar anwybodaeth. "A

gasgler ar farch malen dan ei dŵr ydd â," medd yr hen ddiareb. Gall y bŵgen geisio addurno ei hun â phlu y paen, ond nid hir y byddis heb ei hadnabod! Ni a welsom weithiau ambell greadur asgellog, wedi ei fagu yn mbyllfa'r gwyddau, yn ymddangos fel pe buasai wedi cymeryd yn ei ben i gredu mai efe oedd brenin yr adar. Pa beth a'i cynhyrfoedd i feddwl hyny, mae yn anhawdd gwybod. Ond dywedwch a fynoch, daew fe yn deg ar ei adenydd. Rhaid ei fod yn meddwl ymweled â Jupiter neu Saturn cyn dychwelyd. Anferthol! fel y mae mab yr wydd yn ymestyn ac yn ysgrechian; ac aruthrol yw y bonllefaeu o gymeradwyaeth sydd yn dyspedain trwy wlad y gwyddau, wrth weled eu pen-campwr yn ysgwyd ei esgyll afrosgo oddeutu pedair troedfedd a hanner uwchlaw y ddaear—nes o'i diwedd y mae yn syrthio yn swrth ac yn sŷn ar ei domen enedigol.

Dyma ddesgrifiad rhy gywir o yrfa llawer un a gyfrifid yn fawr gan y cyffredin. Ond mor wahanol i hyn oedd Mr. Charles. Efe ydoedd eryr cryf, cadarn, yn gallu esgyn heb ddim gorchest i entrych y ffurfafen, ac yn ehedeg mor uchel nes yr oedd trwy hyny yn bychanu ei hun yn ngolwg y werin. Yr oedd llawer yn barod i feddwl wrth edrych arno nad oedd ddim yn amgen nag aderyn y tô, heb ystyried mai eu pellder hwy oddiwrtho oedd yr achos na fedrent weled ei fawredd.

Cymaint a hyn am bregethwyr y dynion anghall. Ni a drown bellach at y rhai sydd yn fawr mewn gwirionedd. Y mae dau gymhwysder naturiol yn anghenrheidiol i wneyd pregethwr yn fawr yn ngolwg y call a'r anghall ar unwaith. Y cyntaf yw dawn i lafurio am y pethau goreu i'w dyweyd; a'r ail yw dawn i ddyweyd y pethau sydd ganddo fel pe byddent y pethau goreu. I'r graddau y byddo pregethwr yn rhagori yn yr ail o'r pethau hyn, i'r graddau hyny y mae yn fawr yn ngolwg y werin. Ond yn marn pob dyn synwrol, y mae y cyntaf yn fwy ei werth na'r ail yn gymaint ag y mae y meddwl yn rhagori ar y corff. Y mae rhai pregethwyr heddyw yn mhilith y Cymry yn meddu ar bob un o honynt i raddau helaeth. Ond y mae yn debyg mai yehydig fu erioed yn y byd yn *blaenori* yn y ddau. Pe goddefid i ni fwrw golwg am fynyd ar areithwyr seneddol; yr oedd Pitt, a Fox, a Sheridan yn enwog am y peth a eilw y Saeson "*the gift of the gab*;" ond addefir yn gyffredin erbyn heddyw nad oedd un o honynt yn gymaint dyn ag Edmund Burke, yr hwn nid oedd fawr o sôn am dano fel areithiwr. Ond i ddychwelyd at y rhai hyny a gysegrasant eu talentau at waith mwy na neb o'r gwyr uchod.

Yn mhllith y rhai a fuont yn enwog am yr ail beth a nodwyd, gellir euwi Saurin, Massillon, Whitefield, ac fe allai y diweddar Mr. Irving, yr hwn yn ddiau oedd yn areithiwr mawr, er fod llawer o'i boblogrwydd yn tarddu oddiar achosion eraill. Ond ni a feddyliem nad oes neb a ddywed fod y rhai hyn yn haeddu eu cyffelybu o ran äangder meddwl i Owen, a Howe, ac Edwards o America, a Charles o Gaerfyrddin. Na ryfedda, ddarllenydd hynaws, ein bod yn rhestru un o bregethwyr y Methodistiaid gyda y "tri chedyrn" uchod. Yr oedd y diweddar Mr. Howells o Long Acre, yn cael ei gyfrif gan bawb a'i hadwaenai yn un o'r beirniaid gorou mewn duwinyddiaeth, a byddai efe yn arfer dyweyd mai Mr. Charles oedd y duwinydd mwyaf yn ei oes. Nis gellir gwadu fod llawer yn rhagori arno mewn dawn areithio. Er ei fod yn dyweyd y pethau mwyaf, eto anaml y byddai yn eu dyweyd fel pe byddent y pethau mwyaf. Ac yn wir, pan yr oedd ganddo y fath gyflawnder o drysorau, nid rhyfedd ei fod yn taflu perllau oddiamgylch fel pe byddent geryg y maes. Ond y mae mor wir fod llawer oblegid hyny yn methu gweled nad ceryg oeddynt.

Ond, fel y crybwyllwyd eisoes, nid yw y dull o ddyweyd ddim ond y plisgyn. Yr hyn sydd yn hanfodol i wneyd pregethwr mawr yw meddu ar bethau i'w dyweyd. A dyma lle yr oedd Mr. Charles yn rhagori. Ond cyn y gallasai gyrhaedd y tir hwn, mae yn rhaid ei fod a ran ei ysbryd mewn gweddïau a myfyrdodau yn poeni llawer yn y gair a'r athrawiaeth. Nid ydym yn petruso dyweyd y gallasai hanner pregethwyr Cymru fod yn well pregethwyr o lawer oni bai diogi ysbryd. Gwyn ein byd pe tueddid rhai, wrth ddarllen y pregethau hyn, i ddysgu meddwl. Nid segurwr oedd Charles, Caerfyrddin, ond gweithiwr, a gweithiwr difefl hefyd: nid *Dandy Preacher*, ac nid un o'r *Downy Doctors*, ond un yn cloddio i berfeddion yr Ysgrhythrau, ac yn dwyn allan oddiyno bethau newydd a hen: nid un yn poeni yn unig yn *nghylch* y gair, ond un yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth: nid un yn morio rhwng y creigiau, ac yn agos i'r traethydd, ond un a anturiodd i ganol y cefnfor; ac nid un yn hwylio yn unig lle y bu eraill o'i flaen, ond un a ddarganfyddodd yn yr hen athrawiaeth ddrychfeddyliau newyddion mwy gwerthfawr na mwngloddïau Mexico, a mwy prydferth nag Ynysoedd Môr y De. Er hyn i gyd nid oedd neb yn fwy dirodres. Nid oedd dim yn ei ddull fel yn dyweyd wrth ei frawd, "Eistedd di yna wrth fy stol-droed i." Nid oedd dim *mawredd gosod* yn perthyn iddo. Mor agos ac anwyl y byddai yn ymddyddan â'r cristion gweraf am ei

brofiad. Hyd yn nôd yn ei bregethau, pa bryd y clybuwyd un hen wraig dduwiol ac ysbrydol yn cwyno ei bod yn methu ei ddeall. Ac yn y fan yma ni a adroddwn hanesyn bychan. Yr oedd Mr. Charles mewn rhyw ardal yn Sir Gaerfyrddin yn ymddyddan â mam yn Israel, yr hon oedd braidd yn achwyn ei fod mor ddeieithr. A oes dim modd i chwi ddyfod yma yn amlach, meddai yr hên wraig; oblegid rhaid i mi ddyweyd, os cefais ddim o'r nefoedd erioed, i mi gael peth trwy eich pregethau chwi. "Y mae y gwin yna yn gryf iawn, meddai yntau; a fyddwch chwi yn yfed llawer o hono at y pregethwyr ieuaine sydd yn dyfod yma?" Na fyddaf fi, Mr. Charles, meddai hithau, ac ni buaswn yn yfed dim o hono atoch chwi, oni bai fy mod yn gwybod fod eich pen yn ddigon cryf i'w ddal. Uniawn y barnodd. A dyma un o'r arwyddion sicraf o fawredd ei feddwl. Nid oedd neb yn fwy cymeradwy gan y saint, ac nid oedd neb yn fwy isel yn ei olwg ei hun. Medrai ehedeg yn uchel yn nghanol ffurfafen yr eglwys, a medrai ddisgyn gyda yr un rhwyddineb i ddyfnder profiad y Cristion. Ni fyddai byth yn erwydro allan o derfynau yr Ysgrythyr i ardaloedd gau ddychymygion a gwâg dwyll. Yn ei ehediadau uchelaf, nid dangos ei hun oedd ei amean; ond cyrchu danteithion sylweddol o fynyddoedd y pâr-lysiau i adfywio a dyddanu y rhai gwanaf yn y llwythau. Y cyfryw oedd Charles o Gaerfyrddin, a'r cyfryw y mae yn ymddangos yn y pregethau hyn. Yr ydym yn bwriadu myned rhagom ryw gyfle eto i sylwi arnynt yn fwy uniongyrchol. Yn y cyfamser nid oes genym ond erfyn maddeuant ein darllenwyr am eu cadw cyhyd gyda phethau rhagbarotcawl.

A ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Mynych yr ydym wedi cyfarfod â gofyniad tebyg i hyn wrth ymddyddan â'n brodyr y Saeson. Anghyffredin fel y maent yn tosturio wrth ein hanwybodaeth. Braidd yr addefant fod y Cymry druain yn meddu ar gynneddau naturiol fel dynion eraill. Ond hawdd iawn y gallwn hebgor eu canmoliaeth a ninnau yn gwybod ein bod yn y pethau mwyaf eu pwys yn rhagori arnynt fil o weithiau. Gyda golwg ar enwogrwydd gwladol, nis gellir ffurfio barn gywir am danom; oblegid nid oes modd i Gymro fel Gymro gael lle i lafurio yn y maes hwn. Yr unig dir teg i wneyd

cymhariaeth rhwng y ddwy genedl yw mewn pethau crefyddol. Yn y fan yma eto y mae ganddynt hwy lawer gwell manteision nag sydd genym ni. Ond gadewch iddynt; y mae genym ninnau gystal cyfieithiad o'r Bibl ag sydd ganddynt hwythau: ac o ran ei ddeall a'i ddefnyddio, nid oes arnom ofn dyweyd mai gwell yw lloflïad grawnwin Cymru na chasgliad grawnwin Lloegr.

Yr ydym wedi bod yn gwrandaw y rhan fwyaf o bregethwyr y Saeson ag y mae dim son am danynt; ac y mae yn rhaid i ni dystio nas gall y Cymry fod yn waelach yn eu golwg hwy nag ydynt hwy yn ein golwg ninnau. Nid ydym yn sier fod mwy na dau bregethwr gwir fawr wedi codi yn yr oes hon allan o Gymru; a'r ddau hyny yw Robert Hall a Dr. Chalmers. Y mae craill megis Jay o Bath, Parsons o York, a James o Birmingham, yn meddu doniau hynod o felus ac adeiladol; a diammheu fod Dr. Pye Smith wedi casglu yn nghyd lawer iawn o ddyrsgidiaeth; ond nis gellir dyweyd fod neb o honynt oddieithr y ddau uchod yn perchen yr hyn a eilw y Saeson, *genius*. Y mae rhyw ychydig heblaw hyn wedi cyrhaedd y ganolradd, ac fe allai, gydag amser, y gwelir hwy yn yr uchelradd. Ond am y lleill, y doraeth hyd yn nod o'u pregethwyr mwyaf parchus, beth bynag a ddaw o honynt, nid rhaid iddynt ofni yr ant byth yn waelach nag ydynt; oblegid y maent eisoes wedi cyrhaedd perffeithrwydd yn y gelfyddyd o ddyweyd ychydig mewn llawer. Os oes neb o'n darllenywyr yn barnu yn wahanol darllened un o'u pregethau yn y *Pulpit* neu y *Preacher*, ac os gall wneyd hyny heb hepian ni a gytunwn i alw ein geiriau yn ol, ac nid cyn hyny.

Nid yw yn anhawdd esponcio o ba le y mae y gwahaniaeth hwn rhwng y ddwy genedl yn tarddu. Ti a wyddost, ddarllenydd, neu o leiaf ti a ddylit wybod, fod achos i bob effaith. A'r achos o hyn yw, fod firwd y meddwl cyffredin yn Lloegr yn rhedeg ar *novels*, *politics*, a phrydyddiaeth. Ar y pethau hyn y mae bron yr holl ddawn a'r athrylith sydd yn eu plith yn cael eu gwastraffu. Dyma ffaith anwadadwy. A gall y neb a fyno gael prawf o hyn wrth gymharu eu hysgrifeniadau, yn enwedig eu cyhoeddiadau cyfnodawl. Y mae yr ysgrifenydd treiddgar hwnw, John Foster, wedi cyfansoddi traethawd i ddangos "yr achosion fod cyn lleied o archwaeth mewn dynion athrylithgar at athrawiaeth yr efengyl." Nid ydym yn dyweyd ein bod yn cydfyned â phob un o'i resymau; ond y mae ei waith yn ysgrifenu ar y pwne yn profi ein gosodiad. Aros ychydig bach, ddar-

llenydd mwyn ; ni a ddygwn yr ymresymiad hwn i derfyniad yn union bellach. Ti a weli mor amlwg a'r haul mai gwehilion y Saeson, yn gyffredin, o ran dawn a chymhwysderau naturiol sydd yn meddwl am y weinidogaeth. Ond yn Nghymru, drwy drugaredd, y mae yn hollol i'r gwrthwyneb. At wrandaw neu draddodi pregethau y mae y genedl yn gyffredinol yn tueddu, neu fel y dywed ambell ŵr ieuanc y dyddiau hyn, yn tueddbenu. Ac yn ol yr hen ddywediad, " yn mhob gwlad y megir glew " : ac nid yn unig yn mhob gwlad, ond yn mhlith pob graddau. Os oes anghyfartalwch yn bod, y mae yn ddiâu fod y rhagoriaeth o du y graddau iselaf.

Yn awr y canlyniad naturiol yw, fod llawer mwy o ddynion doniol yn bregethwyr yn Nghymru nag yn Lloegr. Dyma i ti anghraifft, ddarllenydd, o'r hyn a eilw y dysgedigion yn ymresymiad *a priori*. Pe na buaset wedi clywed na gweled pregeth erioed gan Gymro na Sais ; eto os wyt yn deall fod dau a dau yn gwneyd pedwar, y mae yn hawdd i ti gael allan ar ba ochr y mae y rhagoriaeth yn rhwym o fod yn ol natur pethau. Nis gellir gwadu, fel y dywedwyd yn ein hysgrif flaenorol, fod llawer yn esgyn areithfaoedd gyda ninnau at ba rai y gellir cymhwyso y rhan gyntaf o brophwydoliaeth yr hen batriarch am ei fab Isaachar ; ond nid ydynt yn agos mor ddigymysg felly ag y gwelir hwy yn mhlith ein brodyr y Saxoniaid.

Ond pa gysylltiad, medd rhyw un, sydd rhwng hyn i gyd a'r testun ? Wele, cymer bwyll, anwyl gyfaill, a thi ganfyddi ein bod yn ergydio mor gywir at y nod, er nad a'n llaw chwith, a phe buasem o deulu y Benjamiiaid. Nid ysgrifenu toeyn canmoliaeth i neb, nae er mwyn neb, yw ein gwaith. Nid ydym yn dysgwyl nac yn dymuno i'n darllenwyr gymeryd ein barn ni fel rheol. Ein dyben yw dysgu ein cydwladwyr hoff i farnu drostynt eu hunain mewn perthynas i bregethau a phregethwyr : ac yna y mae yn ddiammheu genym y rhoddir un o'r lleoedd blaenaf yn meddyliau pawb o honynt i Charles o Gaerfyrddin ; ac y rhoddir y derbyniad gwresocaf i'w bregethau. Er ein gofid yr ydym yn gorfod cyfaddef, er fod ganddynt lawer o zel, ac er fod y zel hono yn cael ei chyfeirio at y pethau mwyaf canmoladwy, ac er ein bod yn credu yn ddiragrith ei bod yn zel Duw, eto yn fynych nis gellir dyweyd ei bod ar ol gwybodaeth. Er cymaint eu breintiau, y mae yn rhaid dyweyd y gwir—nid yw llawer o honynt ddim gwell na phiantos yn bwhwman. Megys mai nid wrth ei big y mae adnabod cyfflog, felly hyd yn nod yn Nghymru hyd yma nid wrth ei boblog-

rwydd y mae adnabod pregethwr. Yn mhlith plant gwragodd ni chododd neb mwy na Charles o Gaerfyrddin, er dyddiau yr Apostolion. Nis dywedwn na chododd rhai cymaint; ond nid neb mwy. Ac eto, yn ei fywyd mor ddibris oedd ei weinidogaeth mewn cymhariaeth i lawer o'i frodyr y rhai nid oeddynt deilwng i gael eu henwi yr un diwrnod ag ef. Ac yn awr ar ol ei farwolaeth, yr ydym yn camsynied yn mhell os na fydd y rhan fwyaf o'r rhai a fedrant frygawthan tipyn ar yr "iaith nesaf atom", yn esgenluso prynu y pregethau anghydmarol hyn er mwyn gwastraffu eu harian am ryw sothach Saesneg, rhyw *namby pamby* o wlad y Cockneys. Yn yr ysgrif o'r blaen, ni a amcanem ddangos y lle sydd yn gweddu i'r Awdwr hybarch yn mhlith ein cydgenedl: ac un o'n dybenion yn yr ysgrif hon yw profi ei ragoriaeth ar y rhan fwyaf, os nid pawb o weinidogion y Saeson.

Nid oes neb o bregethwyr yr oes yn Lloegr heblaw y ddau a enwyd eisoes yn haeddu eu cyffelybu am hanner mynyd i Charles o Gaerfyrddin. Y cyntaf o'r ddau hyny yw Robert Hall. Pe dywedem am y gŵr enwog hwn, nad oedd yn ddyn o feddwl tra mawr, ac o gyrhaedd-iadau tra eang, ni a ddywedem yn groes i'n barn. Y mae athrylith yn seren yn mhob brawddeg o'i waith. Y mae ei ddrychfeddyliau tanbaid yn ymddangos mewn iaith mor dryloyw fel y maent yn debyg i "afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig." Yn y pethau hyn nid oes neb yn ei barchu yn fwy na ni ein hunain. Dirfawr yw y gwahaniaeth sydd rhyngddo a'r cyffredinolrwydd o weinidogion y Saeson. Ond i fyned rhagom, y mae gan Robert Hall ddigonedd o'r danteithion mwyaf costus ar ei fwrdd: ond wedi y cwbl y mae rhyw un peth yn ddiffygiol. Nis gallwn byth ddarllen ei waith heb gofio am y desgrifiad o'u teimladau a roddir gan y teithwyr hyny a fu yn gorfod byw mewn manau lle yr oedd amledd o bob math o fwydydd, ond heb un Vgronyn o halen o fewn yr holl wlad. Dyma yr achos o'r diffyg yr oeddym yn son am dano. Rhy fach o halen athrawiaeth gras sydd yn ei waith. Ac os nad ydym yn camfarnu, dyma ni wedi cael allan un achos ei fod mor ddiystyr o Dr. Owen. Nid ydym yn dyweyd ei fod yn gyfeiliornus ei farn. Pell oddiwrth hyny. Ond y mae yn rhaid addef nad yw athrawiaethau mwyaf sylfaenol yr efengyl yn cael cymaint o le ag sydd yn deilwng iddynt yn ei ysgrifeniadau.

Yn awr ni a drown at Charles o Gaerfyrddin. Yn ei bregethau ef y mae drychfeddyliau mor hardd ac mor ogoneddus a dim sydd yn ngwaith Robert Hall; a'r hyn sydd yn coroni y cwbl yw yr ysbryd efengylaidd

sydd yn rhedeg drwyddynt. Yma y mae ymarferiad duwiol, profiad crefyddol, ac athrawiaeth gras yn toddi yn eu gilydd. Mae yn wir nad oes cymaint o ôl celfyddyd ar y gemau aneirif sydd ganddo. Nid ydynt yn ymddangos mor llyfu oddiallan; ond beth er hynny? Y maent yn fwy gwerthfawr o ran eu maint, ac hefyd o ran eu natur yn lufewnol. Fe allai nad ydynt wedi eu gosod ychwaith mor drefnus. Y maent yn fwy tebyg i

“Orient pearls at random strung.”

Ac o gymaint a hyny, y maent yn fwy tebyg i waith y Creawdwr ei hun. Wrth ddarllen ysgrifeniadau Robert Hall, yr ydym yn cael ein harwain drwy ganol y gerddi mwyaf prydferth, ar hyd y rhodfeydd mwyaf hyfrydlawn; ond wrth ddarllen pregethau Charles o Gaerfyrddin, yr ydym yn teimlo ein hunain yn nghanol creadigaeth Duw—y creigiau cedyrn dan ein traed, y bryniau oesawl ar bob llaw, y cangder anfesurrol yn ymdaenu o'n blaen, ac yn ymestyn hyd anfeidroldeb.

Beth bynag a ddywedwyd genym am fawredd Robert Hall, ni a ddywedwn yr un peth yn fwy diysgog eto am Dr. Chalmers. Efe sydd un wedi derbyn meddwl digon galluog i dreiddio i ddyfnderoedd pob math o wybodaeth, ac y mae wedi cysegru y cwbl at wasanaeth yr efengyl. Nid oes neb yn yr oes hon wedi ysgrifreuu yn fwy llwyddiannus, nid yn unig yn erbyn anffyddiaeth, ond hefyd yn erbyn Arminiaeth. Efe yn ddiau yw un o brif amddiffynwyr y Bibl a'i athrawiaeth. Ond y mae hyn yn peri nad oes modd gwneyd cymhar-iaeth deg rhyngddo a Charles o Gaerfyrddin. Y mae llwybr y ddau yn dra gwahanol. Gwaith y naill yw ymresymu, a gwaith y llall yw traethu. Gwaith y naill yw dangos gwirionedd y Bibl, a pha athrawiaethau a gynnwysir yn y Bibl; ond gwaith y llall yw dangos pa bethau sydd yn gynnwysedig yn yr athrawiaethau hyny. Y mae gan bob un o honynt ei ffordd a'i ddull ei hun. Codwyd hwynt ar gyfer gwahanol amgylchiadau, a chafodd pob un o honynt ei ddonio yn gyfatebol i'r gorehwyl oedd ganddo i'w gyflawni. Rhy anhawdd yw penderfynu, ac nid oes achos ceisio penderfynu, pa un yw y mwyaf o honynt; ond gellir dyweyd, eu bod ill dau yn “feistriaid y gynnulleidfa,” “yn weithwyr difed, yn iawn gyfranau gair y gwirionedd.”

Yn awr, os saif y pregethau hyn o ddifffyg cefnogaeth, bydd yn warth tragwyddol, ac yn goiled anadferadwy i ni oil fel cenedl. Nid

yw eu gwerthiad yn ddim i ni yn bersonol. Ond er mwyn ein gwlad, er mwyn oesoedd eto i ddyfod, er mwyn achos crefydd, er mwyn pob peth sydd yn fwyaf anwyl a gwerthfawr yn ein golwg, yr ydym yn gobeithio, ac yn dymuno ar iddynt gael derbyniad cyffredinol.

“Beth sydd yn myned yn mlaen yn y Senedd y dyddiau hyn?” Meddai Dafydd y Gŵf wrth Gruffudd y Tyddyn du; “A oes dim sŵn am symud rhywfaint ar y beichiau trymion sydd yn attal llwyddiant y crefftwyr?” “Na, nid felly,” meddai Gruffudd, “y mae llawer mwy o angen am gyfreithiau i gefnogi amaethyddiaeth.” Dyma hi yr hen chwedd, ebe ninnau wrth eu gwrandaw. Pob un atto ei hun. *There is nothing like leather.* Awn lle y mynom, ni a gawn yr egwyddor hon yn gweithredu yn y rhan fwyaf o blant dynion. Dyma yr achos fod y fath nifer o'r philosophyddion hyny sydd yn ymgyrhaedd yn benaf am wybodaeth o gyfansoddiad y byd hwn yn barod i haeru nad oes un byd ar ol hwn. Ac o'r rhai sydd yn credu yn amgen, y mae llawer yn ymddangos fel pe byddent yn barnu mai myfyrio ar y greadigaeth fydd prif orchwyl y saint mewn dedwyddwch: i.e., y mae mwy nag un awdwr wedi myned mor bell a dyweyd na fydd athrawiaeth iachawdwriaeth ddim yn ddigon i lanw y meddwl dynol am dragwyddoldeb. Wfft i ffolineb rhai dynion. Y mae y cyfryw dybiau, nid yn unig yn ddaearol ond yn afresymol. Pe na byddem yn gwybod dim mwy yn y nef nag a wyddom ar y ddaear, eto ni a fyddwn yn gwybod digon i wneyd creadur sanctaidd yn berffaith ddedwydd yn oes oesoedd. Pwy crioed a flinodd ar unrhyw wrth-ddrych pan yr oedd cariad diragrith yn ei galon tuag atto? I'r gwrthwyneb, onid yw ein hyfrydwch yn ngwrthddrychau ein serch yn cynnyddu wrth ymgynnefino â hwynt? Ond nid dyma y cwbl. Nid yn unig y mae addasrwydd yn yr iachawdwriaeth i ennill y serchiadau; ond y mae yma ddigon i'r deall hefyd. Yma y gwelir “mawr amryw ddoethineb Duw.” Y mae ac fe fydd, yn y drefn sydd gan Dduw i achub pechadur, fwy o ryfeddodau a dyfnach dirgelion nag mewn dim arall o'i waith. Dyma i ni gynllun o honynt yn y rhifynau sydd yn awr dan ein sylw. Os oes neb yn tybied fod maes yr Ysgrythyrau yn rhy gyfyng i'w feddwl, neu ei fod wedi gweled cymaint ag sydd ynddynt,

darllened bregethau Charles o Gaerfyrddin. Caiff yma olygfeydd newyddion ar fydoedd o feddyliau, a phob un o'r meddyliau hyny yn cynnwys cymaint o ddirgeledigaethau fel na fydd dim ond tragywyddoldeb yn ddigon maith i'w cyfrif.

“Pan bwy'n rhyfeddu unpeth,
Peth arall ddaw i'm bryd,
O iachawdwriaeth rasol,
Rhyfeddol wyt i gyd.”

Dyma ni wedi disgyn o'r diwedd ar un o'r rhagoriaethau mwyaf arbenig sydd yn perthyn i'r pregethan hyn, sef eu gwreiddioldeb. (*originality.*) Dyma un o'u prif nodweddau. Yn yr ychydig o honynt sydd wedi eu cyhoeddi yn barod y mae rhai degau o ddrychfeddyliau na chlywodd ac na ddarllenodd neb o'r blaen er dechreu y byd : ac yr oedd cyfansoddi un o honynt yn fwy peth na chael y fraint o ddarganfod Uranus a'i lleuadau. Wedi eu gweled y maent yn ymddangos mor amlwg ac mor agos, nes ydym yn barod i synu pa fodd na buasem yn eu cael allan ein hunain ; ac o braidd y gallwn beidio gofidio na fuasai rhai o honynt wedi eu gadael i ninnau fod yn awdwyr o honynt. Ond un peth yw llafurio am olygiadau newyddion, a pheth gwahanol yw myned i mewn i lafur rhai eraill. Y mae cymaint o faes hollol newydd yn y gair i ti, ddarllenydd, ag oedd i Charles o Gaerfyrddin ; ond y gwirionedd yw, “Mai o ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi.”

Ar yr un pryd na ddiystyred neb y cardotwyr tlodion sydd mor ddiwyd ac amyneddgar yn lloffa tywysenau allan o waith y prif awduro. Y mae hyny yn annhraethol well na llanw pregethau â geiriau heb ddim meddyliau. Pwy a wŷr wrth iddynt ymdrechu yn ddyfal i bigo y tywysenau goreu o feusydd rhai eraill, na ddeuant bob yn ychydig i feddu ar faes lled gynyrcchiol o'u heiddo eu hun. Ond dyna sydd yn wael ; fod llawer heb ddim eu hunain, ac yn rhy ddiog i loffa. Y mae hyn yn ymddygiad nas gellir ei esgusodi,—mewn gair, yn bechod. Os na allant gyfansoddi pregeth dda heb loffa, yna hwy a *ddylent* loffa. Os bydd hyny yn gofyn llafur, hwy a *ddylent* lafurio. Os bydd mis yn ofynol at un bregeth, hwy a *ddylent* roddi mis atti, a dau fis os bydd achos, a hyny yn ddifino. Yn y dull hyn fe all pob pregethwr fod yn dra defnyddiol os bydd yn meddu ar gymhwysderau canolig. Y cymhwysder cyntaf sydd yn anheggorol anghenrheidiol yw archwaeth a synwyr cyffredin i wahaniaethu rhwng y gwerthfawr a'r

gwael, ac i wybod pa beth i'w ddewis a pha beth i'w wrthod, yn lle tinceirddiau pregeth o aur a phres, haiarn a phridd, yn debyg i ddelw Nebuchodonosor. Ac cilwaith, wedi cael digon o ddefnyddiau, y defnyddiau goreu sydd yn ddichonadwy iddo eu cael, ni fydd fawr o lun na harddweh arnynt er eu bod i gyd o aur pur, os na fydd dim ond hoelion yn eu dal wrth eu gilydd. Y mae yn rhaid iddo fwrw yr holl ddarnau i ffwrnes ei feddwl ei hun, ac y mae yn rhaid fod ganddo ddigon o dân yn ei ysbryd i'w toddi, a digon o fodrusrwydd i'w llunio a'u ffurfio mewn dwysfyfyrdodau.

Ond er fod yn dda i ni gael y mân fasnachwyr i gario nwyddau ar draws y wlad, eto ni fuasai ganddynt ddim nwyddau i'w cario oni bai fod rhyw rai fel Charles o Gaerfyrddin, wedi agor gweithfeydd mawrion i'w darparu. Megys na fuasai genym yr un Bibl i'w gyfieithu oni bai ei fod wedi ei ysgrifenu mewn rhyw iaith wreiddiol, felly ni fuasai genym ddim syniadau ar y Bibl i'w bentyca oni bai eu bod wedi tyfu ar ryw feddwl gwreiddiol. A phe buasai pawb, er cael y Bibl, yn gorfod ymfoddloni ar eu syniadau eu hunain, y mae yn hawdd deall mai tlawd fuasai cyflwr y rhan fwyaf yn ein gwlad. Gan fod yr adolygiad hwn wedi ei fwriadu, nid yn unig i ddangos rhagoroldeb y pregethau dan sylw, ond hefyd i dynu addysgiadau oddiwrthynt er buddioldeb i ni ein hunain ac eraill o bregethwyr Cymru; a chan y geill fod rhai yn mhlith ein darllenwyr wedi derbyn digon o athrylith, ond ei arfer, i'w gwneyd yn gyffelyb i Charles o Gaerfyrddin, fe allai mai nid ammhriodol fyddai ymofyn cyn myned yn mhellach beth yw, a pha fodd y mae cyrhaedd, gwreiddioldeb meddwl.

Yn y lle cyntaf, y mae yn anghenrheidiol i ni sylwi mai nid meddyliau gwreiddiol yw pob math o feddyliau ddeithr. Y mae lle i gredu mai barn llawer yw, nad oes modd iddynt gael gafael mewn golygiadau newyddion heb fyned i ryw eithafion i chwilio am danynt. Pan y byddant yn mhell oddiwrth y testyn, ac yn mhell hefyd o derfynau rheswm, y maent yn tybied eu bod yn mhell tuhwnt i neb a fu erioed o'u blaen. Mewn cysylltiad â'r mater hwn yr ydym yn cofio clywed hanesyn am y gŵr anwyl ac enwog hwnw, yr hwn y mae calonau miloedd hyd heddyw yn archolledig ar ei ol, a'r hwn yr ydym yn gobeithio cael yr hyfrydweh galarus o adolygu ei gofiant cyn bo hir; fe deimla pawb ein bod yn cyfeiro at y diweddar Mr. Richards o Dregaron. Aeth un o'r gŵyr uchod atto un waith i ofyn am esboniad ar ryw ran o'r ysgrythyr. Dangosodd yntau yn eglur

beth oedd ystyr llythyrenol y gair, a'r unig ystyr a allasai fod i'r gair hwnw. "Ie," meddai y dyn, gan edrych yn hynod o gall, "y mae yr esboniad yma yn burion mor belled ag y mae yn myn'd; ond yr wyf fi yn meddwl fod rhywbeth pellach na hyna ynnddi." "O, tebyg iawn", meddai yntau, "tebyg iawn"; ond chwi wyddoch nad wyf fi ddim yn gwel'd yn mhell." Gellir dyweyd am lawer eu bod yn gweled, neu o leiaf yn ceisio gweled gormod, i weled dim newydd. Y maent fel yr hen Alchemists yn llafurio yn ddibaid mewn ymgais diffrwyth am ryw sylwedd dychymygol i droi y cwbl yn aur, a thrwy hyny yn gwario yr holl aur oedd ganddynt yn ofer ac am ddim.

Onid os oes llawer yn methu wrth amcanu gwneyd gormod, y mae mwy eto yn ymfoddloni ar ry fach. Y mae y rhai hyn yn berffaith wrth eu bodd os gallant gael digon o rywbeth o fewn can' milltir i'r testyn. Ac er ffioled yw meddyliau rhai dynion, y maent yn ddigon call i beidio cymeryd llawer o drafferth i chwilio am bethau newyddion pan y maent yn cael y ffrwyn yn rhydd i grwydro lle y mynont gyda phethau cyffredin. Yn awr, y rheol fawr i bawb sydd yn dymuno cael gafael mewn syniadau gwreiddiol, yw sefydlu eu holl gynneddfau yn fanwl ac yn ddiysgog ar yr un pwnc—Y testyn, yr holl destyn, a dim ond y testyn. Wrth y testyn yr ydym yn deall, nid y gwrthddrych a nodir, y personau a ddesgrifir, ac felly yn y blaen; ond y gwirionedd sydd yn ngolwg yr ysgrifenydd. Y ydym yn credu yn sicr nas gall neb feddwl yn ddwys ac yn ddyfal am unrhyw ran o'r gwirionedd dwyfol dros ddiwrnod cyfan, na hanner diwrnod ychwaith, heb weled ynddo lawer o bethau hollol newydd. Y mae dirgelwech myfyrio yn gynnwysedig mewn dau air, undeb a pharhad. Pe byddai holl alluoedd y meddwl yn cydweithredu ar un mater, ac yn para i gydweithredu felly, fe gai y meddwl hwnw afael yn fuan mewn cymaint a allai gario o syniadau gwreiddiol. Ond pan y mae y meddwl yn wasgaredig gyda phob math o bethau yn y ffurfafen uchod, ac ar y ddaear isod, ac yn y dyfroedd odditan y ddaear; pan y mae yn gwibio dros bant a bryn, drwy dref a gwlad, yn ngherbyd dychymyg, beth ellir ddysgwyl oddiwrtho ond cymysgedd o'r golygiadau mwyaf arwynebol. Y mae yn rhaid cymeryd rhyw air fel testyn; ond ni fu y dyn ddim yn aros ddeng mynyd yn ddifrifol uwch ben y mater sydd ynddo; a chan fod galwad arno i draethu rhywbeth am dri chwarter awr, neu awr, nid oes dim i'w wneyd ond cymeryd y pethau nesaf at law. Fe w'yr y rhai sydd yn ein hadnabod nad ydym yn hoff o feio ar ein brodyr: ond y mae

yn rhaid i ni gyfaddef ein bod, wrth wrando ambell bregeth, yn mron cael ei cynhyrfu i ddyweyd, "Pe buasem hefyd yn cael ychydig o'r testyn, ni a gawsem *ychedig* o bob beth." Y mae yn ddiau na fydd neb o'n darllenwyr yn anfoddlon i ni adrodd un hanesyn eto am y Gweinidog haeddbarch a grybwyllwyd yn barod. Dywedai unwaith, yn ei ddull cyrhaeddgar arferol, ei fod bob amser yn cael ei loni yn fawr wrth glywed rhyw adnod felus yn cael ei darllen fel testyn; ond ambell waith byddai yn barod i waeddi allan yn fuan, "O fy nhestyn anwyl, daew fe yn myn'd ni wela' i olwg arno bellach hyd ddiwedd y bregeth."

Digon tebyg fod rhai nas medrant fyfyrion yn sefydlog ar ddim. Er hyny, yn gyffredin, nid mewn diffyg cynneddfau y mae y bai; ond mewn diffyg gallu, neu yn hytrach, mewn diffyg ewyllys i sefydlu eu cynneddfau ar unrhyw bwne. Y mae eu meddwl fel plentyn drwg wedi myned yn rhy aflywodraethus i weithio. Am y rhai hyn nid oes dim i'w wneyd iddynt ond eu troi gyda a'u gilydd i ddsbarth y cardotwyr; ac os byddant yn rhy ddiog i gardota, eu troi o bregethu. Eithr na anobeithied neb o'r rhai hyny ag sydd yn gallu meddwl drostynt eu hunain. Bydded iddynt fyfyrion cymaint a Charles o Gaerfyrddin; ac yna, os na chant afael mewn meddyliau mor fawrion, y mae yn bur debyg y cant rai mor newyddion ag yntau. Yr oedd efe am y rhan fwyaf o'i oes yn gorfod rhoddi cyfran helaeth o'i amser at orchwylion tymmorol; ond bob dydd, pan yn gweithio yn ddiwyd i gynnal ei deulu, yr oedd ei "awenyddfawr gynneddfau" yn treiddio yn ddystaw ac yn ddwfn i ddirgeledigaethau athrawiaeth yr efengyl; ac wedi dychwelyd adref, treuliai yr hwyr gan mwyaf yn ysgrifenu ffrwyth ei fyfyrddodau. Y mae yn wir mai nid Charles o Gaerfyrddin, yw pawb; ond er hyny gallwn ddyweyd na ddarfu i ni erioed gyfarfod â neb hynod o dduwiol nad oedd hefyd yn meddu ar syniadau hynod o wreiddiol. Ac nid yw yn anhawdd gweled paham; oblegid y mae y duwiol a'i "ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrion yn ei gyfraith ef ddydd a nos."

Y mae cymaint o wahaniaeth rhwng meddyliau plant dynion ag sydd rhwng eu gwynebau. Pe byddai mil o honynt yn myfyrion yn astud am ychydig oriau ar yr un peth, ac yn gadael eu meddyliau i gael eu ffordd naturiol, ond gofalu ar yr un pryd am eu cadw gyda y testyn, y mae yn ddiau y byddai rhai o honynt yn gweled yn llawer pellach nag eraill; ond y mae yn ddiau hefyd y byddai y gwanaf ei olwg

yn gweled rhywbeth nad oedd yn ganfyddadwy i'w gymydog mwyaf craff; ac yn gyffredin fe fyddai golygiadau gwahanol y naill yn olygiadau newyddion i'r llall. Er nad oes talent o ras cadwedigol, y mae talent o ryw ddawn gwreiddiol yn mhob dyn wrth natur: ac nac esgulused neb y ddawn sydd ynddo. Y syniadau mwyaf naturiol bob amser yw y syniadau mwyaf gwreiddiol. Goddefer i ni egluro hyn trwy anghraifft. Nid yw Syr Walter Scott mewn un modd wedi treiddio mor ddwfn i'r natur ddynol a Shakespeare; ac nid yw ysgrifenydd poblogaidd y dyddiau hyn, yr hwn a eilw ei hun Boz, wedi myned yn agos mor ddwfn a Scott. Ac eto y maent oll yn ysgrifenydd gwreiddiol, oblegid i'r graddau ag yr oedd pob un o honynt yn gweled ac yn adnabod dynoliaeth, y maent yn ol eu gwahanol ddoniau wedi ei disgrifio yn y modd mwyaf naturiol. Felly am yr hen John Bunyan, beth all fod yn fwy naturiol na "Thaith y Pererin?" Ac eto ni fu dim erioed yn fwy gwreiddiol. Pe byddem ni yn addas i roddi cynghor i'n brodyr ieuaine, dywedem wrthynt, os ydych yn dewis bod yn bregethwyr gwreiddiol, dilynwch eich dawn naturiol, a rhoddwch ddigon o le i'r dawn hwnw i weithio. Na ddynwardwch neb. Mewn corff a meddwl, mewn acen ac ystum, mewn edrychiad ac ysgogiad, byddwch y peth y gwnaeth y Creawdwr chwi. Na cheiswch fod yn fwy, ac nac ymfodlonwch i fod yn llai. Ac i grynhoi y cwbl mewn un gair, meddyliwch drosoch eich hunain, ac ymrowch i feddwl yn ddiarbed.

Y mae son am bobl ieuaine wedi codi awydd ynom am gael ymddyddan gair a rhai o honynt. Dyma un sydd newydd ddechreu ar y gwaith o bregethu. Mae yn dda genym weled nad oes dim rhodres oddiamgylch iddo. Y mae hyny yn arwydd dymunol. Dowch yn mlaen, frawd ieuane, dowch yn mlaen. Eisteddwech. Byddwch mor eöfn yma a phe buasech gartref. Er ein bod yn ymddangos fe allai yn lled sarug ar yr olwg gyntaf, yr ydym yn cofio am yr amser pan oeddym ni ein hunain yn ieuane fel chwithau. A fyddwch chwi yn arfer darllen llawer? "Byddaf yn bur hoff o ddarllen, Syr; ond ychydig iawn o lyfrau sydd genyf eto." Wel, beth pe byddem yn eich cau mewn ystafell ar eich pen eich hun, a fedrwech chwi ddarllen yn ddibaid am dair awr? "Pe cawn lyfr buddiol, Syr, yr wyf yn meddwl y darllenwn ef trwy y dydd heb fino." Da iawn. Byddai hyn yn gymaint cosp i lawer a phe troid hwy i'r *tread-mill*. Ond beth pe byddem yn eich cau i mewn heb un llyfr? A fedrech chwi feddwl yn astud am ryw un pwnc dros ychydig oriau? Neu gadewch i ni gael

gweled yn y fan yma yn awr. Eisteddweh yn llonydd am bum' mynyd, a meddylwch o hyd am y pwnc o ail-eni. * * * Pa le y mae eich meddwl erbyn hyn? Dyma yr amser wedi dyfod i fynu. “Wel, ni feddyliais i erioed ei fod ef mor wammal. A dyweyd y gwir, yr oeddwn yn meddwl y fath *inkstand* rhyfedd yw hwna sydd ar y bwrdd. Fe aeth y meddwl rywffordd yn ddiarwybod.” Ydyw, y mae yr *inkstand* yn un tra chywrair. Fe'i danfonwyd yn anrheg oddiwrth hen gyfaill caredig. Ond cofiwch, fe fydd rhyw gorn du o hyd yn ymddangos o'ch blaen, ac yn eich tynu oddiwrth y testyn, nes yr arferwch eich meddwl i ddwys-fyfyrio. A chofiwch hefyd na ddaw neb byth a phethau gwreiddiol i'r golwg heb dreiddio i'r gwraidd i ymofyn am danynt. Ond cymerwch gysur, ni ddaeth neb erioed heb ymarfer. Dowch yma yn aml: bydd yn dda genym eich gweled.—Arosweh. Y mae genym un gair i'w ofyn eto. A ydych chi wedi darllen pregethau Charles o Gaerfyrddin? “Ydwyf, Sir, wedi darllen y ddau rifyn cyntaf.” Beth yw eich barn chi am danynt? “Yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd yn sier na ddarllenais i ddim erioed gyda mwy o hyfrydweh.” Y mae yn dda genym glywed hyny. Y mae rhyw obaith am bob gŵr ieuanc sydd yn hoffi pregethau Charles o Gaerfyrddin: ond os clywch chi ryw un yn eu ddistyru, gellwch benderfynu am hwnw, pwy bynag fyddo, nad yw yn deilwng i gael ei restru gyda chreaduriaid rhesymol. Dyma y trydydd rhifyn eto. Cymerwch ef gyda chi; a darllenwch ef yn drwyadl.

DANIEL ROWLANDS.*

RHAN I.

Y MAE rhai amcanion ac ymdrechion nad yw yn hawdd gwybod pa beth i'w wneuthur o honynt. Nid oes ynddynt ddigon o ddrwg fel y teimlai un fod arno rwymau cydwybod i'w gwrthwynebu ; ac eto nid ydyw eu daioni mor amlwg ag i osod anghenrheidrwydd ar bawb sydd yn parchu rhinwedd i fod yn weithgar o'u plaid. Ond afreidiol ydyw ceisio profi mai nid un o'r fath yma ydyw y cynnyg sydd yn awr gerbron y wlad am wneuthur cofadail i Rowlands o Langeitho. Yr hyn sydd yn rhyfedd ydyw, fod yr achos hwn wedi ei adael mor ddisytlw am gyhyd o amser ; ac nis gwyddom dros ba hyd eto y buasai yn aros yn yr un cyflwr oni buasai iddo gael ei gymeryd i fynu gan ein cyfaill brwdfrydig, yr hwn sydd yn haeddu ein diolchgarwech gwresocaf, a'r hwn, fel yr ydym yn deall, nid yw yn dwyn un berthynas a'r Methodistiaid, ond yn unig fel y mae yn dwyn perthynas a phawb sydd yn ceisio gwneuthur daioni mewn byd neu eglwys, pa beth bynag fyddo eu henwadau neu eu daliadau. Ond nid yw mor ryfedd ehwaith wrth ystyried mai yn lled debyg yr ymddygodd pob cenedl at ei dynion goreu yn mhob oes. Nid ydyw yn ymddangos fod y Saeson yn yr ystyr yma yn rhagori llawer ar y Cymry. Ond ni ddylai hyn fod. Bai ydyw pa le bynag y ceir ef : ac y mae y Cymry yn fwy euog, o gymaint ag y maent hwy yn profesu bod yn fwy crefyddol, ac yn fwy parchus o weinidogaeth yr efengyl nag un genedl arall. Y mae yn wir nad ydyw coffadwriaeth Rowlands yn sefyll mewn angen am gof-adail, fel y dywed y bardd o Bant-y-celyn :—

Nid rhaid canu dim am dano,
 Nid rhaid *marble* ar ei fedd ;
 Ofer tynu dim o'i bictiwr
 Ar bapurn sal ei wedd :

* O'r "BANER AC AMSERAU CYMRU," am 1864.

Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,
 Rhodd ei *farble* yn ei le ;
 Fe ysgrifnodd arno ei enw
 A llythyrenau pur y ne'.

Ond er fod Williams yn dywedyd yma, "Nid rhaid canu dim am dano," yr oedd efe ei hun yn canu am dano wrth ddywedyd felly: a'r un modd, er ein bod ninnau yn cydnabod gyda Williams, "Nid rhaid *marble* ar ei fedd," nid yw hyn yn profi nad yw yn ddyledswydd arnom ddangos ein parch iddo mewn ffordd o gofadail. Ac i ddywedyd y cwbl ar hyn mewn un gair—y rhai nad ydynt yn sefyll mewn angen am gofadail tuag at gadw eu henwau mewn cof yw y rhai sydd yn wir deilwng o'r anrhydedd.

Meddyliem nas gall y cynnyg hwn fethu bellach. Y mae wedi ei ymddiried i rai o'r dynion goreu yn Sir Aberteifi; ac y mae yn ddi-ddadl fod yn Sir Aberteifi gystal dynion ag a geir mewn un sir yn Nghymru. Cawn ein somi ynddynt yn fawr os na lwyddant yn yr achos hwn. Ac eto, ni ddymunem iddynt dybied mai gorehwyl hawdd yw yr hyn y maent wedi ymgymeryd ag ef. Y mae rhyw ryddfrydedd gau a phwdr wedi dyfod i mewn i blith y Methodistiaid, yr hwn sydd yn peri i lawer o honynt dybio yn well am bawb nag am eu pobl eu hunain, ac yn gwisgo pob achos a mawredd yn gyfatebol i'w bellder oddiwrthynt. Tra y mae eraill yn ei wneuthur yn amean gwastadol i ymdrechu dros lwyddiant eu heglwys, neu eu henwad, y mae arnynt hwy bron gywilydd o'r enw Methodistiaid. Y mae rhyddfrydedd yn dda, os ceir ef o'r iawn ryw; ond y mae pob peth gau yn ddiflas; ac o'r holl bethau gau sydd yn y byd i gyd, nid oes dim yn fwy diflas na rhyddfrydedd gau. A'r hyn sydd yn profi ei fod yn un gau yw ei fod yn groes i ddeddfau natur, y rhai sydd wedi trefnu fod sugndyniad yn mwyhau yn ol agosrwydd y gwrthddrychau. Gwrthweithiad yw y duedd hon o'r hen ysbryd eul sydd wedi bod yn rhy gyffredin yn mysg yr hen bobl; ac fe aiff hyn heibio yn raddol, fel pob ynyfyrwydd arall. Yn y cyfamser y mae perygl i ni gymeryd yn ganiataol fod y wlad yn teimlo mwy o barch nag ydyw i goffiadwriaeth y tadau Methodistiaid. Y mae yn rhaid defnyddio moddion priodol i oleuo yr oes sydd yn codi am weithrediadau yr hen gewri gynt. Fel y maent yn arfer cerdded y terfynau ar amseroedd pennodol, er mwyn argraffu ar feddyliau y plant syniadau cywir am y rhandiroedd sydd yn perthyn iddynt, felly, nid anaaddas mewn ystyr gryfyddol fyddai

rhoddi ambell ddiwrnod weithiau i “gerdded y terfynau.” Nid oes yr anghenrheidrwydd lleiaf i hyny fod yn feithriniad i bleidgarweh; ond yn hytrach, i genedlgarweh, ac i grefyddgarweh. Ac er mwyn gwneuthur rhyw ychydig tuag at gynnorthwyo yn y gorehwyl hwn, ni a roddwn yma rai o'r prif ffeithiau yn hanes Rowlands o Langeitho.

Ganwyd ef yn y flwyddyn 1713, mewn lle a elwir Pant-y-beudy, yn mhlwyf Llanewnille, tua dwy filldir i'r gorllewin o Langeitho. Ond er mwyn cael golwg arno yn ei berthynas a'r oes yr oedd yn byw ynddi, efallai y byddai yn well i ni chwaneu iddo gael ei eni y flwyddyn o flaen marwolaeth y frenhines Anne; ei fod ddeng mlynedd ieuangach na Wesley, un flwyddyn yn hŷn na Whitefield a Howel Harris, bedair blynedd yn hŷn na Williams o Bantycelyn; ac, yn ei berthynas a llenyddiaeth yr oes hono, ei fod bedair blynedd yn ieuangach na Dr. Johnson, a dwy flynedd yn ieuangach na Hume yr Anffyddiwr. Erbyn hyn yr oedd Hugh Owen o Fron-y-clydwr, yr olaf o'r hen Anghydfurfwyr Cymreig, wedi marw er ys pedair blynedd ar ddeg. Yr enwcaf yn Lloegr fel cynnrychiolwr y Puritaniaid y pryd hwn yd-oedd Dr. Watts; ac er ei fod ef yn ddyn da a duwiol, nid oedd ond duwinydd egwan. Dadleuir gan rai nad oedd crefydd yn y cyfnod hwn mewn cyflwr isel; ond carem gael gwybod gan y rhai sydd yn dadleu felly, pa bryd, ac yn mha amgylechiad, y gellir dyweyd fod crefydd yn isel. A ydyw crefydd mewn cyflwr isel neu uchel y dyddiau hyn yn Ffrainc, neu Awstria, neu Affrica? Ac nid mewn cyflwr isel yn unig yr oedd crefydd yn Nghymru hyd nes y daeth adnewyddiad trwy lafur Griffith Jones, a Harris, a Rowlands; ond yr oedd mewn cyflwr gwaeth na bod yn isel; oblegid yr oedd yn myned o hyd yn fwy isel. Gall cynnull-eidfaoedd fod yn fychain ac anaml, a'r olwg arnynt er hyny yn obeithiol. Gallant fod o'r tu arall yn fawrion a lliosog, ac eto yr olwg arnynt yn ddigalon, am eu bod wedi dechreu gwywo. Ond yr oedd yr hyn sydd wael ac isel yn y ddau amgylechiad yma wedi cydgyfarfod yn y cyfnod yr ydym yn son am dano; oblegid er fod Griffith Jones wedi ei eni yn y flwyddyn 1683, nid oedd eto wedi dechreu ar ei waith fel diwygiwr. Nid yn unig yr oedd eglwysi efengylaidd yn fychain, ond yr oeddynt yn myned yn llai. Nid yn unig yr oeddynt yn anaml, ond yr oeddynt yn myned yn anamlach. Dyma yr olwg oedd ar Gymru pan ganwyd Daniel Rowlands yn Pant-y-beudy, yn mhlwyf Llanewnille.

Ei dad, yr hwn oedd officiriad, o'r un enw ag yntau, a'i dygodd i fynu i'r weinidogaeth, er nad oedd nemawr arwyddion o ddirifoldeb i'w gweled ynddo pan yn ieuane. Cafodd ei ddysgeidiaeth mewn ysgol rammadegol yn Henffordd; ac yn hyn y mae ei hanes yn gwahaniaethu oddiwrth y Diwygwyr Cymreig yn gyffredin a fuasai o'i flaen, y rhai a ddygwyd i fynu yn y Prifysgolion, oddigerth Griffith Jones. Bu Dr. Morgan ac Edmund Prys yn Nghaergrawnt. Dygwyd y lleill i fynu yn Rhydychain; sef William Salesbury, Dr. Richard Davies, Dr. Davies o Mallwyd, Dr. Parry, Fiear Prichard, Wroth, Powel, Erbury, Walter Caradoc, Vavasor Powel, Peregrine Phillips, a Hugh Owen, Bron-y-clydwr. Nid ydyw hyn o bwys mawr; ond y mae yn dangos o leiaf mai nid rhyw babwyr o ddyinion oedd hen ddiwygwyr Cymru; ac efallai ei fod yn dangos hefyd nad ydyw Prifysgolion mor beryglus ag y mae rhai yn tybied. Pa fodd bynag, cafodd Rowlands ddysgeidiaeth o'r un natur, er nad mor drwyadl, yn Henffordd. Cafodd ei ordeinio, yn ol tystiolaeth ei fab, pan yn ugain oed; ac ymddengys iddo fod yn pregethu am ddwy neu dair blynedd cyn bod ganddo un syniad am bwysigrwydd ei swydd. Dywed ei fywgraffiedydd, Mr. Owen, "Ei fod yn llawn o fywiogrwydd cynhenid, ac yn gyfarwydd yn mhob rhyw gampau a chwareuon ofer yr oes. Yr oedd yn heinif a gwisgi, o faintioli cyffredin, yn gadarn o wneuthuriad, ac yn rhagori yn mron ar bawb mewn pob math o chwareuon a arferid yn y dyddiau hyny." Yr hyn sydd fwyaf athrist ydyw, ei fod yn dilyn y chwareuon hyn ar y Sabboth, wedi bod yn yr eglwys yn darllen, yn gweddio, ac yn pregethu yn y bore. Ond deffrowyd ei ystyriaethau wrth wrandaw ar Griffith Jones, yn Llanddewibrefi; ac o hyn allan, yr oedd yn pregethu fel dyn yn credu yr hyn yr oedd yn ei lefaru.

Dyma ni wedi dyfod yn awr at ddechreuad ei yrfa fel diwygiwr; ond pa un a ddylid edrych ar hyn fel dechreuad y Diwygiad yn Nghymru, nid yw yn hawdd penderfynu. Os gofynir, Pwy oedd yr offeryn cyntaf i ddefiro Cymru o'r trwmgwsg yr oedd wedi syrthio iddo ar ol dyddiau yr hen Anghydfurfwyr, ac i fod yn rhagflaenor y Diwygiad Methodistiaidd—y mae yn rhaid myned yn ol at Griffith Jones o Landdowror. Os gofynir drachefn, Pwy oedd y cyntaf yn yr oes hono a dorodd allan o'r Eglwys Sefydledig i'r prif ffyrdd a'r caeau—yr ateb ydyw, Howel Harris. Ond os gofynir, Llafur pwy yn fwyaf neillduol a roddes fod dan fendith y Goruchaf i'r Methodistiaid yn Nghymru fel cyfundeb—yr ateb ydyw, Daniel Rowlands. Gobeithiwn yr ymfoddlona y

Methodistiaid i dalu gwarogaeth i'r tri, heb geisio dyrchafu un o honynt ar draul darostwng y lleill. Y mae drachefn yn llawn mor anhawdd penderfynu yn sier rhwng Harris a Rowlands, pa un oedd y cyntaf—ai Harris y tu allan, neu Rowlands y tu fewn, i furiau yr Eglwys Sefydledig. Nid oes ammhenaeth mai yn y flwyddyn 1736 y dechrenodd Howel Harris. Nis gallasai fod wedi dechren cyn hyny. gan mai yn Tachwedd, 1735, yr aeth i Rydychain, ac nid wedi hyny. oblegid y mae efe ei hun yn hysbysu ei fod yn myned oddi amgylch i gynghori yn 1736. Ond o barth i Rowlands, nid yw yr hanes mor eglur. Dywed Joshua Thomas am dano yn "Hanes y Bedyddwyr:" "Yr wyf yn cofio i mi ei glywed o gylch 1737 yn Sir Gaerfyrddin. Yr oedd yno liaws yn gwrandaw; ac mi glywais rai o'r Ymneillduwyr yn son am y bregeth wrth ddychwelyd adref. Yr wyf yn cofio mai rhan o'r ymadrodd oedd hyn, 'Ni chlywsom ei gyffelyb yn Eglwys Loegr, ond Mr. Griffith Jones. Ni fu yn ein dyddiau ni y fath oleuni yn mhllith pobl yr Eglwys.'" Yn nechreu y flwyddyn 1739, y mae Howel Harris yn dywedyd mewn llythyr at Whitefield, "Y mae diwygiad mawr yn Sir Aberteifi trwy un Mr. Daniel Rowlands; a chafodd ei arddel a'i fendithio yn fawr yn Sir Gaerfyrddin." Felly y mae yn rhaid ei fod yn pregethu yn Sir Gaerfyrddin tua 1737; ac nid yw yn debyg y buasai yn myned yno heb gael lle i feddwl fod ei weinidogaeth yn fendithiol gartref am ryw ysbaid o amser cyn hyny. Fe allai mai gormod fyddai casglu dim yn benderfynol oddiwrth rai awgrymiadau yn Marwnad Williams; ac eto, y mae yn anhawdd tybied y buasai yn canu fel y gwnaeth pe buasai yn gwybod fod Harris wedi dechren o flaen Rowlands:—

Pan oedd tywyll nos trwy Brydain,
 Heb un argoel codi gwawr,
 A thrwm gwsg oddiwrth yr Arglwydd
 Wedi goruwch-guddio y llawr;
 Daniel chwythodd yn yr udgorn,
 Gloyw udgorn Sinai fryn,
 Ac fe grynodd creigiau cedyrn,
 Wrth yr adsain nerthol hyn.
 Boenerges oedd ei enw,
 Mab y daran danllyd gref,
 Sydd yn siglo yn ddychrynlyd
 Holl golofnau dae'r a nef:
 "Dewch, dihunwch (oedd yr adsain)
 Y mae 'n dinas ni ar dan,
 Ffowch oddiyma mewn mynydyn,
 Ynte ewch yn ulw man!"

Yn Llangeitho fe ddechreuodd
 Gwaeddi dystryw 'r anwir fyd,
 Miloedd ffodd o'r De a Gogledd,
 Yn un dyrfa yno 'nghyd:
 Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
 Yr holl werin fawr a man,
 Nid oedd gwedd wy ebyrd un-gwr
 Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

Gliniau 'n crynu gau y daran,
 Fel pe buasai angau ei hun
 Wedi cym'ryd llawn bereh'nogaeth
 Ar y dyrfa bob yr un;
 "Beth a wnawn am safio 'n henaid?"
 Oedd yr unrhyw gydsain lef;
 Chwi, sy am wybod hanes Daniel,
 Dyma fel dechreuodd ef.

Daeth y swm dros fryniau Dewi
 Megys fflam yn llosgi llin,
 Nes dadseinio creigydd Towi,
 A hen gapel Ystrad-ffin;
 Lle daeth siroedd yn finteioedd,
 Werin o ancirif ri',
 Wrth gref adsain udgorn gloyw
 Cenadwri 'r nefoedd fry.

Dyma ddyddiau pur gyfielyb
 I rai Sinai hen o'r blaen—
 Llais yr udgorn, a llef geiriau,
 Tarth a thymmhestl, mwg a than,
 Mynydd mawr yn crynu 'n daubaid,
 Ac yn chwareu o eigion byd,
 Yn dadguddio yn erbyn pechod
 O bob rhyw anfeidrol lid.

Dyma 'r pryd daeth Harris fywiog,
 Yn arfogaeth fawr y nef,
 Megys taran annyoddefol,
 Yno i'w gyfarfod ef;
 Dyma ddyddiau sylfaen gobaith,
 Dyddiau gwewyr llym a phoen,
 Wrth gael esgor ar ei meibion,
 Newydd wraig yr addfwyn Oen.

Pump o siroedd penaf Cymru
 Glywodd y taranau mawr,
 A chwymasant gan y dychryn
 Megys celaneddau i lawr;
 Clwyfau gawd, a chlwyfau dyfnion,
 Ac fe fethwyd cael iachad,
 Nes cael eli o Galfaria,
 Dwyfol ddŵr a dwyfol waed.

Yn mhellach yn mlaen yn yr un farwnad dywedir mai

Rowlands startiodd allan gyntaf ;

yr hyn sydd yn ymddangos fel yn penderfynu y mater ; oblegid nid oedd neb yn meddu gwell mantais i wybod na Williams. Ond y mae perygl i ni fod yn rhy frysiog : oblegid nid ydyw yn sier fod yma gyfeiriad at Howel Harris. Er hyny, pe buasai Harris wedi "startio allan gyntaf," nid ydyw yn debyg y buasai Williams yn anghofio y ffaith wrth gyfansoddi y Farwnad ; ac y mae yn ddiau y buasai hyny yn ei rwystro i ddefnyddio geiriau mor gryfion am Rowlands.

Mewn perthynas i natur gweinidogaeth Rowlands yn y tymmor hwn, dywedir yn yr un Farwnad iddo

Bregethu 'r ddeddf dymnihestlog,
Rai blynyddoedd yn y blaen.

Byddai yn dda i bregethwyr gofio fod annuwiolion i'w cael eto, ac y dylai eu hachubiaeth fod yn un o'r amcanion blaenaf. Y mae yn gweddu i hyn gael ystyriaeth arbenig gan begethwyr ieuaine. Ac eto, y mae yn iawn i ni gydnabod nad ydynt hwy yn yr un amgylehiadau a Rowlands ; ac ni ddylid eu beio, os gwelir fod rhyw bwynt i'w pregethau, a bod ganddynt ryw ddyben mewn golwg heblaw dangos eu hunain. Hyd y gellir canfod, nid rhyw lawer o gymhwysderau gweinidogaethol oedd gan Rowlands ei hun y pryd hwn heblaw amcan cywir ac angerddoldeb ei ysbryd. Dywedir ei fod ar y cyntaf braidd yn ddiffygiol mewn syniad am rai o athrawiaethau crefydd ; ac adroddir hanesyn i brofi hyn, yr hwn sydd yn weith ei gadw mewn coffadwriaeth, nid er mwyn ei iselu ef, ond i roddi y clod sydd yn deilwng i hen weinidog duwiol oedd yn byw yn agos atto. Wedi dyfod tuag i fynu o Langeitho am tua hanner milldir ar hyd y ffordd sydd yn arwain i flaen y dyffryn prydferth y mae Aeron yn rhedeg trwyddo, os trowch ar y dde, ac os dringweh i fynu ar hyd ffordd led serth ac ansathredig nes cyrhaedd i gopa y bryn, chwi a ddeuwch yn fuan at gapel bychan a elwir Llwyn-pïod. Yma, yn yr adeg hono, yr oedd un Mr. Pugh yn weinidog i gynnulleidfa fechan o Ymneillduwyr. Nid yw y pellder ond rhyw ddwy filldir i Langeitho ; ac nid rhyfedd iawn pe buasai yr hen weinidog ffyddlaw yn teimlo i ryw raddau yn anghysurus wrth weled y tyrfaoedd yn ymgasglu i Langeitho i wrandaw y pregethwr ieuanc. Ac nid hir y bu cyn cael digon o esgus, pe

buasai yn caru cael esgus, i geisio diraddio Rowlands. Fel y dywed ei fywgraffydd, “ Nid oedd camlynwyr Mr. Pugh yn gallu cymeradwyo pregethiad Rowlands yn gyfangwbl ar y cyntaf. Tra y cyhoeddai rai gwirioneddau yn gywir, yn rymus, ac yn ysgrythyrol, triniau rai eraill mewn modd na chydweddau yn gwbl â'r efengyl. O herwydd hyn, achwynent arno wrth Mr. Pugh.” Dyma gyffe iddo ddyfod allan yn erbyn Rowlands, dan rith cariad at y gwirionedd. Ie, oni buasai ei fod yn fwy hunanymwadol na chyffredin, gallasai yn hawdd dwyllo ei hun, a thybied ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw trwy wrthwynebu cyfeiliornadau yr Eglwyswr poblogaidd. Ond yr ateb a roddodd iddynt ydoedd hyn :—“ Gadewch ef yn llonydd. Offeryn ydyw ag y mae yr Arglwydd yn ei gyfodi er gwneuthur rhyw waith mawr yn y byd. Efe a ddiwygia mewn amser. Gwna Duw ei ddwyn i'r iawn bob yn ronyrn.” Nid ydym yn gwybod am ddim yn holl hanes Rowlands ei hun sydd yn dangos mwy o fawredd moesol na'r dywediad hwn o eiddo gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llwyn-pïod.

RHAN II.

PROFFWYDOLIAETH yr hen weinidog duwiol am Rowlands a drodd allan yn wirionedd. Dysgwyd ef yn fanylach gan ei Dad Nefol : ac y mae Williams yn y Farwnad yn rhoddi pwys mawr ar gywirdeb ei olygiadau am athrawiaethau crefydd, a diysgogrwydd ei ymlyniad wrthynt. Bu y ddeddf iddo ef, fel i eraill o'i flaen ac ar ei ol, yn athraw at Grist. Ac nid yw hyn yn rhyfedd ; oblegid y mae perthynas agosach nag y mae llawer yn ei dybied rhwng argyhoeddiad dwfn o ysbrydolerwydd y gyfraith a chrediniaeth yn mherson a gwaith Crist yn unig am iachawdwriaeth. Nid deddfoldeb ydyw pregethu y ddeddf ; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Y mae ysbryd deddfol bob amser, i raddau mwy neu lai, yn colli golwg ar ysbrydolerwydd a manyrwydd y ddeddf, a thrwy hyn y'i un graddau yn arwain dyn i ymorphwys yn ei hunan-gyfiawnder, ac yn ei gadw yn ddideimlad o'r anghenrheidrwydd am Gyfryngwr. Ond nid y ddeddf fel crynodeb o drefniadau sydd yn cynnyrchu yr effeithiau hyn ; cithr y ddeddf fel y mae yn ddadguddiad o sancteiddrwydd Duw. Yr oedd Rowlands wedi gweled Duw, ac yn

teimlo ei fod wedi derbyn cenadwri oddiwrtho, ac am hyny yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo. Gallasai fod yn ddigon cywir yn ei grediniaeth o bynciau y Bibl, ac eto fod yn rhy wan i effeithio ar y rhai oedd o'i amgylch; ond yr oedd gweled Duw yn y gwirionedd yn peri fod y gwirionedd yn nerthol "i fwrw cestyll i'r llawr." Deallodd y bobl yn fuan fod yno ffynnonell o fywyd anorchfygol wedi tarddu allan yn Llangeitho. Yn raddol trwy ei lafur ef, ac eraill, ymdaenodd y sŵn trwy Gymru; ac ar y rhai hyny oedd yn credu y dystiolaeth yr oedd yn effeithio yn lled gyffelyb i'r hanes yn ein dyddiau ni am ddarganfyddiad cloddfa o aur yn Awstralia. Y gwahaniaeth ydyw, fod y bobl anwybodus hyn yn amser ein teidiau yn credu fod yr enaid yn fwy ei werth na'r corff, a bod tragywyddoldeb yn fwy pwysig nag amser. Dyma fel yr oeddynt hwy yn credu yn ddiysgog, ac yr oeddynt yn gweithredu yn gyfatebol. Hawdd iawn i'r rhai hyny sydd yn arfer geiriau heb feddyliau ydyw penderfynnu y mater hwn trwy ddyweyd nad oedd y cwbl ond penboethni; ond y mae aiddgarwch o'r fath yma, hyd yn nod pe byddai yn nglŷn â dybenion mor goel-grefyddol a Rhyfeloedd y Groes, neu bererindod i Mecca, yn profi wedi y cyfan fod dyn yn rhyw beth mwy nag anifail. Bendith fawr i unrhyw ddynion ydyw cael eu deffroi i feddwl am wrthddrychau uwch na manteision bydol, neu fwyniant anifeilaidd. Ond heblaw hyn, yr oedd yma greadigaeth newydd. Y mae pererindodau y Pabyddion a'r Mahometaniaid yn cyffwrdd â'r dychymyg; ond yr oedd y daith i Langeitho yn gadael argraff arosol ar y galon a'r gydwybod, ac yr oedd y pererinion hyn yn dwyn firwythau addas i edifeirwch.

Nis gallwn ddangos natur yr athrawiaethau a bregethid gan Rowlands, yn nghyd a'r effeithiau a gynnyrchid ganddynt ar y gwrandawyr, yn well na thrwy ddilyn Williams o'r lle y gadawsom ef o'r blaen; a diau genym y bydd llawer un yn ddiolchgar i ni am roddi dyfyniad lled faith o'r Farwnad ardderchog hon, oblegid er ei bod yn adnabyddus i'r cyffredin o'n darllenwyr, bydd yn dda ganddynt gael y cyfle hwn eto i ail ddarllen y desgrifiad canlynol:—

'Nol pregethu 'r ddeddf dymmhestlog

Rai blynyddau yn y blaen,

A rhoi llawer yn friwedig,

'N awr cyfnewid wnaeth ei gân;

Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth

Gyflawn hollol, berffaith lawn,

Trwy farwolaeth y Messia

Ar Galfaria un prydawn.

Grym ei athrawiaethau melus
 Bellach oedd meithrynu ffydd,
 Trwy ddadguddio y Cyfryngwr,
 Sylfacn iachawdwriaeth ryd l ;
 Dyn a'r Duwdod ynddo 'n trigo,
 Wedi prynu a'i ddwyfol waed,
 Holl drysorau nef y nefoedd,
 I gredadyn tlawd yn rhad.

Dyna 'r pryd daeth Whitefield enwog,
 Ar adenydd dwyfol ras ;
 ' Lawr i Gymru i gael profi
 Y newydd win o ddwyfol flas ;
 Dyma 'r pryd yr hyfryd asiwyd
 O fewn ffwrnes fawr y nef,
 Sais a Chymro mewn athrawiaeth
 Loyw, ddisglaer, gadarn, gref.

Pan oedd athrawiaethau cymysg
 Wedi llanw 'r wlad yn un,
 Baxter, Armin a Phelagius,
 Y'ngghyd a holl ddyledswydd dyn,
 Y rhai'n a waeddodd yn eu herbyn,
 Fe ysgymmunwyd hwynt i maes,
 Ac fe blanwyd trwy 'r eglwysi
 Athrawiaethau dwyfol ras.

Dyma 'r pryd, boed cof am dano,
 Ganwyd yr *Associasiwn* fawr ;
 Ag sydd er's hanner cant o flwyddau
 Yn cadw i fynu hyd yn awr ;
 Yn gwneyd undeb athrawiaethau,
 Ac yn clymu cwlwm crwn,
 Nas gall rhagfarn na drwgdybiau
 Fyth i ddattod dim o hwn.

'Nawr y penaf un ddiangodd,
 Rowlands sy heddyw yn y nef,
 Wedi derbyn coron enraidd,
 Hyfryd ffrwyth ei lafur ef ;
 Talent, ddeg, a roddwyd iddo,
 Fe'u marchnatodd hwynt yn iawn,
 Ac o'r deg fe'u gwnaeth hwy'n gannoedd,
 Cyn machludo ei haul brydnawn.

Nid oes un o siroedd Cymru,
 Braidd, na phlwy' sy'n perchen cred,
 Na bu Rowlands yn eu teithio,
 Ar eu hŷd ac ar eu lled ;
 Tros fynyddau, trwy afonydd,
 Ac aberoedd gwaetha' sy,
 O Dy Ddewi i Lanandras,
 O Gaergybi i Gaerdydd.

Deuwch trosodd i Langeitho,
 Gwelweh yno ol ei law,
 Miloedd meithion yno 'n dysgwyl,
 Llu oddiyma, llu o draw;
 A'r holl dorf yn 'mofyn ymborth
 Amryw 'n dywedyd, p'odd y cawn?
 Pawl yn ffrostio wrth fyn'd adref,
 Iddo gael ei wneyd yn llawn.

Gwelweh Ddaniel yn pregethu,
 Yn y tARTH, y mwg, a'r tan;
 Mil ar unwaith yn moliannu
 Haleluia yw y gan;
 Nes b'ai dorf o rai annuwiol,
 Mewn rhyw syndod dwfwn, mud,
 Ac yn methu rhoi eu meddwl
 Ar un dim ond diwedd byd.

Ond rhaid ymattal yn rhywle; er ein bod mewn profedigaeth i ys-grifenu yr holl Farwnad. Bydd hyn, pa fodd bynag, yn ddigon i roddi golwg ar y dull yr aeth y Diwygiad yn ei flaen. Nid ydym yn cael hanes am ddim neillduol wedi dygwydd am ddeuddeng mlynedd i beri afiwyddiant. Ond er fod Rowlands wedi newid yn nhôn ei bregethau, ac wedi myned i aros yn fwy ar athrawiaethau yr efengyl, y mae lle i gasglu mai diffygiol iawn mewn gwybodaeth am bynciau sylfaenol crefydd oedd yr eglwysi yn gyffredinol. Dywedodd hen grefyddwr wrth Mr. Charles o'r Bala, ei fod ef ei hun ac eraill wedi bod yn aelodau eglwysig mewn un man am bum' mlynedd heb wybod dim yn mron mewn ystyr dduwinyddol am Berson Crist; a'u bod mor dywyll, fel, pan glywsant bregethwr unwaith yn cyffwrdd â'r mater hwn, nas gwyddent yn iawn at ba beth yr oedd yn cyfeirio. Y mae hyn yn profi nad oedd y pwnc mawr hwn ar y cyntaf yn cael llawer o ystyriaeth oddiwrth y pregethwyr eu hunain, onide, nis gallasant fod mor ddistaw am dano; ac y mae hefyd yn rhoddi rhyw gymaint o eglurhad ar y gwrthwynebiad a gododd yn erbyn golygiadau Howel Harris. Ac y mae yn rhaid addef ei fod yntau yn arfer rhai ymadroddion nas gallasai ei frodyr anwylaf a mwyaf deallus mo'u cymeradwyo yn hollol; a'r diwedd fu, i ymraniad gymeryd lle rhwng Harris a Rowlands mewn cymdeithasfa a gynnelid yn Llanidloes yn y flwyddyn 1751. Y mae dynion wedi dyfod yn ddigon doeth erbyn hyn i fedru penderfynu mai gwaelodd a gwendid i gyd oedd yr achos o bob ymrysonau a fu erioed yn nghylch athrawiaethau penaf y Bibl, ac nad oes dim yn werth gwneyd ymraniad o'i blegid ond rhyw beth allanol

mewn crefydd. Dichon y byddent yn fwy cymedrol, pe cofient mai hen ddadl y Pabyddion ydyw yr ymrysonau sydd rhwng Protestaniaid a'u gilydd. Gwerthfawr ydyw heddwch, ond iddo beidio bod yn heddwch y bedd. Nid oes dim y dylid rhoddi mwy o bris arno na chariad; ond byddai yn ddymunol i'r cariad hwnw fod yn ddigon cang i gymeryd i mewn yr hen Ddiwygwyr a fu yn ymladd dros yr hyn a farnent hwy yn wirionedd, er fe allai fod yn anhawdd gwybod yn sier weithiau pa ochr oedd yn fwyaf cywir. Gyda golwg ar y ddadl hon rhwng Harris a Rowlands, byddai yn ammoddefol i ni geisio dyrchafu y naill ar draul darostwng y llall. Gwirionedd mawr oedd yr hyn y dadleuai Harris drosto; ac er ei fod yn ymddangos yn newydd i lawer o'r Cymry yn yr oes hono, y mae yn sier ei fod yn yr Eglwys Gristionogol o'r dechreuad. Y mae yn amlwg mai ei feddwl oedd, fod tragywyddol Fab Duw wedi bod yn ufudd hyd angeu—ac nid ei natur ddynol yn unig. Yr oedd y cwbl a ddywedid ganddo yn wir am berson y Mab; ond pan ddywedai fod Duw wedi marw yr oedd yn rhoddi achlysur i gamddealltwriaeth. Ymddangosai y dywediad i Rowlands yn anysgrhythrol; ond y mae sail i farnu ei fod yntau, ar rai amserau, yn arfer dull o ymadroddi oedd yn cyfyngu y darostyngiad yn ormodol i natur ddynol y Cyfryngwr. Dynion cywir oeddynt er hyny; ac yr oedd eu dybenion yn gywir, er nad yn ddigymysg, pan yn gwrthwynebu eu gilydd. Pe buasai cylech eu darlleniad yn helaethach buasent yn dangos mwy o oddefgarwch. Ac nid ydym ychwaith yn barod i ganiatáu mai drwg yn unig a darddodd o'r ymraniad hwn. Y mae pob bywyd daearol mewn angen am nos yn gystal a dydd, am y gauaf yn gystal a'r haf; a phwy a wŷr nad oedd y tymmor tywyll gaufaidd a ddilynodd yr ymraniad yn fuddiol i grefyddwyr Cymru, i droi eu hystyriaethau yn fwy at athrawiaethau, ac i'w gwreiddio yn ddyfnach mewn egwyddorion?

Onid yn lle siarad yn nghylech y mater, gwell fyddai i ni roddi golgyiadau Harris a Rowlands yn eu geiriau hwy eu hunain. Yr hyn a ganlyn sydd gyfieithiad o eiriau Harris:—

“Tua diwedd y flwyddyn 1749, aethum i Lundain; ac yn Ionawr, 1750, ymadewais a'm cyfeillion a'm brodyr yno, gan ddeisyf arnynt edrych at yr Arglwydd yn unig, a phregethu ei Dduwdod a'i farwolaeth gyda gallu i galonau y gwrandawyr, fel yr unig sylfaen i adeiladu arni. Wrth ddyfod i lawr i Gymru, gwelais yn fwy nag erioed yr athrawiaeth am anfeidroldeb ein Ceidwad, yn ei enedigaeth, ei fywyd, a'i ddiodeftadau, anfeidroldeb ei gyfraith a'i efengyl mewn rhyw ystyr, ac anfeidroldeb ei ras maddeuol a'i drugaredd, heb eisieu dim yn wir ond Efe. Yr

oeddwn yn ei garu Ef yn ei holl weithredoedd, ond yn fwy neillduol yn holl gamrau ei ddarostyngiad rhyfeddol. Cefais olwg ar ymadawiad dedwydd, ac y cawn fod i dragwyddoldeb gydag ef. Gwelais, er fy mod yn hiraethu am yr anser dedwydd, nad oedd mil o flynyddoedd ond dim i ddysgwyl y fath ddedwyddweh. Fel y darfu i'r Arglwydd ei hun fy anfon o amgylch y wlad ar fy nghychwyniad cyntaf, a rhoddi ynof ddymuniad i'w foddio Ef yn unig, a'm cynnorthwyo i lefaru gwirioneddau eglur, felly y pryd hwn gosodwyd anghenrheidrwydd arnaf i bregethu y gwirionedd mawr hwnw a ddadguddiodd Efe i'm henaid, sef y rhyfeddol ymostyngiad a'r dirgelwch o Dduw yn ein natur, yn cymmudi y byd âg Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Duw oedd Efe yn mru Mair, pan gymerodd ein natur, gan osod yaddo ei hun sylfaen ein iachawdwriaeth a'n gwardigaeth. Duw Goruchaf oedd efe yn ei enedigaeth dlawd, ac yn y cadachau. Efe oedd yr Ydwf mawr, yr Alpha a'r Omega, yn ei holl ddiodefiadau, ac nid oes Duw arall ond Efe: y rhai sydd yn addoli Duw arall heblaw Efe ydynt yn addoli eilun; 'Ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol.' A phan ddaeth yr amser i wneid iawn dros ein pechodau ni, pan ddyrechafwyd yr Aberth mawr ar allor y groes, yr oedd holl natur, daear, ac uffern, mewn cynnhwrf a chyffro; yr haul a dywyllwyd, y ddaear a grynodd, y meirw a ddeffroisiant ac a gyfodwyd, fel y gallai pawb ofyn, 'Pa beth yw achos ac ystyr hyn i gyd?' 'Duw'r Creawdwr mawr fu farw;' Watts. Aethum ymlaen fel hyn trwy Gymru am rai blynyddau, gan ddwyn fy nhystiolaeth i'r gwirioneddau hyn ger bron proffeswyr enawdol, Ariaid, a Sociniaid, y rhai a siaradent yn chwerv i'm herbyn. Er i hyn achlysuru llawer o rwgnach, anghydfod, ac ymraniad, eto y mae genyf obaith bywiol y bydd i'r Arglwydd fendithio ei wirioneddau yn ei amser da ef ei hun.'

Ar ryw olwg, y mae yn ofidus meddwl fod neb o frodyr Howel Harris wedi gwrthwynebu yr athrawiaeth hon. Ac eto, nis gellir gwadu fod yma ymadroddion aneglur; y rhai yn hawdd a allasant roddi lle i dybied ei fod yn gyfeiliornus yn ei farn, nid yn unig am Berson y Cyfryngwr, ond am Drindod o Bersonau yn y Duwdod. Felly yr oedd yn ymddangos i Rowlands; a chyfiawnder âg yntau yw rhoddi ei olygiadau ef ar y mater yn ei eiriau ef ei hun, fel y ceir hwynt mewn llyfryn bychau, dan yr enw, "Ymddyddan rhwng Methodist Uniawngred ac Un Camsyniol," yr hwn ni ddygwyddodd i ni weled un cyfeiriad ato gan neb, er iddo gael ei argraffu ddwy waith o leiaf—yr ail waith yn 1750. Nid oes enw un awdwr ar y wyneb-ddalen; ond yn niwedd yr ymddiddan, fel yn niwedd llythyr, y mae yr enw "Daniel Rowland" yn argraffedig. Declurena *Uniawngred* trwy amddiffyn ei hun yn erbyn y cyhuddiad o fod yn Ariaid. Ar ol ymresymu yehydig ar hyn, eir ymlaen i ystyried ysgrythyroldeb y gair "Personau," wrth son am Dduw. Wedi hyny, ymddyddenir am y prif bynciau mewn dadl fel y canlyn:—

"*Cam.* Chwi a eilweh alw enwau. Dyma'r peth yr wyf fi yn ei gredu—fod y Tad, yn gystal â'r Mab, wedi cael ei wneuthur yn gnawd, dioddef, a marw. Ond, attolwg, a ydych yn credu i Dduw farw?"

Uni. Ysbryd yw Duw, heb gorff, rhanau, na dioddefadau, ac felly ni all ddi-
oddef, na marw. Fe'i gelwir ef yr *Anfarwol* Dduw, ac am hyny ni ddiehon farw.

Cam. Yr wyf yn dywedyd i Dduw ddioddef, a marw.

Uni. Yr wyf fi yn credu i'r ail Berson yn y Drindod fendigedig, Duw y Mab, gymmeryd arno'r natur ddynol; yr hwn a ddaeth i fod yn un Person yn y Duw-ddyn: ond yr oedd y ddwy natur mor bell yn wahanol oddi wrth y naill a'r llall, fel y mae y natur ddynol a ddioddefodd, ac a fu farw. Ond fel ac yr oedd hi wedi ei huno a'r Duwdod, yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd oedd o'r cyfryw werth a hacdliaint anfeidrol, ac y boddlonodd gyfiawnder Duw am bechod dyn. Y *'Sgrythrau* canlynol sy'n dangos yn oleu mae yn ei natur ddynol yn unig a fu Crist farw. 1 *Pedr* iii. 18. Wedi ei farwolaethu, neu a fu farw, *yn y cnawd*, sef ei natur ddynol. 2 *Cor.* xiii. 4. Ei groeshoelio ef o ran gwendid, neu megys ac oedd ef yn ddyn. 1 *Pedr* ii. 24. Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni *yn ei gorff* ar y pren.

Cam. Yr wyf fi yn credu fod y fath undeb rhwng y ddwy natur, fel y darfu i Dduw, yn gystal a dyn farw.

Uni. Felly chwi a 'chwanegasoch Heresi yr *Eutychiaid* at y ddwy arall. Ond yr wyf fi yn credu y Gwirionedd yr hyn y mae *Athanasius* yn ei ddal, sef fod ein Harglwydd Iesu Grist yn berffaith Dduw, a pherffaith Ddyn, ond un Person, ac hyny nid wrth *gymmysgu'r Sylwedd*, ond trwy undeb Person; Un, *nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn Gnawd*, megys ac 'rwyfi yn diall eich bod chwi yn ei osod ef allan, *ond gan gymmeryd y Dyndod at Dduw.*

Cam. Ond yw'r *'Sgrythyr* yn dywedyd fod y Gair wedi cael ei wneuthur yn Gnawd?

Uni. Y mae'r Esgob duwiol *Beferidge*, yr wyfi yn meddwl, yn gosod y Gwirionedd hyn mewn goleuni eglur: 'Pan gymmerodd ein Harglwydd, medd ef, ein natur ni arno, fe ddaeth yn Ddyn, yn gystal ac yn Dduw. Y Natur ddynol ynddo ef nid oedd yn cael ei *chymmysgu*, fel ped fuasai'r ddwy Natur yn awr wedi ei wneuthur yn un. Yr oeddynt eill dwy yn aros yn wahanol oddi wrth eu gilydd ynddynt eu hunain, er eu bod wedi cael eu huno yn y cyfryw Fodd ac yr oeddynt yn gwneuthur ond un Person.' Yn fy Marn i, i ddywedyd fod Duw yn marw, a Duw yn dioddef sydd Gabledd ofnadwy. Heresi y *Sabeliaid* sydd yn eich arwain i osod heibio arferyd yr Arglwydd Iesu fel Cyfryngwr a Dadleuwr gyda'i Dad; a Heresi yr *Eutychiaid* sydd yn eich arwain i haeru fod Corff Crist ymhob man yn gystal a'i Dduwdod.

Cam. Yr ydwyfi yn dywedyd fod y fath Undeb rhwng y ddwy Natur, fel lle byddo un, y bydd y llall hefyd.

Uni. Mae fy Meibl i yn dywedyd wrthyf fod Corff yr Arglwydd Iesu wedi esgyn i'r Nefoedd; a'i fod ef i aros *yno* hyd amseroedd adferiad pob peth. Nid yw Credo'r Apostolion a'ch Credo chwi yn cyttuno. Rhyfedd, y fath gymmysgiad o Heresiau yr ydych wedi bentyrn ynghyd. Heblaw eich bod chwi yn Antinomiad, yr ydych yn *Sabeliad*, *Patripassiad*, *Eutychiad*, ac yn *Ubicuitariad*.

Cam. Dyma fy Marn i; Beth bynnag ac y wnaeth Grist yn un Natur, fe a'i gwnaeth ef yn y ddwy: ni wnaeth ef ddim mewn un Natur yn wahanol oddi wrth y llall.

Uni. Os felly y mae, fe fu Chwant Bwyd ar y Duwdod; fe gysgodd, ac a fu yn ddarostyngedig i'r cyfryw Wendidau; yr hyn yw Cabledl erchyll yn wir. Ac os yw y Peth 'rydych chwi yn ei haeru yn wir, sef, *Beth bynnag ac y wnaeth Crist yn*

un Natur, fe a'i gonaeth ef yn y ddwy; ni wyddai Crist, fel ac yr oedd ef yn Dduw, pa Fryd y Byddai Dydd y Farn; ac wrth hynny nid oedd efe ddim yn wir Dduw yn eich Barn chwî, gan nad oedd efe ddim yn holl-wybodol. Gwelwch yn awr, pwy yw'r Ariad."

Yr oedd tegweh yn galw am roddi y dyfyniad hwn, gan mai ychydig sydd yn gwybod pa olwg a gymerid gan Rowlands ar y pynciau mewn dadl, na pha resymau oedd ganddo dros ei wrthwynebiad i Harris. Ond wrth droi oddiwrth yr hanes am yr ymranïad, eysurus ydyw darllen yn Mywyd ac Amserau Lady Huntingdon, am gyfarfod a gyn-naliwyd yn Trevecca, yn mis Awst, 1769, mewn eysylltiad â'r athrofa oedd ganddi hi yn y lle hwnw; a chyfarfod cyffelyb wedi hynny yn 1770, pan oedd lliaws o'r gweinidogion euwocaf yn Nghymru a Lloegr yn cyd-bregethu, ac yn cyd-gyfranogi o Swper yr Arglwydd, ac yn eu plith Howel Harris a Daniel Rowlands.

Y mae un gwahaniaeth bychan arall yn werth ei gofnodi. Arosodd Harris mewn undeb â'r Eglwys Sefydledig hyd ei farwolaeth: ond bu Rowlands yn Ymneillduwr am y rhan ddiweddaf o'i oes. Y cyntaf o'r Diwygwyr Methodistaidd a gafodd y fraint o fod yn Ymneillduwr oedd Williams, Pant-y-celyn; ond dilynwyd ef gan Rowlands yn y flwyddyn 1763. Difyr yw darllen yn "Methodistiaeth Cymru" am y dull y llwyddodd yr hen ddiacaon craffus o Dolau bach i gael allan brofion i ddangos fod Rowlands yn Ymneillduwr ewyllysgar. Nid oes un ym-resymiad cadarnach yn Euclid. Ond er fod Rowlands yn paratoi i ymadael, tynodd yr Eglwys Sefydledig arni ei hun yr anfri o'i droi allan. Os oedd y pechod o *sism* yn gysylltiedig o gwbl a'r amgylchiad hwn, y mae yn rhaid mai yr esgob a'i trodd ef allan oedd yn euog; ac nis gwyddom nad yw yr euogrwydd hwnw yn gorwedd hyd heddyw ar yr eglwys o'r hon y cafodd ei ddiarddel. Ond cyn gadael y mater hwn, y mae i ni air hefyd a'r Ymneillduwyr. Cymerir yn ganiataol ein bod ni yn yr oes hon ryw bellder mawr o flaen yr oesoedd a aethant heibio gyda golwg ar egwyddorion Ymneillduaeth; ac nid ydym yn ammheu nad oes goleuni chwanebol wedi ei roddi ar ryw ranau o'r achos hwn, fel achosion eraill. Ond pan glywn y dynion mwyaf yn cael eu diraddio, y mae yn creu gradd o wrthdarawiad yn ein meddwl ac yn peri i ni ymofyn a oeddynt hwy ddim yn gweithredu oddiar ryw egwyddor yn gystal a ninnau. Egwyddor fawr y Puritaniaid ydoedd gwirionedd; ac egwyddor fawr yr hen Fethodistiaid ydoedd achubiaeth y byd. Ymneillduodd y Puritaniaid o'r diwedd am eu bod o gydwybod

yn methu gwneyd yr hyn yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn ei ofyn ; hynny yw, yn methu dyweyd anwiredd. Ymneillduodd y Methodistiaid am eu bod o gydwybod yn gorfod gwneyd yr hyn yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn ei wahardd ; hynny yw, ymdrechu hyd y gallent i achub eu cyd-ddynion. Felly yr oedd Ymneillduaeth yr hen Anghydffurfwyr a'r hen Fethodistiaid yn dwyn perthynas yn fwyaf neillduol a chydwybod ; ond gellid meddwl weithiau fod Ymneillduaeth yr oes hon yn dwyn perthynas yn fwyaf neillduol a'r llogell. Beth os yr hen Anghydffurfwyr, a'r hen Fethodistiaid, wedi'r cwbl, ydoedd ar y tir cadarnaf ?

Adroddir am Rowlands, iddo ddywedyd cyn ei droi allan, " Fe ddaw y bobl gyda fi." Pa un a ddywedodd efe y geiriau hyn ai peidio, mae yn hysbys mai fel hyn y bu. Codwyd capel helaeth iddo yn ddioed mewn man cyfleus ; ac yno y bu yn gweinidogaethu wedi hynny am 27 o flynyddau. Gofalai yn arbenig am fod yno unwaith bob mis, ar Sul y cymmundeb, pryd y byddai dim llai, meddir, na phedair neu bum' mil yn arfer ymgynnull. Dywed ei fywgraffiedydd mai tebyeach i ffair fawr, o ran niferi, oedd yr ymgynnull ; ond nad oedd yno ddim o ddadwrdd na therfysg ffair, gan fod nerth anorchfygol y weinidogaeth yn eu sobreiddio. Rhyfyg o'r mwyaf fyddai i ni geisio disgrifio Rowlands fel pregethwr. Yn ol tystiolaeth y rhai mwyaf cymhwys i farnu, yr oedd yn ddigyffelyb. Dywedai Mr. Charles yn yr hen " Drysorfa," fod ucheledd a phob rhagoriaethau yn ei ddoniau—dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurder a bywiogrwydd yn traddodi dyfnion bethau Duw, er syndod, a'r effeithioldeb mwyaf ar ei wrandawyr. Dywedai y diweddar Mr. Griffiths o Nevern, yr hwn oedd wedi gwrandaw llawer ar y gweinidogion enwocaf yn Lloegr, a Chymru mai Rowlands oedd y pregethwr mwyaf a godidocaf a glywodd erioed. Mae yn amlwg fod ynddo gymhwysderau naturiol mwy na chyffredin ; ond am ansawdd y cymhwysderau hynny nid oes genym ond hysbysrwydd amherffaith. Nid oedd yn canu nac yn bloeddio. Nid ydym yn dywedyd hyn i ddiystyru y naill na'r llall : ac yn sier ni ddymunem golli yr hen dôn serchiadol, na'r floedd soniarus, o bulpudau Cymru. Ond y mae hyn yn dangos nad ydynt yn anheborol, ac na raid i neb feddwl nas gall bregethu yn effeithiol er nad yw wedi ei gynnysgaethu a dawn i ganu nac i floeddio. Siaradai Rowlands yn naturiol a bywiog ; dyrchafai ei lais yn raddol wrth fyned ymlaen ; a phan ddeuai at ddiwedd y mater, byddai y dôn

hono drosodd, a dechreuai yntau yn bwyllog drachefn ar fater arall. Ond fel y dywedodd ef ei hun nas gellid trosglwyddo i bapur yr elfen fywiol oedd yn ei bregethau, felly nis gellir rhoddi un meddylddrych am danynt trwy ddesgrifiad. Yr oeddynt yn llawn o dan byw. Yr oedd rhyw angerddolder ofnadwy ynddynt; ac yr oeddynt o ganlyniad yn effeithio yn gyfatebol ar y gwrandawyr.

Ond y mae yn rhaid i ni derfynu gyda dyweyd fod torf wedi ymgynnull i Langeitho fel arferol un dydd Sadwrn, pan ddaeth y newydd fod yr efengylwr seraphaidd wedi ei gymeryd oddiwrthynt i fyd yr ysbrydoedd. Bu farw Hydref 16eg, 1790, pan oedd ei oedran yn 77.

O.Y.—Pan yn ysgrifenu y rhan gyntaf o'r erthygl hon, yr oeddym wedi darllen gwahanol fywgraffiadau am Howel Harris, y rhai ydynt oll yn dyweyd ei fod wedi dechreu o flaen Rowlands. Ond wrth gydmharu y tystiolaethau a'u gilydd, yr oedd hyn yn ymddangos yn dra ammheus. Ac wedi hyny, wrth ddarllen yn mlaen i *ddiwedd* hanes Howel Harris, gan Mr. Morgan o Syston, daethom at lythyr wedi ei ysgrifenu gan Harris ei hun, yn yr hwn y mae yn dywedyd ei fod ef a Rowlands wedi dechreu tua'r un amser; ond nad oeddynt yn gwybod dim am eu gilydd hyd nes y daeth Rowlands i Eglwys Defynog i bregethu yn y flwyddyn 1737. Felly yr oedd Rowlands yn pregethu yn Sir Frycheiniog y flwyddyn wedi i Harris ddechreu. O ganlyniad y mae bron yn ddiammheuol fod y diwygiad wedi tori allan yn Llan-geitho y flwyddyn o'r blaen, sef yn 1736, y flwyddyn y dechreuodd Harris, os nad cyn hyny.

H O M E R.

DYMA un o'r enwau sydd wedi ennill y lle uchaf yn hanes llenyddiaeth y byd; ac eto pe rhoddid cyfieithiad cywir o'r gweithiau sydd wedi gwneuthur yr enw hwn mor hysbys ger bron llawer darlennydd gwybodus, ac hyd yn nod ger bron ambell un a gyfrifir yn fardd awenyddol, nid yw yn annhebyg y clywid y cyfryw rai, neu y cyfryw un, yn gofyn mewn syndod, Ai rhywbeth fel hyn oedd barddoniaeth yr hen oesoedd? Ai dyma y dyn a edmygir fel un o feirdd penaf y byd? Bernid yn ddiammheuol fod y neb a gymerai y drafferth o'i gyfieithu yn euog o gamdreulio ei amser. Er hynny, gan ein bod wedi arfer myned yn groes i farn y lliaws, yr ydym bron yn ddigon caled i gynnyg ar y gorchwyl. Er mor anghyson ac afresymol y gallai ymddangos, credu yr ydym y byddai yn lles nid bychan i lawer. Byddai pob darlennydd gonest, pa mor ammheus bynag, yn rhwym o ddywedyd wrtho ei hun, ar ol ymbwylo ac ystyried: "Beth os myfi sydd yn cyfeiliorni wedi'r cwbl? Mae yn wir nad oes genyf lawer o ymddiried yn y cyfieithydd presennol, oblegid y mae efe yn llawn o dybiau mympwyol; ond dywedir wrthyf fod rhai o'r dynion mwyaf yn y deyrnas, megys Mr. Gladstone a Iarll Derby wedi bod yn cyfieithu Homer. Dywedir hefyd fod dyn duwiol fel Cowper wedi rhoddi ei amser i'w gyfieithu gynt, a bod dyn mor wybodus a Syr John Herschel wedi cyhoeddi cyfieithiad o hono yn ddiweddar. Mae yn rhaid fod rhyw fawredd yn perthyn i'r dyn hwn cyn y buasai y rhai blaenaf mewn dysg a duwioldeb trwy yr oesoedd yn talu gwarogaeth iddo. Yn lle cymeryd yn ganiataol fod y rhai hyn i gyd yn camsynied, oni fyddai yn fwy diogel i mi ammheu fy marn fy hun? Dyma fi wedi bod yn beirniadu beirdd a phregethwyr yn ol rhyw safon oedd genyf i mi fy hun; beth os yw y safon hono yn anghywir? Dyma waith a gyfrifir yn farddoniaeth o'r fath oreu, ac sydd, meddir, wedi derbyn canmoliaeth y dynion mwyaf cymhwys i farnu am yn agos i dair mil o flynyddau, ac eto nid oes ynddo ond ychydig neu ddim o'r hyn y byddwn i yn arfer ei ystyr-

ied yn arddunol neu yn brydferth. Yr wyf yn dechreu ofni fod rhyw ddirgelwch mewn barddoniaeth nad wyf eto yn alluog i'w amgyffred."

Ond er y credwn mai rhywbeth tebyg i hyn fyddai yr effaith a gynnyrechid gan gyfieithiad cyflawn o'r hen fardd Groegaidd, yr ydym yn gadael y gorchwyl i rai sydd yn meddu mwy o allu ac amser, ac yn cyfyngu ein hunain i ddau o ddarnau byrion fel anghraifftiau. Ymddangosodd un o honynt yn y "Traethodydd" amryw flynyddoedd yn ol. Yn hwnw cymerwyd y mesur 7 a 6. Ond wedi hyn argyhoeddwyd ni fod y mesur hwn yn rhy farwaidd i Homer, ac y byddai y llinellau yn fwy tebyg i "Hexameters" pe cymerid y mesur a arferir yn gyffredin mewn pryddestau. Er mwyn amrywiaeth efallai mai gwel fyddai gadael i rai llinellau yn achlysurol ddiweddu mewn geiriau unsill. Rhoddir yma anghraifft yn y mesur hwn o ddechreu y llyfr cyntaf o'r Iliad:—

ACHILLES AC AGAMEMNON.

DIGLONEDD dinystriol, dadgana O Dduwies,
Achilles fab Peleus, i'r Groegiaid a roddes
Ofidiau fyrddiynau, a dewrion ysbrydoedd
O arwyr a yrodd i Hades yn lluoedd,
I'r cwn roes eu cyrif, a'r holl adar yn 'sglyfaeth;
Ond felly yr oedd Iau yn cyflawni ei arfaeth
O'r pryd cyntaf ffracodd mewn creulawn ysgarmes
Atreides, teyrn dynion, a'r arwr Achilles.

O'r duwiau pwy barodd rhwng y ddau y fath ymdrin?
Mab Leto a Iau: can's yn ddig wrth y brenin
Pla gododd trwy'r fyddin, a'r bobl ddyfethwyd,
Am na wnaeth Atreides i Chryses syberwyd,
Offeiriad, yr hwn ddaethai at longau y Groegwyr,
Er rhyddid ei ferch yn dwyn rhoddion difesur.
Coronau Apollo'r pell-saethydd a ddygai
Ar euraidd deyrnwialen; a'r Groegiaid ymbiliai,
Meib Atreus yn benaf ddau uchel gadfridog:
Meib Atreus, a'r lleill o'r Achaiaid wŷr arfog,
I chwi rhoddo'r duwiau breswyliant Olympus
Ddinystrio tref Priam, a dychwel yn drefnus.
Rhyddhewch f' anwyl blentyn, a'r pridwerth derbyniwch,
Apollo'r pellsaethydd, mab Iau, cydnabyddwch.
Cytunai y lleill o'r Achaiaid yn union
I barchu'r offeiriad, a derbyn ei roddion:
Ond bryd Agamemnon fab Atreus ni foddiai,
Ond gyrai ef ymaith, a gair garw chwanegai.
Ti henwr, na chaffwyf di'n agos gofala,
Yr awrhon yn oedi, neu eto'n dod yma;
Can's yna'r deyrnwialen a'r goron ni thycia.

Ond hi ni ryddhaf—cynt caiff henaint ei haros
 Yn fy nghartref, o'i gwlad yn dra phell, draw yn Argos,
 Yn gweithio wrth y gwýdd, ac yn trefnu fy ngwely ;
 Ond dos, na chythrudda fi, os bywyd ddewisi.

Yr henwr a grynodd, a phlygai 'n ufuddol ;
 Yn fud aeth hyd draeth y môr amrywseiniol.
 Ond pan wrtho 'i hun, rhoes eirchion lluosog
 At y brenin Apollo, mab Leto walltfodrwyog.

Yr arianfwaog, yr hwn Chrysa a gedwi,
 A Cilla, a thros Tenedos sy'n nerthol reoli,
 Clyw fi, os erioed dy deml a addurnais,
 Os iti erioed bras forddwydydd a logais,
 O'r teirw neu 'r geifr, cyflawna fy eisiau,
 Par i'r Groegiaid â'th saethau wneyd iawn am fy nagrau.
 Hyn dd'wedai, a Phoibos Apollo a'i clywodd,
 Mewn digder o uchder Olympus disgynodd ;
 Ei fwa ar ei ysgwydd, a'i gawell cauedig,
 Ei saethau a drystient pan ruthrai yn orddig ;
 Yn debyg i'r nos drwy y wagwybr aeth,
 Draw 'mhell gwnaeth ei sedd, a gollyngodd ei saeth ;
 O'r bwa arianaidd dychrynllwyd y swm,
 Tarawodd yn gyntaf y mulod a'r cwn ;
 Yna'r dynion brofasant y saeth lem a chwerw,
 Gwastadol y llosgai coelcerthi 'r cyrff meirw.
 Naw diwrnod bu'r saethau yn tramwy trwy'r gwersyll,
 Y degfed Achilles alwai 'r bobl i ymgynull.
 Can's hyn yn ei fryd roddes Here deg fwyngu
 O serch at y Groegiaid wrth eu gweled yn trengu.
 Pan ddaethant ynghyd yn un ymgynulliad,
 Achilles fuandroed a safodd i siarad.

Mab Atreus, mi dybiwn yn awr fod angenrhaid,
 Er gochel marwolaeth, i ni ddychwel yn grwydriaid
 Gan fod pla gyda rhyfel yn difa'r Achaiaid.
 Ond gad i ni ofyn i offeiriad neu brophwyd,
 Neu freuddwyd-ddeonglwr, can's o Iau y mac breudlwyd ;
 'R hwn dd'wed pam yn gymaint y digiodd Apollo,
 A, yn herwydd adduned neu aberth mae 'n beio,
 Os myn sawyr wyn, neu eifr perffeithryw,
 I fwynhau er mwyn atal oddiwrthym ni ddystryw.

Eisteddodd : a Calchas gyfododd i'w canol,
 Mab Thestor, o'r brudwyr y mwyaf rhagorol,
 'R hwn wyddai beth sydd, ac a fydd, ac a fuasai ;
 A llongau'r Achaiaid i Ilion ddygasai
 Trwy ei ddawn a roed iddo gan Phoibos Apollo ;
 Llefarai a d'wedai o'i serch atynt eto.

Achilles, gorchymyni i'm ddangos ar lafar
 Ddigllonedd Apollo y teyrn pellgyrhaeddgar :
 Mi dd'wedaf gan hyny, ond trwy lw rhaid it addaw
 Fy helpu 'n ewyllysgar â geiriau ac â dwylaw,
 Can's gwn digiaf un sy'n rheoli'r Argeiaid,
 Ac sy'n derbyn ufudd-dod oddiwrth yr Achaiaid.

Trech brenin pan ddigia wrth ddyn o radd isel ;
 Os ceidw 'r pryd hwnw ei ddigder yn ddirgel,
 Mae yno yn ei galon o hyd i'w gyflawni ;
 Ond d'wed di y gair, a wnai fy ngwaredu.

Gan ateb dywedai 'r buandroed Achilles,
 Llefara yn hyf y gair sy'n dy fynwes.
 Myn Apollo fab Iau i'r hwn 'r wyt ti 'n gweini,
 Calchas, ac i'r Groegiaid ei eiriau 'n hysbysu,
 Tra bwyf fi ar y ddaear yn fyw ac yn gweled,
 Chaiff neb roi llaw arnat ger y llongau er niwed,
 O'r Groegiaid, pe'r enwit hyd yn nod Agamemnon,
 Yr hwn dybia 'i hunan y goreu o ddigon.

Y prophwyd gan hyn ysfarai 'n hyderus ;
 Am adduned neu aberth nid ydym yn feius,
 Ond am yr offeiriad ddibriiodd Agamemnon
 Erwy atal ei ferch a thrwy wrthod ei roddion.
 Am hyn gwaeau wnaeth ef, ac eto a wna ;
 Ac oddiwrth lu y Groegiaid ni symud y pla,
 Nes rhoddir i'w thad y ferch ieuane lygadlon,
 Heb bryniad na gwerth, ac nes anfon gwych roddion
 I Chrysa : bryd hyny bydd Apollo yn foddlon.

'N ol d'wedyd eisteddodd, a chododd yr arwr,
 Mab Atreus, Agamemnon yr äang-reolwr,
 Mewn gofid. Gan lid ei feddyliau 'n ymdduo
 A lenwid : a'i lygaid fel tân yn dysgleirio.
 Wrth Calchas llefarai gan edrych yn hyll :

Ddrwg brophwyd, ni thraethaist er fy lles erioed sill.
 Rhagdd'wedyd rhyw ddrygau erioed yw dy bleser ;
 Dim da ni fynegaist, ni wnaethost, un amser ;
 Ac yr awrhon i'r Groegiaid dywedi fel dewin,
 Mai am hyn dug Apollo i'w plith y pla gerwin,
 Am wrthod o honof fi bridwerth mor hael
 Am y ferch, gan y mynaf i'm cartref ei chael ;
 Can's gwell genyf hi na'm gwir wraig Clytemnestra :
 Nid yw o'i chymharn â hono y waela'
 Mewn gwedd, nac mewn bryd, mewn meddwl na gweithred.
 Er hyn mi a'i rhoddaf, os hyn yw fy nyled ;
 Gwell genyf yw bywyd y bobl na'u hangau :
 Ond chwiliwch am rodd yn ddiatreg i minnau,
 Fel na b'wyf fi 'n unig yn anghyfiawn heb un,
 Can's gwelwch na chaf fi fy rhodd fwyn fy hun.
 Achilles gadarndroed atebodd yn union :
 Fab Atreus, y gwychaf, y glewaf o ddynion,
 Pa fodd rhydd y Groegiaid mawrfrydig it wobrw ?
 Nis gwyddom am chwaneg o roddion rhanadwy.
 Holl ysbail y trefydd sydd wedi ei ranu ;
 I'r bobl ei ddwyn yma drachefn nid yw 'n gweddu.
 Ond ti i Apollo y ferch ieuane traddoda ;
 Yn driphlyg, pedwarplyg, genym ni, gwyr Achaia,
 Cei dal pan rydd Iau i'n gymeryd Caerdroia.

Gan ateb llefarai y teyrn Agamemnon :
 Er cystal, na thwylla fel hyn yn dy galon,
 Achilles, ni lwyddi trwy dwyll na thrwy fodl.
 Ai dewis yr wyt i' dy hun gaffael rhodd ?
 A minnau i cistodd yn ddyn ysbeiliedig ?
 Ac a fynd i mi ro'i hon ymaith yn ddiddig ?
 Hyn wnaif os y Groegiaid rydd imi rodd brydfferth,
 Yn ateb i'm bryd, yn ymddangos yn gydwerth.
 Os na rodd'ant, yna gan ddyfod y deuaif,
 A'th rodd di, neu Aias, neu Odysseus gymeraf ;
 A hwnw at bwy hynag y deuaif gaiff ddiogio :
 Ond hyn rywbyrd eto ymddyddanwn am dano,
 Yn awr dowch a gwithiwn y llong ddu i'r dyfnder,
 Ac iddi y casglwn o'r rhwyfwyr iawn nifer.
 Yr aberth digonol i'r duw roddwn ynddi,
 A'r hardd-deg Chryseis ei hun ddygwn iddi.
 A rhyw un o'r cynghor gaiff fod yn arweinydd,
 Idomeneus, neu Aias, neu Odysseus ysblenydd,
 Neu ti, O fab Peleus, ofnadwyaf o ddyinion,
 I gymodi Apollo trwy offwm teg roddion.

Achilles fuandroed atebodd yn wguſ,
 O wisgwr haerllugrwydd, y rheibiwr trachwantus,
 P'odd cred un Achaiaid i'th eiriau'n barodlon,
 I fyned ar hynt, neu i wrthladd rhai dewrion ?
 Mi ni ddaethym yma achos milwyr Caerdroia
 I ymladd ; ni wnaethant i mi y cam lleia' ;
 Fy meirch a fy ychain i nid ysbeiliasant,
 A'r enydau yn Phthia erioed ni ddfasant,
 Wlad ffurwthlawn a phoblog, can's brynianu cysgodol
 Sydd rhyngom yn lluoedd, a'r weilgi adseiniol.
 Ond er dy fwyn di, y dig'wilydd, daethom yma,
 I ennill anrhydedd oddiwrth bobl Caerdroia
 I dy frawd ac i tithau, y dyn gwynebgiaidd.
 Genyt ti am hyn oll ni chawn barch na gair mwynaid l :
 A bygythi dy human ddwyn ymaith fy rhodd
 A ennillais, ond gefais gan y Groegiaid o'u bodd.
 Nid wyf byth yn derbyn i ti yn gyfartal
 Pan fyddo y Groegiaid yn ysbeilio rhyw ardal.
 Yn y rhyfel cyffrous fy llaw i sy'n gwneyd mwyaf ;
 Ond pan ddel y rhaniad ti gaiff y rhodd benaf :
 Mi gydag ychydig, ac eto yn ddiddig,
 Sy'n myn'd at fy llongau, gan fy ngwaith yn flinedig.
 Ond yn awr af i Phthia, gan mai llawer gwell ydyw
 Dychwelyd tuag adref gyda'r llongau cyfanryw.
 Bod yma heb fri nid yw'n fwrriad i mi
 I gasglu cyflawnder a chyfoeth i ti.

A tebodd yn union Agamemnon teyrn dynica,
 Dos, dianc, os hyny yw ewyllys dy galon.
 Myfi nis gofynaf er fy mwyn i ti oedi :
 Gyda mi y mae eraill a fedrant fy mharchu,

A Iau y cynghorwr o honynt yn benaf;
 Ond ti o'r breninoedd i mi yw'r adgasaf.
 Hoff genyt yn wastad yw ffrac a chyflafan,
 Os wyt lawer cryfach, Duw roddes y cyfan.
 Gyda'th longau a'th gyfeillion dos adref oddiyma;
 Ac ar y Myrmidoniaid fan hono teyrnasa.
 Mi nid wyf yn teimlo o'th blegid un pryder,
 Ac nid wyf yn ofni o herwydd dy ddigder.
 Bygythiad yn mhellach fel hyn ychwanegaf,
 Gan fod Phoibos Apollo yn ei chymeryd oddiarnaf,
 Gyda'm llong a'm cyfeillion anfonaf Chryseis;
 Ond minnau gymeraf y landeg Briseis,
 Dy rodd di, gan ddod at dy babel i'w chyrchu,
 Fel gwypech pa faint arnat ti wy'n ragori,
 Ac yr ofno pawb arall fel cydradd fy ateb,
 Neu hyf ymgystadlu â mi ger fy wyneb.

Hyn dd'wedai. Poen meddwl a lanwodd Achilles,
 A'i galon ymranai ddwy ffordd yn ei fynwes,
 A dynai'r llym gledd, yna gwasgar y dynion,
 A lladd yn ddiatreg y teyrn Agamemnon;
 Ai attal ei fâr, a darostwng ei ddigder.
 Pan oedd ynghylch hyn yn ei feddwl mewn pryder,
 A phan oedd o'r wain yn tynu'r cledd mawr,
 Y dduwies Athene o'r nef ddaeth i lawr;
 Can's Here, lân dduwies, a'i gyrodd yn glau,
 O gariad a gofal yr un wedd am y ddau.
 O'i ol hi a safai, yn ei wallt euraidd cydai,
 Iddo ef yn ymddangos, neb arall nis gwelai:
 Achilles a synodd, yn ol fe edrychodd,
 A Phallas Athene yn ddiöed adnabyddodd;
 Wrth ganfod ei llygaid ofnadwy dychrynai,
 Ac wrthi mewn geiriau adeiniog dywedai,—

Ferch Iau y Tariannog, paham daethost yma?
 Ai i we'l'd Agamemnon yn dangos ei draha?
 Ond d'wedaf, a thybiaf cyflawnir hyn hefyd,
 Cyn hir trwy ei falchder e gyll ef ei fywyd.

Athene, lygadlym, atebodd yn gyflym,
 I attal dy ddig, os gwrandewi, y daethym,
 O'r nef wedi 'm danfon gan Here gain dduwies,
 Yn caru a gofalu am y ddau yn ei mynwes.
 Ond paid â'r ymryson, y cleddyf na thyn,
 Ond dannod mewn geiriau beth fydd ar ol hyn:
 Can's d'wedaf yn awr, yr hyn hefyd gyflawnir,
 Ryw ddydd am y dirmyg hwn eto fe roddir
 I ti gymaint deirgwaith, anrhegion o fri;
 Ond attal dy hun, rho ufudd-dod i ni.

Gan ateb dywedai 'r buandroed Achilles,—
 Anghenrhaid yw sylwi ar eich gair chwi, O dduwies,
 Hyd nod mewn mawr ddigter, can's hyny sydd orau:
 A wrandawo i'r duwiau efe glywant hwythau.

Yna ar y carn arian ei law drom fe rodded l,
 I'r wain y cledd gwthiodd, nid anufuddhaodd
 Orchymyn Athene; i Olympus aeth hitlan
 I drigfa 'r Tariannog at y lleill o'r duwiesau.

Mab Peleus ar unwaith â chwervw ymadrodd
 Gyfarchodd fab Atreus, oddiwrth ddigter ni pheidiodd.—
 Y dyn llawn o win, gwyneb ei, calon hydd,
 Ymarfogi i ryfel gyda 'r lluaus yn rhydd,
 Neu fyned i'r cynllwyn yn mysg y rhai gorau
 O'r Achaiaid ni feiddiaist, i ti mac fel angau.
 Mae 'n llawer mwy diflin trwy 'r holl eang fyddia
 Ysbeilio pob un dd'wedo air yn dy erbyn.
 Deyrn poblddifaol yn rheoli gwheilion,
 Onide troseddlasit y waith olaf yr awrhon.
 Ond d'wedaf i ti, a mawr lw rof yn mhellach,
 Ië, mÿn fy nheyrnwialen 'r hon ni ddwg byth mwyach
 Na deilen na brigyn, er pan ar y mynydd
 Y boncyff adawodd, ac ni thyf o newydd,
 Can's hi oddiamgylch a naddodd y fwyall
 Y dail gyda 'r rhisglyn; yn awr mewn gwedd arall
 Hi meib yr Achaiaid yn eu dwylaw a ddaliant,
 Cyfiawnder-weinyddwyr, y rhai hyny gadwant
 Yr uchel-gyfreithiau oddiwrth Iau ddaeth i lawr:
 Ond yr awrhon i ti hyn yw fy llw mawr;
 Dymuniad yn brudd am Achilles a fydd
 I feib yr Achaiaid yn gyfain ryw ddydd;
 Ac er dy boen llym nis gelli wneyd dim,
 Pan fo 'r llu o flaen Hector yn syrthio 'n ddi-rym;
 A thithau mewn gwyd fyddi 'n gwaco 'r un pryd
 Na pherchaist y goreu o'r Achaiaid i gyd.

Mab Peleus hyn d'dwedodd, ac ar y llawr taffodd
 Ei aurhoeliog deyrnwialen, ac yna eisteddodd.
 Mab Atreus a lidiai; ond codai 'n gyfagos
 Fwyn Nestor, yr hyawdl areithydd o Pylos.
 Llais redai o'i enau na mel yn fwy melus;
 Yn awr dwy genedlaeth o ddynion parablus
 Fuasent feirw, rhai gydag ef gynt a fagesid
 Yn Pylos ardderchog, ac yno anesid;
 Ar drydedd genedlaeth yn awr y teyrnasai:
 Ef wrthynt gan geisio eu lles a lefarai.

O gwae fi: i wlad yr Achaiaid mae tristwch,
 Ond Priam a'i blant yn ddian gaent hyfrydwch,
 A'r lleill o wyr Troia lawenhaent yn eu calon,
 Pe clywent am danoch fel hyn yn ymryson,
 Rai penaf o'r Groegiaid mewn cynghor, ac i frwydro,
 Ond pwyllwch; ieuawgach na mi ydych eto.
 Cyn hyn e fum i gyda gwell gwyr na chwi
 Yn byw, ac ni roisant i'm angen na bri.
 Ni welais eu bath, ac ni welaf byth eto;
 Peirithoos, a Dryas fel bugail yn llywio,

Kaineus, ac Eesadios, a'r gwyh Polyphemos,
 A Theseus mab Aegeus, i'r duwiau 'n gyfagos.
 O ddyinion y ddaear y cryfaf hwy oeddynt,
 Y cryfaf, ac â y rhai cryfaf ymleddynt,
 A'r cewri mynyddig nes yn hollol eu lladd.
 O ardal bellenig ganddynt hwy ce's fy ngwadd ;
 Pan ddaethym o Pylos â hwy cyfellechais,
 A minnau hyd eithaf fy ngallu ymleddais.
 O'r rhai sydd yn awr yn farwolion y llawr
 Nid oes a wrthsafai y rhai hyny am awr.
 Ac eto 'r cynghorion roddwn i a ystyrient,
 Ac ar fy ymadrodd yn ufudd gwrandawent.
 Ufudd-dod gan hyny rho'wch chwithau eich dau,
 Can's llawer iawn gwell i chwi yw ufuddhau.
 Tydi Agamemnon, mor uchel dy swydd,
 Na chymer trwy drais y ferch ienanc o'i wydd :
 Ond gad hi, can's iddo yn gyntaf y rhoddodd
 Holl feib yr Achaiaid y wobrw y o'u gwirfodd.
 A thithau, fab Peleus, na fydd yn awyddus
 I ymryson â'r brenin, yr hyn nid yw weddus.
 Can's nid yw yn perthyn anrhydedd cyffredin
 I un sydd yn dwyn teyrnwialen fel brenin,
 I'r hwn rhoddes Iau ogoniant yn ddibrin.
 Os trech wyt, os duwies yw un o'th rieni,
 Efe sydd yn uwch, can's ar fwy mae 'n rheoli.
 Mab Atreus, tawela, rho heibio o'th fynwes—
 Myfi sydd yn gofyn—dy lid at Achilles,
 Yr hwn i'r holl Roegiaid gyfrifir yn gyfiawn
 Y gwrthglawdd cadarnaf rhag rhyfel echryslawn.

Y teyrn Agamemnon gan ateb ddywedai,
 Hyn oll, yr hen wron, lefaraist yn ddifai.
 Ond hwn sydd yn mynu uwch eraill ymhoni,
 Ar bawb fod yn Arglwydd, ar bawb gael rheoli ;
 Ufudd-dod i hyn ni feddyliaf ei roddi.
 Os ef wnaeth y duwiau sy 'n byw byth yn ymladdwr,
 A y'nt yn rhoi iddo am hyn fod yn gablwr ?

Ond yna ar ei draws atebodd Achilles,
 Cei 'm galw yn llwfrddyn diog a diles,
 Os ildiaf i ti yn mhob peth wyt yn ofyn :
 Rheola rai eraill, i mi na orchymyn ;
 Can's nid wyf fi 'n meddwl rho'i mwy it' ufudd-dod.
 Ond d'wedaf beth arall ; dal ef mewn myfyrdod ;
 A thi na neb arall am y ferch nid ymladdaf,
 Gan eich bod chwi a'i rhoddodd yn ei dwyn oddiarnaf.
 Ond o'r pethau eraill a feddaf ynghyd
 Wrth y llong, ni chei ddwyn dim yn groes i fy mryd.
 Neu tyred, gwna brawf, fel y gwypo 'r holl lu ;
 Dy waed bobtu 'r bicell toc red yn ffrwd ddu.

Fel hyn â chroes eiriau y ddau ymrysonent ;
 Yna 'r dorf wrth y llongau yn rhydd hwy ollyngent.

Achilles at ei bebyll a'i longau cyflawnion
 Aeth gyda Patroclus a'r lleill o'i gyfeillion.
 Mab Atreus a lusingodd long gyflym i'r mor,
 Ac ugain o rwyfwyr ddewisodd : a stor
 Digonol roes ynlddi o'r teirw yn aberth
 I'r duw ; a chymerodd Chryseis, ferch brydfert',
 Gan ei thirion arweddyd ; Odysseus aeth hefyd,
 Yn flaenor, y doethaf o ddynion trwy 'r hollfyd.

HECTOR AC ANDROMACHE.*

'Nol dywedyd hyn o eiriau, helm-arfog Hector gun
 Oddiyno aeth yn ebrwydd i'w annedd lawn ei hun.
 Andromache fraich-wendeg ni chafodd yn y tŷ ;
 Can's hi, ynghyd â'i phlentyn, a'i morwyn daclus gu,
 Ar ben y tŵr eisteddai, gan oehencidio 'n ddwys :
 A Hector, pan na chafodd yn tŷ ei briod lwys,
 Ar drothwy 'r neuadd d'wedai wrth y llancesau oll,
 Lancesau, dowch, mynegwch i mi y gwir digoll ;
 Andromache fraich-wendeg, i ba le 'r aeth o'r tŷ ?
 Ai at rai o'i chwirydd-yn-nghyfraith hardd-deg eu ?
 Ai ynte i deml Athene, lle mae Tröesau coeth,
 Gwallt-bryferth, yn cymmodi y ddigllawn dduwics ddoeth ?
 Y benaf o'r morwynion ddywedai wrtho 'n glir ;
 O Hector, gan it erchu i ni fynegu 'r gwir,
 Nid aeth at ei chwirydd-yn-nghyfraith hardd-deg eu,
 Na chwaith i deml Athene, lle mae Tröesau 'n llu
 Gwallt-brydfert, yn cymmodi y ddigllawn dduwes gref ;
 Ond esgyn wnaeth i gopa tŵr uchel lliion dref :
 Can's clywodd fod y Troiaid yn cael eu gwasgu 'n llym
 Gan ymgyich yr Achaiaid, rai creulawn mawr eu grym.
 At gaer y dref hi redodd, o'i chof gan faint ei chwŷyn ;
 A'r plentyn hefyd ddygid yn mreichiau 'r fammaeth fwyn.
 Fel hyn dywedai 'r llances : yn union Hector aeth,
 Ar hyd heolydd llydain, drachefn y ffordd y daeth,
 Nes cyrhaedd at byrth Scaia, 'n ol tramwy 'r ddinas faith ;
 Can's yno 'r oedd mynedfa o'r dref i maes i'r paith.
 Ac yno i'w gyfarfod ei wraig a ddaeth mewn pryd,
 Andromache, ferch hawddgar Eetion hael ci fryd ;
 Eetion 'r hwn breswyliai Hypophac goediog glyd,
 Yn Thebes lle rheolai 'r Ciliciaid dewr i gyd.
 I Hector fawr bres-helmog rhoddasai ef ei ferch,
 Yr hon ddaeth i'w gyfarfod yn awr yn llawn o serch :
 A gyda hi y forwyn yn cario ar ei bron
 Y plentyn hoff, mab Hector, fel seren loew lon.

* O'r "TRAETHODYDD," am 1852.

Scamandrios oedd yr enw gan Hector gafodd ef,
 Astyanacs gan eraill, can's Hector gadwai 'r dref.
 Ei dad yn ddystaw wenai wrth wel'd ei blentyn glwys,
 A'r fam gerllaw a safai gan dywallt dagrau dwys.
 Wrth law ei gŵr y glynai, a d'wedai wrtho 'n rhydd-
 Anwylyd, gan dy ddewrder dyfethir di ryw ddydd.
 Ac at dy blentyn tyner dideimlad wyt yn wir,
 A minnau 'r hon a fyddaf yn unig yn y tir.
 'R Achaiaid toc a'th laddant, pan ddeuant oll yn llu :
 Ond gwell i mi na'th golli, fyn'd lawr i'r ddaear ddu.
 Dim cysur ni fydd imi pan gwympi yn y gad ;
 Can's genyf nid oes mwyach na hybarch fam na thad.
 Fy anwyl dad a laddwyd gan gledd Achilles fawr,
 A phoblog dre'r Ciliciaid ddinystriwyd hyd y llawr,
 Sef Thebes fawr uchelborth—Eetion laddodd ef,
 Er hyny nid yspeillodd, can's ofnodd fara y nef.
 Ond ef a'i arfau cywrain a losgodd yn y tân,
 Ac uwch y llwch yn arwydd fe gododd grugyn glân :
 A llwyfydd prydfarth hefyd a blunwyd i'w amgau,
 Gan gain dduwiesau 'r mynydd, plant y tarianawg Iau.
 'R oedd genyf saith o frodyr yn nhŷ fy nhad yn byw ;
 Ond oll un dydd hwy aethant i fro 'r uffernol Dduw,
 Achilles ddewr fuandroed a'u lladdodd fawr a mân,
 Plith ychain gwar traed-drymion, a defaid gwynion glân.
 Fy mam, yr hon a lywiai Hypoplac goediog glyd,
 A ddygwyd ganddo ymaith, a'r eiddo oll i gyd.
 Ond am d liderfyn bridwerth gollyngodd hi ar frys,
 Ac Artemis, saethyddes, a'i lladdodd yn y llys.
 Ond ti i mi, fy Hector, wyt dad a mam dy hun,
 Brawd hefyd yr un ffunud, a thi yw'm priod cun.
 O tyr'd yn awr, tosturia, ac aros ar y twr,
 Amddifad na wna'th blentyn, na'th wraig i golli ei gŵr.
 Gerllaw y ffigyswydden sefydla di dy wŷr,
 Lle mae y dref yn hygyrch, a gwanaf yw y mur.
 Tair gwaith y dynion blaenaf a wnaethant ymgais hyf ;
 Y ddau ddychrynlyd Aiacs, Idomeneus gryf,
 A meibion Atreus hefyd, a gwrol fab Tydeus ;
 Pa beth at hyn a'u denodd sydd imi yn ammheus ;
 Pa un ai rhyw un hysbys mewn dyfnion goelion cudd,
 Ai hunan-farn a'u gweithiodd i lawu gynhyrfiad rhydd.
 I hon ar hyn atebai helm-arfog Hector fawr :
 Y pethau hyn a enwaist i gyd, fy ngwraig, a'm dawr ;
 Ond Troiaid, a Thröesau, sy'n gwisgo dillad llaes,
 Beth dd'wedant os fi welant yn cilio 'n llwfr o'r maes ?
 Nid hyny chwaith yw 'm tuedd, can's dewr y dysgais fod ;
 Yn mysg y Troiaid goreu mewn brwydrau bu fy nod,
 I gynnal mawr ogoniant fy nhad a minnau ' nghyd.
 Ond hyn a wn yn ddiau mewn meddwl ac mewn bryd ;
 Y daw y dydd ryw amser pan syrthio llion lân,
 A Phriam arfog hefyd, a'i bobl yn ddiwahan.

Ond am ofidiau 'r Troiaid nid cymaint yw fy nghwyn,
 Na Hecabe a'm magodd, na'r brenin Priam fwyn,
 Na'm brodyr er mor anwyl, y rhai yn aml a flwch
 Dan ddwyllaw dynion creulawn a syrthiant yn y llwch,
 A'r eiddot ti, fy mhriod, yn gaeth pan ddygir di,
 Gan ryw Achaiad arfog, a'th dlagrau 'n ffrydio 'n Ili'.
 Dy waith fydd gwau yn Argos mewn rhyw estronol gell,
 A chario dwr Meseis, neu Hypereia bell,
 Yn erbyn dy ewyllys, dan bwysau creulawn raid :
 A d'wedant pan y'th welant yn wylo yn ddibaid ;
 Hon oedd gwraig Hector unwaith, yr hwn flaenorai 'r gad,
 Yn mysg marchogion Troia o amgylch Ilion fad.
 I ti, pan dd'wedant felly, dwfn drallod newydd ddaw,
 O ddiffyg gŵr mor nerthol i gadw 'r aflwydd draw.
 Ond dan y pridd yn bentwr, yn farw cuddier fi,
 Dyn clywyf am dy drallod, a'th drist gaethiwed di.
 Ar hyn estynai Hector i'w blentyn hoff ei law ;
 A'r plentyn yn ddiattreg a giliai 'n ol mewn braw,
 I fynwes fwyn ei fammaeth, gan waeddi a llechu 'n nes,
 Rhag gwedd ei dad serchoglawn, ac ofn y dysglaer bres,
 A'r anferth grib farchrawnog, a wisgid yn y gŵd,
 Yr hon ysgydwai 'n wgus ar gopa helm ei dad.
 Y tad yn siriol wenodd, a'r fam, edmygawl fun ;
 A'i benwisg hardd yn ebrwydd dyosgodd Hector gun ;
 Ac ar y llawr fe'i dododd yn ddysglaer o bob tu :
 Ac 'n ol cusanu ei blentyn, a'i lon goffeidio 'n hy',
 At Iau cyfeiriodd weddi, a'r duwiau eraill oll ;
 O Iau, a'r duwiau eraill, cenadweh yn ddigoll,
 I'm plentyn hwn, fel finnau, fod yma 'n barchus iawn,
 A chyrhaedd nerth, a llywio yn gadarn llion lawn ;
 Fel d'wedo rhyw un eto, fod hwn yn well na'i dad,
 O ryfel pan ddychwelo, a chario yspail mad,
 'N ol lladd rhyw gawr gelymol, nes lloni bryd ei fam.
 Hyn dd'wedai, a gosodai ei blentyn yn ddinam,
 Yn nwyllaw ei anwyl briod, yr hon mewn siriol swyn,
 I'w mynwes beraroglaidd a'i cym'rodd ef yn fwyn,
 Gan wenu trwy ei dagrau. A'i gŵr pan welodd hyn,
 Dosturiodd, ac a sychodd ei grudd, gan dd'weyd yn llyn :
 Anwylyd, na ofidia 'n ormodol yn dy fryd ;
 Nid oes yn groes i dynged a'm gyr i maes o'r byd :
 Ond tynged, gwn nas gallodd un dyn erioed osgoi ;
 Na'r llwfr na'r mwyaf cadarn, nis gallant rhagddi ffoi.
 Yn awr, dos dithau adref at dy orchwylion maith,
 Y cogel, a llywodraeth y merched glân a'u gwaith :
 Ond gofal dwys y rhyfel, y gwyr a gaiff ei ddwyn,
 Myfi, ac nid fi 'n unig, ond pawb yn Ilion fwyn.
 'Nol d'wedyd hyn o eiriau, yr enwog Hector fawr
 Gymerai 'r helm farchrawnog orweddai ar y llawr :
 A'r wraig hawddgaraf lithau aeth tua 'i chartref coeth,
 Gan edrych 'n ol yn fynych, a thywallt dagrau poeth.

Yn fuan hi gyrhaeddodd i mewn i boblog dy
 Y dewr ddynladdwr Hector, a chafodd yno lu
 O ferched oedd yn gweini; a llefain wnaeth pob un
 Am Hector, er mewn bywyd, o fewn ei dŷ ei hun.
 Ef, meddynt, ni ddychwelai 'n ddiangol mwy o'r gād,
 O ganol grymus ddwyllaw 'r Achaiaid mawr eu brād.

NODIADAU.

Nid oes yn Homer ond ychydig o'r hyn a gyfrifir yn brydfferthwch gan lawer yn Nghymru; ac eto, rywfodd, mae y dynion callaf yn mhob oes wedi talu gwarogaeth iddo fel tywysog y beirdd. Mae yn debyg mai yr achos o'r naill a'r llall ydyw, nad oedd efe yn ceisio gwella anian; ond ymfoddloni i'w chymeryd fel yr ydoedd.

Ni fuasai cyfieithiad Pope mor boblogaidd oni buasai iddo ychwanegu llawer o addurniadau o'i waith ei hun at Homer: ond y mae pob dyn o feddwl coethedig yn rhoddi y blaen i Cowper, o gymaint ag y mae yn fwy llythyrenol.

Yn y cyfieithiad uchod, yr amcan oedd ei wneuthur mor llythyrenol ag y gellid. Y gamp wrth gyfieithu yw rhoddi yr ystyr, yr holl ystyr, a dim ond yr ystyr. Ni ddylid ychwanegu at feddyliau y bardd, mwy nag y dylai y bardd ychwanegu at brydfferthwch anian.

Y mae meddwl i bob gair yn Homer. Y mae pob ansoddair yn dangos rhyw briodoledd arbenig, yr hon a ddylid ei chadw wrth gyfieithu. Ond y mae ystyr rhai o honynt yn ammheus. Er anghraifft, nid yw yn hollol eglur pa fodd y dylid cyfieithu y gair *eilipodes*. Cyfieithasom ef "traed-drymion," gan amcanu at uno y golygiadau a roddir gan Buttman a Passow.

Yn y darn uchod y mae dwy linell y rhai a gyfrifir yn mysg y rhai anhawddaf i'w cyfieithu yn yr holl "Iliad." Ar ol son ei bod wedi colli ei thad, a'i mam, a'i brodyr, y mae Andromache yn dyweyd wrth Hector fod yr holl berthynasau hyn yn cydgyfarfod ynddo ef.

Ond ti i mi, fy Hector, wyt dad a mam dy hun,
 Brawd hefyd yr un ffunud, a thi yw 'm priod eun.

Yr anhawsder yw dwyn i mewn yr holl enwau hoff, tad, mam, brawd, a phriod, a rhoddi neillduolrwydd hefyd i'r olaf, mewn dwy linell, fel y maent gan Homer. Yr oedd hyd y geiriau yn rhoddi i ni un fantais nad oedd gan y cyfieithwyr Seisnig, y rhai ydynt oll wedi

bod i ryw raddau yn aflwyddiannus. Dyma y cyfieithiadau Seisnig yn canlyn, fel y gallo y darllenydd eu cynharu :—

Yet all these gone from me,
Thou amply render'st all, thy life makes still my father's be,
My mother, brothers, and besides thou art my husband too,
Most loved, most worthy. Pity then, dear love, and do not go.

CHAPMAN.

But thou my Hector, art thyself alone,
My parents, brothers, and my lord, in one. DRYDEN.

Yet while my Hector still survives, I see
My father, mother, brethren, all in thee.
Alas! my parents, brothers, kindred all
Once more will perish, if my Hector fall. POPE.

All these are lost, but in thy wedded love,
My faithful Hector, I regain them all. COWPER.

Yet thou, my Hector! thou art all, alone,
Sire, mother, brethren, husband, all in one. SOTHEBY.

Y gwaelfaf o honynt oll yn ddiammheu yw Pope, yr hwn sydd yn gadael allan y gair “priod” yn hollol: ac yr oedd yn rhaid iddo ychwanegu dwy linell at Homer, yr hwn oedd eisoes wedi dyweyd y cwbl oedd yn anghenrheidiol, a'r cwbl a allesid ei ddyweyd heb anafu y meddylddrych. Y mae Dryden yn dda fel arferol; ond y mae yn colli trwy uno tad a mam yn y gair “*parents*,” yn lle eu cadw ar wahan, fel y maent yn Homer. Nid yw Cowper ychwaith yn y lle hwn yn ddigon manwl. Y mae wedi crynōi tad, mam, a brawd, yn y gair “*all*,” yn lle eu henwi; ond y mae wedi cadw y berthynas briodasol. Fe allai mai yr hen Chapman yw y goreu o honynt oll, er ei fod yntau yn methu trwy adael allan y gair Hector, a thrwy beidio cynnwys yr holl feddwl mewn dwy linell. Y mae *Professor* Wilson yn rhoddi y flaenoriaeth i Sotheby; ond y mae yn ei gyfieithiad ef, fel yr eiddo Dryden, un bai, yr hwn sydd yn andwyo y cwbl. Y mae Homer yn rhoddi arbenigrwydd i'r berthynas briodasol, yr hwn sydd wedi ei golli yn Sotheby. Gellid cyfieithu y llinellau gwreiddiol, air am air, fel y canlyn :—

Ond, Hector, ti i mi wyt dad a pharchus fam,
Ac hefyd brawd, a thi i mi wyt briod cun.

CYHOEDDIADAU CYFNODOL Y CYMRY.*

"YR EURGRAWN CYMRAEG."

RHAN I.

"YN awr am dipyn o ddadleuaeth. Y mae Cymru y dyddiau hyn yn rhy lonydd o ddim rheswm. Y mae meddyliau y bobl wedi myned mor ferfaidd a hen ferddwfr. Gwir fod y 'Dysgedydd' yn llafurio yn ffyddlawn a pharhaus i godi rhyw gynnhwrf yn mysg y gwahanol bleidiau crefyddol; ond, fel y mae gwaethaf yr helynt, nid oes neb yn edrych ar hwnnw, druan, yn werth hanner mynyd o sylw. Ond yn awr, dyma y 'Traethodydd' yn cymeryd y misolion mewn llaw; a gwyddom fod gair o'i eiddo ef yn diasbedain o Gaergybi i Gaerdydd." Tebyg i hyn, ond odid, fydd iaith rhai o'n darllenwyr, pan welant yr enwad sydd uwchben yr erthygl hon. Ond rhaid iddynt ganiatáu i ni hysbysu cyn myned yn mhellach, nad ydym y tro hwn yn bwriadu cyflawni eu dysgwyliad. Pa fodd y bydd pan ddeuwn i sylwi ar fisolion yr oes hon, nis gallwn eto benderfynu. Daw hyny i'r golwg, fel pob peth arall, yn ei amser priodol. Ond yn gyntaf, er mwyn parchu henaint, y mae genym rês o hen gyhoeddiadau i'w dwyn ger bron, y rhai oeddynt wedi gwneuthur eu hymddangosiad hanner can' mlynedd neu ragor o flaen y rhan fwyaf o'r planedau sydd yn awr yn goleuo yn ffurfafen lenyddol y Dywysogaeth.

Y mae talm o amser bellach er pan gawsom afael ar hen lyfr, heb un ddalen enwol, yr hwn oedd wedi bod yn perthyn i ddiakon tra pharchus gyda'r Methodistiaid Calffinaidd yn Sir Feirionydd: a mawr oedd ein llawenydd wrth ddeall ein bod wedi dyfod o hyd i'r cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a argraffwyd erioed yn yr iaith Gymraeg. Y mae yn ammheus genym a oedd gorfoledd Columbus yn fwy pan ddargan-

* Or "TRAETHODYDD," am 1848-49.

fyddodd America. Yn mhen enyd ar ol hyny gwelsom yr un llyfr yn mhlith lluwys o lyfrau da eraill oedd wedi bod unwaith yn feddiant i un o'r diaconiaid mwyaf deallus a ffyddlawn gyda'r un enwad yn Sir Ddinbych. Ac yma, nis gallwn fyned heibio heb sylwi mai darllenwyr mawr oedd yr holl grefyddwyr goreu yn yr oes a aeth heibio heb un eithriad. Yr oedd y ddau hen frawd a grybwyllwyd yn hynod mewn duwioldeb a defnyddioldeb; ac yr oeddynt mor hynod mewn ysbryd darllengar. O ganlyniad, yr oedd eu meddyliau yn ymāngu; ac er nad oeddynt ond dynion isel o ran sefyllfa fydol, yr oeddynt yn rhagori mewn gwybodaeth gyffredinol, ac mewn tymher foneddigaidd. Pe buasent byw yn y dyddiau hyn, diau y buasent, fel y mae pawb sydd yn debyg iddynt, yn bleidwyr gwresog i'r "Traethodydd." Ond pa fodd bynag am hyny, cofied ein cyfeillion ienainc, os ydynt am ddilyn yr hen bobl fwyaf duwiol, foḡ yn anghenrheidiol anhebgorol iddynt *lynu wrth ddarllen*. Nid oes achos i ni ofyn maddeuant am droi cymaint a hyn o'r llwybr i ddyweyd gair o blaid llafurio am wybodaeth. Nid ydym byth yn hoffi teithio mor gyflym trwy unrhyw barth o wlad, fel na cheir hamdden i edrych oddeutu ar brydferthwch y greadigaeth, ac i ymddyddan yehydig yn achlysurol â'r trigolion. Hyn ydyw un rheswm cryf sydd genym yn erbyn y cerbydau tân. Ond dyma ni o'r diwedd yn dychwelyd at y pwnc.*

Y mae yn ymddangos na argraffwyd dalen enwol i'r llyfr, oblegid iddo gael ei adael yn anorphenedig. Ond yn yr un y buom mor ffodus a tharaw wrtho yn Sir Ddinbych y mae amlen yr ail rifyn wedi ei chadw yn ofalus: a rhoddwn yma ail-argraffiad o honi, gan ei bod yn cynnwys darluniad mewn rhyw radd o ansawdd y cyhoeddiad. Ni adewir allan y llyfrwerthwyr yn ngwaelod y ddalen; oblegid yr ydym yn ystyried pawb oedd yn dwyn y berthynas leiaf, pe na bae ond y nawfed ach, â'r gwaith hwn, yn deilwng o'u cofnodi: ac nid annifyr fydd gweled euwau y rhai oedd yn gwerthu llyfrau yn mhrif drefydd Cymru yn yr oes hono.

* Teimlem fod enwan y ddau ddiakon uchod yn haeddu eu cofnodi. Y cyntaf oedd Mr. Robert Griffith o'r Bala; a'r llall oedd Mr. Robert Llwyd o Ruthin. Yn ol pob hanes a gawsom am danynt yr oedd y ddau mor enwog am nawseidd-dra eu hysbryd ag am eu hymarweddiad dychlynaidd.

TRYSORFA GWYBODAETH,
 NEU,
 EURGRAWN CYMRAEG.

[Pris Tair Ceiniog yn unig] yr II. RAN,

O ddydd Sadwrn, Mawrth 3, hyd ddydd Sadwrn, Mawrth 17, 1770.

- I. Wyth tu-dalen o HANES CYMRU, o amser Cadwaladr Brenin Prydain, hyd at Lewelyn y diweddaf o Dywysogion Cymru, a 'sgrifenedd gan Caradog o Lancarfan, dan yr enw, *Brut y Tywysogion*.—Yr ystori hon a drefnir yn y cyfryw fodd ag y gellir ei rhwymo wrthi ei hun, pan ei gorphenir.
- II. Wyth tu-dalen arall fydd yn cynnwys Ymresyniadau ar amrywiol Destunau, sef, HOLIAD, A fyddwn ni yn adnabod ein gilydd yn y nef-oedd?—Taith Obida.—Cyngor rhag y pesweh.—I wybod, pan y bo dyn wedi cael ei gnoi gan gi, pa un ai bod y ei yn gynddeiriog, neu nad oedd.—Y modd i wellhau tir.
- III. Wyth tu-dalen o Brydyddiaeth, yn cynnwys, Hunan-Ymddyddan wrth rodio ar hyd y nôs.—Y xix. Salm, gan y diweddar Barchedig Mr. *Risiart Rhys*, o'r Gwernllwyn, ym Merthyr Tydfil.—Cân o alarnad ar ol arlwyddes hawddgar a defnyddiol, yr hon a ymadawodd yn ddiweddar er mawr dristweh a gofid i laweroedd, ac yn gosod allan rai o'i rhinweddau penaf.—Canmoliaeth i'r *Trysorfa Gwybodaeth*, ar rai o'r pedwar-mesur-ar-hugain.—Englynion at y Cyhoeddwr, ac at y CYMRU.
- IV. Wyth tu-dalen o Newyddion cartrefol a phellennig,—yn cynnwys, Gwrthryfel yn llywodraeth y Twrc; Hanes hynod am Mungo Cambel, yr hwn a farnwyd i farw am ladd arlwydd Eglinton; Hysbysiad byrr o'r aflonyddweh presennol yn Llundain,—Nodau ar bregeth Methodist, &c. &c. &c.

*Omne tulit Punctum, qui miscuit utile dulci,
 Lectorem delectando, pariterque monendo.* HOR.

Argraphwyd gan I. Ross; ac ar werth gan R. Rhydderch, yng Nghaerfyrddin; Mr. Williams, o Fleet-street, Llundain; Mr. Cadel, ym Mristo; Mr. Eddowes, yn y Mwythig; Mr. Thomas Bowen, yn Llanfair-muallt; Mr. I. Hughes, yn Niwbwrch, sir Fôn; Mr. W. Jones, yn y Bala; Mr. C. Lloyd, yn Aberystwyth; Mr. Rogers, yn y Fenni; Mr. Jones, yn Aberhonddu; Mr. Savus, yng Nghaerddud; Mr. Beedles, Pont-y-pwl; Mr. Rees, yn Nghastell-Nedd; Mr. Awbry, yn Abertawe; Mr. Wright, a Mr. B. Jones, yn Hwlfordd; Mr. Harris, yn Aberteifi; Mr. N. Watkins, yn Llanymddyfri; Mr. Edwards, yn Llandeilo-fawr; Mr. I. Jones, Rhwymwr Llyfrau, yn Nghaernarfon; Mr. Pughe, yn Llanrhwt, sir Ddinbych; dan lun y Llew Gwynn, ym Machynlleth, sir Drefaldwyn; Mr. Rees, New-Inn; Mr. D. Evan, yn Henllan-am-Goed; a Ioan Efan, Carriwr o Gaerfyrddin i Aberteifi.

Fe ddeisyfir ar y cyfryw Foneddigion, ac eraill, sydd yn meddiannu hen Law'sgrifeniadau Cymraeg, ac yn ewyllysio eu cael yn gyhoeddus, eu danfon at Gyhoeddwr yr Eurgrawn Cymraeg, i ofal y Parchedig Mr. Josiah Rees, o'r Gelligrion, gerllaw Castell-Nedd; R. Rhydderch, Gwerthwr-Llyfrau; neu I. Ross, Argraphydd, yng Nghaerfyrddin.

ENW. Gwelir mai enw y cyhoeddiad hwn oedd “Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg.” Tebyg mai wrth yr olaf o'r ddau yr adnabyddid ef yn fwyaf cyffiredin; oblegid y mae y gohebiaethau wedi eu cyfeirio bron i gyd “At Gyhoeddwyr yr Eurgrawn Cymraeg.” Yn un man yr ydym yn cael y nodiad a ganlyn ar waelod y ddalen; “Y mae *Eurgrawn* wedi myned yn air anghynnefin; ond fe ellir ei arfer fel enw llyfr, gan nad yw o fawr bwys pa un ai gwybyddir mai *Trysor* yw ei feddwl yn nghyfraith Hywel Dda, neu beidio, cylyd ag y gwyddys pa ryw lyfr sydd yn myned dan yr enw. Yn gymmwys fel *Magazine* yn Saesneg.”

PRIS A MAINT. Gwelir hefyd mai ei bris oedd tair ceiniog y rhifyn— yn dyfod allan unwaith bob pythefnos—a phob rhifyn yn cynnwys 32 o dudalenau, wyth-blyg bychan. Yr oedd pob rhifyn hefyd yn bedwar dosbarth, a phob dosbarth yn wyth tudalen wedi eu rhifnodi ar wahan. Ac felly, erbyn rhwymo y llyfr, y mae genym 120 tudalen o'r hen hanes Cymreig a elwir *Brut y Tywysogion*; yr un nifer o dudalenau yn cynnwys Ymresymiaidau ar amrywiol destunau; yr un nifer drachefn o Brydyddiaeth; ac yn olaf, yr un nifer yn llawn o Newyddion cartrefol a phellenig.

AMSER. Mewn traethawd yn y “*Penny Cyclopadia*,” dan y gair *Welsh*, un o'r rhai goreu a ymddangosodd eto ar lenyddiaeth y Cymry, dywedir i'r “Eurgrawn” gael ei gyhoeddi oddeutu y flwyddyn 1770. Ac mewn attodiad i'r trydydd cyflyfr o Adroddiadau y Dirprwywyr, dywed John James ei fod yn hanfodi oddeutu 1760 i 1780. Nid ydym yn synu mewn un modd at anwybodaeth John James. Peth rhyfedd na buasai yn haeru iddo ymddangos rywbyrd cyn y diluw. Ond galleid dysgwyl i Watts, awdwr y traethawd yn y “*Penny Cyclopadia*,” ac yntau yn dwyn perthynas â'r *British Museum*, fod yn fwy manwl. Nid oddeutu y flwyddyn 1770, ond yn y flwyddyn hono, yr ymddangosodd. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ddydd Sadwrn, Mawrth 3ydd, 1770; a'r olaf, ddydd Sadwrn, Medi 15fed yn yr un flwyddyn. Nifer yr holl rifynau a ddaethant allan oedd pymtheg. Hyd yma y mae yn cyrhaedd yn y ddau gyfargraff a welsom ni; a thebyg ydyw mai y pryd hwnw y bu farw, sef y 15fed o Fedi, 1770, yn y bymthegfed bythefnos o'i oedran; a hyny o ddiffig ymgeledd. Cwyna y cyhoeddwyr yn erwin o'r achos yn y rhifyn olaf fel y canlyn:—

“Fe amcanwyd y gwaith hwn yn gystal er difyrwch ag er adeiladaeth i'r Cymry, gan ewyllysio adfywio'r hen iaith ardderchog (ym niha un y derbyniasom ni a'n

teidiau gynnuifer o fendithion) trwy ddiwygio moesau, a chynnyddu gwybodaeth yn ein plith: Ac yr oeddlm yn gobeithio y buasai pawb o hiliogaeth yr hen Frytaniaid a garent eu gwlad yn ein cynnorthwyo yn y gwaith. Eithr trwy profiad cawsom allan ein cansynied canys y mac rhai yn gommedd llettu i'r llyfran caredig sy'n curo wrth eu drysau, ar ol teithio yn galed ar hyd Ddeheubarth Gwynedd i geisio gwneuthur lles i'w wladwyr, ac eraill, yn lle ei goleddu (fel yr haeddai cymmwyn-aswr cywir) yn ei ddirmygu a'i deliarebu, gan ddewis newyddion a barabllir yn Saisnaeg, yn hytrach nâ chydymaith fyddlon yn siaral iaith eu mam, am hyny yr ydym dan anghenheidrydd i roi heibio argraphu yr EURGRAWN mwyach, oni fydd i ryw Foneddigion ac ewyllyswyr da i'w gwlad, estyn eu dwylaw yn fuan i'n cynnorthwyo i'w ddwyn ym mlaen: canys wrth gydmaru'r draul, â'r ennil, yr ydym yn cyfrif ein hunain yn golledwyr eisoes o gant o bynnau, ac uchod!—Os ydyw'r Cymry yn ei wrthod oblegid rhyw ddiffyg, neu am nad yw mor fyddiol ag y dymuned, bydded y cyfryw mor fwyn a hysbysu i ni trwy lythyr, pa beth fydd yn ddiffygiol yddo, neu pa fodd y mynent ei drefnu fel y byddo yn fwy buddiol i'r wlad, ac ni a amcanwn ddiwygio o hyny allan: pa fodd bynnag yr ydym yn cydnabod ein rhwymedigaeth i'r cyfryw a'n cynnorthwyasant â'u *'Sgrifeniadau,* i gyfoethogi'r *Eurgrawn* hyd yn hyn, a'u Caredigrwydd a gofir gyd a dioleh gan

Y CYHOEDDWYR.

“N.B...Y sawl sy'n ewyllysio perffeithio *Hanes y Cymru* anfonent eu henwau ar frys.”

GOLYGWYR.—Mewn bywgraffiad am y Parch. Eliezer Williams, mab y Parch. Peter Williams, yn y “*Cambro-Briton,*” tudal. 452, dywedir—

“Oddentu y flwyddyn 1770, yr ysgolaig Cymraeg a'r bardd enwog hwnw, y diweddar Barch. Evan Evans (*alias* Prydydd Hir), awdwr y '*Specimens of Ancient Welsh Poetry,*' ac amryw gyhoeddiadan eraill, a arferai ymweled yn fynych a'i dad, [sef Peter Williams] ac yn yr amser hwnw daeth Mr. Eliezer Williams i gydnybuddiaeth gyfeillgar ag ef, ac yn y canlyniad cyrhaeddodd wybodaeth fanwl yn ei iaith gynhenid, at yr hen y daeth i deimlo serch mawr. Tua'r amser hwn hefyd bu ei dad yn offerynol i gychwyn cyhoeddiad Cymreig dan yr enw '*Eurgrawn Cymraeg.*' Hwn oedd y gwaith cyfnodol cyntaf a ymddangosodd yn yr iaith hono: golygid ef yn benaf ganddo ef ac un Evan Thomas, bardd Cymreig o Sir Drefaldwyn, yr hwn oedd yn byw y pryd hwnw yn Nghaerfyrddin. Cynnwysai y cyhoeddiad hwn, 1. Brut y Tywysogion; 2. Traethodau a sylwadau ar amrywiol destynau; 3. Prydyddiaeth; 4. Newyddion tramor a chartrefol. Cynnwysai y dosbarth prydyddol rai o gyfansoddiadau Ieuan Prydydd Hir, Hugh Hughes, a Robert Hughes o Fon, John Thomas, a'i fab Evan Thomas, o Sir Drefaldwyn, Iorwerth ab Gwilym, *alias* Iolo Morganwg, ac amryw eraill. Yma hefyd yr ymddangosodd rhai o gyfansoddiadau cyntaf ein bardd ieuanc.”

Wrth yr “ef” yn yr hanes uchod, yr hwn oedd yn golygu yr “*Eurgrawn*” gydag Evan Thomas, y mae yn amlwg y dylem olygu Peter Williams. Hyn hefyd yw tystiolaeth Mr. Watts, yn yr erthygl a grybwyllwyd yn y “*Penny Cyclopædia.*” Ond mewn hanes am y Parch. Eliezer Williams, yn y “*Gwladgarwr*” am Ragfyr, 1840, dywedir mai efe yn benaf oedd y golygydd. Sylfeinir y dybiaeth hon ar linellau o ganmoliaeth i'r “*Eurgrawn,*” yn y rhai y cenir, “Gwel waith Sais, ddyfais wiw dda.” Honir mai wrth y Sais hwn y mae i ni ddeall y

Parh. Eliezer Williams, oblegid ei fod wedi treulio llawer o'i fywyd yn mhllith y Saeson. Ond pe buasai yr ysgrifenydd yn darllen yr holl linellau hyd y diwedd, cawsai weled mai y Sais y cyfeirir ato oedd yr argraffydd, Mr. Ross. Ac heblaw hyny, nid oedd Mr. Eliezer Williams, pan gyhoeddwyd yr "Eurgrawn," ond un-ar-bymtheg oed : ac nid oes dim lle i feddwl iddo fod erioed cyn hyny allan o Gymru. Pan oedd oddentu un-ar-ddeg neu ddeuddeg oed anfonwyd ef i Ysgol Ramadegol Caerfyrddin ; ac yno yr arosodd nes y symudwyd ef i Rydychain. Ein penderfyniad ni gan hyny ydyw, mai y golygwyr oedd Peter Williams ac Evan Thomas. Ar yr un pryd gellir casglu fod gan Ross ei hun ryw law mewn cydweithrediad â hwy yn yr olygiaeth : a diau eu bod hefyd yn derbyn cynnorthwy effeithiol a gwerthfawr oddiwrth Ieuan Brydydd Hir.

Nid rhaid i ni hysbysu i'n darllenwyr pwy oedd Peter Williams ; er, efallai, mai ychydig o honynt oedd yn gwybod o'r blaen ei fod yn ar-olygu y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a ddaeth allan yn yr iaith Gymraeg. Ei enw ef yw un o'r rhai cyntaf a bareblir gan blant bach y Cymry ; ac y mae wedi ei gydbblethu yn meddyliau miloedd o honynt gyda'r cofion am yr hen Fibl mawr, o'r hwn y darllenai eu tadau neu eu teidiau y bennod i'r teulu bob boreu a hwyr. Hir y parhao ei goffadwriaeth yn fendigedig. Ond pwy oedd Evan Thomas ? A oes dim o'i hanes ef ar gael, heblaw ei fod yn fab i un John Thomas o Sir Drefaldwyn ? Y crybwylliad cyntaf a fedrasom ni loffa mewn perthynas iddo oedd ar wyneb-ddalen yr ail-argraffiad o "Ymroddiad" (neu Ymadroddiad) Morgan Llwyd, yr hon sydd fel hyn ; "Yr Ymroddiad, neu Bapuryn, gan Morgan Llwyd. Wedi ei ddiwygio yn ofalus gan Ifan Thomas, Argraffydd. Mwythig, argraffwyd gan W. Williams. 1765." Yn 1765, yr oedd yn Nghaerlleon gydag Ioan Harvie, fel y gwelir oddiwrth y llyfr a ganlyn ; "Helaethrwydd o Ras i'r Penaf o Bechaduriaid. Sef Hanes Ioan Bunyan. Wedi ei gyfieithu o newydd gan Ifan Thomas, Argraffydd. Caerlleon, argraffwyd gan Ioan Harvie, tros Pedr Morris o Lanrwst. 1766." Yr un flwyddyn ymddengys iddo argraffu llyfryn o'i waith ei hun, dan yr enwad a ganlyn ; "Anfeidrol werthfawrog-rwydd Enaid dyn, ac anhraethadwy ffolineb y dyn a fo diofal am dano. Ynghyd ag annogaeth ddifrifol i bechaduriaid droi at Dduw, a derbyn iechydwrriaeth i'w heneidiau. Gan Evan Thomas, Argraffydd. Caerlleon, argraffwyd. 1766." Rywbryd cyn y flwyddyn 1770 aeth i Gaerfyrddin, lle y bu, mae yn debygol, am rai blynyddau. Ond yr

ydym yn cael iddo ddychwelyd i'r Amwythig; oblegid gwelsom fwy nag un o hen lyfrau wedi eu hargraffu yno yn y flwyddyn 1781, yn cynnwys ychydig o'i hanes ar y ddalen olaf yn y geiriau hyn—"Gan T. Wood, Gwerthwr Llyfrau yn y Mwythig; y gellir cael argraffu pob math o lyfrau yn gywraint, a chopïau Cymraeg wedi eu diwygio yn ofalus gan *Ifan Thomas*, cyssodydd a diwygydd yr argraffiad cyntaf o'r Bibl Cymraeg yng *Nghaerfyrddin*, yr hwn sydd yn awr yn byw gyda T. Wood. Gellir cael yno hefyd bob math o lyfrau, a chyffyrïau i iachau pob math o glefydon a doluriau (gyda chymmorth Duw), y rhai ydynt wedi eu hawdurdodi gan y Brenin er lles i'w ddeiliaid trwy'r deyrnas." Y mae genym hefyd hen lyfr arall yn ein meddiant, yr hwn a argraffwyd yn yr Amwythig gan T. Wood, "lle gellir cael argraffu pob math o Lyfrau Cymraeg wedi eu diwygio yn ofalus, gan *Ifan Tomas*. 1783." Hyd yma yr oeddym wedi ei olrhain pan anrhegwyd ni gan gyfaill yn Sir Drefaldwyn â'r nodyn canlynol, a dderbyniasai efe oddiwrth yr hybarch Walter Davies. Nid ydym yn credu fod neb arall yn Nghymru a fuasai yn medru rhoddi hysbysrwydd mor gyflawn. Ond pa beth na wŷr Gwallter Mechain? Dylasai fod yn esgob er ys llawer blwyddyn; a gresyn na bai ein brodyr yn Eglwys Lloegr yn ymryddhau oddiwrth y llywodraeth, fel y gallent ddewis dynion o'r fath hyn i'r swydd esgobawl.

"Myfi a'i hadwaenwn 'o herwydd ei weled'—ac yn yr Amwythig, yn argraffloft Thomas Wood, cyhoeddwr cyntaf y *Shrewsbury Chronicle*, y gwelais ef.

Efe a fuasai o gyleh y flwyddyn 1770 â llaw yn y gwaith o argraffu yr '*Eurgrawn*,' gyda *Ioan Ross* yn Nghaerfyrddin. Rhol o ddyr corffol oedd, ac efe a yfai gwrw fel yr yf yr ych ddwr. Cysodydd llythyrenau ydoedd mewn argraffdy, mwy felly nag awdur y llyfr a argraffai. Efe a gyhoeddodd *Almanac Cymraeg* (pris 8c.) yn ei enw ei hun—yr enw barddonol a gymerai arno ei hun, fyddai *Ieuan Fardd du*. Ei daid oedd Thomas Abel, o'r Wtra Wen, plwyf Llanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn; a'i fab ef oedd John Abel, ac ef oedd un o ddilynwyr Howell Harris o Drefecca, ac elai ar deithiau i bregethu hyd y wlad, a gelwid ef John Thomas—dim sen am Abel mwyach.

Amrai lyfrau bychain a gyhoeddwyd rhwng y blwyddau 1770 a 1780, gan Evan (neu Ifan) Thomas, argraffydd; a dim chwaneg o hysbysrwydd yn ei gyleh. Priododd Evan Thomas ferch o deulu cyfrifol, merch Cae Ceirch, ger Dolgellau. Chwaer oedd hi i Mrs. Erasmus Evans o dre Llanfyllin, a chwaer hefyd, os da fy nghof, i dad y Prif Ynad y Cyllid-lys (*Chief Baron of the Court of Exchequer*) Sir Richard Richards, marchog, ac aelod o'r Senedd Brydeinig am fyr ysbaid.

Dyma i chwi ddigon o son am un na wnaeth erioed fawr o son am dano ei hun; yn hyn yr oedd yn lled debyg i'r Sais, bedd-argraff yr hwn, meddynt, oedd fel hyn:—

'Here lyeth the body of John Nokes,
Who liv'd and dy'd like other folks!' W. D."

ARGRAFFYDD.—Ar y pen hwn nid oes dim annilysrwydd; gan fod yr amlen yn mynegu ei fod yn cael ei argraffu gan I. Ross, yng Nghaerfyrddin. Sais oedd efe, o ran ei eucdigaeth, yr un modd a rhai o brif argraffwyr Cymru ar ol hyny: a cheisiodd un Daniel Thomas wneyd defnydd o'r ffaith hon i godi rhagfarn yn ei erbyn, ar ddiwedd llyfryn a argraffwyd ganddo yn y flwyddyn 1773, dan yr enw "Llythyr oddiwrth rhyw un at Mr. Jones o Ystrafin," yn yr hysbysiad a ganlyn oddiwrth yr argraffydd at y Cymry, yr hwn sydd yn werth ei gadw fel anghraifft o haerllugrwydd. Gofaled y cyssodydd am adael pob llythyr-en yn union fel y mae. "Foneddigion—O ran bod ein gwlad er ys talm heb (o bossibl) un Argraphydd o GYMRO, ac fedrau breintio yn gywraint; a thrwy hyny yn gorphod cael Argraphwyr pellenig yw mhysg. Bydded hysbys i'r holl Dywysogaeth; y gellir cael Argraphu yn Llanymddyfri, gan Dan. Thomas, pob math o Lyfrau, &c. &c. yn y modd mwya cywraint yn Europe, gwedi eu darlunio yn ol ffurf y Saison, a'r Ffrangcod, ymhlith pa rai y darfym hela y rhan ifangeaf o'm amser." Ond er fod Dan. Thomas wedi "hela y rhan ifangeaf o'i amser" yn mhlith y Saison a'r Ffrangcod, digon prin y mae yn dyfod i fynu yn y diwedd ag argraffwasg Caerfyrddin. Ymddengys i Ross fod yno am ryw yspaid yn cydargraffu gyda Rhys Thomas; oblegid ar wyneb-ddalen "Atteb Philo-Evangelius i Martha Philopur," gan Williams, Pant-y-celyn, dywedir, "Caerfyrddin: Arpraphwyd gan Rhys Thomas a J. Ross, yn Heol Awst, 1763. Lle y dygir Argraphyddiaeth ym mlaen yn ei holl rannau, ar Lythyrenau Newyddion yn y dyll mwyaf eiwrain." A oes neb yn teimlo tuedd i ysgrifenu hanes Argraffwyr Cymru? Pa bryd bynag y gwneir hyny, dylai Ioan Ross gael un bennod helaeth. Er mwyn gwneyd a allom ni i gadw ei enw mewn coffadwriaeth, rhoddwn yma y llinellau barddonawl y soniasom am danynt yn barod. Barned y darlennydd pa un ai at Ross ai at Mr. Eliezer Williams y maent yn cyfeirio.

AT BRINTIWR Y TRYSORFA GWYBODAETH.

"Er bod gormod o'r CYMRY mor goegfalch ddiystyr o'u Mam-iaith, na fynnant ei harfer, etto y mae yn iaith sylweddol, sylfaenol, hyspysol, a gwell grammad-aeg iddi na nemawr o ieithoedd eraill; er argyhoeddi'r cyfryw na lwyr ddi-foddodd ei chywreirwydd, ac i roddi prawf o brif farddoniaeth, y cyfansoddais y Llinellau hyn o Ganmoliaeth i'r TRYSORFA GWYBODAETH, neu'r *Euryrawn Cymraeg*; gan ddisgwyl y cyffry beirdd Deheubarth i goledd a chefnogi yr unrhyw Fesurau.

I.

GWEL Waith Sais, ddyfais wiw dda,—a hollawl,
 Ddeallwr Aeg CAMBRIA ;
 C'wilydd i ni, coledd wna
 Araith amhur 'r iaith yma.

II.

Gorchest-Waith odiaeth ydyw
 Ar yr iaith orau o ryw ;
 Cofrestr ni fu'r cyfryw—un,
 Ie *Magasin* megis yw.

III.

G. g. { —Wych yw'r Sais, ei—ais ar—oedd,
 —Wr yw ef i—weirio'r iaith
 —Ymro-ae—amhur ; a—oedd
 —oll, ei—wellhau—orau—waith

IV.

Derbyn { Pob Tre, Lle, a Lla—
 Cof restr llawer Lle—
 Feirdd-waith llawnfaith llo—
 Hanes llech-res 'lly— } nn

V.

Fel addewaist, } fydd i'w ddilyn.
 A feddyliaist, }
 Gyr Newyddion, } o Gaerfyrddin.
 Gair i Feirddion, }

VI.

P. — P. — ion.
 —arch i *Ross* enwog—erchir ei son—
 —arod mae'n cynig—arhaed 'i amcan—
 —uro y *Frudainiaith*—ôr o fryd un—
 —ybyr hyfforddir—awb o'r hoff feirdd—
 —rysur roddir newydd—ellenig,
 —eri i'r Aeg ysig — ara i rag oes—

VII.

Deheubarth loyw-barth lwys—'r un mesur
 Moeswech ddawn gyfrwys,
 I ganmawl gwaith mor gymmwys,
 Rhoes mcwn hedd o *Wynedd* Wys.

I. TOMAS, o Sir Drefal Iwyn.

Gan nad yw yn debyg fod gan neb ddim yn ychwaneg i'w ofyn o barth amgylchiadau yr "Eurgrawn," a'r dull o'i ddwyn yn mlaen, ein gorchwyl nesaf fydd sylwi ar ei gymwysiad. Ond o herwydd fod yma faes mor doreithiog, rhaid i ni adael y rhan fwyaf o hono hyd y rhifyn nesaf. Cymerer y waith hon ryw ychydig fel blaen-brawf. Dechreuwn gyda thraethawd byr ar Foddlonrwydd, nid o ran ei fod yn rhagori ar lawer o ddarnau eraill, ond am mai dyma y cyntaf yn nosbarth y traethodau.

"YNGHYLCH BODDLONRWYDD.

Tuag at ddysgu neu gyrhaedd Boddlonrwydd rhaid ein bod yn gyntaf wedi ein sylfaenu yn dda yn y gred o ragluniaeth Duw, yn llywio ac yn rheoli pob peth. Pan y byddom yn gwybod ac yn credu fod llygad Duw dros yr holl fyd, yn cyfarwyddo neu yn goddef pob damweiniâu, yn ol ei anfeidrol dloethineb a'i ddaioni; hyn a'n gwna ni yn foddlon, pa beth bynag a fyddo ein cyflwr a'n hamgylchiadau yn y byd: hyn a ddysg i ni, megis St. Paul, pa fodd i ymostwng, a pha fodd i ymhelaethu; ac a'n cyfarwydda ni ymhob lle, ac ym mhob peth, pa fodd i ymddwyn mewn hawddfyd ac adfyd, i fod yn llawn ac yn newynog, mewn helaethrwydd ac mewn prinder. Boddlonrwydd dan y cystuddiau trymmaf, a bâr i ni ddilyn amynedd ac ymstyngiad Job; neu os bydd yr annuwiol yn ein hammharchu, ni a'i cymmerwn mewn addfwynder, megis y gwnaeth Dafydd oddi wrth Simei, o herwydd i Dduw oddef iddo. Y mae'r gwir Gristion yn credu fod pob peth yn gweithio er daioni i'r sawl sy'n caru Duw; efe a wyr nad yw Crëawdwr daionus pob peth ddim yn cystuddio gwaith ei ddwyllaw ei hun yn ewyllysgar; ac oddi ar y gred hon y mae e'n wastadol yn ddiolchgar, yn dawel, ac yn foddlon, dan bob math o Ragluniaethau.

OND na feddylid neb fod Boddlonrwydd yn gynhwysedig mewn tymher ddiotal, segur a diog: mor belled oddiwrth hyn, fel ag y mai'r cyfryw fath o ddynion yn gyffredin yw y rhai mwyaf anfoddlongar; ac yn wir, braidd y gallant lai nâ bod felly; yn gymmaint ag mai hwynt hwy yn fynychaf yw awdwyr y croesau a'r anfaiteision ag fo'n yn eu blino; ac na's gallant, o eisiau diwydrwydd, symmud ymaith y drygau hynny ag y mae eu hamynedd mor lleied danynt.

NID yw tlodi ddim cyflwr dymunol; er y bydd gwr doeth yn foddlon iddo, etto y mae efe bob amser yn barod i ymafyd ym mhob cyfle teg, ac i arferyd pob moddion cyfreithlon i wellhau ei gyflwr; ond yn hytrach nâ choffeidio neb rhyw offerynau anghyfreithlon; efe a ddewis farw dan ei lwyth, ac ymostwng yn esmwyth i'r rhan honno ag y mae e'n tybied a gafodd ei gosod iddo gan Ragluniaeth. Os cynnydda golud, nid yw efe ddim yn rhoddi ei galon arno; os lleiha efe, nid yw efe ddim yn grwgnach o blegid y gollod, gan wybod nad y'nt o ddim gwasanaeth yn hwy nâ'r bywyd hwn, ac mai ei ddyledsydd ef yw ymofyn am drysor mwy parhaus. Dyma'r fath yw dedwyddwch meddwl boddlongar.

PE dysgai dynion fod yn foddlon yn eu hamrywiol sefyllfaoedd; pe gallent ond gwybod pa bryd y mae ganddynt ddigon, neu ddysgu ymostwng pan b'o eisiau mewn gwirionedd arnynt; neu pe ni chwennychent byth gael ychwaneg, ond oddi ar y dymuniad canmoladwy o fod yn fwy gwasanaethgar i'w cymmydogion, yna darfyddai yn gwbl am bob rhyfel a difrawd, creulondeb a gormes, twyll ac anudon: byth ni roddid gwobrwy er gwyro barn, canys y gwr boddlongar ni throeddai ei ddyledsydd oddi ar y fath ystyriaeth: gwlad ni chyfodai gleddyf yn erbyn gwlad, ac ni chynnygiai un dyn yspeilio arall. Oddi wrth Foddlonrwydd y tardd

trfn a chysondeb, cyflawnder a gwirionedd, trugaredd a hoddweh; ac o ddiffyg Boddlonrwydd y tardd yr holl ddrygau sydd yn cystuddio dynol-ryw."

Y mae genym ryw feddwl i ni ddarllen y chwedl a ganlyn yn Saesneg. Ond y mae yn werth ei hargraffu unwaith eto, yn enwedig mewn dyddiau fel hyn, pan y mae cymaint o addoli Mammon, a chymaint o ddiystyru y tlawd am ei fod yn dlawd.

"YSTORI Y GWR BONHEDDIG A'R BASGETWR.

Ynghanol yr ynysoedd hynny ag sy'n myned dan yr enw Ynysoedd Solomon, y mae un o faintiol llawer mwy na'r lleill. Un o hynafiaid y tywysogion, ag sy'n llywodraethu'r ynys hon yn bresennol, a fu'n achos i'r ynysoedd yma gael eu galw yn Ynysoedd Solomon, o herwydd y doethineb hynny gyd â pha un y diwygiodd efe foesau'r bobl.

Rhyw wr bonheddig yn yr ynys ddedwydd hon, gan ddiystyru yr holl gynheddfau da hynny ag a lewyrchasent yn ei hynafiaid ef, ni feddyliai am ddim, ond pa fodd i gynnal ei gymmeriad a'i anrhydedd, trwy falchder anwybodus, a thueddiad hollol i ganlyn digrifweh. Yr oedd ganddo ef dŷ ar lan y môr, ym mha le y treuliai y rhan fwyaf o'i amser mewn hela a physgota. Ond rhwystr blin iddo, wrth ganlyn ei ddifyrweh pwysfawr, ydoedd lain hir o forfa, llawn o gyrs ag oedd yn gorwedd rhwng ei dŷ ef a'r môr. Ac o'r diwedd, gan farnu nad cymmwys ydoedd i wr o'i radd ef gymmeryd ei rwystro yn ei bleserau, er mwyn esmwythdra neu gyflenstra crefftwr taeg; ac wedi gwneuthur llawer cynnyg ar brynu'r llain gan ei berchenog, yr hwn ydoedd Fasgetwr tlawd, eithr onest a diwyd, bywoliaeth pa un oedd yn ymddibynu ar weithio'r cyrs hynny, mewn modd priodol iddo ei hun; y gwr bonheddig, ar ddiwrnod o wynt uchel a orchymynodd i'w weision losgi'r cyrs, ac felly i symmud y rhwystr oddi ar y ffordd.

Y basgetwr, gan weled ei hun wedi hollol anafu, a achwynodd am y gormes a gawsai, mewn geiriau mwy cyfattebol i'w deimlad ef o'i golled, nag i'r parch ag ydoedd yn ddyledus i radd y troseddwr: a'r wobr a bwrcasodd ei achwyniad ef ydoedd, yr anchwanegiad o ergydion, tafod drwg, a phob math ar ddirmyg a diystyrweh.

Nid oedd ond un feddyginiaeth i'w chael, a honno a gymmerth ef: canys, gan fyned i'r llys ger bron y brenin, yn llawn o nodau drwg driniaeth, efe a fwriodd ei hun wrth ei draed ef, ac a gafodd ddŷfyn neu wys er dwyn ei orthrymwr ger bron: yr hwn, gan addef y cwyn, a geisiodd amddiffyn ei ymddygiad, trwy haeru bod y gwr tlawd yn anystyriol o'i ymostyngiad, ag sydd yn ddyledus oddi wrth y werin i wr bonheddig o uchelradd.

Ond attolwg, ebe'r brenhin, o ba radd oedd eich hen dad cu chwï, pan, ac efe yn holltwr coed ym mhalas fy hynafiaid, y dyrchafwyd ef o blith y werin hynny, am ba rai yr ydych chwï yn som ddiystyrlyd, mewn ffordd o wobr am yr hydtra a'r ffyddlondeb nodedig a ddangosodd efe wrth amddiffyn ei feistr? Etto yr oedd ei ragoriaeth ef yn llawer ardderchocceach na'r eiddo chwï; rhagoriaeth o deilyngdod ydoedd, ac nid o ddamwain. Y mae'n ddrwg genyf, fod gwr bonheddig yn fy nheyrnas mor ddiddyall a bod heb wybod, na chaniattawyd hawddfyd a helaethrwydd o bethau da'r byd iddo, ond fel y gallai, gan fod yn rhydd oddi wrth y gofalon o ddarparu drosto ei hun, droi meddwl ei galon, ei ben, a'i ddwyllaw at ddaionia cyhoeddus eraill.

Yna y brenin, gan attal ei ymadrodd, a dafodd ei olwg gyd â soriant ar y tros-

eddwr balch, yr hwn oedd yn ymddangos yn dra digllon ei wedd, ac yn sisial allan ei anfoddlonrwydd i'r annogaeth a roddai'r ffordd hyn o farnu i'r bobl gyffredin; pa rai (eb efe) nid ydynt i'w hystyried ond fel personau o ddim anrhydedd, mewn cydmariaeth i ddynton ag a anwyd i'w hanrhydeddu. Lle bo ystyriaeth yn eisian (eb yr brenhin, gyd â gwên o ddiystyrweh) rhaid i ddynton deimlo eu diffygion yn mhoen eu dioddefiadau. Yanhuno, ebe efe, wrth un o gadpeini ei longau, dihatrweh y gorthrymwr a'r colledwr, a dygwch hwy i'r pellaf a mwyaf barbariaidd o'r ynysodd, rhoddwch hwynt ar dir yn y nos, a gadewch hwynt ill dau yno i gymmeryd eu helynt.

Y lle ym mha un eu gosodwyd ar dir ydoedd forfa, dan gysgol eyrs pa un, yr oedd y gwr bonheddig yn gobcithio y gallai efe ymguddio, a diange oddi wrth gydymaith ag oedd mor anaddas yn ei olwg ef. Ond y golceni yn y llong a gynhyrfodd y barbariaid ag oedd yn preswyllo'r ynys, ac amryw o honynt a redasant i wared; ac yn y borau hwy a gawsant y dieithriaid yn eu lloches lle yr ymguddiasent. Gan roddi bloedd arswydus a gresynol, hwy a'n hamgylchynasant; a chan ddynesu atynt, â math o bastynau yn eu dwylaw, dangosasant lawn fwriad i'w dihenyddu, heb ddim teimlad o lettygarweh na thrugareidd. Dechreuodd y gwr bonheddig weled erbyn hyn, nad oedd rhagoriaeth ei waed ef ond gwagedd: canys, rhwng ei deimlad ef o gywilydd, ac anwyd, dan y noethni na phrofodd efe eriodd o'r blaen; ofn y canlyniad oddi wrth ymgyrch creulon y barbariaid, ac eisian medr i'w difyru hwynt, ac i dawelu eu gwylltineb, efe a gwympodd y tu cefn i'w gyfaill, gan wneuthur arweinydd o'r dyn hwnnw, ac a gyfrifasid ganddo yn anheilwng o gael ei ystyried yn gydymmaith iddo.

Y basgetwr, ar y llaw arall, i ba un yr oedd tloidi ei gyflwr wedi gwneuthur noethni yn gynnesin; i ba un yr oedd bywyd o boen a hunan ymwadiad wedi gwneuthur marwolaeth ymron yn ddymunol; a ehof pa un am ei fedrusrwydd mewn crefft, ag na wyddai'r barbariaid ddim am dani, a roddodd iddo obaith am ddiogelweh, sef trwy ddangos y gallai ef fod yn ddefnyddiol, a ymsymmudodd gyd âg eonder a gwroldeb; ac wedi tynu dyrnaid o'r eyrs, efe a eisteddodd i lawr yn ddigyffro; a chan wneuthur awgrym y dangosai efe iddynt ryw beth teilwng o'u sylw, efe a ddechreuodd weithio dan wenu ac amneidio; tra yr oedd y barbariaid yn nesáu, gan ddyfal graffu arno mewn disgwyliad o weled rhyw gywreinerwydd.

Ni bu e ddim yn hir cyn iddo blethu math o dalaith neu goron, o waith taeclus a chywraint; a chan gyfodi, gyd â phareh, ac yn ddiiofn, efe a nesaodd at un o'r barbariaid ag oedd yn ymddangos fel eu pennaeth, ac a'i rhoddodd yn dirion ar ei ben ef; ymddangosiad pa un, dan yr addurn newydd yma, a ynnillodd gymmaint ar ei ganlynwyr ef, fel y tafasant i lawr eu pastwynau, ac y gwnaethant ddawns o roesaw, gyd â mawr lawenydd, o amgylch awdwr rhodd o gymmaint gwerth yn eu golwg.

Nid oedd un yn eu plith, nad oedd yn amlygu dymuniad cryf am gael ei wneuthur mor daeclus a'i bennaeth: ac felly yr oedd erbyn hyn gan y basgetwr druan lonaidd ei ddwyllaw o waith. A'r barbariaid, wrth weled un yn gwbl segur, tra yr oedd y llall mor ddiwyd yn eu gwasanaethu hwynt, a gymmerasant eu harfau, o blaid cyfiawnder naturiol, ac a ddechreusant ddirwyn rhesymau celyd arno er ateb eu diben.

Yn awr, tosturi y basgetwr a wisgodd ymaith y goffadwriaeth o'i ddioddefiadau: ac felly efe a gyfododd, ac a amddiffynnodd ei orthrymwr, gan wneuthur awgrym na fedrai efe ddim o'r gelfyddyd; ond y gellid, os rhyngai bodd iddynt hwy, ei osod yntef ar waith i gyrchu eyrs i'w ddiwallu ef, cyn gynted ag y gallai ef eu gweithio hwynt.

A'r cynnyg hyn, yn ddamweiniol, a gydweiddodd â dymuniad ag a amlygasai'r

barbariaid o gael aros yn segur, fel y gallent sefyll o amgylch, ac i edrych ar y gwaith, ag oedd yn rhoddi cymmaint o bleser iddynt. Am hynny hwy a adawsant y gwr bonheddig at ei ddyledswydd yng ngwasanaeth y basgetwr; gan ei ystyried ef, o hynny allan, fel gwr ag oedd i gael ei gyfrif a'i drin megis un o is radd na'u cymmwynaswr.

Gwyr, gwragedd, a phlant, o bob ewr i'r ynys, a ddaethant yn dorfeudd i gael coronau: a chan ddodi y gwr bonheddig ar waith, i dorri a chasglu gwrys a pholion, hwy a wnaethant fwth trefnus uwch ben y basgetwr: ac a ddygasant i wared yn feunyddiol o'r wlad y cyfryw ymborth ag yr oeddent hwy eu hunain yn byw arno; gan gymmeryd gofal na chaffai y gwas (sef y gwr boneddig) ddim, hyd nes byddai'r meist'r, (sef y basgetwr) wedi darfod bwytta.

Tri mis o ystyriaeth yn y cyflwr annymunol yma, a roddodd dro newydd a chymnwysach i feddyliau y gwr bonheddig: yn gymmaint ag iddo un noswaith, tra yr oedd yn gorwedd yn ddihun, ac yn wylu, gyfaddef ei ffolineb, a datgan ei farn o blaid y basgetwr. 'Mi a fum yn feius; ac yn fyr o ddyall i wahaniaethu rhwng damwain a theilyngdod. Pan y dylaswn i ystyried natur, ni wnaethum i ond edrych ar wagedd. Y rhagoriaeth a wna damwain fydd wag a disylwedd: ac mi a welaf, yn rhy ddiweddar, mai pethau defnyddiol yn unig sydd deilwng o anrhydedd. Y mae arnaf gywilydd, pan y cydmarwyf fy malais i, i feddwl am eich tynerwch a'ch tosturi chwithau. Ond pe cawn i fy adferu etto i'r mwylhad o'm hanrhydedd a'm dedwyddwch, mi a roddwn i chwi hanner a feddwyf yn iawn am y cam a gawsoch genyf.

Efe a addawodd, ac a gyflawnodd ei addewid: canys y brenin yn ebrwydd wedi'n a ddafonodd y cadpen a'u dygasai hwynt yno, i'w cyrchu yn ol drachefn. Ac y mae e'n ddefod, hyd y dydd hwn, yn yr ynys honno, i ddifreinio pawb boneddigion, ac na allant roddi gwell rheswm dros eu balchder na darfod iddynt gael eu geni i fod yn segur. A'r gair am y gosp ddyledus hono yw, —

'Danfonwch ef at y Basgetwr.'"

Yn y *Principality*, ychydig yn ol, ymddangosodd beirniadaeth yn collfarnu y gair bychan *ag*, pan arferir ef fel rhagenw, megys yn yr ymadrodd "Un o hynafiaid y tywysogion *ag* sy'n llywodraethu'r ynys hon." Ond canfyddir oddiwrth y dyfyniadau uchod nad oedd y rhêol yma yn cael ei dilyn yn yr "Eurgrawn." Ysgrifenydd medrus yw golygydd y *Principality*; ond credwn iddo syrthio am unwaith i amryfusedd. Dadleua nad yw Dr. Pughe yn ei gyfrif yn un o'r rhagenwau; ond pe edrychasai i'r "Geirlyfr," cawsai mai yr unig anghraifft a roddir gan Dr. Pughe dan y gair *ag* yw, "Plant y fall *ag* oeddynt." Amlwg ydyw mai yr un ystyr sydd i *ag* yn y frawddeg hon, ag yn y rhai a gollfarnir gan y *Principality*. Nid yw o bwys pa un a elwir ef yn rhagenw neu arddodair. A chryfach awdurdod na Dr. Pughe ei hun yw arfer gwlad, na'r hyn nid oes dim yn uwch oddieithr rheolau tragwyddol cyfiawnder a rheswm. A dealler mai dadlen yr ydym yn unig dros ei gyfreithlondeb yn y manau hynny lle y mae eisoes yn arferedig.

Ond yn y fan yma, wrth edrych pa ddyfyniad i'w gymeryd yn nesaf, y mae yn dyfod i'n cof ddarfod i ni unwaith roddi yr "Eurgrawn" yn llaw cyfaill, yr hwn wedi darllen yr amlen yn ei ddechreu, a ofynai yn gyntaf oll, Beth yw y sylwadau yma sydd ganddo ar bregeth Methodist? Rhag y bydd eraill yn teimlo cyffelyb anesmwythder, cfallai y byddai cystal i ni ddyweyd nad oes yma nemawr o ganmol-iaeth nac o anghymeradwyaeth; ac nid hawdd yw gwybod pa beth oedd amcan yr ysgrifenydd. Ond gan nad yw yr holl nodiad yn faith, rhoddwn ef fel y mae ger bron y darlennydd.

"AT GYHOEDDWYR YR 'EURGRAWN CYMRAEG.'

Foneddigion,

Ryw bryd gwedi llofruddio Mr. William Pywel o Lanareth, digwyddodd i mi fyned heibio lle'r oedd Methodist hynod yn areithio i gynulleidfa liosog; mi fum mor ysmala ag oedi ychydig i wrando, a chlywais yr hynod ymadrodd canlynol; yr hwn os cyflewch yn eich 'Eurgrawn' da fydd gan eich dyfal ddarlennydd, &c.

Gobeithio, ebe efe, y bydd i oergwmp galanas y Bonheddig hwnnw gael effaith dda ar swyddogion a phobl ein gwlad.—Myfi a glywais neu a ddarllenais yn rhyw le, am wr a gyhuddwyd o lofruddiaeth, ac yr oedd tystion digonol i'w brofi yn euog, eithr llwch aur a ddalodd y tystion, a lygrodd y dadleuwyr, a siommodd y barnwyr, ac a dwylodd y rheithwyr (*jury*) fel y dygwyd i mewn, *Dieuog!* a'r drwg-weithredwr a ryddhawyd: eithr dialedd Dnw a ganlynodd yr adyn ystrywgar, ac a'i nododd, debygid, â nód Cain; canys yr oedd o hynny allan yn atgas gan bawb, ac a geisiodd ymddifyru mewn adeiladaeth, &c. eithr ni fedrai ymbleseru'n iawn mewn dim oddi eithr trawsedd a gorthymder; ac wrth ymddiddan nid allasai gymmaint ag edrych yn daer yn wyneb gwr onest. Ac o'r diwedd mintai o oferwyr anhydyn wedi cydfwriadu i'w erbyn a ruthrasant arno fel ar Eglon yn ei barlawr, ac a'i lladdasant: ar ba achos torf o oferwyr anllad anystywallt a ddaliwyd ac a roddwyd yng ngharchar, lle y cadwyd o fewn terfynau fel llongau a'r chwarren ynddi, rhag i'r pla o fradwriaeth lygru'r wlad; o ba le, am na feddent allwedd aur, ni fedrent ddiange, eithr derbyniasant daledigaeth teilwng o'u gweithredoedd, ac wrth y pren dioddef ymddangosodd eu bod yn euog o ddirdra haeddiannol o'r crogbren amryw weithiau o'r blaen: ond yr oeddynt yn offerynau parod yn uwylaw rhai dynion drygionus, y rhai a'u coleddent rhag fflangell cyfiawnder. Wele! gymmaint ddrygioni a dyfodd o gyd-ddwyn â pdechod, a gwyro barn er gwobr neu ffafr; a chofied pawb os bydd i drawsedd a chreulonder ddiange rhag cospedigaeth ddynol, y canlyn dialedd Dnw'r euog. Mi glywais reswm (er y dichon fod hyn yn ddychymyg coel-grefyddol) lle y byddai llawer o lygod yn heidio mewn tŷ, y byddai yn argoel o gyfnewidiad mawr yn y teulu hwnw. Y mae achos i ofni pan y byddo'r wlad yn llawn gan heidiau o rai anniwair, gloddestwyr, yspeilwyr a llofruddion, fod rhyw farn wrth y drws, ac y daw cyfnewidiad anhyfryd ar y genedl lle y dioddefir y cyfryw bethau."

Y mae yn bryd, erbyn hyn, i ni droi at y cyfansoddiadau prydyddol. Rhaid addef fod yma lawer o gymysgedd—rhai yn wych, a rhai yn

wael. Hwyrach mai mewn rhyw ddosbarth canol, rhwng y gwael a'r gwych, y dylid cyfleu y pennillion a ganlyn : ond yr ydym yn eu hail-argraffu o barch i ferched ieuaine Cymru, ac oddiar ofal am danynt. Llawen oedd genym weled cynnygiad yn yr "Amserau" yn ddiweddar am fisolyn iddynt hwy yn benodol ; a gobeithiwn yr a ymlaen yn llwyddiannus. Nid ydynt eto wedi derbyn digon o sylw yn yr un o'r cyhoeddiadau Cymreig ; ond fel rhyw fath o iawn am yr esgeulusdra, ac fel cais egwan at gyflenwi y diffyg, dyma i chwi rai cynghorion buddiol, ferched hawddgar, allan o'r hen "Eurgrawn Cymraeg."

" Pennillion a ganwyl i Ferch ieuangc, ag oedd yn bwriadu priodi Oferddyn, gan ei Thad-bedydd.

I.

Mae genn'i Ferch-fedydd, mor bêr ei Lleferydd,
Yn caru Llawenydd gwych beumydd mewn Byd ;
Lluosog mae 'n lleisio, does dim yn ei blino,
Nac achos i gofio fawr Gofid.

II.

Mae ynddi ryw Fwriad, a'i bygwth mae bagad,
Mae drwg yw'r Canluniad, oer Brofiad ryw bryd
Y daw ar fyrr etto, trwy weled a theimlo,
I wylu wrth gofio am y Gofid.

III.

Mae hyn yn wir ddigon am bawb o Blant Dynion,
Nad Mawredd eu Moddion, rai beilchion mewn byd,
A'u gwna nhwy'n wir happus, a'u cadw'n gyssurus
Rhag bod yn anafus gan Ofid.

IV.

Mae hyn yn wir hefyd, heb Gyfran o'r Golud
Na thraculir y Bywyd yn hyfryd yn hir ;
Y Dewra o blant Dynion wrth brofi Diffygion,
Yn ddigon digalon fe 'i gwelir.

V.

Mae 'r Ie'ngetid yn hoywon a'u Nwydau fydd gryfion,
Y rhai'n fel Olwynion yn rhwyddion, a rêd
I Gyflwr tra gorthrwm, yn groes i bob Rheswm ;
Nes myned dan Gwlwm cyn gweled.

VI.

Fel Haid o Ryfelwyr, heb Osteg nac Ystyr,
A rythrant i'r Frwydr annifyr yw'r Nod,
Cyn dyall eu Cyflwr, na gwrando Cyfrwyddwr
Am Nerth eu Gwrth'nebwr na'i 'nabod.

VII.

'Nol myn'd i Gyfyngder, a Thralod a Phrinder,
 Fe laesa 'r Gwrolder a'r Gwychder i gyd ;
 Yr awchus a'r uchel a ddaw yn war isel
 Wrth ymdrech mewn Gafael a'r Gofid. IORWERTH AB IOAN."

Dyma ychydig eto ar destun arall, ond ar yr un mesur : a mesur melus ydyw. Cenid llawer arno gan amryw o'r hen brydyddion, megys Rhys Prichard, Huw Morys, ac Edward Richards o Ystradmeurig.

"GAIR O GYNGHOR I'R CYFOETHOG.

I.

CHWYCHWI ' rhai ariannog, a gwladwyr goludog,
 Bon'ddigion cyfoethog, ac enwog Wyr gwych,
 Gosodwch ar gyhoedd o'ch Arian a'ch Tiroedd,
 Ryw Gyfran o Gannoedd sydd genych.

II.

I roddi 'n llaw 'r Werin Orehwylion cyffredin,
 A'i dal i'w eu dilin yn ddiilin o dde :
 Amddiffyn Gonestrwydd, a Rhinwedd a Sobrwydd,
 Cefnogi diwydrwydd hyd adre.

III.

Dwg hynny Wirionedd a chrefydd a Rhinwedd,
 Yn lle pob Gormodedd, a Thrawsedd ni thrig ;
 Fe ddyry foddlonrwydd i'ch Meddwl yn ebrwydd,
 Fe'ch ceidw rhag Gw'radwydd llygredig. LEWIS HOPCIN."

Y mae y rhan fwyaf o'n darllenwyr wedi clywed am y creaduriaid annaturiol hyny a adnabyddir yn y dyddiau hyn wrth yr enw "Ty-lwyth Dic Sion Dafydd." O ba le yr hanasant nid yw yn hysbys. Ond nis gellir gwadu nad oeddynt yma er yn foreu ; a thost iawn oedd y blinder a barent i'r hen ysgrifenydd oddeutu dau cant neu ychwaneg o flynyddau yn ol. Y mae achos hefyd i ofni eu bod yn yr oes hon yn myned ar gynnydd. Rhai o honynt hwy fu yn ddiweddar yn dwyn cam-dystiolaethau gwaradwyddus yn erbyn y Cymry. Dyma y dynion sydd yn dibrisio pob llyfr a ddaw allan o'r wasg Gymreig. Hwy sydd yn rhy falch i ysgrifenu yn Gymraeg at fasnachwyr Lloegr, ac yn dwyn gwarth ar eu gwlad trwy eu Saesneg anghelfydd. Cyfarfyddir â hwynt yn heidiau yn y trefydd mawrion, lle yr ânt i wrandaw y Saeson, oblegid nad oes pregethu digon "dealldwriaethol" iddynt hwy, yr epaod di-synwyr, yn addoldai y Cymry. Os bu neb erioed yn haeddu filangell,

dylai y tylwyth hyn ei chael yn ddiarbed : a dyma hi yn barod wrth law yn yr "Eurgrawn."

"*Ychydig* BENNILLION, *yn crybwyll yn fyrr am y ffoledd sydd yn rhai o'r Cymry, fod mor chwannog i droi yn Saeson, a gwadu eu Iiaith eu hunain.*"

- 1 F'ch mysg y mwynion Gymry,
Trwy gariad rwy yn gyrru,
Ychydig gŵynion mwynion maith,
Mewn cynnes iaith i'w canu.
- 2 'Rwy'n gweled er ys dyddiau,
Ar rai o'r Cymry feiau,
Am droi yn Saeson sirion waith,
A gwadu iaith eu mammau.
- 3 Sef iaith yr hen Frutanied,
Oedd wycha gwyr a faged,
Ac yn fawr eu parch a'u clod,
Cyn son am fod Saesonied.
- 4 Ein henafiaid ni oedd bobol,
O flodau a graddau gwreiddiol,
A ddaethant gynta i mewn yn wir,
I Frydain dir hyfrydol.
- 5 Brenhinoedd a thywysogion,
Arglwyddi a marchogion,
O uchel waed oedd wychion wedd,
A boneddigaidd ddigon.
- 6 A fu yn rheoli Lloegr,
A Llundain a'i holl bwer,
Heb siarad ond Cymraeg yn bur,
A hynny 'n hir o amser.
- 7 Ni ddylai neb fod eto,
Yn brysur i ddibrisio,
Mo'r iaith i ni a rodde Duw,
A chyflawn yw ei chofio.
- 8 Ac eto mae rhai dynion,
Yn coelio yn eu calon,
Mai rhyw anrhydedd mawredd maith,
Yw sisial iaith y Saeson.
- 9 A llawer llanges landeg,
A ymrydda i Sais yn anrheg,
Yn ei chyfri ei hun yn sâl,
Nes medru sisial Saesneg.
- 10 A llawer coeg gymhennig,
A ateb wr bonheddig,
Dim Cymraeg na medra mi,
A llediaith foli Seisnig.

- 11 A braidd y medr lithau,
Lefaru chwech o ciriau,
Chwaethach siarad Saesneg iawn,
Na b'ont yn llawn o feiau.
- 12 Tra fyddo'r cyfryw bethau,
A'r Saeson nid oes eisiau,
Achos cymmwys ar bob cam,
I chwerthin am eu pennau.
- 13 Pob Cymro mwyn siaraded
Gymraeg, a'i wlad na waded ;
Na roed ormod fyth ychwaith
O'i serch ar iaith dieithriaid. R. E."

Terfynwn ein hysgrif, fel y mae yr "Eurgrawn" yn terfynu ei "Ymresymiau," gyda disgrifiad o gyflwr Ewrop yn y dyddiau hynny:—

"CYFLWR PRESENNOL EUROP.

Y Russiaid	—	—	yn rhyfela.
Y Twrciaid	—	—	yn ffoi.
Yr Allmaeniaid	(Germans)		yn gloddesta.
Yr Holandiaid	(Dutch)		yn ynnill arian.
Y Ffrancod	—		yn ymgrymu ac yn twyllo.
Y Scotiaid	—		yn cael swyddau dan y goron.
Y Gwyddelod	—	—	yn grwgnach.
Y Saeson	—		yn diogi ac yn gwneuthur dim.
Y Cymry (sef y rhai a brynant yr <i>Eurgrawn</i>)			yn darllen newyddion am danynt oll."

NODIAD. Dywedai Sydney Smith nas gellid gyru *joke* i benau yr Ysgotiaid heb oruchwyliaeth anianyddol. A rhag y dichon fod rhai o'r Cymry yn debyg iddynt, dymunwn iddynt esgusodi y cyfeiriad at y "Traethodydd" yn nechreu yr erthygl, a chofio fod y cwbl yn cael ei ysgrifenu ar y cyntaf o'r gadair olygyddol. Dylid hysbysu hefyd fod yr hyn a ddywedir am y "Dysgedydd" yn cyfeirio at yr hyn ydoedd, ac nid at yr hyn ydyw.

RHAN II.

Y MAE yn hen sylw fod y rhan fwyaf o ddawn awdurol yr oes hon yn rhedeg i'r cyhoeddiadau cyfnodol. Felly y mae wedi bod yn Lloegr er pan sefydlwyd yr "*Edinburgh Review*," i'r hwn o bryd i bryd yr ysgrifennai Jeffrey, Sydney Smith, Brougham, Macintosh, a Macaulay. Er mwyn gwrthwnebu y cyhoeddiad galluog hwn, cychwynwyd y "*Quarterly Review*" yn Llundain, yr hwn a gynnelid yn benaf gan Gifford, Syr Walter Scott, Southey, Lockhart, a Wilson Croker. Yn "*Blackwood's Magazine*" yr ymddangosodd cyfansoddiadau campus y *Professor Wilson*, y rhai a wnaethant y cylchgrawn hwnw y mwyaf poblogaidd o'r holl fisolion. Y mae Thomas Carlyle wedi bod yn ysgrifenu ar gyleh i'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau cyfnodol, heb ofalu i ba blaid y perthynent; ond yn benaf i "*Fraser*," yn yr hwn y gwnaeth ei "*Sartor Resartus*" ei ymddangosiad cyntaf. Meddyliem fod Thomas De Quincey er ys amryw flynyddau wedi cyfyngu ei hun i "*Tait*," yn yr hwn y cynnorthwyir ef gan Gillfillan. Bu John Foster yn ysgrifenydd cyson am hir amser, a Robert Hall yn achlysurol, i'r "*Eclectic Review*." Yn y gofrestr hon nid ydym wedi son am neb ond y rhai ydynt neu oedd-ynt yr ysgrifenywyr blaenaf yn Lloegr a'r Alban; a gwelir eu bod oll wedi cysylltu eu henwau wrth ryw gyhoeddiadau cyfnodol.

"Yn enw pob synwyr," medd rhywun, "beth yw dyben y rhagymadrodd mawreddus hwn? At ba beth y mae hyn i gyd yn arwain?" Caniatâer i ni ateb ei fod yn arwain yn uniongyrchol at yr "Eurgrawn Cymraeg." Fel y mae cyffelyb achosion yn cynnyrchu cyffelyb effeithiau, mae yn amlwg fod yr amser yn nesu pan y bydd yn rhaid i ni edrych i gyhoeddiadau cyfnodol y Cymry os mynwn ffurfio barn gywir am ei llenyddiaeth. Y mae felly eisoes mewn rhan; ond nid i'r graddau a ellir ddysgwyl mewn amser dyfodol. Hawdd yw gweled, gan hyny, fod y gangen yma o lenyddiaeth Gymreig yn haeddu sylw arbenig, ac mai dyledus yw rhoddi un erthygl eto i'r "Eurgrawn," yr hynaf o'r holl gyhoeddiadau cyfnodol. Ein gorchwyl y tro hwn fydd disgrifio ei gynnwysiad; ac nis gallwn wneuthur hyny yn well na thrwy roddi lliaws o anghreiffian ger bron ein darllenwyr. Nid oes un ffordd arall i amlygu ei ansawdd, gan nad yw yn arddangos unrhyw egwyddorion neillduol mewn duwinyddiaeth na gwladychiaeth.

Dyma un o'i ddiffygion penaf. Nid oes ganddo un pwynt penodol. Er hyny y mae ynddo amryw draethodau buddiol ar grefydd brofiadol ac ymarferol; megys yr un a ddyfynwyd yn ein rhifyn diweddar ar "Foddlonrwydd." Un o'r rhai goreu yw "Ymddyddan ynghylch Gwlad newydd," yr hwn sydd wedi ymddangos yn barod yn y cylchgrawn bychan a elwir "Y Geiniogwerth," ac am hyny nid yw wiw ei argraffu yma. Ond rhoddwn ddwy anghraifft yn mhellach dan y pen hwn, yn y rhai, os nad ydym yn eamsyniad nid yw yn anhawdd canfod dullwedd y Parch. Peter Williams.

AM EIN GWYBODAETH YN Y NEFOEDD.

"Y MAE llawer o wyr duwiol a dysgedig yn casglu, oddi wrth amryw amgylchiadau, y cawn ni adnabyddiaeth bersonol o'n gilydd yn y nefoedd; ac y maent yn sylfaennu eu barn ar waith Adda yn adnabod Efa mewn cyflwr o ddiniweidrwydd, a dammeg y goludog a Lazarus; ynghyd â llawer o leoedd eraill yn y 'sgrythuran i'r un perwyl. Ac yn ddiau, os yw gwybodaeth i gael ei pherffeithio yn y byd gwell a gogoneddlusach fry, fe fydd i ni adnabod, er mai gyd â serechiadau gwahanol oddi wrth y rhai sydd genym yr awr hon, ein cyfeillion, perthynasau, a'n cydnabod. Yn breseunol ni allwn ni weled ond ychydig i mewn i fesuron a goruchwyliaethau Rhagluniaeth; eithr pan symmudir ymaith y llen, ac y gwisgir y golygon yma âg anfarwoldeb, yna y cawn weled mewn modd llawer eglurach a pherffeithiach nag y mae yn bosibl i ni wneuthur â'n galluoedd presennol. Ac O! y llawenydd a'r gorfoledd anhraethadwy a leinw feddyliau y cyfryw anfarwolion, wrth gyfarfod â'u cyd-bererinion wedi cyrraedd yn ddiogel i ben eu taith, ac yn cyd-gyfranogi o bleserau diddifianedig a chynhyddol. O! fy enaid, na threulia mo'th amser ynghylch ymofyniadau anfuiddiol ac amherthynasol, eithr canlyn y pethau mwyaf pwysfawr a chyfrifol fydd yn ymgynnyg i ti; gwybydd yn sicr na bydd eisieu dim yn y nefoedd ag a ddichon gyfrannu at dy wynfyd di, yno y cyfarfyddi ag un ansawdd barhaus o hapusrwydd, un filam ddigwmmwl o ogoniant, un dydd tragrwyddol diderfyn. O! fy enaid astudia wers fawr bywyd dynol. Bydd fyw i farw, a bydd farw i fyw BYTH. Anadla tuag i fywu, cyfod tua thragwyddoldeb, ymestyn tua'r nefoedd, a chymmer olwg ar yr ardaloedd uchod. A glywi di y gerddoriaeth, onid hyfryd yw gan dy glust ei felus gydgordiad? Wele! fel y maent yn canu, fel y maent yn ymlonni, yn llawenhau, ac yn gorfoleddu! O! fy enaid, ymgysura ac ymorfoledda, canys ar fyr amser y bwri heibio wisgoedd llygredigaeth, ac y'th arwisgir âg anfarwoldeb. Etto m'n mhen ychydig o amser ti a gei dy drosglwyddo o'r llwch i anllygredigaeth, a'th dywys trwy entrych ehang y ffurfafen, hyd oni'th ddyger i mewn i balas disglair a gogoneddus yr Hollalluog, i gael dy wneuthur yn un o'r gymdeithas nefol. E fydd y nefoedd yn llammu ar dy fynediad i mewn, a'r angylion a'r seintiau yn lalar ganu, 'Croesaw it' i dŷ dy Dad.' Rhoddir coron gogoniant ar dy ben, a phalmwydden tangnefedd yn dy law; cei'th lonaid o lawenydd a hyfrydweh, a chystudd a galar a ffy ymaith yn dragrwydd."

CYFARWYDDIADAU I IAWN DREFNU EIN BYWYD.

"Na phwysa oruchwyliaethau'r nefoedd yn nhafol rheswm tywyll ac amherffraith, eithr ymostwng yn ddistaw i law yr Hollalluog. Pan y byddo rhagluniaeth mewn ymddangosiad yn gwgu arnat, a'r byd yn dy gernoio, nac anesmwytha.

Coffia na ddanfônir bamedigaethau yn ofer, ac na chyfrannir trugareddau heb orchymyniad. Y mae Duw yn gweithbredu 'n wastadol yn y modd gorau. Na rwgnaeh ddim gan hyny, o herwydd dy gyflwr marwol; eithr cymmer y 'stad bresennol bob amser mewn cysswllt a'r un fydd i ddyfod. Ystyria mai nid y byd hwn yw'r ewbl a hanfod; ac er nad wyt ysgatfydd yn mwynhau dy gyfran y tu yma i'r bedd, etto ymg'sura; canys os ydwyt wir dduwiol, ti a gai feddiannau helaethach yr ochr draw.

Trwy'r moddion yma, gwrthddadleuon yn erbyn rhagluniaeth a ddiiflanant, a phob penbleth mewn bywyd a fydd hawdd ei ddiddyrysu. Ystyria y derfydd dy adfyd ar fyrr, ac y bydd terfyn i'r chweraf o'th gystuddion. Y cymmylau a'r tywyllwch fydd yn awr yn amgylchu ac yn cysgodi holl ardaloedd dy fynwes, a ddiiflanant oll pan wawrio'r dydd, a phau gyfodo yr haul yn ei nerth, ni welir gwmwl mwy: os tra byddo dy ysgraff bychan yn marchogaeth ar y weilgi terfysglyd (*ocean*) y byd yma, y par awelon gwrthwyneb a thymestloedd gerwin i ti ofni, etto coffia nad yw'r daith yn hir, ennyd etto a phob perygl a ddiiflana, ac ni wnei ond coffio ei fod: ac er y dichon yr wybren dywylln, a du-dew gymylau'r nefoedd dy ddychrynu, etto cred yn sier caiff dy lygad yn fuan weled golygiadau eglurach, o'r fath ag a rydd hyfrydwech annhraethadwy i'th enaid. Er rhuo o'r tonnau, ac ymddyrechafu o honnyd megis mynyddoedd, eto pob gwynt, tymmestl, terfysg, annhrefn, a marwolaeth, a gydweithiant oll i'th drosglwyddo i'r ardaloedd nefol.

Bydded i'r ystyriaeth o anwadalwch a brauder bywyd i'th gymmell yn oestadol at ddyledswyddau dy sefyllfa: dal sulw ar, a bydded yn gofus gennyf *arwyddion marwolaeth*, a gwna frenhin y dychryniadau yn gyfaill i ti, trwy gofio fod angau i'r saint yn derfyn gofid, ac yn fynediad i fywyd. Disgwyl ddyfodiad dy Arglwydd a bydded dy holl weithredoedd megis yng olwg yr holl-wybodol Dduw; golch dy galon ac ymdrwsia beunydd fel na'th geffir yn amharod. Na fydd fel y goludog yn yr efengyl, yr hwn a ddywedodd wrth ei enaid, 'Fy enaid, y mae gennyf dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd;' rhag cael o honot yr un ateb ag yntef, sef 'O ynydd, y nos hon y gofynir dy enaid oddi wrthyf! ac eiddo pwy a fydd y pe'han a barotoaist?' Na chais drysor llawer o gyfoeth i ti dy hwn ar y ddaer, ac na chweynych fawredd y byd; bydded dy ddeisyfiad ar Dduw megis yr eiddo *Agur*, 'Na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth.'—Os byddi yn rhydd oddi-wrth drueni a chyfyngder y naill, ti elli fyw'n gysurus ac yn foddlongar heb ymlwytho a gofalon a gofidiau y llall; ac felly boddlonrwydd a rydd i ti ddiidauwch brenhinol dros dy holl fywyd, a threuli dy ddyddiau mewn hyfrydwech. Er dim nae edrych ar bethau tymmhorol fel peth sier, eithr cofia y diflanant, fel ffrwythau haf; ac yr ehedant ymaith fel adar arall wlad. Fe ddichon cyfnewidiadau annisgwyladwy droi olwynion llwyddiant yn eu hol: a throion disyfed a chrocsau blinion all ddyfod pan b'o leiaf o edrych am danynt. Na osod gan hyny dy ddedwyddwch mewn pethau diflanedig, ac nac estyn dy dlwylaw i ymaflyd mewn cysgod. Nae adeilada gestyll yn yr awyr, ac na obeithia mewn aneilyn. Parottoa erbyn y gwaethaf, a chadw dy hun mewn parodrwydd gwastadol i ynladd ag adfyd.

Phylip brenhin Macedon, a orchymynai i wr ei gyfarch ef bob borau yn y modd hyn *Phillippe homo es: h. y.* Phylip, dyn ydwyt; fel trwy gael ei ddodi mewn cof o frenolder bywyd dynol, yr ymddygai tu ag at ei gyd-greaduriaid megis y gweddai i un yn cydnabod nad oedd ond creadur marwol ei hun. Y mae rhybuddion o'r fath yma yn angenrheidiol i bawb, ac yn fuddiol (os derbynir yn iawn) i'n gwneuthur yn ofalus ynghylch ein hachosion tragwyddol. Fe ddichon pob peth mewn natur gael ei ddefnyddio fel rhybudd i'n coffau am farwoldeb ein corph. Y mae i fywyd dyn ei flaendarddiad a'i flodau; rhai a welant eu haf; a'r hyn a adawo'r hydref yn ol, gauaf marwolaeth a'i hysguba ymaith. Yr ydym oll yn hwylio tu a thragywyddoldeb; ac y mae llawer o greigydd peryglus i'w gochelyd, rhag dryllio 'n

hysgraffau bychain yn ehwilfriw. Ystormydd a thymnestlodd yn ddiammau a gyfodant; ac ni chair morio bob amser ar ddyfroedd tawel. Y taranau yn fyrych a drystiant yn ddychrynlyd uwch ein pennau, a'r tonnau a'n tallant gyda grym angerddol. Morio yr ym ni oll tu a gwlad dragwyddol: a rhaid i ni hwylio trwy gyfyng-for marwolaeth cyn y tiriom yng ngoror y trigfannau nefol.

Braidd y tál holl gyfoeth enraidd yr India in' afeiddio peryglon y moroedd yn eu cylech, mewn cydmariaeth i'r cyfoeth sylweddol a pharhaus, yr hwn a gorona lafur y Cristion, ac a'i llona ar ben y daith. Pa ddy'n a csgculusai y cyfryw wrth-ddrychau gogoneddus, rhag ofn i ambell awel wrthwyncb ei gyfarfod ar y ffordd? Yn sicr nid yw'r dyn hwnw deilwng o anherfynol drysorau'r nef, a ofno fyned i'r perygl o gollu ychydig o wael bethau difianedig i feddiannu hawddi'dd o anhraethol lawenydd, ac o dragwyddol barhad."

Telid cryn sylw yn yr "Eurgrawn" i amaethyddiaeth; ond gan fod y gelfyddyd hono wedi newid ei gwedd yn hollol yn y blynyddau diweddaf, y mae y cyngheorion a geir yma wedi myned erbyn hyn yn anamserol. Ond os yw yr hen ddull o amaethu wedi myned heibio, y mae yr iaith Gymraeg, ac ymddygiadau rhai o'r Cymry tuag ati, yn aros heb newid dim; fel y gwelir oddiwrth y llythyr a ganlyn, yn nghyd â'r anerehiad yn ei ddiwedd o waith Dr. Gruffydd Roberts, yn y flwyddyn 1567:—

"AT GYHOEDDWYR YR 'EURGRAWN CYMRAEG.'

FONEDDIGION,

YN gymmaint a'm bod i yn Gymro genedigol, a chennyf fawr barch i'r iaith Gymraeg, y mae'n fiin gennyf, ac yn faich dauddyblyg ar fy yspryd, welod amryw bobl coeg-feilchion (a anwyd ac a fagwyd ynghanol Cymru, i ba rai y mae yn rhaid ei bod yn famiaith) yn ei diystyru, ei sathru a'i hanharchu, megis pe b'ai arnynt gywilydd ei harddel, ac yn fifeidd ganddynt ei chymmyrd o fewn eu gwefusau llygredig. Amryw o'r fath hyn a gyfarfum yn fy oes, ac y maent mor bengaled a gwrthysig, na waeth i mi geisio dangos iddynt ddinas fawr Caerludd, o Aber-daugleddau, na dangos iddynt werthfawrogrwydd a godidowgrwydd ein hen iaith! Ond yn anad un, y mae mab i hen eilliwr a anwyd ac a fagwyd mewn tref lon dlawd (*C—ll N—dd*), yn fy nghydnabyddiaeth, yn fy synnu yn fry nag a allaf fynegu, o herwydd ei fod ef wedi derbyn cyflawn urddau offeiriad er's agos i flwyddyn, ac heb ddarllain gwasanaeth na phregeth mewn un eglwys etto, gan anturio dywedyd na fedr ddarllain Gymraeg, er na fu allan o sawr mwg simnai ei fam erioed.—Beth ellir feddwl am y fath walch a hwn, ond ei fod wedi ei wenwyno gan falchder, a chan uchder ei ffroen ni chais Dduw!—Hyn, ac amryw o'r cyffelyb, sydd yn fy nghymmell i anfon i chwi'r 'sgrifen tufewnol, lle mae Iaith Cambr yn siarad drosti ei hun, wrth y ffigiwr a elwir *Prosopopcia*.—Os y 'sgrifen hon a fydd gymmeradwy, caf ddeisyf iddi le yn eich 'Eurgrawn' blasus, gan obeithio y caiff lwyddiannus argraff ar y fath ragddywedig goeg-ddynion: Hyn yw dymuniad

Eich Cydwladwr, a gwastadcl Ddarlennydd yr 'Eurgrawn.'

BRITTWN."

"IAITH GAMBR, YN ANNERCH YR HYGAR DDARLENYDD.

ARISTOTL, gwr o ragoriaeth mewn dysg a gwybodaeth, a ddywaid am bob celfyddyd, mai bychan ac anhrefnus fydd eu dechreud; ac yna, bob ychydig tyfu ac

ymdaclu a wna, nid ar unwaith, ond o amser i amser, trwy fod eraill yn gweled ac yn bwrw at y dechreuad ryw beth nis caufu'r cyntaf na'r ail — Er bod y dechreu fynychai yn llai na'r darn a roddwyd wrtho ; etto y maen galetach, ac yn fwy clod dychymygu yehydig o newydd, nag yw trcfau hynny a chwaneu yn helaethwch. Am hynny na fydded diystyr na diflas gennyf fy ngweled i yn ymddangos mor ddifas ac mor anhlywybr, canys hon yw'r awr gyntaf yr ameanwyd fy nwyn i lwybr celfyddyd. Yr oedd y beirdd ar hyd Cymru yn ceisio fy nghadw rhag colli, neu gymmysgu â'r Saisneg : ond nid oedd ganddynt ffordd yn y hyd, nac i ddangos yn fyrr ac yn hyffordd, y godidowgrwydd sydd ynof, rhagor nag mewn llawer o icith-oedd, i.a. chwaith i fanegu rheswm am fagad o ddirgelion a gaid eu gweled ond chwilio yn fanwl am danynt, mal y mae gramadegwyr yn gwneuthur, pawb yn ei iaith ei hun. O herwydd hyn, gan nad wyf ond dechreu etto, rhaid i ti (ddarllenydd hawddgar) pan welych ar hyn o gais, ddim a allasid ei ddeudyd wedi ei adael allan, neu ryw beth wedi ei gyfleu allan o'i ddyledus le, neu ddiffyg mewn rhyw ffordd arall, beidio a gwaradwyddo'r neb, o ewyllys da i mi, a ameanodd fy nwyn i fraint celfyddyd. Eithr os perffeithi di y peth a ddechreuodd ef, heb ddeudyd iddo mor absen, nes dwyn hynny i ben, mae i ti fawr ddiolch, gennyf fi a chanddo yntau ; canys nid ydyw ef yn tybied fod hyn agos i'r perffeithrwydd y gweddai iddo fod ; eithr i geisio deni y rhai a fedrai yn well, ef a wnaeth oreu ag a allodd, yn y drafferth a'r blinder y mae ynddo, heb gael ennvd i'm tacluso mal y dymunai, ac heb genfigen wrth y neb a wnelo yn well nag ef, ond diolch yn gynt iddo, am ddwyn i ben y peth a wnaethai ef ei hun pe's gallasai. Na ryfedda chwaith weled cymaint o foiau wrth brintio ; canys yr ydoedd y dynion oedd yn gweithio, heb fod nac yn gyfarwydd yn yr iaith, nac yn ddiogelus ar eu gorchwyl, nac yn rhywiog en trin, ac i gyweirio y pethau a fethai ganddynt.* Heb law hyn yr oedd arnynt ei-iau llythyrennau ac amryw nodau a fuasai raid wrthynt i argraphu yn gyflawn bob pwng a berthynai attaf ; rhaid i mi ddymuno ar bob Cymro bonheddig a rhywiog, na bo mwy annaturiol i mi nag yw pobl eraill i iaith eu mamau. E fydd weithiau yn dostur ar fy nghalon, wrth weled llawer a anwyd ac a fagwyd im', yn deudyd yn ddiystyr ganddynt am danaf, gan geisio ymwrihod â mi ac ymgystlwg ag estroniaith, cyn adnabod dim o honi. Canys chwi a gewch rai yn gyttym ag y gwelant afon Hafren, clochdai'r Mwythig, a chlywed Sais yn dweud *Good morrow*, dechreuant ollwng eu Cymraeg dros gof, a siarad yn fawr eu llediaith ; eu Cymraeg fydd Saisnigaidd, a'u Saisneg (ysywaeth) yn rhy Gymreigaidd. A hyn sy'n dyfod, naill o wit ffoledd, yntau o goegfalehder a gorwagrwydd ; canys ni welir fyth un dyn cyweithas, rhinweddol, a wado na'i dad, na'i fam, na'i wlad, na'i iaith. Eithr mi a obeithiaf o hyn allan, trwy nerth Duw, athrylith ddiwydrwydd, a gwis fyfyrdod fy Nghymru cariadus y bydd ganthynt fwy o serch i mi, a cheunyf finnau fwy o ddiddanwch a golud iddynt hwythau : o blegid hyn ydwyf yn attolwg i bob naturiol Gymro, dalu dyledus gariad i'r iaith Gymraeg ; fel na allo neb ddywedyd am un o honynt, Mai pechod oedd byth eu magu ar laeth bronau Cymraes, am na ddy-mnent yn well i'r Cymraeg. Bydd wych "

Y mae rhai o feibion yr hen eilliwyr yn fyw eto, y rhai a " anturianf ddywedyd na fredrant ddarllain Cymraeg, er na fuant allan o sawyr mwg simnai eu mam erioed." A gwelwn oddiwrth yr ancrehiad uchod eu bod yn hanfodi mor foreu ag amser y Dr. Gruffydd Roberts. " Eu Cymraeg," medd ef, " sydd Saisnigaidd, a'u Saisneg (ysywaeth) yn

* "Dyalled y darllenydd, mai yn Lloegr yr argraphwyd y 'Sgrifen hon gan y Sacson, yr un amser ag y cyhoeddwyd Gramadeg Mr. Roberts, sef yn y flwyddyn o oed Crist, 1567."

rhy Gymreigaidd." Gellir eu hadnabod wrth eu dull mursenaidd o siarad Saesneg, a'u parodrwydd i feio ar Saesneg pawb arall. Ond os oes rhai yn awr, fel y pryd hyny, yn dirmygu yr iaith Gymraeg, mae yn debyg fod mwy yn ein dyddiau ni yn ei choledd; ac er mwyn y rhai hyny rhoddwn yma ysgrif o waith Dafydd Ionawr, yn cynnwys amryw gynghorion buddioi yn nghylech cyfansoddi yn Gymraeg.

"AT GYHOEDDWYR YR 'EURGRAWN CYMRAEG.'

FONEDDIGION,

GAN eich bod yn addaw derbyn gyd â phareh dyledus bob cynnygion i gynnal ac adgyweirio 'r iaith Gymraeg, mi a ddanfonais atoch yr ychydig nodau a ganlyn i ba rai ni ddisgwyliaf ragor na phareh dyledus oddiwrthych chwi na'ch darlennyddion, sef eu hystyried gyd a'r un rhyddid ag yr ysgrifenydd hwynt, ac yna eu derbyn neu eu gwrthod yn ol eu teilynglod. Ni ddylai 'r gwyr da a gynhaliasant eich llyfr weled yn chwth y rhyddid a gymerir a'u 'sgrifeniadau, gan na honnir dim awdurdod, ac na ddisgwylir dim ymostyngiad, ond i gynhwysder yr hyn a ddywedir. Ac os trwy hyn y gwnair un gradd o Wasanaeth i'ch 'Eurgrawn,' bydd da gan,

Eich darlennydd a'ch ewyllysiwr da,

DAFYDD ap RHISIART.

YNGHYLCH CYFANSODDI YN GYMRAEG.

Rhagoriaeth pob moddion sydd yn gyfatebol i'w cynhwysder i ateb i'w diben; a chan mai diben iaith yw cyfrannu ein meddyliau i'n gilydd, pa egluraf a chrynoaf y gwnair hyny, gorau a pherffeithiaf i gyd ydyw.

I. Rhaid gan hyny, ymlaenaf peth, i'r rhai a gyfansoddant yn Gymraeg edrych ar fod eu hiaith yn eglur, ac yn hawdd ei dyall. A hyny yn gystal o ran y geiriau neualluol ag o ran eu cydosodiad yn yr ymadrodd. Nid oes harddwch yn y byd mewn tywyllni, a'r Ysgrifenywyr parcheddecaf ymhob iaith ac oes yw y rhai a gyfrannant eu syniadau gyd â mwyaf o olenni i'r darlennydd, ar y gelfyddyd neu'r testyn a drinont. Tuag at hyn, anghenrheidiol yw fod y geiriau neualluol yn sathredig ac yn gyffredin yn y wlad, hyd ag y gellir: ac er y dylid eyd-ddwyn, o ran anghenrheidrwydd, ac ymbell hen air anghynnefin, eto, pan y mae yr awdur yn ymhoffi yn y cyfryw, pan fyddo geiriau eglurach ac mor bured geillaw, nid oes ar y darlennydd fawr o rwyman iddo am ei ddyrysu, a pheru iddo ymbalfalu fel dall ar bared. Beth pe dywedwn wrth ryw grefftwr, *Yr hercwn iddo feut'n neu gareg-bail o wirawd eunnach, am ddulio celtri ynghwaranau fy ngwilog?* Oni'm tybiai allan o'm pwyll? Ac ni byddwn ronyn nes i gacl fy neges o sicrhau iddo mai *brythoneg anymggyhydr ddiledryw* a siaredais.—Barned y darlennydd ai cymmws arfer y fath eiriau â *selgyngiau, aeg, ymornest, flureg, sflaig, Gwyrjfa, Mairgledd, Badafia, y Pwyl, Clydhytin, Helytin, Caerwerydd, Caerodor, &c.*, mewn gwaith a amcenir i gyfrannu gwybodaeth i'r werin, yn gystal ag i adgyweirio 'r iaith Gymraeg. Nis dylid yn wir fabwysio geiriau o ieithoedd dieithr, pan y mae gennym rai mor ddyalladwy o'r eiddom ein hunain; ond pan y mae geiriau Sae'neg neu eraill eisoes wedi eu derbyn i mewn, a'u harfer yn gyffredin, f'allai mai gormod petrusder yw eu gwrthod; yn enwedig gan fod gennym y fath yn nghyfieithiad y Bibl; megis *help, zel, till, posibl, siwr, matter, dawnisio, &c.* Nis gwn i gan hyny pa un a fyddai orau, 'sgrifenu cyngaws, rheithwyr, a dedryd, neu ynte *treial, cwest, a ferdit* neu *scutens*, y rhai a arferir yn gyffredin, ac a ddyallir yn well gan y rhan fwyaf. Ond

mewn perthynas i enwau gwledydd a dinasoedd a'r cyffelyb, y mae'n ddiildadl gennyf mai yr enwau mwyaf adnabyddus yw y rhai cymwysaf, ac nad yw ddiagon eu heglurhau mewn cromfachau, () o herwydd byrdra eöf y darllennodd.*

II. Gofynir hefyd fod y iaith yn bur, ac yn gywir, neu yn Ramadegaidd; *h. y.* dylai'r geiriau fod yn Gymraeg loyw, hyd ag y gellir yn gyttunol ag eglurder, a nid cymwys cydymffurfio â llygriadau cyffredin. Mewn amryw o fannau yng Nghymru y dywedir *ynnost* ac *attast*, *i'w eu gilyld*, *i'w eu dwylaw*, &c., ond pa mor chwithig a fyddai hyn mewn cyfansoddiad ysgrifenedig neu argraphedig? Yr un peth a ellir ddywedyd am *allanol*, *tufewnol*, *hyl nod*, *abergofi*, *o'r braidd*, *yn eu holau*: yn lle oddiallan, oddifewn, hyd yn noed, ebargofi, braidd (neu o fraidd), yn eu hol.† Ni buasai raid, debygid, dywedyd *sadler*, *labrer*, *pistols*, pan y buasai cyfrwywr, gweithiwr, pistolon, yn burach ac etto mor hawdd eu dyall.—Yr un gofal sydd raid ei gymmeryd i gyssylltu'r geiriau yn yr ymadrodd yn ol rheolau Gramadeg. Ac yma, gobeithio y maddeuir i mi os cyffyrddaf yn gynnul, a chyd â gwyllder dyladwy, a rhai pethau a allasent fod yn gywreiniach o ran Gramadeg yn y rhanau o'r blaen o'r 'Eurgrawn,' a hyny nid i hyfforddi'r gwyr da, ond i'w gosod yn fwy ar eu gofal. Can goesaw fydd iddynt hwythau i'm difeio innau.

'Y brenin a ddywedodd, *mai* yn gymaint a'u bod mor daer—yr enwai efe iddynt,' &c. Ymres. tudal. 3. Onid yw *mai* yma yn aungghymwys? 'Etto ymheu ychydig,' tudal. 10, yn lle *ymheu ychydig etto*. 'Yr achos—yw diffyg o ystyried—neu *yn camdybied*,' tudal. 20, yn lle *neu gamdybied*. 'Yr achos sydd yn arwain *cynnaint*,' *ibid*, yn lle *cynnifer*. 'Terfysg a *gysfododd*'—gan Wat Teler, tudal. 21, yn lle *gysfodwyd*. 'Dedwyddweh aneirif,' tudal. 23, yn lle *aneirif rywiau o ddedwyddweh*, neu rywbeth o'r fath, gan nad oes i'r gair dedwyddweh rif lliosog. 'Y siryf a ddygodd y llofruddion i'w dihenyddio—ac a drowyd ymaith,' *ncw*, tudal. 32, yn lle a *hwy a drowyd ymaith*. 'Ymddengys fod i bwy byuag—a laddo ysgyfarnog—*gael*—ei garcharu—ac a filangellir,' tudal. 35, yn lle *a'i fflungellu*. 'Ifan Ifan yr hwn a gondemniwyd,' tudal. 40—yma y mae ymadrodd amherffaith, *sef enw heb ferf* yn ei ganlyn.

III. Fe chwanega lawer at brydfertlweh cyfansoddiad, os arferir mor lleied o eiriau ag a ellir, i amlygu'r meddwl. Y mae dwy ffordd yn fynych i ddywedyd yr un peth, a'r naill mor gywir a'r llall: yn yr achos hyn, y fferaf yn gyffredin fydd orau a harddaf. Ychydig o siamplau a wnant hyn yn eglur:—

YN HIR.

Yr ydwyf yn cael fy nysgu
Nid ydwyf fi ddim yn foddlon.
Nid ydwyf fi ddim yn gwybod.
Fe fydd hyn yn cael ei ddarllain.
Mysf a gefais fy ngwrando gantho.
Y mae efe wedi cael.
Bydded ein bod ni [mewn cynghor].

YN FYR.

Dysgir fi, *neu*, fe'm dysgir.
Ni foddlonaf, *neu*, nid wyf yn foddlon.
Ni wn, *neu*, ni's gwn i.
Darllenir hyn, *neu*, hyn a ddarllenir.
Gwrandawodd fi, *neu* efe a'm gwrandawodd.
Efe a gafodd.
Byddwn.

* Y mae *Eurgrawn* wedi myned yn air anghynnesin, ond fe ellir ei arfer fel enw llyfr, gan nad yw o fawr bwys pa un ai gwybyddir mai *Trysor* yw ei feddwl yn nghyfraith *Hywel Dda*, neu beidio, cyhyd ag y gwyddys pa ryw lyfr fydd yn myned dan yr enw. Yn gymmwys fel *Magazine* Saes'neg.

† Tybia llawer fod *aeg* yn air Gymraeg, ac yn arwyddocau *iaith*. Ond nid yw yn air Cymraeg oll. Gwel *aeg* yn Dr. Dafies. Nid yw *fflureg* chwaith air Cymraeg, medd Ed. Lhwyd, ond Cerniweg. Dr. Dafies a'i esponia *Prora*, *neu y pen blaen i long*, ar awurdod *Lib. Land*. Tybia Ed. Lhwyd mai yr un yw hwn â Geir-lyfr Cerniweg yn Llyfrdy *Cotton* yn Lundain, ac nid y gwir *Llyfr Llandaf*, yr hwn a welodd Mr. Lhwyd yn llyfrgell y gŵr bonheddig o Lannerch, yng Ngwynedd, a chopi o hono yn *Jesus College* yn Rhydychen. Nid oes yn hwn mo'r geiriau a nodir â *Lib. Land*, yng eirlyfr Dr. Dafies; yr hyn a ddylai ddyysgu i baw oheled arfer y geiriau a nodir felly, heb ryw awurdod yn ychwaneg. Gwel '*Arch. Britannica*': tudal. 223."

Ystyrion yr ysgrifwr a ydyw y ffordd ferraf yn gosod allan holl rym a helaethrwydd ei syniadau neu beidio, ac os ydyw, ni bydd anhawdd gantho eu dewis.

IV. Y mae dull ymadrodd ymhob iaith a elwir traws-symudiad, (*metaphor*) pan arferer geirian mewn ystyriaeth amgen nâ'r un gwreiddiol neu briodol, ar gyf-rif rhyw gyffely brwydd neu gyfatebolrwydd. Fel hyn y gair *llywythog* a arwyddoed un â'i *gorph* dan *lwyth* neu faich; ond yn ol y dull ymadrodd hyn, fe'i cymhwysir yn fynych at *ofid* neu flinder yn y *meddwl*. Duw yn y ffurfafen, yn briodol, sydd yn *taranu*; ond nid yn anghymmwys y dywedir fod y drylliau mawrion yn *taranu* mewn brwydr, neu y gelwir llythyrâu esgymmundod y pab yn *darannau Rhufein*. Y mae'r Ysgrhythyr yn llawn o'r fath eiriau a'r rhai'n, megys, *llafurio*, *trysori*, *rhedeg*, *gryllio*, a'r cyffelyb, am bethau ysprydol neu perthynol i enaid: Saul yn *chwylth* bygythiau, *Act. ix. 1*; y Galatiaid wedi eu *llygadyanu*, *Gal. iii. 1*; a geiriau o'r fath yn aneirif.

Pan arferer y ffordd hyn o lafaru, fe ddysgwylir fod y geiriau yn gymmwys, yn hardd, ac yn gryf yn trosglwyddo syniadau'r cyfansoddwr i'r darlennydd. A phan osoder amryw o honnynt ynghyd, neu y parhaer y traws-symudiad trwy bwngce cyfan, gofynnir fod pob rhan yn gysson ac yn cyfatteb i'w gilydd. Siampl ragorol o hyn a gair yn yr 'Eurgrawn,' ymr. tudal. 27, lle mae'r morwr cywrair yn hwyllo yn dra llwyddiannus trwy aneirif beryglon, ac o'r diwedd yn tirio'n ddiangol, heb na gosod ei long i *farhogath* ar y *cefnor*, na'i thori ar ben *mynydd*, neu mewn *anialweh*. Y sawl a fynno weled siamplau 'sgrylthuro' o'r un cyssondeb, edryched *Salu lxxx. 8—16*; *Math. xi. 28, &c.*; *L'ph. ii. 20, 21, 22*.

Y mae papur yn y '*Spectator*' (*col. 8*) ar y testyn hyn, yr hwn a haeddai ystyr-iaeth y darlennydd: ac er y gall awdwr da weithiau droseddu y rheol hon o dra esgeulusdra, eto nid cymmwys neb i gyfansoddi mewn un iaith ar nad yw yn ei dyall.

O.S.—Yr hyn a ddywedwyd uchod ynghylch hen eiriau disathr a berthyn yn unig i ryddiuth (*prose*), ac ni amcanwyd mo hono i lywethyrion awen y beirdd. Digon o orchest i'r rhai'n yw cadw eu hodlan a'u cynganeddion a'u mesurau yn rheolaidd, wrth yr hen Ramadegau, a thrueni fyddai ceisio eu hattal rhag crwydro'n rhydd ddirwystr trwy holl derfynau'r iaith, pan fo arnynt eisiau gair cynnwys i berffethio'r celymniad, neu gylflawni'r mesur. Y rhyddid hyn, gobeithio, a ganiateir i Iorwerth ap Ioan, Iorwerth Gwilym, Lewys Hopcin, Ieuan Fardd du, Ioan Singein, Y Crythwr dall, ac i minnau Dafydd ap Risiart, Bon y gler. Pe bawn brif-fardd neu bencerdd, mi a'i cyhoeddwn i bawb yn ddiwahardd, heb gau allan onid awdur y FUGEILGERDD gywrair, yr hwn a roddes brawf i'r byd y medr ganu yn orchestol, etto yn ddyalladwy, ac felly nad rhaid iddo wrtho,

Fy nydd sydd yn nyddu yn fanwl i fynu,
A'r nos fydd yn nesu 'roi'n isel fy mhon;
Ac un nid oes genny', er wyllo ar oer wely.
Pan fo i mi glafychu, glyw f' ochain.

O Iorwerth! pahan y mae dy *libgoed felusgerdd* cyhyd yn ddystaw? Ai anihcilwng yw yr 'Eurgrawn' o'th gynorthwy di? neu ai chwith gennyf fwrw dy aur i'r Drysorfa ymhlith Ladingau dy gyd-wladwyr?"

Yr Iorwerth a gymbhellir mor daer yn niwedd yr ysgrif uchod i anfon ei gyfansoddiadau i'r "Eurgrawn," ac o waith yr hwn y rhoddir un pennill fel anghraiff, oedd Mr. Edward Richard o Ystradmeurig, gŵr dysgedig, ac un o'r prydyddion goren yn ei oes. Ond nid yw yn

ymddangos i'r alwad effeithio er dihuono awen y bardd, yr hwn oedd erbyn hyn mewn gwth o oedran, ac a fu farw mewn unigedd, medd rhai, yn ol rhagfynegiad y pennill, yn y flwyddyn 1777.

Wrth dastu golwg dros yr ysgrif uchod, yr ydym yn cydsynio yn hollol â'r ysgrifenydd am yr anghenrheidrwydd o arfer geiriau cyffredin, hyd y byddo hyny yn ddichonadwy. Gwell genym ni o lawer yw teithio, pan fyddo achos, ar hyd *ffordd haiarn*, na *rheilffordd*; nid ydym yn bleidiol iawn i'r *tugel*, mor bell ag y mae a fynom â'r gair; ac am bob math o *gibli*, nis gwyddom pa un i'w ffieiddio fwyaf, y gair ai yr arfer a ddynodir ganddo. Mae y naill yn deilwng o'r llall. Ond braidd nad aem yn mhellach na'r ysgrifenydd hwn mewn defnyddio geiriau anghyffredin yn hytrach na geiriau o ieithoedd estrol: ond gofaler am iddynt gydfyned ág anian y Gymraeg.

Cyfarfyddir yn yr "Eurgrawn" â chwedl ddifyr, yr hon a gyhoeddwyd gyntaf gan Mr. E. Lhwyd yn ei "*Archæologia*," fel cyfieithiad o'r Gernywaeg. Gwelsom hi hefyd yn Saesneg, wedi ei hysgrifenu fel yr adroddir hi mewn rhyw barthau o'r Iwerddon. Ond gan iddi ymddangos yn yr "Eurgrawn," cymerwn y cyfle hwn i'w chyflwyno i'n darllenwyr:—

"YSTORI IFAN.

(*A gymmerwyd allan o'r 'Archæologia Britannica.'*)

YR oedd gynt yn trigo ym mhlwyf Llan Llafan, ddyn a benyw yn y lle, a elwir Tŷ Hwrdd.

2 A'r gwaith a ddigwyddodd yn brin. Ac felly (medd y dyn wrth ei wraig) mi a fynnaf fyn'd i chwilio am waith i'w wneuthur, a chwi a ellwch gynnal eich bywoliaeth yma.

3 Cennad teg ef a gymmerws, ac ym mhell i'r Dwyrain yr ymdeithiws; ac o'r diwedd dwad a oryg i dŷ *taeog a chwilio a oryg yno am waith i'w waend.

4 Pa orchwyl a elli di wneuthur? medd y taeog. Pob gorchwyl a alla, medd Ifan. Yna cyttuno a orygant am dair punt gwobr yn y flwyddyn.

5 A phan ddaeth diwedd y flwyddyn, ei feistr a ddangosws iddo y tair punt. Edrych Ifan, medd ei feistr, dyma dy wobwr: ond os mynni di ei roi i mi eto, mi a ddysga i ti bwngce o athrawiaeth.

6 Rhowch yma nhw, medd Ifan. Na ro ddim, medd ei feistr: mi a fynnaf lefaru i ti. Cymmerweh chwithau nhw, medd Ifan. Yno, medd ei feistr, *Cymmer ofal rhag gadael y ffordd hen er mwyn ffordd newydd.*

7 Yno cyttuno a wnaethant dros flwyddyn mwy am yr un cyflog: a phan ddaeth diwedd y flwyddyn, y meistr a gyrchodd y tair punt. Edrych Ifan, medd ei feistr, dyma dy wobwr: ond os mynni ei roi i mi drachefn, mi a ddysgaf i ti bwngce o athrawiaeth.

8 Pa ham na rowch chwi nhw yma, medd Ifan. Na ro ddim, medd ei feistr:

mi a'i llafara i ti. Cymmerwch chwithan nhw, medd Ifan. Yno, medd ei feistr: *Cymmer ofal na wnei lettya lle bo dyn hen yn ddyweddedig â menyw ifaingc.*

9 Yno cyttuno a wnaethant am flwyddyn mwy; a phan daeth diwedd y flwyddyn, ei feistr a herwys y tair punt. Edrych Ifan, medd ei feistr: llyma dy wobol ond os mwnni ei roi i mi drachefn mi a ddysga i ti bwnge gore oll o athrawiaeth.

10 Pa ham na rowch chwi nhw i mi, medd Ifan. Na ro ddim, medd ei feistr: mi a'i llafara i ti. Cymmerwch chwithau nhw, medd Ifan. Yna, medd ei feistr, *Bydd darawedig ddwy waith, cyn taro un waith, canys honno yw'r gamp syhwyrola oll.*

11 Weithian Ifan ni fynnai wasanaethu ym mhellach; eithr ef a fynne fynu'd tu a'i wraig. Nag ei heddyw, medd ei feistr, mae 'ngwraig i yn pobol y foru, a hi a wneiff deisen i ti i ddwad adre at dy wraig.

12 A nhw a fwriasant y naw punt yn y deisen. A phan oryg Ifan gymmeryd ei gennad; Dyma, medd ei feistr, y mae teisen i ti, i'w dwyn adref at dy wraig: a phan fyddi di a'th wraig lawena ynghyd, yna torrweh y deisen a dim cynt.

13 Cennad teg efe a gymmerws a thua thre efe a drafaeliws, ac ar y diwedd efe a ddocs i Wayn Iler; ac yna y cwrddws a thri marsiandwyr o dre Rhyn, (gwyr ei blwy) yn dwad adre o ffair Caer Esec.

14 O ho Ifan, meddan nhw! Dowch gyd â ni: llawen ydym ni o'ch gwelod. Ple y buost ti yr holl amser yma?

15 Mi a fum, medd Ifan, yn gwasanaethu, a bellach yr ydwyf yn myned tua thre at fy ngwraig. O! meddan nhw, dos gyd â ni, a chroeso fydd i ti.

16 Y nhw a gymmerasant y ffordd newydd, ac Ifan a geidws yr hen ffordd.

17 Ac wrth fyned heibio i Gaeau y tai yn y Waun, a'r marsiandwyr heb gollu yn neppell oddiwrth Ifan, oni thrawe lladron wrthyn nhw.

18 A nhw ddechreu'sant weiddi: a chyd â'r gweiddi a wnaeth y marsiandwyr, Ifan hefyd a waedlodd, Lladron, lladron!

19 A chan y gwaedd a oryg Ifan wneuthur, y lladron a ymadewys a'r marsiandwyr. A phan ddaethent i farchnad Iou, yno y cwrddasant eilchwaith.

20 O Ifan, medden nhw, rhwymedig ydym ni i chwi: oni buasai rhagoch chwi, ni a fysem i gyd wyr colledig. Tyre efo ni, a chroesawus ti a fyddi.

21 A phan orugant ddwad i'r ty lle'r arferynt lettya, medd Ifan, ef a gyst i mi weled *osp y tŷ.

22 Osp y tŷ, meddant hwy: pa beth a fynni di wneud âg osp y tŷ? yma y mae genym ni tŷspes, ac ifangecyw hi: os mynni di weled osp y tŷ, cerdd i'r gegin di a'i cei.

23 A phan orug ef ddwad i'r gegin, yna efe a welws osp y tŷ: a dyn hen oedd ef, a gwan, yn troi'r ber.

24 O, medd Ifan, yma ni fynnaf fi lettya, eithr yn y tŷ nesaf. Nid etto, meddant hwy †cwynosa efo ni, a chroeso a fydd i ti.

25 Yn awr am wraig y tŷ; hi a gydlwriadws â rhyw fynach ag oedd yn y dref, i ddihenyddio'r hen ddyn yn ei wely y nos, tra bydde y lleill yn cysgu, a gosod y gyllafan ar y marsiandwyr.

26 A phan oedd Ifan yn ei wely, yr oedd twll yn nhal y tŷ, ac efe a welws oleu: ac ef a gwnws i maes o'i wely, ac a wrandaws, ac a glyws y mynach yn llafaru. A'r mynach a drows ei gefn at y twll, Ysgatfydd, medd ef, y mae neb yn y ty nesaf a oryg weled ein hagar wrthiau: a chan hynny y †gyffoden efo'i marchogwas a ddienyddiws yr hen ddyn yn ei wely.

27 A chan hynny Ifan a'i gyllell a dorrows drwy'r twll, allan o gefn gwn y mynach ddarn pur grwn.

28 A'r bore nesaf, y gyffoden a ddechreuws grochweiddi am fod ei hanwlyd

* Y tafarnwr. † Y tafarnwraig. ‡ Swppera. § Bretain, sef y Dafarnwraig.

wedi ei ddihenyddio; a chan nad oedd na dyn na phlentyn yn y ty, eithr y marsiandwyr y nhw a ddylynt eu crogi am dano ef.

29 Yna y marsiandwyr a gymmerwyd, ac i'r carchar y dygpwyd nhw: ac yn y diwedd Ifan a aeth atynt.

30 Gwae ni, Ifan, meddant hwy, y mae caled dynged i ni: y mae ein llcttywr ni wedi ei ladd neithiwr, a nyni a grogir am dano ef.

31 Chwi oll! deisyfwech ar yr Ustysiaid, medd Ifan, wysio y dynion a orygant y gorehwyl ger bron.

32 Pwy a wŷr, meddant hwy, pwy a oryg y drwg orchwyl? Medd Ifan, Onis medraf fi brofi pwy a oryg y drwg-orchwyl, mi a fynnaf fy nghrogi rhagddo.

33 Llafarwech yntau, meddant hwy. Neithiwr, medd Ifan, pan oeddwn yn fy ngwely, mi a welais ole; ac mi a safais i fy nu, ac yr oedd twll yn nhal y ty.

34 A neb-un fynach a drows ei gefn yn erbyn y twll. O ddamwain, medd ef, y mae neb yn y ty nesaf yn gwelod ein hagr weithredoedd.

35 A chan hynny, a fy nghyllell y torres ddarn drwy'r twll, darn pur grwn, i maes o gefn gŵn y mynach; ac i wneud y geiriau yna'n brofedig, dyma y darn yn fy nghoden i'w weled.

36 A chan hynny y marsiandwyr a gawsant eu rhyddhau, a'r fenyw a'r mynach a gymmerwyd ac a grogwyd.

37 Yno hwy a ddaethant ynghyd allan o Farchnad Iou: ac ar y diwedd dyfod a orugant hwy hyd Goed Carn y Wylfa, ym mhlwyf Byrrian.

38 Yno yr oedd ffordd ddeubarth; a'r marsian lwy'r a fynnent i Ifan fyn'd adre efo nhw, ond y pryd hynny ef ni fynnai, eithr ef a fynne fyn'd adref at ei wraig.

39 A phan oedd ef wedi ei gollu oddi wrth y marsiandwyr, ef a wag-dreiliws ei amser i brofi a oedd ei wraig yn cadw diweirdeb yn ei gyfer, oedd hi, ai nid oedd hi.

40 A phan oryg ef ddyfod at y drws, efe a glywai ryw un arall yn y gwely. Ef a darawai ei law ar ei *fidog i'w lladd ill dau; ond efe a bryderws fod yn rhaid dioddef ddwy waith cyn taro un waith.

41 Ac ef a ddaeth allan drachefn, ac yno cnociws. Pwy sydd yna o barth Duw? medd hi.

42 Yr ydwyf fi yma, medd Ifan. Yn enw Mair, pwy a glywaf fi, medd hi? os Ifan ydych chi, dowch i mewn. Dowch chwithau a goleu, medd Ifan. Yna hi a ddaeth â goleu.

43 A phan oryg Ifan ddyfod i mewn, medd ef, Pan oryg i'm ddwad at y drws, mi a glywn ddyn arall yn y gwely.

44 O Ifan, ebe hithau, pan orygisoch chi fyned i bant, yr oeddwn ni †goledig o dris gan blentyn; ac yn awr y mae i ni faban ‡chueg yn y gwely, hoff gan Dduw y byddo.

45 Ebe Ifan, mi a ddyweda i ti, Fy meist'r a'm meistres a rois i mi deisen, ac a ddywedasant wrthyf, Pan fyddwn ni a'm gwraig lawena ynghyd, dorri'r deisen, a dim cynt; a bellach y mae achos i ni fod yn llawen.

46 Yna nhw a dorres y deisen; ac yr oedd naw punt yn y deisen. A'r arian a gawsant, a'r bara a fwyttasant; ac ni fu na sen nac ymryson, nac ymrafael rhyngddynt o hynny allan. Ac felly y terfyna."

Dyma ni erbyn hyn wedi casglu y darnau goreu yn nosbarth yr "ymresymiaidau," ac am hynny ni a drow'n bellach at y rhan brydyddol. Nid llawer o'r enwau mwyaf adnabyddus yn mhlith y beirdd a geir yma. Yr oedd William Wyn, o Langynhafal, wedi marw er ys

* Cy'Pell glun.

† Feichlog neu fraisg.

‡ Prydferth.

deng mlynedd, a Lewis Morris er ys pump: ac am Y Goronwy, yr oedd ef, er gwarth oesol i Gymru, yr ochr arall i'r weilgi, wedi tewi er ys tair blynedd, ac yn ol pob tebyg wedi marw. Yr oedd Williams, Pant-y-celyn, yn ei lawn nerth; ond prin y cyfrifid ef yn deilwng o gael ei dderbyn i blith y Beirdol yn yr oes hono, nae yn yr oes hon hyd yn ddiweddar pan y dychafwyd ef i'w le priodol gan y "Traethodydd:" ac ofer yw chwilio am ddim o'i waith yn yr "Eurgrawn." Un o'r gohebwyd yn y dosbarth barddonawl oedd Lewis Hopcin o Forganwg, gwaith yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny yn llyfr bychan dan yr enw "Y Fel Gafod." Y mae yma rai cyfansoddiadau o waith Hugh Hughes a Robert Hughes o Fon; ac un lled wael gan Iolo Morganwg, yr hwn a'i geilw ei hun Iorwerth Gwilym, Treffemin. Ond y penaf o'r gohebwyd barddonawl oedd y Parch. Evan Evans, yr hwn a adwaenir yn well wrth yr enw Ieuan Brydydd Hir. Nid yw wedi anfon ond un cywydd, yr hwn sydd fel y canlyn. Mae ynddo rai camargraffiadau amlwg; ond cyhoeddiwn ef fel y mae ar lawr yn yr "Eurgrawn:"—

"CYWYDD METHIANT.

Gwae a fwrio goel oferwas
 Bryd ar y byd bradwr bas,
 A fo doeth a chyfoethawg,
 Gwych a rhydd, ac iach y rhawg.
 Pe beiddiem bawb a'i addef,
 Byr iawn yw ei bara ef.
 Tra fum i mewn tyrfaan mawr,
 Was yniyd ifange sonfawr.
 Ebrwydd ehedrwydd hydram,
 A chryf iawn yn chwarae fum.
 A heddyw 'n glaf anafus,
 Yn unlle 'n rhwym, yn llawn rhus,
 Ni cherddaf nychu yddwyf,
 A rhodio 'n iach, rhy drwm wyf,
 Dig wyf yn ol mabolaeth,
 Ac hybu ydd wyf heibio ydd aeth.
 Fal gelyn noeth cyfoeth eof,
 I'm henaid tra fu ynof.
 Llŷma ydd wyf yn llonyddach,
 Fod a wnai f' enaid yn iach.
 Duw a rannodd drueni,
 Câr yw, a phoen, i'm corph i.
 Megis anrheg o bregeth,
 Wyf i'r byd ofer o beth.
 Llun fy hun wyf i'm haint,
 Ac wyf fel mewn gofelaint.

Fal un o'r tri brenhin gwar
 A dduodd yn y ddaear,
 Ysgeiriau yn ysgyrion,
 A fydd i'm ffydd yn ddwy ffon,
 Ysgwyddau anysgeiddig,
 A chorff heb na lliw na chig.
 Gleiniau fy nghefn a drefnuwyd,
 Yn geirig craig neu gore rhwyd.
 Rhyfedd yw'r ais a'i rhifo,
 Fal cronglwyd lle tynnuwyd tô.
 Fel ffistiau giau gwaywon,
 Yw'r ddwy fraich ar y ddwy fron,
 A'r dwylo cyr mai deiliog,
 Mal delwau eigweiniau côg.
 Yn brydd y grydd ae yn grych,
 Mal gwydr amlwg yn edrych :
 A'm llygaid ym mhell cigiawn,
 I'm pen iâd, ond poen iawn.
 Crynedig i'm croen ydwyf,
 Crynfa dalen Euthnen wyf ;
 Gwr oerach nag Eryri,
 A berwyn wyf i'm barn i.
 Ni thyn na chlydwr na thân,
 Na dillad f' anwyd allan.
 Troi a sefyll tra safwyf,
 Tan grafangau 'r angau 'r wyf :
 Rhod Duw bwyll rhaid i'm bellac.,
 Ryngu bodd yr angau bach.
 Meddyg wyt f' Arglwydd Iesu,
 I'th fardd mwyaf gobaith fu ;
 Iesu, fal y dewiswyf,
 Arch i'm rym can's erchi'r wyf.
 Os iechyd gennyd a gaf,
 I'm henaid y dymunaf.
 Cymmod cyn bod mewn bedd,
 I'm cymmwys am bob camwedd.
 Dwg Ior i le digerydd,
 F' enaid, wrth fy rhaid yn rhydd.
 I'th lân nef a'th oleuni,
 A'th wlad Duw, i'th weled di."

IFAN BRYDYDD HIR.

Ceir yma hefyd amryw ddarnau o waith yr hen feirdd, o Taliesin i fynu hyd at y Bardd Cwsg. Dywenydd gan lawer fydd gweled y Salu ganlynol gan awdwr hyglood y "Bardd Cwsg," yr hon sydd yn deilwng o le oblegid rhagoroldeb y cyfansoddiad, yn gystal ag oblegid enwgyrwydd y cyfansoddwr.

" PSALM CXLVIII.

*O Gynghanedliad y PARCHEDIG MR. ELLIS WYNNE,
Awdwr y ' Bardd Cwsg.'*

I.

O MOLWCH yr Arglwydd,
O'r Nef wen lawen lu,
Clodforweh E'n un swydd
Holl fro uchelder fry ;
 Angylion glân
Moliennwch ef,
Holl luoedd nef
 O fawr i fân.

II.

Chwi haul a floer er lles,
'A'r ser a'r goleu i gyd,
Nef a'r holl nefoedd nes
F'ch Brenhin rhowch bob pryd
 Dda fawl ddifeth
Ffuriafen draw,
Cymmylan'r gwlaw
 Gwnewch chwi'r un peth.

III.

Rhoent oll i'r Arglwydd nef
Eu glân Grcawdwr glod,
Drwy ei orchymyn ef
'Maent oll fel hyn yn bod,
 Mewn deddf dda don
Drwy hir na byrr
Yr un ni thyr
 Mo'r gyfraith hon.

IV.

Holl bethau'r ddaear ddwys
Clodforweh Dduw'n ben gwaith,
Chwi ddreigiau garwle gwys
A'r holl ddyfnderau maith,
 A'u rhoes mawrhaent,
Tân, cenllysg, ôd,
Tarth, gwynt pob nod,
 Ei air a wnant.

V.

Mynyddoedd bryniau oll,
Coed ffrwyth a'r cedrwydd cyd,
Gwyllfilod yn ddigoll
A holl 'nifeiliaid byd,
 Dewch at fawl Duw
Pob amryw bry'
Holl adar fry,
 Hyfrydaf ryw.

VI.

Brenhinoedd daear gron
 A'r bobloedd oll ynghyd,
 Pob t'wysog sydd ar hon
 Holl swyddwyr barnwyr byd,
 Pob llange gwell yw,
 Pob morwyn glau,
 Pob hen, pob iau
 Addolweh Dduw.

VII.

Can's tra rhagorol yw,
 Ei unig enw ef,
 Ei ardderchowgrwydd gwiw,
 Sy mhell uwch dae'r a nef,
 Can's codi y bydd
 Gorn grym a pharch
 I'w bobl, a'u harch
 A glyw bob dydd.

VIII.

Dadseinied ei holl saint
 Ar led ei lawnglod glân
 Dadganant ei fawr fraint
 Llant Israel, fawr a mân,
 A phawb a nes
 I wneud a bair,
 Ef yn ei air
 I'w lwydd-fawr les.

IX.

Trown oll i'r Tri yn Un
 Sy'n tystiolaethu fry,
 Y Tad a'r Mab, cyttun
 A'r Yspryd, gariad cry',
 Fel 'roedd erioed
 Mae yr awr hon,
 O bob gwir fron
 Byth felly boed."

Llawer o brydyddu' sydd wedi bod ar *Salm* xix. Y mae yma ddau gynygiad, a phob un yn bur llwyddiannus. Nid annifyr nae anfalliol i'r darllenydd fydd eu cymharu a'u gilydd:—

Y XIX PSALM.

*Gan y diweddar BARCHEDIG MR. RISIART RUIYS, o'r Gwerllwyn,
 ym Merthyr Tydfil.*

I.

"MAE'r nefoedd fry yn dadgan i ni ogoniant Duw,
 Uweh ben y mae 'r ffurfafen yn dysgu ddnol-ryw ;
 Mae 'r haul a'r ser, a'r lleuad, a'r holl blanedau 'nghyd,
 Yn g'nifer o bregethwyr i amryw barthau 'r byd.

II.

Mae 'r dydd a'r nos ol yn ol yn traethu yn gyttún,
 Gan ddysgu gwersau distaw i bob ystyriol ddyn ;
 Ae er nael oes na thafod na 'madrodd gan y rhai'n,
 Nid oes na gwlad, na phobl, lle ni chyrhaedda 'u sain.

III.

Yr haul yn enwedigol 'r hwn sydd a'i babell fry
 Sydd un ddysgawdwr hynod ym mysg y nefol lu ;
 Pan golo yn y dwyrain ar foreu goleu gwn
 'Does un priodfab hardd-deg mor hoywed ag yw hwn.

IV.

Bob dydd tu a thŷ 'r gorllewin mae'n symmud ar ei daith,
 Mor wisgi ag un rhedegwr, am draws yr wybren faith ;
 Ae yn ei gylch blynyddol i'r gogledd ae i'r de',
 Fe ddwg ei wres ar droion i lonni pob rhyw le.

V.

Mae gwaith y greadigaeth a gwaith rhagluniaeth Duw,
 Yn dweud mai hanfod nerthol a doeth anfeidrol yw ;
 Rhaid oedd wrth allu i wneuthur, ac wrth ddoethine' mawr,
 I drefnu 'r hyn a wnaethpwyd o'r dechreu hyd yn awr.

VI.

Yn llyn mae 'r pethau welir yn dysgu pawb i ddod
 I barchu ac anrhydeddu yr hwn a roes eu bod ;
 Mae hyd yn oed Paganiaid heb esgus gwir, na phle,
 Os bod yn anniolchgar a wnant hwy iddo 'fe.

VII.

Ae er bod ein dyledswydd yn cael ei rhoi mewn rhan
 O'r blaen yn llyr natur, nid yw y golau ond gwan ;
 Os awn ni i'w gydmaru â'r dadguddiadau wneir
 Yn y 'sgrythurau sanctaidd, y 'sgrifenedig air.

VIII.

Mae hon yn rheol berffaith i arwain dyn yn ôl
 I union ffordd sancteiddrwydd o'i lwybrau fflaidd ffôl ;
 Tystiolaeth sier ydyw yn do'd a rhai o fysg
 Gwioniaid anwybodus i gyrhaedd iachus ddysg.

IX.

Mae'r rhai'n yn werthfawroccach nag aur profedig coeth,
 Ae yn felysach hefyd nâ mel, i'r galon ddoeth ;
 Rhag drwg ar bob amserau cair rhybudd ynddynt hwy,
 O'u cadw 'n gydwybodol mae gwobr mwy na mwy.

X.

Ond hyn, O Arglwydd, ydyw fy anhappasrwydd i
 Fod mod i'n ffaelu dilyn dy reol berffaith di ;
 'Rwy wrth gydmaru 'mywyd â'r hyn sydd yno i lawr
 Yn gwel'd fy auwireddau yn lliosogi 'n fawr.

XI.

'Rwy 'n erfyn ar dy fawredd i rasol ganniattau,
Im' gael oddi wrth fy meiau cuddiedig fy nglanhau;
A gwared fi 'n enwedig rhag pob rhyfygus fai,
Ac yna fy euogrwydd a fydd yn llawer llai.

XII.

Attolwg boed derbyniad grasusol ger dy fron,
Fy Nghraig a'm Prynwr nerthol, i'r gân a'r gyffes hon;
A phan ddyrchafwyf attat fy ngweddi clyw fy llef,
Gogwydda 'th glust i wrando o'th annedd yn y nef."

" CYWYDD AR YSTYR Y XIX SALM.

- 1 Y NEF sy 'n datgan i ni.
Ogoniant Duw heb gynt,
A'r ffurfafen bob ennyd,
Ei waith yn berffaith i'r byd.
- 2 Pob diwrnod ei glod yn glau,
Ymadrodd fel y medrai;
O nos i nos, d-os daeth
Y byd i lawn wybodaeth.
- 3 Nid oes un iaith ry faith fodd,
Medrus na chwaith, ymadrodd,
Na chlybuwyd, ni chuddiwyd chwath
Eu lleferydd llafariaeth.
- 4 Eu geiriau aeth yn gywrain,
Trwy 'r ddacar gyssongar sain;
A thyfiad, hyd cithafoedd.
Pob gyfran yn gyfan ar goald,
I'r haul gosododd ar hant,
Llawn ddull ei babell ynddant.
- 5 Ilwn a'i fri, fel gwr priod,
A'i yrfa mal rhedfa rhod,
Was difyr, o'i ystafell,
Goleuni byd, glain o bell,
Cyflym yn ei rym yr â,
Cawrfodd yn rhedeg gyrfa.
- 6 O eitha y nef, aeth i'w nod,
A'i arfaeth yn dliorfod,
O'i amgylch ef ni ymgudd,
Dim rhag ei wres deg y dydd.
- 7 Cyfraith yr Ion, cyfion caid,
Trwy rinwedd, yn troi'r enaid:
Goren rheol tystiolaeth,
Yr Arglwydd dedwydd a doeth;
Cafwyd yn siera cyfoeth,
Y gwirion ddyu, gwar yn ddoeth.

- 3 Deddfau 'r Naf, hwyaf hawl,
 Uniawn ydynt hynodawl ;
 Llawenu heb gelu 'r galon,
 Cywir ei fryd ceir y fron ;
 Gorchymyn Duw byw heb wad,
 Lliwgar goleuo 'r llyga l.
- 9 Ofn yr Arglwydd a lwydda,
 Yn bur-lan diddan a dâ ;
 E bern o hyd bura hawl,
 Trwy g'ooddiad yn drag'wyddawl,
 Barnau 'r Ion sydd wicioneidd,
 Cyfiawn eu gyd, hyfryd hedd :
- 10 Mwy dymunol nâ golud,
 Aur tra-mor, neu drysor drud ;
 Melusach bereiddiach bri,
 (Mael enwog) na mel ini.
- 11 Buddiol ydynt rhybuddir,
 A diau mai geiriau gwir,
 O'u cadw hwy mae gwobrwyon,
 O ras a brynodd yr Ion.
- 12 Pwy mor gall a ddyallodd,
 Ei fai a'i addef o'i fodd ?
 Glanha ' nghanwedd duedd dig,
 C'oodd adwyth, a'r cuddiedig,
- 13 Attal, 'rwy'n deisyf iti,
 Dy was, a'th ras un a thri,
 Rhag pob pechod trallod trwch,
 Fflin oddef aflonyddwch ;
 Yna perffeithir f' enaid,
 Rhag dilyn anhydyn haid,
 Baich adwyth o bechodau,
 Goleuni hedd i'm glanhau.
- 14 Bydded 'madroddion buddiawl,
 I'm genau mwy, ganu mawl :
 Myfyrio heb gario gwg,
 Y galon yn ddigilwg,
 A'm bwriad yn safadwy,
 Yr hyd yn y byd y b'wy,
 Ger dy fron Ior dirion dwr,
 Pur enwog Craig, a'm Prynwr. *Amen.*
Huw ab Huw a'i cyssylltodd :
Poed y clod i Dduw.?

Tua'r amser yr oedd y cylchgrawn sydd yn awr dan ein sylw yn dyfod o'r wasg, yr oedd Sandemaniaeth yn dechreu ymosod ar Gymru. Pleidiwyd y gyfundraeth sychlyd hon gyda phenboethni mawr gan un Mr. Popcin, yr hwn a alwyd i gyfrif gan y Methodistiaid mewn cymdeithasfa, pan y gwrthwynebwyd ei ddaliadau yn effeithiol a llwydd-

iannus gan Williams, Pant-y-celyn. Parodd yr egwyddorion Sandemanaidd dwysged o aflonyddwch ar el hyn yn Ngwynedd, lle yr amddiffynwyd hwy yn egniol gan Jones o Ramoth, ac y buant am yspaid byr yn radd o fagl i Christmas Evans. Ceir amlygiad o natur y gyfundraith yn y gân sydd yn canlyn. Ymddengys nad oedd ganddi y pryd hyn ond ychydig o ddysgyblion yn Nghymru—"o gyleh Caerfyrddin ddau neu dri, ac Abertawy ddwsin." Y Popcin a grybwyllwyd yn barod yw y P——n y cyfeirir ato yma:—

“HANES Y GAU BROPHWYD O'R ALBAN.

- 1 MAE 'n amser tra pheryglus,
Ni ddylem bawb yn ddilys,
Mewn gwlad ag eglwys, wilio rhag
Athrawon gwag ymfrostus.
- 2 Fe gododd rhyw anghynfil,
O'r Alban 'nawr fel moifil,
Ei holl hyfrydweh ef a'i fwyd,
Oedd rhwygo rhwyd 'r Efengyl.
- 3 Fe landiodd mewn i Lundain,
A rhai o aberoedd Brydain;
Ac i Loegr newydd dros y dŵ'r,
Mae'n gryn drafaelwr filain.
- 4 Fe haerodd yn dra eon,
Ei fod ef wedi ddanfôn,
Gan Frenhin nef yn gennad glau,
I wneud negesau mawrion:
- 5 Diwygio 'r holl eglwysi,
Sy'n marwol gyfeiliorni,
Er dyddiau 'r Apostolion gynt,
Mai twyllwyr y'nt yn gredu.
- 6 Fe rwygodd rai eglwysydd,
A rhai eneidiau annedwydd
Aeth er ei ol ef yn ddbwyll,
Gan goelio 'i dwyll a'i gelwydd.
- 7 Fe hudodd ddau bysgodyn,
Yr enwog *Pike a'r P——n*;
A'i rith o gred a'i araith gref,
I'w 'ddoli ef a'i ddilyn.
- 8 Ac fel y Phariseaid,
Ei frodyr a'i hynafiaid,
O for i for fe'i gyrodd fo,
Hwy i wneuthur proselytiaid.

- 9 Fe rowd i ni rybuddion,
Y codai gau athrawon ;
Maent wedi dyfod 'nawr i'n bro,
With amryw o arwyddion.
- 10 Mae 'rhai'n am 'sglyfio r defaid,
Condemnio'r gwir fugeiliaid,
A phawb nad yw o'n meddwl hwy,
A'u diras fympwy diriaid.
- 11 Mae genym hynod hanes,
Am Jannes gynt a Jambres ;
Y ddau swynwr ludwr hyll,
Fu yn gwrthsefyll Moses.
- 12 Macnt hwythau yr un agwedd,
Yn llawn o amryfusedd ;
Yn ceisio dala fyuu'n dynn,
Yn erbyn y gwirioredd.
- 13 Ni raid wrth droedigaeth,
Wrth reol eu hathrawiaeth,
Gwnant ddyn yn Gristion cyfion coeth
Ond llyneu'r noeth grediniaeth.
- 14 Os unweh chwi á'r frawdoliaeth,
Cewch gym'ryd rhyddid helaeth,
Cewch eillio'ch barf ddydd Sul mewn siop,
Ac arfer pob chwaryddiaeth.
- 15 Am hyn gocheled dynion,
Rhag llyngau eu bresych gwylltion,
On'te cant weled ar ol hyn,
Fod angau yn y crochan.
- 16 Gochelwch gwn a bleiddiaid,
A'r tecca o hereticiaid ;
Can's yr athrawiaeth maent yn ddwyn,
Sy waeth na gwenwyn aspiad.
- 17 Ond defaid Crist sy'n dimad
Eu hyspryd cul digariad ;
Eu profi a'u nabod allant hwy,
Yn union trwy 'r enciniad.
- 18 Rhyw gant neu bedwar ngain,
Hndasant hwy yn Llundain ;
A chylch Caerfyrddin dan neu dri,
Ac Abertawy ddwsain.
- 19 Mae achos iddynt ofni,
Mai rhai oedl heb sylfaenu
Ar y wir graig na derbyn gras,
Yw'r dynion ga's eu denu.

- 20 Nid llawer yw eu llwyddiant,
 I'r Arglwydd bo'r gogoniant ;
 Nid ant yn nhepell rhagddynt mwy,
 Ond odid hwy ddiffiant.
- 21 Can's pob planhigyn rhithiol,
 Na phlannodd ein Tâl nefol,
 Diwreiddir hwynt medd Crist ei hun,
 O eisiau 'r un peth rheidiol.
- 22 Os na ddaeth etto i'r golwg,
 Eu twyll a'u dichell fawrddrwg,
 Eu holl ynfydrwydd maes o law,
 I bawb a ddaw yn amlwg.
- 23 Mae rhai'n yn mawr ddirmygu,
 Y Duw y'm ni'n was'naethu ;
 Gan ddweud, y twylliant ef o'n b'ai'n,
 Fel hyn y maent hwy'n cablu.
- 24 Rhyfygus ynt, nid ofnant,
 Ond cablu 'r hyn ni wyddant ;
 Cablu gwaith Yspryd Duw a'i ras,
 O herwydd na's profasant.
- 25 Ond hwy gânt we'd yn hollol,
 Fod ein Duw ni'n dân ysol :
 Bydd gwae 'i ddirmygwyr ef ryw bryd,
 A gwyn eu byd ei bobol.
- 26 Chwi weinidogion Cymru,
 A ffyddlon weision IESU,
 Ymrowch i ymdrechu o blaid o ffydd,
 Yn erbyn crefydd Sandy.
- 27 Gweddiwech dros y rhei'ny,
 Y dynion gas eu dennu ;
 Ar Dduw o'i ras eu dwyn yn ol,
 I gorlan rasol IESU.
- 28 Os defaid yn't dychwelant,
 O'r d'ryswech y erwydrasant ;
 Duw mawr a'u hargyhoeddo'n brudd,
 I droi i'r ffydd ddiffuant.
- 29 Daw argyhoeddo 'r bwystfil,
 Y twyllwr rhwygwr rhigyl ;
 Nerth braich ac ysgwydd sy'n ymroi,
 I lwyr wyrdroi 'r Efengyl.
- 30 Cymmerwech hyn o hanes,
 Y prophwyd gau a'i broffes.
 Y sawl sy'n chwennych gwybod mwy,
 Darllenant hwy ei gyffes."
- GAN D. J., CARWR Y GWIRIONEDD."

Gall fod y dyfyniadau uchod yn ddigon fel anghreiffitiau o'r dosbarth barddonawl. Nid oes yma ddim ychwaneg yn galw am sylw, oddi-eithr yr *Hanesion*, y rhai nid ydynt o gymaint gwerth i ni yn yr oes hon, gan eu bod wedi eu cymeryd i fynu bron yn hollol gyda helyntion gwladol. Diffyg mawr yn y cyhoeddiad yw, ei fod mor brin mewn hanesiaeth grefyddol. Mor werthfawr yn y dyddiau hyn fuasai adroddiadau manwl am weithrediadau yr hen bregethwyr yn yr oes hono, yn nghyd â chlofnodau eu cyfarfodydd. Ond nid oes yma air o grybwylliad am fwy nag un cyfarfod crefyddol, yr hwn a gynnaliwyd yn Trefecca, Awst 24ain, 1770. Ceir yr hanes fel y canlyn yn y rhifyn olaf ond un, yr hwn a gyhoeddwyd dydd Sadwrn, Medi 1af, 1770:—

“Dydd Gwener, wythnos i'r diweddaf, y cynhaliwyd y gymmanfa flynyddol yng nghappel yr arglwyddes Huntington, yn Nhrefecca, lle cyfarfu dros ddwy fil o bobl, ar fedr pa rai yr oeddit wedi parottoi ciniaw; a phob peth a reolwyd gyd a'r harddwch a'r gweddusder mwyaf. Yn y bore, y Parchedig Mr. Fletcher a bregethodd yn Saesonaeg, a'r Parch. P. Williams yn Gymraeg, a'r Parch. Mr. Glascott, cappelwr yr arglwyddes Huntington yn Saesonaeg y prydnewn. Heblaw'r iarlles, yr oedd yr arglwyddes Ann Erskin, Miss Hert, Miss Scot, ac amryw eraill o waedoliaeth yn bresennol.”

Y mae hanes yr un cyfarfod yn helaethach o lawer yn “Mywyd ac Amserau yr Iarlles Huntingdon:” ond pa fodd i gysoni y ddau a'u gilydd nis gwyddom. Y maent yn cyfateb yn berffaith o ran y dydd o'r mis, ond nid un cam yn mhellach. Yn ol yr hanes hwnw, nid oedd Mr. Fletcher na Peter Williams yn gwneuthur dim heblaw darllen a gweddio: y rhai oedd yn pregethu yn Gymraeg oedd Mr. William Williams yn y boreu, a Mr. Rowlands yn y prydnewn. Oddiar dybiaeth fod ysgrifenydd y “Cofiant” wedi camsynied yr amser, troisom at hanes y cymanfaoedd blynyddol cyn ac ar ol y flwyddyn hon, ond y maent oll yn ein gadael mewn cymaint dyryswech ag o'r blaen, heblaw fod y dydd o'r wythnos yn pallu ateb. Gan y dichon y bydd rhai o'n darllenwyr yn fwy llwyddiannus na ni i amgyffred y pwne hwn, ac am fod y dyfyniad ei hun hefyd mor addysgiadol, ni a roddwn yma gyfieithiad o'r hanes fel y mae yn “*The Life and Times of Selina, Countess of Huntingdon.*” Cyf. ii. tudal. 109.

“Ar y 18fed o Awst, 1770, daeth yr Arglwyddes Huntington, gyda Mr. Shirley, a Mr. Venn, i Brislington, yn agos i Bristol, preswylfod James Ireland, Ysw., gŵr tra adnabyddus yn y byd crefyddol, a chyfaill i'r holl bleidiau. Yr oedd Mr. Wesley y pryd hyny yn Bristol, lle yr oedd wedi bod yn aros gyda'r dysgwiliad o fyned gyda'i Harglwyddiaeth i Gymru, i fod yn wyddfodol ar yr achlysur o gylichwyl flynyddol eu hathrofa, yr hwn oedd yn awr yn agoshau i'r lle y gwahoddesid ef y

flwyddyn flaenorol. Ond yr oedd yr arglwyddes wedi ffurfio penderfyniad o'i gan ef allan o'i phulpuadau, tra y dalai yr egwyddorion y dadleuid yn eu cylch yn y gynnaldd ddiweddar, ac yn ganlynol hi a ysgrifennodd ato i'r pwrpas hwnw. Ni ddychwelodd Mr. Wesley unrhyw atebiad i'r llythyr hwn, ond gadawodd Bristol am Gornwall drannoeth; ac ni phregethodd byth mwyach yn nghapeli yr Arglwyddes Huntingdon.

Y dydd canlynol i ddyfodiad ei Harglwyddiaeth i Brislington, yr hwn oedd y Sabboth, pregethodd Mr. Shirley a Mr. Venn i gynulleidfa oedd tra liosog yn eglwys St. George, Kingswood, a St. James, Bristol. Ar yr 21ain, Arglwyddes Huntingdon, yn nghyd â'r Arglwyddes Anne Erskine, Miss Orton, Mr. Ireland, Mr. Lloyd, a'r gweinidogion oedd yn ei chanlyn, a aethant i Drefeca, ac a dderbyniwyd gan Mr. Fletcher, Mr. William Williams, Mr. Rowland, Mr. Peter Williams, Mr. Howel Harris, ac amryw bregethwyr llëygod, a chynghorwyr. Am naw, boreu drannoeth, gweinyddwyd y Sacrament gan Mr. Shirley; ac am ddeg, pregethodd Mr. Fletcher yn y capel. Am ddu, rhoddodd Mr. Venn annerchiad i'r myfyrwyr; ac am bedwar, pregethodd Mr. Howel Harris yn y cwrt i gynulleidfa fawr. Gweinyddwyd y Sacrament gan Mr. Venn bore dydd Iau. Am ddeg, pregethodd Mr. Rowland a Mr. Williams yn y cwrt; holodd Mr. Shirley y myfyrwyr, a thraddododd annerchiad am ddu o'r gloch; ac am bedwar, pregethodd Mr. Peter Williams yn y capel, tra yr oedd rhai o'r cynghorwyr yn cyfarch y gynulleidfa allan yn y cwrt. Yn y prydawn cyhaeddodd Mr. Berridge yr athrofa, ac amryw bersonau o'r wlad oddiamgylch, fel ag yr oedd y cynnulliad o bobl boreu drannoeth yn fawr dros ben.

Am chwech o'r gloch yn y boreu, ar 24ain o Awst, cynnaliwyd cyfarfod gwedi cyhoeddus yn y capel, i erfyn am fendith Pen mawr yr eglwys ar yr athrofa, ei sylfaenydd haelionus, a holl weinidogion Crist y rhai a gydlafurient â hi yn ngwaith cysegredig Duw a gwirionedd. Er mor foreu oedd yr awr ar yr hon y cynnid y cyfarfod hwn, yr oedd tyrfa liosog wedi ymgynnull iddo, ac yr oedd y dylanwal nefol a orphwysai ar y gynulleidfa yn cael ei ystyried yn gyfredin fel 'arwydd er daioni,' ac fel ernes hyfryd o'r hyn a ellid ei ddysgwyl drwy y gwasanaeth crefyddol eysylltiedig â'r gylchwyl. Meistri Rowland, Williams, Harris, a Berridge, a gymerasant bob un ran yn y gorchwyl hyfryd hwn: ar ol yr hyn gweinyddwyd y Sacrament gan Mr. Fletcher, fel llywydd yr athrofa, yn gyntaf i'r gwŷr eglwysig, o'r rhai yr oedd *deg* yn bresennol ar yr achlysur hwn, yna i'r myfyrwyr, yr Arglwyddes Huntingdon, ac aelodau teuluaid ei harglwyddiaeth, cyfaddas i'r cynulleidfa, o'r hon y darfu i nifer mawr ymgymuno i gofio am gariad eu Harglwydd a'u Hiachawdwr yn marw.

Dechreuodd y gwasanaeth cyhoeddus am ddeg o'r gloch, pryd yr ymgynnullodd tyrfa anferth o bobl o bob parth. Cyfodwyd esgynlawr yn y cyntedd, ar yr hwn yr oedd yr holl wyr Eglwysig, y pregethwyr Ymneillduol, y pregethwyr llëygod, a'r myfyrwyr yn eistedd. Darllenodd Mr. Fletcher Weddian yr Eglwys Sefydledig, ynghyd â rhanau detheoledig o'r Hen Destament a'r Newydd, cyfaddas i'r achlysur. Wedi hyny, Mr. Peter Williams, o Gaerfyrddin, mewn gweddi daer a difrifol, a atolygodd am fendith Duw ar y gweinidog oedd yn myned i lefaru—ar iddo fod yn ffyddlawn i Dduw, yn ffyddlawn iddo ei hunan, ac yn ffyddlawn i eneidiau ei wrandawyr; ac hefyd ar y gynulleidfa, ar iddynt wrandaw megys erbyn tragywyddoldeb, a rhoddi pob diwydrwydd at y pethau a berthynent i'w tragywyddol heddwch, gan cdrych i fynu at Dad y goleuni, a deisyfu arno roddi i 'holl eiriau y bywyd' fynediad helaeth i mewn i'w calonau. Yna y dyrfa liosog a ganasant gyda'r dyhewyd mwyaf bywiog,

*'Arm of the Lord, awake, awake!
Thine own immortal strength put on,' &c.*

(*'O fraich yr Arglwydd, deffro yn awr!
Dy nerth anfarwol gwisg,' &c.*)

Ar ol yr hyn esgynodd Mr. Shirley i'r pulpud, a phregethodd bregeth ragorol, dra chyfaddas i'r achlysur, oddiar 1 *Cor.* i. 21: "Canys o herwydd yn noethineb Duw * * * fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu." Wedi iddo ef orphen, pregethodd Mr. William Williams yn Gymraeg, hyd un o'r gloch. Am dda, darfu iddynt oll giniawa; ac yn y cyfwug rhwng y gwasanaeth cyhoeddus, yr oedd y bobl yn parhau i ganu a gweddio, yn y capel ac yn y cwrt. Dechreuodd y gwasanaeth nesaf am dri o'r gloch, pryd y darfu i Mr. Berridge argymhell esiampl a llwyddiant gweinidogion cyntaf Crist, oddiar *Marc* xvi. 20: "A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant yn mhob man, a'r Arglwydd yn eydweithio, ac yn cadarnhau y gair, trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn." Wedi iddo ddiwedd, cyfarchodd Mr. Rowland y dyrfa gynnulledig yn Gymraeg, yn ei ddull arferol hyawdl a thra grymus. Ei destun oedd 1 *Cor.* i. 23: "Eithr ny ni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio:" oddiwrth yr hwn y dangosodd bwnic gweinidogaeth pob gweinidog i Crist—doethineb a daioni Duw yn gorchymyn ar i'r efengyl, swm a sylwedd yr hon yw Crist croeshoeliedig, gael ei phregethu 'yn mhob man—cyfaddaswydd yr efengyl i sefyllfa dyn, a'i chyhoeddiad y moddion appwyntiedig i ddychwelyd pechaduriaid; ac yn olaf, *comisiwn* eu Meistr, a fu unwaith yn groeshoeliedig, ond sydd yn awr wedi ei gyfodi a'i ddyrchafu, yr hwn sydd eto yn parhau mewn grym, a'r addewid o'i bresennoldeb grasol ef 'hyd ddiwedd y byd.'

Yn y prydawn, anerchodd Mr. Venn y myfyrwyr, y gweinidogion, a'r pregethwyr llyngol, y rhai oedd yn gynnulledig yn yr athrofa ar yr achlysur hwn, oddiar 2 *Tim.* iv. 2: "Pregetha y gair—bydd daer mewn amser ac allan o amser." Oddiwrth y geiriau hyn efe a wasgodd yr anghenrheidrwydd anheborol o bregethu y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, yn zelog ac yn ffyddlawn—o fod yn barod i fyned allan ar bob a'leg i gyhoeddi geiriau y bywyd tragywyddol—a'r pwys sydd mewn cael teimlad parhaus o ymddibyniad llwyr ar y dylanwad o ciddo yr Ysbryd sydd yn cael ei addaw, i 'gadarnhau y gair, trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn,' ac i'w cynnal o dan bob anhawsder a phrofedigaeth ag y gelwid hwy i'w goddef yn nghyflawniad ffyddlawn y weinidogaeth a dderbyniasent gan yr Arglwydd. Diweddodd Mr. Fletcher gyda gweddi ar Ben mawr ei eglwys a'i bobl, am dywalltiad neillduol o'i Ysbryd ar wahanol ranau y gwasanaeth cysylltiedig â'r gymanfa; ar yr athrofa, ar iddi brofi yn fendith arosol i eglwys Crist, ac ar iddo fod yn nerthol, trwy Dduw, i fwrw cestyll Satan i'r llawr—ar ei sylfaenydd anrhydeddus, ar fod i gariad y Gwardwr losgi yn ddysgleiriach ac yn gryfach ar allor ei chalon, ac ar iddi gael ei gadael yn hir i fedi mewn gorfoledd o ffrwythau ei llafur haelionus a didwyll—ac ar y gweinidogion a'r myfyrwyr, ar iddynt fod yn saethau gloyw yn nghawell y Prynwr, yn zelog, yn ymdrechgar, ac yn llafurus mewn taenu gwybodaeth o'u Meistr dwyfol, ac ar iddynt yn y dydd mawr olaf eu cael ar ei ddeheulaw, a'i glywed yn llefaru wrthynt wobwr ei gymeradwyaeth, 'Da weision da a ffyddlon, ewch i mewn i lawenydd eich Harglwydd.'

Fel hyn y terfynodd ail gylchwyll athrofa ei harglwyddiaeth. Yr oedd yr ysbryd mwyafr hyfryd o dduwioldeb a chariad brawdol yn treiddio trwy yr holl gyfnod dyddorawl hwn; ac yr oedd presennoldeb grasol Duw yn cael ei brofi yn helaeth gan bawb. Yr oedd y cynulleidfaoedd yn anghyffredin o liosog, ac yn talu sylw dwfn a dwys; ac yr oedd dylanwad bendithiol oddi uchod yn gorplwys ar y tyfaoedd

cynnulledig. Am saith o'r gloch boreu dranoeth, cynnaliwyd cyfarfod i weddio yn y capel, pryd y darfu i Meistri Shirley, Venn, Berridge, a Fletcher, gyflwyno eu hunain a'u brodyr yn y weinidogaeth i fendith Duw cyn iddynt ymwsgaru i'w gwahanol gartrefleoedd. Yn fuan wedi hyny, gadawodd yr Arglwyddes Huntingdon a'i chymdeithion Drefecca am Berwick, trigle Thomas Powys, Ysw., yn sir Amwythig. Dranoeth, yr hwn oedd Sabboth, pregethodd Mr. Venn yn y boreu i nifer mawr o bersonau, ac yn y prydawn cyfarchodd Mr. Berridge gynnulleidfa fwy lliosog, oddiar y geiriau pwysig hyny, 'Cyn wired a bod yr Arglwydd yn fyw, a'th enaid dithau yn fyw, nid oes ond megys cam rhyngof fi ac anghen.' Darfu i'r Arglwyddes Huntingdon yn nesaf fyned yn mlaen i Worcester, lle yr arosodd ychydig ddyddiau, ac yna aeth yn mlaen i Bristol, lle y cafodd yr hyfrydwch o gyfarfod â Mr. Charles Wesley, yr hwn yn fuan wedi hyn a'i canlynodd i Bath ac a bregethodd amryw weithiau yn y capel."

Yr unig grybwylliad arall o duedd grefyddol yw yr hyn a ganlyn am y Parch. George Whitefield yn Ebrill 14eg, 1770:—"Dydd Sadwrn diweddaf y dychwelodd y Parchedig Mr. George Whitefield yn iach i Lundain, o Georgia yn America." Pa fodd bynag y dylid esbonio yr adroddiad am gymanfa Trefecca, y mae yn eithaf diammheuol fod yr hanes hwn yn anghywir. Nid yn unig yr oedd heb gyrhaedd i Lundain yr amser a nodir uchod, ond ni ddychwelodd yno byth mwyach; oblegid bu farw yn America y mis Medi canlynol.

Gyda y coffhad hwn am yr anfarwol Whitefield yr ydym yn ymadael â'r "Eurgrawn Cymraeg," yn nghymdeithas yr hwn y cawsom lawer o hyfrydwch ac adeiladaeth. Y mae ei olygwyr gwladgarol, pwy bynag oeddynt, a'u holl ohebwy'r un modd, erbyn hyn, wedi huno yn yr anghen. Byddwn ninnau yn fuan wedi myned ar eu hol. Gadewch i ni feddwl, tra y cawn aros yn hyn o fyd cyfnewidiol, am fod o ryw ddefnydd.

RHAN III.

"Y CYLCHGRAWN CYNMRAEG."

Hwn yw yr ail o ran amser, hyd y gwyddom ni, sydd yn dyfod dan sylw wrth ysgrifenu hanes yr hen Realon Cymreig. Yn y rhifyn cyntaf a'r ail gelwir ef "Cylehgrawn Cymraeg;" ond yn y trydydd, gadewir allan yr N yn y gair *Cymmraeg*, a gelwir ef "Cylehgrawn Cymraeg." Yr oedd yn dyfod allan bob tris mis yn Trefecca, lle yr argraffwyd lliaws mawr o hen lyfrau buddiol. Ei olygydd oedd Morgan ab Ioan Rhus. Fel hyn y sillebir ei enw mewn llyfryn bychan a ysgrifenydd ganddo am "Y drefn o gynnal Crefydd yn Unol-Daleithiau America:" ac fel prawf fod genym fwy na thraddodiad dros gyfrif yr olygiaeth iddo ef, gellid crybwyll fod y rhan fwyaf o'r llyfr hwnw wedi ymddangos o'r blaen heb un enw yn y "Cylehgrawn;" ac hefyd fod cyfres fer yn ei ddiwedd o "lyfrau ar werth gan yr awdur," yn mhlith y rhai y mae "Y Cylehgrawn: Rhifynau yr II. III. IV. a'r V., pris 6c. bob un. Pwy bynnag fyddo yn foddlon i ymadael â'r cyntaf, rhoddir 6c. am dano." Ac yn niwedd y gyfres, dywedir, "Yn myned i'r wasg cyn gynted ag y byddo digon o Rag-dalwyr, Pigion o Hymnau, o waith yr Awdwyr hynottaf yn yr Oes, at ba rai y chwanegir amryw o Hymnau newyddion, pris 1s. heb ei rwymo. Bydded i bwy bynag sydd am annog y gwaith hwn yn mlaen ddanfôn eu henwau gyda brys at yr Awdur, i Gaerfyrddin, am ei fod yn meddwl na fydd ei arosfa ond byr yng Nghymru." Wrth gysylltu yr hysbysiadau hyn â'u gilydd, y mae lle i feddwl na chyrrhaeddodd y Cylehgrawn yn mhellach na Rhifyn V. Ond er chwilio, a chwalu y llwch oddiar lawer pentwr o hen lyfrau yma a thraw, ni fuom ni hyd yn hyn mor ffodus a tharaw wrth ychwaneg na'r pedwar rhifyn cyntaf. Os oes neb o'n darllenwyr yn meddu y pummed, gwnaent dwrn da i ni pe anfonent wybodaeth o hyn y Mr. Gee. Y mae wyneb-ddalen y rhifyn cyntaf yn debyg i'r hyn a ganlyn:—

CYLCH-GRAWN

CYNAMRAEG;

NEU

DRYSORFA GWYBODAETH.

Rhifyn Cyntaf, Pris Chwe cheiniog.

Am CHWEFROF, 1793.

YN CYNWYS Y PETHAU CANLYNOL.

Cyfarwyddiadau i ddysgn darllain
 Llythyr G. Owain o Feirion
 Difnyddiaeth
 Yr Ysgrhythyr unig reol ffydd, &c.
 YDWYF YR HWY YDWYF
 Hanes Crefydd o ran ei llwyddiant
 Gwerth Crefydd yn awr anghu
 Myfyrdod ar Aber Ddwfr
 Hanes Crefydd o ran ei dirywiacth
 Rhydd ymofyniad am y gwirionedd
Anecdotau
Prophesia, Sancti Thomae Martyris
Biographi Howard
Howard's Eulogy
 Llythyr Dudith at Beza
Biographi Dudith
Calculations by E. W.

Hanes Herledigaeth
 Epistol cyntaf Philadelphus at
 Cyfarwyddiadau i gynnal Iechyd
 At wellbau'r Dwymynyn
 —Clwyfau, —ffit o'r Colic
 Cyfarwyddyd i godi Aeron y ddaear
 Am Lywodraeth
 Am Semiramis, &c.
 Y dechrenad o ymladd Ceiliogod
 Cwestiwnau
 Drych olwg ar Lyfrau Cymmraeg
 Tri Aderyn
 Awdlau ar destynau'r Gwyneddigion
 —ar Oes Dyn
 —ar Rhyddid
 —ar Wirionedd
 Arwyddion yr Amserau

Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

Na ymddiried i'th fyw, ond i Dduw a'i ddisgyblion.—TALIESIN.

TREFECCA:

Agraphwyd yn y Flwyddyn 1793.

Bu Morgan ab Ioan Rhys am ryw yspaid yn weinidog i eglwys y Bedyddwyr yn Pontypool. Tua'r amser hwnw y torodd y chwyldroad mawr allan yn Ffrainc; a dywedir ei fod mor llawn o frwdfrydedd yn achos rhyddid, fel yr aeth drosodd i Paris er mwyn cael y boddhad o fod yn llygad-dyst o ddymchweliad tra-arglwyddiaeth yn y wlad hono. Ond tybygid iddo gael allan yn raddol er ei fawr somiant, nad oedd rhyddid wedi ennill nemawr trwy weithrediadau Robespierre a'i

gyfeillion; oblegid mae yn llefaru am danynt yn y "Cylehgrawn," yn cwedwig yn y pedwerydd rhifyn, gyda llymdostedd. Yn y rhifyn cyntaf, y mae yn son am ddienyddiad brenin Ffrainc fel hyn: "Y mae dienyddiad Brenin diweddfaf Ffrainc (Lewis XVI.) wedi peri mawr gynnwrf yn Ewrop, a chwedi chwanegu at elynion y deyrnas hono. Y maent mewn rhyfel yn bresennol âg ymherawdwr Germani, brenin Prusia, brenin Sardinia, brenin Lloegr, Statholder Holland, brenin Hisbaen, ymherodres Russia, *electors* Germani, a'r Pab o Rufain. Cafodd y Ffrancod gymaint o lwyddiant yr Hydref a'r gauaf diweddfaf fal y mae'r byd yn dychrynu rhag ofn eu hegwyddorion *penrhydd*." Y mae y gair *penrhydd* mewn llythyrenau Italaidd, yr hyn sydd yn peri i ni feddwl fod yma wawdiaith ddirgelaidd ac nad oedd cfe ei hun y pryd hwnw yn golygu fod yr egwyddorion yn benrhydd mewn gwirionedd. Yn y trydydd rhifyn, ar ol crybwyll am lofruddiad Marat, y mae yn ychwanegu, "Yr oedd y Marat hwn, mae'n debyg, yn un o'r Jacobins mwyaf yn Paris, ac o bosibl yn dymuno'n dda i'r wlad." Hyd yn hyn, mae yn amlwg ei fod yn methu rhoddi lle i anobaith llwyr o barth y chwyldroad: ac yr ydym yn ei barchu am hyny; oblegid gwell yw meddwl yn rhy dda am ddynolryw, na bod yn dueddol bob amser i dybied y gwaethaf. Ond pan ddaeth y newydd am ddienyddiad ysgeler *brenines* Ffrainc, ymddengys i'w holl hyder yntau ddiflanu. Ar ol hanes ei marwolaeth yn y pedwerydd rhifyn, cawn y sylw a ganlyn: "Y mae'r newyddion diweddfaf o Ffrainc yn gosod allan greulondeb y blaidd sydd yn llywodraethu yno'n bresennol, mewn modd arswydus: y mae yn sier na all neb eu hamddiffyn. Yr unig beth y gall dynion ymgysuro ynddo yw hyn, na pharhaodd un lywodraeth greulon yn hir erioed: y mae yn dyfetha ei hun. Y cwbl a ellir ei ddywedyd am eu creulondeb yw, eu bod yn offerynau cymhwys i ddiwreiddio Pabyddiaeth o'r byd; ac y mae'n ddigon tebyg mai hwynt yw'r bobl y mae'r Hollalluog wedi godi i hyny."

Nid oedd ond lle tlawd yn Mhrydain y dyddiau hyny i elynion gormes. Yr oedd gan Pitt ei ysbwyr yn mhob congl o'r deyrnas, yn barod i gyhuddo pob dyn a ddywedai air yn erbyn gwastraff ac anghyfiawnder y llywodraethwyr. Yn yr amgylchiadau hyn, penderfynodd Morgan ab Ioan Rhys i adael gwlad ei enedigaeth, a chyfeirio ei wyneb tuag America. Ond cyn canu yn iach i'r hen Gymry, anrhegodd hwynt a'r llyfryn a grybwyllwyd uchod. Y mae yn dechreu fel y canlyn:

“Y DREFN o Gynnal CREFYDD

YN

Unol-Daleithiau AMERICA;

Ynghyd â Darluniad Byr o KENTUCKY,

A Rhesyman digonol i gyfiawnhau'r cyfryw sy'n myned o'r Wlad hon i AMERICA, a Chyngor i'r CYMRY.—*Pris 2c. neu 1s. 6c. y Ddysen.*

'Brydain ! na'd Rufain oer, afiach—o'th ddawn

'I'th ddwyn yn dywyllach,

'A'r Pab drin dy gyfrinach :

'I Ddiawl boed', a'i ddelwau bach.'

* *Dat.* xix. 20.

Gan MORGAN AB IOAN RHUS.

Wedi treigl miloedd o flynyddoedd, ymha rai yr oedd dynolryw yn cael eu amharchu gan bob math o draws-lywodraeth, braidd ymhob rhan o'r byd, y mae'n hyfryd gweled *byd newydd*, ymha un y preswylia cyfiawnder, wedi ei sefydlu gau Dduw ar y ddaear. Gwlad yn codi i'w dinasaidd fraint, yn y mwyniant o gystal llywodraeth ag a sefydlwyd erioed ar y ddaear, lle mae rhyddid a threfn wedi eu huno yn y fath fodd, fel y mae gogyfuwch gynnyg gan bob dyn i'r cyfryw fesur o ddedwyddwch ag a ddichon wneud ei greadigaeth yn fendith a chyssur iddo. Y mae i'w gyfrif ymhlith y mesuron doethaf o'r eiddo deddfwyr America, iddylt adael meddwl dyn y man lle cawsant ef, yn rhydd, ac heb ei lyfetheirio, a goddef i'r grefydd grist'nogol † egluro ei nherth, ac amlygu ei gwirionedd, trwy ledw ac ymdaenu heb gymmorth y swyddwyr dinasaidd.—Dyma'r wlad gyntaf a wyddom am dani a wnaeth y prawf hwn, ac y mae'r effaith yn debyg o fod yn wobr o ryddid parhaus a dedwyddyd, na chlybuwyd son am ei fath."

Yna y mae yn myned yn mlaen i ddangos egwyddorion rhyddid crefyddol fel y maent yn cael eu gosod allan mewn gweithred a sefydlwyd yn nghynnulleidfa Virginia, yn y flwyddyn 1786. Yn nesaf, cawn grynodedd byr o agwedd crefydd yn y gwahanol daleithiau, yn nghyda darluniad o Kentucky, yr hon a gyfrifid y pryd hwnw yn dalaeth newydd. Hyd yma, nid yw y llyfryn dan sylw ond ail-argraffiad o draethawd a ymddangosasai yn y "Cylchgrawn." Ond yn ei ddiwedd y mae ychwanegiad heb fod o'r blaen yn argraffedig; ac am fod yr ychwanegiad hwn yn rhoddi amlygiad helaethach o syniadau yr awdwr, rhoddwn ef ger bron ein darllenwyr.

“*Rhesynau digonol i gyfaenhau'r cyfrye sydd yn myned o'r Wlad hon i Unol-daleithiau America.*”

YN gyntaf, Gorchymyn Crist, ‘Pan y’ch erlidiant yn y ddinas hon, fflowch i un arall.’ Y mae Dr. *Watson*, esgob *Llandaf*, wedi profi ’n ddigon eglur, fod yr holl Ymneilldwywr, yn y deyrnas hon, dan erledigaeth. Dyma ei eiriau, ‘Y mae caud allan o swyddau gwledig yn erledigaeth; nid erledigaeth y *Chwil-’ys* na *Smithfield* yn wir ydyw; y mae yn wahanol mewn gradd, ond yn gyffelyb mewn rhyw. Yr wyf fi wedi ymresymu fy hun i’r synniadau yma, yn y modd canlynol: cosp am synniadau crefyddol sy’n erledigaeth, a drwg o un math a osodir ar un trwy awdurdod y llywodraethwr, sydd yn *gosp*. Fe all y drwg hwn niweidio gwr, naill ai yn ei berson, neu ryddid, neu feddiannau, neu enw da. Caud gwyr allan o swyddau, trwy gyfraith, sydd ddrwg niweidiol i’w meddiannau, a’u henwau da; i’w henw da, trwy beri i’r wlad eu cyfrif yn ddinasyddion drwg, neu yn ddeiliaid anffyddlon; i’w meddiannau, trwy gymmeryd oddi wrthynt y posibilrwydd o gyrraedd y manteision ag sy’n cyd-fyned â rhai swyddau gwledig. Y manteision hyn, pa un ai cyfoeth, gallu, awdurdod, neu anrhydedd yn benaf fo’n eu gwneud i fynu, ydynt o ryw werth; fe all eu gwerth ymddangos yn wahanol, i wahanol ddynion; etto gan eu bod o ryw werth, y posibilrwydd o’u cyrraedd sydd o ryw werth, a chymmeryd ymaith y posibilrwydd hynny oddiwrth un dyn, o herwydd ei grefydd, fydd yn erledigaeth.’

Gall sa’r esgob ’elwanegu, ei fod yn erledigaeth, yn ol iaith seneddwywr America, i rwyne un dyn i gynnal dyn arall, pan nad yw yn gwneud un gwasanaeth iddo mewn gwlad nae eglwys; felly y cyfrif y Crynwyr, yn y wlad hon, yr holl arian y maent yn eu rhoddi at wasanaeth eglwys *Loegr* yn erledigaeth.

Y mae rhai yn ei gyfrif yn rheswm digonol am adael gwlad eu genedigaeth, ‘Eu bod yn myned i sefyllfa lle nad oes dim achos iddynt gynnal anghrist mwyach.’ Os porthir y buttain, nid oes lle i ddisgwyl y bydd hi marw. Y mae rhai wedi ymrwymo, na roddant gymmaint a hadling, o’u bodd, mwy na’r Crynwyr, i gynnal *Babylon*.*

Wrth ystyried fod gwlad rydd, ehang a ffrwythlon, a’i breichiau yn agored i’w derbyn, y maent yn barnu mai eu dyledswydd, yn ol cyngor Crist, yw myned iddi; yn enwedig pan ystyriont fod cyfreithiau mewn grym yn y wlad hon, ag a ddichon eu difeddiannu o’u holl eiddo, ac alltudio eu personau lle myno’r llywodraeth, am ddim yn y byd, ond gwahanol farn, mewn pethau crefyddol, megis am athrawiaeth y *Drindod*, † &c. Yr ydys wedi ymbil ar y llywodraethwyr i ddileu y fath gyfraith arswydus: ond ni wnant. Beth all fod eu meddwl, oddieithr eu bod yn chwennych ei gosod mewn grym? Nid ydym heb weled yr yspryd erledigaethus hwn yn ymddangos yn barod.—Y mae llawer o’n cydwladwyr yn dywedyd fod crogi neu losgi’n rhy dda i ni.—Y dylem ni gael ein dirdynnu a’n darnio rhwng cefylau gwylltion. Ond am beth? Dim yn y byd ond dymuno daioni iddynt hwy, a cheisio agor eu llygaid i weled eu hawl ddinasaid ac eglwysaid: ond hyd yn hyn, y maent yn canu’r tywyllwch yn fwy na’r goleuni. Bydded i’r hwn eu ddywedodd, ‘Haul saf,’ i ddywedyd etto am i *haul gwrybodaeth* i gyfodi ar *Frydain*; yn amgen, mai achos i ofni y bydd i’r hyn a ddywedodd V—e, mewn llythyr at *Chesterfield* i gael ei gyflwyni. Wrth grybwyll am ymddygiad y wlad hon at wledydd eraill, fel yr oedd wedi ymgyfoethogi yn ninystr y flawd, a bod gloddest a rhyseidd wedi gwreiddio

* Sylfaen *Babylon* yw crefydd sefydledig.

† Pwy bynnag a ddywedo neu ’sgrifeno yn erbyn athrawiaeth y *Drindod*, yn ol credo *Athanasias*, sydd i gael ei ddifeddiannu, a’i alltudio, wrth gyfraith *Loegr*; a gwaeth na’r cwbl, yn ol y gredo, y mae i gael ei ddamuio yn usfern i bob tragwyddoldeb.

ynndi—Y mae'n dweud 'Y byddai i'w chyfoeth ysu fel caner, a'i fod yn ofni na fyddai ddim yn ei phwer i leihau dyled y goron; o ganlyniad na fyddai i feichiau'r tlodion ddim gael eu hysgafnhau. Nid yw, eb efe, y rhai sydd yn llywodraethu eich b— ieuainge ddim yn deall natur gwir ryddid—ond ynghanol eu rhwysg, ynfydrwydd a dallineb, os nid peth sydd waeth, yr ydwyf yn gwled *byd newydd* yn agor, ag a fydd yn noddfa i'ch celfyddydwy'r a'ch llafurwyr diwyd. Bydd i ychydig o flynyddau, 'rwy'n meddwl, i ddangos na fydd yn cyfaneddu ynys Brydain ond dau fath o anifeiliaid, GORMESWYR A CHAETHION.'

Dyweddod un, *Archenloz*, ysgrifennwr o *Germani*, yn y flwyddyn 1789, 'mai y rhyfel cyntaf ag y byddai *Lloegr* mor ynyd a rhuthro iddi, a'i dinystriai, o ran ei hawdurdod a'i pharech ymlith gwledydd eraill. Yr ydwyf megis yn gwled y llywodraeth yn awr, ebe fe, yn prysuro at y dibyn—ac nid oes dim ysbryd yn y bobl i'w hattal, fe debygid nad oes le iddi ochelyd y farn.' O *Frydain*, gwranddo beth y mae'r philosophyddion hyn yn ei ddywedyd am danat, os na wrandewi ar lais yr Arglwydd. Y mae tuchan ac och'neidiau'r *Ethiopiaid* duon wedi myned i glustiau Arglwydd y lluoedd; ac y mae'n sier y daw'r farn arnat am eu cadw cyhyd mewn caethiwed, ac etto ni fynni eu gollwng yn rhydd. Cofia Pharao. Tithau *Gymru* clawd, ymysgwyd o'r llwch, bwrw dy ddiogi heibio, golch ymaith dy bechodau, galw ar enw'r Arglwydd, ymfyn am wybodaeth, ystyria dy ffydd, bydd ddiwyd i sylwi ar arwyddion yr amserau, rhag dy gael yn gwrthryfela yn erbyn Duw; gochel geisio cadw i fynu yr hyn y mae'r Arglwydd am ei dynnu i lawr. Gwell i ti ddioddef carcharau, na chymmeryd arfau creulondeb yn dy law i ddifetha dy gyd-greaduriaid.—Cofia, yr hwn a laddo â chleddyf, a leddir â chleddyf. Rho heibio bob math o lwon; y mae ewyn rhwng yr Arglwydd â phreswylwyr y wlad o'u plegid. Darllen *Mat. v. 33—37*, a *Jago v. 12*. Y mae'n ddiaddad, os iawn ystyri di eiriau Crist, na wnai di lw byth ar un achlysur, gymmaint ag i gadarnhau'r gwirionedd. Cofia nad oedd neb o'r prif *Grist'nogion* yn cadarnhau dim trwy lw. Y mae'r dull hynny wedi darfod gyd â'r grefydd Iuddewig. Nid oedd yr *Albigenses*, *Waldenses*, a'r holl hen Fedyddwyr, byth yn cymmeryd llw, er cael eu llosgi am beidio.—Y mae ymddygiad y Crynwyr, yn y dyddiau presennol, yn fwy cysson â chrefydd Crist, mewn perthynas i lwon a rhyfeloedd nag un blaid arall—mor belled ag y maent hwy yn dilyn Crist bydded eu hymddygiad yn siampl i ninnau. O *Gymru!* cymmer addysg.—Tyred fy mhobl, dos i'th ystafelloedd. Yr ail wae a aeth heibio, wele, y mae y drydedd yn dyfod ar frys, *os nid wedi dechreu!* *Dat. xi.*"

Profa y dyfyniad hwn fod yr awdwr yn deall natur rhyddid yn dda, ac yn elyn anghymmmodlawn i bob trais. Yr oedd son am anghyfiawnder yn peri i'w waed ferwi o'i fewn o goryn y pen hyd wadn y troed. Y mae hefyd o ran ei olygiadau ar lwon a rhyfeloedd yn deilwng o gael ei restru gyda'r diwygwyr a'r dyngarwyr blaenaf yn ei oes. Er hyny, pe buasai byw yn ein dyddiau ni, i weled ysbryd rhyfelgar a gorthrymus yr Americanaid, a'r nodded a roddir i'r caethwasanaeth creulonaf a ffeiddiaf yn yr holl daleithiau deheuol, hwyrach y buasai yn teimlo ei fod wedi neidio i'r tân er mwyn gochelyd y mwg, ac y buasai yn barod i gyfarch yr Hen Wlad yn ngeiriau y bardd Seisnig;

"*England, with all thy faults, I love thee st. ll.*"

Ymddengys iddo adael Cymru yn y flwyddyn 1794; ac y mae genym yehydig o hanes ei weithrediadau hyd Awst y flwyddyn ganlynol, mewn llythyr a ysgrifenyddwyd ganddo ef ei hun, yr lwn a argreffir yma yn gyflawn fel y mae yn y rliifyn cyntaf o'r "*Geirgrawn*" am Chwefror, 1796.

“LLYTHYR ODDIWRTH MORGAN AP JOAN RHYS,

AT ROBERT ROBERTS, CAEREFROG NEWYDD.

CLYWAIS y neithiwr dy fod ar gychwyn tu a gwlad dy onedigaeth. Parodd y newydd i mi beth anesmwythder, rhag it' hwylio cyn i mi gyraedd Caerefrog Newydd.

Yr ydwyf ar fy nhaith yn cyrchu tu ag atti er's mwya na mis. Gadewais wlad yr *Indiaid* i'r gogledd orllewin o'r afon *Ohio* o gylch canol Gorphenaf. Yr oeddwn yn bwriadu fel y gwyddot, myned heibio i *Detroit*, a'r llynau gogleddol i Loegr Newydd: eithr attaliodd ymddugiad atgas rhai o'r swyddogion Lloegr hen, sy'n byw yn *Canada* im' fyned i'r ffordd hono. Y mae pobl yr Unol Daleithiau, yn bresennol yn debyg i wneud cyngrair heddychol a'r holl *Indiaid* o fewn eu cyffiniau; ond nid yw llys Brydain ddim yn hoffi y fath waith; y maent wedi gwneud dim a fedrent i attal yr *Indiaid* i ddyfod i'r cyngrair. Y mae *cwn y rhyfel* yn sychedu o hyd am waed, ac am yrru'r holl fyd ben ben; i'r diben iddynt gael brashau eu hunain yn ninystr ereill, ond 'e ddywed y ddiareb gymmraeg, 'a ddymunno ddrwg i'w gymmydog iddo ei hun y daw.' Nid hwyraeth, na ddarostyngir balehedd yr hon sydd wedi ymdeccau, ac ymchwyddo, gan alw ei hun yn *frenhines y gwledydd*. 'Pa hwyra fyddo Duw cyn taro, llwyr y dial pan y delo.'

Yr ydwyf gwedi danfon amrywiol o lythyrau at y Cymry, ond rhag ofn eu bod heb eu derbyn, mi roddaf i ti hanes fer o'm taith, er pan gadewaist fi yn *Savannah*. Yn ol ymdeithio o gylch dau fis yn *Georgia* a *S. Carolina*, mi groesais y mynydd glas a'r mynydd moel i'r dalaith newydd a elwir *Cumberland*. Oddi yno mi aethym i *Kentucky*. Y mae'r wlad ffrwythlon hon yn y rhan fwyaf o bethau yn ateb i'r portreiaid a argrephais yn gymraeg. Hynod y cynnylliad sydd iddi o bob cwr o America. Nid wrth y cantoedd, ond wrth y miloedd, y mae dieithriaid yn ffrydio iddi bob blwyddyn. Y mae hyn yn gosod allan werthfawrogrwydd y wlad, yn well nag y dichon un iaith ddadgan ei gogoniant. Mewn yehydig flynyddau, gyd a diwydrwydd, a bendithion cyffredin rhagluniaeth, yn y wlad hon, 'e aiff y *bwth* yn *balas*, ac fe gyferfydd y tlawd a'r cyfoethog wrth yr un bwrdd, i fwyta danteithion y tir.

Nid wyt ddim i ddyall wrth hyn, fy mod yn canmol pob rhan o *Kentucky*. Y mae yma, fel llefydd ereill, dir drwg, a llawer o bethau annymunol. Ni ddylai neb bwrcasu tir yn America heb ei weled, yn gyntaf, a gwybod ei *deill* yn dda. Y mae llawer o bobl fel y diafol, yn myned beunydd oddiamgylch, gan geisio pwy bynnag a allont lyngu. Y maent yn cymmeryd dieithriaid i mewn, ond, nid fel y gorchmynnodd Crist iddynt gael eu cymmeryd i mewn.

O *Kentucky* mi es i'r sefydliadau newydd, draw i'r afon *Ohio*. Mi hwyliais i fynu, ac i wared i'r afon hon, o gylch tri chan milldir. Y mae peth mawr o'r tir i'r gogledd orllewin i'r afon, mor fras, a ffrwythlon, o bosibl, ag un rhan o'r byd, ac mewn amryw ystyriaethau yn well lle, i wneud sefydliad, na'r deheu orllewin i'r afon. Un peth, mae *teill* y tir yn sier o fod yn dda, am fod yn rhaid ei gael yn union oddiwrth y *Congress*, neu o'r pellaf ar yr ail neu'r drydedd law. Peth arall,

nid oes dim fath beth a dwyn *caethweision* dros yr afon, yr hyn sy'n cael ei oddef yn rhai o'r taleithiau, er mawr waradwydd i ddynoliaeth.—Y mae'r gogledd-orllewin i'r afon hefyd yn cael ei dyfrhau yn well na *Chentucky*. Y mae'r holl afonydd sydd yn rhedeg i'r *Ohio* i'r gorllewin ogledd yn tarddu yn agos i'r llynau gogleddol, yr hyn a wnaiff y wlad mewn ystyr masnachol yn werthfawr i ryfeddu, am y gellir dwyn pob math o ddefnyddiau i mewn ac allan o'r wlad, ar hyd yr afonydd. Y mae yn y wlad hon hefyd, yn ol myned yn mhell i mewn iddi, y fath waigrldodydd, a meusydd mawrion, fel na fydd mewn ystyriaeth ddim trafferth ar y sefydlwyr i lanhau a chwarteithio'r tir, &c. Ond rhaid i mi dewi. Mi a'th glywaf yn dywedyd, 'Y mae'r Indiaid yna:' digon gwir, y maent yn byw yn mhell i fynu i'r wlad: mi fum dros dair wythnos yn eu plith. Yr oedd yn *Greenville*, lle mae byddin yr Unol Daleithiau, rhwng ehwech a saith cant o Indiaid yn gwneud heddwch gyda'r Penciwdaud, *Wayne*. Yr oedd mwy o Bennaethiaid y llwythau (*chiefs*) wedi dyfarfod ynghyd, nag ar un achlysur o'r fath, yn y wlad hyn o'r blaen. Mae'r heddwch yn debyg o gael ei sefydlu ar sail cyfiawnder, ac y mae lle i obeithio y bydd yn barhaus. Y mae rhan fwyaf o'r Indiaid wedi blino rhyfela â'r Unol Daleithiau. Mi gefais gyfeusdra i ymddiddan â rhai o honynt am bethau crefyddol. 'E debygid eu bod yn foddlon i dderbyn gwybodaeth. Mi bregethais o flaen y Penciwdaud, unwaith, ar y pwng o anfon cenhadau i'w plith. Nid oes nemmawr o gynnygion wedi cael eu gwneud eto, i anfon yr Efengyl i blith y trueiniaid hyn. Gwell gan lawer o bregethwyr yn ein dyddiau ni syrthio allan a'u gilydd, ac ymgomio ynghylch pyngciau na ddeallant byth, na chadw gorchymnion Crist: 'Ewech a dysgwch yr holl genedloedd—Pregethwch yr efengyl i bob creadur,' &c. O na bai holl weinidogion Iesu yn fwy tebyg i'r Angel a welodd Ioan 'yn ehedeg yn nghanol y nef.' Mae'r MORAFIAID wedi bod yn gryn ddiwyd, ac y mae amryw o'u disgyblion y'mhlith yr Indiaid gogleddol. Gobeithio nad yw'r dydd ddim y'mhell, pan y bydd i 'rhai sydd y'mro a chysgod angau weled goleuni mawr.

Doed yr Indiaid at yr orsedd,
 Doed y Negro tua 'i liw;
 Doed pob llwyth, ac laith, o bobloedd,
 Doe'nt yn fuan at eu Duw:
 Doed i dderbyn Iechydwrïaeth,
 Doed i ganmol am y gwa'd,
 Doed pob enw 'nawr ar unwaith,
 I seinio iechydwrïaeth räd.

Onid yma yr wyt yn barod i ofyn, a ddichon y Cymry sefydlu yn ddiogel a diofn draw i'r afon *Ohio*? O'm rhan fy hun nid wyf yn gweled llawer mwy o berygl yno, na rhan arall.—Y mae yno filoedd o bobl wedi sefydlu yn barod, a'r trefydd yn lliosogi'n rhyfedd ar yr afon *Ohio*. 'E fydd milwyr yn cael eu cadw mewn llefydd caerog sydd wedi'u hadeiladu trwy'r anialwch: a thra fyddo'r Indiaid yn heddwch, y maent yn cael eu cyfrif y cyfeillion goreu. Mewn blwyddyn neu ddwy 'e fydd y wlad mor lliosog, fel na fydd dim mwy o ofn yr Indiaid ar y trigolion sy'n byw ar yr *Ohio*, nag sydd ar drigolion *Philadelphia*.

Os bydd y Cymry yn chwennych gwladychu gyd a'u gilydd, ac yn dewis myned i'r gorllewin—yr wyf wedi golygu tyddyn o dir, ar yr afon *Ohio*, a'r afon, *Big Miami*, o gylch *Lat. 38½*. Y mae yma lle i gael *dau cau' mil o erwi*, heb un crw ddrwg, o bosibl, ynddynt—ac ni bydd y pellaf ddim ehwang na deg milldir oddiwrth un o'r ddwy afon. Y mae mewn sefyllfa rhagorol i osod tref neu ddwy, i lawr; ac y mae i lawer math o gelfyddydwr yn barod, fwy o anogaeth yn y wlad hon, nag un lle arall yn America, ac mae cyflogau da yn gyffredin i bob math o

weithwyr, a'r ymborth am lai na hanner y pris y ceir ef yn nhrefydd yr *Atlantic*. Nid oes dim golwg y bydd yr ymborth yn ddryd yn y wlad hon, yn ein hoes ni: Canys y mac'r tir mor ffrwythlon, ac y dyg pob erw gymmeint a dwy neu dair, mewn un lle arall a wn i am dano.

Yr wyf wedi clywed fod rhai o'r Cymry wedi cychwyn i'r rhan ogleddol o dal-aitli Caerefrog Newydd (*New York*). Yr wyf yn barnu yr edifarhant cyn natolig, canys yn ol yr hanes, y mac'r gauaf lawer caletach, a hwy yno, nag ar yr *Wyddfa*. Ni ddylai y Cymry, yn fy marn i, ddim myn'd i le gwaeth na'u gwlad eu hunain. 'Rwy'n meddwl fod y *climate* gorcu yn America i'w gyfarfod o *Lat.* 37 i 40. Os eir y'r mhellach i'r de, neu i'r gogledd, mac naill neu'r haf, neu'r gauaf yn rhy hir i'r *Europëaid*. Mewn perthynas i wrës yr hâf—mac'n agos mor frwd i'r gogledd a'r de, dros ychydig, yn y wlad hyn: ond nid yw yr oerni ddim felly yn y ganaf. Gan hyny, gwell debygaf, yw sefydlu mewn gwlad iachus, lle byddo'r gauaf yn fyr. Ond yn lle llythyr, 'e gymmerai lyfr bychan i osod allan ragoriaeth rhai llefydd yn y wlad hyn ar y lleill. Yr wyf yn bwriadu cyn gynted ac y caffwyf amser, rhoi hanes yr holl daleithau, eu sefyllfa, Swyl, Marsiandiaeth, &c. &c., o flaen y Cymry, fel y gallo pob un farnu dros ei hun—Fel un a gafodd drugaredd i deithio o gylch pedair mil o filldroedd, yn y byd newydd, yr wyf yn bwriadu teithio o gylch dwy fil o filldroedd yn ychwaneg trwy Loegr Newydd, &c. ac yma mi argraphaf hanes mor ddiuedd ac a fedrwyf, o'r holl wlad: daioni a drygioni ei thrigolion, &c.

Mi ddymunaf lwyddiant i ti ar dy daith i Frydain. Cofia fi 'n garedig at bob un fyddo'n gofyn am fy helynt, dywed wrthynt, fod Bugail Israel wedi'm tywys trwy lawer o anialwch: ond y mac'n debyg mac ffordd union oedd i'r ddnas, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw. Yr ydwyf wedi pregethu ar fy nhaith gyd â phob plaid, fel y byddai cyfleusdra yn rhoi. Er maint mac'r bwystfil *rhagfarn* yn rhuo, mac 'n colli tir bob dydd, mac 'n gofyn iddo fod yn ddiwyd ronyn bach, canys mac ei amser yn agos.

Y mac John Evans gwedi myn'd o'r diwedd i fynu i'r afon *Missouri*, ar ei helfa am yr Indiaid Cymraeg. Fe gafodd ei gymmyrd gan yr *Hispaniaid*, a'i osod yn y carchardy yn *St. Louis* ar y *Mississippi*. Trwy erfyniad Cymro a elwir Jones yn byw yn y lle, fe gafodd rhyddid. Yn agos i'r un pryd y daeth y barnwr *Turner* i ardal *Cabokia* a *Chascaske*, ar yr afon *Mississippi*, i gyflawni ei swydd dros y wlad i'r gogledd orllewin i'r afon *Ohio*. Ymwelodd pen llywydd *St. Louis* ag ef, ac a fynegodd fod un John Evans gyda hwynt yn meddwl myned i fynu i'r afon *Missouri*, a'i fod gwedi ei attal hyd oni chaffai wybod ei hanes a'i gennadwri. Yr oedd y barnwr *Turner* wedi clywed am John Evans, ac yn gwybod ryw beth o'i hanes.—Fe erfyniodd gyda'r penllywydd am ei adael i fyned y'mlaen ar ei daith—gan hyspysu os na fyddai iddo gyfarfod a'r bobl yr oedd yn ymfyn, y byddai ei daith er budd cyffredin i'r byd. Ar hyn, addawodd, nid yn unig i oddef i J. Evans i fyned ymlaen ar ei daith, ond rhoddi llythyrâu iddo yn y iaith *Hispaneg*, *Ffrangeg*, *Saesoneg*, i'w gyflwyno ar ei daith, ynghyd a'r cyfryw bethau ag a fyddai yn fuddiol iddo i'w rhoddi i'r Indiaid. Yn llynn, y mac'r pethau sydd yn debyg o fod yn rhwystrau yn ein gyrru 'n gynt ar ein taith. Bu'r barnwr *Turner* mor fwy'n a rhoddi pob cyfarwyddyd angenrheidiol i J. E. mewn perthynas i'w ymddygiad gyda'r Indiaid,—cadw ei ddyddylyfr, &c. fel y mac yn fwy tebygol o lwyddo yn bresennol nag erioed. Cyn ei ddychweliad, y mac i ddilyn yr afon *Missouri* hyd at ei tharddiad, i ymweled a'r mynydd *Tan*; ac os gall ddwyn prawf ei fod wedi cyffwrdd a'r Mor Heddychol (*Pacific Ocean*) 'e fydd iddo dderbyn dwy fil o *ddolars* oddiwrth Sywodlaeth yr Hispaen. Yn llynn, y mac'r Cymro, os caiff einioes i ddychwelyd o'i daith, pa un wnelo ai llwyddo ai peidio mewn perthynas i'r Indiaid Cymraig, yn debyg o gael bywoliaeth gysurus yn niwedd ei oes. 'E fydd ei ddydd goffadwriaeth, os cadw 'fe hi 'n daclus, yn werth rhai cannoedd o bun'au iddo.

Mi fum mewn cyfrinach ag un o'r Americanaid sydd wedi cychwyn yn ddiweddar i'r afon *Missouri*, ac i aros i fasnach gyda'r Indiaid rhai blynyddau. Rhoddais iddo amryw o eirian Cymraeg a Saesoneg, fel os digwydd iddo gyfarfod a neb o'r Cymry, y byddo iddo ei adnabod. Y mae wedi bod yn barod mewn cyfrinach a mwy o Indiaid nag un dyn gwyn yn y wlad. Y mae 'n ofni nad oes dim o'r fath bobl i'w cael. Hyn sydd sicr fod llawer o Indiaid gwynion yn byw y'mhell ar yr afon *Missouri*, ac yn byw yn fwy taclus na'r Indiaid yn gyffredinol. Bydd wych, a'r hwn sy'n dal y mor y'nghledr ei law a'th gadwo, ac a'th ddygo yn ddihangol, nid yn unig i dir Cymry, ond i dir y bywyd. Y mae yn ddrwg gennyf ddywedyd fod achos Duw yn bresennol yn America yn rhwyfo yn erbyn ffrwd o anghrediniaeth—gâd iddo, mae'n debyg fod yn rhaid dinoethi hyd yn oed sylfeini Babilon goelgrefyddol cyn adeiladu'r Jerusalem newydd, 'Pan ddel Mab y dyn a gaiff e' ffydd (y'mhawb) ar y ddaear?' Trwy drugaredd yr wyf yn cael lle i obeithio, na fu'm taith ddim yn ofer yn yr Arglwydd, y tro hwn.

I Dduw, ac i air ei ras i'th orch'mynaf,

Ydwyf dy ffyddlon gyfeill,

Dinas Washington, Awst 21, 1795.

M. AP JOAN RHYS."

Yn America y dybenodd ei yrfa drafferthus: ond pa bryd y bu farw nid yw hysbys. Dichon y bydd rhai yn meddwl wrth ddarllen ei hanes, ac efallai nad oedd ef ei hun heb radd o deimlad, iddo dreulio ei oes yn bur ddi-ddenydd. Dyma ddyn yn cysegru ei holl fywyd i ymladd yn erbyn gorthrymder a thrais, ac yn marw mewn gwlad bellenig, heb ddim coffa am dano ef na'i ymdrechiau, ac heb adael dim, hyd y gellir canfod, o argraff ei lafur ar y byd. Ond gwylia, ddarlennydd hynaws, rhag barnu yn rhy fyrbwyll. Nid â un amean cywir byth yn ofer. Y mae pob dafn o ddyhewyd o blaid rhyddid yn cynnorthwyo i wneyd i fynu y diluw sydd o hyd yn chwyddo ac yn llenwi, ac yn rhwym o fyned rhagddo nes glanhau y ddaear oddiwrth bob anghyfiawnder. "Y mae Duw," meddai Augustine, "yn amyneddgar, oblegid ei fod yn dragywyddol." Pe baem ninnau yn gweled yn mhellach, ni fyddem mor dueddol i ddiagonaloni.

Er fod yr ysgrif hon wedi myned eisoes yn ddigon maith, nis gallwn derfynu heb roddi rhai anghreiffitiau o'r cyfansoddiadau a geir yn y "Cylehgrawn," gan adael y rhelyw hyd y rhifyn nesaf. Nid yw at ei gilydd mor ddifyr a doniol, nac yn dangos cystal chwaeth a'r "Eurgrawn." Ond mewn un peth y mae yn rhagori, sef mewn bod ganddo fwy o *bwynt* penodol; a'r pwynt hwnw yw rhyddid crefyddol a gwladol. Cymerer yr hyn a ganlyn y tro hwn, am "Hanes Crefydd o ran ei Dirywiaeth."

"Cyhoeddwy'r cyntaf yr efengyl a rag-welsant ei dirywiaeth. 'Yr yspryd, trwyddynt, oedd yn dywedyd yn eglur, yr ymadawai rhai yn y dyddiau diweddaf

oldi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysprydion cyfeiliornus, ac athrawiaethau cythreul-iaid: '1 *Tim.* vi. 1. 'Yr ymddangosai 'r dyn pechod, mab y golledigaeth:' 2 *The.* ii. 3, &c. &c. Y mae Paul yma yn darlunio dull gwrth-gwyp yr eglwys, fal pe busai yn ei weled o flaen ei lygaid;—ac nid hir y bu anghrist heb ymddangos i eraill yn ei yspryd cyfrwys a gormesol. Pan dechreuwyd cymysgu gwag philosophi âg athrawiaethau syml yr efengyl, y dechreuwyd ymbleidio, a dadleu pob pwnc o grefydd gyd â chyfrwysder a chreulondeb; a'u hamean ymhob ymryson oedd disodli'r naill y llall. Defnyddiau newydd, fal esgryn cynnen, oedd beunydd yn cael eu codi; ac esponiadau anghyson yn cael eu mabwysiadu, a'u hamddiffyn yn wrthnysig. Pob ymrafael a ddygai allan ryw wahanol derfyniad; a phob terfyniad a genhedlai ryw wrth-ddadl newydd, ac a enynnai greulonach ymryson—a'r cwbl i gyd am oruchafiaeth:—pwy a sefydlai ffydd y crist'uoigion? Wrth geisio olrhain pethau uwchlaw cyrraedd dyn; a gosod allan gwestiynau rhy sal i sylwi arnynt; yr oedd cyffesau ffydd beunydd yn cynhyddu, a geiriau newydd o wahaniaeth yn cael eu bathu a'u cyssegru: pennau athrawiaethau ac erthyglau yn afresymol amlhau; ac i'r diben i gynnal eu *gau* byngeciau, holl anghysondeb a thwyll ymresymiad ysgol-heigaidd a arferid: a dwyfol awdurdod a briodolid fwy fwy i 'sgrifenedau dynion.

Mal yr oedd athrawiaethau'r efengyl yn cael eu dirdynnu oddi wrth eu dechreuol symlrwydd, yr aethant yn anghymmwys i gyffwrdd a'r galon nac i effeithio 'r ym-awreddiad. Yn lle bod yn annogaeth i sancteiddrwydd, yr oeddynt yn agor drws i bob math o halogrwydd a thrueni. Gorchymynion yr *efengyl* hefyd, pa rai o ran eu heglurdeb a'u symlrwydd, sydd yn dwyn awdurdod gyd â hwynt, a dywyllwyd yn y fath fodd, fel y dyrsent y dyall yn hytrach na chyffroi'r gydwylbod: yn fyr, rheolau yr efengyl yn raddol a roddwyd heibio; ac anwes, pennau, pardynau, peidio priodi, pererindod i Rufain, llechu mewn monachdai,—a chant o bethau rhyfaith i'w hadrodd, a osodwyd i fynu yn lle cyfraith Crist.

Yr addoliad crist'nogol hefyd ni ddiangodd rhag y *plu*. Anffurfiwyd yn fuan â seremoniau Iuddewig, ac yn ganlynol â rhai paganaid, ynghyd ag eraill oedd yr eglwys yn eu hordeinio bob dydd wrth ei phleser. Bedydd a Swpper yr Arglwydd a weinyddwyd gyd a'r fath rwyg a gwag-rodres, fel y tebygid eu bod yn rhyw ddirgeledigaethau arswydys: rhinweddau newydd yn cael eu gyfrif iddynt, ac anferth rwyf yn cael ei arferyd wrth eu cysegru. Llygredigaeth y diweddaf a derfynodd yn yr anghenfil traws-sylweddriad*; ac mewn perthynas i'r cyntaf prin y coelia llawer gymmaint o afresymmol rinwedd a briodolid iddo: yr oedd, meddent, yn gwneud dynion yn blant i Dduw, yn eu hail eni, a golchi ymaith eu pechodau; a phwy bynag fyddai marw hebdo (mal y dywedai 'r athrawon yn yr amseroedd tywyll hyny) byddai 'n sier o gael ei ddamnio. Oeh! gymmaint o ffoledd a ddaeth i'r byd gyd â choel grefydd! Arswydus meddwl! fod neb mor ynfyd a thybied bod rhinwedd mewn ordinhadau i fyned â dynion i'r nef, pa un bynag ai *hen ai ieuangc* fyddant!

Rhyfaith fyddai son am yr holl ddefodau a ddygwyd yn raddol i mewn; oddi wrth *ymffrostio yn nghroes Crist*, yr aethant i wneud defnydd o arwydd y groes, fel swyn-gyfaredd, agos ar bob achlysur; oddi wrth weddio dros y meirw, yr aethant i weddio ar y meirw; oddi wrth adgoffa'r merthyron, yr aethant i'w haddoli; oddi wrth barchu eu creiriau (*relics*) i gyfrif iddynt y gallu o wneud gwyर्थiau; oddi wrth oddef lluniau a delwau yn yr eglwysi, yr aethant i syrthio i lawr o'u blaen; ymprydiau, gwylliau, a gwleddoedd heb rifedi, oedd beunydd yn cael eu sefydlu, a gweddiau byr a syml a estynent i'r fath ffurffaith a chymmysgedig, nes gwenwyno'r addoliad, â'u diflas draddodiadau.

Nid llai arswydus y llygrwyd gwir yspryd crist'nogaeth. Er bod yr Apostolion

* Transubstantiation.

dan ysprydoliaeth, nid arglwyddiaethent ar ffydd neb : 2 *Cor.* i. 24. eithr yr oedd-
ynt yn eydymddwyn a dynol wendid yn y pethau nad oedd yn niweidio hanfod eu
crefydd : *Rhuf.* xv. 1, &c. a'u *hanathemau* a gadwent at ddigywilydd ddrygioni.
Ond, Ow ! gynted yr anghofiodd eu canlynwyr ymadrodd Crist, 'Y mae arglwyddi'r
enedloedd yn arglwyddiaethu arnynt hwy, ond *na fydded felly yn eich plith chwi.*'
Ond erist'nogion yr oesoedd canlynol a droisant y testyn fal hyn, '*Bydded felly yn
eich plith chwi.*' o'r hyn lleiaf dyna fal y bu ; rhaid oedd derbyn eu *credo*, eu ansicr
opiniwnau, a'u hir-bell gasgliadau oddi wrth yr ysgrythur, ynghyd â'r holl eiriau cy-
segredig a fathent i osod eu barn allan ; yn angen, hwy a ysgymment ddynt i le
gwaeth na'r *purdan* : a hyn i gyd am wahaniaeth geiriau ; pan ar yr un pryd y
goddefant bob math o anfoesoldeb, heb gymmaint a'i fygwth a'r cerydd ysgafnaf.

Gwaith blaenoriaid yr eglwys, mor gynted ag y gosododd yr Ymerawdwyr y
pwer yn eu dwylo, oedd crafangu am gyfoeth, anrhydedd, a dinasaidd-awdurdod :
offeiriadol urddau, hefyd, oedd yn amlhau yn gethin ;—Esgobion yn rhyfygu uchel
anfodd, Arch-esgobion a Phatriarchiaid yn ymddyrechafu uwch eu llaw hwynt :
yr oeddid nid yn unig yn ysgraffinio am bob esgobaeth gyg âd anweddaiidd draha,
eithr arferid y ddyfais mwyaf gwael i'w prynu : un esgobaeth fyddai 'n ymgonmio
â'r llall am oruchafiaeth, i'r diben i wenheithio balchder, ac ymawdurdodi ar gyd-
wybodau dynion. Yn yr holl eglwysi y cynhyddodd y drwg hwn, ac ni wyddid yn
hir pa le i sefydlu y gadair anffaeledig ; nes o'r diwedd, i gyfrwysdra esgob Rhufain,
trwy rith gostyngeddurwydd, gael yr uwchafiaeth arnynt oll,—mal y dygodd fren-
hinoedd y ddaear i blygu wrth ei amnaid, gan ei wneud yn vicar Crist, yn dduw
ar y ddaear, ac anymddibynol awdurdod ; yr hon a ddilys ddefnyddiodd trwy or-
mesu hyd y gallai ar bawb. Cadarnhaodd yr hen lygredigaethau, a chwanegwyd
beunydd at y ddirywiaeth, nes llanw'r byd â phob math o dwyll ac eulunaddoliaeth.

Yn Rhufain mae anghrist yn ei oed, yn ben arglwydd, a'i goron dri-phlyg ar ei
ben. Ond fal y mae arglwyddiaethu ar gydwybod yn anghrist ymbo man, yn y
tŷ addoliad distadlaf y mae 'r un fath ormesdeyrn yn anghrist, fal baban begryn
ar y fron ; canys gorsedd Duw yw 'r gydwybod, a phwy bynag sydd yn ceisio
traisfeddiannu ei orsedd ef, anghrist yw.

Yr ydym wedi sylwi 'n barod ar ddirywiaeth y grefydd grist'nogol dan dri phen
sef yr athrawiaeth, yr addoliad, ac yspryd cristianogaeth. Pwy bynag a chwen-
ycho adnabod *anghrist*, dyma nôd ANWYBODAETH YN YR ATHRAWIAETH, COEL
GREFYDD YN YR ADDOLIAD, AC YSPRYD HERLIDIGAETHUS. Dywed y pabyddion
Mammaeth duwioldeb ydyw anwybodaeth, ond y mae Duw yn dywedyd *Y bobl a
ddifethyr o eisieu gwybodaeth.* Wrth hyn y mae anwybodaeth yn famaeth dam-
nedigaeth.

Sylwed proffeswyr crist'nogaeth o'r bron ar yr enw fydd yn nhalecn y wraig
Dat. xvii. 5.—Y mae wedi osod i lawr mewn Llythyrennau mawrion fel y gallo
pawb ei ddarllen DIRGELWCH, &c. Llawer o son sydd gan ddynton yn gyffredin
am y dirgelwch hyn ar dirgelwch arall mewn crefydd.—Ond nid oedd yn nghref-
ydd Moses ddim dirgelwch. *Y pethau amlwg a roddwyd i ni ac i'n plant.* Ac nid
oes yn nghrefydd Iesu Grist, ynte yn sicr ddim dirgelwch. *Goleuni 'r byd ydoeidd*
ef,—ac y mae ei athrawiaeth yn dysgleirio fel yr haul, yn ei symylrwydd ei hunan.
Fe dybygid wrth hyn fod pawb ag sy'n dwyn ryw ddirgeledigaethau arswydys i
grefydd Iesu Grist, yn perthyn i Babylon, ac yn dwyn Nod Anghrist—Nid oes neb
yn amneu nad oes dirgelwch yn Nuw, ond iddo ef y mae'n perthyn ; a dirgeledig-
aethau na ellir moi amgyffred ymhob creadur,—ond nid ydynt un rhan o grefydd—
Fe ddichon fod llawer o bethau anhawdd ei dyall mewn crefydd, ac etto heb fod yn
ddirgelwch ; fel y byddo 'r dysgybl yn cynhyddu mewn gwybodaeth o briodoliaethau
Duw, y mae yn dyfod i amgyffred pethau Duw yn fwy cyson—ond am y dirgeled-
igaethau mai Duw wedi gadw iddo ei hun, fe wyr y baban gwanaf mewn crefydd

gymmaint am danynt, ar disgybl henaf—gan hyny, mae 'n *ddirywiaeth* mawr mewn crefydd, yn ein barn, i neb gymeryd arnynt ddarlunio 'r UNIG DDOETH DDUW mewn un dull o fod, nad yw wedi dadguddio ei hun, a chymeryd arnynt ddywedyd pa sut yr oedd Duw yn gwneuthur yn nhragywyddoldeb cyn bod bydoedd, a pha fodd y bydd yn gweithredu etto ymhben myrddiynau o flynyddoedd—Tebygid wrth glywed rhai yn pregethu fod eu holl grefydd o flaen llyfr *Genesis* ac ar ol llyfr y *Dadguddiad*—ac O! fel y mae 'r gwreng yn rhyfeddu wrth glywed y fath ddirgeledigacthau!! O'r fath ddoethineb!!! Pan o bosibl y mae 'r cwbl i gyd yn dywyllwch!!—Y mae hyn yn dwyn i'n cof ymddiddan rhwng dau o wrandawyr mewn perthynas i ddwy bregeth.—'Pa un oedd y pregethwr mwyaf yn eich barn chwiri,' ebe un, at-tebodd y llall Mr.—'Nid ydwyf fi o'r un farn a chwiri,' ebe'r cyntaf. 'Pa fodd yr wyt yn meddwl ei fod yn fwy pregethwr?' 'O ebe ynteu yr oeddwn i yn deall pob gair ag oedd eich pregethwr chwiri yn ei ddweud, ond am y llall nid oeddwn i yn dyall dim ag oedd yn ei ddyweud; mae 'n rhaid mai pregethwr mawr oedd y fo.' Mae achos i ofni fod gormod o frodyr gan hwn yn nghymru, yn byw ar y sŵn heb ddeall dim, yn wyllo a llawenhan wrth glywed y gair, ond wedi myned allan o'r sŵn nid oes dim yn aros—Onid dirywiaeth mewn crefydd yw hyn? Dymunem fod pawb ag sydd yn myned ynghyd a dysgu eraill, yn gwybod yr A. B. C. o leiaf, eu hunain. Fal y gallont yn ol y gorchymyn fyned a 'Dysgu 'r holl genhedloedd'—nid eu gwneud yn fwy dwl nag o'r blaen; ac yn saith gwaeth meibion y *fall*, nac oeddnynt cyn eu proselytuo. Ond ni a brysyrwn i osod ger bron y darlennydd y *ddirywiaeth* waethaf oll, mewn *crefydd* h. y.

Y DULL O'I CHYNNAL.

Remove the cause & the effect will cease.

Y mae cyfeiliornad yn darfod bod yn beryglus, pan y byddo caniatad dirwystr i ddywedyd yn ei erbyn, heb neb i'n rhwymo i gynnal opiniynau nad ydym yn credu eu bod yn wir.

Pob math o draws-lywodraeth mewn crefydd sydd anghristaidd. Nid rhyfedd fod y corph anrhydeddus, a elwir yn Cwaceriaid, yn cyfrif y degwm a'r offrrwm, a gymmeryd oddiwrthynt bob blwyddyn, trwy drais yn erledigaeth, canys y peth nesaf at fywyd gwr yw cymmeryd ei feddiant a hyny at borthi dynion nad yw yn gwneyd un gwasanaeth yn y byd iddo ef.

Onid dianrhydedd mawr i grist'nogion, eu bod yn rhwymo, Deistiaid ac Atheistiaid, ynghyd a'r holl gablwyr uffernol sy'n y byd, i gynnal eu crefydd i fynu?—Pa fodd yr argyhoeddant y *rhain* o wirionedd eu crefydd, tra maent yn traws-feddiannu eu heiddo? Onid yw yn eu tueddu i feddwl nad yw yr holl swm am grefydd ond twyll offeiriadaeth at gadw 'r cyffredin bobl mewn ofn, ac anwybodaeth?

Yn yr oesoedd cyntaf, a phuraf, o grist'nogaeth, mae 'n sier mae'r peth blaenaf, a phenaf o flaen gweinidogion Iesu, oedd argyhoeddi 'r byd o wirionedd, a phwys eu crefydd; ac nid ymhel ar ol bywiolaethau mawrion i gael byw yn segyr yn y byd. Beth bynag y mae 'r un Apostol a ddywedodd, 'Nid wyf yn ceisio 'r eiddo chwiri: ond chychwiri yn dywedyd hefyd—dylai rhai sy 'n pregethu 'r efengyl fyw ar yr efengyl. Teilwng i'r gweithiwr ei fwyd.—A chofied plant Adda mae trwy fod yn weithgar y bwyntant fara cyfreithlon.'

Nid oes un drefn sefydledig wedi gosod i lawr yn y Testament newydd at gynnal pregethwyr, oddieithr 1 *Cor.* xvi. 1, 2. *Hefyd am y gasgl i'r saint; megys yr orddeiniais i eglwysi Galatia, felly y gwneuch chwithau.*—*Y dydd cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhoddod heibio yn ei ymyl gan drysori, fel y llwyddodd Duw ef, fel na byddo casgl pan delwyfi.* Y mae'n anmhosibl cael gwell trefn na hon, a phe byddai

pawb crist'nogion yn sefyll atti, ni fyddai byth eisieuarian ar eglwysi Crist i fyned ág achos Duw ymlaen.—Os bydd achosion neillduol yn galw fe fedr Duw agor calonau dynion i roi oll ag a feddont, megys wrth draed yr apostolion.—Nid oes, dan oruchwyliaeth yr efengyl, un gyfraith ond CARIAD, a thros agos i'r tri chant cyntaf ar ol Crist, yr oedd y crist'nogion yn cyfranu yn eu gallu at gynal eu pregethwyr a'r tlodion, &c. Eithr offrymau ewyllysgar oedd y cwbl. Nid oeddent yn cael eu rhwymo gan neb—'Nam nemo compellitur,' medd Tertullian, 'Sed sponte confert. Hæc quasi deposita pietatis sunt.

Oddiwrth yr offrymau duwiol hyn yr oedd yr amddifad a'r weddw, yr hen a'r methodig yn cael eu cynal yn gysurus, canys yr oedd Duw yn bendithio eu llafur.—'Ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a phob peth arall, yn ychwaneg, a roddir i chwi.'"

Yn nesaf, rhoddwn ddau lythyr oddiwrth y Dr. Pughe, yr hwn oedd mor foreu a hyny wedi dechreu ar y gorchwyl o ddiwygio Llythraeth y Gymraeg. Gwelir ei fod yn ysgrifenu *z* yn lle *dd*, *f* yn lle *ff*, a *v* yn *f*; yr un modd ag yn yr argraffiad cyntaf o'i "Eirlyfr." Hefyd yn lle *ch* y mae ganddo *ç*. Dymunol fyddai pe medrid dwyn y gwelliant hwn i arferiad cyffredin; ond fel y dywed y ddiareb, "Yr aderyn a facer yn uffern, yn uffern y myn drigaw."

"AT ORUCHWYLWYR Y CYLCHGRAWN CYNMRAEG.

Hof iawn oez genyv glywed yr hanes o'ch bod yn bwriadu rhozi allan y cyhoeziad o'r pa un y mae y dalenau cynnrychawl yn zechreud. Yr wy'n dymuned i chwi lwyziannu; ac yr un pryd chwennychwn hevyd y gwna eich amcan vod yn oferyn ynmhlith pethau llesawl eraill, i zwyn i ben y diwygiad y syz eisiau yn yr EGWYZAWR Gynmreig. Nid oes mo'r achaws am zarbwylliadau i zangaws fod amryw veiau ynzi, drwy arver gyffredin; etto gwiw ydyw dwyn ar gov lawer o honyt a ellid eu dileu yn hawz iawn: ac yn ziammhau gellir dysgwyl y gwna pob ewyllysiwr da i Gymru fod yn gynnorthwy i'r perwyl; ac yn enwedig pan eu gwneir yn hysbys mai nid drwy wag vrezwydion o adluniau yr iaith yr ydys yn bwriadu hyn, ond er mwyn ei dwyn yn ol i'w chysevin harzweh, mal ei harverid yn yr hên amserau, sef oesoz dysg a chelvyzyd y Cymry.

Yr oez gynt yn yr Egwyzawr lythyren yn perthyn i bob sain yn yr iaith; sef un-ar-bymtheg-ar-hugain; ond y pryd hyn yr ydys yn gorvod rhozi dwy, neu dair llythyren i wasanaethu un sain, er mawr wrthuni, ac amherthynas. Y sciniau hyny syz yn vyr o lythyrenau cymhwys i'w hansawdd yw y rhai canlynawl—*ch*, *dd*, *ff*, *ng*, *ngh*, *ll*, *ph*, *th*, *rh*, *nh*, *mh*. Yn lle *dd*, cymhwys yzai rhozi *z*, fal ac y mae mewn dwy gainge o'r Gymraeg er ys amryw oesoz; sev yn y Lydawaeg a'r Gernyweg. Yn lle *ff*, iawn yzai arver *f*, val cynt: ac adveryd *v*, i'w braint ei hun, hevyd cynt, yn lle yr *f*. Yn lle yr *ng*, gellid arveryd yr *ç*, yr hon syz lythyren newyz. Yn lle *ph*, dylid, yn ol angen yr Egwyzawr, arfer *f*, am yr un achaws ag yr arverir *v*, yn gyvnewid ansawz o'r llythyren *b*; gan mai yr un berthynas syz rhwng *p* ac *f*, ag y syz rhwng *b* ac *v* yn uniawn. Am y llythyrenau eraill, sef *ll*, *th*, *rh*, *mh*, *nh*, hwyrach mai gwel fyf eu cadw, hyd oni zelo y llythyrenau newyzion y soniais am danynt yn gyvarwyzach gan y wlad, rhag llwythaw deall y cyffredin â gormod ar unwaith; ac yna byz hawzach eu bwrw ymaith ryw dro arall.

Yn yr hen Egwyzawr yr oez y llythyrenau yn canlyn eu gilyz mewn trevn, yn ol yr ansawz perthynawl y syz rhwng y naill a'r llall, val hyn—

Y Llavariaid :

a, â, e, ê, i, o, ô, u, ŷ, w, ŵ, y

Y Cyseiniaid :

b, v, m, p, f, mh,—d, z, n, t, th, nh—c, ch, ngh, g, ng—h. chw,—ll, l—rh, r—s.

Gwasanaethed hynā am y Llythyrenau : yn nesaf sonir am eu cywir arver mewn geiriau. Pawb a vyz gyvarwyz yn yr iaith Gynmraeg a ŵyr, mai ei hiawn angen yw bod pob llythyren mewn gair yn cadw ei chyviawu sain ei hun yn groiwy ; neu yn ymnewidiau â llythyren arall o berthynas ansawz. Deallir wrth hyn y mai avreidiawl, ac anghymhwys yw dwyn i'r gair y cyfryw llythyren nad yw yn dyfod yn rhywiawg o wreizyn y fath air. Evelly, anghywir yw ysgrivenu val hyn—Pennau, Pennaeth, Bronnyz, Tynnu, Rhannu, Torriad, Cammu, &c. gan vod pwys yr acan, drwy gysevin angen ar y sill olaf ond un, mae lleveryz y geiriau yn cael ei gynnal yn gywir gystled, heblaw vod ansawz gwreiziawl y gair yn ymzangaws yn eglur, pe'i ysgrivenid y cynnyrch uchawd val hyn—Penau, Penaeth, Bronyz, Tynu, Rhanu, Toriad, Camu, &c. Yr un amser dalier sylw, mai nid iawn vyddai ysgrivenu y vath eiriau a'r rhai canlynawl, ond yn y moz y maent yma ; sef Annoeth, Tannau, Cynnwys, Cynnal, &c. gan eu bod yn treiglaw o eiriau yn gyvan-sozawl â llythyrenau cytras yn ymgvnewidiau y naill i ansawz angen eu gilyz ; sef y geiriau cysevin hyn—an-doeth, tant, cyd-dwys, cyd-dal. Gwell fyzai pe'i ysgrifenid y geiriau syz yn canlyn val hyn—cymod, cymysg, cymhwys, &c. yn lle cymmod, cymmysg, cymmws : canys cystal yw eu treigliaw oziwrth cy-bod, cymysg, cy-pwys, â pe'u treuglid oziwrth cyv-bod, cyv-mysg, a cyv-pwys, o herwyz harzach vyzant evelly ; a gwelai pawb mai tra gwrthun vyzai geiriau o'r vath hyn—Cymmhwysiaid, cymmhlethu, cymmharu, &c. ; ac velly dylid eu hysgrivenu wrth eu treiglaw yn y moz diwezaf. Y peth olav y sylwv am dano y tro yma yw ynghylech Silau cada-nlezyv, a thawzlezyf ; sef rhai val hyn—brwydr, dwvr, cevn, llyvn, awdl, anadl, llezv, dezv, a'r vath ; harzach a chywirach vyzai eu hysgrivenu val cynt ; ac val yr ydys yn awr yn eu llavaru hefyd yn gyfredin ; sef val hyn—brwydr, dwvr, cevn, llyvyn, awdyl, anadyl, llezv, dezyv ; ond rhaid colli yr y, wrth eu treiglaw, val hyn—brwydraw, dyvr, cevn, ac velly ymlaen.

Ve wel y cyvarwyz, wrth vwrw golwg dros yr Egwyzawr Gynmraeg, nad oes ond eisiau ei dwyn yn ol i'w chysevin gyvreinrwyz, i'w gwneud yn arzerchocach, ac i vlaenori ar bob un arall drwy yr holl ieithoez a wyzis am danynt ; ie, gellir honi, nad oes un a eill ymgystadlu â hi drwy 'r byd. Barsed, gan hyny, y sawl y syz yn hofi athrawiaeth eu gwlad, ai nid gwiw vyzai izynt gynnorthwyaw y diwygiad hwn, val y bo izo zerbyniad cyfredin, mewn amser, drwy holl Gynmru. Pa bai yr amcan wedi ei gyvlawni, heblaw pob lles arall, byzai llyvrau Cynmraeg yn gynnwysach o un ran o zeg, a chan hyny yn rhatach o'r un vaint. Rhag gormesu ar amynez y darllenyz, digoned hyn a zywedais i'w gynhyrvu i ystyried yr amcanion.

G. OWAIN O VEIRION.

“ AT ORUCHWYLWYR Y CYLCHGRAWN.

YN y traethawd diwezav cynnygiais rai crybwylliaid ynghylech dwyn yr EGWYZAWR GYNMREIG i well trevyn nag y syz arni yr awr hon, ac annogaeth i'm cyd-wladwyr ei hadveryd i'w hazurniant cysevin ; cymhwys y canlyn rhywvaint o ystyriaeth ar

Y BEIAU MWYAV AMLWG MEWN PERTHYNAS I'W DEFNYZ, SEV CYWIRDEB IAITH MEWN CYVANSOZIAD.

Gan nad yw vy amcan ond malpai er tori y brasav, ni zaliaf sylw y tro yma ond ar zau o'r beiau mwyaf anharz a chyfredin; y rhai hyn yw; yn gyntaf, *twyll ymadroziad*, neu gam osodiad rhanau ymadrawz yn ol eu pwys wrth sylwez y Gynmraeg; a'r ail yw arfer *geiriau dieithyr*, neu anghyfiaith heb raid.

Gwreizyn y bai cyntav yw adrawz, neu arver Cynmraeg mewn anwybodaeth o'i hansawz herwyz braint ac angen, yn ol dysg a gwybodaeth o icithoec eraill, ansawz pa rai, yn lle cydreddeg, a eill fod drwy ddamwain gan fynyched yn ei gwrthwyn-ebu; ac un achaws o amllder y bai hwn yw, yn ol y dull Seisoneg, gosawd yr enw gwan o vlaen yr enw cadarn, pan yw grym a sail y Gynmraeg yn govyn yn gyfredin i'r enw cadarn ragvlaenu yr enw gwan: neu mal y gellir dywedyd yn well, y sylwez ragflaenu ei ansawz; ond yn amyl iawn y mae yr areithyz a'r ysgrivenyz yn eu harver yn y gwrthwyneb. Mae pethau eraill a ellid son am danynt tan y zosbarth hon; ond gan nad wyv ond megis rhoi y darlennyz tan rybyz o fod beiau, craved a chwilied yntau am danynt, er mwyn eu dilëu; gan hyny av ynmlaen i zangaws rhwysg ac anharzwech y bai arall.

O arver geiriau dieithyr ac anghyviaith, mae dau zrwg neilltuawl a zylid eu gochelyd. Yn gyntav, yr ydys heb achaws yn gwrthunaw, ac yn anharzu yr iaith syz gyvlawn o zefnyz a gallu, herwyz pwyll eu geiriau, a'i hymadrozion i arwez y synwyr, a'r ystyr, yn gydred â'r amcan, er dyvalu pob peth a zichon mezwl dyn ei sylwezu; evelly, trwy ballu o ymegniad dyledus gan yr areithyz, neu yr ysgrivenyz, y maent yn vynyched yn syrthiaw i waelder mwy cywilyzys na basder sathredig a gwladaiz yr annysgedigion, neu siarad y cyfrediniaid. Ond y canlyniad, a'r drwg mwyav y syz yn tarzu o'r bai hwn, o arver geiriau anghyviaith, yr un a zylid ei ovni hevyd, yw ei vod yn gwanâu, ac yn tywyllu grym geiriau cyfredin am yr un ystyr mezwl; a thrwy hyny yr ydys mewn amser yn dilëu pwys y peth a zarllenir, neu a glywir, pa'r un bynag, ai yr ysgrythyr, ai llyvrau, ac ymadrozion o lai devnyz. Nid oes mor eisiau amlygu hyny, canys nid rhaid ond ei synied yn unig, i grafu vod y bai yn rawr ei rwysg; a bod athrawon y wlad megis heb ei ystyriaw, ac yn arver geiriau salw yn lle rhai da a chyfredin, a glywir yn ngenau y werin.* Gall rhai atteb—'O! ond dyma eiriau sathredig y rhan o'r wlad lle dylywn ni ein galwad.' Wel y mae hyny yn zigon tebyg; ac o herwyz hyny mwyav yw y drwg; canys covied y cyvryw eu bod, wrth gydunaw ag arver neilltuawl o zieithraw geiriau cyfredin, yn tywyllaw grym yr ysgrythyr, yn neall trigolion y wlad lle byzant yn gwasanaethu, drwy beri izynt anghofio neu o beri leiaf iddynt fod yn avrugyl ar y rhai cyfredin, wrth glywed ond y rhai neilltuawl yn cael eu harver.

Yr wyv vi yn gweled vod yn hyn ystyriaeth syz yn govyn synied dwysav y rhai syz dan y goval, ac er mwyn hyny y cyvlwynais y sylwadau rhagvlaenawl ar gylech.

G. OWAIN O VEIRION."

Y mae y llythyrau hyn yn rhoddi cyfle i ni draethu ein meddyliau yn fyr ar bwne sydd wedi achosi llawer o ymryson yn mhlith dysgedigion Cymru, sef orgraff yr iaith Gymraeg. Y mae yn hysbys i'r

* Gellir, yn lle geiriau a ddylid eu colezu, eu cyfrediniau, glywed rhai o'r vath hyn i'w tywyllu—*promiso, declario, describo, commandio, concverio, appuyntio, pwrcau, lastio*; ac hevyd, *cwestiwn, prins, profid, congwest, pris, anecdotau, biographi, 'stad, temtasiwn*; ac etto gwaeth na dim, *Mathematics, Africans, Swedes*, a digonez o'r vath. Pa am y rhaid i'r rhai parchedig syz yn eanlyn gael eu dieithraw gan y vath; sef—*ozaw, manegi, dadgan, erchi, darostwng, penodi, prynu, archwaethu*; a *gofyniad, tyrwysawg, buz, buzugoliaeth, gwerth, chwedlau, buchez*, (neu os mynir, *BYWGRAPHIAD*) *teyrnas, profedigaeth*.

darllenwyr hyny sydd yn craffu ar y cyfryw bethau ein bod yn gyffreidn yn ameanu dilyn y Dr. Pughe. Nid ydym eto wedi gweled lliw na llun o reswm dros yr hen gyfundraeth, yr hon nid yw yn gyfundraeth o gwbl, oblegid nid oes ganddi drefn na rheol sefydlog o fath yn y byd. Nid oes neb bron o'i hamddiffynwyr mor ffol ag ysgrifenu *penn, rhann, camm, &c.*, ac felly nis gallant haeru fod dwy gydsain yn ofynol i waliaethu y sain fer oddiwrth y sain hir; ac eto, mynant i ni ysgrifenu *pennau, rhannu, cammu, &c.* Os oes yma reswm, y mae yn llechu yn rhywle mor guddiedig fel na ddichon neb ei ganfod. Ond nid yw y Dr. Pughe yn amlhau y cydseiniaid heb achos amlwg a digonol. Er hyny, gellid meddwl fod modd gwella ychydig ar ei ddull yntau, er ei wneyd yn fwy syml, a mwy cydnaws ág arferiad cyffredin, heb droseddu yr un o reolau sylfaenol y gyfundraeth. Er anghraifft, byddai o efallai yn well nag *aw* yn niwedd y parwyddiaid, oddieithr y rhai hyny sydd yn cadw yr *aw* yn eu holl dreigliadau; megys, *cofio, pwysu, treiglo*, gan eu bod yn yr amser dyfodol yn gwneyd *cofiad, pwysaf, treiglad*: ond ysgrifen er *gurandaw, taraw, gadaw*, gan fod y rhai hyn yn gwneyd *gurandawaf, tarawaf, galawaf*.

Ond i ddychwelyd at y "Cylchgrawn." Y mwyaf ffyddlawn o'i holl ohebwy'r oedd Dafydd Ddu o Eryri. Y mae yma liaws mawr o gyfansoddiadau y gwr enwog hwnw; ond nis gallwn gael lle yn y rhifyn hwn i ychwaneg na'r ddau sydd yn canlyn:

"TRAETHAWD AR DDIM.

YN gyntaf, os ystyriwn hynafiaeth DIM, y mae'n hynach na'r byd ei hun; pa beth oedd yn bod cyn llunio'r greadigaeth? DIM.

DIM, sydd yn anfesurrol, anfeidrol, anysymudol ac anghyfraul; cymmerwch y peth a fynoch ymaith oddiwrth DDIM, efe a fydd yn wastad yr un, gan nad oedd dechreuad iddo, ni fydd diwedd iddo chwaith. Efe yw tad pob peth, pob peth yn *Natur* a darddod o hono ef. Y corff disglair hwnw, yr Haul, y Ser llewychedig, y coedydd, y maesydd, afonydd, y moroedd, mynyddoedd a dyffrynoedd a grewyd ar y cyntaf o DDIM. Pan ystyriom y rhan hono o ddynol-ryw, sy'n ymfrostio yn wastadol yn hynafiaeth eu hiliogaeth anrhydeddus, y rhai o wir orwagedd a balchder anwybodus ydynt yn ymchwyddo i wneuthur eu nythod yn uchel, gan edrych i lawr ar y rhelyw o'u cyd-greaduriaid gyd a'r fath ddiystyrwch, mal pe buasant hwy eu hunain wedi cael eu gwneuthur o burach *defnyddiau* na'r cyffredin o ddynol-ryw—ie, meddaf, pe baem yn olrhain achau rhai tylwythau, tywysogion ac ardderchogion eraill, dros ychydig genhedlaethau, caem weled eu bod oll yn deilliaw ar y cyntaf o DDIM.

Pa beth sydd yn rhyddhau meddwl dyn, oddiwrth ofalon a blinderau y bywyd hwn, ond bod yn meddu DIM.—Y philosophydd hwnw *Bias*, a dafodd ei aur a'i arian i'r mor, er mwyn bod yn rhydd oddiwrth y rhwystr oeddynt yn wneuthur iddo, ymfawrygodd yn fwy yn yr ymadrodd hwn, nac unrhyw beth arall, h. y.

'*Omnia mecum porto.*'

'Rwy 'n dwyn fy holl eiddo gyd â mi.

Efe a gyhoeddai 'n fynych, na wybu efe beth oedd gwir ddedwyddydd, hyd nes y daeth i fwynhau DIM. Gellir cadarnhau fod yr hwn sydd yn meddu DIM, yn rhydd oddi wrth aflonyddwch a miloedd o ofnau y rhai sydd yn blino eraill, nid yw yn ofni rhyfel, ac ni chythruddir ef trwy osodiad trethau newyddion, ni flinir ef gyd âg ymweliadau oddi wrth y cyfreithiwr *fiats*; y dadleuwr dau-wynebog, a'r physygrwr gwenieithus, nid ydynt yn dychymygu un ddichell i'w ddifeddiannu o'i eiddo, nac i'w ddifuddio o'i iechyd; nid oes un etifedd gwastraffus yn chwenych ei farwolaeth, ni arferir na gwenwyn na dirgel-fracwriaeth, tuag at brysuro ei ddiweddiad, gadewir iddo fyw nes y gwelo *Natur* yn dda alw am dano; y mae efe yn ymdangos yn esmwyth, pan fyddo 'r byd o'i amgylch yn cael ei yspeilio.

Os cyfrifir y rhai sy 'n boddloni ar DDIM, y rhai dedwyddaf o ddydol-ryw, gellir ystyried y dynion hyny, y rhai mwyaf cywrair, y rhai a gawsant afael yn y ffordd i fyw ar DDIM; os bydd gan wr lawer o blant, wrth ystyried ei lafur tu ag at ynnill bywioliaeth iddynt, e fydd yn rhyfeddu yn fawr wrth feddwl am yr hwn a fo'n byw ar DDIM. Yn nesaf gadewch i ni ystyried y mawr-lles o DIM, yn dyrchafu clod dynion; edrychir ar y dynion na ofnant DDIM, fel y rhai mwyaf calonog; y rhai na chystuddir o achos DIM, a gyfrifir yn ddoethaf; a'r rhai ni welsant fai ar DDIM, a gyfrifir y rhai mwyaf hynaws.

Hyd yn hyn y soniasom fod DIM yn beth o bwys mawr yn ngalwedigaethau dynion neilltuol, ond, os cymmerwn olwg gyffredinol ar drefniadau gwledydd a theyrnasoedd, cawn weled ei fod yn beth mwy o bwys nag yngalwedigaethau dynion neilltuol.

Os edrychwn i fywyd *Alecsander* fawr, cawn weled fod y rhan fwyaf o'r rhyfel-oedd gwaedlyd hyny, drwy ba rai yr ynmillodd y fath fawr-air wedi eu gwneuthur i DDIM.

Os ystyriwn yr ymerodraeth *Rufeinaidd*, yn enwedig yn ei gwanychiad, cawn weled ddarfod llunio amryw ddichellion, bradwriaethau creulawn, a chyfreithiau celyd, i ddwyn ymaith fywydau y rhai mwyaf rhinweddol o'r *Rhufeinaid*, a hyny am DDIM.

Os darllenwch hanes yr ynys *Gotha*,* cewch weled ar amser nodedig, i reolau,† a llywodraeth gael eu drysu a'u taflu i'r anbrefnusrwydd mwyaf, a hyny o achos DIM.

Cewch weled hanes am yr amryw ammodau o hoddwch a luniaethwyd rhyngddynt â theyrnasoedd cymmydogaethol, ac i'r holl ammodau gael eu torri a'u dwyn i DDIM.

Yn y dywededig hanes, cewch weled i'r naill deyrnas roddi ei hun i'r llall, sef, ei gelynon, a hyny am DDIM; yr un pryd hi a gwerylodd gyd â rhai o'i chyfeillion goreu, ac a syrthiodd allan â hwynt, am DDIM.

Pa faint o drafferth, a thraul a gymmerwyd i barottoi llyngesau a gwyr ac arfau, &c. yn y gwrthryfel diweddar yn yr *Amerig*; a pha faint well ydyw *Lloegr* yn awr, yn ol treulio cymmaint o arian, a cholli cymmaint o waed? DIM.

Gellir dilyn y testyn hyd at achosion crefyddol. Pa sawl gweinidog fyddlawn sy'n llafurio'n ddiwyd yn y gair a'r athrawiaeth, ac yn treulio ei nerth yn ofer, ac am DDIM? Pa gynnifer o wrandawyr sy'n cyrchu i loedd o addoliad; a pha faint well ydynt wedi'r cwbl? DIM.

Yr wyf yn awr yn barod i ddibenu, ysgatfydd na fydd rhai yn fy marnu yn ffol, am 'sgrifenu fel hyn am DDIM. Eraill am barnant yn wybodus, am i mi drin y pwngc mor ddeheu, ond yr wyf yn cadw mewn cof yr ymadrodd hwnw o eiddo *Socrates*, y *Philosophydd*;

* Prydain.

† Sef, o 1640, i 1660.

'*Hoc unum scio, quod nihil scio.*' Sef
Hyn yn unig a wn, nad wyf yn gwybod DIM.

Gallasem yn helaethu llawer ar y testyn, ond ni a orphwyswn yn bresennol, gan ddiweddu yn geiriau 'r Ddihareb ;

Ne quid nimis.
 Nid da gormod o DDIM. D. DDU."

Dichon y tosturia rhai wrth ein hanwybodaeth os dywedwn nad ydym ar un cyfrif yn ystyried y traethawd hwn yn deilwng o Dafydd Ddu. Y mae ynddo ormod o'r ffug-gywreinrwydd sydd mor dderbyn- iol ond ar yr un pryd mor beryglus, i ddynion o chwaeth lygredig ; a rhoddasom le iddo yma er mwyn rhybuddio pobl ieuaine i beidio a'i efelychu. Ond awn rhagom at yr ail lythyr, yr hwn a ysgrifenydwyd gan y bardd pan yn trigianu yn Llanfair Bettws Geraint yn Mon.

" LLYTHYR AT Y CYMRY.

Garedigion,

Wela, fy anwyl Gydwladwyr, dyma Gylchgrawn cymraeg neu Drysorfa Gwybodaeth ar gychwyniad ; yr wyf yn hyderu y bydd yn foddion i daenu gwybodaeth fuddiol, drwy holl Gymru ; os nad ydyw 'r gwaith yn llwyr ddifai, y mae 'r amcan yn ganmoladwy, ac yn haeddu achles, cynnorthwy a derbyniad gan bob gwir Gy- mro. Pa fwy anfoesgarwch ar ddŷn na gwadu ei fam naturiol, yr hon a'i hymddôg, a honi perthynas ag Estrones ? Pa faint gwell yw cyflwr yr hwn sy'n gwadu neu'n diystyru iaith ei fam, bernwch chwi.—O gan hyny, chwychwi Ddysgedigion a Gwybodyddion, deffrowch yn unfryd, a rhoddwch ryw gyfran o'ch dysgeidiaeth allan i'r Byd, fal y byddo eraill yn well erddi ; felly y gwnewch gymmwynas i'ch cyd-wladwyr, ac yr atebwch ddiben eich anfoniad i'r Byd.—Ow, Ow ! a gaiff pob cenedl ragori ar y Cymry, mewn dysg a gwybodaeth ? Na atto Duw. Pe buasai'r dysgedigion gynt mor ddifraw a chysglyd, a rhai fydd yn myned dan yr enw dysg- awdwyr yn yr oes hon, nuni a fuasem heddyw yn ymbalfalu mewn dugn anwybodaeth a thywyllwch dudew ; ond y mae gennym gyfleusdra teg yn awr, a gochelwn er dim ei gam-arferu.—Chwychwi Gymry uniaith, trigolion Gwlad *Gamber* na es- geuluswch yr adeg brydlon hon, ac na wrthodwch wybodaeth a diddanwch syl- weddol, na adewch i falchder na chybydd-dod eich llyddias rhag derbyn y cynnygiad amserol hwn ; drwy 'r cyfryw foddion a hyn, y gall y Bugail mynyddig ddyfod mor ddoeth a'r Dinasydd tewglyd ; y moddion hyn a ddichon eich arwain at ddi- ddanwch a bery, pan fyddo cybyddion a thyrchod, a'u haur a'u harian yn cyd- losgi ; ond ysgatfydd y dywed rhai o honoch, nad ydych yn deall Cymraeg yn dda, ond eich bod yn cael bob gwybodaeth ddymunol mewn llyfrau seisnig : caniattewch i'm ddywedyd, os nad ydych yn deall Cymraeg mwyaf yn y Byd y cywilydd, ac os nad oes ond chwychwi yn unig yn deall saisneg, &c. pa beth a ddaw o'r Cymry uniaith ? O na fyddwch mor angharedig ac anghymmwynasgar a gadael iddynt fyw a marw mewn anwybodaeth, mae 'n resyn eich bod yn diystyru eich iaith gynhenid, iaith a roddes i chwi faeth a sugn, iaith y Wlad, ymha un yr agorasoch gyntaf eich amrantau i weled goleu dydd. Pa leshâd yw i chwi fod yn gydnabyddus mewn gwledydd pellenig ac yn ddieithr gartref ? O chwychwi, feibion anffyddlon

Cambria, gwridwch a chywilyddiwch am y gwall,—wrth fyfyrion ar brydferthwch yr Iaith Gymraeg, y torodd un Bardd allan ac y cant fal hyn :

‘Iaith ber, Iaith Gomer, Iaith gymen,—Iaith lwys
Iaith lesol iw pherchen ;
Iaith, a’i gwaith o wyth gwythen,
Iaith a saif, er eitha sen,

Ysgatfydd y rhyfya rhywun ddywedyd nad oes dim a dal edrych arno yn yr Iaith Gymraeg ; ond pwy bynag a chwilio yn ddyfal a genfydd ynddi drysorion o ryfeddod i’r Byd.—Drwg genyf glywed fod rhai o honoch yn achwyn fod y Cylchgarwn yn rhy lawn o Dduwioldeb, eraill yn chwenych ychwaneg o Ganiadau, Hynafiaeth, newyddion, &c. Gymry anwyl, rhoddwch heibio yr holl wrthddadl-euon diles hyn, ac ystyriwch, mai adeiladaeth gyffredinol, sydd fwyaf defnyddfawr i’r Byd, y peth a fo yn ddiflas gan un a all fod yn gymeradwy gan y llall : nid un saig a foddia bob archwaeth.—Bellach myfi a gymeraf fy nghanad, gan obeithio y gwelir, y rhan fwyaf o’im Cydwladwyr, yn ‘cyd-fawrhau doniau dysg ; Diddan gofleidio addysg.’

Wyf, (Ewyllysiwr da im Gwlad am Iaith,)

Llanfair Bettws Geraint, ym Mon,
Gorphenaf 15, 1793.

T. THOMAS.”

Dyma ddigon o hanes y “Cylchgrawn” am un tri mis ; ond er mwyn amrywiaeth, cymerer y dyfyniadau canlynol eto fel ddiwedd glo.

“CARREG Y PHILOSOPHYDD.

Y CHWEDL a aeth allan am *Cosmo de Medicis*, ardderchog Dduc *Tuscany* (oblegid ei aruthr olud) ei fod wedi cael allan garreg y Philosophydd, neu’r gelfyddyd o droi mettel lygredig yn Aur. Gwedi clywed hyn, Pendefig urddasol o *Venice*, a ddaeth atto ryw ddiwrnod, gan osod yr holiad yn deg o’i flaen, ac a ofynnodd i’r Duc, a oedd ef wedi cael Carreg y Philosophydd ai nid oedd? ‘Fy nghyfaill,’ ebe’r Duc, ‘myfi a’i cefais ; ac o blegid bod gennyf barch i ti, myfi a roddaf it ysrifen cyfarwyddyd am dani mewn ychydig eiriau.

Yn gyntaf, *Nid wyf byth yn ceisio gan arall wneuthur un peth a allwyf ei wneuthur fy hun.*

Yn ail, *Nid wyf byth yn oedi hyd y foru yr hyn a ellir ei wneuthur heddyw.*

Yn drydydd, *Nid wyf chwaith byth yn tybied unrhyw beth mor ddi-ystyr ag na haecddai gymmeryd sylw arno.’*

Yna y Pendefig a ddiolchodd i’w radlawn fawrhydi am ei gyfrinach ; ac wrth ddilyn ei reolau, a ddaeth yn berchen golud mawr.

“TRI PHETH A GADAWODD DUW IDDO EI HUN.

PAN oedd y *Jesuits* yn annog STEPHEN Brenin *Poland*, i erlid y *Protestaniaid*. Atebodd, ‘Na feiddiai ; fod tri pheth a gadwodd Duw iddo ei hun ; GALLU CREAD-IGOL,—GWYBODAETH O’R PETHAU I DBYFOD, AC AWDURBOD AR GYDWYBOD.’ Am hynny ni all’sai lai na rhoddi gogyfuwch ryddid i’w holl ddeiliaid.”

RIIAN IV.

Yn un o'r papyrau bywiog hyny o waith *Professor Wilson*, a ymddangosodd flynyddau yn ol yn Ngreal Blackwood, yn y rhai yr arolygid ac y cymherid y gwahanol gyfieithiadau o "*Iliad*" Homer, ar ol beirniadu yn gampus mewn un man ar y dull y cyfieithesid rhyw linellau penodol gan Pope, Cowper, ac eraill, gofyna yr awdwr yn ddisymwth, "Ond pa le yr holl amser hyn y mae yr hen Chapman?"—sef yr hen gyfieithiad o waith Chapman mewn cyflyfr unplyg. Ar ol chwilio yn aflwyddiannus am dano yn mysg y llyfrau ar y bwrdd, ac ar y cadeiriau o'i amgylch, y mae yn cael allan, er mawr ddifyrwech i'w ddarllenwyr, ei fod er's rhai oriau yn cistedd ar y cyflyfr du, teneu, oedd yn cynnwys llafur barddonawl yr hen Chapman. Nid pell fuom ninnau oddiwrth syrthio i amryfusedd cyffelyb. Crybwyllasom yn y "Traethodydd" diweddfaf ein bod heb weled y pummed rhifyn o'r "Cylchgrawn." Ond yr ydym yn deall erbyn hyn ei fod ar y pryd mor agos atom, fel y gallasem ei gael y diwrnod a fynem heb gost na thrafferth. Derbynasom lythyr hefyd oddiwrth gyfaill yn Bethesda yn cynnyg ei fenthyg. Y mae dynion glewion ryfeddol yn byw rhwng y creigiau acw yn sir Gaernarfon. Yr ydym yn ddiolchgar iddo am ei garedigrwydd: ond yr oedd y rhifyn yn ein meddiant cyn i ni dderbyn ei lythyr.

Ac yn awr, y mae genym gadarnhad ychwanegol i'r hyn a ddywedasom o'r blaen, sef mai pump rhifyn o'r "Cylchgrawn" a ddaeth allan; oblegid yn nechreu y pummed rhifyn, yr hwn a argraffwyd yn Nghaerfyrddin gan Ross a Daniel, dywedir fel y canlyn:—

"Y CYHOEDDWYR AT EU GOHEBWYR, A'R CYMRY YN GYFFREDIN.

GYDWLADWYR HYNAWS.—Gwnaethom ein goreu ar eich gwasanaethu 'n ddiudedd dros y flwyddyn a aeth heibio; ond o ddifffyg cael yr annogaeth ofynol yn y rhifyn diweddfaf, sef digon o ragdalwyr i'n cynnorthwyo i fyned trwy draul yr argraffwasg, rhaid rhoi i fynu, er maint ein hawydd i wasanaethu, ac amcanyd goleuo ein cydgreaduraid. Dywedwyd am weddw gynt, 'Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth.' Felly ninnau, ymdrechasom i ddsbarthu'r Cylchgrawn mor gyflawn ag y medrem trwy Gymru; eto i gyd, fe fethwyd ei anfon i lawer parth o eisieu cyflensdra. Os gellir trefnyd rhyw ffordd i gyflwyno'r fath lyfr gyda brys trwy'r Gogledd a'r Dê, o bosibl y bydd i rywrai sy'n caru eu gwlad, i fyned ynghyd â'r gorchwyl o argraffu Cofriadur CYMRAEG, pris *Tair Ceiniog*, i'w ddsparthu bob pythefnos yn y Deheudir, a phob mis trwy'r Gogledd, pris *Chwe' Cheiniog*. Os ceir annogaeth i argraffu'r fath lyfr a hwn, dealled y Cymro mai Hanesion, Newyddion, a Dadleuon y Senedd fydd ei gynnwysiad, ynghyda rhyw ychydig o Farddoniaeth ag a fyddo'n gynnwysiadol at yr amserau. Bydded i'r Cymry ystyried yr amnaid

hon, a deffroi i gynnorthwyo'r fath orchwyl; a chofied pawb, os aiff y gwaith ymlaen, na fydd dim dadleuon crefyddol i gael lle ynddo, ond pob math o hanesion am ryfeloedd, &c., &c., fel y byddo'r Cymro 'n cael ei gadw'n fyw i ystyried Arwyddion yr Amserau, ac i farnu drosto ei hun, beth sydd uniawn."

Pa beth a ddaeth o'r "Cofiadur" nis gwyddom. Mae yn debyg mai i'r dim yr aeth yr amcan hwn, fel llawer un o'i fath ar ei ol. Ond a'r "Cylehgrawn" y mae a wnelom ni y tro hwn eto. Ei ohebydd ffyddlonaf a galluocaf, fel y sylwasom yn y rhifyn o'r blaen, oedd Dafydd Ddu, Eryri. Dyn mawr oedd Dafydd Ddu. Dechreuodd wedi hyn ar gyhoeddiad o'i eiddo ei hun, dan yr enw "Eurgrawn," yr hwn, pe cawsai dderbyniad, a fuasai yn llyfr gwerthfawr. Efe oedd tad yr oes ddiweddaf o feirdd yn Ngogledd Cymru. Meddyliem mai efe oedd awdwr yr ysgrif a ganlyn, yr hon sydd yn haeddu sylw neillduol oddiwrth bregethwyr ac ysgrifenywyr ieuaine.—

"GAIR AT AWDWYR AC AREITHWYR.

Llyma fwyn Dryserfa fydd,
I ddynion yn ddywennydd;
Rhoddion y Cymry hyddysg,
Awduron doethion mewn dysg;
Mewn is cylch minnau os caf
Diau hadling dyhidlaf.

DAFYDD O ARFON.

Y PETH wyf i sylwi arno yw hyn: sef fod rhai Awdwyr ac Areithwyr yn euog o ymestyn gormod at ddull ry uchel o ysgrifenu a llefaru, yn annaturiol: a hynny nid yn unig o arfer geiriau rhy uchel y pryd y mae eraill yn weddusach at y testyn; ond arfer cyffelybiaethau anghyson a chymmysgedig, yr hyn beth sydd yn tarddu naill ai oddiar anwybodaeth, neu oddiar ysfa o ymddangos yn oruwch-ddysgedig, a rhagori ar eraill mewn ffrwythlondeb o ddychymygiion: hyn sydd yn fynych yn eu harwain i wrthdroi synwyr yn ffolineb, er mawr anharddwch â gwrthuni iddynt eu hunain, a dyrswch i'w Darlennyddion a'u Gwrandawyr: mae 'n hysbys ddigon, mai peryglus yw c'odi gormod o hwyliau i'r gwynt pan fyddo llong yn ysgafn o lwyth—drwy ymorchestu i addurno gwaith yn rhy bell, gellir yn hawdd ei ddi-fetha. Er mwyn rhoddi cais i osod hyn yn eglurach, myfi a sylwïaf, mai diben cyffelybiaeth yw cyflwyno meddyliau dan rithiau neu ddelwau, y rhai a fyddont iwyaf cyfaddas i effeithio neu weithredu ar y synwyr; nid oes un peth yn y Byd nad ellir ei gyffelybu i *amryw bethau*, wrth ei ystyried mewn gwahanol oleuni; ond yr anffawd yw, fod yr Ysgrifenydd neu'r Areithydd anghelfydd yn cymmysgu cyffelybiaethau mor anghyson, fal na fydd yn y diwedd un cyffelybrwydd yn y peth; dim ond dyrswch tywyllwch a gwrthuni. Mynych y cyffelybwyd Rhyfelwyr dewrwyh i feltt y daran, i Lew, i'r Môr, &c. Ond wrth gam-driniaeth yn y gyffelybiaeth, y mae'n digwydd weithiau i'r Bolt gael ei chwyrdafu dros derfynau'r greadigaeth: y Llew gael ei faethu i eithafon yr uchelder, y Môr ddylifo dros benau y mynyddoedd. Y mae'r gwrthuni yn ymddangos yn amlwg yn yr Engraph uchod. Crybwyllais o'r blaen mai rhithiau neu ddelwau o bethau sydd yn gweithio ar y synwyr, yw cyffelybiaeth. Delw o beth a fyddo yn dueddol o daro neu effeithio ar y llygad, ni ellir gyd âg un mesur o gysondeb ei chymmwyso at y Glust. Pe dywedwn fy mod yn gweled llais, neu 'n clywed goleuni, diamau y bernid fi yn ynyf: felly nid llai yw'r amhriodoldeb o osod un creadur i wneuthur peth mewn

ffordd gyffelybiaethol, na ddichon ei wneuthur yn ei gyflwr naturiol. Un awdwr a ysgrifennodd fal hyn: 'Y sflangelliad chwerw a ddisgynodd oddiwrth eich ysgrifell:' mae 'n debygol y clywsai son am fustl yn diferu oddiwrth Bin ysgrifenu, ac am sflangelliad tostlym mewn cerydd; felly er mwyn rhagori ar eraill, cysylltodd y ddau yn un, a thrwy hynny y bu yn euog o wrthuni anfad. Bwriwech fod Gŵr yn dal yn ei law Bin ysgrifenu, a demyn helaeth o reffyn wedi ei glymu wrtho. Pa orchest dybygech a wnae ef gyd â'r unrhyw? Nid rhaid yn hir ddisgwyl am eich ateb, nac ymlrafferthu i ddangos y gwrthuni a'r anghysmdecb. Y mae'r peth yn ei ddatguddio ei hun i bob dyn deallus. Diaw nad yma y mae i ni ymfodyn am flo law sflaethineb.

Yr wyf yn cofio im' ddarllen ddarfod i gydymaith ieuange, wrth ysgrifenu at ei Gariadferch, ymhoethder ei serchawgrwydd, ddigwydd dywedyd, fod ynddi fyd o hawddgarwch: oddiar y cyfryw achlysur, efe a ddygodd y gefelybiaeth yn y blaen cyn belled, fal ac y dyfalodd fod ei Gariadferch yn meddu pegwn gogleddig a phcgwn deheuol, ac felly, dilynodd hi o'r naill begwn i'r llall.—

Ni ychwanegaf ar y testyn hwn y tro yma, mae hyn yn ddigon i roi ac yn ormod i eraill."

Er mwyn yr hynafiaethwyr, rhoddwn yma ysgrif arall o waith yr un gwr am Gantre'r Gwaelod:—

“ HYNAFIAETH.

Ychydig Hanes am GANTRE'R GWAELOD, mewn Llythyr oddiwrth D. DDU ERVRI,
at IEUAN LLEYN.

ANWYL GYFALL,

Ymherthynas i'ch holiadau ynghylch *Cantre'r Gwaelod*, yr hwn sydd yn awr yn orchuddiedig gan y môr, ni ddigwyddodd i mi weled fawr hanes sier yn ei gylch; ond yr hyn a wn i an dano a gewch chwithau ei wybod, yn rhwydd ac ewyllysgar; gan hynny, creffwch ar yr hyn a ganlyn. Yr ydys yn barnu, yn ol yr hanesion, ddarfod i'r môr ddylifo drosti, o'r flwyddyn 540 i'r flwyddyn 550, neu 560 o'r pellaf; sef amser *Gwyddno Goronhir*, tad *Elphin*; yr hwn, medd y chwedl, a gafodd afael yn y cyn-fardd, *Taliesin*, mewn cod groen, yng ngored *Gwyddno* ei dad: er coffhad o gwynfan *Gwyddno*, o herwydd y golled hon y mae gennym dystiolaeth y bardd,

Grwnan, *Gwyddno Goronhir*,
Pan droes y don dros ei dir.

Gwyddno, brenin *Cantre'r Gwaelod*, a briododd *Ystradwen*, ferch *Cadell Deyrnllug*, brenin *Powys*. *Gwyddno* a genhedlodd *Elphin*, *Elphin* a genhedlodd *Belyn*, *Belyn* a genhedlodd *Tudur*, a *Thudur* a genhedlodd *Dyfnwal*. *Belyn* a fu farw yn y flwyddyn 729, *Tudur* yn y flwyddyn 750. *Dyfnwal* a laddwyd gan y *Saeson*, yn *Henffordd*, yn amser *Rhodri Molwynog*, yn y flwyddyn 757. Yr ydys yn meddwl fod clawdd, fel y clawdd a wnaed yn ddiweddar ym *Malltraeth*, wedi cael ei wneuthur i gadw'r mor rhag dylifo dros yr isel-dir bras hwnnw, *Cantre'r Gwaelod*; ysgatfydd mai olion y cyfryw glawdd yw *Sarn Badrig*, am yr hon y gwyddoch chwi ac eraill o drigolion *Lleyn* yn well na mi. Tybir hefyd mai difalwch ceidwaid y dyfr-ddorau a fu'r achos o'r gorllifiad: ond y peth tebycecaf i dafu goleu ar yr hanes dywyll hon, yw'r caniad canlynol, a gopiwyd allan o *Lyfr Dŷ Caerfyrddin*, gan y diweddar hynafiaethydd digymmar *Mr. Lewis Morys*, ac allan o'i waith ef a gopiwyd gennyf finnau. Dyma fo.

CANIAD pan aeth y Mor dros y CANTREF GWÆLOD, allan o'r *Llyfr Dŷ*
o GAERFYRDDIN.

Seithinen sawde allan, Ac edrych virde varanres, Mor maes Gwitno rytoes.	}	neith	{	Seithinen, saf di allan, Ac edrych werydre faranrhes Mor maes Gwyddno rhydocs, &c.
--	---	-------	---	--

Boed emendigaid y morfin A'i hellyngodd gwydi y cwin, Ffynnon effenestr mor terfin.	}	neith	{	Boed felltigaid y min môr A'i gollyngodd gwedi gwin, &c.
---	---	-------	---	---

Boed emendigaid y fachtaith
A'i hellyngodd gwyd y gwaith:
Ffynnon ffenestr mor ddiffaith.

Diaspad mererid y ar gwinau,
Cadair cedawl Duw a'i i gorau;
Gnawd gwedi gormod, eisiau.

Diaspad fererid ar for caer,
Hyd ar dun y dodir,
Gnawd wedi traha, trange hir.

Diaspad mererid a'm gorfydd,
Heno, ac nid hawdd gorawydd,
Gnawd gwedi traha, tramgwydd.

Diaspad fererid y ar fur caer,
Heddyw hyd ar Dduw y dadolweh,
Gnawd wedi traha, attregweh.

Diaspad mererid a'm cymmell,
Heno y wrth fy 'stafell,
Gnawd gwedi traha, trange pell.

Y mae'r ENGLYN canlynol ymysg ENGLYNIION Beddau Milwyr Ynys BRYDAIN.

Bedd Seithinin, synwyr wan.
Rhwing Caer Cenedig a Glan,
Mor *mawrhydig cyrhan.—*Mawrhyddig cynrhan.

† Nid oes enw un Awdwr wrth y caniad uchod.

Wrth y geiriau, A'i hellyngodd gwedi gwin, yn yr ail bennill, mae lle i foddwl, mai o achos meddwod ceidwaid y dwfr-ddorau y digwyddodd y tros-ddylifiad.

Yr ydys yn meddwl mai enw rhyw amddiffynfa oedd cadair cedawl.

Tybygir y dylid darllain y pedwerydd pennill, Oddiar far caer hyd ar Dduw dodir, &c.

Gwinau a allai fod yn enw lle, ysgatfydd mai Gwynedd yw'r ystyr.

Mor y Werydd, yw Mor y Werddon.

Pwy oedd Seithinin, a pha le yr oedd Caer Cenedig, chwiliad y cywrain.

Ond y mae lle a elwir Caer Wyddno, rhwng Sarn Badrig ac Aberystwyth.

Cafwyd carreg yn y mor, yn agos i Abermaw, ar ba un yr oedd argraph; y llythrenau oeddynt Rufeinaidd, ond yr iaith yn anadnabyddus. Myfi a anfonaf i chwi ychydig o hanes Enlli yn y llythyr nesaf. Dyma'r gloch un yn canu, felly rhaid terfynu'r hanes ar hyn. Wyf yr eiddoch yn garedig,

Llanfair-Bethws-Geraint, ym
Mon, Ionawr 24, 1793. }

D. DDU ERYRI.

Yn nesaf rhoddwn olwg ar Dafydd Ddu fel bardd:—

“ENGLYNIION

Myfyrdod y Bardd yn ei wely, wrth glywed yr adar yn canu. Y rhai hyn a gânt y Bardd pan oedd yn Athraw Ysgol yn Llanystumdwy, Ebrill y 15, 1792.

Mae'r adar cynar yn canu—felus
Wiw foliant i'r Iesu;
Galwant, adciniog wiwlu,
Foreuddydd ar Ddafydd Ddu.

Dyma 'r gân, hoywlan yw hi—gu lawen,
A glywaf o'r llwyni;
Clyw ein llais, a'n adlais ni,
Y cysgadur, cais godi.

Clyw ddatgan un rhan yn rhwydd,—iaith gofus,
O'th gyfiawn ddyledswydd;
Dyro fawl, rasmusawl swydd,
Diweirglod i dy Arglwydd.

Yn man-goed, glas-goed y glyn—pregethwr
Pur goeth yw'r aderyn;
E gân glod, hynod yw hyn,
Borengerdd ar y brigyn.

Minnau â'm trom awenydd—ffaeledig,
Ffol ydwyf o brydydd;
Rhy sych yn fynych a fydd
Fy enaid yn Eifionydd.

Erfyniaf ar Naf yn fy nydd—gu nerth,
Ei gynnorthwy beunydd,
I dreulio'n iawn radlawn rydd,
Fy einioes yn Eifionydd.

Pan ddel oes, byr-oes i ben—e dynir
Dannedd y genfigen:
Caf orwedd dan lygredd len,
Mor dawel â mrawd Owen.*

Af i orwedd at feirwon,—i gaerau,
O gyrhaedd gelynyon;
Tyf uwch priddlyd, fraenllyd fron,
Flodau, gwiw lysiau gleision.

Ar ben yr ywen irwerdd, o gariad,
Agorir hiraeth-gerdd;
Yr adar, ar gynar gerdd,
Dysgant fy mhriodlas-gerdd.

Hen gynfam ddinam i ddynion,—a chwaer,
O cherir hi'n ffyddlon,
Fy nghywely, fy nghalon,
Fy mhriod hynod yw hon.

Daw'n rhwydd ddystawrwydd ystyriawl—i'r bod,
Neu'r abwydyn marwawl;
Pa ddaear fud—pwy ddyry fawl
Yn eigion bedd unigawl?

Fy enaid, pan derfyna—fy einioes,
Ar fynyd cyfynga',
Cymer, O anwyl-ber Na',
I dy ddwyllaw 'r dydd ola'."

D. T.

* "Owen Gruffydd, y Prydydd, a gladdwyd yn Llanystumdwy, B.A., 1730."

Y mae yma hefyd rai cyfansoddiadau barddonawl o waith Sion Lleyrn; a da genym gael rhyw esgus dros eu hailargraffu.—

“COFFADWRIAETH

O'r Parchedig Mr. ROWLANDS, Llangeitho.

AETH Rowlands ddoeth oreulwydd, fu enwog,
I fynwes ei Arglwydd;
I dderbyn gwobr mewn sobrwydd,
Anwyl was Ior yn ol ei swydd.

Swyddog, gweinidog ei Naf, meddianydd
O ddoniau'r Gornuchaf;
Gwasgarog bren brigog braf,
Ffraeth ddylanwad, ffrwythlonaf.

Cerub yn fflamio cariad, i'r bobloedd
O'r Beibl a'i agoriad:
Athraw enwog uthr ynad,
Ysprydol a duwiol dad.

Gweinidog; bywiog y bu, i'w genedl
Ac iawnach trwy Gynmru,
Canwyll hardd yn cynnull llu,
Aur ei lais ar ol Iesu.

Pregethodd, ehwysodd, wych wiwsant—ei Naf
A'i nefawl ogoniant,
A phob peth yn rhy fethiant,
Dan y sêr, ond Oen i sant.

Arian-llais ymgais amgen—nag Aaron,
A'i gywain wahanlen,
A chymwysach uwch Moesen,
Oreu-lan Sant Rowlands hen;

Mwy cryf na Selyf, seiliodd, na Dafydd
Mwy difeth y rhodiodd;
O'i enau mād rhediad rhodd,
Duw i ni a dywynnodd.

Mel a llaeth odiaeth ydoedd, a gwinwydd
O ganol y nefoedd;
(Cywir ei rās) cario'r oedd,
Olew fr i laweroedd.

Englyn
umod
gyrch. { Canwyllau fyrdd cynullwyd
Gwel, oll, fnt, a'u goleu llwyd,
Eithr i haul (aruthr yw hwn
Noeth begwn) ni thebygydd.

Odwl erwcca { Ca'dd ei rādd o neuadd Nêr
Deg enwawg o dŷ Gwiw-Nêr
Uwch plaid Cerubiaid, croywber, Apostol
Cain nefol, uch cynifer.

Daniel aed, doniawl ydoedd,—gan Gerub,
I gariad y nefoedd ;
Yn entrych llewyrch lluoedd,
Mwy enwog ŵr, mae, nag oedd.

Yn ei fedd y gorweddodd,—ŵr enwog,
Ar wnech ddysgleiriodd,
Llangaethaw, lle in' gweithiodd,
Pridd y tir ; prudd yw ; a'i tôdd.

SION LLEYN a'i cant.

N. B.—Os bydd yr Englynion rhain yn addas i gael lle yn eich Cylch-Grawn, dymunaf arnoch eu gosod yn rhyw gwrr iddo: gobeithiaf fod cyfansoddiad yr Englynion yn agos i'ch boddlonrwydd. Hyderaf fod eu gwrthddrych testynawl yn deilwng. Hyn o ddymuniad eich ewyllsiwr da yn eich gorchwyl o gario y Cylch-Grawn yn y blaen. Wyf, &c.,

JOHN ROBERTS, *Tŷ-yn-y-Lôn, Dyneio*, ger llaw *Pwllheli*."

“COFFADWRIAETH AM MR. W. W., Awdwr Hymnau Cymreig.

COD awenydd, o'r cadwynau,—dŵn
A diange o'r maglau ;
Torr y rhwym : Tŵr yr Hymnau,
Gwiwdeg wedd sydd gwedi gau.
Cauwyd, dyfn-guddiwyd y gerdd,
I seler bach, is-law'r bwrdd :
Ni chad o ddysg ymysg myrdd,
Ail am sain i Williams hardd.

Cawg aur enwawg wr unawl,—a'i asbri
O ysbryd barddonawl.
Gwŷch yn gwau Hemynau mawl,
Hoywaf rediad hyfrydawl.
Haul araul heb ei wryd—i'r eglwys
Periglor uchelfryd,
Llawn asbri llon ei ysbryd,
Tosturiol with farwol fyd.

Yn iach awenydd na chaniad, ac odl
Yn cydlais na Marwnad ;
Nych yw sôn, yn iach seiniad,
Y fraint aeth, bu farw ein tad.”

SION LLEYN.

“CYWYDD Y GREUEDIGAETH.

Pwy luniodd fcsurodd ser,
Ac a ledodd y gloywder,
Mor didor mawr, dywedwch,
Oddiar traeth a'i ddw'r trwch ?
Llunio daear llawn dyallt,
Creua hwn y croyw a hallt ;
Caf le melt yn cyflym wau,
Ymeiliant â'r cymhylau ;
Difeth gorchymyn Dofydd,
Eilw y rhai'n i oleu rhydd ;
Dywedant, Nid da oedi,
(T'w wiwlan arch) wele, ni ;
Pwy biau'r llais p'bur llawn,
A rwygodd i lawr eigiawn,
Trwst oerlais mal trist erlid,
Trwy un lef taranau llid ?
Pwy law fu'n lluniau llennydd,
Glana' des goleuni dydd,
Haul, lloer, ser, pob aderyn,
Gwyllt, gwellt, gwâr, daear, a dyn ?

Lluoedd cafi'r ffafafen,
Cynt yw en rhwysg cantwyr hen ;
Toif hygar, adar, ydynt,
Troen' o gylch tra yn y gwynt ;
Heigiau'r myr, hygar eu modd
Pellenig, pwy a'u lluniodd ?

Ef a luniodd flwynau
Afrifaid o bryfaid brau ;
Cedryn ymlusgiaid coedydd,
Lle mae rhai'n llam yr hŷdd ;
Carnolion gwylltion a gwâr,
Diau er hiliaw daear,
Rhoes y rhain cain, fyrdd cant,
I gynnal ei ogoniant.

Pob lle'n deg, pob llwyn a dail,
Hyfrydwch y fawr adail,
Y lliwiau, lluniau llonwych,
Gwyrdd, rhuddion, gwynion a gwych
Dolydd a'r coedydd deiliog,
Y bronydd a'r creigydd crog ;

Mynyddan, mal tyrau teg
I'r adail hardd oreu-deg.

Ti yw'r Pen, wyt Aer y parch,
A gafodd neb dy gyfarch,
Am curo nef mawr iawn wyd,
Dy waith adwaen, doeth ydwyd,
Yn dal y ser dy law sydd,
Mawr, a man, mor, a mynydd.

Glanach yw dy ragluniacth,
Llaw'n awr sy'n lliwio a wnaeth
Maith helynt y trym-wynt trodd
Dy ddwrn, a gaed oddiarnodd,
Gosod i'r mor wregysan,
(A'i ddw'r gwyllt) dy ddor i'w gau,
Cadwyno'r tân glân dy glod,
Rhoi o mewn a rhwymynod;
Rhwymo'r gwres yn haul tesu,
Hoelio ynghyd, y byd, bu—
Dy gyfoeth diau gafwyd
Mor, a thir, byrddir a bwyd
Porthi a bwyd fo perthyn
(Awdwr doeth), adar a dyn
Gwiwlys, a diogelwch
Y pryfaid yw llaid y llwch;
Creigiau anneddau i'r naill,
Y gweryd a gai eraill;
Pawb i'w lle, a'u cyfle, caf
Ddewiswyd yn addasaf.

Enwog gyfoethog weithydd,
Llaw y Saer yn llywio sydd;
Cyfyd i'r lan fo gwanaf,
I lawr yn dwyn cawr y caf,
Dial y trais a'i dal trwm,
I'r cedyrn yn rhoi'r codwm.

Cadarn yr wyt yn barnu
Dewr, a llesg, dacar, a'i llu,
Saif neb a'th wrthwynebydd.
Lle byddych, a fynnych fydd
Doi a niwaid dŷ newyn,
Baich yw tost am bechod dyn,
Rhifi i gledd y rhyfel,
Ac wrth dy air y sai'r sel;
Agori ddrysau gweryd,
I guddio gweilch beilch y byd;
Pob awdurdod, pob dewrder,
Allu a nerth, sy'n llaw Ner:
Da a fydd dwyn dy fodd di,
Da i filoedd dy foli;
Am eglur waith mawr-faith mad,
Oll o'r bron, a llwyr bryniad.
Pwy rydd ei glod peraidd glân,
Di golliant yn deg allan?
Testun cadeir-ddyn dewr-ddoeth?
A thrig hwn i Athraw coeth;
Pob tafod i'w fawr-glod fo,
A chalon i wych eilio,
Dyfal i foli Dafydd,
Rhedo dawn ar hyd y dydd.

DIWEDD.

A oes neb wnech unawl—dda anian
A'i ddoniau barddonawl,
Rhydd o'i fodd y rhoddo fawl
I degwech pryndedigawl?

Rhoir mawl mwj breiniawl am bryniant
Gan dorf, diderfyn y canant;
Parod â thafod, a thant,
Y gweinir ei ogoniant.

SION LLEYN a'i cant."

Cynnwysa y Cylechgrawn un neu ddwy o ganiadau eraill, y rhai nid ydym yn hollol foddolawn i'w gadael ar ol; ond rhag blino ein darllenwyr â gormod o farddoniaeth, yr ydym yn troi at dri llythyr yn y pummed rhifyn, wedi eu hysgrifenu gan Morgan Llwyd at ei chwaer a'i fam. Pa le y mae yr ysgrifeniadau eraill o waith yr un awdwr, y rhai oeddynt yn meddiant Dr. Jenkins, o Wrecsam? A oes neb o hiliogaeth Dr. Jenkins yn fyw? Ac a oes dim papyrau o waith Morgan Llwyd ganddynt hwy yn awr? Rhoddem eu pwysau o aur ddwy waith trosodd am ganiatâd i'w hargraffu; ac ymrwymom i anfon yn ol yr ysgrifion gwreiddiol yn ofalus. Yn y cyfamser bydded ein darllenwyr yn ddiolchgar am yr hyn a ganlyn:—

LLYTHYRAU MORGAN LLWYD O WYNEDD.

Yr ydym yn meddwl y bydd y llythyrau canlynol yn dderbyniol i lawer o'n darllenyddion : y mae llawer o waith yr un awdwr, yr ydym yn deall, yn meddiant y Dr. Jenkins, o Wrecsam, yr hwn sydd yn foddlon i'w cyflwyno i ni, os bydd y wlad yn galw am hynafiaeth o'r fath hyn : mae y rhan fwyaf o honynt wedi eu hysgrifenu o'r flwyddyn 1646 i'r flwyddyn 1658 ; ond nid yw'r mis, na'r dydd o'r wythnos, wedi osod wrth amryw o honynt.

LLYTHYR I.

"Ni wn i pa beth a wneir i elwi yn y wlad yna, nes y del amser Duw : llawer o rybuddion a gawsoch, llawer o fariau sydd yn eich meddyliau dirgelaf. Heb iawn ddeffro nid oes iawn weithio, nac ychwaith fywiogrwydd heb ddiwydrwydd : ond y mae rhyw hunan-feddwl dirgel yn rhwystro hād Duw i flodeno ei flodeuyn yn amlwg ; a'r gydwibod a wŷr ei bod yn esgeuluso y goleu a'r nerth a roddes Duw i ni. Gwir mawr yw, y diwedda Duw ei adeilad ; am hyny, eysur fydd, os myn yr enaid ymsuddo i lawr oddi fewn, yn y meddwl yn ddibaid, gan ddysgwyl beth yw ewyllys Duw ynddo ef ei hunan. Gwahaned rhwng hon a'i ewyllys ei hun, er bod y ddau yn yr un dyn neu ddynes. Fy chwaer Dorothi, na hiraetha am un wlad dan yr haul : yr anialwch sydd ynot ti dy hunan, nid yn y wlad. Rhaid oedd i rai gynt, ac i eraill eto, fod yn y diffaethwch ddeugain mlynedd (neu ddiwrnodau), ond gwylia rwgnach yn anialwch dy gyflwr ; fe rydd un ddwfr i'r anfeiliaid yn y diffaethwch ; *Esay* xliiii. 19, 20. Annerch fi at fy chwaer Elizabeth. Bydd ddiwyd, a bydd iach. M. LL."

LLYTHYR II.

"FY ANWYL FAM,

YMOFYN yn eich llythyr yr ydych ynghyleh y Crynwyr, y rhai elwir felly : mi a safaf ar fy nysgwylfa ; *Hab.* ii. 1, 2 : ac wedi sefyll enyd, fy ngwaith i yno fydd, dysgu a dilyn daioni pob un, a gwrthod drygioni pob math ; ymresymu â phawb a ddel ataf, heb gythrwfl, yn ymwrando beth a ddywed yr Arglwydd wrthyf, a'i wyneb i gydseinio â'r gydwibod oddifewn. Lle y bo cythrwfl y mae llwgr yn y meddwl : y mae arnoch chwithau yna hefyd eisieu deffroad, a nithiad, a dynoethiad eich profes yn amlycach. Ond pan fo'r gwynt garw yn chwythu, gadewch i ūs y meddyliau fyned gydag ef. Gwir y maent hwy yn ei ddywedyd, ond nid yr holl wir : ac ni a wyddom mai rhaid wrth ddwfr cystal a than ysbrydol. Prynwn yr amser ; ymwrandewch â Duw yn unig o ddifrif, nid o chwareu yn hannerog fel y mae'r rhan fwyaf. 'Rwyf fi yn credu y siglir rhai lawer mwy nag eto, fel y dywedais yna wrth rai na chlywsant ymlaen llaw y prŷd diweddaf. Gwylid H. Hughes, ac Efan, a chwithau yn Nghynfel, gysgu neu ymwylltio. 'Rwy'n danfon i chwi lyfr i'w gyflwynu â'r llyfr oddifewn.

Ar frys â'm hannerehion atoch, ac at ein chwirydd a'n ffryns. Os bydd dim a fyno neb o honoch â'm fi, danfonwch ar frys, rhag i mi fod heb glywed oddiwrthych, neu gael fy ngalw oddiyma i ryw le arall. Byddwch sobr, byddwch effro ; diwyd hyd y gwyddoch, a doeth i wrthwynebu creulondeb trwy fwyneidd-dra.

Eich ufudd fab,

M. LL."

LLYTHYR III.

Caerloyw, Awst 24.

"FY ANWYL ANRHYDEDDUS FAM,

Nr cheis i odfa, er pan ddaethum i o Gymru, i ysgrifenu ond ychydig at neb, am fod yr hela diweddaf yma mor brysur, a'm cynllwyn mor wastad, na che's amser :

mae'n hir genyf eisieu clywed pa'r un a wnaeth y gelyn ai dyfod i Gymru ai peidio. Os daeth ef, ni wyddom waethaf dyn sydd a'i anadl yn ei ffroenau; *Essay* li. 12, 13. Mae'n rhaid iddynt gael tipyn o rwyg cyn marw, am nad ydynt hwy eto ddigon uchel i gwmpo, na ninnau yn ddigon isel i godi: ond cyn diwedd y cynhauf yn Nghymru, medd gŵr i Dduw, fe'u delir hwynt yn y fagl. Ni fuom mewn peryglon, ond mae Duw o'i ras yn ein cadw, ac yr ydym ni yn iach, a'n hyfrydwech sydd yn yr Arglwydd. Na fyddwech drist o'n plegid ni, canys y mae llawenydd mawr yn agos. Er gwaetha dynion a chythreuliaid fe geidw Duw ei air a'i blant. Mari a ddewisodd y rhan oreu, na ellir ei ddwyn oddiarni. Mae'n hir genyf am glywed pa fodd y mae fy ngwraig a'm teulu, a'r rhai a'n câr. 'Rwyf fi yn tybied cyn ho hir y dychwelaf: felly mi'ch gorchymynaf i'r Arglwydd. Eich ufudd fab, M. LL."

Hawdd fyddai cyfansoddi pregeth faith ar y llythyrau hyn: ond nid oes genym ofod nac arfod i wneyd mwy nag enwi rhai o'r penau; ac fel arferol cawn ddechreu gyda y rhan ddiweddaf i'r testun.

1. Gwelwn fod Morgan Llwyd yn meddu yr hyn yr oedd ein cyfaill doniol M. H. yn hiraethu am i Finney ei gael, fel y gallai gael mantais i ddeall pechod gwreiddiol—sef yw hyny, *gwraig*.

2. Y mae yn amlwg oddiwrth y llythyrau uchod fod Morgan Llwyd am ryw yspaid yn canlyn byddin y senedd. Ond nid yw hyn yn cynnwys ei fod yn rhyfela yn weithredol, oblegid yr oedd y fyddin seneddol yn cadw amryw weinidogion i bregethu i'r milwyr.

3. Gwelwn hefyd fod ei fam, ac efallai ei chwaer, yn rhai o duedd grefyddol: a thra addysgiadol yw craffu ar y dull y mae yn ysgrifenu atynt, ac yn enwedig y parch a ddangosir ganddo i'w fam.

Yn y lle nesaf, gan fod cymaint o dwrf a dadwrdd yn y dyddiau hyn am yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, dichon mai nid anifyr gan lawer fyddai darllen

“HANES DEGYMAU.

Pwr bynag sydd yn y mesur lleiaf, yn gydnabyddus â 'sgrifeniadau yr Hen Destament a w'r fod degwm o osodiad dwyfol, dan y llywodraeth Iuddewaidd. Ond nid oes nemawr, yn yr amser presennol, mor ynyd a cheisio profi fod gan neb hawl ddwyfol i ddegymau, am eu bod wedi dyspeiddio gyd â'r llywodraeth ddwyfol (*Theocracy*).

Y mae'r cyffredin bobl yn ddiweddar yn darllen cymmaint ar y Testament Newydd, fel ag y mae'r offeriaid yn gweled yn wiu iddynt geisio profi eu hawl i ddegymau oddiar un sail arall ond cyfreithiau eu gwlad, ac er clod i lawer o honynt—y maent am ddiddymu yr hen arfer lygredig a chynnenllyd. Un o'r ysgrifenywyr goreu yn yr Eglwys Sefydledig (Paley) a ddywed fel hyn am ddegymau, 'Arddwriaeth sy'n cael ei rhwystro gan bob sefydliad, ag sy'n gollwng y cyfryw, nad yw yn gofalu dim am y gwelliant, i fod yn gyfranog o'r elw. Y mae'r gwrthreswm hwn yn gymmwysiadol at bob arferiad arglwyddiaethol ag sy'n rhwymo'r meddiannydd ar farwolaeth arglwyddi neu adeilad, neu drosglwyddiad yr etifeddiaeth, i fforffed o werth gwellhad y tir.—Ond o bob sefydliad sydd yn y ffordd hon yn wrthwyneb i lafurwaith, neu arddwriaeth ac amuaethiad, nid oes un mor niweidiol a'r degymau.

'Y gofnydd, sydd yma yn dyfod i mewn i ffrwyth y tir heb gyfranau dim at y draul a'u dygodd. Pan fyddo blynyddoedd o lafur a lludded wedi gwellhau a brashau tyddyn, pan fyddo'r llafurwr yn gweled cnydau toreithiog yn addfedu yn ol ei draul a'i ddiwydrwydd.—Y funud y byddo yn barod i fwrw ei gryman i'r ŷd, y mae yn gorfod rhanu ei gynhauaf gyda lleithr, nad yw yn perthyn iddo, nac yn ei wasanaethu 'ehwaith. Degymau ydynt dreth nid yn unig ar ddiwydrwydd, ond ar y diwydrwydd hyny sy'n porthi dynol ryw, ar y cyfryw ymdrechadau ag y mae amcan pob cyfreithiau doeth eu hanog a'u meithrin, am eu bod yn cysylltu swm yr elw ag y mae'r wladwriaeth yn ei dderbyn oddiwrth holl drefn marsiaundaeth a llywyddiant eu masnach. Ac ynghyd a'r holl anghyfleustra sy'n perthyn i osodiad y degwm, y mae'r drwg hwn yn 'ehwanegcl, ei bod yn dreth ar dir porfa. Y mae baich y dreth, os nid ei holl bwysau, yn disgyn ar wrteithiad neu welliant; hyny yw, ar y ffordd hyny o wellhad ag a ddylai y llywodraeth ei esmwythau a'i wobrwyo, mewn rhagoriaeth i un arall.* Ond ni a brysurwn i roddi ychydig o hanes degymau.

Cyn dyddiau Cystenyn fawr nid oedd un math o gyflogau eglwysaidd wedi sefydlu. Yn y flwyddyn 322 y gwnaeth ryw fath o gyhoeddiad i'r dyben hyny; ond nid oes son am ddegwm yn hir wed'yn—yn y pedwerydd cant yr oedd y degfed yn cael ei offrymu yn yr Ital at wasanaeth yr eglwys, a'r gwyr llen yn dechreu gwaeddi am eu talu yn rheolaidd. O gylch yr amser hyny, Ambrose, esgob Milan, a haerai wrth y bobl os na thalent hwy y ddegfed y cymerai Duw y naw rhan arall oddiwrth ynt hwy. Augustine, esgob Hippo, fygythiai yr un gosb; ond y mae yn eglur mai ymfodyn degwm yr oeddli yn yr amser hyny yn fwyaf i eildduel i gynnal y tlawd, canys y mae Augustine yn dywedyd y byddai'r cyfryw na thalent ddegwm, i fod yn euog wrth frawdle Duw o farwolaeth y tlawd. Yn Rhufain ac Antioch ni a wyddom oddiar dystiolaeth dda fod miloedd o dlodion yn cael eu cynnal ar draul yr eglwys.† Ond megys tra yr oedd y dirywiaeth yn cynnyddu y tlodion a ddi-brisiwyd.

Yn Mrydain, cyn dyfodiad y Saxons, oddeutu canol y pummed cant, yr oedd anfoesoldeb i'w ryfeddu yn tyccio ymhlith yr offeiriaid yn gystal a'r gwreng. Dywed Gildas hefyd, yr hwn oedd yn byw oddeutu canol y chweched cant, 'Nad oedd bugeiliaid Brydain ond bugeiliaid mewn enw; eu bod ar bob achlysur yn fwy awyddus i borthi eu hunain na'r praidd; heb erioed eu galw i'r weinidogaeth, ond gafaelyd ynddi fel crefft, yn annog eraill i roddi elusen yn helaeth, ond heb gyffwrdd a'u cod eu hunain; yn ymgais am ddyrchafiad yn yr eglwys yn hytrach nag yn y nefoedd;—yn anwybodus yn athrawiaethau yr ysgrythyr, ond yn gelfyddgar iawn yn mhethau'r byd, ac yn euog o bechodau echrydus. 'Beth gan hyny, ebe fe, a allasyd ei ddysgwyl oddiwrth y fath ddynion.'

O gylch y flwyddyn 596, yr anfonodd Pab Gregory, Austin fonach, ac eraill, i Loegr i ledu Cristionogaeth ymhlith yr *Anglo Saxons*, ac i sefydlu trefn llywodraeth eglwysig: yr oedd ef i gadw'r temlau paganaidd, a'u cysegru at addoliad Crist'nogol, trwy eu taenllu â dwfr sanctaidd.—Cyn dyfodiad y monach hwn i Frydain yr oedd llawer o'r offeiriaid wedi dyoddef erledigaeth lem oddiwrth y Saxons; ond mewn amser byr wed'yn y rhoddodd brenin Kent dir i Austin a'r rhai oedd gydag ef, ac fal yr oedd rhoddion o'r fath hyn yn debyg o gynnyddu, anfonodd Austin at y pab am gyfarwyddyd pa fodd i drefnu rhoddion ac offrynn-

* "Paley's Moral and Political Philosophy." Cyf. ii. tudal. 406.

† "Augustine sy'n tystiolaethu fod ei holl feddiannau daearol yn gystal a'i ddoniau at wasanaeth y bobl. Gregory Nazianzen a ddywed am Bazil, esgob haelionus yn Cesare, 'Mai ei gyfoeth oedd mwynhau dim, diystyru gloddest, rhyssedd, a byw fel y cyffredin ar ymorth a dillad.' Jerom a ddywed, 'Gogoniant esgob yw gofalu am y tlawd, ac mai ei warth oedd ymglyfoethogi ei hun. Rhaid gan hyny i esgob fod yn ddiargyhoedd, &c. medd Paul: 1 Tim. iii.'

au'r Crist'nogion. Atebodd Gregory mai arfer yr eglwys oedd eu rhanu yn bedwar rhan; i'r esgob gael un rhan, yr offeiriaid un arall—y drydedd ran i'r tlodion, a'r bedwarydd at adgyweirio'r llannau. Ac yn agos yn y modd hyn y gosodwyd allan drysor yr eglwys dros hir amser. Nid oedd yr offeiriaid ond megys goruchwylwyr i edrych bod yr arian yn cael eu cyfranu yn ol rheol yr eglwys.

Y mae hen *ganon* a gyfrifir i Egbert, archesgob York, yn yr wythfed cant, yn ordeinio fod y degwm i gael ei ranu rhwng yr offeiriaid a'r tlodion, ac i adgyweirio'r llannau; a'u bod nhwy i gael eu cyfranu *coram testibus* o flaen tystion, rhag ofn i'r offeiriaid gadw gormod iddynt eu hunain. Yn gyttunol â'r canon hwn, y mae Selden yn dywedyd fod crynodeb o ganons, dan y till *Statuta synodorum* wedi eu cael yn *Abbey St. Augustine* yn Canterbury; a bod yn bennod *De division Decimarum*, pa un sydd yn rhoddi cyfarwyddyd i gyfranu'r degwm yn dair rhan fal uchod, o flaen tystion.

Oddiwrth gyfreithiau Ethelfred a llawer eraill, a ellid eu defynu, mae yn eglur eu bod yn arfer hir ddostarthu'r degwm yn dair rhan, wedi rhoi i fynu yr hen arfer o'i rhanu yn bedwar.

Yn yr amser cyntaf y sefydlwyd offeiriaid plwyfol yr oedd degwm y plwyf yn cael ei ddostarthu yn bedwar rhan; un at yr esgob, un at gynnal y llan i fynu, un at y tlodion, a'r bedwarydd at yr offeiriaid yn gwasanaethu'r plwyf—ond pan fyddo'r esgobaeth yn myned yn gyfoethog trwy roddion, gwarafynyd i'r esgob gymeryd ei ran o'r degwm.*

Oddeutu canol y seithfed cant y rhanwyd esgobaeth Canterbury yn blwyfau, ac y sefydlwyd offeiriaid i aros ymhob plwyf. Cyn hyn yr oeddynt yn teithio i bregethu a gweinyddu ordinhadau o fan i fan. Ond yn yr amser hyny fe sefydlwyd cyflogan iddynt yn holl deyrnasoedd yr *Heptarchy*, trwy dreth ag oeddynt yn ei alw'n *Kirk-shot*. Hyd yr wythfed cant yr oedd yr offeiriaid yn Lloegr yn cael eu cynnal gan gnwd y tir a roddwyd iddynt gan frenhinoedd ac eraill. Trwy dreth o un geiniog Saxon ar bob tŷ o gymaint o ardreth, a thrwy offrwm ewyllysgar y bobl. Ond nid oes dim dadl nad oedd yr offeiriaid yn Lloegr yn gystal a gwledydd eraill cyn hyn yn ymfyn y ddegfed yn ol cyfraith Moses. Mae Agaboard, esgob Lyons, tua diwedd yr wythfed cant, yn gwadu nad oedd un gymanfa wedi chynnal, na chyfreithiau wedi sefydlu i bederfynu pa faint oedd y cyffredin bobl i roddi i'r offeiriaid, nag at adeiladu llannau.

Montesquieu, wrth son am sefydliad degymau, sy'n dywedyd, 'Nid oes neb yn amau nad oedd yr offeiriaid yn agoryd eu Biblan, ac yn pregethu rhoddion y Lefitiens cyn amser Charlemagne, ond mi anturiaf dlywedyd, cyn teyrnasiad y tywysog hwnw, er fod y degwm yn cael ei bregethu i fynu, nad oedd erioed wedi sefydlu trwy'r gyfraith.' Ond yn senedd Franckfort, yr hon a gynhaliwyd dan Charlemagne yn y flwyddyn 749, y cawsant annogaeth bwysig i dalu degwm. Gwnawd math o bennod yn y synod hyny ymha un y dywedir, 'Yn y newyn diweddfaf nid oedd dim fŷ yn y tywys, yr ysprydion uffernol a'i difethasant i gyd, ac yr oeddynt yn enclwyd yn edliw i'r bobl am beidio talu degwm: mewn canlyniad i hyn fe ordeiniwyd fod pawb ag oedd a thir eglwys ganddynt i dalu degwm yn ddiatreg; a'r canlyniad nesaf oedd i'r rhwymau gael ei estyn at bawb. A phwy all'sai lai na thalu degwm a'r diaffiaid yn gorchymyn iddynt.'

Yn yr oes hon, yr wythfed cant, yr ydoedd coel-grefydd yn cynnyddu yn gynt nag o'r blaen. Adeiladwyd llawer o fonachdai yn Lloegr, a phobl o bob rhyw oedd yn dylifo iddynt.

Gyda choel-grefydd ddistadl y gwreng, yr oedd eribddail a thwyll yr offeiriaid yn cynnyddu, nes o'r diwedd iddynt haeru fod y ddegfed o holl feddiannau'r gwreng yn ddyledus i'r offeiriaid. *Jure divino*.

* "Blackstone's Cron." Cyf. i. tudal. 384.

'Cyn yr wythfed cant,' medd Blackstone, 'Nid oedd un gyfraith yn Lloegr am dalu degymau. Canon a wneid yn y flwyddyn 786 sydd yn annog i dalu degwin, ond nid yn rhwymo'r gwreng.'

O gylch y flwyddyn 794, Offa, brenin Mercia,* a laddodd Ethelbert brenin yr East Angles, ac a gymrodd ei deyrnas trwy frad, ar amser ag oedd Offa yn ymofyn Elpida merch Ethelbert yn wraig. Ni adawodd cydwybod Offa ef yn llonydd am y weithred greulon hon, eithr gorfu fyned at y pab i Rufain am faddeuant. Cafodd faddeuant gan y pab ar y telerau iddo gyfrannu yn haclionus i'w offeiriaid. I wneud iawn, gan hyny, am ei gamwedd, rhoddodd ddegwin ei holl deyrnas at yr eglwys. Rhoddodd hefyd i eglwys Rhufain y dreth a elwyd ceniogau Pedr (*Peter pence*), sef treth o geiniog ar bob teulu trwy'r llywodraeth.

Yn y flwyddyn 854, Ethelwolp, tywysog gwan a choel-grefyddol, a wnaeth yr ordinhad ganlynol mewn perthynas i'r eglwys, 'Myfi Ethelwolp, trwy ras Duw, brenin y dwyreiniol Saxons, &c. ydwyf er iechyd fy enaid, daioni fy mhobl, a llwyddiant fy nheyrnas wedi cymeryd yr ymroad doeth a gwasanaethgar, o ganiatau y degfed ran o bob tir trwy fy nheyrnas at yr eglwys a gwasanaeth crefydd. Y mae'r caniatad hyn yn cael ei roddi genym ni i'r eglwys, er anrhydedd i Iesu Grist, a'r fendigedig forwyn, a'r holl saint.'

Dywod Hume, 'fod y gwyr eglwysaidd yn yr oes anwybodus hyny yn cynnyddu yn y fath rwysg a gallu, nes iddynt wneud â'r gwreng a welant yn dda. Gallasyd meddwl wrth eu holl bregethau a'u homiliau, fod Crist'nogaeth i gyd yn gynnwysedig mewn talu degwin ac offrwm. Hwyl aethant mor belled a haeru fod ganddynt ddwyfol hawl i'r ddegfed ran o bob llafurwaith, marsiandaeth, hyriau gweithwyr a milwyr. Ie, yr oedd rhai *canonists* yn sicrhau fod gan yr offeiriaid hawl i'r ddegfed ran o ennill putteiniaid wrth eu galwad.' Heblaw hyn, yr oedd y gwyr eglwysaidd i gyd yn rhydd oddi wrth bob treth, canys yr oedd yr offeiriaid, meddant, er cynddrwg eu gwaith, yn blant Duw, a chan hyny, fod y plant yn rhyddion oddi wrth bob treth yn y deyrnas."

Nid annhebyg i'r dyddiau presennol oedd yr amseroedd pan gyhoddwyd y "Cylchgrawn:" a gellid meddwl mai gyda golwg yn bendifaddeu ar yr oes hon yr ysgrifenyddyd yr hyn a ganlyn:—

"HYNOD WELEDIGAETH

GWR BONHEDDIG O FFRAINGC,

Tra ydoedd ymhell oddi Cartref, yn ymdeithio yn un o Wledydd y DWYRAIN.

[*A gymmerwyd allan o Waith a elwir—THE PATRIOT.*]

SEFYLL yr oeddwn wrthyf fy hun ar ben bryn, uchben carnedd anferth, ac anialwch o'r dyrysaf yn gorchuddio'r fan; lle y buasai unwaith yn sefyll un o'r dinasoedd teccaf ar wyneb y ddaear. A'r olwg a barodd i mi syn-fyfyrio ar liaws o bethau perthynol i'r byd gwag presennol, a chyfnwidioldeb pob peth dan haul. Ac wedi gorwedd i lawr i orphwys (gan nad oedd dim i'm rhwystro) dilynais fy myfyrdodau, ne's dyfod cwsg yn ddiafwrwybod i gloi fy synwyr, a mi a freuddwydiais fel y canlyn:—

Gwr ieuange a safai (dybygsw'n) yn fy ymyl, o'r glanaf a welais erioed; ac mi a gasglais yn uniongyrch, mae'n rhaid mai Angel ydoedd, ac nid dyn. A chyn i mi cael cyfle i ymholi dim ag ef, efe a'm cipiodd i fynu yn uchel i'r awyr, ne's bod

* "The kingdom of Mercia included the middle counties of England, and extended from the Thames to the Humber, from the Severn to the Kingdoms of Essex and East Angles."

amrywiol deyrmasoedd y ddacar yn isel odditanom. Oddi yno canfum, ymhlith eraill fy ngwlad anwyl fy hun ; a rhyfedd fu gennyf weled rhyw gyffro anghyffredin ymhlith yr holl drigolion, a phawb yn ymgrych am y cyntaf i'r lle mwyaf cyhoeddus, ne's bod yno dyrfa afrifed o bobl. Ac er cuwch yr oeddwn uwch eu penau, yr oedd swm eu lleferydd yn cyrraedd yn amlwg hyd attaf, ac yr oeddwn yn abl i amgyffred amryw o ymadroddion a lafarid ganddynt yn dra eglur. Megis y rhai a ganlyn : 'Ni allwn ni ddim goddef pethau yn hwy fel ag y maent. Yr ydym yn byw mewn gwlad dda a ffrwythlon, ac etto y mae'r bara mor brin, a phob rhyw ymborth mor ddrud, fel ag yr ydym bron newynu. Y mae'r llafurwr mor ddi-arian, a phob gwaith a masnach mor farwaidd, fel ag yr ydym yn methu cael lle i ennill ein bywioliaeth. Y mae ein trethi yn aneirif, ac ymron yn annioddefol, ac etto y mae cri am ychwaneg o arian. Y mae gennym fyddinoedd lliosog o filwyr trwy'r deyrnas, ac etto nid yw ein personau na'n meddianau ddim mewn diogelwch. A pha beth all fod yr achos o'r holl anhrefn a'r annedwyddwch yma?' Dyma'r fath oedd yr achwynion a glywn yn ddibaid ; ne's i ryw un sefyll i fynu ynghanol y dyrfa, a chynghori i bawb oll ymrannu yn *ddwy blaid* wahanol. Yr oedd un blaid i gael ei wneuthur i fynu o *lafurwyr, crefftwyr*, a phawb ag oedd trwy ryw oruchwylion neu gilydd yn *wasanaethgar* i'r wladwriaeth. Ar y rhai'n, yn wir, nid oedd ond agwedd dlawd, a'u crwyn wedi melynau a garwino gan wres yr haul a phob rhyw dywydd garw, yn druain yr olwg o achos caled-waith a thlodi, a'u dillad mor garpiog, fel mai braidd yr oeddynt yn cuddio eu noethni. A thyma'r blaid amlaf o lawer. Yn wir, nid oedd dim cydmariaeth o ran rhifedi rhyngthi a'r blaid arall. Hono a wnaed i fynu o *dduciaid* ac *arglwyddi, esgobion* ac *offeiriail* o uchel radd, a *swyddogion* ac *uchelwyr* o amrywiol fath. A'r rhai hyn oeddynt yn disgleirio mewn pob math o wisgiadau hardd a chostfawr, yn gyflawn eu gwedd, fel rhai fai'n cymeryd *byd da yn helaethwch beunydd* ; heb ond ychydig i'w wneuthur, na nemmor i'w blino.

Wedi i'r ddwy blaid yma sefyll ennyd ynghyfer eu gilydd, mi a welwn yr un amlaf yn cael ei chyffroi'n yn ddirfawr gan anfoddlonrwydd, llid, a chynddeiriogrwydd ; a hyny a barodd i'r blaid arall ddangos pob argoelion arswyd ac ofn. Yna, (ebai'r blaid lliosog wrth y llall) 'Paham yr ydych chiwi yn cadw o'r neilldu oddi-wrthym ni ? Onid yr un peth y'ch chiwi a ninnau ?'—'Nage ddim, (ebai'r blaid fonheddig) Y *bobl* y'ch chiwi, eithr *gwyr mawr* ydym ni, o rywogaeth a graddau llawer uwch na chiwi ; ac y mae i ni gyfreithian, a defodau, a breintiau priodol i ni ein hunain.'—Ond 'Pa wasanaeth a wnewch yn-ein plith ni ? (ebe'r bobl). 'Dim dim, (ebe'r bonheddigion) ni wnaethpwyd mo honom ni i wasanaethu.'—'Pa fodd yntau (ebe'r bobl) y daethoch chiwi i berchen cymmaint o feddianau ?'—Attebasant, 'Wrth eich llywodraethu chiwi ?' 'Ein *llywodraethu* ni ? (ebe'r bobl) beth all fod eich meddwl wrth hyny ? Yr y'm ni'n gweithio ac yn chwysu, ac yr y'ch chwithau yn mwynhau ffrwyth ein llafur : yr y'm ni'n casglu, a'ry'ch chwithau yn gwasgaru. Attolwg, gan nad y'ch chiwi o'r bobl, sefwech ar eich penau'ch hunain, os gwelwech fod yn dda ; cedwech mwyach ar y neilldu, a llywodraethwech eich *hunain* yn ein lle ni.'

Erbyn hyn mi a welwn y dyrfa leiaf, sef y gwyr mawr, yn dod eu penau ynghyd i ymgynghori a'u gilydd pa beth i'w wneuthur ; ac ebe rhai o honynt oedd gallach na'r lleill 'Gwell i ni etto ymgysylltu â'r bobl, ac uno gyd â hwynt i ddwyn yr un beichiau, a chyflawni'r un gorchwylion ; oblegid dynion ydynt hwy, a dynion ydym ninnau.'—'Na well, na well, (ebe'r lleill) peth rhy wacl a gwaradwyddus o lawer fyddai fe ynom ni i ymgymysgu â'r werinos. At weithio a gwasanaethu yr amcandwy hwynt ; ond yr ydym ni yn rhywogaeth wahanol.'

Yna daeth *swyddogion* y *wladwriaeth* ymlaen, a dywedasant, 'Gadewch rhyngom ni â'r bobl ; ond cymmeryd ffordd iawn gyd â hwynt, y maent yn ddof eu

gwala, wedi cynnesfio a'r iau, ac arfer gwasanaethu. Ni a fygythiwn y *brenin* a'r *gyfraith* arnynt, ac yno fe geir gweled pob un yn dychwelyd etto i'w le, ac at ei waith.'—'Bobl, cwch adref at eich gorchwylion, y mae'r *brenin* yn gorchymyn i chwi.' Hwytthau yn un llais a atebasant, 'Ni ddylai'r *brenin* orchymyn dim ond a fo'n tueddu er daioni i'w bobl; ac ni faidd efe orchymyn dim ond a fyddo yn gyt-tun a'r *gyfraith*. A pha beth yw'r *gyfraith* ond *ewyllys* y *bobl* yn gyffredin; a hyn yw ein hewyllys ni, sef cael trefn newydd ar bethau.

'Y mae'r *brenin* o'n hochr ni, (ebe'r swyddogion) ac y mae efe'n gorchymyn i chwi i ymostwng.'—Ond fe atebai'r bobl, 'Y mae'r swydd frenhinol yn cael ei dechreuad oddi wrthym ni, y rhai a dletholwn un o'n plith ein hunain i gyflawni y swydd honno, er mwyn y daioni cyffredin. Y mae cysylltiad diwahan, gan hynny, rhwng brenhinoedd a'u pobl, ac nid oes un *brenin* doeth a da a wna ddim a fo'n groes i fantais ei bobl.'—

Erbyn hyn gwelwn *swyddogion* y *filwriaeth* yn ymddangos, gyd a'u gerwindeb cynnesfio, a chlywn hwy'n dywedyd, 'Ga lewch y matter i ni; ni thraid i ni ond bygwth y bobl, a chwi a gewch en gweled yn llonydd eu gwala. Deuwch, filwyr, at eich arfau, a cheryddwch y sothach pobl anfoesgar yma.' Ond, ebe'r bobl wrth y milwyr, 'Ystyriwch pwy ydym. Onid ydych chiwi a ninnau o'r uu gwaed? Ac a darewch chiwi eich *brodyr*? Os distrywir y bobl, o ba le y cewch chiwi fara?—Erbyn bod y geiriau o'u genau, dyna'r milwyr yn tafu i lawr eu harfau, gan ddywedyd wrth eu pennaethiaid, 'Na atto Duw i ni gyffwrdd a'r bobl: rhai o'r bobl ydym niinnau, a gelynyon pob gorthrymder.'

Yna, ebe'r llywodraethwyr eglwysaidd, wedi gweled aflwyddiant anhappus yr holl fesuron blaenorol, Gadewch i ni wneuthur cynnyg. Nid yw y bobl (diolch da i ni!) ddim heb ryw fesur o goel-grefydd. Rhaid i ni geisio eu bradychu a geiriau ynghylch Duw a phethau crefyddol. Yna y dechreusant araith fel y canlyn; 'Anwyl garedig frodyr! blant anwyl a hoff! ewyllys ac appwyntiad Duw yw i chwi wasanaethu a dwyn yr iau, ac ymostwng i bob ordinhad.' 'Ai i'e,' ebe'r bobl, 'dangoswch i ni eich dwyfol awdurdod.'—'Rhaid bod genych ffydd,' ebai'r offeiriad, 'ni wna rheswm ond eich arwain ar gyfeiliorn.'—'Beth,' ebe'r bobl, 'a ydych chiwi, wyr da, yn llywodraethu heb reswm?'—'Y mae Duw'n gorchymyn heddwch,' ebe'r offeiriad, 'y mae crefydd yn gofyn ufudd-dod!'—'Gwir,' ebe'r bobl, 'ond rhaid bod cyflawnder yn sylfaen i heddwch; ac fe ddylai pawb wybod a deall y *gyfraith* ag y b'ont i ufuddhau iddi.' Ebe'r offeiriad, 'Dyn a aned i flinder, ac a amcanwyd i ddiodef adfyd.' 'Os felly,' ebe'r bobl, 'dangoswch chiwi y ffordd i ni, rhoddwch chiwi siampl o'n blaen ni.'—'A ellwch chiwi,' ebe'r offeiriad, 'fyw heb flaenoriaid?'—'Gallwn,' ebe'r bobl, 'fyw heb orthrymwy'r a thwyllwyr, heb na gwyr llys na gwyr llen: y mae gwasanaeth, y cyfryw, (pe haedda'r enw) yn costio llawer mwy nag a dalu. Ni a drafodwn ein hachosion ein hunain o hyn i maes—ac yn ddiagon da heb eich help chiwi.'

Yna, ebe'r blaidd leiaf, mewn dygn anobaith, 'Darfu am danom! y mae'r lliaws wedi agor eu llygaid.'—'Nage,' ebe'r bobl, 'yr ydych yn camsynied. Os mynnwch, fe'ch achubwyd. Gwir yw, fod y gallu genym ni; ond gan ein bod wedi ein goleuc, ni charaferwn ni ddim mo hono. Nid y'm ni'n ceisio dim ond ein breintiau. Ni a ddiodefasom lawer oddiar eich dwylo chiwi, yr ydym yn maddeu'r cwbl. Dros rudd-did yr ydym yn cyd-sefyll, ac ni a'i *mynnwn*.'

A'r geiriau yma a lafarwyd euwch (dybygsw'n) nes crynu o'r awyr hyd entrych y nefoedd; ac ar hynny dihunais; ac wele nid oedd y cwbl ond breuddwyd.—" G.

Rhaid i ni bellach ganu yn iach i Morgan ab Ioan Rhys, a'i "Gylch-grawn" defnyddiol. Cwyna rhai fod erthyglau y "Traethodydd" yn

rhy feithion. Beth pe gwelent gyhoeddiadau trimisol y Saeson, y rhai ni chynnwysant yn gyffredin uwchlaw saith neu wyth o draethodau mewn un rhifyn, er fod pob rhifyn yn costio cymaint bedair gwaith a'r "Traethodydd?" Pa fodd bynag, gellid meddwl y bydd ein had-olygiadau ar y "Cyhoeddiadau Cyfnodol" yn cyd-daraw ág archwaeth y Cymro mwyaf byr ei anadl; oblegid y mae pob un wedi ei wneyd i fynu o amrywiaeth o wahanol erthyglau, a'r rhai hyny yn hufen y Grealon Cymreig. Os tybia neb ein bod wedi manteisio mwy nag a ddylasem ar y rhagorfraint a berthyn i'r swydd olygiaethol, trwy roddi gormod o ddyfyniadau o'r llyfrau a adolygid, nid oes genym ond dadleu fol dyleithrwech y Cymry i'r llyfrau hyny yn ddiagon o esgusawâ.

Wedi i ni ysgrifenu hyny o sylwadau a wnaed genym yn yr ysgrif uchod, cawsom ddau o lythrau eraill yn cynnyg benthg y rhifyn olaf o'r "Cylechgrawn," am y rhai yr ydym yn dychwelyd ein diolchgarwech.

Derbyniasom hefyd ohebiaeth oddiwrth y Parch. W. Rowlands, y gweinidog Wesleyaidd, yn awr yn Machynlleth, mewn perthynas i olygiaeth y "Cylechgrawn." Y mae efe yn tueddu i foddwl mai nid Morgan ab Ioan Rhys oedd y golygydd, oblegid fod hanes y Bedyddwyr yn y Deheudir yn dywedyd mai yr "Eurgrawn Efengylaidd" a olygid ganddo, mewn cysylltiad ág un arall o weinidogion y Bedyddwyr. Gan fod Mr. Rowlands yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn hanes llenyddiaeth y Cymry, parodd ei lythyr i ni ail-ystyried y pwnc: ond yr unig effaith a gafodd hyny oedd ein gwneyd yn fwy diysgog yn ein crediniaeth mai Morgan ab Ioan Rhys oedd golygydd, neu o leiaf *prif-olygydd* y "Cylechgrawn." Nid yw y ffaith ei fod ef yn golygu yr "Eurgrawn" yn un prawf *nad* oedd yn golygu y "Cylechgrawn." Ond o'r tu arall, y mae genym y rhesymâu canlynol dros gredu *ei fod* yn golygu y "Cylechgrawn."

1. Tystiolaeth yr hen bobl. Yr enw a glywsom gan amryw o honnt ar y "Cylechgrawn" oedd "*Magazine* Morgan Rhys."

2. Arferid rhoddi rhyw enw yn y "Cylechgrawn" wrth yr holl erthyglau oddiwrth ohebwy. Ond ymddangosodd ynddo erthygl heb un enw ar "Hanes Crefydd yn America," yn yr hon erthygl y mae yr ysgrifenydd yn arfer y rhagenw golygyddol "Ni." Er anghraifft, dywedir ynddi, "Rhy faith fyddai i *ni* roi hanes pa fodd y cafwyd y lle ffrwythlon hwn allan ar y cyntaf." Argraffwyd yr hanes hwn, gydag ychwanegiadau, yn llyfryn bychan, yr hwn sydd yn awr yn ein meddiant; ac yn ei ddechreu dywedir ei fod wedi ei ysgrifenu gan Morgan ab Ioan Rhys.

3. Ar ddiwedd y llyfryn hwn o waith Morgan ab Ioan Rhys, neu Rhys, y mae hysbysiad am ychydig lyfrau ar werth gan yr awdwr, yr hwn y mae yn eglur nid oedd yn werthwr llyfrau wrth ei grefft; ac yn eu plith y mae y “Cylchgrawn.”

Gyda golwg ar weithrediadau Morgan ab Ioan Rhys yn America, cawsom hyd i'r hyn a ganlyn yn y rhifyn cyntaf o'r “Greal, neu Eurgrawn, sef Trysorfa Gwybodaeth,” yr hwn a ddaeth allan yn Nghaernarfon, Ionawr 10fed, 1800, dan olygiad Ieuan ap Rhisiart, Bryneroes. Hysbysir fod y llythyr wedi dyfod oddiwrth Gymro yn drigiannol yn agos i Gaerefrog Newydd, at ei gyfaill yn sir Gaernarfon. Ni roddir un enw wrtho, ond “*True Britton*.” Y mae wedi ei ddyddio Ebrill 20fed, 1800; ond rhaid fod hyn yn gamgymeriad. Nid yw yr ysgrifenydd yn haeddu nemawr grediniaeth; oblegid hawdd gweled ei fod dan lywodraeth rhagfarn gref. Ond barnasom mai teg yw rhoddi y dyfyniad a ganlyn, gyda hyn o rybydd, ger bron ein darllenwyr.

“M—N R—S, yn y flwyddyn 1796, a gasglodd, yn y mis Mehefin, yr wyf yn tybied, lawer o gantoedd, os nid miloedd, o *ddolars*, i brynu tir i'r Cymry ar gyffiniau yr afon Ohio: yr arian hyn, y rhan fwyaf, yr oedd wedi eu cael gan Gymry tlodion, y rhai oeddent wedi eu hynnill yn galed, wrth lafur eu dwylaw yn York, Philadelphia, a Baltimore. Gwyl-mihangel diweddfaf yr un haf, efe a gymer'h daith drachefn i'r gorllewin, i esgys prynu yr unrhyw dir; dychwelodd yn ol oddeutu Calangauaf, gan wneud gwag-egsodion am dir yr Ohio; ac a brynodd dir ar yr *Aliganni-mountain*, sef mynydd-dir na phrynasai neb ond Cymry mo hono: a chymaint ac a gafwyd ac a geir (mae'n debyg) gan y gwr uchod, am dir yr Ohio, ydyw siarad am dano; a pha beth a wnaeth a'r arian ni's gwyddis. Dyma'r gŵr ac oedd yn rhoddi cymaint clod i'r America, yn y ‘Cylchgrawn,’ ac yn annog y Cymry drawsglwyddo eu hunain yno, er ei fudd a'i elw ei hun, mae'n debygol. Mae newyddion sal iawn am ei ddisgyblion hyd y dydd hwn. Pedwar ugain milltir o Fortpitt, ac oddeutu dau cant a hanner o Philadelphia; a'r tir yno yn ddau *ddolar* yr *Acr*; a pha fodd y telir am dano mor bell o farchnad, (os byth y dwyn y tir gnydau) heb na mor nac afonydd yn agos?”

Mewn cyferbyniad i'r enllib uchod, yr hwn sydd yn gwrthbrofi ei hun, rhoddwn yma yr hanes a geir am yr un gwr, gan Dr. J. Evans, ar ddiwedd y “*Cambro-British Biography*.”

“Yn Penygarn (gerllaw Pontypool, sir Fynwy) bu y Parch. Morgan J. Rhees yn llafurio gyda ffyddlondeb a medrusrwydd. Aeth oddi yno i America, lle y derbyniwyd ef gan Dr. William Rogers, gyda'i diriondeb a'i garedigrwydd arferol, a lle y bu farw yn 1804, yn nghanol ei ddefnyddioldeb a'i weithgarwch, er galar i gylch lliosog o gyfeillion ac i'w weddw a'i deulu trallodedig. Ni fu un gweinidog trwy Gymru yn deall egwyddorion Ymneillduaeth yn fwy llwyr, ac yn eu dadleu yn fwy hyf. Hawl pob dyn i farnu drosto ei hun, a digonolrwydd yr Ysgrhythrau Sanctaidd oedd ei bynciau hoff, ar y rhai y traethai gyda gwresogrwydd diffino. Gwyddai mai dyma sylfaen Protestaniaeth a gogoniant Cristionogaeth Ysgrhythrol. Un o'i

“feibion, trwy gyfrwng Dr. Rogers o Philadelphia, a ddanfonodd i'r cyhoeddwr fedd-
 argraff ei dad hybarch, wedi ei gymeryd ganddo o'r gareg fedd yn y gladdfa sydd yn
 perthlyn i Eglwys gyntaf y Belyddwyr yn y ddinas hono. Bydd ei ymddangosiad
 yma yn foddhad i'w gyfeillion llisog yn y Dywysogaeth.”

A TRIBUTE OF AFFECTION,
 IN MEMORY OF
THE REV. MORGAN JOHN RHEES
 A NATIVE OF
 GLAMORGANSHIRE, SOUTH WALES,
 Born December 8th, 1760,
 WHO DIED
 AT SOMERSET, PENNSYLVANIA,
December 7th, 1804.

The Patriot desisted from the service of his adopted country
 The Christian ceas'd in this Tabernacle to groan,
 The Preacher of Jesus finished his testimony!

*In 1806, his Remains were removed to this Family Vault,**

FROM WHENCE
 THE GOSPEL OF JESUS INSURES
 A RESURRECTION.

“Come waft on high!” the heavenly envoys cry,
 “We wait to bear thy spirit to the sky;”
 We heard with transport, bade the world adieu—
 On their bright pinions up to heaven he flew!
 Now in the bosom of his Saviour God
 He finds a calm, a joyful, safe abode—
 His precious dust, here mingling with the ground,
 Rest *hopeful*, till the Archangel's trumpet sound;
 Then fashion'd like its Lord the soul shall see
The Mortal put on IMMORTALITY!—
 Adieu lov'd friend—soon shall our spirits meet,
 And cast their radiant crowns at Jesus' feet!”

Deallwn fod Dr. Phillips wedi cael dyddlyf i Morgan ab Ioan Rhys
 yn America, ac wedi casglu llawer o'i hanes, ac hefyd fod yr hanes a'r
 dyddlyfr yn cael eu cyhoeddi yn ‘Cylchgrawn.’ Mae y gwasanaet-
 hwn yn teilyngu ein diolchgarwch fel cenedl.

* Of the Loxleys, into which he married.

LLENYDDIAETH A GWYDDIANT.

UN o arwyddion yr amserau yn y dyddiau hyn yw y rhagfarn cynnyddol a ddangosir yn erbyn yr ieithoedd clasurol. Y mac hyn yn tarddu i raddau oddiwrth liosawgrwydd y darganfyddiadau diweddar yn y byd anianyddol; a dichon ei fod hefyd yn effaith gwrthdarawiad naturiol yn erbyn y parch gormodol a delid i ddysgeidiaeth yn yr oesau a aethant heibio, mewn cymhariaeth i'r gwyddiannau. Buwyd unwaith yn edrych yn rhy ddirmygus, ac hyd yn nod yn ddrwgdybus, ar bob ymchwiliadau i ddeddfau natur. Bu seryddiaeth a fferylliaeth yn wrth-ddrychrau rhagfarn cyffredin: ond y maent hwy yn awr wedi ennill eu lle, ac yn cadw meddiant o hono heb ddim gwrthwynebiad. Nid yw daeareg eto wedi cyrhaedd y safle hwn; ond y mae hithau yn sier o ddyfod o'r brwydrau yn fuddugoliaethus, er efallai y bydd raid iddi roddi i fynu amryw o'r hawliau y mac rhai o'i hamddiffynwyr yn dadleu drostynt. Y perygl yn awr ydyw, i'r newydd ormesu ar derfynau yr hen, yn lle ymfoddloni ar y tiriogaethau helaeth nad oedd neb wedi cymeryd meddiant o honynt. Y mae llawer o amddiffynwyr y gwyddiannau yn dangos awydd i ddiorseddu llenyddiaeth, yn enwedig llenyddiaeth yr hen oesoedd, ac yn dadleu y dylid alltudio Groeg a Lladin o'r ysgolion er mwyn cael lle i bethau eraill sydd yn ymddangos iddynt hwy yn fwy buddiol.

Y prif reswm a ddygir ymlaen o blaid y gwyddiannau, ac yn erbyn llenyddiaeth, yw sierwydd y naill ac ansierwydd y llall. Nid yw yn hollol gywir i ni gyfrif rhifydddeg gyda'r gwyddiannau; ond caniatawn hyny er mwyn rhoddi pob mantais i wrthwynebwyr llenyddiaeth. Ac y mae yn rhaid addef fod yma sierwydd. Beth bynag a ammheuir, nis gellir ammheu yr hyn a brofir trwy rif a mesur. Ac os cymerir y gwyddiannau mewn ystyr mwy priodol, y mae llawer o honynt erbyn hyn, neu ranau o honynt o'r hyn lleiaf, wedi eu deall yn drwyadl, a'u dwyn i eglurdeb diammheuol. Cymerweh un o'r llyfrau goreu ar ddeddfau seryddiaeth, yr ydych yn rhwym o gredu cywirdeb yr ymresymiaidau.

Onid pa fodd y mae mewn llenyddiaeth? Nid oes yma yn y bedwar edd-ganrif-ar-bymtheg fwy o sicrwydd nag oedd yn amser yr ysgrifenywyr boreuaf. Er yr holl lafur nid yw yn ymddangos fod dim eto wedi ei orphen. Mewn ymchwiliadau anianyddol y mae dynion yn dyfod o'r diwedd i gytundeb â'u gilydd; ond mewn materion moesol nid oes un arwydd y deuant byth i gydweled. Am ychydig amser y maent yn rhedeg ar ol Hamilton, yna ar ol Mill, wedi hyny yn myned yn ol at Coleridge, nes y mae yn anhawdd gwybod pa beth i'w gredu. Mewn barddoniaeth drachefn, a beirniadaeth, nid oes genym un safon sefydlog. Y mae rhai yn canmawl Tennyson; ond dywed eraill fod Browning yn rhagori. Bu Jeffrey unwaith yn benaeth y beirniaid, ond erbyn hyn nid oes neb bron yn darllen ei waith. Bu Macaulay yn dra phobl-ogaid, ond dechreuant sibrdw ei fod yntau wedi ei godi yn uwch na'i haeddiant. Mae yn amlwg fod yma wahaniaeth hanfodol, yr hwn sydd yn achosi fod mantais neillduol yn perthyn i'r gwyddiannau fel testunau efrydiaeth. Nid ydym am guddio y fantais hon, nac am wadu buddioldeb y gwyddiannau fel y mae gwybodaeth drylwyr o honynt yn rhoddi meistrolaeth sier i ryw fesur ar anian a'i deddfau.

Pe na buasai a fyno dyn ond yn unig â'r byd anianyddol ni fuasai genym ychwaneg i'w ddywedyd. Buasai y cwbl wedi ei benderfynu ar unwaith, a dyledswydd pawb fuasai rhoddi eu holl fryd ar y gwyddiannau, heb drafferthu eu hunain gyda ieithyddiaeth, na hanesyddiaeth, na barddoniaeth, na moes-ddysgeidiaeth, na duwinyddiaeth. Ond os oes byd moesol yn bod, ac os yw y byd hwnw yn fwy ac yn uwch na'r byd anianyddol, y mae hyn yn rhoddi goleu newydd ar yr holl achos: a dichon nad yw y gwahaniaeth gyda golwg ar sicrwydd y naill ac ansicrwydd y llall ond yr hyn sydd yn tarddu yn anghenrheidiol o'r gwahaniaeth rhwng yr anianyddol a'r moesol. Gall ein bod yn sier yn nghylch yr anianyddol o herwydd ei fod yn llai, ac yn ansicr yn nghylch y moesol o herwydd ei fod yn fwy. Pan fyddo dyn yn llywodraethu peirianwaith y mae yn gwneuthur hyny gyda sicrwydd, ac yn medru rhagddywedyd ei symudiadau gyda'r manylrwydd mwyaf: ond pan fyddo ganddo fodau dynol dan ei lywodraeth y mae elfenau ansicrwydd yn dyfod i mewn; ac er hyny y mae llywodraethu dynion yn uwch swydd na llywodraethu peiriannau. Mae yn wir fod dynion dan lywodraeth deddfau, yn enwedig yn yr achosion lleiaf sydd yn perthyn iddynt, ac i'r graddau hyny gellir ffurfio gwyddiant i esbonio eu symudiadau. Ond po uchaf fyddo yr achos, mwyaf anhawdd

yw cyrhaedd sierwydd yn ei gylch ; ac nid yw yn ormod dyweyd am y materion sydd yn dyfod dan sylw yn gyffredin mewn ysgrifeniadau llenyddol eu bod yn ansicr oblegyd eu bod yn anfesurrol. Er hyny, y mae sierwydd o natur uwch, sef sierwydd moesol, yr hwn yw yr unig sierwydd y gallwn ei gael yn ein hymdriniaethau â'n cyd-ddynion ; ac y mae hyn yn rhoddi gwerth arbenig ar lenyddiaeth. Pe na buasai genym ddim i'w wneuthur ond trin peiriannau, buasai y gwyddiannau yn ddigon : ond y fynyd gyntaf y llefarwn air wrth ein cyd-ddynion, yr ydym yn dyfod i gyffyrddiad â gwirionedd a chyfiawnder, ac yn cael ein hunain yn myd yr egwyddorion moesol sydd yn gwneyd i fynu y rhan fwyaf o lenyddiaeth yr oesoedd.

Ymddengys gan hyny fod y rheswm penaf a ddygir ymlaen i ddangos rhagoriaeth y gwyddiannau yn profi i'r gwrthwyneb, wrth ei chwilio yn bwyllog, ac yn ein harwain at un o'r rhesymau cadarnaf o blaid llenyddiaeth. Wrth lenyddiaeth y golygwn, yr efrydiaethau hyny sydd yn dwyn perthynas yn fwyaf neillduol â dyn fel dyn ; y rhai, oblegid hyny, a adnabyddir yn y prif-ysgolion wrth yr enw *Literae Humaniores*. Dyma yr efrydiaethau sydd yn cyfarfod â gofynion dyn fel bôd moesol, ac yn tueddu i ddiwyllio a choethi ei holl feddwl. Hyd yn nôd pe cyfyngem ein sylw at y galluoedd ymresymiadol, y rhai y dywedir fod efrydiaethau gwyddiannol yn eu cryfau mewn modd arbenig, meddyliem y dylid rhoddi y flaenoriaeth i lenyddiaeth. Teimlwn ar yr un pryd y dylem ofalu rhag pob haerriad eithafol ; ac nid ydym yn gwadu nad oes manteision neillduol yn perthyn i'r ymchwil-iadau hyny yn y rhai y mae sierwydd yn gyrrhaeddadwy. Efallai mai y brif fantais ydyw trefnusrwydd, ac yn ddiau nid mantais fechan ydyw hon : a braidd na feddyliem mai dyma yr achos fod y Ffrancod yn rhagori mewn trefnusrwydd ar bob cenedl arall. Pa fodd bynag, y mae yma reswm da dros annog dynion ieuaine i roddi rhyw gymaint o'u hamser i efrydu y gwyddiannau, ac i fod yn gyfarwydd yn egwyddorion rhif a mesur, pe na byddai dim mewn golwg ond eu dysgu i feddwl yn drefnus. Ar yr un pryd y mae hanes y Ffrancod yn dangos y perygl sydd yn nglyn â'r fantais hon. Y maent hwy wedi eu dysgu o'u mebyd i amcanu yn mhob peth at drefnusrwydd *mathematical* ; o ganlyniad y maent wedi arfer edrych ar eu gilydd, ac o'r diwedd wedi myned i edrych arnynt eu hunain, fel cynnifer o beiriannau. Mae yn anghenrheidiol cofio o hyd fod rhywbeth mewn dyn nas gellir ei fesur na'i bwysu. Wrth ymresymu yn nghylch dyn a'i weithredoedd y mae

yn rhaid cymeryd y meddwl i'r cyfrif, y mae yn rhaid rhoddi lle i'r gydwybod a'r ewyllys, neu yr ydym yn sier o fethu. Er i bob darn o'r ymresymiad fod yn ei le yn berffaith drefnus, ac er i'r cwbl gyda'i gilydd fod yn gadarn fel y graig, eto os bydd yr egwyddorion moesol wedi eu gadael allan, yr ydym yn teimlo fod yno ddiffyg mwy andwyol na'r diffyg hwnw a barodd i Robert ap Gwilym Ddu ofyn, "Plwm yw yr hin; p'le mae'r haul?" Diammheu fod rhyw fath o lenyddiaeth yn niweidiol, fel y mae goleuni yr haul yn effeithio yn ddrwg mewn rhai amgylehiadau. Ond nid yw hyn yn profi dim namyn yr anghenrheidrwydd i wahaniaethu yn ofalus rhwng llyfrau drwg a llyfrau da. Ac os edrychir ar y mater yn bwylllog gwelir mai yr hyn sydd yn galluogi llenyddiaeth i fod yn waeth na'r gwyddiannau yw yr hyn sydd yn ei galluogi hefyd i fod yn well, megys mai yr un achos sydd yn ei gwneuthur yn alluadwy i ddyn fod yn waeth ac yn well na'r anifel, sef y ffaith o'i fod yn greadur moesol. Gellir casglu gan hyny fod mwy o synwyr nag y mae llawer yn dybied yn ngwaith yr hen bobl yn gosod cymaint o bwys ar ddysgu llyfrau mewn ysgolion, heblaw pethau. Os oes ar ddyn ieuane eisieu dysgu ymresymu, rhodded fisoedd ar fisoedd i ddarllen rhai o'r llyfrau goreu mewn unrhyw iaith, megis Hooker's *Ecclesiastical Polity*, Howe's *Living Temple*, neu Jonathan Edwards ar yr Ewyllys. Buddiol fyddai ei fod yn hyddysg cyn hyny yn Euclid, neu ryw waith da ar Resymeg er mwyn bod yn feistr ar y drefn a'r ffurf o ymresymu. Ond wrth fyned at y llyfrau a enwyd y mae yn esgyn uwchlaw y ffurf at y sylwedd, ac yn dysgu cymhwyso y gallu o ymresymu at y materion uchaf sydd yn perthyn i ddyn fel bôd moesol.

Ond y mae mwy mewn dyn na gallu i ymresymu. Y mae yn anghenrheidiol deffro ei grebwyll, a phuro ei chwaeth at y prydferth. Dyma amcan barddoniaeth; nid pob peth a elwir yn farddoniaeth yn yr oes hon, ond yr hyn sydd yn wir deilwng o'r enw. Dadleuir weithiau yn erbyn llyfrau barddonol eu bod yn llawn o ddechymygion, ac am hyny nas gallant fod yn werth eu darllen. Wrth chwilio, meddir, i'r byd anianyddol, yr ydym yn dyfod o hyd i wirionedd; ond yn holl ysgrifeniadau y beirdd, o Homer i lawr, nid oes ond eruglwyth o gelwyddau. Nid yw yr holl ddesgrifiad o ryfel Caerdroia yn Homer ond dyfais y bardd: ac nid yw yn debyg fod y fath ddynion â Hamlet, neu Lear, neu Macbeth, wedi bod erioed fel y darlunir hwy gan Shakspeare. Ond y mae yr holl ddadl hon wedi ei sylfaenu ar gamgymeriad. Y mae pob barddoniaeth ddiledryw yn wir; ac i'r graddau y mae unrhyw

gyfansoddiad dan yr enw barddoniaeth yn pelláu oddiwrth y gwir, i'r graddau hynny y mae yn pelláu oddiwrth fod yn farddoniaeth. Y mae yn wir, nid am ryw bersonau, ac am ryw oes, ond am y natur ddynol yn mhob oes. Y mae disgrifiadau yr hen feirdd yn wir heddyw, ac y mae profion beunyddiol o'u gwirionedd i'w cael o'n hamgyleh. Y maent mor wir â'r traethodau goreu ar seryddiaeth, neu ddacareg; gyda hyn o walianiaeth, fod y gwirionedd yn ngwaith y beirdd yn wirionedd o ansawdd llawer uwch na dim a geir yn y ser na'r creigiau. Y mae hefyd o ansawdd uwch na llawer o'r hyn sydd yn wir am bersonau. Y mae i bob person ei hynodion; a phe rhoddid disgrifiad cywir o'r hynodion hynny, ni fyddai yn wir am bersonau eraill. Ond y mae y beirdd goreu yn esgyn uwchlaw yr hyn sydd wir mewn rhyw amgylchiadau at yr hyn sydd wirionedd cyffredinol, yr hyn o ganlyniad y mae pob darlennydd yn teimlo ei fod yn dwyn perthynas ag ef ei hun.

Yn nesaf at farddoniaeth, fel rhan o lenyddiaeth, gellir nodi ysgrifeniadau y prif areithwyr. Y rheol flaenaf a'r bwysicaf mewn areithyddiaeth yw *dilyn natur*; ac heb hynny nid yw celfyddyd na dysgeidiaeth yn ateb un dyben. Ond y mae natur yn gyffredin yn pleidio y mwyaf vmdrechgar; ac amean pob dysg yw dwyn natur i weithrediad. Nid oes neb yn fwy annaturiol gyda phob gwaith na'r dyn sydd heb ddysgu. Edrychwch ar y bachgen yn ceisio ysgrifenu am y tro cyntaf; mor annaturiol y mae yn ymaflyd yn yr ysgrifell, ac mor annaturiol yw holl agwedd ac ystum ei gorff. Felly mewn areithyddiaeth nid oes neb yn cyfansoddi yn naturiol heb lawer o lafur i ddysgu: a'r ffordd sicraf i ddysgu yw trwy ddarllen y cyfansoddiadau goreu sydd i'w cael o waith y prif areithwyr. Nid yw hyn yn cau allan amrywiaeth; oblegyd y mae amrywiaeth yn mysg yr areithwyr goreu, trwy fod yr hen gyfansoddiadau areithyddol, fel yr adeiladau clasurol, yn fwy syml, tra y mae cyfansoddiadau rhai o'r areithwyr diweddaraf, fel adeiladau y canoloesoedd, yn fwy addurniadol. Ond pa un ai hen ai diweddar, y mae un peth i'w ddysgu oddiwrthynt oll, sef nad oes dim i gael lle mewn araeth, mwy nag mewn adeilad, heb ei fod yn anghenrheidiol. Os bydd rhyw ddarn yn anghenrheidiol, gellir ei wneyd mor addurniadol ag y byddo modd; ond y mae yr anghreiffitiau goreu yn ein dysgu nad oes un darn i fod mewn adeilad er ei fwyn ei hun yn unig, dim na fyddo yn effeithiol mewn rhyw radd i wneuthur y cwbl yn fwy cadarn neu yn fwy prydfertth; na dim i fod mewn araeth er mwyn

ymddangosiad yn unig, dim y gellir ei adael allan heb fod hyn y ryw raddau yn gwanáu neu yn anurddo yr holl gyfansoddiad. Pa addurniadau bynag a ychwanegir, dylid gofalu na fyddont yn gwrthdaraw yn erbyn unoliaeth y cyllun, nae yn tynu oddiwrth y symledd sydd yn perthyn i bob arddull clasurol. Ac y mae hon yn wers nas gellir ei dysgu heb lawer o lafur.

Rhan arall o lenyddiaeth ydyw hanesyddiaeth. Nid ydym yn dymuno dywedyd un gair i ddiystyru daeareg, yr hon sydd yn rhoddi hanes y ddaear, a'r cyfnewidiadau aruthrol sydd wedi ei dwyn i'r wedd sydd arni. Ond os yw hanes y creigiau yn deilwng o efrydiaeth, onid yw hanes dyn yn fwy pwysig? Pa beth oedd y cyfnewidiadau yr aeth y ddaear drwyddynt ond darpariaethau tuag at ei gwneyd yn addas i ddyn ei phreswyllo? Ac wedi'r cwbl, onid oes mwy o Dduw i'w weled yn y byd moesol nag yn y byd anianyddol? Siaredir weithiau fel pe byddai pob cyfnewidiad yn y byd moesol yn cael ei ddwyn oddiamgylch gan ddynion yn annibynol ar Dduw, ac fel pe byddem yn dyfod i fwy o agosrwydd at y Creawdwr wrth chwilio am dano yn ngwaith y greadigaeth ddiroswm. Ond os cydnabyddwn lywodraeth Duw ar y byd, bydd yn rhaid i ni addef ei fod yn dyfod i'r golwg mewn ystyr uwch yn hanes dynolryw nag yn hanes y creigiau a'r holl amrywiaeth o greaduriaid a ddarganfyddir ynddynt. Yr hyn a ddysgir gan ddaeareg ydyw, fod llywodraeth berffaith yn cyrhaedd trwy holl bellder amser, fel y mae seryddiaeth yn dysgu fod yr un llywodraeth yn cyrhaedd trwy holl bellder lle. Y mae pob gwers mewn daeareg yn dangos trefn yn cael ei dwyn allan o anhrefn, a'r galluoedd cryfaf mewn natur yn rhoddi ufudd-dod cyson i ddeddfau. Ac yn ddiau nid caffaeliad bychan i ddyn ydyw gweled trefn a rheol yn nghyflead a ffurfiad y creigiau, lle nad oedd yn tybied o'r blaen fod dim ond tryblith a damwain. Am y wybodaeth werthfawr hon yr ydym yn ddyledus i ddaeareg. Ond ar ol sylwi ar drefnusrwydd y preswylfod, yn nghyd a hanes y gwaith o'i adeiladu, onid yw yn werth i ni chwilio i hanes y preswylwyr, a hanes eu henafiaid? Ni ddaeth y rhai hyn at eu gilydd trwy ddamwain, mwy na'r meini sydd yn yr adeilad, ac nid ydynt yn byw gyda'u gilydd heb ryw reolau a threfniadau. Y mae trefn i'w gwled yn hanes ieithoedd; y mae trefn uwch yn hanes teyrnasoedd; ac y mae trefn uwch drachefn yn hanes egwyddorion a barnau. Ond yn y byd moesol, fel yn y byd anianyddol, yr ydym ar rai amserau yn canfod nerthoedd yn tori allan o ddyfnderoedd y natur ddynol, ac yn rhoddi bod i gyfnod

newydd yn hanes dynoliaeth, a'r cyfryw nerthoedd yn cydweithredu a'r deddfau sydd yn eu llywodraethu i ddwyn y byd i well trefn. Nid yw y gwersi hyn wedi eu dysgu mor fanwl hyd yma yn y byd moesol ag yn y byd anianyddol: ond yr achos o hyn ydyw, fod meddyliau dynion, a'r deddfau y maent yn ddarostyngedig iddynt, yn fwy uchel, ac yn fwy anhawdd eu hamgyffred, na holl wrthddrychau a deddfau y byd gweledig.

Onid os dymunem gael golwg eang ar hanesyddiaeth, y mae yn rhaid i ni fyned yn ol at hanes Groeg a Rhufain; oblegyd iddynt hwy yn benaf yr ydym yn ddyledus am ein gwareiddiad. Ystyrid mai nid ofer oedd y llafur i chwilio am y llynoedd lle y cychwynai afon yr Aipht, er y galleid ffurfio barn am ansawdd y dwfr heb wybod o ba le yr oedd yn tarddu: ond nis gellir deall cyfroithiau, a sefydliadau, a syniadau yr oes hon heb wybod rhywbeth am ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, mwy nag y gellir deall iaith heb wybod y wyddor. Efallai y byddai hyn yn fwy goleu pe cymerid golwg gymhariaethol unwaitl eto ar hanesyddiaeth a daeareg. Y mae pawb sydd yn gyfarwydd â daeareg yn gwybod fod perthynas achos ac effaith rhwng yr hyn sydd a'r hyn a fu, fel nas gellir deall trefn ac agwedd y creigiau yn yr oesoedd hyn heb gymeryd i ystyriaeth y cyfnewidiadau yr aethant drwyddynt mewn rhyw oesoedd blaenorol. Ond os oes cysylltiad rhwng gwahanol gyfnodau yn hanes y ddaear, y mae cysylltiad mor agos rhwng y gwahanol haenau o ddynion sydd wedi bod yn byw ar ei gwyneb. Y mae yn hen sylw mai y ffordd gywiraf i edrych ar ddynolryw ydyw fel un person; ac fe wyr pawb fod yr hyn a wna dyn pan yn ieuanc yn sier o effeithio ar ei holl fywyd.

Rhan arall o lenyddiaeth, yr hon nid yw yn llai pwysig na'r un o'r lleill, ydyw athroniaeth. Ond tuag at weled ei phwysigrwydd, y mae yn anghenrheidiol deall yn gyntaf pa beth ydyw; ac er mwyn deall pa beth ydyw, dylid cau allan o gynnwys y gair yr holl wybodaethau am ddeddfau natur. Nid oes y fath beth yn bod â *natural philosophy*. Os cymerir athroniaeth am *philosophy*, fel y gwneir yn gyffredin, yna y mae yn rhaid i ni dybied mai ystyr y gair ydyw, awydd ac ymchwiliad am ddoethineb, yr hyn sydd yn dwyn perthynas uniongyrchol ag ymarferiad, ac yn golygu iawn ddewisiad; neu yn ol esboniad yr hen athronwyr, y mae yn cynnwys ymgais am y daioni penaf. Dyben athroniaeth ydyw dysgu dyn pa fodd i fyw fel bôd moesol. Tuag at gyrhaedd y dyben hwn y mae yn anghenrheidiol dangos yn gyntaf ei

fod yn meddu ewyllys a rheswm, ac nis gellir gwneyd hyny heb ymofyn pa beth ydyw ewyllys, a pha beth ydyw rheswm, yr hyn sydd yn arwain at holiadau lawer am ddeddfau y meddwl, ond y cwbl gyda golwg ar wirioneddau moesol, a dyledswydd dyn fel creadur rhesymol. Felly er fod athroniaeth yn mhell oddiwrth fod yn gyfundrefn o dduwinyddiaeth, eto y mae perthynas mor agos rhyngddynt fel y mae athroniaeth pob oes yn effeithio ar ei duwinyddiaeth. Os collir yr ysbrydol mewn athroniaeth, yr ydym yn sier o golli yr ysbrydol mewn duwinyddiaeth; ond tra y cedwir athroniaeth yn ei lle priodol, y mae yn arwain y meddwl diragfarn i roddi derbynriad i wirioneddau y Bibl. Efallai yr ymddengys i rai, os hyn yw athroniaeth, nad oes ynddi ddim nad yw yn cael ei ddysgu yn y Bibl, a hyny gyda mwy o oleuni ac awdurdod. Ond nid yw y casgliad hwn yn hollol gywir; oblegyd nid amcan y Bibl yw ein dysgu am ddyn fel creadur rhesymol, na'n dysgu am ddim arall y gallasem ei gyrhaedd trwy rym ein cynneddfau naturiol. Fe'i rhoddwyd i ddybenion llawer uwch; ac y mae yn rhagdybied y cwbl a ddysgir gan wir athroniaeth. Os darostyngir y Bibl i fod yn llyfr o gyfundraeth foesol yn unig, yna ni fydd Cristionogaeth yn ddim amgen nag athroniaeth; ond os cedwir y Bibl yn ei le hun fel dadguddiad o wirioneddau a ffeithiau nas gallai dyn gyrhaedd gwybodaeth o honynt trwy rym rheswm, yna bydd cymaint o wahaniaeth o hyd rhwng athroniaeth a Christionogaeth ag sydd rhwng y naturiol a'r goruwchnaturiol.

Pe cymerem olwg hanesiol ar y mater hwn eto, efallai y deuai y berthynas rhwng athroniaeth a duwinyddiaeth yn fwy eglur. Os credwn fod y byd yn cael ei lywodraethu gan ddoethineb ddwyfol, y mae yn rhaid i ni gymeryd yn ganiataol fod rhyw amcan gan Ragluniaeth wrth achosi fod athroniaeth wedi cyrhaedd safle mor uchel, ac wedi cael derbynriad mor gyffredinol, yn flaenorol i sylfaeniad y grefydd Gristionogol. Gellir tybied mai un amcan oedd dangos fod gwahaniaeth a phellder anfesurol rhwng Cristionogaeth ac athroniaeth; oblegyd wrth ddyfod at y Bibl oddiwrth yr athronwyr goreu, yr ydym yn dyfod i fydd newydd; ac eto y mae yn rhaid addef na fu athroniaeth erioed yn uwch nag y ceir hi yn ysgrifeniadau Plato ac Aristotle. Os cymerir eu gwaith hwy yn lle y dadguddiad dwyfol, gwnawn gam dirfawr â hwy yn gystal ag â'r Bibl; oblegyd nid oedd neb yn fwy parod na hwy i gydnabod eu hanallu i ddyweyd dim yn benderfynol am Dduw a byd arall. Ond fel arweinyddion rhagbarotoawl i ddysgyblu

y meddwl gallant fod yn dra gwasanaethgar, a phe dywedid nad oes dim cyfansoddiadau dynol yn fwy gwasanaethgar, ni fyddai hyny yn fwy nag a ganiateir gan y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn alluog i ffurfio barn gywir ar y mater. Ni cheir mewn un llyfr, oddieithr y gyfrol Sanctaidd, fwy o waith i'r meddwl nag a geir ynddynt hwy. Yn Plato yn enwedig cyfarfyddir yn fynych â'r syniadau mwyaf arddunawl am foesoldeb ac anfarwoldeb, am ddyn yn bersonol a gwladwriaeth yn gyffredinol. Yr oedd y byd hwn mor annigonol i lenwi ei feddwl fel yr oedd yn teimlo fod yn rhaid fod byd ysbrydol, er nad oedd ganddo ddim i'w ddywedyd yn sier am y byd hwnw. Meddyliai fod dynolryw yn y byd hwn wedi eu cau mewn ogof, lle nas gallant weled dim ond cysgodion y gwrthddrychau sydd y tu allan. Yr oedd yn teimlo fod y cwbl a welir yn dyfod ac yn myned, a'i waith ef yn barhaus oedd chwilio trwy y cyfnewidiol am yr anghynewidiol, yr hwn a ganfyddir, nid â synwyr corfforol, ond â'r meddwl; ac yr oedd yn credu fod gwirioneddau tragwyddol yn y meddwl y rhai a ddygir i'r golwg gan amgylchiadau allanol. Nid oedd athroniaeth Aristotle mor ysbrydol â'r eiddo Plato; ond nid oedd yntau yn cau allan wirioneddau anghenrheidiol ac anghynewidiol fel prif ffynhonell gwybodaeth, ac yr oedd yn mhell oddiwrth gymeryd golwg mor isel ar ddyn, ac ar egwyddorion moesoldeb, ag a wneir yn awr gan yr athronwyr mwyaf poblogaidd yn y wlad hon. Ac o'r hyn lleiaf, nid rhyw draethodau arwynebol sydd ganddo, y rhai y gall dyn eu darllen rhag blaen a'u deall heb un ymdrech, yr hyn sydd un elfen anhebgorol mewn poblogeiddrwydd, ond gweithiau y mae yn rhaid i'r darlennydd alw ei holl gynneddfau i weithrediad os yw yn meddwl dilyn yr ymresymiaadau sydd ynddynt. Cyfarfyddir ynddo â mwy o feddwl mewn un frawddeg nag a geir mewn tudalenau cyfain yn ysgrifeniadau yr athronwyr poblogaidd. A bydd ganddo yn aml liaws o'r cyfryw frawddegau yn un gadwyn, fel nas gellir colli un o honynt heb gollu y cwbl, yr hyn sydd yn peri fod cefydu ei weithiau yn ymarferiad tra chryfaol i'r meddwl, yn enwedig y ddau waith a adnabyddir wrth yr enwau, *Ethics a Politics*. Y fath oedd y parch a deimlid iddo gan Dr. Arnold fel y penderfynodd, pan oedd Dr. Pusey a Newman yn dechreu lefeinio prifysgol Rhydychain, er cymaint oedd ei wrthwynebiad i'w golygiadau hwy, mai gwell oedd iddo anfon ei fab yno yn hytrach nag i Gaergrawnt, oblegyd fod mwy o le yn cael ei roddi yn Rhydychain i Aristotle.

Yr hyn sydd yn ymddangos i rai yn anhawsder ac yn anghysondeb

ydyw fod ysgrifeniadau y dynion hyn yn cael eu canmawl a'u hargymhell o hyd, pan yr addefir eu bod wedi gadael mewn ammheuaeth y prif bethau oedd yn dyfod dan eu sylw. Os nad ellir dysgwyl sierwydd mewn athroniaeth fel y ceir yn y gwyddiannau, eto os yw y byd yn myned yn ei flaen, y mae yn rhesymol dysgwyl i ni nesâu rhyw gymaint at sierwydd yn mhob oes, ac o leiaf fod diffygion yr hen awdwyr yn cael eu gweled a'u gwella gan eu holynwyr. Y canlyniad naturiol ydyw; mai yr awdwyr diweddaraf yw y rhai goreu, ac mai ofer yw yr holl drafferth gyda Plato ac Aristotle. Y mae sail yr ymresymiad hwn yn gywir, ond y mae y casgliad er hynny yn anghywir. Diammheu fod y byd yn myned yn ei flaen, ac eto nid yw yr hen awdwyr yn debyg o gael eu diorseddu. Y mae yma wahaniaeth amlwg rhwng gwyddiant a llenyddiaeth; a'r hyn sydd yn ymddangos ar y cyntaf yn rheswm o blaid y cyntaf ac yn erbyn yr olaf, sydd mewn gwirionedd o blaid yr olaf ac yn erbyn y cyntaf. Er i ehwi gael llyfr ar un o'r gwyddiannau nas gellir canfod ynddo ar y pryd un bai na diffyg, eto eyn pen yehydig flynyddau bydd wedi colli ei ddefnyddioldeb i ryw raddau, a bydd angen am waith newydd a fyddo yn eymeryd i fewn y darganfyddiadau diweddaraf; ond os unwaith y cewch lyfr gwir dda mewn rhyw gangen o lenyddiaeth, nid llyfr poblogaidd yn unig am ryw ysbaid, ond llyfr llawn o feddwl, yna gellwch fod yn lled ddiammheuol na ddaw un llyfr arall byth i gymeryd ei le. Yn yr achosion hyn, fel rheol gyffredin, y sier sydd yn myned heibio, a'r ansier sydd yn aros.

Hwyrach wedi'r cwbl yr ymddengys i rai y gellid ymfoddloni ar gyfieithiadau o weithiau yr awdwyr clasurol, yn lle treulio amser i ddysgu Groeg a Lladin. Erbyn hyn y mae cyfieithiadau da o'r holl awdwyr goreu i'w cael yn yr iaith Saesneg, ac onid doethineb fyddai rhoddi i'r darlleniad o honynt yn yr iaith hono yr amser a fyddai ofynol i ddysgu yr ieithoedd gwreiddiol? Gyda golwg ar y cyffredin y mae llawer o reswm yn y ddadl hon, a phrin y byddai yn werth i neb ddechreu ar y Groeg na'r Lladin, os nad ydynt yn bwriadu eu dysgu yn drwyadl. Y mae llawer o debygolrwydd yn yr ystyr yma rhwng llyfrau a darluniau. Nid synwryol fyddai i neb roddi yr oll a fedd i brynu darlun gwreiddiol o waith un o'r hen baentwyr enwocaf, a byw heb anghenrheidiau bywyd i edrych ar hwnw bob dydd. Byddai yn well i'r cyfryw ymfoddloni ar ryw beth mwyaf tebyg i'r gwreiddiol a fyddo yn gyrhaeddadwy. Er hynny y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng meddu y tebyg a meddu y darlun gwreiddiol, yr hwn wahaniaeth

a ddygir i'r golwg yn fuan mewn flurf arianol pan fyddo arwerthiant yn cymeryd lle. Ond pa beth bynag yw rhagoriaeth y gwreiddiol yn ngwaith yr hen arlunwyr, y mae llawn cymaint o ragoriaeth yn perthyn i gyfansoddiadau gwreiddiol yr awdwyr clasurol. Gall y Cymro sydd yn gyfarwydd â'r Saesneg wneuthur prawf o hyn mewn achos cyffelyb trwy gymharu rhyw awdwr Saesneg â'r cyfieithiad goreu o hono yn Gymraeg. Dywedir weithiau nad yw gwybodaeth o'r iaith wreiddiol yn anghenrheidiol tuag at iawn-ddefnyddio ysgrifeniadau yr haneswyr a'r athronwyr, gan nad yw yr arddull mor hanfodol yn eu gwaith hwy ag yn ngwaith y beirdd a'r arcithwyr. Ond nid yw hyn yn wir oddieithr mewn rhan, oblegyd y mae gan bob un o'r hen awdwyr ei arddull ei hun; ac os gwisgir ef mewn rhyw arddull arall, nid efe ydyw. Heblaw hyny, y mae meddwl yr awdwr yn fynych yn ymddibynu ar ryw air nad oes un i'w gael yn Saesneg na Chymraeg i ddangos yr ystyr yn gyflawn. Y mae terfynau geiriau yn newid, yr un modd â therfynau teyrnasoedd, mewn gwahanol oesoedd. Felly nid yr un ystyr sydd i air yn yr un iaith ar wahanol amserau; ond pan fyddo yr iaith yn newid yn gystal â'r amser y mae yr anhawsder yn llawer mwy, ac wrth geisio rhanu yr ystyr rhwng amrywiol eiriau er mwyn rhoddi cyfieithiad cyflawn y mae ysbryd yr ymadrodd yn fynych yn yn cael ei golli.

Er hyny wrth ddadlueu o blaid yr awdwyr clasurol ni feddylir am annog neb i ddibrisio llenyddiaeth yr oesoedd diweddfaf. Yr hyn a fwriedir ydyw dangos, yn nghanol y berw am natur a'i deddfau, fod yn fuddiol meddwl hefyd am y byd moesol; nid i wrthwynebu y gwyddiannau mewn un modd, ond i'w rhwystro i ormesu ar derfynau llenyddiaeth. O anghenrheidrwydd fe ddylai pob dyn feddu rhyw fesur o wybodaeth am lenyddiaeth ei wlad ei hun. Y mae genym yn yr iaith Gymraeg rai llyfrau y dylai pob Cymro eu hefrydu: a phan ddeuwn yn gyfarwydd â'r iaith Saesneg, yr ydym yn dyfod at lenyddiaeth mor gyfoethog fel y mae yn ein gosod mewn profedigaeth i greu nad oes angen am wybod un iaith arall. Mewn barddoniaeth nid oes un genedl wedi cyrhaedd safle mor uchel â'r Saeson, ac efallai fod ganddynt rai arcithwyr na fu neb yn rhagori arnynt ond Demosthenes yn unig. Ond mewn hanesyddiaeth y maent eto ar ol y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ac mewn athroniaeth nid oes ganddynt neb i'w gymharu am fynyd â Plato neu Aristotle. Ond pe buasant yn rhagori yn mhob cangen o lenyddiaeth, ni fuasai y ffaith yn lleihau nemawr ar y

ddyledswydd o efrydu yr awdwyr clasurol, gan fod hyny yn anhebgorol er mwyn cael golwg gyflawn ar holl diriogaeth y byd moesol. Ac wedi'r cwbl, nid yw yr awdwyr yn llïosog iawn; oblegyd dylem gymeryd llenyddiaeth yn yr ystyr uchaf, yn gystal ag yn yr ystyr helaethaf; ac os eir i chwilio am lenyddiaeth uchel, nid llawer a geir yn dyfod i fynu â'r safon o ddechreu y byd hyd yn awr. Gan hyny y gofyniad ydyw, Pa un sydd oreu, ai darllen pob math o lyfrau sydd yn dyfod allan o'r wasg yn y dyddiau hyn, neu ynte gyfyngu ein sylw yn benaf at y rhai goreu yn mhob oes? Os cymerir y gair "clasurol" yn ei ystyr eangaf i ddynodi y prif awdwyr, hen a diweddar, yna braidd na ellid dywedyd y dylid ymdrechu i ddyfod yn gydnabyddus â'r holl awdwyr clasurol, ac mai gwell fyddai peidio darllen llawer ar waith neb ond yr awdwyr clasurol. O leiaf rhodder y lle blaenaf i'r awdwyr goreu, ac hyd y gellir i'r holl awdwyr goreu yn mhob iaith, yn enwedig y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, gan fod perthynas agos rhyngddynt hwy â llenyddiaeth yr oes hon.

Ond rhag i neb gamsynied, efallai y dylid ychwanegu eto na fwriedir rhoddi ar ddeall yn y sylwadau hyn y dylai pawb efrydu llenyddiaeth yn hytrach na gwyddiant, neu y dylai pawb sydd yn efrydu llenyddiaeth roddi llawer o'u hamser i ddysgu Groeg a Lladin. Da ydyw fod rhai yn rhoddi eu bryd ar y gwyddiannau, er mwyn gwella y byd mewn ystyr allanol. Yr hyn a feddylir ei ddangos yma ydyw, yn gyntaf, er fod gwyddiant yn dda, eto fod llenyddiaeth yn well; yn ail, er mai da ydyw efrydu llenyddiaeth yr oesoedd diweddar, eto mai gwell ydyw cymeryd yr hen gyda'r diweddar; ac yn drydydd, er mai da ydyw darllen yr hen awdwyr Groegaidd a Rhufeinaidd mewn cyfieithiadau, eto mai gwell ydyw ymdrechu i fod yn alluog i ddarllen a mwynâu eu hysgrifeniadau fel y cyfansoddwyd hwynt gan yr awdwyr eu hunain.

Y PUSIAID CYMREIG.*

[*Dadl Bangor, yn cynnwys Sylwadau a draddodwyd mewn Darlith gyhoeddus, ar Anghydfurfiaeth; neu Eglwys Loegr ac Ymneillduaeth. Gan y Parch. J PHILLIPS.*]

“Y MAE YN ddrwg genym bob amser pan y cymero y fath enciliadau le [sef at Babyddiaeth]; ond nid ydym yn gallu dychymygu paham y gwneir cymaint o ddrwg yn eu cylech ag a wneir yn gyffredin. Os a dynion at Ymneillduaeth, yr hyn yn ein barn ni sydd yn ddrwg mwy, canys yna ni all y gwrthgiliwr gael y sacramentau drwy weinyddiad awdurdodol, ni ddywedir dim yn eu cylech; ond, os dychwelant at Babyddiaeth, cynhyrfir yr holl fyd gan gamddarluniadau chwyddedig o'r hyn a osodir allan fel ysgelerder a ffeidd-dra.” Y geiriau hyn sydd gyfieithiad llythyrenol o'r hyn a ymddangosodd yn y “*North Wales Chronicle*” am Fedi 7, 1850. Dywed rhai nad yw Cymru mewn perygl oddiwrth Babyddiaeth yn y dyddiau hyn: ond dyma egwyddor sylfaenol Pabyddiaeth yn cael ei hamddiffyn gan newyddiadur yr Eglwyswyr yn Mangor; ac os yw y papyr hwnw yn meddu cynnalwyr a phleidwyr yn Nghymru, ac os yw yr offeiriaid a bregethant yr un cyfeiliornad Pabaidd yn cael gwrandawyr yn Nghymru, mae yn amlwg fod llawer yn ein plith yn eithaf parod i dderbyn holl athrawiaethau y Jesuitiaid. Os dilynant yn ddiwyll yr hyn a gredant, y maent yn rhwym o ddybenu mewn undeb âg Eglwys Rhufain. Y maent eisoes yn Rhufeinwyr o galon a dylent fod felly mewn enw; ac nid yw eu hundeb âg Eglwys Loegr yn effeithio dim ond i'w gwneuthur yn fwy peryglus. Yn wyneb yr amgylechiadau hyn, y mae yn ymddangos i ni fod Mr. Phillips yn haeldu canmoliaeth gyffredinol am ddyfod allan i wrthladd y Pusiaid Cymreig. Yr haerriad Pusiaidd uchod yn mhapyr Bangor oedd yr achlysur iddo draddodi y ddarlith gyntaf, yr hon a barodd derfysg a chythrwfl nid bychan; ac yn yr un sydd yn awr ger ein bron y mae yn amddiffyn ei hun yn effeithiol, ac mewn ysbryd boneddigaid. Nid

* O'r “*TRAETHODYDD*” am 1852.

ydym yn dywedyd mai Pusiaid oedd pawb fu yn ysgrifenu yn erbyn y ddarlith gyntaf; oblegid gwyddom fod rhai o honynt mor bell oddiwrth hyny ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin. Ac nid ydym yn beio arnynt am wrthwynebu y pethau hyny oedd yn groes i'w meddyliau : ond ni ddylent hwythau feio ar Mr. Phillips am beidio cyfyngu ei hun at y mater a achlysuodd y ddadl; oblegid, gan fod rhai o'r Eglwyswyr yn ymosod mor ffyrnig a didrugaredd ar yr Ymneillduwyr, pa ryfedd os cariodd ef y rhyfel i wersyll y blaid wrthwynebol, trwy ddangos fod gan yr Ymneillduwyr resymau cryfach yn erbyn yr Eglwys Sefydledig nag sydd gan yr Eglwyswyr yn erbyn Ymneillduwyr ?

Er hyny, nid oes yn yr achos hwn ond dwy blaid yn anghymmodlawn wrthwynebol i'w gilydd, sef y blaid Efengylaidd a'r blaid Babaidd : ac i'r blaid Babaidd y perthyn pawb sydd yn colfarnu yr holl eglwysi a fyddo yn ymneillduo oddiwrthynt fel eglwysi anghristionogol. Y mae hyn yn gymaint dirmyg ar y Bibl ag ydyw ar hawl dyn i farnu drosto ei hun. Gwreiddyn y drwg yw camolygiad ar yr hyn a elwir yn "olyniad apostolaidd." Y mae Esgobyddiaeth ynddo ei hun, o fewn terfynau cymedrol, yn ddigon diniwed : ond pan gysylltir ef âg athrawiaeth yr olyniad, y mae yn newid ei ansawdd : ac wrth geisio diarddel pawb arall, y mae yn tori ei hun allan o gymundeb yr Eglwys Gristionogol. Nid ydym yn deall ychwaith fod *cymaint* perygl yn athrawiaeth yr "adenedigaeth ym Medydd," pe cymerid ef ar wahan oddiwrth bwne yr olyniad. Y mae llawer o ysgrifenywyr gwir Brotestanaidd wedi dal fod genym le i ddysgwyl y gwna yr Arglwydd dderbyn y rhai a gyflwynir iddo mewn ffydd trwy fedydd. Yr hyn sydd yn arwain i ganlyniadau dinystriol yw tybied fod y weithred allanol bob amser yn effeithiol i wneyd cyfnewidial yn nghyflwr y bedyddiedig, pan weinyddir y bedydd gan ryw bersonau awdurdodedig.

Dywedasom mai *camolygiad* ar yr olyniad apostolaidd yw gwreiddyn y drwg. Y mae pawb yn dal rhyw fath o olyniad. Yr ydym ein hunain yn dal dau fath, sef yr allanol a'r tufewnl; ac yr ydym yn credu fod y ddau yma gan yr eglwysi Ymneillduol yn gyffredinol. Y cyntaf yw yr olyniad allanol. Nid ydym yn gosod llawer o bwys ar hwn; oblegid dichon i amgylchiadau gyfodi, yn y rhai y dylid aberthu yr allanol er mwyn y tufewnl. Ond fel rheol gyffredin, mae yn amlyg na ddylai neb gymeryd arno swydd gweinidog yr efengyl heb ei osod ynddi gan ryw esgob neu esgobion. Y rhai sydd yn gydnabyddus â'r Testament Newydd neu â hanesiaeth eglwysig a ddeallant ein

meddwl ar unwaith. Ond er mwyn yr anghyfarwydd, cfallai y dylem ychwanegu ein bod yn ystyried pob gweinidog yr efengyl yn esgob, ac nad oes un gweinidog i fod yn uwch na'i frodyr, *o ran swydd*, yn eglwys Crist. Y mae yr haneswyr mwyaf cyfrifol yn tystiolaethu mai fel hyn yr oedd yn yr oes gyntaf ar ol dyddiau yr apostolion : a dyma farn amryw o'r ysgrifenyddwyr mwyaf dysgedig yn Eglwys Loegr. Gall y Cymro uniaith gael profion digonol ar y mater yn narlithiau Mr. Phillips. Gwyddom fod llawer o Eglwyswyr yn barnu yn wahanol ; ac nid ydym am fynydd yn ammheu nad ydynt wedi ffurfio y farn hon yn gydwybodol. Ond gobeithiwn y credant hefyd ein bod ninnau wedi ystyried yr achos yn berffaith ddiuedd ; a'r casgliad y gorfodwyd ni i'w wneuthur er's llawer dydd ydyw, fod pob gweinidog yr efengyl, mewn undeb a'r eglwys, yn meddu hawl i neillduo y neb a farnont yn addas i waith y weinidogaeth. Afreidiol yw treulio amser i brofi hyn, gan ei fod wedi ei wneuthur eisoes gan Mr. Phillips, ac yn helaethach gan amryw awdwyr yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Gwelir gan hyny fod gweinidogion yr Ymneillduwyr yn meddu yr olyniad allanol yn gystal a gweinidogion yr Eglwys Sefydledig : ac, fe allai, pe olrheinid y mater yn fanwl, y ceid allan mai *ordeiniad* yr Ymneillduwyr, ar y cyfan, yw y mwyaf apostolaidd. Ond ar yr un pryd, pell oddiwrthym yw dywedyd fod ordeiniad esgobaethol yn anghristionogol, a bod yr Eglwys Esgobaethol yn eglwys anghristionogol.

Ond o gymaint ag y mae yr enaid yn rhagori ar y corff, felly y mae yr olyniad tufewdol yn rhagori ar yr un allanol. Yr hyn *yw* pob dyn, ac nid ei achau, sydd yn ei wneyd yn gymeradwy, neu anghymeradwy, ger bron Duw ; a'r hyn *yw* pob eglwys sydd yn profi pa un a yw yn eglwys i Grist. Yn lle ymdrafferthu yn ofer i ddilyn yr olyniad allanol trwy holl anialweh afiachus y grefydd Babaid, cynghorem yr holl Eglwyswyr i edrych pa rai yw y nodau a roddodd Crist ei hun i adnabod ei wir ganlynwyr. “ Wrth eu firwythau yr adnabyddwch hwynt.” “ Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad at eich gilydd.” Y rhai hyn a'u cyffelyb yw y nodau wrth ba rai y mae Crist yn ein dysgu i adnabod y wir eglwys ; a'r rhai hyn y mae Ysbryd Crist yn mhob oes yn eu harddelwi. Pe b'ai yr Eglwyswyr mwyaf uchelfrydig yn canfod yr arwyddion hyn ar gynnulleidfao grefyddwyr yn nghanol crasdiroedd Africa, beth bynag fyddo eu ffurfwydraeth eglwysig, a'u dulliau allanol o addoli, a pha fodd bynag y casglwyd hwynt at eu gilydd, y mae yn rhwym o'u cydnabod fel

eglwys i Grist; ac, os gwrthoda, y mae yn nodi ei hun fel un o ddysgyblion anghrist.

Canlyniad naturiol i bwnc yr olyniad yw yr helynt a wneir yn nghylch y *sism*. Y mae Mr. Phillips yn dyfynu y geiriau a ganlyn o'r "Cymro," am Awst 20, 1851. "Nid oes ond un eglwys mewn gwlad. Yn nhir Groeg, nid oes ond Eglwys Groeg; yn Rhufain, nid oes ond Eglwys Rhufain; ac yn Lloegr, nid oes ond Eglwys Loegr. Rhwyg oddiwrth yr Eglwys yw sefydliad crefyddol arall." Y mae y dyn hwn yn haeddu parch am ddyweyd ei feddwl yn onest, pwy bynag ydyw. Ond goddefed i ni grybwyll fod amryw bethau yn ei ddywediad yn dywyll fel y fagddu. Nid oes yma un gair o son pa un yw y wir eglwys yn Prwsia, a Ffrainc, a Rwsia, a Sweden, ac America. Y mae hwn yn bwnc dyddorol, a byddai yn dda genym gael rhyw gyfarwyddyd syml i adnabod yr eglwys yn *mhob* gwlad. Ai Esgobyddiaeth sydd yn cyfansoddi y wir eglwys? Os felly, y mae genym ddwy wir eglwys yn ymladd â'u gilydd yn Lloegr, ac America, ac yn arbenig yn yr Iwerddon. Ai undeb â'r llywodraeth sydd yn cyfansoddi y wir eglwys? Os felly, y mae yr Eglwys Henaduriaethol yn wir eglwys yn Scotland, a Prwsia, a rhai gwledydd eraill; ac yn America nid oes yr un wir eglwys. Ai cymanfa o swyddogion yr eglwysi mewn unrhyw wlad sydd yn meddu hawl i benderfynu pa un yw y wir eglwys? Os felly, yr ydym mewn mwy o anhawsder nag crioed; oblegid y mae Eglwys Scotland wedi troi ei hun yn Henaduriaethol, ac yr oedd wedi gwneuthur hyny pan oedd Scotland yn deyrnas annibynol: ac y mae hen Eglwys yr Iwerddon wedi gwrthod troi oddiwrth Babyddiaeth; ac yr ydym yn ofni hefyd, os cymanfa o swyddogion eglwysig sydd i benderfynu, mai gormod gwaith yw profi fod Eglwys Loegr yn wir eglwys o gwbl: oblegid, er fod Eglwys Loegr wedi cynnal cymanfaoedd ar ol y Diwygiad, nid trwy rinwedd nac awdurdod unrhyw gymanfa o'r fath hyny y trowyd hi o fod yn Eglwys Babaidd i fod yn Eglwys Brotes-tanaidd.

Sonir weithiau mai yr un yw Eglwys Loegr yn mhob oes, ond yn unig ei bod wedi ymddiwygio yn amser Harri yr Wythfed. Nid ydym yn dywedyd dim yn erbyn hyn, er nad ydym yn deall yn hollol pa beth sydd yn cyfansoddi yr undeb y sonir am dano. Ond os oes dim gwerth yn y rheswn hwn, y mae yn gystal rheswm o blaid yr Ymneillduwyr ag ydyw o blaid yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd yr hen eglwys yn y wlad hon yn barnu fod y Pab yn rhan hanfodol o honi fel ei phen: ac

os oedd ganddynt hwy hawl i dori ymaith y pen, gellid meddwl fod gan eraill yr un hawl i dori ymaith yr esgobion. Fe allai y dywedir na wnaethant hwy ddim ond myned yn ol at yr hyn oedd yr eglwys ar y cyntaf. Da iawn oedd hyny : ond os oedd ganddynt hwy hawl i fyned yn ol at yr hyn a farnent hwy yn drefn apostolaidd, onid oedd gan yr Ymneillduwyr hawl i fyned yn ol at yr hyn a farnent hwythau yn drefn apostolaidd? Ac os yw Eglwys Loegr yn wir eglwys, er ymwrthod â'r pab, ac er cael ei diarddel gan Eglwys Rhufain, pahan nas gall Eglwys Ymneillduol fod yn wir eglwys er ymwrthod â'r ddwy, ac er cael ei diarddel gan y ddwy?

Nid ydym yn gwadu nad yw ymrwygiad, neu *sism*, fel y gelwir ef, yn ddrwg. Ond mewn cysylltiad â hyn y mac dau beth a grybwyllir gan Mr. Phillips yn dra theilwng o sylw. Yn gyntaf, dichon fod *sism mewn* eglwys, yn gystal ag *oddiwrth* eglwys. Felly y mac y Pusiaid eu hunain yn sismaticiaid; oblegid y maent yn creu plaid ac ymranïad yn yr Eglwys; ac ni fu erioed ymddygiad mwy sismaticiaidd na'r eiddo Esgob Exeter, pan yr ysgrifonodd mor haerllug i wrthwynebu yr archesgob. Yn ail, os yw rhwygo *oddiwrth* yr Eglwys yn ddrwg, mae yn amlwg mai y rhai sydd yn achosi y rhwyg yw y rhai sydd yn euog o'r drwg. Gan hyny, yr esgobion oedd y sismaticiaid yn amser y diwygiad Methodistaidd.

Wrth drafod y testun hwn, y mae rhai ysgrifenywyr eglwysig wedi rhoddi lle mawr i Cora, Dathan, ac Abiram. Pe craffent ychydig yn fanylach, deallent yn fuan mai dyben y gwŷr hyny oedd cynnal i fynu yr hen olyniad yn nheulu Reuben y cyntafanedig, pan oedd yr Arglwydd yn codi teulu Aaron i'r offeiriadaeth. Felly, mae yn hawdd gweled mai gwŷr yr olyniad oedd Cora, Dathan, ac Abiram. Hyderwn fod hyn yn ddigon am Cora, Dathan, ac Abiram; ac yn ddigon hefyd am y Pusiaid Cymreig.

RHESYMEG.*

UN o nodau arbenig y dyddiau hyn yw y sylw adnewyddol a delir i Resymeg. Wedi ei thynu oddiar ei gorsedd, ar yr hon y bu yn teyrnasu fel unbenaeth am oesoedd lawer, i roddi lle i ddyfeisiau a darganfyddiadau anianyddol, ymddengys fod rhai o brif feddylwyr yr oes yn dechreu meddwl mai yn ddiachos y cafodd ei diraddio, fod rhywbeth yn werth ei wybod heblaw peirianwaith, a bod meddwl dyn yn rhagori ar yr holl waith a wneir ganddo. Ymddengys hefyd fod yr ysgrifenywyr hyn yn ennill dylanwad. Y mae llyfrau Mill ac Archesgob Whately yn dechreu dyfod yn adnabyddus i'r cyfiredin; a gwelsom hysbysiad yn ddiweddar am "*Logic for the Million.*" Ond efallai nad oes un a wnaeth fwy i godi Rhesymeg i fri na Syr William Hamilton, yr hwn a gydnabyddir fel un o'r athronwyr blaenaf yn myd y meddwl. Yn lle ei dirmygu, fel y gwnaeth Dugald Stewart a Dr. Thomas Brown, y mae yn ei phleidio a'i pharchu, ac wedi taflu goleu newydd ar rai rhanau o honi. Cyn diwedd yr ysgrif hon, ameanwn wneyd ei olygiadau yn hysbys i'r darlennydd; ond yn gyntaf, rhaid i ni ddangos yn fyr beth yw Rhesymeg yn ei natur a'i dyben, fel y mae wedi bod o ddyddiau Aristotle hyd yn awr.

Y mae pob gosodiad yn cynnwys tair rhan: yn gyntaf, y sylfon (*subject*); yn ail, y cysylltiad (*copula*); ac yn drydydd, y mynegiad (*predicate*). Yn y gosodiad, *Dyn sydd farwol*, y sylfon am yr hwn y dywedir yw *dyn*; y mynegiad, neu yr hyn a ddywedir am y sylfon, yw *marwol*; a'r cysylltiad sydd yn uno y ddau â'u gilydd yw *sydd*. Pan ddosrenir unrhyw frawddeg, ceir y tri hyn ynddi, a dim ond y tri. Nis gall neb ddyweyd cymaint ag un meddwl yn gyflawn ar lai; ac nis gall un dywediad syml gynnwys mwy. Y cysylltiad bob amser yw y perwyddiad *bod* mewn rhyw ffurf, yn gadarnhaol neu yn nacael. Dicheon iddo fod weithiau yn guddiedig, megys yn y frawddeg, Ioan a ddarllenodd. Ond yma eto y cysylltiad yw *sydd* neu *oedd*; oblegid y meddwl

* O'r "*TRAETHODYDD*" am 1851.

yw, Ioan sydd wedi darllen, neu Ioan oedd yn darllen. Yn y frawddeg, Cymerais lawer o boen i ddeall y llyfr, mae y sylfon hefyd yn guddiedig. Gellir dywedyd yr un peth yn fwy cyflawn fel hyn; Myfi wyf wedi cymeryd llawer o boen i ddeall y llyfr. Y sylfon yw *myfi*, y cysylltiad yw *wyf*, a'r holl eiriau eraill a wnant i fynu y mynegiad. Yn y frawddeg, Y mae yno lawer o bobl, y sylfon yw *llawer o bobl*, y cysylltiad yw *mae* neu *sydd*, a'r mynegiad yw *yn bod yno*. Gellir adnabod y sylfon wrth ofyn, Pwy neu pa beth sydd? A gellir adnabod y mynegiad wrth ofyn, Pa beth y mynegir ei fod?

Nid gwahaniaeth damweiniol a mympwyol sydd yma; ac nid ymchwiliad ofer yn nghyleh geiriau yn unig; ond amlygiad o ddeddfau hanfodol y meddwl. Y mae tuedd mewn dyn i esgyn yn barhaus oddi wrth y neillduol at y cyffredinol. Wrth edrych o'i amgylch, mae yn gweled gwahanol wrthddrychau heb un cysylltiad yn ymddangos rhyngddynt. Ond nis gall orphwys heb chwilio am undeb a threfn, nes cael gafael mewn rhyw egwyddor sydd yn cysylltu amryw wrthddrychau â'u gilydd yn un dosbarth; ac oddiyno mae yn esgyn at egwyddor uwch, yr hon sydd yn cysylltu y dosbarthiadau hyn â'u gilydd drachefn: ac fel hyn y mae o'r diwedd yn cyrhaedd sefyllfa o'r hon y mae yn cael golwg ar yr holl wrthddrychau mewn undeb â'u gilydd dan lywodraeth rhyw egwyddorion cyffredinol. Mae yr eangiad hwn sydd yn cymeryd lle yn ei olygiadau yn creu anghenrheidrwydd am eiriau newyddion: a dyma ddechreuad enwau cyffredin. Mae seiliau cryfion i feddwl fod pob enw ar y cyntaf yn enw priodol. "Dyn" ar y cyntaf nid oedd ond enw priodol ar Adda; a "gwraig" oedd enw priodol Efa. Y gair "tad" yn ngenau y plentyn sydd enw priodol ar ei dad ef ei hun; a'r gair "afon" sydd enw priodol ar yr unig afon y mae efe yn gwybod am dani. Ond fel y mae yn dyfod yn gydnabyddus â gwrthddrychau eraill cyffelyb i'r hen wrthddrychau, yn lle ffurfio gair newydd i ddynodi pob un o honynt, mae yn cymhwyso atynt yr hen enwau, y rhai ydynt fel hyn yn myned yn enwau cyffredin: ac y mae yn rhoddi enwau priodol ar yr hen wrthddrychau er mwyn eu gwahaniaethu. Dyma yr hyn a elwir cyffredinoliad (*generalization*). Gwelir fod yma delbygolrwydd a gwahaniaeth yn cydgyfarfod. Mae yn rhaid *deol* er mwyn *deall*. Mae yn rhaid gwahaniaethu y gwrthddrych dan ryw enw priodol, megys Dafydd, Dyfrdwy, ac ar yr un pryd mae yn rhaid ei uno â gwrthddrychau cyffelyb dan ryw enw cyffredin, megys dyn, afon. Yna y mae genym farn am dano; ac yr ydym yn alluog i wneyd

mynegiad o'r farn hōno ; megys, Dafydd sydd ddyn, Dyfrdwy sydd afon. Yr un modd am enwau cyffredin, yr ydym yn eu cynnwys mewn enwau mwy cyffredin, ac ar yr un pryd yn eu gwahaniaethu, megys, Dyn sydd greadur, derwen sydd goeden, dafad sydd anifel.

Nid annifyr, pe b'ai lle yn caniatáu, fyddai sylwi ychydig ar y gofyniad, Pa beth a gynnwysir mewn enw cyffredin? Pa beth yw y meddwl sydd yn gorwedd dano? A yw yn rhywbeth, ai nid yw? Er anghraifft, Beth yw dyn fel y cyfryw—nid Iorwerth, na Gwilym; nid dyn gwyn, na dyn du: ond dyn yn syml? Mae yn ymddangos i ni fod pob enw cyffredin yn dynodi rhywbeth; nid fel y mae yn bod yn allanol, ond fel y mae yn y meddwl; ac mai y rhywbeth hwnw yw, cymaint ag sydd yn gyffredinol i'r cwbl, neu yr hyn sydd yn aros wedi gadael allan bob neillduolion. Po mwyaf o wrthddrychau a gymerir i mewn dan yr enw, lleiaf i gyd o sylwedd pob un a gynnwysir ynddo. Fel y mae yn cael ei helaethu mewn hŷd a llêd, mae yn lleihau mewn dyfnder ac uchder. Os yw y gair "dyn" yn cynnwys mwy o wrthddrychau na'r gair "Cymro," er hyny y mae rhyw bethau yn perthyn i'r Cymro nad ydynt yn gynnwysedig yn y gair "dyn." Fel hŷn, mae y mynegiad mewn rhyw ystyr yn cynnwys mwy na'r sylfon: ond mewn ystyr arall mae yn cynnwys llai.

Ond heblaw y gallu i gyffredinoli, y mae dyn yn feddiannol hefyd ar allu arall cyferbyniol, yr hwn sydd o natur uwch, ac yn ei arwain at wirioneddau uwch, sef gallu i ddansoddi, neu neillduoli, yr hyn a eilw y Seison *abstraction*. Y mae tuedd gyffredin mewn ysgrifenwyr i gymysgu y ddau allu hyn: ond y maent yn hollol wahanol a gwrthgyferbyniol. Mae a fyno y naill â phethau; ond y llall ág ansoddau. Nid rhanu yw dansoddi. Mae yn wir fod yn rhaid deol yma eto er mwyn deall; ond nid deol y naill ran oddiwrth y llall, namyn deol ansawdd oddiwrth y gwrthddrych. Wrth sylwi ar ryw ran i'r goeden, megys deilen neu gangen, nid ydym yn gwneuthur dim mwy na rhanu: ond wrth sylwi ar ansawdd y goeden, megys gwyrdd, uchel, cadarn, y mae yno ddansoddiad. Wrth gyffredinoli, yr ydym yn casglu y rhanau hyny sydd yn perthyn i wahanol wrthddrychau cyffelyb, ac yn eu huno mewn un meddylddrych, a than un enw cyffredin: ond wrth ddansoddi yr ydym yn dy-ansoddi, hyny yw, yn neillduoli yr ansawdd; ac felly mae y gallu hwn yn cynnyrehu cyflawnder o fynegiadau newyddion, megys, Mae y dyn yn gryf, yn ddoeth, neu yn dda. A geiriau dansoddol y gelwir y rhai hyn er eu troi yn sylweddciriau, megys

cryfder, doethineb, daioni. Er mwyn dangos y gwahaniaeth, cymerwn ddyrn yn gyffredinol; nid oes iddo un llun na lliw neillduol; ac eto y mae yma gorff ac enaid. Y mae *pethau* yn gorwedd wedi'r cwbl o dan y meddylddrych: ond os soniwn am ddaioni neu ddrygioni, cyfiawnder neu anghyfiawnder, yr ydym yn cau allan bethau yn hollol o'r meddylddrych. Nid ydyw mwyach yn cynnwys corff nac enaid, nac un rhan o un bod, daearol nac ysbrydol. Dywedir weithiau, "dyn yn ddansoddol" (*man in the abstract*): ond y mae hyn yn gamarferiad o'r gair "dansoddol." Mwy cywir fyddai dyweyd "dyn yn gyffredinol." Ar yr un pryd dylid sylwi y gellir cyffredinoli geiriau dansoddol; ond arosant yn ddansoddol ar ol hyny. Meddyliem hefyd mai i'r geiriau dansoddol y perthyn y perwyddiaid. Addefir gan yr holl ysgrifenyddyr ar Resymeg y gellir troi pob perwyddiad i ffurf y rhangymeriad (*participle*): ac y mae pob rhangymeriad yn cyfranogi o natur yr ansoddair.

Yn awr, dyma y ddwy brif ffynnonell o'r rhai y mae mynegiadau yn tarddu, sef cyffredinoliad a dansoddiaid. Trwy gysylltu y gwrthddrych â rhyw feddylddrych mwy cyffredinol neu ddansoddol yr ydym yn ffurfio barn am dano, ac yn gallu gwneyd mynegiad o'r farn hono mewn geiriau. Hyderwn fod hyn yn ddigon am y rhanau sydd yn gwneyd i fynu osodiad; ac am hyny awn ymlaen i sylwi ar osodiadau yn y cyfanswm.

Y mae pedwar math o osodiad:—y cyffredinol cadarnhaol, y cyffredinol nacaol, y neillduol cadarnhaol, a'r neillduol nacaol. Y mae Syr William Hamilton yn ychwanegu at eu nifer; ond dilynwn yn awr yr hen ddull. Dynodir gwahanol rywiau y gosodiadau gan y llafariad, A, E, I, O, fel y canlyn:—

- A, y cyffredinol cadarnhaol; megys, y mae pob B yn C.
- E, y cyffredinol nacaol; megys, nid oes un B yn C.
- I, y neillduol cadarnhaol; megys, rhai B ydynt C.
- O, y neillduol nacaol; megys, rhai B nid ydynt C.

Yn yr achos hwn y mae enwau unigol yn cael eu hystyried fel rhai cyffredinol. "Caisar oedd Rufeinwr," sydd osodiad cyffredinol cadarnhaol. "Nid yw Ioan yn ddysgedig," sydd osodiad cyffredinol nacaol.

Wedi sylwi cymaint a hyn ar y gwahanol osodiadau, awn rhagom bellach i ddangos pa fodd y cysylltir hwynt i wneyd ymresymiad. Fel y mae tair rhan yn mhob gosodiad, felly y mae yn rhaid cael tri

gosodiad i wneyd un rhesymiad, yr hwn pan ysgrifeniir ef yn gyflawn a elwir cyfresymiad (*syllogism*). Er anghraifft,—

Y mae pob dyn yn farwol ;
Arthur sydd ddyn ;
Gan hyny, y mae Arthur yn farwol.

Dichon fod un o'r gosodiadau mor amlwg weithiau fel nad yw yn anghenrheidiol ei arddangos mewn geiriau. Yn yr anghraifft uchod, gellid meddwl mai digon fyddai dyweyd, Y mae pob dyn yn farwol ; gan hyny, y mae Arthur yn farwol. Ond canfyddir yn fuan fod yr ymresymiad yn amherffaith nes y profir fod Arthur yn ddyn. Os dywedir fod hyny yn rhy amlwg i'w brofi, yr ydym yn ateb mai yr achos ydyw ein bod wedi rhoddi anghraifft agos, hawdd ei deall. Ac yma dymunem i'r darllynydd gofio na ddylai farnu am ddefnyddioldeb Rhesymeg oddiwrth anghreifftiau o'r fath yma, y rhai a roddir er mwyn ymarferiad, ar yr un egwyddor ag y rhoddir defnyddiau cyffredin a diwerth i'r crefftwr pan yn dechreu ar ei grefft. Ond cymerer yr anghraifft a ganlyn :—

Y mae pob dyn celwyddog yn annheilwng o ymddiried ;
Y mae Idwal yn ddyn celwyddog ;
Gan hyny, y mae Idwal yn annheilwng o ymddiried.

Yma gwelir yn amlwg fod yr ail yn sefyll mewn anghen am ei brofi, yn gystal a'r cyntaf. A gellir cymeryd yn ganiataol, fel ffaith gyffredinol, fod yn rhaid profi dau osodiad bob amser, cyn y gellir tynu un casgliad.

Sylfaen ymresymiad, yn ol dywediad Aristotle,* ydyw fod yr hyn a ddywedir neu a wedir am yr oll yn ddiwahaniaeth, yn cael ei ddyweyd neu ei wadu am unrhyw un a gynnwysir yn yr oll. Mae y gosodiad cyntaf mewn effaith yn cynnwys y casgliad, a'r ail yn uno y ddau â'u gilydd. Felly nid ydym wrth ymresymu ond yn dwyn allan yr hyn a gynnwysir yn y gosodiad cyntaf : ac nis gellir gwneyd hyn heb gymhorth yr ail osodiad, yr hwn sydd yn hysbysu fod y naill yn gynnwysedig yn y llall. Yr un modd y mae pob cyfresymiad yn cynnwys tri therm ; y mwyaf, y lleiaf, a'r canol. Mae y mwyaf yn cynnwys y lleiaf, a'r canol yn eu cysylltu. Y ddau osodiad blaenaf mewn cyfresymiad a elwir rhagosodiadau (*premises*). Y mynegiad yn y casgliad

* Nid yw dywediad Aristotle yn perthyn yn unigrywrehol ond yn unig i un ffurf o ymresymu ; ond gellir troi y ffurfiau eraill i'r ffurf hono, ac felly mae yn wirioneddol : m dan ynt oll.

yw y term mwyaf; a'r sylfon yn y casgliad yw y term lleiaf. Mae yn rhaid i'r term mwyaf fod yn un o'r ddau ragosodiad, yr hwn a elwir y rhagosodiad mwyaf, ac a gyflëir yn flaenaf: mae yn rhaid i'r term lleiaf fod yn yr ail ragosodiad, yr hwn a elwir y rhagosodiad lleiaf: ac mae yn rhaid i'r term canol fod yn y ddau ragosodiad. Yn yr anghraifft a ganlyn,

Mae pob dyn yn ffaeledig;
Mae pob Pabydd yn ddyn;
Gan hyny, mae pob Pabydd yn ffaeledig.

y term mwyaf yw " ffaeledig ; " y term lleiaf yw " Pabydd ; " a'r term canol yw " dyn." .

Felly, yn mhob cyfresymiad, mae y rhagosodiad cyntaf yn cynnwys y term mwyaf a'r canol; mae yr ail ragosodiad yn cynnwys y canol a'r lleiaf; ac mae y casgliad yn cynnwys y lleiaf a'r mwyaf. Yn y casgliad, mae y term lleiaf bob amser yn flaenaf. Ond y mae gwahaniaeth yn sefyllfa y termau yn y ddau ragosodiad, o herwydd fod y term canol weithiau yn sylfon ac weithiau yn fynegiad. Y mae hyn yn achosi tair o wahaniol ffurfiau (*figures*). Sonir yn fynych am bedair: ond nid oedd gan Aristotle fwy na thair; a gwrthodir y bedwaredd gan yr awduron goreu. Yn y ffurf gyntaf, mae y term canol yn sylfon yn un rhagosodiad, ac yn fynegiad yn y llall; yn yr ail, mae yn fynegiad yn y ddau; ac yn y drydedd, mae yn sylfon yn y ddau.

Cymerer A i ddynodi y term mwyaf, B y canol, ac C y lleiaf; yna bydd eu sefyllfa fel y canlyn:—

	Ffurf 1.	Ffurf 2.	Ffurf 3.
Rhagosodiad mwyaf	B, A.	A, B.	B, A.
Rhagosodiad lleiaf	C, B.	C, B.	B, C.
Casgliad	C, A.	C, A.	C, A.

Er mwyn y dysgybl ieuanc, rhoddwn un anghraifft yn mhellach yn mhob ffurf:—

- Ffurf 1. Mae pawb sydd yn caru Crist yn cadw'r gorenymynion;
Mae pob dyn duwiol yn caru Crist;
Gan hyny, mae pob dyn duwiol yn cadw'r gorchymynion.
- Ffurf 2. Nid oes un dyn duwiol yn lleidr;
Mae pob cribddeiliwr yn lleidr;
Gan hyny, nid oes un cribddeiliwr yn ddyn duwiol.
- Ffurf 3. Mae pob dyn duwiol yn gyfiawn;
Mae pob dyn duwiol yn amherffaith;
Gan hyny, mae rhai dynion amherffaith yn gyfiawn.

Mae sefyllfa y termau yn rhwym o gyfateb i ryw un o'r anghreiffitiau hyn yn mhob amgylchiad. Ond gyda golwg ar natur y gosodiadau, y mae lle i amrywiacth yn mhob ffurf. Sylwasom yn barod fod pedwar math o osodiadau, y rhai a ddynodir â'r llafariaid, A, E, I, O. Y mae hyn yn dwyn i mewn wahanol foddau dan bob ffurf. Yn y ffurf gyntaf y mae pedwar modd; yn yr ail y mae pedwar; ac yn y drydedd y mae chwech. Y mae ysgrifenywyr wedi rhoddi enwau cywrain ar y moddau hyn, fel cynnorthwy i'w cofio. Yn mhob enw y mae tri sill, yn cyfateb i'r tri gosodiad mewn cyfresymiad; ac yn mhob sill y mae un o'r llafariaid, A, E, I, O, yn dangos natur y gosodiad. A am y cyffredinol cadarnhaol, E am y cyffredinol nacaol, I am y neillduol cadarnhaol, ac O am y neillduol nacaol. Yr enwau hyn ydynt y rhai canlynol:—

Ffurf 1. Barbara, Celarent, Darii, Ferio.

Ffurf 2. Cesare, Camestres, Festino, Baroko.

Ffurf 3. Darapti, Disamis, Datisi, Felapton, Bokardo, Feriso.

Yn Barbara, y mae A yn mhob sill; gan hyny mae pob gosodiad yn y modd hwn yn gyffredinol cadarnhaol. Yn Celarent, mae y cyntaf a'r olaf yn E, sef cyffredinol nacaol, a'r ail yn A, sef cyffredinol cadarnhaol. Os troir yn ol at yr anghreiffitiau o gyfresymiad a roddwyd uchod dan y gwahanol ffurfiau, gwelir fod y cyntaf yn Barbara, yr ail yn Cesare, a'r trydydd yn Darapti.

Gellir troi y moddau yn y ddwy ffurf olaf i'r moddau hyny yn y ffurf gyntaf a fyddo yn dechreu â'r un llythyren. Y mae B yn dechreu Barbara a Baroko, yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall y gellir troi Baroko i Barbara. Yr un modd gellir troi Cesare i Celarent, a Darapti i Darii. Dyma anghraifft yn Disamis:—

Mae rhai dynion balch yn gyfoethog;

Mae pob dyn balch yn anwybodus;

Gan hyny mae rhai dynion anwybodus yn gyfoethog.

Gellir troi hwn i Darii fel hyn:—

Mae pob dyn balch yn anwybodus;

Mae rhai dynion cyfoethog yn falch;

Gan hyny, y mae rhai dynion cyfoethog yn anwybodus.

Er mwyn rhoddi golwg gryno ar yr holl foddau, ni a gymerwn y llythyrenau A, B, C, unwaith eto fel anghreiffitiau. Gall y darllynydd roddi geiriau yn eu lle; a bydd hyny yn ymarferiad buddiol. Cofier o hyd fod A yn arwyddo y term mwyaf, B y canol, ac C y lleiaf. Pan

argreffir hwynt yn y daflen mewn prif-lythyrenau, mae y term yn gyffredinol; ond pan mewn llythyrenau bychain, mae y term yn neillduol. Y nod — a ddengys fod y gosodiad yn gadarnhaol; a'r nod ... a ddengys ei fod yn nacaol. Meddylier fod A yn dynodi *marwol*, a B yn dynodi *dym*: yna, B—A, a arwydda fod pob dyn yn farwol; b—A, fod rhai dynion yn farwol; B...A, nad oes un dyn yn farwol; b...A, fod rhai dynion heb fod yn farwol. Y llythyrenau g. h. a arwyddant *gan hyny*. Nid ydym yn dyweyd fod y nodau hyn mor gynnwysfawr a'r rhai a arferir gan Syr William Hamilton; ond y mae yn fwy hawdd i'r anghyfarwydd eu deall. Yn y daflen ganlynol, pe rhoddid B ac A i ddynodi *dym* a *marwol*, ac C i ddynodi *Cymro*, gellid darllen y modd eyntaf fel hyn,—

B—A; Y mae pob dyn yn farwol;
 C—B; Y mae pob Cymro yn ddyd;
 g. h. C—A; Y mae pob Cymro yn farwol.

Fjurf I.	}	Barbara	B—A;	C—B;	g. h.	C—A.
		Celarent	B...A;	C—B;	g. h.	C...A.
		Darii	B—A;	c—B;	g. h.	c—A.
		Ferio	B...A;	c—B;	g. h.	c...A.
Fjurf II.	}	Cesare	A...B;	C—B;	g. h.	C...A.
		Camestres	A—B;	C...B;	g. h.	C...A.
		Festino	A...B;	c—B;	g. h.	c...A.
		Baroko	A—B;	c...B;	g. h.	c...A.
Fjurf III.	}	Darapti	B—A;	B—C;	g. h.	c—A.
		Disamis	b—A;	B—C;	g. h.	c—A.
		Datissi	B—A;	b—C;	g. h.	c—A.
		Felapton	B...A;	B—C;	g. h.	c...A.
		Bokardo	b...A;	B—C;	g. h.	c...A.
		Feriso	B...A;	b—C;	g. h.	c...A.

Wrth sylwi ar y daflen hon, canfyddir, 1. Na ddichon fod y ddau rhagosodiad yn neillduol, nac ychwaith yn nacaol. 2. Os bydd un rhagosodiad yn neillduol, bydd y casgliad yn neillduol. 3. Os bydd un rhagosodiad yn nacaol, bydd y casgliad yn nacaol. 4. Mae yn rhaid cydranu y term canol unwaith o leiaf: hyny yw, mae yn rhaid fod y term canol (B) yn sylfon mewn rhagosodiad cyffredinol, neu yn fynegiad mewn rhagosodiad nacaol. Wrth "gydranu" y meddylier cymeryd y term yn ddiwahaniaeth am bob un. Felly, pan ddywedir, Y mae pob dyn yn farwol, Nid oes un creadur direswm yn ddyd, Rhai creaduriaid marwol nid ydynt ddydion, yr ydym yn cydranu y term "dyn," "dynion;" oblegid yr ydym yn ei gymeryd yn yr ystyr hel-aethaf am y cwbl yn ddiwahaniaeth; ac y mae yr hyn a ddywedir, neu

a wedir, yn cael ei ddyweyd neu ei wadu am bob dyn. Ond pan ddywedir, Y mae pob Cymro yn ddy, Y mae rhai dynion yn Gymry, nid yw y term "dyn," "dynion" yn arwyddo pob dyn; ac felly nid yw yn cael ei gydranu. Yr achos o'r rheol hon yw, fod yn rhaid gofalu na fyddo un gosodiad yn cyfeirio at un rhan o'r term, a'r gosodiad arall at ran arall. 5. Ni ddylid cydranu un term yn y casgliad, os nad oedd felly yn y rhagosodiad: hyny yw, ni ddylid ei roddi yn y casgliad yn sylfon mewn gosodiad cyffredinol, neu fynegiad mewn gosodiad nacaol, os nad oedd yn un o'r ddau mewn rhagosodiad. Yr achos o hyn ydyw, nas gellir cymeryd un term yn helaethach yn y casgliad nag yn y rhagosodiad.

Yn ffurf 1, mae y rhagosodiad cyntaf bob amser yn gyffredinol; ac mae yr ail bob amser yn gadarnhaol.

Yn ffurf 2, mae y rhagosodiad cyntaf bob amser yn gyffredinol: ac mae yn rhaid i un o'r ddau rhagosodiad fod yn nacaol; ac o ganlyniad, mae yn rhaid i'r casgliad fod felly hefyd.

Yn ffurf 3, mae yn rhaid i'r ail rhagosodiad fod yn gadarnhaol: ac mae y casgliad bob amser yn neillduol.

Yn ffurf 1, mae y casgliadau yn A, E, I, O, sef un o bob un. Yn ffurf 2, mae dau gasgliad yn E, a dau yn O. Yn ffurf 3, mae tri yn I, a thri yn O.

Gan nad oes dim yn gymaint cynnorthwy i'r myfyriwr ieuanc a lliaws o anghreiffitiau, ni a roddwn un anghraifft eto mewn geiriau cyflawn dan bob un o'r moddau, gan mwyaf allan o Whately, ac awduon eraill.

Barbara. Mae pob dyn yn meddu hawl i ryddid; mae pob caethwas yn ddy; gan hyny, mae pob caethwas yn meddu hawl i ryddid.

Celarent. Nid oes neb ag sydd yn was i'w chwantau yn rhydd; mae pob meddwyn yn was i'w chwantau; gan hyny, nid oes un meddwyn yn ddy rhydd.

Darii. Mae pob dyn sydd yn gwastraffu ei amser a'i dalent yn ffwl; mae rhai beirdd yn gwastraffu eu hamser a'u talentau; gan hyny, mae rhai beirdd yn ffyliaid.

Ferio. Nid oes un dyn annysgedig yn addas i ddysgu eraill; mae rhai athrawon yn ddydynion annysgedig; gan hyny, mae rhai athrawon heb fod yn addas i ddysgu eraill.

Cesare. Nid oes un dyn duwiol yn ddy cybyddlyd; mae pob dyn sydd yn cyfranu llai nag a weddai yn ddy cybyddlyd; gan hyny, nid

oes neb ag sydd yn peidio cyfranu yn gyfartal i'w foddion yn ddynduwl.

Camestres. Mae pob gwir athronydd yn cyfrif rhinwedd yn dda ynddo ei hun ; nid yw yr Epicureaid yn cyfrif rhinwedd yn dda ynddo ei hun ; gan hyny, nid yw yr Epicureaid yn wir athronwyr. Dyma un o resymau Cicero yn erbyn yr Epicureaid.

Festino. Nid oes un dyn doeth yn myned i eithafion ; mae rhai dynion crefyddol yn myned i eithafion ; gan hyny, mae rhai dynion crefyddol y rhai nid ydynt ddoeth.

Baroko. Mae pob dyn da yn haelionus ; mae rhai Cristionogion mewn enw heb fod mewn un modd yn haelionus ; gan hyny, mae rhai Cristionogion mewn enw heb fod yn ddyinion da.

Darapti. Mae callineb yn amcanu at les ei pherchenog ; mae callineb yn rhinwedd ; gan hyny, mae rhai rhinweddau yn amcanu at les eu perchenogion. Dyma un o resymau Adam Smith yn erbyn Hutcheson.

Disamis. Mae rhai pregethwyr ieuaine yn anwybodus ; mae pob pregethwr ieuanc yn meddu cyfle i ddysgu ; gan hyny, mae rhai sydd yn meddu cyfle i ddysgu yn anwybodus.

Datisi. Mae pob dyn dïegwyddor yn ddynduwr ; mae rhai dynion diegwyddor yn ddoniol ; gan hyny, mae rhai dynion doniol yn ddynduwr drwg.

Felapton. Nid yw ceffyl yn greadur rhesymol ; mae ceffyl yn meddu cof ; gan hyny, mae rhai creaduriaid yn meddu cof heb fod yn greaduriaid rhesymol.

Bocado. Rhai beirdd ni feddant un gronyn o awen ; mae pob bardd yn cynghaneddu ; gan hyny, mae rhai yn cynghaneddu heb feddu awen.

Feriso. Beth bynag sydd yn tramgwyddo fy mrawd nid yw yn lleshâu ; mae rhai pethau sydd yn tramgwyddo fy mrawd yn bethau cyfreithlawn ; gan hyny, rhai pethau cyfreithlawn nid ydynt yn lleshâu.

I ryw un o'r moddau hyn y dywedir fod pob cyfresymiad cyflawn a chywir yn perthyn. Ni feddylir fod yn anghenrheidiol ymresymu yn y dull hwn bob amser ; ond y mae yn rhaid i bob ymresymiad gyfateb i un o'r moddau hyn *o ran sylwedd*. Y mae y rheolau cyffredinol wedi eu rhoddi yn barod ; a dylai y darllenydd eu cadw mewn cof, gan fod troseddu un o honynt yn dwyll-ymresymiad. Efallai mai buddiol fyddai cael rhai anghreiffitiau ar y mater hwn eto.

1. Twyllymresymiad yw tynu unrhyw gasgliad oddiwrth ddau

ragosodiad neillduol, neu oddiwrth ddau ragosodiad nacaol; fel pe dywedid, Y mae rhai dynion cyfoethog yn euog o bechodau ysgeler; y mae rhai esgobion yn gyfoethog; gan hyny, y mae rhai esgobion yn euog o bechodau ysgeler.

2. Tynu casgliad cyffredinol pan fyddo un rhagosodiad neillduol; megys, Y mae pob lleidr yn haeddu ei alltudio; y mae rhai Cymry yn lladron; gan hyny, y mae pob Cymro yn haeddu ei alltudio. Y mae holl ehwedlau y Pabyddion yn annheilwng o grediniaeth; hanesion am wyrthiau yw llawer o'r ehwedlau hyny; gan hyny, y mae pob hanes am wyrthiau yn annheilwng o grediniaeth.

3. Tynu casgliad cadarnhaol pan fyddo un rhagosodiad yn nacaol. Ond y mae y twyll-ymresymiad hwn mor wrthun fel nad oes nemawr berygl i neb syrthio iddo.

4. Peidio cydranu y term canol; hyny yw, peidio ei gymeryd un-waith yn yr ystyr helaethaf, trwy beidio ei roddi yn sylfon mewn gosodiad cyffredinol, neu yn fynegiad mewn gosodiad nacaol; megys, Y mae pob gwyn yn lliw; y mae pob du yn lliw; gan hyny, y mae pob gwyn yn ddu. Y mae pob dafad yn anifel; y mae pob blaidd yn anifel; gan hyny, y mae pob blaidd yn ddfad. Y mae pob Pabydd yn credu rhyw gyffes ffydd; y mae pob Methodist yn credu rhyw gyffes ffydd; gan hyny, y mae pob Methodist yn Babydd. Y mae pob Sosiniad yn gwrthod pob cyffes ffydd; y mae rhai Annibynwyr yn gwrthod pob cyffes ffydd; gan hyny, y mae rhai Annibynwyr yn Sosiniaid. Y mae pawb yn caru dedwyddwch; y mae rhinwedd yn ddedwyddwch; gan hyny, mae pawb yn caru rhinwedd.

5. Cydranu un o'r termau (sef ei gymeryd am y ewbl yn ddiwahan-iaeth) yn y casgliad, heb ei gydranu yn y rhagosodiad: megys, y mae pob llew yn anifel; nid yw dafad yn llew; gan hyny, nid yw dafad yn anifel. Yma cymerir y gair "anifel" yn yr ystyr helaethaf am bob anifel, yn y casgliad; ond nid yw felly yn y rhagosodiad. Drachefn, Mae yr Eglwyswyr yn ffyddlawn i'r llywodraeth; nid yw yr Ymneillduwyr yn Eglwyswyr; gan hyny, nid yw yr Ymneillduwyr yn ffyddlawn i'r llywodraeth.

Llawer areithiwr ac ysgrifenydd sydd wedi bod yn defnyddio ymresymiaidau o'r un natur yn hollol a'r rhai uchod, a hyny yn dra grymus ac effeithiol, i hudo yr anwybodus; ond erbyn eu dwyn at y maen prawf, a'u gosod ger bron fel hyn yn ddiaddurn, mae yn hawdd gweled eu twyll: a dyma un peth sydd yn dangos gwerth Rhesymsg. Yn yr holl anghreiffiau uchod, mae y bai yn gynnwysedig mewn troseddau

yn erbyn rheolau y moddau; a phan amcenir at ddwyn yr ymresymiad i drefn, mae ei ddull yn dangos ei anghywirdeb. Ond heblaw yr ymresymiaid hyny, y rhai y mae eu dull yn wallus, dichon fod twyll yn gorwedd yn yr ystyr: ac nis gallwn feddwl fod sylwi ychydig ar feiau o'r fath yma eto yn amherthynasol i Resymeg.

1. Un fymmonell arbenig o dwyllymresymiad yw *amwysedd*; sef arfer yr un gair yn yr un ymresymiad mewn dau ystyr. Oddiyma y mae mwy na hanner y dadleuon duwinyddol ac eglwysig yn tarddu: yr hyn sydd yn dangos yr anghenrheidrwydd am chwilio i ystyr y geiriau a arferir gan yr ysgrifenywyr sanctaidd yn yr ieithoedd gwreiddiol. Yr hyn a ddywedir yn yr Ysgrhythrau am yr eglwys ddirgeledig fel corff Crist, a gymhwysir gan y Pabyddion a'r Puseyaid at yr eglwys weledig. Am fod y gair "person" mewn iaith gyffredin yn arwyddo bod gwahanol, dadleua rhai fod y Trindodwyr yn dal tri o Dduwiau. Y dadleuon yn nghylch olyniad esgobawl, ac ailenedigaeth yn medydd, ydynt hefyd yn troi bron yn hollol ar ystyr y geiriau "esgob," "ailenedigaeth," a "bedydd." Y mae lliaws mawr o'r ymresymiaid ar y materion hyn o'r un natur yn gwbl, ond nid yn agos mor ddifyr a'r anghreiffitiau a ganlyn allan o Whately. Y feddyginiact rhag anwyd yw myned at y tân; ei glefyd ef yw yr anwyd; gan hyny, dylid ei ddal yn agos at y tân. Yr hwn sydd fwyaf newynog sydd yn bwyta mwyaf; yr hwn sydd yn bwyta lleiaf yw y mwyaf newynog; gan hyny, yr hwn sydd yn bwyta lleiaf yw yr hwn sydd yn bwyta mwyaf. Y mae pob iar yn dyfod o wy; y mae pob wy yn dyfod o iar; gan hyny, y mae pob wy (mewn *olyniad* rheolaidd) yn dyfod o wy. Yr hyn sydd yn dygwydd bob dydd sydd yn beth cyffredin; y mae rhai pethau anghyffredin yn dygwydd bob dydd; gan hyny, y mae rhai pethau anghyffredin yn bethau cyffredin.

2. Cymeryd rhagosodiad yn ganiataol pan y dylid ei brofi. Weithiau bydd y rhagosodiad yn ymddibynu ar y casgliad: dyma yr hyn a elwir *petitio principii*, neu yn Seisneg, *begging the question*. Cymer hyn le yn fwyaf cyffredin pan fydd y casgliad yr un peth a'r rhagosodiad yn hollol, neu mewn rhan, ond wedi ei wisgo mewn geiriau eraill: fel pe dywedid, Y mae dyn yn gyfrifol am ei holl weithredoedd; oblegid, pa peth bynag a'i cyfarfyddo, i ba le bynag yr elo, a pha beth bynag a wnelo, y mae yn cario ei gyfrifoldeb gydag ef. Lled debyg yw yr hyn a elwir "ymresymu mewn cylch," sef pan brofir y casgliad oddiwrth ryw ragosodiad, yr hwn ragosodiad a brofir drachefn oddiwrth y

casgliad. Pa fodd y profweh, meddai Rhys, fod hyn yn ddrwg? Mae yn amlwg ei fod yn ddrwg, meddai Cadwaladr, oblegid y mae y Bibl yn dyweyd yn ei erbyn. Ond pa fodd y profweh fod y Bibl yn dyweyd yn ei erbyn? Mae yn rhaid fod y Bibl yn ei erbyn, oblegid y mae y Bibl yn erbyn pob drwg. Bryd arall, sylfaenir yr ymresymiad ar ragosodiad anwireddus. Fel hyn y mae anffyddwyr yn cymeryd yn ganiataol fod gwyrthian yn annichonadwy, neu yn anghredadwy; ac yn ymresymu oddiwrth hyn fel pe byddai yn wirionedd addefedig.

3. Casgliad amherthynasol. Dyma yr hyn a elwir *ignoratio elenchi*. Gosodir rhagosodiadau i lawr yn gywir; a thynir y casgliad yn gywir oddiwrthynt; ond nid hwnw fydd y casgliad oedd eisieu ei brofi. Bydd yn swnio yn debyg; ond ni bydd yr un peth mewn gwirionedd. Y mae genym anghraifft nodedig o hyn yn hanes Cyrus gan Xenophon. Yr oedd dau fachgen yn yr ysgol; y mwyaf o'r ddau mewn gwisg ry fechan, a'r lleiaf mewn gwisg ry fawr. Cymerodd y bachgen mwyaf wisg y bychan, a rhoddodd ei wisg ei hun iddo yn ei lle. Dygodd y bychan ei gwyn yn erbyn ei gyd-ysgolhaig; a galwyd ar Cyrus, yr hwn oedd yntau yn fachgen ar y pryd, i farnu rhyngddynt. Cafodd Cyrus fod y gwisgoedd yn cyfateb yn well ar ol y newidiad nag o'r blaen; a barnodd fod y bachgen mawr wedi gwneyd yn iawn. Ond ceryddwyd ef gan yr athraw oblegyd iddo gamfarnu; gan mai y pwne oedd, nid i bwy yr oedd pob un o'r gwisgoedd yn cyfateb oreu mewn maint; ond gan bwy yr oedd yr hawl i bob un. Mynych y gwelwyd creadur tlawd yn cael ei gyhuddo o ryw gamwedd, a rhesymau nerthol yn cael eu rhoddi i ddangos echryslonrydd yr ymddygiad, pan na ddygid cymaint ag un ffaith ymlaen i brofi ei fod ef yn euog o'r bai. O'r tu arall, gwelwyd llawer un yn ceisio amddiffyn ei hun, trwy dynu y sylw hyd y gallai oddiwrth y cyhuddiad at faterion dibwys ac amherthynasol, neu oddiwrth y prif gyhuddiad at gyhuddiadau llai. Mewn ymresymidiadau meithion y mae mwyaf o berygl i'r twyll hwn ddyfod i mewn; ac anaml y bydd dadl hirfaith na bydd un o'r pleidiau, os nid y ddwy, yn cilio i raddau mwy neu lai oddiwrth y prif destun.

Hawdd fuasai olrhain pob un o'r penau hyn gyda mwy o fanyldra; ond rhaid i ni frysio i ddyweyd gair mewn perthynas i olygiadau Syr William Hamilton. Y mae efe yn gosod yr oll o Resymeg i bwysu ar y rheol gyffredinol a ganlyn. "Pa berthynas bynag o natur is a fyddo rhwng un o ddau derm, fel sylfon neu fynegiad, â rhyw drydydd term cyffredin, i'r hwn y mae un o leiaf yn perthyn yn gadarnhaol, y mao

yr un berthynas rhwng y ddau â'u gilydd." Pe ymdrechai y darllenydd i ddeall a chofio y rheol sylfaenol hon, byddai yn hawdd iddo wedi hyny ddeall a chofio holl reolau Rhesymeg. Wrth "berthynas o natur is" y meddylir fod y neillduol yn is na'r cyffredinol, a'r nacael yn is na'r cadarnhaol, &c. Wrth berthynas y ddau derm â'r trydydd y meddylir fod y naill yn sefyll yn yr un berthynas i'r llall yn y casgliad ag ydoedd i'r term canol yn y rhagosodiad. Os bydd un yn sylfon yn y rhagosodiad, mae yn rhaid iddo fod yn sylfon yn y casgliad: ac os mynegiad yn y rhagosodiad, yna mae yn rhaid iddo fod yn fynegiad yn y casgliad. Ond os bydd y ddau yn sylfon, neu y ddau yn fynegiad, yn y rhagosodiadau, yna gellir rhoddi y naill a'r llall yn y casgliad yn sylfon neu fynegiad.

Ond nis gellir cario y rheol hon allan yn gyflawn heb egwyddor arall yn yr un gyfundrefn, sef yr anghenrheidrwydd am benderfynu y mynegiad (*to quantify the predicate*). Yn y gosodiad, "Pob dyn sydd farwol," gellir cymeryd y mynegiad mewn dwy ffordd; un ai, mai yr oll o ddynion yw yr oll o farwolion, neu mai yr oll o ddynion yw rhai o'r marwolion. Dadleua Syr William Hamilton y dylid hysbysu hyn yn mhob gosodiad, trwy roddi y gair *oll* neu *rhai* o flaen y mynegiad. Nis gellir gwadu na fyddai hyn yn fantais mewn rhai amgylchiadau; ond pa un a yw yn werth dwyn i mewn gyfnewidiad mor drwyadl, yr hwn a barai i'r iaith a ddefnyddid mewn Rhesymeg wahaniaethu cymaint oddiwrth y drefn arferol o ymadroddi, sydd yn ymddangos i rai yn bwne ammheus.

Pa fodd bynag, er mwyn y darllenydd cyffredin, dichon mai gwell fyddai rhanu y cwbl i'r ddwy reol a ganlyn:—1. Y mae pob dau derm yn sefyll yn yr un berthynas i'w gilydd, fel gwrthddrych a mynegiad, ag ydynt i ryw un term arall. Y mae ychydig ystyriaeth yn dangos mai fel hyn y mae yn rhaid iddi fod yn ol natur pethau. 2. Y mae pob lleihad yn eu perthynas â'r term canol yn peri lleihad cyfatebol yn eu perthynas â'u gilydd. Hyny yw, y mae neillduoliad mewn un rhagosodiad yn peri neillduoliad yn y casgliad, a nacâd yn un rhagosodiad yn peri nacâd yn y casgliad. Ymddengys rhesymoldeb y rheol olaf ar unwaith wrth ystyried fod gwanhad mewn un ddolen yn y gadwyn yn effeithio ar y cwbl; ac naſ gellir rhoddi mwy o bwysau ar y cwbl nag a fyddo yn cyfateb i gryfder y ddolen wanaf.

Hyderwn na fydd ond ychydig yn gweled achos i gwyno fod yr ysgrif hon yn anhawdd ei deall: ond er mwyn yr ychydig hyny,

caniatäer i ni, wrth derfynu, ddifynio un neu ddau o gyfresymidiadau, a dangos pob rhan ar wahan.

Y mae pob twyll yn ddrwg ;
Nid oes dim buddiol yn ddrwg ;
Gan hyny, nid oes dim buddiol yn dwyll.

Yma, y term canol yw "drwg," oblegyd y mae yn y ddau ragosodiad ; y term mwyaf yw "twyll," oblegyd y mae yn y rhagosodiad mwyaf ; a'r term lleiaf yw "buddiol," oblegyd y mae yn y rhagosodiad lleiaf. Gwelir hefyd mai y term lleiaf yw y sylfon yn y casgliad, ac mai y term mwyaf yw y mynegiad. Fel hyn y mae trefn y termau, nid yn yr anghraiffis yma yn unig, ond yn mhob anghraiffit, yn mhob ffurf, ac yn mhob modd.

Er mwyn gwybod i ba *ffurf* y mae y cyfresymiad hwn yn perthyn, mae yn rhaid sylwi yn mhellach ar sefyllfa y term canol. Canfyddir yma ei fod yn fynegiad yn y ddau ragosodiad, yr hyn sydd yn dangos fod y cyfresymiad yn perthyn i'r ail ffurf.

Yn nesaf, i wybod y *modd*, mae yn rhaid sylwi ar natur pob gosodiad. Mae yn amlwg fod y gosodiad cyntaf yn A, sef cyffredinol cadarnhaol ; yr ail yn E, sef cyffredinol nacael ; a'r trydydd hefyd yn E. Yn awr, y gofyniad yw, yn mha un o enwau y moddau y mae A yn y sill cyntaf, E yn yr ail, ac E yn y trydydd. Yr unig enw sydd yn cyfateb yw Cames-tres ; ac i'r modd hwnw, gan hyny, y mae y cyfresymiad yn perthyn.

Gellid newid y modd trwy ysgrifenu y cyfresymiad yn fwy syml a destlus fel y canlyn :—

Nid oes un drwg yn fuddiol ;
Y mae pob twyll yn ddrwg ;
Gan hyny, nid oes un twyll yn fuddiol.

Y term canol yma eto yw "drwg ;" ond y term lleiaf yn awr yw "twyll ;" a'r term mwyaf yw "buddiol." Mae y term canol yn sylfon yn un rhagosodiad, ac yn fynegiad yn y llall, yr hyn sydd yn dangos fod y cyfresymiad hwn yn perthyn i'r ffurf gyntaf. Y gosodiad cyntaf sydd E, yr ail sydd A, a'r trydydd sydd E ; gan hyny, mae yn rhaid mai y modd yw Celarent.

Gellid sylwi yn mhellach fod m yn enw rhyw fodd yn arwyddo fod yn rhaid newid trefn y ddau ragosodiad wrth symud y cyfresymiad o'r ail neu y drydedd ffurf i'r modd sydd yn dechreu gyda'r un gydsain yn y ffurf gyntaf ; a bod s yn arwyddo bod yn rhaid newid trefn y termau yn y gosodiadau hyny a fyddo yn cyfateb i'r llafariad o flaen yr s. Yn Cames-tres, mae yn rhaid newid lle y rhagosodiad mwyaf, a newid trefn y termau yn y rhagosodiad lleiaf a'r casgliad.

ADDYSG CYFFREDINOL.*

DYMA y pwne sydd yn y dyddiau hyn yn dwyn mwyaf o sylw y newyddiaduron a'r cyhoeddiadau misol a chwarterol yn y deyrnas. Ar un llaw y mae Dr. Hook o *Leeds*, yr hwn sydd Uchel-eglwyswr; Dr. Vaughan, un o weinidogion galluocaf yr Annibynwyr; y "*Quarterly Review*," yr hwn sydd brif gynnrychiolydd y Toriaid; yn nghyda'r rhan fwyaf o newyddiaduron, yn dadleu dros ddyledswydd y llywodraeth i ddarparu moddion addysg i bawb yn ddiwahaniaeth. Ar y llaw arall, y mae Mr. Baines, ieuangaf, o *Leeds*, yr "*Eclectic Review*," y "*Nonconformist*," a'r "*Patriot*," wedi ysgrifenu yn helaeth a grymus i brofi na ddylai y llywodraeth wladol ymyryd âg addysg y genedl. Yr ydym wedi darllen y rhesymau o'r ddwy ochr yn fanwl a diduedd; ac efallai y dysgwylir i ni draethu yn fyr ein syniadau ar y mater. Nid ydym yn tybied y dichon dim a ddywedwn effeithio llawer y naill ffordd na'r llall; er fod rhai Toriaid yn Nghymru yn siarad fel pe byddent yn barnu mai y "*Traethodydd*" oedd yr offeryn penaf i droi Syr Robert Peel o'i swydd. Gallwn sierhau iddynt nad yw ein dylanwad yn cyrhaedd mor bell, ac nad ydym mor ffol a choledd meddyliau mor afresymol. Er hyny, y mae genym ryw ychydig i'w ddywedyd a ddichon fod yn fuddiol i'r rhai hyny o'n cydwladwyr sydd yn methu penderfynu pa beth a wnant, pa un ai derbyn ai gwrthod cynnorthwy oddiwrth y llywodraeth.

Ein barn ddiysgog ydyw, fod llywodraethwyr gwladol, wrth amcanu at ddsygu y genedl, yn cymeryd mewn llaw yr hyn ni pherthyn iddynt ei wneuthur. Dylent adael y gwaith hwn i gael ei ddwyn ymlaen trwy ymdrechadau gwirfoddol. Nid oes neb eto wedi dangos pa fodd y gallant godi ysgolion yn mhob ardal a thref heb gaethiwo rhyddid yr ysgolfeistriaid, a gwanhau yn raddol y duedd hono i farnu a gweithredu drostynt eu hunain, yr hon sydd hyd yn hyn wedi hynodi y Prydeiniaid. Nid ydym yn son yn bresennol am y perygl o fod pawb yn cael eu gorfodi i ddsygu egwyddorion croes i'w barnau cydwbodol eu hunain. Meddyliem fod pob gobaith am hyny wedi diflanu o'r diwedd o

* O'r "*TRAETHODYDD*," am 1847.

feddyliau y rhai mwyaf rhagfarnllyd; ac y mae hyd yn nod Dr. Hook a'r "*Quarterly Review*" yn addef na fyddai ond trais ac anghyfiawnder. Yr oll a broffesir ganddynt y dyddiau hyn yw, y dylai y llywodraeth ddysgu y genedl i ddarllen ac ysgrifenu, &c., heb ymyrd â'u hegwyddorion crefyddol. Yn awr, ni a dybiwn y cadwant at hyn yn ddidduyll a ffyddlawn. Ond pan ystyriwn y bydd yr holl athrawon yn ymddibynu ar y llywodraeth am eu cyflogau, y mae yn amlwg y bydd rhwyd yr awdurdod wladol wedi ei thaenu dros y deiliaid, yr hon a fydd yn sier mewn amser o gaethiwo eu meddyliau, a'u rhwystro i ysgogi gyda rhyddid a rhwyddineb.

Nis medrwn weled ychwaith fod anghen y wlad yn gyfryw fel nas gellir ei gyflenwi trwy weithrediadau gwirfoddol. Y mae Dr. Vaughan wedi cymeryd llawer o drafferth i geisio dangos annigonolrwydd yr ysgolion presennol; ac efallai nad yw Mr. Baines wedi llwyddo yn hollol i brofi yn amgenach. Ond y mae un peth wedi ei adael gan y ddau yn ormod o'r golwg, sef yw hynny, nid pa beth sydd eisoes wedi ei wneuthur, ond pa beth sydd yn awr yn cael ei wneuthur. Yr ydym yn cyttuno â Dr. Vaughan fod pawb wedi bod hyd yn hyn yn rhy ddiffirwyth. Ond y maent yn awr wedi deffro. Ni welwyd erioed fwy o egni gydag un achos. Ac os gadewir y gwahanol gymdeithasau, yn nghyda'r gwahanol bleidiau crefyddol, yn llonydd i weithredu fel y maent, bydd y wlad wedi ei llenwi â digonedd o ysgolion cyn pen ychydig flynyddau. Ond os unwaith y gesyd y llywodraeth ei llaw ar y gorehwyl, ofawn yr effeithia fel parlys ar y corff gwladol, y collir y rhan fwyaf o'r egni presennol, ac y bydd haelioni y genedl i raddau mawr wedi rhewi am byth.

Ond hwyrach mai y gofyniad sydd yn fwyaf anghenrheidiol i'w ateb yw y canlynol:—Os bydd y llywodraeth yn codi ysgolion, beth fydd dyledswydd yr ymneillduwyr yn yr amgylehiad hwnnw? Ein cynghor ni ydyw, Ewch ymlaen eich hunain os gellwch, a chedwch yn glir oddiwrth bob awdurdod wladol. Ond ar yr un pryd, nis gallwn weled fod derbyn cynnorthwy y llywodraeth mewn cysylltiad â dysgeidiaeth cyffredinol yn taraw yn y gradd lleiaf yn erbyn egwyddorion ymneillduaeth. Nid oes mwy o berthynas rhwng y mater hwn ag ymneillduaeth nag sydd rhwng deddf y tlodion ag ymneillduaeth. Ni chlywsom fod neb yn cynghori dynion i beidio derbyn cymhorth plwyfol am eu bod yn Annibynwyr, yn Fedyddwyr, neu yn Fethodistiaid; a byddai yn llawn mor afresymol eu cynghori oblegid eu crefydd i beidio derbyn addysg o ddwyllaw y llywodraeth. Y mae rhai o'r ysgrifenywyr enwocaf yn yr oes wedi dyweyd, mai gwell fuasai i gynnaluaeth y tlodion ymddibynu yn

hollol ar roddion gwirfoddol, ac nid pell ydym oddiwrth feddwl yr un peth. Ond nid yw cysondeb mewn un modd yn rhwymo yr ysgrifenydd hyn i gollfarnu y tlodion sydd yn derbyn cynnorthwy plwyfol, nae yn eu rhwystro i weithredu eu hunain, os dewisant, o blaid uniondeb a thrugaredd yn ngweinyddiad y ddeddf yn yr undeban lle y maent yn preswyllo. Yn gyffelyb ar y mater hwn, ac oddiar ystyriaethau cyffelyb, cynghorwn y Cymry i beidio gadael eu hysgolion i fyned dan awdurdod y llywodraeth wladol. Ond nid ydym yn rhoddi y cynghor hwn iddynt fel ymneilldwywr, nae yn herwydd eu hymneilldwaeth, eithr fel gwladwyr, ac er mwyn rhyddid gwladol; ac ni theimlem ein bod yn euog o un anghysondeb pe annogem rieni i anfon eu plant i ysgolion y llywodraeth yn hytrach na'u gadael yn amddifaid o fanteision addysg. Ni fyddent wrth hynny yn gwadu eu crefydd, nae yn aberthu yr un o'u hegwyddorion.

Yr ydym o hyd yn cymeryd yn ganiataol fod crefydd i gael ei chadw allan o gylich yr addysg a roddir yn yr ysgolion hyn: ac o ganlyniad, nis gallwn weled pa gysylltiad sydd rhwng y pwnc hwn a'r ddatl mewn perthynas i undeb yr eglwys a'r wladwriaeth. Y mae crefydd yn rhywbeth anfeidrol uwch na rhifyddiaeth a ieithyddiaeth a daearyddiaeth. Nid crefydd yw dysgu y wyddor i'r plant bach yn yr Ysgolion Brytanaidd; ac nid crefydd ychwaith yw eu dysgu i ddyweyd y gwir ac i beidio lladrata. Gall y llywodraeth ddyysgu y pethau hyn heb wneyd cam â chydwybod neb; ac nid oes un rheswm yn erbyn iddi gymeryd y gorchwyl mewn llaw, ond yr un rhesymau ag sydd yn erbyn iddi ymgymeryd a'r gwaith o wneuthur yr holl ffyrdd haiarn yn y deyrnas, a llywyddu ei holl drafnidiaeth. Byddai trwy hynny yn arfer gormod o awdurdod, ac felly wrth godi a chynnal ysgolion; ond ni byddai yn y naill amgylchiad na'r llall yn cyffwrdd â chyfrifoldeb dyn i'w Greawdwr. Ond y fynydd yr elo y llywodraethwyr gwladol i reoli crefydd, y maent nid yn unig yn arfer gormod o awdurdod yn eu teyrnas eu hunain, ond yn euog o ymyryd â theyrnas arall yr hon nid yw yn perthyn iddynt, sef y freniniaeth hono yr hon nid yw o'r byd hwn. Y mae yma wahaniaeth hanfodol rhwng y ddau achos. Yn y naill y maent yn caethiwo gormod ar eu tyddynwyr eu hunain yn eu dull o drin eu tiroedd, ond yn y llall y maent yn ceisio awdurdodi ar dyddynwyr sydd yw byw ar diroedd rhai eraill. Yn yr achos cyntaf, gallwn gymeryd oddi wrthynt, os dewiswn, yr hyn nis gallwn ei gymeryd yn yr ail achos heb fod yn anffyddlaw'n i'n Harglwydd. Nid yw y cyntaf ond mater rhyngom ni a'r llywodraeth, ond y mae y llall yn fater rhyngom

ni a Duw. Y mae genym hawl i ymwadu â'n breintiau personol ein hunain fel gwladwyr, ond nid oes genym hawl i aberthu un o'r rhagorfreintiau sydd yn perthyn i ni fel deiliaid o deyrnas y Cyfryngwr.

Ond os oes gwahaniaeth barn o berthynas i'n dyledswydd mewn amgylchiadau a allant ein cyfarfod ar ol hyn, ni ddylai fod un amheuaeth yn nghylch ein dyledswydd bresennol, yr hon nid yw yn angen na gweithio â'n holl egni. Os oes rhai yn barnu mai gwell fyddai i'r llywodraeth beidio codi ysgolion, y ffordd oreu i'w hattal yw codi rhai ein hunain yn mhob ardal. Ac os yw eraill yn barnu yn wahanol, gallant fod yn sier mai y rhai a wnant fwyaf eu hunain yw y rhai a gânt fwyaf gan y llywodraeth. Os ydych am i craill eich helpio,* helpiwch eich hunain yn gyntaf. Y mae arnom ofn rhag i lawer orphwys mewn dadleu a dysgwyl yn lle gweithio. Gwybydder fod y Puseyaid yn llawn-fwriadu gwneyd ymosodiad ar Gymru. Y maent wedi casglu miloedd lawer i'r perwyl, ac y mae genym awdurdod y "*Record*" dros ddywedyd fod yr ymgyrch hwn dan lywyddiad y rhan Babaidd o'r Eglwys Sefydledig. Pa le y mae y Gymdeithas Addysgiadol Gymreig? Dysgwyliasom y buasai ei goruchwylwyr wedi eu penodi, ac wedi gwneyd llawer o wrolwaith cyn hyn. Ac attolwg, pa beth yw yr achos na b'ai y Methodistiaid yn fwy blaenllaw gydag Ysgol Aberhonddu? Pa fodd y mae mor ychydig o honynt yn perthyn i'r pwyllgor? Nis gallwn roddi lle i'r dybiaeth eu bod wedi eu cau allan trwy ddichell; gan hyny, nid oes genym ond crodu mai eu difaterwch hwy eu hunain oedd yr achos. Ond yr hyn sydd yn pwyso fwyaf ar ein meddwl, gyda golwg ar addysg yn Nghymru, yw yr anghenrheidrwydd am ychwaneg o athrawon. Dymunem i ieuentyd y Dywysogaeth ddeall nad oes swydd anrhydeddusach yn yr holl fyd na chadw ysgol, oddigerth gweinidogaeth yr efengyl. Darllenwch hanes Dr. Arnold, ac yna cewch olygiadau teilwng ar waith ysgolfeistr. Y mae enw y gŵr hwn yn myned yn fwy adnabyddus, ac yn fwy parchus bob dydd, pan y mae enwau seneddwyr a rhyfelwyr yn suddo yn gyflym i dragywyddol ebargofiant. Os dewiswch fod yn debyg iddo, rhaid i chwi lafurio i fod yn ysgolheigion trwyadl eich hunain. Gochelwch bob rhith-ysgolheigdod. Ac ymdrechwch, nid yn unig i ddysgu y rhai sydd dan eich gofal yn gelfyddydol a ffurfiol, ond hefyd i blanu egwyddorion da yn eu meddyliau. Dysgwch hwy i wneyd yr hyn sydd iawn yn mhob amgylchiad, pa beth bynag fyddo y canlyniadau.

* Cofed y mân-feirniaid mai gair Cymraeg yw *helpio*.

DYSGEIDIAETH, FEL CYMHWYSDER
I'R WEINIDOGAETH.*

Mae yn debyg mai nid llawer a geir yn Nghymru y dyddiau hyn yn ddigon hyf i sefyll yn gyhoeddus o blaid yr hen ddywediad Pabaidd, mai "mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth." Ond er ei bod wedi myned yn ormod o'r dydd i'r hen goel-grefydd yma ddyfod allan yn amlwg, y mae lle i feddwl ei bod eto yn llechu yn ddirgelaidd mewn lliaws o hen gilfachau tywyll. Os yw gwybodaeth i raddau wedi gorchfygu y wlad, nid yw y trigolion wedi ymgymmodi yn llwyr â'r gorchfygwyr. Arferir llawer iawn o wrthwynebiad goddefol (*passive resistance*), ac nid oes dim prinder ar awgrymiadau anfoddog. Cewch glywed rhai yn lled-hôni mewn conglau nad oes dim yn iawn er pan ddaeth yr ysgolion yma i'r wlad. Y mae pob peth yn myned o chwith. Nid yw yr haul yn goleuo, na'r ddaear yn rhoddi ei ffrwyth, fel o'r blaen. Ac y mae y bai i gyd ar yr ysgolion. Ond yn benaf mewn cysylltiad â gweinidogaeth yr efengyl y mae y rhagfarn yma yn gweithredu. Prin y caniatëir gan rai eto y dylai gweinidog yr efengyl fod yn fwy dysgedig na dyn arall; ac y mae llawer sydd yn addef hyn mewn geiriau yn mhell oddiwrth deimlo a gweithredu yn gyfatebol i'w bwysfawrogrwydd.

Y mae hen reswm "pysgodwyr môr Galilea" heb ddarfod o'r byd eto. Os pregethwyr annysgedig a ddewisodd Crist ar y cyntaf, pa anghen am ddysgeidiaeth yn yr oes hon? Mae y bobl sydd yn ymresymu fel hyn yn gofalu am adael dysgybl Gamaliel allan o restr yr apostolion. Os yw yr apostolion yn rheol i ni, yr un mor gywir fyddai dadleu y dylai pob pregethwr fod mor ddysgedig a'r apostol Paul. Ond yr ydym yn eithaf boddllawn i gyfarfod â hwynt ar eu tir eu hunain. Gadewch Paul allan, os mynwech chwi; a chyfyngwech y ddadl at y lleill yn unig. Nid awn ychwaith i ymdroi oddiamgylch y doniau gwyrthiol: eithr cymerwn yn ganiataol y dylai pregethwyr yr oes hon

* O'r "TRAETHODYDD," am 1850.

fod yn debyg i apostolion cyntaf Crist yn eu sefyllfa gyffredin yn unig, heb un olwg ar eu cymhwysderau goruwchnaturiol. Yn awr, gadewch i ni edrych pa fodd yr ydym yn sefyll. Nid ydym yn gwadu nad oedd- ynt, mewn cymhariaeth i'r Rabbiniaid Iuddewig, yn "wŷr anllythyr- enog ac annysgedig." Er hyny, mae yn eglur fod yr apostolion, amryw o honynt o leiaf, os nad pawb, yn deall *tair o ieithoedd*. Iaith gyffredin yr Iuddewon yn y dyddiau hyny oedd yr Aramaeg, yr hon oedd, nid yn gangen, ond yn iaith wahanol oddiwrth yr Hebraeg, er fod perthynas lled agos rhyngddynt. Dyma y iaith a elwir y Syriaeg yn 2 *Bren.* xviii. 26. Ac yr ydym yn cael oddiwrth yr hanes yn y lle hwnaw, fod cymaint o wahaniaeth rhwng y ddwy, fel yr oedd y bobl gyffredin, er eu bod yn gwybod y naill, yn analluog i ddeall y llall. Ond wedi y caethiwed, y Syriaeg, neu yr Aramaeg, oedd tafodiaith arferedig y genedl. Heblaw yr iaith hon, mae yn ddiau fod y rhan fwyaf o'r apostolion yn gyfarwydd âg ysgrifeniadau Moses a'r pro- phwydi yn yr Hebraeg. Fel prawf, gallem grybwyll nad ydynt bob amser yn dilyn cyfieithiad y Deg a thriugain yn y dyfyniadau a roddir ganddynt allan o'r Hen Destament. Prawf arall yw y darlleniadau cyhoeddus a chyson yn y synagogau, yr hon arferiad sydd yn para yn mysg yr Iuddewon o'r amser hwnaw hyd heddyw. Ac yn ychwanegol at hyn oll, yr oeddychyd yn alluog i ysgrifenu yn ramadegol a deallus yn iaith y Groegiaid. Dyma y cynllun y mae gwrthwynebwyr dysg- eidiaeth yn dadlu drosto. Byddai yn dda genym wybod pa fodd y maent erbyn hyn yn ei hoffi. Yn ol eu rheol hwy eu hunain, ni ddylai neb gael dechreu pregethu heb fod yn gyfarwydd mewn *tair o ieithoedd*. Yr oedd y Groeg i'r Iuddewon, yn yr oes hono, yr un peth ag yw Saesneg i'r Cymry yn y dyddiau hyn. Felly yn ol y rhai sydd yn dadleu dros y cynllun hwn, er i ni adael Paul allan o'r rhestr, ac er i ni beidio son dim am y fantais oedd ganddynt trwy eu bod yn medd- iannu doniau gwyrthiol, ni ddylai un Cymro gael ei dderbyn fel preg- ethwr heb ei fod yn medru ysgrifenu yn gywir, ac ymddyddan yn rhwydd, yn yr iaith Saesneg. Ac nid hyn yn unig, ond heblaw Cymraeg a Saesneg, mae yn rhaid iddo feddu gwybodaeth fanwl o ryw iaith arall. Pa un yw hono i fod, gadawn iddynt hwy benderfynu. Os bydd neb yn teimlo ein bod yn cymeryd golwg rhy arwynebol ar y pwnc, dylent gofio mai nid ein rheswm ni ydyw hwn, ond eiddo y rhai sydd yn gwrthwynebu dysgeidiaeth. Rhaid cyfarfod â phawb ar ryw dir cyffredin cyn y gellir dechreu ymresymu. Ond ofer yw son wrth

y rhai hyn am les dysg, fel y mae yn eangu y meddwl ac yn coethi yr archwaeth; ofer yw agor o'u blaen y mwngloddiau o gyfoeth, a'r byd-oedd o brydferthweh, sydd yn ysgrifeniadau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn yr hen oesoedd, a llawer o'r Saeson mewn oesoedd diweddarach. Fel atebiad anffaeledig i'r cwbl, dywedant yn ebrwydd nad oedd yr apostolion yn ddynion dysgedig. Purion; dyma ni o'r diwedd wedi cyfarfod â hwynt ar y tir a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain: a thybied yr ydym yr addefant o hyn allan nad oes ganddynt fymryn o lawl mewn troedfedd o hono, ac mai eu doethineb yw rhoddi i fyny bob esgus o feddiant sydd ganddynt ynddo, heb ychwaneg o wrthwynebiad.

Y mae gwrthwynebwyr dysgeidiaeth draehfn yn dadlön fod yr Arglwydd wedi llwyddo llawer o ddynion annysgedig yn Nghymru. Barnant fod y rheswm hwn yn anffaeledig. Gallem ddwyn ar gof iddynt mai dynion dysgedig oedd Dr. Morgan, ac Edmund Prys, a Ficer Prichard, a Griffith Jones o Landdowror; ac mai dynion dysgedig oedd Harris, a Rowlands, a Williams o Bant-y-celyn, a Dr. Lewis, a Charles o'r Bala. Ond byddai hyn i gyd yn ddiëffaith; oblegid y mae rhai pobl na fedrant, neu na fynant, edrych ond yn unochrog. Pe dywedech wrthynt am lu o enwogion, y rhai y bendithiodd Duw eu dysgeidiaeth i fod yn lles annhraethol i Gymru, y mae ganddynt un ateb wrth law i gyfarfod â'r cwbl: "Dynion annysgedig oedd Christmas Evans a John Elias." Yn awr, os rhaid iddynt sylwi yn unig ar un ochr, yr ydym yn barod i ymresymu â hwynt ar y tir hwn eto; a beiddiwn ddywedyd yn hyf mai *nid* dyn annysgedig oedd Christmas Evans, ac mai *nid* dyn annysgedig oedd John Elias. Dichon na fu y gwŷr hyn am yspaid maith mewn ysgolion: ond yr oeddynt er hyny trwy lafur dibaid wedi cyrhaedd graddau helaeth o ddysg. Buasai yn fantais fawr iddynt yn ddiau pe cawsent dreuio y rhan foreuaf o'u hoes mewn ysgolion. Buasai eu gwybodaeth fel hyny yn fwy manwl a chywir, a buasant yn ei chyrhaedd yn llawer laws a chyflymach. Mewn efaith, buasant yn byw rai blynyddau yn hwy, oblegid buasant yn dysgu yn fuan ac yn rhwydd yr hyn a gostiodd iddynt fwy na chymaint arall o amser a llafur. Addefir yn rhwydd gan gyfeillion, yn gystal a gelynion dysgeidiaeth, nad oes un swyn mewn ysgolion i rododi addysg i ddyd ieuanc yn annibynol ar ei ymdrech ef ei hun. Yr oll a broffesant ei wneuthur yw *cynnorthwys*. Dyn dilafur nis gall ddysgu mewn ysgol; a dyn llafurus sydd sicr o ddysgu mewn amser pe b'ai heb un ysgol. Ond y mae yr olaf yn

rhwym o feichio ei hun â llawer o lafur a fuasai yn afreidiol pe cawsai well manteision. Y mae weithiau yn ymboeni am ddiwrnodau uwelben anhawsder y buasai athraw yn ei esbonio mewn ychydig fynyddau. Bryd arall y mae yn llawenhau yn y dyb ei fod wedi cael allan ryw ddarganfyddiad newydd, am ei fod yn newydd iddo ef, er ei fod yn hysbys i eraill er ys cannoedd o flynyddau. Bryd arall y mae yn tafu y cwbl heibio mewn digalondid, ac yn treulio misoedd o'i amser gwerth-fawrocaf yn llwfr a difywyd. Trwy lafur fel hyn yr aeth Christmas Evans a John Elias yn ddynton dysgedig. Mor bell oddiwrth feddwl fod dysgeidiaeth yn afreidiol fel cymhwysder i weinidogaeth yr efengyl, yr oeddynt hwy yn gweled cymaint o werth ynddi fel y llafuriasant am dani trwy anfantheision mwy na chyffredin. Gellid dywedyd yr un peth am weinidog poblogaidd arall sydd yn awr yn fyw, enw yr hwn a ddefnyddir yn fynyeh, ond yn groes iawn i'w duedd ef ei hun, fel esgusawd dros anwybodaeth. Ni fu erioed fwy camsyniad. Yr ydym yn addef nad yw ei wybodaeth ieithyddol yn dra helaeth; o leiaf, dyna yw ei dystiolaeth ef ei hun: ond nid yw hyn namyn un gangen o ddysg-eidiaeth. Mewn cangenau eraill, gwyddom ei fod er ei holl anfantheision yn ysgolhaig trwyadl. Ac er, fe allai, nad yw yn deall ond yn nesaf i ddim o'r iaith Saesneg, y mae, trwy holi rhai eraill, a hyny ar bob adeg gyfleus, wedi dyfod yn fwy cyfarwydd nag y meddylid yn *nghymmys* y llyfrau goreu a fedd y Saeson. Mewn gair, nid hawdd fyddai cael neb addasach i brofi dynion ieuaine mewn amryw gangenau o wybodaeth gyffredinol, yn nghyda "*Butler's Analogy*," neu Jonathan Edwards "ar yr Ewyllys." Rhaid iddo fadden i ni am ddywedyd cymaint a hyn, gan ei fod ef yn anfwriadol wedi achlysuero llawer iawn o ddrwg yn Nghymru, trwy fod ei enw yn cael ei ddefnyddio gan bobl segur a diffwrth i gyfiawnhau anwybodaeth. Nis gwyddom a oes rhyw anghreiffitiau eraill ai peidio. Ond os oes, ni phetruswn ddywedyd, un ai fod yr anghreiffitiau, fel y rhai uchod, yn anghywir, neu ynte nad yw y dynion hyny yn haeddiannol o le uchel yn mysg cymwynaswyr y Cymry.

Ond er ein bod yn credu na chyrhaeddodd neb enwogrwydd parhaus fel gweinidogion yr efengyl, heb fod yn meddu graddau helaeth o wybodaeth gyffredinol, nid ydym yn dadleu na fu llawer dyn annysgedig ac anwybodus yn ddefnyddiol mewn cylchoedd bychain. Ac y mae hyn yn peri i ni arafu wrth feddwl am gynnyg dysgeidiaeth fel ammod hanfodol cyn y caiff neb ganiatâd i ddechreu pregethu. Y prif

gymhwysderau yw rhagoriaeth mewn duwioldeb a synwyr cyffredin. Ni wna dysg ddim heb y rhai hyn; ond gwnant hwy, ac y maent eisoes wedi gwneyd llawer, heb ddysg. Er hyny, fe allai, mai nid gormod fyddai dyweyd am hen bregethwyr Cymru, na fu cymaint ag un o honynt yn ddefnyddiol, nad oedd yn awyddus ac yn llafurus, *hyd eithaf ei afa*, i gyrhaedd gwybodaeth. Yr oedd gan y tlotaf o honynt lyfr-gelloedd cyflawnach na degau o bregethwyr yr oes hon: ac nid siarad am eu llyfrau yr oeddynt, ond eu darllen nes eu deall, a'u darllen eilwaith nes eu cofio. Pe buasent byw yn y dyddiau hyn, mae yn rhesymol meddwl y buasent mor llafurus a neb i chwilio am ddysgeidiaeth. Os oeddynt yn defnyddio pob mantais oedd yn gyrhaeddadwy iddynt yn yr oes hono, gallwn gasglu y buasent gyda'r parodrwydd mwyaf yn defnyddio pob manteision ychwanegol sydd i'w cael yn yr oes hon. Erbyn hyn y mae amgylchiadau wedi newid; y mae yr anghenrheidrwydd am wybodaeth yn llawer mwy, ac y mae y cyfscuderau i gyrhaedd gwybodaeth wedi lliosogi yn gyfatebol. Y mae anryw ysgolion i ddysgu Saesneg yn mhob sir; a phe dygwyddai fod dyn ieuanc yn analluog i fyned i'r ysgol, y mae amrywiaeth o lyfrau rhadlaw ar elfenau y gwyddorion a'r celfyddydau i'w cael yn yr iaith Gymraeg. Nid oes mwyach yr un esgus dros anwybodaeth: ac os gwelir ymgeisydd am y weinidogaeth yn anwybodus mewn dacaryddiaeth, hanesyddiaeth, seryddiaeth, anianyddiaeth, a gwybodaethau cyffredin eraill, y mae hyny yn brawf digonol ei fod yn amddifad o ysbryd darllen, ac y mae lle cryf i ofni nad oes ganddo un dyben uwch yn ei ymgais am bregethu na mantais i fyw yn segur. Mae yn hen bryd anghenrheidiol dynion o'r fath hyn. Dylid sefyll yn wrol, a siarad yn eglur ar y mater. Nid yw ond oferedd eu danfon i'r ysgolion ar ol iddynt ddechreu pregethu, gan ddysgwyl y gwneir y diffyg i fyny mewn rhyw lwybr gwyrthiol. Os dilafur oeddynt cyn dechreu, dilafur a diffwrwth a fyddant wedi hyny mewn ysgol a choleg, ac felly y maent yn debyg o aros am weddill eu hoes. Cyn iddynt ddechreu y mae eu profi, nid yn gymaint er mwyn gwybod pa faint y maent eisoes wedi ei ddysgu, ond i gael allan a oes ynddynt ysbryd llafurio. Os yw yn rhy anhawdd penderfynu ar un gradd penodol o wybodaeth gyffredinol fel ammod i'r weinidogaeth, mae yn ddiammheuol fod *tuedd llafurus* yn anhebgorol anghenrheidiol. Dyma ammod a ddylai gael ei osod o flaen pob ymgeisydd, a dylai yr eglwysi fynu dynion addas i'w brofi yn ddiarbed nes cael boddlonrwydd ar hyn o bwnc.

Y mae un wybodaeth, pa fodd bynag, y dylai pob un heb wahaniaeth fod wedi cyrhaedd graddau helaeth o honi cyn dechreu pregethu. Ar y mater hwn, nid y duedd i gasglu yn unig yw yr ammod, ond pa faint a gasglwyd eisoes—nid y llafur yn unig, ond y llwyddiant hefyd. Yr hyn yr ydym yn cyfeirio ato, yw gwybodaeth o'r Bibl. Dylai yr ymchwiliad ar y pen hwn fod yn fanwl ac yn faith. Mae galw dyn i ddysgu crefydd i eraill, ac yntau ei hun yn anneallus yn llyfr Duw, yn anghysondeb gwarthus. Wrth son am wybodaeth o'r Bibl, yr ydym yn meddwl yr holl Fibl, ac nid rhan o hono. Gellid dysgwyl i bob un sydd yn edrych ymlaen at waith y weinidogaeth fod yn berffaith gyfarwydd yn naearyddiaeth y Bibl, a hanesyddiaeth y Bibl, yn nghyda hanes y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a'r cenedloedd eraill y sonir am danynt yn yr ysgrythyrau, ac yn enwedig hanes yr Arglwydd Iesu Grist. Dylid ei holi yn yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyfreithiau Moses a phregethau Crist, yn ysgrifeniadau y prophwydi a'r apostolion, ac yn hanes yr ysgrifenywyr. Os dywedir nas gellir cael amser i hyn oll, yr ydym yn ateb, mai nid gwaith i'w orphen mewn un cyfarfod, nac mewn un dydd, yw profi dyn sydd yn meddwl am fod yn weinidog yr efengyl. Na feddylier ein bod yn erbyn chwilio i mewn i ddaliadau athrawiaethol yr ymgeisydd. Yr ydym yn addef fod hyn o'r pwys mwyaf; ac yr ydym yn golygu fod hyn yn gynnwysedig yn yr hyn a ddywedwyd uchod. Ond nid ydym mewn un modd yn gallu amgyffred fod gan neb hawl i gau allan ranau eraill o'r Bibl. Os yw yr "holl ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw," onid yw y rhanau hanesyddol o'r Bibl yn deilwng o sylw yn gystal a'r rhanau athrawiaethol? Nid ydym yn foddllawn i daslu ddistyrweh ar "un iod nac un tipyn" o air Duw. Yn lle pleidio y naill ran yn fwy na'r llall, yr ydym yn dadleu y dylai yr ymchwiliad fod mor gynnwysfawr nes rhoddi boddlonrwydd llwyr o barth gwybodaeth yr ymgeisydd yn yr holl Fibl: ac nid ydym, wrth hyn, yn gofyn dim ond yr hyn y dichon pob dyn yn Nghymru ei gyrhaedd trwy ddiwydrwydd, ond nid heb ddiwydrwydd.

Gyda gradd o wylder yr ydym yn cyflwyno yr ystyriaethau hyn i sylw eglwysi Cymru. Ni fuasai dim yn peri i ni lefaru ond teimlad o bwysfawrogrwydd y pwne. Y mae yn ymddangos i ni nas gellir ei esgeuluso yn hwy heb ddinystrio effeithioldeb, a defnyddioldeb, ac urddas y weinidogaeth. Ie, ni phetruswn ddywedyd fod arholiad o'r fath a nodwyd yn anghenrheidiol fel moddion i rwystro dynion i

ymaflyd yn y gwaith o bregethu oddiar ddybenion gau. Nid yw hyn yn cael ei ddiogelu mewn un gradd trwy eu gorfodi i fyw ar gyflogau bychain; oblegid yr oll a wneir wrth leihau y gyflog yw symud y brofedigaeth o ddsbarth uwch i ddsbarth is, a themtio y rhai mwyaf anwybodus yn lle y rhai mwyaf doniol. Os dymunir boddlonrwydd am gywirdeb yr ymgeisydd, edrycher a oes ynddo ddigon o alluoedd a phenderfyniad meddwl, ac ysbryd llafur, i ennill ychwaneg, pe dewisai, mewn rhyw lwybr arall. Mae y mater hwn hefyd yn dwyn perthynas hanfodol â sefyllfa grefyddol yr holl Dywysogaeth. Pe rhoddid ar ddeall i ieuentyd ein gwlad, nad oes un o honynt i feddwl am bregethu heb fyned dan arholiad trwyadl yn ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, buan y gwelid golwg newydd ar Gymru. Effeithiai y cyfrawd ar yr Ysgolion Sabbothol, ac ar addysg deuluidd. Onid yw yn bryd i ni ymaflyd yn y gorchwyl, a hynny yn egniol? Os oes holi i fod cyn derbyn i'r weinidogaeth, y mae eisieu gofalu am iddo fod yn rhywbeth mwy na ffurf. Gyda'r gwaith hwn, fel pob gwaith arall, dylem fod o ddifrif.

SHAKSPERE A'R CYMRY.

Nid yw yn nawdd penderfynu pa fodd y dylid sillebu enw y bardd hwn: ond yr ydym am y tro yn dilyn yr argraffiad o'i waith sydd yn dygwydd bod ger ein bron, sef yr eiddo Delius. Mac yn ymddangos ei fod ef ei hun yn ei ysgrifenu mewn mwy nag un ffordd, ac nad oedd yn gofalu llawer am sillebiaeth ei enw, mwy nag am argraffiad cywir o'i ysgrifeniadau. Un o'r pethau rhyfeddaf sydd yn perthyn iddo yw ei ddiolfalweh perffaith am ei enw yn mhob ystyr. Hyd y gellir gweled nid oedd efe ei hun yn cyfrif fod un rhagoriaeth neillduol yn perthyn iddo fel bardd, nac yn meddwl cymant am barhad ei farddoniaeth ag am dŷ cysurus i fyw ynddo am y rhan ddiweddfaf o'i oes yn Stratford, ei le genedigol. Ond erbyn heddyw y mae y dref dawel hono yn gyrchfa pererinion o bob gwlad, y rhai a dramwyant yno i gael golwg ar y tŷ lle y ganwyd ef, ac ar y fan y mae ei lwch yn gorwedd. Ac heblaw hyny, fel y sylwir gan De Quincey, y mae ei waith nid yn unig wedi myned trwy argraffiadau nas gellir eu rhifo, ond wedi cynnyrehu llyfrgelloedd helaeth o weithiau eraill, mewn ffurf o esboniadau, ymchwiliadau, a beirniadaethau, a hyny ar y Cyfandir yn gystal ag yn Lloegr ac America. Nid yw ei ysgrifeniadau yn rhydd oddiwrth wallau, y rhai yn ddiammheuol a barai iddynt gael eu collfarnu fel cyfansoddiadau annheilwng o'r wobr mewn llawer cyfarfod cystadleuol yn Nghymru. Ond rywfodd y maent er hyny wedi ennill dylanwad rhyfedd ar feddyliau dynion, ac wedi myned yn rhan bwysig o lenyddiaeth y byd.

Ei hynodrwydd penaf, yn yr hwn nid oes neb yn dyfod yn agos ato, yw ei allu i ddesgrifio y natur ddynol,—nid i'w desgrifio oddi-allan yn unig, ond yn ei holl eangder tufewnol: ac os tueddir neb i dybied nad oes dim dyfnder ond mewn gwybodaeth anianyddol, byddai yn fendith i'r cyfryw un pe darllenai llawer ar Shaksper. Y mae pelllder dirfawr rhwng telpyn o bridd, neu ddarn o graig, â chreadur byw: ond y mae pelllder mwy rhwng y greadigaeth ddireswm a'r greadigaeth resymol. Y mae gwybodaeth uwch eto yn bod na phob gwybodaeth am y greadigaeth resymol, sef y wybodaeth am Dduw; ac

yma y mae Shakspero yn ddiflygiol : ond o holl waith Duw yn y byd hwn nid oes dim i'w gymharu â dyn mewn unrhyw ystyr, pa un bynag ai mewn uchder neu mewn iselder. Y mae perthynas dyn yn cyrhaedd tudraw i'r amserol a'r meidrol, ac y mae yn meddu ar feddyliau a theimladau cyfatebol. Dwyn y dyfnderoedd llyn i'r golwg gyda gol-euni a grymusder digyfielyb oedd y gwaith a roddwyd i Shaksperc. Y mae wedi dangos pob math o ddynion mewn pob math o amgylechiadau, weithiau y dynion yn gorchfygu yr amgylechiadau, megys yn y *Tempest*, a phrydiau eraill yr amgylechiadau yn gorchfygu y dynion, fel y ceir anghraifft arbenig yn *Hamlet* ; ond yn y cwbl, hyd yn nod pan y mae yn gosod dynion mewn amgylechiadau na fu neb erioed ynddynt, ac na fydd neb ynddynt byth, y mae yn gofalu am gydfyned âg anian ; ac yr ydym yn teimlo, pe buasai y cyfryw ddynion yn y cyfryw amgylechiadau, mai fel y darlunir hwynt ganddo ef y buasent yn gweithredu. Nid yw un amser yn creu natur ddynol, ond yn taflu goleu newydd ar ddynoliaeth fel y mae. Tra y mae beirdd cyfiredin yn dyfeisio natur newydd, y mae ei wreiddiolder ef yn gynnwysedig mewn dwyn i'r golwg yr hyn sydd yn bod eisoes ; ac felly os yw yn rhagori mewn gwreiddiolder, y mae yn rhagori llawn cymaint mewn naturioldeb.

Ond er fod ei ragoriaeth penaf yn gynnwysedig mewn darluniadau cywir o'r natur ddynol yn dufewnol, nid ydym i dybied nad oedd wedi sylwi yn fanwl ar yr allanol fel y mae yn dyfod i'r golwg mewn gwahanol genhedloedd, ac mewn gwahanol ddosbeirith o ddynion yn yr un genedl. Nid oedd neb wedi edrych yn fwy craffus ar holl ddullwedd y Rhufeiniaid yn amser Iwl Caisar : ac o bawb a fu yn rhoddi darluniad o'r Cymry, nid oes neb wedi gwneuthur gwell cyfiawnder â hwynt na Shaksperc. Nid ydym yn cyfeirio yn awr at y defnydd a wnaeth yn *Lear* o hen draddodiadau y Cymry, fel y gwnaethpwyd o draddodiadau eraill y Cymry gan amryw o feirdd goreu y Saeson, megys Spenser, a Gray, a Southey, a Tennyson ; ond at y desgrifiad a roddir ganddo o agweddau ac arferion y Cymry mewn oesoedd diweddarach. Y mae yn rhaid ei fod wedi cael manteision neillduol i wybod am y Cymry ; ac efallai fod sail i'r dywediad fod nifer o honynt yn byw ar y pryd yn Stratford. Pa fodd bynag am hyny, y mae genym le i ymfrostio fod perthynas agos rhyngom â'r bardd trwy gyfrwng ei ysgolfeistr ; oblegid yr ydym yn cael iddo dderbyn ei addysg mewn Ysgol Rammadegol yn Stratford, ac mai yr ysgolfeistr oedd Cymro o'r enw Jenkins. Y mae pob lle i greu fod Jenkins yn ysgolfeistr rhagorol, oblegid rhoddodd

addysg dda i'w ddysgybl, yr hwn, er nad oedd yn ysgolhaig mor gyflawn â'i gydoeswr Ben Jonson, ydoedd wedi gwneuthur y defnydd goreu o'i ysgol, ac wedi dysgu yr hyn a ddysgodd yn hynod o drwyadl. Ac mor bell ag y mae rhagoriaeth ei ysgrifeniadau yn ymddibynu ar ei addysg foreuol, y mae yn ymddangos fod Prif-fardd y Saeson, a'r Saeson fel cenedl trwyddo ef, ac nid hwy yn unig, ond pob cenedl wareiddiedig, yn ddyledus i Gymru.

Ond pa fodd bynag y cafodd ei wybodaeth am y Cymry, y mae y ffaith yn amlwg, fel y gwelir yn ei ddesgrifiad o'r pendefig Cymreig, y milwr Cymreig, a'r offeiriad Cymreig. Y pendefig Cymreig ydyw Owen Glyndwr, neu fel y gelwid ef gan y Saeson, Glendower, yr hwn a ddygir ger bron yn yr hanes barddonol am Henry IV., brenin Lloegr. Dengys y bardd yn eglur fod Henry yn ofni Owen yn ei galon, a bod enw y Cymro yn ddychryn i Loegr. Dywedir am Marlborough wedi hyny y byddai y mamau yn Ffrainc yn defnyddio ei enw i gael trefn ar eu plant pan fyddent yn afreolus, ac na fyddai cisieu ond son am "Malbrook," fel y galwent hwy ef, i greu dystawrwydd yn y fan : a gellid meddwl fod effeithiau cyffelyb yn cydfyned ág enw Owen Glyndwr yn Lloegr. Y mae Henry y brenin yn ei alw "Y dewin mawr Glendower damnedig," yr hyn oedd cred gyfiredin y Saeson, gan nas gallent ddeall pa fodd, oddieithr trwy ddewiniaeth, yr oedd wedi bod mor fuddugoliaethus. Ond y mae Hotspur gyda mwy o barch yn ei alw "Glendower Fawr;" ac yn dywedyd ddarfod i Mortimer ymladd ág ef am yn agos i awr cyn cael ei orchfygu, ac iddynt gytuno deirgwaith i yfed o'r afon Hafren, yr hon mewn dychryn gan yr olwg ar eu gwynebau gwaedlyd a redai yn ofnus rhwng y corsenau crynedig. Ond y mae y Brenin yn ateb nas gallai gredu iddo erioed gyfarfod â Glendower mewn brwydr, ac y buasai cyn gynted yn meiddio myned i gyfarfod â'r diafol ei hunan. Wedi hyny yr ydym yn cael Hotspur a Glendower yn Bangor yn ffurfio cynghrair yn erbyn brenin Lloegr, ac yn yr ymddyddan y mae Glendower yn honi fod ganddo alluoedd mwy na chyfiredin fel dewin. Nid yw hyn yn profi dim y naill fiordd na'r llall, oblegid ei ddangos y mae y bardd yn ol y dyb oedd am dano yn Lloegr. Rhan o'r ymddyddan sydd fel y canlyn :—

Glen. Ysbrydion alwaf fi o'r dyfnder mawr.

Hot. Gwnaf finnau hyny, neu gwna unrhyw ddyn;

Ond d'wed a ddeuant pan y gelwi hwynt.

Glen. Dy ddysgu allaf i reoli'r diafol :

Hot. Mi 'th ddysgaf di i gywilyddio 'r diafol;
 Trwy dd'weyd y gwir ti gywilyddi 'r diafol.
 Os gelli di ei godi, dwg ef yma,
 A gwnaf fy llw y gyraf ef i fferdd.
 O d'wed y gwir, a chywilyddia 'r diafol.

Wrth wneuthur defnydd fel hyn o'r hen ddiareb, dichon fod Hotspur yn rhoddi ar ddeall nad oedd Glendower yn dyweyd y gwir yn yr achos hwn. Ac y mae yn rhaid addef fod y bardd, er mor uchel y mae yn gosod Owen, yn ei ddesgrifio fel dyn lled ofergoelus. Ond dylid cofio ar y llaw arall nad yw ond dilyn y traddodiad a gafodd yn yr hen hanesydd Holinshed, ac nad yw yn dangos fod Owen yn credu mwy am dano ei hun nag a gredid am dano yn gyffredin gan y Saeson. Ar y cyfan er fod Hotspur, yr hwn oedd fab i Iarll Northumberland, yn un o'r dynion blaenaf yn Lloegr, y mae Owen, yn ol y desgrifiad a roddir o hono, yn ymddwyn yn llawer mwy boneddigaidd. Ac yn niwedd yr ymddyddan, pan y mae Owen wedi troi ei gefn, y mae Mortimer, yr hwn a orchfygasid ganddo ac a briodasai ei ferch, yn ei amddiffyn trwy ddywedyd ei fod mor wrol â llew, ac mor haelionus â mwngloddiau India. Ac y mae Worcester, yr hwn oedd cwythr i Hotspur, yn rhoddi cerydd llym iddo am ei eiriau byrbwyll a thrahaus. Ond er firaeo yn enbyd fwy nag unwaith y mae Owen a Hotspur yn ymgadw heb fyned yn mhell dros y terfynau, ac y maent hwy a Mortimer yn cytuno i fyned yn erbyn y Brenin. Ymladdwyd y frwydr yn agos i'r Amwythig, a hyny yn ol pob tebyg yn gynt nag y dysgwyl-iasid, pan oedd Owen, yn ol yr haneswyr diweddaraf, yn easglu milwyr yn Neheudir Cymru.

Nis gallesid dysgwyl llawer o neillduolrwydd Cymreig yn y desgrifiad o Owen Glyndwr, gan ei fod ef wedi cael dysg a diwylliant o'r fath oreu, yr hyn sydd yn gwneuthur dynion o wahanol wledydd yn lled debyg i'w gilydd. Er hyny y mae yn rhywbeth i ni ymfrostio ynddo fod y fath le uchel wedi ei roddi i'r gwron Cymreig yn ngwaith prif-fardd y Saeson, a'r desgrifiad goreu o hono oedd ei ddangos yn ddyn cyffelyb i'r Saeson mewn iaith ac agwedd, ac eto yn un yr oedd Lloegr yn gorfod ei ofni a'i barchu. Ond pan ddeuwn at y milwr cyffredin y mae mwy o hynodion allanol yn dyfod i'r golwg, fel y gwelir yn y darluniad o Fluellen, wrth yr hwn air yn ddiammhea y mae i ni ddeall yr hen enw Cymraeg Llywelyn. Heblaw yn y dull o swnio y geiriau, megis *pig* yn lle *big*, a'r cyffelyb, y mae efe yn dangos ei darddiad Cymraeg o hyd yn ansawdd yr iaith a ddefnyddir ganddo. Un duedd

sydd yn naturiol iawn i Gymro wrth siarad Saesneg, pan na fydd wedi dyfod yn feistr ar yr iaith, ydyw arfer y geiriau hwyaf a all gael. A'r llall ydyw arfer lliaws o eiriau i geisio dangos yr un peth. Ac yn y ddwy ffordd yma y mae ein cyfaill Fluellen yn bradychu ei hun yn barhaus. Ond o ran hyny nid oedd efe am wadu ei fod yn Gymro, nac am guddio hyny mewn un modd; ac yn hyn y mae yn rhaid addef ei fod yn wahanol i lawer o Gymry yn yr oes hon. A mynai ein cyfaill yn mhellach fod y brenin Henry V., yn fwy na hanner Cymro, oblegid ei eni yn Sir Fynwy, ac mai o'r ffaith hon yr oedd llawer o'i rinweddau yn tarddu

Flu. Ay, he was born at Monmouth, captain Gower.

What call you the town's name where Alexander the pig was born.

Gow. Alexander the great.

Flu. Why, I pray you, is not pig great? The pig, or the great, or the mighty, or the huge, or the magnanimous, are all one reckonings, save the phrase is a little variations.

Y mae y dyfyniad hwn yn ein harwain at arwydd arall o waed Cymreig, oblegid yn y geiriau nesaf y mae Fluellen yn myned yn ymlaen i wneyd cymhariaeth gywrain rhwng Henry V. brenin Lloegr ac Alexander Fawr. Yr oedd un wedi ei eni yn Macedon, a'r llall yn Monmouth, yr hyn sydd gyd-darawiad rhyfedd i ddechreu; ac hoblaw hyny y mae afon yn Monmouth, a diammheu pe chwilid yn fanwl y ceid fod afon yn Macedon, a bod eogiaid yn y naill fel yn y llall. Y mae hyn oll yn ymddangos yn dra phlentynaidd; ond credu yr ydym fod y bardd wedi cyfarfod â Chymry oedd yn arfer dull cyffelyb o ymresymu wrth olrhain achau personau, neu achau geiriau; ac os nad ydym yn camsynied, y maent i'w cael eto. Er hyny, nid ydym yn tybied fod y Cymry yn waeth na chenedloedd eraill yn hyn oddicithr i'r graddau y maent yn fwy hoff o efrydiaeth hynafiaethol.

Wedi'r cwbl, mae yn amlwg fod gan y bardd barch mawr i Fluellen: ac er efallai ei fod ef ei hun yn gwneuthur ychydig o ddigrifwch o wendidau y Cymro gwrol, prin y tybiwn y buasai yn foddlaun i neb arall wneyd hyny. Y mae yn ei osod allan fel Cymro diledryw o'i sawdl i'w goryn, ac fel y cyfryw braidd yn nwydwyllt; ie, ni waeth dyweyd y gwir, yn nwydwyllt iawn; ond yn berffaith rydd oddiwrth bob diehell a phob drwgdybiaeth, yn mhell oddiwrth bob crintaehrwydd, yn ufudd i bob awdurdod, ac yn un o'r milwyr dewraf yn myddin y Brenin. Y mae ei ysbryd Cymreigaidd yn dyfod i'r golwg ar amryw achlysuron, ac

yn fwy neillduol yn y ceerydd a weinyddodd i ryw ymfrostiwr gwagsaw o'r enw Pistol, oedd wedi gwneuthur gwawd o'r Cymry a'u cenin, yr hyn a barodd i'r Cymro wisgo cenin i fyned i'w gyfarfod; a difyr yw darllen am dano yn gwneyd i'r Sais newid ei don, a bwyta y geninen bob mymryn o honi, gyda dyrnodiau i gynorthwyo yr ymborth i fyned i lawr yn rhwyddach. Sieryd y Sais ar y cyntaf yn bur fawreddus.—

Pist. Ha! art thou Bedlam? dost thou thirst, base Trojan,
To have me fold up Parca's fatal web?
Hence! I am qualmish at the smell of leek.

Flu. I peseech you heartily, scurvy, lowsy knave, at my desires, and my requests, and my petitions, to eat, look you, this leek; because, look you, you do not love it, nor your affections, and your appetites, and your digestions, does not agree with it, I would desire you to eat it.

Pist. Not for Cadwallader, and all his goats.

Flu. There is one goat for you.

[*Strikes him.*]

Will you be so good, scald knave, as eat it.

Pist. Base Trojan, thou shalt die.

Flu. You say very true, scald knave, when God's will is. I will desire you to live in the mean time, and eat your victuals: come, there is sauce for it. [*Striking him again.*] You called me yesterday, mountain-squire, but I will make you to-day a squire of low degree. I pray you, fall to: if you can mock a leek, you can eat a leek.

O'r diwedd y mae y Sais yn gorfod bwyta, heb daflu dim i ffordd; a'r Cymro yn dadgan ei ddymuniad am i'r bwyd fod yn lles iddo; ond yn ei rybuddio hefyd, "*When you take occasion to see leeks hereafter, I pray you, mock at them; that is all; ac yna cyn ymadael yn gwneuthur iddo dderbyn darn o arian tuag at wella yr archollion.* Mewn gwirionedd, hen gymeriad anrhydeddus oedd Fluellen, a dylem ymfrostio ynddo fel cenedl.

Nid llawer sydd i'w ddywedyd am yr offeiriad Cymreig; oblegid ychydig a ddywedir am dano gan y bardd ei hun, a'r ychydig hyny heb fod mewn un modd yn glod iddo. Un peth sydd braidd yn ddi-cithr ydyw, fod yr offeiriad hwn yn cadw ysgol yn Windsor, ac eto ei fod yn analluog i siarad Saesneg yn gywir. Yr oedd Owen Glyn-dwr yn siarad Saesneg fel Sais; ond y mae iaith yr offeiriad yn agos mor llaprog ag oedd iaith y milwr. Ai tybed fod y bardd yn taflu at ei hen ysgolfeistr yn Stratford? Nid yw yn anmhosibl fod Jenkins

yn ddiffygiol mewn gallu i siarad Saesneg, a'i fod er hyny yn rhoddi addysg dda i'r rhai oedd dan ei ofal. Pa fodd bynag am hyny, y mae yn sier fod dynion dysgedig i'w cael y pryd hwnw yn Eglwys Loegr hyd yn nod yn Nghymru, a rhai mor ddysgedig yn Nghymru ag yn Lloegr: ond nid yw hyny yn profi nas gallasai cyflwr y cyffredin o'r offeiriaid fod yn isel yn mhob ystyr. Dyma yr argraff naturiol oddiwrth y disgrifiad yn Shakspeare; a dyma y dystiolaeth a roddir gan haneswyr am yr ocs hono, a'r oesoedd canlynol. Yn ysgrifeniadau Fielding yr ydym yn cael mai ychydig o barch a delid i'r offeiriaid yn ei amser ef, a hyny am nas gellid eu parchu. Ac er y gallai fod Macaulay yn arfer gormodiaith wrth son am gyflwr isel yr Eglwys Sefydledig dan deyrnasiad Charles yr ail, ac wedi hyny, y mae yn sier fod rhyw gymaint o sail i'r disgrifiad. Un ffaith nas gellir ei gwadu yn hanes Eglwys Loegr yw y cyfnewidiad yn sefyllfa yr offeiriaid yn yr oesoedd diweddfaf. Y mae moesoldeb a dysg wedi dyfod yn fwy cyffredin yn eu plith, y maent fel dosbarth wedi dyfod yn fwy haeddiannol o'r gammoliaeth uchaf a fedd y Sais i'w roddi, sef bod un yn ŵr boneddig ac yn ysgolhaig, ac i'r un graddau y maent wedi cyrhaedd lle uwch mewn cymdeithas.

Gwelir nad ydym yn yr ysgrif hon wedi troseddu ar diriogaeth y beirniaid lliosog sydd wedi traethu mor helaeth ar ragoriaethau Shakspeare, gan ein bod wedi cadw at ran o'r maes yr hon sydd hyd yma wedi ei hesgeuluso. Ac fel addysg oddiwrth y cwbl gellid sylwi fod cywirdeb y bardd yn ei ddesgrifiad o'r Cymry yn brawf o wirionedd y dywediad, nad yw eangder meddwl yn anghydwedol â gwybod-aeth drylwyr o bethau *mân*, yr hyn mae yn debyg ydyw ystyr y gair *manyrlwyd*.

HAMILTON A MILL.

Ynmysg y traethodau blaenorol ceir sylwadau dan yr enw, "Paham a Pha fodd," y rhai a ysgrifenasid cyn i'r awdwr gael cyfle i ddarllen y prif lyfrau ar athroniaeth, a'r rhai o ganlyniad a ystyrir ganddo erbyn hyn yn dra anmherffaith. Er hyny, gan mai eu hamcan blaenaf yw dangos anallu y meddwl dynol i amgyffred ei hun, yn nghyda meithrin ysbryd gwylaidd a gostyngedig, gobeithir y byddant yn lles i rai darllenwyr, yn enwedig i bobl ieuaine, y rhai ydynt yn rhy duddol i dybied eu bod yn gwybod y cwbl os byddant wedi efrydu un neu ddau o'r llyfrau hawddaf eu deall mewn rhyw gangen o wybodaeth. Nid oes dim yn well cymhwysder i ddysgu na theimlad o anwybodaeth, ac nid oes dim yn brawf sierach fod un wedi dysgu yn dda na theimlad dyfnach eto o anwybodaeth. Gyda golwg hefyd ar gynnwys y sylwadau y cyfeiriwyd atynt, hyderwn eu bod yn lled gywir mor bell ag y maent yn cyrhaedd : ond teimlwn fod yn anghenrheidiol ychwanegu atynt, pe na atebid un dyben trwy hyny ond dangos fod rhywbeth mwy mewn athroniaeth nag a addefir gan awdwyr mwyaf poblogaidd y dyddiau hyn. Ac er na fwriedir ymgadw yn hollol at ddaliadau Hamilton a Mill, a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt â'u gilydd, y mae yn naturiol i ni gysylltu ein sylwadau wrth eu henwau fel prif athronwyr yr oes, y rhai y mae dosbarth eang o feddylwyr yn talu gwarogaeth iddynt, ac yn dilyn y naill neu y llall o honynt.

Ganwyd Syr William Hamilton yn Glasgow yn 1788. Cyrhaeddodd y dosbarth blaenaf ("first class") yn Rhydychain yn 1810. Bu yn ymgeisio am gadair Athroniaeth Foebol yn Edinburgh yn 1820 ; ond rhoddwyd y flaenoriaeth i John Wilson, yr hwn a ddaeth mor adnabyddus wedi hyny yn ei gysylltiad â "*Blackwood's Magazine*." Nid oedd un gradd o gymhariaeth mewn gallu athronyddol rhwng Wilson a Hamilton ; ac ar yr un pryd y mae lle i feddwl fod y dewisiad yn ddoeth, er y dichon mai rhesymau gwladyddol oedd yn effeithio i droi y fantol, oblegid yr oedd bryd Hamilton yn rhedeg yn fwy at efrydiaethau am alluoedd y meddwl nag am ansawdd moesoldeb ; ac yr

oedd Wilson, er nad yn feddyliwr dwfn, yn meddu dawn neillduol i wisgo pynciau moesol â phrydfertlhwch, ac i greu brwdfrydedd yn meddyliau y dynion ieuaine fyddai yn ei wrandaw. Yn mysg ei wrandawyr byddai Hamilton ei hun i'w ganfod yn fynych, a dywedir yr arferai gydnabod yn rhwydd fod Wilson yn gymhlwysach nag ef i'r lle hwnw. Wedi iddo golli yn yr ymgais am gadair moesoldeb, dewiswyd ef yn y flwyddyn ganlynol yn athraw mewn hanesyddiaeth cyffredinol; ond nid llawer o sylw a ennillodd yn y cymeriad hwn, yn un peth, am nad oedd yn cael darlithio ar ei hoff bynciau, ac yn ail, am nas gallasai neb wneuthur cyfiawnder â maes mor eang. Pan oedd Mr. Jowett yn ddiweddar yn rhoddi tystiolaeth gerbron cyfeisteddfod Tŷ y Cyffredin o barth i brif-ysgol Rhydychain, gofynodd Mr. Ewart iddo a oedd yno "*professor of universal history,*" ei ateb oedd, "*No, and I think he would be rather an alarming personage.*" Ond yn y flwyddyn 1836, daeth amser Hamilton, pan y penodwyd ef yn Athraw Rhesymeg, a theimlai pawb fod yr iawn ddyn yn yr iawn le. Yr oedd cyn hyny wedi ysgrifenu traethodau yn yr *Edinburgh Review*, y rhai oeddynt wedi tynnu sylw y meddylwyr galluocaf yn Ffrainc a'r Almaen. Dywedai Cousin am dano mai efe oedd y beirniad mwyaf yn yr oes hon. Efallai ei fod yn rhagori mwy fel beirniad nag fel meddyliwr gwreiddiol. Y mae wedi gwneuthur rhai ychwanegiadau o'i waith ei hun; ond yn yr ystyr yma nid ydym yn deall ei fod wedi sefydlu cyfnod newydd; tra y mae efe yn sefyll yn uwch na neb a fu o'i flaen mewn dwfn gydna-byddiaeth â phob awdwr a ysgrifennodd ar y meddwl er dyddiau Plato ac Aristotle. Nid ydym yn ammheu nas gallai fod eraill wedi chwilio yn ddyfnach i ysgrifeniadau rhai awdwyr neillduol; ond yn y cydgyfarfyddiad o ddyfnder a chyffredinolrwydd nid ydym yn gwybod am neb i'w gynharu â Hamilton.

Y mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr fod Mr. Mill wedi cyhoeddi llyfr yn ddiweddar i wrthwynebu Hamilton, ac oni buasai hyny efallai na fuasem yn meddwl am gysylltu y ddau yn yr ysgrif hon. Y mae yntau, yr un modd â Hamilton, o darddiad Albanaid, yn fab i James Mill, awdwr nid anenwog yn ei ddydd, yr hwn a dderbyniodd ei addysg yn gyntaf yn ysgol rammadegol Montrose, ac wedi hyny yn mhrif-ysgol Edinburgh. Y mab, John Stuart Mill, a'r hwn y mae a fynom yn bresennol, a anwyd yn y flwyddyn 1806. Nid yw yn ymddangos iddo ef dderbyn addysg athrofaol, gan iddo gael lle yn ieuanc yn swyddfa Cymdeithas yr India Ddwyreiniol, lle y derchafwyd

ef mewn amser i swydd uchel, fel ei dad o'i flaen. Daeth ef, fel Hamilton, yn adnabyddus trwy ysgrifenu i'r cyhoeddiadau chwarterol, weithiau i'r Edinburgh, ond yn benaf i'r Westminster, yr hwn oedd yn fwy cydnaws â'i egwyddorion. Yn 1843 cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i waith ar Resymeg. Bu am rai blynyddoedd yn Olygwr ar y *Westminster Review*, a chyhoeddodd lyfr ar Drafnidiaeth (*Political Economy*). Cyhoeddodd hefyd lyfr bychan a dynodd lawer o sylw, dan yr enw "Liberty." Yn 1865 cyhoeddodd ei "Ymchwiliad i Athroniaeth Syr William Hamilton, ac i'r prif faterion yr ymdrinir â hwynt yn ei ysgrifeniadau." Yn yr Etholiad diweddfaf dewiswyd ef yn Aelod o'r Senedd dros Westminster; ac er nad yw yn areithiwr llithrig, y mae wedi ennill parch a gwrandawriad yn Nhŷ y Cyffredin, yr hyn nid yw yn dygwydd ond anfynech i rai a enwogasant eu hunain fel ysgrifenywyr. Ceir ef bob amser yn mysg y rhai mwyaf rhyddfrydig o'r rhyddfrydwyr, ac mewn rhai pethau y mae yn myned mor bell fel nad oes ond ychydig yn barod i'w ganlyn.

Braidd na feddyliem fod Mr. Mill yn rhagori ar bynciau gwladwriaethol yn fwy nag mewn athroniaeth. Ond pa beth bynag a gymero mewn llaw, y mae yn ysgrifenu mewn iaith mor rwydd, ac yn dangos ei feddyliau mewn modd mor eglur, fel y mae yn un o'r rhai mwyaf dealladwy, yr hyn sydd yn gryn gymhorth iddo fod yn boblogaidd. Er hyny y mae iaith Hamilton mor eglur a goleu â'r eiddo yntau; ac os yw Hamilton yn fwy anhawdd ei ddeall, nis gwyddom pa gyfrif i'w roddi am hyny ond ei fod yn ddyfnach meddyliwr. Y mae mantais fawr gan athronwyr synwryddol i fod yn boblogaidd, oblegid trwy adael allan deithi dyfnaf y natur ddynol y maent yn rhoddi i'r darllenydd gwanaf yr hyfrydwch o allu dywedyd, Os hyn yw athroniaeth y mae yn rhaid fy mod innau yn athronydd, oblegid nid oes yma ddim nad ydwyf yn ei ddeall yn berffaith. Achos arall o boblogeiddrwydd yr awdwyr hyn ydyw tuedd anianyddol y Saeson, y rhai, er i ambell un gyfodi fel Coleridge i ddwyn ar gof iddynt fod byd arall yn bod, ydynt yn fuan yn blino wrth syllu ar yr ysbrydol, ac yn syrthio yn ol at yr hyn sydd dan lywodraeth deddfau amser a lle. Ond pa beth bynag yw yr achos, y mae yn ffaith mai yr un a gyfrifir mewn modd arbenig yn athronydd ac yn feddyliwr mawr gan layer o newyddiaduron y deyrnas hon ydyw John Stuart Mill: a phan ddygwyddodd i ysgrifenydd y sylwadau hyn mewn cyfarfod cyhoeddus ychydig yn ol ei restru yn mysg athronwyr arwynebol, cafodd ei feio yn dost mewn

dau newyddiadur a gyhoeddir yn Lloegr, y rhai a ymddangosent fel yn teimlo ei fod wedi dwyn ymaith eu duwiau. Ei fod yn ddyn galluog sydd ddiammheuol; ond ei fod yn athronydd dwfn nis gallwn ganiatai, nes y profir fod Plato ac Aristotle yn athronwyr arwynebol. Er hyn y'r ydym yn priodoli llawer o'r bai i natur y gyfundraeth y cafodd ei addysgu ynddi; ac y mae yn gyflawnder i ni ychwanegu fod arwyddion amlwg ei fod ef ei hun weithiau yn teimlo fod anghenheidrwydd am ryw gyfundraeth ddyfnach. O'r hyn lleiaf y mae ar rai amserau wedi dangos gradd o barchedigaeth i awdwyr dyfnach, megis Plato a Coleridge: ac yn y parodrwydd hwn i gydnabod teilyngdod y rhai sydd yn gwahaniaethu oddiwrtho y mae yn rhaid addef ei fod yn rhagori ar Syr William Hamilton, yr hwn sydd wedi siarad yn llawer rhy ddirmygus am Luther, ac Archesgob Whately, a Julius Hare. Digon tebyg nad oedd efe yn bwriadu hyn, ac y dylid priodoli ei drahausder ymddangosiadol i'w ddull o ddyweyd ei feddwl rhagblaen, yn gryf a diamuwys. Nid y rhai sydd yn siarad yn fwyaf llyfn ydyw y rhai mwyaf mwynaid bob amser; oblegid y mae llawer o wir yn geiriau y bardd,—

O gweli ddyn â golwg
 Ise! drem yn selu drwg,
 A thafod esmwyth ofeg,
 Tr byd yn deudyd yn deg,
 Ac aml wen ar ei enau,
 Heb wad fe wna frad yn frau.

Pell oddiwrthym ydyw tybied fod y geiriau hyn yn ddesgrifiad o Mr. Mill; a'n hunig amean yn eu dyfynu ydyw amddiffyn Syr William Hamilton heb gynyng diraddio neb arall. Er hyn y gwell fuasai yn ddiau pe cymerasai Syr William fwy o ofal wrth gymhwysu ei ymadraddion, gan ystyried y gallasai dynion feddwl yn wahanol iddo ef heb fod yn euog o ddrwg moesol. Gellid meddwl fod y ffaeidd hwn yn perthyn mewn modd arbenig i athronwyr a duwinyddion, a dichon mai ysbrydiaeth athronyddol a duwinyddol y Cymry ydyw yr achos eu bod mor dueddol i gollfarnu eu gilydd, ac i arfer geiriau cas am eu gilydd. Ond y mae rhyw achos i'r achos hwn, ac nis gwyddom pa beth a all hwnw fod, oddieithr ei fod yn gynnwysedig yn y ffaith fod athronwyr a duwinyddion yn ymgymysgu llai na chyffredin âg eraill o wahanol farnau iddynt hwy eu hunain. Y mae Mr. Mill wedi cael y fantais hon, ac y mae yr effaith i'w ganfod yn ei ysgrifeniadau.

Gallasai adael allan rai geirian er gwell yn ei ymosodiad ar Syr William Hamilton ; ond ar y cyfan y mae yn ysgrifenu mewn ysbryd cymedrol, ac yn talu cymaint o barch i Syr William ag a allesid ddysgwyl.

Pe buasai Syr William Hamilton yn fyw, diammheu y buasai Mr. Mill wedi cael triniaeth chwerau. Buasai wedi ei ddyosg yn ddiarbed o bob hawl i gael ei gyfrif yn athronydd, ac wedi ei gladdu i farwol-aeth dan bentwr o dystiolaethau allan o bob math o awdwyr, hen a diweddar. Ond y mae eraill wedi gwneuthur y gwasanaeth hwn i raddau, er nad gyda'r un gallu, yn enwedig Dr. M'Cosh, Dr. Cairns, a Mr. Mansel. Y mae y ddau gyntaf yn ymddangos i ni yn fwy cywir yn eu barnau na'r olaf, gan nad ydynt yn ddysgyblion mor gaeth ; Hamilton, a'u bod felly yn llefaru o safle mwy annibynol. Er hyny mae yn debyg mai Mr. Mansel sydd fwyaf gwybodus yn holl gangenau athroniaeth, ac y mae yn sicr iddo brofi fod Mr. Mill yn ceisio ymresymu mewn amryw fanau heb ddeall yr awdwr yr oedd yn ysgrifenu yn ei erbyn, ac heb ddeall y mater yr oedd yn ysgrifenu yn ei gylch. Heblaw y gwrthwynebiadau hyn, y mae lle i feddwl fod gwrthryfel yn erbyn Mr. Mill yn codi o gyfeiriad arall ; oblegid dywedir wrthym fod y dynion ieuaine mwyaf meddylgar yn y Prifysgolion yn mhellach oddiwrth Mr. Mill nag ydyw Mr. Mansel ei hun, a'u bod, yn lle ymfoddloni ar olygiadau Hamilton, yn rhestre eu hunain dan faner Plato neu Berkeley ; yr hyn sydd brawf arall o wirionedd y dywediad fod y byd yn myned ymlaen, nid mewn llinell uniongyreh, ond mewn cylchdroadau gwastadol. Nis gallwn fyned yn fanwl i'r dadleuon hyn, ac nid ydym yn pleidio y naill ochr na'r llall, ond yn bwriadu cynnyg vchydig sylwadau cyffredinol ar rai o'r prif faterion.

I. TARDDIAD GWYBODAETH.

Efallai mai gwreiddyn y gwahaniaeth rhwng Syr W. Hamilton a Mr. Mill, yn gystal â rhwng dosbarthiadau eraill o athronwyr yn mhob oes, ydyw yr olwg wahanol a gymerir ganddynt ar darddiad gwybodaeth. Y mae un blaid yn cymeryd ei safle yn myd y meddwl, ac yn edrych ar y cwbl fel yn tarddu oddiyno, tra y mae y blaid arall yn cymeryd ei safle yn y byd materol, ac yn barnu mai oddiyno y mae pob gwybodaeth yn tarddu. Sonir gan rai fod amser wedi bod pan nad oedd dyn yn gofalu am ddim ond am y corff, ac amser cyn hyny pan nad oedd ond creadur direswm, ac mai trwy ddadblygiad graddol

y daeth yn greadur rhesymol. Ond wrth gymharu athronwyr mwyaf poblogaidd y dyddiau hyn â'r rhai hynaf y gwyddom am danynt, gallid tybied fod y meddwl yn cael llawer mwy o le yn yr hen amser nag ydyw yn awr, ac mai tuedd y cyfnewidiad ydyw, nid o'r epa i'r dyn, ond o'r dyn i'r epa. Os edrychir i hen ysgrifeniadau cysegredig yr Indiaid, ceir fod eu cyfundraethau yn llawer mwy ysbrydol na'r hyn a gredir yn fwyaf cyffredin yn Lloegr, ac mai eu bai ydyw eu bod yn rhoddi lle rhy uchel i'r enaid a rhy isel i'r corff. Dywed Mullens, "Fod pob cyfundraeth o athroniaeth Hinduaidd yn siarad am yr enaid fel rhywbeth gwahanol i'r corff. Hyd yn nod yn Vedanta, lle y dysgir fod yr enaid fel pob gwrthddrych arall yn y greadigaeth wedi deilliaw o Brahma, crybwyllir am dano fel peth gwahanol, yn dwyn ei faich ei hun, ac yn myned trwy ymdrechion neillduol iddo ei hun, er mwyn dyfod yn rhydd. Ac y mae y Sankhya a'r Nyaya yn rhoddi yr enaid yn mysg y sylweddau gwreiddiol a thragywyddol." Y mae yn ymddangos fod yr Indiaid yn dal fod gwahaniaeth, nid yn unig rhwng corff ac enaid, ond rhwng enaid a meddwl. Dywed Dr. Ballantyne, "Dylid sylwi yn ofalus fod yr enaid (*atman*) yn cael son am dano fel bod hollol wahanol i'r meddwl (*manas*). Esgeulusdod o'r gwahaniaeth hwn a all ddwyn i fewn ddyrysweh blin wrth ddadlun â Hindu. Y mae y Sais wedi arfer clywed y geiriau enaid a meddwl yn cael eu defnyddio y naill am y llall, ond y mae yn rhaid iddo beidio cymeryd y dull diöfal hwn o siarad gydag ef i unrhyw gangheniaith Indiaidd, os yw yn dewis cael ei ddeall, ac os yw yn dewis gochel y cyfryw gamsyniadau â'r eiddo Ritter, yr hwn sydd yn gwneuthur i'r Naiyayika alw yr enaid yn demyg, pan mewn gwirionedd y mae yn galw yr enaid yn oll-dreiddiol, a'r meddwl yn demyg,—neu gamsyniad Cousin, yr hwn sydd yn gwneyd allan fod y Sankhya yn dal mai mater yw y cwbl, fel pe buasai yn dysgu fod yr enaid yn deilliaw o natur, tra nad yw ond yn unig yn dysgu fod offerynau yr enaid, yn allanol a thufewnol, yn deilliaw o rywbeth heblaw yr enaid. Yn nghyfundraethau yr Hinduaid yr enaid yw y dyn ei hun, a'r meddwl yw yr offeryn neu y gallu, yr hwn, trwy sefyll rhwng y dyn ei hun a'r hysbysiadau a dderbynir trwy y synwraun, sydd yn rhwystro yr hysbysiadau hynny i dyru yn anhrefnus, fel y mae gweinidog yn sefyll rhwng y brenin a'r mil o eirchion sydd yn galw am ei sylw, ac yn eu cyflwyno bob yn un i'w ystyriaeth."

Os deawn drosodd o'r India i Groeg, cawn olwg ar genedl annhebyg

iawn i'r Hinduaid yn y sylw a delid ganddi i bob math o brydferthwch allanol; ac eto yn y wlad hono yr oedd y prif athronwyr yn rhoddi llawer mwy o le i egwyddorion tufewnl fel ffynhonell gwybodaeth nag a wneir gan Mr. Mill a'i ganlynwyr. Coleddir rhagfarn gan rai yn erbyn Plato o herwydd ei fod yn son weithiau am yr enaid yn hanfodi mewn byd arall cyn dyfod i breswyllo mewn corff, yr hyn yw gwreidd-yn ei athrawiaeth o adgofiant. Wrth edrych ar weithred drugarog achlysurol yr ydym yn cael drychfeddwl am drugaredd gyffredinol, neu wrth edrych ar weithred gyfiawn achlysurol yr ydym yn cael drychfeddwl am gyfiawnder cyffredinol; a'r achos o hyny, yn ol ei farn ef, ydyw ein bod yn gydnabyddus â'r drychfeddyliau hyn mewn cyflwr blaenorol; a bod rhywbeth tebyg iddynt yn eu dwyn i gof, fel y mae darlun amherffaith yn ein hadgofio am y person a ddarlunir, os byddwn wedi cael cyffe i'w adnabod cyn hyny. O'r hyn lleiaf y mae yma farddoniaeth uchel, ac y mae Wordsworth ac eraill wedi dyweyd yr un peth ar ei ol. Ond y tebygolrwydd ydyw fod Plato yn bwriadu i ni gymeryd y dywediad yn llythyrenol; ac nid yw yn anhawdd canfod y rheswm am hyny pan ystyriom nad oedd neb o'r Paganiaid yn alluog i feddwl am *grew o ddim*. Y mae Cudworth wedi llafurio i geisio profi fod Plato yn dal hyny; ond y mae yn amlwg am yr holl anghreiffitiau a ddyfynir ganddo mai y meddwl ydyw dwyn i drefn, ac nid dwyn i fod. Yr oedd yr anallu hwn i feddwl am enaid yn dyfod i fod yn arwain Plato i roddi esboniad camsyniol o ran y ffurf o hono: ond os awn trwy y ffurf at y sylwedd y mae yma wirionedd diammheuol. Nid yw Plato yn tybied fod dyn o'i febyd yn ymwybodol o'r drychfeddyliau hyn, mwy nag y mae o hyd yn ymwybodol o bob peth sydd yn ei feddwl ar ol cyrhaedd i lawn oedran: ond y maent ynddo er hyny yn rhinweddol, er nad mewn gweithred, pan yn dyfod i'r byd; a hyn yw y cwbl sydd yn anghenrheidiol i ni ddadleu drosto. Gellid dyfeisio llawer ffordd i roddi cyfrif am y ffaith, ac efallai na fyddai yr un o honynt yn fwy boddlonol na'r eiddo Plato; ond er gwrthbrofi yr esboniadau, byddai y ffaith wedi y cwbl yn aros. Tueddir ni hefyd i feddwl nad yw esboniad Plato mor afresymol ag y tybir, os cymerir ef gyda'r cyfnewidiad sydd o anghenrheidrwydd yn canlyn o'r golygiad fod Duw yn creu yr enaid; ac os gofynir o ba le y mae yr egwyddorion gwreiddiol sydd mewn dyn fel creadur rhesymol wedi dyfod, nis gwyddom am well ateb na bodd Duw wedi creu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac mai Efe yn unig yw Tad yr ysbrydoedd.

Wrth droi oddiwrth Plato at Aristotle, yr ydym i raddau yn colli golwg ar berthynas dyn â byd arall: oblegid er ei fod ef yn credu fod Duw yn bod, y mae yn ymddangos nad oedd ganddo ond syniadau tywyll ac amheus am lywodraeth Duw ar ei creaduriaid, ac am anfarwoldeb yr enaid. Nis gallasai gan hynny fod ynddo un math o ragfarn o blaid yr egwyddorion gwreiddiol yr ydym yn son am danynt; ac eto y mae yntau yn dangos, er nad mewn un modd mor oleu a Plato, fod rhywbeth mewn dyn yn fflonhonell gwybodaeth heblaw synwrau corfforol. Yn y bennod olaf o'r "*Posterior Analytics*" y mae yn y rhan gyntaf o'r bennod fel pe byddai yn olrhain y cwbl i'r synwrau, a gellid meddwl nad oes dim gwahaniaeth rhyngddo â Mr. Mill. Ond cyn diwedd y bennod y mae yn gwahaniaethu rhwng y sier a'r ansier, ac yn dangos fod pob gwybodaeth sier yn tarddu o'r *nous*, sef rheswm yn ystyr uchaf y gair. Y mae yn cyffwrdd â'r un mater yn y chweched llyfr o'i draethawd ar Foesoldeb, a phe cytunem â Syr A. Grant i briodoli y rhan yma o'r traethawd i Eudemus, yr hyn nis gallwn ei wneuthur yn hollol, eto byddai yn rhaid i ni gredu ei fod yn ysgrifenu yr hyn a gafodd gan Aristotle. Yn y chweched bennod o'r llyfr hwnw y mae yn dyweyd mai y rheswm yw y gallu sydd yn ymwneyd âg egwyddorion: ac yn yr wythfed bennod o'r un llyfr dywed fod genym ryw fath o synwyr i ganfod egwyddorion moesol, yr hwn sydd yn wahanol i bob synwyr corfforol, ac yn fwy tebyg i'r gallu sydd genym i ganfod gwirioneddau symlaf mewn rhifyddiaeth. Yn ei draethawd ar yr Enaid, y mae yn dweyd mewn un man nad yw yn sier pa un a yw yr enaid yn alluog i fod ar wahan oddiwrth y corff;* ond mewn man arall, wrth wahaniaethu rhwng rheswm goddefol a rheswm gweithredol, y mae yn dyweyd fod y rheswm gweithredol yn rhoddi bod i bob peth fel y mae golcu yn peri fod lliwiau, y rhai ydynt yn bod o'r blaen mewn gallu, yn dyfod i fod mewn gweithred, ac hefyd fod y rheswm hwn yn alluog i fod heb y corff, yn anfarwol a thragywyddol.†

Nis gallwn olrhain y mater hwn trwy y canol-oesoedd, na gwneuthur mwy na chyfeirio yn fyr at rai o brif athronwyr yr oesoedd diweddaraf. Fel cynnrychiolwyr diweddar i'r ddau ddsbarth o feddylwyr nis gwyddom am neb gwell na Locke a Leibnitz. Wrth son am Locke dylem ystyried ar un llaw pa fath ysgrifenydd oedd yn ei ragflaenu, ac ar y llaw arall dylem edrych na fyddom yn ei wneuthur ef yn

* De Anima, II. i. 12. † De Anima III. v. 2.

gyfrifol am ddaliadau y rhai a broffesent eu bod yn ei ddilyn. Ei ragflaenor yn y wlad hon oedd Hobbes, yr hwn oedd yn ysgrifenu tra galluog, ond ar yr un pryd yn methu gweled fod dim mewn dyn heblaw corff, na bod un dyben uwch i'r corff hwnw na hunan-lesiant. Nid yn unig yr oedd yn gwadu fod egwyddorion moesol yn wreiddiol mewn dyn, ond ni chredai fod y cyfryw egwyddorion yn bod o gwbl. Yr unig duedd foesol y gwyddai efe am dani oedd tuedd pawb i geisio eu mantais eu hunain, a'r unig reol a allai efe ganiatáu i gadw y duedd hono o fewn rhyw derfynau, rhag i ddynion ddyfetha eu gilydd, oedd ewyllys y llywodraethwr gwladol. Rhaid addef fod yma ddisgyniad dirfawr oddiwrth baganiaid India a Groeg at y Sais hwn yn amser Cromwell a Milton, a Charles yr ail. Pa beth bynag oedd athroniaeth Locke, yr oedd yn rhagori yn annhraethol ar yr eiddo Hobbes, oblegid yr oedd Locke yn sefyll yn gryf dros anfarwoldeb yr enaid, ac egwyddorion mawrion moesoldeb a chrefydd. Nid ydyw ychwaith yn dal fod yr holl achos o bob gwybodaeth yn y synwrau corfforol, oblegid y mae yn ychwanegu fel achos arall waith y meddwl yn myfyrio ar yr hyn a gyflwynir iddo gan y synwrau. Ond yr oedd yn elyn anghymodlawn i bob math o ddrychfeddyliau cynhenid. Os nad ydym yn eamsynied, yr achos o hyn oedd, ei fod heb roddi sylw digonol i'r ffaith fod pethau yn bod yn rhinweddol pan nad ydynt yn bod yn weithredol: a dyma lle yr oedd yn mhell ar ol ei gydoeswr Leibnitz. "Nid oes dim yn y meddwl," meddai Locke, "nad oedd cyn hyn yn y synwrau." "Digon gwir," meddai Leibnitz, "oddi-eithr y meddwl ei hun." Dyma yr holl ddirgelwch, a'r holl esboniad, sef natur y meddwl ei hun. Nid oes dim yn y corff nad yw yn dyfod trwy y genau, ond y mae y corff ei hun yn fwy na'r ymborth, a'r corff ei hun yw yr achos fod yr ymborth yn troi yn waed, ac yn gnawd, ac yn esgryn. Os yw y corff yn gwneyd hyn, a ydyw yn ormod i ni gredu fod gallu cyfatebol yn yr enaid? Ac os cymerwn ddywediad Locke fod dyn yn cael gwybodaeth trwy fyfyrto, o ba le y mae y gallu hwn i fyfyrto yn dyfod? Y mae hyn ar unwaith yn cynnwys fod meddwl dyn yn rhywbeth mwy na phapwr gwyn i dderbyn argraffiadau oddiwrth wrthddrychau allanol. O'r tu arall nid oedd Leibnitz yn fodd-lawn ar ddywedyd fod gallu yn y meddwl yn unig, ond mynai fod drychfeddyliau cynhenid, a'r drychfeddyliau hyn yn bod, nid mewn gallu yn unig, ond yn rhinweddol, er na'i yn weithredol. Pan y mae yn dywedyd fod y drychfeddyliau yn nom yn rhinweddol, ac nid mewn

gallu yn unig, ei feddwl ydyw, yn ol ei eglurhad ef ei hun, nad ydynt fel y ddelw yn y marmor, o'r hwn y *gellir* ei ffurfio; ond yn hytrach fel pe meddyliem fod yn y marmor y cyfryw wythienau ag a barai i'r ddelw ddyfod i'r golwg wrth chwilio am dani. A phan y dywed fod y drychfeddyliau ynom yn rhinweddol er nad yn weithredol, y mae yn meddwl eu bod ynom cyn i ni sylwi arnynt, fel y mae pawb yn addef eu bod yn y cof wedi i ni sylwi arnynt, hyd yn nod pan na fyddom yn meddwl am danynt yn weithredol. Yn nglyn â hyn y mae yn ychwanegu fod yr enaid yn meddwl bob amser, yr hyn hefyd oedd barn y Cartesiaid; ond nid yw yn ymddangos ei fod yn ystyried y rhan yma o'i gyfundraeth yn anhebgorol tuag at brofi athrawiaeth drychfeddyliau cynenid. Weithiau y mae yn sylwi y gellid cymeryd yr ymadrodd "gallu i fyfyrto" fel yn cynnwys, neu yn rhagdybied, y rhan fwyaf o'r hyn y mae yn dadleu drosto. Ac fel y gallesid dysgwyl oddiwrth ddyn mawr, y mae o hyd yn siarad am Locke gyda'r parch mwyaf, ac nid yw yn debyg i Locke dderbyn canmoliaeth uwch oddiwrth neb nag oddiwrth ei wrthwynebydd.

Ar ol dyddiau Locke daeth Hume ymlaen i wneyd cymhwysiad ymarferol o'r athrawiaeth synwryddol. Os ydym yn ddyledus i'r synwryau am y cwbl a wyddom, yna, yn ol ei farn ef, nis gallwn wybod dim am achos ac effaith. Yr oll a welwn ydyw y naill ddygwyddiad yn dilyn y llall gyda chysondeb; ond nid yw ein synwryau yn dyweyd dim am achos anweledig, ac felly nid oes genym un prawf oddiwrth achos ac effaith am y Bod o Dduw. Drachefn, y mae sylw beunyddiol yn dangos fod deddfau natur yn sefydlog, ac y mae yr un sylw yn dangos fod dynion yn ansefydlog; gan hynny y mae yn haws credu fod ychydig nifer o ddynion yn dyweyd anwiredd na bod deddfau natur wedi eu newid, a dyna ddiwedd yn ol ei farn ef am y prawf o adgyfodiad Crist. Y cyffro a barodd Hume oedd yr achos i Kant wneuthur ymehwiliad newydd i edrych pa beth sydd sier, a pha beth sydd ansier, a gosod y prawf am y Bod o Dduw ar sylfaen arall, sef ar egwyddorion moesol. Pa beth bynag sydd amheus y mae egwyddorion y ddeddf foesol yn sier, ac nis gall fod deddf heb ddeddfroddwr. Nid yw hwn ond hen brawf mewn gwisg newydd; ac er nad oes ynom un ammheuaeth am ei ddigonolrwydd, nid ydym yn gweled fod yr achos lleiaf i Kant roddi i fynu y prawf oddiwrth achos ac effaith. Er fod Dr. Reid yn llawer gwanach dyn, eto safodd yn fwy diysgog, a dadleuodd yn nerthol dros yr hyn a alwai yn wirioneddau synwyr cyffredin,

y rhai nis gellir eu profi am eu bod yn wreiddyn pob prawf. Gorehwyl mynych gan Dr. Thomas Brown, yr hwn a fu yn boblogaidd am ysbaid, oedd taflu dirmyg ar Reid : ond wedi hyny cyfododd Hamilton i amddiffyn Reid ; ac yn awr y mae Reid wedi dyfol yn barchus unwaith eto, a Brown wedi myned o'r golwg. Ofnwn fod Hamilton, fol Kant wedi ildio mwy nag oedd achos iddo gyda golwg ar y prawf am y Bod o Dduw ; er hyny y mae efe yn mhell oddiwrth dderchafu y synwyrâu corfforol ar draul darostwng y meddwl ei hun, ac ni fu neb yn ddadleuwr mwy grymus dros egwyddorion gwreiddiol neu gynenid yn y natur ddynol.

Ac yn awr, i sylwi yn fwy neillduol ar olygiadau Mr. Mill, hyderwn y cawn wneuthur hyny gyda'r parch sydd yn gweddu i awdwr mor enwog. Ond er ein parodrwydd i gydnabod ei fod yn un o'r ymresymwyr mwyaf cywrain, ac yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf medrus, nis gallwn lai na theimlo ei fod fel athronydd yn ddifffgiol, wrth ei gymharu, nid yn unig â Leibnitz neu Hamilton, ond hyd yn nod â Locke : oblegid meddyliem mai rhy brin y cytunai efe â Locke i gymeryd myfyrdod fel ffynhonell gwybodaeth. Y mae ganddo le i fyfyrdod o anghenrheidrwydd, ond nid fel ffynhonell gwybodaeth ; ac y mae yn tueddu braidd i ymwrthod â'r gair "*perception*," y gair sydd yn arwyddo fod yr enaid yn weithredydd, ac nid yn oddefydd, yn ei berthynas â'r synwyrâu. Nid ydym yn gwybod fod Mr. Mill wedi rhoddi lle i benderfynu pa un a yw yn credu neu yn anghredu fod enaid mewn dyn, a thra nad yw wedi dywedyd yn eglur y naill ffordd neu y llall, ni a obeithiwn y goren. Ond pa beth bynag a olyga wrth y meddwl, y mae yn rhyfedd nad yw yn caniatâu iddo gymaint o allu ag sydd i'w weled yn amlwg yn mhob peth byw o'n hamgylch. Yr ydym wedi son eisoes am allu y corff byw, ac y mae yr un peth i'w ganfod mewn bywyd llysiénol. Pa le y mae yr achos fod y goeden yn tyfu mwy na'r gareg ? Nid yn y pridd sydd wrth ei gwraidd, nac yn y gwlaw sydd yn disgyn arni, nac yn yr awyr a anadlir ganddi. Mae yn wir y rhaid iddi gael yr holl fanteision allanol hyn ; ond y mae yr achos ynddi hi ei hun. Neu pa le y mae yr achos fod y fesen yn dyfod yn dderwen mwy nag yn rhyw goeden arall ? Atebai yr athronwyr synwryddol, pe dywedent yn gyson â hwy eu hunain, fod yr achos i gyd oddiallan mewn rhyw neillduolrwydd yn natur y ddaear neu yr awyr. Y cwbl sydd gan yr hedyn i'w wneuthur yw derbyn argraffiadau oddiwrth wrthddrychau allanol, ac fel y byddo yr argraffiadau hyny, felly y bydd ansawdd y

goeden. Os yw hyn yn ynfyd i'w ddywedyd am fywyd llysienuol, pa fodd nad yw yn fwy ynfyd i'w ddywedyd am y meddwl? Ac os yw y dderwen, o ran y ffurf o honi, yn y fesen, pa fodd y mae yn afresymol i ni gredu fod holl ffurf ein gwybodaeth yn y meddwl o'r dechreu? Y mae yr amgylechiadau allanol yn achlysuron i ddwyn y meddwl i weithrediad, ond nid ydynt yn achosion, a dyma yr holl wahaniaeth. A rhag i neb gamddeall y gair "ffurf" yn y cysylltiad hwn, efallai y dylid ychwanegu mai yn y ffurf yn fynych y mae gwerth a hanfod yn gynnwysedig. Mewn natur nid gwahaniaeth yn ansawdd y defnyddiau sydd yn gwneuthur y naill beth yn werthfawrocach na'r llall, ond y ffurf yn ol yr hon y mae y defnyddiau hyny wedi eu trefnu. Ac mewn celfyddyd drachefn, nid ansawdd y defnyddiau sydd yn achos o brydferthwch a gwerth y darlun, ond y ffurf a roddir i'r defnyddiau hyny, gan y darlunydd. Yr oedd yn rhaid cael y defnyddiau, mae yn wir; ond buasai y darlun heb ei wneyd er hyny, neu wedi ei wneyd yn dra amherffaith, oni buasai y ffurf oedd yn meddwl y celfyddydwr. Felly yn holl weithrediadau y meddwl, yr elfen bwysicaf yw y ffurf a roddir i'r defnyddiau a drosglwyddir iddo gan y synwrau; ac y mae yn anhawdd gweled o ba le y gall y ffurf hon ddyfod ond o'r meddwl ei hun.

Ni fwriedir hyn fel prawf diammheuol, ond fel arweiniad at y prawf, oblegid pe deallem y gwahaniaeth rhwng yr achos a'r achlysur, a rhwng y ffurf hanfodol a'r defnydd, byddai hanner y gwaith wedi ei gyflawni. Ac os nad yw yr ystyriaethau hyn yn profi fod egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl, y maent yn sail i ddysgwyl hyny o leiaf yn ol deddfau cyfatebiaeth. Ond yr hyn sydd yn profi hyny tuhwnt i bob ammheuaeth, yn ol barn y rhai hyny yr edrychwn arnynt fel y dosbarth goreu a chywiraf o'r athronwyr, ydyw fod elfenau pwysicaf ein gwybodaeth yn gyfryw nas gallent ddyfod i'r meddwl trwy y synwrau, nac ychwaith trwy fyfyrion ar yr hyn sydd yn dyfod trwy y synwrau. Un o'r elfenau hyny ydyw y drychfeddwl o anghenrheidrwydd, yr hwn a gysylltir genym â phob syniad am achos ac effaith, â holl wirioneddau rhif a mesur, â rhesymeg, ac â holl egwyddorion moesoldeb. Nid syniad nacael sydd yma, fel y mae Mr. Mill yn ceisio profi, sef nas gwelsom ni hwynt fel arall, ac am hyny nas gallwn feddwl am danynt fel arall; ond syniad cadarnhaol mai fel hyn y mae yn rhaid iddynt fod bob amser yn mhob lle. Nid yw pob gwybodaeth sydd yn dyfod trwy y synwrau yn cyrhaedd yn mhellach na rhyw

ranau o amser a lle a ddaeth dan ein sylw; ond y mae meddwl dyn yn meddu gallu i gymeryd i mewn bob amser a phob lle ar unwaith, ac i benderfynu gyda sierwydd mai fel hyn yr oedd, y mae, ac y bydd byth, yn mhob byd yn holl ymerodraeth Daw. Yn nglyn a'r sierwydd hwn y mae ynddo deimlad o ansierwydd am y cwbl a dderbynir trwy y synwrau, fel nas gall ddywedyd nad ydynt yn wahanol yn awr mewn lleoedd eraill, ac na fyddant yn wahanol yma mewn amser dyfodol. Os yw dyn yn meddu y gallu hwn, yn nghanol ansierwydd y cwbl oddiallan, i benderfynu gyda sierwydd am ryw ddosbarth o wirioneddau, ac i estyn y sierwydd hwnw i bellder anfesurool mewn amser a lle, y mae yn bur anhawdd gweled o ba le y mae ei wybodaeth am y gwirioneddau hyny yn dyfod, os nad yw yn tarddu o ryw egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl. Y mae y cyfryw allu, yn y wedd o anghenrheidrwydd diammodol a thragywyddol sydd yn perthyn iddo, yn dwyn ynddo ei hun brawf o'i ddwyfol darddiad, ac yn ein gorfodi i gredu gyda'r Apostol, fod y rhai nad yw y ddeddf ganddynt, wrth naturiaeth yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau.

Yr unig ffordd i ochel grym y rheswm hwn ydyw trwy wađu fod y cyfryw anghenrheidrwydd yn bod; ac os nad ydym yn camsynied, dyma y ffordd a gymerir gan Mr. Mill. Yr ydym yn ofni gwneuthur cam ág ef trwy ein bod cfallai wedi gadael rhai rhanau o'i weithiau heb eu darllen yn ddigon manwl. Dichon y gallai rhai dybied nad ydyw yn mhob ystyr yn anghredu fod gwirioneddau anghenrheidiol; ond y mae yn sier ei fod yn eu gwrthod yn hollol yn eu perthynas a'r meddwl: ac y mae hyn mewn effaith yn dyfod i'r un peth, oblegid nis gallwn gredu fod unrhyw osodiad yn wirionedd anghenrheidiol heb fod ymwybyddiaeth o'r anghenrheidrwydd hwnw yn y meddwl. Gellid tybied hefyd mai dadleu y mae yn erbyn yr anghenrheidrwydd i gredu, ac nid yn erbyn credu yr anghenrheidrwydd: megys yn y geiriau canlynol o'i waith ar Resymeg, (Cyf. ii., t.d. 97,) "Nid oes un gosodiad am yr hwn y gellir dywedyd fod pob meddwl dynol dan anghenrheidrwydd i'w gredu yn dragywyddol a digyfnewid. Llawer o'r gosodiadau am y rhai y mae hyn wedi ei ddywedyd yn fwyaf sier, y mae rhifedi mawr o fodau dynol wedi eu hanghredu. Y pethau a dybiwyd nas gallai neb lai na'u credu ydynt aneirif; ond ni cheid dwy genhedlaeth i wneyd yr un a'r unrhyw gofrestr o honynt. Y mae un oes neu genedl yn credu yn ddiammheuol yr hyn sydd yn ymddangos i un arall yn anghredadwy: ceir un person heb ddim arwydd o grodiniaeth

ag sydd yn ymddangos i un arall yn hollol wreiddiol mewn cynoliaeth." Yma gellid tybied ei fod yn ymresymu yn unig yn erbyn yr anghenrheidrwydd o gredu, tra y mae yn caniatáu y gellir credu yr anghenrheidrwydd. Ond wrth eu hystyried y mae y ddau yma eto yn dyfod i'r un peth; oblegid pan ddaw dyn i gredu fod unrhyw osodiad yn wirionedd anghenrheidiol, y mae ar unwaith yn teimlo anghenrheidrwydd i'w gredu. A chyda golwg ar y rheswm fod eraill nad ydynt yn ei gredu, nid ydym yn gwybod fod neb yn dal y rhaid fod dyn o'i febyd yn ymwybodol o'r anghenrheidrwydd hwn. Y cwbl yr ydym yn dadleu drosto ydyw fod gwirioneddau yn bod y mae yn rhaid i ddyn eu credu pan ddaw i'w deall, ac y mae y rhaid hwnw yn cynnwys ei fod yn credu ar yr un pryd fod y gosodiadau hyny yn wir o anghenrheidrwydd. Gall hadau gael eu cadw am flynyddoedd heb ffrwytho, ond y mae yr achos o'r ffrwyth ynddynt yr holl amser hwnw mor wirioneddol a phe buasent yn ffrwytho y flwyddyn gyntaf. Felly y mae llawer o'n hamgyleh yn meddu galluoedd cryfion wedi treulio eu hoes heb gredu Euclid; ond ni ddygyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a ddaeth i ddeall y llyfr hwnw nad oedd yn teimlo ei fod dan yr anghenrheidrwydd i gredu pob gair.

Yn y gyfrol gyntaf o'i waith ar Resymeg y mae Mr. Mill yn cymeryd trafferth i ddangos ein bod yn dyfod i wybodaeth o'r gwirioneddau cyntaf mewn rhif a mesur trwy sylwi ar wrthddrychau allanol; ac y mae yn ymddangos fod Syr John Herschel yn cytuno âg ef yn y golygiad hwn. Dichon i hyn i gyd fod yn gywir; ond nid yw yn cyffwrdd â'r pwnc. Y mae pawb yn caniatáu fod achlysuron oddiwrth amgylehiadau allanol yn anghenrheidiol tuag at ddwyn allan yr egwyddorion sydd yn y meddwl; ond er tybied mai trwy weled dwy linell gyfochrog y daethom i ddeall nas gallant gyfarfod â'u gilydd, y mae y gofyniad yn aros, Onid oes yma syniad o anghenrheidrwydd? ac o ba le y mae y syniad hwn wedi tarddu? Y mae Mr. Mill yn ceisio ateb y gofyniad trwy ddyweyd, er nad yw y llygad yn gallu canlyn y llinellau yn mhell, fod y meddwl yn gallu dychymygu ei fod yn eu gweled o hyd yn rhedeg yn gyfochrog heb gyfarfod â'u gilydd. Ond y mae y gofyniad o hyd yn aros heb ei ateb; oblegid nid yn unig yr ydym yn gallu dychymygu fod y ddwy linell yn cadw yr un pellder oddiwrth eu gilydd, yr hyn sydd yn cynnwys nad ydynt yn cyfarfod, ond yr ydym yn sier os bydd dwy linell union yn dechreu rhedeg yn yr un bellder oddiwrth eu gil-

ydd, nas gallant byth gyfarfod; a'r gofyniad ydyw, O ba le y mae y sierwydd a'r anghenrheidrwydd hwn yn tarddu.

Ac heblaw anghenrheidrwydd, y mae yn y meddwl ryw syniad o berffeithrwydd nas gallasai ddyfod iddo trwy y synwyrâu. Y mae cywirdeb ein hymresymiadau am ddeddfau lle yn ymddibynu ar fod y llinellau yn berffaith union, a'r cylchoedd yn berffaith grwn; ond nid trwy sylwi ar anghreiffitiau o'r perffeithrwydd hwn yn y byd allanol yr ydym yn dwyn ymlaen ein hymresymiadau. Y mae y bachgen yn tynu rhywfath o lun trionglog, a phe buasai yn mesur yr onglau, efallai y cawsai allan fod eu swm yn rhywle yn agos i hanner cylch, ond nis gallasai byth wybod felly yn berffaith pa faint ydynt neu y dylent fod. Ond yn rhyw fodd heb ymddibynu ar gywirdeb y llun oddiallan y mae yn gallu ymresymu am yr onglau fel pe buasai y llinellau yn berffaith union, pa mor wyrgam bynag y byddont; ac yn gallu dywedyd eu swm, nid yn agos, ond i berffeithrwydd. Efallai y dywedir fod ganddo gynllun perffaith yn ei feddwl. Digon gwir; ond o ba le y mae y cynllun perffaith hwn yn dyfod? Addefwn na fuasai yn ymwybodol o'r cynllun hwn yn ei feddwl, oni buasai iddo weled neu deimlo y llun oddiallan; ond pe buasai yn ymddibynu yn hollol ar y llun oddiallan nid yw yn debyg y buasai ganddo byth gynllun perffaith oddifewn.

Hyd y gallwn ddeall Mr. Mill, y mae efe yn gwadu hyn oll, ac yn dywedyd nad oes dim yn y meddwl ond darluniau amherffaith o'r hyn a welir oddiallan. Oddiallan y mae cywirdeb, ac oddimewn nid oes ond anghywirdeb. Y mae y meddwl yn ein dysgu fod pob llinell o ganolbwynt y cylch i'r amgylchedd yn rhwym o fod yn hollol o'r un hyd; ond dywed Mr. Mill fod hyn "yn wir am bob cylch mor bell ag y mae yn wir am unrhyw un: ond nid yw yn hollol wir am unrhyw gylch; nid yw ond yn agos i'r gwir; mor agos fel nad oes un cyfeiriornad o bwys yn dygwydd mewn ymarferiad trwy dybio ei fod yn hollol wir." Ar ryw olwg y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallai Mr. Mill gredu yr hyn y mae yn dadleu drosto; ond os gosodwn ein hunain yn yr un safle ág ef, i edrych o'r byd allanol ar y byd tufewnol, yna ni fydd yn amhosibl tybied nad os dim sierwydd na pherffeithrwydd ond yn y wybodaeth sydd yn dyfod trwy y synwyrâu, ac o'r diwedd galleu weithio ein hunain i wadu pob anghenrheidrwydd, yr hyn a wneir gan Mr. Mill gyda golwg ar wirioneddau rhifyddol o leiaf; oblegid yn agos i ddechreu y bennod, o'r hon y cymerwyd y dyfyniad blaenorol, y mae yn dywedyd (Logic, vol. I, p. 254.), "Y nodwedd hwn

o anghenrheidrwydd, a briodolir i wirioneddau rhifyddiaeth, ac hyd yn nod (gyda rhai eithriadau a grybwyllir eto) y sicrwydd neillduol a briodolir iddynt, nid yw ond twyll." Yma eto y mae gradd o amwysedd yn y geiriau; oblegid nid yw yn eglur pa beth a feddylir, pa un ai, mai twyll yw y gred gyffredinol fod anghenrheidrwydd yn perthyn i wirioneddau rhifyddiaeth, neu ynte, mai twyll ydyw credu fod y gred hono yn bod. Os y cyntaf yw y meddwl, y mae hyn yn cynnwys nas gallwn fod yn sicr am ddim; oblegid os yw ein sicrwydd yn ansicr, o ba le y mae i ni ddysgwyl sicrwydd. Gwyddom fod ein synwrau yn fynych yn ein camarwain: ond yr oeddym yn arfer meddwl fod yma egwyddorion oddifewn y gallem ymddiried iddynt; ac yn awr dywedir wrthym fod y rhai hyn yn ein twyllo, yr hyn sydd ar unwaith yn diwreiddio pob gwybodaeth. Ond os oes teimlad cyffredinol o anghenrheidrwydd gwirioneddau rhifyddiaeth, yna nis gellir cael lle i ammheuaeth, oblegid nis gallwn ammheu yr hyn yr ydym yn ei gredu o anghenrheidrwydd. Ond mwy tebyg mai yr olaf ydyw meddwl Mr. Mill, sef mai twyll ydyw priodoli un grediniaeth o'r fath yma i ddynion yn gyffredin, yr hyn sydd yn cynnwys nad yw y meddwl dynol o anghenrheidrwydd yn credu anghenrheidrwydd gwirioneddau rhifyddiaeth. Y mae hyn yn dwyn yr holl ddadl i ychydig le, gan mai yr unig ofyniad bellach ydyw, a oes sicrwydd yn meddwl dyn am y gwirioneddau hyn mai fel y maent y mae yn rhaid iddynt fod; a'r unig ffordd i gael atebiad ydyw trwy i'r dyn edrych i mewn i'w feddwl ei hun. Trwy wadu yr anghenrheidrwydd hwn, y mae Mr. Mill gystal ag addef nas gellir dal yr anghenrheidrwydd heb ddal hefyd fod egwyddorion gwreiddiol mewn dyn: ac y mae yn rhaid i ni ychwanegu fod yr ymddygiad hwn yn anghyson â'r ganmoliaeth gyffredin a roddir iddo, ei fod, yn lle cymeryd dim yn ganiataol, yn esbonio pob peth yn drwyadl. Pe buasai yn caniatâu fod yr anghenrheidrwydd yn bod, ac yn llwyddo i esbonio pa fodd y daeth trwy gyfrwng y synwrau yn unig, buasai felly wedi ennill hawl i'r ganmoliaeth. Ond yn awr y mae yn ymdrechu i dori y cwlwm, yn lle ei ddatod. Ac na feddylier ein bod yn ei ddirmygu wrth ddywedyd, nad ydym eto yn gallu credu ei fod wedi llwyddo i ddileu yr anghenrheidrwydd, mwy nag i'w esbonio.

Hyd yn hyn yr ydym wedi son yn fwyaf neillduol am ddeddfau amser a lle: ond y mae byd moesol yn bod, ac y mae i'r byd hwnw ei ddeddfau. Ac yma y mae yn hyfryd genym ddyfod i gytundeb â Mr.

Mill mewn un peth, sef yn ei olygiad ar lesoldeb (*utility*) fel rhan o foesoldeb. Nid ydym yn hoff o'r gair *utility* yn y cysylltiad hwn, oblegid y mae creaduriaid direswm yn llesol; a gwell fuasai genym yr hen air *benevolence*, neu ryw air cyffelyb: ac y mae yn rhaid addef fod Bentham a'i ganlynwyr wedi rhoddi gwedd ry hunanol ar yr holl gyfundraeth, trwy ddwyn i fewn les y gweithredydd yn gymaint, os nad yn fwy na lles neb arall. Er hyny, y mae ystyr yn bod yn yr hwn y mae llesoldeb yn rhan uchel, os nid yr uchaf, mewn moesoldeb. Onid yw yn ddyledswydd arnom ameanu, hyd y gallom, at lesáu ein cyd-ddynion? Onid yw yn ddyledswydd arnom wneuthur i eraill megys yr ewyllysiem i eraill wneuthur i ninnau? A pha beth yw hyn ond dyledswydd i geisio bod o ryw les iddynt? Er hyny yn yr olwg yma ar foesoldeb, heb fyned yn mhellach, y mae rhyw elfen yn ganfyddadwy nas gallasai ddyfod i mewn trwy y synwyrâu, ac y rhaid iddi gan hyny fod wedi tarddu o ryw egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl. Y cwbl y mae y synwyrâu yn ei ddysgu ydyw ein lles ein hunain: ond pa beth sydd yn peri i ni deimlo y dylem awyddu am fod yn lles i eraill? Ac o ba le y daeth y syniad am ddyledswydd o gwbl? Addefwn fod y syniad hwn yn wanaidd iawn yn y goreu o'r paganiaid, ac mai prin y mae gair o son am dano yn eu cyfundraethau: ond nid yw hyn yn profi nad yw yr hadau yn y meddwl dynol, er fod yn rhaid iddynt wrth driniaeth cyn y gallant ddwyn firwyth.

Onid er caniatâu fod llesoldeb, neu yn hytrach cariad neu gymwyn-asgarwch, yn rhan, ac yn rhan bwysig, mewn moesoldeb, nid ydym er hyny yn barod i addef mai dyma yr oll o foesoldeb. Y mae yn rhaid i ni alw sylw eto at yr hyn a ddywed Plato am y terfyn a'r diderfyn. Er y dylem awyddu bob amser i fod o ryw les i'n cyd-ddynion, y mae yn rhaid i'r awydd hwn weithredu yn ol rhyw reolau, ac o fewn rhyw derfynau, neu y mae yn sicr o wneyd cymaint o ddrwg ag o dda, ac o wneyd drwg wrth geisio gwneyd da. Nid oes dim yn fwy gwasanaethgar mewn natur na'r tân a'r dwfr; ond y maent mewn angen gwas-tadol am ryw derfynau i'w cadw yn eu lle, ac i'w cyfeirio i weithredu yn y fath fodd ag i wneuthur lles, ac nid afles. Y mae yn ymddangos gan hyny nas gall fod cyfundraeth gyflawn o foesoldeb heb fod lle ynddi i gyfiawnder a gwirionedd, y rhai ydynt yn dwyn ynddynt eu hunain brawf o'u tarddiad yn yr anghenrheidrwydd sydd yn perthyn iddynt. Y mae yr ysgol synwryddol yn gyffredin yn gwadu yr anghenrheidrwydd hwn eto; ond nis gallwn lai na meddwl eu bod trwy hyny

yn dadasylfaenu pob moesoldeb ; oblegid os nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng da a drwg, gall y da fod yn ddrwg, a'r drwg yn dda ; ac os unwaith y credwn hyn am danynt nis gallwn garu y naill na chasáu y llall. Y diffyg mawr yn yr holl ysgol hon o ysgrifenywyr yw anallu i esgyn uwchlaw y byd amserol, i weled Bôd neu wirionedd, y rhai y mae y rheswm am eu bod neu eu gwirionedd ynddynt eu hunain. Y mae y rheswm am y Bôd o Dduw yn Nuw ei hun, ac felly y mae yn bod o anghenrheidrwydd : ac yn yr un modd y mae y rheswm am egwyddorion moesol ynddynt hwy éu hunain, ac felly y maent yn anghenrheidiol anghyfnewidiol. Ond yn Nghymru nid oes cymaint o achos i brofi hyn, gan fod plant yr Ysgolion Sabbothol yn credu anghyfnewidioldeb anghenrheidiol y ddeddf foesol, ac yn credu hefyd fod y syniadau sydd ganddynt am y ddeddf hono yn eu cynnysgaedu â rheol berffaith i ymgyrhaedd ati. Ac os unwaith y ceir golwg fel hyn ar anghenrheidrwydd a pherffeithrwydd y ddeddf foesol, yna bydd yn rhaid i ni gredu fod egwyddorion moesoldeb yn wreiddiol yn y meddwl dynol. Er mai trwy sylwi ar weithredoedd dynion yr ydym yn dyfod yn ymwybodol o'r egwyddorion sydd ynom, eto, fel y dywedasom o'r blaen mewn cysylltiad arall, nid yw hyn yn profi mai sylw sydd yn cynnyrchu yr egwyddorion. Fel y dywed Coleridge, ni fuasai neb yn gwybod fod ganddynt allu i weled oni buasai fod gwrthddrychau y tualan iddynt ; eto, nid y gwrthddrychau allanol sydd yn cynnyrchu y gallu ; ond y mae y ddarpariaeth anghenrheidiol yn bod o'r blaen, er mai trwy weithrediad y gallu yr ydym yn dyfod i wybod ein bod yn ei feddu. Y mae yn rhesymol i ni farnu oddiwrth gyfatebiaeth mai felly y mae yn y meddwl ; ac y mae natur y galluoedd meddyliol yn profi mai felly y mae yn rhaid iddi fod, gan fod gweithrediadau y galluoedd yn dwyn elfenau i'r golwg nas gallent fod wedi dyfod i'r meddwl trwy y synwrau. Nis gallasem deimlo ein hamherffeithrwydd, oni buasai fod genym olwg ar reol berffaith ; ac nis gallasem deimlo fod yr amherffeithrwydd hwnw yn bechod, hyny yw, ei fod ynddo ac o hono ei hun yn ddrwg, ac nid yn unig yn ei ganlyniadau, oni buasai ein bod wedi cael golwg ar reol sydd ynddi ac o honi ei hun yn anghyfnewidiol dda ; ac nis gallasem ganfod y cyfryw reol oni buasai fod darpariaeth gymhwys at hyny ynom yn wreiddiol.

II. Y WYBODAETH AM DDUW.

Un o'r ffeithiau hynotaf yn lianes athroniaeth yw y cyfnewidiad safle a welir yn ymresymiaidau Syr William Hamilton a Mr. Mansel ar un llaw, a Mr. Mill ar y llaw arall, pan yn gadael eu hymchwiliadau cyffredinol, ac yn myned ymlaen i sylwi yn fwy neillduol ar natur y wybodaeth am Dduw. Er pob ymdrech i geisio eu deall, yr ydym yn methu canfod pa fodd y maent yn gyson â hwy eu hunain: ond yr ydym yn dywedyd hyn gyda llawer o ammheuaeth, oblegid nid oes dim yn fwy peryglus na chyhuddo dyn mawr o anghysondeb. Tra y mae dynion o amgyffredion byrion yn gweled darnau o'r gwirionedd, ac yn tybied, oblegid nad ydynt yn gweled ond y darnau, eu bod yn anghyson â'u gilydd, dichon eu bod yn berffaith unol yn meddwl y dyn sydd yn alluog i edrych ar holl ranau y gwirionedd yn eu cysylltiad, ac ar y gwirionedd hwnw yn ei berthynas â gwirionedd uwch. Fel rheol gyffredin, nid yw yn ormod dywedyd mai ysgrifeniadau y dynion mwyaf sydd lawnaf o anghysonderau ymddangosiadol. Er hyny, y mae yn rhaid iddynt beidio bod yn anghysonderau gwirioneddol; a pha un a ydyw yr anghysonderau yn yr achos hwn yn rhai gwirioneddol neu ymddangosiadol ydyw yr hyn yr ydym yn teimlo anhawsder i'w benderfynu. Gyda'r esgusawd diragrith hwn, efallai y goddefir i ni rodli ger bron yr hyn sydd yn ein dyrysu yn y ddadl rhwng Hamilton a Mill, ac yn fwy neillduol rhwng Mill a Mansel.

Dangoswyd yn barod fod Syr William Hamilton a Mr. Mansel yn wrthwynebwyr i'r blaid synwryddol o athronwyr. Nid ydynt yn agos mor bell oddiwrth y blaid hono ag oedd Plato, neu Des Cartes, neu Leibnitz; ac eto nid oes un ammheuaeth nad gyda'r rhai olaf y dymument gael eu rhestru yn hytrach na chyda'r rhai hyny sydd yn gwadu egwyddorion cynenid. Y maent yn dadleu yn gryf dros wirioneddau anghenrheidiol a thragywyddol: a'r hyn sydd yn rhyfedd ydyw, eu bod yn ymddangos, pan yn ysgrifenu am Dduw, fel pe byddent yn gwadu anghyfnewidioldeb egwyddorion moesol. Yr oedd Hamilton yn ystyried mai un o brif orchwylion ei fywyd oedd sylfaenu yr hyn a alwai efe yn "Athroniaeth yr Ammodol" (*Philosophy of the Conditioned*). Yr ystyr ydyw fod ein holl wybodaeth yn ammodol, ac am hyny nas gallwn wybod dim am Dduw, oddieithr trwy ffydd. Nid yn unig

yr oedd yn barnu nas gellir ei amgyffred, ond hefyd nas gellir ei adnabod: ac y mae yn ymddangos i ni mai dyma lle y mae gwendid mwyaf andwyol ei gyfundraeth. Mewn un man (*Discussions*, p. 15.) y mae yn dweyd mai “cysegriad olaf ac uchaf pob gwir grefydd a raid fod allor i'r Duw nid adwaenir ac nis gellir ei adnabod.” Y mae Mr. Mansel, yn ei *Bampton Lectures*, wedi cario allan y golygiadau hyn, a hyny efallai i raddau pellach nag a fwriadwyd gan Hamilton ei hun. Dyben Mr. Mansel oedd gwasanaethu achos crefydd, trwy ddangos na ddylid dadleu yn erbyn daioni a chyfiawnder Duw oddiwrth y syniadau sydd genym ni am foesoldeb, gan nad yw daioni a chyfiawnder mewn dyn ond rhywbeth tebyg, heb fod yr un peth, â daioni a chyfiawnder fel y maent yn Nuw. Ond y mae yn amheus gan lawer ai ni ddarfu iddo wneuthur niwed yn anfwriadol i grefydd wrth geisio ei hamddiffyn. Pa fodd bynag am hyny, y gofyniad y mae a fynom ni âg ef yn awr ydyw, ai nid yw yr athrawiaeth hon yn anghyson â'r gred fod egwyddorion moesol yn dragywyddol anghyfnewidiol. Os nad yw daioni a chyfiawnder yr un peth o ran natur yn Nuw ac yn y creadur, yna y mae yn rhaid eu bod yn gyfnewidiol, ac nad oes anghenrheidrwydd yn perthyn iddynt.

Yn y lle nesaf ni a edrychwn ar yr ochr arall i'r ddadl. Y mae Mr. Mill fel y gwelwyd wedi cysegru rhan fawr o'i fywyd i ymladd yn erbyn pob crediniaeth am wirioneddau neu egwyddorion anghenrheidliol. Y mae wedi gwneuthur hyny gyda llawer o egni a medrusrwydd, ac wedi ennill dylanwad lled helaeth ar feddwl y genedl fel Blaenor yr athronwyr synwryddol. Yn ol ei farn ef, os ydym yn ei ddeall yn gywir, nid oes un gwirionedd yn bod y gellir dywedyd am dano, Y mae hwn yn wirionedd yn mhob man, ac fe fydd yn wirionedd yn mhob oes: ac os oes neb yn tybied fod anghenrheidrwydd o'i fewn i gredu y fath beth, y mae yn twyllo ei hun. Ac eto y mae yr un awdwr yn ymddangos fel pe byddai ei frwdfrydedd a'i eiddigedd dros anghyfnewidioldeb y ddeddf foesol, pan yn gwrthwynebu Hamilton a Mansel, yn ei yru tuhwnt i bob terfynau. Yr hyn a ganlyn yw ei ddywediad—“Os, yn lle y newyddion da fod Un yn bod, yn yr hwn y mae yr holl ragoriaethau y gellir meddwl am danynt gan yr uchaf o feddyliau dynol yn bod mewn gradd nas gallwn ni ei amgyffred, y dywedir wrthlyf fod y byd yn cael ei lywodraethu gan Un y mae ei briodoliaethau yn anfeidrol, ond nas gallwn wybod pa beth ydynt, na pha beth ydyw egwyddorion ei lywodraeth, ond yn unig nad ydynt yn ennill cymerad-

wyaeth y moesoldeb dynol uchaf yr ydym ni yn alluog i feddwl am dano; argyhoeddweh fi o hyn, a dygaf fy nhynged fel y gallwyf. Ond pan ddywedir wrthyf fod yn rhaid i mi gredu hyn, ac ar yr un pryd fod yn rhaid i mi alw y bod hwn wrth yr enwau sydd yn dynodi y moesoldeb dynol uchaf, dywedaf mewn geiriau eglur, Nas gwnaf. Pa allu bynag sydd gan y cyfryw fôd drosod, y mae un peth na chaiff ei wneuthur; ni chaiff fy ngorfodi i'w addoli. Ni alwaf neb yn dda, nad ydyw yr hyn a ddeallwyf pan yn cymhwyso y gair hwnw at fy nghydgreaduriaid; ac os gall y cyfryw fôd fy nedfrydu i uffern am beidio ei alw felly, i uffern yr âf."

Digon tebyg y bydd rhai wrth ddarllen y brawddegau hyn yn eu hystyried yn llawn o rymusder a hyawdledd; ond y mae yn rhaid i ni gyfaddef nas gallwn lai na'u cyfrif yn ffol tuhwnt i gyffredin. Nid ydynt yn gyson â'r gwylder sydd yn gweddu i'r pwnc, hyd yn nod pe buasai y desgriafiad a roddir o'r farn wrthwynebol yn hollol gywir. Ond nid ydyw yn debyg i gywir. Cyfeirio y mae Mr. Mill yn y lle hwn yn fwyaf uniongyrchol at Mr. Mansel a'i *Bampton Lectures*. Ond dywedai Mr. Mansel o hyd fod Duw yn dda, a bod cyfatebiaeth rhwng ei ddaioni ef a daioni mewn creadur, er nad ydynt yn hollol yr un peth. Rhyngddynt hwy eu dau yn benaf y mae y ddadl yn awr, ac nid yw yn debyg o ddarfod yn fuan. Ysgrifennodd Mr. Mansel ddwy erthygl alluog yn y *Contemporary Review*, mewn rhan i amddiffyn Syr W. Hamilton, ac mewn rhan i'w amddiffyn ei hun. Cyhoeddodd Mr. Mill atebiad mewn nodiadau yn y trydydd argraffiad o'i waith yn erbyn Hamilton; a chyhoeddodd Mr. Mansel erthygl arall yn ei erbyn yntau. Gyda golwg ar y mater sydd genym yn awr dan sylw, y mae yn anhawdd peidio meddwl, heblaw eu bod fel y dywedwyd yn anghyson â hwy eu hunain, fod rhyw anallu rhyfedd yn eu meddiannu ar amserau i ddeall eu gilydd. Er anghraifft, dywedai Mr. Mansel, am yr Anfeidrol y mae rhai athronwyr yn dywedyd y gellir ei adnabod, nad ydyw ond gau-anfeidrol, ac nid y gwir Dduw; yna y mae Mr. Mill yn ymresymu yn ei erbyn fel pe buasai wedi dywedyd mai y gau-anfeidrol yw yr un nas gellir ei adnabod. Mewn un man y mae Mr. Mansel, er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng daioni yn Nuw a daioni mewn creadur, yn dweyd fod gwahaniaeth cyffelyb rhwng daioni mewn tad a daioni mewn plentyn; ond y mae Mr. Mill yn dadleu fod ei wrthwynebydd wrth ddywedyd hyn yn newid ochr, gan mai yr un yw daioni mewn tad ag mewn plentyn. Y mae Mr. Mansel yn gwadu hyn; ond yn

yr achos hwn meddyliem mai Mr. Mill sydd yn iawn. Ond mewn man arall y mae Mr. Mill yn euog o gam-ddarluniad amlwg, pan y dywed mewn dull gwatwarus, am y rhai sydd yn dal nad yw daioni yr un yn Nuw ag mewn creadur, nad ydynt yn ammheu hyny am ei allu; ac mai yr achos ydyw fod yn rhaid iddynt ddysgu am allu dwyfol yn y fath fodd ag i beri i ddynion eu deall er mwyn cadw ofn arnynt; ond fod yn rhaid iddynt ddysgu fod y daioni dwyfol yn annealladwy, am fod eu hathrawiaethau hwy mor groes i bob syniad am ddaioni sydd yn y meddwl dynol. Ni chymerem lawer am awgrymu fod Mr. Mill wrth ddwyn y fath gyhuddiad yn gwybod ei fod yn dyweyd yr hyn nid yw wir; ond ni phetruswn ddyweyd y gallasai wybod, ac y dylasai wybod, nad yw yr haerriad hwn yn cynnwys un mymryn o wirionedd; oblegid pa beth bynag a ddywedodd Mr. Mansel am ddaioni Duw, yr oedd o hyd yn dywedyd yr un peth am yr holl briodoliaethau dwyfol.

Tuag at ffurfio rhyw fath o farn ar y mater, y mae yn anghenrheid-iol i ni ddeall yn eglur pa beth yw y pwnc gwreiddiol sydd yn destun y ddadl. Yn y lle cyntaf, nid yw y ddadl yn ymddibynu ar y gofyniad, A ellir amgyffred y Bôd o Dduw a'i Briodoliaethau. Y mae pob plaid yn cydnabod na ellir amgyffred yr Anfeidrol: ond y mae Hamilton a Mansel yn dadleu nas gellir ei adnabod, na gwybod pa fath un ydyw ynddo ei hun, gan nad ydym yn ymwybodol o unrhyw allu neu ansawdd sydd yr un ynom ni ac yn Nuw. Yn ail, ni ddylid gwahaniaethu yn y mater hwn rhwng natur Duw a'i Briodoliaethau; oblegid i'r graddau yr ydym yn alluog neu yn analluog i wybod pa beth ydyw y Priodoliaethau dwyfol, i'r graddau hyny yr ydym yn alluog neu yn analluog i wybod pa beth ydyw Duw yn ei natur. Yn drydydd, nid y ddadl ydyw, a ydym ni yn alluog i roddi esboniad sier ar yr amlygiadau o Dduw yn ei weithredoedd. Yn y fan yma y mae Mr. Mansel yn ymgysgodi yn lled fynych, megis yn y gymhariaeth am ddaioni y tad a'r mab. Y mae y dysgybl yn fynych yn methu deall ei athraw yn y cymhwysiadau y mae yr athraw yn wneuthur o egwyddorion Rhif a Mesur mewn amryw gangenau o wybodaeth; ond nid yw hyny yn profi nad yr un yw yr egwyddorion i'r athraw a'r dysgybl. Yn bedwerydd, nid oes un ddadl yn nghylch yr anghenrheidrwydd am ffydd mewn crefydd; ond y gofyniad yn syml ydyw, A oes lle mewn crefydd i wybodaeth am Dduw, yn gystal â ffydd yn Nuw. Fel y dywed Awstin, "Er fod yn rhaid i ddyn feddu rhyw wybodaeth am Dduw

cyn y gall gredu ynddo, eto trwy y ffydd hon ei hunan y mae ei ddeall yn cael ei gryfhau fel ag i dderbyn ychwaneg o wybodaeth."

Dyma y gofyniad mor eglur ag y medrwn ei roddi; a dylem chwilio hyd y gallom am ryw atebiad. Wedi yr holl ysgrifenu a fu ar y mater hwn, ein barn bwylllog ydyw, fod rhan o'r gwir gan bob un o'r pleidiau gwrthwynebol, ac nad yw yr holl wir gan y naill na'r llall. Ni fuasem yn siarad mor benderfynol pe buasem yn bwriadu cynnyg atebiad wedi ei seilio yn hollol ar ryw olygiad nad oedd neb o'r blaen wedi ei ddarganfod. Ond os nad ydym yn camsynied, y mae y gwirionedd, a'r holl wirionedd, i'w gael yn yr hen ddywediad sydd mor hysbys i bob efrydydd duwinyddol, am y gwahaniaeth rhwng y Priodoliaethau cyfranogol a'r Priodoliaethau anghyfranogol. Gyda golwg ar ein hanallu i ffurfio un syniad neu ddrychfeddwl am y Priodoliaethau anghyfranogol, megis Holl-alluogrwydd, Holl-bresennoldeb, a Holl-wybodaeth, yr ydym yn barod i fyned yn llawn mor bell a Hamilton neu Mansel. Mewn rhyw ystyr, gellid tybied nad yw y gwahaniaeth ond mewn graddau yn unig; a diau fod yma gyfatebiaeth ag sydd yn rheswm dros arfer yr un geiriau wrth son am Dduw ac am ei creaduriaid; ond ar yr un pryd y mae yma wahaniaeth mewn natur yn gystal a gradd. Pe meddyliem am Holl-alluogrwydd, y mae hyny yn cynwys gallu i ddwyn i fod, ac i gynnal mewn bod: a dyma allu nas gall un creadur gyfranogi o hono, na ffurfio un syniad am dano. Pe byddai i'r holl creaduriaid sydd mewn bod ymuno â'u gilydd i greu y temig lleiaf, er iddynt ddwyn eu holl ymadferthoedd i weithrediad, byddai y temig heb ei greu hyd byth. Nid yn unig nis gallant ei greu; ond nis gallant wneuthur dim tuag at hyny: ac y maent mor analluog i wneuthur dim tuag at ei gadw mewn bod ar ol iddo gael ei greu. Gall dyn gymeryd i fynu â'i law ran o'r môr, oblegid nid oes yno ond gwahaniaeth graddau; ond nis gall un creadur gyfranogi mewn rhan o allu y Creawdwr. Pe meddyliem drachefn am Holl-bresennoldeb, yr unig syniad sydd genym ni wrth geisio meddwl am dano ydyw eangder diderfyn: ond nid ydyw hwn yn syniad cywir i'w gymhwyso at Dduw oblegid y mae rhanau i bob eangder, tra y mae Duw yn Fôd heb ranau. A phe meddyliem yn nesaf am Holl-wybodaeth, y mae yn rhaid fod gwahaniaeth natur rhwng gwybodaeth Duw a'n gwybodaeth ni, oblegid y mae Efe yn gwybod yr hyn sydd i ddyfod, ac yn gweled y cwbl o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb ar unwaith. Ac nid yn unig am ei fod wedi arfaethu y mae Efe yn gwybod pa beth

a fydd—pe felly, buasai yn debyg i'w greaduriaid—ond y mae yn gwybod y cwbl a fydd byth o herwydd fod y cwbl yn bresennol iddo ef yn awr. Efallai y gallem fyned yn mhellach eto gyda golwg ar y priodoliaethau hyn, ac na fyddai yn ormod i ni ddywedyd ein bod yn analluog i ddeall pa beth yw gallu, a phresennoldeb yr enaid, a gwybodaeth, ynom ni ein hunain. Pa fodd bynag am hyn y mae yn amlwg ein bod yn analluog i ddeall pa beth ydynt yn Nuw, ac nas gallant fod o'r un natur ynddo Ef ag yn ei greaduriaid.

Mor bell a hyn y mae yn ymddangos i ni fod Hamilton a Mansel yn berffaith gywir : ond yr ydym yn methu gweled fod ganddynt seiliau i gymhwysu yr un dull o ymresymu at y Priodoliaethau moesol. Yn ei gariad a'i drugaredd, yn ei gyfiawnder a'i wirionedd, y mae Duw yn un y gellir ei adnabod ; ac yn yr ystyr yma gellir dywedyd pa fath un ydyw gyda mwy o sicrwydd nag y gellir dywedyd hyny am neb arall. Yn yr ystyr yma hefyd y mae Duw yn un y gellir nesu ato, a bod yn debyg iddo. Nid yw yn dywedyd wrthym, Byddwch alluog, canys galluog ydwyf fi, neu byddwch wybodus, canys gwybodus ydwyf fi ; oblegid nis gallwn ymdebygoli iddo mewn gallu na gwybodaeth ; ac yn yr ystyriaethau hyn ni a fyddwn byth yn anfeidrol bell oddiwrtho. Ond mewn sancteiddrwydd a daioni dywedir wrthym fod plant Duw yn awr yn gyfranogion o'r duwiol anian, sef yr un anian ag sydd yn Nuw ei hun : ac y mae genym seiliau i gredu y byddant am byth yn cynnyddu mewn tebygolrwydd iddo. Am hyn y mae yn dywedyd, "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi : " "Byddwch chwi gan hyn yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Addefwn y bydd gwahaniaeth byth mewn graddau rhwng Duw a'i greaduriaid mewn sancteiddrwydd a daioni ; ond yr ydym yn dadleu er hyn y fod sancteiddrwydd a daioni mewn creadur, mor bell ag y mae yn sanctaidd a da, yr un yn ei natur ag yn Nuw ei hun. Ac hyd yn nod pe gwedid y golygiad hwn, eto y mae pob crediniaeth am anghyfnawidoldeb y ddeddf foesol yn cynnwys fod Duw yn gweithredu yn ol yr un egwyddorion moesol ag y gofynir i ninnau roddi ufuddod iddynt.

NODIADAU AR LYFRAU.*

The Centre of Unity. A Sermon preached at the Consecration of St. Paul's Church, Llanelly. By CONNOP THIRLWALL, D.D., Bishop of St. David's.

Un fendith sydd yn deillio oddiwrth wir ysgolheigodod yw dysgu ysgrifenu yn ddi-rodres. Pe b'ai awdwyr Cymreig yn darllen mwy ar ysgrifeniadau y Groegiaid, byddai llai o hyawdledd gau a ffraethineb ffugiol i'w weled yn ein cyhoeddiadau cyfnodol. Nid oes bron neb yn cymeryd ei ysgrifell mewn llaw y dyddiau hyn nad yw yn y fan yn ymsythu, ac yn ymestyn, ac yn ymorchestu i fod yn hyawdl anorchfygol, neu yn ffraeth ddigyffelyb. Y rhai a gyrhaeddasant ychydig o ddysg-eidiaeth amherffaith sydd mewn mwyaf o berygl; oblegid y mae dynion annysg-edig, fel yr hen Cobbett, a dynion *gwir* ddysgedig, fel y diweddar Dr. Arnold, yn medru ysgrifenu yn syml a naturiol. Un o ysgolheigion penaf yr oes hon yn ddiau yw Esgob Tyddewi; ond yr unig arwydd o'i ddysgeidiaeth a welir yn y bregeth hon yw, ei bod yn fwy dirodres na chyffredin. Canfyddir yr ysgolhaig yn symledd destlus a phrydferth yr ymadroddion. Y mae yr iaith mor loew, fel nad yw un amser yn tynu ein sylw oddiwrth y meddwl. Ond na thybier ychwaith mai darn o gywreinwaith difwyd ydyw. Y mae ynddi hyawdledd, nid yn y geiriau yn unig, ond yn y meddyliau; ac am hyny y mae yn hyawdledd gwirioneddol.

Testun y bregeth yw 1 *Cor.* i. 12, 13; "A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apolos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist. A ranwyd Crist? ai Paul a groes-hoeliwyd drosoch? neu ai yn enw Paul y'ch bedyddiwyd chwi?" Y mae iawn olwg ar ansawdd y pleidiau hyn yn eglwys Corinth yn anghenrheidiol cyn y gwelir amcan ac ystyr y rhelyw o'r epistol. Barna Dr. Thirlwall mai y rhai a dueddent at Iuddewiaeth oedd yn galw eu hunain ar enw Pedr; mai y rhai a ochrent yn fwy at ryddid, gan ddadlun dros ffydd heb weithredoedd, a gras heb dduwioldeb, oedd yn proffesu eu hunain yn ddilynwyr Paul; ac mai Groegiaid dysgedig a dadleugar yn benaf oedd y rhai hyny a gyhoeddent eu hunain yn ddilynwyr Apolos. Mae yn barnu hefyd am y blaid arall, yr hon a ymwrthodai â phob enw dynol, gan ymfrostio eu bod yn "eiddo Crist," mai hon oedd y fwyaf dallbleidiol o'r cwbl, gan ei bod mewn effaith yn collfarnu yr holl bleidiau eraill fel rhai anghristionogol; ac yn hyn y mae yr esgob yn cydfyned â Neander a'r holl esbonwyr mwyaf deallus.

Er mwyn dangos beth yw prif amcan y bregeth, ac i brofi fod ynddi wir hyawdl-edd, rhoddwn yma un dyfyniad.

* O'r "TRAETHODYDD," am 1851.

“Efallai y meddylir fy mod yn llefaru fel Eglwyswr, os dywedaf fod llawer o ysbryd y Corinthiaid yn holl bleidiau y dyddiau hyn. Gwn fod yr Ymneillduwr yn wyno o'i herwydd yn Eglwys Loegr, yn llawn cymaint a'r Eglwyswr am unrhyw sect a ymneillduodd oddiwrthi. Yr wyf yn ofni fod gormod o sail i'r achwyniad o'r ddwy ochr. Yr wyf yn ofni fod genym oll lawer o achos i ymostwng a chywilyddio yn y mater hwn; a bod yn anghenrheidiol i lawer fwrw allan y trawst o'u llygaid eu hunain, cyn y gwelont yn eglur i fwrw allan y brycheuyn o lygad eu brawd. Ond ar yr un pryd, os nad ydym yn hollol ddall, nis gallwn dybied mai yr un peth yw y brycheuyn a'r trawst. Dichon i'r un ysbryd ddangos ei hun mewn gwahanol raddau, a rhai o honynt mor bell oddiwrth eu gilydd, fel nas gall yr edrychwyr mwyaf diofal lai na gweled y gwahaniaeth rhyngddynt. Yn ayr, pe y gofyniad fyddai, Yn mha gorff o Gristionogion yr amlygwyd i'r gradd helaethaf y tri thuueddiad a ddesgrifiwyd uchod? yn mysg pa rai y mae awdurdod ddydol wedi ei dyrchafu i'r flaenoriaeth fwyaf penarglwyddiaethol? yn mysg pa rai y mae hawliau cydwybod a rhwymedigaethau cyfrifoldeb personol wedi eu gwadu a'u haberthu yn fwyaf llwyr? yn mysg pa rai y mae caethiwed, mewn egwyddor ac ymarferiad, wedi ei gario i'r eithafion mwyaf afreolaidd?—yr wyf yn credu nid yn unig na fyddai mynyd o betrusder yn neb sydd yma yn wyddfodol, i ba enwad bynag o Gristionogion y perthyna; ond na cheid un gynnulleidfa o ddyinion deallus, yn yr hon ni fyddai atebiad cyffelyb yn cynnyg ei hun i bob meddwl; sef, mai yn y corff hwnw yr hwn sydd yn dywedyd, 'Myfi wyf eiddo Pedr.'

Fy mrodyr, pe caniatasid i St. Paul dreiddio â llygad prophwyddiaethol trwy yr oesoedd hirfaith sydd yn gwahannu ei amser ef oddiwrth yr eiddom ni, ac i ragweled yn mha ystyr a than ba amgylchiadau y byddai dynion yn para i ddywedyd, 'Myfi wyf eiddo Pedr,' mae yn anhawdd penderfynu pa ran o'r olygfa drist a fuasai yn llanw ei enaid â'r teimladau dyfnaf o syndod, cywilydd, a gofid. Diamheu y buasai yn ymddangos iddo ef yn dra rhyfedd, fod ei frawd Pedr—Pedr, yr hwn a wrthwynebodd efe yn ei wyneb, am ei fod i'w feio; Pedr, i'r hwn ni chaniatâi efe un gradd o awdurdod nad oedd efe ei hun yn alluog i'w honi; Pedr, yr hwn oedd ei hun wedi rhybuddio ei gyd-henuriaid na thra-arglwyddiaethent ar etifeddiaeth Duw, ond am fod yn esiamplau i'r praidd; fod Pedr, meddaf, yn cael ei dybied gan neb byth, nid yn unig yn meddu, ond yn trosglwyddo i eraill, hawl i lywodraeth benarglwyddiaethol dros holl eglwys Crist; fod pob un o'i olynwyr ffugiol yn derbyn anrhydedd dwyfol, yn cael ei addoli ar yr allor, yn cael ei gyhoeddi yn Ficer Crist, yn Llywydd y Byd, yn cael ei gydnabod fel Arglwydd yr Arglwyddi, fel yr Hollalluog, yr Anffaeledig, fel Rhaglaw Duw, fel Duw ar y ddaear, fel ein Harglwydd Dduw—hyn, meddaf, a fuasai yn ymddangos i St. Paul yn dra rhyfedd. Ac eto, beiddiaf feddwl hyd yn nod mai nid y cabledd dychrynllyd hwn a fuasai yn cynnyrfu ynddo y gradd uchaf o syndod ac arswyd. Credaf y buasai yn arswydo ychwaneg eto, wrth ystyried y moddion trwy ba rai y mae yr arglwyddiaeth anghyfreithlawn hon yn cael ei chynnal a'i thaenu, y dull yn mha un ei harferir, a'r dybenion a wasanaethir trwyddi. Ac hyd yn nod yn mblith y rhai hyn, ai oddiwrth greulonder erlidigaeth, yr afonydd o waed gwirion, y carchar-gelloedd tywyll a ffaidd, yr offerynau o arteithiad hirfaith, y ffurfiau lliosog o angeu ingawl, trwy y rhai y cadarnheir yr awdurdod anghyfiawn hon, y buasai efe yn troi ymaith gyda'r atgasrwydd dyfnaf? Neu ynte, ai fod y gorthrwm creulawn hwn, er ei arferyd yn enw Crist, yn cael ei ddefnyddio i newid crefydd Crist am efengyl arall, i osod i fyny gyfryngwyr eraill yn lle Crist, i wneuthur gair Crist yn llythren farw, ac i roddi yn ei le draddodiadau a dyfeisiau dynion; i sefydlu erthyglau newydd o ffydd, i arosod athrawiaethau na chlywodd Paul criod am danynt, a'r rhai, pe buasai yn eu elywed, y buasai efe yn eu gwrthsefyll hyd farw?

Credaf mai nid y naill na'r llall. Oblegid buasai o flaen ei olwg rywbeth gwaeth eto na hyn i gyd. Buasai yn gweled y priodoliaethau hyn o eiddo Hollalluogrwydd yn cael en honi i ddybenion mwy ansanctaid na'r ewbl a enwyd; i wneuthur yr hyn, gyda phŵerch y dyweder, nas gall Daw ei hun ei wneuthur; sef, i ddadsylfaenu egwyddorion cyntaf gwirionedd a chyfiawnder, i gymysgu y gwahan-iaethau tragwyddol rhwng uniondeb a chamwedd, i ddattod y rhwymau mwyaf cysegredig sydd yn dal cymdeithas wrth ei gilydd, i foddï llais rheswm a chydwybod, i wneyd drwg yn dda a da yn ddrwg, tywyllwch yn oleuni a goleuni yn dywyllwch."

Nid ydym o nifer y rhai sydd "yn hidlo gwibedyn," ac felly nid ydym yn tramgwyddo yn y mesur lleiaf wrth y ddwy lythyren ddiniwed "St.," o flaen enw Paul; er mai fel arall yn gyffredin y byddwn ni yn dygwydd enwi Apostol mawr y Cenhedloedd. Rhaid i ni ddywedyd hefyd ein bod yn dra hoff o frawddegau hirion; os byddant, fel y maent yn ysgrifeniadau Hooker a Taylor, ac fel y maent yn y dyfyniad uchod, yn llawn o feddyliau. Y maent nid yn unig yn fwy cynnwysfawr; ond yn fwy difyr i'w darllen, na'r brawddegau byrgam, byranadl, sydd yn awr mewn arferiad cyffredin. Ond pa fodd bynag am hyny, diammheu genym y bydd y bregeith hon yn ammheuthyn i bob moddwl eang a choethedig.

Letter to the Rev. Lewis Edwards, M.A., on the Mutual Claims and Duties of Protestants and Roman Catholics, at the present juncture. By ARTHUR JAMES JOHNES, Judge of the North West Wales and Aberystwyth County Courts.

Y MAE rhyw resymau yn peri i ni ammheu yn nghylch y priodoldeb o alw sylw at y llythyr hwn. Eu crybwyll yma ni fyddai ond gwaith afreidiol; ac os bydd rhai yn awyddus am eu gwybod, gallwn sierhau iddynt nad ydynt ond colledwyr bychain iawn o herwydd eu hanwybodaeth. Digion yw dywedyd, na ddymunem ar un cyfrif roddi lle i neb gymhwyso atom y llinellau hyny o eiddo rhyw hen brydydd Cymreig:—

"Cân di bennill mwyn i'th nain,
Fe gân dy nain i tithau."

Ond gan fod y llyfr wedi ei anfon i ni, yr ydym yn teimlo y byddai ei adael yn ddisylw yn drosedd o reolau moesgarwch cyffredin; yn enwedig pan ystyriom fod yr awdwr, trwy ei lafur dibaid fel diwygiwr gwladol a chrefyddol, yn un o brif gymmwynaswyr ei genedl.

Ymddangosodd y llythyr hwn yn gyntaf yn y "*Carnarvon Herald*;" ac argraffwyd ef wedi hyny ar ei ben ei hun. Mae yn profi yn amlwg fod Mr. Johnes yn gallu pwyso yr holl achos yn bwylllog, heb gymeryd ei ysgogi i'r naill ochr na'r llall, yn nghanol y cynnhwrf gwrth-babaidd. Gellir gweled ei farn ar yr ymosodiad diweddar, oddiwrth y dyfyniad a ganlyn:—

"Cyfeillion rhyddid crefyddol nis gallant lai na dymuno gweled goddefiad perffaith yn cael ei estyn i bob math o farnau crefyddol, tra na fyddo y barnau hyny yn tueddu i rwystro hawliau rhai eraill, yn grefyddol neu wladol, yn nghyda diog-
l'wch ac undeb brawdol deiliaid yr un goron. Ond cario goddefiad tuhwnt i'r

terfynau hyn, nid yw ddim amgen na chaniatau i'r egwyddor gysegredig hono gael ei gwneuthur yn esgus dros ddrwgioni, gorthrwm, a thwyll, y rhai y dylai pob llywodraeth oleuedig eu rhoddi i lawr â llaw gref, pa un a gyflawnir hwynt dan gochl crefydd, neu dan gysgod rhyw enw llai parchus."

Dyma yr holl ddadl wedi ei chrynoi i ychydig eiriau. Nid ydym yn hoffi y gair "goddefiad," gan y gellir ei ddeall fel yn arwyddo fod y llywodraeth yn meddu hawl i gaethiwo y deiliaid. Gyda hyn o eithriad, yr ydym yn mawr gymeradwyo golygiad Mr. Johnes. Yn yr holl helynt Pabyddol, y pwnc ydyw, A yw y Pabyddion yn gofyn mwy nag sydd yn gynnwysedig mewn perffaith rhyddid; ac a ydyw yr hyn a amcanant yn cydsefyll â rhyddid eu cyd-ddeiliaid Protestanaidd. Gallwn ddangos ein syniad ein hunain ar y mater yn bur fyr mewn tri gosodiad.

1. Pe meddyllem fod plaidd grefyddol yn dadleu nas gallant fwynhau rhyddid perffaith heb ryw drefniant penodol, nid yw hyn yn ddigon o reswm dros ganiatau y cyfryw drefniant, os bydd yn taraw yn erbyn rhyddid y pleidiau eraill.

2. Gellir milwrio yn erbyn hawliau a breintiau y wladwriaeth trwy honiadau, yn gystal a thrwy weithredoedd. Byddai honi hawl i goron Lloegr yn drosedd, heb ymladd yn weithredol yn erbyn y frenhines. Pe gosodid yr hawl i fyny gan ddyn cyffredin, doethineb fyddai ei adael yn ddisylw, neu ei anfon i'r gwallgofdy; ond pe gwnelid yr un honiad gan bendefig cyfoethog, yr hwn y byddai y drydedd ran o'r deyrnas yn barod i'w bleidio, byddai yr amgylchiad yn dra gwahanol. Yn y cyfryw achosion *y mae geiriau yn bethau*.

3. Dylid barnu pob gweithred yn ei chysylltiad â hanes, a nodwedd, a dyben y gweithredydd. Fel hyn yr ymddygir yn feunyddiol yn yr holl lysoedd gwladol. Yn awr, wrth ystyried pa beth yw Pabyddiaeth, nis gellir gwadu fod y weithred o ranu tiriogaeth Lloegr a Chymru rhwng yr esgobion Pabaidd yn arddelwad o benogaeth wladol y Pab yn y deyrnas hon, yn honiad cyhoeddus o'i awdurdod i ddwyn y wlad hon drachefn dan iau caethiwed, ac felly yn ymosodiad uniongyrchol ar ein rhyddid crefyddol a gwladol. Y mae newyddiaduron Pabaidd y Cyfandir nid yn unig yn addef hyn, ond yn ei wneuthur yn ymfrost. Ac a ydyw hyn yn beth y dylid ei oddef—barned y darlennydd.

Meddyllem ein bod yn myned rywfaint yn mhellach na Mr. Johnes yn ein syniadau am y perygl a gynnwysir yn ymgyrch y pab; ond pa un a yw efe yn cydweled â ni ai peidio yn yr achos hwn, yr ydym ni yn cydweled âg ef yn hollol am yr anghenheidrwydd o *ddiwygio gartref*. Dyma hoff destun Mr. Johnes; ac ni ddi-chon fod dim yn fwy teilwng o'i sylw. Ar y pwnc hwn yr ysgrifennodd ei Draethawd Arobryn pan yn ieuanc, a theimlwn barch iddo wrth weled nad yw dyrchafiadau gwladol wedi lleihau dim ar ei ymroddiad. Prif amcan y llythyr dan sylw yw galw ar Brotestaniaid i lanhau eu cyfundebau eu hunain. Nid ychydig wrodeleu moesol oedd yn ofynol i ŵr yn ei sefyllfa ef i ddywedyd yr hyn a ganlyn:—

"Mewn perthynas i'r Eglwys yn Nghymru, nid wyf yn petruso dyweyd, y gallaf brofi i sicrwydd, beth bynag oedd llygredigaethau yr amseroedd Pabaidd, fod y camddefuydd o feddiant eglwysig, aberthiad y bobl a'r offeiriaid gweithgar i'r esgobion a graddau uchaf yr eglwys, wedi eu cario yn llawer pellach ar ol y Diwygiad Protestanaidd nag yr oeddynt cyn hyny.

Pa beth gan hyny fydd atebiad y Pabyddion yn y cynnhwrf sydd yn awr wedi ei godi? 'Y meddyg iachâd y hun.' Ai dyma ffrwythau y Diwygiad yr ymffrostir gymaint ynddo?

Gadewch i mi roddi rhai anghreiffstian i brofi y gosodiad. Mewn llawer o blwyf-ydd yn Nghymru, cewch fod y degymau yn rhanedig rhwng y *rector* a'r *vicar*. Gwreiddyn y rhaniad hwn oedd fel y canlyn:—Y *rector* yn yr amseroedd Pabaidd oedd fath o segur-swyddwr, yr hwn a adawai y plwyf yn hollol i ofal *cuerad*. Yr oedd awdurdodau Pabaidd yr amseroedd hyny yn meddu digon o deimlad o gyfiawnder i roddi rhyw gyfran o'r degymau i'r *vicar* neu y *cuerad*. Ond yn ein hamseroedd goleuedig ni, nid anfynych y mae y *rector* a'r *vicar* yn byw yn absennol, ac yn gadael holl ofal y plwyf i'r *cuerad*, yr hwn sydd yn ymddibynu ar y *vicar*. Dyma agwedd pethau ag yr oedd yr Eglwys Babaid yn meddu digon o onestrwydd i'w gwahardd."

Drachefn:

"Union a chyfiawn a fyddai amddifadu yr offeiriaid Pabaidd o'r gallu sydd ganddynt i ennill meddiannau trwy foddion a dylanwad annheg. Ond a fyddwn ni mewn sefyllfa dda i roddi y cyfryw gyfreithiau arnynt hwy, tra y mae graddau uchelaf yr Eglwys Brotestanaidd yn derbyn cyflogan mor anghymharol tuhwnt i'r hyn a fwyneir gan yr offeiriaid mwyaf urddasol yn mhob gwlad arall yn Ewrop, a thra y mae yr arian a adawyd at addysg gan ein cyndeidiau, er pob yndrech at ddiwygiad, yn cael eu troi yn gyhoeddus at ddybenion o hocoed personol a thwyll?"

Unwaith eto:

"Oni all y Pabyddion ddywedyd wrthym, 'Yr ydych yn ein cyhuddo ni o ymadael mewn athrawiaeth, ond a ydym wedi ymadael mwy na chwi mewn ysbryd, oddiwrth symledd yr oes Apostolaidd? Onid oes cymaint o wahaniaeth rhwng eich esgob chwi a'i guwrad ag oedd rhwng y barwn a'i gaethwas yn y canol-oesoedd? Os ydym ni yn gwrthod cydnabod eich eglwys chwi, ac yn ei hystyried yn heresi, onid ydych chwithau wedi gwneyd yr un peth tuag at yr Ymneillduwyr Protestanaidd, y rhai a gyfansoddant ran mor fawr o'ch poblogaeth, a'r rhai a wnaethant gymaint dros addysg crefyddol a chyffredinol y bobl, pan oedd eich eglwys chwi wedi soddi mewn dideimladrwydd, ac yn gadael y ddeaddell mewn tywyllwch ac anwybodaeth paganaidd?"

Chwareu teg i Eglwys Loegr wedi'r cwbl. Mae yn rhaid fod gwahaniaeth dirfawr rhyngddi ag Eglwys Rhufain, onide byddai carchar y chwil-lys, neu ryw gosbedigaeth gyffelyb, yn aros Mr. Johnes wedi iddo gyhoeddi gwirioneddau mor noethion. Ond y mae yn bryd dyweyd y gwir yn ddidderbyn wyneb, a diwygio hefyd oddiwrth yr hyn sydd feius. Dyma y ffordd fwyaf effeithiol i wrthwynebu Pabyddiaeth. Dynion tebyg i Mr. Johnes yw cyfeillion goreu yr Eglwys Sefydledig.

Popery and the Bible. By the REV. THOMAS PHILLIPS.

Popery and Protestantism brought to the test of God's Holy Word. By the

REV. THOMAS PHILLIPS.

A Tract for All. By AN OBSERVER.

PE na b'ai ein hyder yn ansigledig yn ngrym y gwirionedd dwyfol, ac yn addewidion y Duw digelwyddog, darfyddai ein gobaith am weled Pabyddiaeth yn colli tir yn y

deyrnas hon. Y mae hyd yn nod deddf natur, mewn ffordd o gosbedigaeth am drosedd dyn, yn ymladd yn erbyn Protestaniaeth; ac yn rhwym o achosi, os na ddaw rhyw ddeddf uwch i wrth-weithio, i Babyddiaeth fod mewn ychydig amser yn grefydd y mwyafrif. Y mae Mr. Doubleday yn dangos, am y byd llysiuol, anifeilaidd, a dynol, fod natur, yn ngwyneb pob gormes, yn gwneyd ymdrech ychwanegol i ddiogelu parhad y rhai sydd dan ei gofal; a bod trigolion pob gwlad, er dyddian plant Israel yn yr Aipht hyd yn awr, mewn canlyniad i'r ddeddf hon, yn lliosogi yn gyflymach po iselaf y suddir hwynt mewn caethiwed a thlodi. Nis gellir gwadu nad yw Lloegr wedi gorthrymu yr Iwerddon, nes y mae yr enaid bron wedi ei wasgu allan o honi: ond yn gosbedigaeth am hyn y mae hithau yn tywallt ei Phabyddion carpiog yn heidiau heintus i'r wlad hon, i ddwyn y gwaith oddiar ein gweithwyr tlodion, neu o'r hyn lleiaf i dynu i lawr eu cyflogau, a gwaeth na'r cwbl, i daenu eu hegwyddorion coel-grefyddol drwy yr holl deyrnas. Dywedir fod y Pabyddion eisoes yn drydedd ran; ac yn ol natur pethau, hyd yn nod pe na baent yn proselytio y Protestaniaid, byddant, cyn pen llawer iawn o flynyddau, yn fwy na hanner poblogaeth y deyrnas.

Ceisia rhai ein tawelu trwy ddadleu nad oes ond rhifedi bychan, mewn cymhar-iaeth, o'r Saeson yn troi yn Babyddion. Gall hyn fod yn wir, a gobeithiwn ei fod; ond nid oes yma er hyny ond ychydig o gysur: oblegid, o'r ddau, byddai yn well genym Babyddion Seisnig, na Phabyddion Gwyddelig. Yr unig gysur sydd i'w gael yw, trwy gredu fod gwirionedd Duw yn gryfach na chelwydd, a thrwy weith-redu yn gyson ac egniol oddiar y gred hono, gan ddysgwyl wrth yr Ysbryd Glan am y llwyddiant. Ni ddylid ymddiried i ragfarn, er y dichen i hwnw gadw swu mawr am ychydig amser. Nid oes dim ond egwyddor yn gadarn; a dyledswydd holl weinidogion yr efengyl yw goleuo y genedl am hanes a natur y grefydd Bab-aid. Meddyliem nad oes neb o'r Cymry wedi gwneyd mwy yn y ffordd hon na'r Parch. Thomas Phillips: ac nid ydym yn credu y byddem yn euog o gyfeiliornad mawr, pe dywedem nad oes nemawr o'r Saeson wedi rhagori arno. Mae yn amlwg fod un frwydr olaf i fod eto rhwng y Bibl a Phabyddiaeth; ac addas oedd i Mr. Phillips, fel goruchwyliwr y Fibl Gymdeithas, ddyfod i'r maes i bleidio llyfr Duw. Os oes neb wedi cael eu hudo i dybied fod Pabyddiaeth wedi newid, dymunem iddynt ddarllen traethodau Mr. Phillips, yn enwedig ei draethawd ar "Eglwys Rhufain a'r Bibl."

Nid oes genym ond un achwyniad yn erbyn Mr. Phillips: a hwnw ydyw, am na buasai yn cyhoeddi ei draethodau yn Gymraeg yn y lle cyntaf, ac yn eu cyfieithu wedi hyny i'r Saesneg. Oddiar barch i'r awdwr yr ydym yn dywedyd hyn; ac oddiar grediniaeth y buasai y cyfryw gyfieithiadau yn anrhydedd i'r Cymry. Er hyny nis gallwn ei feio yn fawr; oblegid y mae llawer hyd yn nod o'r Cymry eu hunain, wrth geisio ffurfio barn am deilyngdod llyfrau, yn ystyried mai eu dyledswydd yw cymeryd eu harwain yn hollol gan y Saeson. Nid ydynt eto yn ddigon o Brotestaniaid i farnu drostynt eu hunain, nac ychwaith yn ddigon o Gymry i gefnogi y wasg Gymreig. Er mwyn y rhai hyn nid yw yn afreidiol hysbysu fod traethodau Mr. Phillips yn dra phoblogaidd yn Lloegr, ao wedi derbyn cymerad- wyaeth wresg oddiwrth rai o brif gyhoeddiadau crefyddol y Saeson.

Eisteddfod Frenhinol Rhuddlan, 1850. Y Cyfansoddiadau Buddugol ar y Testun Cadeiriol, sef yr Adgyfodiad. Y Bryddest, gan y Parch. EVAN EVANS, Ince; yr Awll, gan y Parch. WILLIAM WILLIAMS, Llanrrest.

Yn oeddydd wedi meddwl am ysgrifenu adolygiad lledfaith ar Bryddestau Ieuan Glan Geirionydd, ac Eben Fardd: ond cafodd yr argraffydd y blaen arnom am unwaith; a llanwodd y rhifyn cyn i ni ystyried, heb adael lle i ychwaneg na nodiad bychan ar gynnyrchion Eisteddfod Rhuddlan. Ond gŵyr ein darllenwyr y medrwn ysgrifenu yn fŷr a chynnwysfawr; ac o barth y pryddestau a enwyd mae yn hawdd i ni grynhoi ein holl sylwadau i ychydig eiriau.

Yn y lle cyntaf, y mae rhy fach o undod yn y ddiwy. Nid yw pob rhan yn dwyn perthynas mor amlwg ag y byddai dymunol â rhyw un gwrthddrych, fel canolbwynt y ewbl; ac o ganlyniad, y mae sylw a theimlad y darlennydd yn ymwasgaru ac yn gwanhau. Mae y ddiwyf i raddau yn anwahanol oddiwrth y testun, ac efallai fod Eben Fardd wedi gwneyd cymaint ag a ellid ddysgwyl i'w ochelyd, trwy roddi lle mor uchel ag oedd ddichonadwy i'r Arglwydd Iesu Grist fel Arwr y bryddest. Y mae hefyd wedi uno yr holl gyflawniadau mewn adroddiad, yr hwn sydd yn cael ei wneuthur gan ychydig bersonau mewn un cyfarfod. Cynllun hapus ydyw hwn. Ond a oes dim modd i'r cyfarfod fod yn llai ffurfiol? Hoffem ef yn well pe na byddai ynddo ond dau neu dri wedi taraw wrth eu gilydd yn ddamweiniol. Er hyn, nid ydym yn dwyn hyn ymlaen fel gwrthdriad bwysig; a digon tebyg fod ein cariad at synlwydd yn ein cario i eithafion.

Yn nesaf, y mae yn angenrheidiol mewn pryddest fod ynddi gyflawnder o ddygwyddiadau personol. Os na ellir peri i'r holl ddygwyddiadau gyfeirio yn unionrychol at ryw un canolbwynt, dylai cyfran helaeth o honnynt fod yn perthyn i bersonau unigol, cyn y gallant gyffwrdd â theimlad y darlennydd. Darluniwch dlodi a thrychineb gwlad o ddynion yn y cyfanswm, nid yw yn effeithio hanner cymaint a phe rhoddid desgrifiad manwl o'r hyn a ddyoddefodd ychydig o honnynt ar wahân. Y mae yn rhaid casglu y meddwl at un peth, cyn y gellir ei deimlo. Yn hyn y mae Ieuan Glan Geirionydd yn rhagori, ac yn tra rhagori ar Eben Fardd. Er nad yw yn ein codi yn ddigon uchel i weled gwledydd cyfain ar unwaith, y mae yn agor o'n blaen olygfeydd mwy agos atom, a'r rhai hyn yn llawn o brydferthwch a bywyd. O'r ochr arall, os eir i chwilio am fawredd, edrycher i Bryddest Eben Fardd. Dichon fod Dewi Wyn wedi llwyddo mewn rhai manau i wasgu mwy o feddylliaid i ychydig eiriau: ond mewn ardduniant cyson a pharhaus, nid ydym yn ofni dywedyd fod Eben Fardd wedi rhagori hyd yn nod ar Dewi Wyn. Ond er mor ardderchog yw ei ddesgrifiadau, mae y meddylddrychau yn fynych yn rhy eang i ddyn cyffredin wneyd dim o honnynt. Ni ddymunem eu newid mewn un modd. Ond pe gellid ychwanegu atynt lyfr nen ddau o ddygwyddiadau mwy personol, byddai y bryddest wedi hyn yn agos i berffeithrwydd.

Mewn gair, y mae dau fath o ragoriaeth barddonol. Un yw gallu i ddwyn llawer o flaen y meddwl ar unwaith; a'r llall yw gallu i sefydlu y meddwl ar ychydig. Trwy eangu yr olygfa y mae creu syndod a pharch; ac yn hyn y mae Eben Fardd yn rhagori: ond trwy gyfyngu y mae toddi y teimlad; a dyma ragoriaeth Ieuan Glan Geirionydd. Y mae Ieuan Glan Geirionydd yn meddu gwell

barn, yn medru dwyn ei feddylddrychau adref yn fwy effeithiol at bob calon, ac y mae ei bryddest yn cynnwys rhai darnau melus odiaeth. Ond y mae Eben Fardd yn meddu cryfach crebwyll, a chredwn yn ddiragrith mai ei bryddest ef yw y cyfansoddiad mwyaf mawreddus a ymddangosodd erioed yn yr iaith Gymraeg.

Mewn perthynas i awdl Caledfryn, y mae yn deilwng o'r awdwr. Ei ragoriaeth ef yw hapusrwydd—meddyliau hapus, a'r rhai hyny wedi eu gwisgo mewn geiriau hapus: a gwelir y teithi hyn yn eglur yn yr awdl hon ar yr Adgyfodiad. Nid yw yn ymgyrhaedd at echediadau Miltonaidd; ond y mae yr hyn oll a wneir ganddo yn cael ei wneyd yn dda. Nid oes yma un ymdrech annaturiol; dim geiriau llanw, a meddyliau dirlynedig: ond y mae pob sill mewn llinell, a phob llinell mewn brawddeg yn cymeryd eu lle yn rheolaidd, ac yn gwasanaethu yn ufudd wrth alwad y bardd, fel tannau y delyn dan law y pencerddor.

Providence and Prophecy; or, God's hand fulfilling his word; more especially in the Revolutions of 1848, and subsequent events. By the Rev. WILLIAM REES.

NID ydym yn hoffi gwneyd arferiad o gyffelybiaethau seryddol; ond nis gallwn beidio meddwl fod rhyw debygolrwydd rhwng y byd moesol a'r byd naturiol, a bod cylch-droadau y planedau yn arlun o helyntion teyrnasoedd. Gellid meddwl weithiau nad oes un reol yn perthyn iddynt; a'u bod ar amserau nid yn unig yn sefyll yn eu gyrfa, ond yn ysgogi yn ol yn lle ymlaen. Fel hyn y maent yn rhwym o ymddangos i bawb sydd yn analluog i godi eu meddyliau uwchlaw y byd bach y maent yn byw ynddo; ond pan edrychir arnynt o'r canolbwynt, gwelir eu bod oll yn symud mewn trefn, rhai mae'n wir yn gyflymach nag eraill, ond y cwbl mewn cysondeb diball, dan lywodraeth deddfau cyffredinol a digrffnewid. Er mwyn galluogi y darlennydd i gymeryd golwg o'r fath yma ar chwyldroadau diweddar y Cyfandir yr ysgrifennodd Mr. Rees y llyfr hwn. Mae yr hanes a gynnwysir ynddo yn ei wneyd yn werth ei ddarllen; oblegid nid hawdd yw cael crynodeb mor gyflawn, a disgrifiad mor fywiog, o'r holl ddygwyddiadau allanol. Ond ei brif ragoriaeth yw yr esboniad a roddir, yn ngoleuni yr Ysgrythyrau Sanctaidd, o'r egwyddorion tufewnol a achosent yr holl gythrwid, ac a barhant eto mewn gwrthryfel tragwyddol. Camsyniad dirfawr yw tybied fod chwyldroadau y Cyfandir wedi darfod, a bod llyfr Mr. Rees o herwydd hyny yn anamserol. Nes y cymmodir rhyddid â gormes, cyfiawnder âg anghyfiawnder, nid yw ond ffolineb dysgwyl am heddwch sefydlog yn fuan ar gyfandir Ewrop. Y mae yr egwyddorion a fu yn achos o'r chwyldroadau diweddar yn gweithio mor rymus ag erioed; ac y mae gwirionedd a chyfiawnder yn sicr o ennill y dydd.

Er hyny, y mae yr hen ddywediad ysgrythyrol yn wir gyda golwg ar achosion gwladol, yn gystal a chrefyddol, fod yn rhaid i ni rodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg. Os bernir wrth y golwg, y mae agwedd bresennol y rhan fwyaf o deyrnasoedd y byd yn dra anobeithiol. Sardinia yw yr unig deyrnas sydd yn ymddangos ar well tir yn awr na chyn y chwyldroad. Yn Firaine, ni feddant un cysgod o ryddid eu hunain, ac y maent yn gwneuthur a allont i'w ddifodi mewn gwledydd eraill. Unig bwnc Louis Napoleon yw boddio yr offeiriaid Pabaidd; ac y maent hwythau yn gwenieithio iddo yntau, nes y daw cyfle i'w daflu ymaith, a gosod yr

hen deulu Bourbonaidd yn ei le. Yn Awstria, yr oedd Metternich yn ddiarebgynt fel gelyn pob rhyddid; ond yr oedd ei lywodraethiad ef yn dadol mewn cymhariaeth i'r un bresennol. Yn Naples, y mae miloedd ar filoedd o'r trigolion mewn carcharau; ac yn ol tystiolaeth Mr. Gladstone, y maent yn dyoddef y creulonderau mwyaf barbaraid a glywyd erioed son am danynt. Nid yw Prwsia wedi syrthio yn hollol mor isel; ac nid ydym yn ammheu nad yw brenin y wlad hono yn bleidiwr rhyddid: ond y mae wedi gorfod ildio i gynghorion Rwsia ac Awstria. Yr oedd yn rhaid iddo wneuthur hyny, neu sefyll ei hunan yn erbyn prif deyrnas-oedd y Cyfandir.

Nid yw yr olwg nemawr gwell pan drown at yr ochr arall i'r darlun. Mae yn amlwg fod llawer yn Germani, dau yr esgus o bleidio rhyddid, yn amcanu diddymu crefydd a moesoldeb o'r byd. Yr oedd hyn yn cael ei arddelwi ganddynt yn gyhoeddus. Nid ydym yn credu fod y Ffrancwr Ledru Rollin yn rhagori un gronyn ar Thiers, nac mewn un modd yn gystal dyn a Guizot. Nid ydym ychwaith yn dysgwyl cymaint a Mr. Rees oddiwrth Mazzini. Cydnabyddwn yn rhwydd mai ef yw un o ddynion mwyaf yr oes hon. Nid yw Ledru Rollin a Louis Blanc, a'u cyffelyb, ond corachod wrth ei ochr. Y mae i fesur mawr yn meddu dewrder a doniau yr hen Britaniaidd yn Lloegr: ond y mae lle i ofni nad yw yn meddu ond ychydig o'u hegwyddorion. Er hyny, y mae gwelliant amlwg i'w ganfod yn ei ysgrifeniadau diweddar; a gobeithiwn mai cynnyddu a wna mewn gwybodaeth o'r gwirionedd, fel y byddo yn flaenor addas i arwain yr Italiaid o gaethiwed Pabyddiaeth. Ond gan nad pwy a ddefnyddia Rhagluniaeth fel offerynau i ddwyn y gwaith ymlaen, yr ydym yn cydweled â Mr. Rees nad oes achos pryderu o barth y llwyddiant. Gall rhai dybied ei fod yn siarad yn rhy hyderus; ond y mae mwy o sylwedd, a dyfnach synwyr, nag y mae llawer yn feddwl yn yr hen arwyddair, "Y gwir yn erbyn y byd."

O'n rhan ni, yr ydym yn teimlo yn falch fod y gwaith hwn wedi ymddangos. Rhydd ar ddeall i'r Seison fod rhai o'r Cymry yn medru meddwl a theimlo yn achos rhyddid a rhinwedd, a'u bod yn alluog hefyd i fynegu eu meddyliau a'u teimladau. Y bennod gyntaf sydd draethawd grymus ac effeithiol ar Ragluniaeth neillduol. Os tueddir neb i wadu yr athrawiaeth hon, cynghorem hwynt i darllen rhesymau Mr. Rees, a'u gwrthbrofi os medrant. Yn nesaf, gwneir rhai sylwadau ar chwyldroadau yn gyffredinol, ac yna rhoddir hanes manwl o'r chwyldroadau diweddar ar y Cyfandir. Ac yn olaf, dangosir y dygwyddiadau hyn fel cyflawniad o'r prophwydoliaethau. Ar y mater olaf hwn y mae yr awdur yn ysgrifenu gyda'r gwylder sydd yn gweddu wrth ymdrin â phwnc mor dywyll. Ond amcan ac effaith y cwbl yw dyrchafu y Bibl; ac ychwanegu ein hyder yn noethineb a gwirionedd y Penllwydd mawr, "yr hwn a lefarodd â'i enau, ac felly a gwblhaodd â'i law.

Methodistiaid Cymru: sef Hanes cyfodiad, cynnydd, a llwyddiant Methodistiaid Calfinaidd Cymru; o ddechreuad y Cyfundeb hyd y flwyddyn 1850. Gau y Parch. JOHN HUGHES, Liverpool.—Y dosran cyntaf.

NID ydym o rifedi y rhai hyny sydd yn meddwl fod y Methodistiaid wedi gorphen pob peth oedl i'w waenthur byth yn Nglynau. Y mae mwy yn aros heb ei

wneuthur nag a wnaed eto tuag at godi y genedl mewn gwybodaeth; ac nid ydynt ychwaith wedi cyflawni yr hamer a ddylasant ac a allasant tuag at foesoli y wlad. Gwyddom y bydd awgrymiad o'r fath yma yn dramgwydd i lawer: ond hyn yw y gwirionedd, ac nis gallwn ei gelu. A'r hyn sydd yn waeth na'r cwbl yw, fod yr oes hon wedi cymeryd yn gauataol nad oes ganddynt ddim mwyach i'w gyflawni. Er na wnaeth yr hen Fethodistiaid y cwbl, eto yr oeddynt ymhellaach ymlaen mewn llawer ystyr nag ydym ni yn awr. Pe buasant yn myned ymlaen hyd heddyw fel yr aethant yn amser Mr. Charles, buasai yr holl wlad wedi ei llenwi o Fethodistiaid; ac nid hyny yn unig, ond yr hyn sydd o fwy pwys fil o weithiau yn ein golwg ni, buasai wedi ei llenwi i raddau llawer helaethach nag ydyw â gwybodaeth ac â rhinwedd.

Er hyny, nid ydym yn ammheu nad yw y Methodistiaid mewn rhai ystyriaethau wedi gwneyd mwy na neb arall yn Nghymru: ac y mae ei gweithrediadau yn bennod ddyddorol yn hanes Cristionogaeth. Esgeuluswyd eu hysgrifenu yn rhy hir; ac y mae llawer o ffeithiau hynod wedi dianc i dragywyddol anghof. Ond yn ffodus o'r diwedd, y mae y gorchwyl wedi syrthio i ddwyllaw un sydd yn alluog i wneyd cyflawnder â'r pwnc. Nid cofnodiaid noeth o ddygwyddiadau a geir yma yn unig, ond amlygiad cywir a goleu o achosion ac effeithiau mewn cysylltiad â'r diwygiad Methodistiaid. Hyderwn y bydd y darlleniad o hono yn foddion i gynnyrchu mwy o ysbryd llafurus, hunan-ymwadol, duwiolfrydig, ac ymroddgar yr hen Fethodistiaid.

*Gwaith Prydyddawl Edward Richard, o Ystradmeurig, yn Sir Aberteifi.**

NID ydym yn foddolawn i un rhifyn o'r "Traethodydd" fyned heibio heb ryw air o blaid addysg: ac fe allai mai y llwybr mwyaf effeithiol i ddwyn yr achos hwn at feddwl y darllenydd yw galw ei sylw at goffadwriaeth y rhai hyny a fuant yn llafurus i godi a chynnal ysgolion yn Nghymru. Un o honynt oedd Edward Richard. Trwy ei anturiaeth a'i ymroddiad ef yn benaf y sefydlwyd ysgol Ystradmeurig, yr hon a fu yn ffynonell dysgeidiaeth, nid i sir Aberteifi yn unig, ond i'r holl Dywysogaeth, ac i lawer rhan o Loegr. Ei ddysgybl ef oedd Dafydd Ionawr; ac nid ydym yn credu y camsyniem pe dywedem mai o Ystradmeurig y daeth rhai o'r offeiriaid goreu sydd yn Nghymru y dyddiau hyn, yn y Gogledd yn gystal a'r Deheudir. Sonir llawer am yr "oes oleuedig hon;" ond y mae lle i ofni mai nid lliosog iawn yw y rhai sydd yn debyg i Edward Richard. Pe ceid ugain, ie, pe ceid deg, yn meddu yr un ysbryd ag ef, byddai yn hawdd sylfaenu *Prif-ysgol i'r Cymry*, yr hyn a wna i fyw na nemawr ddim arall at godi y genedl.

Yr oedd Edward Richard hefyd yn brydydd rhagorol. Er nad oes llawer o awen wreiddiol yn ei gyfansoddiadau, y mae chwaeth ysgolheigaidd yn y cwbl. Nid anghofiwn yn fuan y pennill canlynol o'i ciddo:—

"Fy nydd sydd yn nyddu yn fanwl i fynu,
A'r nos sydd yn nesu, i roi'n isel fy mhen;
Ac un nid oes geny', er wlo ar oer wely,
Pan b'o im' glafychu, glyw f' ochain."

* O'r "TRAETHODYDD" am 1852.

The British Jews. By JOHN MILLS *

NID yw yr arferiad o roddi y ganmoliaeth eithaf i bob llyfr a ddaw dau sylw, yn ateb un dyben daionus. Yn lle codi y llyfr, y mae yn tueddu yn hytrach i greu gwrthdarwiad yn ei erbyn; ac yn fynych nid heb sail. Ond gobeithiwn fod y "Traethodydd" wedi bod ar y cyfan yn lled gymedrol a diduedd; ac na chyhuddir ni o ormodiaith, os dywedwn fod Mr. Mills wedi dangos ei hun yn fwy cydnabyddus âg arferion a defodau yr Iuddewon na neb a fu o'i flaen. Pe na buasai wedi gwneyd dim er pan anfonwyd ef i Lundain, ond cyfansoddi y llyfr hwn, ni fuasai yr anturiaeth yn ofer mewn un modd. Y mae yn achos llawenydd i'r Methodistiaid Calfinaidd fod ganddynt genadwr mor alluog yn llafurio yn mysg y genedl hono, o'r hon yr hanodd Crist yn ol y cawd. Nis gallasai wneuthur dim oedd yn fwy gwasanaethgar i ddybenion y genadaeth: oblegid y mae yn amlwg, oddiwrth gyhoeddiadau yr Iuddewon eu hunain, fod y llyfr hwn wedi agor y drws i'r awdwr gael mynedfa at feddyliau y genedl. Er mwyn y rhai hyn y o'r Cymry sydd mor dueddol i ddilyn y Seison, gallwn ychwanegu fod ein cydwladwr wedi derbyn cymeradwyaeth unfrydol oddiwrth nifer liosog o'r adolygiadau Seisnig.

Yr Amserau Presennol. Gan JOSHUA LEWIS, Henllan †

Y MAE Mr. Lewis yn un o'r gweinidogion parchusaf yn mysg yr Annibynwyr; yn un sydd yn meddu ar feddwl o'i eiddo ei hun, heb gymeryd ei ddenu o ffordd gwirionedd gan bob hudlewyn, na'i gylch-arwain gan bob awel dysgeidiaeth. Yn y traethawd hwn, yr hwn sydd yn cynnwys ei olygiadau ar beryglon ac ansawdd yr "Amserau Presennol," y mae yn dangos sylw treiddgar, teimlad crefyddol, a chwaeth goethedig. Yr ydym yn cydweled âg ef yn hollol, ei bod "o bwys neillduol i ni ddeall yr amserau presennol; amserau neillduol ydynt. Egwyddorion newydd a berthol ydynt yn ymweithio ac yn ymgynhyrfu yn ngwaelodion cymdeithas. Canfyddir arwyddion eglur ei bod mewn sefyllfa o ymgynfnewidiad. Bydd yr amserau dyfodol o gymeriad tra gwahanol i'r rhai presennol. Ein diogelwch a'n llwyddiant sy' mewn gwyliadwriaeth, gwaith, a gweddi."

Dechreuau Mr. Lewis ei bennod gyntaf gyda Gwladyddiaeth; ac anghymeradwya "y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn meddyliau llywodraethwyr y deyrnas mewn perthynas i ddyledswydd y llywodraeth tuag at addysg a moesau y werin." Y mae ei sylwadau ar hyn yn deilwng o ystyriaeth. Nis gellir amhennu nad yw ein seneddwyr yn efelychu llywodraethau y Cyfandir i raddau gormodol yn eu hymgais i gymeryd holl achosion y bobl i'w dwylaw eu hunain. Mae yn gofyn hunan-ymwadiad mawr cyn y gall dyn weithio yn ddystaw yn ei gylch ei hun; ond trwy ddwyn ei bwne ymlaen yn y senedd, mae yn codi ei hun i enwogrwydd, ac ar yr un pryd yn arbed ei logell. Pe bai ein llywodraethwyr yn rhoddi cynllun i'r wlad trwy weithio eu hunain yn fwy egnïol ar egwyddorion anhleiddgar, gwnaent y gwaith yn gynt ac yn well. Ond *pe bai* ydyw hyn; fel arall y mae. Ac yn awr, y gofyniad yw, Gan fod y llywodraeth yn mynu cyfranu arian at

* O'R TRAETHODYDD "am 1854. † Eto, am 1852.

gynnal addlysg, a yw yn ddyledswydd ar Ymneilldŵyr eu gwrthod? Yr ydym ni yn barnu nad ydyw. Buasem yn caru gweled syniadau Mr. Lewis ar y pwnc hwn. Y mae yma wahaniaeth hanfodol; ac nis gall un o'i gynneddau ef lai na'i ganfod.

Yn y lle nesaf, y mae Mr. Lewis yn sylwi ar Athroniaeth yr oes yn ei pherthynas â chrefydd. Nid yw ysgrifenywyr Cymru ond dechreu agor eu llygaid ar athroniaeth y meddwl. Mawr oedd ein syndod yn ddiweddar wrth weled Dr. Brown yn cael ei enwi a'i ddilyn mewn eylehgrawn Cymreig fel tywysog yr athronwyr. Ond y maq Mr. Lewis yn dangos ei fod yn gydnabyddus ag awdwyr penaf y Cyfaudir; ac y mae yn rhaid addef mai yno y cododd y meddyliau mwyaf grymus a gwreiddiol. Yr ydym yn foddllawn iddo dynu Cousin i lawr; oblegid nid ydyw ond dynwardwr digrefydd: ond prin y gallwn feddwl ei fod wedi gwneyd cyfiawnder â Kant, yr hwn a wnaeth fwy na neb i droi yn ol anffyddiaeth y ganrif ddiweddaf, ac i roddi cychwyn newydd mewn cyfeiriad mwy ysbrydol i'r meddwl dynol. Y mae cymaint o wahaniaeth rhyngddo ef a'i olynwyr yn Germani ag oedd rhwng Locke a'i olynwyr yn Lloegr.

Y perygl mwyaf sydd yn ein bwgth o Germani yw y dduwinyddiaeth a'r feirniadaeth ysgrythyrol sydd yn deilliaw oddiyno trwy gyfrwng y wasg Seisnig. Heb son dim am ysgrifeniadau anffyddwyr Germani, y rhai sydd yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn Llundain, nid yw y rhai goreu yn ddiberygl i ieuentyd Cymru. Cymerwn Neander, fel anghraifft. Dyn mawr a dyn da oedd Neander. Er hyny, y mae achos i ofni ei fod wedi effeithio yn ddrwg ar lawer yn Lloegr, ac y gwna felly ar rai ieuentyd meddylgar yn ein plith ninnau. Dylid cofio ei fod ef unwaith yn anffyddiwr trwyadl, a'i fod yn dyfod yn raddol yn fwy efengylaidd hyd y diwedd. Yr oedd efe wedi cefnu ar ei hen egwyddorion, ac yn cadw ei wyneb yn sefydlog at ryddid y gwirionedd: ond y mae y rhai a elont i'w gyfarfod o Gymru yn cefnu ar y gwirionedd, ac yn gwynebu ar dywyllwch anffyddiaeth.


Yn yr adran nesaf, yr ydym yn cael sylwadau addysgiadol ar Babyddiaeth; ac nid ymddangosant yn anamserol i'r rhai sydd yn gwybod ond ychydig am ystrywiau y Jesuitiaid. Ond i'n tyb ni, nid yw y Pusiaid un mymryn gwell, ac nid yw eu hystrywiau yn llai dichellgar. A'r hyn sydd yn eu gwneuthur yn fwy peryglus ydyw eu hundeb â'r Eglwys Sefydledig, yr hyn sydd yn rhoddi mantais iddynt ddylanwadu, nid yn unig ar foneddigion, ond hefyd ar y cyffredin a'r tlodion. Y mae cyfoeth y wlad yn eu dwylaw; ac y mae lliaws i'w cael eto, y rhai a werthent Grist ei hun am lai na deg ar hugain arian. Ac heblaw hyny, y mae toraeth o bobl anwybodus yn tybied, os gwelant weinidog yr Eglwys Sefydledig yn lled weithgar, fod yn rhaid iddo fod yn ddyn da; heb ystyried nad oes neb yn fwy gweithgar na'r Jesuitiaid. "Amgylchu y maent y môr a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi y gwneuler, y maent yn ei wneuthur ef yn fab uffern, yn ddau mwy na hwy eu hunain."


Rhwng y peryglon hyn oddiwrth Anffyddiaeth ar un llaw, ac oddiwrth Babyddiaeth yr Eglwys Sefydledig ar y llaw arall, onid yw yn bryd i Brotestaniaid efengylaidd Cymru ddyfod yn agos at eu gilydd? Oni fyddai yn hawdd iddynt gynnal un cyfarfod blynyddol i gydweddio, a chydymgynghori mewn perthynas i waith ac achos yr un Meistr? Gallent wneuthur lles dirfawr trwy gyhoeddi traethodau


a llyfrau buddiol, a thrwy sefydlu un ysgol gyffredinol i'r Cymry. Nid ydym yn myned i ddysgu ein brodyr. Yr oll a ancenir yw cynnyg y mater i'w hystyriaeth, gan adael iddynt hwy ffurfio cynlluniau a rheolau fel y gwelont yn addas. Ond cofier mai nid undeb er mwyn ymddaongsiad sydd yn cisieu, ac nid undeb vchwaith er mwyn siarad, ond *undeb i weithio*.

Nis gallwn gymaint a chrybwyll yr holl faterion yr ymdrinir â hwynt gan Mr. Lewis; ond dymunem gyfeirio yn benodol at ei sylwadau ar ddysgyblaeth. Nid oes dim yn fwy pwysig na phurdeb mewn dysgyblaeth eglwysig; a dylid dechreu yn ddioced gyda'r pregethwyr. Credwn fod pregethwyr yr Ymneillduwyr, at eu gilydd, yn deilwng o bob parch: ond y mae ychydig eithriadau; ac y mae yr ychydig hyn fel gwibed meirw yn gwneyd y weinidogaeth yn ffiائد a dirmygus. Y mae yn *rhy ddrwg* fod gweinidog, pan yn rhy anfoesol i'w oddef mewn un eglwys, yn cael derbyniad yn ebrwydd mewn rhan arall o'r Dywysogaeth. Y mae galwad uchel am i ryw rai sefyll rhwng y byw a'r meirw, fel y byddo i'r pla hwn gael ei attal. Ymddangosodd anerchiad grymus i'r perwyl hwn yn ddiweddar mewn rhai o gyhoeddiadau y Bedyddwyr, o waith Mr. W. Jones, Pwllheli, a byddai yn dda i bob Ymneilldŵr ei ddarllen. Gelynyion gwaethaf Cristionogaeth yw pregethwyr anfucheddol. Pa gymhwysderau bynag a fyddo ar ol mewn esgob, *y mae yn rhaid iddo fod yn ddiarjyhoedd*.

Derbynied Mr. Lewis ein diolchgarwch am ei draethawd. Gobeithiwn yr i ymlaen yn ei ymdrechion clodwiw i godi a choethi maldyliau ei gydwladwyr.







**PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET**

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

PN
519
W452E39
1867
C.1
ROBA

UTL AT DOWNSVIEW



D RANGE BAY SHLF POS ITEM C
39 10 18 25 09 008 8